UNIVERSITY OF TORONTO
3 1761 01483626 6

[illegible], M[illegible]

July 15, [illegible]



Y DIWEDDAR BARCH. EDWARD MORGAN.

# PREGETHAU

Y

DIWEDDAR

## BARCH. EDWARD MORGAN,

DYFFRYN.

*YR AIL GYFROL.*

DOLGELLAU:

D. H. JONES, ARGRAFFYDD A CHYHOEDDYDD.

MDCCCLXXXII.

LIBRARY
14 JUL 1976
UNIVERSITY OF TORONTO

*ENTERED AT STATIONERS' HALL.*

(The right of Translation reserved.)

# RHAGYMADRODD.

Y mae yn llawenydd mawr genyf fy mod yn gallu cyflwyno cyfrol arall o Bregethau fy anwyl gyfaill, y diweddar Barchedig Edward Morgan, i sylw fy nghyd-wladwyr, yn hollol obeithiol y bydd iddi gael, gan nifer mawr o honynt, y derbyniad mwyaf croesawgar. Y mae yr ymofyniadau a wnaed â mi ynghylch y gyfrol hon, gan liaws o weinidogion yr efengyl, mewn cysylltiad â phob rhan o'r eglwys Gristionogol, o wahanol siroedd Cymru, amryw barthau o Loegr, a rhai manau yn yr America, yn profi fod y gyfrol flaenorol wedi rhoddi boddhâd mawr iddynt ; ac yr ydwyf yn dra hyderus y bydd hon eto yn enill cymeradwyaeth gyffelyb. Y mae yn ymddangos i mi, yn sicr, yn haeddu hyny. Fe geir fod y pregethau a gynwysir ynddi yn arddangos yr un disglaerni meddwl, yr un bywiogrwydd dychymyg, yr un coethder chwaeth, yr un tynerwch teimlad, yr un ysbryd haelfrydig, yr un efengyleidd-dra athrawiaeth, yr un nerth hyawdledd, a'r un amcan amlwg i gydio yn y galon a'r gydwybod, ag sydd yn nodweddu y rhai a gawn yn y gyfrol flaenorol ; ac y mae rhai o honynt, os nad wyf yn camgymeryd, yn hytrach yn rhagori ar odid un o'r rhai a geir yn hono. Ond y mae y gyfrol yn awr yn nwylaw y darllenydd, ac efe a gaiff farnu drosto ei hunan.

Y mae y pregethau yn hon eto, fel yn y gyfrol flaenorol, wedi eu hargraffu braidd yn hollol fel y gadawyd hwynt gan yr awdwr, yn unig gyda'r cywiriadau angenrheidiol er eu parotoi i'r wasg. Mi a gymerais fy rhyddid yn achlysurol i gyflenwi, oddiar

fy adgof o'r bregeth fel y clywswn i hi, ambell hanesyn a ddefnyddid gan y pregethwr er eglurhau yr hyn a fyddai ganddo dan sylw, ond nad ydoedd wedi ei ysgrifenu ganddo ef, ac nad oedd ganddo, feallai, oddieithr rhyw un gair yn cyfeirio ato. Eithr ni bu angenrheidrwydd am hyny ond yn anfynych, gan ei fod, yn y cyffredin, yn ysgrifenu mor gyflawn a manwl. Ac erbyn ystyried y llafur mawr a gymerid ganddo mewn cylchoedd eraill, a bod ei iechyd am gynifer o flynyddoedd wedi bod mor anmharus, ac na chaniatawyd iddo oes faith, y mae yn syn genyf ei fod wedi gallu ysgrifenu cymaint. Y mae yn hawdd gweled na bu efe na segur na diffrwyth yn y gwaith mawr yr ymgymerasai âg ef, ac yr oedd ei holl enaid arno. Yr oedd yn gydwybodol i'w Arglwydd ; yn ymdeimlo yn wastadol â'i gyfrifoldeb iddo ; ac nid oedd unrhyw lafur yn ormod ganddo, er ymdrechu sicrhau amcan mawr ei weinidogaeth, fel y gallai roddi ei gyfrif i fyny yn llawen ac nid yn drist.

Y mae eto yn ngweddill ddefnyddiau cyfrol arall, mi a dybiwn, o Bregethau o'r un nodwedd a'r rhai sydd eisoes wedi eu cyhoeddi ; ond y mae yn dibynu ar y derbyniad a roddir i'r rhai hyn, pa un a gyhoeddir ychwaneg o honynt ai peidio. Byddai yn resyn mawr i'n cenedl fod hebddynt ; ond pa nifer a deimla felly sydd beth arall. Pa fodd bynag y mae y pregethwr, yn y cyfrolau hyn, er "wedi marw yn llefaru eto ;" ac yr ydwyf yn gobeithio y bydd ei leferydd ynddynt er bendith i filoedd o'm cydwladwyr, a hyny am genhedlaethau ac oesoedd lawer. Ac yn yr hyder hwnw, yr ydwyf yn dymuno eu cyflwyno i'w sylw a'u derbyniad.

OWEN THOMAS.

46, Catharine Street, Liverpool,
*Mehefin* 20, 1882.

# CYNWYSIAD.


PREGETH XXXVI.

YR UN BYW A'I LYWODRAETH.

DATGUDDIAD i. 17, 18;—"Nac ofna; myfi yw y cyntaf a'r diweddaf; a'r hwn wyf fyw, ac a fum farw; ac wele, byw ydwyf yn oes oesoesoedd, Amen; ac y mae genyf agoriadau uffern a marwolaeth."... 556

PREGETH XXXVII.

SICRWYDD LLWYDDIANT GEIRIAU DUW.

ESAIAH lv. 10, 11:—"Canys fel y disgyn y gwlaw a'r eira o'r nefoedd, ac ni ddychwel yno, eithr dyfrha'r ddaear, ac a wna iddi darddu a thyfu, fel y rhoddo had i'r hauwr, a bara i'r bwytawr: felly y bydd fy ngair, yr hwn a ddaw o'm genau: ni ddychwel ataf yn wâg; eithr efe a wna yr hyn a fynwyf, ac a lwydda yn y peth yr anfonais ef o'i blegid." ... 592

PREGETH XXXVIII.

Y FFIGYSBREN DDIFFRWYTH.

LUC xiii. 6—9:—"Ac efe a ddywedodd y ddammeg hon: Yr oedd gan un ffigysbren wedi ei blannu yn ei winllan; ac efe a ddaeth i geisio ffrwyth arno, ac nis cafodd. Yna efe a ddywedodd wrth y gwinllanydd, Wele, tair blynedd yr ydwyf yn dyfod, gan geisio ffrwyth ar y ffigysbren hwn; ac nid ydwyf yn cael *dim*: tór ef i lawr; paham y mae efe yn diffrwytho y tir. Ond efe gan atteb a ddywedodd wrtho, Arglwydd, gâd ef y flwyddyn hon hefyd, hyd oni ddarffo i mi gloddio o'i amgylch, a bwrw tail: ac os dwg efe ffrwyth, *da*: onid ê, gwedi hynny tòr ef i lawr." ... ... ... ... ... ... 608

PREGETH XXXIX.

DUW YN CRAFFU AR ANWIREDDAU.

SALM cxxx. 3:—"Os creffi ar anwireddau, Arglwydd, O Arglwydd, pwy a saif?" ... ... ... ... ... ... 621

PREGETH XL.

PARODRWYDD ERBYN DYFODIAD MAB Y DYN.

MATTHEW xxiv. 44:—"Am hyny byddwch chwithau barod: canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y dyn." ... ... ... 646

PREGETH XLI.

GORUCHWYLIAETHAU DUW, AC YMDDYGIADAU DYN.

MATTHEW xi. 18, 19:—"Canys daeth Ioan heb na bwyta nac yfed; ac meddant, Y mae cythraul ganddo. Daeth Mab y dyn yn bwytta ac yn yfed; ac meddant, Wele ddyn glwth, ac yfwr gwin; cyfaill publicanod a phechaduriaid. A doethineb a gyfiawnhawyd gan ei phlant ei hun." 665

PREGETH XLII.

PWYSFAWRAWGRWYDD CADWEDIGAETH.

ACTAU xvi. 30 :—"O feistriaid, beth sydd raid i mi ei wneuthur, fel y byddwyf cadwedig?" ... ... ... ... ... 675

PREGETH XLIII,

PECHOD YN GAM A'R ENAID.

DIARHEBION viii. 36 :—"Ond y neb a becho yn fy erbyn, a wna gam â'i enaid ei hun ; fy holl gasëion a garant angau " ... ... 695

PREGETH XLIV.

DATGUDDIAD Y GYFRAITH A DATGUDDIAD LLYGAID.

SALM cxix. 18 :—"Datguddia fy llygaid, fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di" ... ... ... ... ... 713

PREGETH XLV.

OFNWN, GAN FOD ADDEWID.

HEBREAID iv. 1 :—"Ofnwn gan hyny, gan fod addewid wedi ei gadael i ni fyned i mewn i'w orphwysfa ef, rhag bod neb o honoch yn debyg i fod yn ol." ... ... ... ... ... ... 733

PREGETH XLVI.

CYNAL GAIR Y BYWYD.

PHILIPIAID ii. 16 :—"Yn cynnal gair y bywyd." ... ... .. 753

PREGETH XLVII.

GWRTHOD CARIAD Y GWIRIONEDD YN DWYN AMRYFUSEDD CADARN.

THESSALONIAID ii. 10, 11 :—"Am na dderbyniasant gariad y gwirionedd, fel y byddent gadwedig. Ac am hyny y denfyn Duw iddynt hwy amryfusedd cadarn, fel y credont gelwydd." ... ... ... 769

PREGETH XLVIII.

ATDYNIAD Y GROES.

IOAN xii. 32 :—"A minau, os dyrchefir fi oddiar y ddaear, a dynaf bawb ataf fy hun." ... ... ... ... ... ... 790

PREGETH XLIX.

RHAGLUNIAETH DDWYFOL YN UNIAWN ER YN DYWYLL.

SALM xcvii. 1, 2 :—"Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu; gorfoledded y ddaear : llawenyched ynysoedd lawer Cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef : cyfiawnder a barn yw trigfa ei orseddfainc ef." 810

PREGETH L.

GWERTH AMSER A'R PWYS O'I BRYNU.

EPHESIAID v. 16 :—"Gan brynu yr amser, oblegid y dyddiau sy ddrwg."... 833

## PREGETH LI.

CYFERBYNU TREFN DYN A THREFN DUW I FOD YN GADWEDIG.

2 BRENHINOEDD v. 9—12 :—"Yna Naaman a ddaeth â'i feirch ac â'i gerbydau, ac a safodd wrth ddrws tŷ Eliseus. Ac Eliseus a anfonodd atto ef gennad, gan ddywedyd, Dos ac ymolch saith waith yn yr Iorddonen; a'th gnawd a ddychwel i ti, a thithau a lanhêir. Ond Naaman a ddigiodd, ac a aeth ymaith; ac a ddywedodd, Wele, mi a feddyliais ynof fy hun, gan ddyfod y deuai efe allan, ac y safai efe, ac y galwai ar enw yr Arglwydd ei Dduw, ac y gosodai ei law ar y fan, ac yr iachâi y gwahanglwyfus. Onid gwell Abana a Pharpar, afonydd Damascus, na holl ddyfroedd Israel? oni allaf ymolchi ynddynt hwy, ac ymlanhau? Felly efe a drodd, ac a aeth ymaith mewn digter." ... ... 847

## PREGETH LII.

SICRWYDD CADWEDIGAETH ER EI HANHAWSDERAU.

ESAIAH xlix. 24, 25 :—"A ddygir y caffaeliad oddiar y cadarn? neu a waredir y rhai a garcherir yn gyfiawn? Ond fel hyn y dywed yr Arglwydd, ïe, carcharorion y cadarn a ddygir, ac anrhaith y creulawn a ddianc: canys myfi a ymrysonaf â'th ymrysonydd, a myfi a achubaf dy feibion." 865

## PREGETH LIII.

DIDOLEDIG ODDIWRTH BECHADURIAID.

HEBREAID vii. 26 :—"Didoledig oddiwrth bechaduriaid." ... ... 887

## PREGETH LIV.

AGOSRWYDD AT DEYRNAS DDUW.

MARC xii. 34 :—"Nid wyt ti bell oddiwrth deyrnas Dduw." ... ... 900

## PREGETH LV.

TEYRNAS DDUW YN AGOS.

LUC x. 9 :—"Daeth teyrnas Dduw yn agos atoch." ... ... 919

## PREGETH LVI.

YMAFLYD MEWN BYWYD TRAGYWYDDOL.

1 TIMOTHEUS v. 12 :—"Cymer afael ar y bywyd tragywyddol." ... 938

## PREGETH LVII.

YR ARGLWYDD YN FUGAIL.

SALM xxiii. 1 :—"Yr Arglwydd yw fy Mugail, ni bydd eisiau arnaf." ... 950

## PREGETH LVIII.

LLWYDDIANT TRWY YR YSBRYD.

ZECHARIAH iv. 16 :—"Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, ond trwy fy Ysbryd medd Arglwydd y lluoedd" ... ... ... ... 971

## PREGETH LIX.

GALLU A GRAS YN SICRHAU CADWEDIGAETH.

SEPHANIAH iii. 17 :—"Yr Arglwydd dy Dduw yn dy ganol di sydd gadarn: efe a achub, efe a lawenycha o'th blegid gan lawenydd; efe a lonydda yn ei gariad, efe a ymddigrifa ynot dan ganu." ... ... 983

PREGETH LX.

YR ISRAELIAD YN WIR.

IOAN i. 47 :—"Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll." ... 995

PREGETH LXI.

IESU GRIST YR UN.

HEBREAID xiii. 8 :—"Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd." 1013

PREGETH LXII.

PERSON CRIST YN DDIOGELWCH RHAG PYRTH UFFERN.

MATTHEW xvi. 18 :—"Ac yr ydwyf finau yn dywedyd i ti, mai ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys ; a phyrth uffern nis gorchfygant hi." ... ... ... ... ... ... 1034

PREGETH LXIII.

EFENGYL I'R TLODION.

MATTHEW xi. 5 :—"A'r tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt." ... 1045

PREGETH LXIV.

Y MWYNDER YN YMADO.

HOSEA vi. 4 :—"Beth a wnaf i ti, Ephraim ? beth a wnaf i ti, Judah ? eich mwynder sydd yn ymado fel cwmwl y boreu, ac fel gwlith boreuol."... 1059

PREGETH LXV.

AMYNEDD YN IACHAWDWRIAETH.

2 PEDR iii. 15 :—"A chyfrifwch hir-amynedd ein Harglwydd yn iachawdwriaeth." ... ... ... ... ... 1071

PREGETH LXVI.

CRIST YN ESAMPL I NI.

1 PEDR ii. 21 :—"Crist yntau a ddioddefodd drosom ni, gan adael i ni esampl, fel y canlynem ei ol ef." ... ... ... ... 1085

PREGETH LXVII.

CYFRAITH Y LLOFRUDD.

DEUTERONOMIUM xix. 4 :—"Dyma gyfraith y llofrudd, yr hwn a ffŷ yno i fyw." ... ... ... ... ... ... 1103

PREGETH LXVIII.

YR IAWN A PHECHOD.

1 IOAN ii. 1, 2 :—"Fy mhlant bychain, y pethau hyn yr wyf yn eu hysgrifenu atoch, fel na phechoch. Ac o phecha neb, y mae i ni Eiriolwr gyda'r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn : ac efe yw'r iawn dros ein pechodau ni : ac nid dros yr eiddom ni yn unig eithr dros bechodau yr holl fyd." 1114

PREGETH LXIX.

Y LLWYNOGOD BYCHAIN.

CANIAD SOLOMON ii. 15 :—"Deliwch i ni y llwynogod, y llwynogod bychain, y rhai a ddifwynant y gwinllanoedd : canys y mae i'n gwinllanoedd egin grawnwin." ... ... ... ... ... 1126

# PREGETH XXXVI.

## YR UN BYW A'I LYWODRAETH.

DATGUDDIAD i. 17, 18.—"Nac ofna; myfi yw y cyntaf a'r diweddaf; a'r hwn wyf fyw, ac a fum farw; ac wele, byw ydwyf yn oes oesoedd, Amen; ac y mae genyf agoriadau uffern a marwolaeth."

YR un un ydyw Ioan y Duwinydd ag Ioan yr Efengylwr, ac y mae mesur o'r un ddelw i'w gweled yn y ddau lyfr a ysgrifenwyd ganddo. Y mae perthynas gyffelyb rhyngddynt i'r berthynas sy rhwng efengyl Luc ac Actau yr Apostolion: yn yr efengyl yr oedd Luc yn rhoddi hanes Sylfaenydd Cristionogaeth, ac yn yr Actau hanes sylfaeniad Cristionogaeth. Felly y mae Ioan yn ei efengyl yn rhoddi hanes Pen yr eglwys, ac yn y llyfr hwn yn rhoddi golwg brophwydoliaethol ar yr eglwys ei hunan hyd ddiwedd amser. Y mae yn y ddau lyfr lawer o ddarluniadau o'r Arglwydd Iesu; ond y mae y gwahaniaeth hwn rhyngddynt:—Yn yr efengyl y mae y wedd ddynol, er nad heb y ddwyfol, yn cael ei dwyn i amlygrwydd mawr. Ioan sydd yn crybwyll am ei bresenoldeb yn y briodas,—am y serch a amlygodd at y ddwy chwaer a'u brawd,—ac am y gofal a amlygodd at ei fam. Ond yn y llyfr hwn, mawredd y Duw anfeidrol sydd yn dyfod i'r golwg amlaf, os nad ymron yn gwbl. Wrth ddarllen yr efengyl gellir dywedyd, bron bob cam, "Wele y dyn;" ond wrth ddarllen y llyfr hwn, y mae yn rhy anhawdd peidio a dywedyd yn barhaus, Wele, y Duw anfeidrol! Yr amcanion oeddent mewn golwg yn ysgrifeniad y ddau lyfr sydd yn rhoddi y rheswm am y gwahaniaeth hwn. Un o amcanion mawr ysgrifeniad yr efengyl oedd gwrthwynebu heresi y Gnosticiaid. Un rhan o hono oedd, gwadu nad oedd Iesu Grist yn Dduw gogyfuwch â'r Tad; a'r rhan arall ydoedd,

gwadu nad ydoedd yn ddyn ond mewn ymddangosiad yn unig. Y mae yr efengylwr, gan hyny, yn profi y naill a'r llall, ac yn profi y cyntaf trwy ddangos ei fod wedi cyflawni gweithredoedd dwyfol; ei fod yn y dechreuad gydâ Duw; a'i fod mewn gwirionedd yn wir a thragywyddol Dduw. Y mae hefyd yn profi yr ail, sef ei fod yn ddyn gwirioneddol,—trwy ddangos ei fod yn gydnabyddus â holl deimladau y ddynoliaeth; ei fod yn llawenhau gyda'r rhai oeddent yn llawen, ac yn wylo gyda'r rhai oeddent yn wylo; yn rhoddi ei bresenoldeb yn y briodas, ac yn y claddedigaeth; ei fod yn gyfaill cywir, ac yn fab gofalus; yn ymweled â'i gyfeillion yn Bethania yn eu profedigaeth, ac yn gofalu am ei fam yn ei oriau olaf. Rhaid ei fod yn Dduw, oherwydd trwyddo Ef y gwnaethpwyd pob peth; a rhaid ei fod yn Dduw wedi ymddangos yn y cnawd, oherwydd yr oedd ymhob peth yn gyffelyb i ninau.

Un o ddibenion y llyfr hwn oedd dangos sicrwydd llwyddiant teyrnas Iesu Grist yn y byd, ynghyd â'r gwrthwynebiadau a fyddent ar ffordd hyny. Am hyny, i roddi sail i'r eglwys gredu y llwyddiant, er gweled y rhwystrau, darlunir Iesu Grist yma nid yn ddyn, ond yn Arglwydd Dduw Hollalluog,—yn ofnadwy yn ei holl amgylchoedd. Yn yr efengyl, y mae tynerwch y dyn Crist Iesu yn tynu ein sylw yn barhaus, hyd yn nod pan y mae ei ogoniant fel Duw yn y golwg. Ond yma nid oes nemawr o hyny, eithr y mae yr amlygiadau o'i Dduwdod sydd yn y llyfr hwn yn effeithio yn dra gwahanol arnom i'r hyn y mae yr amlygiadau sydd yn yr efengyl yn effeithio arnom. Wrth edrych arnynt yno, rhyfeddu ac addoli yr ydym; ond wrth edrych arnynt yma, ofni ac ymguddio yr ydym. Y mae yn rhy anhawdd edrych ar y môr, ar ddiwrnod tawel, heb i'r meddwl synu wrth yr olygfa fawreddus; ond pan y bydd wedi ei gynhyrfu gan yr ystorm, y mae yr olwg arno, y pryd hyny, yn ofnadwy, ac yn tueddu i lanw y meddwl â braw. Yr oedd Ioan yn gallu addoli wrth edrych ar ogoniant Duw mewn cnawd yn yr efengyl; ond y mae yn syrthio i lawr fel un marw wrth ei draed pan ddaeth i'r golwg yma. Yr oedd y naill olwg yn peri iddo ryfeddu, ond yr oedd y llall yn peri iddo lewygu gan ofn.

Yn yr adnodau blaenorol, y mae Ioan yn darlunio yr olwg a

gafodd ar yr Arglwydd Iesu, yr hon olwg a effeithiodd gymaint arno; ac yn y testyn, y mae Iesu Grist yn rhoddi disgrifiad o hono ei Hunan i'w was. Os oedd yr olwg a gafodd Ioan wedi ei lenwi â braw, y mae y darluniad y mae yr Arglwydd Iesu yn ei roddi o hono ei hun wedi ei fwriadu i dawelu ei feddwl: "Nac ofna; myfi yw y cyntaf a'r diweddaf; a'r hwn wyf fyw, ac a fum farw; ac wele byw ydwyf yn oes oesoedd." Yr oedd bod Ioan yn ofni yn brawf nad ydoedd wedi ei berffeithio; oblegid fel y mae perffaith gariad yn bwrw allan ofn, felly y mae delw Duw yn gyflawn ar yr enaid yn peri na bydd ei weled yn cynyrchu ofn. Y mae y rhai pur o galon yn medru dal yr olwg arno. Gall y saint yn y dydd diweddaf, ddywedyd, "Dacw ein Duw ni," pan y bydd yr un olygfa yn peri i gedyrn annuwioldeb lewygu gan ofn. Yr oedd Ioan wedi gweled ei Arglwydd yn ei weddnewidiad, ac yn ei esgyniad hefyd; ond yr oedd yr ymddangosiad hwn yn dra gwahanol i bob un o'i flaen; eithr os oedd y Person mawr wedi cyfnewid yn ei ymddangosiad, y mae ei eiriau yn dangos nad ydoedd wedi newid dim yn ei deimlad ragor pan ydoedd yma yn nyddiau ei gnawd. Os oedd ei ymddangosiad yn dangos ei fod wedi cael y gogoniant oedd iddo gydâ'r Tad, cyn bod y byd; y mae ei eiriau yn dangos fod yr un tynerwch yn ei galon a phan yn wylo ar ol Lazarus.

Ond i alw eich sylw at y testyn:—"Nac ofna; myfi yw y cyntaf a'r diweddaf; a'r hwn wyf fyw, ac a fum farw: ac wele byw ydwyf yn oes oesoedd." Enwau neu ddarluniadau y mae yr Arglwydd Iesu yn eu rhoddi o hono ei hun ydyw y pethau hyn. Y mae holl enwau y Beibl yn ddarluniad i ryw fesur o'r neb neu y peth fydd yn cael ei enwi; ac heb sôn ond am un dosbarth o'r enwau hyn, sef y rhai y mae yr Arglwydd yn eu defnyddio arno ei Hun i'w bobl. I ddeall ychydig o ystyr yr enwau hyn, nid oes dim yn angenrheidiol ond gwybod am amgylchiadau y bobl ar y pryd, oherwydd yr amgylchiadau sydd yn achlysuro cyhoeddiad yr enw; ac y maent felly yn esboniad arno. Pan oedd Abraham yn ofni rhag i fân frenhinoedd Canaan ymosod arno, "Myfi," meddai yr Arglwydd wrtho, "yw Duw Hollalluog." Yr oedd amgylchiadau y patriarch ar y pryd yn egluro yr enw. Pan anfonodd yr

Arglwydd Moses i waredu cenedl o gaethion, oedd mewn angen o bob peth, "Ydwyf" oedd yr enw a roddodd arno ei Hun, enw a esbonir yn well gan yr amgylchiadau na dim arall. Maint ac amrywiaeth yr angen oedd yn egluro cyfoeth yr enw. Felly y mae yr enwau a roddir yn y testyn gan Fab Duw arno ei Hun, yn cyfateb i amgylchiadau ei was Ioan, a'r eglwys, ar y pryd hwn; ac yn y cyfarchiadau sydd yn nechreu y gwahanol lythyrau at saith eglwys Asia, ni a gawn naill ai y darluniad sydd o'r ymddangosiad yn yr adnodau blaenorol, neu ynte y desgrifiad a roddir yn y testyn o'r Person mawr, yn cael ei ddefnyddio. Y mae yn cyfarch eglwys Ephesus fel "yr Hwn oedd yn dal y saith seren yn ei law ddeheu." Y mae yn cyfarch eglwys Pergamus fel "yr Hwn yr oedd ganddo y cleddyf llym daufiniog." Y mae yn cyfarch eglwys Thyatira fel "yr Hwn oedd a'i lygaid fel y fflam dân." Y mae yr holl bethau hyn yn cyfeirio at ei ymddangosiad i Ioan; ond y mae yn cyfarch eglwys Smyrna fel "y cyntaf a'r diweddaf," ac eglwys Philadelphia, fel "yr Hwn yr oedd ganddo agoriad Dafydd." Y mae yn y cyfarchiadau yna gyfeiriad at y darluniad a rydd o hono ei Hun yn y testyn. Oddiwrth y pethau hyn ni a welwn, fod amgylchiadau yr eglwys ar y pryd yna yn agoriad i ni ddeall yr enwau yma ar Fab Duw.

Yr oedd yr amser hwn yn amser o erledigaeth ar yr eglwys, ac hefyd yn amser o gryn ddirywiad; am hyny, yr oedd dau ddiben mawr i gael eu hateb drwy y llythyrau hyn, sef eu hadferyd o'u dirywiad, a chynal meddyliau y saint i oddef erledigaeth. Ac y mae hyny yn beth i ni sylwi arno, mai rhyw gymaint o'r ymddangosiad *ofnadwy*, a welodd Ioan, sydd yn y cyfarchiad at bob un o'r eglwysi sydd wedi dirywio, a myned yn llygredig, megis Ephesus, Pergamus, a Thyatira. Yr oedd galwad ar bob un o'r rhai yna i edifarhau oherwydd eu pechodau; tra yr ydoedd y ddwy eglwys y mae desgrifiad y testyn yn cael ei ddefnyddio yn y cyfarchiad atynt, yn rhai nad oes dim yn cael ei roddi yn eu herbyn, sef Smyrna a Philadelphia: felly, cynal eu meddyliau hwy i ddioddef oedd diben ysgrifenu yr epistol atynt. Yr oedd eisiau argyhoeddi Thyatira; am hyny yr oedd yr Hwn oedd yn anfon gair ati yn cael ei ddarlunio yn "Fab Duw," "â'i lygaid fel fflam dân, a'i draed

yn debyg i brês coeth." Yr oedd eisiau cynyrchu braw yn mynwes Pergamus; am hyny "yr Hwn sydd ganddo y cleddyf llym daufiniog" oedd yn anfon ati hi. Ond nid oedd dim i'w roddi yn erbyn Smyrna; yr oedd ei chystudd, a'i thlodi, a'i charchar, yn tueddu i'w digaloni; am hyny, "y cyntaf a'r diweddaf, yr hwn a fu farw, ac sydd fyw," oedd yn anfon ati hi. Yr oedd Philadelphia wedi dal profedigaethau mawrion eisoes, ac wedi cadw gair yr amynedd ynddynt oll. Yr oedd drws agored o'i blaen yn awr, a llawer o waith iddi hithau wneuthur. Nid oedd ganddi, oherwydd ei hymdrechiadau blaenorol, nemawr nerth; am hyny, "yr hwn sydd ganddo agoriad Dafydd," "yr Hwn y mae ganddo agoriadau uffern a marwolaeth," sef â llywodraeth pob peth, a phob byd, yn ei law, oedd yn anfon gair ati hi, i'w sicrhau y cadwai Efe hi oddiwrth awr y brofedigaeth. Y mae yn eglur, chwi a welwch, oddiwrth amgylchiadau y ddwy eglwys yna fod yr enwau hyn wedi eu bwriadu i'w cysuro hwy. Yr oedd Ioan yn awr ei hunan yn dra chyffelyb o ran ei amgylchiadau iddynt hwy. Y mae yn debyg i'r testyn gael ei lefaru wrtho i'w gysuro ef, ac wrth yr eglwysi yna drwyddo i'r un diben, ac edrych arno yn y goleuni yna a rydd agoriad i ni i'w ystyr.

I. Edrychwn arno yn ei berthynas â'r eglwys, fel diddanwch iddi yn ei holl brofedigaethau.

II. Edrychwn arno fel amlygiad o fawredd yr Arglwydd Iesu.

I. Yn ei berthynas â'r eglwys. Y mae yr enw cyntaf, sef "Cyntaf a Diweddaf," yn rhoddi sicrwydd cyffredinol iddi o oruchafiaeth ar ei holl elynion. Y mae yr ail, sef "Yr Hwn wyf fyw, ac a fum farw," yn rhoddi prawf pellach o'r un peth, ynghyd âg amlygiad o gydymdeimlad ei Phen â hi yn ei holl drallodion. Y mae y trydydd, sef "y mae genyf agoriadau uffern a marwolaeth," yn gasgliad oddiwrth y ddau enw blaenorol, i gadw ei meddwl mewn tangnefedd heddychol, pa fodd bynag y byddai.

1. "Y cyntaf a'r diweddaf." Y mae yn hwn sicrwydd cyffredinol o oruchafiaeth. Enw ydyw ar ryw olwg â phob peth ynddo. Yr oedd yr enw y gorchymynwyd i Moses ei ddefnyddio yn ei fynediad cyntaf at Israel, yn cynwys pob peth,

sef "Ydwyf," a pha enw ond hwnw a fuasai yn cyfateb i amgylchiadau cenedl oedd ar y pryd yn ddim, ac yn llai na dim; —heb allu, heb ddoethineb, heb noddwyr, heb gyfoeth, heb ddim. Ond yn wyneb hyny yr oedd Moses i ddywedyd, "YDWYF a'm hanfonodd atoch." Dyna lonaid y gwagle yn ddigoll, oblegid dyna allu, dyna ddoethineb, dyna gyfoeth, dyna bob peth. Fe wnaeth yr Arglwydd lawer enw o'r "YDWYF" ar ol hyn, oblegid y mae ynddo ddefnydd pob enw y mae amgylchiadau dyn yn galw am dano. Yn wyneb trueni yr oedd yn ysgrifenu "trugarog" ar ei ol:—"Ydwyf drugarog." Yn wyneb bai, yr oedd yn ysgrifenu "maddeugar:"—"YDWYF faddeugar." Yr oedd y genedl yn cychwyn i daith, ac i wlad ddieithr; ond yr oedd "YDWYF" yn ddigon iddynt, o'r Aipht i Ganaan, ac yn Nghanaan hefyd. Y mae rhywbeth yn yr enw "Cyntaf a Diweddaf" yn gyffelyb. Yr oedd yn yr enw sicrwydd gwaredigaeth i'r eglwys o'i holl brofedigaethau. Esboniad ar yr enw, i gyfateb i'n dull ni o feddwl ydyw yr ymadrodd hwnw sydd yn y benod:—"Yr Hwn sydd, a'r Hwn oedd, a'r Hwn sydd i ddyfod." Felly y byddwn ni yn arfer meddwl am fod, sef fel wedi bod, yn bod, neu i fod; ond i'r Hwn yn unig sy ganddo anfarwoldeb, nid oes yn briodol, nac oedd, nac i ddyfod, yn perthyn; eithr "YDWYF" sydd yn briodol iddo Ef, o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb. Nid "Efe *ydoedd* y cyntaf, ac Efe a *fydd* y diweddaf;" ond "Myfi yw y cyntaf, a myfi yw y diweddaf;"—yr ydwyf felly yn awr. A llefaru yn iaith y ddaear:—"Bu amser pryd nad oedd ond myfi;—yr oeddwn yn bod yn gyntaf, cyn pob peth: fy ewyllys a'm gair a roddodd fôd i bob peth. Y mae y myrddiynau creaduriaid sy mewn bod yn waith fy llaw i. Y mae llawer o honynt wedi codi eu llaw yn fy erbyn; ac yr ydych chwi, fy mhlant, yn ofni rhag i'm gelynion hyn fy ngorchfygu yn fy achos; ond myfi ydyw y diweddaf;—yr ydwyf yn Oruchaf mor wirioneddol yn awr a phan oeddwn yn gyntaf, heb neb na dim mewn bod ond Myfi. Yr oeddwn i fel haul yn goleuo yr holl ffurfafen, cyn i'r niwl a'r tarth sydd yn eich dyrysu chwi gael bod: Myfi yw y cyntaf. Y mae y niwl a'r tarth sydd wedi gorchuddio y ffurfafen yn awr, yn peri i chwi ameu a ydwyf fi yn y ffurfafen o gwbl; ond nid yw yn effeithio dim arnaf fi. Fe'u difodir gan fy ngwres i

bob yn ychydig, a bydd y ffurfafen mor glir, heb fod yn hir, ag yr oedd hi yn y dechreu: Myfi yw y diweddaf. Nid yn unig yr wyf fi yn cofio adeg pryd nad oedd dim o'r pethau hyn mewn bod; ac nid, yr wyf yn disgwyl y gwelaf adeg pan y bydd y cwbl wedi eu darostwng; ond yr wyf fi yn y ddau le yn awr: "Myfi yw y cyntaf a'r diweddaf."

2. Y mae yr ail enw yn rhoddi prawf pellach o'r un gwirionedd:—"yr Hwn wyf fyw, ac a fum farw; ac wele byw ydwyf yn oes oesoedd." "Yr Hwn wyf fyw," neu, yr "Un byw." Y mae yr "Un byw," yn y fan hon, yn cynwys, nid bod yn unig,—yr oedd hyny yn yr enw cyntaf;—ac nid un yn meddu bywyd yn unig,—y mae hyny yn gynwysedig yn "Y cyntaf a'r diweddaf;" ond y mae hwn yn cynwys Rhoddydd bywyd, Cyfranydd bywyd, Ffynhonell bywyd; yr Hwn sydd yn bywhau; yr "Un byw." Ac fel prawf o nerth tarddiad y ffynon, fe ddywed, "Mi a fum farw;" ond yr oedd nerth bywyd annherfynol mor gryf ynof, mi godais o waelod y bedd; gan hyny, nid oes berygl i ddim gymeryd fy mywyd oddiarnaf,—"Wele, byw ydwyf yn oes oesoedd." Bellach, pa sicrwydd mwy a ellid ei roddi o fywyd iddynt hwy na thystiolaeth yr Hwn yr oedd "ganddo fywyd ynddo ei Hun." Nid oedd cysgod o sail i ameu hyny, oblegid yr oedd yn gallu dywedyd hyn wedi bod yn y prawf,—"Mi a fum farw." Ac nid profi fy mod yn proffesu fy Hun yn rhywbeth amgen nag oeddwn, wrth ddywedyd mai yr Un byw oeddwn, a wnaeth angau, ond dangos gwirionedd y broffes, oblegid, "Wele, byw ydwyf yn oes oesoedd." Mi a fum byw er gwaethaf angau; a chan i mi fy ngwaredu fy Hun, mi a allaf eich gwaredu chwithau.

Neu, i egluro pa fodd yr oedd ei fod Ef yr Un byw yn gysur iddynt hwy, fe ddywed, "*Mi a fum farw;*" ac fe ddengys hyny pa fodd y gellwch chwi ymgysuro wrth glywed fy mod i yn Un byw; oblegid mi a agorais, drwy farw, ffordd i'r bywyd oedd ynof fi i redeg i chwithau hefyd. Bellach, y mae i mi ddywedyd, "Byw wyf fi," yr un peth a phe dywedwn, "Byw fyddwch chwithau hefyd." Y mae y naill fywyd mor ddiogel a'r llall: mewn gwirionedd, un ydynt. Chwi a welwch mai nid siarad ar antur yr wyf wrth sicrhau eich diogelwch; gellwch fentro ymddiried yn fy nhynerwch, — mi fedraf gydymdeimlo â chwi:

gellwch fentro ymddiried yn fy ngallu,—mi a fedraf eich gwaredu. "Mi a fum farw."

3. "Y mae genyf agoriadau uffern a marwolaeth." Gellir edrych ar hyn fel casgliad oddiwrth yr hyn a ddywedwyd eisoes Nid yn unig ni orchfygir mo honof ganddynt, ond y maent oll dan fy llywodraeth i. Y mae y farwolaeth gyntaf a'r ail o dan fy awdurdod; am hyny, os cynydda yr erledigaeth i'r fath raddau, fel y cewch eich bwrw i angau, nac ofnwch;—ni fydd hyny ddim hebof fi: yn fy llaw i y mae agoriadau marwolaeth; a byddwch mor llwyr o dan fy llywodraeth i yr ochr draw, oblegid "y mae genyf agoriadau uffern;" neu, fel y mae Howe ac eraill yn deall y gair *hades*, a gyfieithir yma "uffern," am y byd anweledig, y byd dieithr sydd yr ochr draw i angau. Y mae yr ymadrodd, "Y mae genyf agoriadau uffern," yn gyfystyr a phe dywedasai, "Y mae genyf lywodraeth ar y byd anweledig, ac hefyd ar y porth sydd yn arwain iddi." Y mae eraill yn ceisio dangos nad ydyw *hades* yn cael ei ddefnyddio yn y Testament Newydd, ac yn enwedig yn y llyfr hwn, ond am uffern, sef cartref y colledigion. Os felly, onid ydyw yn gysur nid bychan i'r saint wybod fod hòno o dan lywodraeth eu Gwaredwr, fel nad all neb fyned yno heb iddo iddo Ef agoryd y drws. Y mae y meddwl hwn i'r eglwys, fel y golofn hono gynt, oedd yn oleuni i Israel, ond yn dywyllwch i'r Aiphtiaid. Paham yr ofna cyfeillion hwn? onid yn ei law y mae agoriadau angau ac uffern? a phaham nad ofna ei elynion? oblegid y mae agoriadau y carchar yn ei law bob moment;—gall roddi tro yn yr agoriad y pryd y myno, nes y bydd y gelynion, trwy y farwolaeth gyntaf, yn ngafael yr ail. Ar y *trap-door* y maent yn ymfawrygu yn ei erbyn;—y mae uffern yn ymgynhyrfu odditanynt;—a dim ond rhoddi un tro yn yr agoriad, byddant ynddi ar unwaith. Erbyn hyn, chwi a welwch mai nid heb sail y dywedodd wrth ei was, ac wrth ei eglwys drwyddo ymhob oes, "Nac ofna; myfi yw y cyntaf a'r diweddaf."

II. Ni a drown, gydâg Ioan i edrych ar y weledigaeth; a gallwn ofyn yn yr olwg arni, "Pa faint oedd hwn?"

1. "Y cyntaf a'r diweddaf." Y mae yr enw hwn yn ein gwahodd i edrych arno fel Bôd perffaith; y cylch yn grwn heb fwlch,—a Bôd ar wahân oddiwrth bob bôd arall. *Y cyntaf.*

Nis gallwn sylwi ar greadur ond mewn cysylltiad â lle, ac â rhywbeth y tuallan iddo ef ei hun. Os priodolir mawredd ac urddas iddo, rhywbeth a fydd hwnw yn tarddu o'r berthynas sy rhyngddo â'r pethau sydd o'i amgylch. Os gelwir ef yn frenin, y mae hyny yn cynwys fod teyrnas yn bod, onide ni buasai yn frenin. Os priodolir parch meistr, ac anrhydedd tad iddo, y mae hyny yn cynwys fod gweision a phlant mewn bod. Neu os priodolir gwybodaeth a medrusrwydd iddo, y mae hyny yn cynwys fod rhyw bethau mewn bod, iddo i'w gwybod, ac amlygu ei fedr arnynt. Mewn gair, nis gellir meddwl am fawredd mewn creadur, ond fel peth yn tarddu o'i gysylltiad â phethau y tuallan iddo ef ei hun. Y mae y Bibl yn priodoli mawredd cyffelyb i'r Arglwydd Iesu: darlunir yntau fel Brenin mawr. Y mae hyny yn cynwys bod teyrnas ganddo. Fel Creawdwr a Gwneuthurwr pob peth, y mae hyny yn cynwys bod rhyw bethau wedi eu creu, a rhyw bethau wedi eu gwneuthur. Fel Duw gwybodaeth, y mae hyny yn cynwys bod rhyw bethau iddo i'w gwybod. Mawredd ydyw hwnyna yn tarddu o'r berthynas sy rhyngddo â rhywbeth y tuallan iddo ei Hun. Ond yma yr ydym yn cael ein galw i edrych arno, nid yn ei berthynas â dim y tuallan iddo ei hun, ond cyn bod dim o'r pethau yna mewn bod. Cyn iddo fod yn Frenin,—cyn iddo fod yn Greawdwr, — cyn iddo ddechreu gweithio,—cyn i'w fraich amlygu ei Hollalluogrwydd,—cyn i'w eiriau droi yn fydoedd; pan ydoedd yn gyntaf heb ail;—yn YDWYF, heb neb i ymryson âg Ef am yr enw. A pha beth a all ddangos anfeidroldeb ei fawredd yn fwy na hyn? Y mae mor fawr fel y gall fentro galw sylw ato ei Hun, ar wahân oddiwrth bob peth sydd y tuallan iddo, neu o'i amgylch. Pwy ond Hwn a all wneyd hyny? Pe cymerid oddiar holl fawrion y greadigaeth y pethau sydd y tuallan iddynt eu hunain, mor ddiddim, mor dlawd, fyddent yn y fan! Cymerwch y deyrnas oddiar y brenin, y mae y brenin yn diflanu gydâ hi, fel na byddai yn fynych ond dyn digon cyffredin wedi ei adael. Yr oedd Dafydd yn frenin enwog; ond cymerer y deyrnas i ffordd, bugail anenwog fydd wedi ei adael. Yr oedd gogoniant Solomon yn fwy nag eiddo neb ar y ddaear; ond pe y cymerasid y llys ardderchog,—y deml wych,—a'r holl waith yr oedd yn

ei wneuthur yn Jerusalem, i ffordd, ofer fuasai edrych am ogoniant wedyn. Yr oedd Job yn fwyaf o holl feibion y dwyrain, ond pan gollodd ef y camelod,—y defaid,—y cyfoeth,—fe gollodd y mawredd. Mewn pethau y tuallan iddo ef ei hun yr oedd yn gynwysedig. Ond dyma un a all fforddio cymeryd ei ysbeilio o'r cwbl sydd o'i amgylch. Cilied y deyrnas,—difoder y llys,—cymered y cyfoeth ei adenydd,—sudded y greadigaeth i ddiddymdra,—ni bydd yn ddim tlotach. *Y cyntaf.* "Ai mwy wyt ti," meddai yr Iuddewon, "nag Abraham?" "Cyn bod Abraham," meddai yntau, "yr wyf fi." Yr ydych chwi wedi derbyn eich holl fawredd oddiwrth Abraham: tòri y cysylltiad sy rhyngoch âg Abraham, a gymerai y cwbl oddiarnoch; ond nid wyf fi yn ddyledus iddo, oherwydd "cyn bod Abraham yr wyf fi." Y mae anymddibyniaeth yn disgleirio trwy ei enw; a chan nad yw yn pwyso ar ddim, y mae yn un heb ei ail i bwyso arno. Yr oedd mawredd Joseph yn gysgod da i blant Jacob am flynyddoedd, ond am mai rhywbeth y tuallan iddo ef ei hun oedd hwnw, fe'u hysbeiliwyd o hono oll ryw ddydd gan angau, nes yr oedd y bobl heb yr un cysgod. Ond byth ni welir y rhai sydd yn pwyso ar Hwn felly, oblegid nid y tuallan iddo ef y mae ei fawredd, ond yn hanfodol ynddo ef ei hunan. "Myfi yw y cyntaf."

Os ydyw yn gyntaf, y mae yn dilyn yn naturiol oddiwrth hyn y bydd yn ddiweddaf. Er bod llawer o bethau yn codi yn ei erbyn, y mae yn anmhosibl i ddim gael goruchafiaeth arno. Gan mai Efe oedd y cyntaf, Efe a roddodd fôd i bob peth; ac ni roddes fôd i ddim a fydd yn drech nag Ef ei Hun. Heb son fod y peth yn afresymol, y mae yn anmhosibl. Ni all y ffrwd ddim bod yn fwy na'r ffynon: ni all yr haul wneuthur dim yn fwy goleu nag ef ei hun. Gan ei fod Ef yn gyntaf, y mae yn eglur y bydd yn ddiweddaf. Y mae yn anmhosibl iddo beidio a bod felly. "Rhaid iddo deyrnasu hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed,"......"fel y byddo Duw oll yn oll." Ac yna bydd mor eglur nad oes neb yn bod, yn llawn ystyr y gair, ond Efe, ag ydoedd hi cyn iddo roddi bôd i neb arall. Nid ydym i feddwl y llyncir y greadigaeth i fyny yn Nuw, fel y mae yr haul yn yfed y tarth; eto, fe'i darostyngir mor llwyr iddo a phe buasai hi wedi ei difodi. Fel yr oedd yn gyntaf cyn

rhoddi bôd i ddim, felly y bydd yn ddiweddaf, "wedi dilëu pob pendefigaeth ac awdurdod;" a gall ddywedyd, "YDWYF," eto yn y diwedd, fel yn y dechreu; gyda hyn o wahaniaeth,—yn y dechreu nid oedd dim i adsain y gair yn ol; ond yn y diwedd bydd mil o filoedd, a myrdd o fyrddiynau, yn ei adsain, gan ddywedyd, "Yr Hwn sydd, yr Hwn oedd, a'r Hwn sydd i ddyfod." Y mae yn hyn hefyd ogoniant digyffelyb. Yr ydym wedi gweled na chyll y Person mawr ddim wrth golli creadigaeth, ond y gall ddal i syllu arno fel *y cyntaf.* Drachefn yr ydym yn gweled y bydd ei ogoniant Ef mor danbeidiol, fel y bydd, er ei fod yn nghanol myrddiynau creadigaeth, a'r rhai hyny yn "thronau, yn arglwyddiaethau, a thywysogaethau," *yn ddiweddaf*; — bydd yn eu *eclipsio* oll, fel na bydd neb yn y golwg ond Efe ei Hun. Y mae llawer un wedi bod yn tỳnu cryn sylw cyn hyn; ond dyma yr un a dỳn sylw ddiweddaf, ac fe sugna sylw pawb mor llwyr, fel na cheir hamdden am dragwyddoldeb i sylwi ar neb arall. Beth debygwch chwi am ymddiried ynddo. Hudodd Absalom gryn lawer ar ei ol, ond dangosodd yr amgylchiadau yn fuan, mai dilynwyr Dafydd, er eu bod yn ddirmygus am ychydig, oeddent wedi gwneuthur yn ddoeth. Efe oedd i fyny yn ddiweddaf. Felly, pa mor ddirmygus bynag y gall dilynwyr Hwn ymddangos yn awr, fe wêl pawb ymhen ychydig mai Efe fydd ar y làn, *y diweddaf;* a bydd pawb sydd yn pwyso arno i fyny gydag Ef.

2. "Yr Hwn wyf fyw, ac a fum farw;" neu, yn ol y gwreiddiol yn y fan hon, "yr Un byw." Mae yr enw hwn yn debyg i'r un a fu o dan ein sylw,—*y cyntaf.* Dyma fe yn bod heb ddim yn ei erbyn,—heb ddim i ddywedyd, "Wele fi;" ond Efe hefyd. *Y diweddaf.* Wele y Person mawr wedi darostwng pob peth oedd felly. Felly yma, "yr Un byw:" dyna Efe yn ffynhonell bywyd y greadigaeth fawr,—oll yn deilliaw o hono fel y mae y goleuni a'r gwrês yn deilliaw o'r haul. "Yr Hwn a fu farw;" —dyna yr Un byw yn ymryson â rhywbeth sydd yn codi yn ei erbyn yn y caracter yna, sef angau;—yr haul yn myned o dan ddiffyg. "Ac wele, byw ydwyf yn oes oesoedd;"—dyna'r frwydr wedi ei henill, oblegid y mae yn dywedyd yr un peth wedi dyfod o'r frwydr a chyn myned iddi; yn cyhoeddi ei Hun yr Un byw yr ochr draw i angau. Y mae hyny yn beth tra

gwahanol i ddywedyd yr ochr yma. Y mae yr ymadrodd hwn yn gyfystyr â'r geiriau hyny, "Myfi yw yr adgyfodiad a'r bywyd." Adgyfodiad ydyw bywyd yn ymryson âg angau: bywyd ydyw concwest yr ochr draw iddo.

Ac onid oes yn y darluniad hwn eto ogoniant mawr? Yr ydym wedi edrych ar y gwagle mawr heb ddim ynddo; ac yna ni a welsom "Y Cyntaf" hwn yn ei lenwi â bydoedd: yn awr ni a'i gwelwn Ef yn ffynhonell bywyd a phrydferthwch y rhai hyn oll, fel y mae yr haul naturiol yn bywhau ac yn ffrwythloni y ddaear. Ac er i dywyllwch angau ddyfod i'w greadigaeth, eto y mae ei belydr wedi treiddio trwy y tywyllwch hwnw. Yr oedd yr efengylwr yn dywedyd, fod "y goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, a'r tywyllwch heb ei amgyffred ef," hyny yw, yr oedd y tywyllwch yn rhyw gaddug yn atal i'r goleuni wneuthur ei ffordd trwyddo. Y mae rhyw ystad ar yr awyrgylch naturiol, megis y tawch (*fog*) yn y trefydd mawrion, nad all goleuni yr haul ddim ymddangos trwyddo; ond y mae pelydr Haul Cyfiawnder wedi treiddio trwy *fog* cadduglyd angau,—wedi gorfodi y tywyllwch hwnw i'w amgyffred. "Mi a fum farw; ac wele, byw ydwyf yn oes oesoedd."

Y mae i ni glywed "Byw ydwyf yn oes oesoedd," mor ddieithr ag ydyw i ni glywed y bydd yn ddiweddaf; oblegid y mae hyn yn cynwys goruchafiaeth ar angau. Wrth edrych ar yr holl bethau sydd yn codi yn ei erbyn, gellid ameu ai Efe a fyddai y diweddaf; felly wrth edrych ar ddifrod angau, yr hwn sydd yn codi yn ei erbyn Ef fel yr Un byw, gellid ameu gwirionedd y darluniad hwn hefyd, oblegid, onid ydyw holl blant dynion yn sathrfa iddo?—onid yw yn ymryson â bywyd o'i ymddangosiad cyntaf, ac yn ddieithriad yn llwyddo i'w orchfygu? Y mae ei awel yn fynych yn diffoddi y ganwyll cyn iddi bron gael ei goleuo. Nid oes yr un cyfaneddle i'r byw ar y ddaear, nad oes yn yr un gymydogaeth gladdfa i'r meirw; ac y mae nifer y rhai sydd yn mynwes y ddaear yn anghymharol amlach na'r rhai sydd ar ei hwyneb hi; a gellir dywedyd ryw ddiwrnod am bob un sydd arni heddyw, "ni chaed ef," am i angau ei gymeryd ef, fel y mae ei ffordd ef yn ffordd yr holl ddaear, a'i anedd oer yn "dŷ rhagderfynedig i bob dyn byw." 'Pwy a ymgaledodd yn ei erbyn ef, ac a lwyddodd?' Pwy a feiddiodd ddywedyd

"Mi fyddaf byw," nad oedd angau yn fuan yn gwneuthur y fost yn un ofer iawn? Ond dyma un yn dywedyd yn nghanol ei diriogaethau,—"Yr hwn wyf fyw." Ac os nad digon hynyna i greu hyder ynof, wele ychwaneg, "Mi a fum farw:" yn awr, pwy ni all gredu "y byddaf byw yn oes oesoedd?"—y byddaf yn "ddiweddaf" yn hyn hefyd, fel yr oeddwn yn "gyntaf?" Mi a ddinystriaf angau; ïe, gallaf gymeryd fy llw y gwnaf hyny, os nad digon fy ngair, "Byw ydwyf yn oes oesoedd, Amen." Dyna lw ar y mater.

Y mae yr enw hwn, er ei fod yn dangos mawredd anfeidrol yn ngharacter Mab Duw, yn dangos, fel yr awgrymwyd eisoes, ryw agosrwydd at ddyn. Yn yr enw cyntaf, y Duw anfeidrol oedd yn y golwg. Yr oedd cymaint o oleuni o amgylch hwnw fel na ellid dyfod ato. Ond y mae yr enw, "Mi a fum farw," yn lleddfu tanbeidrwydd y goleuni, ac yn peri i ni deimlo mai un o honom ni ydyw, oblegid y mae nòd ein teulu ni arno,—y mae ei leferydd yn ei gyhuddo; ac fe ddylai clywed hyn effeithio arnom, fel yr effeithiodd clywed Paul yn siarad Hebraeg ar yr Iuddewon gynt,—teimlasant yn y fan ryw agosrwydd ato oedd yn ddieithr iddynt o'r blaen, am ei fod yn siarad iaith eu tadau; felly iaith briodol ein tadau ni ydyw hon. Ni allai ond un dosbarth ddysgu y gân newydd y sonir am dani yn y llyfr hwn,—felly ni all neb ond teulu dyn siarad y rhan yma o iaith y testyn; ac yn wir, ni raid fod awydd ar neb i'w dysgu ychwaith. Ond wele Un yn ei siarad yn groyw, "Mi a fum farw." Y mae yn sicr mai un o'n teulu ni ydyw: y mae ei leferydd yn ei gyhuddo; ac eto er bod yr ymadrodd yn bradychu y dyn, y mae mwy na dyn yn ymlithro i'r golwg, oherwydd, onid oes rhyw newydddeb yn yr iaith, "Ac a fum farw." Ni a glywsom lawer yn dywedyd, ac fe all pawb ddywedyd, "Mi fyddaf farw," oherwydd diwedd hanes trigolion y ddaear ydyw, "Efe a fu farw," Ond y mae hyn yn newydd:—"Ac a fum farw." Y mae y neb sydd yn llefaru fel hyn yn siarad yr ochr draw i'r afon. Ni a welsom lawer yn myned iddi, ond ni chlywsom air oddiwrthynt wed'yn i'n hysbysu pa fodd yr ymdarawsant;—a gawsant hwy rŷd da a chaled, ai ynte lled ddwfn oedd y dwfr. Ond y mae Hwn yn siarad yr ochr draw iddi. Y mae yn werth i ni wrandaw. Pwy a ŵyr na chawn ni hanes rhyd i fyned drwyddi? Edrychwch

ar y dyn yna yn croesi y traeth, ac yn myned rhagddo yn gysurus a diofn nes dyfod at yr afon, lle y gall y dwfr fod yn ddwfn, a'r rhydau yn hollol ddieithr iddo, ac y mae yn dechreu pryderu rhag iddo fyned i le rhy ddwfn, a cholli ei fywyd. Mor werthfawr i'r cyfryw fyddai clywed llais un o'r ochr draw, wedi myned drosodd o'i flaen, yn ei gyfarwyddo at y lle y gall groesi trwodd yn ddiberygl. Ah! yr ydym ninau yn nesu at hen afon beryglus ofnadwy, y collodd miliynau eu bywydau ynddi. Nid oes modd ei hosgoi. Ond dyma un wedi bod trwy y dwfr ei hunan, ac wedi cyraedd yr ochr draw,—glân bywyd tragywyddol —oddiyno yn gwaeddi allan i'ch cyfarwyddo pa fodd i fyned drosodd yn ddiogel. Gwrandewch; dyna y mae yn ei ddywedyd, "Yr hwn sydd yn credu ynof fi, ni bydd marw yn dragywydd." Dyna rŷd â gwaelod caled iddo, i ninau fyned drwodd.

Y mae defnydd cysur i ni yn yr anghysondeb sydd yn y ddau enw. Yr Un byw yn marw, pa reswm sydd yn hyny? Marwolion sydd yn marw ar y ddaear;—y rhai sydd âg elfenau marwolaeth ynddynt. Beth gan hyny yw hyn,—yr Un byw yn marw? A! medd ffydd, mi warantaf fi fod rhywbeth mewn marwolaeth fel yna i farwolion, oherwydd nid oedd raid i'r Un byw farw o'i ran ei hunan. Oes; ac wele ei ffrwyth hi:— "Byw ydwyf yn oes oesoedd," a "byw fyddwch chwithau hefyd." Ymaflwn yn ffrwythau yr angau trwy gredu ynddo.

3. "Y mae genyf agoriadau uffern a marwolaeth." Y mae hyn, fel yr awgrymwyd eisoes, yn myned gam yn mhellach. Nid fe'u gorchfygir ganddo ryw bryd, eithr y maent yn ei law yn awr. Felly y dywedir am Gad, "Gad, llu a'i gorfydd; ac yntau a orfydd o'r diwedd;"—fe gaiff goncwest ryw dro; ond nid felly Hwn, y mae wedi ei chael hi yn awr. "Cofia fi," meddai y lleidr, "pan ddelych i'th deyrnas," ond y mae amser iaith fel yna wedi myned heibio, oblegid y mae ynddi yn awr:— "y mae genyf agoriadau uffern a marwolaeth."

Ni a welwn yn yr ymadrodd nerth, ac eangder y llywodraeth. (1.) Nerth y llywodraeth: llywodraeth ar uffern a marwolaeth. Pwy a glybu y fath beth? Yr hen gwestiwn anatebadwy oedd, "Pwy a fydd byw, ac ni wêl farwolaeth?" "Pwy a lywodraetha ar yr ysbryd i atal yr ysbryd?" Fel yr oedd meibion Serfiah yn rhy galed i Dafydd allu eu llywodraethu: felly yr oedd

uffern a marwolaeth i bawb; ond medd hwn, "y mae genyf agoriadau uffern a marwolaeth." Fy ngwas i ydyw angau: fy ngharchar i ydyw uffern. Er ei fod yn lle yn yr hwn y mae tywysogaethau ac awdurdodau, cedyrn o nerth, eto y mae yn hollol yn fy llaw i. Ac os ydyw y pethau mawrion yna yn ei law, y mae yn rhaid fod pob peth llai.

(2.) Y mae eangder y llywodraeth hefyd yn y golwg. Y mae rhyw fynydd neu afon yn derfyn i lywodraeth pawb ond Hwn. Yr oedd Nebuchodonosor yn dywedyd fod Babilon yn fawr; ond yr oedd terfyn iddi. Yr oedd y mynydd i'r hwn y cymerwyd Iesu Grist gan Satan yn ddigon uchel i weled teyrnas fwy nag y bu neb erioed yn ei meddu ond Satan; eto yr oedd terfyn i hono: nid oedd yn cyraedd ond at yr afon. Yr ochr yma i hòno y mae e'n dywysog: carcharor ydyw yr ochr arall. Ond y mae Hwn yn sefyll ar fynydd digon uchel, nid i weled at yr afon yn unig, ond yr ochr draw iddi hefyd; ac y mae y wlad fawr sydd yr ochr draw i'r afon yn perthyn iddo fel y wlad sydd yr ochr hon;—"y mae genyf agoriadau uffern a marwolaeth." Gellir cymeryd uffern naill ai am gartref y colledigion, neu am y byd anweledig i gyd: y mae hyn yr un mor wir am bob un o honynt;—y byd dieithr, y byd mawr. Ei air Ef sydd yn ddeddf yno: ei wên a'i ŵg Ef sydd yn oleuni ac yn dywyllwch yn y wlad.

Pwy na ddymunai fod fel Ioan, yn ddisgybl anwyl i Hwn?—o nifer cyfeillion Hwn? Hyny a ddisgwyliwn ni mewn cyfaill, onide? ydyw ei gael yn un ffyddlawn,—yn un heb gyfnewidiadau,—yn un a rydd gyngor i ni mewn dyryswch,—a gydymdeimla â ni mewn profedigaeth, ac a estyn ymwared os gall; ac yr ydym yn disgwyl hefyd iddo ddyfod i wylo deigryn ar ein bedd. Fe wna Hwn bob peth a wna Cyfaill, ac annhraethol fwy. Y mae yn gysur i ni gael cyfeillion yn ein hymyl yn ein profedigaethau; ond mor aml y teimlwn ni fel Job, "cysurwyr gofidus" ydynt hwy oll; ond gall Hwn ddywedyd yn y brofedigaeth, "Myfi yw y cyntaf a'r diweddaf," nes y bydd nerth ei eiriau yn gwneuthur y mynyddoedd yn wastadedd o'n blaen. Y mae yn rhyw gysur i ni gael ein cyfeillion i edrych arnom yn myned i'r glyn tywyll; ond ni bydd ganddynt ddim i'w wneuthur ond edrych. Ond fe sibrwd

Hwn yn dy glust y pryd hyny, "Mi fum inau farw; am hyny, nac ofna; cred yn unig." Y mae rhai o honoch yn claddu eich perthynasau y dyddiau hyn, ac y mae yn dda genych weled eich cyfeillion yn y cynhebrwng; ond ni fedrant wneuthur nemawr yno. Ond os ydyw Hwn yn Gyfaill i chwi, fe ddaw yntau i'r claddedigaeth, ac fe ddywed ar lân y bedd, "Myfi ydyw yr adgyfodiad a'r bywyd," nes tawelu y meddwl yng nghanol yr ystorm; ïe, fe gerfir hyn ar dy gareg fedd di dy hun.

Y mae cryn fantais o berthyn i goron Lloegr. Y mae y llywodraeth yn eang ac yn gref; ond gall y deiliaid er hyny gael eu dirmygu a'u lladd: ond os caf berthyn i deyrnas Hwn, ni feiddia neb fy nirmygu na'm niweidio, oherwydd

"Brenin y brenhinoedd ydyw,
Yma a thu draw i'r bedd."

Os bydd Hwn yn eich erbyn, at bwy y ffowch am gynorthwy?

[Ysgrifenwyd yn gyntaf, Ion. 27, 1854;
Adysgrifenwyd, Mai 26, 1854.]

# PREGETH XXXVII.

## SICRWYDD LLWYDDIANT GEIRIAU DUW.

ESAIAH lv. 10, 11 :—"Canys fel y disgyn y gwlaw a'r eira o'r nefoedd, ac ni ddychwel yno, eithr dyfrha'r ddaear, ac a wna iddi darddu a thyfu, fel y rhoddo had i'r hauwr, a bara i'r bwytawr: felly y bydd fy ngair, yr hwn a ddaw o'm genau: ni ddychwel ataf yn wag; eithr efe a wna yr hyn a fynwyf, ac a lwydda yn y peth yr anfonais ef o'i blegid."

YMAE pawb sydd yn credu fod Duw yn addef hefyd ei fod yn Dduw gwirionedd, ac heb anwiredd,—yn Dduw y mae doethineb a chadernid yn eiddo iddo; eto y mae llawer yn ymarferol yn gwadu y pethau yna. Pan y mae Duw yn gweithio yn ddigyfrwng ac yn uniongyrchol, nid oes neb yn ameu nad ydyw y priodoliaethau hyn yn eiddo iddo, ond pan y bydd yn gweithio drwy ail achosion, yn enwedig os bydd yn cymeryd amser maith i gyflawni ei amcanion, y mae llawer yn ameu ai Duw gwirionedd ydyw, neu a oes gallu yn perthyn iddo. Oblegid hyn, y mae yr Arglwydd drachefn a thrachefn yn ei air, yn sicrhau i ni y cyflawnir yr amcanion sydd yn cael eu dwyn o amgylch trwy gyfryngau, neu ail achosion, mor sicr a'r rhai a gyflawnwyd ganddo yn ddigyfrwng. Yn y greadigaeth gweithio yr ydoedd, am a wyddom ni, yn ddigyfrwng;—gwneuthur byr waith: "Efe a ddywedodd, ac felly y bu; Efe a orchymynodd, a hyny a safodd." Gydag iddo ddywedyd, "Bydded goleuni," yr oedd goleuni yn bod;—"Bydded ffurfafen," ac yr oedd hi yn ei lle. Ond yn nhrefn iachawdwriaeth, y mae yn gweithio llawer trwy ail achosion: felly, nid byr waith yw ei waith yma. I bob ymddangosiad, 'Efe a ddywedodd, ac *nid felly* y bu,' ydyw hi yma; oblegid hyn, y mae aml un o'r offerynau trwy ba rai y mae yn gweithio

yn barod i ddywedyd,—"Yn ofer y llafuriais; yn ofer ac am ddim y treuliais fy nerth." Ac y mae llawer un anystyriol ac anghrediniol yn dywedyd, "Pa le y mae gair yr Arglwydd? deued bellach." Y mae yr hyder ynddo yn cael ei golli. I symud y teimlad amheus ac anghrediniol yna o'r fynwes, cyfeirir ni yn fynych yn y Bibl at yr hyn y mae yr Arglwydd wedi ei wneuthur yn y greadigaeth, fel prawf fod y gair mor sicr o fod yn llwyddianus yn ei gysylltiad â threfn iachawdwriaeth. "Yn dragywydd, O Arglwydd, y mae dy air wedi ei sicrhau yn y nefoedd: seiliaist y ddaear, a hi a saif;" hyny yw, y mae dy air yn sefyll yn y nefoedd; ac y mae yn sefyll yn y ddaear hefyd; ac y mae hefyd yn sicrhau y saif yn nhrefn iachawdwriaeth. "Adeiledir trugaredd yn dragywydd:" y prawf o hyny ydyw, "Yn y nefoedd y sicrheir dy wirionedd." Y mae y nefoedd, trwy fod y gair yn sefyll ynddi hi, yn dyst sicr a pharhaus yr adeiledir trugaredd; ïe, yn mhellach, "y mae y gair wedi ei fawrhau uwchlaw ei enw oll," sef, uwchlaw pob datguddiad arall o hono ei Hun. Y mae yn haws i'r gair sydd yn sefyll yn y nefoedd fyned yn ddirym, nag i'r gair sydd yn y llyfr hwn fyned felly. Fe â y nef a'r ddaear heibio, cyn yr â yr un iod nac un tipyn o'r rhai hyn heibio heb eu cwblhau. A'r gwirionedd sydd yn cael ei gyflwyno i'n sylw yn y testyn ydyw, *sicrwydd llwyddiant geiriau Duw:* nid rhyw air penodol, ond ei holl eiriau, neu holl ewyllys yr Arglwydd. Fe ddangosir i ni yma, fod y llwyddiant sydd wedi bod ar eiriau Duw yn y greadigaeth, yn esiampl a phrawf o'r llwyddiant a fydd arnynt eto yn nhrefn iachawdwriaeth. Nid yw gair Duw ddim wedi ei adael yn ddi-dyst; ond y mae holl beirianwaith y greadigaeth wedi ei fwriadu i gryfhau ein hyder ynddo. Gall y gair ddywedyd am y greadigaeth, fel y dywedodd Mab Duw am Moses, 'Pe credasech chwi i'r greadigaeth, chwi a gredasech i minau, oblegid am danaf fi y tystiolaethodd hi.' Y mae fod y gair wedi llwyddo,—ac yn llwyddo,—yn brawf y llwydda fe eto. Y mae wedi ei sicrhau yn y greadigaeth; y mae yn cael ei sicrhau mewn rhagluniaeth; ac y mae hyny yn profi y sicrheir ef hefyd mewn iachawdwriaeth.

I. Edrychwn ar y gair wedi gwneuthur yr hyn a fynodd Duw yn y greadigaeth. Nid yw y nefoedd uchod, na'r ddaear isod,

yn ddim ond Duw yn dywedyd, "Fy nghyngor a saif, a'm holl ewyllys a wnaf." Nid yw y bydoedd mawrion yna oll, yn ddim ond meddyliau calon Duw yn sefyll o genhedlaeth i genhedlaeth. Yr oedd Job yn dymuno am i'w eiriau gael eu hysgrifenu yn y graig, i gael iddynt barhau. Geiriau Duw wedi eu hysgrifenu gan ei allu ydyw yr holl bethau a welir; ac y maent yn adsain trwy'r oesoedd,—"Efe a ddywedodd, ac felly bu," ac wrth ei farnedigaethau y safant heddyw. Os amheuwn ni, neu os gwadwn ni sicrwydd geiriau Duw, y mae yn rhaid i ni wadu mai nid goleuni ydyw yr haul;—nad oes yr un ffurfafen uwchben;—mai nid moroedd ydyw casgliad y dyfroedd;—mai nid llysiau a phrenau ydyw y pethau sydd yn harddu wyneb y ddaear;—nad oes anifeiliaid ar ei hwyneb hi; nac adar yn ei hawyr hi; a sut y rhoddwn ni gyfrif am danom ein hunain. Wrth ffydd yr ydym yn deall iddynt gael eu gwneuthur oll trwy ei air Ef; ac y mae eu bod yn sefyll hyd heddyw yn dystiolaeth barhaus o nerth a sicrwydd y gair hwnw. Eu hiaith oll ydyw, "Gwir yw y gair." "A ddywedodd Efe ac nis cyflawna? a lefarodd Efe, ac oni chywira?"

Y mae rhwystrau ac annhebygolrwydd yn ein dyrysu ni yn barhaus. Mor fynych yr ydym yn dywedyd yn ein calon am ryw bethau y mae Duw wedi eu haddaw, Pe gwnelid ffenestri yn y nefoedd, a fyddai hyn? Ond byddai edrych ar y greadigaeth yn ddigon i'n cywilyddio ni am ein hanghrediniaeth. Y mae y greadigaeth yn hen erbyn hyn; ond bu yn ieuanc ryw bryd. Fe fu dechreu iddi hi; a phe byddai modd i ni fyned yn ol yn ein meddwl cyn y dechreu, i'r amser, pe buasai yn amser hefyd, pryd nad oedd dim na neb yn bod ond Duw, yr hwn oedd, y pryd hyny, yn Ysbryd anweledig, holl-bresenol, yn preswylio tragywyddoldeb;—yn "Ydwyf" ymhob lle, yn ddigon iddo ei hun: yn yr amgylchiadau yna, oni buasai yn anhygoel i neb dybied y gwelsid creadigaeth ddiderfynau yn yr eangderau? Pe mynegasid fod y peth mewn bwriad, oni buasai digon o gwestiynau yn cael eu gofyn yn y fan; a phob un o honynt yn cynwys digon i ddangos fod y peth yn amhosibl? O ba le y daw hi? Os gall Duw eu gwneuthur hi, pa fodd na buasai yn ei gwneuthur cyn hyn, ag yntau yn bod o dragywyddoldeb? Gan ei fod yn gallu yr hyn a fyn, beth sydd i'w gymell

i'w gwneuthur yn awr nad oedd yn ei gymell ef erioed? a phafodd y gwneir hi? Ond, erbyn heddyw, y mae y ffaith wedi ateb y gwrthddadleuon; oblegid, dyrchefwch eich llygaid i fyny, ac edrychwch ar y nefoedd uchod, ac edrychwch drachefn ar y ddaear isod, a chwi a welwch air Duw wedi trechu y rhwystrau. I Dduw, mewn gwirionedd, nid oes dim rhwystrau: iddo Ef, yr un peth yw ewyllysio a gwneuthur. Ond iaith creadur ydyw, "Yr ewyllysio sydd barod; ond cwblhau, nid wyf yn medru arno:" am hyny prawf o *ewyllys* creadur ydyw ei eiriau, ac nid o'i *allu*; ac am nad ydyw ei allu a'i ewyllys ddim yn gyfartal, y mae ei eiriau yn fynych yn syrthio i'r llawr. Ac y mae tuedd gref ynom ni i dybied Duw yn hyn hefyd yn gyfryw â ni ein hunain: am hyny, er i ni glywed ei eiriau, ac felly deall ei ewyllys, yr ydym yn ameu eu cyflawniad, am ein bod yn anghofio mai yr un peth i Dduw ydyw gwneuthur a meddwl, neu gyflawni ac ewyllysio. Oblegid hyn, cyfeirir at y greadigaeth yn yr Hen Destament yn amlach fel prawf o allu Duw na dim arall, i brofi nad oes eisiau dim ond iddo ewyllysio i sicrhau y cymer y peth le. "Dyrchefwch eich llygaid i fyny, ac edrychwch." I ba beth? I gael gweled "amlder ei rym Ef, a'i gadarn allu." "Myfi yw yr Arglwydd sydd yn gwneuthur pob peth; yn estyn y nefoedd fy hunan, yn lledu y ddaear o honof fy hun." Beth wedyn? "Yr hwn a gyflawna air ei was." "Fy llaw i a seiliodd y ddaear, a'm deheulaw i a rychwantodd y nefoedd: pan alwyf fi arnynt, hwy a gydsafant." Felly y bydd fy ngair i eto: os dywedais, nid oes dim i'm hatal i gywiro.

2. Ond cyfeiriad sydd yn y testyn at y modd y mae goruchwyliaethau cyson rhagluniaeth yn gwirio geiriau Duw, ac yn cyflawni ei ewyllys,—i brofi y gwirir y geiriau, ac y cyflawnir yr ewyllys, sydd yn ddadguddiedig yn y llyfr hwn hefyd. "Fel y disgyn y gwlaw a'r eira o'r nefoedd, ac ni ddychwel yno, eithr dyfrh a'r ddaear, ac a wna iddi darddu a thyfu, fel y rhoddo had i'r hauwr, a bara i'r bwytâwr." Ac y mae rhagluniaeth yn dwyn ar gof i ni ffyddlondeb Duw i'w air yn well na chreadigaeth, am ein bod yn gweled y ffyddlondeb hwnw yn awr. Ein teimlad ni am y greadigaeth ydyw, iddi hi gael ei dwyn i fod ar unwaith, a hyny er ys oesoedd aneirif yn ol, a'i bod hi

yn sefyll fel cofadail o allu a doethineb dwyfol; ond yr ydym mewn perygl o deimlo mai gallu a fu, a doethineb a fu yn eiddo Duw, sydd yn cael eu dangos ynddi, ac nid yr hyn sy ganddo yn awr. Y mae cymaint o gyfnewidioldeb ynom ni ein hunain, ac ymhob peth o'n hamgylch, fel y mae yn anhawdd i ni sylweddoli i'n meddwl y gall un fod yr un yn awr ymhob ystyr, ag ydoedd filoedd o flynyddoedd yn ol; ond y mae rhagluniaeth yn dangos beth ydyw Duw heddyw. Y mae y bydoedd yn dangos beth a fu ei air; ond y mae y tân a'r cenllysg, a'r gwynt ystormus, yn dangos beth ydyw yn awr. I ni, Duw wedi gweithio ydyw Duw yn y greadigaeth, ac wedi gorphwys oddiwrth ei weithredoedd; ond mewn rhagluniaeth, nid Duw wedi gweithio ydyw, ond yn gweithio;—"y mae fy Nhad yn gweithio hyd yn hyn." Wrth edrych ar y nefoedd uwchben, a'r bydoedd aneirif sydd yn ei chyfansoddi, ac ar y mynyddoedd, y creigiau, a'r moroedd, ar y ddaear,—ni a welwn fod Duw wedi bod yna unwaith, oblegid ôl ei fysedd ef, ac argraff ei law ef, ydyw y pethau yna; ond wrth edrych ar brenau y maes,—ar y gwlithyn sydd yn harddu y llysieuyn, neu ar y gawod yn disgyn o'r cymylau, ni a welwn ei fod Ef yma yn awr. Nid fe fu nerth yn ei eiriau rywbryd, ond y mae nerth ynddynt yn bresenol. Y mae y gwlaw a'r eira yn profi y safant yn awr, mor wirioneddol ag y profodd y bydoedd hyny yn moreu amser; a mynych y mae yr Arglwydd yn y Bibl yn cyfeirio at y pethau sydd yn cymeryd lle yn barhaus, fel profion o sicrwydd cyflawniad ei eiriau. Yr ydym wedi dywedyd eisoes ei fod yn ein cyfeirio at y greadigaeth fel prawf o'i nerth,—i ddangos fod ganddo ddigon o allu i gyflawni ei eiriau; ond y mae yn ein cyfeirio hefyd yn fynych at gysondeb rhagluniaeth fel prawf o'i ffyddlondeb iddynt. "Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Os fy nghyfamod â'r dydd ac â'r nos ni saif, ac oni osodais i ddefodau'r nefoedd a'r ddaear, yna had Jacob a Dafydd fy ngwas a wrthodaf fi, fel na chymerwyf o'i had ef lywodraethwyr ar had Abraham, Isaac, a Jacob: canys mi a ddychwelaf eu caethiwed hwynt, ac a drugarhaf wrthynt.' Jer. xxxiii. 25, 26. Y mae bod y cyntaf yn cymeryd lle, yn sicrwydd y cymer yr ail le; am hyny, bob tro y gwelwch chwi yr haul yn machlud,—y nos yn dilyn y dydd,—gellwch fentro

pwyso o'r newydd ar fy ngair i; ond pan y gweloch chwi ryw debyg nad ydyw yr haul ddim i godi, neu ynte ddim i fachludo, y mae yn bryd i chwi yr amser hwnw ddechreu ofni am gyflawniad yr addewid. Mewn lle arall, y mae ganddo eiriau fel hyn:—"Fel hyn y dywed yr Arglwydd, yr hwn sydd yn rhoddi yr haul yn oleuni dydd, defodau'r lloer a'r sêr yn oleuni nos, yr hwn sydd yn rhwygo'r môr, pan ruo ei donau; Arglwydd y lluoedd yw ei enw: os cilia'r defodau hyny o'm gwydd i, medd yr Arglwydd, yna had Israel a baid â bod yn genedl ger fy mron i yn dragywydd." Jer. xxxi. 35, 36. Pan y gweloch chwi y defodau yna yn cilio, y mae yn bryd i chwi ofni am eich diogelwch; ond nid cyn hyny. "Canys fel dyfroedd Noah y mae hyn i mi: canys megis y tyngais nad elai dyfroedd Noah mwy dros y ddaear; felly y tyngais na ddigiwn wrthyt, ac na'th geryddwn." Esa. liv. 9. Yr wyf wedi tyngu y naill beth fel y llall; am hyny bryd bynag y gwelwch chwi y bwa yn y cwmwl, bydd yn brawf, nid na ddaw diluw, ond na ddigiaf wrthyt ti, ac na'th geryddwn. Ac yn Esa. xliv. 27, 28, y mae yr Arglwydd yn cysylltu yr hyn y mae yn ei ddywedyd wrth y greadigaeth a'r hyn y mae yn ei ddywedyd wrth ei bobl â'u gilydd, i ddangos fod yr un sicrwydd yn y geiriau yn y ddau le. Y mae Jerusalem mor sicr o gael ei chyfaneddu,—y mae y deml mor sicr o gael ei sylfaenu, ag yw y dyfnder o gael ei sychu.

Y mae rhagluniaeth wedi gwasanaethu y llyfr hwn mewn dwy ffordd, sef trwy dòri ei deddfau, a thrwy eu cadw hwynt. Y mae wedi tòri ei deddfau i brofi mai Duw sydd wedi llefaru y llyfr: y mae yn eu cadw i brofi y cyflawnir y geiriau oll. Dyna'r haul yn sefyll yn Gibeon, a'r lleuad yn nyffryn Ajalon;—dyna'r môr yn agor ar ei draws;—dyna gyfamod y dydd a'r nos yn cael ei dòri yn yr Aipht a Gosen, i brofi mai Duw a lefarodd yr holl eiriau hyn. I brofi na syrth yr un o honynt i'r llawr, dyna'r haul yn codi ac yn machlud yn ei amser; y lleuad yn dyfod yn ei thymor; y môr yn llenwi ac yn treio; y tymhorau yn dilyn eu gilydd yn rheolaidd. "Pe buaswn i wedi gweled yr haul yn sefyll," medd y dyn, "mi fuaswn yn credu y geiriau." Wel, fe safodd unwaith i brofi mai yr un ag a ddywedodd, "Bydded" wrtho ef, a ddywedodd hefyd, "Trowch eich wynebau ataf fi, holl gyrau y ddaear, fel

y'ch achuber." Ac y mae iddo godi a machlud bob dydd, yn ddifwlch, yn bregeth feunyddiol ar wirionedd yr addewid. Ewch i lân y môr i'w weled yn llenwi ac yn treio ; chwi a gewch gymorth trwy hyny i osod eich gobaith o'r newydd ar Dduw. Ewch allan ar ol cawod o wlaw, yn nechreu haf, i weled y meusydd yn adfywio,—y gwellt yn tarddu ac yn tyfu ;—chwi ellwch ddywedyd wedi dychwelyd, Fe dderfydd paganiaeth o'r ddaear,—fe wywa coel-grefydd o'r byd,—fe dderfydd annuwioldeb o'n gwlad,—fe adnewyddir wyneb ein heglwysi eto. Y mae rhywun yn barod i ofyn, "Pa brawf a gawsoch chwi o hyny ?" Yr ateb fyddai, "A welwch chwi fel y mae y ddaear yn tarddu ac yn tyfu ar ol y gawod yna ?" "Beth sydd a fyno hynyna â phaganiaeth y byd, neu âg annuwioldeb ein gwlad ?" Felly y bydd y gair eto : y mae gweled yr ewyllys yn llwyddo yn y ddaear, yn sicrwydd y llwydda hi gyda'r trigolion. "Felly y bydd fy ngair i."

Ond i alw eich sylw yn fwy neillduol at y gymhariaeth yn y testyn, y mae yn debyg mai dylanwad cyffredinol y gair ar wlad sydd yn cael ei ddangos yma, sef y bydd mor sicr o fod yn fendith i'r trigolion ag ydyw y gwlaw a'r eira o fod felly i'r ddaear ; a gallwn yn y gymhariaeth gael atebiad i holl wrthddadleuon ac ofnau y rhai hyny sy naill ai yn dywedyd, neu yn ameu, mai nid felly y bydd.

1. Y mae mor sicr o lwyddo i gyraedd ei amcan ag ydyw y gwlaw a'r eira o gyraedd eu hamcan hwynt, oherwydd y mae mor gymwys i'w ddiben ag ydynt hwy i'w hamcan. Ni wyddom ni nemawr am gymhwysder y gwlaw a'r eira i beri i'r ddaear darddu a thyfu; ond y mae y ffaith nad oes dim yn tyfu lle nad ydynt, a bod y cwbl yn tarddu ac yn tyfu lle y maent, yn ddigon i brofi eu bod yn gymwys i ateb y diben. Ac y mae bod gwrês yr haul, a dylanwad yr awyrgylch yn myned yn gwbl ofer i wlad, os na bydd yno wlaw, yn profi ei fod yn un peth anhebgorol i'r ddaear. Yr ydym ni, mewn gwlad fel hon, o dan gryn anfantais i deimlo prydferthwch a grym llawer o gymhariaethau y Bibl, ac yn enwedig y rhai hyny ynghylch y dwfr, neu y gwlaw. Ni wyddom ni nemawr beth ydyw ei eisiau; am hyny nid ydym yn gweled nemawr o'i werth ; a phan atelir ef am beth amser yma, y mae y gwres mor gymedrol fel na theimlir

yn fuan lawer oddiwrth hyny: ond yn y Dwyrain, y mae holl natur fel ar dranc os bydd hir eisiau gwlaw. Nid oes dim disgrifiadau mwy grymus yn y Bibl, na disgrifiad o wlad heb wlaw. Joel i. 10—12, 17—20; Jer. xiv. 3—6. "Difrodwyd y maes, y ddaear a alara; canys gwnaethpwyd difrod ar yr ŷd: sychodd y gwin newydd, llesgäodd yr olew. Cywilyddiwch, y llafurwyr; udwch, y gwinwyddwyr, am y gwenith, ac am yr haidd: canys darfu am gynhauaf y maes. Gwywodd y winwydden, llesgäodd y ffigysbren; y pren pomgranad, y balmwydden hefyd, a'r afallen, a holl brenau y maes a wywasant; am wywo llawenydd oddiwrth feibion dynion. "Pydrodd yr hadau dan eu priddellau; yr ysguboriau a anrheithiwyd, yr ydlanau a fwriwyd i lawr, canys yr ŷd a wywodd. Oh o'r griddfan y mae yr anifeiliaid! y mae'n gyfyng ar y minteioedd gwartheg, am nad oes borfa iddynt; y dïadellau defaid hefyd a anrheithiwyd. Arnat ti, Arglwydd, y llefaf; canys y tân a ddifaodd borfeydd yr anialwch, y fflam a oddeithiodd holl brenau'r maes. Anifeiliaid y maes hefyd sydd yn brefu arnat; canys sychodd y ffrydiau dwfr, a'r tân a ysodd borfeydd yr anialwch."—"A'u boneddigion a hebryngasant eu rhai bychain i'r dwfr: daethant i'r ffosydd, ni chawsant ddwfr; dychwelasant â'u llestri yn weigion: cywilyddio a gwladeiddio a wnaethant, a chuddio eu penau. Oblegid agenu o'r ddaear, am nad oedd gwlaw ar y ddaear, cywilyddiodd y llafurwyr, cuddiasant eu penau. Ië, yr ewig hefyd a lydnodd yn y maes, ac a'i gadawodd, am nad oedd gwellt. A'r asynod gwylltion a safasaut yn y lleoedd uchel; yfasant wynt fel dreigiau: eu llygaid hwy a ballasant, am nad oedd gwellt." Y mae, ni a welwn, yn beth nad all y ddaear ddim gwneyd hebddo. Felly y gair, a gallwn gasglu ei gyfaddasrwydd ef oddiwrth ffeithiau, fel y gwlaw. Beth ydyw y byd lle nad ydyw? Beth ydyw ei wedd lle y mae? Y mae dau air yn ddisgrifiad o'r byd lle nad ydyw y gair: y mae yn ddiffaethwch, ac y mae yn fyd sydd yn difa ei breswylwyr, hyny yw, y mae yn ofer ac y mae yn druenus.

(1.) Fel diffaethwch y mae yn ofer. Diffaethwch ydyw y ddaear mewn ystyr ysbrydol heb y gair. Priodol ydyw gofyn, wrth edrych ar bob gwlad sydd hebddo, Paham y bu y golled hon? oblegid y mae hi mor ofer ag ydyw y diffaethwch: nid

yn unig nid yw yn cynyrchu dim erbyn byd ar ol hwn, ond nid oes yno nemawr o bethau hwn i'w cael. Nid yw y rhinweddau angenrheidiol tuag at wneuthur y ddaear yn ddedwydd ddim i'w cael yno, heb son am y rhai hyny sydd i dyfu yma, fel mewn planigfa, i gael eu hadblanu ryw ddydd yn y nefoedd. Ac y mae pob dylanwad ar wlad yn ofer heb y gair. Nid yw y nefoedd ddim yn datgan gogoniant Duw i wlad felly, na'r ffurfafen yn mynegu gwaith ei ddwylaw Ef. Os na bydd y gair yno, y mae eu hiaith a'u hymadrodd hwynt mor ofer i'r trigolion, ag ydyw gwres yr haul i'r diffaethwch heb y gwlaw; ac y mae pob ymdrech gydâ dyn heb y gair mor ofer ag a fyddai gwaith amaethwr yn trin ei dir yn ofalus,—yn hau ynddo yr hadau goreu,—heb i'r gwlaw ddisgyn yn ei amser. A byddai yn dda i lawer gredu y gwirionedd hwn yn y dyddiau yma, oblegid y mae llawer o gynlluniau yn cael eu cynyg i wellâu y byd sydd yn cau allan air Duw; ond bydd y llafurwyr yn sicr o gywilyddio: ni wnant ond ei arwain o un drwg i un arall; os gwaredir ef o ofergoeledd, fe'i harweinir ef i anffyddiaeth.

(2.) Ond y mae y byd, nid yn unig yn ofer, ond yn druenus. Nid yw y disgrifiadau a ddarllenwyd o drueni y gwledydd dwyreiniol pan heb wlaw, ddim yn ddigon grymus i ddangos trueni ysbrydol y byd heb y gair. Nid oedd ystâd Canaan am saith mlynedd y newyn yn nyddiau y patriarchiaid,—ystâd Israel am y tair blynedd na bu dim gwlaw yn nyddiau Elias,—ac ystâd Samaria yn amser y gwarchae,—ond cysgod gwanaidd o drueni ysbrydol y byd heb y gair. Ond wrth edrych ar ei wedd lle y mae y gair, ni a welwn ei fod mor gymwys iddo ag ydyw y gwlaw i'r ddaear; oblegid y mae ei anialwch a'i ddiffaethwch moesol yn blodeuo fel rhosyn o dan ei ddylanwad. 'Y mae trigfa dreigiau, a'u gorweddfa, yn dwyn corsenau a brwyn.' Paham y mae cymaint o wahaniaeth rhwng Lloegr a China? Paham y mae Cymru yn rhagori cymaint ar Affrica? Onid y gwlaw sydd yn gwneuthur y gwahaniaeth? ïe, y mae y man oedd yn ddiffaethwch o'r blaen, wedi cael y gwlaw, yn dyfod fel Libanus mewn gogoniant, fel Carmel mewn godidogrwydd, ac fel Saron mewn ffrwythlondeb. Yr oedd y tri lle yna yn cynwys prydferthwch y Dwyrain: Libanus am ogon-

iant neu arddunedd *(sublimity)*, Carmel am brydferthwch, a Saron am ffrwythlondeb; ac y mae y tri yn cael eu huno i ddangos gwedd y diffaethwch wedi cael y gwlaw, neu agwedd y byd wedi cael y gair: Y mae yn dyfod yn Libanus mewn gogoniant, yn Garmel mewn prydferthwch, yn Saron mewn ffrwythlonder. Ac onid yw y gair yn cyfateb i holl eisiau dyn, fel perchen deall,—fel perchen serch,—fel perchen cydwybod? Y mae yn oleuni, yn brydferthwch, ac yn falm. Y mae ganddo Dduw iddo fel creadur; y mae ganddo Gyfryngwr ac iawn i'w gyfarfod fel pechadur. Y mae yn gwneuthur âg ef fel y gwnaeth Joseph â'i frodyr,—rhoddi digon o fwyd iddynt ar y ffordd, a gofalu am gynhaliaeth iddynt wedi cyraedd adref. Felly, y mae yma ddigon ar y ffordd yn y byd hwn, a chynhaliaeth wedi cyraedd adref yn yr hwn a ddaw. Y mae y gair yn cyfateb yn berffaith i galon dyn; ac y mae rhyw amgylchiadau yn dwyn pawb i deimlo hyny. Daeth lladratäwyr dynion unwaith heibio i fwthyn yn Affrica; cymerasant y tad a'r plant ymaith i'w gwerthu yn gaethion; ond cafodd y fam gyfle i ffoi i'r goedwig, a dianc felly. Ond pan ddychwelodd hi i'w chaban gwâg, yr oedd ei chalon hi ar ymdòri: yr oedd hi yn wylo fel Rahel, ac ni fynai ei chysuro; ond daeth rhywbeth i'w meddwl yn ei chymell i fyned allan i dywallt ei chalon wrth ryw Fôd na wyddai hi ddim am dano; a'r tro cyntaf y gwnaeth hi hyny, teimlodd ei mynwes yn ysgafnhau yn y fan; ac am dalm o amser arferai fyned bob dydd i'r un fan i adrodd y cwbl wrth y Cyfaill anweledig ac anadnabyddus hwn. Ond ymhen rhyw gymaint daeth y lladratäwyr dynion o hyd iddi hithau hefyd: fe'i dygwyd hi drosodd i America, ac fe'i gwerthwyd hi yno i gaethiwed; ond wedi bod yn America am ysbaid, adroddodd rhyw un yn ei chlyw yr hanes rhyfedd am Iesu Grist a'i gariad: atebodd hithau yn y fan,—"Dyna yr Un,—dyna'r peth oedd arnaf fi ei eisiau." Yr oedd hi yn gwybod mewn moment mai yr Iesu oedd y Cyfaill anadnabyddus oedd wedi tywallt cysur i'w hysbryd trallodus hi yng nghoedwigoedd pellenig Affrica. Felly y mae rhyw ymbalfalu yn mynwes dyn, ac nid ydyw yn teimlo ei fod wedi cael yr hyn yr oedd ei galon yn crefu am dano nes y daw y gair yno; ond y mae hi yn ateb, fel y Negröes, wrth ei gael, Dyma'r hyn oedd arnaf ei eisiau.

A byddai mor resymol i ni ofni na thardda, ac na thyfa, y ddaear ddim am flynyddoedd wedi cael y gwlaw, ag ydyw ofni na ffrwytha y gair ddim. Y mae mor gymwys i ateb i'w ddiben ag ydyw y gwlaw i ateb i'w ddiben ef.

2. Yr ydym weithiau yn ofni am ei lwyddiant, oherwydd nad ydym ni yn gweled pa fodd y gall lwyddo. Yn hyn y mae yn debyg eto i'r gwlaw a'r eira. Y mae dull llwyddiant y rhai hyny yn ddirgelaidd; ond y mae y tarddu a'r tyfu sydd yn ei ddilyn yn profi eu bod yn ateb eu diben. Felly ni wyddom ni ddim o ffordd Duw yn hyn ychwaith. Y mae teyrnas Dduw yn cael ei chymharu, yn nirgelwch ei llwyddiant, i'r hâd yn tyfu mewn ffordd nas gwyr y neb a'i bwriodd ef i'r ddaear. Nid ydym yn deall ei ddylanwad, mwy nag yr oedd y dall a gafodd ei olwg yn gwybod pa fodd y bu hyny; ond gall miloedd ddywedyd fel yntau, "Un peth a wn i, lle yr oeddwn i gynt yn ddall, yr wyf yn awr yn gweled;"—"lle yr oeddwn i gynt ymhell, heb obaith genyf, ac heb Dduw yn y byd, yr wyf yn awr yn agos." Pa fodd y bu hyny? Ryw fodd trwy y gair. Gochelwn rhag disgwyl i'r gair effeithio fel swyn: ar y llaw arall, na ddigalonwn am nad ydym yn gwybod ei fod yn gwneuthur dim; oblegid y mae yn fynych yn dwyn o amgylch gyfnewidiadau mawrion mewn modd nas gwyddom ni. Yr ydym weithiau yn cael ei weled yn ateb ei ddiben yn gyflym iawn; bryd arall yn araf: fel y gwelir y maes weithiau yn ymadnewyddu ymhen ychydig oriau ar ol cawod o wlaw, tra bydd yr eira amser arall yn gorphwys ar y ddaear am fisoedd; ac oni buasai fod profiad blaenorol yn ein dysgu yn amgen, buasai pob gobaith iddi dyfu yn darfod; ond fe welir ryw ddydd nad ofer fu disgyniad yr eira. Felly y mae dylanwad y gair. Darfu i un o ddinasoedd Samaria newid ei gwedd mewn diwrnod. "Yr ydych chwi yn dywedyd," meddai yr Arglwydd Iesu, "fod pedwar mis hyd y cynhauaf: edrychwch, y mae y maesydd yn wynion eisoes." Yr oedd yr holl bobl yn gytun yn ninas Samaria yn dal ar eiriau Phylip. Fe ffrwythlonodd mor gyflym ac mor rymus yn Ephesus, fel y dygwyd y llyfrau drwg i'w llosgi yn gyhoeddus. Yn fuan fuan felly y mae wedi bod mewn llawer o Ynysoedd Môr y De: y maent wedi tarddu a thyfu fel mewn un dydd. Bryd arall y mae y gair yn debycach

i'r eira nag i'r gwlaw,—yn ateb ei ddiben yn araf iawn; ond y mae yn sicr o lwyddo, yn gyflym neu yn araf; fel y gwlaw, neu fel yr eira.

3. Ond os nad ydym ni yn ei weled yn llwyddo fel y gwlaw, neu fel yr eira, eto nid oes dim o hono yn myned yn ofer. "Ni ddychwel ataf yn wâg; eithr efe a wna yr hyn a fynwyf, ac a lwydda yn y peth yr anfonais ef o'i blegid." Nid ydyw yn achub pawb, mwy nag y mae y gwlaw a'r eira yn ffrwythloni pob man: eto nid oes dim o hono yn myned yn ofer. Y mae gweithredoedd yr Arglwydd yn aml yn ymddangos i ni fel pe byddai colled ynddynt. Buasai llawer un yn meddwl y buasai y môr yna yn gwneuthur y tro yn llai nag ydyw; ac y mae dynion yn ceisio ei gau hyd y gallant â throsolion ac â dorau. Buasent yn meddwl y gwnaethai llawer llai o oleuni y tro, oherwydd onid oes cymaint o hono i'n golwg ni yn myned yn ofer yn y ffurfafen; ac y mae llawer yn tybied fod llawer o'r mynyddoedd yna yn ofer, ac mai gwell fuasai bod eu lle yn ddyffrynoedd breision; ond camsynied yr ydym yn y pethau hyn. Nid ydyw Duw yn gwneyd dim byd yn brin: ond nid ydyw ychwaith yn gwneuthur dim yn ofer. Felly, gellid meddwl fod llawer iawn o'r gwlaw yn myned yn ofer, oblegid onid oes cymaint o hono yn disgyn ar y mynyddoedd, lle nad oes na dyn nac anifail; ac ar y creigiau lle nad all dim dyfu? ond nid ofer ydyw er hyn. Beth ydyw y ffynon fechan a welwch chwi yn tarddu yn y dyffryn, yr hon sydd yn diodi anifeiliaid y maes, a thrigolion y pentref? Y gwlaw a welsoch chwi yn disgyn bymtheg milldir o'r fan yna, ar y creigiau, ac ar y mynyddoedd, yr oeddych chwi yn meddwl yno ei fod yn ofer, ond yma, chwi a welwch nad ofer a fu. Beth y mae y cenlliff sydd yn disgyn i lawr i lethr y mynydd yna da? Nid ydyw dda i ddim ond i wneuthur llyn ofer: na, nid mor ofer ag y dybiech chwi ugain milltir oddiyma: y mae y llyn yn gwneuthur i'r ddaear darddu a thyfu. Felly y mae y gair: dyna rywun yn ei wrandaw drwy'r blynyddoedd yn ofer, debygid; nid oes yna ddim daioni yn tarddu ac yn tyfu: gall nad oes. Ond feallai fod yna lyn yn cael ei ffurfio a fydd yn ireiddio rhyw ddyffryn ychydig oddiyna. Bu llawer tad fel y llyn i gadw y dwfr i ireiddio ei blentyn: er na chafodd y tad

ddim ei achub, fe achubwyd y plentyn ; ac y mae ein gwlad ni yn dra thebyg i'r mynyddoedd : gellid meddwl fod llawer iawn o'r gair yn myned yn ofer yma, fel y gwlaw ar y rhai hyny ; ond y mae y gwlaw a ddisgynodd ar y mynydd yna, yn tarddu yn ffynonau dwfr yng wastad-diroedd Affrica,—yn anialwch Asia,—yn niffaethwch Môr y De. Pe gofynid i ni, Beth ydyw y ffynonau dwfr sydd yn dechreu ymddangos yng nghrasdir China,—beth ydyw y dyfroedd sydd yn tori allan yn India,—beth ydyw y ffrydiau sydd yn disgyn ar lethrau bryniau Cassia,—beth ydyw yr afonydd sydd yn dechreu newid gwedd Arabia? Y gwlaw a ddisgynodd ar y myryddoedd ym Mrydain : "Ni ddychwel ataf yn wâg." Ac fel y mae yn rhaid cael llawer o ddyfroedd mewn ystyr naturiol, mewn gwlad i gael digon o darth neu o leithder yn yr awyr i gadw bywyd llysieuol rhag gwywo,—felly mae yr holl ymwneyd sydd gydâ gair Duw yn y dyddiau hyn. Os nad ydyw yn ateb yr un diben arall, y mae yn cadw ychydig o leithder yn awyr y wlad; ac felly yn atal hyny o rinwedd ac o grefydd sydd ynddi rhag cwbl wywo: am hyny nid ydyw yn ofer.

4. Fe lwydda; oblegid y mae, fel y gwlaw a'r eira, yn dyfod o le, sef o'r nefoedd, nad oes dim modd rhwystro ei lwyddiant. Y mae pob peth yr uchelder yn sicr o lwyddo : os o'r nefoedd y bydd yn dyfod, nid gwiw ymladd yn erbyn hwnw. Os daw goleuni o'r nef, ofer ydyw chwilio am un llestr i'w guddio. Buasai llestr yn gwneuthur rhywbeth i ganwyll, ond dim i oleuni y nef. Y mae hono yn uwch na ni. Felly y mae y Bibl yn son am bob peth y nefoedd, fel pethau nad oes dim modd eu gwrthwynebu. Y mae yr Arglwydd, trwy Moses, yn bygwth rhoddi llwch a lludw o'r nefoedd ar y bobl; hyny yw, fe'u rhoddid o le nad oedd modd eu hysgoi. Y mae Jehosophat yn dywedyd wrth yr Arglwydd, "Onid wyt ti yn Dduw yn y nefoedd?" a diwedd yr adnod ydyw, "nid oes neb a ddichon dy wrthwynebu di." Ac yn yr ail Salm yr ydym yn darllen, fod yr Arglwydd yn chwerthin wrth weled "brenhinoedd y ddaear yn ymosod, a'r penaethiaid yn ymgynghori ynghyd" yn ei erbyn, ac yn erbyn ei Grist ef,—a'r paham y mae yn gallu gwneuthur hyny ydyw, am ei fod "yn preswylio yn y nefoedd." I beidio mynychu esiamplau;—y mae pob peth y nefoedd yn

sicr o lwyddo. Y mae mynyddoedd uchel ar y ddaear,—rhy uchel i neb dynion allu eu dyfrhau hwynt; ond gan mai o'r nefoedd y mae y gwlaw a'r eira yn disgyn, fe'u dyfrheir hwynt, oblegid y mae hono yn ddigon uwch na'r uchaf o honynt. Pan agorwyd ffenestri y nefoedd yn amser y diluw, ofer oedd ceisio atal i'r cenllif ddisgyn; ac wedi i Elias gloi y nefoedd, nis gallasai Ahab na'i dywysogion gael dim gwellt mewn un man, gan fod ffrwythlondeb y ddaear yn dibynu ar bethau y nef. Nid all neb ar y ddaear atal i'r hauwr gael had, ac i'r bwytawr gael ymborth. Mor sicr a hyny, fe lwydda y gair, oherwydd y mae wedi dyfod o le digon uchel, fel y mae yn anmhosibl i neb ar y ddaear ei rwystro i hyny. Pan yr ydym ni yn anobeithio am ei lwyddiant, yr ydym yn gollwng dros gof o ba le y daeth. Nid aflwyddodd dim erioed a ddaeth o'r nefoedd. Fel y dywedodd gwraig Haman wrtho, mewn perthynas i Mordecai,—"Os o had Abraham y mae Mordecai, yr hwn y dechreuaist syrthio o'i flaen, ni orchfygi mo hono; ond gan syrthio y syrthi o'i flaen ef;" felly y gellir dywedyd wrth y ddaear am bob peth y nefoedd,—"Os o'r nefoedd y mae, ni orchfygi mo hono; oblegid y mae pob peth hono yn ddigon uwch na thi." Ni wyddom ni ddim beth fydd tynged miloedd o lyfrau sydd ar y ddaear heddyw: y mae yn ddigon tebyg mai eu colli a gânt mewn ebargofiant; ond dyma un Llyfr, beth bynag a fydd treigliadau yr oesoedd, a chwyldroadau y byd, a ddeil ei ffordd. Fe gyflawnir ei eiriau, oblegid o'r nefoedd y daeth; ac y mae ofni y bydd i anhawsderau iaith,—neu i afiachusrwydd hinsawdd,—neu i wrthwynebrwydd calon lygredig, ei luddias, mor afresymol ag a fyddai i ni ofni fod rhyw fynydd yn rhy uchel i'r gwlaw ddisgyn arno. "Gair Duw nis rhwymir." Os gellir rhwymo godreu y cwmwl,—os gellir rhoddi llyffethair ar y fellten,—os gellir rhoddi gorchudd dros wyneb yr haul,—yna fe ellir gobeithio rhwymo y gair; ond os ydyw y naill yn anmhosibl, y mae y llall felly hefyd. Os bydd rhwystrau mawrion yn y golwg, ar ffordd llwyddiant y gair, ni a gawn yr Arglwydd yn traethu ei amcan gyda golwg ar hyny, yn benderfynol iawn. Pan yn bygwth, trwy Esaiah, ddinystrio Babilon, yr oedd pob peth oedd yn y golwg, y pryd hyny, yn peri bod hyny yn annhebyg iawn o gymeryd lle byth: am hyny y mae Efe yn

ychwanegu, "Fy nghynghor a saif, a'm holl ewyllys a wnaf." Pan yn traethu pethau rhyfedd trwy y prophwyd Daniel, pethau anhygoel, gan mor ddieithr oeddent, fe ychwanegir fel ag i beri bawb gredu,—"yr hyn a ordeinwyd, a fydd." A byddai yn dda i ni gofio y gwirionedd hwn yn ei berthynas bersonol â phob un o honom:—"Efe a lwydda yn y peth yr anfonwyd ef o'i blegid." Os oes yma ryw fygythiad yn dy erbyn, er y gelli di heddyw fod mor annhebyg y gweli ef byth wedi ei gyflawni, ag oedd Babilon i gael ei dinystrio, pan brophwydodd Esaiah yn ei herbyn; eto, bydd yn haws i'r nef a'r ddaear fyned heibio, nag i'r adnod yna beidio ymarllwys i dy fynwes di. Os wyt ti wedi ymaflyd mewn rhyw addewid sydd yna, byddai yn haws atal i'r gwlaw ddyfod o'r nefoedd, nag atal i gynwys hono rywbryd ddylifo i dy enaid. "Efe a gyflawna," meddai Job, "yr hyn a osodwyd i mi," ac oddiwrth y profiad yr oedd wedi gael, yr oedd yn tybied mai pethau chwerwon fyddent; "am hyny," medd efe, "dychrynais rhag ei ofn ef." Y mae yn ofnus fod yma lawer un y byddai yr un peth yn briodol iddynt. Os na allant brofi nad gair Duw ydyw y Llyfr hwn, y mae ganddynt wir achos dychryn, oherwydd y mae yn eu herbyn hwynt. Yr hyn a osodwyd iddynt a gyflawnir.

Oddiwrth yr hyn a ddywedwyd, mi a ddymunwn ychwanegu rhai sylwadau yn gymhwysiadol:—

1. Ymarferwch â geiriau Duw, gan ddisgwyl iddynt lwyddo. Y mae y Bibl yn cael ei gyflawni yn ystyr oreu y gair yna i bawb sydd yn gwir ddisgwyl hyny. Nid yw y llafur ddim yn ofer yn yr Arglwydd; gan hyny, ewch at y Bibl dan ddisgwyl bod yn well bob tro o hyny. Ewch i'r odfa, dan ddisgwyl dyfod oddiyno yn amgen pobl nag yr aethoch chwi yno. Nid *lottery*, —nid chwareu damwain,—ydyw moddion gras; na, dowch iddynt i gael y *prize*, i enill y tlws. Gellwch ddarllen llawer llyfr am awr, heb fod yn ddim gwell yn y diwedd nag yn y dechreu; ond y mae yn anmhosibl darllen y Bibl felly, os disgwyliwn am lwyddiant. Y mae yr addewidion fel *cheques*, fel llaw-nodau, ar y Banc: nid oes eisiau ond eu cymeryd at yr Arianydd (*Banker*), na chewch chwi aur yn eu lle: "ni ddychwel ataf yn wâg." Ond os na chymeri di yr addewid i gael ei chyflawni, fe ddaw diwrnod cyflawniad y bygythiad. Y

mae hwnw yn dyfod; er yn araf, eto yn sicr. Ond os cewch chwi gyflawniad o'r addewid, fe rydd hyny ataliad ar gerbyd y bygythiad am byth: nid yn unig fe arafa yr olwynion, ond fe'u tyn, nes y bydd fel cerbydau Pharaoh i Israel. Ni oddiweddant hwy byth mo honoch.

2. Bydded genym hyder yng ngeiriau Duw fel y maent. Na cheisiwn ychwanegu dim atynt. Fe ddylai fod y cysegr a phob peth o'i amgylch yn weddus. Ni bydd ein haddoliad yn sicr yn fwy cymeradwy am ein bod yn addoli mewn lle tebycach i ysgubor nag i dabernacl neu deml. Na, arwydd ddrwg ydyw fod pobl yn ddiofal am wedd allanol cysegr Duw. Eto na feddyliwn byth am gael dim i'r cysegr i helpio geiriau Duw Os na bydd y gair yn creu defosiwn yn dy ysbryd, ni wna dim addurniadau ar nen, neu ar furiau, yr addoldy wneuthur hyny. Os na bydd y darlleniad syml o hono yn gwneuthur argraff arnom, ni wna rhyw lusgo arno, nad ydyw na chanu na darllen, wneuthur hyny. Os na bydd sancteiddrwydd gwrthddrych addoliad yn creu difrifwch yn y meddwl, ni wna cau allan oleuni y dydd o'r addoldy ddim gwneuthur hyny. Na cheisiwn ddim i wneuthur croes Crist yn ofer. Bydded genym hyder yn y gair ei hun, ac nid mewn dim a all dynion ei roddi o'i amgylch.

3. Ymdrechwn i gael pawb i'w glywed. Na adawn lonydd i'r bobl lonydd a diofal sydd yn ein hardaloedd, y rhai y mae yn ddifater ganddynt golli cyflawniad o addewidion y gair, ac nad ydynt yn ystyried fod y bygythion yn dyfod mor sicr ag addewidion y nefoedd, i arllwys eu cynwys ofnadwy i'w mynwesau. Os ceir hwynt yma, bydd genym obaith y cyflanwir yr addewidion iddynt; ond yn y fan lle y maent, y bygythion yn unig yw eu rhan. Anfonwn y gair hefyd i'r rhai sydd hebddo. Cofiwn oll, ni ddychwel yn wâg. Os cellwair a wnei di ar y maes yna, gan ddiystyru rhybudd pawb, ni effeithia dy anystyriaeth di ddim ar y cwmwl y mae y gawod ynddo; a chan sicred a'i bod hi yno, hi a ddisgyn yn y man. Ond y mae yna noddfa glyd gerllaw, ac y mae yr un Un ag sydd wedi sicrhau y daw y gawod o'r cwmwl, wedi sicrhau na ddaw yr un diferyn o honi drwy nen y noddfa. Y mae y ddau air y naill mor sicr a'r llall; ac y mae un o honynt yn sicr o gael ei gyflawni i mi ac i chwithau. Ni ddychwel yn wâg. Ffown i'r noddfa, fel y byddo gwirionedd Duw o blaid ein bywyd, a sicrwydd llwyddiant ei eiriau yn sicrhau ein hiachawdwriaeth.

[Ysgrifenwyd, Mehefin 26, 1853; Adysgrifiwyd, Mai 27, 1854.]

## PREGETH XXXVIII.

### "Y FFIGYSBREN DIFFRWYTH."

LUC XIII. 6—9 :—" Ac efe a ddywedodd y ddammeg hon : Yr oedd gan un ffigysbren wedi ei blannu yn ei winllan ; ac efe a ddaeth i geisio ffrwyth arno, ac nis cafodd. Yna efe a ddywedodd wrth y gwinllanydd, Wele, tair blynedd yr ydwyf yn dyfod, gan geisio ffrwyth ar y ffigysbren hwn ; ac nid ydwyf yn cael *dim :* tòr ef i lawr ; paham y mae efe yn diffrwytho y tir? Ond efe gan atteb a ddywedodd wrtho, Arglwydd, gâd ef y flwyddyn hon hefyd, hyd oni ddarffo i mi gloddio o'i amgylch, a bwrw tail: ac os dwg efe ffrwyth, *da :* onid ê, gwedi hynny tòr ef i lawr."

YR hyn a achlysurodd lefariad y ddameg hon oedd gwaith y bobl hyn yn mynegu i'r Arglwydd Iesu am y Galileaid, y cymysgasai Pilat eu gwaed ynghyd â'u haberthau. Yr oedd Iesu Grist newydd fod yn traethu ar y pwys o fod yn weision ffyddlawn, ac ar ran y gwas anffyddlawn pan y deuai ei arglwydd i wneuthur cyfrif âg ef. Awgrymodd i'w wrandawyr, y rhai a ddarlunid yn y gwas anffyddlawn, y dylent ddeall oddiwrth arwyddion yr amseroedd fod eu Harglwydd wrth y drws ; am hyny mai synwyr ynddynt fyddai gwneuthur yn fawr o'r adeg fèr oedd ganddynt, a cheisio maddeuant cyn y teflid hwynt i'r carchar, o'r hwn nid oedd diangfa ond trwy dalu y ffyrling eithaf. Wrth glywed y pethau hyn, y mae rhai o'r gwrandawyr yn coffâu am y Galileaid, feallai, fel eglurhad pellach ar yr hyn oedd wedi ei draethu, fod pechaduriaid mawrion fel y Galileaid yn cael eu goddiweddyd gan farnau mawrion. Neu, gall mai eu diben yn crybwyll hyn oedd, i gael cyfeirio at Pilat. Os gwir yr athrawiaeth y goddiweddid pechaduriaid mawrion â barnau mawrion, beth fydd rhan y Pilat drygionus hwn, yr hwn a fu yn achos o'r ysgelerder o dywallt gwaed aberthwyr

yn gymysg â'u haberthau. Ond tebycach ydyw, mai diben y bobl yn mynegu hyn oedd, i geisio troi sylw y pregethwr oddiwrth eu mater personol hwy eu hunain at beth na pherthynai iddynt, yn gyffelyb fel y gwnaeth y wraig o Samaria, pan ddechreuodd geiriau y pregethwr chwilio dirgelion ei chalon. Ond cymerodd Iesu Grist fantais ar hyn hefyd i ddwyn eu hachos personol hwy eu hunain adref at eu meddwl Nid ydyw yn dywedyd gair am Pilat, ond yn edrych ar yr amgylchiad a goffâwyd yn ei berthynas â'r bobl oedd yn gwrandaw; ac y mae yn coffâu amgylchiad arall nad oedd a fynai llaw dyn âg ef o gwbl, sef syrthiad y twr yn Siloam ; ac oddiwrth y ddau yn dangos i'r bobl,—

(1.) Er nad oes dioddef heb bechod, eto nad ydym i gymeryd dioddefiadau personol neb, yn brawf o bechadurusrwydd personol mwy ynddynt hwy nag eraill. Nid oedd y Galileaid a laddwyd gan Pilat ddim yn bechaduriaid mwy na'r holl Galileaid; na'r deunaw a laddwyd gan syrthiad y twr ddim yn fwy pechaduriaid na'r holl rai oeddent yn cyfaneddu yn Jerusalem.

(2.) Dengys hefyd mai yr olwg iawn ar farnau ydyw edrych ar y neb sydd odditanynt fel ein cynrychiolwyr ni, a gweled ynddynt hwy ein haeddiant a'n tynged ein hunain onid edifarhawn. "Chwi a ddifethir oll yn yr un modd." Mae yn deilwng o'n sylw fod y geiriau hyn wedi eu cyflawni yn llythyrenol ar y genedl hon ; fel y lladdwyd y Galileaid gan y llywydd Rhufeinig Pilat ar wyl y Pasg, felly ar wyl y Pasg, ymhen rhai blynyddoedd ar ol hyn, y dinystriwyd Jerusalem, ac y lladdwyd canoedd o filoedd o Iuddewon gan yr un Rhufeinwyr; ac fel y lladdwyd y deunaw hyny gan syrthiad twr Siloam, felly lladdwyd canoedd lawer o drigolion Jerusalem, gan syrthiad rhai o dyrau y deml a muriau y ddinas yn y dinystr. "Chwi a ddiffethir oll yn yr un modd."

(3.) Drachefn, dengys fod arbediad rhai rhag y barnau y mae eraill odditanynt i gael edrych arno fel amlygiad o benarglwyddiaethol ras, yn rhoddi amser iddynt hwy i edifarhau, ac felly dianc rhag y farn; ond onid edifarhant mai dinystr sicr, a dinystr llwyr, a'u goddiweddai hwythau hefyd. Hwn ydyw y gwirionedd a gyflwynir i sylw yn nameg y testyn.

Wrth y winllan hon yr ydym i ddeall cenedl Israel yn y

cyfanswm; ac y mae nodi un ffigysbren allan yn rhoddi mantais i bob un gymhwyso y gwirionedd pwysig sydd ynddi ato ef ei hun. Felly, y mae y ddameg yn cynwys y genedl yn y cyfanswm, ac yn cynwys hefyd gyfeiriad personol at bob aelod o honi. Perchen y winllan ydyw Duw. Wrth y gwinllanydd yr ydym i ddeall Pen yr eglwys, a phawb sydd yn cymeryd trafferth gyda'r ffigysbren, oblegid dros Grist, ac yn lle Crist, y mae yr holl weision yn llafurio.

Dameg ydyw y testyn, sef gwirionedd wedi ei wisgo gan Iesu Grist â chorff; gan hyny, ni ddylem geisio ei ddiosg, ond yn hytrach amcanu dal cymundeb âg ef drwy'r corff. Y mae y corff yn fantais i ni, ond gofalu rhag colli yr ysbryd yn y wisg. Y mae perygl ar bob llaw: weithiau y mae gwirionedd noeth i'n meddwl pwl ni fel yr ysbryd a welodd Eliphaz; nid ydym yn adwaen ei agwedd; drychiolaeth ydyw, y mae y meddwl yn methu cael gafael arno. Bryd arall, y mae y corff fydd am wirionedd yn ei guddio mor llwyr, nes y mae y meddwl yn methu ei ganfod o gwbl, fel y gwnaeth dameg Nathan i Dafydd. Ond wrth alw eich sylw at y testyn, ni a geisiwn ochel y ddau eithaf yna, ac edrych ar y gwirionedd sydd ynddo yn y wisg sydd am dano. Y ddau beth a ddaw dan ein sylw ydynt:—

I. Y ddadl yn erbyn y ffigysbren.

II. Y ddadl o'i blaid. Neu y rhesymau dros ei dori i lawr, a'r rhesymau dros oedi gwneyd hyny.

Y rheswm mawr dros ei dori i lawr ydyw, nad ydoedd yn ffrwytho; ond y mae hwn yn cynwys amryw bethau sydd yn dangos grym y ddadl yn erbyn y ffigysbren.

1. Os nad ydoedd yn ffrwytho, nid ydoedd yn ateb diben ffigysbren, oblegid nid ydoedd yn werth dim ond i ffrwytho. Gellir cymhwyso y darluniad a rydd y prophwyd o'r winwydden at yr holl goed sydd yn dwyn ffrwyth: nid ydynt yn gymwys i ddim gwaith; eu hunig ddiben ydyw ffrwytho: gan hyny y mae ffigysbren diffrwyth yn ffigysbren diwerth, ac felly y mae yn anurddo creadigaeth Duw, oblegid nid oes dim ofer i fod ynddi hi. Os nad ydyw dyn yn dwyn ffrwyth i Dduw, y mae yn ddiwerth, oblegid ei unig ddiben ydyw hyny. Ffrwyth ydyw cynyrch a fyddo yn gyfatebol i natur y pren, ac i amgylchiadau y pren. Rhaid cymeryd y ddau beth i'r ystyriaeth,

sef, natur y pren, a'i amgylchiadau, cyn y gellir rhoddi barn ar y ffrwyth sydd i'w ddisgwyl. Ffrwyth ar ddyn, mewn un gair, yw cariad at Dduw. Hyn ydyw ffrwyth pob creadur rhesymol; ond fe amlyga y ffrwyth hwn ei hun yn gyson âg amgylchiadau dyn. Felly bydd ffrwyth dyn, er ei fod o ran ei egwyddor yr un âg eiddo'r angel, ychydig yn wahanol o ran ei ffurf allanol. Hyn ydyw ffrwyth dyn:—edifeirwch tuag at Dduw; credu yn Nuw; ac ufuddhau i Dduw. Dyma holl ddyled dyn.

Os bydd dyn yn syrthio yn fyr o ateb y diben hwn, gellir gofyn am dano, Pa ddiben y mae yn ei ateb? Onid oferedd ydyw ei oes, os nad ydyw hi yn ffrwyth i Dduw? Edrychwch arni hi ymhob goleuni arall, "gwagedd o wagedd" ydyw. I beidio son am bethau y mae bron bawb yn edrych arnynt fel yn annheilwng o ddyn, edrychwn arno yn cysegru ei alluoedd a'i amser at y pethau hyny a ystyrir yn deilwng o greadur rhesymol: os na bydd hyny yn amlygiad o enaid yn teimlo yn iawn at Dduw, oferedd fydd yr oll. Tybiwch ei fod yn treulio ei amser i astudio gweithredoedd Duw,—i fesur y bydoedd uwchben,—i wybod eu maint; neu i gloddio i grombiloedd y ddaear, i gael allan ei defnyddiau a'i hoedran hi: os nad ydyw hynyna yn ffrwyth i Dduw, beth ydyw? Nid oedd ar yr Anfeidrol ddim eisiau *surveyor* i fesur ei fydoedd: fe ŵyr ef eu maint hwy at y fodfedd: nid oedd arno ddim eisiau hynafiaethydd i fynegu iddo oedran y ddaear; fe wyr hwnw at y foment. Ond yr oedd yn disgwyl gweled ei greadur yn ceisio ei adnabod Ef, er mwyn cael ymhyfrydu ynddo; ac os ydyw y dyn yn gwneuthur y pethau hyn i sylwi ar dragywyddol allu y Duwdod ynddynt, y mae hyny yn ffrwyth i Dduw. Ond y mae gwneyd hyn i bob diben arall yn wagedd ac oferedd.

Neu, edrychwch ar y lliaws ymhob gwlad sydd yn treulio eu dyddiau i ymguro mewn llafur caled i geisio drwy hyny ateb y cwestiynau,—"Beth a fwytäwn?" "Beth a yfwn?" "Â pha beth yr ymddilladwn?" Os nad ydyw hyny yn ffrwyth i Dduw, yn amlygiad o feddwl yn plygu i ewyllys yr Arglwydd, y mae yn myned yn beth rhy isel byw er ei fwyn. Y mae dyn yn y goleuni yna yn myned yn îs na'r anifail a ddifethir. Y mae yr anifail yn cael y pethau hyn heb bryderu nac ymguro

mewn llafur caled i hyny. Ond os byddant yn amlygiad o feddwl yn plygu i ewyllys Duw, dyna hwy yn ffrwyth i Dduw, ac y mae hyny yn urddasoli y pethau iselaf. Edrychwch ar weithred tri chedyrn Dafydd, yn tori trwy wersyll y Philistiaid i dynu dwfr o bydew Bethlehem, arni ei hun, ac ymddengys yn ffolineb, cwbl annheilwng o ddynion yn eu pwyll, anturio eu bywyd er mwyn cyn lleied peth: ond os edrychir ar y weithred yn ei pherthynas â Dafydd, fel amlygiad o deyrngarwch y cedyrn i'w brenin, y mae yn ymddangos yn weithred deilwng ac anrhydeddus yn y goleuni yna. Felly y mae urddas ar bethau iselaf dyn, os byddant yn amlygiad o galon yn teimlo yn deyrngarol at Dduw, hyny yw, os ydynt yn ffrwyth, y maent yn werthfawr, neu nid ydynt yn ddim. Unig ddiben dyn ydyw ffrwytho: os nad ydyw yn ateb hwnw, nid oes yr un rheswm dros beidio ei dori i lawr.

2. Yr ail beth yn y ddadl dros dori y ffigysbren i lawr oedd ei fod wedi cael pob mantais i ffrwytho, a'r oll wedi bod yn ofer iddo. Ffigysbren wedi ei blanu mewn gwinllan ydoedd. Pe buasai ar ymyl y ffordd, heb ddim gofal am dano, dylasai ffrwytho. Melldithiwyd ffigysbren diffrwyth ar ymyl y ffordd. Pa faint mwy oedd dyled ffigysbren y winllan i ffrwytho? ac yr oedd mawredd y fantais a gafodd i hyny yn troi yn rym yn y ddadl dros ei dori i lawr.

Ffigysbren ymyl y ffordd ydyw Paganiaid y byd. Y mae hi yn ddyled arnynt hwy i ffrwytho; fe'u melldithir am na ffrwythant: ond ffigysbrenau gwinllan ydym ni; rhai y gellir gofyn am danynt, "Beth yn ychwaneg oedd i'w wneyd iddynt?" Pe meddyliech am y ffrwyth a nodwyd,—"Edifeirwch tuag at Dduw," "credu yn Nuw," ac "ufuddhau i Dduw," onid ydyw pob peth a all ddeffro y teimladau yna yn mynwes dyn wedi eu dwyn i ddylanwadu ar drigolion gwlad efengyl. Pe cymharech chwi ddatguddiad y Pagan a'n datguddiad ni â'u gilydd, chwi a welech y fantais y mae ffigysbren y winllan wedi ei chael i ffrwytho, ragor ffigysbren ochr y ffordd. Un haul sydd yn dylanwadu ar ffigysbren ochr y ffordd, ond y mae dau ar ffigysbren y winllan, sef haul y nefoedd wybrenol, a haul nef y gogoniant hefyd. Un math o wlith a gwlaw sydd yn disgyn ar ffigysbren ochr y ffordd; ond y mae ffigysbren y

winllan yn cael dau fath, y naturiol, a gwlith bryniau tragywyddoldeb, a gwlaw cymylau trugaredd achubol hefyd. Rhagluniaeth wedi ei chordeddu âg iachawdwriaeth; gwlaw oer rhagluniaeth yn cael ei droi yn faethlawn gan wrês haul iachawdwriaeth; a gwrês rhagluniaeth yn cael ei atal rhag ei niweidio gan wlith iachawdwriaeth. Fe ddylai ffigysbren y winllan ffrwytho. Nid ydyw mor ryfedd fod y Pagan heb edifarhau, oblegid nid ydyw yr 'Hwn a wânwyd' ddim yn ei olwg ef. Nid yw mor ryfedd ei fod heb gredu: nid oes ganddo uac addewidion, na llwon, na gwaed yn sail i'w ffydd. Nid yw mor ryfedd ei fod heb ufuddhau, oblegid y mae ganddo ryw fath o achlysur i ddywedyd mai gŵr caled yw y meistr. Ond y mae yn sŷn fod neb o honom ni heb wylo edifeirwch pur, ac Iesu Grist wedi ei groeshoelio wedi ei bortreadu o flaen ein llygaid. Y mae yn sŷn ein bod ni heb gredu, a "llwon," "addewidion," a "gwaed," yn sail i'n ffydd. Y mae yn sŷn ein bod ni heb ufuddhau, a'r Duw mawr wedi amlygu ei Hun yn Dduw y cariad i ni. Nid oedd brenhines Seba, er clywed am fawredd Solomon, ddim yn credu pan yn y wlad bell oddiwrtho; ond pan y daeth hi i Jerusalem i weled y gogoniant â'i llygaid, ac i glywed y doethineb â'i chlustiau ei hun, hi gredodd yr oll. Pe byddai y Paganiaid heb gredu, nid dieithr iawn a fyddai hyny, oblegid mewn gwlad bell y maent; ond y mae yn sŷn fod neb o honom ni, drigolion Jerusalem, sydd yn gweled y pethau mawr, ac yn clywed y pethau rhyfedd, felly. Yr ydym wedi cael pob mantais i ffrwytho, ac y mae mawredd y fantais yn rym y ddadl dros dori y ffigysbren i lawr.

3. Rhan arall yn y ddadl dros dori y ffigysbren i lawr oedd ei fod wedi cael *amser* digonol i ffrwytho. "Wele, tair blynedd yr ydwyf yn dyfod, gan geisio ffrwyth." Dylasai ffrwytho y flwyddyn gyntaf; yr oedd y ddyled hono yn fwy yr ail; ond yr oedd y gyntaf a'r ail wedi myned heibio, a'r drydedd yn darfod, a pherchen y winllan yn dywedyd, "Nid wyf yn cael dim." Y mae yn sylw cyffredin am y ffigysbren, os na ffrwytha yn y drydedd flwyddyn, nad oes ond gobaith gwanaidd iawn, os dim, iddo ffrwytho byth.

Tybir fod yma yn llythyrenol gyfeiriad at dair blynedd gweinidogaeth yr Arglwydd Iesu. Yr oedd ei eiriau grasusol

a'i weithredoedd hynod y flwyddyn gyntaf yn profi pwy ydoedd, ond aeth hono heibio heb i'r genedl ei dderbyn; ond erbyn yr ail flwyddyn ychwanegwyd y profion: fe gododd feirw yn yr ail flwyddyn,—dyma brawf cryfach na dim a gafwyd yn y gyntaf; ond aeth y prawf yn gryfach eto y drydedd flwyddyn. Yn y ddwy flynedd gyntaf o'i oes gyhoeddus, cadw yn nghyrau eithaf y wlad y byddai, ond ar y gwyliau: nid oedd y penaethiaid, y mawrion, calon y wlad, ddim yn cael oherwydd hyn gystled mantais i'w adwaen; yn unig byddent yn clywed o bell sôn am dano, ac yn ei weled am ysbaid byr ar y gwyliau: ond fe dreuliodd y chwe' mis olaf o'r drydedd flwyddyn yn Judea, a llawer o honynt yn Jerusalem a'r gymydogaeth, ac amlygodd ei allu dwyfol mewn gwyrthiau mwy hynod na dim a gyflawnesid ganddo cyn hyny. Yr oedd wedi codi meirw yn yr ail flwyddyn, ond fe gododd un o'r bedd yn y drydedd, a daeth ei ddoethineb dwyfol i'r golwg yn fwy amlwg nag o gwbl yn ei bregethau a'i ymddiddanion digyffelyb; fe hònodd ar air ei fod yn Fab Duw, a phrofodd hyny ar weithred. Ac os oedd y drydedd flwyddyn wedi methu cynyrchu ffrwyth, beth a'i cynyrchai? "Wele, tair blynedd yr wyf yn dyfod."

"Wele, tair blynedd." Yn ei berthynas â ni,—gall fod gan yr ymadrodd hwn gyfeiriad at gyfnodau yn oes dyn, ymha rai y mae yr Arglwydd fel yn dyfod ato i geisio ffrwyth. Cyfnod ieuenctyd,—dyna flwyddyn y gallesid disgwyl ffrwyth ynddi. Cyfnod canol oes dyn,—dyna flwyddyn yr oedd hi yn rhyfeddach eto na buasai ffrwyth ynddi. Cyfnod henaint,—dyna flwyddyn, os nad oes ffrwyth yn ymddangos ynddi, y mae hi yn ymyl bod yn anobeithiol ei weled byth; oblegid, fel y mae y cyfnodau hyn yn dirwyn ymlaen, y mae y cymhelliadau i ffrwytho yn cryfhau. Y mae gan grefydd gymhelliadau digon cryfion i'r gwr ieuanc ymaflyd ynddi. Ni raid iddi ofni sefyll yn ymyl y byd pan y mae hwnw yn ei wedd oreu. Yn nhymor ieuenctyd y mae y byd yn fwyaf swynol i ddyn; ond y mae crefydd yn harddach nag ef pan y mae yn ei wisgoedd goreu. Y mae y flwyddyn yna wedi myned heibio ar lawer sydd yma, a hyny ddywedwyd gan berchen y winllan ar ei diwedd hi, "Nid wyf yn cael dim." Ond y mae cymhelliadau crefydd yn cryfhau yn yr ail gyfnod. Pan y mae trafferthion a phrofedigaethau canol oes yn ei

gyfarfod, ei gwpan yn chwerw, a'i groes yn drom, y mae crefydd yn d'od ato i gynyg cario un pen i'r groes gydag ef, ac i gynyg pereiddio y cwpaneidiau chwerwon ; ond yn ofer y cynygiodd hi hyny i lawer sydd yma. Aeth y flwyddyn heibio, ac iaith perchen y winllan yn ei diwedd hi oedd, "Nid wyf yn cael dim." Ond am y trydydd cyfnod, sef henaint, y mae yn rhyfeddach eto na byddai ffrwyth ynddo; oblegid y mae y byd yn cilio y pryd hyny, pydewau cysur dyn, nid yn myned yn doredig, yr oeddynt felly yn aml yn y cyfnodau blaenorol; nid yn myned yn gyfryw ag y mae yn rhaid eu galw yn Esec a Sitnah, sef cynen a dygasedd, yr oedd yn rhaid eu galw felly yn fynych yn nghanol-ddydd oes, ond yn myned o'r golwg yn hollol, a'r dyn yn cael ei hun mewn anialwch, fel Hagar, heb ganfod yr un pydew i'w ddisychedu o'i fewn ; ond y mae crefydd yn d'od ato yno, ac fel angel Duw, yn cynyg dangos iddo ffynon y bywyd. Ond y mae y flwyddyn yna hefyd ar fyned heibio ar rai sydd yma, a'r Arglwydd yn dywedyd, "Nid wyf yn cael dim."

Yr ydych oll wedi cael tair blynedd, er nad oll yn yr ystyr a enwyd. Yr ydych wedi gweled blwyddyn y denu ; yr ydych wedi gweled blwyddyn y trafferthion ; yr ydych wedi gweled blwyddyn y siomedigaethau. Dyna oedd llais yr Arglwydd wrthych yn y gyntaf, "Fy mab, moes i mi dy galon ;" yn yr ail, ei iaith ydoedd, "Deuwch ataf fi bawb a'r y sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythâf arnoch ;" ac yn y drydedd, wedi i chwi gael eich siomi gan y byd, y cnawd, a'r diafol, dyna oedd ei leferydd, "Er iti buteinio gydâ chariadau lawer, eto dychwel ataf fi." "Wele, tair blynedd yr ydwyf yn dyfod, gan geisio ffrwyth ar y ffigysbren hwn, ac nid ydwyf yn cael dim." Y mae wedi cael amser digonol i ffrwytho: y mae hyny yn rym yn y ddadl yn ei erbyn.

4. Y peth olaf yn y ddadl dros ei dori i lawr ydoedd, ei fod yn diffrwytho y tir. Mae y ddadl yn casglu nerth o hyd. Yr oedd ei fod ef ei hun yn ofer, er ei fod wedi cael lle ac amser i ffrwytho, yn ddadl gref dros ei dori i lawr; ond y mae yn gwneyd rhywbeth gwaeth na bod yn ofer ei hun, y mae yn troi pob peth o'i gwmpas i oferedd,—"diffrwytho y tir." Y ffigysbren oedd i droi gwres yr haul, gwlaw y nefoedd, dylan-

wadau yr awyrgylch, a nôdd y ddaear, i ffrwyth; a chan nad oedd yn gwneyd hyny, yr oeddent yn myned yn ofer yn eu perthynas âg ef. Trwy ddyn y mae yr holl greadigaeth i ateb ei diben i Dduw. Y mae cyfansoddiad ei gorff a'i feddwl yn dangos hyny, yn annibynol ar fod yr un peth yn cael ei ddangos yn y Bibl, oblegid y mae y greadigaeth oll yn cyd-gyfarfod mewn dyn. Y mae hyny yn wirionedd wedi ei brofi, fod pob bywyd sydd ar y ddaear yn mywyd dyn; er esiampl, y mae yr ymenydd dynol yn myned trwy ffurf ymenydd pob creadur cyn cyraedd ei berffeithrwydd: y pysgodyn yn gyntaf, yna yr ymlusgiad, yna yr aderyn, yna yr anifail, yna y dyn; felly yr oedd creadigaeth dyn, nid yn unig yn orpheniad ar waith y chwe' diwrnod, ond yn grynhoad ar yr oll i un man. Adda oedd ei enw, sef daear,—yr oedd hi oll ynddo; a thrwyddo yr oedd hi i gael ei chysylltu â'r nefoedd, oblegid anadlwyd yn ei ffroenau anadl einoes, anadl Duw, a thrwy yr elfen ysbrydol yna, yr oedd yr oll i fyned yn ogoniant i Dduw. Mae dyn, gan hyny, yn gynrychiolydd y greadigaeth mewn ystyr eangach a dyfnach nag yr ydym wedi arfer meddwl. Nid ydyw fod y ffigysbren diffrwyth yn cymeryd lle un a fuasai yn ffrwytho, ddim ond rhan fechan o'r drwg: yn ychwanegol at hyn, y mae yn diffrwytho, yn troi i oferedd, holl greadigaeth Duw. Nid gwneyd gwaith prydnhawn y chwe' diwrnod yn ofer y mae dyn, ond troi gwaith yr wythnos ryfedd oll yn ofer; oblegid drwy yr hyn a wnaed brydnhawn y chweched dydd, yr oedd yr wythnos i ateb ei diben.

Dyn yw goruchwyliwr y darn yma o ystâd y brenin tragywyddol, ac y mae yr ardreth yn d'od i mewn yn ei phryd. Nid oes un tenant anonest na gwan ar yr ystâd. "Y mae y nefoedd yn datgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen yn mynegu gwaith ei ddwylaw ef." Ond nid ydyw y perchen yn cael dim o'r ardreth, am fod y goruchwyliwr yn anghyfiawn. Yr oedd y *telegraph* a osodwyd o'r Iwerddon i America, ond a fethodd yn ddiweddar, yn trosglwyddo yr oll yn berffaith i un man ar y rhaff, ond yr oedd yr un gwall hwnw yn gwneyd y rhaff oll yn ofer. Y mae y rhaff sydd i drosglwyddo mawl y ddaear i'r nefoedd heb ond un gwall ynddi,—dyn ydyw hwnw: ond y mae y lle gwallus yna yn gwneyd y rhaff oll yn ofer: "diffrwytho y

tir." O! gymaint o bethau sydd yn myned yn ofer yn eu perthynas â'r dyn diffrwyth! Gall yr haul ddywedyd wrth fyned i'w ystafell yn niwedd pob dydd, 'Yn ofer y rhedais fy ngyrfa heddyw fel cawr, i ddangos fy ufudd-dod i'm Creawdwr; nid oes yma neb i fyned â'm teyrnged i mewn i'r llys.' Gall y nefoedd hithau ddywedyd bob nos, 'Yn ofer y dadgenais inau ogoniant Duw, ac y mynegodd fy ffurfafen i waith ei ddwylaw Ef; nid oes yma neb i gyflwyno fy mawl i iddo.' Gall rhagluniaeth ddywedyd, 'Yn ofer yr wyf finau yn d'od â'm tymhorau ffrwythlon, â'm lluniaeth, a'm llawenydd, fel arogldarth i'w losgi ar thuser y deml; nid oes yma yr un offeiriad i fyned i'r cysegr,—"Diffrwytho y tir." Ië, i lawer sydd yma yn awr, gellir dywedyd, Yn ofer y bu y patriarchiaid byw; yn ofer y llefarodd y prophwydi; yn ofer yr efengylodd yr apostolion; yn ofer yr ymddangosodd Duw yn y cnawd; yn ofer y bu marw mawr Calfaria fryn; yn ofer y cynhyrfwyd dynion sanctaidd i ysgrifenu y Llyfr hwn; yn ofer y seliodd y tystion ef â'u gwaed; oblegid nid oes yr un o'r pethau yna wedi ateb eu diben i chwi. "Diffrwytho y tir." Y mae y ddadl yn gref, onid ydyw? dros dori y ffigysbren i lawr. Y mae yma leisiau fyrdd, fel swn dyfroedd lawer, yn dywedyd, "Tòr ef i lawr;" bydd rhyw obaith am ei gymydogaeth wed'yn: "Tòr ef i lawr;" bydd rhyw obaith i fyrr a chasia Pen Calfaria buro yr awyr y mae wedi ei heintio â'i bechodau wed'yn; "Tòr ef i lawr," "tòr ef i lawr." Dyna dynged y ffigysbren wedi ei phenderfynu: y mae yn rhywyr ei chario i weithrediad;—na, y mae yma air pellach i'w ddywedyd:—

II. Y ddadl drosto: "Gad ef y flwyddyn hon hefyd." Ond nid yw y ddadl drosto ddim yn agos cyn gryfed a'r ddadl yn ei erbyn; ond y mae yn ddigon cref iddo ddianc, er cryfed yr achos yn ei erbyn.

1. Y peth cyntaf yn y ddadl oedd, nad oedd yn gofyn ond am amser byr iddo,—blwyddyn. Yr ydoedd wedi cael tair, ond nid oedd y gwinllanydd yn meiddio gofyn am dair eto, am fod yr achos mor gryf yn ei erbyn: dim ond blwyddyn. Y mae y tair blynedd trosodd ar rai sydd yma, ac y maent yn awr yn y flwyddyn ddifrifol sydd i benderfynu eu tynged am byth. Fe fu y dyn yn wr rhydd am flynyddoedd; ond fe flinodd amynedd

Duw yn ei oddef: aeth y cyhoeddiad allan,—"Tòr ef i lawr;" ond fe lwyddodd eiriolaeth trugaredd i gael estyn y cylch am flwyddyn, ond y foment yr ä dros farciau y flwyddyn, bydd yn ngafael y dinystr. Fe fu Simei yn wr rhydd yn Jerusalem, yn gallu myned a dyfod lle a phryd y mynai; ond fe dynodd Solomon gylch o'i gwmpas: yr oedd ei fywyd yn ddiogel tra o fewn y cylch; ond pan aeth trosto, aeth i afael angau. Y mae cylch y flwyddyn ddifrifol, *y flwyddyn hon*, *blwyddyn yr eiriolaeth*, wedi ei dynu o gwmpas rhai sydd yma: os eir tros hwnw heb ffrwytho, "tòr ef i lawr," sydd yn dilyn hyny.

2. Peth arall yn y ddadl trosto oedd, fod y gwinllanydd yn myned i ddefnyddio moddion ychwanegol ato i geisio cael ffrwyth, sef cloddio a bwrw tail. Y mae hyn yn ei gysylltiad â'r genedl Iuddewig, yn cyfeirio at farwolaeth y groes, a thywalltiad yr Ysbryd, a'r pethau rhyfedd a gymerasant le yn sefydliad Cristionogaeth. Yr oedd y gwinllanydd yn gobeithio, os oedd bywyd y Person mawr wedi methu llwyddo i'w plygu, y llwyddai ei farwolaeth i hyny; ac os oedd pregethau Mab Duw wedi methu eu perswadio, y llwyddai Ysbryd Duw i wneyd hyny. A blwyddyn ryfedd yn eu hanes hwynt oedd blwyddyn y cloddio a'r bwrw tail; ond i gorff y genedl blwyddyn ofer a fu hono hefyd. Hyny ydyw y cloddio a'r bwrw tail yn ei berthynas â ni:—ymweliadau anghyffredinol yr Arglwydd; pan y mae pethau dieithr yn cymeryd lle mewn rhagluniaeth, cloddio a bwrw tail ydyw hyny; ac yn enwedig, pan y mae Ysbryd Duw yn cael ei dywallt mewn modd anghyffredinol. Ac y mae yn briodol galw y dyddiau hyn yn adeg cloddio a bwrw tail yn yr ystyr hwn; ac y mae yr oruchwyliaeth wedi ateb ei diben i filoedd o ffigysbrenau diffrwyth. Y maent wedi eu hireiddio, ac wedi eu anghymwyso i dân; ac os nad ydyw y ffrwythau yn fawrion, ac yn addfed, y maent yn tyfu bob dydd, ac yn addfedu hefyd. Ond mi ddymunwn i'r rhai y mae y cloddio a'r bwrw tail heb ateb y diben, gofio dau beth: (1.) Peth dros amser byr ydyw y cloddio a'r bwrw tail. (2.) Y peth olaf ydyw. Gall fod rhai o honoch yn disgwyl rhywbeth eto. Y mae y peth olaf wedi ei wneyd: yr oruchwyliaeth olaf ydyw goruchwyliaeth y flwyddyn hon.

3. Dadl arall drosto oedd fod tori i lawr yn beth mor bwysig

fel yr oedd y gobaith gwanaf am iddo ffrwytho yn werth ei adael am flwyddyn er ei fwyn. "Os dwg efe ffrwyth :" y mae hyn yn dangos fod y peth yn dra amheus, ac eto nid yn gwbl ddiobaith. "Os dwg efe ffrwyth." Y mae yn cynwys hefyd fod ffrwytho yn beth mor annhraethadwy bwysig, fel y mae yn werth ei adael am flwyddyn, er mwyn y gobaith gwanaf am hyny. Y mae ein cyfieithwyr ni wedi rhoddi y gair "*da*," i mewn, "Os dwg efe ffrwyth, *da* ;" ond nid ydyw yn y ddameg, fel y daeth hi o enau Mab Duw; ac y mae yr iaith yn gryfach o lawer hebddo. "Os dwg efe ffrwyth ;"—iaith doredig ydyw hon, i ddangos fod y posibilrwydd noeth iddo ddwyn ffrwyth, er fod yno annhebygolrwydd mawr, eto fod y posibilrwydd yn werth gwneyd un ymdrech mawr er ei fwyn, am fod canlyniadau peidio ffrwytho mor ofnadwy, sef "tori i lawr." Y mae colli enaid yn beth mor arswydlawn, fel y mae yn werth gan bawb a wyr ddim am ofnadwyaeth y trychineb wneuthur unrhyw ymdrech er mwyn y gobaith gwanaf am ei gadw. Nid peth bychan yw tori i lawr. Y mae hyny yn d'od i'r golwg mewn nad oes neb mewn brys i wneyd hyn: Perchen y winllan yn cyflwyno y gwaith i'r gwinllanydd ; y gwinllanydd yn ei gyflwyno yn ol i'r Perchen. Y mae gweinyddu yr ail farwolaeth ar enaid mawr dyn yn waith mor ofnadwy nad oes neb yn ei hoffi. Nid oes neb mewn brys i fyned ato, ond y diafol, fel y Doeg hwnw i ruthro ar yr offeiriaid yn Nob gynt.

4. Y peth olaf yn y ddadl drosto ydyw, nad ydyw y gwinllanydd am sefyll ar ffordd cyfiawnder, er ei fod yn dadleu trugaredd. Yr oll y mae yn ei ofyn ydyw ei chysgod hi am flwyddyn ; ac os na etyb hyny y diben amcanedig, wedi hyny caiff cyfiawnder ei hawliau. "Tòr ef i lawr," medd y gwinllanydd ; ac y mae yr ail ddedfryd yn llawer mwy ofnadwy na'r gyntaf, oblegid y mae hi yn cynwys fod pawb yn cytuno i hyny. Nid felly yr ydoedd gyda'r ddedfryd gyntaf: yr oedd cydymdeimlad â'r ffigysbren yn peri i'r gwinllanydd eiriol trosto; ond wedi i flwyddyn yr eiriolaeth dd'od i ben, y mae pob cydymdeimlad wedi ei golli, pawb yn dywedyd, Amen, wrth glywed y ddedfryd. Y mae rhywbeth arswydus yn y meddwl o fod mewn cyflwr na bydd neb yn cydymdeimlo â thi trwy holl greadigaeth Duw : trugaredd wedi ymadael o bob calon, tyner-

wch wedi cilio o bob llygad, pawb yn adsain y gair, "Tòr ef i lawr."

"Tòr ef i lawr;"—y mae hyn yn cynwys yn olaf, nad oes dim arall i'w wneyd iddo, dim *alternative* yn bod. Pan gyhoeddwyd y ddedfryd gyntaf, yr oedd rhywbeth arall i'w gynyg yn ei lle hi, sef "cloddio," a "bwrw tail;" ond pan gyhoeddir yr ail, ni fedr neb gael dim i'w gynyg yn ei lle hi. Ni wyr Duw am ddim arall i'w wneyd i'r dyn sydd yn mŷnu ei ffordd, ond ei *ddamnio.* Nid oedd ganddo ond un Mab;—fe roddodd hwnw: nid oes ganddo ond un drefn i gadw; ac y mae ei holl ddoethineb, ei holl ras, a'i holl nerth, wedi eu cyd-grynhoi yn hono. Ac os na fynwch chwi y Mab hwnw, ac os na chymerwch eich cadw yn y drefn hono, nid oes dim wedi ei adael ond rhyw ddisgwyl ofnadwy am farnedigaeth; dim ond tori i lawr. Gwnewch yn fawr o flwyddyn yr eiriolaeth, oblegid y mae yr hyn sydd yr ochr draw iddi braidd yn rhy ofnadwy i *sôn* am dano. Beth fydd ei ddioddef? Diolch i Dduw! nid yw ddim wedi myned heibio. Atebed ei diben i holl ffigys-brenau diffrwyth y fan hon, a'n gwlad yn gyffredinol y dyddiau hyn. Amen.

[Rhag. 17, 1859—Mawrth 31, 1860.]

## PREGETH XXXIX.

### DUW YN CRAFFU AR ANWIREDDAU.

SALM CXXX. 3.—"Os creffi ar anwireddau, Arglwydd, O Arglwydd, pwy a saif."

UN o'r pethau cyntaf sydd yn ein taro wrth sylwi ar y byd hwn ydyw, mai byd sydd wedi dyrysu ydyw. Y mae pob peth o'i fewn yn ymddangos megis dan lywodraeth damwain. Nid ydyw pechod yn cynyrchu cosb, na rhinwedd yn cael ei ddilyn gan wobr. Y mae annuwioldeb yn y lle y gellid disgwyl barn, ac anwiredd yn y lle priodol i gyfiawnder. Y mae yr annhrefn hwn yn peri i rai wadu sylw Duw o gwbl ar y byd: dywedant,—"Gadawodd yr Arglwydd y ddaear, a pha le y mae Duw y farn?" Ond y mae y teimlad sydd yn y fynwes, fod agwedd bresenol y byd yn annhrefnus, yn ddigon o brawf fod trefn, ac Awdwr trefn, yn rhywle, ac y trefna eto rywbryd elfenau cymysglyd y byd hwn,—y bydd iddo graffu ar anwireddau.

Y mae y Bibl yn cymeryd y gwirionedd hwn yn ganiataol, s f, bod gan Dduw hawl i graffu. Y cwbl sydd yn angenrheidiol ei brofi ydyw, pwy ydyw y gwir Dduw. Unwaith y gwneir hyny yn sicr, y mae y fynwes yn teimlo yn y fan hawl y Duw hwnw i graffu ar ei holl ymddygiadau.

Y mae perthynas ymhlith dynion yn cael ei hystyried yn sylfaen dyledswydd, ac yn rhoddi hawl i alw i gyfrif. Y mae y deiliad yn rhwym i'w frenin,—y gwas i'w feistr,—y plentyn i'w dad,—y derbyniwr i'r cymwynaswr; ond nid ydyw yr holl berthynasau yma ynghyd ond adlewyrchiad egwan o berthynas dyn â Duw. Y mae gan Dduw hawl i graffu ar bechod, fel ag

y mae yn wrthryfel yn erbyn Brenin,—yn anmharch ar Feistr,—yn anniolchgarwch i gymwynaswr,—ac yn anufudd-dod i Dad. Hefyd, y mae y tyst sydd yn y fynwes dros Dduw, sef y gydwybod, yn sicrhau hawl y Brenin tragywyddol i graffu. Beth ydyw y braw sydd arnom mewn perygl;—yr ofn angau sydd yn ein dal dros ein holl fywyd mewn caethiwed? Paham y mae adfyd yn peri i ni ollwng ein gafael i raddau ar ein beiau;—yr addunedwn ni mewn cyfyngder na wnawn anwiredd mwy? Onid am ein bod yn teimlo fod gan Dduw hawl i'n galw i gyfrif, ac am ein bod yn ofni ei fod yn myned i wneuthur felly y pryd hwnw?

Er bod gan y Duw sanctaidd hawl i graffu, eto nid ei hawl a'i allu sy bob amser yn rheol ei ymddygiadau. Ni wna Efe bob peth a all. Y mae ei allu yn cael ei lywodraethu gan ei ddoethineb a'i ddaioni. Ond yn y mater hwn, mae profi fod ganddo hawl i graffu, yr un peth a phrofi y gwna Efe graffu; oblegid fe fuasai yn ymddygiad annheilwng iddo ei hun, adael i bechod fyned hebio heb alw y pechadur i gyfrif. "Oni wna Barnydd yr holl ddaear farn?" Os ei ogoniant ei hun yw ei ddiben penaf;—os ydyw lles a hapusrwydd ei greadigaeth yn anwahanol gysylltiedig â hyny, y mae Efe dan angenrheidrwydd natur i graffu ar yr hyn sydd yn ei ysbeilio Ef o'i ogoniant, ac o ganlyniad yn ysbeilio y greadigaeth o'i dedwyddwch. Gyda'r cynildeb mwyaf y mae yn gweddu i ni siarad am *angenrheidrwydd* yn Nuw; ond yr ydym yn ddiberygl tra ar dir y dadguddiad Dwyfol. Y mae y Bibl yn dywedyd fod yn anmhosibl iddo fod yn gelwyddog: byddai mor hawdd iddo beidio â bod ag y byddai iddo fod yn gelwyddog. Ac y mae yr un anmhosibilrwydd iddo oddef, yn dragywydd, annhrefn foesol yn ei greadigaeth, ag a fyddai iddo oddef hyny ynddo ei Hun.

Yr ydym wedi cael amneidiau eisoes, ac yn cael rhai bob dydd, o'i fod yn craffu yn awr. Y mae yn wir mai bychain iawn ydyw yr amlygiadau yr ydym yn eu cael yn awr o hyny; ond y mae yr ychydig ddefnynau sydd yn disgyn o'r cwmwl du yn brawf digonol o'i fod yn llwythog o wlaw. Y mae yr ychydig wreichion sydd yn cael eu taflu i fyny o grombil y mynydd tanllyd, yn ddigon i brofi fod yno eirias oddifewn; felly y mae yr ychydig amneidiau yr ydym ni yn eu cael yn

ddigon i brofi fod Duw a farn ar y ddaear. Nid ydyw yn galw i gyfrif yn awr, ac yn mesur yr anwiredd i'n mynwes; ond y mae yn rhoddi ar ddeall yn fynych ei fod yn gweled ac yn ysgrifenu. Yn debyg fel y bydd tad, weithiau, yn canfod, plentyn drygionus yn troseddu ei orchymyn; nid ydyw yn ei gosbi ar y pryd, ond yn dywedyd wrtho,—Yr ydwyf fi yn gweled. Y mae yr euog, yn y fan, yn cysylltu cosb â'r gair yna. Felly y cyfan y mae yr Arglwydd yn ei wneuthur yn awr ydyw dywedyd,—Yr ydwyf fi yn gweled. Beth ydyw y pla dinystriol? Llais y Barnwr yn dywedyd,—yr wyf fi yn gweled. Nid oedd y diluw ddim ond prawf i feibion dynion fod llygaid y Duw anfeidrol yn gweled dan yr holl nefoedd. Dyna ydyw yr holl gystuddiau, y blinderau, a'r adfyd, sydd ar y ddaear, profion bod un sydd uwch na'r uchaf yn gwylied,—fod Duw sydd yn craffu ar ymddygiadau meibion dynion. Y mae ganddo hawl i graffu;—y mae yn sicr o graffu;—ac yn awr ni a geisiwn ddangos ei fod yn myned i graffu;—ac nad oes neb a all sefyll pan ygwna hyny:—"Os creffi ar anwireddau, Arglwydd, O Arglwydd pwy a saif?"

Nid rhaid i ni ond ystyried tri pheth i weled na safwn ni ddim:—1. Y Craffwr; 2. Y neb y mae yn craffu arno; 3. Yr hyn y mae yn craffu arno: Duw, dyn, a phechod. Y neb sydd yn craffu ydyw Duw. Y neb y mae yn craffu arno ydyw dyn. Yr hyn y mae yn craffu arno ydyw anwiredd. "Pwy a saif."

I. Ni a edrychwn ar yr hwn sydd yn craffu,—Duw. Y mae tri pheth yn Nuw yn profi na ddianc neb pan ä Efe i graffu ar anwiredd; sef 1. *Sancteiddrwydd*; 2. *Gwybodaeth*; 3. *Gallu*. Sancteiddrwydd i gasâu pechod, os gwêl;—gwybodaeth i'w weled, lle y mae;—a gallu i gosbi yn ol purdeb ei sancteiddrwydd, a hyd eithaf manylrwydd ei wybodaeth.

1. Sancteiddrwydd. Hyn sydd yn gwneuthur pob priodoledd yn Nuw yn ofnadwy i bechadur. Ni buasai raid i'w wybodaeth beri i ni ofni, nac i'w allu ein llenwi â dychryn, oni bai ei fod yn sanctaidd. Feallai nad ydyw mor briodol galw sancteiddrwydd ei hun yn briodoledd yn Nuw; yn hytrach prydferthwch a gogoniant pob priodoledd ydyw. Y mae yr Arglwydd yn ogoneddus mewn sancteiddrwydd, fel y mae y goleuni sydd o'n hamgylch wedi ei wneuthur i fyny o saith liw yr enfys. Y mae gan bob lliw fôd ar wahân; ond y dis-

gleirdeb sydd yn cael ei gynyrchu gan gyd-gyfarfyddiad yr oll ydyw y gwyn, neu y goleu sydd yn ein hamgylchu; felly disgleirdeb y priodoliaethau dwyfol ydyw sancteiddrwydd. "Goleuni yw Duw, ac nid oes ynddo ddim tywyllwch." Ac fel y mae goleuni yn beth hollol groes i dywyllwch, felly sancteiddrwydd Duw ydyw y gwrthdarawiad hwnw sydd yn yr Hanfod Ddwyfol i bob drwg; ac y mae yn cynwys holl briodoliaethau eraill y Jehovah ynddo ei hun. Fe fuasai Duw yn Dduw cyfiawn pe na buasai pechod yn bod; fe fuasai yn Dduw y gwirionedd pe na buasai pechod yn bod; ond ni buasai son am dano fel Duw sanctaidd oni bai am bechod. Ni buasai son am iechyd, oni bai fod afiechyd mewn bod; ni buasai son am oleuni oni bai fod tywyllwch mewn bod; felly, ni buasai son am sancteiddrwydd oni bai am bechod. Pan y mae holl ranau y corff yn cyflawni eu gwahanol swyddau yn rheolaidd, y mae yr ystâd hono ar y corff yn cael ei galw yn iechyd; a pha berffeithiaf fydd yr ystâd hono, pellaf oll ydyw y meddwl am dani oddiwrthym. Nid ydym yn meddwl am iechyd pan yn berffaith iach; a phe na buasai afiechyd yn bod, buasai y meddwl am iechyd yn gwbl ddieithr i ni. Iechyd moesol ydyw sancteiddrwydd, a phe na buasai afiechyd yn bod, buasai y syniad am sancteiddrwydd yn berffaith ddieithr i'r greadigaeth. Fel y mae yn briodol, ar ryw olygiad, dywedyd mai pechod a roddes achlysur i'r Duw anfeidrol ymddangos yn sanctaidd; ac y mae un yn disgrifio sancteiddrwydd yn Nuw nid fel rhinwedd ynddo ei hun, ond rhinwedd yn ei berthynas â'r hyn sydd wrthwyneb iddo; neu, sancteiddrwydd ydyw y teimlad hwnw gydâ pha un y mae y bôd perffaith yn edrych ar bechod. Sancteiddrwydd ydyw gwaith y natur ddwyfol yn cilio oddiwrth bechod, yr un fath ag y gwna dyn oddiwrth fwystfil gwenwynig. Y mae sancteiddrwydd yn yr olwg hon arno, yn dyfod i'r amlwg yn holl ymwneyd y Brenin tragywyddol â dynion. Pan bechodd dyn ar y cyntaf, fe ddaeth sancteiddrwydd i'r amlwg, ac fe'i tröwyd ef allan o'r llanerch y byddai ef yn arfer cyfarfod â Duw ynddi. Ni chai ei draed halogedig byth mwy sangu y ddaear ar ba un y buasai yn cymdeithasu â Duw, fel y gwna gwr â'i gyfaill. Yr oedd cerubiaid â chleddyf tanllyd ysgwydedig yn ei gadw draw. Yr oedd hyn yn dyfod

i'r amlwg yn holl seremoniau yr hen oruchwyliaeth. Yr oedd yn rhaid i'r addolydd gyfarfod â Duw trwy aberth, mewn gwaed, ac mewn lle apwyntiedig i hyny. Yr oedd llwyth wedi ei neillduo i wasanaeth y cysegr;—teulu priodol o'r llwyth i agosâu at Dduw; a pherson priodol o'r teulu. Yr oedd yn rhaid i hwnw ymolchi ac ymlanhau cyn ymddangos gerbron y presenoldeb dwyfol. Beth oedd hyn oll ond rhywbeth i ddangos y gwrthdarawiad hwnw sydd yn Nuw i bechod? Nid oedd ond purdeb i ddyfod ger ei fron ymhob ystyr. Nid oedd dim yn gymeradwy os na byddai yn berffaith. Ni chai neb weinyddu yn y swydd offeiriadol hyd yn nod âg anaf corfforol arno. Ni dderbynid yr un aberth os na byddai yn berffaith gwbl. Yr oedd y dwfr a ddefnyddid yn y gwasanaeth i fod yn ddwfr sanctaidd, hyny yw, wedi ei neillduo oddiwrth bob gwasanaeth cyffredin. Yr oedd y tan â pha un yr oedd yr aberthau a'r arogl-darth yn cael eu llosgi yn dân sanctaidd. A phan ryfygodd Nadab ac Abihu losgi arogl-darth â thân cyffredin, fe'u lladdwyd hwynt yn y fan. Yr oedd olew yr eneiniad a'r arogl-darth yn gyfryw nad oedd neb o feibion Israel i wneuthur eu cyffelyb, o dan y perygl o gael eu tori ymaith o blith y bobl. Yr oeddent yn sanctaidd i'r Arglwydd, i argraffu ar feddyliau y bobl fod gwahaniaeth dirfawr rhwng eu pethau hwy a phethau Duw; ac ni byddai hyfrydlais trugaredd byth yn cyhoeddi gollyngdod i bechadur, na byddai sancteiddrwydd wedi bod yn mygu yn ofnadwy cyn hyny yn erbyn pechod. Yr oedd yn anmhosibl i ddyn agosau at Dduw heb gael aberth i ddioddef y tân yn ei le.

Ac yn holl dystiolaethau y Duw mawr am dano ei hun yn ei air, y mae yn cysylltu sancteiddrwydd â'r cyfan; hyny yw, beth bynag yw Duw, y mae Efe felly yn anfeidrol wrthwyneb i bechod. Os oes ganddo fraich,—y mae hi yn fraich sanctaidd. Y mae cymaint o nerth ag sydd ynddi i gael ei ddefnyddio yn erbyn pechod. Os oes enw iddo,—y mae hwnw yn sanctaidd; —ei "enw sanctaidd." Y mae am ddefnyddio ei holl ddylanwad yn erbyn pechod. Os ymostynga i wneuthur cyfamod â dyn, fe fydd hwnw yn "sanctaidd gyfamod,"—yn gyfryw un ag a ddengys wrthdarawiad y natur ddwyfol i bechod. Y mae Efe ei hun yn tyngu i'w "sancteiddrwydd," i sicrhau gwirionedd ei

addewidion a'i fygythion. Y mae efe cyn sicred o'u cyflawni a'i fod yn casau pechod â chasineb anfeidrol. Y mae pob peth a ordeiniodd,—pob peth a wnaeth,—ei holl weithredoedd,—yn adseinio geiriau y seraphiaid,—"Sanct, Sanct, Sanct, yw Arglwydd y lluoedd."

Dyma y Duw sydd yn myned i graffu,—'Yr hwn sy lanach ei lygaid nag y gall edrych ar ddrwg, ac ni all edrych ar anwiredd.' Nid yn unig nid yw yn cyflawni dim drwg ei hun, ond ni all dim drwg drigo yn ei bresenoldeb Ef. Y mae yn casau holl weithredwyr anwiredd;—y mae yn ddigllawn beunydd wrth yr annuwiol;—y mae ei sancteiddrwydd yn wastad yn mygu yn ei erbyn;—y mae yn barod ar bob adeg i gyneu yn fflam i'w ddifa. 'Nid sanctaidd neb fel Efe.' Mewn cymhariaeth iddo ei hun, nid yw y nefoedd ei hunan yn lân. Y mae yn gosod ynfydrwydd yn erbyn ei angylion. Y mae pawb yn crynu pan ddêl ei sancteiddrwydd i'r amlwg. "Pan ddaeth Duw o Teman, a'r Sanctaidd o fynydd Paran," fe lewygodd Israel gan ofn,—fe grynodd Moses lariaidd,—o flaen sancteiddrwydd Duw. Pan ddaeth Efe allan yn yr anialwch i derfynu dadl yr offeiriadaeth, dacw y bobl yn gwaeddi mewn braw;—Wele ni yn trengu,—darfu am danom,—darfu am danom ni oll. "Bydd farw pob un gan nesau a nesao i Dabernacl yr Arglwydd." Yr oedd y Philistiaid dienwaededig wedi ofni ger bron ei sancteiddrwydd;—gwŷr Bethsemes yn gwaeddi mewn dychryn,—"Pwy a ddichon sefyll gerbron yr Arglwydd Dduw sanctaidd hwn?" Yr oedd y gŵr wrth fodd calon Duw yn ofni fel hwythau, ac yn gofyn mewn braw,—"Pa fodd y daw arch yr Arglwydd ataf fi?" Onid priodol geiriau y Salmydd,—"Tydi, tydi, wyt ofnadwy, a phwy a saif o'th flaen pan enyno dy ddigder?"

2. Y mae gwybodaeth Duw yn profi na saif neb. Yr ydym wedi gweled ei fod yn anfeidrol wrthwyneb i bechod, os gwêl. Yn awr ni a geisiwn ddangos ei fod yn ei weled lle bynag y mae; oblegid "Duw gwybodaeth yw yr Arglwydd." Y mae ei wybodaeth yn gydwastad â'i allu. Ni buom ni mewn un man erioed nad oedd profion o'i allu yn ein hamgylchu, gan hyny ni buom mewn un man tuallan i derfynau ei wybodaeth. Y mae llygaid Duw ymhob man y mae ei fraich. Nid ydyw o

bwys i ni pa un a ydyw ei wybodaeth yn *holl*wybodaeth yn ystyr eangaf y gair, er fod y Bibl yn dywedyd ei bod hi felly. Ond pe na buasai hi felly, y mae yn hollwybodaeth yn ei pherthynas â ni; oblegid ni fedrwn ni fyned allan o diriogaeth Duw y gallu, am hyny yr ydym yn sicr o fod yn ngwydd Duw y gwybodaeth. Lle bynag y bu ei fraich yn creu, y mae ei lygaid yno yn craffu. Os oedd ei allu yn berffaith, y mae ei sylw felly hefyd. Y mae holl wybodaeth Duw yn rhagdybied ei holl-bresenoldeb; a lle bynag y mae yn bresenol, y mae yn Dduw presenol. Y mae pob peth posibl yn wybyddus iddo Ef. Yr oedd y greadigaeth a'i holl ranau amrywiog yn bod yn ei feddwl Ef er tragywyddoldeb. Y mae ei lygaid Ef, sy fel fflam dân, yn gallu treiddio i dywyllwch y dyfodol. Un ffunud iddo ef yw tywyllwch y dyfodol a goleuni yr amser presenol. A pheth sydd yn fwy pwysig i ni o lawer yw, bod ei lygaid yn gallu treiddio trwy gelloedd dirgel y meddwl. Y mae yn cyfenwi ei hun yn "Chwiliwr y galon." Gellir gofyn uwchben hono, "Pwy a'i hedwyn?" Nis gallwn ofyn y cwestiwn yna braidd uwchben dim arall yn awr. Pe gofynem ni, pwy a edwyn faintioli yr haul? Daw yr astronomydd â'i ysbïenddrych ymlaen i ateb y cwestiwn. Pe gofynem ni, pwy a edwyn uchder y sêr? Daw y rhifyddwr â'i ffigyrau ymlaen i wneuthur i fyny y swm. Pe gofynem ni pwy a edwyn ddyfnder y môr? Daw y morwr â'i blymen ymlaen i ateb y cwestiwn. Pe gofynem ni, pwy a edwyn Dad y gwlaw?—a'r ffordd lle y trig goleuni? Daw yr athronydd ymlaen dan ddywedyd—Myfi. Ond gallwn ofyn yn nghanol ymerodraeth Duw, Pwy a edwyn galon dyn? Y mae pawb yn ddistaw. Y mae deall angel yn rhy bŵl i'w hamgyffred. Y mae gwybodaeth cerub yn rhy fechan i'w dirnad. Y mae llygaid tanllyd seraph yn rhy wan i dreiddio i'w thywyllwch hi. Ond wedi i bawb fethu, y mae y Duw mawr yn dyfod ymlaen, ac yn dywedyd,—"Myfi yr Arglwydd sydd yn chwilio y galon, yn profi yr arenau, i roddi i bob un yn ol ei ffyrdd, ac yn ol ffrwyth ei weithredoedd." Y mae yn ein cyfeirio at y greadigaeth weledig, i gael profion o'i allu; ond at galon dyn, i gael profion o'i wybodaeth. Pwy ydyw Arglwydd y lluoedd? Wel, "Lluniwr y mynyddoedd, a Chreawdydd y gwynt;"—dyna

allu: "yr Hwn a fynega i ddyn beth yw ei feddwl;"—dyna wybodaeth. Gan ei fod yn gwybod ein meddwl, rhaid fod ein geiriau a'n gweithredoedd yn hysbys iddo. Gall fabwysiadu iaith doethineb, yn llyfr y Diarhebion, am y rhai hyn oll. Pan y mae doethineb yn adrodd gweithredoedd y Duw mawr, y mae yn dywedyd ar ol y cyfan,—"Yr oeddwn i yno;" felly gall Duw y gwybodaeth ddywedyd wrthym ninau,—"Pan gyflawnaist ti y weithred ysgeler hono,—pan estynaist ti dy law at eiddo dy gymydog, yr oeddwn i yno." Pan ddyferodd y llw hwnw dros dy wefusau,—pan ddywedaist ti y celwydd hwnw wrth dy gyd-ddyn,—pan ddaeth y gair segur hwnw o dy enau,—"yr oeddwn i yno." Pan y gwibiodd y meddwl aflan hwnw drwy dy galon,—pan y melldithiaist ti dy gymydog yn dy feddwl,—pan ddywedaist ti yn ystafelloedd dirgel dy enaid—"Nid oes yr un Duw,"—"yr oeddwn i yno." Pan ymgudliaist ti o dan leni o dywyllwch i gyflawni dy bechod,—yr edrychaist o'th amgylch a oedd neb yn gweled, y dywedaist mewn ymffrost,—"Cuddiwyd fy ffordd o olwg pawb;" ond "yr oeddwn i yno." Y mae dy feiau cuddiedig oll yn ngoleuni fy wyneb. Y mae fy ngolwg ar dy ffyrdd; nid ydynt guddiedig o'm gwydd; ac nid ydyw dy anwiredd guddiedig oddiar gyfer fy llygaid. Yr oeddwn i yno yn fy ngwybodaeth, yn dy weled;—yn fy sancteiddrwydd yn perffaith gasau dy aflendid; ac oni buasai fod fy amynedd yn atal, fe fuasai fy ngallu i yno hefyd yn dy ddamnio di â dymchweliad. Y mae dyfais yn y trefydd mawrion i ddangos mewn ystafell bethau sydd yn cymeryd lle mewn pellder mawr oddiwrthi. Trwy ryw ddarpariaeth yn nen yr ystafell, y mae pelydrau y goleuni yn cael eu hadlewyrchu iddi, nes y gwelwch chwi ar y ffordd o'ch blaen, gysgod tai, yr heolydd, a'r dynion ar hyd-ddynt, ynghyd â'u holl symudiadau a'u gweithredoedd mor amlwg a phe byddai y gwrthddrychau eu hunain yn wirioneddol o flaen eich llygaid. Felly nid oes dim yn cymeryd lle yn mhellderau creadigaeth nad ydyw goleuni gwybodaeth Duw yn adlewyrchu delw y cwbl ger ei fron Ef.—"I ba le yr af oddiwrth dy ysbryd? ac i ba le y ffoaf o'th wydd?" Y mae y greadigaeth eang yn ymsymud yn ei wydd Ef,—holl ysgogiadau meddyliau holl ddeiliaid ei ymerodraeth o flaen ei lygaid. Y mae yn gweled y cwbl, ac ymhob man. Darfu

i adeiladydd cywrain Eglwys St. Paul yn Llundain wneuthur un rhan o honi yn *oriel y sisial*; dim ond i rywbeth gael ei yngan yn y llais mwyaf egwan, fe'i clywir yn y fan ymhob rhan o'r oriel: felly y mae creadigaeth Duw wedi ei chyfansoddi yn y fath fodd, fel ag y mae holl sisial mwyaf dirgel y meddwl o bob cwr o honi yn dyfod i mewn i glustiau "yr Hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfainc." "Oni chlyw yr hwn a blanodd y glust? Oni wêl yr Hwn a luniodd y llygad? Oni wyr yr Hwn sydd yn dysgu gwybodaeth i ddyn? Gwyr yr Arglwydd feddyliau dyn mai gwagedd ydynt."

3. Fe ymddengys hyn eto, os ystyriwn ei allu. Fe allai un weled drwg, a chasau drwg, ac er hyny fod yn fyr o allu i weinyddu cosb ar y drygionus. Ond nid un felly ydyw Duw. "Wele Ef yn gadarn;" "eiddo Duw yw cadernid." Y mae rhai creaduriaid yn gadarn; ond nid yw cadernid yn eiddo neb ond Duw. Y mae cadernid yno gartref, fel y mae y goleuni yn yr haul. Y mae pelydrau o hono mewn lleoedd eraill, ond yn yr haul y mae ei gartref. Felly y mae cadernid yn Nuw yn ei anedd,—yno y mae yn wreiddiol. Nid yw y greadigaeth, a'i myrddiynau bydoedd, a'i chreaduriaid aneirif, ond ychydig o allu wedi rhedeg dros yr ymylau. Nid ydyw yr oll ond gwaith ei law,—ôl ei fysedd,—rhanau o'i ffyrdd: "Pwy a ddeall daranau ei gadernid Ef?" Dyrchefwch eich llygaid i fyny, a chlywch y Duw cadarn yn llefaru, yn mawredd ei nerth, ymysg y sêr:—"Pwy a greodd y rhai hyn, a ddwg eu llu hwynt allan mewn rhifedi: Efe a'u geilw hwynt oll wrth eu henwau; gan amlder ei rym Ef, a'i gadarn allu, ni phalla yr un." Er eu bod o anferth faintioli, ac yn aneirif o ran lliosowgrwydd, y maent yn *rowlio* trwy yr eangderau yna;—ni phalla un am foment. Y mae yr haul yn rhedeg ei yrfa fel cawr, y dydd;—y lleuad, mewn mawredd, yn amgylchu rhodfeydd y nefoedd, y nos; y sêr yn chwyldroi yn eu cylchoedd yn gyson: beth ydyw hyn? "Eiddo Duw yw cadernid;" dim ond iddo ef lefaru, y mae y greadigaeth yn distewi ger ei fron (Job ix. 5—10). Arglwydd y lluoedd yw ei enw; gan hyny ei weision Ef yw pob peth. Y maent ar ei alwad yn barod i weinyddu y ddedfryd ar bechadur. Dim ond iddo ef orchymyn, fe fodda y dwfr yr hen fyd; fe lysg y tân Sodoma a Gomorrah; fe ddymchwel y

môr ar Pharao a'i luoedd; fe lwnc y ddaear Corah, Dathan, ac Abiram; ac fe fynega y nefoedd ei gyfiawnder, trwy ollwng i lawr geryg mawrion i ladd y Canaaneaid. Pwy all ymgaledu yn ei erbyn Ef, a llwyddo? oblegid y mae ei luoedd yn aneirif;—dim ond iddo gyffwrdd â'i fys â'r *spring*, gall droi trugareddau yn farnau yn y fan; gall beri i'r un cymylau ag oeddent yn dyfrhau y ddaear mewn trugaredd, ei boddi mewn barn; gall beri i'r haul oedd yn ffrwythloni gwlad Canaan, ei llosgi i fyny, fel na thyfai llysieuyn o'i mewn; gall wneuthur i'r un gwynt ag oedd i buro yr awyr fel ag i'w hatal i fod yn farwol, ladd plant Job. Lle bynag y mae yn Dduw hollwybodol, yn gweled, y mae yno yn Dduw hollalluog hefyd. Y mae llygaid yr Arglwydd ymhob man; y mae ei fraich ymhob man hefyd. Pwy a saif pan graffo y Duw hwn ar bechod?

Y mae rhai yn edrych ar y Duw mawr bob amser fel pe byddai wedi ei wisgo yn unig â chariad, gan feddwl ei fod yn edrych ar eu pechodau yn debyg fel y mae tad tyner yn edrych ar wendidau ei blentyn,—yn barotach i wenu arnynt nag i'w cosbi am danynt. Ac i brofi mai un felly ydyw Duw, fe'n cyfeirir at yr amlygiadau o ras a chariad sydd yn ei holl weithredoedd. Fe ddywedir wrthym,—Onid ydyw yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da;—yn gwlawio ei fendithion ar y cyfiawn a'r anghyfiawn? onid ydyw yn llwytho pob dydd â thrugaredd, yn coroni pob blwyddyn â daioni? onid ydyw yn diferu ei diriondeb ar borfeydd yr anialwch,—yn agoryd ei law, ac yn diwallu pob peth byw â'i ewyllys da? Y mae ein llygaid, ein clustiau, a'n teimladau yn tystio mai un da ydyw. Os edrychwn ni ar y môr, ni a welwn bysg hwnw yn chwareu yn nghanol ei ddaioni;—os safwn yn ymyl y goedwig, ni a glywn adar hono yn pyncio ei ddaioni. Y mae yr awyrgylch yn llafar gan ei fawl. Y mae ei gariad yn cael ei adlewyrchu gan bob peth i'n llygaid,—ei ras yn cael ei adsain gan y cyfan i'n clustiau;—ac nis gallwn ymsymud heb deimlo ei drugaredd. Y mae hyn oll yn ddigon gwir: yn nghanol daioni Duw yr ydym yn byw. Y mae profion fyrdd mai un da ydyw; ac na ato Duw i ni ddywedyd dim a dueddai neb i feddwl yn galed am Dduw y Bibl; ond y mae o bwys tragwyddol i chwi a minau feddwl yn gywir am dano. Y mae y doniau sydd yn ein hamgylchu yn profi ei fod yn un da;—yn un anfeidrol mewn amynedd; ond

nid ei fod yn anghyfiawn. Nid prawf ei fod yn ddisylw o ymddygiadau dynion ydyw ei ddaioni. Nid prawf fod ei eiriau a'i ymddygiadau yn groes i'w gilydd ydyw ei ddoniau; nage; ond prawf fod mil o flynyddoedd gyda Duw fel un dydd;—fod ei amynedd, fel ei drugaredd, yn anfeidrol. Y mae mynydd tanllyd Vesuvius ar hyd y rhanau iselaf o hono a'i odrau, yn un o'r lleoedd hyfrytaf ar y ddaear. Y mae y ddaear bron yn dwyn ffrwyth o honi ei hun. Y mae yno winllanoedd a gerddi breision dros ben. Y mae pob pren hardd, a phob ffrwyth peraidd yn tyfu yno. Wrth edrych arnynt gallai y teithiwr feddwl ei fod wedi cyraedd paradwys o'r diwedd. Ond ar gopa yr un mynydd, y mae agen fawr, o ba un y mae mwg yn esgyn i fyny yn golofnau yn oes oesoedd; ac weithiau y mae y mwg yn cael ei enyn yn fflam, a'r hylif tanllyd yn dylifo yn afon i lawr o lethrau y mynydd, gan ysgubo pob peth byw o'i flaen, a deifio pob prydferthwch, a throi y baradwys mewn ychydig fynydau yn fryn crâs a diffrwyth. Wrth edrych ar brydferthwch ystlysau y mynydd, gallai y teithiwr ddywedyd, Pwy na ddymunai fyw yma! Hwn ydyw un o leoedd hyfrydaf y ddaear: —ïe, ond a welwch chwi gopa y mynydd yn mygu? Rhaid nad oes nemawr o ofid yn blino neb yma. Peidiwch camgymeryd,—y mae copa y mynydd yn mygu. Mi feddyliwn y gellir dywedyd wrth yr enaid yma, gorphwys, bwyta, ŷf, bydd lawen. Ah! edrychwch ar y mwg sydd ar gopa y mynydd. Y mae yn anmhosibl i chwi ffurfio barn gywir am dano wrth edrych ar y prydferthwch sydd ar hyd ei ystlysau, heb gymeryd i mewn hefyd y mwg sydd yn tywyllu ei gopa ef,—yr eirias danllyd sydd yn ei grombil ef,—yr hylif ofnadwy sydd, weithiau, yn berwi allan o hono, ac yn golosgi pob peth o'i flaen. Na fernwch Lywydd y byd fel y barna y teithiwr fynydd Vesuvius. Onid ydyw wedi ei amgylchu â daioni? Ydyw; ond a welwch chwi y mwg sydd yn esgyn o gopa y mynydd? Onid ydyw trugaredd wedi gwneuthur paradwys fechan i ni ar ystlys y mynydd? Feallai ei bod hi: ond a weli di sancteiddrwydd yn mygu ar ei gopa? Y mae y Duw mawr wedi trefnu lle fy mhreswylfod i mor gyfleus, fel na bu arnaf erioed eisiau am ddim daioni; y mae wedi murio o'm hamgylch â thrugaredd. Felly, fy nghyfaill, diolch iddo am hyny; ond paid ag anghofio y

colofnau mwg sydd yn esgyn uwch dy ben di. Ni welais i ddim ond daioni erioed;—mawr ydyw dy rwymau i ddiolch; ond yn sicr y mae rhai a fuont yn byw ar yr un llanerch ag yr wyt ti arni yn awr, wedi eu hysgubo ymaith gan yr afon danllyd a ddaeth allan oddi ger ei fron Ef. Ac eto ni ddychweIodd ei lid;—y mae y mynydd yn mygu y foment hon. Y mae *eruption*, y mae ymdoriad arall yn ymyl;—fe enyn mwg y digllonedd yn fflam o sancteiddrwydd eto;—fe ddilynir hono gan yr afon danllyd sydd yn dyfod oddi ger ei fron Ef. Fe ysguba hon dy baradwys di i ffordd, os na symudir di o dy hen drigfan. Y mae Duw y cariad yn Dduw cyfiawn. Y mae ei sancteiddrwydd yn addurn hyd yn nod ar ei drugaredd. Y mae ei wybodaeth yn canfod pechod lle bynag y mae. Y mae sancteiddrwydd yn ei gasau â chasineb perffaith; ac y mae cymaint o nerth ag sydd yn ei fraich i gael ei ddefnyddio yn ei erbyn. Onid Tad daionus ydyw Duw? Ië, ond cofia, un o elfenau daioni ydyw cyfiawnder. Onid Tad trugarog ydyw? Ië, ond sylfaen trugaredd ydyw cyfiawnder. Onid ydyw gras yn llenwi ei fynwes? Ydyw; ond y *channel*, y gwely ar hyd pa un y mae gras yn rhedeg ydyw cyfiawnder. Os ydyw yn myned i adeiladu trugaredd goruwch y nefoedd, fe esyd ei sylfaen hi ar fynyddoedd o gyfiawnder. Os ydyw yn myned i wneuthur *channel* i'w ras ffrydio at bechadur, fe balmanta hwnw i gyd â meini gwirionedd. Os gwna Ef gymwynas byth i bechadur, fe fydd yn ogoneddus mewn sancteiddrwydd wrth ei gwneuthur. Gan mai dyma y fath un ydyw y Craffwr, onid priodol cwestiwn y testyn,—"O Arglwydd, pwy a saif?"

II. Ni a welwn yr un gwirionedd yn dyfod i'r amlwg wrth edrych ar y neb y mae yn craffu arno, sef dyn. Os saif dyn i Dduw graffu,—os dianc efe yn ddigosb,—fe fydd hyny naill ai trwy ei wybodaeth; 2. neu trwy ei allu; 3. neu trwy i rywrai eraill ymladd yn ei le. Ond yn 1. Y mae yr hyn a wyr dyn; 2. Yr hyn a all dyn. 3. Ei sefyllfa yn y greadigaeth, yn gwneuthur y ffyrdd yna yn gauedig am byth iddo.

1. Yr hyn a wyr dyn. Fe achubwyd un ddinas, yn erbyn pa un y daeth brenin mawr a'i luoedd, trwy ddoethineb dyn tlawd; ac yn hyn gwell oedd doethineb na nerth. Ond pa fodd bynag y dianc dyn, nid drwy ei wybodaeth y bydd hyny.

Beth a wyr efe? Nid rhaid dyfod â chwestiynau celyd ymlaen i'w brofi, a gofyn iddo pa fodd y gall y Duw cyfiawn adael pechod heb ei gosbi? Pa fodd y gall yr anfeidrol sanctaidd beidio dial ar anwiredd? Pa fodd y gellir atal i fraich hollalluog falurio y llestr pridd sydd wedi ei beiddio hi? Byddai y cwestiynau celyd yna yn anatebadwy i feddwl angel. Ond ni a ddisgynwn o'r cymylau uchel yna i brofi gwybodaeth dyn. Dygwch laswelltyn ymlaen, a gofynwch pa fodd y tyfodd hwn? Pa fodd yr oedd ei wreiddiau bychain yn sugno nôdd y ddaear? Trwy ba ddarpariaeth yr oedd yn gallu yfed gwlith y nefoedd? Pa sut y paentiwyd ef â lliw mor hardd? Neu trochwch ben eich bys mewn dwfr, a gofynwch, Pa fodd y mae y diferyn hwn yn glynu wrth y bys? Paham y mae ei ffurf yn grwn? Paham nad ydyw yn fwy, neu paham nad ydyw yn llai? Neu cymerwch lwchyn odditan eich traed, a cheisiwch ganddo roddi ei holl wybodaeth ar waith i ranu hwnw mor fân fel nad ellid ei ranu mwy;—neu tynwch un o ddail y coed, a gofynwch, Paham y mae hon yn unig yn y greadigaeth, nad oes yr un o gwbl yr un fath a hi ar wyneb y ddaear? Beth fydd ei ateb i'r oll? Dyma wybodaeth ry ryfedd i mi. Er edrych o'm hamgylch i bob man, nid oes ond un gair yn briodol i'w arfer am y cyfan;—*Dirgelwch.* O'r llwchyn distadl sydd o dan fy nhraed, hyd fydoedd anferth y ffurfafen, gallaf ysgrifenu hwn ar y cyfan. Gofynwch y cwestiwn mwyaf syml i mi, dyma fydd yr ateb,—*Dirgelwch.* Yr wyf yn nghanol y niwl; nis gwn o ba le y daethum. Nis gwn beth ydwyf. Nis gwn i ba le yr wyf yn myned. Ai dysgeidiaeth ydyw i un fel yma ymryson â Duw?

Yr ydych yn gwneuthur cam â dyn, medd rhywun;—onid ydyw yn hynod am ei wybodaeth? Ni all ef fawr, ond fe wyr lawer. Gall trwy ei wybodaeth dynu y fellten o'r cwmwl;—gall fesur y ddaear, a mynegu uchder y sêr;—gall roddi iau ar wddf pob creadur, ac estyn ei deyrnwialen mewn awdurdod uwchben pawb a phob peth. Y mae yn wir y gall,—ond pa gymorth ydyw hyn iddo tuag at ddianc o olwg yr Arglwydd? O'i gymharu â gwybodaeth gwybedyn, y mae ei wybodaeth yn rhywbeth; ond o'i gymharu â gwybodaeth Duw, nid yw hi yn ddim. Cyn y gallai ddianc, byddai raid iddo gael allan ryw

ffordd i ogoneddu priodoliaethau Duw, a gadael ei bechod ef heb ei gosbi. Fe fethodd Darius â chadw ei gyfraith yn ogoneddus, a chadw Daniel o'r ffau hefyd. Fe fethodd Duw y gwybodaeth a chadw ei briodoliaethau yn ddisglaer, a gadael pechod yn ddigosb. Ac os saif dyn gerbron y golygon dwyfol, y mae yn rhaid iddo ddyfeisio rhyw lwybr i gymodi sancteiddrwydd â phechod,—i oleuni gymdeithasu â thywyllwch,—i gyfiawnder anfeidrol edrych gyda boddlonrwydd ar anwiredd, —i burdeb dwyfol gyd-ddwyn â llwgr dyn. Neu, os nad ydyw yn ddigon doeth i hynyna, fe ddiangai pe cai efe ryw lwybr i guddio ei ffordd o olwg yr Arglwydd. Ond pa fodd? Ni watworir Duw. Pa le y mae llen sy ddigon tew i'w thaflu dros bechod, fel nad all llygad Duw dreiddio trwyddi? Er mor ymdaenol ydyw y goleuni, gallwn gydag ychydig drafferth ei atal yn gwbl i le. Er mai yr awyr ydyw un o'r pethau mwyaf treiddiol yn y greadigaeth, gallwn drwy gelfyddyd ei phwmpio allan bron yn yn hollol o le. Ond pa le y mae y gelfyddyd a all atal i oleuni Haul y Duwdod lanw holl ystafelloedd meddwl dyn? Pwy a all yru allan awyr hollwybodaeth allan o'r gell leiaf yn y fynwes ddynol? Nid oes diangfa yna ychwaith. Ond a all ei wybodaeth ddim cael allan ffordd i fyned y tuhwnt i derfynau llywodraeth Duw? Y mae y mynyddoedd uchel yn noddfa i'r geifr; y mae y creigiau ysgythrog yn amddiffynfa i'r cwningod; y mae America yn lloches i aml ddyledog; ond a oes un fro y gall gweithredwyr anwiredd ddianc iddi oddi gerbron yr Arglwydd? Fel hyn y dywed y Duw mawr am rai oeddent yn ceisio gwneuthur:—"Tòr hwynt oll yn y pen; minau a laddaf y rhai olaf o honynt; ni ffŷ ymaith o honynt a ffô, ac ni ddianc o honynt a ddiango. Pe cloddient hyd uffern, fy llaw a'u tynai hwynt oddiyno; a phe dringent i'r nefoedd, mi a'u disgynwn hwynt oddiyno; a phe llechent ar ben Carmel, chwiliwn a chymerwn hwynt oddiyno; a phe ymguddient o'm golwg yn ngwaelod y môr, oddiyno y gorchymynaf i'r sarph eu brathu hwynt:" Amos ix. 1—3. Nyni, drueiniaid, ddianc? Ni buom ni erioed y tuallan i furiau ein carchar. O drugaredd, nid ydym wedi ein rhoddi yn y carchar nesaf i mewn,—uffern ydyw hwnw,—a'n traed yn rhwym yn nghyffion cyfiawnder. Yr ydym yn cael rhyddid i rodio o amgylch ychydig, ond nid

i fyned yr un cam y tuallan i'r muriau. Nid oes yr un ffenestr yn y rhai hyn i ni gael y cipolwg lleiaf ar ddim sydd y tuallan. Y mae nen ein carchar yn rhwydwaith ardderchog: ni a dybiem weithiau y gallem weled drwyddo beth sydd y tuallan i'r carchar; ond erbyn i ni gymeryd ein hysbienddrych, a sefydlu hono ar y *canopy* gogoneddus, nid ydym ddim doethach; ond yn hytrach y mae dirgelwch yn myned yn fwy. Yr ydym yn fwy anobeithiol: y mae nen ein carchar yn uwch nag a ddychymygasom erioed. Y mae un drws y medrwn ni ei agor: ond nid ydyw hwnw yn arwain o'r carchar i ryddid; ond o'r cyntedd nesaf allan i'r carchar nesaf i mewn. Yr unig borth a all dyn ei agor ydyw y porth sy rhwng y ddaear a Gehenna. Y mae pob man arall wedi ei ddiogelu gan sêl hollalluogrwydd. Y mae llawer un wedi ymbalfalu ar hyd muriau y carchar, ond yn methu cael bwlch yn un man. Nis medrwn ni ddim myned allan hyd nes y daw y Duw sydd wedi ein cloi i mewn i ddad-gloi; ac yna, fel gweision Pharaoh, fe'n gollyngir, naill ai i'n hadfer i ryddid gogoneddus meibion Duw, neu ynte i'n troi i'r carchar nesaf i mewn. Ni ddiangwn trwy ein gwybodaeth. "Pwy a saif?"

2. Neu ynte tybiwch, a ddichon dyn sefyll trwy ei allu. Y mae hwn, pa fodd bynag, yn annhraethol lai na'i wybodaeth. Nid yw ei lygaid ddim yn graff, y mae yn wir, ond y mae ei fraich yn wendid ei hun. Ychydig yw ei wybodaeth; ond pe byddai ei allu yr un faint a'i wybodaeth, byddai yn werth gwneuthur cyfrif o hono. Ond nid oes braidd gymhariaeth rhyngddynt. Fe all fesur uchder y sêr, ond ni all ef deithio hyd atynt. Gall ddywedyd pa mor hir y bydd y goleuni yn dyfod o'r haul i'r ddaear; ond a all ef deithio o'r ddaear i'r haul? Fe all ddisgrifio gwaelodion y môr, ond ni all ef rodio cilfachau y dyfnder ei hun. Gall ddywedyd pa faint ydyw tryfesur y ddaear; ond a all ef dreiddio drwy ei chrombiloedd hi ei hun? Y mae yr anghyfartalwch mwyaf yn ymddangos rhwng ei wybodaeth a'i allu. Fe fedr ei wybodaeth ddywedyd pa faint o alwyni sydd yn y môr; ond ni fedr ei allu rwystro i'r môr hwnw ei lyncu i fyny. Fe fedr ei wybodaeth ddeall achosion y gwynt a'r dymhestl; ond ni fedr ei allu rwystro iddynt fod yn angau iddo ef. Y mae trwy ei wybodaeth yn

teithio hyd a lled y ddaear, yn rhestru ei hamrywiol greaduriaid, gan ddisgrifio eu harferion, a dangos eu gwasanaeth yn y greadigaeth; wed'yn y mae yn codi ei olygon tua'r nef, ac yn disgrifio dirgelion yr awyrgylch,—rhyfeddodau y cymylau,—achosion y mellt a'r taranau; neu, fe saif ar làn yr eigion mawr,—fe restra bysg hwnw,—fe ddarlunia y perlau sydd yn britho ei wely; ond yn nghanol ei holl wybodaeth, y mae ei allu yn rhy fychan i wneuthur cicaion i'w amddiffyn am ddiwrnod;—er cymaint a wyr, nis gall wneuthur tô cymaint a chledr llaw gwr i'w gadw rhag yr ystorm. Y mae wedi ei ddynoethi yn nghanol creadigaeth. Y mae efe yn wir megis ar drugaredd pob peth. Gall fabwysiadu iaith Cain, o ran dim a all ef i ochel hyny,—"Pwy bynag a'm caffo a'm lladd." Nid ydyw ei wybodaeth ond yn ei wneuthur yn fwy digymorth. Buasai yn hapusach pe buasai yn gwybod llai, neu ynte yn gallu mwy. Fe wyr ddigon i deimlo nad all efe ddim;—digon i ddeall ei fod ef y gwrthddrych mwyaf digymorth yn y greadigaeth. Y mae gan y geifr eu mynyddoedd; gan y cwningod eu creigiau; gan y bwystfilod gwylltion anghyfanedd-dra y diffaethwch; gan yr adar eu hadenydd; gan y pysg gilfachau y dyfnder, i'w hamddiffyn rhag eu gelynion, ac i ffoi iddynt mewn perygl; ond gan ddyn nid oes noddfa: os saif ef yn nydd dial, nid ei fraich ei hun a'i hachub,—nid oes dim cymorth iddo ynddi hi. Yr oedd brenin balch Assyria yn cyfeirio yr Iuddewon am brofion o'i nerth at y dinasoedd a'r gwledydd yr oedd efe wedi eu gorchfygu; ond at ba beth y gall dyn apelio i brofi nerth ei fraich? Nid at y gwyfyn,—fe'i malurir ef yn gynt na hwnw; nid at y lindys,—y mae y rhai hyny wedi ei orchfygu; nid at y llyffaint,—y maent hwy wedi buddugoliaethu arno; nid at y ceiliogod rhedyn,—y maent hwy wedi ei drechu; nid at bryf y rhwd a'r locustiaid,—y maent hwy wedi cael concwest arno. Ni ddaeth o un rhyfel erioed yn fuddugoliaethwr. Byddai yr Israeliaid pan o dan y gorthrymderau tostaf, yn enill weithiau, ac yn gallu ysgwyd ymaith yr iau; ond colli bob tro y mae dyn. Ni waeth pa un o'r lluoedd a ddaw allan yn ei erbyn,—ai y llwch sydd o dan ei draed, yr ymlusgiaid sydd o'i amgylch, neu dymestl y ffurfafen, mellt a tharanau y nefoedd,—yr un peth y mae pob brwydr yn ei brofi, sef nad oes nerth yn mraich dyn.

I ba beth y rhoddwyd y wybodaeth hon i ni? Paham na chuddiwyd ein gwendid o'n golwg? Gan i ni gael llygad craff, paham na chawsem ni fraich gref? Paham na buasai ein nerth yn gydwastad â'n gwybodaeth? Dyna y paham, er mwyn i ni gael gweled na safwn ni ddim, pan êl Duw i graffu ar ein beiau ni. "Os creffi ar anwireddau, Arglwydd, O Arglwydd, pwy a saif?"

3. Os na all dyn ddianc trwy ei nerth, neu ei ddoethineb, ei hun, a oes ganddo neb mewn cyngrair âg ef a all ei waredu? Yr oedd brenhinoedd Israel, yn wyneb peryglon, yn ymddibynu ar yr Aipht. Er nad oedd eu nerth eu hun yn ddigon, hyderent am oruchafiaeth trwy gymorth yr Aiphtiaid. Ond pwy sy mewn cyngrair â dyn? Pwy a ymladd ei ryfeloedd ef? Y mae yn unig ac yn amddifad yn nghanol creadigaeth. Y mae pob creadur yn barod i'w fradychu, ac i weinyddu dedfryd cyfiawnder arno. Pan gyhoeddwyd y geiriau sobr,—"Gan farw y byddi farw," fe glybu creadigaeth y ddedfryd, ac nid ydyw ond yn disgwyl am amser cyfaddas,—yn disgwyl am yr amnaid lleiaf,—a hi a wna ei air Ef yn y fan. Nid oes gan y greadigaeth ddim cydymdeimlad â dim ond â sancteiddrwydd; y mae hi yn anghymodlawn elyniaethol i bechod. Y mae hi yn edrych ar bechod gydag annhraethol fwy o gasineb nag yr oedd Iago ac Ioan ar y Samariaid hyny; ac yn ei hiaith y mae hi yn gofyn yn feunyddiol i'r Duw mawr am y rhai sydd yn byw ynddo, A fyni di i mi eu dinystrio hwynt? Pe cymerem ni y greadigaeth ymhob ystyr,—yn rhesymol ac yn afresymol,—yn ysbrydol ac yn ddefnyddiol,—y mae hi oll yn erbyn dyn. Y mae holl nerthoedd y byd ysbrydol yn ei erbyn; yr angylion cedyrn o nerth, y maent o angenrheidrwydd yn elynion i ddyn. Onid ydyw yr oraclau dwyfol yn cael eu britho â phrofion o hyn? Onid angylion a ddymchwelodd Sodoma a Gomorrah? Onid angel a laddodd gyntaf-anedigion yr Aipht? Onid angel yr Arglwydd a laddodd holl fyddin yr Assyriaid? Onid drwy gleddyf angel y syrthiodd deng mil a thriugain o Israeliaid yn amser Dafydd? Onid angel yr Arglwydd a darawodd Herod falch fel y bu efe farw? Ac y mae y Salmydd yn deisyf am i angel yr Arglwydd erlid ei elynion. Yr ydym yn arfer meddwl fod y byd ysbrydol ymhell iawn oddiwrthym, ond tebycach o lawer ydyw ein bod

ni yn ei ganol ef;—nad oes dim ond y bilionen gnawd yma sydd ar lygaid ein hysbryd yn ein rhwystro i weled swyddogion ysbrydol cyfiawnder yn ein hamgylchu. Nid ar ffordd Balaam yn unig y safodd angel, â chleddyf noeth yn ei law,—na y mae ef yn sefyll ar ffordd llawer Cymro. Ac, ysywaeth, nid yw ei lygaid yn cael eu hagor fel yr eiddo Balaam, nes yr agorir hwynt gan awch y cleddyf, yn y byd arall. Er mai Herod ydyw yr olaf y crybwylla y Bibl am dano fel wedi ei daraw gan angel yr Arglwydd, pe buasai ysbryd Duw yn parhau i gofrestru marwolaethau (fel y dywedodd un*), fe fuasai hyny ar gyfer enw aml un o'n cydnabod ninau,—"Angel yr Arglwydd a'i tarawodd fel y bu efe farw." Ac am yr angylion drwg, nid oes ganddynt hwy ddim mwy o gydymdeimlad â ni na'r rhai da. Y mae Satan yn rhodio o'n hamgylch fel "llew rhuadwy." Temtiwr ydyw ei enw. Ei waith ydyw ein hudo drwy gynllwynion a dichellion. Y mae nerth marwolaeth ganddo; a dim ond iddo gael haner amnaid gan y Llywydd, fe weinydda y farwolaeth yn y fan. Y mae y byd hwn, i raddau pellach nag yr ydym ni yn ei feddwl, feallai, yn llaw y diafol. Yn amser yr Arglwydd Iesu, yr oedd cyrff ac eneidiau dynion yn ei law. Byddai yn dyrysu synwyrau un,—yn cau clustiau yr ail,—yn cloi tafod y trydydd,—yn rhwymo un arall âg ysbryd gwendid am ddeunaw mlynedd ; ond fe'i barnwyd ef gan yr Arglwydd Iesu,—fe syrthiodd i lawr fel mellten o'r nefoedd ; hyny yw, o'i awdurdod fawr. Fe gollodd lawer o'i lywodraeth, ond nid yr oll o honi. Y mae efe fel gwrthwynebwr i ni yn rhodio o'n hamgylch eto. Y mae wedi myned allan i dwyllo y cenhedloedd, i'w casglu i ryfel yn erbyn y Duw mawr, ac y mae yn gwneuthur hyny i'w dinystrio am byth bythoedd. Mor druenus a digymorth ydyw dyn! Y mae pob creadur perffaith sanctaidd o angenrheidrwydd yn elyn iddo. Y mae pob creadur sydd wedi ei berffeithio mewn pechod o angenrheidrwydd yn elyn iddo hefyd. Y mae yr eithafion yn cydgyfarfod. Y mae purdeb natur un, a llygredigaeth y llall;—sancteiddrwydd yr angel a halogrwydd y diafol,—yn peri fod y ddau yn gosod eu hwyneb yn erbyn dyn. Ac y mae holl elfenau y greadigaeth weledig

*Sylw y diweddar Barch. Henry Rees ydyw hwn.—Gol.

wedi dangos eu hunain lawer gwaith yn elynion i ddyn. Pan aeth ysbryd anufudd-dod i ddyn, fe aeth ysbryd dial i bob peth arall, fel ag y mae pob creadur yn awr yn weinidog digofaint. Fe edrychir ar ymadroddion fel hyn gan lawer yn ehediadau barddonol,—yn ddychymygion disylwedd ; ond ai peth felly ydynt ? Oni allaf apelio at eich cydwybodau chwi eich hunain am wirionedd y syniad ? Onid ydych wedi bod mewn amgylchiadau ag yr oeddech yn teimlo mai gweinidogion cyfiawnder oedd holl elfenau creadigaeth ? Yr oedd pob peth yn adsain i'r meddwl,—"Y mae digofaint yn bod." Os nad oes digofaint yn bod, y mae ein natur ni yn gelwydd,—ein cydwybod yn dwyll,—dirgel ddyn y galon yn ffuantus. Paham y mae Duw da yn gadael cymaint o drueni ar y ddaear ? Paham y mae y cleddyf yn cael diblanta gwragedd ? Paham y mae trefydd mawrion yn cael eu diboblogi gan y pla ? Paham y mae yr haint yn rhodio y ddaear, gan argraffu galar, griddfan, a gwae ar hyd ei holl lwybrau,—os nad am fod digofaint yn bod? Paham y mae yr elfenau wedi eu gollwng allan fel bwystfilod gwylltion yr anialwch, ar greadur mor ddiamddiffyn a dyn ? Y mae y tân yn ei losgi,—y dwfr yn ei foddi,—y gwynt yn ei ladd,—y sêr yn ei erbyn, yn ymladd yn eu graddau,—a'r ddaear yn ei lyncu ? Onid i ddangos fod digofaint yn bod ? Y mae dyn yma yn awr yn debyg fel yr oedd Paul yn Rhufain,—yr oedd yn cael byw yn ei dŷ ardrethol ei hun, ond yr oedd milwr yn ei gadw, ac yr oedd cadwyn yn ei rwymo yntau wrth hwnw. Yr oedd ganddo ryw ychydig ymddangosiad o ryddid ; ond yr oedd y milwr gydâg ef ymhob man. Yr oedd yn anmhosibl iddo ddianc, pe mynasai. Ac o'r diwedd fe 'i harweiniwyd ef gan y milwr hwnw gerbron y fainc i glywed ei ddedfryd. Felly y mae creaduriaid Duw o'n hamgylch ninau fel milwyr, yr ydym wedi ein cadwyno wrthynt. Er ymddangos fel rhai rhydd, eto yn ofer y ceiswn ddianc ; ac yn lle bod yn help i ni ddianc, fe fydd rhai o'r milwyr yma yn fuan yn ein harwain ninau gerbron y fainc i glywed ein dedfryd. Mor amddifad ydyw dyn ! pob creadur yn ei erbyn ! ac nid oes bron lanerch o'r ddaear nad ydyw hi yn llefaru pethau chwerwon wrth enaid rhywun. Paham y mae Cain yn ffoi o'r llanerch y lladdodd efe ei frawd arni ? Onid am fod gwaed

Abel wedi rhoddi tafod i'r llanerch hono. Yr oedd y llais mor arswydus, fel nad allai Cain ddim ei wrandaw: yn hytrach na gwneuthur hyn, fe ddymunai fod yn grwydriad ac yn wibiad ar y ddaear. Pwy sydd yma nad yw wedi clywed natur yn llefain fel Cain yn ei erbyn? Y mae y gareg o'r mur, a'r trawst o'r gwaith coed, wedi gordoi enaid aml un â phrudd-der. Y mae rhyw lanerch ar y maes,—rhyw ysmotyn ar y ffordd,—rhyw gilfach yn y mynydd,—a all lefaru geiriau mwy ofnadwy na'r taranau wrth enaid aml un. Ymddangosed rhyw oruchion anghyffredin yn yr wybren,—seinied rhyw sain dieithr yn ein clustiau,—deued rhyw glefyd marwol i'r ardal,—neu pydred rhan o'n hymborth ni yn y ddaear,—neu, bygythied yr Arglwydd dori ffon ein bara,—pa effaith a gaiff hyn? Onid cyffroi disgwyliadau ofnadwy am ddigofaint yn y fynwes? Fel brodyr Joseph, yr ydym yn y fan yn cofio ein hen driciau, ac yn barod i ddywedyd,—"Am hyny y daeth y cyfyngder hwn arnom ni." Beth sydd yn ein gwneuthur mor ofnus? Cydwybod euog sydd yn y fynwes. Yr ydym yn ffoi cyn bod neb yn erlid. Pa sut y safwn ni, pan aiff y Duw mawr i graffu ar anwiredd? "Os creffi ar anwireddau.........pwy a saif?"

III. Y mae yr hyn y mae Efe yn craffu arno, sef anwiredd, yn profi na safwn ni ddim. Y mae rhai a addefant fawredd Duw, a diddymdra dyn, ac oddiwrth y ddau wirionedd yna tynant gasgliad hollol groes i'r hwn yr ydym ni wedi ceisio ei dynu,—sef gan fod Duw mor fawr, a dyn mor ddiddym, y mae yn rhaid fod gweithredoedd un fel yna yn rhy fychain i Dduw sylwi arnynt. Y mae yn wir, pe craffai Efe ar ddyn, na safai ê ddim; ond y mae mor wir a hyny, meddant, y mae dyn mor ddiddym, fel ag y byddai yn ffolineb i ni feddwl y gwna un mor fawr a Duw sylwi am foment arno. Onid mesur yr Anfeidrol wrthynt eu hunain y mae y rhai hyn? I Dduw nid oes dim yn fawr nac yn fychan. Yr un peth ydyw llwchyn a byd iddo Ef. Y mae y pryfyn, y dyn, a'r archangel, yn gydwastad ger ei fron Ef. Ond pe buasai rhyw gymaint o wirionedd yn yr haeriad, fod ein bychandra yn ei gwneuthur yn lled annhebyg y gwnai Duw graffu arnom; eto fe fuasai yr hyn a wnaethom ni, sef anwiredd, yn ddigon i sicrhau y bydd i lygaid Duw graffu ar y cyfan. Pe byddai i gardotyn oedd heb

F 3

le i roddi ei ben i lawr, amcanu at fywyd Brenhines Lloegr, ni feddyliai neb y gwnai ei dlodi ei guddio rhag cyfiawnder. Er ei fod yr iselaf o fewn terfynau yr ymerodraeth, ac nad oedd neb bron yn ei adwaen, na neb yn arfer sylwi arno, eto o'r foment y cyflawnodd efe y weithred, y mae llygaid y deyrnas wedi eu troi ato. Pa beth sydd wedi ei wisgo â'r fath fawredd? Ei bechod—y weithred a gyflawnodd. Felly, pe buasai dyn heb bechu erioed, feallai mai rhyw ddiddymdra a fuasai efe yn ymerodraeth Duw,—rhyw abwydyn na buasai neb yn sylwi arno; ond y foment y cododd efe ei law yn erbyn Duw, fe dynodd sylw creadigaeth arno ei hun. Y mae ei anwiredd wedi ei wisgo â mawredd ofnadwy. Nid rhaid i ni chwilio am reswm arall am ddim a ddywedir ynghylch dyn. Y mae efe yn anfarwol—pa brawf sydd o hyny? Y mae yn bechadur. Y mae ei gorff i gael ei adgyfodi o'r ddaear—pa brawf sydd o hyny? Y mae yn bechadur. Y mae y ffurfafen i gael ei throi yn llys barn. Y cymylau i gael eu ffurfio yn orsedd o ogoniant i'r Barnwr eistedd arni. Y mae y nefoedd i gael ei harllwys o'i holl breswylwyr. Y mae prif weinidog y llys i seinio udgorn Duw, nes y deffry yr holl feirwon. Ac yna y mae myrddiynau o angylion i'w cyd-gasglu hwynt gerbron y fainc. Pa reswm cymeryd cymaint o drafferth gydâ phryfyn fel dyn? Dyma y rheswm:—Y mae dyn yn bechadur. O! y fath fawredd arswydus y mae pechod wedi ei roddi arnom. Ni all llygredigaeth ddim ein difodi. Y mae ein llwch dan gyfrif. Ni feiddia y bedd ddim llywodraethu arnom byth. Bydd yn anmhosibl i angau ein hatal byth. Fe fydd yr un cyfiawnder ag a ddatododd rwymau angau, i Fab Duw ddyfod o'i afaelion am fod y ddyled wedi ei thalu, yn datod rhwymau angau i bechadur ddyfod o'i afaelion i ddioddef am ei ddyled; ond pan ddygir ef gerbron y llys,—A saif efe? Na wna. Ni a welwn hyn wrth edrych—

1. Ar natur anwiredd. Ni fedrwn ni ddywedyd bron ddim am hyn, am ein bod yn ngafael y pla ein hunain. Y mae yn gofyn galluoedd angel, a sancteiddrwydd y nefoedd, i ddisgrifio ychydig ar natur anwiredd. Yr ydym ni mewn dyffryn caeedig. Nis gallwn weled fawr gan mor isel ydym; ond pe caem ni sefyll ar fynyddoedd uchel sancteiddrwydd, oddiyno y

caem olygfa ar echryslonrwydd anwiredd, na ddaeth i'n calon erioed feddwl am ei bath. Meddyliwch yn awr am ogoniant perffaith,—trefn berffaith,—hapusrwydd perffaith; lle y mae hwnw yn cartrefu? Yn Nuw. Meddyliwch am berffeithrwydd gwarth,—perffeithrwydd annhrefn,—perffeithrwydd trueni,—bydd genych rhyw syniad gwanaidd am anwiredd;—ond gwanaidd iawn, oblegid nid ydyw y tywyllwch ddim mor wrthwyneb i'r goleuni,—nid yw yr iâ ddim mor groes i'r tân,—nid yw uffern mor wrthwyneb i'r nefoedd, ag ydyw natur anwiredd i natur Duw. Edrychwch arno fel dinystrydd trefn a hapusrwydd y greadigaeth. Hûfen trefn yw hapusrwydd. Dedwyddwch ydyw y tawelwch hwnw fuasai yn effaith bod pob olwyn yn y greadigaeth resymol yn troi yn ei lle: a dyna ydyw trueni, yr olwynion yn rhygnu yn eu gilydd. Dyma waith anwiredd. Ond nid ydyw yn cael cyraedd ei holl amcan yn y byd hwn. Y mae ê wedi tori y greadigaeth oddiwrth Dduw yma; ond nid ydyw wedi ei berffeithio, nes y bydd pob rhwymau wedi eu tori,—pob gronyn o gariad wedi darfod,—pob teimlad o ewyllys da wedi trengu,—pob pincyn o drugaredd wedi marw;—yr holl rwymau perthynasol wedi eu dryllio,—y fam yn edrych ar ei phlant gyda chasineb perffaith;—y tad yn llawn o falais y diafol;—y plant yn rhoddi holl nerth eu galluoedd i gasâu eu rhieni;—y cymydog yn casâu cymydog â chasineb cythreulig. Nis medrwn ni ddywedyd pa fath fyd a fyddai hwn, pe byddai pechod yn ei lawn faint; ond beth bynag fyddai yn ofnadwy i'r teimlad,—yn arsywdus i'r glust,—yn ddychrynllyd i'r golwg, fe fyddai yma. Y mae rhai o honoch yn gydnabyddus â hanes y byd. Teithiwch yn eich meddwl yn awr drwy chwe' mil o flynyddoedd;—edrychwch ar feibion Adda yn llwythog o drueni,—yn wawd i ofidiau,—yn rhedeg eu cleddyfau i galonau y naill y llall,—yn trochi eu dwylaw yn ngwaed eu gilydd,—yn dyfeisio creulonderau,—ac yn byw ar drueni eu gilydd. Neu ynte edrychwch ar y byd yn awr. Y mae ei archoll yn anaele. Pe y gellid pwyso ei drueni yn awr, byddai yn drymach na mynyddoedd o blwm. Er ei fod yn nghanol trugareddau, nid yw yn cael un foment o hapusrwydd, ond mewn anghof. Beth ydyw hyn? Esboniad ar natur pechod. Ië, y mae yn beth mor ddrwg,—fe ddifodai gread-

igaeth pe cai ei ffordd,—ïe, fe ddiddymai y Creawdwr! Dyma ydyw amcan pob pechod o'ch eiddo chwi a minau; ac a all y Duw sydd yn Awdwr trefn edrych dros beth fel yna? Na, y mae yn rhaid symud pechod fel *nuisance*, fel cas-beth o ymerodraeth Duw. Y mae yr anwiredd yma sydd ynddi yn gyffelyb i'r ysmotiau sydd yn yr haul. Y mae yn rhaid ei symud i ffordd, fel na bydd dim i lychwino ei gogoniant hi Ac os na ollyngi di dy afael arno, bechadur, fe dy deflir dithau fel rhyw *nuisance* o ymerodraeth Duw gydag ef. "Os creffi ar anwireddau, Arglwydd, O Arglwydd, pwy a saif?"

2. Meddyliwch am rif eich pechodau. Fe fuasai un yn ddigon i ddamnio. O un pechod y tarddodd yr holl drueni sydd yn nghreadigaeth Duw yn awr. Ffrwyth yr un meddwl drwg hwnw, a genhedlwyd yn mynwes Satan, ydyw yr oll o ofidiau y ddaear a gwaeau uffern. Ac fe fuasai pob pechod yn cynyrchu yr un effeithiau, pe buasai yn cael cyfleusdra Pe buasai y tywyllwr yn cael yr un rhyddid i fyned i bob byd a greodd Duw ag a gafodd i ddyfod i hwn, ni buasai erbyn heddyw yr un deiliad ffyddlawn i'r Brenin tragywyddol i'w gael. Os nad ydyw yr holl drueni y gwyddom ni am dano, ac annhraethol fwy nag a wyddom ni, ond un pechod wedi cael lle i ymledu, i *expandio*;—os oes cymaint o ddrwg yn perthyn i un,—pa fodd y safwn ni sydd â'n beiau yn aneirif? Cynt y rhifem ni dywod y môr,—ser y nef,—gwellt y ddaear,—a dail y coed, na'n beiau. Ceisiwch rifo beiau un diwrnod: pa sawl meddwl pechadurus aeth drwy y fynwes?—pa sawl bwriad uffernol a dramwyodd drwy y galon? Yr oedd doe yn ddiwrnod didduw i chwi. Nid oedd doe ddim ond cysgod o'r wythnos oll;—yr wythnos, o'r flwyddyn,—y flwyddyn; o holl flynyddau eich bywyd: y mae eich bywyd yn oes o wrthryfel. Pwy a ddeall ei gamweddau; a phwy a saif pan êl Duw i gyfrif?

Pa beth, medd rhywun, ai i'n poeni ni cyn yr amser, yr ydych yn ceisio dangos fod yn anmhosibl i ni ddianc? Paham y mae yn rhaid i ni fyned i gyfarfod ein trueni? digon buan, a rhy fuan, fuasai i ni ei deimlo pan ddel? Na, nid dyfod yma yn boenydiwr a ddarfu i mi. Pe na buasai genyf ddim i'w ddywedyd ond am galeruid muriau y carchar, ni buaswn yn dyfod i gymeryd gwaith y diafol o'i law, sef poenydio; ond fy niben

yn disgrifio cadernid y muriau oedd eich parotoi i wrandaw am y porth rhyfedd a gloddiwyd drwyddynt gan drugaredd, i bechadur ddianc :—" Y mae gydâ thi faddeuant fel y'th ofner." Y mae yn wir fy mod wedi ceisio dangos ffynhonau y dyfnder yn ymrwygo, a ffenestri y nefoedd yn ymagor, a'r diluw yn ymyl ; ond yr oeddwn yn gwneuthur hyny, am fod genyf fodd i ddywedyd am arch sydd yn nes i ffoi iddi :—" Y mae gydâ thi faddeuant." Os dangosais i ddialydd y gwaed yn ymyl, mi ddangosaf yn awr ddinas noddfa yn nes :—" Maddeuant fel y'th ofner." Wrth edrych ar sancteiddrwydd Duw, y mae fy nghalon yn marw mewn anobaith ;—wrth edrych ar allu Duw, y mae fy enaid tlawd yn llefain,—" Darfu am danaf ;"—wrth edrych ar wybodaeth Duw, y mae aethau marwol yn myned drwy fy mynwes ; ond wrth edrych ar drugaredd Duw, yr ydwyf yn cael fy anadl :—" Y mae gydâ thi faddeuant fel y'th ofner." Os safaf yn erbyn picellau gallu, byddaf yn ngafael yr ail farwolaeth yn y fan ;—os mentraf i wyneb tân sancteiddrwydd, fe gyneua y fflam anniffoddadwy yn fy enaid ; — os rhyfygaf i wyneb cyfiawnder, fe sudda y cleddyf yn ddwfn i fy ysbryd ; ond os syrthiaf i freichiau trugaredd, mi a ddiangaf byth gan fy Marnwr :—" Maddeuant fel y'th ofner." Fe ellid disgwyl na wnaem ni ond rhyfeddu, addoli, a chanu uwchben y fath drefn. Y Duw sydd â'i lygaid yn ddigon craff i weled yr oll, a'i natur yn ddigon pur i gasau yr oll, a'i fraich yn ddigon cadarn i gosbi am yr oll, eto ei drugaredd yn ddigon mawr i faddeu yr oll Dyma y cwbl sy genym am ein bywyd,—hen drefn yr efengyl drwy Iesu Grist ; ac O ! nad allem eich perswadio chwithau i fentro eich bywyd yn yr un man. Yr ydwyf wedi bod i fyny ar ben y mynydd, fel gwas Elias; mi welais y cymylau yn llwythog o wlaw yn codi o'r môr, ac yr wyf yn penderfynu gwregysu lwynau fy meddwl i redeg i'r diddos, cyn iddi ddechreu gwlawio. A ddeuwch chwithau hefyd ? "Maddeuant fel y'th ofner." Yr wyf newydd glywed trwst y dialydd yn ymyl,—yr ydwyf am ffoi yr awr hon i'r ddinas noddfa ; deuwch gydâ mi. " Maddeuant." Mi welaf yn hen lyfr mawr creadigaeth, mai Brenin galluog yw Brenin y nef ;—mi welaf yn ysgrifenedig ar fyrdd o bethau, mai Brenin cyfiawn a sanctaidd ydyw ; ond mi welaf yn yr hen lyfr hwn, mai

Brenin trugarog ydyw. Treia ei drugaredd Ef, bechadur,—cei weled ei fod yn Dduw yno hefyd. Y mae ei allu Ef yn allu Duw;—y mae ei sancteiddrwydd Ef yn sancteiddrwydd Duw;—y mae ei wybodaeth ef yn wybodaeth Duw;—ac y mae ei drugaredd Ef hefyd yn drugaredd Duw. Pa le y mae un a feiddiodd ei allu Ef wedi dianc? Pa le y mae un a ddirmygodd ei sancteiddrwydd Ef wedi dianc? Pa le y mae un a geisiodd ddyrysu ei ddoethineb Ef wedi dianc? Ond pa le y mae un a ymddiriedodd yn ei drugaredd Ef wedi ei golli? Y mae yn rhaid cyfarfod â Duw mewn rhyw garacter. Bydd barod, fy nghyd-ddyn. Os fel Duw y gallu yr wyt ti am ei gyfarfod, chwilia am dy arfau. Os fel Duw y gwybodaeth yr wyt ti am wynebu ato, cloddia yn ddwfn am resymau. Ond os at drugaredd yr wyt ti am apelio, yr wyt yn barod i hono y foment hon. Syrthia wrth ei thraed. Dos ymlaen dan waeddi,—"Pechais!" ti a ddiengi byth gan dy Farnwr.

[Bore Iau, Gorphenaf 22, 1847.]

# PREGETH XL.

## PARODRWYDD ERBYN DYFODIAD MAB Y DYN.

MATTHEW xxiv. 44.—"Am hyny byddwch chwithau barod: canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y dyn."

FE ddywedir fod pethau mawrion yn taflu eu cysgod o'u blaen; ac y mae mawredd a phellder hwnw yn cyfateb i'w maint hwy. A dyna paham y mae dau ddyfodiad Mab y dyn yn dal cysylltiad â phob peth y Bibl; oblegid hwynthwy ydyw ei ddau beth mawr ef. Yr oedd y cyntaf mor fawr, fel yr oedd ei gysgod yn cyraedd o gyflawnder yr amser i'w ddechreu; ac y mae yr ail mor fawr, fel y mae ei gysgod yntau yn toi y ddaear er's mil o flynyddoedd. Nid oedd hyny o hanes creadigaeth y byd, ag a gawn ni gan Moses, ond rhagymadrodd i'r addewid am y dyfodiad cyntaf; ac wedi i hono gael ei rhoddi, "yr hwn sydd ar ddyfod," fu enw y Mesiah ar y ddaear; ac at yr *Hwn* yma yr awn ni, fel yr aeth Belsasar at Daniel, i gael deongli pob deongliadau, a datod pob cylymau, ac egluro pob gweledigaeth. Nid oedd y diluw yn ddim ond Duw yn ysgubo ymaith y drain a'r dyrysni, i'r cyff, o ba un yr oedd y wialen hon i ddyfod allan, gael mantais i dyfu. Ac nid oedd pob chwyldroad a fu yn y byd cenhedlig wedi hyny yn ddim ond cyflawniad o eiriau y prophwyd Ezeciel (xxi. 27):—"Dymchwelaf, dymchwelaf hi; ac ni bydd mwyach hyd oni ddelo yr hwn y mae yn gyfiawn iddo; ac iddo ef y rhoddaf hi." A phe buasid yn gofyn gerllaw pob allor yn Jerusalem,—"Beth yw y gwasanaeth hwn?" buasai raid myned at "yr Hwn oedd ar ddyfod" i ymofyn deongliad. Nid oedd y seremonïau ddim ond pictiwr tywyll o hono; ac yr oedd pob

dyn enwog a fu yn eu plith yn rhag-gynllun o hono: Moses yn gysgod o hono fel sefydlydd teyrnas; Dafydd yn gysgod o'i fuddugoliaethau; a Solomon, o heddwch ei deyrnasiad. Efe oedd yn selio y weledigaeth a'r brophwydoliaeth, yn eu dibenion, ac yn eu hegluro hefyd o ran eu hystyr.

Yr hyn oedd y dyfodiad cyntaf i'r Hen Destament, hyny ydyw yr ail ddyfodiad i'r Newydd. Yr un peth mawr sydd fel enaid ei holl gynwysiad. Pe cymerid ef ymaith, byddai yn anmhosibl ei ddeongli. Ac fel y dyfodiad cyntaf, y mae yn cael ei addaw, ei ragddarlunio, a'i bortreadu. Y mae yn cael ei gynwys mewn addewidion, yn yr epistolau; y mae yn ddarlun wedi ei baentio ar y llian, yn llyfr y Dadguddiad; Ac yn y benod hon, y mae yn cael ei ragbortreadu mewn gweithred. Mynych y byddai pethau yn cael eu dangos i'r prophwydi gynt yn y dull hwn; a byddent hwythau, nid yn *dywedyd* y peth yn unig, ond yn ei *ddangos* mewn gweithred; hyny yw, yn ei *actio* o flaen eu llygaid. Y mae Ezeciel yn fynych yn gwneuthur hyny: un dydd ni a'i gwelwn ef yn ocheneidio ar hyd yr heolydd;—bryd arall, a'i wraig wedi marw mewn moment, ac yntau yn myned o amgylch fel pe na buasai dim wedi cymeryd lle. Drachefn, ni a'i gwelwn ef yn gwneyd hyny o feddianau oedd ganddo yn faich, ac yn eu cymeryd hwynt fel un yn cychwyn i gaethiwed. Trwy y pethau hyn yr oedd yn portreadu i'w llygaid beth oedd i'w cyfarfod, ac yn peri iddynt ofyn iddo,—"Beth yw hyn i ni?" Peth cyffelyb i hyny yw y benod hon. Y mae hi yn brophwydoliaeth am ddinystr Jerusalem; ond yr oedd hwnw yn bortread o ddiwedd y byd. Yr ail ddyfodiad yn cael ei actio ydoedd. Mab y dyn yn dyfod ar raddfa *(scale)* fechan, i ddangos beth fydd y dyfodiad mawr. Nid oes amheuaeth nad golwg eithaf y benod yw y dyfodiad i'r farn; ac ni bydd ei geiriau hi ddim wedi cael eu llonaid hyd hyny. Eto, fe ddywedir 'nad elai y genhedlaeth hono heibio, hyd oni wnelid hyn oll;' hyny yw, byddai y dyfodiad mawr wedi ei *actio* yn eu dyddiau hwynt. Priodol iddynt, gan hyny, oedd y cyngor:—"Byddwch chwithau barod; canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y dyn." Y mae y farn ymhell oddiwrthym ninau, ond 'nid ä y genhedlaeth hon heibio, hyd oni wneler hyn oll.' Y mae y portread i gymeryd

lle ar bob un o honom ni yn bersonol. Y farn yn cael ei dangos mewn gweithred, mewn cylch bychan, fydd angau. Felly y mae yr hyn a gyflawnwyd mewn rhan yn ninystr Jerusalem, i gael ei gyflawni eto mewn rhan yn angau. Gan hyny, y mae cyngor y testyn mor briodol i ni ag yr oedd iddynt hwy. Gan nad êl yr un o'r genhedlaeth hon heibio, hyd oni chyflawner hyn oll,—"Am hyny byddwch chwithau barod."

A phe byddai rhyw amheuaeth am y priodoldeb o gymhwyso y testyn at angau, y mae moment o sylw ar y benod yn ddigon i'w symud; oblegid y mae yr hyn yr ydym ni yn ei weled ydyw angau, yn cyfateb mor hollol i'r hyn y dywedir yma fydd yr ail ddyfodiad, fel nad allwn ni lai na chanfod bod y naill yn bortread o'r llall. Bydd y dyfodiad i'r farn yn ddyfodiad mewn amser cynhyrfus iawn ar y byd;—yn ddyfodiad sicr, ac eto annisgwyliadwy;—yn ddyfodiad o ysgar rhwng pob elfenau gwahanol, "dwy yn malu," neu "ddau yn yr un gwely," y "naill a gymerir, a'r llall a adewir;"—ac yn ddyfodiad fydd a chanlyniadau tragywyddol iddo. Fel hyn y mae hi yn angau hefyd: pwy sydd yn marw mewn adeg o dawelwch? nid yw ond un o fil,—ambell Simeon. Yn y cyffredin, y mae y saint yn marw fel Dafydd, a'r deml heb ei hadeiladu;—yn marw fel Paul, a'r eglwys ar haner ei phlanu;—fel Luther, cyn gorphen y diwygiad;—fel Mathew Henry, a'r esboniad ar ei ganol. Ac er nad oes dim mor sicr a'r amgylchiad, nid oes dim mor ansicr a'i amser: am hyny, dyfod y mae fel y fellten, yn annisgwyliadwy; pan y mae un ar ganol planu ei winllan, a'r llall heb orphen adeiladu ei dŷ. Ond pan ddêl, fe ysgar yn dragywydd bob elfenau gwahanol oddiwrth eu gilydd; ac fe fydd ei ganlyniadau mor barhaus a chanlyniadau y dyfodiad mawr. Y mae angau, gan hyny, yr un peth i ni yn bersonol, ag a fydd y dyfodiad mawr i'r greadigaeth i gyd: "am hyny byddwch chwithau barod; canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y dyn."

Nid yw cysylltiad y pethau mawrion hyn â Mab y dyn, ond cyflawniad o weledigaeth Ezeciel. Ar ol i'r prophwyd ganfod yr olwynion hynod hyny, a'u cantau mor uchel, fel yr oeddent yn ofnadwy, fe welodd megis gwelediad dyn yn uwch na hwynt oll, er uched oeddent; i ddangos eu bod yn berffaith o dan ei lywodraeth ef, ac yn troi yn ol ei orchymyn. Y mae pethau

mawrion fel pethau bychain rhagluniaeth yn cael eu dwyn o amgylch gan Fab y dyn. Pan y mae chwyldroadau mawrion, neu ddinystr ofnadwy, yn cymeryd lle,—a phan y mae angau yn cymeryd un person ymaith i'r byd anweledig,—Mab y dyn sydd yn eistedd ar y llifeiriant yn y chwyldroad, a Mab y dyn sydd yn agor pyrth marwolaeth yn angau. Y mae Mab y dyn, fel Arglwydd pawb oll, yn llywodraethu yn fanwl, yn gyson, ac yn barhaus, ar bawb, ac ar bob peth;—bob amser, ac ymhob man: ond pan y mae rhywbeth mawr yn cymeryd lle, fel dinystr Jerusalem, neu angau, fe elwir hyny mewn ystyr arbenig yn "ddyfodiad Mab y dyn;" nid am fod ei lywodraeth yn fwy gwirioneddol y pryd hyny nag ar y pethau bychain, ond am ei bod hi yn fwy amlwg,—yn hawdd i bawb ei chanfod hi.

Nid oedd ond un o holl ddyfodiadau yr Hen Destament yn ddyfodiad personol i Fab Duw; ac felly nid oes ond un o rai y Testament Newydd, yn bersonol, yn ystyr lythyrenol y gair, sef ei ddyfodiad i'r farn. Ond ei ddyfodiad Ef oedd dinystr Jerusalem, er mai lluoedd y Rhufeiniaid fu yn ei dinystrio; a'i ddyfodiad Ef ydyw angau, er mai rhyw glefyd, neu haint, fydd yn ein cymeryd ni ymaith i'r byd arall. Y mae y Bibl yn hyn, yn ol ei arfer, yn myned drwy yr ail achosion at yr achos cyntaf;—yn myned heibio i'r olwynion bychain, sydd yn peri i fysedd yr oriawr droi, at y *main-spring* sydd yn rhoddi ysgogiad yn yr olwynion. Y mae geiriau y canwriad yn cynwys disgrifiad hollol gywir o'r berthynas y mae y Bibl yn ei dangos sy rhwng Mab y dyn a holl amgylchiadau y bywyd hwn. Y mae yn dywedyd wrth un, 'Dos, ac efe a ä; ac wrth un arall Tyred, ac efe a ddaw; ac wrth y trydydd, Gwna hyn, ac efe a'i gwna.' Y mae yr hyn sydd yn ngair Duw, wedi ei amcanu yn arbenig i fyned yn erbyn didduwiaeth calon dyn. Tuedd naturiol y galon ydyw ceisio cario y byd ymlaen heb Dduw;—aros gydâ'r bysedd ar wyneb yr oriawr, heb chwilio am achos eu symudiad. Ac er chwilio nid â hi nemawr pellach na'r olwynion agosaf atynt, heb ystyried fod yn rhaid cael rhyw ysbryd y peth byw i roi ysgogiad yn yr olwynion eu hunain. Dynion sydd wedi dyfeisio rhyw gyfundrefn o ragluniaeth, fel peiriant hunanysgogawl. Y mae hi yn hollol ddieithr i'r Bibl. Y mae Duw

yn y golwg yn rhagluniaeth y llyfr hwn bob moment, fel yn ei greadigaeth. Yn nghreadigaeth y Bibl, yr ydym yn cael ein gosod yn y gwagle distaw, diderfyn, nid i weled y bydoedd yn eu ffurfio eu hunain,—byd is yn cynyrchu un uwch; creadur anmherffaith yn achosydd un perffeithiach; ond yn hytrach, i glywed Duw yn llefaru un gair, nes y mae y gwagle yn dyfod yn gyfaneddle bydoedd. Yr ydym wedi hyny yn cael ein cyfleu mewn un o'r bydoedd hyn, i wrandaw ar yr un Duw yn llefaru, nes â'i eiriau gynyrchu yn hwnw fywyd o bob math, a phryd-ferthwch ymhob ffurf. Y mae yno ail achosion yn gweithredu. Y moroedd sydd yn heigio y pysg, a'r ddaear sydd yn cynyrchu y llysiau a'r prenau ffrwythlawn. Ond y mae Duw mor eglur yn yr ail achosion hyn, fel ag y mae yr un mor anmhosibl peidio ei weled a phan y mae yn gweithio yn ddigyfrwng. Peth fel yna ydyw cyfundrefn y Bibl o ragluniaeth; y mae Duw ynddi hi fel mewn creadigaeth. Gwir fod ail achosion yn amlach *yn y golwg* mewn rhagluniaeth nag oeddent mewn creadigaeth; ond ni ddylai hyny ddim peri i Dduw fod yn fwy o'r golwg: yn hytrach amlygiad eglurach ydynt o hono Ef. Y mae un esiampl yn ddigon o eglurhad ar hyn; sef marwolaeth yr Arglwydd Iesu: ail achosion hollol naturiol a ddygodd ei angau o amgylch; ond "yr Arglwydd a fynai ei ddryllio Ef;"—"Efe a'i traddododd drosom ni oll;" ac yr oedd ei ddoethineb yn dyfod yn fwy i'r golwg er, a thrwy amcanion pawb eraill. Ac am fod y fath duedd ynom ni i sefyll gydâ'r ail achosion, y mae y Bibl yn aml yn myned dros y rhai hyny (fel yn y testyn), ac yn dangos Duw yn gweithio fel pe na byddent yn bod. Yn ei iaith ef y mae y llewod yn derbyn eu hymborth o law Duw;—y brain yn cael eu porthi gan y Tad nefol; adar y tô, nid yn syrthio trwy ddamwain i'r ddaear, ond yn cael eu rhoi yno gan law Duw;—y lili yn cael ei phaentio, nid gan yr haul, ond gan Dduw;—yr ystorm yn cael ei chodi a'i gostegu ganddo Ef; y corwynt yn llwybr y mae Efe yn ei dramwy; y mellt yn un o'r ffyrdd y mae Efe yn eu rhodio. Pharao yn dyrysu yn y môr, Duw yn edrych ydyw hyny. Chwyldroadau a rhyfeloedd y ddaear, Duw yn trefnu y byd â'i gleddyf, sef yr annuwiol, ydyw hyny. Dinystr Jerusalem, "dyfodiad Mab y dyn" ydyw hyny. Angau, pa faint bynag o ail achosion fydd iddo, "dyfodiad "Mab y dyn" ydyw hyny hefyd, yn iaith y Bibl.

Y mae edrych ar angau, heibio i'r ail achosion, sef fel "dyfodiad Mab y dyn," yn rhoddi gwedd newydd arno, ac yn symud ymaith lawer o'r dirgelwch sydd o'i amgylch, yr hwn ddirgelwch sydd yn ei wneuthur mor ofnadwy. Y teimlad cyntaf wrth feddwl am angau ydyw, mai dirgelwch ydyw, nas gwyddom beth a fu yno, na pha fodd y gweithiodd. Y mae yr effeithiau yn eglur, ond y mae yr achos wedi ei amgylchu â chymylau a thywyllwch. Yr oedd yna lygaid yn gweled, ychydig yn ol: y maent yna eto, ond ni welant. Yr oedd yna glustiau yn clywed y sibrwd lleiaf, ychydig fynydau yn ol; ond pe rhuai y môr â'i gyflawnder, ni chlywant. Yr oedd pob rhan o'r corff yna yn fyw o deimlad ddoe; ond heddyw, pe torid ef â llifiau, neu pe rhwygid ef gan fwystfilod gwylltion, ni theimlai ddim. Y mae achos y pethau yna yn ddirgelwch: yr enw a roddwn ni arno ydyw angau; ond beth ydyw hwnw? Ond y mae y testyn yn rhoddi gwedd newydd ar y peth, ac yn rhoddi gradd o oleuni arno, trwy ddywedyd mai "Mab y dyn" a fu yna. Ac nid mantais fechan, pan nad allwn ni ddeall y gwaith, ydyw, ein bod ni yn adwaen y Gweithiwr. Gall y bydd y gwaith yn cynhyrfu ac yn dyrysu y meddwl; ond y mae cydnabyddiaeth â'r Gweithiwr yn tueddu i'w dawelu: oblegid pan fydd y tywyllwch mor fawr fel nas gall y dyn weled i ba le y mae yn myned, nid peth bychan ydyw gwybod gydâ phwy y mae yn myned.

Y mae hyn yn cyfnewid gwedd angau yn gwbl i'r Cristion. Cyn i oleuni yr efengyl lewyrchu, yr oedd dyfodiad angau at y saint yn gyffelyb i ddyfodiad yr ysbryd hwnw at Eliphaz: drychiolaeth anelwig ydoedd, nad ellid adwaen ei agwedd gan faint y tywyllwch. Yr oedd ofn yn dyfod ar bob sant yn ei bresenoldeb, nes bod blew ei gnawd yn sefyll, a'i holl esgyrn yn crynu. Tywyllwch sydd o amgylch angau eto; ond nid ysbryd anelwig sydd yn y tywyllwch: er bod y sant eto yn fynych yn ofni hyn, fel y disgyblion ar y môr gynt; ond Mab y dyn sydd yno, a chydâg iddo roddi ei draed ar y llestr, fe dawela y gwynt, a bydd y llong yn ebrwydd wrth y tir yr wyt yn myned iddo. Glŷn dieithr yw glŷn cysgod angau; ond y mae Arglwydd y glŷn yn adnabyddus i ni,—Mab y dyn. Yr oedd gwlad y Philistiaid yn ddieithr i Abraham; ond teimlai ei

hun yn bur ddiogel yno wedi gwneuthur cyngrair âg Abimelech, brenin y lle: felly y dylai y Cristion deimlo ei hun yn nglŷn cysgod angau: oblegid, er dieithred ydyw, y mae cyngrair rhyngddo er's talm â Brenin y fro. Yr oedd y cerbydau a ddaethant i geisio Jacob yn ddigon dieithrol iddo, yn ddiau. Hen ŵr dysyml, heb ond odid fod mewn cerbyd erioed; nid anhawdd ydyw credu ei fod yn teimlo cryn wrthwynebiad i fyned iddynt; ond yr oedd gwybod mai cerbydau Joseph oeddent, a'u bod i'w ddwyn i'r fan y cai ei weled drachefn, yn cymodi ei feddwl â myned ynddynt. Cerbyd dieithr yw angau na buost ti yn ei fath erioed; a diau ydyw fod y meddwl yn lled anfoddlawn i fyned iddo: ond un o gerbydau Mab y dyn ydyw, ac y mae am dy ddwyn i'r fan y mae Efe i'w weled fel ag y mae. Y mae y wedd hon ar angau yn ei wneyd yn "huno yn yr Iesu,"—yn "farw yn yr Arglwydd."

Ac fe ddylai y wedd hon ar angau, sef, "dyfodiad Mab y dyn," ddeffroi ystyriaeth yn meddwl yr annuwiol. Pe buasai modd ysgoi Mab y dyn am byth, buasai rhyw gysgod o resymoldeb yn ngwaith yr annuwiol yn peri i'r Sanct yr Israel hwn beidio âg ef. Y mae yn awr yn ymddwyn yn gyffelyb i lafurwyr y winllan at bob cenad sydd yn dyfod oddiwrth Fab y dyn, ond y mae Mab y dyn, sef Arglwydd y winllan, yn meddwl dyfod ei hun at y llafurwyr; — Mab y dyn, yr hwn yr ydych chwi wedi taflu y dirmyg mwyaf arno am flynyddoedd, ydyw yr Hwn yr ydych i'w gyfarfod; ac i'w gyfarfod hefyd mewn man cyfyng, lle na bydd neb ond chwi ac yntau. Gwnaeth brodyr Joseph dro digon angharedig âg ef yn Dothan. Nid oeddent yn breuddwydio wrth wneuthur y cyfarfyddent âg ef byth mwy; ond ymhen ugain mlynedd, fe'u cauwyd hwynt i fyny gydag ef mewn ystafell; a phan y mynegodd efe iddynt pwy oedd, brawychent fel na fedrent ateb iddo. Y mae miloedd o Gymry wedi gwneuthur troion cyffelyb â Mab y dyn; ac ymhen blynyddoedd lawer wedi gorfod ei gyfarfod mewn ystafell, lle nad oedd ond hwy ac yntau; a chydag iddo fynegu pwy ydoedd, aeth braw gydâ'r geiriau trwy eu henaid: y maent yn ngafael y dychryn y foment hon, a byddant yn ei afael byth. Gwyliwch wneuthur yn angharedig â Mab y dyn: yr ydych

i'w gyfarfod eto; am hyny cymwys i chwi fyddai ymgydnabod âg Ef yn awr, fel pan ddeloch i anialwch angau, y gellwch ei gael Ef, fel yr Hobab hwnw, yn lle llygaid i chwi. Y mae Efe yn adwaen gwersyllfaoedd yr anialwch dieithr;—fe wyr lle y mae ffynhonau dyfroedd yn y tir sychedig hwnw; ac fe fydd cael rhywun i'w dangos yn werth bywyd eich enaid erbyn yr ewch chwi yno. "Dyfodiad Mab y dyn," ydyw angau; ond mor wahanol fydd i'r duwiol rhagor i'r annuwiol! Fe welodd Josua a Balaam weledigaeth gyffelyb: ymddangosodd angel â chleddyf noeth yn ei law iddynt i'll dau; ond yr oedd angel Josua wedi dyfod allan yn Dywysog llu yr Arglwydd, ac felly yn wrthwynebydd i bawb oeddent yn erbyn Josua a'i frodyr; ond yr oedd angel Balaam wedi dyfod allan yn wrthwynebydd i Balaam ei hun. Ni gyfarfyddwn ninau oll â Mab y dyn, sef Angel y cyfamod, a bydd ganddo gleddyf noeth yn ei law; ond pa un ai cleddyf i'w ddefnyddio trosom, ai ynte yn ein herbyn a fydd? Pa un ai ei gyfarfod fel Josua, ynte fel Baalam, a wnawn ni? Nid yw yn dwyn y cleddyf yn ofer. Y mae naill ai yn sicr o ladd dy holl elynion âg ef, i roddi llawn feddiant i ti ar wlad yr addewid, neu ynte y mae mor sicr o dy ladd di dy hunan, wedi dy gael fel Balaam i le cyfyng, am na wrandewaist ar ei lais Ef, ac na pheidiaist a rhodio ffordd gyfeiliornus yn ei olwg Ef.

Ond y mae ansicrwydd amser y dyfodiad yn cael ei ddal allan yn y testyn mor eglur ag ydyw sicrwydd y dyfodiad ei hun. Pe buasai yr un sicrwydd genym am amser y dyfodiad ag sydd genym am y dyfodiad ei hun, y mae rhai yn meddwl y buasai hyny yn atalfa ar holl orchwylion a thrafnidiaeth y ddaear;—y buasai darparu ar gyfer yr amgylchiad yn myned â'r holl feddwl, fel nad allasai y byd hwn ddim myned rhagddo, am fod y byd a ddaw yn ei lyncu iddo ei hun. Ni wn i ddim a oes llawer o wirionedd yn y dybiaeth yna ai peidio. Gellid meddwl fod hynyna i raddau genym eisoes, wrth edrych ar ddynolryw yn y cyfanswm. Ni a wyddom yn awr fod amser terfynedig i ddyn ar y ddaear. Y mae hwnw wedi ei roddi yn bendant yn y Bibl; ac y mae golwg ein llygaid yn profi, am un sydd yn myned dros y rhif hwnw, fod miloedd yn syrthio yn fyr o hono. Nid yw sicrwydd yr amgylchiad i gorff y

ddynoliaeth yn effeithio nemawr iawn, os dim, ar y byd; a'r tebyg ydyw na buasai sicrwydd ei amser i bob dyn yn benodol yn effeithio nemawr mwy. Ond beth bynag am hyny, rheswm hollol wahanol i hwnyna sydd yn cael ei roddi yn y testyn hwn dros ansicrwydd amser yr amgylchiad, sef fod llygredigaeth, ac felly anystyriaeth pechadur mor ddwfn, er bod peth mor ddifrifol ag angau yn sicr o'i gyfarfod, y mae yn rhaid cuddio yr amser oddiwrtho, i'w gadw bob moment dros ei holl fywyd dan ofn marwolaeth, i'w gymell i barotoi erbyn yr amgylchiad. Gallesid disgwyl y buasai sicrwydd yr amgylchiad, heb wybod yr amser at y foment, yn peri i ni ddefnyddio pob eiliad i barotoi ar ei gyfer; y buasai cysgod angau gan ei sicrwydd yn ymestyn dros ein holl fywyd, ac yn atal i'n llygaid gael eu dallu gan bethau y ddaear. Ond nid fel hyn y mae pethau: yn hytrach, pe buasai amser angau wedi ei nodi at y dydd, buasai calon plant dynion yn llawn ynddynt i wneuthur drwg hyd at yr adeg hono, oblegid felly mae hi wrth *dybied* na wneir barn yn erbyn gweithred ddrwg yn fuan. Pa faint mwy felly a fuasai hi, pe buasai sicrwydd ganddi na wneid hyny? Oblegid hyn, yr ydym yn marw beunydd, er mwyn cadw rhyw ychydig o feddwl ynom am y byd arall. "Yn yr awr ni thybioch y daw Mab y dyn." Nid rhaid i'ni wrth brawf arall o fod trueni dyn yn fawr arno;—fod pechod wedi cynyrchu rhyw ddinystr ofnadwy ar ein natur, gan nad yw peth o gymaint ei bwys a dyfodiad Mab y dyn, yn cael dim effaith arnom, heb ein cadw mewn ansicrwydd bob moment ynghylch ei amser. Ac er gwneuthur hyny, un o fil, ïe, un o ddeng mil, sydd yn parotoi ar ei gyfer. Onid oes rhyw wallgofrwydd yn gysylltiedig âg ef? ïe, hyny ydyw ef ei hun.

Ond beth ydyw bod yn barod? At hyny y galwn eich sylw am ychydig o hyn i'r diwedd. Cyn y gwyddom ni beth ydyw bod yn barod erbyn unrhyw beth, neu unrhyw amgychiad, y mae yn rhaid i ni wybod ychydig am y peth hwnw, oblegid peth perthynasol ydyw parodrwydd; peth i gyfateb i beth arall: fel y mae y llygaid i'r goleuni, a'r pysgodyn i'r dwfr. Felly, cyn y gellir gwybod beth ydyw bod yn barod ar gyfer angau, y mae yn rhaid i ni wybod beth a fydd yr amgylchiad i ni. I wybod hyn, gallwn edrych ar angau mewn tri chysylltiad:—

I. Yn ei berthynas â Duw.

II. Yn ei berthynas â'r byd hwn.

III. Yn ei berthynas â'r byd a ddaw.

Byddai gwybod beth ydyw yn y gwahanol berthynasau yna yn fantais i ni wybod beth ydyw bod yn barod ar ei gyfer.

I. Beth ydyw yn ei berthynas â Duw? Y mae tri gair yn y Bibl yn taflu goleuni ar hynyna. 1. Adeg y byddwn ni yn cyfarfod â Duw ydyw. 2. Arwydd ydyw o anfoddlonrwydd Duw. 3. Dydd ydyw y bydd pawb yn derbyn eu cyflog ganddo.

1. Amser cyfarfod â Duw ydyw angau. Duw ydyw awdwr ein bywyd. Efe a anadlodd yn ein ffroenau ni ffun anadl einioes. Duw ydyw cynhalydd ein bywyd: o'i law Ef yr ydym yn cael ein diwallu. "Hiliogaeth Duw" ydym o ran ein natur; "plant Duw," o ran manylwch y gofal sy' drosom. Yn ei fyd Ef yr ydym yn byw; a'i drugareddau Ef ydyw 'na ddarfu am danom.' Ac y mae pob peth yn tystio nad ydyw nebpell oddiwrthym. Y daran sydd yn rhuo yn y ffurfafen, ei lais Ef ydyw hi. Y gwynt sydd yn myned ac yn dychwelyd o'n hamgylch, o'i ddwrn Ef y mae yn dyfod allan. Y môr mawr, llydan, cledr ei law ef ydyw ei wely. Ond er i ni glywed ei lais, ni welsom ni mo'i wyneb. Ni a glywsom y gwynt yna yn swnio, ond ni welsom ni y dwrn sydd yn ei gadw eto. Y mae y môr yna gerbron ein llygaid ni, ond y mae y llaw sydd odditano yn guddiedig. Yr ydym yn gyffelyb i Israel wrth Horeb, yn ymyl Duw, eto y mae y tywyllwch mor dew o'i amgylch, fel nad ydym wedi gweled llun dim, ond clywed llais. Ond y mae angau yn adeg i ni ddringo dan grynu, fel Moses, i'r tywyllwch lle y mae Duw, a dyfod ger ei fron Ef. Yr ydym yn awr fel yr oedd Absalom yn Jerusalem, heb fod yn nebpell oddiwrth y Brenin, eto heb ei weled; ond fe wna angau â ni yr hyn a wnaeth Joab ag yntau, sef ein dwyn ni i bresenoldeb y Brenin. Mae y Bibl yn dangos y cysylltiad sy rhyngom ni â Duw trwy amryw enwau perthynasol. Mewn un man, y mae Efe yn Frenin a ninau yn ddeiliaid; ond wedi mynegu y ddeddf, fe'n gadawodd ni gan fyned i wlad bell; ond adeg ydyw angau iddo ddychwelyd i'r dalaeth, i weled pwy sydd yn dywedyd,—"Byw fyddo y Brenin!"—a phwy oedd y rhai hyny oeddent yn

dywedyd,—"Ni fynwn ni Hwn i deyrnasu arnom." "Gadawodd yr Arglwydd y ddaear," ydyw iaith y galon yn fynych; ond os aeth Efe ymhell, nid aeth yn rhy bell i ddychwelyd. Pan aeth Moses i dywyllwch Sinai, yr oedd yr Israeliaid yn dywedyd,—"Y Moses hwn, ni wyddom beth a ddaeth o hono;" ac am hyny yn gwneuthur duwiau i fyned o'u blaen: ond dychwelodd Moses pan oeddent ar ganol yr ynfydrwydd o wasanaethu y duwiau hyny, a gwyddoch i'r peth fod yn bur chwerw iddynt. Y mae miloedd yn dilyn eu llwybrau eto, gan ddywedyd,—"Pa le y mae addewid ei ddyfodiad Ef?" A chan eu bod wedi meddwl na ddaw, y maent yn gwneuthur iddynt eu hunain dduwiau eraill; ond, gan ddyfod, Efe a ddaw; ac os caiff chwi yn dawnsio o flaen y rhai hyny, bydd y tro yn bur ddrud i chwi. Bryd arall, y mae Efe yn cael ei ddangos yn y berthynas o Arglwydd, a ninau yn weision; ac fel y cyfryw y mae Efe wedi rhoddi talentau i ni farchnata â hwynt, a gwinllan i'w chadw; ac yna fe aeth oddicartref dros dalm o amser, ac wrth fyned fe ddywedodd, — "Marchnatewch hyd oni ddelwyf:" a diwedd y talm yma fydd angau, i bawb o honom. Ni a gyfarfyddwn â Duw, fel gweision y talentau â'u harglwydd, neu fel y gwinllanwyr â'i pherchen hi. Bryd arall, y mae Efe yn Dad, a ninau yn blant; ac fel y cyfryw yr ydym oddicartref mewn ysgol, dan ymgeleddwyr a llywodraethwyr, hyd yr amser a osodwyd gan y Tad. A'r amser hwnw ydyw angau: un o'n hathrawon ni ydyw y ddeddf; ein llyfr darllen cyntaf ni ydyw rhagluniaeth, i ddysgu i ni ddaioni a thoster Duw, ac i hyny ein tywys ni i edifeirwch. Yr ail ydyw, iachawdwriaeth, i'n dysgu ni i roddi ein hymddiried ynddo, ac i obeithio yn dragywydd yn ei drugaredd Ef. A ydych chwi yn barod i'w gyfarfod Ef, yn y gwahanol berthynasau hyn? Yr ydych yn myned i'w gyfarfod fel Brenin: beth yw y parodrwydd i hyny? Wel, bod arian y deyrnged wrth law, a'r tafod wedi dysgu yngan yn groew,—"Byw fyddo y Brenin." Parodrwydd ydyw eich bod chwi wedi gwneuthur cymwynas iddo ryw bryd; oblegid amser ydyw hwnw, y bydd Efe yn darllen llyfr coffadwriaethau hanesion yr amseroedd mewn perthynas i ti: a oes yno rywbeth ar gyfer dy enw, fel yr oedd gyferbyn âg enw Mordecai yn nghroniclau Ahasferus, a fydd yn peri i'r Brenin fynu dy

G3

anrhydeddu o'r dydd hwnw allan? A ellir darllen yno dy fod di wedi dangos dy hun yn gywir iddo yn erbyn y gelynion oeddent am estyn eu llaw at ei einioes; neu dy fod di yn un o gyfeillion ei Fab Ef? Yr ydych yn myned i'w gyfarfod fel Arglwydd: beth yw bod yn barod? Bod y pum' talent wedi myned yn ddeg, a'r ddwy wedi myned yn bedair;—bod ffrwyth y winllan wedi ei gasglu yn ddyrneidiau, fel y gellir dywedyd,—"Deued fy Anwylyd, a bwytäed ei ffrwyth peraidd ei Hun." Yr ydych yn myned i'w gyfarfod fel Tad: beth yw bod yn barod? Gallu dywedyd yn groew,—"Abba, Dad," a medru cyfarch y Mab hynaf wrth yr enw Brawd. Yr ydych yn myned i'w gyfarfod fel Duw: beth yw bod yn barod? Wel, bod genyt ti aberth a gwaed. Lle ofnadwy ydyw presenoldeb Duw heb aberth. Rhybuddiwyd Aaron gyda difrifoldeb i beidio myned yno heb hyn, fel na byddai farw. Y mae miloedd o'n cenedl ni yn ymddangos yn y presenoldeb dwyfol heb aberth, ac am hyny yn marw yr ail farwolaeth. Cyfarfod â Duw yw angau,—"am hyny byddwch chwithau barod."

2. Y mae angau hefyd yn amlygiad o anfoddlonrwydd Duw. Er bod myrdd o leisiau yn cyhoeddi mai "Duw cariad yw," y mae yr angau du, hagr, sydd yn teyrnasu ymhob man, ac ar bob peth, yn dywedyd ar eu hol hwynt oll, mai Duw wedi ei anfoddloni ydyw. Ac er bod aberth Calfaria wedi cael allan ffordd i beri i'r bwytäwr hwn roddi ymborth, ac i'r cryf hwn roddi melusder, ni newidiodd efe ddim o hono o fod yn amlygiad o ŵg Duw at greadur syrthiedig. Y mae y corff o hyd yn farw oherwydd pechod, er bod yr ysbryd yn fywyd oherwydd cyfiawnder. A hyn, feallai, yn fwy na dim arall, sydd yn peri i baganiaid y byd feddwl mai rhai creulawn ydyw eu duwiau. Y mae yno fyrdd o drugareddau ganddynt, ond y mae yr angau cyffredinol sydd yno yn peri iddynt deimlo wedi yr oll mai rhai creulawn ydyw y duwiau. Ac er nad yw angau ddim yn profi fod Duw y nefoedd yn un creulawn, y mae yn profi ei fod wedi digio wrth ein byd ni; a maint y dinystr sydd yn cymeryd lle yma, ydyw mesur maint yr anfoddlonrwydd hwnw. Yr oedd maint anfoddlonrwydd y brenin at y lleiddiaid hyny, yn y ddameg, i'w ganfod yn ei waith yn eu dinystrio hwynt, ac yn llosgi eu dinas â thân. Yr oedd maint digofaint Nebuchodo-

nosor yn erbyn Israel, i'w ganfod yn ei waith yn llosgi eu teml hwynt, y peth harddaf a gwerthfawrocaf yn eu gwlad, yr hyn y buasai y genedl yn aberthu pob peth arall er ei fwyn; ond yr oeddent wedi ei ddigio gymaint nes y penderfynodd efe ddinystrio hono. Y mae dioddefiadau y daith yn profi nad yw pob peth yn dda rhwng dyn a Duw; ond y mae yr angau sydd yn ei phen draw hi yn dangos fod digter mawr yn bod. Ac os oedd dinystr teml Jerusalem yn brawf fod digofaint Nebuchodonosor yn fawr, onid yw dinystr adeilad ardderchog y corff dynol yn profi fod yr Anfeidrol wedi ei anfoddloni yn fawr? Nid oedd y deml yn ddim mewn ardderchowgrwydd wrtho;—y mae wedi ei lunio yn ofnadwy a rhyfedd: Duw oedd y lluniwr, ac nid gwaith cyffredin iddo yntau oedd; na, manylwaith Jehofah, ei gampus waith. Nid aeth i chwilio am un *model*, yr un ddelw îs nag Ef ei Hun i'w lunio wrtho. Nid rhyfedd i Milton ddychymygu fod Satan yn cenfigenu wrth ein rhieni cyntaf pan welodd efe eu harddwch, ac yn haner edifarhau am ei fwriad i'w temtio. Onid yw dinystr y peirianau ardderchog, yr adeiladau prydferth hyn, yn brawf fod digter mawr yn bod? Pan oedd Israel yn ameu a oedd Duw yn anfoddlawn iddynt yn eu drygioni,—"Ewch," medd Efe, "i Siloh, ac edrychwch beth a wnaethum i hwnw." Er mai fy lle i oedd, mi a adewais fy nhabernacl fy Hun, y babell a osodais i ymysg dynion. A phe byddai rhyw rai yn ameu anfoddlonrwydd Duw at y ddaear, gallai yr Arglwydd ddywedyd wrthynt,—Ewch, ac edrychwch beth a wnaethum i yno;—y modd y rhoddais i nerth y trigolion i'r gelyn, ac y 'bwytäodd cyntafanedig angau eu cryfder hwynt;' y modd y gwnaethum i â'r tabernacl a luniais â'm dwylaw fy Hun. Y mae hi fel wedi ei hau â brwmstan ac â halen: oferedd ydyw disgwyl i nemawr ddim flaendarddu o honi mwy. Onid priodol gofyn gydâ Moses,—"Pa ddigter yw y digofaint mawr hwn?" Paham y gwnaeth yr Arglwydd fel hyn? Onid ydyw yn anfoddlawn iawn? Nid peth bychan ydyw cyfarfod â Duw hyd yn nod pan y byddo yn dyfod ar neges o drugaredd, oblegid yr oedd ofnadwyaeth o'i amgylch, pan yn ymddangos felly gynt, oedd yn peri i gnawd grynu. Mewn tân yr ymddangosodd i Moses. Yr oedd rhyw dywyllwch arswydus o'i amgylch yn y cysegr. Yr oedd pyst y rhiniogau

yn symud, a'r tŷ yn llawn o fŵg, pan welodd Esaiah Ef. Bob tro y gwelai Ezeciel weledigaethau Duw, yr oedd yn syrthio ar ei wyneb mewn llewyg. Pan welodd Daniel y gŵr wedi ei wisgo â llian, ni thrigodd nerth ynddo, am fod yr olwg mor ofnadwy; a throdd ei wedd yn llygredigaeth. Beth fydd ei gyfarfod wedi ei anfoddloni?—pan y mae yn dyfod allan i wneuthur barn, ac â thymestl ddirfawr o'i amgylch Ef? Dyna fydd angau—cyfarfod â Duw wedi ei anfoddloni. Pa faint o honom sydd yn barod? Yr oedd Duw digllawn yn cyfarfod âg Israel wrth Sinai; ond yr oeddent yn barod,—yr oedd Moses yno i gyfryngu rhyngddynt âg Ef; onide buasent feirw bob enaid. Y mae tywyllwch mynyddoedd marwolaeth, sydd yn amgylchu Duw digllawn, yn llawer mwy ofnadwy nag un Sinai; ac os nad oes genych ryw un i gyfryngu rhyngoch â Duw, bydd farw pob enaid o honoch. Beth yw angau fel amlygiad o anfoddlonrwydd Duw? Dinystr y deml wych yma, y tabernacl a adeiladodd Efe ei Hun. Bod yn barod yw bod genyt sail dda i ddywedyd,—Wel, wel, os rhaid dinystrio yr hen deml yma, bydd mwy gogoniant yr ail dŷ na'r tŷ hwn. Beth yw angau fel anfoddlonrwydd Duw? Peth a gaiff yr un effaith arnat ag a gafodd y weledigaeth ar Daniel,—"ni thrig nerth ynot, a thry dy wedd yn llygredigaeth." Bod yn barod yw bod genyt hanes rhyw un a ddywed wrthyt yr ochr draw i'r llen,—"Wr anwyl, nac ofna," nes rhoddi nerth ynot drachefn. Yn niffyg hyny, bydd y dychryn ynot byth, a'r llygredigaeth yn dy wedd yn oes oesoedd. Cyfarfod â Duw *anfoddlawn*, ydyw angau. "Byddwch barod."

3. Y gair arall a gawn ni am angau, yn ei berthynas â Duw, ydyw, "Cyflog pechod;" ac y mae y gair hwn yn gynwysfawr dros ben. Angau y corff sydd yn gyffredin yn ein meddwl ni wrth feddwl am angau; ond dylem gofio nad yw yr angau cyntaf ddim ond plisgyn, a bod rhyw gnewyllyn annhraethol chwerw o'i fewn. Nid ydyw ond yr ernes i brofi bod y cyflog i dd'od. Y drws sydd yn arwain at y ffieidd-dra cyntaf ydyw: y mae yma fyrdd i agor ar ei ol, a phob un i arwain at ffieidd-dra mwy. Y wae gyntaf yn unig ydyw angau y corff: y mae rhes yn ei dilyn, fel yn llyfr y Datguddiad; ac y mae pob un sydd yn dilyn yn chwerwach na'r un sydd yn myned o'i blaen hi. Am

hyny wrth anog ein gilydd i fod yn barod erbyn angau, dylem gymeryd y gair yn holl eangder ei gynwys. Ni wyddom ni ddim beth ydyw y "cyflog." Nid oes genym ond ychydig eiriau cymhariaethol am dano yn y Bibl; ond y mae y cymhariaethau hyny yn ddigon i beri i flew cnawd dyn sefyll; a chofiwn hyn, nad oes yr un gymhariaeth yn y Bibl nad yw y peth ei hun yn annhraethol fwy ofnadwy na hi. Rhyw beth fel hyn ydyw y "cyflog," yn iaith y Bibl:—'Yfed byth o phiol sydd yn llawn cymysg;'—'suddo yn oes oesoedd mewn pydew diwaelod;'—'trigo mewn nos na ddaw hi yn dòriad gwawr arni byth;'—'byw y tuallan i'r ddinas gydâ'r swyn-gyfareddwyr, y puteiniaid, a'r llofruddion;'—bod yn destyn gwawd i Satan a'i angylion yn ddiddiwedd;—trigo mewn bro y mae Duw wedi ei gadael, ac "Ichabod" wedi ei gerfio ar bob peth yno. Beth ydyw bod yn barod erbyn hyny? Un o ddau beth: un ffordd i fod yn barod ydyw, gallu dywedyd yn hyf, oddiar seiliau cedyrn am y cwpan chwerw,—"Onid yfaf ef?" Bod yn barod ydyw, bod â'r galon wedi ymfoddloni i fyw yn y fagddu ddiddiwedd. Bod yn barod yw, bod dy wyneb di fel callestr, a bod edifeirwch wedi ei guddio o'th olwg. Bod yn barod yw, bod âg ysgwydd ddigon cref i gario y baich heb gael ei lethu ganddo. Bod yn barod ydyw, bod yn ddigon hunan-ddibynol i fyw mewn gwlad y mae Duw wedi ei gadael. Ond pwy sydd yn barod yn yr ystyr hwn? Pa le y mae'r dyn sydd â'r galon a bery, a'r dwylaw a ymgryfhant, i fyned drwy y caledwaith? "Pwy a saif o flaen ei lid Ef? a phwy a gyfyd yn nghynddaredd ei ddigofaint Ef?" Nid ydyw i'w gael. Iaith y prophwyd ydyw iaith pob dyn yn ei bwyll:—"Pwy o honom a drig gydâ'r tân ysol? pwy o honom a breswylia gydâ'r llosgfeydd tragywyddol?" Ond wrth edrych ar ymroddiad dynion yn ngwasanaeth pechod, gellid tybied fod pob cnawd yn barod, ac mai diangenrhaid iddynt gyngor Ioan i'r milwyr,—"Byddwch foddlawn i'ch cyflogau."

Ond y ffordd arall i fod yn barod ydyw yr unig un bosibl i ni. Nis gallwn wadu y gwaith, ac nis gallwn ochel myned i dderbyn y cyflog. Y mae cwpan y Llywydd wedi ei gael yn ein sach ni, fel yn un Benjamin, a marwolaeth ydyw cyflog y weithred. Bod yn barod ydyw, bod genyt hanes rhyw Judah

i ddywedyd,—" Mi agorais i fy ngenau dros hwnyna; atolwg i ti, gan hyny, aed i fyny gydā'i frodyr, a chymer fi yn ei le." Y mae ein drygioni ni wedi bod mor aml, fel y mae Duw y nefoedd wedi tyngu y daw diluw o'i blegid; ac fe fydd hwnw y fath ag y bydd yn anmhosibl ei ochel ar un mynydd neu graig ar y ddaear, oblegid fe ymgryfha bymtheg cufydd dros ben yr uchaf o honynt. Bod yn barod ydyw, bod genyt hanes arch i nofio ar ei wyneb. Y mae deddf yr ymerodraeth wedi ei throseddu am hyny y mae yn rhaid myned i'r ffwrn. Nid oes modd ei hosgoi hi, oblegid y mae gorchymyn y brenin yn gaeth. Bod yn barod yw, bod genyt "un tebyg i Fab y dyn" i ddyfod yno gydâ thi; yna ni wna y tân ond difa y rhwymau, a'th wneuthur yn dragywyddol rydd. Y mae yn rhaid i'r wae gyntaf ddyfod: bod yn barod ydyw, bod genyt un i dòri y cysylltiad sy rhwng hon â'r rhai sydd yn ei dilyn, fel y galler dywedyd wedi iddi fyned heibio, —"Ni bydd marwolaeth mwyach." Gan mai peth fel hyn ydyw angau, a chan mai yn y modd hyn y gwna, "bydd barod i gyfarfod â'th Dduw."

II. Wrth edrych ar y dull y mae angau yn effeithio ar y byd hwn, daw y parodrwydd angenrheidiol ar ei gyfer i'r golwg. Y mae y berthynas sy rhyngddo â'r ddaear yn cael ei chynwys yn gryno mewn un gair,—"ysgar." Gellir dywedyd am dano, fel am frenin Babilon,—"Daeth y chwalwr i fyny." Y mae y brophwydoliaeth am Nebuchodonosor yn wirionedd llythyrenol am dano ef; Jer. li. 20—23: "Ti wyt forthwyl i mi, ac arfau rhyfel: canys â thi y drylliaf y cenhedloedd, ac â thi y dinystriaf deyrnasoedd; â thi hefyd y gwasgaraf y march a'r marchwr; ac â thi y drylliaf y cerbyd a'i farchog; â thi y drylliaf fi wr a gwraig; ac â thi y drylliaf hen ac ieuanc; ac â thi y drylliaf y gwr ieuanc a'r forwyn; â thi hefyd y drylliaf fi y bugail a'i braidd; ac â thi y drylliaf yr arddwr a'i iau ychain; ac â thi y drylliaf y tywysogion a'r penaethiaid." Y mae gwedd y ddaear heddyw yn gyffelyb i wersyll y Philistiaid wedi i Jonathan a'i lanc fyned yno. Y mae ei thrigolion hi yn ymwasgaru oddiwrth eu gilydd, dan ymguro. Ac os gofynir, Paham? yr ateb fydd, "Daeth y chwalwr i fyny." Y mae rhai yn tybied fod ganddynt "dda lawer, wedi ei roi i gadw am lawer o flynyddoedd;" ond y mae yna adran i mewn yn y weithred sydd

genych arnynt, y mae yn ofnus nad ydyw wedi tynu eich sylw eto, sef *hyd angau.* Yn fuan hi ä yn ddadl yn eu cylch, ac ni waeth i chwi heb ddadleu; na, 'fe'ch gorchfyga chwi yn dragywydd.' Wel, gan mai hynyna ydyw angau, y mae yn ol, fod o'r rhai sydd â gwragedd iddynt, megis pe byddent hebddynt, a'r rhai a wylant, megis heb wylo; a'r rhai a lawenhânt, megis heb lawenhau; a'r rhai a brynant, megis heb feddu; a'r rhai a arferant y byd, megis heb ei gam-arfer. Canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio;" 1 Cor. vii. 29—31. Yr ydym ni yn y byd, heb fod o'r byd. A ydyw ein gwreiddiau ni yn peidio bod mor ddwfn yn y ddaear, fel y bydd yn rhaid ein rhwygo ni allan o honi?

III. Wrth edrych ar angau fel y mae yn dal perthynas â byd ar ol hwn, y mae rhyw barodrwydd yn angenrheidiol ar ei gyfer yn y cysylltiad yna hefyd. Yr unig sylw a wnawn ni ar hyn ydyw, bod ei berthynas â'r byd a ddaw yn hollol groes i'r hon sy rhyngddo â'r byd hwn. Chwalwr oedd ê yma; cysylltydd fydd ê yno. Tòri pob undeb yr oedd yma; ffurfio rhai nas gellir eu tòri a wna fe yno. Rhoddi llythyr ysgar i ti oedd ei waith yma o hyd; ond dy briodi â phethau na bydd ysgar oddiwrthynt mwy a wna yno. Ond ni wna yn galed â neb o honom: nid ydyw yn hòni hawl i ddewis. Y cwbl y mae yn ei wneuthur ydyw ffurfio undeb rhyngom ni â gwrthddrychau ein dewisiad. Os yr Iesu a ddewisaist yma, ni wna angau ond dy ddatod oddiwrth bob perthynas arall, i ti gael bod gydâ Christ. Os pechod a ddewisaist, ni wna angau ond dy gysylltu âg ef yn gwbl. Chwalwr ac unwr ydyw angau: datodwr cylymau, a ffurfiwr undebau hefyd;—môr i dòri y cysylltiad rhyngot ti â brenin yr Aipht, ac i ffurfio cysylltiad agosach rhyngot ti â Brenin y nef;—Iorddonen i ddatod y berthynas sy rhyngot ti â'r anialwch, ac i wneyd un rhyngot ti â Chanaan;—diluw i fyned â'r hen fyd o dan dy draed, ac i'th gario i fyd newydd yn ei le. A ydych yn barod? Y mae cyfamodau a phethau cyffelyb yn cael eu hysgrifenu weithiau ar bapyr cyffredin, ac yn cael eu hanfon wedi hyny i'w stampio. Gallesid eu cyfnewid cyn cael y stamp; ond wedi hyny, y mae nerth cyfraith y deyrnas o blaid iddynt sefyll. Yr ydym ninau yn ysgrifenu bob moment; ond

ar bapyr cyffredin megis: am hyny fe all y peth gael ei newid yn awr; ond daw angau ymlaen ymhen ychydig, ac fe rydd stamp ar y papyr. Bydd holl nerth cyfraith y deyrnas wedi hyny o blaid i'r peth sefyll. A ydyw yr hyn yr wyt yn ei ysgrifenu yn gyfryw y caret ti gael stamp tragywyddol arno? Y mae yr angel dinystriol yn brysur o'ch amgylch; a oes yna waed ar gapan y drws i atal i'r *ail farwolaeth* ddyfod i mewn gydâg ef. Y mae y lluoedd er ystalm yn amgylchu y Jericho yna,—y mae y muriau bron dyfod i lawr; a oes yna ryw edeu goch o dan dy ffenestr di i atal iddynt osod dwylaw arnat ti dy hun? Yr ydych am ein hanghymwyso ni i fyw, meddwch: nac ydwyf; oblegid nid oes neb cymwys i fyw ond y dyn parod i farw. Gan fod yr amgylchiad yn sicr, parotowch ar ei gyfer; gan fod ei amser yn ansicr, byddwch barod bob amser. Bod yn Nghrist yw parodrwydd cyflwr: marw beunydd yw parodrwydd agwedd. Y mae llawer ysgolaig da ar y cyfan yn myned drwy ei arholiad yn ddigon trwsgl; ond yr achos hyny oedd, nad oedd wedi ymgydnabod yn ddigon mynych â'r hyn oedd yn ei wybod. Felly y mae llawer Cristion mewn cyflwr parod; ond am nad ydyw yn marw beunydd, bydd marw yn orchwyl caled iawn iddo. A pha un bynag ai parod ai peidio, gan ddyfod, Efe a ddaw, ac nid oeda; ac "yn yr awr ni thybioch y daw Mab y dyn."

[Ionawr 9, 1851.]

# PREGETH XLI.

## GORUCHWYLIAETHAU DUW, AC YMDDYGIADAU DYN.

MATTHEW xi. 18. 19:—"Canys daeth Ioan heb na bwytta nac yfed; ac meddant, Y mae cythraul ganddo. Daeth Mab y dyn yn bwytta ac yn yfed; ac meddant, Wele ddyn glwth, ac yfwr gwin, cyfaill publicanod a phechaduriaid. A doethineb a gyfiawnhawyd gan ei phlant ei hun."

NID oedd dim yn hynodi y genhedlaeth y bu Iesu Grist byw gydâ hwynt yn fwy na diffyg difrifwch,—diffyg gwirionedd. Cenhedlaeth ragrithiol, anwadal, ac felly anwastad yn eu holl ffyrdd, oeddent. Nid oeddent yn credu o ddifrif mewn dim, er eu bod yn proffesu credu holl gyngor Duw. Yr oedd y rhagrith hwn wedi llygru eu holl garacter. Y mae credu mewn twyll yn beth tra niweidiol; ond y mae rhagrithio gydâ'r gwirionedd yn fwy felly Y mae eilun-addolwr cywir, yn well na Christion rhagrithiol; Pabydd mewn gwirionedd, yn well na Phrotestant mewn ymddangosiad.

Hyny o wirionedd oedd yn y wlad, ar y pryd, ymysg y tlodion yr ydoedd bron yn gwbl; ac yr oeddent hwy yn derbyn yr efengyl,—y tir da yn derbyn yr had da; ond am y Phariseaid, yr Ysgrifenyddion, a'r cyfreithwyr, rhagrithwyr oeddent,—rhai heb wirionedd; am hyny diystyrent gyngor Duw. Yr oedd Pilat yn esiampl o'r ystâd meddwl yma, ac o'i dylanwad niweidiol hi ar ddyn. Gofynodd mewn gwawd i'r Gwirionedd ei Hun, "Beth yw gwirionedd?" Paham y sonir am beth sydd wedi ei golli o'r byd, os bu yma erioed? pob dyn sydd gelwyddog erbyn hyn. Byd o ymddangosiadau, o rith, o dwyll, ydyw. "Beth yw gwirionedd?" Fe anghymwyswyd Pilat, gan yr ystâd meddwl yna, i fanteisio ar

gymdeithasu â'r Gwirionedd ei Hun. Ac nid oes yr un ystâd ar y meddwl y dylech chwi wylio mwy rhag myned iddi na hon, oblegid y mae y gwirionedd yn cael ei guddio oddiwrth y doethion a'r deallus sydd ynddi, tra y mae yn cael ei ddatguddio i'r rhai bychain. Y mae yn rhaid i had da gael tir da: bydd y gwirionedd oddiallan yn aneffeithiol, heb wirionedd neu gywirdeb oddifewn. Os na bydd cymhwysder yn y tir naturiol, bydd haul a chawodau y nefoedd yn ofer iddo, a gwaeth na hyny. Darlunio yr ystâd wamal yna ar feddwl y genedl y mae Iesu Grist yn y *paragraph* hwn. Yr oeddent wedi myned fel plant yn y farchnadfa, i droi pob peth yn gellwair;—yn awr yn dynwared claddedigaeth;—drachefn, briodas; ond cellwair oedd yr oll. Daeth Ioan gan ganu galarnad, aethant hwythau yn lluoedd ar ei ol; ond er iddynt fod dros amser yn ewyllysgar i rodio yn ei oleuni ef, a chymeryd eu bedyddio â bedydd edifeirwch ganddo, eto nid edifarhasant,—ni chwynfanasant wrth yr alarnad: plant anwadal oeddent. Daeth Mab y dyn yn canu pibell, ac fe dybiwyd am ychydig y buasai yr holl bobl yn dawnsio; ond blinasant arno yntau hefyd; plant anwadal oeddent. Yr oedd Ioan yn rhy fanwl, a Mab Duw yn rhy rydd; nid oedd dim boddhau arnynt. Nid oeddent yn cwynfan i alarnad Ioan, nac yn dawnsio i bibell Mab y dyn; ond yn beio ar y ddau. "Canys daeth Ioan heb na bwytta nac yfed, ac meddant, Y mae cythraul ganddo. Daeth Mab y dyn yn bwytta ac yn yfed, ac meddant, Wele ddyn glwth, ac yfwr gwin."

Oddiwrth y testyn ni allwn nodi:—

I. Fod Ioan Fedyddiwr a Mab y dyn yn arddangosiadau o'r gwahanol ddulliau y mae yr Arglwydd yn ymddwyn tuag at y ddaear. Y mae Duw yn llefaru wrth y byd lawer *modd* fel lawer gwaith; ond gellir casglu y gwahanol ddulliau i ddau, sef yr anghyffredin, a'r cyffredin: Duw yn llefaru yn Ioan, a Duw yn llefaru yn Mab y dyn. Duw yn gweithio yn annibynol ar ein byd ni a'i bethau,—dyna Ioan; Duw yn gweithio drwy bethau ein byd ni,—dyna Fab y dyn. Duw yn amlygu ei Hun yn yr ofnadwy,—dyna Ioan; Duw yn dyfod i'r golwg yn y graslawn,—dyna Fab y dyn. Y naill yn arddangos urddasolrwydd deddf dòredig, a'r llall gyfoeth yr efengyl.

Edrychwch ar Ioan fel amlygiad o Dduw yn dyfod at y byd yn yr anghyffredin. Baich cenadwri Ioan oedd y llid a fydd. Yr oedd ei fys yn barhaus yn cyfeirio at y cwmwl oedd yn llwythog o ddigofaint fry, neu at Tophet oedd wedi cael ei henyn ganddo obry; fel pe buasai wedi disgyn o'r byd anweledig i'r unig ddiben o gyhoeddi gwaeau hwnw uwchben hwn. Ac yr oedd dieithrwch y byd hwnw o'i amgylch: gallesid ameu a oedd dim a fynai ef â'r ddaear, am fod rhyw beth annaearol yn yr oll a berthynai iddo. Nid ydym yn cael fod neb yn gofyn unwaith, "Onid hwn yw y saer?" neu, Onid hwn yw y llafurwr? Onid Zacharias y gelwir ei dad ef? Onid Elizabeth yw ei fam ef? Na, dyn ydyw nad oes neb yn meddwl am ei gysylltu â thrigolion nac â phethau y byd. Y mae ei wisg yn profi ei fod yn hòni cymdeithas â'r byd anweledig,—gwisg prophwyd ydyw. Y mae ei gartref yn y diffaethwch, lle y tybid y byddai ysbrydion y byd anweledig yn arfer ei fynychu; ac am ddim a welodd neb, nid ydyw yn bwyta nac yn yfed o bethau y ddaear. Dyn anghyffredin ydyw, a chenadwri felly sy ganddo. Ar y dechreu, credai pawb ei fod wedi dyfod oddiwrth Dduw, oblegid mewn dull anghyffredin y mae dynion yn disgwyl i Dduw ymddangos.

Edrychwch eto ar Fab y dyn, fel amlygiad o Dduw yn dyfod at y byd mewn gwedd gyffredin. Os oedd pob peth o gwmpas Ioan yn ei ddangos fel yn perthyn i'r byd arall, yr oedd pob peth o gwmpas Mab y dyn yn ei ddangos fel yn perthyn i hwn: Mab y *dyn* ydoedd. Yr oedd y cwestiynau a ofynai dynion wrth weled ei weithredoedd yn profi ei fod mor debyg i ddyn cyffredin, fel na feddyliodd y bobl ei fod yn ddim amgen na hyny. "O ba le y daeth y pethau hyn i hwn?" meddent; "onid Mair y gelwir ei fam ef?" "Onid hwn yw y saer?" sydd wedi bod yn ein tref ni er pan yn blentyn, ac heb ddim yn ei hynodi, os nad oedd yn fwy distaw nag eraill yn gwneuthur hyny; ac yn fwy tyner wrth ei fam na'i gyfoedion, ac yn fwy dichlynaidd a chyson yn ngwasanaeth y synagog yma, ac mewn myned i Jerusalem ar y gwyliau arbenig na'i gyd-drefwyr. Ni buasem ni yn gwybod ei fod yn perthyn i'n tref ni, oni buasai ein bod yn damweinio ei weled ambell dro yn brysur gydâ'i orchwyl fel saer, a phob tro yr awn ni i'r synagog, ni bydd ei le

ef byth yn wâg yno. Ac yn awr, wedi iddo ryfygu myned yn ddysgawdwr cyhoeddus, y mae yn bradychu ei hun yn hyn hefyd fel dyn cyffredin, oblegid y mae yn bwyta gydâ phublicanod a phechaduriaid. Y dydd o'r blaen, gadawodd i bechadures olchi ei draed ef; a rhyw ddydd arall, gwelsom ef yn cymeryd babanod bychain yn ei freichiau, i foddhau eu mamau gweiniaid, fel pe buasai yn ferch dyner. Pe buasai wedi dyfod oddiwrth Dduw, buasai mawredd arno amgen i hyn, oblegid "pan ddelo Crist, nis gwyr neb o ba le y mae." Bydd dieithrwch a mawredd o'i gwmpas ef yn sicrhau i bawb mai oddiwrth Dduw y daeth; ond am hwn, oni wyddom ni oll mai dyn cyffredin ydyw?—Duw yn yr anghyffredin, a Duw yn y cyffredin; Duw yn y daran, a Duw yn yr awel; Duw yn y ddaeargryn, a Duw yn ysgydwad y ddeilen; Duw yn ngwlaw mawr ei nerth, a Duw yn y gwlith;—dyna ydoedd Ioan, a Mab y dyn.

Y mae Duw weithiau yn ymweled â'r byd yn y dieithr a'r anghyffredin. Y mae pob peth fydd o amgylch ymweliadau felly yn dwyn cymaint o ddelw y byd arall, fel na chysylltir hwynt â dim yma. Y mae gwynt nerthol y byd arall yn rhuthro ynddynt, a thân y byd hwnw yn fflamio ynddynt. Y mae y dieithrwch hwn yn tynu sylw; ac y mae dychryn Duw yn dal lliaws sydd yn dyfod ynghyd, nes y gofynant mewn braw, "Beth a wnawn ni?" Ië, y mae yr Arglwydd Ior yn llefaru mor nerthol mewn ymweliadau felly, nes y mae dynion yn dywedyd, "Pwy ni phrophwyda?" Y mae hyd yn nod Saul ymysg y prophwydi. Ymweliadau anghyffredin Duw â'r ddaear ydyw y rhai yna.

Ond y mae Duw yn ymweled â'r byd, nid drwy Ioan, ond drwy Fab y dyn; hyny yw mewn dull cyffredin. Nid oes na daeargryn, na chorwynt, na thân, yn perthyn i'r ymweliadau,—dim ond llef ddistaw fain. Nid goleuni o'r nef ar haner dydd, fel gerllaw Damascus;—nid daeargryn ar haner nos, fel yn Philippi,—ydynt; ond Mab y dyn yn myned heibio, mewn dull cyffredin, ac yn dywedyd, "Dilyn fi," nes y mae y dollfa yn cael ei gadael mor llwyr gan Matthew, ag y gadawyd yr erlid gan Saul. Nid oes dim yn y golwg i beri i'r lliaws ddyfod ynghyd, fel yn Jerusalem ar ddydd y Pentecost. Nid oes yr

un arddangosiad cyhoeddus gydà hwynt, fel yn Ephesus, pan losgwyd y llyfrau; ac eto y mae yr un effeithiau yn eu dilyn ag oedd yn Jerusalem ac Ephesus.

Gwneuthur pethau anghyffredin mewn *dull cyffredin* y byddai Mab y dyn. Mab y dyn oedd Efe yn *null* y weithred, ond Mab Duw ydoedd yn y weithred ei hun. Yr oedd y weithred yn ddwyfol, ond yr oedd ei gwisg hi yn ddynol. Yr oedd y weithred yn ddieithr a mawr, ond yr oedd y wisg yn gyffredin a diaddurn. Yr oedd y weithred yn deilwng o'r byd arall, ond yr oedd ei gwisg hi yn dwyn delw salw y byd hwn. Porthi miloedd âg ychydig dorthau,—pwy ond Duw a allasai wneyd hyny? Ond gwnaeth mor debyg i ddyn, fel mai prin y meddyliodd y dyrfa fod dim byd dieithr yn cymeryd lle. Troi y dwfr yn win,—gwaith Duw; ïe, ond y mae gwisg Mab y dyn am dani,—prin y mae neb wedi meddwl fod dim hynod yn y peth. Dywedyd, "Bydd lân," wrth y gwahanglwyfus, nes y mae y gwahanglwyf yn cilio fel y tywyllwch o flaen y goleuni; ond y mae dwyfoldeb y weithred yn cael ei guddio i fesur gan y wisg; oblegid, onid ydyw wedi dywedyd mor debyg i'r naill ddyn yn cyfarch un arall ar y ffordd? Wele efe yn wylo wrth fedd ei gyfaill fel dyn tyner, a chyn i'r deigryn orphen disgyn oddiar ei rudd, yn dywedyd gydà'r llais addfwyn ag oedd newydd fod yn cysuro Mair, ond yn unig ei fod dipyn yn uwch, "Lazarus, tyred allan," fel pe buasai y naill gyfaill yn galw y llall o'r tŷ, i hysbysu rhyw beth iddo. Mor ddynol oedd gwisg y weithred! mor Ddwyfol oedd hi ei hun! y Duw tragywyddol oedd yno yn gwneyd peth anghyffredin mewn dull cyffredin. A dyna fel y mae yn gweithio yn awr. Duw ydyw yn ei weithred, ond dyn yn y wisg. Nid ydyw ffenestri y nefoedd yn cael eu hagor i dywallt gwlaw mawr ei nerth, ac eto y mae ein daear sech ni yn cael ei hadnewyddu mewn modd nas gwyddom ni. Nid oes yma ddim twrf yn y gynulleidfa; ac eto y mae rhinwedd yn dyfod o rywle yn y distawrwydd yma sydd yn peri i ysbryd gwendid gilio o ganoedd. Nid oedd dim defodau dieithr wedi eu harfer gydà'r cleifion gwahanol yna,—y tyngwyr, y meddwon, y pechaduriaid cyhoeddus; ac eto y mae aml un o honynt yn myned yn iach, nas gwyddant yn iawn pa fodd. Ni wnaethant ddim, ond ceisio plygu i gyngor

syml a gawsant gan Iesu o Nazareth; ac ar y ffordd, wrth wneyd hyny, er eu syndod, dechreuasant fyned yn lân. Duw yn gwneyd pethau anghyffredin mewn dull cyffredin. Ni a allwn nodi,—

II. Nid oes yr un o oruchwyliaethau Duw nad ellir cael rhywbeth i'w ddywedyd yn ei herbyn. Yr oedd Ioan a Mab y dyn wedi dyfod oddiwrth Dduw, ac eto dywedai y bobl fod cythraul gan y naill, a bod y llall yn ddyn glwth ac yn yfwr gwin. Ar y cyntaf, cydnabyddid y ddau wedi dyfod oddiwrth Dduw; aeth y wlad yn lluoedd ar ol y ddau; ond pan ddechreuodd eu hathrawiaeth eu condemnio hwynt, newidiasant eu barn. Y mae pob peth dwyfol yn cyraedd nôd y mae yn rhaid naill ai plygu iddo, neu ynte, i gael mynwes dawel, geisio tòri ei garacter. Ac nid peth anhawdd yw cael rhywbeth i'w ddywedyd yn erbyn pob peth dwyfol. Y mae Duw yn gadael lle i hyny, i brofi dynion. Mor hawdd oedd gwneyd allan fod cythraul gan Ioan; oblegid onid oedd dynion yn byw mewn lleoedd anial felly y pryd hwnw, gan feddwl twyllo y bobl yn fwy effeithiol trwy hyny? A thybid hefyd fod cythreuliaid yn rhodio mewn lleoedd sychion felly; ac yr oedd cythreuliaid yn meddianu llawer iawn o ddynion ar y pryd hwnw; ac mor naturiol oedd meddwl mai un felly oedd Ioan,—dyn anhyblyg, amddifad o deimladau y ddynoliaeth;—rhaid, meddent, fod cythraul ganddo, oblegid pwy o'r hen brophwydi a fu yn debyg i hyn? Onid oedd Ezeciel, a ddatguddiodd bethau mor ddie thr, yn offeiriad, ac yn byw gydâ'r gaethglud ar làn afon Chebar? Onid oedd Jeremiah y mwyaf o'r prophwydi, yn byw gydâ'r bobl? Ac am Elias, y mwyaf anghymdeithasgar o'r holl brophwydi, yr oedd efe yn debycach i ddynion eraill na hwn. "Y mae cythraul ganddo."

Nid peth anhawdd oedd cael llawer i'w ddywedyd yn erbyn Mab y dyn. Nid oes ynddo ddim hynod: y mae yn bwyta ac yn yfed fel dyn arall: ïe, meddent, onid ydyw yn gyfaill i bublicanod a phechaduriaid; gan hyny, dyn anllythyrenog, heb gael dygiad da i fyny ydyw; ac y mae yn eglur mai dyn isel, heb barch iddo'i hun ydyw, oblegid fe oddefodd i bechadures olchi ei draed yn nhŷ Simon; ac fe aeth i mewn i dŷ Zacheus y publican, i fwyta bara; ac y mae'r gair wedi cerdded, er na

wyddom ni pa fodd, oblegid nid ydym eto wedi cyfarfod â neb a'i gwelodd felly, ond y mae y gair yn dew ac yn aml, ei fod yn "ddyn glwth ac yn yfwr gwin."

Pan y mae dynion o dan ddylanwad ymweliadau anghyffredin Duw, fe ddywedir, "Llawn o win melus ydynt;" cael eu cynhyrfu y mae y bobl ieuainc, a'r bobl dymerog, gan zel y pregethwr i fyned at grefydd; ond rhaid mai nid oddiwrth Dduw y mae peth fel yna, oblegid awdwr trefn yw Duw, a pha beth bynag a wnel Duw, fe fydd hyny byth; ond am y lluoedd yna, byddant yn sicr o adael crefydd. Dyna ddynion yn myned yn lluoedd at grefydd heb gynhyrfiad mawr ar y meddwl; oh, am y rhai yna, nid oes dim arnynt; wedi blino ar y dollfa yr oedd Mathew, onide nid aethai i ddilyn yr Iesu ar haner gair: pe buasai ysbrydion aflan wedi eu bwrw allan o hono, fel hwnw ymysg y beddau, ni buasem yn rhyfeddu ei fod yn myned ar ei ol ef; ond myned ar ol yr Iesu heb ddim ond gair cyffredin, "Dilyn fi," yn ei gymell, nid oes bosibl fod dim oddiwrth Dduw ar ddyn fel yna. Dyna ymweliad dieithr, ac un cyffredin; ond y mae dynion yn dywedyd,—cythreulig yw y naill, a daearol ydyw y llall. Nid ydyw pethau Duw i'w barnu wrth eu gwisg. Yr oedd y Tabernacl a'r Deml yn dra gwahanol oddiallan; y naill yn llwydaidd, a'r llall yn oludog ogoneddus; ond yr oedd y *Shechinah*, er hyny, yn nghysegr sancteiddiolaf y ddau. Ond mor hawdd fuasai i'r wisg arwain un i ddywedyd, Gan ei fod yn y babell, mai rhyfyg oedd meddwl am dano i adeilad hardd fel y deml; neu, Gan ei fod yn y deml, mai anfri arno oedd meddwl iddo breswylio erioed mewn lle llwydaidd fel y babell. Nid yw Duw yn talu cymaint o sylw ag yr ydym ni yn ei feddwl i wisg pethau: disgyn weithiau ar Sinai, bryd arall ar Sïon. Bernwch Ef wrth olion ei draed, nid wrth y wisg. Os gwnewch chwi hyny, chwi a welwch mai brysg traed Duwdod sydd ar Sïon fel ar Sinai. Ni a welwn drachefn,—

III. Mai hanfod gwrthryfel yn erbyn Duw ydyw peidio ymostwng i'r peth sydd ar y pryd, ond ceisio rhywbeth arall yn ei le. Y mae dyfnderoedd Satan yn hyn. Y mae yn cuddio y gwrthryfel â gwisgoedd ymweliadau Duw;—yn rhoddi gwedd o barchedigaeth i Dduw ar elyniaeth y galon. Buasai y

bobl hyn yn tramgwyddo pe yr awgrymasid iddynt mai gelynion i Dduw oeddent, ac mai hyny oedd y rheswm paham yr oeddent heb ymostwng. Tybient am danynt eu hunain, mai rhai yn aros i gael amlygiad sicr o'i ewyllys oeddent; ond am Ioan a Mab y dyn, yr oedd y naill yn rhy gyffredin, a'r llall yn rhy anghyffrediu, i fod wedi dyfod oddiwrth Dduw. Hanfod gwrthryfel ydyw ceisio rhywbeth heblaw y peth sydd. Y mae yma bawb am ymostwng i Dduw, ond bod eisiau rhywbeth heblaw y peth sydd yn awr i hyny;—amser arall, amgylchiadau eraill, a chymelliadau eraill. Y mae ar lawer eisiau *amser* arall. Am wasanaethu Duw, y mae hyny yn beth diddadl: ond y mae tipyn o ddadl rhyngwyf âg Ef, medd y dyn, ynghylch yr amser i ddechreu. Yr wyf wedi cydsynio am y cyflog a phobpeth, ond yn unig fy mod i a'm meistr ddim yn cydsynio am yr amser i mi fyned i'm lle. "Na thwyller chwi: ni watwarir Duw." Hanfod gwrthryfel yw ceisio rhywbeth heblaw y peth sydd.

Y mae ar eraill eisiau amgylchiadau gwahanol. Nid oedd yr un o'r rhai a wahoddwyd yn y ddameg i swper y brenin yn meiddio dywedyd nad oeddent yn teimlo parch iddo. Buasai ar lawer cytrif yn dda ganddynt fyned i'r wledd: mor foesgar yr oeddent yn ymesgusodi: yr anffawd oedd, i'r brenin wneyd y wledd ar adeg anghyfleus iawn; pe buasai hi wedi ei gwneyd ychydig yn gynt, cyn iddynt fyned i'r drafferth, neu wedi ei hoedi nes y buasai y cyntaf wedi profi yr ychain, yr ail wedi gweled ei dyddyn, a'r trydydd wedi trefnu ei dŷ, daethent yno yn llawen; ond yr oedd yr amgylchiadau ar hyn o bryd ar y ffordd. "Na thwyller chwi: ni watwarir Duw." Hanfod gwrthryfel yn erbyn Duw ydyw peidio ymostwng i'r peth sydd ar y pryd, ond ceisio rhywbeth arall yn ei le.

Neu dyna sydd eisiau: cymelliadau eraill ar y meddwl,—eisiau i'r Brenin anfon gweision dipyn anrhydeddusach ataf. Y mae myned i'r nefoedd yn beth mor fawr;—ni ddylaswn gael mwy na hyn i'm cychwyn yno. Wel, pe buasit ti wedi dy roddi yn y carchar ar gam, fel Paul yn Phillipi, ac heb nemawr berygl arnat, ni buaswn yn synu dy weled yn gomedd myned allan fel yntau, nes cael rhyw un anrhydeddus iawn i dy arwain oddiyno,—rhyw angel mawr, neu seraph tanllyd; ond

gan dy fod di yna yn gyfiawn, ac mewn perygl o golli dy enaid, y mae yn syn pa fodd na wrandewit ar y gwas lleiaf, y cymhelliad gwanaf, a allai ddangos y ffordd i ddianc. Fe wrandawodd Paul ar lais llanc, yn ngharchar Jerusalem, am ei fod yn gweled y gallai ei arwain o afael angau sicr. "Na thwylier chwi: ni watworir Duw." Hanfod gwrthryfel ydyw ceisio rhywbeth heblaw y peth sydd. A phe caech chwi y pethau yr ydych yn eu ceisio, y mae yr ysbryd yna, sydd yn beio ar yr amser a'r amgylchiadau presenol, yn un a wnai hyny ar bob un arall; oblegid dyma eiriau y Gwirionedd ei Hun ar y peth:—"Oni wrandawant ar Moses a'r Prophwydi, ni chredent chwaith pe codai un oddiwrth y meirw." Ni a welwn yma unwaith eto,—

IV. Fod pob goruchwyliaeth tuag atom wedi ei threfnu gan ddoethineb ddwyfol; ac y mae y ffaith fod rhai yn plygu iddynt yn profi hyny, neu yn cyfiawnhau doethineb, ac yn condemnio y rhai sydd heb wneyd. Nid damwain yw dim sydd yn eich cyfarfod, ond trefniad y Duw doeth: nid y Pen-Arglwydd, ond y Duw doeth. Doethineb ydyw trefnu pethau yn y dull tebycaf i gyraedd yr amcan mewn golwg; ac nis gallasai doethineb Duw ddim trefnu pethau yn well nag y maent, i'ch cael chwi i blygu iddo. Y mae wedi trefnu lleoedd eich preswylfod fel y ceisiech yr Arglwydd, ac wedi cyfaddasu ei oruchwyliaethau at eich amgylchiadau, ac at ffurf eich meddyliau chwi. Ond y mae doethineb y drefn yn dyfod i'r golwg,—

1. Yn mod y drefn wedi ei chyfaddasu fel ag i roddi lle i ni wrthod neu ddewis. Peth o ddewisiad yw myned i'r nefoedd; a pheth o ddewisiad i bawb yma fydd myned i uffern, os yno yr ewch chwi. Pe buasai y cymhelliadau yn wanach a'r amgylchiadau yn wahanol, ni buasai yn briodol dywedyd fod y peth ar dy ddewis di. Pe buasent yn llawer cryfach, buasent yn dy orfodi; ac ni fyn Duw neb i'w wasanaethu, ond ewyllysgaryddion. Fe farnodd Moses ddirmyg Crist yn fwy golud na thrysorau yr Aipht. Ni welodd ond ychydig o daledigaeth y gwobrwy; ond fe welodd ddigon i eistedd mewn barn ar y ddau wasanaeth; ac wedi gwneyd hyny, fe ddewisodd yr adfyd. Yr ydych chwithau wedi cael digon i eistedd mewn barn ar y ddau wasanaeth;—digon i roddi lle i ddewis, neu i wrthod. Er mai o ras y mae cadw, nid yw hyny yn dinystrio eich cyfrifoldeb chwi: chwi a gewch eich dewis.

2. Y mae y drefn yn profi beth sydd yn ein calonau ni. Yr oedd y segurwyr oeddent wedi sefyll ar hyd y dydd yn y farchnad, yn ceisio rhoddi y bai o hyny ar eraill. "Ni chyflogodd neb ni," meddent; ond y gwir oedd, nid oedd arnynt fawr awydd am waith, oblegid yr oedd Arglwydd y winllan wedi bod yno bedair gwaith o'r blaen, ac wedi dywedyd, "Ewch i'r winllan," wrth bawb oeddent yno. Ond yr oeddent hwy yn disgwyl iddo ddyfod atynt i *setlo* y cyflog. Ni wnaeth hyny â neb wedi y tro cyntaf; ond bu raid iddynt fyned heb glywed dim ychwaneg nag a glywsant ar y drydedd a'r chweched awr Pe buasai yn dda ganddynt gael gwaith, ni buasent yn aros cyhyd. Ai nid ydyw yr holl segura, sydd yn y fan yma, yn profi nad ydyw yn dda genych waith y winllan? O na; y mae yn dda genyf am y gwaith, medd y dyn, ond bod arnaf eisiau dyfod i ddealltwriaeth clir am y cyflog. Wel, y mae eraill wedi myned heb glywed dim ychwaneg nag a glywaist ti: bydd y rhai hyny oll yn cyfiawnhau doethineb y drefn, ac yn condemnio pawb fyddant heb ymostwng iddi;—yn gwneyd yn amlwg blant Duw a phlant diafol.

Pobl wedi cael pob goruchwyliaeth oedd y rhai y llefarwyd y testyn wrthynt; ond pobl yr oedd tân Sinai wedi methu eu dychrynu, a gwlith Sïon wedi methu eu hystwytho; pobl yr oedd Ioan, y mwyaf o'r prophwydi, wedi llafurio yn ofer yn eu plith, a phobl yr oedd dagrau ac erfyniau Mab Duw ei Hun wedi bod yn ddieffaith arnynt. Wel, beth am danynt? Tri gair a'u darlunia bellach:—daear anghymeradwy; agos i felldith; diwedd yr hon fydd ei llosgi. *Anghymeradwy*,—cânt lonydd gan Ioan a Mab y dyn, a chan bawb. Addfedant wed'yn yn gyflym i *felldith*, a chymerant *dân* ryw ddiwrnod. Ai dyma fydd y *diwedd* i hen wrandawyr efengyl yn y fan yma? Duw y nefoedd yn ysgrifenu arnynt, "Anghymeradwy." Cei lonydd gan Ioan a Mab y dyn wed'yn,—gan bob adnod o'r Bibl,—gan bob pregeth,—gan bob tro yn rhagluniaeth y Nefoedd. Fe dawela dy awyrgylch di yr un fath ag y mae yn tawelu cyn yr ystorm daranau, ond bydd y tawelwch yna yn brawf fod y felldith wrth y drws; y mellt tanllyd fydd yn rhoddi diwedd ar yr oll gerllaw. Plygwch i Fab y dyn!

[Dydd Iau, Mai 24, 1859.]

# PREGETH XLII.

## PWYSFAWRAWGRWYDD CADWEDIGAETH.

ACTAU XVI. 30:—"O feistriaid, beth sydd raid i mi ei wneuthur, fel y byddwyf gadwedig."

PRIODOL y dywedodd y Salmydd, fod "ffyrdd Duw yn y môr, a'i lwybrau yn y dyfroedd mawrion," a bod "cymylau a thywyllwch o'i amgylch Ef." Ond y mae yn cyraedd ei amcanion drwy bob tywyllwch, ac er holl fwriadau calon dyn, ei gyngor Ef sydd yn sefyll;—mŷn ei folianu hyd yn nod gan gynddaredd dyn. Gwelir hyn yn cael ei wirio yn eglur yn hanes ryfedd y benod hon. Yr oedd y cymylau a'r tywyllwch yn dew iawn o amgylch yr orsedd, y prydnhawn cyn llefariad y testyn; ond ar haner nos fe chwalodd y cymylau, ac fe oleuwyd y tywyllwch, i ni gael gweled mai cyfiawnder a barn ydyw ei sylfaen hi. Y mae rhagluniaeth er y dechreuad wedi bod yn wasanaethgar i iachawdwriaeth, er fod yr olwynion yn ymddangos fel pe byddent yn troi weithiau yn erbyn hyny. Nid ydynt felly mewn gwirionedd; ond y mae ei phob peth hi yn cydweithio ymhlaid yr un daioni cyffredinol ag iachawdwriaeth. Y mae, yn gyffredin, amser maith yn ofynol i ni weled hyny. Bu caethiwed yr Aipht yn hir yn ei esbonio ei hun; ond yma y mae rhagluniaeth yn ei hesbonio ei hun yn gyflym. Rhwymau corfforol Paul a Silas fuant, yn llaw Ysbryd Duw, yn foddion i ddatod rhwymau ysbrydol ceidwad y carchar a'i deulu.

Y mae yr hanes yma yn rhoddi golygfa drom i ni ar sefyllfa foesol y byd. Onid ydyw yn beth tra dieithr fod pob peth ond gwirionedd yn cael rhwydd hynt ynddo? Ond er cwymp Eden, amcenir ymhob dull alltudio pob gwirionedd o hono. Pe

buasai Paul yn cyhoeddi rhyw gyfundraeth newydd o dwyll, tra thebyg ydyw y buasai yn cael llonydd ; ond am mai y gwirionedd a'r unig wirionedd hefyd oedd ganddo, cafodd ei drin yn arw. Y mae hyn yn dangos i ni nerth y llygredigaeth sydd yn y galon ddynol. Y mae hi yn caru y tywyllwch yn fwy na'r goleuni.

Y mae yr hanes yma yn dangos i ni hefyd, fod y Duw mawr yn myned allan o'i drefn gyffredin, weithiau, i ddyfod o hyd i wrthddrychau ei gariad. Argyhoeddwyd Paul a cheidwad y carchar trwy wyrthiau. Y mae gwyrthiau yn cael eu gwneyd i ddibenion penodol: ac er nad ydyw yn amlwg beth oedd diben uniongyrchol y wyrth hon yn Philippi, y mae yn sicr iddi ateb diben mawr a chyffredinol. Ond y mae yn hynod am y gwyrthiau hyn, paham na buasent yn foddion i argyhoeddi mwy. Nid oes lle i gasglu i neb ond Paul ei hun gael ei argyhoeddi gan y wyrth ar y ffordd i Damascus; ac yma ceidwad y carchar a'i deulu yn unig a ddychwelwyd. Moddion mawr argyhoeddiad ydyw gair y gwirionedd ; os na etyb hwn y diben hyny, tebyg ydyw na etyb dim arall. Gwelodd y rhai oeddent gyda Paul y goleuni ; ond efe yn unig a argyhoeddwyd. Gwelodd y carcharorion yr un peth a cheidwad y carchar ; ond iddynt hwy yr oedd y gweled yn ofer. Ond os ychydig a argyhoeddwyd drwy y gwyrthiau, argyhoeddwyd pum' mil trwy'r gair ar ddydd y Pentecost. Felly am bob un y mae goruchwyliaethau dieithr rhagluniaeth yn ei ddeffroi, y mae yr efengyl yn troi canoedd. A rhyfyg mawr ydyw myned ymlaen mewn pechod gan ddisgwyl i wyrthiau ein hatal, fel yr ataliwyd Paul a cheidwad y carchar ; oblegid, er fod llawer yn yr un pechod a Phaul, efe yn unig a achubwyd. Yr oedd swyddogion Philippi wedi bod yn euog o fwy pechod na cheidwad y carchar ; ond yr olaf a gymerwyd ;—gadawyd y rhai cyntaf. Os ydyw trugaredd, weithiau, yn rhagor amlhau, lle yr amlhäodd pechod, y mae barn yn amlach yn dilyn am y pechod. Nid ydyw gras a phechodau rhyfygus ddim yn anwahanol gysylltiedig ; ond y mae barn, a phechodau rhyfygus, wedi eu cysylltu mor agos, fel mai yn anaml iawn yr ysgarir hwynt. Y mae genym *feallai* am y cyntaf ; ond y mae genym bron *sicrwydd* am yr olaf. Er i'r pechadur hwn gael ei argy-

hoeddi allan o'r drefn gyffredin, eto yr un peth ydyw argyhoeddiad drwy bob moddion. Beth bynag fo y moddion, yr un ydyw y teimladau a gynyrchir yn mynwes y pechadur. Argyhoeddwyd yr Iuddewon ar ddydd y Pentecost trwy'r gair: argyhoeddwyd ceidwad y carchar trwy wyrth. Ond i'r un man y dygwyd hwynt gan y naill a'r llall. "Ha wŷr frodyr, beth a wnawn ni?" meddai cynulleidfa dydd y Pentecost: "O feistriaid, beth sydd raid i mi ei wneuthur, fel y byddwyf gadwedig?" meddai ceidwad y carchar. Y mae y ddau gwestiwn yn arddangos yr un teimlad. Yn awr ni a gawn chwilio pa beth sy gynwysedig yn y cwestiwn hwn. Y mae y tri pheth hyn i'w gweled yn amlwg ynddo.

I. Y mae yn rhag-dybied fod perygl yn bod. II. Y mae yn cynwys fod bod yn gadwedig yn beth mawr. III. Y mae yn golygu fod bod yn gadwedig yn beth posibl.

I. Y mae y cwestiwn yn eglur ddangos fod y neb a'i gofynodd yn canfod perygl yn bod. Y mae y perygl yr un mor fawr i bawb, er nad oes ond ychydig yn ei ganfod; ond y mae perygl y rhai sydd heb ei ganfod, o gymaint a hyny yn fwy. Y mae sefyllfa y pechadur argyhoeddedig yn gyffelyb i'r morwr effro, ar ben yr hwylbren, yn nghanol yr ystorm;—y mae ei berygl ef yn fawr;—ond y mae y llall yn gyffelyb i'r morwr yn cysgu, yn yr un lle;—y mae perygl hwn yn fwy o lawer. Y mae yr argyhoeddedig yn gyffelyb i'r claf yn teimlo gloesion y clefyd; ond y mae y llall yn gyffelyb i un yn ngafael yr un clefyd, yn ddideimlad. Y mae gloesion y cyntaf, yn arwydd er daioni; ond y mae dideimladrwydd yr olaf, yn brawf nad ydyw angau nebpell oddiwrtho.

Y mae perygl sefyllfa pechadur yn gynwysedig, 1. Yn ei fod yn ddeiliad deddf; 2. Y modd y mae rhyngddo â'r ddeddf hono;—ac yn 3. Yn y berthynas sy rhwng y ddeddf â Duw.

1. Y mae dyn yn ddeiliad deddf. Y mae natur y ddeddf hono yn effeithio ar y troseddau; oblegid y mae drwg anufudddod yn cyfateb i gyfiawnder a daioni y ddeddf y mae yn drosedd o honi. Y mae yr apostol wedi rhoddi disgrifiad perffaith o natur y ddeddf y mae dyn wedi ei throseddu, yn y tri gair,—sanctaidd, cyfiawn, a da:—yn sanctaidd, sef yn hollol wrthwynebol i bechod; yn gyfiawn, sef wedi ei sylfaenu ar yr hyn

sydd uniawn, ac a ddylai fod;—yn dda, sef wedi ei bwriadu i ddwyn o amgylch ddedwyddwch penaf y greadigaeth, ac y mae yn sicr o hyny. Pe buasai ei sancteiddrwydd, ei chyfiawnder, a'i daioni yn llai, buasai y troseddau o honi yn llai pechadurus; ond gan ei bod hi mor sanctaidd, mor gyfiawn, mor dda, ag ydyw Duw, y mae anufudd-dod iddi i'w fesur wrth sancteiddrwydd, cyfiawnder, a daioni y Duwdod ei hun. Nid ydyw y ddeddf hon ond amlygiad, mewn geiriau, o'r hyn ydyw natur Duw. Y mae y gwahaniaeth hwn rhyngddi â deddfau y ddaear: y mae y rhai hyny yn bethau ar wahan oddiwrth y rhai sydd wedi eu gwneuthur,—amlygiad o'u hewyllys ydynt, nid o'u natur; am hyny gellir eu cyfnewid a'u troseddu, heb y perygl mwyaf, am y gellir cyfnewid ewyllys y neb a'u gwnaeth. Ond nid oes gan y ddeddf hon fôdolaeth ar wahan oddiwrth yr Hwn a'i gwnaeth. Nid ar ei ewyllys y mae yn ymddibynu: deddf ei natur ydyw. Am hyny y mae troseddau o honi, nid yn unig yn droseddau yn erbyn ewyllys Duw, ond yn erbyn ei natur,—yn erbyn yr hyn ydyw Duw; am hyny, heb iddo wadu ei Hun, ac y mae hyny yn anmhosibl, nis gall beidio a'u cosbi.

Ond pe gallem ni feddwl am y ddeddf ar wahân oddiwrth y Deddfroddwr, ni a welem drachefn ein sefyllfa yn dra pheryglus; oblegid y mae hi, nid yn unig yn ddeddf natur Duw, ond yn ddeddf natur dyn; ac fel y cyfryw, y mae pob trosedd o honi yn drosedd yn erbyn ein natur ni ein hunain. Y mae felly, o angenrheidrwydd, yn ddinystr iddi hi. Y mae pob pechod yn ei natur yn difa dedwyddwch. Nid ydyw ei fod yn gyd-ffurf âg ewyllys pechadur ddim yn ei atal rhag bod yn ddinystr iddo. Er fod y meddwyn yn ymddwyn yn ol ei ewyllys, y mae meddwdod yn ddinystr i'w natur. Y mae pob pechod yn ddinystr i'r enaid, mor sicr a bod meddwdod yn ddinystr i'r corff. Dinystr araf ydyw; ond y mae yn ddinystr sicr. Felly, pe na buasai Duw i amddiffyn y ddeddf a roddodd, ac i weinyddu ei dedfryd, am ei bod hi yn ddeddf ein natur, y mae hi yn ei hamddiffyn ei hun. Y mae y gosb yn y trosedd. Nid rhaid wrth ddim i ddinystrio y peiriant, ond gadael iddo droi fel y mae yn awr; y mae yr olwynion yn dinystrio eu gilydd; a'r achos paham y maent yn parhau i fyned cyhyd yma ydyw, am fod Duw yn dyferu olew ei drugaredd arnynt.

Y mae pechod yn yr ystyr hwn â'i ddiwedd yn farwolaeth : hwn ydyw y nôd y mae yn cyrchu ato. Y fath olwg sobr ydyw hon ar ein sefyllfa fel cynulleidfa—ein bod yn ngafael peth nad all lai, oherwydd ei natur ef, a'n natur ninau, na'n llwyr ddinystrio. Y mae ê wedi dwyn ein serch,—nis gallwn ymryddhau oddiwrtho; ac eto wrth ei garu, yr ydym yn caru angau. "Fy holl gaseion a garant angau." Er mai cam â'r enaid ydyw pechod, y mae wedi myned yn ail natur i ni; ac y mae yr ail natur yn dinystrio y gyntaf.

2. Y mae yn angenrheidiol tuag at i ni weled perygl ein sefyllfa, i ni ystyried pa fodd y mae hi yn sefyll rhyngom ni â'r ddeddf. Y gwir am hyn ydyw, ein bod ni yn ei golwg hi oll megis peth aflan; ein natur ni yn bechod; ein meddyliau yn bechod; ein geiriau a'n gweithredoedd yn bechod. Y mae hi yn ysgrifenu, "aflan, aflan," ar y cyfan. Cosbir drwgweithredwr am un trosedd ar y ddaear; ond nid yw ein holl oes ni, ond un pechod mawr. Barn y ddeddf am danom ydyw, nad oes dim da yn trigo ynom. Y mae pob gweithred yn bechod, a phob pechod yn un mawr. Nid ydwyf yn dywedyd nad oes teimladau tyner yn y fynwes, ac nad oes gweithredoedd da, yn ystyr y ddaear o'r gair, yn cael eu cyflawni gan lawer sydd yma. Nid wyf yn meddwl eich cyhuddo o feddwdod,—o aflendid,—neu o ladrad: diau ydyw fod llawer o honoch yn cyflawni holl ddyledswyddau y ddaear, yn ffyddlawn a manwl, a'ch bod yn barchus ymhob cylch yr ydych yn troi ynddo. Ond dengys y Bibl nad oes yr un weithred yn gymeradwy gerbron Duw, os na bydd hi yn tarddu oddiar egwyddor o gariad at Dduw. Os felly, pa beth yn ngolwg y ddeddf ydyw cymeriad eich holl weithredoedd da? onid beddau wedi eu gwyngalchu ydynt? Onid cyrff meirw wedi eu gwisgo yn nillad y byw? grudd welw-lâs angau, wedi ei phaentio âg ychydig o liwiau bywyd? O'u mesur wrth safon y byd hwn, y mae rhai o'n gweithredoedd yn uwch, a rhai yn is;—o'n cymharu â'n gilydd, y mae ychydig wahaniaeth rhyngom; ond yn ngolwg deddf, nid oes dim; o dan *stand rd* y byd arall, nid oes neb na mwy na llai yn y gynulleidfa. Y mae mynyddoedd y ddaear, yn eu perthynas â'u gilydd, a chryn wahaniaeth rhyngddynt. Y mae y Gader Idris yn uchel o'i

chymharu â rhai o'r bryniau amgylchynol; ond nid ydyw y gwahaniaeth sydd rhwng y mynyddoedd uchaf a'r rhai iselaf yn werth sôn am dano yn eu perthynas oll â'r haul. Os ydyw y Gader ychydig ganoedd o droedfeddi yn uwch na rhyw fryn sydd yn ei chymydogaeth hi, y mae pymtheg a phedwar ugain o filiynau o filldiroedd rhyngddi hithau â'r haul. Beth yw ychydig latheni yn werth sôn am danynt mewn pellder mor fawr? Ond y mae pellder anfesurol mwy rhwng yr uchaf mewn rhinwedd, yn ei gyflwr natur, â Duw. Y mae y gwahaniaeth sy rhyngddo â'i gyd-ddynion yn myned yn ddim yn ymyl y fath bellder. "Fel deilen y syrthiasom ni oll:" y mae yr un faint rhwng pawb â'r nefoedd. Er bod mynyddoedd o gylch pum' milldir o uchder ar y ddaear, eto y mae hi yn gorff mor fawr, fel nad ydynt yn ei hatal hi i fod yn gron. Pe byddai un o drigolion y bydoedd wybrenol yna yn edrych arni, ni ataliai y mynyddoedd uchel sydd ar ei hwyneb ddim iddi ymddangos yn *globe* iddo ef. Felly, os oes yma ychydig o weithredoedd da yn dyrchafu eu penau fel mynyddoedd ar y ddaear, eto nid ydynt yn cyfnewid dim ar ffurf ein byd ni yn ngolwg y ddeddf;—*globe* o annuwioldeb ydyw. Nid oes yr un rhinwedd o'i fewn yn ddigon uchel i'w atal i fod felly. Gan mai fel hyn y mae pethau yn bod, y mae ein perthynas ni â'r ddeddf yn un ddifrifol i feddwl am dani. Gan fod yr hyn a ystyriwn ni yn gyfiawnderau, yn ei golwg hi yn fratiau budron, pa mor ffiaidd raid fod ein pechodau yn ei golwg hi? Os oes cymaint rhwng y mynyddoedd a hi; y mae y dyffrynoedd yn bellach fyth. Feallai fod yma rai wedi bod yn ceisio cadw math o gyfartalwch yn eu meddyliau rhwng eu gweithredoedd da a'u rhai drwg, trwy osod y naill ar gyfer y llall, gan ddirgel gredu y byddai daioni y naill yn iawn dros ddrwg y llall. Ond y mae deddf yn eu rhoddi oll yn yr un dosbarth. Adolygwch eich hanes yn y goleuni hwn. Beth ydyw, onid un pechod difwlch o'r dechreu hyd heddyw?

3. Y peth nesaf yn ein perygl ydyw, mai deddf Duw ydyw y ddeddf y mae y berthynas hon rhyngom â hi. A'r un, cofiwch, ydyw awdurdod deddf, ag awdurdod y Deddfroddwr. Y mae gan y ddeddf, fel y crybwyllwyd yn barod, fath o awdurdod ynddi ei hun, am ei bod hi yn ddeddf natur dyn, ond yn

ychwanegol at hyn, y mae ganddi awdurdod Duw, am ei bod hi yn ddeddf ei natur yntau: am hyny, y mae bygythion a melldithion y ddeddf i'w hystyried yn fygythion a melldithion Duw. Felly y mae ein perthynas ni â'r ddeddf yn berthynas â Duw. Yma hefyd y mae pechod yn dwyn ei gosb ei hun. Y mae y sefyllfa y mae yn ein gosod ynddi yn ein perthynas â'n Creawdwr yn sefyllfa sydd âg angau yn ei hanfod hi. Y mae pawb sydd ynddi, yn awr yn marwolaeth. Pe na buasai dim ond pethau nacaol yn perthyn i bechod, y mae yn angau; oblegid Duw ydyw pob peth y greadigaeth. Beth bynag ydyw pethau y ddaear a'r wybren i'r greadigaeth ddefnyddiol, y mae Duw felly i'r ysbrydol. Nid ydyw yr hyn ydyw Duw, trwy gyfryngau, i'r corff, ond drych i ddangos yr hyn ydyw, yn ddigyfrwng, i'r enaid. Rhoddodd haul gweledig i'r corff; ond yr oedd Efe wedi meddwl bod yn Haul ei Hunan i'r enaid. Yr oedd Efe wedi bwriadu i'r corff gael ei gynal gan y ddaear, ond yr oedd wedi bwriadu yr enaid i fyw arno Ef ei Hun. Rhoddodd y gwlaw a'r gwlith i'r corff; ond yr oedd wedi meddwl ireiddio yr enaid â'i ewyllys da. Y mae amddifadrwydd o'r pethau defnyddiol hyn yn angau i'r corff; y mae amddifadrwydd o'r gwrth-gysgod yn angau i'r enaid. Peidied yr haul â'i oleuo,—na rodded y ddaear fara iddo,—cadwed costrelau y nefoedd eu gwlith a'u gwlaw,—y mae y corff yn marw o angenrheidrwydd. Na lewyrched wyneb Duw ar yr enaid,—dyger ef i'r fath ystâd fel nad all ymgynal ar ei briodoliaethau,—nac ireiddier ef â'i ewyllys da,—y mae yntau mor rhwym o farw. Yn marw y corff, y mae angau fel yn ei ladd ei hun;—y mae y boen yn difodi y gallu i deimlo; ond yn angau yr enaid, wrth farw yr ydym yn myned yn fwy cyfaddas i farw o hyd;—bydd y boen yn mwyhau y gallu i deimlo poen. Hon ydyw ein sefyllfa bresenol yn ein perthynas â'r Deddfroddwr; ac nid rhaid i ni esgyn i'r nefoedd, na disgyn i'r dyfnder, i chwilio am brofion o hyn. Na, y mae y teimlad oer annedwydd sydd yn y fynwes, yn brawf digonol nad ydym yn ymheulo yn mhelydrau y Duwdod;—y "moes, moes" newynllyd sydd yn yr enaid, yn brawf digonol nad ar Dduw yr ydym yn byw. A'r achos paham nad ydym yn teimlo y trueni hwn yn fwy ydyw, am fod genym ychydig o drugareddau Duw fel

*supplies* i ymgynal arnynt. Yn hyn yr ydym yn gyffelyb i'r rhai sydd yn myned allan i chwilio am y Pegwn Gogleddol: y mae yn rhaid iddynt hwy fyned â phob peth cynhaliaeth dyn gydâ hwynt,—y tân, yr ymborth, a'r dwfr. Y mae yr hinsawdd y maent ynddo yn ddigon oer i'w rhewi, ond y mae ganddynt dân yn y llong. Nid oes yno ddim ar y mynyddoedd o iâ tuag at gynal dyn nac anifail; ond y mae ganddynt ymborth yn y llong. Ond er hyn nid oes dim yn angenrheidiol i'w dwyn hwynt oll i angau, ond iddynt aros yn y wlad hono am ychydig amser, hyd nes yr ä yr haf byr heibio. Y mae yr haul yn machlud am fisoedd wedi hyn, a'r môr yn rhewi, fel y mae yn anmhosibl myned ymaith oddiyno; ac yna y mae y tân, y dwfr, a'r ymborth yn rhwym o ddarfod. A pha fodd y mae yn bosibl iddynt ochel angau? oblegid nid yw y wlad y maent ynddi ddim yn lle a all gynal bywyd ei hunan am ddiwrnod. Felly yn ngororau oer y gogledd, yr ydym ninau mewn ystyr ysbrydol: yr ydym yn ymddibynu am ein holl gysuron ar *supplies* sydd yn dyfod o wlad gynhesach na hon. Pe na buasem ni yn cael ymdwymno wrth wrês trugareddau Duw, buasai yr hinsawdd oer wedi ein rhewi er ys talm. Pe na buasai yr Arglwydd yn anfon llong rhagluniaeth i'n gwlad, yn llwythog o'i ewyllys da bob blwyddyn, darfuasai am danom er ys dyddiau; oblegid nid all y wlad yr ydym ni yn byw ynddi gynal ei hun. A'r oll sydd yn angenrheidiol tuag at wneuthur y farwolaeth ysbrydol yn un dragywyddol ydyw, i ni aros am ychydig eto yn y wlad yr ydym ni ynddi wrth natur, hyd nes yr elo ein haf byr ni heibio: yna fe fachlud ein haul ni,—fe rewa y môr o'n hamgylch, fel nad all llong rhagluniaeth ddim dyfod yn agos ini am dragywyddoldeb. Yno, yn nghanol y tywyllwch a'r diffrwythdra, y mae yn rhaid i ni farw y farwolaeth. Mor druenus ydyw ein sefyllfa, fel nad oes dim yn angenrheidiol i'n perffeithio mewn trueni, ond i ni beidio symud o'r wlad yr ydym ynddi wrth natur.

Eilwaith, y mae trueni a pherygl sefyllfa dyn i'w canfod yn hyn hefyd; y mae bod ystâd ein meddwl ni at Dduw yr hyn ydyw, yn rhwym, ond i bethau gael amser i ddyfod o amgylch, o gynyrchu annedwyddwch i ni o bob man. Niweidied rhyw-

beth y galon, neu rai o ranau bywydol y corff, y mae pob rhan o hono yn rhwym o deimlo yn fuan. Nid ydyw holl berthynasau y byd hwn, ond pethau bychain sydd yn tarddu o'r berthynas fawr sy rhyngom ni â Duw, fel y mae bywyd yr aelodau yn tarddu o'r galon. Yn awr y mae y berthynas hapus oedd rhyngom ni â Duw wedi ei thori, a dim ond i bethau gael amser i ddyfod o amgylch, fe dŷr hyny bob perthynas arall; cyn sicred a bod cariad Duw wedi ei golli o'r galon, fe gollir bob cariad arall yn fuan. Y mae llawer yma na chredant fi, pan ddywedaf, os parhânt yn y cyflwr y maent ynddo yn awr, y byddant yn casâu â chasineb perffaith y rhai y maent yn awr yn eu caru fel eu henaid eu hun; oblegid y mae bod dyn yn elyn i Dduw yn sicrhau y bydd ymhen ychydig yn elyn i holl greadigaeth Duw. Y mae y naill beth yn gysylltiedig â'r llall, fel achos ac effaith. Mor wir ydyw hyn, fel y gellir cymhwyso pob gair a ddefnyddir i ddangos teimlad dyn at Dduw yn awr, i ddangos hefyd beth fydd ei deimlad at bob creadur, ymhen gronyn. Y mae dyn yn awr yn elyn i Dduw; yn gâs ganddo Dduw;—pob meddwl am dano yn ei gythryblu;—y mae yn ffoi o'i ŵydd, ac yn ceisio ymguddio rhagddo. Nid all ein meddwl ni ddim amgyffred beth ydyw cynwys y geiriau yn eu perthynas â Duw; ond gallwn amgyffred rhywbeth o'u cynwys yn eu perthynas â chreadur. Felly gall y peth lleiaf fod yn rhyw help i ni amgyffred y peth mwyaf. Beth fyddai cynwys geiriau fel yna yn eu perthynas â dyn? Wel, onid ei fod yn gwbl ac yn berffaith annedwydd a thruenus? oblegid y mae holl gysuron y byd hwn yn tarddu o'n perthynas ni â'n gilydd; cysuron cariad o ryw fath ydynt oll. Yr unig bren teg yr olwg arno, a dymunol ei ffrwyth, ar y ddaear ydyw cariad. Ond beth pe byddai yr enwau sydd yn dangos ein perthynas ni â Duw yn briodol i ddangos ein perthynas ni â'r ddaear,—ein bod yn elynion i bawb,—yn gâs genym bawb,—pob meddwl am ein cyd-ddynion yn ein cythryblu, ein bod yn ffoi o'u gŵydd, ac yn ymguddio rhagddynt? Pe buasai y ddaear yn baradwys o ran pethau rhagluniaethol, buasai yr un peth hwn yn ei gwneuthur yn uffern i'w thrigolion. Ni byddai raid i'r ddaear grynu o dan eu traed, nag i'r wybrenau adsain twrf y daran, na chael eu goleuo gan fellt. Ni byddai eisiau yr un haint i rodio yn y

tywyllwch, na dinystr i ddinystrio ganol dydd ; ni byddai raid i'r cymylau ollwng i lawr genllysg, neu dân a brwmstan, ar y trigolion ; ni byddai raid cloi y nefoedd am dair blynedd a haner, neu ei dadgloi hi am ddeugain niwrnod ;—ni byddai raid troi yr afonydd yn waed, na gorchuddio y meusydd â locust-iaid, neu â lindys,—i lenwi pob mynwes âg anhapusrwydd. Na ; llewyrched yr haul yn ddigymylau,—tymerer ei wrês gan awelon pêraroglus,—dyged y ddaear ffrwyth o honi ei hun,—bydded ei chnwd hi yn deg yr olwg arno, a'i ffrwyth yn beraidd ei flas : na fydded i'r haul ei tharaw y dydd, na'r lleuad y nos ;—rhodder y gwlith iddi wrth fesur, a'r gwlaw yn ei amser ;—na syched ei hafonydd, ac na lifent dros ei cheulanau ychwaith; mewn gair, bydded yn baradwys,—bydded yn bob peth y gall dychymyg y bardd eu dyfeisio, a thafod areithiwr eu darlunio; os diwreiddir cariad o fynwes y trigolion, nid rhaid fyddai i neb drafferthu i ffurfio yr un Tophet iddynt; o dan nefoedd ddi-gymylau, ac ar ddaear yn llwythog o drugareddau, byddent mewn loesion o drueni. Dyma ydyw ein sefyllfa bresenol ni yn ein perthynas â Duw; a dim ond i'r clefyd gael amser i weithio drwy yr aelodau, dyma fydd ein sefyllfa ni yn ein perthynas â holl greadigaeth Duw. Y mae pethau heb gwbl ymwahanu eto ; y mae yr elfenau yn tynu at eu gilydd yn awr, y mae yn wir, ac ymhen ychydig bydd y gwaith o ddidoli wedi ei orphen. Duw a'r greadigaeth fydd un ochr; a'r pechadur ei hun yr ochr arall, yn teimlo yr un fath at bawb. Y fath sefyllfa yr ydym ynddi, ar wahan oddiwrth yr ystyriaeth o'r hyn a ddywed y Bibl am dani !

Ond, fel y prophwyd Ezeciel, nid ydym ond yn yr ystafell gyntaf eto. Y mae ffieidd-dra mwy yn ol,—trueni mwy na dim a ddywedwyd yn perthyn i gyflwr drwg ; nid ydym wedi prin edrych arno yn ngoleuni Llyfr Duw: yma ni a welwn ein bod ni o dan felldith y ddeddf, hyny yw, o dan felldith Duw ei hunan. Nid oes genym yr un eglurhad i'w roddi ar hyn, ond dywedyd fod melldith Duw yn cynwys digofaint Duw. Ond y mae y naill air mor anamgyffredadwy i ni a'r llall. Y mae y digofaint yr ydym yn agored iddo, yn (1.) Yn un mawr;—(2.) Y mae perthynas rhyngom ni âg ef y foment hon;—(3.) c y mae yn ddigofaint tragywyddol.

(1.) Y mae y digofaint yr ydym ni yn agored iddo yn un mawr iawn. Y mae y geiriau a ddefnyddir i'w osod allan yn y Bibl y rhai cryfaf mewn iaith; ac y maent yn cael eu pentyru i geisio ei ddarlunio. Y mae yn "llid mawr,"—"yn ddigofaint llidiog," — "yn ddigter llidiog," — "yn nerth soriant," — "yn angerdd digofaint," — "yn llid digofaint," — "yn gynddaredd digofaint," ac yn "greulondeb digofaint." Dyma eithafion iaith. Y mae y pethau y cymharir ef iddynt yn dangos yr un peth :—tân ydyw; un o'r elfenau mwyaf dinystriol sydd yn perthyn i'r ddaear hon, yn gyffredin a ddefnyddir yn y Bibl i ddangos digofaint; a'r elfen hon hefyd yn ei dull mwyaf arswydus. Dywedir fod ei gerydd fel fflamau tân; ac yn mhellach, y mae yn fflam dân ysol;—ac yn mhellach eto, y mae y gymhariaeth yn fwy arswydus fyth :—"y mae ei lid i gael ei dywallt fel tân,"—"afon danllyd yn dyfod allan oddiger ei fron Ef." I ddangos ei effeithiau ar y gwrthddrychau, dywedir "eu bod yn ei yfed ef fel gwin;" ac i ddangos mor ddiamddiffyn fyddant, dywedir "y sethrir hwynt yn ngherwyn fawr digofaint Duw." Geiriau cymhariaethol ydyw y rhai hyn, meddir;—gwir; ond os ydyw y gymhariaeth mor ofnadwy, beth raid fod y peth ei hun?

(2.) Y mae perthynas rhyngom ni âg ef yr awr hon, os yn ein cyflwr natur. Yr ydym "dan ddigofaint,"—"yn blant digofaint" yn awr;—"y digofaint sydd ar ddyfod" ydyw y darlun yn y cwmwl; ond nid yno y bydd byth. "Daeth dydd mawr ei ddigter Ef," fydd y gwirionedd rywbryd. Y ddedfryd ydyw hi yn awr, heb ei gweinyddu; ond y mae y troseddwr dani bob moment; am hyny, dywedir "ein bod dan felldith." Fel y disgrifia Moses Israel, felly y gellir disgrifio pechadur :—y mae dan felldith ymhob man,—yn y ddinas ac yn y maes;—y mae ei bob peth ef dan felldith; ei ymborth, ei blant, ei gyfoeth; y mae melldith, a thrallod, a cherydd, ar yr oll. Nid ydyw y felldith ddim yn deimladwy yn awr, ond gall ddyfod felly mewn moment; oblegid, beth ydyw ein heinioes? Onid cyffelyb i darth? Un awel a'i chwâl: gwna hyny y digofaint sydd ar ddyfod, yn ddigofaint wedi dyfod.

(3.) Yr elfen nesaf yn y digofaint hwn sydd yn dangos trueni ein cyflwr ydyw ei barhad. Buasai y digofaint a ddisgrifiwyd

yn y geiriau blaenorol yn dra ofnadwy i feddwl am dano am foment; ond pa faint mwy felly ydyw pan y cysylltir parhad âg ef. Y mae yma ofid mawr ar y ddaear; ond y mae un meddwl cysurus yn gydiol âg ef,—y mae y gofid a'r byd yr un hyd: os ydyw yr oes yn fèr, nid all trallod ddim bod yn hir. Ond yn y byd ar ol hwn, y mae y trueni a'r byd yn ddiddiwedd. Y mae cysylltu tragywyddoldeb âg unrhyw beth yn ddigon i'w wneuthur yn beth mawr. Pe unid y lleiaf o drallodau y ddaear â thragywyddoldeb, gwnai hyny ef yn y fan yn ofnadwy; ond beth fydd cysylltu trueni anmhosibl ei ddisgrifio o ran maint, a byd anmhosibl ei ddisgrifio o ran parhad,—*mesur digofaint Duw âg oes Duw?* Nid ydym wrth siarad am dragywyddoldeb, ond yn chwareu â geiriau: ni fedrwn gysylltu meddyliau â hwynt. Pa fodd y gallwn ni sydd wedi arfer mesur pob peth ffurfio yr un dychymyg am beth anfesuradwy? Beth a allwn ni sydd wedi arfer rhoddi at, a thynu oddiwrth, ei wybod am fyd nad ellir rhoddi dim ato, a phe tynid miliynau o oesoedd oddiwrtho, a fyddai yr un faint wed'yn? Nid oes a fyno rhif a mesur ddim âg ef. Ni bydd yr hyn fydd wedi myned heibio i'r trigolion am byth, ond megis dim, a llai na dim, o'i gymharu â'r hyn fydd yn ol. Wedi i'r ddaear yma ddiflanu yn y pellder, a'r cof am dani feallai wedi darfod, pe edrychai trigolion tragywyddoldeb yn ol o'r fan bell hono i weled pa faint o'r daith fydd wedi ei theithio, ni byddai hyny ond megis dim o'i gymharu â'r hyn sydd yn ol: mewn gwirionedd, ni byddai dim cymhariaeth rhyngddynt. Dechreuad fydd tragywyddoldeb byth:—cyfres o gychwyniadau. Wrth deithio ar hyd y ddaear y mae genym fyneg-byst i ddangos pa faint a deithiwyd, a pha faint sydd yn ol; ond yn y byd hwnw, pe medrid dywedyd pa faint a deithiwyd, ni fedr neb ddywedyd pa faint sydd yn ol, oblegid fe fydd y cyfan yn ol am byth. Ac â'r byd mawr yna y mae digofaint wedi ei gysylltu. Yr oedd y digofaint mor fawr, fel nad oedd gwiw ei uno â byd bychan fel hwn. Y mae yn rhaid i ddigofaint anfeidrol, yn ei berthynas â chreadur, gael byd *tragywyddol.* Y mae hwn yn feddwl difrifol, fod yn rhaid rhoddi sêl y byd tragywyddol ar greadur cyn y bydd yn gymwys i ddioddef cosb pechod. Nid all llestri digofaint, na llestri cariad, ddim dal i'w llenwi â phethau mor bwysig yn

awyr deneu y ddaear: na, y mae yn rhaid cael *pressure* y byd tragywyddol o'u hamgylch ;—awyr dew y byd hwnw i'w hamgylchu, cyn y daliant yr hyn sydd i'w arllwys iddynt. Nid all cig a gwaed ddim mwynhau cariad, na dioddef digofaint y byd a ddaw. Y mae yn rhaid cael corff ysbrydol mewn undeb âg enaid anfarwol i'r naill a'r llall. Nid oes dim digon o deimlad yn y corff presenol i'r byd tragywyddol. Y mae yn rhaid i'w holl synwyrau a'i deimladau gael eu gwneuthur yn annhraethol fwy bywiog, cyn y bydd yn ddeiliad cymwys i'r byd hwnw. Unwch y meddwl hwn â'r diben,—bod yn rhaid bywiogi teimladau y corff, ac eangu galluoedd yr enaid,—ond i ba beth? Graddau o olwg ar y diben a barodd i geidwad y carchar ofyn, —"Beth sydd raid i mi ei wneuthur, fel y byddwyf gadwedig?"

Nid allwn ni ddim myned yn mhellach na dywedyd am ei faint a'i barhad. Beth ydyw, nis gwyddom. Y mae pob un o'r rhai hyn yn ddigon i'w wneuthur yn arswydus: y maint, pe na buasai parhad; a'r parhad, pe na buasai y maint. Ond y mae y ddau yn anfeidrol; a'r oll a fedrwn ni ei wneuthur âg anfeidroldeb ydyw ei enwi. Ond gallai cadw y ddau air,—digofaint ac anfeidroldeb,—yn y meddwl, arafu ychydig ar gamrau y pechadur anystyriol a rhyfygus. Wel, gan mai hon ydyw ein sefyllfa, oni ddylai teimlad ceidwad y carchar fod yn deimlad ein calonau ninau, a'i gwestiwn ef hefyd ar ein tafodau:—"Beth sydd raid i mi ei wneuthur, fel y byddwyf gadwedig?"

II. Y mae y cwestiwn hwn yn cynwys fod bod yn gadwedig yn beth mawr iawn; neu, mewn geiriau eraill, yn beth anhawdd iawn. Y mae hyn i raddau yn gynwysedig yn y peth cyntaf; oblegid ni buasai y perygl mor fawr, oni bai ei bod yn bur anhawdd ei ochel. Y mae yr hyn y mae bod yn gadwedig yn ei gynwys yn ei berthynas â Duw, ac yn ei berthynas â dyn, yn ei ddangos yn beth mawr.

1. Yn ei berthynas â Duw, y mae yn cynwys fod i'r Deddfroddwr beidio gweinyddu ei dedfryd hi ar y troseddwr;—fod i'r Hwn sydd wedi cysylltu pechod â chosb, ddatod y cysylltiad;—fod i'r Anghyfnewidiol yn ei natur a'i eiriau, gyfnewid yn ngweinyddiad y rhai hyn. Y mae pechadur yn teimlo mai nid peth hawdd ydyw hyn. Onid ydyw trefn yr efengyl,

meddir, yn egluro y dirgelwch? a thrwy ddangos pa fodd y gall y Duw hwn fod yn Dduw cyfiawn, ac yn cyfiawnhau yr annuwiol, onid yw hi yn atal i neb deimlo fel yna? Nag ydyw; oblegid y mae y gydwybod yn dyst yn y fynwes dros y gwirionedd cyntaf, sef mawredd y peth; ond nid oes dim a fyno hi, fel cydwybod naturiol, â'r gwirionedd sydd yn datguddio trefn Duw i wneyd y peth mawr hwn; yn ddim pellach na bod gwybodaeth gyffredinol am dano yn atal anobaith; ac nid bob amser y mae yn gwneyd hyny. Y mae y gydwybod yn sicrhau mai fel y dywed y Bibl y mae yr achos yn bod rhwng dyn a Duw; ond nid all hi ddim sicrhau mai fel y dywed y Bibl y mae pethau yn bod am drefn cadw. Hi a all roddi ei thystiolaeth o blaid deddf, ond nid o blaid efengyl. Mae yn rhaid cael goleuni y nefoedd i'r fynwes i gadarnhau gwirionedd hono. Gerbron Duw y Barnwr, ac nid gerbron Duw yr Achubwr, y mae pob pechadur argyhoeddedig yn ei deimlo ei hun. Y mae y gydwybod yn dywedyd wrtho, y gwna y Duw Hwn gosbi; ond ni ddywed hi ddim y gwna Efe achub. Y mae yn credu y peth cyntaf â'i holl galon; ac er bod tystiolaeth y Bibl ganddo am yr ail, eto am nad ydyw y dystiolaeth hono yn cael ei sicrhau gan ddim yn ei fynwes ei hun, fel ag y mae y llall, y mae yn gofyn, pa fodd y gall y pethau hyn fod. Ni fyn enaid wedi ei ddeffroi ddim ei achub *rywfodd.* Y mae pechadur heb ei oleuo yn meddwl nad gwaeth ganddo ef *pa* fodd, ond iddo gael gochel y lle poenus hwnw; ond yn ei dywyllwch y mae yn siarad, ac yn meddwl, fel yna. Unwaith y goleuir ef, y mae yn rhaid iddo gael gwybod pa fodd y gellir ei gadw; ac y mae yn rhaid i'r drefn a gynygir iddo at hyny gael cymeradwyaeth ei holl enaid ef ei hun. Fel nad ä'i Paul a Silas allan o garchar Philippi heb i'r swyddogion oedd wedi eu rhoddi i mewn eu harwain allan, felly nid ä enaid euog allan o'i garchar yntau, heb i Dduw, sydd wedi ei gloi i mewn, ddyfod i'w ollwng; ac nid ä ar air y Duw hwnw, heb wybod paham. Y mae yn rhaid i'r Ysbryd tragywyddol "lewyrchu goleuni gwybodaeth gogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist" i'r enaid cyn yr ymedy â'r carchar. Y mae goleuni cydwybod ar y ddeddf, yn peri iddo deimlo a gofyn cwestiwn y disgyblion,—"Pwy gan hyny a all fod yn gadwedig?" Ac nid oes ond

goleuni yr Ysbryd ar yr efengyl, a ddaw âg ef i deimlo gwirionedd atebiad yr Arglwydd Iesu,—"Gydâ Duw, pob peth sydd bosibl."

Y mae disgrifiadau y Bibl o'r cyfnewidiad yn ei berthynas â Duw, a'r enwau a roddir arno fel gwaith Duw, yn brofion digonol mai nid teimlad disail ydyw y teimlad sydd yn y fynwes, mai peth mawr ydyw bod yn gadwedig. Y mae yn cael ei briodoli i Dduw, ac yn cael ei ddisgrifio wrth enwau ag sydd yn dangos mai gwaith Duw ydyw. Beth ydyw? Y mae yn greu goleuni, fel yn moreu amser; ac y mae yn rhaid cael yr un "bydded" nerthol i seinio uwchben y galon, ag a seiniodd uwchben y *chaos*—y tryblith annhrefnus yn more y greadigaeth. Y mae yn rhoddi cynydd, fel yn y greadigaeth naturiol. Nid allai holl ffermwyr y ddaear ddim peri i'r un gronyn dyfu: Duw sydd yn rhoddi y cynydd. Y mae yn greu o'r newydd; yn ail eni; yn fywhau. Gweithredoedd Duw ydyw y rhai hyn oll. Y mae y pechadur yn teimlo fod ei gyflwr y fath nad all ond Duw ei gyfnewid. Ac os bydd ganddo ffydd gref yn ngallu Duw, y mae natur yr amgylchiad yn peri nad all fod ganddo ffydd gref yn ei ewyllys. Iaith Manoah, ac nid iaith gwraig Manoah, sydd ar dafod y pechadur:—"Gan farw y byddaf farw; canys gwelais Dduw." Gweled Duw yn ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd, yr oedd Manoah; gweled Duw yn ei ras a'i drugaredd, yr oedd y wraig. Fel Manoah, y mae y pechadur yn gweled gallu Duw, yn esgyniad yr angel yn y fflam dân; ond y mae yn methu gweled ewyllys Duw, mewn perthynas iddo ef, yn nerbyniad yr aberth. Ac nid ydyw y wybodaeth sy ganddo am yr hyn a wnaeth Duw i eraill ddim yn ei atal i deimlo fod ei achubiaeth ef yn beth mawr, os nad anmhosibl. Gwyddai y disgyblion am wyrthiau eu Meistr mawr; ond yr oeddent fel pe buasent yn anghofio y cyfan, pan yr elent i gyfyngder eu hunain, fel nad oedd eu gwybodaeth flaenorol yn gweinyddu dim cysur iddynt. Gwelsent bum mil yn cael eu porthi âg ychydig dorthau; ond pan oedd arnynt eisiau bara eu hunain, methent wybod o ba le y deuai. Gwelsent ef yn achub eraill o'u peryglon mwyaf; ond pan yr aethant i berygl eu hunain, ofnasant am eu bywyd. Yr oedd yn rhaid cael amlygiad newydd o ewyllys a gallu bob tro i'w tawelu. Felly,

feallai y gŵyr dyn fod y Duw mawr wedi gwneuthur gweithredoedd rhyfedd yn y nefoedd uchod, ac ar y ddaear isod;—fod ei drugaredd wedi ei hamlygu goruwch y nefoedd i lawer un; ond yn yr amgylchiad hwn, y mae, fel y disgyblion, y rhai oeddent newydd ganfod pum mil yn cael eu porthi â phum torth, ychydig ddyddiau yn ol,—ac eto y maent yn awr yn methu gwybod yn y byd pa sut y caiff pedair mil eu porthi, er bod ganddynt saith dorth at hyny. "O ba le y caem ni gymaint o fara yn y diffaethwch, fel y digonid tyrfa gymaint?" Felly y mae y pechadur yn barod i ofyn,—"Pe gwnelai Duw ffenestri yn y nefoedd, a fyddai y peth hyn?" Os na ofyna efe y cwestiwn,—"A *all* Duw fy achub?" y mae yn sicr o ofyn, "A *wna* Efe hyny?" Y mae bod yn gadwedig yn beth mawr iawn yn ngolwg pawb sydd yn y goleu.

2. Y mae yr hyn ydyw bod yn gadwedig yn ei berthynas â dyn hefyd yn ei ddangos yn beth mawr. Pa beth sydd yn gynwysedig yn hyny? Newid perthynas dyn â phob peth;—â Duw;—âg ef ei hun;—ac â chreadigaeth Duw. Nid peth hawdd ydyw newid perthynasau fel yna. Y mae Duw wedi gosod trefn pethau yn y fath fodd yn y greadigaeth, fel y mae yn anmhosibl i neb na dim newid ei ddosbarth. Nid all y llysieuyn ddim dyfod yn anifail, na'r anifail yn ddyn, na'r dyn yn angel. Y mae deddf dragywyddol wedi ei gosod gan Dduw, fel nad all y naill ddyfod drosodd at y llall; ond ni byddai eisiau cymaint cyfnewidiad i wneuthur planhigyn yn anifail, yr anifail yn ddyn, a'r dyn yn angel, ag a fyddai i wneuthur pechadur colledig yn un cadwedig gan yr Arglwydd. Y mae y ddeddf sy rhwng gelyniaeth at Dduw a chariad ato, yn gadarnach o lawer na'r hon sy rhwng y planhigyn a'r anifail. Y mae bod yn gadwedig yn gyfnewidiad mor fawr yn y fynwes, fel ag y mae yn greadigaeth orlawn o ryfeddodau. Pe buasai y Duw mawr yn dywedyd cyn *creu* wrth rai o ser y bore, o feibion hynaf y nefoedd, y llanwai Efe yr eangderau hyny â bydoedd,—y gosodai Efe ffurfafen uwchben ffurfafen,—y naill haul a'i *system* o fydoedd i droi o amgylch haul arall,—nid rhyfedd fuasai clywed hwnw yn gofyn:—"Pa fodd y gall y pethau hyn fod?" O ba le y daw y defnyddiau; oblegid y mae creadur yn anghofio o hyd nad oes ar Greawdwr ddim

eisiau defnyddiau. Ond nid mwy cyfnewidiad yn y gwagle oedd hwnyna i feibion Duw, na'r hyn sy raid gymeryd lle yn y fynwes i wneuthur y colledig yn gadwedig. Nid allasai yr angel ddim teimlo mwy o anhawsdra i Dduw lenwi yr eangder â bydoedd, nag y mae y pechadur yn ei deimlo i gael ei galon i ystâd iawn tuag at Dduw. Pe byddai i'r Duw mawr ddywedyd uwchben y fynwes anhapus, mi lanwaf y gwagle hwn â chreadigaeth newydd ;—mi daenaf len berlog o rasusau fy Ysbryd yn ffurfafen iddi ;—mi a'i harddaf â phrenau cyfiawnder, ac â phlanhigion sancteiddrwydd ;—caiff gras ei thoi hi fel gwyrddlesni, a chariad ataf fod yn awyrgylch iddi hi. A! medd y pechadur, o ba le y daw y defnyddiau? Wel, y mae yn wir ei fod yn beth mawr, ond nid anmhosibl ; oblegid nid oes ar Greawdwr ddim eisiau defnyddiau. Y mae yn rhaid i greadur gael sylfaen, a defnyddiau; ond y mae Duw yn gwneyd ei waith o ddim, ac yn ei grogi ar ddiddym; ac er nad oes yna ddefnyddiau i wneuthur y greadigaeth newydd, a phe buasai defnyddiau, nid oes yna yr un sylfaen i'w chynal hi ; ond gall y Duw sydd yn medru ei gwneuthur hi o ddim, ei chrogi hi ar ddiddym. Ond nid yw yr ystyriaeth hon ddim ond dyfnhau y teimlad fod bod yn gadwedig yn beth mawr. Neu,—a dywedyd yr un peth mewn geiriau eraill,—meddyliwch am rywun yn y gynulleidfa hon, sydd yn awr â holl feddylfryd ei galon yn unig yn ddrygionus, a hyny bob amser ;—y mae o'r ddaear yn ddaearol; —nid ydyw Duw yn ei holl feddyliau,—ac ni *all* fod yn y meddwl am foment heb ei gythryblu ;—y mae yn teimlo mai ei nefoedd fyddai bod mewn lle na ddeuai Duw ddim iddo. Pe byddai i Dduw ddywedyd uwchben hwnyna,—Mi gyfnewidiaf fi bob peth yma:—mi adblanaf (*transplant*) y serch yma o'r ddaear i'r nefoedd ;—caiff yr ewyllys yna ymhyfrydu yn fy mhethau i, fel y mae y pysgodyn yn y môr;—mi breswyliaf yn holl feddyliau yr enaid yna, a bydd yn felus ei fyfyrdod am danaf;—fe hiraetha ac a sycheda am fy mhresenoldeb, a'i nefoedd fydd y man lle y caiff o'm cwmni i ;—oni fyddai cyfnewidiad fel hwn yn un mawr iawn? Hyn ydyw bod yn gadwedig. Ni phrofodd neb erioed y cyfnewidiad, heb ei deimlo yn beth mawr; ac un o'r arwyddion mwyaf anobeithiol ar bechadur ydyw ei fod yn meddwl mai *trifle* o beth ydyw bod yn

gadwedig, ac y gwna ychydig oriau ar derfynau deufyd y tro ato. Ond, er ei fod yn beth mawr,—

III. Y mae y cwestiwn yn cynwys ei fod yn beth posibl. Pe na buasai yn bosibl, ni buasai y cwestiwn ddim yn cael ei ofyn. Y mae uffern yn llawn o bechaduriaid argyhoeddedig; ond nid ydyw y cwestiwn hwn byth yn cael ei ofyn yno. "Nid ydym ni gadwedig" ydyw iaith y wlad annedwydd hono. Y mae anmhosibilrwydd y peth wedi difodi gobaith am dano; am hyny nid oes neb yn gofyn,—"Beth sydd i mi ei wneuthur, fel y byddwyf gadwedig?" Ond ar y ddaear, y mae pechadur argyhoeddedig yn teimlo i raddau fod y peth yn bosibl; ond nis gŵyr pa fodd. Y mae ganddo deimlad gwanaidd fod drws i ddianc o'r carchar; ond yn y tywyllwch nis gŵyr pa le y mae. Dau beth sydd yn gwneuthur iachawdwriaeth yn bosibl. Y cyntaf ydyw, Fod trefn i hyny,—ffordd iachawdwriaeth; ac yn ail, fod y ffordd hono wedi ei chyhoeddi i ni,—wedi ei mynegu gan weision y Duw byw. Ni buasai iachawdwriaeth un enaid yn bosibl, oni buasai cael ffordd. Nid ydyw yn bosibl ond i'r rhai sydd wedi gwybod y ffordd. Mae gan weision Crist hawl i ddywedyd wrth eu cynulleidfaoedd,—"Y mae eich iachawdwriaeth chwi oll yn bosibl." Gallant fod yn ddifraw a diofal; gan hyny, y mae ychwaneg na hynyna i'w gyhoeddi,—"Nid oes iachawdwriaeth neb yn sicr, ond yr hwn a gredo." Y mae eich bod yn clywed y gair yn gwneuthur eich iachawdwriaeth yn bosibl; credu y gair a'i gwna yn sicr. Fe gollir miliynau a glywodd; ond ni chollir pwy bynag a gredo. Peidiwch camgymeryd y posibilrwydd hwn. Nid dywedyd yr ydym fod yn *bosibl* i glywed eich achub; ond bod yn *sicr* y gwna credu hyny. Na, hyn yr ydym yn ei ddywedyd:—Y mae eich bod chwi yn clywed y gwirionedd, yn brawf digonol fod yn bosibl i chwi fod yn gadwedig, trwy gredu y gwirionedd. Y mae cyfiawnder yr efengyl yn cael ei bregethu *i* bawb; ond fe fydd *ar* bawb a gredant, yn cuddio gwarth eu noethni. Y mae Crist yn yr efengyl i chwi oll; ond y mae credu yn ei ddwyn yn Grist *ynoch* chwi eich hunan yn obaith y gogoniant. Ond y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng gwâg siarad y pechadur iach am y posibilrwydd o fod yn gadwedig, ac ymofyniad pryderus yr hwn sydd yn teimlo ei bechodau fel mynyddoedd o blwm. Pe byddai

mwy o deimlad o berygl y sefyllfa, ac o fawredd bod yn gadwedig, byddai llawer llai o wâg-siarad am y posibilrwydd. Dyna ydyw y posibilrwydd i'r argyhoeddedig ;—careg iddo gamu o ganol yr afon wyllt i dir sych sicrwydd yr ochr draw ;—mynegbost ydyw i'w gyfeirio o'r perygl i'r ddinas noddfa. Ond, gyda degau a fynent, debygid, ymofyn â ni i wybod a ydyw y peth yn bosibl, nid ydyw yr amheuaeth hwn sydd yn eu meddwl ynghylch y posibilrwydd yn ddim ond meddyglyn i syfrdanu y gydwybod iddynt gael llonydd i gysgu yn eu pechodau. A ydyw y perygl y buom ni yn son am dano ddim yn ddigon mawr i'ch cyfiawnhau chwi i fynu gwybod trwy brofiad, ai i chwi y bwriadwyd y drefn sydd i'w ochel? A ydyw eich eneidiau ddim yn ddigon eu gwerth i chwi benderfynu, fel y deillion hyny, os eich gomedd fydd raid, y mynwch chwi gael eich gomedd gan y Gŵr ei Hun,—nid gan y dyrfa. Pe byddai tyrfa y disgyblion yn y lle hwn yn tystio mai ofer fyddai eich gwaith chwi yn llefain arno ;—pe byddai y Gŵr ei Hun, fel gyda'r wraig o Ganaan, yn gwbl ddisylw o honoch ;—y mae enaid mor werthfawr,—digofaint mor ofnadwy,—tragywyddoldeb mor hir, —fel mai doethineb fyddai i chwi barhau hyd nes y dywedo Efe â'i enau ei Hun, nad ysgrifenwyd mo'ch enw chwi yn llyfr ei arfaeth,—nad oes dim darpariaeth yn ei angau ar eich cyfer,—na lle yn ei nefoedd wedi ei barotoi i chwi. Ond nid hyn fyddai ei ateb i'ch cwestiwn: nage, nage; ond "Cred yn yr Arglwydd Iesu, a chadwedig fyddi, ti a'th deulu." Feallai fod yma rywun yn barod i ddywedyd,—Paham na buasech chwi yn pregethu ar yr adnod yna? Y mae honyna yn llawn efengyl, —yn lle cyhoeddi bygythion a tharanau i geisio ein dychrynu ni? Paham? Gofynwch i'ch cydwybod eich hun. Dylasai eich agwedd chwi fod yn bregeth ar y testyn hwn: yna ni buasai raid i ni ddywedyd gair arno. Cawswn wneuthur peth fuasai yn fwy dymunol i'm teimlad o lawer ;—son am Geidwad a'i gariad. Ond yr ydym yn gwneuthur hyny yn aml, ac yn llafurio yn gwbl ofer: y mae llawer yn sathru ar y dîl mêl.—Dyma ni yn ymadael unwaith eto. Ni wn i ddim a oes yma neb yn teimlo ychydig oddiwrth gwestiwn y testyn. Duw a ŵyr. Feallai fod yma lawer na theimlant byth mo hono; ond nid oes yma neb na theimla, yn hwyr neu yn hwyrach, y mater cyntaf

fu dan sylw,—y perygl. Ond pe byddai yma un pechadur âg un radd o deimlad, melus gan hwnw fyddai clywed am ffordd gwaredigaeth:—"Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi."

[Tachwedd 25ain, 1847.]

# PREGETH XLIII.

## PECHOD YN GAM A'R ENAID.

DIARHEBION VIII. 36 :—"Ond y neb a becho yn fy erbyn, a wna gam â'i enaid ei hun ; fy holl gasëion a garant angau."

Y MAE synied yn gywir am bechod o gymaint pwys ag ydyw gwneuthur hyny am drefn i gael gwaredigaeth oddiwrtho; ac y mae yn anmhosibl barnu yn gywir am drefn y waredigaeth, heb wneuthur hyny yn gyntaf am bechod. Fe brisir y feddyginiaeth yn gyfatebol i'r meddwl sy genym am natur y pla ; ac y mae y Bibl, er mwyn dangos gwerth y feddyginiaeth, yn rhoddi goleuni i ni hefyd ar natur farwol yr afiechyd. Y mae yn rhoddi y ddeddf yn gyntaf i adnabod pechod, i'n parotoi ni tuag at ganfod gwerth yr efengyl, sydd yn gwaredu oddiwrtho. Yr oedd pechod yn y byd cyn i'r drefn i'w symud gael ei hamlygu; ond er bod dynion yn ymwybodol o'i fodolaeth, ni buasai neb yn ei adwaen yn iawn, oni bai i'r un goleuni ag a ddangosodd y ffynon, ddangos yr aflendid hefyd. Yr oedd trachwant yn mynwes yr apostol cyn i oleuni y ddeddf ddyfod yno ; ond ni buasai yn ei adwaen heb hwnw. Bu y ddeddf a ddangosodd bechod iddo ef, fel ag y mae hi i bawb o'i frodyr, yn athraw at Grist, y Gwaredwr oddi wrtho.

Nid ydym yn cael fawr o oleuni yn y Bibl ar y modd y daeth pechod i'r byd. Y mae yr oracl bron yn ddistaw ar hyn ; ac nid ydyw doethion y ddaear, er penderfynu mynu gwybod, ddim yn llwyddo. Y mae ei ddyfodiad i'r byd yn un o'r dirgeledigaethau sydd yn perthyn i'r Arglwydd : y cwbl bron a wyddom ni am hyn ydyw, ein bod ni yn bechaduriaid ; a phan apelir at ein cydwybodau, yr ydym yn teimlo nad oes neb i'w

feio am hyny ond ni ein hunain. Os gellir dwyn y deall trwy ymresymu i edrych ar bechod fel anffawd, y mae yn anmhosibl dwyn y gydwybod i edrych arno yn ddim amgen na bai. Pa fodd bynag y daeth pechod i mewn, y mae ein mynwes ni yn tystio mai ein bai ni ydyw ei fod ef yma; ac y mae y testyn yn tystio fod y neb sydd yn ei goledd yn gwneuthur cam â'i enaid ei hun. Yr Arglwydd Iesu, fel y tybir yn gyffredin, sydd wedi llefaru fel hyn o dan yr enw "Doethineb." Y mae ei wrthod Ef,—y gwir Ddoethineb,—yn gam â'r enaid; ac y mae yn gam mor fawr, fel y gellir dywedyd fod y neb sydd yn ei gyflawni yn caru angau. Ond y mae yr ymadrodd hwn yn eithaf priodol i'w gymhwyso at bob pechod. Felly ni a ddefnyddiwn y testyn fel disgrifiad cyffredinol o bechod. Y mae yn erbyn Duw, ac yn gam âg enaid y dyn ei hun.

Y mae pechod bob amser yn rhagdybied deddf; oblegid lle nid oes deddf, nid oes gamwedd. Fel peth croes i ddeddf, annhrefn ydyw pechod; ond nis gall trefn fod, heb Ddeddfroddwr; ac fel y mae pechod yn erbyn Deddfroddwr, y mae yn anufudd-dod, ac yn euogrwydd. Fel y mae pechod yn beth croes i ddeddf, y mae yn gwneuthur y neb fyddo yn euog o hono i ryw fesur yn druenus; ac fel anufudd-dod i Ddeddfroddwr, y mae yn ei roddi yn agored i gosb. Y mae yr annhrefn sydd yn gysylltiedig âg ef yn annedwyddwch ynddo ei hun. Ac y mae y sefyllfa y mae yn rhoddi ei gyflawnwr ynddi, yn un sydd â chosb ynglŷn â hi.

Y mae y Bibl yn dangos pechod yn ei holl gysylltiadau,—Pa beth ydyw, neu pa fodd y mae yn effeithio ar ein perthynas ni â phawb, ac â phob peth? Yr ydym yn ei weled yn ei gychwyn cyntaf, yn chwythu fel awel heintus dros greadigaeth oedd yn deg odiaeth o'r blaen, nes gwywo ei harddwch, a'i throi o fod yn baradwys, i fod i ryw fesur yn anialwch; ei chreaduriaid aneirif hi yn dioddef oddiwrth ei wenwyn:—ei phen gweledig hi, sef dyn, yn lle bod yr hapusaf o'i mewn, y mwyaf truenus ynddi. Y mae wedi ein dieithrio ni oddiwrth ranau eraill yr ymerodraeth y perthynwn iddi. Yr ydym wedi ein cau fel gwahangleifion y tuallan i'r ddinas, ei haflendid yn peri na chawn gymdeithasu â chreaduriaid glân yr ymerodraeth, sydd yn gwneuthur i fyny gymanfa a chynulleidfa y rhai cyntaf-

anedig. Y mae yr Apostol Paul, yn yr wythfed benod o'r Rhufeiniaid, yn disgrifio mewn modd bywiog yr effaith y mae pechod wedi ei gael ar y greadigaeth, fel y mae hi oll wedi ei darostwng ganddo i oferedd;—wedi peri fod pob creadur ynddi yn cydocheneidio ac yn cydofidio, am eu bod, yn groes i'w hewyllys, wedi eu dwyn i ystad na fwriadwyd mo honynt iddi; ac y maent yn cael eu gosod allan mor annedwydd ynddi, fel y maent yn sychedu am ddydd datguddiad meibion Duw, sef y pryd y cânt eu rhyddhau o'r ystad gaeth y maent ynddi yn awr. A byddai yn dra phriodol i ddyn, wrth edrych ar wedd y greadigaeth afresymol,—yr annedwyddwch a'r dioddef sydd ynddi oblegid pechod, fabwysiadu iaith Dafydd, pan oedd Israel yn cael eu lladd am ei waith ef yn rhifo y bobl:—"Wele, myfi a bechais, ac a wnaethum yn ddrygionus; ond y defaid hyn, beth a wnaethant hwy?" Ond nid yw ffieidd-dra mwyaf pechod ddim yn y golwg eto: y mae yn erbyn y greadigaeth ddireswm,—y mae yn erbyn dyn; ond peth sy fwy na hyn, y mae yn erbyn Duw;—y mae yn ymladd â'r Brenin, ac â'i holl ddeiliaid hefyd. Pe gallai, fe wnai yr un peth i Dduw ag y mae yn ei wneuthur i'r greadigaeth: y mae pechod yn gam â phawb,—yn gam â'r greadigaeth,—yn gam â dyn,—yn gam â Duw. I'r fan hon y mae Ysbryd Duw yn dwyn pawb sydd yn cael eu hargyhoeddi o hono:—"Yn dy erbyn di, dydi dy hunan y pechais, ac y gwnaethum y drwg hwn yn dy olwg." Ond beth ydyw mawredd ei ddrwg yn yr ystyr olaf hon nis gwyddom; ac y mae yn anmhosibl i ni allu ei fesur, oni bai i ni allu mesur maint y daioni a'r hapusrwydd anfeidrol y mae ê yn amcanu ei ddinystrio. Os ydyw meddwl felly yn oddefol,—beth pe llwyddai pechod yn ei amcan gydâ Duw, fel y llwyddodd gyda chreadur? Fe wnaeth angel yn ddiafol, sef gwneuthur un nad oedd yn ymhyfrydu mewn dim ond cynyrchu hapusrwydd, i ymhyfrydu mewn drwg a dinystr;—i ddefnyddio pob gallu oedd ganddo yn fantais i gynyrchu anhapusrwydd. Beth pe buasai pechod yn llwyddo i wneuthur yr un peth i Dduw,—i wneyd Bôd anfeidrol yn un drwg;—na buasai yn defnyddio ei hollwybodaeth i ddim ond i chwilio am gyfle i gynyrchu trueni;—na buasai yn defnyddio ei hollbresenoldeb i ddim ond fel cyfleusdra i wneuthur drwg; na buasai ei fraich

byth yn cael ei hestyn allan ond i boeni ; y buasai ei holl ymwneyd â phawb yn cynyrchu galar, gruddfan, a gwae? Buasai gwneuthur un mor fawr yn un drwg yn ysgelerder tuhwnt i allu neb ei amgyffred. Pa faint o drueni a ddaeth oddiwrth wneuthur un angel yn un drwg? buasai pechod yn gwneuthur *Duw* felly pe gallasai. Neu, os edrychwn ar bechod yn erbyn Duw, fel y mae yn wrthryfel yn erbyn Brenin. Amcan gwrthryfelwyr ydyw diorseddu y brenin. Beth pe llwyddai pechod yn ei amcan i wneuthur gorsedd y greadigaeth yn wâg,—i'w gwneuthur hi, fel gwlad Israel pan nad oedd brenin ynddi, y gallai pob un wneuthur yr hyn oedd uniawn yn ei olwg ei hun? Pwy allai fyw yma wedi hyny? oblegid o'r orsedd y mae hyny o drefn ac hapusrwydd sydd yma yn dyfod. Grym yr orsedd sydd yn troi y felldith yn fendith, ac yn dywedyd wrth yr annhrefn, hyd yma y deui, ac nid yn mhellach. Beth fyddai rhoddi eu llawn ryddid i ddiafol ac i'w angylion? Beth fyddai tynu pob atalfa oddiar ddrygioni y galon ddynol? Onid cyffelyb fyddai i agoriad y pydew heb waelod yn llyfr y Datguddiad? Yr oedd y poenau a ddilynodd ei agoriad yn peri i ddynion chwenychu marw, a chwilio am angau fel am drysorau cuddiedig: hynyna fyddai diorseddu y Brenin. Edrychwch ar bechod yn erbyn Duw, sef yn erbyn ei natur, yn erbyn ei fôd Ef; a meddyliwch, er mwyn gweled ei ddrwg, ei fod yn cyraedd ei amcan, ac yn ei ddifodi ; i gael golwg ar beth a fyddai drwg hyny, meddyliwch beth ydyw Duw,—pa faint ydyw y daioni annherfynol sydd ynddo,—beth yw y diluw o ddaioni sydd yn cael ei gyfranu ganddo bob moment! Neu, yr hyn a rydd olwg gywirach i ni ar y mawredd sydd ynddo, fydd ystyried ei fod wedi bod yn ddigon iddo ei Hun er tragywyddoldeb. Yr oedd Dafydd yn dywedyd na cheisiai efe neb gydag Ef i'w wneuthur yn ddedwydd: "ar y ddaear ni ewyllysiais neb gyda thi." Ond gallasai efe fod byth heb geisio neb ond Ef ei Hun, a byw arno ei Hun heb ball. Y mae enaid dyn, er mor ddiddym creadur ydyw, yn gyfryw, nid yn unig nad ydyw ei hun ddim yn ddigon iddo ei hun, ond nad ydyw y greadigaeth oll ddim yn ddigon iddo ef. Nid ydyw ei ddeall ond pŵl ; eto nid oes digon iddo yn un man y tuallan i Dduw. Er nad yw ei serch ond cyfyng ; eto nid oes digon iddo i'w garu mewn un man tu

allan i Dduw. Os ydyw galluoedd mor derfynol a rhai enaid dyn, yn gofyn cymaint i'w digoni, beth raid fod angen y deall anfeidrol? Pa faint o hawddgarwch sy raid ei gael cyn y dywed y galon ddwyfol, Digon yw? Ond y mae Duw mor fawr, fel ag y mae Efe yn ddigon iddo ei Hun —wedi bod felly erioed, fe fydd felly byth. Ond pe llwyddai pechod yn ei amcan, fe roddai derfyn ar yr holl hapusrwydd hwn. Yr oedd gweision Dafydd yn dywedyd ei fod ef fel deng mil o honynt hwy, hyny yw, y byddai yn well i ddeng mil o honynt hwy gael eu lladd nag iddo ef: felly ni buasai dinystrio y greadigaeth oll ond llai na dim wrth yr hyn yr oedd pechod yn ei amcanu. Ni byddai diffodd holl dân y ddaear fawr o beth, mewn cymhariaeth i ddiffodd yr haul. Ni byddai sychu pob afon fawr o beth, at leibio i fyny y moroedd. Ni buasai dinystrio creadigaeth ond ysgafnach na gwegi, wrth ddifodi y Creawdwr. Eto y mae pechod, fel y mae yn erbyn Duw, yn amcanu at hyny. Pe ynganai tafod y gwrthryfelwr iaith ei galon, dyna fyddai:—"O! na byddai yr un Duw!" Nid yw dyn ddim yn meddwl mor ysgeler yw y gwaith y mae yn ei gyflawni, mwy nag yr oedd Saul yn tybied fod ei waith yntau yn erlid, yr hyn ydoedd; ond meddai ei Arglwydd wrtho,—"Paham yr wyt yn fy erlid i?" Felly y gofyn Duw i bob pechadur yn rhywle,—"Paham yr wyt yn rhedeg yn y gwddf i mi?" Y mae pechod yn erbyn Duw.

Ond y mae golwg îs na hwnyna ar bechod yn y testyn, sef fel y mae yn erbyn dyn ei hun. Ni a ddylem deimlo am ei fod yn gam â'r greadigaeth,—yn gam â Duw; ond os difater genym hynyna, ai difater genym ein dinystrio ein hunain? Y mae yn gam â ni ein hunain. Yr hyn a *ddylai* gymell dyn at y cwbl ydyw gogoniant Duw. Diben eithaf crefydd ydyw cael dyn i wrthod neu i ddewis pobpeth yn ol fel y byddant yn ogoniant, neu yn ddianrhydedd, i Dduw;—cael dyn i golli ei hun yn Nuw;—i ddywedyd, Nid yr ydwyf fi yn ewyllysio; ond gwneler dy ewyllys di. Ond nis gall ddywedyd hynyna yn groew, nes y bydd crefydd wedi ei pherffeithio. Y mae hi yn ei chymell ei hun oddiar egwyddor îs na honyna, sef, cariad atom ein hunain. Y mae hi yn datguddio cosb y byd a ddaw, er mwyn i'r ofn cosb sydd yn ein natur, beri i ni gilio oddiwrth

y pethau hyny sydd â'r gosb ofnadwy hono ynglŷn â hwynt. Y mae hi yn dangos mwyniant y nef, i edrych a bair i'n cariad ni at ddedwyddwch ddim i ni ymwrthod â'r pethau hyny sydd yn cau dynion allan o'r lle dedwydd hwnw. Ac os ceir ni i gilio oddiwrth bechod oddiar fesur o gariad atom ein hunain, y mae hyny yn ben y llwybr i'n cael i'w gasâu oddiar gariad at Dduw. Os ceir ni i'w wrthod am ei fod yn ein herbyn ni ein hunain, ond odid na arweinir ni gan hyny i gilio oddiwrtho hefyd am ei fod yn erbyn Duw. Y gwirionedd a geisiwn ei wasgu at eich ystyriaeth yn mhellach ydyw, *fod pechod yn gam â'r enaid*, neu *yn erbyn dyn ei hun.* Fe ymddengys hyn os ystyriwn :—

I. Effeithiau pechod ar enaid dyn. II. Fe ymddengys yr un peth, os ystyriwn yr ystâd y mae pechod yn rhoddi yr enaid ynddi.

I. Y mae y dull y mae pechod yn effeithio ar yr enaid yn eglur brofi ei fod yn gam âg ef. Gallasem sylwi fod pechod yn gam â'r enaid, am ei fod yn gam â Duw. Y mae pechod yn drosedd o ddeddf sydd yn ddeddf natur Duw. Nis gallasai, heb ei wadu ei hun, beidio ei rhoddi yn ddeddf i'w greaduriaid. Felly y mae yr un peth ag sydd yn drosedd yn erbyn Duw, yn drosedd yn erbyn y dyn ei hun. Nid yw Duw yn gofyn dim oddiwrthym, nad ydyw peidio ei roddi yn bechod yn ein herbyn ein hun. Wrth ysbeilio Duw yr ydym yn ein tlodi ein hunain. Meddyliwch am bechod fel anufudd-dod i Dduw, ac fel anniolchgarwch iddo, y mae yn gam â Duw yn y ddau olygiad : y mae hefyd yn gam â ni ein hunain. Edrychwch arno fel anufudd-dod: y mae yr enaid yn cael cam, os nad yw yn cael plygu i Dduw. Nid ydyw dyn wedi ei eni yn frenin. Y mae, yn ol cyfansoddiad ei natur, yn un i gael ei lywodraethu ac nid i lywodraethu. Os na rydd efe ufudd-dod i Dduw, nis gall lai na'i roddi i rywun arall. Y mae efe fel y prenau yn nameg Jotham ; y mae yn rhaid iddo gael rhywun i lywodraethu arno. Ond yr oedd y rhai hyny yn ymddwyn yn ddoethach nag ef: wedi gwrthod y swydd o lywodraethu, yr oedd y prenau rhagorol ; dyna paham y cafodd y fieren hi. Ond gwrthod y prenau rhagorol a wnaeth dyn, i gymeryd y fieren. Yn iaith y prophwyd, "gwrthod ffynon y dyfroedd byw i gael y pydewau toredig." Ond y mae dwy egwyddor groes i'w gilydd yn cyd-

gyfarfod yn mynwes dyn; y mae yn caru cydnabod rhywun yn ben; y mae hefyd yn caru bod yn rhydd. Y mae natur caethwas ynddo: y mae natur tywysog ynddo hefyd. I'w wneuthur yn ddedwydd, y mae yn rhaid iddo gael gwasanaethu, ac y mae yn rhaid iddo gael bod yn rhydd hefyd. Ond pa sut y gellir uno y ddau? Y mae dyn yn gwasanaethu ymhob man; ond y mae ei wedd yn profi yn eglur fod y gwasanaeth yn gaethiwed. Nid yw o bwys pwy fydd yr arglwydd, os nad Duw y nefoedd ydyw; caethiwed mewn gwirionedd ydyw y gwasanaeth. Nid oes dim ffyniant i wlad heb lywodraethwr: nid oes yno ddim llwyddiant, os gormes-deyrn fydd ar yr orsedd. Felly yr enaid; ni ffyna yntau ddim heb lywydd; ac y mae yn rhaid bod hwnw yn gyfryw un a Duw. Ni ffynodd enaid erioed o dan lywodraeth neb ond ei lywodraeth Ef; ond y mae hon yn uno i berffeithrwydd y ddau beth sydd yn eisiau ar enaid dyn. Fe gaiff fod yn was ac yn dywysog. Fe fydd dan ddeddf fel caethwas; bydd cyn rhydded, er hyny, a'r angel; oblegid y mae hi yn "berffaith gyfraith rhyddid." Yr oedd ffyniant Israel gynt yn ymddibynu ar eu gwaith yn cydnabod yr Arglwydd yn Frenin: tra y gwnaent hyny, byddai eu gwlad yn llifeirio gan laeth a mêl, a hwythau yn ymlawenychu gan liaws tangnefedd; a pha beth bynag a wnelent yn llwyddo. Ond yr oeddent yn pechu yn eu herbyn eu hun, pan y byddent yn anffyddlawn i'w Brenin cyfreithlawn; 'ni byddai yno gyflog i ddyn, na llôg am anifail:' mewn gair, yr oedd y wlad yn gwywo ymhob ystyr, o Dan i Beersheba. Y mae anufudd-dod i Dduw yn ddinystr mor sicr i enaid, ag ydoedd i Israel gynt. Y mae eich trueni chwi a minau yn dyfod oddiwrth hyn, nad oes genym Frenin iawn. Y mae trigolion Hungari y dyddiau hyn yn ymfudo i'r deyrnas hon, ac i America: paham? ai am nad yw eu gwlad yn un ffrwythlawn? ai am nad yw ei hinsawdd hi yn iach? Nage, nid dyna y paham y maent yn annedwydd; ond llywodraeth ddrwg sydd arnynt: y mae eu holl anhapusrwydd i'w briodoli i hyny. Felly, bod o dan lywodraeth ddrwg ydyw yr achos o'n anhapusrwydd ninau. Yr ydym yn gwneyd cam â ni ein hunain, o eisiau plygu i Dduw. Y mae gwasanaethu neb îs na Duw yn ddarostyngiad ar urddas enaid. Y mae gwasanaeth yn

y deyrnas hon, y mae ei phendefigion mwyaf yn ei ystyried yn urddas ei gael, sef cael rhyw swyddogaeth yn mhalas y frenhines. Buasai cael eu gosod yn yr un lle yn nhŷ dyn cyffredin yn ddirmyg mawr arnynt. Y mae enaid yn cael ei ddarostwng, pa swydd bynag fyddo ganddo, os na bydd ganddo ryw swyddogaeth o dan y Brenin tragywyddol. Yr oedd y prophwyd Jeremiah â'i ben yn ddyfroedd, wrth weled y rhai a feithrinasid mewn ysgarlad yn cofleidio y tomenydd, sef rhai oeddent wedi eu geni i bethau uchel, wedi eu darostwng i'r iselder mwyaf. Pe gwelem ninau bethau yn iawn, byddai ein pen yn ddyfroedd wrth weled un mor urddasol ag enaid, yn gwneuthur peth îs o lawer na chofleidio y tomenydd, sef cyflawni holl negeseuau y diafol. Y mae pechod yn gam âg ef.

2. Neu edrychwch ar bechod fel anniolchgarwch i Dduw. Y mae pechod y Paganiaid yn cael ei grynhoi gan yr apostol i'r un peth hwn: "Ni buont ddiolchgar iddo." Y mae yn gam â Duw, peidio rhoddi y diolch iddo: y mae yn gam â'r enaid, peidio ei roddi. Fe drefnodd yr Arglwydd bron bobpeth y byd i dderbyn a rhoddi; a'r ychydig bethau hyny sydd yn derbyn heb roddi, y mae gwedd wywedig, anhapus (os goddefwch y gair) arnynt. Mor hagr yw gwedd y diffaethwch sydd yn derbyn bob amser, heb roddi dim yn ol. Mor brydferth yw gwedd Môr Galilea ragor y Môr Marw! Y mae y cyntaf yn derbyn ac yn rhoddi, tra y mae yr ail yn derbyn heb roddi. Y mae yr enaid sydd yn derbyn bob amser heb roddi, fel y Môr Marw, â golwg annedwydd arno. Pa bryd y gwelwyd dyn anniolchgar i gymwynaswr, yn ddyn dedwydd? Pa bryd y gwelwyd plentyn anniolchgar i rieni, yn un hapus? Onid mewn diolch y mae dedwyddwch y nefoedd yn gynwysedig? Y mae yn iechyd i enaid gael dywedyd: "Nid i ni, O Arglwydd, nid i ni, ond i'th enw dy hun dod ogoniant." A dyna ydyw rhoddi y gogoniant, sef diolch iddo. Y mae yr enaid sydd yn cadw y gogoniant, yn cadw yr hyn a'i lletha. Yr oedd mab Hilciah yn hoel ar yr hon yr oedd holl ogoniant tŷ ei dad wedi ei grogi: ond y mae enaid yn rhy wan i ddal y gogoniant; os na bydd yn ei gyflwyno i fyny mewn diolchgarwch, fe fydd yn angau iddo. Fe laddodd Herod; fe ladd dy enaid dithau, os na chyflwyni di ef i fyny i Dduw.

Os edrychwch ychydig yn fwy manwl ar effeithiau pechod, chwi a welwch ei fod yn gam â'r enaid,—(1). Am ei fod wedi ei ddieithro ef oddiwrth Dduw. (2). Am ei fod wedi ei wneuthur yn gyfryw nad all ymhyfrydu yn Nuw. Y peth cyntaf yn dal perthynas â'r byd hwn; a'r ail, â'r byd arall;—peri iddo gilio oddiwrth Dduw yma, a'i wneuthur nad all ef ddim bod yn hapus, pan y dygir ef i le nad all ef ddim cilio oddiwrtho, wedi myned oddiyma.

(1). Y mae yn gam â'r enaid am ei fod yn ei ddieithro ef oddiwrth Dduw. Ni welwn ni ddim o faint y cam, heb i ni ystyried beth ydyw Duw i enaid; neu, yn hytrach, dylem ofyn, beth nad ydyw? Y mae yr haul yn llawer i'r ddaear; y mae yr enaid yn llawer i'r corff; ond y mae Duw yn fwy na hyny i'r enaid. Y mae cymhwysder yn ngweithredoedd Duw ymhob man: y naill ran o honynt ar gyfer y llall;—y dwfr a'r pysgod,—yr awyr a'r adar,—y goleu a'r llygad, yn cyfateb i'w gilydd; ond ni *chreodd* Efe ddim ar gyfer enaid; Efe ei Hun oedd i gyfateb iddo ef. Duw oedd i fod yn oll yn oll iddo;—yn destyn ei ddeall,—yn wrthddrych ei serch,—yn Arglwydd ei gydwybod,—yn Llywydd ei ewyllys. Nid oedd yr holl bethau gweledig yn ddim ond esboniad iddo ar Dduw, a mantais iddo i ddal cymundeb âg ef. Ni buasai y pethau a ystyriwn ni yn ddisgrifiadau barddonol, ddim felly i enaid yn ei le. I enaid yn ei le, fe fuasai y môr yn dangos maint llaw yr Anfeidrol;—fe fuasai y nefoedd yn dangos rhychwant y Tragywyddol; y mynyddoedd a'r bryniau yn dangos nerth y fraich hollalluog;—cywreinrwydd y greadigaeth yn dangos doethineb Duw, a gwedd hapus y cwbl yn dangos ei galon. Mewn gair, mantais fuasai pob peth gweledig iddo i weled yr Anweledig, mewn rhai o'i briodoliaethau. Ac os ceisia efe fwynhau rhoddion Duw, ar wahân oddiwrth Dduw, ofer fydd ei waith: fe dry y mwyniant yn chwerwder iddo. Yr oedd gan Absalom lawer o bethau gwerthfawr o'i amgylch pan yn Jerusalem, ar ol dychwelyd o wlad y Philistiaid; ond yr oedd efe yn methu eu gwir fwynhau hwynt, am fod gŵg y brenin arno: felly nid all enaid wir fwynhau dim, ar wahân oddiwrth Dduw: os bydd yn cael melusder ynddynt, y maent yn gadael colyn ar eu hol. Y mae yr hwn a ychwanega wybodaeth, os

bydd hi ar wahân oddiwrth Dduw, yn ychwanegu gofid. Y mae yr hwn a gasglo drysor, os bydd yn cymeryd hyny yn ddiben, yn lle yn foddion i gyraedd y diben uchel o ogoneddu Duw, yn casglu cancr i ysu ei enaid. Y mae holl roddion Duw i enaid wedi ei ddieithro oddiwrtho gan bechod, yn felldith iddo; yn debyg i'r fel y mae holl ddylanwadau y byd naturiol yn niweidiol i ddyn afiach. Pe yr elai dyn sâl iawn allan o'i dŷ ar hirddydd haf, byddai pob peth yn niwed iddo. Yr oedd yr awel, oedd mor adfywiol i'r iach, yn wenwyn iddo ef. Yr oedd pelydrau yr haul, oeddent yn bywiocau yr iach, yn ei ddyddfu ef. Yr oedd miwsig y goedwig, a sï yr elfenau, yn lle llonyddu a thangnefeddu ei deimlad, yr hyn a wnaent i ddyn iach, yn hytrach yn ei wneuthur ef yn annedwydd. Felly y mae holl roddion Duw yn effeithio ar enaid wedi ymddieithro oddiwrtho. Y mae efe yn cael niwed yn y man y buasai angel yn cael ychwanegu ei nerth. Y mae y pethau a fuasent yn fendith i seraph, yn felldith iddo ef. Yn iaith yr apostol, wedi i enaid ymddieithrio oddiwrth fuchedd Duw, hyny yw, wedi iddo geisio byw ar wahân oddiwrth Dduw, y mae yr holl ddylanwadau sydd o'i amgylch yn ei wneuthur yn fwy afiach, nes o'r diwedd y mae yr hwn oedd wedi ei fwriadu, ac wedi ei gymhwyso fel creadur, i ddal cymundeb â'r Anfeidrol, yn plygu i bren a maen; ac yn dywedyd wrth ymlusgiaid, a phedwar-carnolion y ddaear, —Chwi yw fy nuwiau. Y mae pechod yn gam â'r enaid. Nid rhaid i ni wrth dystion fod pechod yn ein dieithrio oddiwrth Dduw. Gwelwch ef, gydâg iddo ddyfod i mewn i'r byd, yn gwneuthur i'r cyfaill, a fyddai yn arfer croesawu ei Arglwydd, ymguddio ymysg prenau y coed rhagddo. Paham y mae mor anhawdd cadw gwybodaeth am Dduw ar y ddaear? Paham y mae dyn wedi myned nad ydyw Duw yn ei holl feddyliau ef? A phaham yr awn ni oddicartref? Trown ein llygaid i mewn, i weled beth yw ei effeithiau arnom ein hunain. Beth yw y gwrthdarawiad sydd yn y fynwes i weddio? Paham yr ydym yn cael ein cythryblu wrth gofio Duw? Paham y mae y rhai sydd yn ymhyfhau mewn pechod yn gyfryw na allant oddef cysegr Duw? A phaham y ceblir cymaint ar yr ychydig bobl druain, dlodion, sydd yn gobeithio yn enw yr Arglwydd? Yr ydych yn gwneuthur mwy o gam â chwi eich hunain nag yr

ydych yn ei feddwl. Nid ydych yn teimlo hyny; ond nid yw hyny ddim yn brawf nad ydyw y cam yn cael ei wneuthur. Y mae ambell ddyn yn gweithio yn moreu ei oes mewn awyr afiach. Nid ydyw yn teimlo dim oddiwrth hyny am flynyddoedd; ond y mae yr awyr ddrwg yn myned yn raddol o dan sylfaeni ei iechyd, ac yn ei ddwyn i'w fedd yn anamserol. Peth fel yna ydyw pechod yn erbyn Duw. Fe effeithia ar dy gyfansoddiad fel yr awyr afiach; fe ä o dan sylfaeni dy iechyd am dragywyddoldeb.

2. Y mae nid yn unig yn dieithro yr enaid oddiwrth Dduw, ond yn ei wneuthur yn gyfryw nad all ef ddim mwynhau Duw; nid yn unig yn ei wneuthur yn un nad ä efe ddim i chwilio am Dduw, ond yn un, pan y daw Duw i chwilio am dano ef, y bydd ei bresenoldeb yn drueni iddo. "Syniad y cnawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw:" nis gall oddef dim o'i bethau; ac erbyn myned i fyd arall bydd hyn o bwys annhraethol. Y mae y Bibl yn ein dysgu fod y byd hwnw yn gyfryw ag y mae yn anmhosibl sugno dedwyddwch o hono, os na ddaw yn ddigyfrwng oddiwrth Dduw. Ac y mae pechod yn gwneuthur yr enaid yn gyfryw ag y gwna presenoldeb Duw ef yn druenus yn y fan. Pe byddai Duw yn y golwg, yn y byd hwn, ni byddai raid myned oddiyma i chwilio am uffern; oblegid bryd bynag y tybia enaid fod Duw yn agosâu, y mae ing angau yn ei feddianu yn y fan. Yr oedd meddwl fod Duw gerllaw, yn troi llawenydd Belsassar yn chwerwach na'r bustl iddo. Yr oedd Pharaoh, pan y teimlodd fod yr Arglwydd yn ymyl, yn gwaeddi, "Ffown!" A dedwyddwch ydyw dedwyddwch y ddaear, sydd yn codi oddiar feddwl fod yr Arglwydd wedi ei gadael hi;—fod Duw yn ddigon pell oddiwrthi. Ac y mae Duw mewn trugaredd yn cadw draw yn awr; yn taflu ei roddion megis dros y mur, ac yn aros ei Hun o'r golwg. Y maent yn dyfod fel yr oedd y manna yn dyfod i'r Israeliaid. Yr oedd hwnw yn dyfod pan yr oeddent hwy yn cysgu: erbyn iddynt godi y bore, byddai yno, ond byddai y Rhoddwr wedi cilio. Felly y mae rhoddion Duw yn dyfod i ninau bob bore o'r newydd: ond y mae y Rhoddwr yn cadw o'r golwg. Pe gwelit ti y llaw sydd yn cyfranu, ti a ddychrynit ormod i fwynhau yr un o'i rhoddion hi. Y mae yr Arglwydd yn ymddwyn

at fyd gwrthryfelgar yn awr, fel y gwnaeth Jacob at Esau: fe anfonodd Jacob yr anrhegion gydâ'i weision, yn lle dyfod â hwynt eu hun, gan ddisgwyl i'r rhoddion feddalhau calon ei frawd at y rhoddwr. Felly y mae yr Arglwydd yn anfon ei roddion i ni gydâ'i weision;—yn anfon ei haul i'n goleuo ni, ac yn ymguddio ei hun tuhwnt i'r cwmwl tywyll;—yn dwyn bara allan o'r ddaear i gynal ein calonau, yn lle ei estyn yn ddigyfrwng i ni bob dydd o'r nef;—yn peri i'r afonydd redeg rhwng y mynyddoedd i'n disychedu, yn lle estyn celyrnaid i ni o hyd yn ol ein hangen;—yn anfon y pryfaid a'r anifeiliaid â gwisgoedd ini, yn lle dyfod â hwynt ei Hun. Yr oedd Efe yn disgwyl i'r ffafrau hyn beri i ni feddwl yn dyner am dano, a'n dwyn i ymholi am y Rhoddwr, gan ddywedyd,—"O na wyddwn pa le y cawn Ef." Ond nid felly y maent yn effeithio. Gan ei fod Ef yn ymguddio, y mae dyn yn ddigon boddlawn, ac yn perswadio ei hun ei fod Ef wedi gadael y ddaear: ïe, y mae yn myned mor bell ag i feddwl nad ydyw yn bod. Ond y mae y byd a ddaw yn wahanol iawn i hwn. Yno y mae Duw yn estyn y rhoddion ei Hun, ac nid yn eu hanfon gyda'r gweision. Nid oes yno yr un *haul* i roddi goleuni: Duw ydyw goleuni y lle; ac os na ellwch chwi fwynhau y goleuni yna, nid oes dim i'w ddisgwyl ond tywyllwch eithaf. Nid taflu rhoddion megis dros y mur y mae Efe yno, ond eu cyfranu yn ddigyfrwng â'i law ei Hun. Os na elli di eu derbyn o'r llaw, y mae yn rhaid i ti fod yn amddifad o honynt am byth. Yma yn unig y gellir mwynhau rhyw ychydig ar roddion Duw, ar wahân oddiwrth y Rhoddwr; ond *yn* Nuw y mae y cwbl i'w fwynhau yno. Nid oes yno ddim y gall enaid ymguddio yn ei gysgod rhag Duw. Fe ymguddiodd Adda ac Efa ymysg prenau yr ardd rhag yr Arglwydd; ac y mae eu holl blant yn hyn yn debyg iddynt. Y maent yn ymguddio yn nghysgod rhywbeth rhag yr Arglwydd; ond yn y byd tragywyddol, nid oes dim i gysgodi. Dyna sydd yn gwneuthur diffaethfaoedd y Dwyrain yn lleoedd mor dost,—nid oes yno na llwyn na chraig i gysgodi rhag pelydrau tanllyd yr haul. Lle fel yna ydyw y byd a ddaw: nid oes yno ddim i gysgodi rhag y Duwdod. Y mae ei bresenoldeb wedi toi y lle, fel y töa y dyfroedd y môr. Y mae ei bresenoldeb yn ei amgylchu, ac yn treiddio i'w holl gonglau, fel y gwna yr

awyr â'r byd hwn. Y mae pob disgrifiad a gawn ni o'r lle, yn dangos fod y presenoldeb dwyfol heb yr un llen yno. "Ger ei fron" y mae "llawenydd;" ar ei "ddeheulaw" y mae "digrifwch;" "o olwg yr Arglwydd" y mae yr orphwysfa yn dyfod;—bod "yn wastadol gydâ'r Arglwydd;" "edrych ar ei wyneb mewn cyfiawnder." "Gweled Duw" ydyw dedwyddwch y lle. Aros mewn anghofio Duw ydyw eich pleser chwi: ni bydd dim hyfrydwch i chwi yn y byd a ddaw, oblegid y mae yn anmhosibl ei anghofio Ef yno. Onid yw anghymwyso enaid, sydd yn myned i fyd llawn o Dduw, i fwynhau y Duw hwnw yn gam âg ef? Y mae y neb sydd yn gwneuthur hyn, mewn gwirionedd, yn "caru angau," Y mae miloedd o'n cydwladwyr yn brysur yn parotoi eu hunain i farw yr ail farwolaeth; oblegid hyny fydd presenoldeb Duw i enaid pechadur diailanedig.

II. Y mae ei fod yn gam â'r enaid yn dyfod i'r golwg, wrth i ni ystyried y sefyllfa y mae pechod yn gosod yr enaid ynddi. Y mae yn gymaint cam yn yr ystyr hwn hefyd, fel y gellir dywedyd fod pawb sydd yn ei gyflawni yn "caru angau;" oblegid y maent yn rhoddi eu hunain mewn sefyllfa nad oes dim ond angau i'w ddisgwyl ynddi. Y mae pechod yn gwneuthur dyn yn fath o Ismaeliad, â'i law yn erbyn pawb, a llaw pawb, o angenrheidrwydd, yn ei erbyn yntau; a buasai yn synwyr i greadur mor ddibynol a dyn, gadw mewn heddwch â phawb, am mai ar ei undeb â rhywun arall y mae ei ddiogelwch ef yn ymddibynu. Y mae rhai ynysoedd bychain yn Môr y Werydd a Môr y Canoldir, cwbl analluog i'w hamddiffyn eu hunain; ond y maent mewn undeb â Lloegr, ac am hyny y maent mor ddiogel â Llundain. Y mae holl nerth y deyrnas hon yn sicrhau amddiffyniad iddynt. Pe torent yr undeb, byddent ar drugaredd rhyw elynion yn y fan. Felly, tra y bu dyn mewn undeb â Duw, yr oedd yn ddiogel; ond wedi iddo wahanu ei hun, wedi iddo dori yr undeb, y mae yn agored i bob peth ymosod arno. *Isolatio* ei hun a fu yn ddinystr i Napoleon Bonaparte; fe dynodd Ewrop oll yn ei ben. Fe dorodd bob undeb rhyngddo ei hun â phawb, gan ddisgwyl medru darostwng pawb; ond trwy dori pob cysylltiad âg eraill, fe ddinystriodd ei hun. Y mae pechod wedi rhoddi dyn mewn sefyllfa

gyffelyb; y mae yntau wedi tynu ymerodraeth Duw i gyd yn ei ben. Nid disgrifiad barddonol, neu ffigwrol, sydd yn disgrifio y greadigaeth fel yn teimlo ei hun mewn caethiwed wrth wasanaethu dyn. Beth ond hyn yw gwrthryfel yr holl greadigaeth ddireswm yn erbyn dyn? Beth ond hyn sydd yn achos y drafferth flin i gael gan y ddaear roddi ychydig gynhaliaeth iddo? Beth ond hyn sydd yn peri i'r elfenau ryfela mor aml yn ei erbyn ef? Y mae ein hoes ni yn un ddiffydd mewn pethau fel hyn. Ni fynant fod y greadigaeth yn teimlo mewn un ystyr oddiwrth yr hyn sydd yn cymeryd lle ynddi. Mynant mai fel y mae yn awr y buasai hi, pe na buasai pechod wedi dyfod i mewn; ac y mae pwy bynag a broffeso grediniaeth wahanol yn cael ei alw yn ofergoelus. Ond fe ddywed y Bibl fod y ddaear wedi ei melldithio oblegid dyn; a bod y felldith hono wedi peri iddi roddi y cwbl iddo megis o'i hanfodd. Trwy chwys ei wyneb y câi ef fwyta bara o honi; ac y mae genym seiliau cryfion i gredu fod yr un felldith wedi effeithio ar bob peth sydd a fyno dyn â hwynt. Y mae pechod wedi ein gosod ni mewn sefyllfa y mae pob peth yn dywedyd wrth Dduw, fel y dywedodd Abisai wrth Dafydd, pan oedd Saul yn cysgu yn y gwersyll:—"Wele dy elyn, gad i mi ei daraw." A pha beth nad ydyw wedi bod weithiau yn was yn llaw Duw i daraw? Yr oedd rhedegwyr Saul yn gomedd rhuthro ar offeiriaid yr Arglwydd yn Nob; nid oedd neb ond y Dōeg hwnw yn ddigon caled i'r gorchwyl. Ond nid gomedd rhuthro ar elynion Duw y mae ei holl weision; na, gorfod gwneyd cymwynas iddynt yn groes i'w hewyllys y maent, fel yr oedd Haman i Mordecai. Nid o'u bodd y maent yn gwasanaethu oferedd, ond oblegid yr hwn a'u darostyngodd. A gallai yr Arglwydd gydâ phriodoldeb ofyn i ddyn, fel y gofynodd y Senacherib balch hwnw i Hezeciah,—"Ar bwy y mae dy hyder di, pan y gwrthryfelaist i'm herbyn i?" Yr oedd hi wedi myned yn galed ar y wraig hono yn llyfr y Datguddiad, pan yn ymryson â'r ddraig; ond fe ddaeth y ddaear i'w chynorthwyo hi. Yr oedd digio Ahab wedi dwyn Elias i gyfyngder mawr, ond daeth yr angel i'w helpio ef; ond pwy a ddaw i helpio dyn? Fe wrthryfelodd Napoleon yn erbyn llywyddion Ffrainc; ond nid cyn iddo wneuthur y fyddin yn ddigon zelog o'i blaid fel y gallasai efe

fentro rhoddi ei hyder ynddi. Ond o holl luoedd y Brenin, nid oes gan ddyn ddim cymaint ag un y gall efe roddi ei hyder ynddo. Datguddio y gwaed a dywalltwyd a wna y ddaear;—'llefain yn ei erbyn a wna y gareg o'r mur, a'r trawst o'r gwaith coed;'—ei fradychu a wna y tywyllwch, gan droi yn oleuni o'i amgylch. Y mae yr holl greaduriaid, o'r rhai iselaf yn nosbarth y creaduriaid direswm, hyd y rhai uchaf yn y greadigaeth resymol, yn barod ar darawiad amrant i ymddwyn tuag ato fel gelyn Duw. Y mae arnaf ofn magu teimlad caled yn eich mynwes at Dduw wrth ddywedyd fel hyn; ond dylai yr ystyriaeth mai ein cydgau i fyny i ffydd yr efengyl ydyw amcan y Bibl wrth ddatguddio i ni ein sefyllfa,—ein cadw ni rhag hyny. Wrth sylwi ar y Bibl, y mae yma eiriau yn cael eu llefaru, yn awr ac eilwaith, sydd yn rhoddi cipolwg i ni ar ein sefyllfa yn ein perthynas â chreadigaeth Duw, a ddylai greu braw ymhob mynwes. Y mae yr angylion drwg yn gedyrn o nerth, ac yn ddoeth odiaeth, ond yn ein herbyn ni yn yr oll a allant. Y mae yr angylion da hefyd, er eu bod yn gwneuthur cymwynasau lawer i ni, ac er eu bod yn llawenychu pan y mae un pechadur yn edifarhau, eto, o angenrheidrwydd, yn ein herbyn. Pa sawl gwaith y mae genym eu hanes yn y Bibl yn dinystrio miloedd o elynion Duw? Ac yn llyfr y Datguddiad, wedi gweinyddu y barnau ar y gelynion, yr ydym yn cael eu bod yn canu Aleliwia, wrth weled mŵg poenedigaeth y gelynion yn esgyn i fyny............ Pryf ydwyf, ac nid gŵr; abwydyn y ddaear; ac, os yn elyn i Dduw, nid oes genyf gyfaill mewn un man;—nid oes neb a dywallta ddeigryn ar fy medd. Fe gân angylion Aleliwia uwchben y fynwent y byddaf yn gorwedd ynddi. Fe deimla yr haul fel un wedi cael rhyddid o garchar, pan na bydd raid iddo roddi goleuni i mi mwy. Fe lawenycha y ddaear pan y ca hi ryddid oddiwrth roddi ei ffrwythau i'm cynal. Fe gân pob creadur, fel pe byddai yn flwyddyn jiwbili arnynt, pan y cânt eu gollwng yn rhydd oddiwrth yr oeredd o weini i mi. Y mae yn hawdd credu fod y neb sydd yn pechu yn erbyn Duw yn gwneyd cam â'i enaid ei hun, gan ei fod yn ei osod mewn sefyllfa fel hon.

Ond y mae y peth mwyaf eto yn ol: y mae pechod wedi gwneyd Duw yn elyn i ni. Fe ddywed y gŵr doeth, Diar. xx

2, fod y neb a gyffröa frenin i ddigofaint, "yn pechu yn erbyn ei enaid ei hun." Y mae pechod wedi cyffroi Duw i ddigofaint, —wedi ei wneuthur ef yn elyn; a chofiwch—

(1.) Mai gelyn trwyadl ydyw Duw. Y mae ambell ddyn nad yw ei gariad na'i gâs o fawr bwys, oblegid pethau hanerog ydynt; ond nid oes dim hanerog yn perthyn i Dduw. Edrychwch arno fel Cyfaill, y mae yn Gyfaill yn yr oll a all, ac yn yr oll a fedd. Y mae ei holl gyfoeth i gael ei ddefnyddio, os bydd raid, dros ei gyfeillion;—ei holl nerth,—fe lwyr noetha ei fwa drostynt;—ei holl ddoethineb, fe dry bob melldith yn fendith, ac a bair i bob peth gydweithio er daioni iddynt. Y mae ei lygad bob amser yn eu gwylied, fel na raid dywedyd,—"Pe buasit ti yma, ni buasai farw fy mrawd." Y mae ei fraich yn barod i'w hamddiffyn; ac nid ffon gorsen ddrylliedig ydyw hi. Y mae ei ddoethineb yn dyrysu cyngor pob Ahitophel sydd yn eu herbyn; ac y mae hono yn gyfryw na bydd perygl y caiff neb achos i ddywedyd, fod y doeth wedi ei ddal yn ei gyfrwysdra. Ië, 'gan fod Duw drostynt, pwy a all fod i'w herbyn?' Cyfaill trwyadl ydyw. Y mae yn elyn felly hefyd. Y mae yr un priodoliaethau yn perthyn i'w ddigofaint ag sydd i'w gariad. Y mae ei hollwybodaeth yn llygad i'w ddigofaint fel i'w gariad. Y mae ei hollalluogrwydd yn fraich i'w ddigofaint fel i'w gariad. Y mae ei holl-bresenoldeb yn fantais i ddangos mawredd ei lid, fel mawredd ei ras. Os gall ei gyfeillion ddywedyd:—"Os yw Duw trosom, pwy a all fod i'n herbyn?" gall ei elynion ddywedyd,—'Os yw Duw yn ein herbyn, pwy a ymladd drosom?' Gelyn trwyadl ydyw.

2. Y mae hefyd yn elyn parhaus. Nid i bechadur, ond i bechod. A thra y bydd cysylltiad rhyngot ti â phechod, bydd Duw yn sicr o fod yn elyn i ti. Y mae rhai, â'u llid yn greulawn am ychydig; ond nid ydyw yr hyn ydynt heddyw, yn un prawf o'r hyn a fyddant yfory. Fe fygodd llid Esau am ychydig yn erbyn Jacob; ond fe giliodd Jacob i Mesopotamia, ac fe oerodd llid ei frawd cyn iddo ddychwelyd. Fe ddigiodd Dafydd yn ddirfawr wrth Absalom; ond nid hir y bu Absalom yn ngwlad y Philistiaid cyn i lid y brenin gilio. Ond "nid dyn yw Duw i ddywedyd celwydd; na mab dyn i edifarhau;" fe fyga ei ddigllonedd Ef yn dragywydd.

3. Y mae yn elyn cyfiawn. Y mae pechod wedi gosod dyn mewn sefyllfa y byddai Duw yn anghyfiawn wrth beidio ymddwyn tuag ato fel gelyn. Ewyllys da yw ei waith yn trugarhau: gallasai beidio. Ond y mae angenrheidrwydd natur arno i gosbi. Byddai raid iddo wadu ei hun, cyn y gallai beidio talu y pwyth i'w holl elynion. Geiriau sobr yw y rhai hyny o eiddo y Salmydd:—"Oni ddychwel yr annuwiol, efe a hoga ei gleddyf; efe a anelodd ei fwa, ac a'i parotôdd;" Salm vii. 2. Nid nwyd ydyw; ond llid seiliedig ar gyfiawnder. Yr oedd yr afon danllyd a welodd Daniel yn dyfod oddi ger ei fron Ef, sef o'i orsedd; a chyfiawnder a barn ydyw seiliau yr orsedd hono. Pe na weinyddid cosb ar elynion, ni allai y neb a fyddai yn eistedd arni farnu y byd;—byddai ei ymherodraeth yn crynu pe gadawai yr un meddwl gwrthryfelgar heb ei gosbi; oblegid trwy gyfiawnder yn unig y sicrheir gorsedd Jehofah, fel pob gorsedd arall. Onid yw yr hwn sydd yn cyffroi Duw i ddigofaint yn gwneyd cam â'i enaid ei hun?

Yr ydych yn gwneyd cam â phawb wrth bechu. Y mae y tad diweddi, yn gwneyd cam â'i deulu: y mae ef yn greulonach wrthynt na'r estrys wrth ei chywion. Y mae y cymydog annuwiol, yn gwneyd cam â'r gymydogaeth. Y mae ei bresenoldeb mewn ardal fel pla yn yr awyr. Y mae pawb fydd yn ei hanadlu hi mewn perygl o'i gael ef. Y mae dyn meddw, yn gwneyd cam â'r dref y mae efe yn byw ynddi. Y mae ei esiampl ddrwg ef yn amlhau pechaduriaid yn y lle. Ond nid yw y cam y mae yn ei wneyd â phawb ond megis dim, o'i gymharu â'r cam y mae yn ei wneyd â'i enaid ei hun. Beth yr ydych yn ei wneuthur wrth bechu? Gosod maglau; ond chwi eich hunain fydd yn cael eich dal ynddynt. Nyddu cainc y rhaff yr ydych, fydd yn eich rhwymo chwi eich hunain. "Ei anwiredd ei hun a ddeil yr annuwiol; efe a ddelir â rhaffau ei bechod ei hun." Chwi a feddyliech ambell fore wrth weled y tarth yn esgyn i fyny, y byddai yn sicr o ddiffodd yr haul; ond cyn y nos y mae yn eglur nad effeithia efe ddim ar yr haul: i'r gwrthwyneb, y mae yn disgyn yn wlaw ar yr un man ag yr esgynodd o hono. Y mae eich pechodau chwithau yn codi fel tarth i ffurfio cymylau i ddiffodd yr haul; O! na, ni wnant ddim i'r Haul;—disgyn yn gawod arnoch chwi eich hunain a

wnant. "Os pechi, pa niwed a wnei di iddo Ef? os aml fydd dy gamweddau, pa beth yr wyt yn ei wneyd iddo Ef?" "Ei anwiredd a ymchwel ar ei ben ei hun."

Ond ni ddylwn dewi heb ofyn, A oes yma neb yn teimlo awydd i gael unioni y cam? Os oes, y mae yn dda genyf gael coffâu yr adnod a lefarodd yr angel wrth Joseph:—"Ti a elwi ei enw Ef Iesu: oblegid Efe a wared ei bobl oddiwrth eu pechodau;" Mat. i. 21. Y mae yn rhaid i bechod suddo; ond nid oes rhaid i bechadur fyned i lawr. Y mae yn rhaid i bechod gael ei gosbi; ond fe all pechadur ddianc. Y mae yn rhaid i bechod gael ei alltudio o ŵydd Duw; ond fe all pechadur gael sefyll ger ei fron. Y mae yn rhaid i'r cymylau yna ddisgyn yn wlaw ar y ddaear; ond nid oes rhaid i ti fod o dan y gawod. Y mae "gŵr fydd megis yn ymguddfa rhag y gwynt, ac yn lloches rhag y dymhestl." Y mae yn rhaid gofyn y ddyled; ond nid oes rhaid i ti fyned i'r carchar; oblegid y mae yna un yn barod i ddywedyd wrth y gofynwr,—"Os ydyw yn dy ddyled di o ddim, cyfrif hyny arnaf fi." A chofiwch mai pechod y pechodau ydyw gwrthod gadael i'r Iesu unioni y cam. Gall Efe ei wneyd i fyny, fel y mae yn erbyn Duw, a gwellâu ei effeithiau arnat ti dy hun. Y mae ganddo aberth yn iawn i Dduw, a balm i tithau; cyfiawnder i dy wneyd yn ddifai gerbron yr orsedd, a sancteiddrwydd hefyd i'th wneyd yn hapus yn y llys. Ond os pechwch chwi yn erbyn yr Iesu, hon fydd eich damnedigaeth chwi am dragywyddoldeb. Fe fydd y cam a gaiff yr enaid o wrthod Ceidwad, yn peri i bob cam arall a wneir âg ef, fyned yn llai na dim yn ei ymyl am byth. Na wnewch i chwi eich hunain y niwed mawr hwn.

[Boreu Mercher, Ionawr 15, 1852].

# PREGETH XLIV.

## DATGUDDIAD Y GYFRAITH A DATGUDDIAD LLYGAID.

SALM CXIX. 18.—"Datguddia fy llygaid, fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di."

FE ddywedir i ni yn y Bibl fod dyn wrth natur yn "rhodio yn y tywyllwch,"—"yn meddiant y tywyllwch,"—ac "yn dywyllwch." Pan ddaeth pechod i'r byd, fe ddaeth dau fath o dywyllwch gydâg ef, sef tywyllwch euogrwydd ar lygad meddwl dyn, fel, pe buasai sylfaen i obaith bywyd tragywyddol i'w chanfod mewn rhyw gŵr, ni allasai dyn syrthiedig ei gweled, am fod euogrwydd fel cèn yn gorchuddio llygaid ei feddwl. Ond yr oedd tywyllwch arall, nid yn unig ar ei lygaid ef, ond ar wrthddrychau bywyd tragywyddol hefyd: am hyny, pe buasai llygaid meddwl dyn syrthiedig mor graff a phan oedd yn uniawn, buasai yn anmhosibl canfod sylfaen i obaith bywyd tragywyddol mewn un man, oblegid yr oedd tywyllwch perffaith wedi gorchuddio achos pechadur. Yr oedd dyn "yn y tywyllwch,"—dyna y gwrthddrychau wedi diflanu o'i olwg. Yr oedd ef "yn dywyllwch" ei hunan,—dyna y gallu i weled wedi ei golli. I wneuthur i fyny y ddau ddiffyg yma, yr oedd dau ddatguddiad yn angenrheidiol, sef datguddiad gwrthddrychau, a datguddiad llygaid. Heb y cyntaf, sef datguddiad y *gwrthddrychau*, buasai yr ail yn ofer; ac heb yr ail, sef y *datguddiad llygaid*, fe fydd y cyntaf yn fyr o ateb ei ddiben.

Y mae un datguddiad wedi ei roddi eisoes, sef o'r gwrthddrychau,—'pethau rhyfedd y gyfraith;' ac yn y testyn, y mae y Salmydd yn gweddio am yr ail, sef y datguddiad llygaid

i weled y pethau rhyfedd:—"Datguddia fy llygaid, fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di."

Datguddiad o Dduw ydyw pob peth natur: amlygiad o Greawdwr ydyw creadigaeth; ac i greadur rhesymol perffaith, yr oedd datguddiad y greadigaeth yn ddatguddiad perffaith. Gwendid a gwagder ydyw creadur; ond gallasai ddarllen yn llyfr creadigaeth, fod yr Hwn a'i gwnaeth hi yn gadarn, yn ddoeth, ac yn dda; oblegid cadernid a doethineb dwyfol, wedi eu bwrw i fold y daioni dwyfol, ydyw creadigaeth. Ond wedi i ddyn bechu, nid oedd creadigaeth yn llefaru yr un iaith wrtho ag a wnai cyn hyny. Er mai yr un nefoedd oedd uwch ben, a'r un ddaear dan draed, eto nid yr un peth oeddent yn ei drosglwyddo i feddwl Adda wedi pechu, a chyn hyny. Wermod oedd ê yn ei gael wedi syrthio, o'r man y byddai yn arfer cael mêl pan yn uniawn. Pan yn uniawn, yr oedd yr oll iddo fel gwlith y bore, yn fendith ddistaw, adfywiol; ond wedi syrthio, yr oedd pob peth yn dangos fod trigianydd y ddaear wedi anfoddloni ei pherchenog. Er bod daioni yn argraffedig ar holl weithredoedd yr Arglwydd, eto ni fedrai dyn syrthiedig ei ganfod; oblegid y mae euogrwydd yn cael effaith felly ar y meddwl, fel na wêl y dyn euog ddim rhagoriaeth yn y gwrthddrych y mae ef wedi troseddu yn ei erbyn. Y mae yn esbonio yr oll fel arwyddion o anfoddlonrwydd a digofaint, am ei fod ef yn teimlo mai hyny ydyw ei haeddiant. Yn lle darllen gogoniant Duw yn y nefoedd, a gwaith ei ddwylaw yn y ffurfafen, yr oedd dyn yn darllen ei dynged dragywyddol ar yr oll. Er bod dydd i ddydd yn traethu ymadrodd, a nos i nos yn dangos gwybodaeth, eto yr oedd pob ymadrodd yr oedd y dydd yn ei draethu, a phob gwybodaeth yr oedd y nos yn ei ddangos, yn lle troi dyn yn ol at Dduw, yn ei alltudio yn mhellach oddiwrth Dduw. Un cadarn ydyw Duw, meddai y nefoedd: gelyn i mi ydyw, meddai y galon euog. Un gogoneddus ydyw Duw, meddai y ffurfafen: selio fy namnedigaeth i y mae hyny, meddai y gydwybod euog.

Y mae pob datguddiad o Dduw yn llawn daioni: ni wyddom ni ddim am un rheswm ond daioni i'w roddi dros y naill a'r llall. O ran dim sydd yn wybyddus i ni, gallasai y Duw oedd wedi bod o dragywyddoldeb heb fod yn Greawdwr, barhau

felly i dragywyddoldeb, oni buasai i'w ddaioni ei gymell i greu. A'r un peth ag a'i cymhellodd i fod yn Greawdwr, a'i cymhellodd Ef hefyd i fod yn Iachawdwr; ond ei fod yn myned o dan enw arall, am fod mwy o hwnw yn dyfod i'r amlwg, sef gras a thrugaredd.

Y mae pob datguddiad o Dduw hefyd yn rhyfedd; oblegid ynddynt oll y mae yr anweledig yn dyfod i ryw raddau yn weledig. Yr oedd pob peth Duw yn anweledig cyn creadigaeth; ond byth er hyny, "y mae ei anweledig bethau Ef" i'w gweled yn y pethau a wnaed. Y mae priodoliaethau y Duw mawr yn anweledig o angenrheidrwydd i greadur: nis gellir eu hadwaen ond wrth eu heffeithiau; a'r gwaith hwnw sydd yn amlygu mwyaf o'r priodoliaethau dwyfol ydyw y datguddiad rhyfeddaf o Dduw. Priodol ynte y gelwir datguddiad y gyfraith yn rhyfeddodau; oblegid yn hwn y gwelir mwyaf o garacter y Duw mawr. "Datguddia fy llygaid, fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di."

Yn awr ni a sylwn ychydig ar y ddau ddatguddiad: datguddiad y gyfraith, a datguddiad llygaid. Y mae y ddau yn ddwyfol,—yn rhyfedd,—ac yn angenrheidiol.—I. Ni a alwn eich sylw at ryfeddodau y cyntaf. II. At yr angenrheidrwydd sydd am yr ail. Ac wrth son a gwrando am y cyntaf, llef ein henaid fyddo am i'r Arglwydd roddi yr ail, nes y byddom yn gweled rhyfeddodau

I. Y mae datguddiad y gyfraith yn rhyfedd, am ei fod tuhwnt i allu dyn ei ganfod. Y mae rheswm dynol wedi cael allan lawer dirgelwch, ond ni chafodd ê ddim allan ond oedd eisoes yn bod. Gwaith Creawdwr ydyw dwyn pethau i fôd. Eithaf creadur ydyw sefyll ac edrych ar y pethau hyny. Duw sydd yn ysgrifenu: darllen yr ysgrifen, a mynegu ei deongliad, ydyw gwaith dyn. Yr oedd holl gynwys y gyfraith yn ddoethineb guddiedig oddiwrth y rheswm dynol, fel na welodd llygaid yr un philosophydd ddim o honi. Ni chlywodd clust yr un o'r doethion son am dani; ac ni ddaeth i galon y dychmygwr cywreiniaf ar y ddaear feddwl am y fath beth, a darpariaeth Duw i'r rhai a'i carant Ef.

Fe adawodd yr Arglwydd, i ryw ddibenion doeth, y byd oll, ond rhan fir fechan Israel, am bedair mil o flynyddoedd, yn

amddifad o bethau rhyfedd y gyfraith ; ond yn ystod yr amser maith hwnw, nid adnabu y byd drwy ddoethineb mo Dduw. A phe buasai yn bosibl i reswm dynol adwaen Duw fel Duw iachawdwriaeth, heb ddatguddiad, buasai yn sicr o wneuthur hyny rywbryd yn yr ysbaid maith hwnw, oblegid ni bu y meddwl dynol erioed yn gryfach neu yn fwy bywiog nag yr oedd y pryd hyny. Y mae cynyrchion y meddyliau mawrion oeddent ar y ddaear yn y dyddiau hyny, wedi bod yn destynau myfyrdod a syndod i bob oes o hyny hyd yn awr. Nid oeddent ychwaith yn ddiffygiol mewn gwybodaeth o Dduw o eisiau troi eu sylw at hyny ; oblegid hyn oedd gwaith mawr eu bywyd. Yr oedd gweithred y ddeddf yn ysgrifenedig yn eu calonau : y gydwybod yn eu cyhuddo, neu yn eu hesgusodi yn barhaus ;—eu meddyliau yn fynych yn rhodio cilfachau rhyw ddyfnder tuhwnt i derfynau amser. Yr oedd y pethau hyn yn eu cadw yn fywiog drwy eu hoes i geiso cael rhyw ffordd i ddianc gydâ Duw.

Ac feallai na bu y meddwl dynol erioed yn gryfach, os mor gryf, ag ydoedd y pryd hwnw ;—i'r Arglwydd yn ei ddoethineb drefnu fod cewri mewn deall ar y ddaear yn y dyddiau hyny, er mwyn rhoddi prawf i holl oesoedd y ddaear, fod yn anmhosibl i'r byd drwy ddoethineb adnabod Duw. Yr oeddent yn ddoethion ymhob peth arall ; ond ffyliaid oeddent yn hyn. Nid ydym ni, yn yr oes oleu hon, ond yn eu dilyn hwy, a hyny o hirbell, mewn llawer o gelfyddydau a gwybodaethau. Ni allwn ni ddim ysgrifenu barddoniaeth, yn werth ei ddarllen yr un dydd â'u barddoniaeth hwy. Nid yw ein haneswyr ni, ond plant mewn cymhariaeth iddynt hwy ;—ein hareithwyr ffraethaf ni, ond fel Moses safndrwm yn eu hymyl hwy. Ond nid oedd yr areithiwr fyth, yn ei fynydau hapusaf, yn gallu taflu yr un pelydr o oleuni ar y byd a ddaw. Nid oedd ysbrydoliaeth y bardd byth, yn datguddio iddo yr un tremwedd ar sylfaen gobaith bywyd tragywyddol. Ac ymhlith holl ddisgrifiadau cywrain yr hanesydd, nid oedd yno ddisgrifiad, mewn un man, o Iachawdwr i blant angau. Gosodwyd natur ar yr arteithglwyd i gael iddi fynegu ei holl ddirgelion. Yr oedd hithau yn amlygu iddynt y naill *secret* ar ol y llall ; ond pan y gofynid y cwestiwn mawr iddi,—" Pa fodd y cyfiawnheir dyn

gydâ Duw ?"—pa beth a dawela gydwybod euog ? Yr oedd hi mor fud a'r bedd uwchben hwnyna. Pan y gofynid iddi, Pa fath un yw Duw ? Yr oedd hi yn ateb yn y fan,—"Wele, mawr ydyw Duw." Pan y gofynid iddi, Beth oedd ei feddwl am drigolion y ddaear ? yr oedd ei hateb yn gymysglyd i'r cwestiwn yna. Yr oedd y gwlaw o'r nefoedd, a'r tymhorau ffrwythlawn, yn dywedyd mai meddyliau o hedd oedd yn ei fynwes ; ond yr oedd y daran ofnadwy,—y fellten angeuol,—a'r pla marwol, yn dangos fod digofaint yn bod. Ond sibrwd am y perygl oedd eithaf creadigaeth : nid ydoedd gras a thrugaredd ddim yn ei llyfr hi : yr oedd Cyfryngwr, iawn, maddeuant, a chymod, yn eiriau anadnabyddus i'w hiaith hi. Pe buasai hi yn cael ei chadw ar yr arteithglwyd am byth, ni buasai yn yngan yr un o honynt. Dirgelwch cuddiedig oddiwrth bawb oedd rhyfeddodau y gyfraith, ac a fuasent byth, heb i Dduw ei hunan eu datguddio.

2. Y mae cynwys y gyfraith yn rhyfedd ynddo ei hun. Y mae rhai pethau na buasem ni yn gallu eu cael allan, eto wedi i un arall eu dangos, nid ydynt mor rhyfedd wed'yn. Nid felly y gyfraith : y mae ei holl gynwys hi yn rhyfeddodau. Ac nid y lleiaf o'r rhai hyny ydyw, agosrwydd y gyfraith atom. Pan gofiwn ni pwy sydd yn llefaru, y mae iaith Moses yn dyfod yn bur briodol,—"A fu megis y mawrbeth hwn, neu a glybuwyd ei gyffelyb ef: a glybu pobl lais Duw yn llefaru o ganol y tân, fel y clywaist ti, a byw ?" Y mae gagendor mawr rhwng Duw a dyn yn y greadigaeth, fel na all dyn wrth chwilio gael gafael ar Dduw. Er ehedeg i fyny i'r nefoedd, y mae Duw yn uwch : er disgyn i lawr i uffern, y mae Duw yn ddyfnach : er teithio hyd y ddaear, y mae Duw yn hwy : er myned ymlaen at yr amser pan fydd creadigaeth yn ymollwng, nid yw Duw yno i ddyn : er myned yn ol at yr amser yr oedd creadigaeth yn dechreu, ni fedr dyn ei ganfod Ef yno chwaith. Y mae gagendor anfeidrol rhyngddo â Duw ymhob man. Ond yn y gyfraith, y mae y gair yn agos atom,—yn ein genau, hyny yw, yn ein hiaith ;—yn ein calon, hyny yw, y mae yn ddatguddiad y gallwn ni feddwl am dano a'i ddeall. Cyn y gellid astudio y datguddiad cyntaf, yr oedd yn rhaid esgyn i'r nefoedd i wybod ei uchder,—disgyn i uffern i blymio ei dyfnder,—teithio y

ddaear i wybod ei hyd,—croesi y môr i wybod ei led,—ac wedi hyn oll, mor fychan ydyw yr hyn ydym ni yn ei glywed am dano Ef. Yn y greadigaeth, y mae Duw yn guddiedig ac ymhell ;—yn y nefoedd, y mae llawer o'i ogoniant ; y mae yn rhaid i rywun ddringo drosom ni yno, cyn y gallwn ni wybod nemawr am dano. Tuhwnt i'r môr, y mae eraill o'i briodoliaethau wedi eu hamlygu ; y mae yn rhaid i rywun dramwy drosom ni yno, cyn y clywom ni am y rhai hyny. Ond os ydyw Ef ymhell yn y greadigaeth, y mae yn agos iawn atom yn y gyfraith. Os rhaid myned yn uchel i ddarllen cadernid, ac yn isel i ddarllen doethineb, y mae gras a thrugaredd yn agos atom. "Duw, cariad yw," yn ein genau ac yn ein calon, a hwnw "yw gair y ffydd," sydd yn natguddiad y gyfraith. Yr oedd Duw mor bell oddiwrth ei greadur yn y greadigaeth, fel yr oedd y philosophyddion doethaf yn methu, ar ol oes o ymchwiliad, cael gafael arno ; ond y mae Efe mor agos yn y gyfraith, fel y mae plentyn, deng mlwydd oed, yn gwybod mwy am Dduw oddiwrthi hi, nag a wyddai yr athronydd, deng mlwydd a thriugain, oddiwrth y greadigaeth. Y mae yr Arglwydd yn llefaru yn y greadigaeth fel Duw, megis y llefarodd wrth Israel ar Sinai ; ond yn y gyfraith y mae yn llefaru megis dyn, fel y llefarodd wrth Moses, "wyneb yn wyneb."

Ond er mor agos atom ydyw y datguddiad,—y llyfr hwn,—y mae ê wedi costio mwy i'r Awdwr o lawer na'r cyntaf. Nid peth bychan oedd troi daioni yn ras. Ni chostiodd hi ddim i Dduw ysgrifenu "Ydwyf," ond y gair *bydded.* Fe gerfiodd hwnw Hollalluogrwydd ar bob peth ; ond cyn yr oedd yn bosibl ysgrifenu "trugarog a graslawn," ar ol enw y Duw mawr, yr oedd rhywbeth yn angenrheidiol heblaw dywedyd gair. Cyfiawnder yn cusanu daioni sydd yn y greadigaeth ; ond cyfiawnder yn cusanu gras sydd yn y gyfraith. Yr oedd i gyfiawnder a daioni gyfarfod yn rhyfedd ; oblegid nid oedd yno ddim rhwymau ; ond os nad oedd yno rwymau, nid oedd yno ddim rhwystrau ; ond y mae rhwystrau mawrion ar ffordd cyfarfyddiad cyfiawnder a gras ; eto y mae y ddau wedi cydgyfarfod yn y gyfraith : cyfiawnder wedi seilio gorsedd gras ; "fel y teyrnasai gras, trwy gyfiawnder, i fywyd tragywyddol."

Pe na buasai cynwys y gyfraith yn rhyfeddodau, buasai hyny

yn ddigon o brawf, mai nid oddiwrth Dduw y daethai hi: pe na buasai yn cynwys dim ond oedd yn adnabyddus o'r blaen, ni buasai yn angenrheidiol; a buasai hyny yn ddigon o brawf mai nid oddiwrth Dduw y daethai hi. Y mae dirgelwch ynddi o angenrheidrwydd; oblegid y mae hi yn gorfod disgrifio pethau tragywyddoldeb yn iaith y ddaear; am hyny nid ydym yn anghredinwyr wrth ddarllen am wlad lawn o oleuni, heb haul;—gwlad lawn o dân tragywyddol, ac eto yn dywyllwch eithaf;—gwlad lle mae y trigolion oll yn offeiriaid ac yn frenhinoedd, ac eto oll yn wasanaethwyr;—gwlad yn llawn bywiogrwydd, lle nad oes gorphwysdra am foment, ac eto gorphwysdra ydyw enw y wlad. Yn yr olwg ar hyn, ni allwn lai na gweled ynfydrwydd y dynion hyny sydd yn gwrthod y gyfraith am ei bod hi yn rhyfedd: ni chredant hi, am na all eu meddwl bach hwy ei chynwys hi; fel pe buasai eu galluoedd hwy i amgyffred, i fod yn fesur gwirionedd pob peth. Pan y mae dirgelion fyrdd o'n hamgylch ni yn y greadigaeth, y mae ein gwybodaeth fach ni yn annhraethol ry fer i ddeall hyn: nid oes ond cam rhyngom ni â'r niwl yma. Y mae y Duw mawr wedi ysgrifenu ar bobpeth "hyd yma y deui;" a dyma derfynau dy ddeall bach di. Ac a awn ni, sydd yn methu amgyffred dim bron am y byd hwn, i wrthod llyfr sydd yn disgrifio byd arall, am na fedrwn ni ei ddeall oll? Pa sut y gallasai y gyfraith beidio a bod yn rhyfedd? Duw ydyw ei hawdwr hi;—ysbryd a thragvwyddoldeb yw ei threfn hi;—y byd a ddaw y mae hi yn ei disgrifio; ac â thynged dragywyddol dynion y mae a fyno hi.

Y mae y gyfraith wedi gwneuthur â rhyfeddodau y byd ysbrydol, yr un peth ag y mae celfyddyd wedi ei wneuthur â rhyfeddodau y byd naturiol. Y mae doethion y ddaear wedi dyfeisio gwydrau nerthol, trwy gyfrwng pa rai y mae ysbryd dyn yn gallu cymeryd ei daith trwy ranau helaeth o ymherodraeth Duw. Y mae enaid dyn wedi ei rwymo â dwy gadwyn, sef amser a phellder. Y mae y rhai hyn yn ei gadw yn garcharor mewn cell. Dymunasai wybod beth oedd mewn oesoedd pell yn ol; ond yr oedd cadwyn amser am dano, fel na allai fyned yn ol. Fe dorwyd hon gan gelfyddyd, trwy gyfrwng hanesyddiaeth. Y mae yn gallu byw yn yr oesoedd

a aethant heibio. Dymunasai wybod beth oedd i fyny ymysg ser Duw; ond yr oedd cadwyn pellder yn ei gadw rhag hyny. Y mae hon hefyd wedi cael ei dryllio gan gelfyddyd. Y mae drws carchar yr enaid wedi ei agor, nes y mae yn awr yn gallu cymeryd ei daith yn ol, i'r oesoedd a aethant heibio, neu ynte i fyny i blith ser Duw. Y mae un o'r offerynau hyn, a ddefnyddir gan gelfyddyd, yn nerthol iawn i weled ymhell; y mae un arall lawn mor nerthol i weled yn agos: un yn dangos rhyfeddodau yn y nefoedd, na buasem ni ddim yn gallu eu gweled â'r llygad noeth; y llall yn dangos rhyfeddodau ar y ddaear, oeddent yr un mor anweledig i ni a'r lleill. Y mae y naill yn dangos fod y Duw anfeidrol yn gallu gwneuthur pethau mawrion iawn, a'r llall yn dangos ei fod yn gallu gwneuthur pethau bychain iawn. Ar ol edrych drwy y cyntaf, yr ydym yn dywedyd mewn syndod, Beth sydd yn anmhosibl i allu Duw? ar ol edrych drwy yr ail, yr ydym yn dywedyd mewn syndod, Beth sydd yn anmhosibl i ddoethineb Duw? Cyffelyb i'r rhai hyn ydyw y gyfraith. Yr oedd eisiau yr yspienddrych i ddangos rhyfeddodau bydoedd eraill, a'r chwydd-wydr i ddangos rhyfeddodau y byd hwn. Dyma'r gyfraith—yspienddrych i edrych ar dragywyddoldeb, a chwydd-wydr i edrych ar amser. Wrth edrych drwyddi i'r byd a ddaw, ni a welwn dragywyddoldeb yn ei liw ei hun; wrth edrych drwyddi i'r byd hwn, ni a welwn amser yn ei faintioli ei hun. Wrth edrych yn ol drwyddi, y mae hi yn diddymu amser a phellder,—yn tynu tragywyddoldeb i amser; neu, yn hytrach, yn ein dwyn ni o amser iddo ef. Er gadael i'n llygaid grwydro, ni welwn ni ddim o Dduw y Creawdwr mewn un man. Nid oes yr un byd yn hongian yn y gwagle;—nid oes yr un o ser y bore yn canu; ond nid hir y byddwn yn ngwlad y tywyllwch a'r diddymdra yma, cyn clywed y distawrwydd yn cael ei dori;—â'r gair *bydded?* nage; ond â gair anwylach o lawer i bechadur: y Duw mawr yn cyhoeddi ei enw, am y waith gyntaf erioed;—"Myfi yw Duw Hollalluog?" nage;—"Myfi yw Duw y cariad;" "â chariad tragywyddol y'th gerais;" a chyngor hedd fydd rhyngddynt ill dau;" "Pwy a anfonaf" i gyfodi meibion Adda,—i adferu colledigion y codwm? A'r Mab tragywyddol yn ateb,—"Wele fi, anfon fi."

Wrth edrych ymlaen drwyddi, ni a welwn yr angel yn sefyll ar y môr a'r tir, i dyngu na bydd amser mwyach ;—y greadigaeth yn ymollwng ;—y farn yn eistedd ; udgorn Duw yn seinio ;—y llyfrau yn cael eu hagoryd ;—y ddau air pwysig yn cael eu seinio, sydd â thynged dragywyddol meibion Adda ynddynt—"Ewch," a "Deuwch ;"—llywodraeth trugaredd wedi terfynu ;—awenau creadigaeth yn cael eu rhoddi yn nwylaw cyfiawnder pur ;—pob elfen yn cael ei lle ei hun ;—y gymysgfa wedi darfod ;—gagendor anfeidrol rhwng sancteiddrwydd a llygredigaeth ;—a Duw oll yn oll yn ei greadigaeth,—ei lid, neu ei gariad yn llenwi pob cwr o honi.

Wrth edrych drwyddi ar y byd hwn, ni a welwn amser yn ei faintioli a'i bwysigrwydd ei hun. Pa beth ydyw amser ? Y mae ymddygiadau y bydol-ddyn yn dywedyd mai enw arall ar dragywyddoldeb ydyw amser, a bod y byd hwn yr un peth a'r byd a ddaw. Y mae ymddygiadau yr oferddyn yn ateb, fod amser yn beth rhy ddibwys i sylwi arno am foment,—rhy ddiwerth i wneuthur dim defnydd o hono. Ond y mae y gyfraith yn dangos fod y ddau wedi camgymeryd : un yn ei wneuthur yn rhy bwysig, a'r llall yn rhy ysgafn. Lled llaw ydyw o'i gymharu â thragywyddoldeb ; ond pwysig ryfeddol yn ei gysylltiad â thragywyddoldeb. Os mynech chwi ffurfio barn gywir am bethau, edrychwch arnynt drwy'r gyfraith. Tydi, ddyn ieuanc, edrych drwyddi, gydâ Joseph, ar y pechod bychan yna sy bron yn rhy fychan i'r llygad noeth ei ganfod ;—beth ydyw yn awr ? "Y mawr ddrwg hwn." Tydi, yr hunangyfiawn, edrych drwyddi, gydâ Paul, ar y wisg brydferth sy genyt i fyned ynddi i'r byd a ddaw ;—beth ydyw hi yn awr ? "Bratiau budron." Tydi, sydd â'r galon dda, edrych arni gydâ Jeremiah drwy'r gyfraith ;—beth ydyw hi yn awr ? "Mwy ei thwyll na dim, a drwg diobaith ydyw ; pwy a'i hedwyn ?" Tydi, sydd yn ameu llwgr gwreiddiol, edrych gydâ Dafydd ar y natur ddynol yn ei mabandod ;—beth ydyw hi yn awr ? "Mewn anwiredd y'm lluniwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf." Wrth edrych drwyddi i'r nefoedd, mi a welaf y Duw anfeidrol yn cerfio fy ymddygiadau i, bryfyn y llwch, ar lyfrau adamantaidd y byd a ddaw. Wrth edrych drwyddi i fy mynwes, mi a welaf fy nghydwybod fy hun yn

ysgrifenu copi o'r un peth ag sydd yn y nef. Wrth edrych i fyny drwyddi, mi a welaf wedi ei ysgrifenu â phin haiarn cyfiawnder,—"Gwybydd y geilw Duw di i'r farn am hyn oll." Wrth edrych i lawr i waelodion fy nghalon, mi a welaf, er fy syndod, yr un geiriau wedi ei hysgrifenu â rhyw bin nad oes modd dileu ei argraff, yn hono hefyd.

Ond nid oes dim mwy, os cymaint, rhyfeddod yn y gyfraith, a chyfaddasrwydd y pethau y mae hi yn eu dangos yn y byd arall, i'r pethau y mae hi yn eu dangos yn y byd hwn. Wrth edrych drwyddi ar y byd hwn, y mae myrdd o gwestiynau yn ymgynyg i'n meddwl; ond wrth edrych drwyddi ar y byd a ddaw, y mae ateb i'w gael i bob cwestiwn. Wrth edrych ar fy nghalon, yr wyf yn barod i ddywedyd,—"Pwy a ddeall ei gamweddau?" "Amlach ydynt na gwallt fy mhen; am hyny y pallodd fy nghalon ynof." Ond wrth edrych i'r nefoedd, mi a welaf "Oen Duw, yr Hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd." Ar ol edrych i'r ddaear, yr wyf yn barod i ofyn, "â pha beth y deuaf gerbron yr Arglwydd, ac yr ymgrymaf gerbron yr uchel Dduw?" Ond wrth edrych i'r nefoedd, mi a welaf "Oen, megis wedi ei ladd," "ac Efe yw'r iawn." Ar ol edrych ar fy mywyd, yr wyf yn barod i ysgrifenu mewn anobaith,—"Mwy yw fy anwiredd nag y gellir ei faddeu;" ond wrth edrych i fyny, mi a welaf wedi ei gerfio gan ras,—"Ffyddlawn yw Efe a chyfiawn, fel y maddeuo." Os dengys hi enaid duach na'r Ethiop, hi a ddengys hefyd ffynon a all gànu yn wynach na'r eira. Os gwelaf wagder creadur mewn un man, mi a welaf gyflawnder y Duwdod yn y llall. Os gwelaf warth noethni Eden yma, mi a welaf y wisg oreu, cyfiawnder y Duw-ddyn, drwy yr ail. Wrth edrych ar fy nghalon, y mae y ddeddf yn dyfod, ac yn fy lladd i; wrth edrych i'r nefoedd, y mae yr efengyl yn dyfod, ac yn fy mywhau i. "Pethau rhyfedd" y gyfraith—rhyfeddodau yw hi oll. Y mae yn agoriad i agor dorau tragywyddoldeb; yn ganwyll i ddangos beth a gymerodd le cyn i oleuni amser gael ei greu; yn *telescope* i dynu y byd a ddaw i'r ymyl; yn gerbyd i dy drosglwyddo di at orsedd barn. Rhyfeddodau Duw sydd yma;—disgrifiad o nerth braich y Duw cyfiawn,—o burdeb natur y Duw sanctaidd,—o dynerwch calon Duw'r cariad. Yr wyf yn gweled yn y llyfr ryw air

bychan, digon i wneyd uffern i bechadur:—"Cyfiawn yw Duw." Yr wyf yn gweled ynddo ryw air bychan sydd â thragywyddoldeb o drueni i'r halogedig ynddo:—"Sanctaidd yw Duw." Ond y mae yma hefyd ryw air bychan arall, sydd â nefoedd ddiddarfod o hapusrwydd ynddo i'r duaf o feibion Adda:—"Duw, cariad yw." Y mae y Duw sanctaidd, yn Dduw 'r cariad;—y Duw cyfiawn, yn Dduw 'r gras; yr Hwn sydd lanach ei lygad nag y gall edrych ar ddrwg, yn sylwi mewn trugaredd ar yr halogedig;—yr Hwn y mae ei gyfiawnder fel y mynyddoedd cedyrn, yn myned heibio i anwiredd, camwedd, a phechod;—yr Hwn ni ddieuoga yr anwir, yn cyfiawnhau yr annuwiol. Dyma ryfeddodau; ond pwy sydd yn eu gweled hwynt? Pawb? Nage; feallai mai prin haner y gynulleidfa hon sydd yn deall dim a ddywedwyd. Gallwn droi at yr Arglwydd y foment hon, a dywedyd fel Ezeciel gynt,—"O Arglwydd Dduw, y maent hwy yn dywedyd am danaf, Onid damhegion y mae hwn yn eu traethu?" Ni welsom ni ddim tebyg i'r hyn y mae efe yn sôn am dano erioed. Nid yn y wlad hon y mae y dynion â'r galon ddrwg yna yn byw. Yr ydym ninau yn darllen y Bibl, ond ni welsom ni ddim o'r byd a ddaw ynddo erioed;—ni welsom ni ddim tebyg i ddydd y farn ynddo erioed: gan hyny, rhaid mai damhegion y mae hwn yn eu traethu. Beth y mae hyny yn ei brofi?—profi mai damhegion yr ydwyf yn eu traethu? Nage; ond profi yr angen sydd am atebiad i weddi y testyn. Am hyny, cyn myned dim yn mhellach, ni a gydunwn i erfyn,—"Datguddia fy llygad, fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di." Ac y mae hyn yn ein harwain at y peth arall a nodwyd genym:—

II. Yr ail ddatguddiad, a'r angen am dano: "Datguddia fy llygaid, fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di."

Y mae yr ail, fel y cyntaf, yn Ddwyfol. Yr oedd yn rhaid cael yr Ysbryd tragywyddol i roddi y cyntaf, a gwaith yr un Ysbryd yw yr ail. Gwaith Duw *i* ddyn oedd y datguddiad cyntaf; gwaith Duw *ar* ddyn ydyw yr ail. Ond nid ydym wrth sôn am yr ail, yn dywedyd yr un gair yn erbyn perffeithrwydd a chyfaddasrwydd y datguddiad cyntaf. Y mae cyfraith yr Arglwydd yn berffaith, yn troi yr enaid; ond y mae yn rhaid agoryd llygaid y pechadur i'w gweled cyn y bydd hi yn

effeithiol i'w droi. Y mae hyn yn gydffurf â holl weithredoedd yr Arglwydd mewn creadigaeth a rhagluniaeth. Cydgyfarfyddiad dau achos sydd yn cynyrchu yr effaith. Y mae goleuni wedi ei roddi yn y greadigaeth, a llygaid wedi eu rhoddi i ddyn; gweled ydyw,—canlyniad cyd-gyfarfyddiad y ddau. Y mae bywyd yn yr hedyn bach yna; ond y mae yn rhaid cael y ddaear a'r hedyn i gyd-gyfarfod, cyn yr amlygir y bywyd hwnw. Y mae gallu yn y ddaear i ffrwytho, a dwyn llysiau yn hadu hâd; ond y mae yn rhaid cael gwrês yr haul a'r ddaear i gyffwrdd â'u gilydd, cyn y datguddir y gallu hwnw. Y mae y ddau yn berffaith gyfaddas: yn ei hochr hi y mae y gallu i ffrwytho yn berffaith gyfaddas,—y mae yr haul yn berffaith gyfaddas, yn ei ochr yntau: ond ni buasai y naill na'r llall, er eu bod yn berffaith ar wahan, yn cynyrchu yr effaith, heb gyd-gyfarfyddiad y ddau. Cyd-gyfarfyddiad dau beth, yn rhagluniaeth yr Arglwydd, sydd yn cynyrchu yr effaith. Y mae y morwr yn lledu ei hwyliau; y mae yr Arglwydd yn rhoddi yr awel i fyned â'r llestr yn ei blaen. Y mae yr amaethwr yn trin ei faes; y mae y nefoedd yn dyhidlo ei bendithion i beri iddo ffrwytho. Y mae y diwyd yn ymofyn am gyfoeth; y mae bendith yr Arglwydd ar ei ddiwydrwydd yn ei gyfoethogi. Nid ydyw yr athrawiaeth hon yn milwrio dim ychwaith yn erbyn dyledswydd dyn. Y mae calon ddrwg dyn yn casglu at ei hanwiredd o bob man: hi sugna wermod o'r mêl,—angau o fywyd;—y geiriau a fwriadwyd yn arogl bywyd i fywyd, hi a dry y rhai hyny yn arogl marwolaeth i farwolaeth.

"Ond," medd rhywun, "os o'r nefoedd y mae yr oll, y datguddiad cyntaf a'r ail;—os llyfr seliedig a fydd y Bibl, er pob peth a allaf ei wneuthur, nes y symudir y seliau gan Ysbryd Duw;—os na bydd y bygythion yn effeithiol i'm dychrynu, na'r addewidion yn effeithiol i'm diddanu, nes y caf oleuni byd arall;—mi a arosaf yn llonydd yn fy mhechodau, nes y daw y datguddiad llygad." Na, nid dyna y casgliad naturiol oddiwrth y gwirionedd yma. Yn hytrach, O ddyn! hyn ddylai fod dy iaith di:—"Gan mai llyfr seliedig a fydd y Bibl, nes yr agorir fy llygaid;—gan y bydd y pethau sydd yn perthyn i'm heddwch tragywyddol yn guddiedig oddiwrthyf, hyd nes y caf ddatgudd-

iad;—ni adawaf lonydd i'r nefoedd na dydd na nos, ond mi a fyddaf yn trydar yn wastad gerbron yr orsedd,—'Datguddia fy llygaid fel y gwelwyf;' 'Iesu, Fab Dafydd, trugarha wrthyf, a dyro i mi fy ngolwg.'" Y mae gras yn dyfod i gyfarfod dyledswydd. Pan yr ydym mewn ysbryd gweddi yn darllen y gair, y mae genym sail i ddisgwyl i'r Arglwydd agor ein llygaid, i weled rhyfeddodau y gair; oblegid trwy y gair y mae yr Arglwydd yn datguddio y llygaid i weled y gair.

Y mae datguddiad llygaid yn angenrheidiol i ddau beth: 1. I ganfod gwirionedd, neu i sylweddoli, y datguddiad cyntaf. 2. I wneuthur y datguddiad cyntaf yn ein teimlad yn beth personol. Y mae yn angenrheidiol,—

1. I'n galluogi i ganfod gwirionedd y datguddiad cyntaf. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng addef a chredu. Y mae y ffydd sydd yn credu y Bibl, bob amser yn cael ei dilyn gan weithredoedd cydffurf â'r Bibl; ac y mae pawb sydd heb ddatguddiad llygaid i bob diben ymarferol yn anghredu y Bibl. Nid ydyw peth mor bwysig a datguddiad o ewyllys Duw ddim wedi ei anfon i'r ddaear, heb ddigon o brofion mai oddiwrth Dduw y daeth. Y mae cwmwl o dystion o'i amgylch, ac argraff Ddwyfol o'i fewn, yn profi mai nid un o gynyrchion y ddaear ydyw; oblegid, "pwy a ddyry beth glân all o beth aflan?" A fuasai halogedigaeth yn cynyrchu sancteiddrwydd?—celwydd yn esgor ar wirionedd?—*chaos* yn cynyrchu trefn? Neu ddynion llygredig yn gallu ffurfio crefydd, heb ynddi na gŵyrni na thrawsedd?—mor uniawn a Duw,—mor oleu a'r haul,—mor bur a'r nefoedd? Eto, er bod cymaint cwmwl o dystion, y mae rhai yn ei wadu ar eiriau, a miloedd yn ei wadu ar weithredoedd. Yn gyffelyb i'r Iuddewon hyny, er gweled gwyrthiau yr Arglwydd Iesu, eto, yr oeddent yn gallu haeru wedi hyny mai twyllwr oedd. Ond yr oedd yno rai wedi cael datguddiad llygaid i weled ei ogoniant. Gwaith ofer oedd ceisio cael gan y rhai hyny gredu nad yr uniganedig oddiwrth y Tad oedd Iesu o Nazareth. Felly y mae pawb sydd wedi cael datguddiad llygaid i weled rhyfeddodau y gyfraith, yn teimlo ei bod hi yn wirionedd. Unwaith y daw y gwirionedd i'r teimlad, yn ofer y ceisir tywyllu y deall: os gwneir hyny, ni bydd y gelyn ddim nes i gario ei bwnc: fe fydd y gwir yno wed'yn.

Datguddiad llygad sydd yn ein cynysgaeddu ni â'r prawf mwyaf anwrthwynebol o wirionedd y Bibl; oblegid y galon, nid y pen,—y serch, nid y deall,—sydd yn gwneuthur un yn gryf. Y mae canoedd o Gristionogion anllythyrenog yn ein gwlad na wyddant am yr un prawf arall o wirionedd y Bibl. Ynfydrwydd fyddai eu rhoddi i ymresymu âg anffyddiwr am ei wyrthiau a'i brofion hanesiol; fe a'u dyrysa hwynt yn union; ond y mae y Bibl wedi myned i'w calon,—wedi ymweithio drwy eu serch hwynt: am hyny, er bod eu deall yn rhy wan i ddadrys twyll anffyddwyr, y mae eu serch yn eu gwneuthur yn ddigon cryf i farw dros eu Bibl, os bydd raid. Nid oedd y wraig o Samaria ddim wedi bod yn cyferbynu y prophwydoliaethau am y Messiah a hanes bywyd Iesu o Nazarath â'u gilydd, i gael allan mai Efe oedd yr un oedd ar ddyfod. Ni wyddai hi ddim fod yr Hwn oedd yn ymddiddan â hi wedi ei eni yn Bethlehem yn ol prophwydoliaeth Michah;—ei fod wedi trigo yn Nazareth fel y cyflawnid yr hyn a ddywedwyd trwy y prophwydi;—ei fod wedi dechreu ei weinidogaeth yn nghyffiniau Zabulon a Nephthali, yn ol prophwydoliaeth Esay; ei fod yn iachau pob clefyd ac afiechyd, ymhlith y bobl, fel y cyflawnid yr Ysgrythyr, yr hon a ddywed,—"Diau Efe a gymerth ein gwendid ni, ac a ddug ein doluriau." Na, yr oedd y pethau hyn oll yn anadnabyddus iddi hi. Sut y gwyddai hi, ynte, mai Efe oedd y Messiah? Onid oedd Efe wedi darllen ei chalon,—wedi dywedyd yr hyn oll a wnaeth?—gan hyny, rhaid mai Efe ydyw y Crist. Felly pan ddatguddir llygaid pechadur, y mae y Bibl yn darllen ei galon, a phan wna Efe ddirgeloedd ei galon yn amlwg, y mae yn gorfod teimlo fod Duw yn wir ynddo.

Datguddiad llygad sydd yn sylweddoli y Gair,—yn ei wneuthur yn fywiol ac yn nerthol, ac yn llymach nag un cleddyf dau finiog. Goleuni ydyw y Gair ar sefyllfa dyn,—ar garacter Duw,—ar fyd tragywyddol; ond nid yw y goleuni ddim yn bod i'r hwn sydd heb lygaid. Nid yw y greadigaeth yma ddim yn bod i'r meirw sydd yn y fynwent. Nid yw golygfeydd prydferth y ddaear ddim yn bod i bysgod y môr: nid yw rhyfeddodau y dyfnder mawr ddim yn bod i drigolion y tir, am nad oes gan y naill ddim modd i gymdeithasu â'r llall. Y mae

gan bob peth ei awyr briodol ei hun: nis gellir ei weled yn iawn ond yn hono. Os na byddwn ni yn gynefin â byw yn ei awyr, fe fydd gogoniant y peth yn guddiedig o'n golwg ni. Cymerwch ddyn anllythyrenog i weled *painting* gwych,—y mae yn gweled y lliwiau, a dyna'r oll; ond cymerwch luniedydd (*artist*) i'w weled, sydd yn arfer byw yn awyr pethau felly,—sydd wedi cael llygad i weled eu gogoniant,—y mae efe yn canfod lliaws o ryfeddodau na welodd y llall yr un golwg arnynt; felly y mae gan bethau Duw ryw awyr briodol iddynt hwy eu hunain nad all y dyn anianol ddim eu gwybod, oblegid yn ysbrydol y bernir hwynt.

I ffurfio meddwl cywir am beth, y mae yn rhaid gweled y peth hwnw. Pe cymerid dyn wedi ei eni yn ddall trwy'r deyrnas, a phe disgrifid iddo y naill ryfeddod ar ol y llall, byddai yn anmhosibl trosglwyddo syniad cywir i'w feddwl ef am y pethau: nis gall eu gwybod, oblegid trwy y golwg y mae cael meddwl cywir am danynt. Disgrifiwch Bont Menai iddo, am oriau; ond ni byddwch ond yn yr unman yn y diwedd ag yn y dechreu. Ei gweled hi am fynyd, fyddai yn well na chlywed ei disgrifio hi am flwyddyn. Cymerwch ef i'r *Museum* yn Llundain;—enwch liaws o'r rhyfeddodau iddo; disgrifiwch eu lliw a'u llun; ond gwaith ofer yw y cyfan; nid oes ond enwau yn myned i'w feddwl ef;—y mae yn anmhosibl iddo gael syniadau am lun a lliw y gwrthddrych, oblegid drwy'r llygaid yn unig y gall delw y pethau ddyfod i'r meddwl. Wel, y mae rhyw fyd ysbrydol yn bod: y mae ei Haul yn Haul cyfiawnder; ei nefoedd wedi ei britho â gogoniant Duw; ei ryfeddodau yn gyfryw na ddaeth i galon dyn ddychymygu am eu cyffelyb. Y mae ei foroedd yn gariad; ei fwngloddiau yn ras; ei feusydd yn llawn o drysorau gwerthfawr y Duwdod; ei fynyddoedd yn drugaredd, a'u penau yn cyraedd goruwch sêr Duw; ei ffynonau yn fywiol, ei afonydd yn llawn bywyd;—ei awyr yn dangnefedd a heddwch dros byth. Gwaith cenhadon Crist ydyw disgrifio y byd ysbrydol hwn, wrth rai wedi eu geni yn ddall. Yn ofer yr arweinir hwynt i *fuseum* Calfaria, i glywed disgrifio rhyfeddodau cariad Duw: nid oes ond yr enwau yn myned i'w meddwl hwy. Yn ofer y ceisir eu perswadio i brynu y maes sydd â'r trysor ynddo: nis gallant ddirnad am ei

brydferthwch o eisiau ei weled. Beth a drosglwydda bictiwr y nefoedd i galon pechadur, nes ei lenwi âg awydd am fyned yno i fyw? Ei gweled hi. Beth a drosglwydda ddelw uffern i'r enaid, nes arswydo yn dragywydd rhagddi? Golwg arni. Beth a ddaw â'r Iesu mawr i eistedd yn Frenin yn mynwes pechadur? Datguddiad llygaid i weled ei ogoniant. Y mae y byd ysbrydol sydd yn y gyfraith i filoedd fel pe na byddai, o ddiffyg ei weled. Yr oedd y dyn un diwrnod ar drengu gan syched, fel Hagar yn yr anialwch; yr oedd ffynon yn ei ymyl, na buasai yn sychedu yn dragywydd ar ol yfed ei dyfroedd hi. Ond ffynon o'r golwg oedd hi. Y mae, ddiwrnod arall, yn cael ei glwyfo gan "bicellau tanllyd y fall;" y mae eu gwenwyn yn yfed ei ysbryd heddyw; yr oedd tarian yn ei ymyl a fuasai yn y fan yn eu diffoddi hwynt oll; ond tarian o'r golwg oedd hi. Yr oedd yn ddiweddar ymron trengu,—yn methu cael dim ymborth i'w enaid yn yr anialwch: yr oedd manna yn ei ymyl fuasai yn ei ddigoni yn dragywydd: ond manna cuddiedig oddiwrtho ef ydoedd. Yn wyneb y pethau hyn, onid priodol gweddi y testyn,—"Datguddia fy llygaid, fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di?"

(2.) Y mae datguddiad llygaid yn angenrheidiol i wneuthur y cyntaf yn bersonol. Y mae datguddiad y gyfraith yn gyffredinol i bawb: y mae ef hefyd mor bersonol i bob un a phe na byddai a fynai â neb, ond â hwnw. Ond datguddiad llygaid sydd yn ei wneuthur felly. Fel y goleuni yn y greadigaeth naturiol, y mae yn oleuni cyffredinol i bawb: y mae mor briodol i bob un, a phe na byddai yn ddim i neb arall; ond llygaid sydd yn ei wneuthur felly. Y mae pawb sydd yma yn addef gwirionedd y gyfraith, ond y mae yma lawer yn ddiau yn colli eu hunain yn y dyrfa: am hyny, y mae y gwirioneddau mwyaf cyffrous yn myned drwy eu meddwl, fel aderyn drwy yr awyr, heb adael unrhyw effaith parhaus. Os oes yna gynwrf am foment, y mae yr oll yn llonyddu yn union. Ond datguddiad llygaid a wnai i'r dyn feddianu y Bibl ei hun. Nid mynydd yn anialwch Arabia a fyddai Sinai wed'yn; ond mynydd teimladwy, yn llosgi gan dân a chwmwl, a thywyllwch a thymestl, o flaen ei lygaid ef ei hun. Nid gordd yn dryllio gwrandawyr Jeremiah, a fyddai y gwirionedd; ond gordd yn dryllio y graig sydd yn ei fynwes ef ei hun. Nid tân i drigol-

ion Judea, a fyddai y gyfraith; ond tân yn ysu llygredigaeth ei enaid ef ei hun. Y mae yr Iuddewon hyd y dydd heddyw, pan yn darllen Moses, â gorchudd ar eu calon; ac y mae y gorchudd sydd ar yr Iuddewon, wrth ddarllen yr Hen Destament, yn aros heb ei ddatguddio ar filoedd yn Nghymru, wrth ddarllen yr Hen a'r Newydd. Am hyny, y mae y llyfr iddynt fel pe byddai yn llyfr mewn iaith anadnabyddus. Y maent yn ei ddarllen yn debyg fel pe buasai Belsassar yn darllen yr ysgrifen ar galchiad y pared, heb feddwl unwaith mai ei dynged ef oedd yr oll. Nid geiriau gwirionedd a sobrwydd ydyw y Bibl iddynt hwy: damegion ydyw ei ddisgrifiadau mwyaf cyffrous;—ffurf dychymyg y dwyrain ydyw ei fygythion;—rhyw bethau allegawl ydyw ei wyrthiau;—dychymygion barddonol ydyw geiriau cynwysfawr y Salmau;—pictiwr un wedi arwain bywyd aflan ydyw yr unfed Salm ar ddeg a deugain. Ond datguddiad llygaid, a dröai yr oll yn eiriau gwirionedd a sobrwydd: ti a welit dân Duw yn y bygythion; sancteiddrwydd Duw yn y barnau; dy bictiwr dy hun yn y Salm y cyfeiriwyd ati; tydi dy hun a gyfarfyddit ymhob congl o'r gwirionedd wed'yn. Dy gwymp dy hun a welit yn y drydedd o Genesis. Dy dynged dy hun, y sofl sych, yn syrthio i ddwylaw y tân ysol, a welit ti yn ninystr dinasoedd y gwastadedd. Dy berygl di, yr halogedig, i agoshau at y Duw sanctaidd, a welit ti yn marwolaeth Nadab ac Abihu. Beth a welit ti yn Cain, onid cenfigen dy galon dy hun?—yn Haman, onid balchder dy galon dy hun?—yn Judas, onid cybydd-dod dy galon dy hun? Ac ar ol darllen,—"Duw sy ddigllawn beunydd wrth yr annuwiol," ni byddai eisiau yr un Nathan i ddywedyd,—"Ti yw y gŵr."

Hyn sydd yn gwneuthur y gwahaniaeth mawr rhwng dynion;—y mae yr un gwrthddrychau yn cael eu cynyg i'w sylw,—yr un geiriau yn cael eu seinio yn eu clyw; ond y mae enaid un yn ymwneyd â'r pethau, tra y mae enaid y llall yn farw iddynt. Y mae un yn gwrando ac yn ffoi fel Lot o Sodom; y llall yn gwrandaw ac yn cellwair fel ei ddawon, nes cael ei ddal gan y gawod frwmstanaidd. Fe fynegwyd yr un geiriau i Lot ac i'w ddawon; ond yr oedd yr effaith yn wahanol iawn; ond y gwahaniaeth oedd yn y gwrandawyr oedd yn cynyrchu hyny. Felly y mae hi eto; mae un yn darllen,—"Oni ddychwel yr an-

nuwiol, Efe a hoga ei gleddyf," ac yn anghofio yn y fan: y mae y llall yn ei ddarllen ac yn dychwelyd gydâ'r gair. Y mae un yn darllen, "Deuwch ataf fi bawb sydd yn flinderog ac yn llwythog," ac yn ddiystyr yn troi ymaith: y mae y llall yn ei ddarllen, a'i galon yn ateb yn y fan,—"Wele fi yn dyfod." Y geiriau sydd wedi bod yn risiau i un esgyn ar hyd-ddynt i'r nefoedd, a fyddant i'r llall yn bwysau o blwm i'w suddo byth dan lid Duw. Pan oedd Balaam yn myned i felldithio Israel, fe safodd angel yr Arglwydd ar ei ffordd, â chleddyf noeth yn ei law, am mai cyfeiliornus oedd y ffordd hono yn ngolwg yr Arglwydd; ond yr oedd Balaam yn rhuthro ymlaen, am ei fod heb weled yr angel, nes o'r diwedd iddo ddyfod i le mor gyfyng nad oedd modd cilio; a phan welodd Balaam yr angel, fe frawychodd drwyddo. Beth ydyw bygythion y Bibl? Onid angylion Duw â chleddyfau noeth yn eu dwylaw, wedi eu gosod i sefyll ar dy lwybrau? oblegid cyfeiliornus ydyw y ffordd yna yn ngolwg yr Arglwydd. Ond yr wyt ti, fel Balaam, yn rhuthro ymlaen heb weled yr angel, ac feallai yn digio fel yntau wrth ei asen, wrth bwy bynag sydd yn ceisio dy rwystro. Ond, os na agorir dy lygaid yn fuan, y mae y lle cyfyng yn dy ymyl, lle nad oes ffordd i gilio, ac yno fe agorir dy lygaid. Ond peth ofnadwy fydd cael datguddiad llygaid heb un lle i droi, na dim i'w wneuthur, ond syrthio ar gleddyf yr angel—syrthio i afael cynwys y bygythion. Y mae lle cyfleus iawn heddyw, i droi oddiar ffordd y bygythion,—i osgoi cleddyf yr angel; ond y mae hi mor gyfyng ychydig ymlaen, nad oes lle i gilio ar y dde na'r aswy. O! Arglwydd, datguddia ein llygaid, cyn iddi fyned yn rhy ddiweddar,—dangos y perygl tra y mae noddfa i'w chael.

O! y rhyfeddodau sydd yn ein hymyl ni: Rhosyn Saron, yr harddaf o holl rosynau paradwys,—y mae yn tyfu yn ein hymyl;—Seren Bethlehem, y ddisgleiriaf o holl sêr y ffurfafen,—y mae hi yn gymwys uwch ein penau ni. Rhyfeddodau sydd yn cadw y nefoedd yn llawn syndod,—y maent yn yr un mynydd â ni. Ond y mae Rhosyn Saron yn agor ei flodau yn ofer,—y mae Seren Bethlehem yn llewyrchu yn ofer,—y mae holl ryfeddodau mynydd Duw yn ofer i ni: yn ofer y mae yr Iesu mawr yn wyn a gwridog,—yn ofer y mae trefn gras

yn berffeithrwydd tegwch creadigaeth Duw,—yn ofer y bu y Patriarchiaid fyw,—y prophwydodd y prophwydi,— yr efengylodd yr apostolion,—yn ofer y dilenir dirgelwch duwioldeb,—rhyfeddodau Bethlehem, a hynodion y groes,—yn ofer y llewyrcha Haul y Cyfiawnder y dydd, ac y disgleiria Seren Bethlehem y nos,—paham? Cen sydd ar ein llygaid ni. O Arglwydd, datguddia ein llygaid, fel y gwelom bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di.

Pe caem ni atebiad i weddi y testyn, ni byddai raid chwilio am ryfeddodau byth wed'yn. Er cymaint yw syched ein meddwl am rywbeth newydd, y mae yma ddigon i'w dori. Nid oes dim ar y ddaear y gellir dweyd am dano,—"Dyma beth newydd;" oblegid yr hyn "a fu a fydd, a'r hyn a wnaed a wneir;"—y mae yr un pethau yn cael eu hail *actio* drosodd o hyd; ond nid felly y gyfraith;—nid yr hyn a fu a fydd, ydyw ei phethau hi; ond pethau heb eu hail na'u tebyg. Peth fydd yn newydd yn oes oesoedd fydd, bod gan y Duw cyfiawn ffordd i faddeu: peth fydd yn newydd yn dragywydd fydd, bod y Duw sanctaidd yn gallu cyfarfod â'r halogedig yn Dduw mewn hedd. Peth newydd yn y greadigaeth oedd, cael Tad tragywyddoldeb yn blentyn amser: peth newydd yn llywodraeth y Brenin tragywyddol oedd, cosbi y difai, a gollwng yr euog yn rhydd. Peth newydd i angylion oedd, gweled Arglwydd y Bywyd yn marw, a meibion angau yn byw. Pe caem ni ddatguddiad llygaid i weled, byddai pob enaid sydd yma yn addoli yn y fan. Atebiad i weddi y testyn a achubai ein gwlad yn y dyddiau hyn, pan y mae Pabyddiaeth ac anffyddiaeth yn ymosod arni. Ymha le y mae ein diogelwch ni?—bod y Bibl yn nwylaw y wlad? Nage; cael y Bibl i'r galon: yna, ac nid cynt, y byddwn ddiogel. Pe caem ni ein gwrandawyr unwaith i weled gwerth yr un 'Cyfryngwr rhwng Duw y dynion, sef y dyn Crist Iesu,' yn ofer y cynygid Mair a Phedr iddynt wed'yn. Pe caem ni hwynt unwaith i brofi blas maddeuant rhad, byddai yn lled anhawdd cael ganddynt dalu am faddeuant gau wed'yn. Y mae yn hawdd arwain y dall i bob pydew; ond ofer y ceisir hyny â'r hwn sydd a'i lygaid yn agored. Er pob peth, fe ffyna cyfeiliorniadau a phechodau yn Nghymru, hyd oni thywallter arnom yr Ysbryd, i agoryd ein llygaid i weled rhyfeddodau y gyfraith.

Ewch at y gyfraith bob tro, â'r testyn yn eich calon, ac yn eich genau. Ymolchwch bob dydd yn nyfroedd y llyn, oblegid y mae y deillion yn dyfod i weled trwy hyny. Ewch i rodfeydd y gwirionedd bob dydd, oblegid y mae yr Iesu yn arfer dyfod y ffordd hono. Llefwch ar ei ol,—"Fab Dafydd, trugarha wrthyf:" ni lefwch chwi ddim yn ofer. Fe egyr eich llygaid i weled ei ryfeddol oleuni Ef. Yna ni bydd tragywyddoldeb ddim yn rhy hir, i syllu ar ryfeddodau y gyfraith.

[Bore Gwener, Ionawr 7fed, 1847.]

## PREGETH XLV.

### OFNWN, GAN FOD ADDEWID.

HEBREAID IV. 1:—"Ofnwn gan hyny, gan fod addewid wedi ei gadael i ni fyned i mewn i'w orphwysfa ef, rhag bod neb o honoch yn debyg i fod yn ol."

GOBAITH am orphwysfa o ryw fath ydyw bywyd pob ymdrech yn y byd. Tynu y gobaith hwn o'r meddwl a fyddai tynu ymaith bob cymhelliad i lafurio, a gwneyd pob ymdrech yn iau drom. Ond y mae dynion, gydag ychydig eithriadau yn llafurio yn ofer; oblegid nid gorphwysfa ydyw yr hyn y mae eu llygaid arno. Pe cyrhaeddent y lle, teimlent er eu siomedigaeth, eu bod mor bell oddiwrth orphwysfa ag erioed. Ond wedi i ddyn gyraedd y nôd oedd yn ei olwg fel gorphwysfa, y mae naill ai yn cael ei hudo i ymofyn gorphwysfa mewn rhywbeth arall, neu ynte yn ymollwg o ran ei feddwl, ac yn marw yn ei siomedigaeth. Dilyn greddf gref ei natur fel creadur rhesymol y mae, wrth chwilio am orphwysfa; a dilyn tuedd natur lygredig y mae, wrth chwilio am dani mewn man nad yw i'w chael. Ar ol cyraedd y fan, y mae rhyw lais yn dywedyd yn effeithiol,—Nid dyma eich gorphwysfa. Clywed hwnyna a barodd i Alexander wylo, wedi gorchfygu y byd; ac a barodd i lawer un ddywedyd yn siomedig, wedi cyraedd y nôd oedd yn ei olwg:—"Ai dyma y cwbl?" Nid chwilio am orphwysfa ydyw bai dyn; ond chwilio am dani yn y byd hwn yn lle yr hwn addaw; ei cheisio hi mewn creadur ac nid yn Nuw. Fe ddengys y testyn hwn, a'r holl benod, fod gorphwysfa yn bod; gan hyny, nid rhedeg ar ol yr hyn nid yw y mae y meddwl dynol, pan yn chwilio am dani. Yr oedd y Ganaan ddaearol yn orphwysfa; ond y mae yr apostol

yn cymeryd trafferth i argyhoeddi yr Hebreaid, â geiriau yr Hen Destament, fod gorphwysfa arall yn bod, o'r hon nad oedd Canaan ond cysgod anmherffaith. Nid Canaan oedd y wir orphwysfa; oblegid y mae gorphwysfa yn cael ei haddaw yn y Salmau, ar ol i Josua ddwyn y bobl i'r orphwysfa hono; gan hyny, y mae yr apostol yn penderfynu fod gorphwysfa eto yn ol i bobl Dduw, sef yr orphwysfa hono, o olwg yr Arglwydd, sydd yn eu haros yn y byd tragywyddol. Y mae pawb sydd yn myned i mewn i hono, yn cael gorphwysfa ysbrydol yn Nghrist yma, yn ernes o'r orphwysfa sydd eto yn ol.

Y mae y testyn hwn yn cynwys dau wirionedd mewn perthynas i'r orphwysfa, sef bod 'addewid wedi ei gadael i ni fyned i mewn' iddi; ac hefyd fod yr addewid hono yn un sydd yn galw arnom ofni rhag methu myned i mewn. "Gan fod addewid wedi ei gadael,"—dyna y gwirionedd cyntaf; ac y mae yr ail yn seiliedig arno, neu yn gasgliad oddiwrtho,—"Ofnwn." Y mae y testyn yn cau allan ddau beth sydd yn ddinystriol iawn i ddynion, sef anobaith a rhyfyg. Y mae "addewid wedi ei gadael," gan hyny nid oes lle i anobaith. Ond nid yw yr addewid hono yn gyfryw na ddylid ofni rhag syrthio yn fyr o honi,—a dyna gau allan ryfyg. Nid oes neb o wrandawyr cyson yr efengyl yn ameu nad oes gorphwysfa yn bod. Y mae nefoedd ac uffern yn sylweddau yn ein cred, pa un bynag a ydynt felly yn ein teimlad ai peidio. Y mae y byd tragywyddol wedi ei ddwyn i gymaint o oleuni trwy yr efengyl, fel na all neb ameu ei fod, a pharhau i'w gwrandaw hi. Y mae yr amheuwyr sydd yn caru y tywyllwch yn gorfod ymgadw rhag ei goleuni hi fel nad argyhoedder eu gweithredoedd hwynt. Yn un o'r ddau le yma y mae ein perygl ni oll, naill ai ameu a ydyw yr addewid am orphwysfa yn addewid i ni; neu ynte credu, neu cymeryd yn ganiataol ei bod hi felly, ac ymorphwys ar hyny, heb ymdrechu am fyned i mewn iddi. Ameu ein hawl yn yr addewid nes anobeithio; neu gamsynio am natur yr addewid, a rhyfygu. Ac amcan yr ychydig sylwadau a wnawn ni yn awr a fydd, ceisio eich cadw chwi rhag y ddau berygl yna.

I. Ceisiwn ddangos fod addewid wedi ei gadael i ni i fyned i mewn i'w orphwysfa Ef. II. Ceisiwn ddangos fod yr addewid hono yn sail i ofn, rhag i ni syrthio yn fyr o honi.

I. Y mae addewid wedi ei gadael i ni fyned i mewn i'w orphwysfa Ef. Y mae yr apostol yn profi hyn mewn dull tra gwahanol i'r hwn y gwna llawer yn ein dyddiau ni. Yr ydym ni yn myned i chwilio am yr addewid am fywyd i fwriad Duw, neu i iawn y Cyfryngwr ; ac os na allwn ni ddarllen ein henwau yn llyfr y bwriadau, neu ynte gael sicrwydd ein bod o fewn i derfynau yr haeddiant, yr ydym yn methu gweled fod genym ni addewid am fyned i mewn i'w orphwysfa Ef. Ond nid yn y fan yna y mae chwilio am yr addewid, medd yr apostol, ond yn hytrach yn y cyhoeddiad o feddwl Duw i ni : "Canys i ninau y pregethwyd yr efengyl megis ag iddynt hwythau." Yr addewid iddynt hwy oedd cyhoeddi iddynt fod Canaan ar eu medr. Yr oedd y cyhoeddiad yna yn cael ei alw yn efengyl, neu yn newyddion da iddynt ; ac fel yr oedd y cyhoeddiad o eiriau Duw gan Moses yn addewid iddynt hwy am y Ganaan ddaearol, felly y mae y cyhoeddiad o eiriau Duw gan ei weision, yn addewid i ninau am y Ganaan nefol : "Canys i ninau y pregethwyd yr efengyl, megis ag iddynt hwythau." Y mae y pregethiad yn addewid i ni, fel yr oedd iddynt hwy. Yr oedd gwlad Canaan wedi ei haddaw i Abraham, a'r addewid hono wedi ei sicrhau mewn cyfamod ; ac oni buasai am hyny, ni buasai yn cael ei haddaw i'r un o'i blant. Ond er mai yr addewid mewn cyfamod i Abraham oedd sylfaen pob addewid arall o honi ; eto nid anghredu yr addewid hono oedd yn eu cau hwynt allan o Ganaan. Yr oedd pedwar can mlynedd er pan roddasid hono, a miloedd o blant Abraham wedi marw yn y caethiwed, ac ni buasai y ffydd gryfaf yn yr addewid hono ddim yn eu cymeryd i mewn i'r etifeddiaeth. Yr addewid a efengylwyd iddynt gan Moses oedd eu haddewid hwynt. Credu hono fuasai yn eu dwyn i mewn i Ganaan; ac anghredu hono a gauodd gymaint o honynt allan o honi. Felly y mae y nef wedi ei rhoddi mewn addewid, a hono wedi ei sicrhau mewn cyfamod, gan y Tad i'r Mab; ac oni buasai am yr addewid yna, ni buasai yr un addewid byth yn cael ei chyhoeddi i ddyn ; ond nid honyna ydyw ein haddewid ni, ond y cyhoeddiad o ewyllys Duw i fyd colledig sydd yn yr efengyl. Fel yr oedd y cyhoeddiad o fwriad Duw at Israel, o enau Moses, yn addewid iddynt

hwy, felly y mae y cyhoeddiad o fwriad Duw at ddyn colledig, sydd yn yr efengyl, yn addewid iddo yntau am orphwysfa. Y mae tri pheth yn yr efengyl sydd yn dangos ei bod hi yn addewid i bawb sydd yn ei chlywed.

1. Y mae hi wedi ei chyfeirio at bob un yn bersonol. Fe fu trugaredd achubol Duw am bedair mil o flynyddoedd yn rhedeg mewn ffrydle cyfyng iawn. Nid oedd yr afon yn ffrwythloni ond un dyffryn bychan; a'r ychydig oedd yn byw yn hwnw yn unig oedd yn cael o'i chyfoeth. Yr oedd y byd mawr llydan yn ddiffaethwch diffrwyth; ei drigolion yn gwywo ac yn newynu amnad oedd y dyfroedd hyn yno. Er bod addewid ar y ddaear; eto, nid oedd yr addewid, y cysegr, yr aberth, a'r offeiriad, yn eiddo ond i ychydig. Yr oedd i'r ychydig hyn, drwy'r offeiriad, yn rhinwedd yr aberth, ryddid i fyned i mewn i'r cysegr. Iddynt hwy yr oedd yr Arglwydd yn rhoddi pob gwystl o'i ewyllys da i ddyn. Os gwnai efe gyfamod i drosglwyddo ei gyfoeth ynddo i'w greadur, â hwynt y gwneid ef. Os rhoddai Efe danllyd gyfraith o'i ddeheulaw, i fod yn llusern i draed rhai o drigolion y ddaear, Israel a fyddai y rhai hyny. Os anfonai brophwyd i fynegu beth oedd ei ewyllys, a pha wedd y gellid rhyngu ei fodd, at Israel yr anfonid ef. Nid oedd yn arddel perthynas â neb arall. Duw Abraham, Isaac, a Jacob oedd ei enw; ac nid oedd yr orphwysfa oedd ger ei fron yn cael ei chysylltu â neb ond â hwynt. Mynwes Abraham oedd y nef, ac nid oedd mynwes y Tad i neb ond i'r plant. Yr oedd pob addewid a phrophwyd, wrth gychwyn i'r ddaear, yn cael y gwaharddiad hwn:—"Na ddos i ffordd y cenhedloedd, ac i ddinas y Samariaid na thro i mewn." Ië, pan anfonwyd y Ceidwad i'r byd,—"Ni'm danfonwyd inau," meddai, "ond at ddefaid cyfrgolledig tŷ Israel." Yr oedd gwlad Israel yn Gosen oleu, a'r holl fyd yn Aipht dywyll. Yr oedd Palestina yn baradwys, a phob man arall yn ddiffaethwch. Yr oedd Israel yn blant, a phawb eraill yn gŵn. Yr oedd y rhagorfreintiau hyn oedd ganddynt, yn peri bod yn dra anhawdd eu hargyhoeddi, bod yr hyn yr oeddent yn arfer ei ystyried yn eiddo personol iddynt hwy, i berthyn o hyny allan i'r byd oll;—bod ysgrifeniadau eu prophwydi, caniadau eu beirdd, eu cyfraith, eu haddewidion, a'u cyfamodau, i fod yn eiddo i bawb; bod y dir-

gelwch, y *secret*, oedd ganddynt hwy am y ffordd i'r orphwysfa, i gael ei gyhoeddi ar benau tai y byd; a'r holl bethau dymunol oedd yn eu meddiant i gael eu rhanu i bawb. Symudwyd y cysegr a'r Offeiriad o'r ddaear i'r nefoedd, iddo fod yr un mor gyfleus i drigolion y pegynau ag i drigolion y cyhydedd. Nid oes yn awr yr un cyntedd y cenhedloedd yn perthyn iddo; ond gall y publican, sydd yn genedl-ddyn, fyned mor agos at yr allor a'r Iuddew Phariseaidd; oblegid y mae rhyddid i'r ddau i fyned i mewn i'r un man, trwy yr un aberth, fel nad oes mwyach nag Iuddew na Groegwr, na chaeth na rhydd: "Yr un Arglwydd ar bawb, sydd oludog i bawb a'r sydd yn galw arno." Ond ni buasai yn ddieithr gweled y cenedl-ddyn mor hwyrfrydig i gredu ei hawl yn yr addewid, ag oedd yr Iuddew i gredu nad eiddo personol ef oedd hi mwyach. Ac y mae rhyw fesur o amheuaeth o'r fath yn aros yn y fynwes o hyd. Onid ydym yn teimlo yn aml mai rhyw Israel sydd a hawl yn yr addewid, ac mai Cenhedloedd, y tuallan i'w chylch hi, ydym ni? Ond y mae yr Ysbryd Glân wedi darparu ar gyfer yr amheuaeth, trwy roddi hanes rhai o bob math yn cael cynwys yr addewid, yr hyn oedd y prawf sicraf o'i bod hi yn addewid iddynt. Y mae hyny wedi ei gofnodi i'r un diben ag y cofnodwyd achubiaeth Paul, sef i brofi bod nerth a graslonrwydd y Ceidwad yn ddigon i achub y penaf o bechaduriaid. Felly y mae gwaith yr Ysbryd Glân yn rhoddi hanes buddugoliaethau aml ac amrywiol yr efengyl yn y cychwyn, wedi ei fwriadu i fod yn esiampl i ni, nad ydyw yr addewid yn adwaen neb yn ol y cnawd, ond ei bod hi yn arllwys ei chynwys i bwy bynag a'i derbynio. Yr oedd y byd y pryd hwnw yn gyffelyb i'r hyn ydyw yn awr yn ei lygredigaeth a'i rinwedd, ei dywyllwch a'i oleuni. Rhai lleoedd ynddo yn ymroddi i wybodaeth, eraill i fasnach;—rhai yn ymdroi mewn pleserau barbaraidd, eraill yn ymarfer â phechodau mwy coethedig; ond yr oedd yr efengyl yn profi ei hun yn addewid i'r philosophyddion yn Athen, i'r masnachwyr yn Alexandria, i'r Corinthiaid moethus, i'r Scythiaid celyd, i'r Rhufeinwyr breiniol, ac i'r barbariaid gwylltion. Yr oedd hi fel y dwfr, yn rhedeg i bob man y byddai pantle. Os credai caethwas hi, cai wybod ynddo ei hun fod ei rhinwedd hi yn perthyn iddo ef, oblegid y gwnai ef yn rhydd yn yr

Arglwydd. Os credai gŵr rhydd hi, cai wybod mai ei addewid ef oedd hi, trwy iddi ei wneyd yn gaethwas i Grist. Nid oedd hi yn gofyn i neb,—"Pwy wyt ti?" ond, "A ydwyt ti yn credu?" "Pwy bynag sydd yn credu, ni chywilyddir ef," sef, ni siomir ef, am fy nghynwys i. Nid oedd gan yr holl rai yna, a dderbyniasant gynwys yr addewid, ddim mwy, na chymaint, sail i gredu ei bod hi yn addewid iddynt hwy ag sydd genym ni. Nid oedd ganddynt hwy ond y cyhoeddiad o'r addewid heb ddim esiamplau o'i chyflawniad; ond y mae y ddau genym ni,—y cyhoeddiad fod Iesu Grist wedi dyfod i'r byd i gadw pechaduriaid, a hanes am y penaf wedi ei gadw, i brofi mai gwir yw y gair. Iaith yr efengyl atom ni ydyw,—"Oni ysgrifenais iti eiriau ardderchog o gyngor a gwybodaeth?" "Fel y byddo dy obaith yn yr Arglwydd yr hysbysir i ti heddyw, ïe, i ti." Pan ddywedodd llanc y prophwyd, yn nghanol y tywysogion yn Ramoth Gilead,—"Y mae i mi air â thi, O dywysog," atebodd un o honynt, "A pha un o honom ni oll?" Dywedodd yntau, "A thydi." Felly y mae yr efengyl yn dywedyd yma heno yn nghanol cynulleidfa o bechaduriaid,—"Y mae i mi air â thi, O bechadur!" A phe gofynai pob un sydd yma, "A pha un o honom ni oll," hi atebai yn ol,—"A thydi,"—y mae genyf addewid i ti.

2. Y mae amrywiaeth a chyflawnder yr efengyl yn profi ei bod hi yn addewid i ni. Gallasai fod ynddi gyflawnder, ond heb ei fod yn cyfateb ond i angen un dosbarth neillduol; gallasai fod ynddi ddigon o amrywiaeth, ond heb fod ynddi ddigon o gyflawnder; ond y mae y ddau yn yr addewid. Ond nid ydym yn meddwl dywedyd nemawr ar hyn; ac nid o ddoethineb y mae neb yn ymofyn llawer ynghylch hyn; ac ni lwyddai neb o'r ymofynwyr manylaf nemawr, am nad yw yr efengyl yn disgrifio yn fanwl beth sy ganddi. Buasai islaw i fawredd Duw wneyd hyny, ac ni buasai y peth yn ateb diben da i ninau. Y mae hi yn dal allan wahoddiad diffuant oddiwrtho at ddyn; ond nid yw yn ymostwng i wneyd *inventory* o'i drysorau i'w anfon gyda'r gwahoddiad. Darostyngiad ar ŵr mawr, wrth anfon gwahoddiad i rywle, a fyddai anfon gydag ef gyfrif manwl o'i gyfoeth, i gymell y gwahoddedigion i wrandaw arno. Yn hytrach, y mae yn disgwyl fod digon o'i

nodweddiad yn adnabyddus, fel y bydd ei air yn ddigon gan bawb heb gael cyfrif o'i gyfoeth. Felly nid yw yr efengyl ddim yn ymostwng i ddisgrifio gydâ manylrwydd beth ydyw maint ei darpariaeth; ond y mae hi yn cyhoeddi y gwahoddiad yn eglur, ac yn dywedyd pwy yw y Gwahoddwr, gan ddisgwyl fod caracter hwnw mor adnabyddus, fel na bydd eisiau ond ei air; —y cymer pawb yn ganiataol fod un o'r fath nodweddiad, yn gofalu bod ei gyfoeth yn ddigon i gyflawni ei holl addewidion.

Y mae chwilio i faint cyfoeth yn codi bob amser oddiar ryw fesur o amheuaeth ynghylch y Gwahoddwr. Credu heb weled raid i gredu yr efengyl fod. "Ffydd yn Nuw" ydyw ei ffydd hi, sef coelio ei air, a dywedyd fel Mair,—"Bydded i mi yn ol dy air di." Ond i goelio y gair, y mae yn rhaid gwybod rhywbeth am y neb sydd yn llefaru. Byddai credu y gair heb hyny yn rhyfyg. Nid gwybod beth sy ganddo yn sail i lefaru y gair penodol hwnw; ond gwybod beth ydyw ei nodweddiad cyffredinol: ac y mae pawb sydd yn gwybod am hwnw yn credu yr oll o'i eiriau. "Y rhai a adwaenant dy enw," medd y Salmydd," "a ymddiriedant ynot." Er, feallai, nad allant ddeall pa fodd y cyflawnir y geiriau; ond os byddant yn adwaen dy enw, credant hwy er hyny. Ffydd yn ngair Duw oedd un Abraham: credu heb weled. Aeth allan heb wybod i ba le yr oedd yn myned; ond nid oedd heb wybod gydâ phwy: a phob tro y byddai yn credu Duw megis o'r newydd, yr oedd yn cael rhyw amlygiad newydd o garacter Duw. Nid dywedyd wrtho y gwaredid ef mewn rhyw ddull neillduol y byddai yr Arglwydd, ond ymddangos iddo, er mwyn i hyny greu hyder yn ei fynwes yn ei air; a dywedyd wrtho,—"Myfi yw dy darian, a'th wobr mawr iawn." Cred di hynyna, ni phryderi di ddim ynghylch pa fodd y gwaredaf di. Edrychwch ar y partriarch, o ddechreu ei oes hyd ei diwedd, chwi a welwch mai ffydd yn Nuw oedd ei ffydd ef bob amser. Nid oedd yn gwybod am wlad Canaan, pan yn cychwyn allan i fyned iddi; felly nid oedd dim i'w gymell i hyny ond credu Duw. Wedi ei gweled hi, yr oedd y Canaaneaid yn y wlad, sef wedi ei meddianu y pryd hwnw; felly nid oedd iddo ef yr un sail weledig i ddisgwyl meddiant o honi, ond credu Duw. Pan addawyd hâd iddo, fe oedwyd yr addewid mor hir, fel nad oedd

diın sail i ddisgwyl ei chyflawni ond credu Duw,—'barnu yr Hwn a addawodd yn ffyddlawn." Wedi cael y mab, gorchymynwyd iddo ei aberthu; felly fe'i cauwyd ef i fyny yna hefyd i ffydd yn ngair Duw, oblegid yr oedd pob sail arall i ddisgwyl am hyny wedi ei chymeryd oddiarno. Ffydd yn ngair Duw, i fesur mwy neu lai, a raid i ffydd pawb fod. Pan y mae yr Arglwydd yn addaw, nid dangos beth sy ganddo tuagat gyflawni yr addewid hono y mae, ond cyhoeddi ei enw, neu ddatguddio ychydig o'i garacter,—fel pe dywedasai, Dyna y fath un ydwyf fi yr Addawwr. Ni pherthyn i chwi wybod pa fodd y cyflawnaf fy ngair. Ond ni etyl hyny ddim i chwi ei gredu, os edrychwch chwi ar fy addewid yn ngoleu fy ngharacter,—"Israel a achubir yn yr Arglwydd âg iachawdwriaeth dragywyddol." Nid oes yr un gair yn cael ei ddywedyd ynghylch pa fodd y bydd hyn, yn sail i gredu yr addewid; ond y mae hyn yn cael ei ddywedyd, mai "Creawdydd y nefoedd, y Duw ei hun a luniodd y ddaear," ydyw yr Addawwr. Y mae yn dywedyd 'y rhydd Efe nerth i'r diffygiol, ac yr amlha gryfder i'r dirym:' ni ddywedodd Efe ddim pa fodd y gwnai; ond dywedodd mai yr 'Arglwydd, Creawdwr cyrau y ddaear,' oedd yn dywedyd. Wedi amlygu ei garacter, y mae yn disgwyl ffydd yn ei air. Addewid na ŵyr dyn ddim beth a dâl hi ydyw yr efenygl; ïe, y mae hi i gael ei derbyn, nid am ein bod ni yn deall pa faint sydd ynddi, ond am fod genym ffydd yn yr Addawwr. Ac y mae hyny o ddatguddio ac esbonio ar y drefn, sydd yn y Bibl, wedi ei fwriadu, nid i ni ei deall, a gweled ei maint hi, ac am hyny ei derbyn, ond yn hytrach i fod yn eglurhâd ar garacter Duw, i'n cymell ni i gredu ei air. Pan yn addaw trwy Esay, yr ydym wedi gweled ei fod yn cyhoeddi ei Enw; felly y mae yr efengyl yn âpelio at yr Enw, ac y mae pawb sydd yn adwaen hwnw yn sicr o'i derbyn hi. Y mae cyngor Duw wedi ei ddatguddio yma; ond nid er mwyn i ni gael gwybod a oedd ein henwau ni ynddo, eithr yn hytrach i fod yn gymelliad i ni roddi ein hyder yn ngair Duw; trwy ddangos mai nid oddiar feddwl byrbwyll y mae wedi addaw, ond mai ffrwyth hen feddwl o hedd, cyngor, a chyfamod yw yr addewid. Y mae yr iawn wedi ei ddatguddio, nid i ni wybod ei derfynau a'i faint, ond i ddatguddio i ni garacter Duw, er

mwyn creu hyder ynom yn ei eiriau. "Nid oes lidiowgrwydd ynof," medd Efe; ac y mae pawb sydd yn adwaen yr Enw, fel y mae yn cael ei ddatguddio yn nrylliad y Mab, yn credu hyny, nes peidio ymladd yn ei erbyn yn hwy. Y mae yn dywedyd yn yr addewid y cyfiawnhä Efe yr anuwiol; ond ni pherthyn i ni wybod y modd. Y mae digon yn yr iawn wedi ei ddangos, i ni allu credu y gair. Y mae wedi ymddwyn at y Cyfiawn odiaeth, fel pe buasai yn annuwiol; a chan iddo wneuthur un heb adnabod pechod, "yn bechod trosom ni," y mae hyny yn ddigon o sail i ni gredu y gall Efe ein gwneuthur ninau "yn gyfiawnder Duw ynddo Ef."

Yr hyn a ddymunwn ei wa gu at eich ystyriaeth ydyw, mai cyflawnder yr Addawwr ydyw cyflawnder yr efengyl, sef cyflawnder Duw. Nid holi a oes yma ddigon ynddi i bob dyn a ddylem ni, ond a ydyw hi yn ymddiddan â phob dyn? Os ydyw, ni pherthyn i ni holi am ei hamrywiaeth a'i chyflawnder. Ni a adawn hyny i'r Addawwr, gan ddymuno cymorth i farnu yn ffyddlawn yr Hwn a addawodd. Y mae yr olwg y mae y Bibl yn ei rhoddi ar y drefn y fwyaf manteisiol oedd bosibl i'w gwneuthur yn addewid i ni. Pe buasai hyd a lled y drefn wedi eu rhoddi, ei chyfoeth hi wedi ei enwi yn fanwl, buasai yma le i fyrdd o amheuon ynghylch ei maint. Ond gan nad oes mesurau wedi eu rhoddi arni; na hyd, na lled, nac uchder, na dyfnder, na dim wedi ei ddatguddio, ond cymaint ag oedd yn angenrheidiol i ddangos cymeriad yr Addawwr, nid oes yma le i un amheuaeth. Nid â maint y drefn y mae a fynom ni, ond â'r Addawwr. Ffydd yn Nuw sydd yn trosglwyddo cyfoeth yr addewid i bechadur.

3. Y mae y telerau ar ba rai y mae cynwys yr efengyl i gael ei derbyn yn dangos ei bod hi yn addewid i ni. Ni buasai y cyhoeddiad noeth o Ganaan ddim yn addewid i Israel yn yr Aipht. Onid oedd iau haiarnaidd Pharaoh ar eu gwar, a rhwystrau anorfod iddynt rhyngddynt â'r wlad? Yr oedd ymadael â'r Aipht, a theithio yr anialwch, y naill mor anmhosibl a'r llall iddynt. Pe buasai yr Arglwydd yn dywedyd wrthynt —Y mae gwlad yn llifeirio o laeth a mêl i chwi; ond y mae yn rhaid i chwi gyflogi rhyw frenin i orchfygu Pharaoh cyn cael eich rhyddid. Y mae yn rhaid i chwi adeiladu digon o

ongau cyn y gellwch chwi groesi y Môr Coch;—y mae yn rhaid i chwi chwilio am gynhaliaeth am ddeugain mlynedd yn yr anialwch ; y mae yn rhaid i chwi enill ffafr yr Ismaeliaid i'ch arwain chwi drwyddo ;—oni buasai amodau o'r fath yn peri nad *addewid* iddynt a fuasai y cyhoeddiad ? I wneyd y cyhoeddiad o Ganaan yn addewid, yr oedd yn rhaid i'r Arglwydd dori iau haiarn Pharaoh ei Hunan, a darparu pob peth angenrheidiol at daith yr anialwch,—yr arweiniad,—yr amddiffyn,—a'r cynhaliaeth,—a'u gosod hwynt ar dir, nad oedd dim tuallan iddynt hwy eu hunain, i'w rhwystro i'r wlad. Felly, wrth anfon yr addewid gydâ Moses, fe ofalodd ei gwneyd yn gymwys i fyned at y bobl i'r fan lle yr oeddent ; ac fe gyhoeddodd ei Enw yn ei dechreu a'i diwedd hi :—"Myfi yw Jehofah." Nid oes dim yn eisiau i'ch dwyn chwi i Ganaan ond credu mai Jehofah ydwyf. Y mae yr efengyl yn dyfod atom ninau i'r fan lle yr ydym, ac felly yn addewid i ni. Pe buasid yn cyhoeddi,—y mae gorphwysfa i chwi; ond y mae yn rhaid i chwi anfon rhywun i'r nefoedd i edrych a oes neb ymhlith ei chyfoethogion hi a dâl y *mortgage* arni drosoch. Y mae yn rhaid i chwi gael rhywun i ddisgyn i'r dyfnder, i dori iau Satan, onide ni chewch fyned allan o'i lywodraeth ef. Y mae yn rhaid i chwi gael rhywun cydnabyddus â'r ffordd oddiyma yno, i'ch arwain chwi. Ni buasai cyhoeddiad fel yna ddim yn *addewid* i ni; am nad oedd yma neb a allasai esgyn i'r nefoedd, neu ddisgyn i'r dyfnder, i ymofyn ymwared ; ond y mae cynwys yr addewid yn gwneuthur na raid i ni feddwl peth fel yna yn ein calon. Y mae un wedi dyfod o'r nef, ac wedi talu y *mortgage* i fyny. Fe ddisgynodd yr un un i'r dyfnder, ac a ddrylliodd iau y gorthrymydd. Fe wnaeth gyfamod âg arweinydd anffaeledig, i gymeryd ein gofal nes cyraedd yno. Fel y Samaritan da, fe roddodd ddwy geiniog i bawb a ddeuai ar eu gofyn, o'r caethiwed i'r etifeddiaeth, gan ddywedyd,—Cymer ofal drosto, ac os treuli di ychwaneg, mi a'i talaf i ti. Y mae hi yn addewid i ni, oblegid y mae ei phob peth hi o Dduw. Nid yr orphwysfa yn unig, ond pob peth at ein dwyn iddi ;—manna a dwfr, colofn a chwmwl yr anialwch, fel llaeth a mêl Canaan ;—gwisg briodas, fel y wledd. Nid yw hi yn ceisio dim o dy eiddo di,—dim ond ti dy hun. A phan y mae yr Arglwydd

yn cysylltu ei addewidion â gorchymynion, edrychwch chwi yn fanwl ar y gorchymyn, chwi a welwch fod pob peth hwnw, fel yr addewid, o Dduw. Os gorchymynir i'r bobl, wedi dyfod o'r Aipht wneuthur tabernacl i addoli Duw ynddo, a'i wneuthur yn deilwng o fawredd Duw; o ba le, meddir, y caiff y caethion fodd i'w godi? "Pob peth sydd o Dduw:" bydd yr Arglwydd wedi rhoddi yn nghalon yr Aiphtiaid i'w llwytho âg anrhegion at y tabernacl wrth ymadael. Bydd eisiau teml fawr a chostus arnynt yn Nghanaan; a pha le y caiff ffermwyr bychain ddigon o gyfoeth i'w hadeiladu? Y mae pob peth o Dduw: fe lwydda yr Arglwydd y wlad am ddeugain mlynedd o dan deyrnasiad Dafydd;—fe ddarostwng y bobl amgylchynol dano, fel y deuant â theyrnged, a'r brenhinoedd âg anrhegion i adeiladu y deml yn Jerusalem. "O'th law dy hun," medd Dafydd, "y rhoisom i ti." Wedi dyfod o gaethiwed y deng mlynedd a thriugain, gorchymynir iddynt adeiladu teml eto; ond pa fodd y gall tlodion wneyd? "Pob peth sydd o Duw" eto. Fe gyffyrdda â chalon pagan, nes peri iddo roddi gorchymyn fod holl draul y gwaith i fod o dŷ y brenin;—y defnyddiau i'w prynu â'i arian ef; y gweithwyr i'w talu o'i drysorau ef;—ac hyd yn nod yr ebyrth beunyddiol i fod ar ei draul ef. Felly y mae pob peth o Dduw yn addewid yr efengyl. Os rhaid dy gael di yn deml i Dduw, nid rhaid i ti ofni, fel brenin Israel gynt, pan anfonodd brenin Syria Naaman ato i'w lanhau, mai ceisio achos yn dy erbyn y mae yr Arglwydd wrth orchymyn hyn; oblegid y mae gydâ'r gorchymyn gynyg ar Weithiwr mwy cywrain na Bezaleel, â phob peth at ei law i gyflawni y gorchwyl. Os oes eisiau dy gael di yn gymwys i sefyll gerbron y Brenin yn y llys, ni raid i dy ddieithrwch di i iaith ac arferion y lle, beri i ti anobeithio; oblegid y mae yma Ddysgawdwr anffaeledig wedi ei ddarparu gan y Brenin ei Hun i'w dysgu i ti. Os oes eisiau i ti weithio allan dy iachawdwriaeth dy hun, y mae y draul at y gwaith yn niwedd y gorchymyn:—"Canys Duw yw yr Hwn sydd yn gweithio ynoch yr ewyllysio a'r gweithredu, o'i ewyllys da Ef." "Y mae pob peth o Dduw."

Y mae cysylltu yr addewid â chredu yn ei dwyn hi yn ddigon isel i bawb. Os edrychwch chwi ar gredu fel gweithred naturiol y meddwl, neu ynte ar ei gymhwysder i ddwyn dyn i deimlo

trueni ei sefyllfa, chwi a welwch hyny. Fel gweithred y meddwl, y mae hi yn un y mae pob math yn medru ei chyflawni; y plentyn bychan, fel y patriarch. Ni all pawb ddeall llawer; ni all pawb garu llawer; ni all pawb obeithio llawer: ond gall pawb, ac y mae pawb yn credu llawer. "Tystiolaeth dynion yr ydym yn ei derbyn." Gwneyd yr un peth â Duw ag y mae pawb yn ei wneyd â dynion, sydd yn cadw, sef, credu ei dystiolaeth Ef. Ac "y mae tystiolaeth Duw yn fwy," medd yr apostol, hyny yw, yn haws ei chredu na thystiolaeth neb arall: tystiolaeth un sydd â'i enw yn Dduw y gwirionedd ydyw,—un na wybuwyd iddo dwyllo neb erioed;—tystiolaeth un sydd â pherffeithrwydd gwybodaeth ganddo, fel nad ydyw wedi ei dwyllo ei Hun. Y mae dyn geirwir yn aml mor ddiffygiol mewn gwybodaeth, neu mewn barn, fel na ellir bod yn sicr mai gwirionedd ydyw ei eiriau. Tystiolaeth un sydd a pherffeithrwydd gallu, a digonolrwydd cyfoeth ganddo, fel na all dim ei gyfarfod i'w orfodi i gilio oddiwrth ei air, ydyw yr efengyl. Onid ydyw yr amodau yn ein hymyl? Ond nid ydym heb gofio fod pechod dyn mor fawr, fel na chred Dduw heb weithrediad nerth ei gadernid Ef i hyny. Ond y mae cysylltu yr addewid â chredu, yn ei rhoddi yn y fan agosaf oedd bosibl iddi ddyfod atom ni; oblegid nid oes dim a chymaint o duedd ynddo i ddwyn dyn i deimlo mai ei bechod, nid ei anffawd, ydyw ei drueni, a theimlo ei hun yn methu gwneyd â Duw, yr hyn y mae yn ei wneyd â phawb arall. Pe buasid yn galw arno i weithio llawer, gallasai ddywedyd ei fod yn rhy wan i hyny. Pe buasid yn galw arno i ddeall llawer, gallasai ddywedyd fod bod ei feddwl yn rhy bŵl i hyny. Ond gan mai credu sydd yn cael ei ofyn, y mae yn rhwym, ond ystyried, o deimlo mai pechod, nad oes ganddo yr un esgus drosto, ydyw ei waith yn peidio. Pe buasem ni heb allu i ymddiried yn neb, gallasem ddywedyd nad oedd yr addewid am orphwysfa ddim yn gymwys i ni, gan mai ymddiried yn Nuw oedd ei hamod hi; ond gan mai rhai sydd yn credu ac yn ymddiried bob cam ydym, nid oes genym esgus am ein pechod o beidio credu Duw. Amod cyflawniad yr addewid, cofiwch, ydyw credu Duw. Nid yn yr un dull y mae yr Arglwydd yn gofyn i bechadur ddangos hyn bob amser, fel y gwelwn ni yn hanes Naaman yn yr Hen Des-

tament, a'r claf wrth lyn Bethesda yn y Newydd. Yr oedd ar y ddau eisiau eu hiachau; ond yr oedd un yn cael ei anfon i'r Iorddonen i hyny, a'r llall yn cael ei iachau yn y fan lle yr ydoedd. Yr oedd y dull y meddyginiaethwyd hwynt yn groes i feddwl y ddau. Yn y fan hon y dymunwn i gael fy iachau, meddai Naaman. Dos di i'r Iorddonen, meddai yr Arglwydd. Pe byddai genyf ddyn i fyned â mi i'r llyn yn y fan draw, byddwn yn iach, meddai claf Bethesda; ac yn y fan lle yr wyt ti y mae i'w gael, meddai yr Iesu. Yr oedd yn rhaid cael y ddau i ymostwng i drefn Duw, ac i beidio ymddiried i'w deall eu hun. Y mae rhai eto, fel claf Bethesda yn ymddiried yn y llyn,—yn y moddion,—yn lle yn Nuw. Y mae eraill, fel Naaman, yn disgwyl trwy'r blynyddoedd i Dduw ymddangos yn annibynol ar foddion. Ond ni fyn Duw ddim o'n hamodau ni. Y mae yn rhaid ein cael ni i ymostwng i rai Duw; a, diolch iddo, y maent mor isel fel ag y mae yr efengyl yn addewid am orphwysfa i ni oll.

Y mae addewid wedi ei gadael *i ni.* Y mae yn debygol nad ydyw yr addewid am orphwysfa y mil blynyddoedd ddim yn addewid i ni; ond y mae yr addewid am orphwysfa y nef i ni. Pe disgwylit di am y nefoedd newydd a'r ddaear newydd, sydd mewn addewid, y mae yn ofnus y cait ti ddisgwyl yn ofer, am mai nid addewid i ti ydyw hi; ond pe disgwylit di am nefoedd y gogoniant sy mewn addewid, nid oes berygl i ti gael dy siomi; oblegid y mae hono yn addewid i bawb a ymeifl ynddi. Fe fu y byd am ychydig heb addewid am orphwysfa ynddo, a mawr oedd ei dywyllwch,—annhraethol oedd ei drueni,—am y pryd; ond rhoddwyd yr addewid fel seren yn y ffurfafen; ond yr oedd hi mor wanaidd a phell, nad allai dim ond drychau cryfion ffydd ei gweled hi; ond aeth yn ddisgleiriach, ddisgleiriach, am oesoedd, fel y mae erbyn heddyw wedi dyfod, yn iaith y seryddwyr, yn *star of the first magnitude*, yn seren o'r maintioli mwyaf. Gellir ei gweled hi yn eithaf eglur â'r llygad noeth. Ni raid i ni ddim bod yn flin arnom, fel morwyr Paul yn Môr Adria, am nad oedd na haul na sêr yn ymddangos iddynt, i wybod pa fodd i gyraedd yr hafan ddymunol; na, y mae yr addewid i ni fel seren y Gogledd, bob amser yn yr un man; ac yn well na hono, y mae hi bob amser yn weledig:

am hyny ni anobeithiwn ddim am fod yn gadwedig ; ond ni a wnawn ein goreu, fel hwynt, am gyraedd y porthladd cyn y gauaf. Y mae y *channel* yn ddigon peryglus ; ond y mae *lighthouse* yr orphwysfa yn dangos pa fodd i lywio, fel ag i ochel y sugndraeth a'r graig. Y mae ein teulu ni yn ddigon tlodion ; ond y mae ewyllys gyfoethog iawn wedi ei gwneyd yn ein ffafr. Os ydym ni yn y daeardy fel Jeremiah, ni raid i ni farw yno. Y mae rhaff yr addewid wedi ei gollwng i lawr atom ; pe cydit ti ynddi, y mae yna rywun ar enau y daeardy, a ddechreua dy *windio* di i fyny yn y fan. Ni raid iti ddim marw yn nghaethiwed y priddfeini, os credi di eiriau Duw, trwy Moses ac Aaron : fe dy welir di yn Nghanaan, yn eistedd o'dan dy winwydden a'th ffigysbren dy hun, heb neb i aflonyddu arnat.

Ond yr ydym yn ymdroi yn lled faith gydâ'r addewid, er mai nid hyny ydyw peth penaf y testyn ; ac ar hwnw, sef ar ofni rhag bod yn ol o'r orphwysfa, yr oeddem yn bwriadu sylwi pan ddaeth yr adnod gyntaf i'n meddwl. Ond gydâ'n bod yn dechreu meddwl am hyn, saethodd hyn yn dra bywiog i'n meddwl,—Bydd aml un o'r gwrandawyr yn ameu a oes addewid am orphwysfa wedi ei gadael iddynt hwy ; a bydd yr amheuaeth yn peri i'r anogaeth i ofni rhag bod yn ol yn ddi-effaith iddynt. Ond os darfu i ni lwyddo i beri i chwi goelio fod addewid i chwi, y mae genym fantais yn awr i wasgu at eich ystyriaeth anogaeth y testyn, "Ofnwch." "Ofnwn gan hyny, gan fod addewid wedi ei gadael i ni i fyned i mewn i'w orphwysfa ef, rhag bod neb o honoch yn debyg i fod yn ol." Y mae yr un addewid ag sydd yn sail gobaith, yn sail ofn hefyd. Wedi credu bod addewid, y mae rhai yn rhyfygu ; ond rhai camsyniol hollol ydynt am natur yr addewid ; oblegid nid oes yma ddim ynddi nad ydyw yn briodol dywedyd,—"Ofnwn" ynglŷn âg ef.

II. Y mae yr addewid yn sail i ni ofni rhag syrthio yn fyr o honi.

1. Ofnwch, oblegid nid yw yr addewid ddim yn cadw o angenrheidrwydd. Fe efengylwyd yr addewid am orphwysfa i fyrddiwn miloedd Israel yn yr Aipht; ond nid aeth ond dau o'r holl filoedd oeddent mewn oedran, i Ganaan er hyny. Ac

yr ydym yn gweled fod miloedd o'r rhai sydd yn clywed yr addewid yn ein gwlad ni, a'r gair heb fod yn fuddiol iddynt. Y mae yn ofnus mai dirgel gred calon llawer o wrandawyr yr efengyl (er na ddywedant hyny mewn geiriau,) ydyw, y byddant yn gadwedig rywsut drwyddi, fel pe byddai yn swyn i'w cadw mewn modd nas gwyddant. Y mae y meddygon trwy roddi *chloroform* i'r claf, yn gallu tori ymaith ei aelodau yn ddiarwybod iddo: felly y tybia llawer y rhydd yr efengyl hawl a chymhwysder i'r nef mewn modd nas gwyddant. Y mae yn anmhosibl rhoddi cyfrif am eu tawelwch mewn un ffordd arall. Felly yr oedd Israel yn nyddiau Jeremiah, pan y cyhoeddai y prophwyd y barnau: dywedent, "Teml yr Arglwydd, teml yr Arglwydd ydynt." Byw yn eu pechodau, a disgwyl dianc rhag y barnau rywfodd, am fod ordinhadau Duw yn eu plith. Ond y mae yr Arglwydd yn eu hanfon i Siloh, y man y bu coffadwriaeth ei enw ynddo ar y cyntaf, i weled yn anghyfanedd-dra hwnw pa faint o sail oedd ganddynt i ddisgwyl dianc rywsut. Yr oedd y rhai hyny, yn y ddameg, yn disgwyl cael eu harddel yn y farn, am fod y Barnwr wedi bod yn dysgu yn eu heolydd. Nid ymostyngasant unwaith i gymeryd eu dysgu ganddo: eto, breuddwydient am ddianc rywfodd. Ond a ddiangasant hwy? Gallwn ninau fyned i Siloh, i weled beth a wnaeth Duw yno. A ydyw y Ceidwad yn dywedyd,—"Wele fi," wrth rai o'i hen wrthodwyr yn hwyr marwolaeth? Nid ydyw gwybod am y nef ddim yn cymeryd neb yno. Nid yw clywed am gyfiawnder Crist ddim yn cuddio y noethder. Nid yw deall fod ŷd gan Joseph yn yr Aipht, ddim yn cadw rhag y newyn. Nid yw yr addewid ddim yn cadw o angenrheidrwydd; am hyny, "Ofnwn."

2. Ofnwn, oblegid nid oes yma ddim o bethau melusaf yr addewid nad ydyw yn galw am ofn; ac y mae yma lawer o bethau ynddi, a allant gael eu troi yn faglau i ni. Er bod ei phob peth hi yn sail hyder, ond edrych arno yn ei le ei hun, eto hyder ydyw ag y mae yn briodol dywedyd wrth ei feddianydd,—"Na fydd uchelfryd, eithr ofna." Pell oddiwrthyf fyddo ceisio arwain neb i ameu sicrwydd trefn Duw; ond mi ddymunwn i chwi gofio hyn,—Nad oes dim sicrwydd o'n hawl ni ynddi yn gyrhaeddadwy yma, nad oes mesur o ofn i fod yn

y fynwes gydag ef; a'r foment y collir yr ofn, y mae yr hyder hefyd yn cael ei golli. Y mae ofn a hyder yn debyg i'r argraff fydd ar yr arian bathol. Gwedd bryderus ofn sydd ar un wyneb i'r dernyn, a wyneb siriol hyder sydd ar yr ochr arall iddo. Ond os collwch chwi yr ofn, yr ydych yn rhwym o golli yr hyder; am mai ar yr un dernyn y mae y ddwy ddelw. "Mewn ofn a dychryn," yr ydym i weithio allan ein hiachawdwriaeth. "Gyda gwylder a pharchedig ofn," yr ydym i wasanaethu Duw. Yr ydym i "ymddwyn mewn ofn," dros amser ein hymdeithiad. Nid yr ofn yma ydyw sylfaen ein hyder; ond pan gollwn ni hwn, y mae y sylfaen yn myned o'r golwg. "Mi a wn i bwy y credais," medd yr apostol: dyna hyder cryf. "Yr wyf fi yn cosbi fy nghorff, ac yn ei ddwyn yn gaeth; rhag, mewn un modd, wedi i mi bregethu i eraill, fod fy hun yn anghymeradwy" (1 Cor. ix. 27): dyna ofn yn ei fynwes ar unwaith. Pan gollodd Moses yr ofn, fe gollodd sylfaen ei hyder am Ganaan. Yr oedd wedi bod yn ffyddlawn yn yr holl dŷ, yn cadw at lythyren y ddeddf; ond wrth y graig, fe gollodd yr ofn oedd yn ei gadw o fewn terfynau geiriau Duw: fe gollodd sylfaen ei hyder am Ganaan yr un foment. Felly hefyd y bu hi gydâ y bobl oeddent o dan ei arweiniad: aeth sylfaen eu hyder hwythau am Ganaan ar goll, yr un pryd ag y collasant yr ofn o'u mynwes. Edrychwch ar holl addewidion a gosodiadau Duw, y mae ofn i fod ynglŷn â hwynt. Yr oedd gan Moses destyn llawenychu pan orchymynwyd iddo wneuthur tabernacl, am fod pabell Duw i fod gydâ dynion; ond yr oedd ofn i fod yn y fynwes yn barhaus, wrth ei wneuthur. "Gwêl," medd yr Arglwydd, hyny yw, cymer ofal, "ar wneuthur o honot bob peth yn ol y portreiad." Yr oedd yr addewid o gael ei gadw yn yr arch yn creu hyder a llawenydd yn mynwes Noah; ond fe ddywedir mai gydâ pharchedig ofn y darparodd efe hi. Nid gosod ei *frame* hi yn ofalus, a bod yn esgeulus pa fodd yr adeiledid hi; na, yr oedd yr un mor ofalus am osod y drws a'r ffenestr, yn y fodfedd yr oedd Duw wedi dywedyd, ag ydoedd efe am ei gwneyd hi o goed gopher, sef coed na phydrent. Y mae ein haddewid ninau yn galw am ofn parhaus gydâ'r hyder. Y mae rhai yn myned i mewn i'r orphwysfa,—dyna sail i ni hyderu; ond y mae y porth mor gyfyng, a'r

ffordd mor gul, fel y metha llawer sydd yn ceisio,—dyna achos ofni rhag bod o r nifer. Y mae y swper sydd wedi ei ddarparu yn un mawr, a'r gwahoddiad yn un cyffredinol,—dyna sail hyder i ni; ond y mae rhai yn mentro yno heb y wisg briodas, ac yn cael eu troi allan,—dyna sail ofni. Wele y Ceidwad yn achub erlidiwr oedd wedi ymgynddeiriogi yn ei erbyn,—dyna sail gadarn i hyderu yn ei diriondeb; ond dyma yr un Ceidwad yn damnio disgybl, oedd wedi ei ddilyn am flynyddoedd, am ei werthu,—dyna sail i ti ofni rhag gwneyd yn rhy hyf arno.

Eilwaith, ofnwch,—y mae llawer o bethau yn yr addewid sydd yn sail hyder, eto a allant yn hawdd gael eu troi yn faglau i ni. Y mae y Maen sydd yn Sïon yn sylfaen safadwy i bwyso arno, yn troi yn faen tramgwydd i lawer. Y mae y Graig sydd yn gysgod rhag yr ystorm, yn troi yn graig rhwystr i lawer. Y mae yr apostol yn sôn am rai yn tramgwyddo wrth y gair. Ni buasai neb yn meddwl y buasai yr addewid yn achos iddynt syrthio; ond ar draws hono y maent yn cwympo i ddinystr. Y mae bwriadau Duw yn dod i'r golwg yn yr addewid fel creigiau cedyrn i ddangos nerth y drefn; ond ofna rhag rhedeg yn erbyn y graig, neu ymdroi i geisio darllen yr ysgrifen sydd arni hi: try felly yn graig rhwystr i dy atal di i'r orphwysfa, yn lle bod fel myneg-bost i ddangos y ffordd yno. Y mae y Cyfryngwr mawr yn ei iawn yn faen profedig, yn sylfaen safadwy i bwyso arno: "ni frysia yr hwn a gredo." Yn yr ystorm bydd ei dŷ ef yn sefyll, am fod y sylfaen yn safadwy; ond ofna rhag ei wneuthur yn faen tramgwydd trwy omedd adeiladu arno nes gweled ei faint, a deall ei nerth: fe â adeg adeiladu heibio cyn y gweli di hyny. Un o'r pethau melusaf yn yr addewid ydyw, bod iachawdwriaeth o ras i gyd; ond ofna rhag tramgwyddo wrth y gair yna. Y mae miloedd yn gwneyd. Os na chânt hwy fod â llaw yn y gorchwyl, fel y Samariaid hyny yn adeiladaeth teml Jerusalem, y maent yn tramgwyddo, ac yn myned yn elynion i Dduw a'i bobl. Llawenychwn yn ein haddewid; ond ofnwn rhag bod yn ol o'i chynwys hi.

3. Ofnwn,—oblegid y mae yr hyn sydd yn gwneuthur i rai syrthio yn fyr o honi o natur mor ddirgelaidd, fel, os na sylwi di yn fanwl, fe all dy ladd di bron yn ddiarwybod i ti dy hun,

sef anghrediniaeth. Nid am annuwiolion cyhoeddus y mae y testyn yn son, ond am wrandawyr efengyl,—rhai yn ei pharchu hi ac yn ei phroffesu. Y mae nôd y bwystfil fel yn nhalcen annuwiolion cyhoeddus, yn dangos i bawb mai yn ol y byddant; ond y mae eraill nas gwyddoch pa enw i roddi arnynt ond saint ; ïe, y maent yn cael eu cyfrif gydâ'r saint ; eto y mae yna rywbeth yn llechu yn ddirgel, fydd mor sicr o'u cau allan o'r orphwysfa, â'r annuwioldeb mwyaf cyhoeddus. Yr oedd rhai creaduriaid yr oedd yn amlwg ar yr olwg gyntaf na wnaent y tro yn ebyrth. Yr oeddent yn afiach, neu yn anafus; ond yr oedd rhai a phob peth allanol yn ei le, eto pan y dernid hwynt, fe welid fod rhywbeth yn mêr yr esgyrn yn eu hanghymwyso i'r allor. Cyfeiriad at hyny sydd yn niwedd y benod hon. Gall anghrediniaeth lechu mor ddirgelaidd a phe buasai yn mêr yr esgyrn; ond fe gaua allan o'r orphwysfa ; oblegid " bywiol yw Gair Duw, a nerthol, a llymach nag un cleddyf dau finiog, ac yn cyrhaeddyd trwyodd hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd, a'r cymalau a'r mêr ; ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon." Ofnwn, gan hyny, a gweddïwn weddi y Salmydd :—" Chwilia fi, O Dduw, a gwybydd fy nghalon : prawf fi, a gwybydd fy meddyliau ; a gwêl a oes ffordd annuwiol genyf, a thywys fi yn y ffordd dragywyddol " (Salm cxxxix. 23, 24).

4. " Ofnwn," oblegid agosrwydd amodau yr addewid atom. Pe buasai y prophwyd yn gorchymyn i Naaman fyned i'r Ganges i ymolchi, ni buasai lle i feio arno am omedd myned, am fod y daith mor beryglus; ond gan mai i'r Iorddonen yr anfonwyd ef, afon oedd ar ei ffordd adref o Samaria i Damascus, buasai peidio myned yno yn peri na buasai yn deilwng o dosturi neb, pe buasai yn dioddef gan y gwahanglwyf hyd ddydd ei farwolaeth. Felly, os byddwn ninau yn ngafael y gwahanglwyf yn y byd a ddaw, na ddisgwyliwn gydymdeimlad neb, a ninau wedi gomedd ymolchi pan oedd yr afon yn fwy cyfleus o lawer i ni nag oedd hi i Naaman. Pe buasid yn gorchymyn i ni ddringo i gopa Senir a Hermon, i chwilio am fywyd, buasai uchder y mynyddoedd yn ein cyfiawnhau ni, yn ngolwg llawer, am beidio myned ; ond gan mai i fryn bychan Calfaria y gorchymynir i ni fyned, os nad awn ni, fe bâr hyny

i bawb ddywedyd, pa mor ofnadwy bynag fydd y gosbedigaeth yn y byd arall,—"Nid yw hwn ddim yn cael mwy na'i haeddiant." Y mae amodau yr orphwysfa, fel y mae y greadigaeth yn eu cyhoeddi, yn rhai celyd i bechadur; ond y mae "bod yn ol," i'r rhai sydd heb ddim ond y rhai hyny, yn niwl tywyllwch yn dragywydd: ond os yn ol y byddwn ni, sydd wedi cael amodau esmwyth yr efengyl, fe fydd eu niwl a'u tywyllwch hwynt yn oleuni o'u cymharu â'n rhai ni. Er mai gwlad cysgod angau a fydd hi oll, bydd y rhan y bydd y pagan ynddi yn Gosen o'i gymharu â'r Aipht, wrth y rhan a fydd i'r rhai a gawsant amodau esmwyth yr efengyl. "Hon yw y ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni; canys yr oedd eu gweithredoedd hwy yn ddrwg." Ofnwn gan hyny, oblegid os na bydd yr addewid yn godiad i ni, bydd yn gwymp na chafodd neb ei debyg erioed.

5. "Ofnwn" yn olaf: y mae yr orphwysfa yn un mor ragorol, byddai yn golled na all tafod ddisgrifio ei maint, "bod yn ol" o honi. Y mae dau air yn cael eu cyfieithu "gorphwysfa" yn y benod hon: un yn arwyddo Canaan neu y deml, a'r llall Sabbath. Dyna ydyw yr orphwysfa, Sabbath; a Sabbath yn Nghanaan, neu y cysegr.

Sabbath ydyw. Ni chawsom ni yr un Sabbath teilwng o'r enw eto. Plant y forwyn gaeth ydym ni oll: ni chawsom ni erioed gymeryd ein hanadl atom yn iawn. Mae ein meistri gwaith yn ein gyru ni yn dost. "Ewch at eich beichiau" sydd yn eu genau o hyd. Rhyw wythnos drafferthus ydyw ein hoes ni. Ni wn i ddim ymha un o'i dyddiau hi yr wyt ti yn awr; pa un ai yn y trydydd, y pedwerydd, neu y pumed; ond y mae ei seithfed dydd hi yn Sabbath,—diwrnod hapus, tawel, na ddaw dim "o swn y boen sydd yn y byd" i'w aflonyddu;—diwrnod y bydd "cymanfa a chynulleidfa y cyntaf-anedigion" yn amgylchu yr orseddfainc gyda'u gilydd i addoli. Yr oedd Paul yn brysio, am fod arno ofn rhag na byddai yn Jerusalm erbyn y Sulgwyn: yr oedd wedi gosod ei fryd ar gael bod yn yr ŵyl. Ond nid Sulgwyn a fu iddo ef; ond y mae Sulgwyn yn ol pan y cei di addoli heb neb i aflonyddu arnat.

Sabbath yn yr orphwysfa ydyw. Yr oedd gan Israel Sabbothau yn yr anialwch, ond prin yr oeddent yn teilyngu yr

amser o'u cymharu â Sabbath Canaan. Ond y mae yma air pellach na hynyna: "ei orphwysfa Ef." Yr oedd y deml yn cael ei galw felly o'i chymaru â'r tabernacl: rhodio yr oedd mewn tabernacl; ond wedi cael y deml yn barod, y mae yn cael ei gyfarch,—"Cyfod i'th orphwysfa." Dyna yw yr orphwysfa,—cadw Sabbath yn y deml—cadw Sabbath yn y fan y mae Duw wedi ei chwenychu yn drigfa iddo ei Hun. Ni wyddom ddim am brydferthwch y lle; ond yr oedd "mynydd Sïon yn ystlysau y gogledd," y fan a ddewisodd Efe yn drigfan iddo ei Hun, mor brydferth, fel yr oedd "yn degwch bro, ac yn llawenydd yr holl ddaear." Ac os oedd y daearol felly, beth ydyw y nefol? "Ei orphwysfa Ef" hefyd;—nid cadw Sabbath yn yr un fan a Duw yn unig ydyw; ond gorphwysfa o'r un natur, â gorphwysfa y Jehofah anfeidrol ei Hun. Dyna hi yn awr wedi myned yn gyfryw na wyddom ni ddim am dani. Ni a allasem ddychymygu rhywbeth am gadw Sabbath yn yr un fan a Duw;—gallasem gasglu y meini gwerthfawr a'r perlau i wneuthur teml brydferthach nag a welodd ein haul ni erioed; — gallasem gasglu pob offer cerdd yno i wneuthur miwsig mwy peraidd nag a glybuwyd ar y ddaear erioed; a buasai ein dychymyg eithaf ni yn rhy fyr o lawer: ond pwy a all ddychymygu am gadw Sabbath fel Duw. Ni all meddwl dyn ddim ffurfio yr un math o ddychymyg am hynyna. Beth ydyw y tangnefedd? Beth ydyw y tawelwch? Beth ydyw y digrifwch anfeidrol? Beth ydyw y nofio mewn hedd, a'r ymlonyddu ynddo ei Hun, y mae y Duwdod yn ei wybod am dano bob moment? Ni wn i ddim. Ond y mae genym ni addewid am orphwysfa fel yna! Ei rhagoriaeth a fyddo yn ein cadw bob dydd i ofni cymaint rhag ei cholli, nes yr ymdrechwn ni am fyned i mewn iddi.

[Adysgrifenwyd ddydd Mawrth, Mawrth 12, 1852.]

# PREGETH XLVI.

## CYNNAL GAIR Y BYWYD.

PHILIPIAID ii. 16 ;—" Yn cynnal gair y bywyd."

CYHOEDDIAD ydyw y testyn o ddyledswydd Eglwys Dduw at air Duw. Y mae perthynas agos rhwng yr eglwys a'r gair; ac y mae deall natur y berthynas yn help i ddeall y ddyledswydd, ac yn gymhelliad i'w chyflawni. Y mae y berthynas hon yn un agos iawn, oblegid y gair sydd wedi rhoddi bôd i'r eglwys: byddai mor ofer edrych am eglwys i Dduw mewn lle nad ydyw gair Duw, ag a fyddai disgwyl dydd mewn lle nad oes haul. A phe cymerid ymaith y gair o'r byd, ciliai yr eglwys gydag ef, fel y mae y goleuni yn cilio gydâ'r haul. Os gwelir yr eglwys yn lliosogi, prawf a fydd hyny fod gair yr Arglwydd yn cynyddu ac yn cryfhau. A phan nad yw hyny yn cymeryd lle, y mae y rhai sydd yn ymboeni yn y gair a'r athrawiaeth yn gorfod dywedyd, eu bod yn llafurio yn ofer, ac yn treulio eu nerth am ddim ; oherwydd nid oes dim yn wir ffrwyth i'r llafur, ond naill ai casglu eglwys, neu ei hadeiladu. Ond pan na bydd y cyntaf yn cael ei wneyd, y mae yn ofnus na bydd yr ail ddim ychwaith. Y mae yn perthyn i eglwys Dduw swyddogaethau a llywodraethau ; ond dylem gofio yn barhaus nad swyddogion a llywodraethwyr a allant wneuthur eglwys, ond mai ffrwyth gair Duw ydyw hi ; ac nid rhaid olrhain ei llinach hi yn ol, o ran moddion ei bodolaeth, yn mhellach na'r gair. "At y gyfraith, ac at y dystiolaeth :" os oes delw y gair arni, digon ydyw hyny i brofi ei bod hi yn eglwys i Dduw. Trwy y gair hefyd y mae hi yn cael ei sancteiddio. Nid eu galw i fod yn saint yn unig y mae, ond eu gwneuthur felly. Pa beth bynag sydd yn glanhau ac

yn puro, y gair ydyw y cyfrwng, trwy ba un y mae y meddwl yn cael ei ddwyn i gysylltiad â'r peth hwnw. Ysbryd Duw sydd yn sancteiddio, fel yn ail eni; ond y mae yn gwneuthur hyny trwy y gair. Y mae y meddwl yn cael ei ddwyn i gartrefu gydâ'r pethau hyny, ag y mae yn eu natur ei farweiddio i bechod. Y mae 'gwaed Iesu Grist ei Fab Ef yn glanhau oddiwrth bob pechod;' ond glanhau y mae, trwy i'r meddwl ddal cymdeithas â'i ddioddefiadau Ef, yn nhystiolaethau y gair. Y mae edrych ar ogoniant yr Arglwydd, yn newid i'r unrhyw ddelw. Y mae disgwyl am ddaioni i ddyfod, yn peri i'r saint wneuthur eu goreu er eu cael yn y diwedd yn deilwng o hono. Ond y gair ydyw y cawg, sydd yn dal y gwaed sydd yn glanhau; y gair ydyw y drych, ymha un y mae y gogoniant trwy yr hwn y'n newidir, i'w weled; ac yn y gair y mae yr holl addewidion, sydd yn gymhelliad i ymlanhau i'w cael. Nid ydyw goruchwyliaethau rhagluniaeth ddim yn sancteiddio, ond i'r graddau y maent yn arwain y meddwl at y gair. Y mae yr un berthynas rhyngddynt â sancteiddhâd, ag oedd rhwng y ddeddf â Christ. Nid oedd y ddeddf ddim yn cadw; ond yr oedd hi yn arwain at Geidwad. Felly, nid yw goruchwyliaethau rhagluniaeth ddim yn sancteiddio; ond y maent yn fynych yn arwain y meddwl at y gair, yr hwn sydd yn gwneuthur hyny. "Cyn fy nghystuddio yr oeddwn yn cyfeiliorni; ond yn awr y cedwais dy air di." "Dy ddeddfau oedd fy nghân yn nhŷ fy mhererindod."

Y gair hefyd sydd yn cyfarwyddo yr eglwys. Nid yn unig y mae yn ei bywhau, ac yn ei sancteiddio, ond y mae hefyd yn llusern i'w thraed, ac yn llewyrch i'w llwybrau. Y mae eglwys wedi myned yn ddiystyr o'r gair, neu wedi myned i roddi rhywbeth yn ei le, yn sicr o fod yn un heb iawn droedio at wirionedd yr efengyl. Os bydd y gwirionedd yn parhau yno, ni bydd yn aros yn ei gyfartaledd priodol;—ni bydd fel y mae yn yr Iesu; ond rhoddir lle mawr i'r peth bychan, a'r blaenaf fydd yr olaf. Nid oedd y golofn dân yn fwy angenrheidiol i Israel yn yr anialwch, na'r seren ddim yn fwy angenrheidiol i'r doethion er eu cyfeirio i Bethlehem, nag ydyw y gair yn yr ystyr hwn i'r eglwys.

Y gair eilwaith, ydyw y safon wrth ba un y mae hi i brofi ei

swyddogion. Y mae pob ysbryd nad ydyw yn dywedyd yn ol y rheol hon yn profi nad oes oleuni ynddo ; ac o ganlyniad, na ddylai gael ei ddilyn : a thra y bydd y gair mewn bri, ni all yr un cyfeiliornad mawr ddyfod i mewn i eglwys Dduw. Y mae yn rhaid i bob gwyro oddiar uniawn ffordd cyfiawnder ddechreu mewn esgeuluso y gair. Ni all yr offeiriad Pabaidd ddim llithio y werin i ofergoeledd, hyd nes yn gyntaf gymeryd y gair oddi arnynt ; neu wneuthur yr hyn fydd yn ateb yr un diben, sef rhoddi rhywbeth arall yn uwch nag ef. Ni all yr anffyddiwr ddim eu cael i ddywedyd, "Bwytâwn ac yfwn; canys yfory marw yr ydym ;" nes yn gyntaf dori caracter y gair. Nis gall "Saint y dyddiau diweddaf" ddim hudo eu canlynwyr hwythau, nes cael ganddynt yn gyntaf gredu annigonolrwydd y gair fel datguddiad Dwyfol. Gan fod yr eglwys wedi derbyn cymaint gan y gair, y mae ganddi hithau hefyd ddyledswyddau i'w cyflawni tuag at y gair; ac at y rhai hyny y cyfeiria y testyn :—"Yn cynnal gair y bywyd." Gallwn gael golwg ar gynwys y ddyledswydd hon mewn tri sylw :—

I. Ei gynnal, sef ei gadw yn y byd fel llyfr.

II. Ei gynnal gerbron y byd, trwy fuchedd sanctaidd.

III. Ei gynnal i'r byd, trwy ymdrechu i'w anfon i bob man. Y mae yr eglwys nid yn unig yn sylfaen i'w gadw yn y byd, ond yn golofn i'w ddal i'r byd.

I. Ein dyledswydd yw cynnal gair y bywyd yn y byd. Un o ddibenion mawr codiad yr eglwys Iuddewig oedd, "ymddiried iddynt am ymadroddion Duw," sef, i'w cadw i'r byd. Fel yr oedd yr arch gynt yn cadw llechau y dystiolaeth, felly y mae yr eglwys wedi bod, o dan bob goruchwyliaeth, yn arch i gadw ymadroddion Duw. Pan gollwyd llyfr y gyfraith yn Israel gynt, yn nhŷ yr Arglwydd y cafwyd ef; a phan oedd y llyfr wedi ei golli ar ol hyny, yn yr eglwys y cafwyd ef. Yr oedd yr eglwys Iuddewig wedi myned yn llygredig iawn, ond yr oedd hi yn cadw llyfr y gyfraith er hyny. Yr oedd yr eglwys Babaidd felly yn yr oesoedd tywyll, ond yr oedd llyfr y gyfraith yn cael ei gadw ganddi hithau,—a chan yr eglwys Syriaidd yn yr India,—a chan eglwys yr Aipht ac Ethiopia,—a chan eglwys Groeg. Y mae ei gadw eto yn ddyled ar yr eglwys ; ac y mae hi yn ddyled anhaws ei chyflawni yn yr oes

hon nag mewn un a fu o'i blaen. Yn yr oesoedd tywyll sydd wedi myned heibio, nid oedd nemawr ymosodiad uniongyrchol yn erbyn y llyfr: os byddai ymosodiad, yn erbyn y rhai oeddent yn proffesu bod yn gyfeillion iddo y byddai hyny. Aeth y ddwy ganrif gyntaf heibio heb ond un cais i ddinystrio llyfr y Cristionogion, a hwnw yn gais hanerog iawn; ond bu llawer cais yn yr ysbaid yna am ddinystrio y Cristionogion. Ond erbyn hyn y mae y diafol wedi dyfod yn ddoethach, ac wedi deall mai y llyfr ydyw gelyn ei deyrnas ef,—nad yw Cristionogaeth ddim ond effaith yn tarddu o achos: am hyny nid ydyw ond anfynych yn ymladd â bychan na mawr, ond â'r Llyfr yn unig; a'r ymosodiad hwn ydyw y peryglaf o lawer; oblegid pe gellid llwyddo i symud oddiar y ddaear bob cyfaill i'r Llyfr yr un diwrnod, os gadewid y Llyfr yma, byddai yn sicr fod ganddo gyfeillion wedi hyny, cyn pen wythnos; ond os gellir tori caracter y Llyfr, dyna y fwyell wedi disgyn ar wreiddyn y pren; oblegid hyn, y mae ymosodiad ar y Llyfr yn ymosodiad i'w ofni, yn fwy nag ymosodiad y Pabyddion ar ei gyfeillion. Nid yw y naill ddim ond am atal y ffrwyth, tra y mae y llall am dori y pren ei hun i lawr. Felly, nid arch yn unig i gadw y dystiolaeth ydyw yr eglwys yn awr, ond y mae hi fel byddin i amddiffyn yr oraclau dwyfol. Y modd y mae hi yn ei gadw yn y byd ydyw cynnal ei garacter,—gofalu yn barhaus i amddiffyn ei gam ef. Y mae y dull i wneuthur hyn i amrywio, yn ol fel y bydd yr ymosodiad ar y Llyfr yn amrywio. Ymosodwyd ar y Llyfr mewn tair ffordd benodol, sef trwy geisio dangos, (1.) Ei fod yn anghyson âg ef ei hun; (2.) yn anghyson â hen lyfrau eraill; (3.) yn anghyson â chreadigaeth Duw. Buasai y prawf sydd wedi bod arno yn y dull hwn wedi bod yn ddinystriol i bob llyfr arall; ond y mae ei gyfeillion wedi ei gynnal ef, ac wedi dangos na chafwyd yn ei erbyn, mwy nag yn erbyn Daniel, ddim achlysur, ac nad oes ynddo nac amryfusedd na bai.

(1.) Pe byddai yn y Llyfr bethau rhy anhawdd i neb ar y ddaear eu cysoni yn gwbl â'u gilydd, nid ydyw yr anghysonderau ymddangosiadol hyn yn effeithio dim ar garacter dwyfol y Llyfr, mwy nag y mae anghysonderau ymddangosiadol y greadigaeth yn profi nad gwaith Duw ydyw hi. Bydd gan

Lyfr Duw, fel ei greadigaeth, rywbeth i'w ddatguddio i bob oes, hyd nes y daw Mab y dyn ar gymylau y nef; a gall fod rhyw gynifer o'r anghysonderau ymddangosiadol hyn ynddo, yn angenrheidiol i'w wneuthur yn gyfaddas i'n hamgylchiadau ni, fel ag i'n profi ac i'n dysgu ni i rodio wrth ffydd. Yr oedd anghysonderau ymddangosiadol yn ngharacter Mab Duw. Yr oedd yn dyfod o Nazareth, debygid, yn lle o Bethlehem. Yr oedd yn fab i Joseph, yn lle yn fab Dafydd;—yn saer, yn lle yn frenin;—yn dioddef, yn lle yn teyrnasu;—ond yr oedd y pethau hyn oll mor angenrheidiol i'r bobl, ag oeddent i gymhwyso Mab Duw i fod yn Waredwr. A phe buasai ynddynt hwy wir awydd am ei adnabod, nid oedd yno ddim gormod o dywyllwch iddynt ddeall, mai Efe oedd y gwir Dduw a'r bywyd tragywyddol. Er mai nid gweled cysondeb y Llyfr sydd yn arwain nemawr neb i'w dderbyn; eto, er mwyn cau genau yr hwn sydd yn gwrthddywedyd, dylem allu cynnal y Llyfr yn yr ystyr hwn;—dylem, fel Apolos, brofi fod ffeithiau y Testament Newydd yn cyfateb i brophwydoliaethau yr Hen; neu, fel Paul, ddangos nad oes dim yn cael ei ddatguddio yn yr efengyl, nad ydyw y ddeddf a'r prophwydi yn dwyn tystiolaeth i'r un peth. Hyn a fyddai bod yn gadarn yn yr Ysgrythyrau; ac fe a'n parotoai ni i roddi rheswm i bawb, am y gobaith sydd ynom.

(2.) Ymosodwyd ar y Llyfr eilwaith, trwy geisio dangos ei fod yn anghyson â hen lyfrau eraill. Os oedd y gair yn dywedyd rhywbeth yn wahanol i un o'r rhai hyn, fe dynid casgliad yn y fan mai y Bibl oedd yn methu; neu, os nad oedd rhai o'r hen ysgrifenwyr hyn, oeddent yn y cyfle i hyny, yn crybwyll am ffeithiau y gair, cymerid eu distawrwydd yn sail amheuaeth, a oedd y peth wedi digwydd. Ond cynorthwywyd ef gan ei gyfeillion yn hyn hefyd. Fe brofwyd fod ei ysgrifenwyr mor deilwng, beth bynag, o gael eu credu, ar eu sylfaen eu hun, a dim hen ysgrifenwyr; fod arnynt, yn bersonol, gymaint o nodau gwirionedd ag oedd ar neb arall, ïe, mwy o honynt; ac os oedd rhywbeth ynddynt yn anghyson â rhyw hen ysgrifeniadau, mai y tebygolrwydd oedd, mai hwynt-hwy oeddent yn profi fod yr hen ysgrifeniadau hyny yn gyfeiliornus, ac nid y rhai hyny yn profi eu bod hwy felly. Ond i fyned heibio i hyn,—

(3.) Y mae yr ymosodwyr presenol arno yn ceisio tori ei garacter, trwy ddangos ei fod yn anghyson â chreadigaeth Duw;—fod darganfyddiadau y dyddiau hyn yn profi fod yn anmhosibl fod y Llyfr wedi ei lefaru gan yr un un, ag a ddywedodd "Bydded" yn y boreu. Yr oedd y sêr, y mynyddoedd, a'r creigiau, meddant, wrth dystio mai Duw a'u gwnaeth hwynt, yn tystio nad Duw a lefarodd holl eiriau y Llyfr hwn. Ond fe gyfododd yr Arglwydd waredwyr i'w Lyfr, fel y byddai yn codi barnwyr yn Israel gynt, fel ag i yru byddinoedd yr estroniaid hyn i gilio. Fe ddangoswyd, nid yn unig, nad oeddent yn dywedyd yn erbyn y Llyfr, ond bod y wybodaeth a ystyrid yn ddarganfyddiad newydd, o berthynas i'r greadigaeth, wedi bod yn llechu yn y Llyfr, er's miloedd o flynyddoedd. Ac, fel y dangosodd yr Apostol yn yr epistol at yr Hebreaid, fod holl ddaionus bethau yr oruchwyliaeth hon, wedi e cysgodi yn yr hen; felly, mae yn ddigon tebyg, y daw rhyw Gristion goleu tua'r mil blynyddoedd, i ddangos fod yr holl ddarganfyddiadau a wnaed trwy yr oesoedd wedi eu rhag-gysgodi yn y Llyfr. Y mae yr oes hon yn myned o flaen llawer o lyfrau, ond y mae yr hen Lyfr hwn yn ddigon o'u blaen hi eto; a'n dyled ni oll ydyw, gwneuthur ein goreu i'w gynal yn yr ystyr hon. Ac nac ofnwn am dano, pe digwyddai iddo fyned fel yr arch i wlad y Philistiaid: ni bydd yno yn hir. Pe ceid goruchafiaeth arno (nid yw hyn yn debyg), ni byddai ond goruchafiaeth am fynyd awr; a phe tawai dynion, fe lefarai y ceryg drosto.

Ond y mae eisiau nid yn unig cynnal ei wirionedd yn y byd; y mae eisiau hefyd ei gynnal yn ei le ei hun. Y mae rhai a ymdrechant dros ei wirionedd, ond a'i hysbeiliant ar yr un pryd o'i le priodol ei hun. Buasai yr Iuddewon yn marw dros wirionedd yr Hen Destament; ond yr oeddent yn ei ysbeilio o'i le, trwy roddi traddodiadau y tadau yn gystal, ïe, yn uwch nag ef. Ni fỳn y Llyfr neb uwchben iddo,—ni fỳn ê neb yn rhanog âg ef ychwaith. Ein dyled ni oll ydyw ei gynnal yn hyn, trwy ofalu na roddwn ni ddim o'i ogoniant i arall, a thrwy wneuthur beth bynag a ddywedo efe, a dim ond hyny.

II. Yr ydym i gynnal y gair gerbron y byd, trwy ymarweddiad sanctaidd. Goreu po mwyaf a all ei gynnal yn y dull y

sylwyd arno eisoes; ond ni all y nifer ddim bod ond ychydig mewn cymhariaeth, sef yn benaf, y dysgedigion a'r doethion. Ond y mae hwn yn gynnal sydd yn dyfod o fewn cyraedd pawb; a phe byddai mwy o'r cynnal hwn, byddai llai o angen y cynnal arall. Y mae yr eglwys i gynnal y gair mewn tri ystyr:—(1.) Y mae y saint i gynnal ei wirionedd gerbron y byd. (2.) I gynnal ei bwysigrwydd gerbron y byd. (3.) I gynnal ei brydferthwch gerbron y byd.

(1.) Y mae yr eglwys i gynnal gwirionedd y gair gerbron y byd. Ni bu yr un oes yn fwy ffrwythlawn mewn profion o wirionedd y Llyfr na'r oes hon. Y mae pob peth, o uchder y nefoedd hyd ddyfnderoedd y ddaear, yn dwyn tystiolaeth iddo; ac y mae yn ddiameu, fel y cynydda gwybodaeth, y ceir allan eto brofion newydd o'i wirionedd; ond ai nid yw y prawf goreu heb ei ddwyn ymlaen eto, sef, y Llyfr yn cael ei gynnal yn mywyd ei gyfeillion? Y mae yn dda cael adfeilion Ninifeh a Babilon, i brofi gwirionedd ei hanesion a'i brophwydoliaethau: byddai yn dda cael rhyw un a fedrai ddeongli yr ysgrifeniadau sydd ar greigiau Sinai, oblegid y mae yn debygol mai tystion ydynt o wirionedd llyfrau Moses. Ond annhraethol well na hynyna, a fyddai cael tystion byw i wirionedd y Llyfr. Yr oedd gwyrthiau yr Arglwydd Iesu wedi methu argyhoeddi y byd, mai oddiwrth Dduw y daeth. Bu raid iddo adael y ddaear, a'r ddadl heb ei phenderfynu; ond gadawodd yma rywbeth ar ei ol, a fyddai yn sicr o'i henill hi,—rhywbeth a fyddai yn fwy effeithiol na'r holl wyrthiau; a dyna oedd hyny,—cynifer o ddisgyblion i fyw ei athrawiaeth. "Os aroswch yn fy ngair i (sef ei fyw,) disgyblion i mi ydych." "Wrth hyn y gwybydd pawb, mai disgyblion i mi ydych, os bydd genych gariad i'ch gilydd." Ac yn ei weddi ar ei Dad, yr ydym yn cael beth a fyddai effeithiau hyny ar y byd, "fel y credo y byd mai tydi a'm hanfonaist i." Yr oedd Efe yn ymddiried ei garacter i hyn, gan fod yn gwbl sicr, os byddent hwy yn ffyddlawn, yr argyhoeddid y byd trwyddynt hwy, o'i gyfiawnder Ef. Yr oedd yr Apostol Paul yn foddlawn i'w hawl ef i gael ei ystyried yn apostol, ac o ganlyniad i wirionedd ei eiriau, sefyll neu syrthio, wrth effeithiau ei weinidogaeth ar y Corinthiaid a'r Galatiaid. Yr oedd bod y Corinthiaid yr hyn

oeddent, yn llythyr Crist, i brofi ei apostoliaeth ef. Ac yr oedd canlyniad ei lafur yn Galatia yn ddigon o brawf pa un a oedd ê yn apostol ai peidio; ac y mae yn gweddio dros y Corinthiaid rhag iddynt wneuthur dim drwg, nid fel yr ymddangosai efe yn gymeradwy; ond y mae yn eglur fod eu perffeithrwydd hwynt yn gymeradwyaeth iddo yntau,—yn brawf fod Crist yn llefaru ynddo. Yn yr un dull, y mae gwirionedd y Bibl i gael ei gynnal; sef, trwy i'w gyfeillion beidio gwneuthur dim drwg, Pe byddai pob ymddygiad o'u heiddo yn adsain "Gwir yw y gair," fe orfodid y byd i dystio fod Duw yn wir ynddo. Yr oedd Daniel wedi ymddwyn mor berffaith yn Babilon, nes oedd y Babiloniaid yn gorfod meddwl yn barchus am ei Dduw ef; a rhyw wall yn nghyfeillion y Llyfr sydd yn achlysur o bob ymosodiad ar ei wirionedd. Pe byddem ni yn gyfryw na fedrai neb feio arnom, elai hyny ymhell tuag at wneuthur ein Llyfr yn gyfryw na feiddiai neb feio arno. Bywyd perffaith gyson ei gyfeillion a ddilëai holl anghysonderau ymddangosiadol y Llyfr. Pe na byddai dim ynom ni yn dywedyd yn ei erbyn, ni roddai neb ddim pwys ar eiriau nac ar ddistawrwydd paganiaid yn ei gylch. Ni byddai fod y greadigaeth yn ei erbyn yn ddim, pe byddem ni o'i blaid. Fe fyddai ei fod wedi codi ein natur ni, a thrwy hyny brofi ei fod yn cyfateb iddi, yn ddigon ar gyfer ei fod yn groes, pe byddai felly, i'r natur o'n hamgylch ni. Ac y mae'r Llyfr yn gyfryw nad oes dim ond ei fyw a'i gwiria yn iawn. Bydd ei athrawiaethau yn anhygoel, a'i orchymynion yn anmhosibl, os na bydd eu gwirionedd yn cael ei brofi yn barhaus yn mywyd ei gyfeillion. Mewn amser o ddirywiad, y mae heresi yn gyffredin yn do'd i mewn. Pan na byddai llawer yn ddiofal am gydnabod Iesu Grist yn Dduw, trwy blygu i'w awdurdod ymhob peth, y deuai rhywun ymlaen i wadu ei Dduwdod. Pan na byddai gras Duw yn dysgu y rhai oeddent yn ei broffesu, i wadu pob annuwioldeb, deuai rhywun ymlaen i ddywedyd, mai nid trwy ras yr oedd dyn yn gadwedig. Y mae athrawiaethau y Llyfr yn myned yn anhygoel, os na byddant yn cael eu byw; ac feallai y gellid olrhain pob un o ymosodiadau y dyddiau hyn ar y Llyfr, i esgeulusdra ei gyfeillion i fyw rhyw athrawiaeth sydd ynddo. Ac os oes yma ryw un yn ofni i ryw gyfeiliornad ddyfod i mewn, y peth goreu a

fedrwch chwi ei wneuthur tuag at sicrhau i'r gwirionedd barhau fel y mae, yn yr Iesu, ydyw, gofalu am ei fyw. Meddyliwch eto am ei orchymynion; fe ddywedir fod y rhai hyn yn anmhosibl, am nad ydym ni yn dangos, trwy eu cadw, nad ydynt felly. Y mae llawer o ysgrifenu a darlithio yn y dyddiau hyn, ar ddiwygiadau mewn amaethyddiaeth; ond y mae rhagfarnau amaethwyr mor gryfion dros eu hen ddull, fel na chredant fod gwir yn y llyfr a'r ddarlith; ond os daw yno ryw un i'r ardal i roddi y llyfr mewn ymarferiad, ceir gweled y rhagfarn yn fuan yn cilio, a'r hyn a ystyrid yn anmhosibl, yn cael ei deimlo gan bawb yn ymarferol. Felly, gweled gorchymynion y Bibl yn cael eu byw, a ddaw â'r byd i gredu eu bod yn ymarferol. Yr oedd adeiladydd y bont haiarn dros y Menai, wedi profi i sicrwydd ar *bapyr*, yr atebai y *tube* y diben, cyn dechreu arno. Yr oedd efe wedi cael allan nerth y defnyddiau,—pa faint o bwysau a allent eu dal,—beth a fyddai dylanwad y gwynt a'r hîn arnynt; ond nid oedd y peth ddim yn wirionedd i'r byd nes oedd y *tube* yn ei le, a'r cerbydau wedi myned drwyddo hefyd. Y mae yn ofnus mai gwirionedd ar bapyr ydyw y Bibl mewn llawer lle eto. Nid yw y *problem* eto wedi ei *solvio*, y pwnc dyrus wedi ei lawn egluro. Pa bryd y dywed y byd, "Gwir yw y gair?" Pan y gwelant yr hyn sydd yn y Llyfr mewn gweithred ynom ni. Nid oedd Phylip yn aros i ymresymu â Nathanael, ynghylch pa un a allai dim da ddyfod o Nazareth ai peidio; ond cymerodd ffordd ferach o lawer i benderfynu y pwnc,—"Tyred, a gwêl." O na byddai ein hymddygiadau ni yn gyfryw ag y gellid dweyd wrth bob amheuwr ac anffyddiwr, Os wyt ti yn ameu y gwirionedd,—"Tyred a gwêl." Ni bu mewn un oes fwy o fanteision i ddeall gair Duw nag sydd yn awr. Y mae yr ieithoedd y'nha rai yr ysgrifenwyd ef wedi eu hastudio,—y defodau y cyfeirir atynt wedi eu deall, fel ag y mae genym ddisgrifiadau yr ysgolaig, a darluniau 'r celfydd, i'n cynorthwyo i ddeall y llyfr; ac yn enwedig, y mae y darluniau yn help mawr i'w ddeall. Ond ai nid oes arnom eisiau eto "Fibl Darluniadol" amgen nag yr un a gyhoeddwyd yn Gymraeg neu yn Saesneg, sef y Llyfr wedi ei eglurhau a'i addurno (*illustrated*) gan ei gyfeillion. Fe fyddai pob Cristion, pe yn ei le, yn "Fibl Darluniadol." Yr oedd yr efengyl, yn y

dull yna, yn tynu sylw y pagan yn Corinth. Yr oedd efe yn cael ei enill gan y wraig, heb y gair. Os nad ydym ni sydd yn ei broffesu yn ei gynnal, cofiwn yr ydym yn gwneuthur peth mwy na thori ein caracter ein hun,—yr ydym, mewn gwirionedd, yn gwneuthur y Llyfr yn gelwyddog.

2. Yr ydym i gynnal ei bwysigrwydd gerbron y byd. Y mae hyn yn perthyn yn agos i'w wirionedd, oblegid y mae yn wirionedd o'r fath natur, fel, debygid, nad allai y neb sydd yn ei gredu lai na dangos ei fod yn bwysig. Ond y mae dosbarth lliosog yn addef yn oeraidd wirionedd y Llyfr, pan y mae yn eglur i bawb nad ydynt yn teimlo nemawr oddiwrth ei bwys; ac y mae y dosbarth yna yn llawer lliosocach na'r rhai sydd yn gwadu ei wirionedd. Y mae yn dra anhawdd gwadu ei wirionedd, am fod pob peth yn dwyn tystiolaeth i hyny; ond y mae yn dra hawdd bod heb deimlo oddiwrth y gwirionedd, am nad oes dim yn y golwg i'w ddwyn ef adref i'r teimlad. Buasai yn anhawdd gwadu gwirionedd geiriau Noah, oblegid yr oedd yn ddyn o'r fath, na buasai neb yn meddwl am foment y buasai yn eu twyllo; ond nid oedd yno ddim yn y golwg i beri i'r gwirionedd ddyfod yn bwysig i'r teimlad. Nid oedd y nefoedd ddim yn duo ar ddiwedd y bregeth,—nid oedd un o ffynhonau y dyfnder yn rhwygo i ddwyn ei gwirionedd hi i'r teimlad: yn hytrach, yr oedd pob peth yn parhau fel yr oeddent o ddechreuad y greadigaeth;—yr haul yn codi ac yn machlud;—y tymhorau yn dilyn eu gilydd yn rheolaidd;—holl olwynion y peiriant yn eu lle, ac i bob ymddangosiad yn sicr o barhau felly; eto yr oedd yno un peth yn tueddu i ddwyn pwys y geiriau i'w teimlad, sef gwaith Noah, gyda pharchedig ofn, yn darparu yr arch. Bob tro yr elai y dorf heibio i'r arch, byddai y gydwybod yn sibrwd wrthynt, mai geiriau gwirionedd a sobrwydd oedd rhai y pregethwr cyfiawnder. Buasent yn fuan iawn yn cynefino â'r bregeth; ond yr oedd yn rhy anhawdd cynefino â'r arch. Yr oedd pob ergyd ar hono yn eu condemnio hwynt: felly nid oes dim yn y golwg i ddwyn pwysigrwydd y Llyfr i deimlad y bobl. Ac oblegid hyn yr ydym weithiau yn barod i ddywedyd, O na rwygai y nefoedd,—na chymerai pethau dieithr le,—i ddwyn y gwirionedd adref i'r teimlad; ond y mae yr arwyddion gweledig wedi cilio,—y

prophwydi wedi ymadael,—y gwyrthiau wedi darfod. Fe fu y pethau hyn gynt yn sylweddoli i'r bobl y pethau nid oeddid yn eu gweled;—Sinai yn dwyn pwysigrwydd y ddeddf i'r teimlad;—y cwmwl oedd yn gorchuddio y babell yn peri iddynt deimlo mai lle ofnadwy oedd y cysegr. Y prophwyd, oedd yn rhodio yn eu plith mewn crys o rawn, yn dyst gweledig fod Duw yn bod, a bod perthynas bwysig rhyngddynt hwy âg ef. Ond ni ddaw Sinai ddim i gynnal pwysigrwydd y ddeddf yn awr; nid oes yr un cwmwl i beri i'r bobl deimlo ofnadwyaeth y cysegr; na'r un prophwyd i sylweddoli y byd ysbrydol ini; ond y mae pwysigrwydd y pethau i gael eu dwyn i'r teimlad yn awr gan yr eglwys. Y mae hi i ateb yr un diben i'r byd, ag y mae ffydd yn ei ateb iddi hi ei hun. "Ffydd yn wir," medd yr apostol, "yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio," neu hanfodiad "y pethau nid ydys yn eu gweled." Felly y mae hithau i fod i'r byd yn sicrwydd,—yn argyhoeddiad,—yn hanfodiad y pethau nid ydys yn eu gweled. Ffydd ydyw yspïenddrych (*telescope*) yr eglwys, i ddwyn pethau pell yn agos; a'r eglwys ydyw yspïenddrych y byd i hyny. Y mae y *telescope* yn peri i bethau, sydd yn ymddangos i'r llygad yn oleuni gwanaidd yn y ffurfafen, ymddangos yn sêr disglaer; a'r pethau sydd yn ymddangos yn sêr bychain, y mae y drych yn eu dangos yn heuliau mawrion, a'u goleu yn rhy danbaid i'r llygaid syllu arno; ac mewn llawer lle na wêl y llygad ddim, y mae y drych yn dwyn bydoedd mawrion i'r golwg. Y dull y mae y rhai mwyaf nerthol o honynt yn gwneuthur hyn ydyw hwn. Y mae yna rywbeth o fewn y drych wedi ei gaboli (*polished*) i'r perffeithrwydd mwyaf, fel ag i'w gymhwyso i dderbyn delw y pethau pell, ac oddiar hwnw y mae y ddelw yn cael ei hadlewyrchu ar rywbeth drachefn, sydd yn ei throsglwyddo i bwynt llygaid yr edrychydd: draw, draw, yn y pellder anfesurol y mae y gwrthddrych; ond y mae yr edrychydd yn ei weled yn ei ymyl. Ac y mae rhai o honynt yn cael eu llunio yn y fath fodd, ag y gall yr edrychydd weled gwrthddrych sydd y tu cefn iddo, o flaen ei wyneb. Drychau o'r fath yma ddylem ninau fod. A oes yma rywbeth o'n mewn ni cymwys i dderbyn delw y pethau pell y mae eu henwau yn y Bibl,—y pethau anweledig i lygad o gnawd,—fel ag i

adlewyrchu y ddelw yn ymyl pob edrychydd? Ffydd ydyw y *reflector*,—yr hon sydd yn derbyn delw y pethau. Y mae hi i fod i ni ein hunain yn hanfodiad y pethau nid ydys yn eu gweled; a thrwyddom ni y mae hi i fod felly i'r byd. Y mae Sinai ymhell:—ydyw; ond os ydym ni yn offerynau perffaith,—yn cyflawni ein gwaith yn iawn, y mae ein cymydogion yn ei weled, weithiau, yn ymyl; nes y mae ofnadwyaeth yr olwg yn peri iddynt ofni a chrynu. Y mae y farn draw, draw, allan o olwg llygad o gnawd; ond os wyt ti yn cyfateb i dy enw, y mae dy gymydog annuwiol yn ei gweled hi yn eistedd weithiau;—y llyfrau yn agor,—nes y mae ei dychryn hi yn syrthio arno. Y mae dy holl gymydogion di â'u cefnau ar nefoedd Duw; ond os wyt ti yn dy le, y maent yn gweled adlewyrchiad gwanaidd o honi, oddiwrthyt a thrwot ti, ger eu bron hwynt. A ydyw y gair yn cael ei gynnal genym? A ydym ni yn rhoddi hanfodiad iddo yn y byd? A ydym ni yn ei atal i fyned yn bell ac yn henaidd? Lle y mae felly, y mae bron yn gwbl ddiddylanwad. Yr oedd brenhines Seba wedi clywed am Solomon, ond heb gredu; ond pan y daeth hi i Jerusalem, a gweled, nid arosodd ysbryd o'i mewn hi. "Gwir," medd hi, "yw y gair a glywais!" Y mae miloedd yn ein gwlad ni yn clywed y gair bob Sabbath, ac heb ei gredu; ond pe byddai yr un peth iddynt i'w weled ar hyd yr wythnos, nid arosai ysbryd o fewn llawer o honynt, ond teimlent ei bwysigrwydd. Cynheliwch ef yn ei bwys.

3. Dylem gynnal y gair yn ei brydferthwch gerbron y byd. Y mae tlysni—y mae prydferthwch yn y Llyfr; ond y mae yn brydferthwch na all y byd ddim ei ganfod, na theimlo oddiwrtho, nes ei weled mewn gweithred. Y mae y doethion yn dywedyd nad oes dim barddoniaeth a ddeil ei chystadlu â barddoniaeth Esaiah a Dafydd;—nad oes yr un gadwen o ymresymu mwy campus, ar y ddaear, na'r eiddo yr Apostol Paul;—nad oes neb wedi ysgrifenu bywgraffiad a ddeil ei gymharu am foment âg un pysgodwyr Môr Galilea; ond y mae y prydferthion hyn yn bethau, nad oes gan ond ychydig iawn lygad i'w gweled. Ond y mae modd dwyn allan brydferthwch y Llyfr fel ag i beri iddo fod yn weledig i bawb. Y mae y Bibl, fel y dôn yn y nodau, yn y llyfr: ni ŵyr llawer ddim am dani

wrth edrych arni felly; ond y mae bron bawb yn gwybod rhywbeth, pan y clywant hi yn cael ei chanu yn dda. Pa mor anghymwys bynag a fyddant i wybod am dani trwy'r llygad, ond odid na fydd peroriaeth y llais yn effeithio arnynt. Dyma'r dôn: a ydym ni yn dwyn ei phrydferthwch gerbron y byd? Ai ynte a ydyw ein hanfedrusrwydd ni yn peri fod y dôn yn cael anair? Y mae prydferthwch y Bibl, tra y bydd yn y llyfr yn unig, yn gyffelyb i'r blodau a'r ffrwythau gwerthfawr tra y byddont yn yr hadau: y mae yn rhaid eu planu fel ag i beri i'r prydferthwch sydd yn yr hedyn ddyfod i'r golwg. Y mae llawer adnod, tra yn y Llyfr, mor fechan a disylw a'r gronyn o hâd mwstard; ond wedi ei phlanu mewn rhyw galon, y mae hi yn myned yn bren mawr, ac adar y nef yn lleisio oddirhwng ei changau. Y mae hi yn ddigon mawr a phrydferth i dynu sylw cyffredinol. "Gweddiwch dros y rhai a wnêl niwed i chwi:" dyna un o'r hadau. Nid yw yn tynu nemawr o sylw yn y fan yna; ond ewch i edrych ar Stephan yn cael ei labyddio, chwi a welwch yr hedyn wedi ffrwytho. "Na ddod y pechod hwn yn eu herbyn;"—mor brydferth ydyw y ffrwyth, onide! Y mae prydferthwch mewn bywyd. Y mae rhai o honoch wedi bod yn gweled rhyfeddodau y *Museum* yn Llundain; ac yn eu plith, chwi a welsoch adar yr awyr, anifeiliaid y maes, a bwystfilod y goedwig; ac er eu bod yn brydferth, nid oedd prydferthwch bywyd arnynt: am hyny yr oedd y llygad yn blino yn edrych arnynt yn fuan. Chwi a aethoch oddiyno i'r *Zoological Gardens*, a chwi a welsoch yr un pethau; ond yr oedd y dylanwad arnoch yn dra gwahanol: y rheswm oedd, am eu bod yn y lle olaf, yn fyw. Mor wahanol oedd eich teimlad wrth edrych ar y llew, yn rhodio yn fawreddus yn ei gell, i'r hyn oedd, wrth edrych arno yn farw yn y *Museum*. *Museum* prydferth ydyw Llyfr Duw, llawn o bethau tlws ac arddunol; ond mewn un ystyr, pethau marw ydynt. Y mae y pethau i'w gweled wedi eu gwisgo â phrydferthwch bywyd yn yr eglwys. Y maent i fod yn hysbys trwyddi hi. Y mae hi i harddu yr athrawiaeth, sef i'w dangos hi yn ei chymesurau (*proportions*) priodol. Yr oedd yr apostol yn teimlo pwys hyn. "Na chabler eich daioni chwi," hyny yw, na fydded ffrwyth eich crefydd yn rhoddi achlysur i neb ei chablu hi. Y mae y

Cristion i fod fel pren y bywyd, a phob rhyw ffrwyth arno, a'r ffrwythau oll yn addfed yn eu mis. Ysgrifenodd Matthew, Marc, Luc, ac Ioan, hanes bywyd Iesu Grist: ysgrifenodd pob un o honynt yn ei ddull ei hun ; ond er eu bod yn amrywio, yr oedd hanes pob un o honynt yn efengyl, yn newyddion da, oedd yn rhoddi bywyd i'r darllenwyr. Yr oedd Marc yn dywedyd wrth ddechreu mai dechreu ei efengyl yr ydoedd ; ac Ioan yn dywedyd wrth ddiweddu, mai ysgrifenu a wnaeth fel y caffai y darllenwyr fywyd tragywyddol, yn yr Hwn yr oedd efe wedi ysgrifenu ei hanes. Nid oedd yn ameu nad oedd efe wedi ei ddangos yn deilwng o gredu ynddo. Dyna yr ydym ninau yn ei wneuthur,—ysgrifenu â'n bywyd, hanes bywyd Iesu Grist; ond y cwestiwn pwysig ydyw,— A ydyw ein hysgrifen ni yn efengyl? A allai rhywun gael ei gadw trwyddo? Yr oedd Pedr yn sôn am i wŷr gael eu cadw heb y gair, trwy fod bywyd y gwragedd yn efengyl iddynt hwy. Fe ysgrifenwyd llawer iawn o *spurious G spels* gynt, sef o hanesion ffugiol am Iesu Grist; ac yr oedd pob un o honynt yn gŵyrdroi rhyw gymaint ar ei garacter perffaith Ef. Y mae yn bur ofnus fod llawer iawn o honynt yn cael eu hysgrifenu yn y dyddiau hyn: *spurious gospels*, na chedwid neb byth trwyddynt. Y mae o gryn bwys i ni ysgrifenu hanes cywir o Fab Duw; oblegid, os nad ydym yn cynnal y gair yn ei wirionedd,—yn ei bwysigrwydd,—yn ei brydferthwch,—yr ydym yn peri fod gair Duw yn cael ei gablu. Ac os nad ydym yn ei gynnal yn y dull hwn, y mae yr holl lafur gyda ni wedi bod yn ofer. Beth bynag a gewch chwi drwy y Llyfr (a chwi a ellwch gael llawer,) tu yma i gael bywyd tragywyddol, fe ddengys dydd Crist, fod y Llyfr wedi bod yn ofer i chwi. Chwi ellwch ddifyru eich hunain â'r blodau sydd yn y maes ; ond os na ddangoswch chwi, trwy fod yn gyfoethog tuag at Dduw; eich bod wedi cael gafael ar y trysor s dd ynddo, y mae y maes wedi bod yn ofer i chwi. Fe fu dyfodiad Mab Duw ei hun yn ofer i'r Iuddewon. Llafuriodd y prophwydi i'w ddarlunio am ganoedd o flynyddoedd, yn ofer. Tywalltwyd gwaed yr ebyrth i'w gysgodi trwy yr oesoedd, yn ofer. Cyflawnodd yntau wyrthiau heb eu hail, yn ofer. Llefarodd, na lefarodd dyn erioed fel Efe, yn ofer. Bu farw ar bren, yn ofer. Fel y dywedodd yr apostol, fe boenodd wrthynt,

yn ofer. Pan edrychom ninau ar ugeiniau o wrandawyr yr efengyl, nis gallwn lai na dywedyd,—Y mae blynyddoedd o bregethu wedi myned yn ofer ;—y mae blynyddoedd o ddarllen y Bibl wedi myned yn ofer ;—y mae yr holl boen wedi bod yn gwbl ofer. Na fyddwn yn foddlawn ar ddim llai trwy'r Llyfr na bywyd.......Ond pe gwelid ynom awydd calon am ei gynnal yn y dull y sylwyd arno eisoes, ni byddai raid llawer o gymell arnom i'w gynnal ef,—

III. I'r byd, trwy ei anfon i dywyll-leoedd y ddaear. Y mae y rhai sydd yn ddiofal am wneuthur hyn, yn eglur brofi nad ydynt yn ei gynnal yn y dull arall. Ni enwn ni ddim ond un cymhelliad i wneuthur hyn, sef, mai gair y bywyd ydyw. Y mae hyn yn ddigon i ddangos pwysigrwydd yr ymddiried sy genym. Yr oedd gan Noah gryn ymddiried gynt yn yr arch : yr oedd bywyd y byd ymhob ystyr dan ei ofal. Yr oedd Joseph mewn lle pwysig yn yr Aipht,—ffon bara y bobl yn ei law. Pe buasai efe yn anffyddlawn i'r ymddiried, buasai miloedd yr Aipht a'r gwledydd amgylchynol yn trengu. Nid dibechod fyddai ceidwad y *lighthouse*, a esgeulusai roddi goleu ar noson ystormus. Nid difai fyddai y rhedegwr, a ymdrōai gydâ phethau dibwys ar y ffordd, ac yntau â *reprief* ganddo i adyn condemniedig, yn ymyl y dienyddiad. Nid dibechod fyddai y meddyg, a omeddai i'r claf yr unig feddyginiaeth a'i cadwai rhag angau. Dyma unig oleuni y byd ;—dyma *reprief* i deulu condemniedig y ddaear ;—dyma yr unig falm at glwyfau marwol y ddynoliaeth ;—nid dibwys ydyw'r ymddiried a roddwyd i ni. Pe buasai hyny o wybodaeth ddaearyddol neu serydd ôl, a hyny o wybodaeth am physigwriaeth a feddai y byd, yn unig yn y wlad hon, buasai yn feddwl digon difrif, fod miloedd yn colli eu bywydau bob blwyddyn, ar fôr a thir, o ddiffyg y wybodaeth ; ac mai parhau i wneuthur hyny a wnaent hyd nes yr anfonid hi iddynt ; ond buasai yr ystyriaeth y gallasent ddamweinio croesi y môr yn ddiogel, er na wyddent ddim am forwriaeth ;—y gallai y claf ddamweinio gwellâu, er nad oedd neb yn ei wlad yn gwybod dim am physigwriaeth,—yn lliniaru annedwyddwch y teimlad, ond am wybodaeth iachawdwriaeth,—gair y bywyd,—sydd yn ein meddiant ni, ni ddamweiniodd i neb erioed groesi yn ddiogel i'r hafan ddymunol, heb y *chart* hwn.

Ni ddamweiniodd i neb wellâu erioed os na byddai y balm o Gilead yno. Gan mai gair y bywyd ydyw, nid bychan ydyw cyfrifoldeb y rhai y mae ê wedi ei ymddiried iddynt. Y mae yn wir ein bod wedi cael braint trwy gael ein rhoddi mewn sefyllfa fanteisiol i wneuthur hyn i'r byd. Yr oedd Joseph wrth gael ei roddi mewn sefyllfa fanteisiol i wneuthur cymwynasau i'r Aipht, yn cael dyrchafiad ei hun: felly ninau. Ond cofiwn o hyd mai peth i gyraedd amcan arall yw hwn; ac os methwn ni a chyraedd y llall, ni a gollwn y dyrchafiad. Y mae parhâd y breintiau yn anwahanol gysylltiedig â chyflawniad ein dyledswydd tuag at y byd. Tystion o hyn, pawb a fu mewn sefyllfa gyffelyb. Paham y symudwyd ymerodraethau mawrion y cyn-oesoedd? Paham y torwyd yr Iuddewon ymaith? Paham y collodd gwahanol drefydd y Cyfandir eu nerth, y naill ar ol y llall? Ymddiriedolwyr (*trustees*) i'r byd ydym ninau; ac os ceir ni yn anffyddlawn i'r ymddiried, bydd rhywun arall yn cael ei roddi ynddo yn ein lle ni. Ond y mae yn destyn diolch i'r Arglwydd fod ein gwlad ni wedi cyflawni ei dyled i'r graddau y mae hi; ond cofiwn, nid ydym wedi talu ond rhan (*instalment*) fechan iawn. Dyledwyr ydym heddyw i China;—i India;—i Affrica;—i ynysoedd y môr;—tra y bydd gwlad ar y ddaear heb y goleuni, ein dyled ydyw ei gynnal iddynt; a thra y cynnhaliwn ni ef, bydd ef yn sicr o'n cynnal ni. Cynnhaliwn ef yn y byd, trwy amddiffyn ei garacter;—cynnhaliwn ef gerbron y byd trwy ei fyw;—a chynnhaliwn ef i'r byd, trwy gyfranu i'w anfon i'r lle nad yw.

[Boreu Gwener, Awst 26, 1853.]

## PREGETH XLVII.

### GWRTHOD CARIAD Y GWIRIONEDD YN DWYN AMRYFUSEDD CADARN.

THESSALONIAID ii. 10. 11.—"Am na dderbyniasant gariad y gwirionedd, fel y byddent gadwedig. Ac am hyny y denfyn Duw iddynt hwy amryfusedd cadarn, fel y credont gelwydd."

Y MAE gwirionedd a chyfeiliornad wedi cydfyw ar y ddaear ymhob oes. Er nad yw y gwirionedd yn achos o'r cyfeiliornad, eto y mae y cyfeiliornad yn ei ddilyn, fel y mae y cysgod yn dilyn y sylwedd. Y mae hefyd yn dwyn cymaint o ddelw y gwirionedd, fel ag i demtio miloedd i'w dderbyn yn ei le. Un o'r gwirioneddau cyntaf mewn crefydd ydyw, Bod Duw. Hwn ydyw ei sylfaen hi. Y mae crefydd yn ddyledus am ei ffurf a'i delw i'r gwirionedd yna. Hwn oedd i ddwyn y byd i ddelw Duw ; oblegid y mae tuedd naturiol mewn dal cymundeb â Duw, drwy addoli, i wneyd hyny. Gan hyny, y mae o'r pwys mwyaf beth a fydd caracter gwrthddrych yr addoliad ; oblegid cyffelyb i hwnw fydd caracter yr addolwyr. Yn gysylltiedig â'r gwirionedd yna y daeth cyfeiliornad eilun-addoliaeth i'r byd. Y mae y cyfeiliornad yn addef bod Duw ; ond trwy briodoli i'r neb a addolid deimladau yr anifail, a nwydau y diafol, yr oedd crefydd yn cael ei defnyddio yn fantais i sefydlu y llygredigaethau hyn ar y ddaear. Y mae cyfeiliornad bob amser yn addef rhyw gymaint o'r hyn a ddatguddia y gwirionedd ; ond yn ychwanegu digon o'i eiddo ei hun at y gwir i'w droi yn gelwydd ;—i wneuthur i'r *iachus ciriau* ysu fel cancr, a dwyn o amgylch farwolaeth dragywyddol yr enaid. Dywed gwirionedd mai un Duw sydd ; addefa cyfeiliornad fod un, ond ä yn mhellach i ddywedyd fod llawer o

îs-dduwiau. Os cyhoedda gwirionedd mai trwy aberth y mae gwasanaethu y Duw hwnw, a bod gwerth yr aberth a wneir i fod yn arddangosiad o faint parch yr addolwyr i Dduw, addefa cyfeiliornad hynyna; ond o'r gwirionedd yna, y tarddodd aberthau dynol. Y mae pob gwirionedd newydd yn cael ei ddilyn gan gyfeiliornad newydd. Os oes un Crist gwirioneddol i ddyfod, daw degau o au-gristiau i ddywedyd,—"Myfi yw." Os amlygir ffordd newydd i wasanaethu Duw, sef drwy Iesu Grist,—yn gysylltiedig â hynyna, daw cyfeiliornad newydd, a fydd yn dwyn cymaint o ddelw y gwir, ag yr oedd eilun-addoliaeth yn ei ddwyn o ddelw gwir addoli. Y mae eglwysi Rhufain a Groeg yr un peth i Gristionogaeth, ag ydoedd eilun-addoliaeth i'r wir grefydd, o dan yr Hen Destament: cyfeiliornad ydynt, yn ceisio ymrithio yn ngwedd gwirionedd.

Nid oedd Cristionogaeth yn nyddiau yr apostol ond newydd gael ei sefydlu; ond yr oedd cyfeiliornad wedi dyfod i mewn y pryd hyny,—"dirgelwch yr anwiredd yn gweithio eisoes." Nis gellir ameu nad wrth yr hyn a elwir "dirgelwch yr anwiredd," yn y benod hon, yr ydym i ddeall yr hyn a elwir yn bresenol yn Babyddiaeth. Er mai gwaith canoedd o flynyddoedd a fu dwyn y gyfundraeth Babaidd i'w pherffeithrwydd presenol, eto yr oedd yr egwyddorion o ba rai y deilliodd hi yn y byd y pryd hyny. "Dirgelwch yr anwiredd," neu anwiredd yn gweithio yn ddirgel oeddent y pryd hwnw: yr oeddent yn guddiedig, fel y lefain yn y blawd; ond ymhen ychydig ganrifoedd, gwelwyd eu bod wedi lefeinio holl glamp toes yr eglwys. Y mae amryw wedi ceisio cymhwyso y brophwydoliaeth hon at rywbeth arall; ond, fel y tybir gan yr Esgob Newton, a chan esbonwyr cyfrifol eraill, yn aflwyddianus. Ac fe ddangoswyd mor eglur fel na allai yr un dyn diragfarn ameu, fod pob nôd ag sydd yma ar y dyn pechod, i'w gael yn yr Eglwys Babaidd. Y mae y bedwaredd adnod wedi ei chyflawni yn llythyrenol. Yn mhen yr eglwys hono: yr enwau a roddir iddo gan Babyddion ydynt,—"Ein Harglwydd Dduw y Pab;" "Duw arall ar y ddaear;" "Brenin brenhinoedd, Arglwydd arglwyddi;" "Yr hwn sydd yn fwy na Duw." Nid rhaid wrth brofion amgenach mai efe sydd yn cael ei nodi yn yr adnod. Ac onid yw ei ddyfodiad ef yn ol gweithrediad Satan? (adn. 9).

Y mae hi yn llywodraeth gref, fel un brenin y fagddu ei hun; ac nid oes oddi un flwyddyn yn myned heibio, nad ydym yn clywed am ryw "arwyddion" a gwyrthiau newyddion, ond "rhyfeddodau gau" yn cael eu cyflawni; a pha ddichell sydd yn bosibl i'r meddwl dynol drwy gymorth y diafol eu dyfeisio, nad yw hi yn Eglwys Rhufain? Ie, fel y mae trefn iachawdwriaeth yn amlygiad o "fawr amryw ddoethineb Duw," ac o "ragorol fawredd ei nerth Ef," felly y mae Pabyddiaeth o fawr amryw ddichellion y diafol, ac o ragorol fawredd nerth ei lywodraeth yntau ar ei ddeiliaid.

Y mae yr hyn a elwir yn "ddirgelwch anwiredd" yma, yn cael ei nodi yn eglur ac yn fanylach, ond mewn geiriau gwahanol mewn rhanau eraill o epistolau Paul; megis, addoli eilunod, a dal cymundeb âg eilun-addolwyr; 'addoli angylion,' "trin gair Duw yn dwyllodrus:" "tybied mai elw yw duwioldeb;" "dysgu traddodiadau, gorchymynion, ac athrawiaethau dynion;" "cadw diwrnodiau a misoedd, amseroedd a blynyddoedd;" "gwahaniaethu rhwng bwydydd," "a bod heb arbed y corff;" "yn gwahardd priodi," &c. Y pethau yna a'u cyffelyb, oeddent yr elfenau o ba rai y cyfansoddwyd Pabyddiaeth: gwahanol aelodau "y dyn pechod" oeddent. Nid oedd yr holl bethau hyn yn cydgyfarfod yn yr un gangen eglwys; ond un peth yn y gangen hon, a pheth arall mewn cangen arall. Yr oedd eglwys Corinth, yn tueddu at eilun-addoliaeth; eglwysi Galatia, yn rhoddi pwys mawr ar fwydydd, a diwrnodiau, a gwyliau; yr oedd tuedd yn eglwysi Jerusalem a Judea, i ddysgu traddodiadau dynion yn lle gorchymynion Duw. Ond yr oedd yr apostol, mewn ysbryd prophwydoliaeth, yn canfod yr ymadawiad mawr yn cymeryd lle, pan fyddai yr holl elfenau hyn wedi cyd grynhoi i wneuthur y "dyn pechod." Y mae y rhan o'r brophwydoliaeth a ddarllenwyd yn destyn, yn gosod ger ein bron y rheswm paham yr oedd cyfeiliornad mor ofnadwy yn dyfod i'r byd. Y mae ynddi ddau achos o hyny yn cael eu nodi,—dau *baham* y daeth cyfeiliornad Pabyddiaeth i'r byd; sef y paham o du dynion, a'r paham o du Duw. Yr achos o du dynion oedd,—"Am na dderbyniasant gariad y gwirionedd;" a'r achos o du Duw,—"Am hyny y denfyn Duw iddynt amryfusedd cadarn, fel y credont gelwydd." Y mae y pethau

a fuant gynt, yn esiamplau i ni yn yr oes hon; oblegid y mae yr un achosion yn cynyrchu yr un effeithiau eto. Am hyny, ni a geisiwn ddefnyddio yr hyn a fu, yn rhybudd i ni, rhag i ninau hefyd gyfarfod â'r un farnedigaeth.

I. Ni a wnawn rai sylwadau eglurhaol ar yr ymadroddion,—"cariad y gwirionedd," a rhoddi i fyny i "amryfusedd cadarn, fel y credont gelwydd," sef y ddau *baham* y mae cyfeiliornad yn dyfod i'r byd.

Ond yn gyntaf, y paham, o du dynion, yr oeddent yn myned yn ysglyfaeth i gyfeiliornad; sef, "am na dderbyniasant gariad y gwirionedd," neu, mewn geiriau eraill, am nad oeddent yn caru y gwirionedd. Sonir yn fynych yn y Bibl am dderbyn y gwirionedd,—ei dderbyn gydâ phob parodrwydd meddwl,—yn llawen, &c. Yr un peth a olygir wrth yr ymadrodd hwn, ond bod hwn yn myned ychydig yn mhellach, fel ag i ddangos y paham y mae yn cael ei dderbyn, neu yn cael ei wrthod, sef, oblegid bod cariad yn y fynwes ato, neu y diffyg o hono. Y mae gwirioneddau yn bod nad oes a fynont ond â deall dyn: y mae y serch megis yn ddistaw mewn perthynas iddynt. Os bydd eu profion yn ddigon cedyrn, y mae y deall yn eu derbyn yn rhwydd; ond y mae dosbarth arall o wirioneddau, na bydd y deall mewn ystâd briodol i ddylanwad y profion sy ganddynt, heb fod y galon yn teimlo gradd o hoffder ynddynt; a chyn y derbynir y rhai yna, y mae yn rhaid derbyn cariad y gwirionedd. Yr oedd y profion o Fessiaeth Iesu o Nazareth mor eglur a phendant, fel ag y gallesid meddwl y buasai yn anmhosibl i neb beidio â chanfod mai Efe oedd "yr Hwn oedd ar ddyfod;" eto yr oedd miloedd o'r Iuddewon yn methu ei adwaen; ond ystâd eu serch oedd yn effeithio ar eu deall. Yr oedd purdeb caracter yr Iesu, a sancteiddrwydd ei grefydd, yn peri iddynt ei gasâu. Yr oedd diffyg y cariad yna ato yn eu hatal i weled ynddo Fessiah y prophwydi. Mor wir ydyw, mai "â'r galon y credir i gyfiawnder." Yr oedd pawb a dderbyniasant yr Iesu fel Messiah, yn rhai oeddent â'u calon mewn ystâd fanteisiol, i'w wyrthiau a'i eiriau, gael argraff briodol arnynt. Yr oeddent oll yn disgwyl am ddiddanwch yr Israel. Y mae yr un profion dros ddwyfoldeb yr efengyl ag sy dros Fessiaeth yr Iesu; a gellid tybied fod

y rhai hyn mor gedyrn, fel y byddai yn anmhosibl eu gwrthsefyll: eto y mae anffyddwyr ac Iuddewon yn ei gwadu hi;—Pabyddion yn dwyn efengyl arall yn ei lle hi;—a miloedd o'i gwrandawyr cyson, er nad ydynt anffyddwyr, ac nad ydynt yn Babyddion, eto heb ei derbyn. Ond yr un paham sydd i'w roddi drostynt oll, sef, "am na dderbyniasant gariad y gwirionedd." Er nad yw yn perthyn i'r un graddau iddynt oll: y mae yr anffyddiwr yn bellach na'r Pabydd; a'r Pabydd yn bellach na gwrthodwyr yr efengyl yn Nghymru; ond diffyg cariad ydyw yr achos eu bod oll heb ei derbyn. 'Y maent yn caru y tywyllwch yn fwy na'r goleuni;' am hyny nid yw y tywyllwch ddim yn medru amgyffred y goleuni. Ac nid yn unig y mae diffyg cariad at y gwirionedd, yn ein anghymwyso i ganfod mai gwir ydyw; ond y mae hyn hefyd, bob amser, yn achos o ddygiad cyfeiliornad i mewn. Yn y galon, neu yn y serch, y mae cyfeiliornad bob amser yn dechreu: hi sydd yn tywyllu y deall, fel ag i'w barotoi i gredu celwydd. Nis gellir gwasanaethu Duw, a mammon. Y mae y deall yn tystio, mai Duw a ddylai gael ei wasanaethu; ond y mae y galon yn caru mammon, yn hytrach; am hyny, i gadw tangnefedd yn y fynwes y mae y serch yn hudo y deall i gredu fod mammon yn dduw. O'r serch y tarddodd cyfeiliornad aml-dduwiaeth y byd. Yr oedd y gwirionedd am Dduw wedi ei ddatguddio; ond yr oedd yn cael ei atal "mewn anghyfiawnder" (Rhuf. i. 18.) Wrth "anghyfiawnder" yma yr ydym i ddeall, yr ystâd hono ar y meddwl, ag sydd yn cael ei chynyrchu gan hir sathru deddfau Duw. Yr oedd yr ystâd yma yn gyfryw, ag oedd yn atal i'r gwirionedd, ag oedd wedi ei ddatguddio, gael dim dylanwad ar y dyn. Ond wrth fyned yn ol i edrych beth a achosodd hyny hefyd, cewch weled y cyfeiliornad yn cychwyn o'r serch, sef am nad oedd "gymeradwy ganddynt gadw Duw yn eu gwybodaeth" (Rhuf. i. 28); ac os olrheiniwch bob un o gyfeiliornadau Eglwys Rhufain i'w wreiddyn, cewch weled mai diffyg cariad at wirionedd a fu yn achos o hono. Y mae crefydd, os yw hi yn ddim, yn bob peth. Y mae y dyn oddimewn, fel y dyn oddiallan, i fod dan ei llywodraeth. Nid oes air ar y tafod,—bwriad yn y galon,—na gweithred o eiddo y dwylaw, nad ydyw hi yn hòni hawl i'w llywio. Ond nid cymeradwy gan galon

lygredig wirionedd fel yna; am hyny daw â chyfeiliornad yn ei le; neilldua un dosbarth o ddynion i gynrychioli pawb; a thrwy ymddiried yr achos i'r rhai hyny, rhyddheir y dyn i raddau mawr oddiwrth ei rwymau personol i grefydd, a gall ddilyn ei chwantau heb anobeithio am y nefoedd. Y mae y Bibl yn dywedyd mai gan Fab y Dyn y mae awdurdod i faddeu, a'i fod wrth faddeu yn dywedyd,—"Dos, ac na phecha mwyach." Yr oedd cael maddeuant yn gymeradwy iawn gan y galon; ond yr oedd y cyngor oedd yn cael ei roddi gydag ef yn berffaith anghymeradwy. Ac o ddiffyg cariad at y gwirionedd yna, daeth cyfeiliornad i mewn i roddi awdurdod i ddynion i faddeu pechod, a'r rhai hyny yn gyfryw a ddywedent wrth yr euog,—"Dos, a phecha fwy." Felly, fe gollwyd ysbrydolrwydd o'r sacramentau. Yn lle bod yn arwyddion bendithion ysbrydol, ac yn gyfryngau i ffydd weithredu drwyddynt, fe ddaeth yr ymarferiad noeth â hwynt yn effeithiol i sicrhau y diben,—y bedyddio yn ail eni, a'r cymuno yn sancteiddio, ac arno ei hunan, yn ail offrymiad y Gwaredwr. Y mae y Bibl yn dangos mai lle y syrth y pren yn y byd a ddaw mai yno yr erys efe. Pan y mae angel marwolaeth wrth gyflwyno yr enaid i'r byd hwnw yn dywedyd "cyfiawn" am dano, y mae pob peth y byd dieithr yn adsain yn ol,—"Bydded gyfiawn eto." Neu os dywed yr angel,—"Brwnt," y mae yr adsain drwy y lle,—"Bydded frwnt eto." Y mae tuedd mewn gwirionedd fel yna i beri i ddynion ddarparu ar gyfer y byd arall cyn angau; ond o ddiffyg cariad ato, daeth cyfeiliornad i mewn, i ddywedyd fod lle canol yn y byd arall: felly nad oedd marw yn annuwiol o bwys tragywyddol i ddyn, am y gellid drwy gyfoeth ei deulu, a gweddïau yr offeiriad, ei ryddhau oddiwrth gosb pechod, er myned unwaith i'w gafael hi. Yr oedd hynyna yn gefnogaeth uniongyrchol i un fyw *mewn* pechod hyd angau. Felly am bob cyfeiliornad;—y mae yn dwyn rhyw gymaint o ddelw gwirionedd, ac y mae yn cael ei achosi gan ddiffyg cariad at wirionedd. A dylem gymeryd addysg oddiwrth hyn, fod meddu y gwirionedd yn beth pwysig;—y gall fod o fendith fawr, neu ynte yn felldith fawr. Nid oes dim yn bywhau, ond gwirionedd; ac nid oes dim mewn cymhariaeth yn lladd, ond gwirionedd. "Hon yw y ddamnedig-

aeth; ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni; canys yr oedd eu gweithredoedd hwy yn ddrwg." Nid yw deall goleu ddim o angenrheidrwydd yn fendith: ystâd y galon a benderfyna pa un ai bendith ai melldith a fydd; oblegid gall hono droi ei holl oleuni yn fantais i gredu celwydd. Nid yw meddu y gwirionedd ddim yn diogelu rhag cyfeiliornad: cariad ato yn unig sydd yn gwneuthur hyny.

2. Y paham o du Duw yn ol y geiriau hyn, y mae cyfeiliornad yn dyfod i'r byd ydyw fod "Duw yn danfon amryfusedd cadarn," neu *dwyll cadarn*, "fel y credont gelwydd." Nid wyf yn meddwl ceisio esbonio hyn: y cwbl fydd a fynom ni âg ef fydd, fel gwirionedd y mae y Bibl yn ei ddatguddio; a'n dyledswydd ni ydyw ei gredu, er na allwn ei amgyffred, a'i gredu hefyd, heb wadu yr un gwirionedd arall y mae y Bibl yn ei ddatguddio. Y mae bod 'Duw yn danfon amryfusedd cadarn' yn wirionedd; ac y mae 'nad ydyw Duw yn temtio neb' yn wirionedd hefyd. Pell oddiwrthym fyddai gwneuthur Duw yn awdwr pechod; ond yn iaith y Bibl, nid oes dim yn cymeryd lle ar y ddaear nad oes a fyno Duw âg ef mewn rhyw ystyr—y drwg fel y da. Os ydyw Joseph yn cael trugaredd yn nhŷ Putipher, yr Arglwydd sydd yn rhoddi ffafr iddo yn ei olwg ef: neu os ydyw Pharaoh yn myned yn hynod mewn annuwioldeb, yr Arglwydd sydd yn caledu ei galon ef: ond yr oedd Putipher a Pharaoh yn berffaith rydd yn hyn. A mynych y dywed y Bibl fod Duw yn gwneuthur yr hyn nad yw ond yn ei oddef; ac weithiau hefyd, fe brioilolir yr un weithred i wahanol bersonau. Yn llyfr Esaiah fe ddywedir fod y prophwyd 'yn brasâu calon y bobl:' yn Mat. xiii. 15, fe brioilolir y 'brasâu' i'r bobl eu hunain; ac yn Ioan xii. 40, y mae y brasâu yn cael ei briodoli i'r Arglwydd. Yr oedd y bobl wedi hir frasau eu calonau eu hunain cyn i'r prophwyd gael ei anfon atynt. Nid oedd gwaith y prophwyd yn llefaru y genadwri wrthynt ddim ond yn eu caledu yn fwy: yn yr ystyr yna yr oedd y prophwyd yn eu 'brasâu;' a chan mai yr Arglwydd oedd yn ei anfon ef atynt, yr oedd, mewn ystyr, yn briodol dywedyd, fod Duw yn eu brasâu. Ond nid rhaid iddo ef ddim ond cymeryd ei Ysbryd oddiwrth ddyn, neu oddiwrth wlad, na bydd hi yn y fan yn

ngafael yr "amryfusedd cadarn;" oblegid ni all y meddwl dynol ddim 'cerdded yn gywir haner cam, os na bydd Efe o'i flaen.' Ac y mae yr Arglwydd yn gwneuthur hyn mewn barn, os hir wrthodir y gwirionedd. Y mae Ysbryd Duw yn ymadael â'r dyn, neu â'r wlad; ac yna nid gwaeth pa faint o brofion newydd a ddygir o blaid y gwir. Ni wna pob prawf ddim ond cryfhau yr amryfusedd, i beri iddynt gredu mwy o gelwydd; ond y mae y drefn yn yr hon y mae hyn yn cymeryd lle, yn deilwng iawn o'n sylw ni. Fe galedodd Duw galon Pharaoh; ond yr oedd Pharaoh wedi hen galedu ei galon ei hun cyn hyny. Yr oedd ei ymddygiadau blaenorol at y bobl yn dangos mai dyn caled, creulawn, ydoedd. Yr oedd ganddo ddigon o oleuni i brofi mai nid felly y dylasai efe ymddwyn at yr Israeliaid, yn anad neb; ond yr oedd wedi ymgaledu yn wyneb hwnyna; am hyny, pan gyflawnwyd y gwyrthiau rhyfedd hyny ger ei fron, fe oddefodd Duw mewn barn iddo ymgaledu yn fwy. Fel yr oedd y gwyrthiau yn amlhau, yr oedd ei galedwch yntau yn mwyhau. Bob amser y mae Duw yn dallu, y mae dyn cyn hyny wedi bod ei hunan yn cau ei lygaid. Pan y mae Duw yn trymhau y clyw, y mae dyn cyn hyny wedi bod yn cau ei glustiau. Pan y mae Duw yn dwyn tywyllwch, y mae dyn wedi dangos cyn hyny ei fod yn casâu y goleuni. Os dywed Duw am Ephraim, "Allorau fydd ganddo i bechu," bydd Ephraim cyn hyny wedi "amlhau allorau" iddo ei hun. Nid yw Duw yn rhoddi neb i fyny i "amryfusedd cadarn i gredu celwydd," ond y rhai hyny sydd wedi hir-ddangos nad cymeradwy ganddynt ydyw gwirionedd.

II. Ni a enwn rai esiamplau i brofi fod Duw yn "danfon amryfusedd cadarn" ar y rhai sydd heb dderbyn cariad y gwirionedd. Rhai yn meddu y gwirionedd, ac heb ei gredu, ydyw y dynion tebycaf o bawb i gredu celwydd; ac nid oes neb yn credu llawer o gelwydd, ond rhai wedi cael llawer o wirionedd. Y mae Duw yn anfon goleuni i wlad: ac os profa y trigolion eu bod yn caru y tywyllwch yn fwy, y mae y goleu yn raddol yn diflanu o'u mysg; ac y maent hwythau yn anhraethol waeth na phe buasent heb ei gael erioed; oblegid y mae hyny o wirionedd a fu ganddynt wedi eu darparu i gredu celwydd. Os edrychwn ar hanes y byd, neu ynte ar hanes per-

sonau, cawn weled mai fel hyn y mae. Yr amser mwyaf goleu ar y byd paganaidd oedd yr adeg fwyaf eilun-addolgar. Os mynech chwi gael allan y lle yr oedd mwyaf o dduwiau, nid oes dim yn eisiau ond chwilio pa le yr oedd mwyaf o oleuni. Pan oedd yr Aiphtiaid yn fwyaf coethedig, yr oedd eu duwiau amlaf. Pan oedd y Groegiaid a'r Rhufeiniad yn fwyaf disglaer, yr oedd eilun-addoliaeth yn fwyaf enwog. Yr oedd y dallineb yn dal rhyw gyfartaledd i'r goleuni. Ac os olrheiniwch hanes y rhai hynod mewn cyfeiliornadau cewch weled mai dynion wedi cael goleuni mawr oeddent. Gallesid tybied mai Pharaoh a fuasai yr olaf o bawb i feddwl myned i ryfel â Duw Israel, wedi canfod mor eglur nad oedd yr un o dduwiau yr Aipht, yn ddim ger ei fron. Ond gan na ddygodd y pethau hyny mo hono i ymostwng ger ei fron, yr oeddent wedi ei gynhyrfu i fyned i ryfel âg Ef. Rhai wedi gweled rhyfeddodau Duw yn yr Aipht, wrth y Môr Coch, ac wrth Sinai, oedd y genhedlaeth hono oedd yn ddigon caled i ameu ei wirionedd, ac i anghredu nerth ei fraich. Os gwna rhyw un yn hyf iawn ar gysegr Duw, rhai wedi cynefino â'i ofnadwyaeth,—meibion offeiriad, fel Nadab ac Abihu, neu Hophni a Phinees,—a fyddant. Os bydd eisiau un yn ddigon caled i werthu Mab Duw, ni bydd i'w gael ond ymhlith ei ddisgyblion. Rhaid cael angel i wneyd diafol. Solomon, y doethaf o ddynion, a aeth yn ynfytaf o honynt oll. Yr oedd awdwyr holl heresiau yr eglwys Gristionogol wedi gwybod y gwirionedd ei hun. Yr oedd Simon Magus, un o'r cyfeiliornwyr cyntaf, wedi ei fedyddio i'r ffydd Gristionogol. Ni bu neb o holl ymerawdwyr Rhufain yn fwy ffyrnig yn erbyn Cristionogaeth na Julian, yr hwn a fuasai unwaith yn Gristion ei hun mewn enw. Dynion wedi clywed y gwir brophwydi fyddent yn rhoddi mwyaf o hyder yn y rhai gau;—rhai wedi gwrthod y gwir Grist ydynt y rhai parotaf i fyned ar ol gau gristiau. Yr oedd prophwydoliaethau Micheah yn dyfod i ben bob un; ond nid oedd Ahab ddim yn caru y gwirionedd a fyddai yn cael ei draethu ganddo; am hyny fe gredodd y gau brophwydi i'w ddinystr ei hun, er gwybod nad oedd yr un o'u geiriau yn arfer dyfod i ben. Yr oedd cenedl Israel yn gwrthod y gwir Grist, er bod pob peth yn cyd-dystio mai Efe oedd y hwn oedd ar ddyfod; a chan fod yr holl brofion yn

methu eu hargyhoeddi, gallesid disgwyl y buasai yn anmhosibl eu hudo i fyned ar ol neb; ond y mae yr un bobl, wrth y miloedd, yn myned ar ol gau gristiau, er nad oedd ganddynt ddim ond celwydd yn sail i'w honiadau. "Myfi a ddaethum yn enw fy Nhad, ac nid ydych yn fy nerbyn i: os arall a ddaw yn ei enw ei hun, hwnw a dderbyniwch." Ioan v. 43. Y mae Anffyddiaeth wedi gwreiddio yn ddyfnach, feallai, yn Germani nag mewn un wlad arall ar y ddaear: nid Anffyddiaeth fel anffyddiaeth y deyrnas hon a Ffrainc, yn niwedd y ganrif ddiweddaf a dechreu hon ydyw. Rhai heb ddarllen y Bibl erioed oedd y rhai oeddent y pryd hyny yn meddio gwadu ei awdurdod, a gwawdio ei gynwys; ond y mae cawri anffyddol y Cyfandir, yn rhai y mae eu swydd yn eu galw i astudio y Bibl bob dydd. Y maent yn fwy hysbys ynddo nag odid neb yn Nghymru; oblegid y mae llawer o honynt wedi esbonio pob llyfr sydd o'i fewn. Y mae pob gair ymhob llyfr wedi bod o dan eu sylw; ond wedi yr oll, gwadant nad llyfr Duw ydyw: addefant fod ei farddoniaeth yn hen ac yn ardderchog, ond nid trwy ysbrydoliaeth Duw yr ysgrifenwyd ef;—ei hanes yn syml a naturiol, ond ffug-chwedlau neu allegion ydyw y rhan fwyaf o hono. Yr oeddent yn amddifad o gariad at y Bibl noeth, yn iaith eu mam; am hyny, pan aethant i chwilio i mewn iddo yn yr ieithoedd gwreiddiol, fe'u rhoddwyd i fyny i "amryfusedd cadarn," i gredu celwydd yn fwy diysgog, fel y mae y gair hwnw wedi ei gyflawni yn llythyrenol ynddynt:—"Pwy sydd ddall fel fy ngwas i? a dall fel gwas yr Arglwydd?" Gweision yr Arglwydd mewn enw oeddent. Yr oedd y fantais a gawsant i chwilio i mewn i'r llyfr, yn peri nad oedd neb yn ddall fel hwynt. Y mae meddu y gwir, meddaf eto, yn beryglus, oblegid y mae yn sicr o fod yn gwymp neu yn gyfodiad. Os na ddyrchafa efe hyd y nefoedd, fe dýn i lawr hyd yn uffern. Ni chafodd neb gymaint o faintais i fod yn fendigedig a chenedl Israel, am hyny nid yw melldith neb heddyw, fel melldith plant Abraham. Wedi ceisio dangos fod meddu y gair, a byw yn groes iddo yn barotoad uniongyrchol ar y meddwl i dderbyn cyfeiliornad, a'i fod hefyd yn peri i Dduw ddywedyd,—"Gad iddo," uwchben y cyfryw, nes y byddant yn y fan yn credu celwydd â'u holl galon: yn awr, yn y lle nesaf,

III. Ni a geisiwn gymhwyso yr hyn a fu o dan ein sylw, at ein hamgylchiadau presenol ni. Ai angenrheidiol i ni, wrth ddechreu, ydyw dywedyd ein bod ni wedi cael gwirionedd, ac wedi cael *y gwirionedd* hefyd? Y mae yn anfantais fawr i'r pagan gael ei eni mewn gwlad lle y mae gau dduwiau yn cael eu haddoli er's oesoedd: dysgir ef felly o'i febyd i osod ei obaith ar gelwydd. Ond nid yw y tywyllwch mor fawr mewn un wlad ar y ddaear, nad oes yno ddigon o oleu am y gwir Dduw, i bob un yn bersonol brofi nad cymeradwy ganddo ef ei hun gadw Duw yn ei wybodaeth; am hyny y mae Duw mor gyfiawn wrth ei roddi ef yn bersonol i fyny i feddwl anghymeradwy, ag ydyw wrth roddi yr holl genedl. Y mae ffordd y paganiaid yn ynfydrwydd; eto y mae eu hiliogaeth yn profi, drwy eu hymddygiadau, eu bod yn foddlawn iddi. Ac felly y mae y farn sydd ar y genedl, yn cael ei henill gan bob aelod newydd o honi, i fod yn farn bersonol arno ef ei hun. Os oes gan y paganiaid ddigon o oleuni i beri i Dduw eu rhoddi i fyny am beidio ei ddefnyddio, beth meddir am danom ni, sydd â chymaint o wirionedd ag a fu yn y byd erioed yn ein meddiant? Y mae pob llyfr a fu gan y pagan genym ni. Y mae 'y nefoedd, oedd yn datgan gogoniant Duw' iddo ef, ac am beidio gwrandaw ar yr hon y rhoddwyd ef i fyny i feddwl anghymeradwy, genym ninau. 'Llef ddistaw fain' cydwybod, oedd yn sibrwd o hyd am Dduw wrtho ef, y mae yn gwneuthur hyny yn ddiball wrthym ninau. Gweithred y ddeddf, oedd wedi ei cherfio ar un o barwydydd ei dŷ ef gan fys Duw, fel yr ysgrifen ar bared Belsassar, y mae hi ar bared ein tŷ ninau hefyd. Ni chafodd ê ddim mantais i weled yr un o'i anweledig bethau Ef, sef y tragywyddol allu a'r Duwdod, na chawsom ninau hi; ac ni chafodd y byd ddim gwirionedd drwy ddatguddiad uniongyrchol, nad ydyw hyny genym ni. Y geiriau a lefarodd Job a'i gyfeillion, yn nghanol creigiau Arabia, y maent yn cael eu hadsain megis gan y creigiau, bob un i'n clustiau ni. Y mae Moses wedi llefaru wrthym ni;—Esay wedi prophwydo i ni;—Iesu Grist wedi agor ei enau i'n dysgu ni. Ni welodd yr Aipht yr un wyrth i sicrhau cywirdeb y geiriau, na welsom ninau hi. Y mae Sinai yn llosgi eto yn llyfr Exodus. Ni ymddangosodd dim i Solomon a'r bobl i brofi mai 'sancteiddrwydd a weddai

i'r tŷ byth,' nad allwn ninau ei weled yr awr hon yn llyfr Cronicl. Y mae dwy *hemisphere* yn perthyn i'r ddaear: nid yr un sêr sydd i'w canfod o honynt. Ped aem ni i'r deheu, ni a welem, nid yn unig ddaear newydd, ond nefoedd newydd hefyd,—na byddai yno bron ddim yr un fath ag yn y ffurfafen hon, ond yr haul a'r lleuad. Ond nid oes gan yr eglwys ddim dwy *hemisphere*. Nid oedd gan eglwys yr Hen Destament ddim o bob peth sy genym ni; ond y mae genym ni bob peth oedd ganddynt hwy. Nid oedd yr un addewid yn sirioli eu ffurfafen hwynt, nad ydyw hi genym ni; ac y mae genym ni beth na fu erioed ganddynt hwy, sef Haul Cyfiawnder. Yn y llyfr hwn, y mae patriarchiaid ac apostolion yn eiddom ni;—dodiad y ddeddf, a chyhoeddiad yr efengyl;—y cyfamodau yn eu cyfoeth, a'r addewidion yn eu cyflawnder. Y mae gobaith yr Hen Destament, yn Gyfryngwr y Testament Newydd i ni; mewn gair, y mae y gwirionedd genym, "megis ag y mae yn yr Iesu." Yr oedd hyny o wirionedd oedd gan y paganiaid yn y greadigaeth, yn lladd creadur euog; oblegid nid yw hi yn datguddio dim, nad ydyw ê yn wenwyn i bechadur; ond "yn yr Iesu," y mae yn wirionedd sydd yn bywhau. Y gwirionedd oedd yn cael ei ddangos yn dywyll i'r Iuddewon, trwy seremoniau,—pelydr megis yn y fan yma, a phelydr yn y fan arall, fel y wawr yn wasgaredig ar y mynyddoedd,—"yn yr Iesu," y mae yr holl belydrau hyn wedi eu cydgasglu yn un haul; ac nid hyny yn unig, y maent wedi eu gwneuthur oll o un lliw. Fe ddywedir fod y goleuni naturiol, pan wedi ei ddadgyfansoddi yn saith o wahanol liwiau; ond pan y mae y saith wedi eu huno, a'u cyd-gymysgu, eu bod yn gwneuthur un lliw, sef gwyn; felly "yn yr Iesu," y mae pob gwirionedd yn cyd-gyfarfod, ac yn troi yn drugaredd a gras. Y gwirionedd yn cael ei ddangos trwy luniau oedd ymhob man arall. Mewn lluniau amryliw, *hieroglyphics*, y byddai yr hen genhedloedd yn cadw eu hanesion. Yr oedd yn dra anhawdd deall y lluniau, ac wedi eu deall, nid oeddent ond awgrymiad tywyll am y peth; ond pan gafwyd allan iaith ysgrifenedig, yr oedd hono yn trosglwyddo yr hanes mewn gair, ac felly yn ei roddi yn gyflawn ac yn eglur. Gwirionedd mewn *hieroglyphics* a fu gan y byd am oesoedd: nid oedd ond ychydig yn deall y rhai

hyny; ac wedi eu deall, nid oeddent ond awgrymiad yn unig am y peth. Ond y "Gair" yw Iesu Grist;—y mae y gwirionedd ynddo Ef yn eglur, yn gyflawn ac yn brydferth. Gofyn cwestiwn Pilat fu gwaith y byd, am bedair mil o flynyddoedd, "Beth yw gwirionedd?" Ceisid ei ateb ef: ond yr oedd yr atebion, yn gyffelyb i rai yr oraclau paganaidd, yn ddigon anhawdd eu deall. Beth ydyw y gwirionedd am Dduw? Peth tebyg i hyn ydyw, meddai y greadigaeth:—Bôd anfeidrol fawr ydyw Duw;—y mae yn ofnus ei fod Ef yn un cyfiawn;—*feallai* ei fod Ef yn un trugarog. Beth yw gwirionedd ynghylch ei feddwl am ddyn? Ni wn i ddim yn sicr, meddai rhagluniaeth,—y mae fel pe byddai ganddo ddau feddwl; weithiau mi dybiwn ei fod yn ei garu; bryd arall y mae fel pe byddai yn penderfynu ei ddinystrio. Beth yw gwirionedd am bosibilrwydd dyfod yn gymeradwy ger ei fron? Yr ydym ni yn gobeithio, meddai yr ebyrth, y gall hyny fod; ond ni fedrwn ni ddim bod yn sicr, pa un ai atal ei lid Ef am ychydig yr ydym, ai ynte ei ddifodi. Fel wedi yr holl atebion, yr oedd yn gwbl briodol i Pilat, fel genau cyhoeddus dros bedair mil o flynyddoedd, ofyn y cwestiwn drachefn; ond y mae yr atebiad wedi ei gael yn yr Iesu. "Y gwirionedd, megis y mae yn yr Iesu" am Dduw, ydyw, ei fod yn ddigon cyfiawn i ddryllio ei Fab, ac yn ddigon trugarog i arbed ei elyn. Y gwirionedd am ei feddwl am ddyn, "megis y mae yn yr Iesu" ydyw, ei fod yn casâu pechod â'i holl enaid, ac yn caru pechadur â'i holl galon. "Y gwirionedd megis y mae yn yr Iesu," am bosibilrwydd a ffordd cymeradwyaeth ger ei fron ydyw,—"Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig a fyddi;" "Hyn yw gwaith Duw, gredu o honoch yn yr Hwn a anfonodd Efe." Y mae y gwirionedd genym: hyn yw ein rhagoriaeth ni;—hyn yw y budd sydd yn perthyn i ni, fod "y gwirionedd megis y mae yn yr Iesu," yn ein meddiant. Ond rhaid i ni adael mater difyr fel hwn i ddangos yn—

2. Nad ydym, er hyn, wedi derbyn cariad y gwirionedd. Y prawf o hyn ydyw ein hymddygiadau. Y mae y rhai sydd heb dderbyn ei gariad yn ddau ddosbarth, sef (1.) Y rhai sydd yn gwneuthur cymaint ar a allant yn erbyn y gwirionedd; (2.) Y rhai nad ydynt yn gwneuthur dim dros y gwirionedd: y rhai

sydd yn milwrio yn ei erbyn, fel y Canaaneaid hyny yn erbyn Israel, a'r rhai nad ydynt yn milwrio o'i blaid, fel y Meroziaid. Y mae pob un o honynt yn amddifad o gariad y gwirionedd.

(1.) Y mae un dosbarth lliosog yn profi, trwy filwrio yn erbyn y gwirionedd, nad ydynt wedi derbyn ei gariad. Y maent yn amgylchu môr a thir i geisio cael rhywbeth yn ei erbyn;—fel Balaam, y maent yn aberthu ar bob clogwyn, i geisio cael ffordd i'w felldithio. Nid oes yr un ddichell yn eu calonau hwynt eu hunain, nac ystryw yn mhyrth uffern, nad ydynt wedi eu defnyddio yn ei erbyn. Weithiau ceisiant ddangos ei fod yn groes i'r datguddiad o Dduw sydd yn y greadigaeth, a bod hyny yn ddigon i brofi nad oes ganddo ddim hawl i gael ei ystyried yn llyfr Duw, oblegid na buasai yr un Duw ddim yn rhoddi dau ddatguddiad croes i'w gilydd. Y mae trefn y rhod, meddant hwy, yn profi mai nid y neb a osododd hono a lefarodd y Bibl, onide y buasai y Bibl yn ei ddisgrifio yn gywirach. Y mae oedran y ddaear meddant, fel y mae yn cael ei amlygu gan y creigiau, yn ddigon i ddangos mai nid Duw a lefarodd wrth Moses, onide ni buasai yn camgymeryd cymaint ynghylch hyny. Y mae y ser yn eu graddau yn ymladd yn erbyn yr hyn a ystyriwn ni yn wirionedd;—lleisiau, meddant, yn codi o'r creigiau i brofi mai nid llais Duw yw y Bibl; ac y mae holl ffeithiau anwadadwy creadigaeth yn profi yn sicr, meddant, mai chwedlau cyfrwys ydyw hanesion y Bibl. Neu, ceisiant ddangos fod ein gwirionedd yn anghyson âg ef ei hun,—fod ei wahanol ysgrifenwyr yn dywedyd pethau croes i'w gilydd, ac felly na all eu bod oll yn llefaru geiriau yr un Duw. Y mae caracter Duw, meddir, mewn un rhan o'r llyfr yn cael ei ddatguddio yn hollol wahanol i'r hyn ydyw mewn rhan arall. Y mae Duw yr Hen Destament yn un ofnadwy, a bron na ddywedant, yn un creulawn; tra y mae Duw y Testament Newydd yn meddu ar dynerwch gormodol i fod yn un parchus. Ac weithiau dywedant, fod yr hyn a alwn ni yn wirionedd wedi profi ei hun, mai nid hyny ydyw, oblegid ei fod wedi methu gwneuthur yr hyn a broffesai, sef dwyn y byd i drefn: gofynant mewn gwawd i ni, Pa le y mae effaith eich gwirionedd? Cyfeiriant ni at butain Rhufain a'i holl ffieidd-dra, yn esiampl o ddylanwad y

gwirionedd ar y byd. Ië, dywedant, nad oes ar y byd ddim eisiau y gwirionedd;—mai deddfau y seneddwyr, ac nid yr hyn a alwn ni yn ddeddf yr Arglwydd, a allant ei drefnu; mae y gwladwr, ac nid y Cristion, a ddaw âg ef i'w le. A llawer o honynt a ânt yn mhellach eto, gan ddywedyd fod trueni y byd i'w briodoli i raddau mawr, i'r gwirionedd. Y mae y dosbarth hwn yn ei holl ranau, yn profi i bawb na dderbyniasant ei gariad; ond ni a'u gadawn hwynt, gydâ dywedyd,—'Na ddeued enaid yr un o honom i'w cyfrinach,' ac na chasgler ni yn y byd a ddaw gydâ'r pechaduriaid hyn. Hwy ydynt dywysogion llu y diafol ar y ddaear. Yn angau, y mae uffern odditanodd yn cynhyrfu i'w derbyn: hwy sydd yn cael yr anrhydedd ofnadwy o farw yr ail farwolaeth, ar ddeheulaw brenin y fagddu; oblegid yr oedd eu pechod yn dwyn mwy o ddelw pechod tad y celwydd nag eiddo neb arall. Beth yw hynyna i ni, meddwn? Hyn: o blaid y Meroziaid, y mae y blaid ofnadwy yna yn cael ei gwneuthur. Bu y rhai yna unwaith heb wneyd dim o blaid y gwirionedd, cyn iddynt fyned i ymladd yn ei erbyn. Yr ail

(2) Ddosbarth ydyw y rhai nad ydynt yn milwrio o blaid gwirionedd; hyny yw y dosbarth nad ydynt wedi rhoddi ufudd-dod iddo, sef y Meroziaid. Y maent mor amddifad o gariad y gwirionedd a'r lleill; ac y mae melldith y rhai hyn yn un a lysg hyd yn uffern isod. Y mae yma lawer iawn yn perthyn i'r dosbarth hwn yn y gynulleidfa hon; ond y mae ymron yn anmhosibl eich dal chwi. Ni a gawn draethu y faint a fynom am y dosbarth mawr sydd heb dderbyn y gwirionedd: ac fe'u condemniwch chwithau hwynt, fel y condemniodd Dafydd y cyfoethog yn nameg Nathan, heb unwaith feddwl am y geiriau:—"Tydi yw y gŵr." Y mae lleferydd, a holl ymddygiadau, ugeiniau o wrandawyr yr efengyl yn profi eu bod yn amddifad o gariad y gwirionedd. Nid pethau cyffelyb i wirioneddau seryddiaeth ydyw gwirioneddau y Bibl. Nid yw ein cred am y rhai hyny ddim i effeithio ar ein buchedd. Gellwch fyw gyda mi am flwyddyn heb wybod ar un ymddygiad o'm heiddo, pa un ai credu yr wyf fod y ddaear yn troi o amgylch yr haul, neu ynte credu fod yr haul yn troi o amgylch y ddaear; ond nis gallech fyw gydâ mi un diwrnod heb gasglu, pa un a ydwyf fi yn credu gwirioneddau y Bibl ai peidio. Y

mae y cariad at hwnw, neu y diffyg o hono, i'w ddarllen yn fy holl ymddygiadau. Y mae yn perthyn i'r Bibl bethau mawrion a phethau bychain; gorchymynion yr ail lech, a rhai y llech gyntaf, megis. Gall eich bod yn cyflawni y pethau bychain sydd ynddo, sef y dyledswyddau rhwng gŵr a gŵr; ond y mae ei orchymyn mawr, sef credu o honoch yn enw ei Fab Ef, dan eich traed chwi. Ac nid anhawdd a fyddai profi fod miloedd o wrandawyr yr efengyl yn amddifad o gariad y gwirionedd, oddiwrth eu bod heb gadw ei bethau lleiaf ef. Onid yw meddwdod yn ffynu eto yn ein plith? Onid yw aflendid yn gwarthruddo caracter ein cenedl, hyd yn nod yn fwy nag yn oesoedd tywyll Cymru? Onid oes rhyw anonestrwydd bychan yn ein plith? Ai nid yw dibrisdod o eiriau ac addewidion yn rhy gyffredin yn ein gwlad? Ai egwyddorion y llyfr hwn sydd yn llywodraethu ei masnach hi a'i holl helyntion? Ai rhag ofn dynion, ai ynte rhag ofn Duw y peidir ag ymddwyn yn anonest? A ydyw y dyn a dwng i'w niwed ei hun ac ni newidia, i'w gael yn bur gyffredin yn ein hardaloedd? Pa le y mae y dyn na chymer ryw fath o wobr yn erbyn y gwirion?—y dyn y mae ei ïe yn ïe, ai nage yn nage? Ond y mae yma lawer yn gallu tystio yn wyneb hyn,—"Dieuog ydwyf fi." Wel, ni a awn oddiwrth y pethau bychain at orchymyn mawr y Llyfr:—Beth y mae eich bod yn gwastraffu eich serch ar deganau y ddaear yn ei brofi? Onid eich bod heb dderbyn y gwirionedd, fod Iesu Grist yn decach na meibion dynion? Paham yr ymwerthwch i gasglu y mammon anghyfiawn? Nid wyf yn eich cyhuddo chwi o anghyfiawnder wrth wneuthur: ai nid yw hyny yn brawf eich bod heb dderbyn y gwirionedd, am yr aur wedi ei buro trwy dân? A ydyw edrychiad yr Iesu wedi eich toddi chwi i edifeirwch? A ydyw ei groeshoeliad, wrth gael ei fynych bortreadu yn y weinidogaeth, ac yn y swper sanctaidd, wedi eich croeshoelio chwithau i'r byd? A ydych chwi wedi agor drws y galon iddo, gan ddywedyd,—"Tyred i mewn, fendigedig yr Arglwydd." Ai iachawdwriaeth eich eneidiau sydd wedi eich dwyn chwi yma, ai rhyw ddiben îs? A ydyw yr efengyl ddim yn cael ei chymeryd yn fwy fel difyrwch, nac fel cenadwri bywyd? Ai nid ysbryd yr Atheniaid yw eich ysbryd yn fynych, yn hytrach nag

ysbryd cynulleidfa tŷ Cornelius ?— chwilio am rywbeth newydd, yn hytrach na dyfod i wrandaw geiriau Duw ? Os fel hyn y mae hi, yr ydym heb dderbyn cariad y gwirionedd. Y mae yr efengyl yn y wlad er's canoedd o flynyddoedd ; ond O! cyn lleied o'i delw hi sydd ar y trigolion ! Yr ydym ni yn cymeryd caracter un o grefyddau paganaidd y byd, oddiwrth garacter cyffredinol y genedl fydd yn ei phroffesu hi. Beth pe cymerai y paganiaid yr un rheol i farnu ein crefydd ni ? Oni ddywedent ei bod hi yn uno, ynddi ei hun, bob peth sydd yn ofnadwy ac yn ffiaidd yn eu crefyddau hwy ? Wrth edrych ar un dosbarth lliosog o'r trigolion, gellid tybio mai Mars, Duw rhyfel, sydd yn cael ei addoli yma. Wrth edrych ar ddosbarth arall, tybid mai Venus, duwies aflendid, sydd yn cael ei haddoli. Oddiwrth eraill, gellid barnu mai Bachus feddw, yw duw y Prydeiniaid. Wrth sylwi ar eraill, meddylid mai Mammon yw llywydd yr ynys. Wrth edrych ar greulonderau eraill, gellid tybied eu bod yn frodyr i *Thugs* yr India. Ond er hyn, y maent i gyd yn cymeryd arnynt enw glân yr Eneiniog. Nid ydym wedi derbyn cariad y gwirionedd. Y mae genym ; ond gwerth yn nwylaw ffyliaid ydyw i raddau mawr. Y mae hyn yn ein harwain yn olaf—

(3.) At ganlyniad methu y gwirionedd, a pheidio ei gredu, yr hyn ydyw, "rhoddi i fyny i amryfusedd cadarn, i gredu celwydd." Un o'n peryglon ni ydyw tybied, nad oes dim perygl [illegible] ein hesmwythder sy mor [illegible] dim o'n [illegible]. Y mae genym hanes rhai wedi eu coroni a breintiau, a disgwylient i'r rhai hyny eu cadw rhag barn. "Teml yr Arglwydd, teml yr Arglwydd" ydym meddent : am hyny ni all dim dinystr ddyfod arnom. Ac y mae yr un prophwyd yn dywedyd "Na choeliasai brenhinoedd y ddaear, na holl drigolion y byd, y deuai y gwrthwynebwr a'r gelyn i mewn i byrth Jerusalem ;" ond fe ddaeth, er anhebyced y peth, ac fe'i "dynoethodd hi hyd ei sylfaen." [illegible] yn nghysgod y geiriau, "teml yr Arglwydd, teml yr Arglwydd," [illegible] ninau, er na choeliasai neb, fel am Jerusalem, gael ein rhoddi i ddinystr. A pha beth ydyw y pethau sydd yn cymeryd lle yn y dyddiau hyn, os nid arwyddion fod yr "amryfusedd cadarn" yn cael ei anfon ? Ac onid ydyw yn wirionedd fod ugeiniau,

os nad canoedd, o bregethwyr Eglwys Brotestanaidd wedi credu celwydd y Pab? Nis gellir priodoli hyny i ddiffyg gwybodaeth, oblegid dynion dysgedig oeddent oll; ac nid oes lle i ameu eu cywirdeb, oblegid y mae yr aberth y maent yn ei wneuthur yn ddigon i'w brofi. Onid yw yn wirionedd fod miloedd o bulpudau Protestanaidd yn pregethu efengyl arall, yr hon nid yw arall, ond yn "datroi efengyl Crist?" Onid yw y sacramentau yn cael eu pregethu, yn lle gwaith Ysbryd Duw, ac yn lle aberth Calfaria? Ai nid yw yn wirionedd fod ugeiniau o allorau wedi eu hadeiladu mewn eglwysi Protestanaidd yn y deyrnas hon? a bod gweddio ac offrymu dros y meirw ar yr allorau hyny? Onid yw yn wirionedd fod dynion na fynant eu galw yn Babyddion, yn derbyn cyffesiad pechod, ac yn maddeu; ac wedi gwneyd hyny dros ddeuddeng mlynedd? Ai nid yw yn wirionedd fod dros gant o'n haelodau seneddol wedi ysgrifenu â'u llaw i sicrhau y gwnant yr oll a allant i ddal i fyny y ffoleddau hyn? Nid yw hynyna yn profi dim, meddir, ond y niwed sy mewn cysylltu eglwys a llywodraeth. Yr wyf mor barod a neb i ddywedyd fod hyny yn niwed, ac y byddai yn fantais annhraethol fawr i grefydd gael tori y cysylltiad; byddai yn llawenydd gan fy nghalon, pe na byddai y pethau hyn yn profi dim yn ychwaneg. Ond pa fodd y mae pethau o'r fath yn digwydd yn America, lle nad oes cysylltiad rhwng eglwys a gwlad; ac yn Eglwys Esgobol Scotland, yr hon sydd yn gwbl rydd oddiwrth y cysylltiad hwn? Pe yr offeiriaid yn unig a fuasent wedi eu llithio i'r pethau hyn, buasai rhyw reswm mewn dywedyd, mai y cysylltiad â'r llywodraeth oedd yr achos; ond nid felly y mae; y mae y bobl yn foddlawn i'w hymadrodd hwynt. Lle bynag y mae graddau o fywyd yn ei amlygu ei hun yn yr eglwys, y ffurf yma y mae yn ei gymeryd; a'r eglwysi sydd wedi ymroddi fwyaf i'r ffoleddau hyn ydyw y rhai amlaf eu cynulleidfaoedd. A chamsyniad mawr yw tybied, pe torid y cysylltiad sydd rhwng yr eglwys a'r llywodraeth, y byddai hi yn ddiogel rhag Pabyddiaeth. Nid yn ei chysylltiad âg unrhyw lywodraeth y mae cuddiad cryfder Pabyddiaeth. Y mae hi yn sicr o gysylltu ei hun, pan y dêl yn ddigon cryf i hyny; ond canlyniad rhyw nerth ofnadwy sydd ynddi hi ei hun a fydd hyny, ac nid peth i roddi nerth iddi. Gwyliwn ni

briodoli ystad bresenol y wlad i bob peth heblaw y gwir achos. Ai nid arwydd ydyw fod yr "amryfusedd cadarn" yn cael ei ddanfon? A phaham yr aroswn ni gydâ'n cymydogion? Beth sydd wedi ein diffrwytho ni ein hunain? I ba le yr aeth ein bywyd ni? Y cwbl y mae y rhai mwyaf llwyddianus o honom ni, yr Ymneillduwyr, yn ei wneuthur, ydyw yn unig cadw ein tir, neu yn hytrach gadw ein nifer. Nid ydym yn cadw ein tir. Y mae y boblogaeth yn amlhau o'n hamgylch: nid ydym ni yn amlhau yn gyfartal. A ydyw y marweidd-dra hwn yn peidio a bod yn ysbryd trwmgwsg oddiwrth yr Arglwydd? Nid ydym yn breuddwydio, meddwch, am ffoleddau Pabyddiaeth: nac ydym; ond os ydyw yr ysbryd trwmgwsg hwn arnom, breuddwydio a fydd y peth nesaf. Ofnwn rhag mai yr "amryfusedd cadarn" ydyw, yn cael ei anfon ar bobl sydd wedi hir wrthod yr efengyl. "Ofn y Pab sydd arnoch chwi," medd rhywun,—"pe gwyddech chwi ei hanes, byddai arnoch gywilydd sôn am y fath beth. Y mae efe yn methu amddiffyn ei hun heb gymorth milwyr Ffrainc." Ond cofiwch, nid yn nifer ei filwyr, nac amlder ei longau rhyfel, y mae ei nerth ef yn gynwysedig. Fy ofn fy hun, a'm cyd-genedl, sydd arnaf fi yn fwy nag ofn y Pab,—rhag i ni dynu yr "amryfusedd cadarn" arnom. Fe all un ymlid mil, a dau yru deng mil i ffoi, wedi i Dduw eu rhoi i fyny. Beth sydd wedi peryglu y deyrnas?—Puseyaeth Eglwys Loegr?—anffyddlondeb gweinidogion y llywodraeth yn rhoddi pob nodded i gyfeiliornadau Pabyddiaeth? Nage, gymaint; ond gwrandaw yr efengyl, a'i gwrthod;—darllen y Bibl, a sathru ei eiriau dan draed, bob yn ail;—cymeryd llusern y gwirionedd i dy oleuo i wlad y tywyllwch eithaf. Yr ydym yn rhy debyg i gyd-oeswyr Hosea: y bobl yn ymryson â'r offeiriaid;—pawb yn rhoddi y bai ar eu gilydd, yn lle gofyn,—"Beth a wnaethum i." Yr wyf yn gobeithio nad yw hyn ddim ond rhywbeth i'n deffroi ni,—i atal i beth gwaeth ddigwydd i ni. Ond mi a ddymunwn wasgu hyny at eich meddyliau, na fydd yr efengyl ddim yn hir yn ein plith heb ei derbyn, heb i ryw amryfusedd ddyfod, naill ai anffyddiaeth neu ofer-goeledd. Ac o ddau ddrwg, byddai yn well genyf yr olaf.

Ni a derfynwn gyda dweyd dau air:—

1. Wrthych chwi sydd wedi adnabod yr efengyl, — wedi teimlo ei hawdurdod hi. Y mae ar eich llaw chwi, i raddau mawr, atal y pla. Na adêwch lonydd i'r Arglwydd, ac na ddistewch, nes y daw eto i roddi bywyd ynddi; oblegid os cawn ni ein cadw rhag y rhai presenol, fe gyfyd rhyw ddrain a mieri ar dir yr eglwys, "hyd oni thywallter yr Ysbryd o'r uchelder." Ewch at yr orsedd bob dydd mewn ffydd, gan ddywedyd,— "Cyfoded Duw, gwasgarer ei elynion, a ffoed ei gaseion o'i flaen Ef." "Duw a drugarhao wrthym, ac a'n bendithio; a thywyned ei wyneb arnom." Fe ä yr hen efengyl yn rhy wan i gadw ei thir;—daw efengyl arall i fyned â'i lle; os na chyfyd Duw yn amddiffyn iddi. Disgleirdeb ei ddyfodiad Ef a ddifa "ddyn pechod." Pell oddiwrthyf a fyddo codi yr un teimlad dialgar mewn un fynwes at Babyddion. Ni wyddant hwy, druain, ddim o ba ysbryd y maent, pan yn dial ar Brotestaniaid: tybiant eu bod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw wrth eu rhoddi i farwolaeth, a hyny yn ddiameu a wnaent eto, pe caent yr awdurdod i'w llaw. Ond mi a ddymunwn i ni ddangos rhagoroldeb ein crefydd ni, trwy brofi fod ysbryd arall ynom; ond dymunwn gynyrchu teimlad eiddigus ymhob mynwes yn erbyn Pabyddiaeth. *Gweddiwch* hi i farwolaeth. Cyferchwch yr addewidion ar ei chwymp hi bob dydd, dan ddywedyd,—

"Gwawria, gwawria hyfryd fore," pan fydd yr angel yn cyhoeddi,—"Syrthiodd, syrthiodd Babilon fawr;" ac fe rydd ei chwymp hi dòn o lawenydd dros holl ymerodraeth Duw.

2. Chwithau, sydd eisiau gwybod beth a gewch i'w wneuthur yn erbyn Pabyddiaeth. Ni welwn i ddim bai ar y rhai hyny sydd yn galw ar y seneddwyr i ddefnyddio cyfraith, os oes un, neu i wneyd un, yn ei herbyn;—nid i gaethiwo ac i orthrymu Pabyddion mewn un modd, ond i atal iddynt hwy ein gorthrymu ni. Ond y peth mwyaf llwyddianus dan y nefoedd yn eu herbyn fyddai i chwi dderbyn Mab Duw. Byddai rhoddi ufudd-dod calon i'r efengyl yn fil mwy o atalfa arnynt, na phe ysgrifenech chwi y traethawd mwyaf gorchestol sydd wedi ei ysgrifenu eto. Ysgwyd ymaith iau y meistr, a wnai fwy yn erbyn y gwas, na holl seneddwyr Prydain. Y mae yn olwg ddigon trom, weled cynifer yn siarad yn erbyn y Pab, ac eto yn filwyr ffyddlawn dan goron ei frenin, sef Satan. Y maent am

ddyfod â'r Pab i'w labyddio, fel y daeth yr Iuddewon â'r wraig at yr Arglwydd Iesu ; ond pe dywedasai Efe,—Y neb sy ddieuog o wneuthur rhywbeth tuag at ei ddwyn yma, tafled y gareg gyntaf ato, y mae yn ddigon tebygol y gadewid ef bron ei hun. Plygwch i'r efengyl. Cydnabyddwch y Pen a osododd Duw ar yr eglwys, os mynwch chwi atal rhyw un arall. Eich diystyrwch chwi o'r hen efengyl a fu yn achos i'r un arall hon ddyfod i'r wlad. Dangoswch eich bod yn gosod pris mawr ar yr hen Gyfryngwr,—yr hen Offeiriad,—yr hen Aberth,—yr hen ffordd i faddeu,—mewn un gair, yr hen efengyl, ac yna buan y diflana yr efengyl arall hon o'r tir.

[Dydd Iau, Chwefror 13, 1851].

(Traddodwyd y bregeth uchod, yn yr adeg yr ymosododd Pabyddiaeth ar y deyrnas hon. trwy sefydlu esgobaethau yn ngwahanol ranau y wlad, yr hyn a barodd y fath gyffro ar y pryd yn meddwl yr holl genedl.—GOLYGYDD).

## PREGETH XLVIII.

### ATDYNIAD Y GROES.

IOAN XII. 32.—"A minau, os dyrchefir fi oddiar y ddaear, a dynaf bawb ataf fy hun."

YR oedd yr Arglwydd Iesu, pan yn llefaru y geiriau hyn, ar fyned i'r tywyllwch, lle yr ydoedd Duw. Yr oedd cwr y cwmwl â'r hwn yr oedd y Duw digllawn yn ei amgylchu ei Hun, yn dechreu ei gysgodi;—pasg y croeshoeliad wrth y drws. Yr oedd pymtheg cant o flynyddoedd er pan sefydlasid y pasg; ac er bod yr ŵyn oeddent wedi eu lladd yn aneirif, a'r gwaed oedd wedi ei dywallt yn ddigon i wneuthur moroedd bychain, yr oedd y pasg oedd wrth y drws yn awr yn rhagori cymaint, ymhob ystyr, ar bob un a fuasai o'i flaen, ag y mae y sylwedd yn rhagori ar y cysgod. Yr oedd pasg Moses yn un hynod;—pasg Josiah yn un heb ei fath;—pasg Ezra yn un rhyfedd:—ond yr oedd pasg y croeshoeliad yn llyncu i fyny eu holl ryfeddodau hwy, fel ag y mae goleuni yr haul yn boddi goleuni y sêr. Yr oedd cyflawnder amser ymerodraeth Duw wedi dyfod. Yr oedd y pasg hwn i fod naill ai yn Jubili, fel un Moses, i ryddhau y byd am byth o gaethiwed llygredigaeth; neu, ynte, i fod yn basg cyffelyb i eiddo y Galileaid hyny, yn adeg, mewn ystyr foesol, i ladd am byth feibion Adda. Ond ni wyddai y byd ddim am y pethau rhyfedd oeddent ar gymeryd lle; ond gwyddai yr Arglwydd Iesu am hyny. Yr oedd y tristwch hwnw yn dechreu ymaflyd yn ei feddwl, yr hwn a gynyddodd yn raddol, res peri iddo yn ei chwerwder lefain allan,—"Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?" Er iddo lwyr roddi ei galon i nesâu at Dduw, ac i edifeirwch gael ei guddio o'i olwg, eto fel yr oedd

yr amser i hyny yn agosâu, yr oedd meddwl am yr amgylchiad yn peri i ddychrynfeydd Duw doddi ei galon, nes y dywedodd yn nghyfyngder ei ysbryd,—"Os yw bosibl aed y cwpan hwn heibio." Edrychai ymlaen ar yr amgylchiad yr oedd ynddo yn awr er dyddiau tragywyddoldeb; ond, a llefaru yn iaith y ddaear, yr oedd yr amgylchiad ymhell oddiwrtho y pryd hyny; a thrwy y pedair mil blynyddoedd yr arddangoswyd ei angau yn gysgodol i'r byd, yr oedd dioddef mor bell oddiwrtho a'i fod yn anmhosibl iddo. Trwy ymddangos yn y cnawd, rhoddodd ei hun o fewn cyraedd dioddef, a chafodd brofi beth oedd y chwerwder oedd yn hyny ymhob gwedd arno. At y fferau yr oedd yr afon yn y dechreu; wedi hyny at y lwynau; yna yn ddyfroedd nofiadwy, na buasai neb ond Duw yn gallu myned drwyddynt. Wrth suddo iddynt, llefodd gan deimlad o drueni,—"Eloi, Eloi, lama sabachthani? Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?" Yr oedd Bethlehem yn isel; Nazareth yn îs; a Golgotha yn fwy dirmygedig na'r ddau. Yr oedd cael ei gasâu yn ddiachos, gan ei gydwladwyr, yn groes drom; yr oedd cael ei ddisgyblion yn anffyddlawn iddo yn drymach o lawer; ond annhraethadwy drymach na hyny oedd cael ei adael gan ei Dad. Yr oedd chwerwder y gadawiad hwn yn cyfateb i agosrwydd y berthynas, ac i anwyldeb y gyfeillach oedd rhyngddynt o'r blaen. O ran perthynas, yr oedd Efe a'r Tad yr un; o ran cyfeillgarwch, yr oedd y Mab yn hyfrydwch i'r Tad er tragywyddoldeb; gan hyny yr oedd iddo gael ei adael am foment ganddo,—yr oedd i Dad fel hyn gyfarfod â'i Fab mewn gŵg am un awr, yn rhyw uffern o drueni, nad oes ond Duw a ŵyr beth yw hi, ac na allasai ond Duw ei dioddef hi.

Fel person dwyfol, gwelai fod yr awr fawr wedi dyfod, am hyny yr oedd ei enaid wedi ei gynhyrfu fel nas gwyddai beth i'w ddywedyd. Dywedai natur,—"Gwared fi allan o'r awr hon," ond yr oedd ei ymrwymiadau i'w Dad, a'i gariad at ei bobl, yn rhoddi diangfa i'w feddwl o'r demtasiwn. "Oherwydd hyn (medd Efe) y daethum i'r awr hon;" ac wedi cael glân i'w feddwl, y mae yn ei anghofio ei Hun, mewn gofal dros anrhydedd ei Dad;—"O Dad, gogonedda dy enw;" neu, cynorthwya fi i ymddwyn fel ag i sicrhau dy ogoniant Di. Yna y mae ei Dad yn ei ateb mewn llais dynol,—"Mi a'i gogoneddais, ac a'i

gogoneddaf drachefn." A gallwn gasglu oddiwrth y cyfnewidiad sydd yn ei ysbryd Ef, fod ei Dad wedi nerthu ei wendid ar y pryd, hyny yw, wedi ei ogoneddu ei Hun ynddo drachefn, oblegid y mae ei feddwl, yn y testyn a'r adnod flaenorol, yn cael glan wrth edrych ar ffrwyth ei ddioddefiadau. Yn yr olwg ar y dioddefiadau, ei iaith ydyw,—"Fy enaid a gynhyrfwyd;" ond y mae ei Dad, mewn atebiad i'w weddi, yn rhwygo y cwmwl du, iddo gael cip-olwg ar ffrwyth y rhai hyny. Y mae hyn yn tawelu ei feddwl. Eu ffrwyth oedd, bwrw allan dywysog y byd hwn, a thynu pawb ato ei Hun,—dinystrio llywodraeth y diafol, a meddianu y deiliaid.

Y dull i ddwyn hyn o amgylch oedd, cael ei ddyrchafu oddiar y ddaear. Y mae yr Arglwydd Iesu yn crybwyll drachefn a thrachefn am ddull ei farwolaeth, sef dyrchafu oddiar y ddaear; a diau ydyw fod y crybwylliad mynych hwn wedi ei fwriadu i dynu ein sylw, nid yn unig at ei angau, ond ato fel angau y groes. Y mae yn wir iddo trwy ymostwng i farw o angau y groes, ddyfod i barthau isaf y ddaear; ond y mae yn wir hefyd, pe buasai yn marw o ryw angau arall, na fuasai ei ufudd-dod i Dduw mor amlwg, na'i waith yn gorchfygu Satan mor ogoneddus; am na fuasai galluoedd y tywyllwch yn cael cymaint mantais i ymosod arno ag a gawsant ar y groes. Yr oedd y farwolaeth Iuddewig, sef llabyddio, nid yn unig yn tori yr esgyrn, ond hefyd yn farwolaeth lled ddisymwth, a gallasai y gareg gyntaf wneuthur y dioddefydd yn ddideimlad, ac felly hyd y gwyddom ni, anghymwyso ei enaid i ddioddef; a dioddefaint enaid Mab Duw oedd enaid ei ddioddefiadau. Yn ei waith yn gwrthod y gwin myrllyd ar y groes, yr hwn a roddid i'r croeshoeliedig i farweiddio ei deimladau, gwelwn nad oedd am ymgysgodi rhag un diferyn o'r gawod. Yr oedd croeshoelio yn angau mor araf, fel nad oedd synwyrau y corff, na galluoedd yr enaid ddim yn dyrysu, er bod chwerwder marwolaeth yn y naill a'r llall. Yr oedd felly yn angau oedd yn rhoddi mantais i'r hyn oedd yn nghalon y dioddefydd ddyfod i'r amlwg. Os gallai ragrithio hyd yno, byddai y rhagrith yn dra sicr o ddarfod ar y groes. Dangosodd y lladron beth oeddent mewn gwirionedd pan yn ngafael arteithiau yr angau hwn; a phe buasai un teimlad o edifeirwch yn nghalon Mab Duw am fyned i

le ei bobl, nid oedd dim ar ffordd ei draethu. Pe buasai wedi ei labyddio, nis gallasem wybod nad oedd yn edifar ganddo roddi ei einioes i lawr: ond nis gallasai roddi amlygiad i'r teimlad; ond trwy mai ei groeshoelio a gafodd, cawsom brawf ei fod "yn caru yr eiddo y rhai oedd yn y byd," ac iddo "eu caru hwynt hyd y diwedd;" ac nid prawf nacïol yn unig ydoedd, ond trwy achub y lleidr, fe ddangosodd hyny mewn gweithred a gwirionedd.

Yr oedd perthynas hefyd rhwng dull ei farwolaeth a llwyddiant ei achos. Fel yr oedd angau y groes y mwyaf manteisiol i ddangos mawredd nerth y Dioddefydd, a chryfder ei gariad, felly hefyd yr oedd y mwyaf manteisiol i sicrhau dibenion ei farwolaeth. Rhyfyg a fyddai i ni ddywedyd na fuasai angau Mab Duw mewn unrhyw ddull yn ddigon i ddwyn oddiamgylch iachawdwriaeth pechadur; ond nid gormod ydyw dweyd, na fuasai yn dwyn cymaint o ogoniant i Dduw ag iachawdwriaeth trwy angau y groes; oblegid y mae cynddaredd dyn yma yn ei folianu;—gwendid Duw yn cael ei weled yn gryfach na dynion;—a ffolineb Duw yn ddoethach na dynion. Felly yr oedd dull marwolaeth Mab Duw yn gogoneddu doethineb ei Dad, fel ag yr oedd lluniaethiad trefn y cadw yn gwneyd. Gellir ysgrifenu doethineb Duw ar y drefn yn y cyfanswm, ac hefyd yn ei holl wahanol ranau. Hi gychwynodd o le na ddaeth i galon dyn feddwl am dano. Dygwyd hi oddiamgylch mewn ffordd na ddychymygodd calon dyn yn ei chylch. Edrych y buasai dyn i'r dwyrain, i'r gorllewin, neu i'r deheu, am yr oruchafiaeth; ond oddiwrth Dduw y daeth; a hyny yn y fath fodd ag y gellir dywedyd, "Wele beth newydd!" Wedi clywed o ba le yr oedd hi yn dyfod, yr oedd dyn yn tybied, fel Naaman gyda'r prophwyd, mai fel hyn ac fel hyn y buasai; ond y mae hi mor groes i'w dyb ef, ag ydoedd cyngor y prophwyd i dyb y Syriad gwahanglwyfus. Y mae amrywiaeth ac unffurfiaeth yn holl weithredoedd Duw;—cymaint o amrywiaeth, fel nad oes dim dau beth yr un fath; eto cymaint o unffurfiaeth, fel y maent oll yn debyg: ond y mae y weithred hon mor wahanol i bob gweithred arall, hyd yn nod o eiddo Duw, fel y mae ymhob ystyr yn beth newydd yn eu plith. Duw yn gweithio yn annhebyg iddo ei Hun, ac eto yn anfeidrol deilwng

o hono ei Hun. Y mae gwedd allanol y drefn yn peri iddi ymddangos yn annhebyg i waith Duw; ond erbyn chwilio i mewn iddi, gwelir yma ddoethineb mewn dirgelwch, sydd yn ei gwneuthur hi yn anfeidrol deilwng o Dduw. Gwir fod tywyllwch o'i hamgylch hi; ond os eir i mewn iddo, gwelir fod Duw ynddo fel ar Sinai gynt. Yn y greadigaeth y mae Duw yn trigo yn y goleuni,—y mae ei fawredd yn weledig i'r llygaid; ond yn y tabernacl a'r deml, yr oedd yn rhaid myned i ddirgelfa y babell oddimewn cyn gweled Duw yno, am fod llen rhwng pawb a'r Shecinah; ond y tuhwnt i'r llen hono yr oedd arwyddion disgleiriach o bresenoldeb Duw nag oedd yn holl ogoniant creadigaeth. Yr oedd mwy o Dduw yn nhywyllwch y cysegr, nag oedd yn ngoleuni y greadigaeth. Felly Duw yn trigo yn y tywyllwch yw Duw iachawdwriaeth: llen yw preseb Bethlehem, tlodi Nazareth, a chroes Calfaria; ond y tuhwnt iddi y mae y Shecinah dwyfol yn tanbeidio, gyda digyffelyb ogoniant. Y mae pawb yn gweled y llen; ond nid oes ond ychydig mewn cymhariaeth yn gweled yr hyn sydd tuhwnt iddi. Ond y mae cip-olwg ar y ddau i'w chael yn y testyn,—Dyrchafu y Mab i'r groes,—dyna y llen. Ni feddyliodd neb fod Duw y tuhwnt iddi. Tynu pawb ato ei Hun,—dyna gwr y llen yn cael ei chodi i'r Shecinah ddyfod i'r golwg:—"Minau, os dyrchefir fi oddiar y ddaear, a dynaf bawb ataf fy hun."

I. Y mae hyn yn cynwys mai hyn oedd diben y croeshoeliad. Diben eithaf angau y groes oedd gogoneddu Duw; ond drwy y tynu yr oedd hwnw i gael ei ateb. Dylai canlyniadau a dibenion pethau effeithio bob amser ar ein barn am danynt, oblegid y mae llawer peth bychan yn myned yn fawr, yn ei gysylltiad â'i ddiben; a llawer peth ysgafn yn bwysig, yn ei berthynas â'i ganlyniadau. Yr oedd bwyta o ffrwyth y pren gwaharddedig yn beth bychan ynddo ei hun; ond yr oedd ei ganlyniadau yn ei wneuthur yn annhraethol bwysig. Yr oedd cyfodi sarff bres ar drostan, yn nghanol gwersyll Israel, ynddi ei hun yn ymddangos yn seremoni blentynaidd; ond y mae y diben oedd i'w ateb drwy hyny yn cyfnewid gwedd y weithred. Yr oedd gwaith y tri chanwr hyny yn ngwlad Groeg, yn myned i hafn Thermopylae i gyfarfod â byddin Darius, pan yn gwybod wrth fyned yno fod angau yn sicr yn eu haros, yn ymddangos

yn wallgofrwydd; ond y mae y diben oedd ganddynt mewn golwg, sef tanio mynwesau eu cydwladwyr âg ysbryd i ryfela â'u gelynion, yn gwneuthur eu gwaith yn deilwng o bob parchedigaeth. Felly y mae marwolaeth y groes ar wahan oddiwrth ei diben yn ymddangos yn ddirmygus; ond yn ei chysylltiad â'i diben, y mae hi y weithred fwyaf gogoneddus a gyflawnwyd erioed, neu a gyflawnir byth. Wrth edrych arni ynddi ei hun, fel yr oedd hi yn ymddangos i Iuddew zelog, yr ydym yn troi oddiwrthi gydâ braw, fel y tröem oddiwrth rywbeth gwrthun a fyddai yn gwmwl ar ein caracter, ac yn warth enbyd i ni. Oblegid pa beth a welwn ni ynddi? Onid fod pechod yn teyrnasu i farwolaeth?—fod trueni dyn yn fawr arno, fel nad rhaid myned i fyd arall i chwilio am uffern,—ei bod hi yn dechreu yn y byd hwn? Os ydyw y dioddefydd yn euog o'r hyn y rhoddir ef i farwolaeth o'i blegid, yr ydym yn teimlo fod ei euogrwydd ef yn warth i ni, ac mai *un* o honom ni ydyw. Os nad ydyw yn euog, y mae y rhai a'i condemniasant wedi eu gorchuddio â gwarth, ac y mae gwarth y rhai hyny yn warth i ninau, oblegid rhai o *honom ni* ydynt hwythau hefyd; fel ar bob golwg y mae y groes yn warth i'n natur ni,—yn ysmotyn du ar ein byd ni. Ond pan yr edrychwn ni arni yn ei chysylltiad â'i diben, y mae yr hyn oedd yn achos cywilydd yn cael ei gyfnewid i fod yn destyn ymffrost. Nid marwolaeth ydyw hi mwyach, ond ffynon bywyd; nid uffern wedi ei dwyn i'r ddaear, ond porth y nefoedd. Yn lle bod yn esiampl o'r ysgar a'r gwasgar sydd yn natur pechod, y mae hi yn troi allan i fod yn ganolbwynt i ail uno creadigaeth Duw. Y mae y bryn ar ba un y codwyd hi yn cyfnewid o fod yn Ebal i fod yn Gerizim. Nid Moriah, lle y mae Duw yn ofnadwy, ydyw mwy; ond Sïon, lle y gorchymynir y fendith. Y mae mawredd a gogoniant y diben oedd mewn golwg yn angau y groes, yn gwneuthur y *modd* y cyhoeddwyd ef yn ogoneddus; fel yr oedd disgleirdeb wyneb Moses yn peri i'r llen oedd yn ei orchuddio ddisgleirio, felly y mae diben angau y groes yn gwneuthur y groes ei hun yn ogoneddus. Ac erbyn sylwi, y mae hi yn dwyn delw gweithredoedd Duw. Daeth y greadigaeth gyntaf o'r gair, "Bydded," y mae yr ail yn dyfod o'r groes. Ni fuasai neb ond Duw yn meddwl am sicrhau y fath ddiben drwy y fath foddion; ac ni

fuasai neb ond Duw yn cael allan foddion mor gymwys i gyraedd y fath ddiben. Buasai dyn yn meddwl mai doethineb fuasai yn dyfod o fwyta ffrwyth pren gwybodaeth, ac mai bywyd fuasai y canlyniad o fwyta ffrwyth pren y bywyd; ond ffolineb ac angau oeddent y canlyniadau. Buasai dyn yn meddwl na cheid dim o ddirmyg, ond dirmyg;—dim o ffolineb, ond ffolineb;—dim o angau, ond angau; ond yn lle hyny, gogoniant ddaeth o'r dirmyg;—doethineb o'r ffolineb; a bywyd o'r angau. "O'r bwytawr y daeth bywyd;" o angau y daeth bywyd!

Y diben oedd i'w sicrhau trwy ei angau oedd y gynhaliaeth oedd gan feddwl yr Arglwydd Iesu ei Hun;—hyn ydoedd y llawenydd yn lle yr hwn y dioddefodd Efe y groes, gan ddiystyru ei gwaradwydd hi; a rhaid bod tynu pawb ato ei Hun yn rhywbeth gogoneddus iawn, gan ei fod yn ddigon i gynal y fath feddwl, yn wyneb y fath ddioddefiadau. Y mae yn anmhosibl i'r un creadur wybod beth oedd y rhai hyny;—beth oedd trueni teimladau natur bur, wedi ei gwneuthur yn nghyffelybiaeth un bechadurus. Pa faint o ddioddef oedd yn angenrheidiol bob dydd i fyw ymysg cymaint o halogrwydd moesol. Tybiwch am ein brenhines ni, yn cael ei gosod dan angenrheidrwydd i adael ei phalas, a'i gorsedd, a'i hanrhydedd, a'i llawnder, ac i fyw ond am ychydig wythnosau yn un o heolydd isel, ac yn un o ystafelloedd aflanaf y tŷ ffieiddiaf yn yr heol hono, yn nghanol creaduriaid wedi eu darostwng i ddyfnderau isaf anfoes a llygredigaeth, o ran eu hiaith a'u hymddygiadau,—chwi a gydnabyddwch ar unwaith y byddai hyny yn cynwys rhyw ddioddefaint dirfawr i'w theimladau hi. Ond ni byddai hyny ond dim mewn cymhariaeth i'r hyn yr oedd ein Harglwydd dan yr angenrheidrwydd o'i ddioddef wrth fyw yn y fath fyd halogedig a di-dduw a'r eiddom ni. Yr oedd enaid Paul yn cael ei gynhyrfu wrth edrych ar eilun-addoliaeth Athen; Jeremias yn gwneuthur ei ben yn ddyfroedd wrth edrych ar halogedigaeth ei bobl; Dafydd yn gresynu wrth weled y troseddwyr. Os oedd dynion anmherffaith, llygredig, yn teimlo fel hyn, beth raid fod teimladau enaid pur Mab Duw, ymysg cymaint o aflendid ysbrydol? Ac nid oedd y pethau yn ddim ond y mân wlaw oedd yn disgyn arno; yr oedd y diluw yn ol, ac mewn cymhariaeth i hwnw, nid oedd y rhai

yna ddim yn deilwng o'u galw yn ddioddefiadau. Pan agorwyd ffenestri y nefoedd, fe ddywedir iddo ddechreu tristau; fel pe buasai ei oes oll wedi bod yn llawenydd difwlch hyd y foment hono, pan mewn gwirionedd trist oedd hi o'r blaen; ond yr oedd y tristwch hwnw yn llawenydd mewn cymhariaeth i hwn, oblegid yr oedd hwn yn dristwch hyd angau enaid. Pan yn myned i'w afael, "Fy *enaid* (medd Efe) a gynhyrfwyd." Yr oedd ei enaid yn arfer bod yn dawel, fel y llyn llonydd sydd yn adlewyrchu holl ogoniant y ffurfafen uwchben, er maint y cynwrf a all fod gan ddynion ar hyd ei lanau; ond yn awr y mae yr ystorm yn ei gythryblu, fel nad oes delw dim yn gyfan ynddo. Yr oedd ei enaid yn dechreu myned i'r cwmwl du, sef gŵg ei Dad, yr hyn oedd ei dristwch angeuol. Pan gododd bradwyr i ladd Cesar yn y senedd-dy, dechreuodd amddiffyn ei hun yn wrol rhagddynt, hyd nes iddo weled ei gyfaill mwyaf mynwesol yn eu plith, yn amcanu brathu ei ddagr i'w gorff; fe dorodd hyny ei galon mewn moment; ac fe dynodd ei fantell o'i amgylch, ac a orweddodd i lawr i farw, gan ddywedyd,—"A thithau hefyd, O Brutus!" Yr oedd y byd ac uffern wedi codi yn erbyn Mab Duw; ond nid oedd y naill na'r llall yn cynhyrfu nemawr arno; ond pan dynodd ei Dad y cleddyf o'i wain, yn ei agwedd fe ddywedodd,—"A thithau hefyd, O fy Nhad!" Dyma dristwch angau! Ond yr oedd y diben oedd i'w farwolaeth yn beth mor ogoneddus, fel yr oedd yn troi cysgod angau fel hyn yn foreu-ddydd iddo. Pan oedd ei lygaid yn edrych ymlaen i ddydd y Pentecost, ac oddiyno hyd at yr adeg y safai yr angel ar y môr a'r tir, i dyngu na bydd amser mwyach, ac yn gweled cynulliad y bobloedd ato ei Hun,—holl drueiniaid y ddaear, ynghyd â rhai breision y cenhedloedd yn gobeithio ynddo,—mil o filoedd o dafodau yn ei gyffesu,—myrdd o fyrddiynau yn plygu iddo,—meibion Ismael, asynod gwylltion yr anialwch, oeddent heb eu darostwng gan neb erioed, yn llyfu y llwch o'i flaen,—trigolion eithafion y gorllewin, ac eithafion y de, yn penderfynu na roddent hûn i'w llygaid na chwsg i'w hamrantau, nes cael preswylfod iddo,—yr oedd adsain mawl y cenhedloedd yn taraw ei glustiau megis llef dyfroedd lawer, ac megis llef taranau cryfion. Yr oedd Efe yn edrych ar ei groes fel maen tynu, yn casglu ynghyd o was-

garfa pechod holl blant Duw,—y gelyniaeth oedd wedi chwalu y greadigaeth oddiwrth ei gilydd, yn cael ei ladd drwyddi hi, nes gwneuthur y cwbl unwaith eto yn frodyr i'w gilydd, ac yn blant i Dduw. Yr oedd Efe yn edrych ar ei groes wedi tyfu, fel pren Nebuchodonosor, hyd y nef, a holl drigolion y ddaear yn eistedd dan ei gysgod, ac yn byw ar ei ffrwyth. Yr oedd Efe yn gweled ei Hun yn cael ei anfon i ddioddef, fel y gwerthwyd Joseph i'r Aipht ; ond cadw yn fyw bobl lawer oedd y diben, a dwyn y wlad yn fwy llwyr o dan lywodraeth ei Dad nag y bu hi erioed. Yr oedd Pharoah yn frenin yr Aipht o'r blaen ; ond fe'u gwnaeth Joseph hwynt yn gaethweision iddo, oblegid fe'u prynodd hwynt a'u tir yn eiddo i'r brenin, wrth eu cadw yn fyw. Felly gwnaeth yntau â'r ddaear: Duw oedd eu brenin hwynt o'r blaen ; ond drwy eu cadw yn fyw, fe'u prynodd hwynt iddo. Felly mae Paul yn ysgrifenu ei enw yn rhai o'i epistolau,—"Paul gwas Duw ;" ac y mae y gair yn arwyddo "caethwas Duw." Yr oedd Efe yn gweled, os byddai raid iddo deimlo yn unig ar y groes, nes llefain allan fod pawb yn ei adael, na fyddai raid iddo deimlo felly yn dragywydd wedyn ; ond y cai efe weled ei had, ac yr estynai y rhai hyny ei ddyddiau, ac y byddent fel sêr y nef mewn rhifedi, ac fel tywod y môr yn aneirif. Yr oedd yma fwriad mewn bwriad ; dyn yn bwriadu, a Duw yn bwriadu. Yr oedd pawb yn cael eu hamcan : yr oedd dyn yn cyraedd ei fwriad drwg; ond o hwnw, a thrwy hwnw, yr oedd Duw yn tynu allan fwriadau ei ddaioni. Ni wyddai dyn am ddim mwy dirmygus na'r groes : ond y mae Duw yn peri i hono adlewyrchu gogoniant mwy tanbaid na dim o fewn y greadigaeth. Ni wyddai dyn am ddim yn fwy effeithiol i ddifodi enw Iesu Grist oddiar y ddaear, ac i chwalu ei ganlynwyr, na'i ladd ; ond y mae Duw, drwy hyny yn dywedyd, "Ei enw fydd yn dragywydd," ac yn sicrhau mai ato Ef y byddai cynulliad pobloedd. "A dynaf bawb." Y diben oedd i'w ateb drwy angau y groes sydd yn ei gwneuthur hi yn destyn ymffrost i'r Cristion. Y mae llawer peth yn ymddangos, ar yr olwg gyntaf, yn fwy gogoneddus na'r groes, ac y mae miloedd yn ymffrostio yn y pethau hyny ; ond y mae y sant yn penderfynu, na fyn ê wybod dim ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio. Ymffrostia y doethion fod pren

gwybodaeth ganddynt; ond y mae ei ffrwyth yn angau iddynt. Ond dyma bren,—nid olewydden,—nid ffigysbren,—nid gwinwydden, ydyw yn ngolwg y ddaear, ond mïeren. Ond er mor ddiolwg, y mae y ffrwyth sydd arno wedi peri i'r Cristion benderfynu nad ymffrostia mewn dim ond hwn. Yn ei ymyl y mae efe yn meddwl byw, am mai yno y mae yr unig lanerch iach ar y ddaear: ynddo y mae ei holl obaith yn canolbwyntio; y mae yn dywedyd am dano, fel Lamech am Noah, "Hwn a'n cysura." Diben angau y groes sydd yn llawenychu Duw a dyn. Os oedd y diben yn beth digon mawr i gynal meddwl y Meichiau yn y rhagolwg ar ei ddioddefiadau, rhaid y bydd syrthio yn fyr o'r iachawdwriaeth sydd ynddo, yn beth rhy ofnadwy i iaith allu ei ddisgrifio. Yr oedd hi yn beth mor fawr, fel yr oedd yr olwg arni yn cynal ei feddwl Ef i ddioddef;—beth fydd ei cholli hi? Y mae yr uffern o ba un y mae hi yn achub mor ddofn, ag ydyw y nefoedd i ba un y mae yn dwyn o uchel. "Minau, os dyrchefir fi oddiar y ddaear, a dynaf bawb ataf fy hun."

II. Y mae hyn yn cynwys mai trwy y croeshoeliad y mae y diben mawr hwn i gael ei gyraedd, sef y byddai i'r hyn a wnai wrth farw dynu pawb ato ei Hun. Tra yr arosodd Absalom yn Gesur, nid ydoedd mewn cyfle i enill serch y bobl; ond pan gafodd ê ddyfod i'r llys, fe ladrataodd galon holl wŷr Israel. Felly pan oedd Mab Duw yn y nefoedd, nid oedd mewn cyfle i ladrata calon neb; ond trwy gael ei godi i'r groes, fe'i gosodwyd mewn lle manteisiol i hudo y bobl oll ar ei ol. "A dynaf bawb." 'Trwy gael fy nghroeshoelio, caf fy ngosod yn ganolbwynt creadigaeth, fy ngwneuthur yn Haul, nid i'w goleuo yn unig, ond hefyd i'w chadw byth mewn trefn.' Yr oedd ystad ysbrydol y byd hwn yn gyffelyb fel pe buasai yr Arglwydd yn creu y planedau a'r bydoedd wybrenol cyn creu yr haul, ac yn eu taflu i'r eangder i wibio yno mewn annhrefn; ond y foment y gosododd Efe yr haul yn y canol, yr oedd sugn-dyniad hwnw yn eu dwyn oll i'w lle. Cyffelyb oedd y byd hwn, nid yn unig yr oedd yn *chaos*, mewn tywyllwch, ond hefyd mewn annhrefn; ond y mae Crist croeshoeliedig yn Haul i'w oleuo, ac yn Haul i beri i bob meddwl ynddo droi o'i amgylch ei Hun. "A dynaf bawb ataf fy Hun."

Y mae dau beth mawr yn angau Crist sydd yn peri iddo dynu:

1. Y mae yn tynu, am fod Duw, fel y mae yn ymddangos yn marwolaeth Crist, yn cyfateb i dybiaeth ac i eisiau dyn, sef i'w gydwybod, ac i'w galon. Nid rhaid cymeryd amser i brofi mai eisiau mawr enaid dyn ydyw eisiau Duw. Er ei fod yn cilio oddiwrtho, eto ei iaith wrth wneuthur ydyw,—"O na wyddwn pa le cawn i Ef!" Un achos mawr o'r dieithrwch sy rhyngddo â Duw ydyw, am ei fod yn methu ei adwaen. Y mae Duw, fel y mae yn cael ei ddangos yn ei weithredoedd, yn gyffelyb i ddelw gwrthddrych mewn drych wedi ei dori: yn ddarnau y mae y ddelw yn cael ei dangos. Nid yw yr hyn y mae y gydwybod yn ei dybied am Dduw, a'r hyn y mae y galon eisiau iddo fod, ddim i'w gweled ar unwaith. Pan y mae daioni yn amlygedig, nid ydyw yn tywys i edifeirwch, am fod y gydwybod yn ofni fod digofaint yn bod. Pan y mae digofaint yn y golwg, y mae ei ddaioni yn guddiedig; am hyny, anobeithio y mae y pechadur. Felly nid yw yr amlygiadau hyn ddim yn cyfarfod ond âg un ran o'r dyn,—naill ai â'i gydwybod, neu â'i galon. Y mae digofaint Duw yn cyfateb i dyb cydwybod am dano; a'i drugaredd yn cyfateb i'r hyn y mae y galon yn ei deimlo sydd yn eisiau arni hi. Ond y mae pechadur yn methu tynu cysur oddiwrth y gras, am fod cydwybod yn dywedyd fod digofaint yn bod; ac y mae yn anobeithio yn yr olwg ar y digofaint am ei fod yn methu gweled y gras ar unwaith. Nid ydyw cydwybod a chalon dyn ddim yn cytuno: wrth weled amlygiad o'i ddigofaint,—"dyna y Duw yr wyf wedi ei ddigio," medd cydwybod: "Nid dyna y Duw sydd yn cyfateb i'm heisiau i," medd y galon. Wrth edrych ar ei ddaioni, "Dyna y Duw i mi," medd y galon. "Nid hwnyna yr wyf fi wedi ei ddigio," medd cydwybod: felly nid allai y galon ddim myned ar ol Duw y gydwybod, na'r gydwybod ddim myned ar ol Duw y galon; am hyny, ffoi yr oeddent o'i wydd yn wyneb pob amlygiad o hono ei Hun. Ond yn marwolaeth Iesu Grist, y mae Duw y gydwybod a Duw y galon yn cael ei weled fel yr un un: yr hyn yr oedd y naill yn ei dybied am dano yn gywir, a'r hyn yr oedd y llall eisiau iddo fod yn gywir hefyd. Y gydwybod yn edrych ac yn dywedyd,

—Dyna fy Nuw i ;—y galon yn edrych ac yn dywedyd,—Dyna, fy Nuw inau hefyd. Ni ddywedaf fi ddim yn dy erbyn di, galon, medd cydwybod; camgymeryd yr oeddwn, gan feddwl mai un cyfiawn heb drugaredd oedd,—dyna y paham yr oeddwn yn anghytuno â thi. Ni ddywedaf inau ddim yn dy erbyn di, gydwybod, medd y galon ; camgymeryd yr oeddwn inau, gan feddwl mai trugaredd, heb gyfiawnder oedd ynddo: dyna y paham yr oeddwn yn cweryla ; ond ni anghytunwn ni ddim yn hwy, oblegid dy Dduw di yw fy Nuw inau, a'm Duw i yw dy Dduw dithau. Cei di ei gyfiawnder, mi gymeraf inau ei drugaredd. Ond y mae ei drugaredd Ef yn dragywydd gyfiawn i mi, a'i gyfiawnder yn gyfiawnder trugarog i tithau ; dyma gyfiawnder i ti, a heddwch i minau ; gwirionedd i ti, a heddwch i minau ; gwirionedd i ti, a thrugaredd i minau. Y man lle yr wyt ti yn ei weled yn Dduw cyfiawn, yr wyf fi yn ei weled yn Dduw yr heddwch; yn y fan yr ydwyt ti yn ei weled yn "Arglwydd Dduw y gwirionedd." yr wyf fi yn ei weled yn "Jehofah, Jehofah, y Duw trugarog a graslawn." Yr oedd gweithredoedd Duw yn tystio o'r nef am dano, a'r enaid dynol yn tystio ar y ddaear: ond nid oeddent yn cytuno â hwynt eu hunain ragor nag â'u gilydd : ond yn nghroes Crist, y mae y rhai sydd yn tystio yn y nef ac ar y ddaear yn un yn cytuno. Hi a symudodd y digofaint, heb gymylu y cyfiawnder ; hi a ogoneddodd y gras, heb wneyd hyny ar draul sancteiddrwydd. Beth yw y cysondeb yna i mi? medd y pechadur : pe cawn i rywun i agor drws y carchar, ni ofalwn i ddim pwy a fyddai, na pha fodd y gwnai hyny. Camgymeriad mawr yw hwnyna. Yr wyt, mewn gwirionedd, heb deimlo dy hun yn y carchar eto, onide ni leferit ti ddim fel yna. Nid âi Paul a Silas ddim allan o garchar Philippi er cael y drysau yn agored, a chael gorchymyn i hyny, heb i'r swyddogion oeddent wedi eu rhoddi i mewn, eu hunain eu harwain hwynt allan : felly pan êl goleu i mewn i dy enaid di, nid âi allan o'r carchar, hyd yn nod yn llaw trugaredd, heb i'r cyfiawnder sydd wedi dy roddi di i mewn, fod yno hefyd. Nid peth bychan, y pryd hwnw, fydd gweled Un wedi ei osod yn iawn, i ddangos cyfiawnder trwy faddeuant pechodau, &c.

2. Y mae y groes yn tynu, am fod ei dieithrwch hi yn ddigon

i dynu sylw y byd, a'i rhoddion hi yn ddigon i enyn cariad y byd. Anghof o Dduw ydyw pla dyn. Nid gweithrediad uniongyrchol gelyniaeth ato ydyw ei fai mawr, ond peidio meddwl am dano. "Nid ydyw Duw yn ei holl feddyliau ef;" a phan y tynir ei sylw am foment, ni fydd digon o rym yn yr hyn a wna hyny i gadw y meddwl gydag ef; ond y mae yn nghroes Crist beth yn ddigon hynod i rwymo y meddwl i syllu arno, a'r peth hynod hwnw yn ddigon hawddgar, i beri i galon y gelyn garu. Yr oedd peth fel hyn yn ngwyrthiau yr Arglwydd Iesu,—gallu mawr, a chariad mawr. Peth hynod, a pheth hawddgar; cariad wedi ei amgylch-osod mewn gallu oeddent. Ond yn ei groes y mae hyn mewn perffeithrwydd. Yn y prawf cyhoeddus cyntaf a roddwyd arni, sef ar ddydd y Pentecost, daeth y ddau i'r golwg. Fe sugnwyd meddyliau y bobl at y dirgelwch a'r cariad, pan ddaeth Pedr â'r ddau beth gerbron, trwy dystio fod Duw wedi gwneuthur yn Arglwydd ac yn Grist, yr Iesu a groeshoeliwyd. Wedi clywed hyn, fe'u dwysbigwyd yn eu calon. Pe buasai yr Arglwydd heb gael ei groeshoelio, neu wedi ei groeshoelio heb fod yn Arglwydd, ni fuasai dim sugn yn ei groes; ond pan glywsant y ddau, fe'u tynwyd ganddi yn y fan. Erbyn sylwi yn fanwl ar eiriau y Bibl, y maent fel yn gwrthddywedyd eu hunain;—Arglwydd pawb oll wedi ei groeshoelio,—Tywysog y bywyd wedi ei ladd,—Arglwydd y gogoniant wedi ei farwolaethu! Naill, medd rheswm, ai gwadwch ei fod yn Arglwydd,—yn Arglwydd pawb,—yn Arglwydd y gogoniant, neu, ynte, peidiwch sôn am ei groeshoeliad, oblegid y mae y ddau beth yn anghyson. Yr oedd yr Iuddewon yn teimlo anghysondeb yr ysgrifen oedd uwchben ei groes Ef. Ceisiasant gan Pilat roddi ychydig ragymadrodd iddi;—"ddywedyd o hono Ef, Brenin yr Iuddewon ydwyf." Na, medd y rhaglaw, "yr hyn a ysgrifenais a ysgrifenais." Er mor anghyson i'ch golwg chwi ydyw, ni newidir mo hono. Felly, medd doethineb y byd, ysgrifenwch, 'Ddywedyd o hono Ef, Arglwydd y gogoniant, a Thywysog y bywyd, ydwyf,' oblegid y mae peth fel yna yn anghyson â chroeshoeliad. Bydded felly: yr hyn a ysgrifenwyd a ysgrifenwyd. Yn yr anghysondeb,—yn y dirgelwch yna y mae cuddiad cryfder ei groes Ef i dynu. Gwadodd y Pabyddion yn China fod

Arglwydd y gogoniant wedi ei groeshoelio, gan haeru mai enllib a gododd ei elynion i'w erbyn oedd hynyna ; ond collodd eu hefengyl ei nerth yn y fan. Y mae Sosiniaid y wlad hon yn addef iddo gael ei groeshoelio, ond yn gwadu ei fod yn Arglwydd y gogoniant; ac y mae eu hefengyl hwythau mor ddinerth ag efengyl y lleill. I gael grym ynddi, y mae yn rhaid i ni gael y ddau ynghyd :—Arglwydd y gogoniant wedi ei farwolaethu. Hen ddeddf ymerodraeth Duw oedd, "Yr enaid a becho hwnw a fydd marw," a phlant angau a lusgir i angau ; ond wele beth newydd,—diniweidrwydd yn dioddef, Tywysog y bywyd yn cael ei ladd. Ynddo Ef yr oedd bywyd; nid ydoedd ond peth damweiniol yn mhawb arall; ni buasai ei weled yn diffodd yn mhawb ddim ond cyffelyb i weled ffrydiau yn sychu ; ond yr oedd ei weled Ef yn marw yr un peth a phe gwelsid y môr, bywyd y ffrydiau, yn darfod. A pheth sy ryfeddach eto, yr oedd Efe yn Dywysog y bywyd wrth gael ei ladd,—yn Arglwydd pawb oll ar y groes,—yn Frenin y gogoniant wrth farw. "Duwiau ydych, a meibion y Goruchaf," medd y Salmydd wrth rywrai, "ond byddwch feirw fel dynion," hyny yw, ni fyddwch chwi ddim marw fel duwiau, nac fel meibion y Goruchaf. Rhoddwyd un o frenhinoedd Lloegr i farwolaeth gan y deiliaid ; ond yr oedd holl urddas brenin wedi ei gymeryd oddiarno cyn hyny,—y goron,—yr orsedd,—a'r deyrnwialen ; ond bu Iesu farw â'r goron ar ei ben ;—aeth i byrth y bedd â'r deyrnwialen yn ei law. Yr oedd Efe yn Dywysog y bywyd pan yn ngwlad angau. Pa fodd, medd y byd, y gall hyn fod? "Mi a droaf yn awr, ac a edrychaf ar y weledigaeth fawr hon." O na wnaech chwi hyn, oblegid un o ddibenion ei rhyfeddodau hi ydyw tynu eich sylw, er mwyn i chwi sefyll i wrandaw ar y llais sydd yn dyfod o honi. Fel gydâ Moses gynt, fe dynodd y berth oedd yn llosgi heb ei difa ei sylw, nes peri iddo agosâu i edrych beth oedd yno; ond gydâg iddo ddyfod yn ddigon agos, dyma eiriau yn dyfod o ganol y berth :—'Diosg dy esgidiau, oblegid yr wyt yn sefyll ar ddaear sanctaidd ;' ond paid â dychrynu, er mor ofnadwy yr olwg, ar neges o drugaredd, yr wyf wedi disgyn : 'Myfi yw Duw dy dad di,—Duw Abraham, Isaac, a Jacob: fy niben yn dyfod yma ydyw i amlygu hen fwriad sydd yn fy mynwes i

waredu fy mhobl o'r Aipht.' Felly, unwaith y tynir y byd yn ddigon agos gan ryfeddodau Croes Crist i glywed y llais sydd yn dyfod oddiarni, hyny a fydd : "Diosg dy esgidiau oddiam dy draed,"—y mae y ddaear hon yn ddaear sanctaidd ; er hyny paid ag ofni, oblegid ar neges o drugaredd y disgynais : gweled a wnaethum eich cystudd ar y ddaear, a bod eich meistradoedd gwaith yn eich gyru yn dost, ac mi a ddisgynais yma i amlygu hen fwriad oedd yn fy mynwes i'ch gwaredu, ac i'ch dwyn i wlad dda odiaeth, yn llifeirio o laeth a mêl. Yr oedd gweled y berth yn llosgi heb ei difa yn rhyfeddod fawr ; ond yr oedd y geiriau a ddaethant o'i chanol hi yn fwy rhyfedd felly. Beth bynag sydd yn hynod o amgylch croes Crist, y peth rhyfeddaf yma ydyw y cariad. Ac nid yw pob peth arall a welir ynddi yn ddim ond *shades* yn y pictiwr, i ddangos prydferthwch y cariad. Y mae y cyfiawnder sydd ynddi, yn dangos nerth y cariad ; y sancteiddrwydd, burdeb y cariad ; y mae hyd yn nod tân y digofaint yn gwasanaethu megis fflam angerddol i'r cariad hefyd. Y mae llawer o leisiau yn cyhoeddi enw yr Arglwydd yno, a phob un yn cyhoeddi rhyw enw gwahanol : Duw cyfiawn ydyw, medd un ;—Duw sanctaidd ydyw, medd un arall ; —Duw hollalluog ydyw, medd y trydydd ; ond y maent oll yn cytuno i ddywedyd mewn un llef, fel sŵn dyfroedd lawer :— "Duw, cariad yw." Yr oedd y natur ddynol yn gwrandaw pob gair arall a ddaeth oddiar y groes, ac yn ymgaledu oddidano ; ond pan glywodd hi hyn, y mae ei chalon hi yn adsain, —"Yr ydwyf yn ei garu Ef, am iddo Ef yn gyntaf fy ngharu i." Y llef olaf a ddaeth oddiar y groes gynt a orchfygodd y canwriad, nes peri iddo ddywedyd,—"Yn wir Mab Duw oedd y dyn hwn :" felly, y geiriau olaf sydd yn dyfod oddiar y groes eto, sydd yn gorchfygu calon pechadur ; a dyna ydynt :—"Duw, cariad yw." Yr oedd calon meibion Jacob gynt yn parhau yn ddigon caled, er cymwynasau a gŵg llywydd yr Aipht. Y mae yn wir fod y gŵg wedi dwyn yr hen dro drwg i'w meddwl, ond nid oedd yno fawr o wir edifeirwch o'i blegid ; ond ryw ddydd, wele bawb wedi eu gyru allan, a'r llywydd yn dechreu wylo ger eu bron, gan ddywedyd :—"Myfi yw Joseph ;" ond nis gwyddent eto beth oedd yn bod, am eu bod wedi brawychu. "Dyneswch, atolwg, ataf," medd yntau ;—"Myfi yw Joseph

eich brawd chwi,"—hwnw a werthasoch gynt yn Dothan; eto eich brawd chwi ydwyf. Gydâ'r gair, wele eu calonau celyd yn toddi fel cŵyr! Wele fyd o bechaduriaid,—y mae gŵg a chymwynasau y nefoedd yn methu mènu arnynt; ond pe caem hwynt i ymyl Croes Crist, i glywed y Dioddefydd yn dywedyd:—"Myfi yw Joseph eich brawd chwi," fe'u toddid gan y geiriau, nes ffieiddio yr hen ymddygiad annuwiol tuag at eu Tad. Yr ydych yn cadw mewn rhyw bellder drwgdybus oddiwrth y groes; yn ymfoddloni ar weled, heb glywed. Fe welodd pawb ar y ffordd i Damascus y rhyfeddodau, ond Saul yn unig a glybu y llais. Ni effeithiodd y rhyfeddodau nemawr arnynt hwy; ond fe wnaed Saul yn greadur newydd o'r dydd hwnw allan, gan y llais. Nid oes yma neb nad ydyw y rhyfeddodau sydd yn nghroes ein Harglwydd Iesu Grist wedi tynu ei sylw; ond y mae llawer o honoch yn rhy bell oddiwrtho i glywed y llais. Chwi ellwch weled y rhyfeddodau, heb iddynt effeithio nemawr arnoch; ond pe clywech chwi y llais, ni wingech chwi ddim yn erbyn y symbylau byth wedy'n, ond eich iaith a fyddai:—"Arglwydd, beth a fyni Di i ni ei wneuthur." Yr oedd penaethiaid yr Iuddewon yn edrych o bell ar y groes, ac yn gwawdio; ond yr oedd y canwriad oedd gerllaw, yn clywed y geiriau oedd yn dyferu o enau y croeshoeledig, yn addoli. Y mae arnaf ofn fod yma lawer, fel y penaethiaid, yn rhy bell i glywed y geiriau; gallwn i eu hadrodd hwynt; ond ni lesâ hyny ddim, heb i chwi eu clywed eich hunain. "Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd Efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo Ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol." "Yr hwn nid arbedodd ei briod Fab, ond a'i traddododd Ef trosom ni oll." "Efe a archollwyd am ein camweddau ni." "Yr Arglwydd a fynai ei ddryllio Ef." "Yn hyn y mae cariad; nid am i ni garu Duw, ond am iddo Ef ein caru ni, ac anfon ei Fab i fod yn iawn dros ein pechodau ni." "Sef bod Duw yn Nghrist yn cymodi y byd âg ef ei Hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau." "Oblegid ni ddanfonodd Duw ei Fab i'r byd, i ddamnio y byd, ond fel yr achubid y byd trwyddo Ef." Pe clywech chwi y geiriau hyn yn pêr-seinio oddiar ei groes Ef, gwnaent eich eneidiau, heb yn wybod i chwi, "fel cerbydau Amminadib," yn barod i ddychwelyd at

Dduw. Wedi i Rebeccah glywed yr hyn a ddywedodd gwas Abraham, nid oedd hawl neb ynddi, ond un Isaac, yn werth nemawr wedy'n; felly, pe clywech chwithau y geiriau, ni fyddai hawl y diafol ynoch ddim yn werth ffyrling wedy'n. "Minau, os dyrchefir fi oddiar y ddaear, a dynaf bawb ataf fy Hun." A ydyw Croes Crist ddim yn tynu ychydig arnoch? A fydd ei rhyfeddodau ddim yn peri i chwi ofyn weithiau, "Ai gwir yw?" A fydd ei rhoddion hithau ddim yn peri i chwi ddywedyd,—"Pwy ydwyf fi, a thŷ fy nhad, fel y gwnelid hyn i mi?" A fydd hi ddim yn ymlid y meddyliau celyd culion yna o dy fynwes di? Os oedd un dalent Rhagluniaeth yn peri i chwi ddywedyd mai gŵr caled oedd Duw, ai ni wna pum' talent y groes gyfnewid eich barn? Os na ddychrynir yr ellyllon yna o dy feddwl gan groes Crist, nythant yn dy fynwes di byth. Erlidiwyd y Cristionogion unwaith gan y paganiaid, am fod eu croes hwynt, meddent, wedi dychrynu y duwiau, fel nad oeddent yn eu hateb mewn un ffordd; a thybient, ond cael y groes o'u plith, y deuai y duwiau â'u hatebion yn ol. O bechadur! os nad ydyw y groes wedi dychrynu yr hen ellyllon o dy feddwl dithau, y mae yn dra ofnus mai yna y cartrefant mwy; oblegid nid oes yn ymerodraeth Duw ddim arall a all wneyd. Yr oedd Jacob wedi clywed llawer am Joseph a'i fawredd; ond nid ydoedd yn credu, nes gweled y cerbydau a anfonwyd gan Joseph i'w geisio. Y mae Rhagluniaeth wedi dywedyd llawer am ddaioni Duw, ond yr ydych heb gredu; ond dyma gerbyd wedi ei anfon o bwrpas ganddo i'th ddwyn ato ei Hun. Os na etyb hwn y diben i beri i chwi gredu yr oll a glywsoch, *yr ydych yn anobeithiol.* Byddai yn dda genyf gael gweled llyfr arfaeth Duw, meddwch, i gael gwybod pa un ai yn uffern ai yn y nefoedd y bydd fy nghartref byth. Nid oes eisiau i chwi fyned cyn belled a hynyna: chwiliwch pa sut y mae hi yn sefyll rhyngoch â'r groes. Os nad ydyw cariad Hwn yn eich tynu, ni fedd Duw ei hunan yr un ffordd arall i'ch codi, o ddyfnder y codwm i uchder gogoniant.

III. Y mae y testyn yn cynwys, fod ei waith yn cael ei ddyrchafu oddiar y ddaear yn sicrhau atebiad y diben hwn: "Minau, os dyrchefir fi, dynaf." Nid marw ar antur a wnaeth i agor ffordd, heb sicrwydd a rodiai neb ynddi: nage: os bydd

y gronyn gwenith farw, ni fydd yr un *os* wedy'n ;—fe ddwg ffrwyth lawer. "Er na ddychwelodd Jacob, er nad ymgasglodd Israel, eto," medd Efe, "gogoneddus fyddaf fi yn ngolwg yr Arglwydd." Os na ddaw y rhai a wahoddwyd yn gyntaf, nid ä y swper mawr ddim yn ofer. Os ydyw y Cymry, mawrion eu breintiau, yn gomedd dyfod, mi a anfonaf fy ngweision i Affrica, China, ac India, i osod gorfodaeth ar gloffion, deillion, a gwywedigion y gwledydd hyny i ddyfod i mewn: "mi a lanwaf fy nhŷ,"—"A dynaf bawb ataf fy Hun." Pa fodd, meddir, yr oedd Efe mor hyderus? Yr oedd felly—

1. Am fod ei farwolaeth yn gyflawniad o amod y cyfamod oedd rhyngddo Ef â'i Dad: ac felly yn trosglwyddo holl rym y cyfamod hwnw o blaid cyrhaeddiad ei dibenion hi. Wedi i Dduw wneyd cyfamod mewn perthynas i unrhyw beth, ac i'r amodau gael eu cyflawni, fe saif byth ato. Fe roddodd Wlad Canaan mewn cyfamod i Abraham; ac er bod pob peth allanol am ganoedd o flynyddoedd yn gwneuthur ei gyflawniad yn dra annhebyg; ac er bod plant Abraham wedi ac yn profi eu hunain 'yn bur annheilwng o hyny, eto fe lwyr noethodd ei fwa i wneyd; oblegid gair y llŵ. Y mae cyfamod bob amser yn rhwymo gwirionedd Duw i gyflawni bwriadau ei drugaredd. Nid oes dim yn eisiau ond i Fab Duw gael cyfiawnder, i'r pechadur gael trugaredd; oblegid y mae y bywyd tragywyddol sydd yn drugaredd i'r naill, gymaint yn gyfiawnder i'r llall. Nid ydym ni ddim yn ei deilyngu; ond y mae Efe yn teilyngu gwobr; ac y mae gwobr iddo Ef yn fywyd i ni. Yr oedd Efe yn gwybod na chai Efe ei dwyllo gan ei Dad am ei wobr; am hyny yr oedd yn gallu dywedyd yn ddibetrus,—"A dynaf bawb;" oblegid y mae llawer wedi eu rhoddi yn rhan iddo. Y mae rhai yn meddwl fod Duw hyd heddyw heb gyflawni ei gyfamod i Abraham;—na bu ei had erioed eto yn meddianu yr holl wlad a addawyd iddynt; ac ar hyn y maent yn seilio y farn fod yn rhaid iddynt ddychwelyd eto i Wlad Canaan. Beth bynag am hyny, y mae hyn yn wir,—nid yw y cyfamod â Mab Duw ddim wedi ei gyflawni eto: ni chafodd Efe mo'i wobr o lawer. Ond nid oes dim yn eisiau iddo ond gofyn: "Gofyn i mi, a rhoddaf y cenhedloedd yn etifeddiaeth i ti, a therfynau y ddaear i'th feddiant."

2. Y mae yn gallu llefaru gydâ sicrwydd, am ei fod wedi enill holl *adnoddau* Jehofah o'i blaid wrth farw i ddwyn hyn o amgylch. Pan oedd Israel yn myned i Ganaan, yr oeddent yn gorfod amgylchu tir un, ac ymladd eu ffordd drwy deyrnas y llall; ond nid rhaid iddo Ef amgylchu un man, na gofyn cenad gan neb, oblegid y mae wedi cael "pob awdurdod yn y nef, ac ar y ddaear;" ac felly y mae "yn Ben uwchlaw pob peth i'r eglwys." Os bydd Moab o ryw wasanaeth iddo, y mae ganddo ryddid i'w wneyd yn grochan golchi: os teimla Efe flys Edom, ni raid iddo, fel Ahab gydâ gwinllan Naboth, ymboeni llawer oblegid hyny; na, dim ond taflu ei esgid drosti, dyna hi yn feddiant iddo yn y fan. Gall ddywedyd wrth yr Aipht, heb ofyn cenad Pharaoh,—"Bendigedig ydyw yr Aipht, fy mhobl i;" ac wrth "Philistia, ymorfoledda di o'm plegid i." Cyn marw, yr oedd fel yn teimlo nad oedd ganddo eto hawl yn y byd. Pan yn anfon ei ddisgyblion allan, yr oedd yn rhoddi gorchymyn pendant iddynt i beidio myned tuallan i'w hawl Ef; Mat. x. 5. Ac mor hwyrfrydig a fu Ef ei hunan i wneyd cymwynas i'r wraig o Ganaan; ond wedi hyny, "Ewch i'r holl fyd;" Myfi a'i piau oll yn awr. A thrwy farw, y mae wedi cael un medrus dros ben, ar y gorchwyl o dynu, yn garedig iddo, sef Ysbryd y Duw byw. Yr oedd gan Abraham hyder mawr yn Eleazar, am ei fod wedi ei gael yn deilwng o ymddiried lawer gwaith; ond pan yn ei anfon i geisio gwraig i Isaac, nid oedd yn sicr y llwyddai; ond y mae Mab Duw wedi cael un i ymddiried y tynu iddo, ag y mae ganddo sicrwydd o'i lwyddiant. Gall ddywedyd am y trysorau yn fwy medrus nag Eleazar: y mae ganddo fwy gydâg Ef i'w ddangos nag oedd gan hwnw. "Efe a'm gogonedda i: canys efe a gymer o'r eiddof, ac a'i mynega i chwi." Yr oedd Dafydd wedi ei eneinio yn rheolaidd yn frenin, er hyny bu am flynyddoedd heb gael ond un llwyth yn ufudd iddo; ond wele Abner o'r diwedd yn dyfod yn garedig iddo, gan anfon ato; 2 Sam. iii. 12. Ac wedi i'r cyngrair gael ei wneyd, y mae yn dywedyd:—"Mi a gyfodaf, ac a âf, ac a gasglaf holl Israel at fy Arglwydd frenin, fel y gwnelont gyfamod â thi, ac y teyrnasech ar yr hyn oll a chwenych dy galon;" adn. 21. Gwelwyd holl Israel mewn canlyniad yn cyd-lefain, "Byw fyddo y brenin!" Bu Mab Duw, er ei fod

wedi ei eneinio yn Frenin rheolaidd, am flynyddoedd heb nemawr o ddeiliaid. Paham? "Ni roddasid yr Ysbryd eto." Nid oedd llaw Abner ddim gydâg Ef; ond wrth farw gwnaeth gyngrair âg Ef, nes y dywedodd yntau,—Mi a gasglaf holl Israel—ïe, yr holl genhedloedd, atat ti. Ac ar ddydd y Pentecost, wele hwynt yn dechreu dyfod wrth y miloedd. Paham? Abner oedd âg Israel yn ei law, wedi llefaru wrthynt. "Efe a'm gogonedda i." "A dynaf."

3. Wrth farw enillodd hawl yn mhawb. Y mae dau ystyr i'r gair "tynu:"—1. Tynu trwy'r ewyllys;—"Tyn ni, a ni a redwn ar dy ol." 2. Tynu trwy nerth. Y mae y ddau yn nameg y talentau. Yno chwi a gewch y naill was yn dyfod, trwy fodd ei galon, i dderbyn gwobr, a'r llall yn gorfod dyfod i dderbyn ei ddedfryd. Bydd yr Iesu hwn, anwyl bobl, yn gwymp neu yn gyfodiad i bawb o honoch.

[Prydnhawn Gwener, Gor. 12, 1850.]

# PREGETH XLIX.

## RHAGLUNIAETH DDWYFOL YN UNIAWN ER YN DYWYLL.

SALM XCVII. 1, 2.—"Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu; gorfoledded y ddaear: llawenyched ynysoedd lawer. Cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef: cyfiawnder a barn yw trigfa ei orseddfainc ef."

Y MAE y Salmydd yn ymhyfrydu mewn galw sylw mynych at lywodraeth Duw ar y byd. Y mae yn gwneuthur hyny i amryw ddibenion: weithiau i ddangos gogoniant yr Arglwydd, fel yn Salm xciii.; bryd arall i fod yn destyn dychryn a braw i'r annuwiol, fel yn y xcix. 1; ond yn fwyaf cyffredin y mae yn tynu sylw at ei lywodraeth fel testyn cysur iddo ef a'i frodyr, y saint, megis yn y testyn. Ac y mae y grediniaeth ddiysgog o lywodraeth Duw ar y byd, yn anhebgorol angenrheidiol tuag at gadw tangnefedd yn mynwes pob dyn ystyriol. Byddai yn drueni byw ar y ddaear, oni bai ein bod yn credu fod Un uwch na'r uchaf yn gwylied, ac yn goruwch-reoli y cyfan, i ddwyn o amgylch yn y diwedd ddibenion doeth a da.

Y mae pawb yn gorfod addef mai Duw a wnaeth y byd, am na allasai neb arall ei wneuthur; a dylent oherwydd yr un rheswm addef mai Duw sydd yn ei lywodraethu. Nid yw y wybodaeth, y doethineb, a'r gallu angenrheidiol i hyny, i'w cael yn neb arall. Y mae yn rhaid ei fod naill ai o dan lywodraeth damwain, ai o dan lywodraeth Duw. Os oes rhyw fôd yn ei lywodraethu, ni all hwnw ddim bod yn neb llai na Duw.

Gellid meddwl fod y gwirionedd mai yr Arglwydd sydd yn teyrnasu mor eglur, fel mai gwaith ofer a fyddai cymeryd dim amser i'w brofi; ond y mae perygl i'w eglurder fod yn fagl i ni; wrth deimlo ei fod yn rhy wir i'w wadu, gallwn fyned i deimlo

ei fod yn rhy eglur i feddwl am dano. Ac y mae llawer oherwydd eglurder y gwirionedd hwn yn ddiystyr o hono ; fel mai nid diangenrhaid ydyw cyhoeddi yn fynych yn nghlyw dynion nad ydynt yn gwadu hyny, mai yr Arglwydd sydd yn teyrnasu. Nid ydyw Duw ddim yn ymwthio i'w sylw fel Creawdwr, nac fel llywodraethwr ychwaith, ond anaml. Y mae i'w weled bob amser, ond tra anfyrych y dywed ef ei Hun, "Wele fi." Ac arfer dyn yw peidio meddwl am dano, na sylwi arno, ond pan wna Efe hyn. Y mae i'w weled yn y greadigaeth bob amser ond sylwi ; ond y mae weithiau trwy arwyddion yn y nefoedd uchod, a'r ddaear isod, yn dywedyd, " Wele fi," nes gorfodi sylw. Y mae i'w weled yn llywodraeth y byd bob amser, ond mor aml yr anghofiwn ni Ef, nes y dywed, "Wele fi." Tra y bydd y dwfr, a'r llwch, a'r ŷd, yn eu hystâd naturiol, nid yw Llywodraethwr y byd yn cael nemawr o'n sylw ; ond os troir y naill yn waed, a'r llall yn llau, ac os dinystrir y trydydd, ni a deimlwn mai "yr Arglwydd sydd yn teyrnasu."

Y mae ein hanystyriaeth o lywodraeth yr Arglwydd yn ei demtio i ddyfod allan trwy bethau ofnadwy, i ddywedyd mai Efe sydd Dduw. Fe wnaeth bethau dieithr yn Babilon gynt, fel y gwybyddai y rhai byw " mai y Goruchaf sydd yn llywodraethu yn mrenhiniaeth dynion." Yr ydym yn ei anghofio fel Duw da, os na bydd iddo yn fynych, fynych, amlygu ei Hun yn ofnadwy fel Duw cyfiawn.

Y mae y diffyg o bethau hynod mewn rhagluniaeth yn peri i un dosbarth lliosog o ddynion fod yn hollol annystyriol o lywodraeth Duw ar y byd. Ar y llaw arall, os bydd llawer o bethau dieithr yn cymeryd lle yn ei ragluniaeth ddoeth, y mae hyny yn peri i ddosbarth lliosog ameu mai " yr Arglwydd sydd yn teyrnasu." Gofynant yn wyneb y pethau sydd iddynt hwy yn annealladwy, " Pa le y mae Duw y farn ?" Y mae yn angenrheidiol dywedyd adnod gyntaf y testyn yn fynych wrth y dosbarth sydd yn anystyriol, oherwydd nad oes dim pethau anghyffredin yn digwydd :—" Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu." Ac y mae mor angenrheidiol llefaru yr ail adnod wrth y dosbarth hwnw fyddant yn cael eu dyrysu gan ddieithrwch pethau fyddant weithiau yn cymeryd lle : "Cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef : cyfiawnder a barn yw trigfa ei orseddfainc ef."

I. Ni a wnawn rai sylwadau cyffredinol ar lywodraeth Duw. Y peth cyntaf sydd yn tynu ein sylw wrth edrych arni ydyw bod ei lywodraeth yn un gyffredinol, ac yn fanwl; yn cyraedd i bob man, ac yn cymeryd i mewn bob peth;—yn llywodraethu ar ddynion y byd, ac ar holl bethau y byd hefyd. Y mae a fyno y pethau gymaint â'r trigolion, fel na all y llywodraeth ddim bod ar y naill heb fod ar y llall. Y mae yn llywodraeth ar ddynion yn y cyfanswm, fel cenhedloedd: y mae hi yn llywodraeth hefyd arnynt fel personau unigol. Mewn gwirionedd ni allasai hi ddim bod ar genedl, heb fod hefyd ar bob person ynddi. Y mae o bwys nid bychan i ni feddwl yn gywir am fanylrwydd llywodraeth yr Arglwydd. Byddai ameu neu gamsynied am ei manylrwydd hi yn lladd ysbryd gweddi. Nis gallwn ei gydnabod Ef yn ei holl ffyrdd, heb yn gyntaf gredu yn ddiysgog fod ganddo lywodraeth ar ein holl ffyrdd;—ei fod yn sylwi, nid yn unig ar y byd yn gyffredinol, ond arnaf fi yn bersonol,—fod holl amgylchiadau fy mywyd mor uniongyrchol o dan ei sylw a phe buaswn i yr unig greadur ar ei ddaear. Ac felly y dengys y Bibl y mae hi:—fod "calon dyn yn dychymygu ei ffordd, ond mai yr Arglwydd sydd yn cyfarwyddo ei gerddediad ef."

Y mae llywodraeth yr Arglwydd hefyd yn llywodraeth benarglwyddiaethol, ac uniongyrchol. Y mae yn dwyn ei bwriadau ymlaen, trwy yr hyn a alwn ni yn ail achosion, neu yn ddeddfau natur; ond nid ydyw Efe ei Hun ddim o dan yr un ddeddf. A pha beth ydyw y deddfau hyn? Nid pethau â nerth ynddynt hwy eu hunain i effeithio dim; yn hytrach enwau ydynt ar y dull y mae yr Arglwydd yn llywodraethu ar y pethau a greodd. Ac y mae priodoli grym i'r ddeddf ynddi ei hun i gadw pethau mewn trefn, yr un peth a phe priodolid nerth i'r gair "Bydded" i ddwyn pob peth i fod. Yr oedd grym yn y gair, am mai "Bydded" Duw oedd; ac y mae grym yn y ddeddf, am mai deddf Duw ydyw. Nid ydyw bod unrhyw beth yn cymeryd lle yn ol deddfau natur, ddim yn llai o dan lywodraeth Duw am hyny; ac ni ddylai hyny ychwaith ddim ein hatal i ofyn i'r Arglwydd am ei symud, oblegid gall wneuthur hyny heb newid dim ar ei ddeddf. Efe, cofiwn, sydd yn llywodraethu drwy y deddfau, ac nid y deddfau yn ei lyw-

odraethu Ef; ac feallai mai un o ddibenion yr holl wyrthiau a gyflawnwyd o bryd i bryd, oedd argyhoddi y byd, fod pob peth natur yn uniongyrchol o dan lywodraeth Duw; oherwydd bod tuedd mewn dynion i feddwl fod natur yn rhyw-beth annibynol arno ef. Y mae yr haul wedi sefyll unwaith, rhag i ddynion anghofio mai Duw sydd yn ei gadw i droi. Y mae y dwfr wedi troi yn waed, ac wedi sefyll fel muriau o ad-amant, rhag i ddynion feddwl fod yr Arglwydd wedi rhoddi rhyw ddeddf i'r môr heblaw ei ewyllys ei Hun. Esboniad Moses i Pharaoh ar y gwyrthiau a gyflawnwyd yn yr Aipht oedd, "fel y gwypech mai yr Arglwydd biau y ddaear;" ac y maent oll yn dangos yr un peth i ni. Os gall wneuthur y peth mwyaf, pa anhawsder sydd mewn credu y gall wneuthur y peth lleiaf? Os gallodd Efe atal i'r cymylau wlawio am dair blynedd a haner, mewn atebiad i weddi Elias, er holl ddeddfau natur, paham na all wneuthur hyny eto am ychydig wythnosau, mewn atebiad i weddi, i gael casglu ffrwythau y ddaear i ddi-ddosrwydd; neu am un diwrnod, i gael cynal cyfarfod i addoli. Gwyliwn osod y deddfau yn lle Duw y deddfau: nid deddfau, cofiwch, ond yr Arglwydd sydd yn teyrnasu.

Eilwaith; y mae ei lywodraeth, nid yn unig ar ddynion yn eu perthynas âg ef, fel personau, ond hefyd y mae ei lywodr-aeth arnynt yn eu perthynas â'u gilydd, fel cenhedloedd a gwledydd. Dylem gofio bob amser fod ei lywodraeth arnom fel personau; a gwyliwn ollwng o'n meddwl fod ei lywodraeth arnom hefyd fel gwlad. Am droseddau personol, y mae yn ymweled â ni yn bersonol, os na faddeuir hwynt; ac am bechodau gwladol, y mae yn ymweled â dynion â barnau gwladol. Pe buasai angenrheidrwydd profi fod yr Arglwydd yn llywodraethu gwledydd fel y cyfryw, ac felly, weithiau, yn dwyn barnau gwladol arnynt, gallasem eich adgofio fod y Bibl wedi ei fritho âg esiamplau o hyn. Ac onid oedd ym-ddygiadau yr Arglwydd at genedl Israel yn esiampl o'r dull y mae yn ymddwyn at genhedloedd y byd ymhob oes? Er nad oes yr un genedl ar y ddaear yn awr yn sefyll yn yr un berthynas â Duw ag yr oedd cenedl Israel, eto diau ydyw fod ei ymddygiadau ef at y genedl hono, wedi eu bwriadu yn arddangosiad i holl genhedloedd y byd o'r modd yr ym-

ddygid atynt hwythau. Pan beidiai Israel â dwyn ffrwyth cyfatebol i'w breintiau, yr oedd yr Arglwydd yn ymweled â'r genedl â barn; a phan beidio un genedl eto â gwneuthur hyny, y mae yr Arglwydd yn ymweled â hi yn yr un modd. A rhag i ryw un feddwl nad oedd dim oedd yn cymeryd lle yn Israel yn esiampl i ni, am eu bod hwy yn bobl briodol i Dduw, y mae yr Ysbryd Glân wedi cofnodi amryw esiamplau o genhedloedd cryfion eraill yn dioddef dan farnau gwladol. Pa le y mae dinasoedd y gwastadedd? Pa le y mae Ninifeh a Babilon? Onid wedi eu dymchwelyd gan farnau yr Arglwydd? Nid yw gogoniant Tyrus a Sidon, Italia a Groeg, ddim i'w gael mwy. Fel hyn yr oedd yr Arglwydd yn ymddwyn at wledydd gynt; ac nid oes yr un crybwylliad yn y Bibl, nad fel hyn y mae yn ymddwyn eto. Ond yn hytrach, y mae edrych ar hanes y byd yn peri i ni deimlo "mai Duw sydd yn llywodraethu yn mrenhiniaeth dynion" eto, a'i fod yn llywodraethu yn ol yr un egwyddorion mawrion ag yn y dyddiau gynt. Y mae ei ragluniaeth yn "olwyn mewn olwyn,"—yn ddirgelwch i ni; ond y mae hyn yn sicr, nad ydyw yn gwneuthur cam â phersonau, wrth ymddwyn at y byd yn ei gymeriad cymdeithasol, neu fel cenhedloedd a theyrnasoedd. Yr oedd y fendith a'r felldith i ddisgyn ar hiliogaeth Noah fel cenhedloedd; felly hefyd ar yr eiddo Abraham a Jacob. Yr oedd y farn wedi ei chyhoeddi yn erbyn yr Amaleciaid fel cenedl: nid oes le i feddwl fod pob person o'r genedl wedi bod yn euog o'r bai, am yr hwn y dyfethwyd yr holl genedl. Felly hefyd y bu hi am genedl Israel: nid oeddent hwythau oll yn euog o wrthod y Messiah; eto yn eu cymeriad cenedlaethol, gwrthodasant Ef; am hyny disgynodd barn arnynt fel cenedl.

Gan fod yr Arglwydd yn ymwneyd â gwlad yn y cyfanswm, nid ydyw fod llawer o ddynion da ynddi ddim yn brawf nad all barn ei goddiweddyd; a phan y cymer hyny le, y maent hwythau yn gorfod cyd-ddioddef â'r rhai drygionus. Nid oedd cyfiawnder y cyfiawn yn Israel gynt ddim yn ei achub ef rhag y dinystr cyffredinol. Yr oedd Jeremiah yn dioddef oddiwrth y farn wladol fel Sedeciah y brenin. Yr oedd Ezeciel, gŵr Duw, ymhlith y gaethglud ar lan afon Chebar, fel yr eilunaddolwr. Yr oedd Daniel a'r tri llanc, er nad oeddent wedi tyngu

i neb ond i'r Arglwydd, yn gorfod cyd-ddioddef â'r rhai oeddent wedi tyngu i Baal. Ac er bod genym ychydig esiamplau o bethau tebyg i eithriadau yn hyn, y maent yn fwy felly mewn ymddangosiad nag ydynt mewn gwirionedd. Gwaredwyd Lot pan ddisgynodd y farn ar Sodom, a gwaredwyd y Cristionogion yn ninystr Jerusalem ; ond disgynodd cwr y gawod yn drwm ar y naill a'r llall ;—diangasant megis "â chroen eu danedd." Gan fod llywodraeth yr Arglwydd ar genhedloedd, y mae o bwys i ni yn bersonol beth fydd caracter y wlad neu y genedl y perthynwn ni iddi. Os cenedl drom-lwythog o anwiredd ydyw, cenedl a ofwyir â barn ydyw ; ac ni ddiangwn ninau ddim heb deimlo oddiwrth hono pan y disgyn, beth bynag fydd ein caracter personol. Chwi a ellwch wadu nad ydych yn geidwaid eich brodyr ; ond yr ydych yn gorfod teimlo yn aml, fod eich tynged chwi a'r eiddynt hwythau yn anwahanol gysylltiedig yn y byd hwn. Onid oes yma gymhelliad cryf i ni i wneuthur ein goreu i gael ein cymydogion i rodio yn llwybrau crefydd; oblegid os tynant hwy y diluw i'w boddi eu hunain, cawn ninau deimlo yn ddwys oddiwrth hyny.

Drachefn, nid ydyw fod peth yn cymeryd lle yn ol deddfau natur, mewn un modd yn brawf nad ydyw yn farn oddiwrth Dduw ar wlad neu berson ; oblegid, fel y dywedwyd genym eisoes, llwybrau Duw yn gweithredu ydyw yr hyn a elwir genym ni yn ddeddf. Yr ydym yn ei alw yn ddeddf, am mai dyma'r ffordd y mae yr Arglwydd yn arfer gwneuthur y peth; ond pan y bydd yn gwneuthur peth yn wahanol i'w ffordd gyffredin, yr ydym yn galw hyny yn wyrth; eithr gall yr hyn a gymer le yn y dull cyffredin fod yn amlygiad o anfoddlonrwydd Duw, mor wirioneddol â'r hyn a fyddo yn cymeryd lle yn anghyffredin neu yn wyrthiol. Ac y mae y Bibl yn disgrifio y greadigaeth fel peiriant yn llaw Duw i gyflawni ei ewyllys ar ddynion : y mae yr haul a'r lleuad, yr eira a'r cenllysg, oll yn gwneuthur ei air Ef. Ac y mae dynion y byd, fel yr elfenau, yn cael eu defnyddio yn fynych yn offerynau ganddo i weinyddu ei farnau. Y mae y Salmydd yn galw yr annuwiol yn gleddyf iddo :—"Yr annuwiol, yr hwn yw dy gleddyf di." Ac y mae yr Arglwydd yn galw Assur yn wialen ei lid Ef; a geilw y rhai a ddinystriasant Babilon yn arfau ei lidiogrwydd. Yn wir, y mae y rhan

fwyaf o'r barnau ag y mae genym hanes am danynt, wedi cymeryd lle trwy yr hyn y gellir eu galw yn foddion naturiol. Yr oedd yn eithaf naturiol i Cyrus orchfygu y Babiloniaid; oblegid yr oeddynt yn foethus ac yn feddw, tra yr oedd efe a'i fyddin yn sobr a gwrol; eto yr oedd ei waith ef yn eu gorchfygu yn farn oddiwrth Dduw arnynt. Yr oedd yn eithaf naturiol i'r Rhufeiniaid orchfygu yr Iuddewon, dinystrio y deml, a'u gwasgaru hwynt trwy'r gwledydd: gallesid, oddiwrth arwyddion yr amserodd, rag-ddywedyd er's blynyddoedd mai hyny a gymerai le; eto yr oedd y peth yn farn mor wirioneddol oddiwrth Dduw, a phe buasai yn gwlawio tân a brwmstan i'w dinystrio. Pan oedd Assur yn ymfawrygu yn erbyn yr Arglwydd, y mae yr Arglwydd yn gofyn iddo,—"A ymffrostia'r fwyell yn erbyn yr hwn a gymyno â hi?" (Esa. x. 15) A wyt ti wedi anghofio nad oeddit ti yn ddim ond offeryn yn fy llaw i? Y mae coed nerthol yn syrthio yn ein dyddiau ni; ond, medd rhywun, nid oes yna ddim yn annaturiol,—onid y fwyell sydd yn eu cymmynu? Gwir, ond cofiwch yn llaw pwy y mae hi. Duw sydd yn tori y pren mor wirioneddol a phe buasai yn gwneuthur hyny â mellten, er ei fod yn defnyddio yr arf cyffredin i hyny. A phe gallech chwi roddi achos cwbl naturiol i'r holl heintiau sydd yn rhodio y ddaear, ni phrofai hyny ddim nad ydynt yn farnau mor wirioneddol oddiwrth Dduw ag oedd yr angel dinystriol yn yr Aipht gynt. Ni ddylem ni ddim bod yn brysur i osod pob peth i lawr fel barnau chwaith: hyny oedd bai cyfeillion Job, a bai y genedl Iuddewig. "Pwy a bechodd?" oedd eu gofyniad yn wastad, yn wyneb pob rhyw adfyd. Ond os oeddent hwy yn methu ar un llaw, yr ydym ni mewn perygl o fethu ar y llaw arall, sef o gau Duw allan o'i greadigaeth,—o roddi rhyw ordeiniadau a deddfau ar yr orsedd yn lle Duw. Ac yn wir annhraethol well ydyw yr hwn sydd yn gweled Duw yn y man na ddylai, na'r hwn sydd heb ei weled yn y man y mae. Gwell ydyw yr hen wraig sydd yn ofni fod Duw yn dangos ei anfoddlonrwydd yn y diffyg ar yr haul a'r lleuad, na'r athronydd digrefydd sydd yn gwadu ei fod yn ymyraeth dim âg amgylchiadau y ddaear. O! gymaint o drafferth a gymerir i geisio cael allan achosion naturiol i'r heintiau, &c., i gael gwadu fod llaw Duw ynddynt. Ein hiaith

ni ddylai fod, pa un bynag ai tân ai dwfr,—pa un bynag ai angel ai dyn—a fyddo yr offeryn :—"Gwn Arglwydd, mai Ti a wnaethost hyn." "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu :" y mae yn llywodraethu drwy bob peth, ac er pob peth.

Ond y mae llywodraeth Duw, fel ei bob peth Ef, yn ddigon i ddyrysu meddwl creadur ; ac y mae llawer un wrth edrych ar gyfiawnder, doethineb, a sancteiddrwydd Duw, ac wrth edrych ar y pethau sydd yn cymeryd lle ar y ddaear, yn barod i ddywedyd,—"Gadawodd yr Arglwydd y ddaear :" rhaid nad ydyw Bod mor berffaith ddim yn llywodraethu byd y mae cymaint o annhrefn ynddo. Ond yr hyn a roddai waredigaeth o brofedigaeth fel yna, fyddai sylwi ar holl garacter Duw, fel y mae yn cael ei ddatguddio yn y gwirionedd. Y mae yn gyfiawn, a sanctaidd, a doeth ; ond y mae amynedd a thragywyddoldeb yn perthyn iddo hefyd ; ac y mae yr holl berffeithiau yr ydym ni yn eu priodoli iddo yn anfeidrol ynddo. Pe buasai yn gweinyddu barn ar y drygionus yn y fan, buasai ei gyfiawnder yn y golwg yn hyny ; ond buasai yn anmhosibl gweled ei amynedd ; ac y mae amynedd mor berffaith yn Nuw ag ydyw cyfiawnder. Y mae yr annhrefn ymddangosiadol y mae yn ei oddef yn awr, yn amlygu ei amynedd. Fe fydd y drefn dda a dŷn Efe o'r cwbl, yn y diwedd, yn amlygu ei ddoethineb; a cheir gweled y pryd hyny na bydd ei drugaredd a'i ddoethineb ddim wedi eu hamlygu ar draul ei gyfiawnder. Ond y mae yr amser i hyn heb ddyfod eto, fel y dengys ail adnod y testyn ; ac y mae hyn yn ein harwain—

II. At y disgrifiad a roddir yma o'i lywodraeth, neu o hono Ef y Llywodraethwr :—"Cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef : cyfiawnder a barn yw trigfa ei orseddfainc ef." Y mae hyn yn cynwys dau beth :—1. Yr hyn ydyw y llywodraeth i'n golwg ni:—"Cymylau a thywyllwch." 2. Yr hyn ydyw hi mewn gwirionedd :—"Cyfiawnder a barn."

1. Yr hyn ydyw y llywodraeth i'n golwg ni : "Cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef." Dull barddonol ydyw hyn o ddywedyd fod y llywodraeth yn gyfryw na fedrwn ni ei deall. Ond mynych y ceir ni yn gofyn, Paham ?

(1.) Y mae cymylau a thywyllwch o'i hamgylch hi o angenrheidrwydd : ni allai hi ddim yn sefyllfa bresenol pethau fod

yn amgen na hyn. Y mae cofio pwy ydyw y Llywodraethwr, a phwy ydyw y deiliaid, yn brawf digonol o hyn. Meddyliwch am nifer y pethau sydd yn perthyn i'r llywodraeth, a bod yr holl bethau hyn yn dal perthynas agos â'u gilydd, a'u bod oll yn cael eu llywodraethu fel ag i gyraedd un diben mawr yn y diwedd. Ystyriwch hefyd wendid ein meddyliau ni; can lleied a fedrwn ni ei weled ar unwaith; ac mor anmherffaith y gwelwn ni yr ychydig hyny. Gallwn yn hawdd, ond cofio y pethau hyn, weled paham y mae cymylau a thywyllwch o amgylch yr orseddfainc. Ac yn wir, feallai fod yr agoriad i ddeall llywodraeth Duw heb ei gael eto: pwy a ŵyr nad ydyw hi yn y byd ysbrydol yn gyffelyb i'r modd y bu hi yn hir yn y byd naturiol? Yr oedd y ddaear yn rhyw *chaos* annealladwy hyd nes y cafwyd allan ei sefyllfa wirioneddol yn ei pherthynas â bydoedd eraill. Tra yr oeddid yn ei hystyried hi yn ganolbwynt, a'r holl fydoedd wybrenol yn troi o'i hamgylch, yr oedd yn anmhosibl deall ei thymhorau,—ei dydd a'i nos,—yr achos o lanw a thrai ei moroedd; ond pan gafwyd allan mai yr haul oedd yn y canol, ac nad oedd y ddaear ond un o nifer mawr o fydoedd yn troi o'i amgylch ef, fe wasgarodd yr un gwirionedd yna lawer iawn o'r cymylau a'r tywyllwch oedd o'i hamgylch hi; fel y gwelwyd wedi hyny yr achos o'i thymhorau,—o'i dydd a'i nos,—ac o lanw a thrai ei moroedd. Gall fod camgymeriad tebyg yn cael ei wneuthur genym yn ysbrydol. Yr ydym ni yn meddwl fod ein byd bach ni yn ganolbwynt i bob peth, ac am hyny yn methu deall y pethau sydd ynddo: ond y mae yn dra thebyg nad ydyw ond rhan o gyfundrefn fawr; a byddai cael allan ei wir le yn y gyfundrefn hono, yn ddigon i chwalu llawer iawn o'r cymylau a'r tywyllwch sydd ar y llywodraeth yn awr.

Yr ydym wedi cael esboniad i ryw fesur ar bedair mil o flynyddoedd o lywodraeth Duw, sef hyd gyflawnder yr amser; ond gweled yr holl oruchwyliaethau yn cyraedd un diben, a chwalodd y niwl, ac nid oes ond yr un peth a wna hyny eto. Y mae y diben sydd i'w gyraedd o'n golwg ni yn awr; a thra y bydd, ni fydd dim yn y golwg ond cymylau a thywyllwch. Meddyliwch am bob peth o weithredoedd Duw, y mae tywyllwch yn eu hamgylchu nes eu gorphen. Pan yn creu ar ddiwedd pob dydd, byddai yn cyhoeddi "da" uwchben y gwaith. Y

mae dyddiau megis yn rhagluniaeth Duw; ac y mae yn rhy dywyll o niwl i ddywedyd "da iawn" am ei waith yn hon, hyd ddiwedd y dydd. Ni wyddom ni pa amser ar un o'r dyddiau yr ydym ni yn byw; ac ni chwâl y cymylau a'r tywyllwch ddim hyd ddiwedd y dydd,—hyd nes y daw y diben i'r golwg. Yr oedd cymylau a thywyllwch o amgylch breuddwydion Joseph,—ei werthu i'r Ismaeliaid,—ei garcharu yn yr Aipht,—ei godi yn llywydd y wlad, hyd nes y daeth ei dad a'i frodyr yno; ond fe chwalodd y cymylau y pryd hwnw, i bawb weled mai cadw yn fyw bobl lawer oedd y diben.

Drachefn: y mae y llywodraeth mewn cymylau a thywyllwch, am fod goruchwyliaethau Duw yn cymeryd amser mor hir i ddyfod o amgylch, ac y mae ein hoes ninau mor fèr, fel nad allwn ni ddim gweled nemawr iawn o'i ffyrdd. Yr ydym ni yn gwneyd y cwbl ar raddfa *(scale)* gyfatebol i hyd ein hoes; ond wrth un dra gwahanol y mae yr Arglwydd yn gweithio. Rhaid bod meddyliau a bwriadau yr Hwn y mae mil o flynyddoedd iddo megis un dydd, yn dra gwahanol i eiddo y rhai nad oes ganddynt oll ond deng mlynedd a thriugain neu bedwar ugain mlynedd mewn addewid. Y mae ambell un yn cael byw i weled y cynllun wedi ei orphen, fel Jacob i weled yr oll o dde; ond yn gyffredin y mae mor fawr, fel y mae y saint yn gorfod marw mewn ffydd, a myned i'r byd tragywyddol i weled. Buasai raid i Adda fyw am bedair mil o flynyddoedd i weled rhagluniaeth yn dwyn o amgylch gyflawnder yr amser i'r addewid gael ei chyflawni. Buasai raid i Abraham fyw bedwar can' mlynedd i weled goruchwyliaethau Duw at ei blant ef o dde: a gall y bydd llawer o'r pethau sydd yn digwydd i ni yn bersonol yn dwyn eu heffeithiau ymhen can' mlynedd. Nid rhyfedd ydyw ein bod ni yn methu eu deall yn awr: y mae y cynllun mor fawr, a'n hoes ninau mor fèr, fel nad ydym yn gweled ond rhan o'i ffyrdd; ac y mae yn gofyn meddwl cryf iawn i amgyffred y cyfan oddiwrth ran. Fe all dyn celfyddgar, medrus, ddeall peiriant mawr wrth weled dim ond rhan o hono; ond y mae yn rhaid i'r cyffredin ei weled oll ar unwaith cyn y deallant ef. Nid ydym ni yn gweled ond un darn bychan o beiriant mawr rhagluniaeth, ac yr ydym yn rhy bŵl ein deall i amgyffred y cwbl wrth y darn, am hyny y mae cymylau a

thywyllwch o'i amgylch. Yr oedd yr addewid am y Messiah yn ymestyn dros bedair mil o flynyddoedd: onid oedd yn anhawdd i un oes fèr ddeall, pa fodd yr oedd y pethau oeddent yn cymeryd lle yn eu dyddiau hwynt, yn tueddu i ddwyn o amgylch ei chyflawniad hi? Nid yw yr hyn sydd yn digwydd i ni yn bersonol ddim ond rhan o ffyrdd Duw, ac yr ydym ni yn ormod o blant i ddeall y cyfan mawr oddiwrth y rhan; ond pan y gwelwn ni y rhanau oll gydâ'u gilydd, fe chwâl hyny y cymylau a'r tywyllwch i ffordd. Y mae y ddaear yn gron; ond ni welodd yr un o'r trigolion erioed mo honi felly; a'r achos o hyny ydyw, ein bod yn gweled rhy fach o honi ar unwaith i'w gweled hi yn gron. Pe symudid ni cyn belled a'r lleuad oddiwrthi, i sefyllfa fanteisiol i'w gweled oll ar unwaith, gwelem hi oddiyno yn berffaith gron. Y mae rhagluniaeth Duw yn gyfanwaith ardderchog, fel y fodrwy yn ddifwlch; ond nid ydym ni yn ei gweled felly, am ein bod yn gweled rhy ychydig o honi ar unwaith: pan y symudir ninau i sefyllfa fanteisiol i'w gweled hi oll, ni a'i gwelwn hi yn gyfanwaith perffaith-gwbl.

"O fryniau Caersalem ceir gweled," &c.

(2.) Y mae cymylau a thywyllwch o amgylch y llywodraeth, er mwyn ei dwyn hi ymlaen. Trwy foddion naturiol y mae yr Arglwydd yn dwyn o amgylch ei lywodraeth; ac er bod yr offerynau yn gwneuthur yr hyn sydd uniawn yn eu golwg eu hun, wrth wneuthur hyny cyflawni y maent pa beth bynag a ragluniodd ei law a'i gyngor Ef. Y mae cymylau a thywyllwch ar y diben sydd i'r weithred, felly y mae calon dyn yn dychymygu ei ffordd; ond wrth gyflawni y dychymyg, y mae yn dwyn o amgylch gyngor yr Arglwydd. Yr oedd Nebuchodonosor yn meddwl eangu terfynau ei deyrnas; ond wrth wneuthur hyny, yr oedd yn ddiarwybod iddo ei hun yn was i Dduw, i gosbi Israel am eu hanffyddlondeb i'w cyfamod. Yr oedd Cyrus yn dyheu am wneuthur iddo ei hun enw, ac felly yn ymorchestu i enill Babilon; ond wrth wneuthur hyny, gwas i'r Arglwydd ydoedd, i ysgubo ymaith genedl oedd wedi cyflawni mesur ei hanwiredd, ac i gyflawni y llŵ a dyngwyd wrth Abraham, Isaac, a Jacob, na lwyr ddinystrid eu hiliogaeth. Ni buasai Satan yn ymdrechu i ddwyn pechod i mewn i'r

ddaear, pe yn gwybod y buasai trwy hyny yn parotoi y ffordd i Dduw gael gogoniant mor fawr. Ni buasai yn cynhyrfu Judas i fradychu, a'r Iuddewon i groeshoelio, Arglwydd y bywyd, pe buasai yn deall mai cadw yn fyw bobl lawer oedd i gymeryd lle trwy hyny. Ni buasai yr Iuddewon yn erlid y Cristionogion yn Jerusalem, pe buasent yn deall eu bod drwy hyny yn y modd mwyaf effeithiol yn lledaenu y wybodaeth am Iesu o Nazareth. Ni buasai Naomi ddim yn myned i wlad Moab, pe buasai hi yn gwybod beth oedd i'w chyfarfod hi yno; a phe na buasai hi yn myned, buasai un ddolen yn llinach y Messiah yn eisiau. Ni buasai brodyr Joseph ddim yn ei werthu, pe buasent unwaith yn meddwl fod hono yn ffordd i gyflawni ei freuddwydion. Ni buasai Saul ddim yn barod i adael i Dafydd ymladd â'r cawr, pe buasai yn gwybod mai hono oedd y ris gyntaf i'w godi i'r orsedd, yn ei le ef ei hun. Cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef. Yr oedd yr Arglwydd wedi meddwl cael bydolrwydd o galon y dyn yna; i hyny fe'i llwyddodd yn y byd,—gadawodd iddo ddringo, a gosod ei nyth fel Lusiffer ymysg y sèr; ond disgynodd ef mewn moment oddiyno i roddi diflasdod tragywyddol iddo ar y byd. Pe buasai yn gwybod am y cwymp, buasai yn ymochel rhag dringo. Y mae wedi meddwl cael serch y sant yna yn gwbl arno ei hun; am hyny y mae yn rhoddi iddo deulu a chyfeillion, ac yn peri eu bod yn ddymuniant ei lygaid; yna daw angau i'w tori i lawr bron ar unwaith, nes gwneyd y byd yn anialwch i'w deimlad; ac y mae y serch, wedi colli ei gwbl yma, yn rhedeg yn gwbl i'r nef. Y mae wedi bwriadu darostwng y dyn yna sydd yn rhodio mewn balchder; am hyny y mae yn gadael iddo gael holl ddymuniant ei galon. Y mae yn esgyn o'r naill ris i'r llall, heb ddim i'w luddias; ond wedi iddo gyraedd yr uchaf, wele ef yn disgyn fel Nebuchodonosor oddiar ben y pinacl at ei droed mewn moment; ac yn y fan hono, y mae ei synwyr yn dychwelyd iddo. "Cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef." Doethineb fyddai i ni gerdded yn araf yn nghanol y tywyllwch: ni wyddom ni ddim na bydd y cam nesaf yn ein cymeryd dros ryw graig. Os ydyw eich cyfoeth yn amlhau, na roddwch eich serch arno; rhag i chwi gael eich hun yn fuan, fel Job, wedi ei golli oll. Os oes genych gyfeillion a pherthynasau hoff, y mae yn rhaid

i chwi lawenychu ynddynt mewn dychryn: gall fod y dydd gerllaw y byddwch chwi yn cael eich gadael eich hunain. "Cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch Ef."

(3.) Y mae cymylau a thywyllwch o amgylch y llywodraeth, i hyny fod yn fantais i ffydd. Yr ydym wedi colli ein hymddiried yn Nuw yn foreu iawn, ac y mae ein nefoedd ni yn gynwysedig mewn ymddiried. Trwy ymddiried y mae ein hiachawdwriaeth ni yn dyfod. Nid oes sicrwydd mwy yn perthyn iddi yma na sicrwydd ffydd. Y mae rhagluniaeth hefyd oll wedi ei threfnu yn fanteisiol i fagu ymddiried. Wrth ffydd yr ydym i rodio yma, ac nid wrth olwg. Mewn gobaith, neu mewn ffydd, y mae yr arddwr yn aredig. "Y bore haua dy hâd, a phrydnhawn nac atal dy law: canys ni wyddost pa un a ffyna, ai hyn yma ai hyn acw, ai ynte da fyddant ill dau yr un ffunud." Ni wyddost a ffyna yr un o honynt; ond yr wyt yn ymddiried, naill ai i natur, ai i Dduw natur, na fydd y llafur ddim yn ofer. Yr ydym yn sôn llawer am wybodaeth dyn, ond nid oes yr un wybodaeth yn gyraeddadwy i ni a wna ymddiried yn ddiangenrhaid; fel y dywedodd un, "Nid yw gwybodaeth a gallu dyn ddim yn rhedeg ochr yn ochr: lle y gŵyr ê lawer, ni all efe ddim; a lle y gall ê rywbeth, ni ŵyr efe nemawr." Fe ŵyr lawer am y sêr, ond ni all ê ddim yna; fe all wneuthur rhyw ychydig ar y ddaear, ond ni ŵyr ê nemawr yma. Gall ragfynegu diffygion yr haul a'r lleuad am ganoedd o flynyddoedd; ond nid yw ei allu ef ddim yn cyraedd yna. Ni ŵyr ê ddim pa hîn a fydd hi yfory. Gallasai wneuthur rhywbeth ar gyfer hyny pe buasai yn gwybod: mewn gair, lle y gall ê rywbeth, ni ŵyr ê nemawr; a lle y gŵyr ê lawer, ni all ê ddim.—"Cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch Ef:" yr ydym wedi ein cau i fyny i ymddiried. Yr ydym ni i fod yn dawel ein meddwl, nid am ein bod yn gweled y ffordd, ond am ein bod yn credu fod y neb sydd yn ein harwain yn ei gweled. Yn y tywyllwch y mae ffydd yn byw. Y mae yn rhaid iddi gael goleuni yn y dechreu i adnabod yr Arweinydd: wedi hyny, goreu po dywyllaf fydd y ffordd, oblegid y mae y tywyllwch yn cryfhau yr ymddiried yn yr Arweinydd hwnw. Nid yw meddianydd ffydd yn gwybod dim ond un peth:—"Mi a wn i bwy y credais." Pethau nis gwelodd eto ydyw pob peth

arall iddo ; ond y mae eu bod felly yn dwyn y dyn yn fwy cydnabyddus â'r Hwn y mae wedi credu ynddo. Y mae y tywyllwch felly yn talu ei ffordd yn dda. Y mae y cymylau a'r tywyllwch yn fanteisiol i ymddiried.

2. Yr hyn ydyw y llywodraeth mewn gwirionedd ; "cyfiawnder a barn." Y mae hyn wedi ei fwriadu i fod yn gynhaliaeth i'r meddwl yn nghanol y tywyllwch. Y mae rheswm yn gweled y tywyllwch : y mae ffydd yn gweled cyfiawnder a barn drwyddo. Yr hyn sydd yn annhrefn i reswm, y mae yn drefn i ffydd. Yr hyn sydd yn wyrgam i reswm, y mae yn ffordd uniawn i ffydd.

(1.) Y mae hyn yn cynwys nad ydyw y Llywodraethwr wedi gwneuthur cam â neb yn y tywyllwch :—"Cyfiawnder yw trigfa ei orseddfainc Ef." Er nad all yr hwn a ddioddefodd bwys y dydd a'r gwrês, ddim deall paham y mae yr hwn na weithiodd ond un awr yn derbyn cymaint gwobr ag ef; eto gall Perchen y winllan ddywedyd wrtho, yn y tywyllwch :—"Y cyfaill, nid wyf yn gwneuthur cam â thi." Nid oes gan neb hawl i ofyn i Dduw, "Pa beth yr wyt yn ei wneuthur? ac nid ydyw yn rhoddi cyfrif o'i weithredoedd :" eto y mae geiriau Elihu yn wirionedd :—"Ni esyd Duw ar ddyn ychwaneg nag a haeddo, fel y gallo efe fyned i gyfraith â Duw." Ffrwyth ei ffordd ei hun, y mae pob un yn ei fedi : eto dylem gofio fod llywodraeth Duw wedi ei threfnu fel ag i ddwyn ei holl garacter i amlygrwydd ; ei ben-arglwyddiaeth a'i amynedd, fel ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd. Pe buasai yn talu i bawb yn ol eu gweithredoedd, ni buasai ei ben-arglwyddiaeth yn y golwg : pe na buasai yn talu i neb yn ol ei weithredoedd, ni buasai ei gyfiawnder ddim yn y golwg. Y mae y cyfiawn yn digwyddo iddo yma, weithiau, yn ol gwaith y drygionus, a'r drygionus yn ol gwaith y cyfiawn. Os ydyw yr Arglwydd yn ei ben-arglwyddiaeth yn cadw rhag y drygionus yr hyn a haeddai, y mae yn ei gyfiawnder yn gofalu na rydd Efe ddim ar y cyfiawn fwy nag a haedda. Os na chafodd Cain, y lleiddiad, gymaint ag a haeddasai, ni chafodd Abel a laddwyd ddim mwy na hyny. Os pen-arglwyddiaeth yn unig oedd yn y golwg yn arbediad meibion Jacob am ugain mlynedd, nid oedd dim anghyfiawnder o du y Llywodraethwr yn ngwerthu Joseph. Os nad ydyw y

deyrnas hon yn dioddef cymaint ag a haeddai, nid yw Duw ddim wedi rhoddi ar deyrnasoedd y Cyfandir fwy nag a haeddent. Amlygu gweithredoedd Duw y mae Rhagluniaeth ; ond cofiwn, mewn cyfiawnder y maent oll wedi eu gwneuthur. Y mae yr Arglwydd yn ymddwyn tuag atom fel aelodau o deulu gwrthryfelgar : y mae rhai o'r teulu wedi dangos mwy o'r gwrthryfel mewn gweithred allanol na'u gilydd ; ond y mae adnabyddwr y galon yn gweled fod syniad hono, yn y naill fel y llall, "yn elyniaeth yn erbyn Duw :" am hyny, cyfiawnder yw trigfa yr orseddfainc wrth gystuddio pawb. Y mae bod dy gymydog sydd yn hynod mewn annuwioldeb, heb fod mewn blinder fel tydi, yn peri fod "cymylau a thywyllwch o amgylch yr orseddfainc;" er hyny, dim ond i ti sylwi yn graff, ti a weli fod "cyfiawnder" yn gerfiedig ar dy holl flinderau di. Nid yw yn gwneuthur cam â thi.

(2.) Y mae hyn yn cynwys fod y cyfan sydd yn dyfod oddiar yr orsedd, nid yn unig yn gyfiawn, ond fod y cyfiawnder hwnw yn cael ei weinyddu yn y dull doethaf, tuag at sicrhau amcanion y Llywodraethwr a dedwyddwch y deiliaid : "Cyfiawnder a barn yw trigfa ei orseddfainc ef." Fe oddef y gair *barn* yr ystyr yma :—cyfiawnder yn cael ei weinyddu yn ddoeth ydyw. Nid yn unig y mae yn gyfiawn i'r Arglwydd adael y cymylau o amgylch yr orseddfainc, ond y mae yn ddoeth wrth wneuthur hyny. Wrth edrych ar ffyrdd Duw yn awr, ni welwn ni ddim ond y tywyllwch ; ond os edrychwn ni ychydig yn ol i'r dyddiau gynt, ni a welwn y cyfiawnder a'r farn hefyd. Goddef i bechod ddyfod i mewn i'r byd i lychwino ei ogoniant ;—dyna gymylau o amgylch yr orseddfainc : anfon ei Fab i fod yn iawn dros bechod, a thrwy hyny dwyn mwy o ogoniant iddo na phe buasai dyn heb bechu erioed ;—dyna gyfiawnder a barn y drefn. Cadw Israel, ei bobl briodol ei Hun, yn Babilon am ddeng mlynedd a thriugain ;—dyna gymylau a thywyllwch o amgylch yr orsedd : dadwreiddio eu heilunaddoliaeth o'u plith drwy hyny, —dyna gyfiawnder a barn y drefn. Gwerthu Joseph y mwyaf hawddgar o holl blant Jacob i gaethiwed ;—dyna gymylau a thywyllwch ! ei godi drwy hyny yn llywydd ar yr holl wlad, i gadw yn fyw bobl lawer ;—dyna gyfiawnder a barn y drefn. Gwneyd yr uniganedig Fab, yr hwn ni wnaeth bechod, yn

bechod ;—dyna gymylau a thywyllwch : dadwreiddio pechod o'r greadigaeth drwy hyny,—dyna gyfiawnder a barn y drefn. "Cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch Ef," wrth ei weled yn goddef y byd am bedair mil o flynyddau, cyn anfon y Mab iddo i egluro y Tad ; ond ni a welwn mai cyfiawnder a barn yw trigfa yr orseddfainc, pan ystyriwn ni nad oedd y byd cyn hyny wedi cwbl roddi i fyny nad allasai trwy ddoethineb adnabod Duw. Y mae ei waith yn ei oddef eto am yr holl oesoedd i fod yn meddiant yr un drwg yn dywyll iawn i ni ; ond pwy a ŵyr nad ydyw yr Hwn a roddodd bedair mil o flynyddoedd i'r byd i brofi iddo nad allai wrth chwilio gael gafael ar Dduw, yn rhoddi miloedd iddo eto i brofi iddo na all gaugrefydd ddim ei achub. "Y mae cyfiawnder a barn" y drefn gyntaf wedi dyfod i'r golwg ; ac fe ddaw yr ail ryw ddydd. O ! y fath help i ymdawelu yn y tywyllwch, ydyw credu bod yr Arglwydd yn gwneuthur y cwbl, nid yn unig yn gyfiawn, ond hefyd yn dda : nid yn unig nid yw yn gwneuthur dim cam â ni, ond nid yw yn gwneuthur dim nad oedd yn ddoeth ei wneuthur. Pe mesurem ni bethau wrth raddeg *(scale)* dragywyddol, ni a welem fod cymaint o ddaioni yn y newyn ag sydd yn y llawnder ;—fod cymaint o drugaredd yn yr haint ag sydd yn yr iechyd ;—fod cymaint o fendith yn nyfroedd Marah ag sydd yn rhai Elim. Yn wyneb pob peth sydd yn eich cyfarfod, cofiwch pwy sydd yn teyrnasu ; a pha rai ydyw egwyddorion ei lywodraeth. Ac os amgylcha Efe ei hun eto â thywyllwch mwy nag erioed ;—os llefara Efe yn ei ddigofaint wrth y cenhedloedd o ganol y tywyllwch,—" Peidiwch, a gwybyddwch mai myfi sy Dduw ;"—ni ddychrynwch chwi ddim llawer, ond i chwi gofio pa fath Dduw ydyw ;—mai un sydd wedi seilio ei orsedd ar gyfiawnder a barn. Y mae gwledydd y ddaear fel crochan berwedig ;—y mae ein gwlad ni ein hunain yn dyrchafu ei thwrf fel llifeiriant ; ond "y mae yr Arglwydd yn yr uchelder yn gadarnach na thwrf dyfroedd lawer." Efe sydd yn teyrnasu. Y mae anffyddiaeth yn llefaru geiriau mawrhydri yn ei erbyn, a Phabyddiaeth yn ffyrnigo ; ond yr Arglwydd sydd yn teyrnasu. Os goddef Efe i'r ddau fwystfil ddinystrio eu gilydd, y mae yn gyfiawn wrth wneuthur hyny ; neu os goddef iddynt boeni ei blant, barn yw trigfa ei orsedd-

fainc wrth wneuthur hyny hefyd. Gall ostegu twrf y moroedd a therfysg y bobloedd. Yn nghanol rhuad y tonau, nac anghofiwn pwy sydd yn y llong;—dim ond iddo ef roddi ei ben i fyny, a dywedyd, "Gosteg," bydd tawelwch yn y fan. "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu."

Ond gadewch i ni fyned rhagom i sylwi ychydig,—

III. Yr effaith a ddylai yr ystyriaeth o'r gwirionedd hwn ei gael ar bawb:—"Gorfoledded y ddaear." Y mae y ddaear yn cael ei chynhyrfu pan y mae gwas yn teyrnasu arni, ac fe gyhoeddir gwae uwchben gwlad sydd a'i brenin yn fachgen; ond dyma un y mae yn briodol galw arni i orfoleddu wrth feddwl mai Efe sydd ar yr orsedd. Gellir cymeryd hyn (1.) Am y greadigaeth afresymol. (2.) Am drigolion y byd yn gyffredinol. (3.) Yn enwedig am Sïon. Y mae llywodraeth Duw yn destyn gorfoledd iddynt oll.

(1.) Y mae hyn yn destyn gorfoledd i'r byd a'i greaduriaid. Fe ddywed yr apostol fod awyddfryd y creadur yn disgwyl am ddatguddiad meibion Duw; ac nid disgrifiad barddonol ydyw hyn, oblegid nid oes dim anghysondeb mewn meddwl fod cydymdeimlad rhwng y gweithredoedd a'r Gweithiwr; a lle y mae y Creawdwr yn cael ei ddirmygu, ai dieithr ydyw fod ei greaduriaid yn ocheneidio? Y mae y greadigaeth wedi ei darostwng i oferedd yn awr; y mae hi yn anfuddiol, hyny yw, nid yw hi yn ateb i ddim a ellir ei alw yn ddiben teilwng; am hyny y mae y cwbl yn ofer. Nid oes dim anmhriodoldeb mewn dywedyd fod yr haul yn dywedyd, ei fod wedi treulio ei oleuni yn ofer, os na bydd yn goleuo addolwyr. Y mae y môr yn teimlo ei fod yn gwneuthur ei gymwynasau i ddim diben, os na bydd yn eu gwneuthur i'w saint Ef. Y mae y ddaear yn teimlo mai treulo ei nerth am ddim, ydyw rhoddi cynhaliaeth i elynion Duw. Ond "gorfoledded y ddaear" yn yr ystyr hyn; y mae llywodraeth Duw yn sicr o'i rhyddhau hi ymhen ychydig o gaethiwed llygredigaeth, a'i hadferu i'w dibenion cyntefig; pryd na bydd i'r haul oleuo neb ond addolwyr; nac i'r gwlaw ffrwytho meusydd neb ond rhai y saint;—pryd y bydd y môr yn brif-ffordd i deyrnas Dduw; a'i holl longau yn sancteiddrwydd i'r Arglwydd.

(2.) Y ddaear eto, sef y trigolion: "llawenyched ynysoedd

lawer." Pa reswm, meddir, sy mewn galw arnynt hwy i orfoleddu, oblegid y mae y llywodraeth i gael ei chario ymlaen yn fanteisiol i Sïon? Gwir; ond gellir dywedyd wrth yr ynysoedd, fel y dywed y prophwyd wrth yr Israeliaid yn Babilon, Jer. xxix. 7; "Ceisiwch hefyd heddwch y ddinas......a gweddïwch ar yr Arglwydd drosti hi; canys yn ei heddwch hi y bydd heddwch i chwithau." Felly, yn llwyddiant teyrnas Dduw y mae llwyddiant y byd; lle y mae hi yn llwyddo, y mae yntau yn llwyddo. Nid yw yr holl gelfyddydau a'r gwybodaethau sydd yn gwneuthur y byd yn fyd dedwydd i fyw ynddo, ond pethau sydd wedi dyfod iddo yn gysylltiedig â'r deyrnas hon; ac nid oes yr un rheswm i'w roddi am lwyddiant Lloegr ac America mewn ystyr dymhorol, ond fod teyrnas Dduw wedi llwyddo mwy yn y gwledydd hyn nag mewn un man arall. A phe na byddai dim a fynech chwi â byd ar ol hwn, gallech lawenychu yn llwyddiant y deyrnas, oblegid y mae cysur hon yn anwahanol gysylltiedig â hyny. Ond y mae pawb sydd yma yn meddwl am fyd felly, ac yn meddwl bod yn ddedwydd yno; am hyny dylech bryderu mwy na neb ynghylch ei llwyddiant hi, a thrydar yn ddidaw gerbron gorsedd gras,—"Deled dy deyrnas;" oblegid yn ei llwyddiant hi y mae eich iachawdwriaeth chwi.

(3.) Gorfoledded y ddaear, sef Sïon, oblegid y mae y neb sydd yn teyrnasu, fel y Mordechai hwnw, yn ceisio daioni i'w bobl, ac yn dywedyd am heddwch i'w holl hiliogaeth. Y mae yn rhaid i dri pheth gyd-gyfarfod mewn gwrthddrych, cyn y gallwn ni ymffrostio llawer ynddo:—cariad atom; cyfle i wneuthur cymwynas i ni; a modd i'w gwneuthur. "Gorfoledded y ddaear," oblegid "caru y mae Efe y bobl:" ni bydd dim eisiau arnynt o ddiffyg teimlad caredig tuag atynt. Ni bydd diffyg cyfle neu amser cyfaddas ddim yn atalfa iddo ef i wneuthur cymwynas iddynt, oblegid "yr Arglwydd sydd yn teyrnasu." Yr oedd ar galon Mordechai wneuthur cymwynas i'r Iuddewon; ond nid oedd yn ddigon uchel i hyny nes dyfod yn nesaf i'r Brenin. Ond nid y nesaf i'r Brenin sydd yn teimlo arno wneuthur cymwynas i Sïon, ond y Brenin ei Hun. Ni bydd eisiau moddion ddim yn atalfa ar ffordd ei dedwyddwch hi;na, y mae pob peth at ei law; Esa. xxxiii. 21. "Gwyn fyd y bobl

y mae yr Arglwydd yn Dduw iddynt." Fe enilla y rhai hyn rhyw gymaint ar bob peth: deuant o'r Aipht, wedi eu cyfoethogi âg ysbail y gelynion;—o Babilon, fel aur o'r ffwrnes, wedi gadael alcam eu heilunaddoliaeth yn ol. Bydd raid i ysgerbwd anffyddiaeth roddi mêl iddynt, a bwystfil Pabyddiaeth barotoi eu ffordd hwynt. "Gorfoledded Sïon:" caiff y cleddyf fraenaru braenar iddi ar y Cyfandir, a chynddaredd pob gelyn droi yn wasanaethgar iddo. Caiff y gwledydd ddyheu am ryddid gwladol; ond ni bydd hyny ond yn agor y ffordd iddi hi ddyfod yno i'w gwneuthur yn rhyddion yn yr Arglwydd. Cânt hwy droi y gormeswyr oddiar eu gorseddau, i agor y ffordd iddi hi ddyfod yno i droi y cryf arfog o'i neuadd. "Gorfoledded Sïon."

Wrth derfynu, mi a ddymunwn ofyn un cwestiwn:—"A ydych chwi mewn heddwch â'r Brenin?" Os nad ydych, byddwch yn y ddalfa yn fuan. Nid hir eto y bydd llywodraeth Duw yn lle diogel i wrthryfelwyr. Yr oedd llawer drwgweithredwr yn y wlad hon tua dau can' mlynedd yn ol yn medru dianc am flynyddoedd o ddwylaw cyfraith, trwy ymguddio yn ei choedwigoedd hi, neu lechu yn rhai o'i glynoedd; ond erbyn heddyw y mae y ffyrdd haiarn wedi dwyn lleoedd pellenig i gymydogaeth eu gilydd, ac yn enwedig y *telegraph* wedi gwneuthur bron yn anmhosibl iddynt ddianc. Bydd ymerodraeth Duw fel yna yn fuan; ni bydd na choedwig na glyn, fel yn bresenol, "lle y gall gweithredwyr anwiredd ymguddio." Gwnewch heddwch âg Ef, gan hyny.

"Yr Arglwydd a deyrnasa byth;"—y mae ganddo hawl wreiddiol yn y goron,—y mae ganddo Ef *Divine right.* Ni effeithia dy foddlonrwydd, neu dy anfoddlonrwydd di ddim ar y goron, ond effeithiant yn fawr arnat ti. Y mae dy ddedwyddwch di yn gynwysedig mewn dyfod ymlaen megis i'w goroni Ef dy hun. Yr oedd yr Arglwydd wedi eneinio Dafydd yn frenin ar Israel; ond yr oedd yn rhaid cael yr holl bobl drachefn i'w eneinio ef eu hunain. Y mae yn rhaid i ti wneuthur peth cyffelyb i'r Brenin. Pan y mae ein Brenhines ni yn ymweled â gwahanol ranau ei theyrnas, y mae trigolion y gwahanol drefydd y mae hi yn myned drwyddynt yn cyflwyno anerchiad iddi, i gyfaddef ei hawdurdod,—i ddiolch am ei llywodraeth dyner. Rhywbeth fel yna sydd yma heddyw: y

Brenin tragywyddol yn myned heibio. A oes yma neb am gyflwyno anerchiad iddo,—i gydnabod ei awdurdod,—i ddywedyd, "Byw fyddo'r Brenin?" Ai ynte hyn fydd ei iaith am danom:—"Pa fodd, pan ddaethum, nad oedd neb i'm derbyn?" ïe, gwaeth na hyny; iaith llawer, y mae yn ofnus ydyw:—"Ni fynwn ni hwn i deyrnasu arnom." Plygwch at ei draed, fel na byddo raid iddo eich mathru chwi dan ei draed.

[Ad-ysgrifenwyd, Awst 1, 1852.]

## PREGETH L.

### GWERTH AMSER A'R PWYS O'I BRYNU.

EPHESIAID V. 16.—"Gan brynu yr amser, oblegid y dyddiau sy ddrwg."

ANFYNYCH y mae y Bibl yn son am amser ond mewn cysylltiad â rhywbeth arall. Dywedir llawer ynddo am ei bwys, ei gyflymdra, a'i fyrdra; ond gwna hyny, naill ai fel anogaeth at ryw ddyledswydd, neu fel rheswm dros ymgadw oddiwrth ryw fai. Byddwn ni weithiau yn arfer llefaru am amser megis yn annibynol ar bawb a phob peth, fel pe byddai iddo fod arno ei hun; ond nid yw y Bibl yn llefaru felly am amser, nac am dragwyddoldeb ychwaith. Wrth lefaru am dragywyddoldeb, nid ei ddangos yn beth annibynol y mae; na, oes Jehofah ydyw. Nid dywedyd y mae y byddwn ni yn y byd tragywyddol, ond y byddwn ni mewn mwynhad o fywyd tragywyddol, neu yn dioddef marwolaeth dragywyddol. Felly hefyd y lleferir am amser. Nid dywedyd ei fod yn fyr mewn gwirionedd ar ei ben ei hun, ond dwyn hyny ymlaen fel rheswm dros arfer y byd hwn heb ei gam-arfer. Fe ddywedir wrthym nad oes na gwaith na dychymyg yn y bedd, nid i foddloni ein cywreinrwydd, ond fel anogaeth i weithio cyn myned yno. Y mae Job yn dwyn ymlaen fyrdra ein dyddiau fel rheswm dros i'r Arglwydd ei adael yn llonydd. Paid â mi —y mae fy nyddiau mor fyr,—nid yw yn werth i ti fy aflonyddu. Felly peth perthynasol ydyw amser: nid oes bod iddo, ar ryw ystyr, ond mewn cysylltiad â dyn. Ei eiddo priodol ef ydyw. Cyn creu dyn, tragywyddoldeb oedd: pan ymedy dyn â'r ddaear, saif yr angel ar y môr a'r tir, i dyngu na bydd amser mwyach. Tragywyddoldeb a fydd wedy'n. Nid oes ond

ychydig filoedd o flynyddoedd er pan ddechreuodd amser ein teulu ni; ac nid oes llawer iawn hyd y terfyna. Ac er y gall y bydd hi wedi hyn yn amser i ryw rai eraill, tragywyddoldeb fydd hi i ni. Am hyny, wrth son a gwrandaw am amser, dylem ei gysylltu bob amser â ni ein hunain. Byddwn yn son am dano yn fynych yn ei gysylltiad â phethau gweledig, ac â'r greadigaeth ddireswm; eithr mewn gwirionedd, eiddo dyn yn unig ydyw, ond ein bod yn ei briodoli i greaduriaid îs na ni, fel y byddwn, o'r tu arall, yn priodoli ein pethau ni i'r Duw anfeidrol.

Dwyn byrdra amser ymlaen, yn rheswn dros rodio yn deilwng i'r efengyl, y mae yr Apostol yn y testyn hwn. Y mae amryw anogaethau i hyn wedi eu rhoddi ganddo o'r blaen yn y benod, a gellir gydâ phriodoldeb gysylltu y testyn â hwynt oll. "Byddwch gan hyny yn ddilynwyr Duw, fel plant anwyl," "gan brynu yr amser, oblegid y dyddiau sy ddrwg." "Rhodiwch mewn cariad," "gan brynu yr amser." Y mae efe, o'r drydedd hyd y bymthegfed adnod yn enwi y pechodau y dylai y saint eu gochelyd, ac yn y bymthegfed yn rhoddi cyngor caredig iddynt yn nghanol y peryglon:—"Gwyliwch......pa fodd y rhodioch yn ddiesgeulus, nid fel annoethion, ond fel doethion." Ac y mae y testyn yn anogaeth i roddi y cyngor mewn ymarferiad yn y fan:—"Gan brynu yr amser, oblegid y dyddiau sy ddrwg." Y mae cyngor cyffelyb yn cael ei roddi yn yr epistol at y Colosiaid iv. 5; "Rhodiwch mewn doethineb tuag at y rhai sydd allan, gan brynu yr amser." Y meddwl ydyw, gan ddefnyddio pob adeg i arddangos eich rhinweddau Cristionogol. Gosodwch gymaint o werth ar bob cyfle i hyn, a phe byddech chwi yn ei brynu am fawr bris; oblegid cyn belled ag y mae a fynoch chwi â hyny, feallai fod tragwyddoldeb y rhai sydd oddiallan yn dibynu ar y modd yr ymddygwch chwi yn eich cysylltiad â hwynt; gan hyny, rhodiwch mewn doethineb tuag atynt, trwy ymddwyn yn y dull tebycaf i'w henill i'r un ffydd a chwithau. Ac nac esgeuluswch yr un adeg i hyny; oblegid y mae y dyddiau yn ddrwg;—feallai yr amddifedir chwi yn fuan o'r cyfle. Neu, edrychwch pa fodd y rhodioch,—"gan brynu yr amser, oblegid y dyddiau sy ddrwg;" y mae y grefydd yr ydych chwi yn ei phroffesu heb sefydlu ei

character eto yn y byd. Y mae ei gelynion hi yn gwylied eich ymddygiadau gydâ'r manylwch mwyaf; yr ydych yn byw mewn dyddiau drwg: "gwelwch gan hyny pa fodd y rhodioch," a "phrynwch yr amser." Y mae yn rhaid i'r hyn ydych am ei wneuthur drosti gael ei wneuthur ar frys.

Pe buasai proffeswyr crefydd, o ddyddiau yr Apostolion hyd yn awr, yn byw y cyngor hwn, nid y wedd bresenol fuasai ar grefydd ar y ddaear. Y mae yn rhaid cyfaddef eu bod wedi rhodio yn esgeulus, ac fel annoethion, gan wastraffu y cyfleusderau oeddent yn eu meddiant i lesâu y byd. Y mae miloedd o honynt wedi bod yn rhwystr i gyrhaeddiad diben yr efengyl. Fel y Phariseaid, nid ydynt eu hunain yn myned i mewn i deyrnas nefoedd; ac y maent, drwy eu rhodiad esgeulus, yn troi y cloff allan o'r ffordd. Nid all neb sydd yn dwyn yr enw Cristion ddim bod yn Feros: y mae, naill ai yn gynorthwy i'r Arglwydd yn erbyn y cedyrn, neu yn fraich i'r cedyrn yn erbyn yr Arglwydd. Melldith ar wlad ydyw bod llawer ynddi yn cymeryd i fyny enw Crist heb gyfranogi o'i Ysbryd ef. Y mae yr apostol yn dangos y pryder mwyaf dros i Gristionogaeth gael ei harddangos yn ei lliw ei hunan i'r byd. Mor fynych y mae yn crybwyll am yr effaith a gai y pethau ar y rhai oddiallan, (Adn. 15; Col. iv. 5.) "gan ddarparu pethau onest yn ngolwg pob dyn;" "a rhodiwch megis wrth liw dydd," gan ochelyd y drwg, rhag i neb feio arnom. Ac nid oedd yn cenadu i neb gael swydd eglwysig, os na fyddai "iddo air da gan y rhai oddiallan;" hyny yw, os na fyddai ei ymarweddiad wedi argyhoeddi annuwiolion mai dyn Duw ydoedd.

Y mae Cristionogion yn gyffredinol yn addef fod pwys yn eu rhodiad; eto, ar weithredoedd, gwadant hyn;—nid nad ydynt rywbryd yn bwriadu byw eu crefydd; ond gadawant i'r cyfle presenol fyned heibio, dan ddywedyd, "Ni ddaeth yr amser eto." Na, medd yr apostol, "Prynwch yr amser:" nis gellwch fforddio gadael i'r un cyfle fyned heibio;—feallai y bydd amgylchiadau wedi eich taflu o'r fantais yn fuan i wneuthur dim; "gan hyny, prynwch." Ystyr y testyn, fel y gwelwch, yn ei gysylltiad â'r cyd destyn, ydyw, y pwys sydd mewn bod y saint yn defnyddio eu hamser i ateb dibenion uchel eu galwedigaeth. Ond mwy priodol i ni, mewn cynulleidfa fel hon, ydyw ei

gymeryd mewn ystyr eangach, fel anogaeth gyffredinol i ddefnyddio amser: "Gan brynu yr amser."

I. Gwnawn ychydig sylwadau cyffredinol ar bwysigrwydd amser. Y mae cysylltiad y testyn, yr ydym wedi son am dano eisoes, yn profi ei bwysigrwydd; felly hefyd y mae y gair "prynu" wedi ei fwriadu i ddangos yr un peth. Nis defnyddir ef yn y Bibl ond am bethau gwerthfawr. Anogir ni i brynu y gwir,—i brynu gwin a llaeth,—i brynu aur wedi ei buro drwy dân, hyny yw bendithion iachawdwriaeth. Y mae Crist wedi prynu ei eglwys: felly y mae yr anogaeth i brynu amser wedi ei bwriadu i ddangos ei werth. Y mae yn haws cael gan y meddwl amgyffred gwerth pob peth na gwerth amser, yn ei berthynas â byd ar ol hwn. Yn ei berthynas â hwn yr ydym yn gallu ei brisio, am fod y canlyniadau o beidio ei ddefnyddio yn bethau a ddeuant yn deimladwy yn dra büan. Fe ŵyr y crefftwr beth fydd canlyniadau peidio gweithio am wythnos. Y mae y wybodaeth o hyny yn ei ddysgu i roddi pris cyfatebol ar yr wythnos; ond nid oes genym mo'r fantais yna i brisio amser, yn ei gysylltiad â byd arall; oblegid y mae y canlyniadau o'i gamddefnyddio, yn bethau anweledig i ni tra yn y fuchedd hon. Felly ni a glywn rai yn cwyno am bob math o golled ond hon, er nad ydyw pob colled arall ond gwagedd mewn cymhariaeth i hon. Ond yr ydym yn cael esboniad ar y colledion eraill yn y byd hwn, tra nad all ond y byd tragywyddol esbonio hon yn llawn.

1. I gael cip-olwg ar werth amser yn ei gysylltiad â'r byd tragywyddol, cymerwn yr un ffordd ag yr ydym yn ei gymeryd i gael ei bris yn ei gysylltiad â'r byd hwn. Ein rheol gyffredin yma ydyw ei brisio yn ol yr hyn a gynyrcha, yr hyn a ellir ei wneyd ynddo. Yn ei berthynaas â'r byd hwn, y mae gwahanol amgylchiadau y trigolion, yn peri iddo amrywio yn fawr o ran ei bris. Y mae amser Arglwydd John Russell yn fil mwy gwerthfawr na'r eiddo gweithiwr tlawd, wrth y dydd. Pe collai y gweithiwr ei ddiwrnod, ni fyddai ond colled o ychydig sylltau, a darfyddai canlyniadau y golled yn fuan; ond gallai gwaith y prif weinidog yn colli diwrnod, daflu y deyrnas i ddyryswch, a gallai canlyniadau hyny ymestyn i flynyddoedd cenhedlaeth a chenhedlaeth. Ond, yn ei berthynas â byd arall

y mae amser yn gydwerth i bawb. Y mae y man y byddwn ni byw, yma hefyd, yn amrywio pris amser : byddai blwyddyn yn Califfornia, gwlad yr aur, yn llawer mwy gwerthfawr na blwyddyn yn Siberia, gwlad y rhew a'r eira ; ond yn ei berthynas â byd arall, y mae yn hyn hefyd yn gydwerth i bawb o honom. Beth bynag a gafodd neb ynddo, y mae hyny yn esiampl o'r hyn a allwn ni ei gael ; ac felly yn bris ar ei werth. Yr oedd hwnw, yn yr efengyl, yn prisio y maes, wrth y trysor oedd ynddo : feallai nad oedd yr un fodfedd arall o hono yn werth dim : ond yr oedd y trysor yn gosod gwerth arno oll. Felly nid yw amser, yn annibynol ar y trysor sydd i'w gael ynddo, ddim yn werth ei feddu. Yn hyn y mae fel gwledydd yr aur a'r perlau. Nid ydynt hwy odid un amser yn lleoedd hyfryd i fyw ynddynt:—y mae yr hinsawdd yn annymunol ; y tir yn ddiffrwyrh ; y gymdeithas yn llygredig ;—yn hytrach, lleoedd i gael modd i fyw ydynt. Wedi cael hyny, y mae y trigolion yn symud eu trigfan, i wlad lle y gallant fwynhau eu cyfoeth. Felly am amser,—nid lle i fyw, nid lle i fwynhau ydyw : y mae blinder mor naturiol i'r wlad ag ydyw i'r wreichionen ehedeg i fyny. Y mae yma gystuddiau aml a blin ; eto y mae yn werthfawr, am ei fod yn gyfle i gael modd i fyw mewn lle manteisiol i hyny. Er y byddai gorfod aros yma byth yn alltudiaeth, eto y mae cael bod yma am ychydig yn fraint anmhrisiadwy. Nid ydym yn rhyfeddu wrth edrych ar aml un yn Lloegr, sydd yn ddiweddar wedi cyfnewid ei sefyllfa yn fawr mewn ychydig fisoedd, pan y deallwn ei fod wedi treulio y misoedd hyny yn Califfornia, gwlad yr aur. Felly y mae miloedd heddyw y tu draw i'r llen, a'u cyfoeth yn tynu sylw eu holl gymydo ion ; ond nid ydym yn rhyfeddu cymaint wrtho, pan y deallwn ni mai rhai wedi treulio rhai blynyddoedd mewn byd o amser ydynt ; a'r hyn ydynt hwy heddyw ydyw yr esboniad goreu a fedrwn ni ei gael ar werth y cyfle.

Nid oes dim gwerth hanfodol yn perthyn i aur : gallech farw er bod genych lonaid eich tŷ o hono. Nid ydyw nac ymborth na dillad. Pe teflid dernyn o hono i'r môr, ni fyddai y neb a wnai hyny yn taflu dim o angenrheidiau bywyd ; ond mewn ystyr arall, fe daflai gymaint ag a fuasai y dernyn aur hwnw yn ei gynyrchu. Felly nid oes dim gwerth hanfodol

mewn amser : gwastraffwch faint a fynoch,—nid ydyw na gwisg, na chysur, nac ymborth i enaid ; eto am ei fod yn foddion i gael gafael ar bob un o honynt, wrth ei golli yr ydych yn eu colli hwythau. Er bod y nefoedd yn etifeddiaeth mor fawr, nad ā y Cristion ddim trwyddi byth, eto y mae llawer pechadur yn ei gwario mewn deng mlynedd ar hugain, hyny yw, y mae yn gwario yr hyn fuasai yn ei ddwyn i feddiant o honi. Talent ydyw amser, y mae ein Harglwydd wedi ei hymddiried i ni i'n profi, i weled a ydym ni yn rhai teilwng o ymddiried. Os ydym yn anffyddlawn ar ychydig, ni ymddirieda Efe i ni am lawer ; ond os defnyddiwn ni yr oes fer yma yn iawn, fe ddywed Arglwydd y talentau wrthym yn fuan,—"Da was, da a ffyddlawn,"—ni chefaist ond deugain mlynedd o oes ; ond buost ffyddlawn ar yr ychydig hyny, yn awr mi roddaf feddiant i ti ar lawer, sef hir oes byth ac yn dragywydd. Ond, cuddiwn ni yr ychydig hyn megis yn y ddaear,—peidiwn a defnyddio yr oes fer hono, fe ddywed Arglwydd y talentau wrthym,—"O was drwg a diog! yr wyt ti wedi methu defnyddio ugain mlynedd o fywyd er gogoniant i mi, nid wyt yn deilwng i ymddiried i ti am fywyd diddiwedd ; am hyny ni chei wybod beth ydyw bywyd yn dragywydd mwy. 'Os na fuost ti yn ffyddlawn yn y mamon anghyfiawn,' pa sut y gellir ymddiried i ti am y gwir olud?' 'Os na fuost ti yn ffyddlawn yn yr eiddo arall, pwy a rydd i ti dy eiddo dy hun?' Nid oedd y bywyd oedd genyt ddim ond cysgod ;—y mae yma fywyd gwirioneddol ; ond ti a brofaist dy hun yn annheilwng o'r cysgod,—pwy a ymddiriedai i ti am y gwir olud ynte? Nid oedd y bywyd oedd genyt ddim ond eiddo un arall, yr oedd ê wedi ei ymddiried i ti fel goruchwyliwr ; y mae yma fywyd a fuasai yn eiddo i ti dy hun,—ond gan i ti fod yn anffyddlawn yn yr eiddo arall, pwy a rydd i ti dy eiddo dy hun? Prisiwn amser wrth yr hyn a allwn ei gael am dano.

2. Dull arall sydd genym i farnu gwerth a phwysigrwydd peth, ydyw ei ystyried yn ei gysylltiad â'i ganlyniadau. Y mae llawer peth bychan ynddo ei hun, yn myned yn annhraethol bwysig, yn y berthynas hon. Y mae un awr yn fynych, yn nechreu oes, yn effeithio ar yr oes i gyd. Nid yw yr oll a ddigwyddo ar ol yr awr hono ond pethau a ellir eu

holrain iddi hi. Fel gydâ Jacob ac Esau : effeithiodd diwrnod yr helwriaeth ar eu tynged hwy a'u hiliogaeth, dros flynyddoedd cenhedlaeth a chenhedlaeth. Nid yw adeg ein harosiad ni mewn amser ddim ond megis un awr yn nechreu ein hoes; ond beth bynag a ddigwydda i ni byth, canlyniadau yr awr hono a fyddant. Fel yr oedd brodyr Joseph, yn olrhain yr anffodion yr oeddent yn eu cyfarfod ymhen ugain mlynydd, i'r awr hono yn Dothan; felly ni wyddom ninau ddim pa beth a all chwyldroadau y byd tragywyddol ei ddwyn i'n cyfarfod ; ond hyn a wyddom, y gwelwn ni yn eglur yno y cysylltiad a fydd rhyngddynt oll âg awr amser. Ac i atal i ni feio ar y drefn, y mae Duw wedi datguddio i ni mai fel hyny y mae ; ac wedi dangos i ni yn fynych, yn ei oruchwyliaethau, fod canlyniadau mawrion yn gysylltiedig â phethau bychain. Nid oedd bwyta o ffrwyth y pren yn Eden, ond peth bychan ynddo ei hun, ond yr oedd ei ganlyniadau yn gosod pwys arno. Nid oedd gwaith Israel yn grwgnach yn yr anialwch, ond peth bychan ; er hyny dyna y canlyniadau yn peri eu cadw am ddeugain mlynedd yn y diffaethwch, a marw heb gyraedd gwlad yr addewid. Nid oedd i Moses daraw y graig ond peth bychan ynddo ei hun ; ond y canlyniad o hyny a fu iddo orfod marw cyn cyraedd Canaan, a hyny dan anfoddlonrwydd Duw, oblegid nid o wendid y bu efe farw. Nid oedd gwaith Saul yn cadw anifeiliaid yr Amaleciaid yn fyw, ond peth bychan ynddo ei hun ; eithr yr oedd colli y frenhiniaeth yn gysylltiedig âg ef. Arfer Duw, yn y modd hyn, ydyw cysylltu pethau mawrion wrth bethau bychain ; ac felly y mae wedi penderfynu cysylltu peth mor fawr â'n tynged dragywyddol ni wrth amser. Ac nid peth penarglwyddiaethol ydyw hyn ; er feallai nad allwn ni ddim bob amser weled y rheswm am dano ; eto diau y bydd i'w weled yn y byd arall, fel na bydd raid i'r Barnwr ddywedyd wrth neb,—"Nid wyf yn gwneyd cam â th ." Gwir, mai "cyflog pechod yw marwolaeth ;" ond y mae mor wir a hyny, fod pechod yn teyrnasu i farwolaeth,—mai ei ffrwyth naturiol ydyw marwolaeth. Y mae yn wir mai "dawn Duw yw bywyd tragywyddol ;" ond gwir yw hefyd mai ffrwyth naturiol gair Duw yn y galon yw sancteiddrwydd ynom ; a sancteiddrwydd wedi addfedu, yw bywyd tragywyddol y byd

a ddaw. Er mai nid y corff a fydd, gydâ dim yr ydym yn ei hau, eto bydd hwnw mor debyg i hwn, nes y bydd pob hedyn yn teimlo ei fod yn cael ei gorff ei hun; ac er y bydd yn wahanol, eto nid mor wahanol na fyddi di yn teimlo mai cynyrch yr hedyn hwn ydyw. Clust-dlysau a fwriodd Aaron i'r tân,—llo a ddaeth allan; ond nid felly y bydd hi gydâ ni. Nid y Sabbath tragywyddol yr ydym ni yn ei hau, ond Sabbothau byrion y byd hwn; eto pan geir hwnw, fe deimlir mai ffrwyth y rhai hyn a fydd. Bydd uffern yn rhywbeth gwahanol iawn i bleser pechod ar y ddaear, ond nid mor wahanol na bydd pawb yno yn teimlo,—yr hedyn a blenais i ar y ddaear, wedi addfedu, ydyw hwn. Nid yw amser oll ond adeg hau, ac y mae yr holl hadau yn marw; ond bydd gwanwyn y byd arall yn dadebru yr oll. Y mae rhai yn meddwl fod pob peth y ddaear i fywhau. Y mae Adam Clarke ac eraill yn meddwl fod yr anifeiliaid sydd wedi eu darostwng i oferedd i gael eu codi i fwynhau y waith nesaf. Ac onid ydyw y Bibl yn awgrymu fod rhyw adgyfodiad i fod i'r ddaear ei hun? Y mae hi yn awr yn heneiddio, ac yn marw; ond y mae rhyw gorff a fydd yn ei haros hithau, a hwnw yn un llawer mwy gogoneddus na hwn. Ond beth bynag am sicrwydd y pethau yna, y mae hyn yn sicr,—y mae amser yn ei berthynas â ni i ail fyw;—fe gyfyd ein hoes ni eto "fal ŷd o fol âr," er nad ydym yn gweled dim yn debyg yn awr. Ni a welsom yr amaethwr, tua misoedd Hydref a Thachwedd yn hau y gwenith, ac wrth fyned heibio i'r maes yn Ionawr a Chwefror, ni welwn ni ddim tebyg i fywyd yno;—y mae caenen o eira yn ei orchuddio,—y mae "rhwymau Orïon" wedi ei gloi. Y mae yr holl hâd wedi marw; ac oni buasai fod profiad blynyddoedd blaenorol genym, buasem yn penderfynu ei fod wedi ei golli. Ond pan ddêl cawodydd Ebrill, a gwres Mai, y mae y marw yn bywhau o flaen ein llygaid. Felly y bydd am ein hoes ninau,—yr ydym yn hau,—yn hau,—yn hau; ond wrth edrych ar y maes, ni welwn ni ddim o ôl hyny. Y mae y gweddiau wedi eu colli;—y llwon wedi darfod:—nes yr ydym yn dywedyd, "Pa fudd a fydd i ni os gweddiwn?" nid oes yma ddim ffrwyth. Pa niwed fydd i ni os pechwn? y mae y rhai a demtiant Dduw yn cael eu gwaredu;—yr un peth yw gwrthod gwrando a'i dderbyn.

O! nage; barnu yn rhy fuan yr ydym; gauaf yw hi eto;—y mae rhwymau Orïon heb eu datod: aroswch chwi i wrês tragywyddoldeb doddi yr eira, a dadmer y rhew,—fe orchuddir y maes diffrwyth yna â chnwd. Adeg y medi a esbonia bwysigrwydd amser hau.

3. Y mae ei bwysigrwydd i'w ganfod yn ymddygiadau pawb oɴd dyn tuag ato. Y mae ysbrydion da a drwg yn deall ei werth yn rhy dda i'w wario. Y mae ê mor werthfawr yn ngolwg Satan fel na chymerodd ê ddim seibiant er pan ddechreuodd; a bydd raid i Fab Duw ei rwymo, i'w gadw yn llonydd am ysbaid; ac wedi hyny fe ymgynddeirioga mewn llid, am nad oes iddo ond ychydig amser. A diau nad yw yr angylion da ddim yn ol i'r rhai drwg mewn gweithgarwch, ac y mae yr holl waith hyny yn dal perthynas â ni, yn ein perthynas âg amser. Wedi i hwn fyned heibio, nid wyf yn meddwl y trafferthant eu hunain ryw lawer yn ein cylch; a phwysigrwydd amser i ni sydd yn achosi y drafferth yn awr. Y mae y minteioedd Mahometaniaid sydd yn croesi diffaethwch Arabia i Mecca, yn cyd-gyfarfod yn yr Aipht: y maent yno am ddyddiau yn brysur yn parotoi; a chydag y bydd yr adeg benodedig wedi dyfod i ben, y mae y miloedd yn cyd-gychwyn; ac os bydd rhyw wall yn y parotoad, nid oes modd ei wneyd i fyny wedi cychwyn. Hynyna ydyw amser,—adeg i barotoi y *Caravan* i gychwyn. Y mae y diafol a'i angylion yn gwneyd eu goreu i ddifyru y teithwyr gydâ theganau i'w hatal i ymbarotoi. Y mae Ysbryd Duw, ac ysbrydion da eraill, yn ymdrechu i'w cynhyrfu i ddarparu; a hyn sydd yn egluro cynwrf ac annhrefn y ddaear,—cynwrf y gwersyll (*camp*) cyn cychwyn ydyw. Ymhen ychydig fe gyhoeddir, "Darfu;" "Ni bydd amser mwyach." Y mae adeg cychwyn wedi dyfod; ac wele y fintai fawr yn dechreu teithio y daith ddiddiwedd. Y mae Jehofah ei Hun yn gosod pris mawr ar amser. Y mae, mewn ystyr, wedi rhoddi ei hunan o dan yr un ddeddf a ninau: oblegid y mae yntau yn meddwl ffurfio ei garacter mewn amser,—ac yn penderfynu cael ei adwaen byth wrth yr hyn a wnaed yn ychydig flynyddoedd y ddaear. Y mae yn bod er tragywyddoldeb; ac ni wyddom ni ddim pa faint o oesoedd a aethant heibio er pan y creodd Efe dywysogaethau ac awdurdodau

y nefoedd ; ond drwy yr eglwys,—drwy yr hyn y mae yn ei wneyd mewn amser,—y mae wedi meddwl hysbysu iddynt ei "fawr amryw ddoethineb." Rhwng y ddau air, "Bydded" a "Darfu," y mae yn bwriadu enill ei garacter. Pan y seiniodd Efe y cyntaf, gallasai ddywedyd wrth sêr y boreu, sef y meibion oedd o'i amgylch,—Nid ydych yn fy adwaen ; ond yr ydwyf yn myned i roddi cyfleustra i chwi yn awr i hyny. A phan seinia Efe yr olaf, fe ddywed, hyn a fydd fy enw byth ac yn dragywydd. Y caracter a enillais mewn amser, nid wyf yn bwriadu ei newid byth. Felly, rhwng y ddau air, y mae yn rhaid i ninau sefydlu ein caracter. Nid yw ond megis doe er pan seiniodd ein "Bydded" ni ; ac y mae yr adeg yn ymyl pan y seinia ein "Darfu" ni ; ond wedi hyny, bydd dy garacter di a minau mor anghyfnewidiol a character Duw ei Hun. "Yr hyn a ysgrifenwyd a ysgrifenwyd." Y maent wedi cloddio dinas i'r golwg yn ddiweddar a ddinystriwyd gan afon danllyd Vesuvius, er's canoedd o flynyddoedd yn ol ; a phan y cloddiwyd hi i'r golwg, yr oedd pob peth a phawb yno, yn yr un ffurf ag yr oeddent y foment y daeth y dinystr arnynt ;—rhai yn eistedd o amgylch bwrdd y wledd ; eraill yn gorwedd ac yn huno ; y lleill wrth ryw gampau drygionus ; un arall yn ei fyfyrgell yn astudio ;—ond mewn moment, fe'u sefydlwyd hwynt fel creigiau gan yr hylif tanllyd yn y wedd hono. Bychan yr oeddent yn meddwl mai y wedd yr oeddent yn ei osod arnynt eu hunain y noson hono fyddai arnynt am flynyddoedd cenhedlaeth a chenhedlaeth ; ond felly y bu hi. Wel, os priodol i ni gymharu pethau ysbrydol i bethau gweledig, yr ydym ninau yn bur debyg iddynt. Fe rydd angau sefydlogrwydd i'n caracter ninau, fel y rhoddodd yr hylif iddynt hwy. A dyna fydd dydd y farn, dydd i gloddio y ddinas i'r golwg i amlygu i bawb beth ydym. Edrych yn fanwl pa ffurf yr wyt yn ei osod arnat dy hunan, rhag y seinir y gair, "Darfu," uwch dy ben yn y ffurf yna. Byddai yn haws symud y mynyddoedd tragywyddol na newid dim arnat ti wed'yn. O! y mae yr adeg yn bwysig. Rhoddwyd Daniel, Hananïah, Misäel, ac Azarïah, at y pen-ystafellydd yn Babilon, i'w dysgu ar lyfr, ac yn iaith y Caldeaid ; a'r defnydd a wnaent o'r adeg hono oedd i fod yn sefydliad ar eu sefyllfa hwynt yn yr ymer-

odraeth. Yr ydym ninau wedi ein gadael yma i ddysgu llyfr ac iaith y byd a ddaw ; ac ymhen ychydig bachigyn eto, y mae y Brenin yn myned i chwedleua â ni, ac fe benderfyna hyny pa un ai sefyll ger ei fron, ai ynte ein bwrw o'i olwg yn dragywydd, fydd ein tynged ni. Gan ei bod hi mor bwysig, onid ydyw cyngor y testyn yn dra phriodol,—"Prynwch yr amser."

II. Y cyngor. Y mae yr oll a ddywedwyd eisoes yn dangos pwys y cyngor; ond fel y cymhelliad ychwanegol i brynu amser, ni a allwn alw eich meddwl at rai ystyriaethau:—

1. Ystyriwch nad oes genych ond ychydig o hono. Wrth feddwl am ganlyniadau byw ar y ddaear, gellid tybied na fyddai mil o flynyddoedd ond adeg fer i barotoi ar eu cyfer ; ïe, pe buasai yr Arglwydd wedi creu llonaid byd o ddynion yn y dechreu, a'u gadael yma am holl oesoedd amser i ymbarotoi gogyfer â'r byd diddiwedd, buasai canlyniadau y byw yn peri i holl filoedd blynyddoedd amser ymddangos yn fyr. Mewn gwirionedd, nid oes dim cyfartalwch rhyngddynt. Y mae cyfartalwch rhwng y diferyn dwfr a godwch chwi o'r celwrn a'r môr: lliosogi y diferynau yna a wnai fôr. Y mae rhyw gyfartalwch rhwng y llwchyn bychan a'r ddaear: pe tynid ef oddiwrthi, byddai yn llai ; pe rhoddid ef ati, byddai yn fwy. Ond pe tynid miliwn o flynyddoedd oddiwrth dragywyddoldeb, ni fyddai yn ddim llai: pe rhoddid miliwn ato, ni fyddai yn ddim mwy. Twyllo ein hunain yr ydym wrth son am eu cymharu. Rhodder deg a thriugain o flynyddoedd gyferbyn â chanoedd o flynyddoedd y mae rhyw gyfartaledd yn hyny, oblegid amser ydyw yr olaf fel y blaenaf. Ond byd ysbrydol ydyw y byd a ddaw, ac nid oes a fyno rhif a mesur ddim ag ef. Y mae y corff sygenym yn aelodau, ac yn rhanau; ond y mae yr ysbryd yn sylwedd nad ellir ei ranu, er ein bod ni yn son am dano yn fynych fel pe byddai yn rhanadwy. Y mae y byd hwn yn gyffelyb i'r corff; ond y mae yr hwn a ddaw fel yr ysbryd. Y mae yn anmhosibl eu cymharu. Ac yn wir, pe buasai y ddau fyd yr un hyd, buasai gwahaniaeth annhraethadwy rhyngddynt wed'yn, oblegid y mae amser mor gul ag ydyw o fyr: nid oes nemawr o'n blaen ni, ac nid oes fawr ar bob llaw i ni chwaith. Pe llenwid ef â llawenydd, nid oes yma fawr le iddo;—neu â thristwch, nis gallai fod yn un dwfn iawn;—ond am y byd a ddaw, y mae ei

led fel ei hyd yn un anfesurol: am hyny y mae pum' mynyd o'i lawenydd yn fwy nag oes o lawenydd amser. Y mae moment o'i dristwch, yn rhywbeth a weithia drwy yr enaid yn annhraethol fwy ofnadwy nag oes o dristwch amser. Gan hyny, buasai deg a thriugain o flynyddoedd amser yn fyr i barotoi gogyfer ag oes o ddeng mlynedd a thriugain o flynyddoedd y byd a ddaw; ond pa faint byrach wrth feddwl fod yr oes nesaf yn un ddi-ddiwedd. Prynwch gan hyny. Gwyliwch ddifwyno y sypyn, —y mae tragywyddoldeb wedi ei lapio ynddo. Pwy a feddyliai, wrth ddal y fesen rhwng ei fys a'i fawd, fod y dderwen dewfrig, nerthol, yn guddiedig o'i mewn hi;—y cynydda hi am flynydd-oedd cenhedlaeth a chenhedlaeth, nes myned yn bren cadarn, ond felly y mae. Felly y mae tragywyddoldeb wedi ei gau yn y dyrnfedd amser yma.

Yr ydym yn arfer meddwl, pe buasem wedi cael oes y cyn-ddiluwiaid, y buasai genym rywbeth o werth ei alw yn oes; ond twyllo ein hunain yr ydym yn hyn hefyd. Nid oes dim digoni mewn amser: gwagedd ydyw. Am hyny y mae deg a thriugain, a naw cant, yn ddigon cyffelyb. Yr oeddent hwy yn ystyried yr oes hir yn ddim. Y mae traddodiad gan yr Iuddewon i Methuselah gael gorchymyn i adeiladu tŷ pan yn bum' can' mlwydd oed, ynghyd âg addewid y cai fyw am yn agos i bum' cant wed'yn; ond i'r patriarch ateb, gan nad oedd ond hyny o oes ar ei gyfer, nad oedd yn werth y drafferth. Y mae ateb Jacob i Pharaoh ynghylch ei oedran, yn dangos yr un teimlad, Y deg ar ugain a chant o flynyddoedd ydynt yn llawer yn ein golwg ni; ond ychydig a drwg oeddent yn ngolwg y patriarch. Ac onid oes rhywbeth yn hynod yn null y tadau o rifo amser, sef wrth y dydd. "Yn nyddiau ein blynyddoedd y mae deng mlynedd a thriugain;" "Dysg i ni gyfrif ein dyddiau fel y dygom ein calon i ddoethineb." Y mae hyn hefyd yn dangos yr un teimlad: wrth yr un y byddwn ni yn rhifo y pethau nad oes genym ond ychydig o honynt. Ond gellir casglu fod mwy o sicrwydd yn perthyn i oes y pryd hyny nag yn awr;—fod angau yn myned ymlaen yn fwy yn ol rheol nag yn awr;—oblegid fe grybwyllir fel peth hynod fod Haran wedi marw o flaen Terah ei dad. Yr oedd hyn mor anghyffredin fel y rhoddwyd ei enw ar y ddinas. Wel, os nad oedd ganddynt

hwy ddim yn ormod, y mae yn eglur nad oes genym ni ddim i'w wastraffu, oblegid y mae yn rhaid i'r gwaith, yr oeddent hwy yn cael saith neu wyth cant o flynyddoedd ato, gael ei gyflawni genym ni mewn cymaint neu lai o ddegau; ac anffawd arall ydyw, nid oes genym mo'r sicrwydd oedd ganddynt hwy. Rheol angau yn awr yw, bod heb reol yn y byd. Nid all y mab ddim teimlo yn ddiofal, er bod ei dad yn fyw; oblegid os gwelwn ni feibion Jacob mewn un man yn galaru ar ol eu tad, ni a welwn Dafydd a Jairus mewn man arall yn galaru ar ol eu plant. Yr hyn yr ydym yn ei wneuthur, gan hyny, gwnawn ar frys.

2. Prynwch ef, oblegid y mae llawer o'r ychydig hyn wedi myned heibio. Yr ydym yn cael yr apostol yn dwyn hyn ymlaen yn rheswm er cymell y saint i ymroddi i ddiwydrwydd crefyddol; Rhuf. xiii. 11: "A hyn, gan wybod yr amser, ei bod hi weithian yn bryd i ni ddeffroi o gysgu: canys yr awr hon y mae ein hiachawdwriaeth ni yn nês na phan gredasom." Yr ydym yn ymyl Jerusalem;—yr ydym ar fyned i mewn i'r hafan;—y mae y priodfab gerllaw;—gan hyny, y mae "yn bryd i ni ddeffroi o gysgu." Os na charech chwi i'r prophwydi, y patriarchiaid, a'r apostolion, weled eich llestr yn ei gwedd bresenol, deffrowch i'w threfnu, oblegid y maent ar y *pier head* yn disgwyl am danoch, a chwi a fyddwch yno yn union. Os na charech chwi ymddangos yn y deml fel yr ydych, deffrowch, oblegid y mae ei phinaclau hi bron yn y golwg. Os nad ydych yn y wedd y dymunech fod ar ddyfodiad y Priodfab, deffrowch, oblegid y mae ei ragredegydd wrth y drws. Yr ydych yn llawer nes i Ganaan nag i'r Aipht; y mae y deugain mlynedd bron ar ben; chwi a fyddwch yn union yr ochr *anfarwol* i'r Iorddonen; cewch ei chofio hi wedi myned drwyddi, fel yr ydych heddyw yn cofio y Môr Coch;—deffrowch, "y mae eich iachawdwriaeth yn nês na phan gredasoch."

Os ydyw meddwl pa faint o'r oes sydd wedi myned heibio yn gymhelliad i'r Cristion i fod yn ddiwyd am y gweddill, pa faint cryfach cymhelliad ydyw i'r dyn sydd hyd heddyw heb iawn ddefnyddio moment o honi? deg ar ugain, deugain, triugain mlynedd wedi myned heibio, a Duw yn myned i ofyn pob moment eto. Y maent wedi marw i ni, ond y maent oll yn

fyw i Dduw; ac y maent ganddo ymysg ei drysorau erbyn dydd y treial, fel na bydd dim yn angenrheidiol ond eu dangos, fel y breichledau a'r ffon hyny, i gau dy enau am byth. Y mae pethau fel yna yn bwysig, meddwch, i'r rhai sydd yn bwriadu marw yn annuwiol; ond nid wyf fi ddim felly; yr ydwyf fi am ofyn i drugaredd ddileu fy hanes i o groniclau y byd a ddaw, cyn i mi fyned yno. Yr wyf yn meddwl gofyn iddi daflu y gôd yna, yn yr hon y mae fy anwiredd wedi ei wnîo i fyny, i ddyfnder y môr, cyn i mi ddyfod yno. Os ydych yn meddwl am beth o'r fath, y mae yn bryd i chwi brynu yr amser, oblegid nid oes genych chwi ddim ond blwyddyn nes y byddwch chwi yno, a pha beth ydyw hyny at waith mor fawr? Rhodiodd Enoch dri chan' mlynedd gydâ Duw, cyn cael myned ato. Bu Paul mewn ymdrech galed, am oes led hir, i'w gael yn y diwedd mewn tangnefedd. Y mae yn rhaid bod y rhai hyn yn rhy bryderus, neu ynte eich bod chwi yn llawer rhy ryfygus; ac wrth oedi y mae y gwaith yn myned yn anhaws, a'r amser i'w gyflawni yn fyrach. Prynwch y gweddill.

3. Prynwch ef hefyd, oblegid y mae y dyddiau yn ddrwg, hyny yw, y maent yn ddyddiau anfanteisiol i fyw yn dduwiol. Y maent felly i bawb, ac yr oeddent felly ymhob oes. Y mae dyddiau erlid yn rhai drwg; ond y mae dyddiau tawelwch mawr yn llawn mor ddrwg. Y mae adeg diwygiadau mawr yn rhai drwg, oblegid y mae gwres yn cynyrchu cymaint o chwyn. Y mae amser oerfelgarwch mor ddrwg, oblegid os yw yr oerni yn atal y chwyn, y mae yn atal yr hâd da hefyd. Y mae y cyfoethog yn tybied fod llwybr y tlawd i'r ddinas gyfaneddol yn un rhwydd, a'r tlawd yn tybied felly am y cyfoethog; pan, mewn gwirionedd, dyddiau drwg ydynt i bawb. Ac nid yn unig y mae eu byrdra a'u hansicrwydd yn eu gwneuthur felly, ond y mae rhyw garacter o ddrwg personol yn perthyn iddynt; fel na bu, ac na bydd, y nef i neb yn rhad. Bydd yr adnod hono mor wir yn y mil blynyddoedd ag ydyw hi heddyw:—"Cyfyng yw y porth, a chul yw y ffordd sydd yn arwain i'r bywyd." "Rhedwch fel y caffoch afael;" "treiswyr sydd yn ei chipio hi." Y mae crefydd ar y ddaear, wedi i ddyn bechu, fel blodeuyn o wlad arall; nid yw yn gydrywiol â'r tir yn awr. Y mae planhigion a blodau, y mae y ddaear yn eu

dwyn yn ffrwyth o honi ei hun, yn y Dwyrain; ond yn y Gogledd yma, y maent yn gofyn holl fedr a gofal y garddwr i'w cadw yn fyw. Peth fel yna ydyw crefydd. Y mae hi yn tyfu o honi ei hun yn y nefoedd: nid rhaid iddynt yno edrych ar ei hol hi; ond yma, rhaid ei gwylio hi ar bob moment. Y mae rhyw awel boeth neu oer yn peryglu ei niweidio hi yn ddibaid. Dyddiau drwg ydyw dyddiau y ddaear yn awr. Os cyrhaeddwn ni y nefoedd, ni a wnawn hyny wedi ymladd bob cam o'r ffordd. Os cawn ni ein disychedu â dyfroedd pydew Bethlehem, y mae yn rhaid i ni dori drwy fyddinoedd y Philistiaid atynt. Os gwelir ni yno, dianc am ein bywyd fydd raid i ni, fel gweision Job.

Feallai na bu dyddiau gwaeth erioed na'r rhai hyn. Yr ydym yn byw ar y fath ffrwst; nis gellir cael gafael ar y byd hwn heb redeg â'n holl egni ar ei ol. Treiswyr sydd yn ei gipio. Y mae dynion wedi myned i ymryson am dano; ac y maent mor ddifrif yn yr ymrysonfa, fel y maent yn anghofio pob peth arall, nes i angau sibrwd yn eu clustiau,—"Y mae genyf air oddiwrth Dduw atat;"—y mae yn rhaid i ti ymddangos ger ei fron yn ddioedi. Y mae ein dyddiau ni hefyd, fel yr awn rhagom, yn myned yn waeth: yn y fan yna, wele y dyddiau heb ddiddanwch ynddynt. Y mae niwl oer afon angau, yn ymdaenu dros lawer o'r gwastadedd, cyn dyfod at ei glàn hi. Y mae galluoedd yr enaid, fel aelodau y corff, yn crebychu ynddo, nes y bydd hi mor anhawdd i'r meddwl weithredu ag y bydd hi i'r corff. Ni a gawsom oll well dyddiau na'r rhai hyn; ond y mae y rhai hyn yn well na dim rhai a gawn ar eu hol hwynt. Y mae yn ddigon anhawdd cychwyn tua'r nefoedd heddyw; ond bydd yn anhaws yfory; ac felly bob dydd o hyny i'r olaf. Prynwch yr awr hon.

Yr ydym wedi dywedyd llawer am wagder a siomiant amser, ond ni wnawn gyfiawnder âg ef heb ddywedyd hyn hefyd:— Nid oes dim gwerthfawr yn y byd a ddaw nad yw i'w gael yn gyfnewid am dano. Y mae teyrnas yno i'w chael am ei gofyn yma; coron am ei cheisio. Y mae prydnhawn wylofain amser yn arwain i dragywyddoldeb o lawenydd; ond ni fydd mantais fel hyn i'w chael byth. Y mae masnachwyr anonest yn anfon llongau yn llawn o deganau a phethau diwerth i

farchnata â gwledydd anwaraidd. Y mae yr Indiad anwar yn rhoddi ifori ac aur ei wlad, yn lle rhyw deganau y mae y dyn gwyn yn eu dwyn iddo ; ond wedi i'r anwar gael ei ddysgu am werth cynyrchion ei wlad, ni rydd ê ddim o'r aur a'r ifori heb gael peth cydwerth am danynt. Y mae Arglwydd y byd a ddaw yn ymddwyn yn bur debyg i hynyna tuag atom ni yn awr ;—yn rhoddi pethau anmhrisiadwy am wagedd ;—yn rhoi peth mor werthfawr a choron y bywyd am ymdrechu ychydig ddyddiau ar y ddaear ;—yn rhoi tragywyddol orphwysfa am weithio un dydd yn y winllan ;—yn rhoddi ei hunan, yn yr hyn oll ag ydyw, yn eiddo i bechadur, am ddim yn y byd ond *ei goelio.* Ond pan unwaith y cauwn ni ein llygaid ar y byd hwn, fe gyfyd pris y pethau, fel na cha neb mo honynt ond am eu llawn werth. Y mae yn rhoddi y nef yn awr ; ond yn y byd a ddaw, ni bydd i'w chael heb ei gwerth yn ei lle. "Dawn Duw yw bywyd tragywyddol" yn awr ; ond yn y byd a ddaw, bydd yn rhaid ei ennill. Ac os aroswch chwi i'r farchnad godi, gellwch ffarwelio am y pethau byth. Y mae genym hanes rhyw rai yn cynyg pris y ddaear am danynt, yn y byd arall ; ond yn gwbl ofer : "Yn foreu y'm ceisiant, ond ni'm cânt." Ni feiwn ni ddim llawer ar y byd hwn, er bod ei ddyddiau yn ddrwg, a blinder yn eu llenwi, am fod yma bethau i'w cael, y mae yn werth dioddef mil mwy er eu mwyn. Y mae miloedd yn myned i India y Dwyrain ; yno yn cael eu treulio gan y gwres ; ac y mae ôl y dyddiau drwg a welsant yno arnynt wedi iddynt ddychwelyd yma;—ond nid ydynt yn cwyno nemawr, oblegid y mae y cyfoeth a gawsant yn ad-daliad am y cwbl. Felly, nid rhaid cwyno ar yr hen ddaear, oblegid y mae yma bethau i'w cael ynddi sydd yn fwy nag ad-daliad am y cwbl sydd raid ddioddef. Yr oedd Paul yn synio felly :—"Canys ein byr ysgafn gystudd ni, sydd yn odidog ragorol yn gweithredu tragywyddol bwys gogoniant i ni." "Nid yw dioddefiadau yr amser presenol hwn, yn haeddu eu cyffelybu i'r gogoniant a ddatguddir i ni." Beth, os oes yma fynyddoedd i'w dringo ? Onid yw Calfaria yn un o honynt? ac y mae digon i'w gael ar hwnw i dalu am y boen o ddringo y lleill i gyd. Beth, os oes yma ystormydd mawrion? Onid y rhai hyny a ddaethant â ni yn gydnabyddus â'r "Gŵr o Iuddew?" Chwilio am dano yn

lloches rhagddynt a wnaethom i ddechreu : ac wrth lechu yn ei gysgod, fe fagodd cyfeillgarwch rhyngom ; ac fe wnaeth gyfamod â ni, a digon ynddo i ni fyw arno byth. Os ydyw caethiwed yr Aipht yn flin i ni; ac os ydym yn teimlo ein meistriaid gwaith yn ein gyru yn dost; oni buasai am hyny, ni fuasem ni ddim yn meddwl am Ganaan. Fe boenwyd Pharaoh yn fawr gan y breuddwyd hwnw; ond fe dalodd yr hen freuddwyd yn bur dda iddo wed'yn, oblegid hwnw fu yn achlysur iddo wybod am Joseph; a bu dda iddo ef a'i wlad wrth Joseph, am flynyddoedd wedi hyny. Os ydyw breuddwydion y ddaear yn poeni tipyn arnom, nid rhaid cwyno o'u plegid, os byddant yn achlysur i ffurfio cyfeillgarwch rhyngom ni â Joseph: ni a fanteisiwn ar hyny i dragywyddoldeb. Treuliwn ein hamser yn y fath fodd, fel y cawn ni ein hadwaen yn y byd tragywyddol, "nid fel annoethion, ond fel doethion."

[Dydd Sadwrn, Gorphenaf 6, 1850.]

# PREGETH LI.

## CYFERBYNU TREFN DYN A THREFN DUW I FOD YN GADWEDIG.

2 BRENHINOEDD v. 9—12.—"Yna Naaman a ddaeth â'i feirch ac â'i gerbydau, ac a safodd wrth ddrws tŷ Eliseus. Ac Eliseus a anfonodd atto ef gennad, gan ddywedyd, Dos ac ymolch saith waith yn yr Iorddonen; a'th gnawd a ddychwel i ti, a thithau a lanheir. Ond Naaman a ddigiodd, ac a aeth ymaith; ac a ddywedodd, Wele, mi a feddyliais ynof fy hun, gan ddyfod y deuai efe allan, ac y safai efe, ac y galwai ar enw yr Arglwydd ei Dduw, ac y gosodai ei law ar y fan, ac yr iachâi y gwahan-glwyfus. Onid gwell Abana a Pharpar, afonydd Damascus, na holl ddyfroedd Israel? oni allaf ymolchi ynddynt hwy, ac ymlanhau? Felly efe a drodd, ac a aeth ymaith mewn digter."

ANFYNYCH yr ydym yn darllen yn y Bibl am neb wedi derbyn cymwynas, nad ydoedd hi yn dyfod iddynt mewn ffordd groes i'w disgwyliadau. Ac y mae cael yr hyn a ofyna, yn ol ei gynllun ei hun, o gymaint pwys yn ngolwg dyn, fel y mae yn fynych yn gwrthod y gymwynas, os na ddaw hi yn ol y portread a dynodd efe yn ei feddwl. Yr oedd y dyn ieuanc hwnw yn yr efengyl, yn ewyllysio myned i mewn i'r bywyd; ond yr oedd efe wedi tynu y cynllun i hyny yn ei feddwl; ac am nad oedd bywyd tragywyddol i'w gael, yn ol ei gynllun ef, efe a aeth ymaith yn athrist oddiwrth y Rhoddwr hebddo. Yr oedd y claf wrth lyn Bethesda yn disgwyl am iechyd; ond yr ydoedd yn ei ddisgwyl mewn rhyw ffordd benodol, a bu raid iddo foddloni i'w dderbyn yn ol cynllun y Rhoddwr. Fe gredodd Lot yr angylion y dinystrid Sodom. Yr oedd yn dda ganddo gael ei gadw rhag y dinystr; ond gellir casglu oddiwrth yr hanes, fod ganddo ryw gynllun yn ei feddwl ei hun i hyny, ychydig yn wahanol i gynllun Duw, oblegid hwyrfrydig iawn ydoedd i gydsynio â hwnw. Yr oedd Naaman yn meddwl am iechyd,—i'w gael y

cychwynodd oddicartref; ond yr oedd yntau wedi tynu cynllun yn ei feddwl, ac am nad oedd ffordd yr Arglwydd i'w roddi yn cyfateb i'w gynllun ef, bu yn ymyl ei wrthod. Y mae tuedd barhaus mewn dyn i gyfarwyddo yr unig ddoeth Dduw; a'r achos paham y mae miloedd yn troi oddiwrth ei borth heb dderbyn ei roddion ydyw, am na fyn Efe ddim o'u cyfarwyddyd a'u cyngor hwy. Yr oedd golwg obeithiol iawn ar Naaman gerbron tŷ y prophwyd: gallesid meddwl, os oedd iechyd yn gyraeddadwy, y buasai yn sicr o'i gael; oblegid yr oedd wedi cymeryd cymaint o drafferth eisoes, fel ag i roddi sail i feddwl nad arbedai na thraul na llafur rhagllaw i hyny. Y mae yn rhaid bod ynddo awydd cryf am gael ymadael â'r gwahan-glwyf, onid ê ni buasai yn cymeryd y drafferth a gymerodd ar seiliau mor weiniaid. Nid oedd ganddo ddim i'w gychwyn oddicartref ond tystiolaeth llances fechan, a hono yn gaethes; a phe buasai yn ei holi hi, fel y mae yn debyg iddo wneuthur, cawsai nad oedd y dystiolaeth hono yn ddim ond opiniwn y llances;—ei barn hi;—nad oedd ganddi yr un ffaith i'w hadrodd am lanhâd yr un gwahan-glwyfus. Gall y gwyddai y llances fod Eliseus wedi gwneuthur pethau lled ryfedd, ac yr oedd hi yn meddwl y medrai efe wneuthur hyn hefyd; ond eglur yw nad oedd meddwl llances felly yn fawr o beth i bwyso arno; ac oni buasai fod awydd cryf iawn yn mynwes Naaman am iechyd, ni buasai gŵr mawr fel efe yn cymeryd cymaint o boen, ar seiliau mor weiniaid; a hyny yn neillduol mewn lle nad oedd ganddo yr un rheswm dros gymeryd trafferth o gwbl gyda'r gwahan-glwyf, ag a fuasai ganddo pe buasai yn byw yn ngwlad Israel; oblegid nid yw yn ymddangos ei fod yn Syria yn ei gau allan o gymdeithas ei gyd-ddynion, nac o'r swyddau mwyaf parchus: yn Israel, buasai yn gwneuthur y naill a'r llall; ond yn Syria, er ei fod yn wahan-glwyfus, yr oedd yn dywysog y llu; yn ŵr mawr yn ngolwg ei arglwydd; ac yn anrhydeddus. Eto, er nad oedd yn ddim rhwystr iddo mewn ystyr wladol, nid oedd yn foddlawn heb gael ymadael âg ef. Yr dyoedd hefyd wedi dyfod i'r unig fan yr oedd gobaith am iechyd, os oedd gobaith hefyd. Y tebyg ydyw mai pla uniongyrchol oddiwrth Dduw oedd pla y gwahanglwyf: felly am ei fod yn oruwch-naturiol, nid oedd dim mewn natur a'r

gyfer ei wellâu. Duw, mewn modd digyfrwng, yn unig a allai wneuthur hyny. Yr oedd hyn yn wybyddus yn ngwlad Israel; ond y mae yn debyg mai anaml iawn yr oedd hyny yn cymeryd lle. Yr oedd llawer o wahangleifion yn Israel yn nyddiau Eliseus; eto, medd y Testament Newydd, ni lanhawyd yr un o honynt; ac y mae yn hynod pa fodd y meddyliodd y llances am anfon ei meistr at y prophwyd i ymofyn glanhad, ac nid at yr offeiriad; os nad am ei bod hi yn tybied mai gan Eliseus yr oedd mwyaf o ddylanwad o neb yn y wlad yn y nefoedd, ac mai oddiyno yr oedd y waredigaeth i ddyfod. Ond y mae yn dra thebygol fod ei hyder hi i raddau mawr yn tarddu oddiar anwybodaeth. Gall nad oedd hi erioed wedi gweled un gwahan-glwyfus: pe buasai hi yn gydnabyddus â'r lliaws oeddent yn Israel yn parhau felly, er bod y prophwyd yno, y mae yn debyg na buasai hi yn siarad mor hyderus â'i meistres; oblegid yr oedd y llances yn anturio ei chysur, os nad ei bywyd ei hun, wrth wneuthur hyny. Pe buasai Naaman yn dyfod yn ol heb iechyd, y mae yn ddiau y cawsai y llances oedd wedi ei dwyllo ef deimlo oblegid hyny; ond yr oedd gan y llances feddwl mor fawr am Dduw Israel, ac am ei brophwyd ef, fel nad oedd hi yn ameu am foment na iacheid ei meistr, os äi efe i Samaria; ac y mae mor hoff gan yr Arglwydd y rhai sydd yn meddwl yn fawr am dano, fel nad oedd am gywilyddio gobaith llances o gaethes. Gan iddi hi roddi caracter mawr iddo Ef, yr oedd Efe yn penderfynu na chai ei character hithau ddim bod yr un gronyn yn is yn nheulu Naaman; am hyny fe brofodd ei Hun yn llonaid y disgrifiad,—"Fy anrhydeddwyr a anrhydeddaf." Ond er bod yn Naaman lawer o bethau yn profi fod cael glanhad yn beth pwysig ar ei feddwl, eto bu bron i un peth ei gadw rhag hyny, sef, nad oedd y fendith yn dyfod yn ol ei feddwl ef.

Y mae hanes Naaman, fel yr holl bethau a ysgrifenwyd o'r blaen, yn addysg i ni. Yr oedd efe, yn ei bla ac yn ei ddisgwyliadau, yn ddrych i ni ganfod ein hunain, yn nhrueni ein codwm, ac yn ein cynllun i gael gwaredigaeth oddiwrtho; ac yr oedd trefn Duw i'w wellâu, yn gysgod o'i drefn ddwyfol ef i wneuthur hyny i ninau: ac nid ychydig ydyw y perygl rhag i'r un peth fod yn fagl i ni ag a fu felly iddo ef. Nid diystyr-

wch o'r pla a fydd yn ddinystr i ni; na, yr ydym ni, fel Naaman, yn teimlo i ryw raddau oddiwrtho, er nad yw yn nemawr o rwystr ar ein ffordd ni i bob dyrchafiad ar y ddaear, mwy nag yr oedd y gwahan-glwyf yn Syria. Yr ydym hefyd wedi dyfod i'r unig fan y mae gobaith am iechyd. Nid antur ydyw ein gwaith ni yn dyfod, fel yr eiddo Naaman; ni a wyddom, os myn y Prophwyd, y gall Efe; ac ni a wyddom fwy, sef mai ei arfer ydyw mynu. Un peth sydd yn ol i ni,—mewn un lle yn unig y mae ein perygl ni,—sef gwrthod y fendith, am nad ydyw yn dyfod yn ol ein meddwl ni. Ac oddiwrth y testyn ni a geisiwn ddal y ddwy drefn i gael glanhad, neu, yn ol iaith y Testament Newydd, i fod yn gadwedig, ar gyfer eu gilydd; gan obeithio y bydd i ragoroldeb trefn Duw, beri i ni oll roddi i fyny ein mympwy ein hun ac ymostwng iddi, fel y gwnaeth Naaman i'r drefn am ei lanhad yntau.

I. Yr oedd trefn Naaman i gael ei lanhau, yn drefn oedd, yn porthi ei falchder,—yn gosod urddas a mawredd arno ef: felly y mae trefn dyn eto: "Wele, mi a feddyliais ynof fy hun, gan ddyfod y deuai efe allan, ac y galwai ar enw yr Arglwydd ei Dduw, ac y gosodai ei law ar y fan, ac yr iachai y gwahânglwyfus." Ond yr oedd trefn Duw yn cuddio balchder yn gwbl oddiwrtho. Ni wnaeth y prophwyd ddim sylw o hono fel gŵr mawr;—ni ddaeth gymaint ag i'r drws i'w weled, ond anfon ei was ato, i hysbysu iddo y cyfarwyddyd. Felly y mae trefn Duw eto. Y mae pawb sydd yma yn meddwl bod yn gadwedig; ac y mae gan bob un ei ffordd i hyny. Y mae y ffyrdd hyn mor amrywiol ag ydyw y personau; ond yn hyn y maent yn cytuno:—y maent oll yn porthi balchder dyn. Ac un dull y mae balchder ysbryd dyn yn ei amlygu ei hun ydyw, mewn disgwyl cael ei achub mewn dull rhwysgfawr, fel yr oedd Naaman yn disgwyl cael ei lanhau. Pa sawl un sydd yn disgwyl i Dduw lefaru wrtho yn y daran,—iddo rwygo y nefoedd, a disgyn i ymgydnabod âg ef? Pa gynifer sydd yn ddiystyr o'r "llef ddistaw fain," am ei bod heb rwysg gydâ hi? Pe buasai hi yn dyfod atynt yn y corwynt,—yn y ddaeargryn,—neu yn y tân, y maent yn meddwl y buasent yn gwrando. Fel Paul a Silas yn Philippi, nid ânt o'r carchar yn ddirgel; y mae yn rhaid iddynt gael eu dwyn allan yn gyhoeddus, fel

ag i dynu sylw pawb. Y mae llawer un yn penderfynu na chymer ê ddim ei achub, os na cha ei achub fel Saul o Tarsus; am mai gŵr balch yw efe, heb ystyried y gwahaniaeth sydd yn yr amgylchiadau. Yr oedd y ffordd yr achubwyd Paul yn wenwyn i'w falchder ef, ond buasai yn ymborth i'n balchder ni. Yr oedd efe wedi ynfydu yn erbyn yr Iesu yn fwy na neb yn ei oes: ni fedrai oddef clywed ei enw heb gablu. Yr oedd yn adnabyddus, trwy y wlad, fel prif elyn Mab Duw; am hyny bu raid iddo ei gyfaddef mor gyhoeddus ag y bu yn ei gablu,—gerbron nefoedd, daear, ac uffern, a hyny ar haner dydd hefyd. Yr oedd gorfodi *Haman* i wisgo am Mordechai, a'i arwain trwy y ddinas, yn ddarostyngiad mawr iddo; er bod miloedd yn Susan a fuasent yn ystyried eu hunain wedi cael testyn i ymffrostio ynddo, pe buasent yn cael eu galw i wneuthur yr un peth ag a wnaeth Haman: felly y buasai galw nefoedd, daear, ac uffern, i dy weled di yn cyfaddef Mab Duw yn ymborth i dy falchder di, er ei fod yn wenwyn i un Saul o Tarsus.

Drachefn, y mae balchder ein calonau yn ei ddangos ei hun, fel yn Naaman, yn ein gwaith yn disgwyl i'r Arglwydd dderbyn rhywbeth o'n heiddo ni yn dâl am y gymwynas. Yr oedd Naaman wedi dyfod at y prophwyd yn llwythog o roddion: yr oedd ganddo ddeg talent o arian, a chwe' mil o aur, a deg pâr o ddillad; ac yr oeddent oll o flaen porth y prophwyd. Yr oedd yn meddwl cael iechyd; ond yr oedd yn bwriadu gwneuthur y prophwyd yn llawn cymaint o ddyledwr iddo ef, ag a fyddai efe i'r prophwyd; oblegid nid oedd am gael yr iechyd heb roddi ei lawn werth am dano, ac felly ryddhau ei hun o fod dan rwymau i neb. Ac yn enwedig, yr oedd bod yn ddyledus i neb o Israel yn hollol wrthwynebol i'w deimlad; oblegid yr oedd wedi bod mewn rhyfel â hwynt amryw weithiau, ac wedi eu gorchfygu; ac nid oedd heddwch hollol rhwng y ddwy wlad yn awr; am hyny, fe benderfynodd y tywysog, wrth gychwyn oddicartref, y deuai yn ol heb fod o dan ddyled iddynt. Y fath ergyd i'w falchder ydoedd, na ddaeth y prophwyd gymaint ag i edrych ar ei wychder; ac er bod ganddo dros bedair mil ar ddeg o bunoedd wedi dyfod gydag ef, eto eu bod mor ddiystyr yn ngolwg y prophwyd, a llaid yr heolydd. O gynifer o honom ninau sydd yn debyg

iddo! Yr ydym yn dyfod at y porth i ymofyn iechyd; ond nid ydym yn dyfod yno heb ein meirch a'n cerbydau, yn llwythog o rywbeth i'w rhoddi yn gyfnewid am dano. Y mae beichiau o gyfiawnderau gan un;—y mae bwrneli o fwriadau da gan un arall;— y mae llonaid costrelau o ddagrau gan y trydydd; ac y mae aml un a fuasai yn caru dyfod at y Prophwyd, ond y maent fel Saul fab Cis, pan oedd ei lanc yn ceisio ganddo ymgynghori â Samuel, gŵr Duw, yn herwydd yr asynod: "Wele, od awn ni heddyw, pa beth a ddygwn i'r gŵr? canys y bara a ddarfu yn ein llestri ni, a gwobr nid oes i'w ddwyn i ŵr Duw: beth sy genym?" Gynifer sydd yn teimlo yr un fath yma! Y maent yn rhy dlodion yn awr i ddyfod, ond y maent yn meddwl elwa rhyw gymaint trwy fyw yn foesol a defosiynol; ac wedi cael gwobr, y maent yn bwriadu dyfod 'â'u cerbydau, ac â'u meirch,' i geisio gwneyd masnach âg ef; ond ni ddaw y Prophwyd ddim cymaint ag i edrych ar eich trysorau. Nid ydyw yn arfer masnachu: rhoddi y mae bob amser. Ac y mae miloedd o'r rhai sydd yn dyfod at ei borth, oblegid hyn, yn myned ymaith yn waglaw: am na fyn Efe ddim o'u cyfiawnder hwy, ni fynant hwythau ddim o'i gyfiawnder Ef. 'Y maent yn ceisio gosod eu cyfiawnder eu hun; felly heb ymostwng i gyfiawnder Duw.' Nid oes yr un adnod yn y Bibl yn fwy croes i galon lygredig na hono: "Trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd; a hyny nid o honoch eich hunain: rhodd Duw ydyw." Ai ni chaf roddi dim am y nefoedd? Na chei ddim: y mae hi yn rhy werthfawr i'w gwerthu, ond nid yn rhy werthfawr i ras ei rhoddi.

Mae yma brawf arall o falchder Naaman, sydd yn arddangosiad o'n hysbryd uchelfrydig ninau, sef ei waith yn myned at frenin Israel â llythyr oddiwrth frenin Syria, gan ddisgwyl i'r brenin orchymyn i Eliseus ddyfod yno a'i iachau ef. Nid oedd y llances wedi yngan yr un gair am y brenin; ond yr oedd ê yn ŵr mor fawr, fel nad oedd yn myned ei hun i chwilio am y prophwyd, ond disgwyliai i'r brenin anfon am dano, a'i orchymyn i gyflawni y gwaith. Digon gweddus a fuasai iddo fyned yn ostyngedig i chwilio pob tŷ yn Samaria am Eliseus; ond yr oedd hyny yn ormod o ddarostyngiad ar y gŵr mawr. Ysbryd Duw sydd yn achub; ac os ydwyf fi i gael fy nglanhau

y mae yn rhaid i'r Arglwydd orchymyn iddo wneuthur hyn i mi: nid wyf fi yn meddwl myned i chwilio llawer am dano. Digon gweddus i ti a fyddai gwneuthur hyny. Yr enw sydd yn y nefoedd, ar y dull y mae miloedd yn proffesu eu bod yn disgwyl wrth Ysbryd Duw ydyw,—"uchder ffroen." Nid ydyw trefn Duw o gadw ddim yn dirmygu dyn, ond y mae hi yn ei ddarostwng;—yn cuddio balchder oddiwrtho, trwy ei wneuthur yn ddim, a llai na dim. Y mae hi nid yn unig yn gwrthod yr eiddo ef; ond y mae hi yn ei wneuthur yn ynfyd yn ei wybodaeth. Y mae yn debyg fod balchder Naaman wedi ei glwyfo yn hyny. Yr oedd y cyngor yn ymddangos fel pe buasai y prophwyd am wneuthur *ffwl* o hono. Fe ddywedir fod dwfr yn niweidiol i'r gwahân-glwyf; ac yr oedd clywed y prophwyd yn cynghori i ymarfer â pheth ag oedd yn ei natur o effaith wahanol i'w iachâd, yn ddigon i beri i'r tywysog dybied ei fod yn ei wawdio,—yn rhoddi sèn iddo. Gymaint sydd yn tramgwyddo wrth yr efengyl, am ei bod yn gwneuthur yn ynfyd eu gwybodaeth. Y mae y pethau y mae hi yn eu cynyg yn feddyginiaeth, yn ol tyb dyn, mor anghymwys i hyny ag ydoedd y dwfr i wellâu y gwahanglwyf; ïe, y maent yn bethau ag sydd yn naturiol yn cynyrchu effeithiau gwrthwyneb: beth a ddisgwylir o dlodi, ond ;—o groes, ond dirmyg;—o angau, ond angau? Ond y mae gogoniant, medd hi, i ddyfod o groes;—bywyd o angau;—cyfoeth o dlodi;—pethau mor annhebyg, ag ydyw iechyd i'r gwahan-glwyfus o ddwfr. Ond nid yn unig yr oedd iechyd i ddyfod o beth annhebyg, yr oedd cysylltu canlyniadau mor fawrion â pheth mor fychan, yn ymddangos yn gwbl afresymol: ymolchi, yn wir, yn glanhau y gwahan-glwyf! na, na, mi wn i yn well am wahan-glwyf na disgwyl peth fel yna. Nid ydyw yn beth mor fychan ag y gwna rhywbeth dysyml fel yna ei svmud i ffordd. "Credu yn cadw!" medd ymddygiadau miloedd; "na, na, nid wyf mor ffol a meddwl peth fel yna. Y peth bychan yma sydd ar fy meddwl yn arwain i fywyd tragywyddol; na, na, yr ydwyf yn deall yn well beth ydyw bywyd tragywyddol, na meddwl peth fel yna." Gwyliwch chwi ddiystyru dydd y pethau bychain, ac i falchder eich deall fod yn ddinystr i chwi. Y mae ucheldrem dyn yn cael ei ddarostwng gan yr efengyl, am fod yn

rhaid iddo ymostwng i gael ei achub yn hollol, ymhob ystyr, gan un arall ;—gan ddoethineb un arall ;— gan gyfoeth un arall ;—gan nerth un arall. Pe cawsai efe gerdded ar bigau o heiyrn am flynyddoedd, i waedu rhyw ychydig i helpio gwaed y groes ;—pe cawsai efe ymprydio ddwywaith yn yr wythnos, i wneuthur rhyw ddarn bychan at ei gyfiawnder Ef ;—pe cawsai efe roddi ei gorff i'w losgi, i helpio haeddiant Calfaria i agor porth y nefoedd, buasai y drefn yn fwy cymeradwy ganddo, am y buasai yn ymborth i'w falchder ; ond y mae yn rhaid iddo newynu yn nhrefn yr efengyl; ni chaiff gymaint a llechu o dan y bwrdd i gael y briwsion : y mae deddf ffydd yn ei gau allan yn gwbl. A ydych chwi yn foddlawn i fod yn ddim, i Dduw fod yn bob peth ? A fedrwch chwi ganu y Salm hono:—" Nid i ni, O Arglwydd, nid i ni, ond i'th enw dy hun dod ogoniant ?" Nid i'n deall ni ;—nid i'n cyfoeth ni ;—nid i'n teilyngdod ni ;—nid i'n gallu ni, &c. Os ydych am gael eich cadw, y mae yn rhaid i chwi ymostwng i rodio gydâ Duw.

II. Yr oedd trefn Naaman i gael iechyd yn un weledig,—yn drefn i'w synwyrau corfforol ; ond yr oedd trefn Duw yn un i ffydd. " Mi a feddyliais ynof fy hun y deuai efe allan ;" hyny yw, yr oeddwn i yn disgwyl y cawswn ei weled yn dodi ei law ar y fan ; a gweled y gwahan-glwyf yn cilio drwy hyny, fel y tywyllwch o flaen y goleuni. Ond, medd yr Arglwydd, " Dos i'r Iorddonen,"—nid oes yno ddim i ti i'w weled : os na chredi di hynyna, heb weled, yn ngafael dy wahan-glwyf y byddi di byth. Felly, y mae dyn eto yn gofyn arwydd : a Duw yn dywedyd, "Cred." Arwydd nis rhoddir i ti : nid oes yma ddim i'w weled.

Y mae ar ddyn eisiau prawf amgen nag a roddodd Duw o wirionedd trefn y cadw ; ac hefyd brawf amgen nag a roddodd o'i pherthynas hi âg ef.

1. Y mae arno eisiau prawf gweledig o'i gwirionedd hi. Yr oedd ar y goludog eisiau i'w bum' brawd gael un oddiwrth y meirw i hysbysu iddynt. Yr oedd Moses a'r prophwydi wedi bod yn ofer iddo ef; ac yr oedd yn ofni mai ofer a fyddent iddynt hwythau hefyd. Ond medd y patriarch Abraham, " Nid oes yr un prawf fel yna i gael ei roddi i neb ; os na chredant, yn ofer y disgwyliant am weled." Fe fu crefydd gynt yn

rhywbeth i'r synwyrau corfforol: yr oedd ei chysegr, ei hebyrth, a'i hoffeiriaid, yn weledig. Gallasai yr Iuddew ddywedyd am yr oll o grefydd mai yr hyn a welodd ac a deimlodd oedd hi. Yr oedd tân Sinai wedi rhoddi argraff ar ei feddwl, mai un bwysig oedd y ddeddf: yr oedd y cwmwl oedd yn gorphwys ar y Tabernacl wedi rhoddi argraff ar ei feddwl, mai sancteiddrwydd a weddai i'r tŷ byth. Ond nid gweledig mo honi yn awr. Os aroswch chwi heb barchu y ddeddf sydd yn yr ugeinfed o Exodus, hyd nes y cewch chwi weled rhyw fynydd yn llosgi, i brofi fod mawredd ynddi, chwi aroswch hyd ddydd eich marwolaeth. Os aroswch chwi heb geisio y Mab bychan, hyd nes y gweloch ryw seren yn yr wybren, i brofi ei fod wedi ei eni, ni cheisiwch chwi byth mo hono. Os na chyfaddefwch chwi ef yn Fab Duw, hyd nes y cewch chwi, fel y canwriad, weled y beddau yn agor, a'r creigiau yn hollti, ni chyfaddefwch chwi mo hono felly yn nydd gras. Y mae yr haul, y lleuad, y sêr, a'r holl elfenau, wedi gwneuthur cymaint ag a wnant. Fe âd Sinai rhyngot ti a'r ddeddf;—fe âd y sêr rhyngoch chwi a'r Mab bychan;—y mae y creigiau yn myned i adael bellach rhyngoch chwi a chyfaddef Mab Duw. Ni wna natur ddim mwy nag y mae hi wedi ei wneuthur i dori y ddadl. Caiff y meirw orphwys yn eu beddau, hyd ganiad yr udgorn: caiff yr haul redeg ei yrfa bellach, hyd oni orpheno fel gwas cyflog ei ddiwrnod, heb sefyll am foment i wneuthur arwydd i neb o wirionedd y Llyfr. Chwi ellwch ameu yr addewid, os disgwyl yr ydych i'r greadigaeth ddwyn tystiolaeth iddi. Y mae pob peth hon i aros bellach fel yr oeddent o'r dechreuad. Ni rwygir y nefoedd eto;—ni ddaw yr un llais oddiyno i dystio, "Hwn yw fy anwyl Fab." Y mae y Bibl yn dywedyd hyny; ac ofer y disgwyliem ei glywed yn un man arall. Ni ddaw y Prophwyd ddim i'r golwg i ni mwy nag i Naaman. Fe gafodd Naaman sicrwydd gweledig, teimladwy, o wirionedd y cyngor cyn myned adref; ond bu raid iddo weithredu ffydd i gyraedd hwnw; ac y mae pawb, fel yntau, a weithreda ar y cyntaf yn sicr o gyraedd yr ail. Fe gaiff y dystiolaeth ynddo ei hun, i gadarnhau tystiolaeth y Bibl.

2. Ond y mae ar ddyn eisiau prawf amgen nag a roddodd Duw, o berthynas y drefn âg ef. Nid yn y fan yma yr oedd

Naaman yn tramgwyddo. Yr oedd efe yn credu mai iddo ef yr oedd y cyngor: ameu ei wirionedd yr oedd efe; ond nid eisiau prawf arall o'i wirionedd sydd arnom ni, ond eisiau prawf amgen nag a roddodd Duw o'i berthynas â ni. Pe buasai llawer o wahan-gleifion o flaen porth Eliseus, a'r genad yn dyfod i'w plith, ac yn dywedyd, Ewch i'r Iorddonen, ac ymolchwch; neu, Pwy bynag a ymolcho yn nyfroedd yr Iorddonen, iach a fydd, onid afresymol iawn a fuasai gweled aml un o honynt yn myned i ameu, ac i ddywedyd, "Ai myfi ydyw?" neu, "Y mae arnaf ofn mai nid i mi y mae y cyngor; ac nid âf fi ddim nes cael sicrwydd ychwanegol ar hyn yma. Y mae y prophwyd yn gwybod enwau y rhai sydd i gael eu glanhau: pe cawn i glywed y rhai hyny, i wybod a ydyw fy enw i yn eu plith: os ydyw, mi a awn ac a ymolchwn." Cyffelyb i hynyna ydyw ymddygiadau llawer o honom ninau; ond nid ydyw yr Arglwydd yn ymostwng i roddi prawf fel yna i neb. Y mae yn y Bibl ddigon i ffydd, ond nid i ddim arall. Y mae "yr hwn a ddêl, nis bwriaf ef allan ddim:" "*Pob un* a alwo ar enw yr Arglwydd, a fydd cadwedig:" "Yr hwn sydd yn ewyllysio, Deued:" "Trowch eich wynebau ataf fi, holl gyrau y ddaear, fel y'ch achuber:" y mae geiriau o'r fath yna yn ddigon i ffydd. Nid oes ar ffydd eisiau dim ond y Bibl; nag eisiau y Bibl yn ddim ond yr hyn ydyw. A lle nad ydyw y Bibl yn ddigon, ni fyddai dim arall yn ddigon. Os ydyw Moses a'r prophwydi yn aneffeithiol, ni fyddai un oddiwrth y meirw o ddim llesâd. Nid yw yn eglur iawn fod neb yn cael eu hargyhoeddi gan wyrthiau yr Arglwydd Iesu, ond y rhai hyny oeddent wedi eu hargyhoeddi eisoes gan eu heisiau; i'r rhai hyny yr oedd y gwyrthiau yn eglurhâd ar ei ogoniant Ef, ond nid i neb arall. "Y neb y mae ganddo, y rhoddir iddo." Yr oedd yr Iuddewon yn dywedyd, os disgynai Iesu Grist oddiar y groes, y credent iddo; ond pan y cododd o'r bedd, yr hyn oedd yn fwy peth na disgyn oddiar y groes, ei wrthod yr oeddent fel o'r blaen. Os nad ydyw "pwy bynag a ddêl" yn ddigon i beri i chwi gredu fod i chwi groesaw, ni fyddai cenad o'r byd arall ddim yn ddigon i hyny. Os nad ydyw "yr hwn sydd yn ewyllysio, cymered o ddwfr y bywyd yn rhad," yn ddigon i beri i chwi gredu fod i chwi groesaw, ni fuasai anfon atoch chwi wrth eich enwau ddim yn ddigon. Y

mae genym esiampl Ysgrythyrol i brofi hyn. Fe wahoddwyd rhyw gynifer i'r swper mawr wrth eu henwau; ond darfu iddynt oll yn unfryd ymesgusodi: fe anfonwyd gwahoddiad cyffredinol allan eilwaith i'r prif-ffyrdd a'r caeau, heb enwi neb; ond er nad oeddent wedi eu henwi, ni feddyliodd yr un o honynt am beidio dyfod. Oddiwrth y ffeithiau hyn, ni a welwn, pwy bynag sydd yn gofyn mwy o sicrwydd nag y mae y Bibl yn ei roddi, pe cai Efe hyny, ni byddai yn ddigon iddo. Nid oes gan Dduw yr un drefn i achub y *di*-ffydd; ond y mae y drefn yn sicr o gadw y *gwanaf* ei ffydd. Ac er mwyn y gweiniaid, gellir sylwi yma, mai nid maint y ffydd sydd yn diogelu bywyd; y mae cysur y bywyd yn ymddibynu ar hyny, ond nid ei ddiogelwch. Nid oedd gan Naaman ond ychydig iawn o ffydd yn nghyngor y prophwyd: yr oedd hi yn rhy wan o lawer i gredu yr iacheid ef: yr oedd yn fwy priodol ei galw hi yn anghrediniaeth nag yn ffydd; ond yr oedd yn peri iddo ymarfer â'r cyfarwyddyd, er mai o dan ameu, ac felly fe atebodd y diben iddo. Y mae miloedd ar y ddaear heddyw, nad ydynt yn gallu credu yn gadarn y cedwir hwynt; ond y mae yna rywbeth yn eu mynwes yn peri iddynt ymwneyd bob dydd â threfn y cadw, er mai dan ameu a etyb hi ei diben iddynt hwy. Nid ydynt yn gallu credu y deuant yn iach; ond y maent yn credu digon, i beri iddynt ymolchi bob dydd yn yr Iorddonen, a chyn sicred a'u bod yn gwneuthur hyny, fe'u gwelir ryw ddydd yn gwbl lân.

III. Yr oedd trefn Naaman i gael iechyd yn un ddyrus iawn: gymaint o ranau oedd ynddi;—dyfod allan,—sefyll,—galw ar enw ei Dduw,—gosod ei law, neu daro ei law, ar y fan,—iachau y gwahan-glwyfus. Ond yr oedd trefn Duw yn syml dros ben:—"Dos ac ymolch saith waith yn yr Iorddonen; a'th gnawd a ddychwel i ti, a thi a lanheir." Mor syml,—mor unplyg ydyw, o'i chymharu â'r llall! Felly y mae y ddwy drefn eto. Y mae dyryswch trefn dyn i'w weled yn y crefyddau y mae efe wedi eu llunio iddo ei hun. Y fath beirianwaith dyrus sydd yn perthyn iddynt: pererindodau,—ymprydiau,—gweddiau, — ystumiau corfforol, — penydiau corfforol, — a'r pethau hyn i'w hymarfer ar amserau penodol, a methu awr yn peryglu hapusrwydd yr addolwr. Onid oes llawer o ddarnau yn y

peiriant yn gofyn cof cryf i'w cofio, heb sôn am eu hymarfer oll. Ac y mae pob dirywiad ar grefydd yn ei ddangos ei hun mewn ychwanegu rhyw seremoniau i'w gwneuthur yn fwy dyrus. Y mae yn rhaid i'r offeiriad Pabaidd, fe ddywedir, wneuthur 330 o wahanol ystumiau ar ei gorff, wrth fyned trwy wasanaeth yr offeren bob tro. Ac y mae cynllun dyn ynghylch y dull y mae trefn Duw i ateb ei diben iddo ef yn un dyrus iawn. Nid oes yma neb, mwy nag yr oedd Naaman, yn ceisio ei wellau ei hun; ond, fel yntau, yr ydych wedi tynu y cynllun, pa fodd y mae y prophwyd i'ch gwellâu. Y mae yn rhaid i'r peth hwn ddigwydd yn gyntaf; ac yna beth arall; ac yna rywbeth drachefn. Y mae eich trefn chwi fel olwynion Ezeciel, yn olwyn mewn olwyn; ond y mae trefn Duw yn unplyg a syml:—"Dos i'r Iorddonen, ac ymolch." Y mae symlrwydd yn nôd ar holl weithredoedd Duw, a dyryswch ar weithredoedd dyn. Edrychwch ar drefn dyn i oleuo un o'r trefydd mawrion yna; mor ddyrus gymalog ydyw y drefn i hyny: tân mawr mewn un cwr;—pibellau i gario y nwy (*gas*) i bob man;—dynion i reoleiddio a goleuo hwnw; ac wedi yr holl drafferth, nid ydyw ond haner goleu, ac y mae yn anmhuro yr awyr wrth ei goleuo hi. Ond y mae y Duw anfeidrol yn cadw ei lamp fawr i oleuo heb ddim trafferth, heb eisiau ei thrwsio hi un amser, ac nid ydyw hyn ond un o'i dibenion hi. Y mae meddyginiaeth yn yr esgyll, a gwres yn y goleuni. Ac un rheswm paham y mae dynion heb ganfod llawer o weithredoedd Duw ydyw, am eu bod yn disgwyl eu cael fel eu gwaith hwy eu hunain. Fe fu y doethion am ganoedd o flynyddoedd yn ceisio deall trefn y rhod, ond yn ofer. Yr oedd eu gwaith hwy yn disgwyl canfod rhyw ddyryswch, a chywreinrwydd, yn eu hatal i weled y ddeddf syml sydd yn cadw yr holl fydoedd i droi, ar yr un pryd ag y mae hi yn cadw y gwlithyn i grogi wrth y glaswelltyn. Am yr un rheswm y mae y drefn i fod yn gadwedig yn guddiedig oddiwrth ddoethion y ddaear: y maent hwy yn chwilio am gywreinrwydd, pan nad oes dim yna ond symlrwydd. Ië, yn y drefn i fod yn gadwedig, y mae y Duw sydd â symlrwydd yn nôd ar ei holl weithredoedd, wedi rhagori arno ei Hun, trwy ei gwneuthur yn fwy syml na'r un o honynt. Y mae symlrwydd y drefn yn gynwysedig mewn tri pheth:—

1. Y mae ei phob peth hi i'w cael yn yr un fan;—2. I'w cael trwy un peth;—3. A'r un peth hwnw o fewn cyraedd pawb. 1. Y mae ei chwbl hi yn yr un man. Y mae pethau y bywyd naturiol, er eu bod yn syml, wedi eu gwasgaru i lawer lle; ac y mae yn rhaid cael amryw bethau i gyd-gyfarfod tuag at ei gynal. Y mae yn rhaid cael yr awyr yn bur,—yr ymborth yn iach,—y dillad yn glyd,—yr hîn yn dymherus; ond y mae pob peth bywyd tragywyddol yn yr un un, sef yn ei Fab Ef. Yn lle myned i lawer lle, fel gydâ phethau y ddaear, i chwilio am un peth, ni a gawn fyned i un man i ymofyn pob peth. Yr oedd yn fantais fawr i'r Aiphtiaid gael yr holl ŷd o dan lywodraeth yr un un: gwyddent felly pa le i droi; ond ŷd yn unig oedd gan Joseph; ond "rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo Ef." Pa le y caf gyfiawnder i guddio fy mherson euog? Ynddo Ef. Pa le y caf sancteiddrwydd i buro fy natur aflan? Ynddo Ef. Pa le y caf waed i dawelu fy nghydwybod derfysglyd? Ynddo Ef. Pa le y caf hawddgarwch i fy nghalon ymserchu ynddo? Ynddo Ef. Pa le y caf ryfeddodau i fy neall addoli uwch eu pen? Ynddo Ef. Pob cyflawnder! "Na ddos i faes arall."

2. Y mae yr holl gyflawnder yn dyfod i feddiant pechadur trwy un peth, sef credu. Nid oedd y sarff bres yn gwneuthur dim ond rhoddi iechyd;—y manna yn gwneuthur dim ond yn cynnal. Gallasai dyn edrych ar y sarff, a chael ei wellâu, a marw wed'yn cyn pen yr wythnos, os na chai y manna; ond y mae credu yn ateb i bob peth. Fe sugna rinwedd o hono i iachau dy wendid di;— fe'i try yn fara y bywyd i dy gynal di;—fe'i gwna yn wisg i guddio dy noethni di. Y mae Efe wedi ei wneuthur gan Dduw yn bob peth ar gyfer pechadur; ac y mae credu yn dadgloi yr ystordai oll, i ddwyn y pob peth i feddiant pechadur. Nid gweddio sydd yn cadw;—nid elusenau sydd yn cadw;—nid byw yn foesol sydd yn cadw;—nid edifarhau sydd yn cadw; ond credu yn y Mab. Y mae y pethau hyn yn angenrheidiol i grefydd, ond nid ydynt yn angenrheidiol i'ch cymhwyso i ddyfod at Fab Duw; a dim ond dyfod ato, y mae yn haws eu cyflawni hwynt na pheidio. Y mae edrych ar ei glwyfau yn peri i un wylo o'i fodd edifeirwch pur. Y mae gweled yr Iesu yn marw dros bechod yn peri i'r dyn yn

naturiol ddarfod âg ef. Ac y mae digon ynddo ar gyfer y pechaduriaid gwaethaf fedd y byd. Pa mor ddu bynag y cymeriad, pa mor ddwfn bynag yr aflendid, pa mor drwm bynag yr euogrwydd, y mae digon ynddo ar eich cyfer ; ac fe wna defnydd o hono ef eich gwneyd yn greaduriaid newydd byth ; ac nid oes dim arall a effeithia hyny. Iawn y dywedodd y bardd :—

> "Mae'r ffynon yn agored, dewch edifeiriol rai ;
> Dewch chwithau yr un ffunud sy'n methu edifarhau :
> Dewch gafodd galon newydd, dewch chwithau na chadd 'r un,
> I olchi 'ch aflan feiau yn haeddiant Mab y dyn."

Yr oedd yr Iuddewon yn dilyn deddf cyfiawnder, ond heb ei chyraedd hi o hyd, tra yr oedd y cenhedloedd, oedd heb ei dilyn, wedi ei chyraedd hi trwy ffydd. Cyrhaeddwch chwithau yr holl rinweddau Cristionogol yn yr un dull, sef trwy ffydd : y mae yr oll yn dyfod trwy gredu.

3. Mae yr un peth sydd yn cadw o fewn cvraedd pawb. Gallasai fod yr un peth heb fod yn nghyraedd neb. Fe dybid gynt fod rhywbeth yn y greadigaeth a dröai bob metel yn aur; ond er i filoedd chwilio am dano, ni lwyddodd neb i'w gael. Y mae pethau eraill, er nad oes ond un peth yn angenrheidiol i'w cyraedd, nid yw yr un peth hwnw ddim yn gyrhaeddadwy ond i ryw ddosbarth penodol. Y mae awyr ynys ar dueddau Affrica yn feddyginiaeth i'r darfodedigaeth ; ond y mae y draul i fyned yno, a byw yno, mor fawr, fel nad oes neb ond cyfoethogion yn well erddi. Yr oedd gwobrau rhagorol ar Olympus gynt ; ond yr heinyf—y medrus—yn unig a allasai obeithio eu henill. Y mae teitlau anrhydeddus i'w cael yn y prif ysgolion ; ond y doethion a'r deallus yn unig sydd yn eu cael. Ond y mae yr un peth sydd yn cadw o fewn cyraedd pob dosbarth. Nid oes neb mor dlawd, fel y byddai raid iddo anobeithio am y cyfoeth : nid oes neb mor ffol, na all efe gael y teitl : ni ddylai y gwanaf ddim anobeithio am y wobr, oblegid nid i'r hwn sydd yn gweithio y mae hi, ond i'r hwn sydd yn credu. Yr oedd cyngor y prophwyd i Naaman yn unig : gallasai pob gwahanglwyfus ei wneuthur. Pe buasai yn dywedyd wrtho beth mawr, fe allasai Naaman wneuthur hwnw hefyd, oblegid yr oedd efe yn ŵr mawr, ond cyngor i wahan-glwyfus oedd y cyngor, nid i

ŵr mawr. Trefn i achub pechadur ydyw trefn Duw: nid i achub y doeth; nid i achub y cyfoethog; ond i achub pechadur. Yr oedd cymwynasau Mab Duw pan ar y ddaear o fewn cyraedd pawb, oblegid yr oedd yr un peth, oedd yn amod eu rhoddi, yn gyrhaeddadwy i bawb: y cwestiwn bob amser oedd, "A wyt ti yn credu?" neu, "Os gelli di gredu." Fe allasai Jairus wneuthur llawer o bethau, na allasai Bartimëus mo'u cyflawni; yr oedd y naill yn bendefig, a'r llall yn gardotyn; ond yr oedd yr hyn oedd yn sugno rhinwedd o Fab Duw yr un mor hawdd i Bartimëus ei gyflawni ag i Jairus, sef credu ynddo. Y mae pawb sydd yn ei adwaen yn ymddiried ynddo. Wel, nid wyf fi ddim yn ei adwaen: y mae fy neall i mor bwl fel na fedraf wybod dim am dano. Y mae amod bywyd yn dy ymyl dithau: dyma dystiolaeth un sydd yn ei adwaen; a thystiolaeth dynion yr ydych yn ei derbyn, ond y mae tystiolaeth Duw yn fwy, ac y mae efe yn dywedyd:—"Hwn yw fy anwyl Fab, gwrandewch Ef;" a phen y llwybr i'w adwaen, ydyw ymddiried ynddo. Yr oedd llawer un heb wybod nemawr am y Meddyg, nes iddo ddechreu cymeryd physigwriaeth ganddo: fe gredodd dystiolaeth un arall am dano i ddechreu; ond wrth ymwneyd âg Ef, daeth i'w adwaen, fel nad oedd raid iddo i neb dystiolaethu am dano. Pe cymerech chwithau dystiolaeth Duw am ei Fab, nid hir y byddech heb y dystiolaeth ynoch eich hunain.

IV. Yr oedd trefn Naaman yn un i'w gadw ef ei hun yn ddiwaith; a threfn Duw yn un oedd yn galw arno weithio:—"Mi a feddyliais ynof fy hun," meddai Naaman; ond "Dos, ac ymolch yn yr Iorddonen," medd Duw. Felly mae y ddwy drefn eto. Y mae y pechadur yn falch ac yn ddiog; ond fe ysgydwa ymaith ei ddiogi, os bydd hyny yn rhywbeth i borthi ei falchder; ond lle na bydd gwaith yn ymborth i'w hunan ddrwg, nid oes ganddo ddim blas arno. Fe weithia lawer i enill nefoedd; ond ni weithia efe ddim i'w derbyn hi. Os ydyw i gael ei achub trwy ras, y mae yn rhaid iddo gael ei achub heb drafferth; ond os ydyw i drafferthu, y mae yn disgwyl cael y nef am hyny. Y mae naill ai yn Antinomian neu yn Pharisead; ond y mae trefn Duw gymaint yn erbyn diogi ysbrydol ag ydyw hi yn erbyn balchder ysbrydol. Y mae hi yn gofyn nid yn unig i ni ymwadu â ni ein hunain, yr hyn

sydd yn myned yn erbyn ein balchder, ond i godi y groes, yr hyn sydd yn myned yn erbyn ein diogi ni. Pan yr wyt yn myned i weithio am y nefoedd, "Saf," medd Duw, "ac edrych ar iachadwriaeth yr Arglwydd." Pan yr wyt yn myned i ddisgwyl yn ddiog, "Bydd ddiwyd," medd yr Arglwydd, "i wneuthur dy alwedigaeth a'th etholedigaeth yn sicr." Pan y mae dy falchder yn dy demtio i weithio am y wobr, y mae yr Arglwydd yn dywedyd, mai i'r hwn nid yw yn gweithio y mae hi yn cael ei chyfrif. Pan y mae dy ddiogi yn peri i ti ddywedyd, "Pwy a wrthwynebodd ei ewyllys Ef," y mae yr Arglwydd yn dywedyd, "Ymdrecha am fyned i mewn trwy y porth cyfyng." Yr oedd Israel gynt yn sefyll o ran ysbryd eu meddwl, lle yr oedd Duw yn dywedyd, "Ewch." Yr oeddent yn rhuthro i fyned eilwaith, lle yr oedd Duw yn dywedyd, "Sefwch." Felly dyn eto. Y mae cyd-gyfarfyddiad prydferth o bethau croes i'w gilydd yn nhrefn Duw. Nid yw ei graslonrwydd hi ddim yn cau allan waith, na'i gweithredoedd hi ddim yn cymylu gras. Bydd y saint yn derbyn y nefoedd o ras, ac yn cael eu gwobrwyo ynddi am eu gweithredoedd. Nid oes yr un olwg ar y drefn yn y Bibl, yn dangos ei bod hi wedi ei bwriadu i ddyn balch: na'r un olwg arni yn dangos, ei bod hi yn tycio i'r dilafur ychwaith. Y mae hi i'r tlawd: dyfroedd ydyw hi; ond nid i'r diog: y mae yn rhaid myned iddynt. Y mae gobaith i'r annheilwng am y deyrnas; oblegid rhyngodd bodd i'r Tad ei rhoddi hi i rai bychain; ond nid oes obaith i'r diog; oblegid treiswyr sydd yn ei chipio hi. Nid oes dim ond un o ddau beth a'n rhwystra ni i'r nefoedd; naill ai balchder ai diogi; naill ai bod yn rhy falch i gael ein hachub trwy ras, neu yn rhy ddiog i gloddio am y peth. Yr oedd gwas yr un dalent yn y ddameg yn teimlo yn ddiau fod ei feistr wedi ei sarhau, trwy ymddiried dim ond un iddo; ond yr oedd nid yn unig yn falch, ond hefyd yn ddiog. "Tydi, was drwg a diog." Nid oedd yn hoffi y drafferth o farchnata. Gymaint sydd yn debyg iddo! Ni wnant yr hyn a allant o eisiau bod yn abl i wneuthur mwy na hyny. Ni bydd raid i ti ddim rhoddi cyfrif am yr hyn na elli; ond bydd genyt gyfrif sobr i'w roddi am yr hyn ni fyni. Nid am nad oedd ganddo bum' talent y cosbwyd y gwas, ond o eisiau marchata â'r un oedd ganddo. Y mae

llwyddiant dyni gael pethau y byd hwn yn ymddibynu ar ei fedr yn eu ceisio; ond y mae pethau trefn iachawdwriaeth i'w cael, nid trwy eu ceisio yn fedrus, ond trwy eu ceisio fel y gelli di. Y mae llawer un yn ceisio mor ddilun, fel nad yw yn deilwng o'i alw yn geisio,—ymbalfalu ydyw; ond y mae ymbalfalu yn llwyddo am y nefoedd, er mai lled aflwyddianus a fyddai gydâ golwg ar bethau y ddaear. Nid cloddio yn gelfydd iawn, a sicrhâ y trysor i chwi; na, cloddio yn drwstan, fel y galli di, ond gofalu ei fod yn y maes.

Beth a dybiwch chwi am y ddwy drefn? Ai nid ydyw y ddadl wedi ei thori yn eich meddwl, mai trefn Duw a'i piau hi o ddigon? Ond os oes yna yr un amheuaeth yn eu cylch yn eich meddwl eto, cofiwch y ddau beth yma am danynt.

Y mae trefn Duw yn cadw: ni wna eich trefn chwi mo hyny. Nid oes iachawdwriaeth mewn un arall. Os gall yr Iorddonen fod yn ddiystyr yn eich golwg, y mae hi yn gwellâu y gwahanglwyf: ni wna Abana a Pharpar mo hyny. Y mae y drefn yn myned â phechadur i'r nefoedd: os ydyw hi yn darostwng, darostwng i godi y mae hi. Os ydyw hi yn peri i ti rodio wrth ffydd, a thithau eisiau gweled, nid ydyw ond rhoddi cysgod dros dy lygaid am ychydig, iddynt ddyfod yn ddigon cryfion i ddal goleuni gorseddfainc Duw. Os ydyw hi yn rhy syml genyt, a thithau yn ymofyn cywreinrwydd; doethineb mewn dirgelwch ydyw hi, yn aros i ti ddyfod yn berffaith, hi ddengys ei chywreinrwydd i ti wed'yn. Os ydyw hi yn galw arnat i weithio, y mae hyny fel y caet ti orphwys ar ol hyn. Y mae hi yn cymeryd pechadur i'r nefoedd.

2. A pheth arall, y mae hi yn ei wneuthur yn gyfryw ag y bydd y nefoedd yn fangre hapus iddo. Pe buasai eich trefn chwi yn eich cymeryd i'r nefoedd, nid nefoedd a fuasai hi i chwi. Pe cawsit ti fyned yno yn greadur balch, uchelfrydig, buasai cenfigen yn bwyta dy ysbryd, oblegid y mae yno gymaint o rai mwy na thi: buasai cenfigen wrth eu mawredd hwynt, yn gwneuthur uffern yn dy fynwes di yn nghanol y nefoedd. Pe buasit ti yn cael myned yno yn greadur diog heb weithio, buasai y wlad yn orthrymder tost i ti, oblegid nid oes yno neb ond gweithwyr. Teml ydyw hi: y mae yr holl drigolion yn offeiriaid; ac nid gwasanaethu ar gylch y maent,—na, y maent

wrthi yn ddiball. Nid yw yr wyl byth yn diweddu yno: nid yw y tân byth yn diffodd ar yr allor yno. Tôn gron ydyw yr anthem yno: fe'i clybu Ioan hi unwaith; yr oedd y dyrfa fawr yn dywedyd, "Aleliwia: iachawdwriaeth, a gogoniant, ac anrhydedd, a gallu, i'r Arglwydd ein Duw ni;" ac erbyn iddo wrandaw, yr oedd hi yn dechreu drachefn; "ac eilwaith y dywedasant, Aleliwia." Ond y mae trefn Duw yn dy ddwyn di i ddysgu y gwaith yn raddol yma, fel y byddi di mor fedrus arno, ag y gelli di ei gyflawni dan orphwys yno.

O na chawn i lwyddo i'ch perswadio i roddi prawf ar y drefn, fel y llwyddodd gweision Naaman gydâg ef. Os metha hi, cei droi at Abana a Pharpar wed'yn.

[Gorphenaf 29, 1853.]

# PREGETH LII.

## SICRWYDD CADWEDIGAETH ER EI HANHAWSDERAU.

ESAIAH xlix. 24, 25:—"A ddygir y caffaeliad oddiar y cadarn? neu a waredir y rhai a garcher'r yn gyfiawn? Ond fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, ïe, carcharorion y cadarn a ddygir, ac anrhaith y creulawn a ddianc: canys myfi a ymrysonaf â'th ymrysonydd, a myfi a achubaf dy feibion."

Y MAE prophwydoliaethau Esaiah yn gyffredin yn cael eu dosbarthu i ddwy ran: o'r dechreu hyd y ddeugeinfed benod yn cynwys rhagfynegiad am y dinystr a oddiweddai y genedl am ei beiau, ynghyd â chrybwylliad achlysurol am ddinystr cenhedloedd eraill; a: o'r ddeugeinfed i'r diwedd, cynwysir addewidion mawr a gwerthfawr am adferiad o'r dinystr hwnw, ac am lwyddiant anghyffredin oedd i ddilyn hyny. Yn niwedd y dosbarth cyntaf y mae caethiwed Babilon yn cael ei ragfynegi; ac yn yr ail ddosbarth, y mae y waredigaeth oddiyno yn cael ei chyhoeddi, ynghyd â'r mawredd a ddeuai i'r genedl ar ol hyny. Y mae yr addewidion hyn i'w deall yn eu hystyr eangaf, nid fel yn perthyn i genedl Israel yn unig, ond i'r eglwys yn gyffredinol. Wedi addaw pethau mawrion i Israel o'r blaen, y mae yn y benod hon yn myned dros y terfyngylch, ac yn mynegi dychweliad y cenhedloedd. Y mae hyn yn cael ei addaw yn gyntaf i Grist fel gwobr (adn. 6), ac wedi hyny i'r eglwys fel rhodd (adn. 18). Neu, feallai mai mwy priodol fyddai ystyried Crist a'i eglwys ond yn un, fel y pen a'r corff, ac felly cymhwyso yr holl addewidion at y naill a'r llall. Y mae dychweliad y cenhedloedd yn cael ei ddangos trwy amryw gymhariaethau, megis gollyngdod o garchar,--dychweliad praidd dan arweiniad bugail gofalus—neu fyddin o filwyr yn dyfod adref (adn. 12). Y mae yr addewidion hyn mor fawrion

nes y mae Sïon yn eu hanghredu (adn. 14). Y mae yr wrthddadl yn yr adnod yna yn sylfaenedig ar amheuaeth sydd yn ei meddwl o gariad Duw tuag ati. Ond wedi cael sicrwydd ynghylch hyny, y mae hi yn y testyn yn ameu ei allu: "A ddygir y caffaeliad oddiar y cadarn? neu a waredir y rhai a garcherir yn gyfiawn?" Ond y mae yr wrthddadl hon hefyd yn cael ei symud. Y mae ganddo ddigon o gariad, a digon o allu; am hyny fe gyflawnir ei eiriau yn eu hamser. Edrych yr oedd yr eglwys arni ei hun, ac ar rym y gwrthwynebwr: yr oedd hi wedi ei gadael yn unig; yr oedd y rhai oeddent i ddyfod ati yn gaffaeliaid yn llaw y cadarn; am hyny y dywed, Pa fodd y bydd hyn i mi? ond gollwng dros gof yr ydoedd mai Duw oedd yn llefaru, meddyliau a ffyrdd yr Hwn sydd yn uwch na'n meddyliau a'n ffyrdd ni.

Y mae cyfeiriad cyntaf y testyn at anhawsderau, ac annhebygolrwydd, gwaredigaeth Israel o Babilon; ond gellir eu defnyddio fel amlygiad o annhebygolrwydd achubiaeth pechadur. Y mae y Bibl yn hynod yn hyn, ei fod, tra yn dal gobaith iachawdwriaeth o flaen y byd, yn datguddio yr holl anhawsderau sydd ar ffordd hyny. Y mae yn dal allan obaith gwaredigaeth; ond i hyny, nid yw yn codi pechadur nac yn darostwg Duw; nid ydyw yn taflu mantell dros bechod, nac ychwaith yn esbonio ymaith fanylrwydd y ddeddf. Y mae yn dangos y naill yn unig yn ddrygionus, a'r llall yn berffaith sanctaidd. Y mae y ddeddf yn cael ei gosod allan heb ddim trugaredd, a dyn heb ddim i dalu. I ddangos ar y naill law gyflwr dyn, dywedir ei fod wedi pallu ymhob pwnc o'r ddeddf;—fod mor anhawdd iddo ymadael â'i ffyrdd drygionus, ag a fyddai i'r llewpard newid ei frychni, neu yr Ethiop ei groen: ïe, i ddangos perffeithrwydd ei drueni, dywedir ei fod yn farw mewn camweddau a phechodau. I ddangos, ar y llaw arall, beth sydd iddo fel y cyfryw i'w ddisgwyl oddiwrth Dduw, dywedir ei fod ef yn lanach ei olygon nag y gall edrych ar ddrwg;—na ddieuoga Efe yr anwir;—mai y peth sydd ffiaidd yn ei olwg ydyw pechod; —a bod "yn haws i'r nef a'r ddaear fyned heibio nag i un iod nac un tipyn o'r gyfraith fyned heibio, hyd oni chwblhaer oll." Y mae dosbarth arall o wirioneddau yn y Bibl, sef y rhai hyny sydd yn mynegi ffordd y waredigaeth; ond y dosbarth cyntaf

y mae Ysbryd Duw yn ei ddefnyddio i barotoi pechadur i wneyd defnydd o'r ail: annhebygolrwydd achubiaeth sydd yn ei ddwyn i werthfawrogi ei phosibilrwydd hi; ac nid oes dim yn fwy dinystriol i ddyn na meddwl fod iachawdwriaeth ei enaid yn beth hawdd,—yn beth a ellir ei ddwyn oddiamgylch unrhyw bryd, a'i sicrhau mewn byr amser. Y mae ymddygiadau y rhai hyny sydd yn ei hoedi hyd ryw amser dyfodol, yn profi mai hyn ydyw eu barn, os nad addefant hyn mewn geiriau. Pan y mae goleuni Ysbryd Duw yn llewyrchu ar y meddwl, nid dangos y mae fod iachawdwriaeth yn beth hawdd, ond yn beth annhebyg, os nad anmhosibl. Iaith y rhai sydd o dan ei ddylanwadau ydyw, "Ha wŷr frodyr, beth a wnawn ni?" "Pa beth a wnaf?" "Pa fodd y cyfiawnheir dyn?" "A pha beth y deuaf gerbron yr Arglwydd?" Ac y mae meddwl ei bod yn hawdd yn ein harwain i gamsynied am danom ein hunain, ac am yr holl drefn. Yr amcan mawr mewn golwg wrth ddysgrifio anhawsder bod yn gadwedig ydyw, nid peri i ni anobeithio, ond yn hytrach ein dwyn ni i deimlo mawredd y peth; oblegid hyny ydyw y cam cyntaf tuag at ddyfod i'w afael. Nid oes gwell arwydd y gwelir dyn yn rhodio y ffordd gul, na'i weled yn teimlo fod y porth sydd yn arwain iddi yn gyfyng. Cedwch yn eich meddwl yr hyn a ddywed y Bibl am anhawsder ac annhebygolrwydd bod yn gadwedig. Ei eiriau ar hyn ydynt, "fod llawer wedi eu galw, ac ychydig wedi eu dewis;"—"y ceisia llawer fyned i mewn, ac nis gallant;"—"y bydd plant y deyrnas yn cael eu bwrw allan i'r tywyllwch eithaf." Y mae tuedd mewn ystyriaethau fel hyn i'ch dwyn i lefain allan, "Arglwydd, cadw ni, canys darfu am danom;" ac ni ddaeth y llef yna erioed o galon neb, heb i hwnw fod yn y fan yn gadwedig gan yr Arglwydd. Fel hyn y bu gydâ'r waredigaeth o Babilon: caethgludwyd hwynt yno, am iddynt roddi eu hyder mewn braich o gnawd, yn lle yn Nuw. Gwaredwyd hwynt oddiyno, am iddynt, oddiar weled fod y peth yn anmhosibl gydâ dynion, ymroddi i ymofyn â'r Arglwydd, 'am wneuthur o hono hyn iddynt.'

Yr hyn a ddaw o dan ein sylw am ychydig ydyw, annhebygolrwydd a thebygolrwydd achubiaeth; a'n hamcan wrth sôn am yr annhebygolrwydd fydd, nid peri i chwi anobeithio, ond eich

cau chwi i fyny i edrych i'r unig fan y mae hyny yn debyg. Y mae adnod gyntaf y testyn yn cynwys y mater cyntaf, sef yr annhebygolrwydd; a'r ail, yn cynwys y llall, sef y tebygolrwydd.

I. Y mae y rhan gyntaf o'r testyn yn dangos fod achubiaeth pechadur yn annhebyg iawn:—"A ddygir y caffaeliad oddiar y cadarn? neu a waredir y rhai a garcherir yn gyfiawn?" Pe cymerid hyn yn ei ystyr eangaf, gallem ddywedyd,—

1. Fod achubiaeth pechadur yn ymddangos yn beth annhebyg o du Duw. I olwg pob creadur, yr oedd pob peth Duw yn erbyn hyny;—nid oedd dim yn ei natur, can belled ag y gallasai creadur ei deall hi, yn gwneuthur yn debyg y cymerai hyn le. Nid oedd dim yn ei eiriau yn sail i ddisgwyl hyny; nid oedd dim yn ei ymddygiadau blaenorol yn ffafriol i ddyn ddisgwyl dianc, ac nid oedd dim yn ei amgylchiadau ef yn sail i ddisgwyl yr ymddygai y Brenin tragywyddol yn wahanol tuag ato ef, i'r modd y gwnaethai at angel syrthiedig. Pe buasai Jehofah yn gofyn i un o'r angylion cedyrn o nerth, ar ol cwymp Adda, a gedwid ef, diau y buasai yn enwi pethau cyffelyb i'r rhai a enwyd yn awr, i ddangos fod hyny yn annhebyg; ac y buasai gydâ'r gwylder sydd yn perthyn i greadur perffaith, yn dywedyd, "Ti, Arglwydd, a wyddost." A chyn sylwi yn uniongyrchol ar yr annhebygolrwydd y sonia y testyn am dano, ni a edrychwn ar yr annhebygolrwydd am achubiaeth oedd unwaith o du Duw; oblegid, er bod hwnw wedi ei symud yn awr drwy aberth Crist, y mae pob pechadur sydd mewn pryder ynghylch ei gyflwr, yn ei deimlo mor wirioneddol ag y teimlodd Adda ef, cyn i drefn iachawdwriaeth gael ei datguddio. Ond cyn datguddio y drefn, neu i Adda pan bechodd,—

(1.) Yr oedd achubiaeth yn annhebyg, wrth edrych ar natur Duw. Nid oedd ond gweithredoedd y greadigaeth yn hysbysu pa fath ydoedd hono. Anweledig oedd ei phob peth hi, ond i'r graddau y gellid eu darlleu yn y pethau a wnaed; a chan belled ag yr oedd y rhai hyny yn eu datguddio, nid ydoedd yn debyg yr achubai: yn hytrach yr oedd y tebyg yn erbyn hyny. Os achubid ef, yr oedd hyny i ddyfod, can belled ag y gallasai creadur weled, naill ai o ddiffyg purdeb i gasâu ei fai,—neu o ddiffyg cyfiawnder i ymddwyn tuag ato yn ol ei haeddiant,—

neu o ddiffyg gallu i weinyddu arno y gosb,—neu, ynte, o fawredd ei ddaioni yn peri iddo edrych dros yr holl bethau hyn. Ond nid oedd drws gobaith yn agor iddo yn yr un o'r cyfeiriadau yna. Eglur ydyw nas gallasai ddisgwyl llawer oddiwrth ddaioni Duw, oblegid yr oedd efe wedi anghredu y daioni hwnw, pan oedd y nefoedd a'r ddaear yn ei gyhoeddi,—y greadigaeth fywydol a difywyd hefyd yn dwyn tystiolaeth iddo; pan oedd i'w weled yn ngoleuni yr haul,—i'w deimlo yn awel y dydd,—i'w ddarllen yn nedwyddwch y greadigaeth ddireswm, ac yn mhrydferthwch y lysieuol a'r ddifywyd. Os oedd wedi ei ameu pan yn berffaith, nid tebyg yw y gallasai ddisgwyl llawer wrtho wedi syrthio. Ac nid oedd edrych ar allu Duw yn rhoddi amgen lle iddo obeithio; oblegid pa faint bynag o le oedd iddo i ameu mawredd daioni, nid oedd cysgod lle iddo ameu mawredd gallu. Yr oedd edrych ond unwaith ar weithredoedd Duw yn ddigon er peri iddo deimlo fod pob peth yn bosibl iddo;—bod y fraich a wnaeth gymaint yn Hollalluog, a'r galon a gynyrchodd bethau mor fawr yn ddiderfyn. Ac os oedd y byd allanol yn profi nad oedd achubiaeth i'w ddisgwyl oddiwrth ddaioni a gallu Duw, yr oedd y byd tumewnol yn profi nad oedd hyny i'w ddisgwyl ychwaith oddiwrth ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd. Iaith y rhai hyn ydoedd, Nid oes obaith Yr oedd gwaith Adda yn ffoi ac yn ymguddio yn profi ei fod yn teimlo ei fod yn Dduw pur a chyfiawn, oblegid nid oes ar neb ofn purdeb ond yr aflan;—nid oes ar neb gywilydd gerbron cyfiawnder ond yr euog. Can belled ag y gallasai pechadur farnu oddiwrth natur Duw, yr oedd achubiaeth yn annhebyg iawn.

(2.) Yr oedd ei eiriau hefyd yn gwneuthur hyny yn annhebyg. Pe na buasai wedi dywedyd gair, yr oedd yr hyn a allasai dyn ei gasglu oddiwrth ei natur bron yn rhoddi sicrwydd i'w feddwl na ddiangai: ond i atal pob disgwyliad am hyny, yr oedd y gair yn myned yn erbyn ei fywyd:—"Gan farw y byddi farw." A pha gysur bynag a allasai dyn ei dynu oddiwrth yr amlygiadau o ddaioni a welsai o'i amgylch, yr oedd cofio y gair yna yn chwerwi yr oll. Os na newidiodd creadigaeth ei gwedd y foment y pechodd dyn, yr oedd trwst y gair hwn yn ei glustiau yn gwneuthur peroriaeth daioni Duw yn gnul ei farwolaeth ef Yr oedd efe yn edrych ar y cwbl fel y condemniedig: os oeddent

yn deg, nid oedd tegwch eu gwedd ond yn chwerwi y meddwl ei fod ef wedi fforffetio ei hawl i'w mwynhau.

(3.) A rhag iddo feddwl ei fod ddim yn wahanol mewn ymddygiad, i'r hyn yr oedd ei natur a'i eiriau yn ei ddangos, yr oedd ei waith yn rhwymo mewn cadwynau o dywyllwch, yr angylion y rhai ni chadwasent eu dechreuad, yn ddigon i roddi sicrwydd na ddywedodd Efe ddim na chyflawnai,—na lefarodd Efe ddim na chaiff ei gywiro. Tywysogion, penaduriaid ei deyrnas, oedd yr angylion, a phe buasai yn arbed rhyw rai, rhesymol ydoedd meddwl mai angylion fuasai y rhai hyny. Yr oedd Benhadad yn disgwyl arbediad, am ei fod wedi clywed fod y brenin yr oedd efe yn rhyfela yn ei erbyn, yn arfer arbed; ond nid oedd sail fel hyn gan ddyn i ddisgwyl arbediad: yn hytrach, hyd y gwyddai efe am yr orsedd, gorsedd ydoedd yn arfer dilyn gwrthryfel gydâ manylrwydd deddf:—"Yr enaid a becho, hwnw fydd marw."

(4.) Ac nid oedd dim yn ei amgylchiadau ef yn sail iddo i ddisgwyl y gwnelid ef yn eithriad i reol gyffredin y deyrnas: yn hytrach, yr oedd edrych yn ddifrifol ar ei wrthryfel, yn creu rhyw ddisgwyl ofnadwy am farnedigaeth yn ei fynwes. Yr ydoedd wedi dirmygu daioni mawr, ac anghredu Duw ynghylch un mwy;—wedi beiddio gallu;—dirmygu cyfiawnder; a gwneuthur Duw y gwirionedd yn gelwyddog. Angau oedd yn syllu yn ei wyneb, pa le bynag y troai; yr oedd "Gan farw y byddi farw," yn cael ei adsain i'w glustiau gan bob peth. Ac er bod iawn Iesu Grist wedi symud ymaith yr annhebygolrwydd hwn, fel nad oes yn awr ddim yn natur Duw,—dim yn ei eiriau,—dim yn yr hyn a wnaeth i eraill,—na dim yn ein haeddiant ninau, yn gwneuthur ein hachubiaeth yn anmhosibl, eto pan oleuir y meddwl gan Ysbryd Duw, y mae pechadur yn teimlo y pethau hyn mor wirioneddol ag yr oedd Adda yn eu teimlo, cyn i'r drefn gael ei datguddio. Y mae y pethau y byddwn yn edrych arnynt, yn cymeryd eu lliw i ni, oddiwrth agwedd a thôn ein meddwl ni: os byddwn yn mawr ofni rhywbeth, yr ydym yn sicr o ganfod hwnw, os bydd i'w weled; ac os na bydd, y mae ein dychymyg yn ei greu. Y mae ein hofnau ni yn gwneuthur y peth mor fawr, fel y mae yn cuddio peth arall, oedd gerllaw iddo, a ddylasai fod yn sylfaen gobaith ini;

felly, pan y mae pechadur argyhoeddedig yn edrych ar natur Duw, y mae ei ofn ef yn gwneuthur tanbeidrwydd ei sancteiddrwydd mor ddisglaer, nes y mae yn ei atal i weled y gras sydd yno;—perffeithrwydd y cyfiawnder mor fawr, nes cuddio y drugaredd sydd yno. Y mae yr olwg ar nerth y fraich i gosbi, yn ei rwystro i weled ei bod hi yn gadarn i iachau; fel, pan y mae gerbron Duw, teimlad gwŷr Bethsemes ydyw ei deimlad,—"Pwy a ddichon sefyll yn wyneb yr Arglwydd Dduw sanctaidd hwn;" ac iaith Manoah ydyw ei iaith, "Gwelais Dduw, a byddaf farw!" Y mae yn edrych ar eiriau Duw; ond y mae y ddeddf yno yn ei atal i weled yr efengyl;—mwg a thân Sinai yn cuddio Sïon oddiwrtho;—y bygythion yn myned rhyngddo â'r addewidion: fel y mae y lleuad, weithiau, yn myned rhwng y ddaear a'r haul, ac yn peri diffyg arno. Pan yn edrych ar ffyrdd Duw, dinystr yr hen fyd y mae efe yn ei ganfod yn y diluw, ac nid achubiaeth Noah a'i deulu;—dymchweliad yr anwiriaid y mae efe yn ganfod yn ninasoedd y gwastadedd, ac nid gwaredigaeth Lot gyfiawn;—barn Duw ar y Babiloniaid y mae efe yn ei weled yn ngwaith Cyrus yn gorchfygu y ddinas, ac nid ei drugaredd at hâd Abraham. Cwblhâd o'r gair, "Yr enaid a becho, hwnw a fydd marw," y mae efe yn ei weled yn nifrod y Canaaneaid, ac nid cyflawniad o'r addewid a sicrhawyd trwy lŵ i Abraham, Isaac, a Jacob. Ac os edrych efe ar ei amgylchiadau ei hun, ni wêl ddim a rydd sail iddo ddisgwyl y bydd efe yn eithriad. Pe buasai wedi bod mor foesol a Paul, y mae yn awr yn teimlo ei hun yn benaf o bechaduriaid: am hyny rhoddi ei hun gydâ'r hen fyd y bydd ef, ac nid gydâ Noah;—rhestru ei hun gydâ'r deunaw a laddwyd gan syrthiad y tŵr y mae, ac nid gydâ'r ddinas a arbedwyd. Y mae yn gweled gwell sail gan bawb i ddisgwyl achubiaeth nag sy ganddo ef. I'r pechadur sydd wedi ei oleuo, y mae caracter Duw a'i ymddygiadau yn ymddangos yn gyffelyb i'r modd y mae y tir yn ymddangos i'r rhai sydd bell oddiwrtho ar y môr,—y mae yn edrych yn ddu ac yn beryglus; ond y pellder sydd yn peri hyny,—pan y deuir hyd ato, gwelir yno ddyffrynoedd heulog, a golygfeydd prydferth. Yr hyn a dybid draw yn graig ddiffrwyth beryglus, yma yn cael ei chanfod yn wlad frâs ddeniadol ei gwedd; felly, pan droir llygad meddwl euog i syllu yn gyntaf ar Dduw, y mae

yr olwg arno yn ofnadwy,—mynyddoedd cedyrn o gyfiawnder, creigiau arswydlawn o sancteiddrwydd! y mae yr euog, wrth deimlo ei hun yn cael ei gario gan ryw ddylanwad anwrthwynebol yn nes-nes ato, yn ofni y bydd i'w lestr fyned yn ddrylliau ar y rhai hyn; ond erbyn dyfod gerllaw, fe wêl yno gilfach a glân iddi;—y mae y llestr yn myned yn ddiogel i hono, ac y mae y creigiau a ofnodd a fuasent yn angau iddo, yn lle hyny yn troi yn gysgod iddo. "Daionus yw yr Arglwydd:" dyna y gilfach y diangodd iddi; "amddiffynfa yn nydd blinder:"—dyna y mynyddoedd o gyfiawnder,—y creigiau o nerth,—yr ofnodd efe gymaint arnynt, yn troi yn ddiogelwch iddo. Y mae yr hyn oedd yn ddychrynllyd yn y pellder, yn toddi i gariad yn ymyl;—yr hyn oedd yn llanw y meddwl â rhyw ddisgwyl ofnadwy am farnedigaeth *oddidraw*, yn ei lanw â llawenydd annhraethadwy *yma*, erbyn ei adwaen yn iawn. Y teimladau hyn a'u cyffelyb sydd yn mynwes pechadur, wrth edrych ar gadwedigaeth yn ei berthynas â Duw. Er nad ydyw pawb a gedwir yn teimlo y pe hau hyn i'r un graddau, eto y maent oll yn teimlo rhyw fesur o amheuaeth am allu neu ewyllys Duw. Y mae yr "*os gelli*," neu yr "*os myni*," yn peri iddynt deimlo fod eu cadwedigaeth yn annhebyg.

Ond wedi symud ymaith yr anhawsderau o du Duw, y mae cadwedigaeth yn annhebyg wrth edrych ar ddyn:—

1. Y mae dynion yn gaffaeliad yn llaw un cadarn, sef "yn meddiant y diafol." Y mae deall pa fodd y mae diafol yn meddianu y byd, ac yn dylanwadu arno tuhwnt i'n gallu ni; ond y mae yn rhaid i ni gredu posibilrwydd ei ddylanwad, neu wadu posibilrwydd dylanwad Ysbryd Duw. Er fod natur y dylanwad yn guddiedig oddiwrthym, y mae y Bibl yn profi i sicrwydd ei wirionedd; ac feallai fod ei waith yn cael ei adael i feddianu cymaint o gyrff dynion, yn nyddiau yr Arglwydd Iesu, wedi ei fwriadu yn arddangosiad gweledig, o'r meddiant gwastadol sydd ganddo ar eneidiau. Ac y mae yr enwau sydd arno yn y Bibl, yn rhoddi cipolwg i ni ar y dylanwad sy ganddo. Gelwir ef yn "dywysog y byd hwn," ac yn "dduw y byd hwn," i ddangos cyffredinolrwydd ei ddylanwad. Gelwir ef yn "dywysog llywodraeth yr awyr," i ddangos y manteision sy ganddo i gadw ei lywodraeth ar y byd. Gelwir ef yn "dywysog y tywyllwch," i

ddangos y nerth sydd yn ei lywodraeth ; dywedir ei fod fel cryf arfog yn cadw yr hyn sy ganddo mewn heddwch, i brofi ei fod yn llwyddianus yn y gwaith. Nid annhebyg ydyw i frenin Babilon, yn llaw yr hwn yr oedd y caethion y cyfeiria y testyn yn llythyrenol atynt. Yr hyn oedd yn gwneuthur hwnw yn gadarn oedd, yr holl bethau ag oeddent ganddo at ei alwad, ynghyd âg ystâd y caethion eu hunain. Felly yma, y mae ystâd y caethion, a'r hyn sydd at alwad y cadarn, yn peri fod ei lywodraeth mewn gwirionedd yn gref. Y mae ei filwyr yn aneirif: "diafol a'i angylion." Ac nid anhawdd ydyw i ni gredu eu bod yn amlach na holl drigolion y byd, pan y darllenwn fod lleng o honynt yn meddiann un dyn. Dywedir ei fod "yn twyllo yr holl fyd," a'i fod yn "ysbryd sydd yn gweithio yn mhlant anufudd-dod." Y mae nerth ei lywodraeth hefyd, yn natur ddirgelaidd y dylanwad sy ganddo; a'r eglurhad goreu a gawn ar hwnw ydyw temtiad yr Arglwydd Iesu. Gallesid meddwl nad oedd y diafol, ar y cyntaf, yn gofyn dim oedd yn afresymol ganddo. Y peth cyntaf a ofynodd oedd, ceisio ganddo dori ei angen personol, ond gorchfygodd yr Arglwydd Iesu y demtasiwn yna, trwy ddangos ei fod yn ymddiried i drefn Duw. Cymerodd y temtiwr fantais ar hyny: "Gan dy fod yn ymddiried i Dduw, bwrw dy hun i lawr oddiyma i brofi dy ymddiried." Fel angel y goleuni yr ymosododd arno yn y demtasiwn gyntaf a'r ail; ond yn y drydedd y mae yn dyfod i'r golwg yn ei garacter ei hun, sef angel y tywyllwch; a hyny yn y fath fodd ag i wirio un o'i enwau,—twyllwr, sef addaw daioni mawr iawn, am wneuthur drwg bychan iawn. Yn gyffelyb i hyn y mae yn ymddwyn at y byd eto; gweithio ei demtasiynau i leoedd nad ydym ni ddim yn meddwl am danynt. Ymdrechu am ei fara beunyddiol y mae un: y mae yn methu cael hamdden i feddwl am bethau Duw, nac i ymarfer â'i ordinhadau, gan mor ryderus ydyw i gyflawni y ddyledswydd o ddarparu dros ei deulu. Beth yw hynyna? Y fagl y mae y cadarn hwn yn dal y dyn ynddi, i'w ddinystrio byth bythoedd. Ymddiried yn Nuw, yn ol ei dyb ef, y mae y llall, i ddwyn o amgylch achubiaeth ei enaid: y mae yn bwrw ei hun i lawr o binacl rhyfyg, gan ddisgwyl bod yn gadwedig, am fod gan Dduw drefn i hyny, heb sylwi dim fod gan Dduw ei ffordd hefyd, ac mai cadw yn y

llwybrau y mae. Beth yw hyn? Magl y cadarn, i gadw dyn yn llonydd hyd ddydd y lladdedigaeth. Y mae y trydydd yn cyflawni yr hyn y mae efe yn ei deimlo sydd bechod; ond y mae yn bechod mor fychan; ac y mae yr hyn y mae efe yn ei gyraedd trwy hyny yn ddaioni mor fawr; ac wedi cyraedd hwnw, y mae yn meddwl gwneuthur iawn am y drwg bychan. Ond nid yw hwn ond un o'r ffyrdd sydd gan y cadarn, i gadw yr hyn sy ganddo mewn heddwch: ei ddichellion ef ydynt oll.

Y mae rhywbeth arswydlawn yn y meddwl ein bod ni yn meddiant un fel hyn,—un a wŷr i fanylrwydd am dueddiadau meddwl pob un o honom. Y mae ganddo fyrdd o lwybrau i ddylanwadu arnom ni. Y mae yn trefnu pethau mor gyfrwys, fel, wrth gyflawni ein hewyllys ein hun, mai cyflawni ei ewyllys ef y byddwn. Y mae un blaid yn perthyn i Eglwys Rhufain, pan gynygio rhywun ei hun yn aelod ynddi, y maent yn trefnu rhyw hen aelod medrus, i fod gydâg ef y dydd, i sylwi ar ei holl ymddiddanion; ac i'w wylied y nos, i geisio casglu oddiwrth ystumiau y corff, hyd yn nod pan yn cysgu, beth yw gweithrediadau y meddwl; a thrwy ymddiddanion y dydd, a'i freuddwydion y nos, y maent yn dyfod i'w adwaen yn berffaith; i ddeall holl dueddiadau ei feddwl; ac felly i ganfod y lle y mae yn gymwys iddo; a thrwy ei roddi yn hwnw, nid yw yn teimlo ei hun mewn caethiwed, er nad oes neb yn fwy caethwas ar wyneb y ddaear. Os bydd yn ddyn penboeth, yn caru hynodrwydd, y maent yn ei anfon yn genhadwr i'r byd paganaidd: os uchelgais a mawredd bydol sydd yn ei olwg, y maent yn ei gyfleu mewn sefyllfa fanteisiol i ymwthio i gyngor brenhinoedd: os dysg a gwybodaeth sydd yn ei swyno, y mae ganddynt le cymwys iddo i hyn hefyd. Fel hyn y maent yn sicrhau ffyddlondeb pob math, ïe, y mae y rhai mwyaf croes i'w gilydd yn cytuno mewn cyflawni yr un ewyllys; ac yn hyn y mae cuddiad eu cryfder hwynt. Ond nid yw hyn ond cysgod gwanaidd o guddiad cryfder y cadarn hwn. Y mae ganddo yntau ei angylion, i'n gwylio ymhob man;—fe wŷr am agweddiad meddwl pob un o honom. Ei faes yw y byd. Y mae ganddo ei le priodol i ni ar y maes. Fel y mae Ysbryd Duw yn gweithio yn y saint trwy'r Gair, felly y mae yntau yn gweithio trwy'r byd, yn mhlant anufudd-dod. A thrwy osod pob un yn y fan

hono sydd yn cydweddu oreu â thueddiadau ei feddwl, y mae yr hyn sy ganddo mewn heddwch. "Chwant y cnawd, chwant y llygaid, a balchder y bywyd;" dolenau yn y gadwyn, sydd yn rhwymo y carcharorion, ydyw y rhai hyn. Onid ydyw dygiad y caffaeliad oddiar y cadarn hwn yn annhebyg iawn? Heb son am y rhanau hyny o'r ddaear lle y mae yn cael ei addoli megis Duw, mewn eilun o ryw enw; naill ai Mammon, duw yr aur; ai Bacchus, duw y chwant; neu Mars, duw y nwydau drwg: y mae hyn wedi myned heibio yn ein gwlad ni. Fel y mae addoliad Duw yn fwy ysbrydol yn awr na chynt, felly y mae yr awr wedi dyfod ar addoliad y diafol yntau, pryd nad ydys yn ei addoli mewn lleoedd penodol. Nid oes teml na ffurf yn perthyn iddo yn awr; ond er hyny ni bu dynion erioed yn fwy llwyr a hollol yn ei law. A rhag i oleuni yr efengyl wneuthur tywyllwch ei deyrnas ef yn deimladwy i'r deiliaid, y mae yn dallu eu meddyliau,—yn cipio ymaith y gair o'r galon,—rhag iddynt gredu a bod yn gadwedig. Y mae rhai o Unol Daleithiau America yn cadw caethion eto;* y mae eraill yno, gydag i'r caeth sangu arnynt, y mae yn ŵr rhydd; ond y mae trigolion y taleithiau caeth yn gwneuthur eu goreu i gadw gwybodaeth am y taleithiau rhydd oddiwrth y caethion, ac yn enwedig, er pob peth, eu cadw hwynt rhag myned yno. Ac os cânt fyned yno, gydâ'u meistr y bydd hyny; ac os dealli fod rhywun yno yn sibrwd rhywbeth wrthynt am ryddid, a bod rhyw awydd ynddynt hwythau am dano, y mae y meistr yn ddioedi yn prysuro i'w cymeryd dros y terfyn, i'r dalaeth gaeth yn ol. Onid fel hyn y mae hi mewn ystyr ysbrydol? Taleithiau caeth ydyw holl daleithiau y ddaear. Y mae cadwyn caethwas am bob un o'r trigolion. Ond y mae yma un dalaeth rydd: y mae pawb ynddi wedi eu rhyddhau gan y Mab; ond y mae meistr y caethion yn gwneuthur ei oreu, i'w hatal i wybod dim am hono. O! gymaint sydd o'r taleithiau caeth heb glywed dim am dani erioed! Ac er bod y dalaeth rydd gerllaw i ni, y mae yma filoedd o gaethion, y mae y cadarn yn gofalu

* Traddodwyd y bregeth hon yn 1850. Y mae pethau wedi newid yn ddirfawr, yn yr America, ar ol hyny. Y mae caethiwed yn awr wedi ei ddiddymu yn hollol; a'r Unol Daleithiau fel Prydain, o'r naill gŵr i'r llall, yn Wlad Rydd.—GOL.

ra chânt fyned o fewn ei therfynau, ond gydâ'u meistr; ac os dealla fod rhywbeth a glywant yn codi hiraeth ynddynt am ryddid, y mae efe yn ddioedi yn eu prysuro yn ol i'r dalaeth gaeth,—"yn cipio y gair o'r galon, rhag iddynt gredu, a bod yn gadwedig." Onid ydyw achubiaeth yn annhebyg, pan y cofiwn eu bod yn llaw y cadarn hwn?

2. Y mae eu hachubiaeth drachefn yn ymddangos yn annhebyg, yn gymaint a'u bod yn garcharorion cyfreithlawn. Nid oes gan Satan, ymhob ystyr, hawl ar neb; ond y mae ganddo yr un hawl ar y ddynoliaeth ag oedd gan frenin Babilon ar Israel, pan yr oedd yr Arglwydd wedi eu rhoddi yn ei law, oblegid eu hanffyddlondeb i'w Duw. Felly y mae y natur ddynol wedi ei rhoddi yn llaw y diafol, fel rhan o gosb pechod. Yn yr ystyr hwn y maent yn garcharorion cyfreithlawn: hefyd am eu bod wedi rhoddi eu hunain i fyny i'w law, fel y caethwas yn Israel gynt, a rwymai ei hun, trwy gael tyllu ei glust wrth y ddôr, ar flwyddyn y gollyngdod. Pa groesau bynag a'i cyfarfyddai rhagllaw, nid oedd ganddo neb ond ei hun i'w feio; oblegid yr oedd wedi gwneuthur ei hun yn gaethwas cyfreithlawn tra y byddai byw. Felly yr ydym ninau, o du Duw, yn garcharorion cyfreithlawn, ac o'n tu ein hunain hefyd felly. Y mae Satan yn teimlo cyfreithlondeb y meddiant; oblegid os ceisia y carcharorion ysgwyd ymaith yr iau, dywed wrthynt, fel y dywedodd Senacherib wrth Hezeciah, Nid wyf yn gwneuthur dim ond cyflawni ewyllys Duw: yr wyf newydd gaethgludo Israel am bechu; ac a wyt ti yn tybied mai heb yr Arglwydd y daethum i fyny yn dy erbyn di? ac ymhwy yr wyt yn ymddiried, i wrthryfela yn fy erbyn? Os ydwyt mor ynfyd a meddwl ymddiried yn yr Arglwydd, edrych ar y sail sy genyt i hyny: onid Efe yw yr Hwn y pechaist yn ei erbyn?—y toraist ei gyfreithiau? Ymdawela, gan hyny, yn y gwasanaeth;—yr ydwyt yn garcharor cyfreithlawn. Neu, os daw rhywun, fel yr aeth Moses y waith gyntaf at Israel, i geisio perswadio y carcharorion eu hunain i ddianc, y mae y derbyniad y maent yn ei roddi iddo yn profi eu bod yn garcharorion cyfreithlawn,—yn rhai annheilwng o ryddid. "Pwy a'th osododd di yn farnwr?" Y maent fel yr Iuddewon hyny, trwy eu gwaith yn gwrthod bywyd tragywyddol, yn profi eu bod yn annheilwng o

hono. Nid eich bod, ddynion anwyl, yn meddiant y cadarn, ydyw y peth mwyaf anobeithiol yn eich cylch; ond eich bod chwi yno yn wirfoddol. Ni fynwch chwi ddim o'ch gwaredu. Y mae yn wir fod y cadarn yn eich arwain wrth ei ewyllys; ond peth sydd yn llawer trymach na hynyna ydyw, bod eich ymddygiadau chwi yn adsain y geiriau, "Gwneler dy ewyllys." —"A waredir y rhai a garcharwyd yn gyfiawn?" A ydyw yn beth tebyg?

3. Y mae yr holl lafur a gymerir, a hwnw yn myned yn ofer i waredu y carcharorion, yn profi fod eu hachubiaeth yn annhebyg iawn Nid awn i son am y myrdd llwybrau y mae dynion wedi ceisio bod yn achubwyr iddynt eu hunain. Yr oedd pob un yr oedd ychydig mwy o rym yn ei feddwl na'r cyffredin, fel y Simon hwnw, yn dywedyd ei fod yntau yn rhyw un, ac yn twyllo llawer, fel y mae yr holl gau grefyddau sydd yn y byd, yr holl wahanol gyfundraethau o "philosophi a gwâg dwyll," y mae dynion yn rhoddi eu coel arnynt yn profi fod cymaint a hyny, a mwy, o au-ddiwygwyr, gau brophwydi, a gau Gristiau wedi bod. Methu yr oedd pawb: collwyd ein gobaith o'n rhan ni. Ond, edrychwn ar yr ymdrechiadau a wneir, gydâ'r drefn o ddwyfol apwyntiad i waredu; y mae hyd yn nod edrych ar lwyddiant, neu yn hytrach aflwyddiant, hon, yn profi fod achubiaeth neu waredigaeth o law y cadarn yn beth annhebyg iawn. Pa faint o'r byd y mae hi wedi ei ddarostwng mewn enw, mewn deunaw can' mlynedd? Pa le y mae y genedl, ïe, pa le y mae y cwm, neu y pentref, sydd wedi ei feddianu yn llwyr ganddi? Trwy oddefiad y mae hi hyd yn hyn yn y byd, fel y Gibeoniaid yn ngwlad Israel. Y mae hi fel canwyll mewn awyr afiach, bron cael ei diffodd er ceisio llewyrchu. Nid yw y tywyllwch ddim yn ei hamgyffred. Nid yw hyny o lwyddiant sydd wedi bod arni hyd yn hyn, ond peth dros amser, megis nant yn llifo ar ol gwlaw, gan sychu bron yn y fan, ac nid afon bob amser yn llawn dwfr. Y mae hi wedi ei phlanu yn bren bywyd mewn aml wlad, i'r trigolion ddefnyddio y dail i'w hiachau. Ond hyd yn hyn y mae y pren yn gwywo yn fuan, fel pe na fyddai yn dygymod â hinsawdd y wlad. Yn y gwledydd lle y mae y ffurf o honi yn bod, y mae hwnw yn rhy debyg i *mummy* yr Aipht, wedi ei gadw ar ol i'r enaid ei adael. Y mae yr afon oedd yn

afon bywyd o ran ei henw a'i natur hefyd, er's tri chan' mlynedd yn ol, wedi ei chymysgu a'i halogi i'r fath raddau, fel, er ei bod o dan yr un enw, y mae ei dyfroedd yn wenwyn enaid yn awr. Y mae hi yn deyrnas wedi ymranu yn ei herbyn ei hun: y mae hyd yn nod ei henw hi yn foddion i gadw ymaith ei hysbryd. Ond deuwn yn nes, edrychwn ar gylch ein cydnabyddiaeth ein hun: lle y mae yr efengyl yn ei phurdeb o ran athrawiaeth yn cael ei chyhoeddi, gydâ'r dalent a'r deheurwydd mwyaf,—holl gyngor Duw yn cael ei amlygu, heb gymaint ag un o'r pethau buddiol yn cael ei atal;—cyflwr dyn yn cael ei ddangos yn ngoleuni y cysegr;—y tô yn cael ei godi oddiar ddistryw, i ddiwedd ffyrdd pechod ddyfod i'r amlwg;—tân Sinai yn llewyrchu mor danbaid, nes y gellir darllen yn ei oleuni felldithion mynydd Ebal. Neu, o'r ochr arall, y mae Duw wedi ei ddangos fel Duw y cariad;—ei orsedd yn orsedd gras;—sefydlogrwydd y cariad yn cael ei ddangos yn ei fod yn un tragywyddol, a'i faint yn cael ei esbonio gan iawn y groes. Nid oes dim yn ofnadwy nac yn ddymunol, nad ydyw wedi ei ddwyn yn gymhelliad i adael y gwasanaeth. Os oes rhywbeth i'w ofni mewn cadwyn,—rhywbeth i'w arswydo mewn tywyllwch eithaf,—os oes rhywbeth yn ddymunol mewn coron, rhywbeth yn swynol mewn gorsedd a theyrnwialen;—os yw bod yn blant diafol yn beth i ddychrynu rhagddo,—os ydyw bod yn feibion i Dduw yn beth i ymestyn ato,—os yw treulio tragywyddoldeb mewn trueni nad all iaith ei ddisgrifio,—neu mewn llawenydd sydd yn annhraethadwy i dafod o bridd, yn bethau teilwng o ystyriaeth,—y mae yr holl bethau hyn wedi eu mynegi i chwi. Gosodwyd ger eich bron fywyd ac angau. Ac nid oes yr un wrthddadl yn erbyn trefn yr efengyl, wedi codi yn eich mynwes, nad ydyw wedi ei hateb drachefn a thrachefn. Atebwyd yr wrthddadl yn erbyn ei chyffredinolrwydd hi â'r geiriau hyny:—"Trowch eich wynebau ataf fi holl gyrau y ddaear, fel eich achuber." Atebwyd yr wrthddadl nad oeddech gymwys â'r adnod hono:—"Trwy râs yr ydych yn gadwedig." A phan oeddech yn gwrthddadleu eilwaith fod rhyw neillduolrwydd yn eich amgylchiad chwi, atebwyd hynyna â'r geiriau hyny:—"Pwy bynag a ddêl." Y mae y drefn yn gariad, wedi cymeryd y ffurf o drugaredd, fel nad rhaid i deimlad

o drueni eich cadw draw. Y mae hi yn drugaredd yn dwyn delw cyfiawnder, fel nad all cydwybod wedi ei goleuo gael ynddi ddim diffyg. Y mae hi yn râs, wedi ei ddwyn moragos atom, fel na raid i neb fod heb ei hymgeledd hi, fel y claf wrth lyn Bethesda, am nad oedd ganddo un i'w gynorthwyo; oblegid y mae hi yn cynyg ei hymgeledd i bawb ar y llanerch lle y mae efe.

Rhaid y bydd pawb yn ei derbyn hi pan gyhoedda hi jubili mewn gwlad;—y mae yr holl gaffaeliaid yn cael eu dwyn oddiar y cadarn, a'r holl garcharorion yn cael eu gwaredu? O! nac ydynt. Cyhoedder hi gan Paul i philosophyddion y byd; ymresymed hi mor fedrus fel na all y cywreiniaf o honynt weled gwall;—yr effaith fydd ei ddirmygu, a throi ymaith gan ddywedyd,—"Beth a fynai y siaradwr hwn ei ddywedyd?" Pregether hi gerbron Ffelix, gydâ brwdfrydedd enaid mawr, yn teimlo i'r byw ei gwirioneddau hi; gwir y dychryna y rhaglaw, ond effaith y dychryn a fydd, peri iddo ymadael â'r pregethwr, ac nid ymadael â'i bechod. Cyhoedder hi gan Fab Duw ei Hun, ei lwyddiant yntau fydd cael dynion i hoffi gwrandaw ei eiriau, a hoffi er hyny byw heb eu gwneuthur hwynt; neu, os gwna Efe argraff ddwysach, penderfynu plygu y maent mewn amser dyfodol, wedi claddu eu tad. Pe bedyddid ei disgyblion hi â'r Ysbryd Glân ac â thân, y mae eraill, fel ar ddydd y Pentecost, yn gwawdio, gan ddywedyd, "Llawn o win melus ydynt." Dyged Duw dystiolaeth uniongyrchol iddynt, fel i Stephan, y mae yno rai, er gweled y wyneb yn disgleirio, yn ddigon caled i'w labyddio. Neu, os na wneir dim yn erbyn, ïe, er bod â'u cyngor a'u cyfarwyddyd yn barod i wneuthuur pob cymwynas i'r disgyblion, fel Hobab i'r Israeliaid;—pe rhoddech chwi Moses, un o ddoethion y ddaear, i geisio ganddynt adael eu hen wlad, eu hateb fydd, "nid af ddim." Neu, os deuant am ychydig gydâ'r gwersyll, credu dros amser a wnant. Y maent yn hiraethu eilwaith am yr Aipht, ac iddi y maent yn dychwelyd. "A ddygir y caffaeliad oddiar y cadarn?" Na wneir, oblegid "yr hyn a fu a fydd." Pe buasai yr areithyddiaeth mwyaf ardderchog yn gallu eu dwyn oddiyno, ni fuasai yr un carcharor i'w gael yn y wlad. Pe buasai yr ymresymu mwyaf cywrain yn llwyddianus i hyn, ni fuasent heddyw yn ei

feddiant. A phe buasai yr un faint o ymdrech wedi ei gymeryd i ddwyn o amgylch unrhyw beth arall, buasai wedi ei hen gyflawni. Pe buasai y ddegfed ran o'r dalent wedi ei defnyddio i ddywedyd am America, ag sydd wedi ei defnyddio i ddywedyd am y nefoedd, buasai canoedd mwy o Gymry yno heddyw nag sydd. Ni chymerwyd dim o'r filfed ran o'r drafferth i ddangos echryslonrwydd caethiwed India y Gorllewin, ag a gymerwyd i ddangos echryslonrwydd caethiwed pechod. Fe lwyddodd y cyntaf; aflwyddodd yr ail. Ni ddywedwyd dim un gair am bob mil i ddangos gormes ymerawdwyr Rwsia ac Awstria ac a ddywedwyd i ddangos gormes y diafol. Y mae y wlad yn ffieiddio y rhai cyntaf, ond yn ufudd er y cwbl yn ngwasanaeth yr ail. "A ddygir y caffaeliad oddiar y cadarn?"

Pe trôem ni i ofyn y cwestiwn i'r byd ysbrydol, dyna lais yn ein hateb ni gydâ Bildad:—"Pa fodd y cyfiawnheir dyn gydâ Duw? Pa fodd y bydd yr hwn a aned o wraig yn lân?" Neu, os gofynwn ef i'r oesau gynt, yr ateb a fydd:—"A newidiodd un genedl ei duwiau?" Gofynwch ef i'r rhai craffaf yn y dyddiau hyn, eu hateb ydyw:—"A newid yr Ethiop ei groen, neu y llewpard ei frychni?" Gofynwch ef eto ar antur, i edrych a ddaw ateb o unman,—dyna lais y cadarn ei hun yn dywedyd:—"Pwy ymhlith yr holl dduwiau a waredodd neb o'm llaw i?" A ddarfu i Buddha, neu Confucius, neu Zoroaster, roddi ymwared i'r rhai a gredasant ynddynt? Gan nad oes na llais na neb yn ateb, ni a drown ymaith mewn anobaith, gan gyhoeddi galarnad Jeremiah uwchben y caethion:—'Ni ddychwelant mwyach, ac ni welant wlad eu genedigaeth; eithr i'r lle y caethgludwyd hwynt, yno y byddant feirw.' A gallwn ychwanegu, y bydd y farwolaeth hono yn ail farwolaeth. Na; ni chyhoeddwn mo'r alarnad ychwaith, nes myned dros y testyn i gyd:—"Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Ië, carcharorion y cadarn a ddygir, ac anrhaith y creulawn a ddianc: canys mi a ymrysonaf â'th ymrysonydd: a mi a achubaf dy feibion." Gwrandawed holl ymerodraeth Duw yn awr:—"Carcharorion y cadarn a ddygir, ac anrhaith y creulawn a ddianc." Dyna ddrws gobaith wedi ei agor. Os oedd angau yn y rhan gyntaf o'r testyn, y mae bywyd yn yr ail. Yn y gyntaf nid oedd genym ond galarnad y codwm:—

"Yn Eden, cofiaf hyny byth,
Bendithion gollais rif y gwlith,
Syrthiodd fy nghoron wiw :"

ond yn yr ail, y mae anthem Calfaria yn tori ar ein clustiau :—

"Ond buddugoliaeth Calfari,
Enillodd hon yn ol i mi,—
Mi ganaf tra fwyf byw."

"Fel hyn y dywed yr Arglwydd." Ac y mae hyn yn ein harwain, yn

II. At debygolrwydd achubiaeth. Dau beth oedd yn sicrhau y dychweliad o Babilon, sef, addewid Duw i'r genedl, a'i gyfamod â'u tadau. Yr un pethau sydd yn sicrhau achubiaeth eto,—gair Duw a'i gyfamod. Y mae Duw wedi dywedyd hyny, "Fel hyn y dywed yr Arglwydd ;" ac wedi dywedyd hyny, yn yr olwg ar yr holl anhawsderau, "Mi a ymrysonaf â'th ymrysonydd, a myfi a achubaf dy feibion." Caracter Duw sydd i benderfynu pa faint o hyder a ellir ei roddi ar ei air. Nid oedd fawr hyder i'w roddi ar air Laban, am ei fod yn cilio oddiwrtho yn fynych ; a gall un roddi ei air gydâ phob cywirdeb, ac eto methu sefyll ato, am iddo addaw mwy nag y mae yn ei allu i gyflawni. Nid yw nerth ei fraich i gyflawni ddim yn cyfateb i dynerwch ei galon i addaw. Ond y mae gobaith cryf am achubiaeth o flaen pechadur, gan fod Duw wedi dywedyd y bydd hyn ; oblegid y mae gallu ei fraich ef yr un faint a thynerwch ei galon. I gael gweled beth a all gair Duw,—

(1.) Edrychwn ar lyfr natur : y mae hwnw oll yn adsain yr hyn a ddywedwyd drwy y prophwyd :—"Y gair a lefarwyf a wneir." A mynych y mae yr Arglwydd yn yr Hen Destament yn cyfeirio at ei weithredoedd i gryfhau ffydd ei bobl ynddo Pan oeddent yn ameu ei nerth, y mae yn gofyn iddynt, "Pwy a grëodd y rhai hyn ?.........gan amlder ei rym ef, a'i gadarn allu, ni phalla yr un." I ddangos ei ffyddlondeb, dywedir,—"Yn dragywydd, O Arglwydd, y mae dy air wedi ei sicrhau yn y nefoedd," neu fel y nefoedd. Ac nid ydym yn gydnabyddus â dim nad ydynt yn gynyrchion ei air ef. Ei eiriau wedi ymgorffoli ydyw ei weithredoedd. Y mae yn eglur nad oes dim yn eisiau ond i'r Duw hwn addaw unrhyw beth : y mae parhad anghyfnewidiol y greadigaeth yn sicrwydd na newidir yr hyn a ddaeth allan o'i enau. Y mae y nerth mawr sydd yn amlyg-

edig ynddi yn profi nad oes dim yn anhawdd iddo. Fe fu tragywyddoldeb cyn amser : ynddo nid oedd dim na neb ond Duw. Yr oedd Efe yn haul mawr yno, heb yr un blaned yn troi o'i amgylch. Heddyw nis gŵyr neb, feallai, ond Efe ei Hun, pa le y mae terfynau ei ymerodraeth, neu pa nifer yw deiliaid ei deyrnas ; ac nid oes reswm i'w roddi am y cyfnewidiad, ond felly yr ewyllysiodd. Anfonodd ei Air, a chrewyd hwynt. "A ddygir y caffaeliad oddiar y cadarn?" Gwneir ; ac os mynwch ein sail,—Y Duw yna sydd wedi dywedyd hyn.

(2.) Mae yr ychydig y mae eisoes wedi ei gyflawni ar ei addewid mewn *dychweliad* yn cryfhau ein ffydd ni yn ngwirionedd y gair. Mae ysgub y blaen-ffrwyth yn wystl o'r cynhauaf oll. Nid yw y byd, y mae yn wir, ddim wedi ei ddychwelyd o'r caethiwed ; ond y mae digon wedi ei ddychwelyd i roddi sail i obaith y dychwelir ef oll; ac i fod yn sail i ffydd i ofyn am hyn. "Ceisiwch allan o lyfr yr Arglwydd, a darllenwch." Ni phallodd yr un o'r geiriau, gan hyny ni phalla yr un eto. Ond peidiwch a thynu cam-gasgliad oddiwrth hyn : y mae addewid Duw yn rhag-dybied moddion, er nad ydynt bob amser yn cael eu crybwyll yn yr addewid. Ni sonir am danynt yma ; eto trwy foddion naturiol iawn, sef Cyrus a'i fyddin, y gwaredwyd y caethion hyn. Felly y mae yn ysbrydol : byddai disgwyl rhyddid, heb y moddion, yn gymaint rhyfyg, ag a fyddai ymddiried i'r moddion heb Dduw. Ac y mae y dyn hwnw sydd yn teimlo cwestiwn y disgyblion,—"Pwy gan hyny a all fod yn gadwedig," yn ymyl teimlo mai peth posibl gyda Duw yn unig ydyw ; ac unwaith y dygir ef i deimlo hyny, y mae ê mewn gwirionedd yn "gadwedig gan yr Arglwydd." "Myfi a ymrysonaf â'th ymrysonydd, a myfi a achubaf dy feibion." Yn y fan hon y mae sail ein ffydd, a chartref ein gobaith. Nid ar y daw amser, pan y pregethir yr efengyl yn fwy goleu a nerthol, y mae ein gobaith am achubiaeth y byd yn seiliedig : nage ; nid oddiwrth gynydd gwybodaeth gyffredinol yr ydym yn disgwyl ei waredigaeth : nage ; ond ein gobaith ni ydyw,—y bydd i'r Duw a ddefnyddiodd "ffolineb pregethu" eisoes i wneuthur pethau mawr, ei ddefnyddio eto i wneuthur pethau mwy. Yr oedd Esaiah y mwyaf disglaer o'r holl brophwydi, dan deimlo ei fod yn llafurio yn ofer, yn gofyn, "Pwy a gred-

odd ?" ond wele ychydig o ddisgyblion tlodion o Cyprus a Cyrene yn llefaru yn Antiochia, yn enw yr Argwydd Iesu, "a nifer mawr a gredodd ;" ond yr hyn oedd yn gwneuthur y gwahaniaeth rhyngddynt â'r prophwyd oedd, "llaw yr Arglwydd oedd gydâ hwynt." Os oes yma rai yn balchio mewn meddwl cryf, ac, feallai, yn haner-amheuwyr o'r efengyl, ein gobaith am danoch ydyw, nid yr ymresymir y drefn yn fwy medrus fyth, nag y gwnaed eisoes i chwi, ond y daw goleu Ysbryd Duw ar y geiriau, nes eich gwneyd, fel philosophyddion Athen, yn blant wrth draed yr Iesu. Os oes yma rai yn ymdroi mewn bywyd halogedig, ein gobaith am danoch ydyw, nid y darlunir yn fwy goleu ogoniant buchedd sanctaidd, ond y bydd i Ysbryd Duw anfon ei oleuni, i chwi weled yr hyn ydych. Os oes yma rai yn boddi eu hunain i ddinystr a cholledigaeth gydâ gofalon y byd hwn, ein gobaith am danoch ydyw, nid y bydd i hawliau byd arall gael eu dadleu yn fwy medrus nag y gwnaethpwyd, ond y bydd i Ysbryd Duw gyffwrdd â'ch calonau, i'w teimlo hwynt. Yr ydym weithiau yn darllen y prophwydi fel y bydd yr ysgolheigion yn darllen rhai o'r *problems* dyrys, gan feddwl fod yn anmhosibl eu solfio hwynt, ond wedi methu gweled eu ffordd drwyddynt, y maent, yn dyfod o hyd i ryw lyfr lle y maent wedi eu hegluro. Dyna ydyw Llyfr yr Actau, *problems* dyrys y prophwydi wedi eu hegluro. Wrth eu darllen yn llyfrau y prophwydi, yr ydym yn barod i ofyn, 'Pe gwneid ffenestri yn y nefoedd, a fyddai hyny ?' ond yn Llyfr yr Actau y mae yr Arglwydd yn dywedyd mewn gweithred,—"Os anhawdd yw yn eich golwg chwi, ai anhawdd fyddai hefyd yn fy ngolwg i ? medd Arglwydd y lluoedd." Beth bynag ydyw y byd,—beth bynag a fydd,—fe fu felly ; ac y mae yr hyn a wnaethpwyd, yn y dyddiau hyny, yn wystl o'r hyn a wneir eto. Beth bynag sydd i'w ofni mewn "philosophi a gwâg dwyll," yr oedd hyny yn Athen. Beth bynag sydd yn rhwystr i'r efengyl mewn aflendid, neu mewn bywyd anifeilaidd, yr oedd hyny yn Nghorinth. Beth bynag sydd yn wrthwyneb iddi mewn ofergoeledd, yr oedd hyny yn Ephesus. Beth bynag sydd yn atalfa i'w llwyddiant mewn hunan-gyfiawnder, yr oedd hyny yn Jerusalem. Beth bynag sydd mewn swyn llys, yn atalfa i gadw y meddwl yn ddifrifol uwchben ei gwirioneddau hi, yr

oedd hyny yn Rhufain. Ond fe ddygwyd caffaeliaid oddiar y cadarn yn Athen, er ei philosophi ;—yn Ephesus, er ei hofergoeledd ;—yn Corinth, er ei haflendid ;—yn Jerusalem, er ei hunan-gyfiawnder ;—yn Rhufain, er temtasiynau ei llys hi ; ac os mynech chwi y rheswm am hyny, hwn ydyw :—"Myfi a ymrysonaf â'th ymrysonydd, a myfi a achubaf dy feibion." Ond y mae arnaf ofn i chwi dynu gwenwyn o'r hyn yr wyf yn ei ddywedyd, trwy ei gymeryd yn rheswm dros fod yn ddiofal ynghylch eich achubiaeth, yn lle yn gymhelliad i lefain, ddydd a nos, "Arglwydd, cadw ni, canys darfu am danom." Dywed yr Apostol Paul, fod trugaredd Duw yn yr efengyl wedi ei achub ef, y penaf, i hyny fod yn esiampl i'r rhai a gredent rhag llaw ; nid esiampl iddynt fyned ymlaen i bechu, am fod y penaf wedi ei achub ; ond esiampl fod y drefn, a achubodd y penaf, yn ddigon nerthol i'w hachub hwy : felly yr un yw ein diben ninau wrth goffâu yr esiamplau hyn,– cau pob drws o'ch blaen ond un, er mwyn i chwi geisio ymwared drwy hwnw,—eich "cyd-gau," yn ngeiriau yr apostol, "i ffydd yr efengyl."

2. Sicrwydd arall y dygir y caffaeliaid oddiar y cadarn yw cyfamod Duw. Ar hwn y byddai yn syrthio yn ol fel ei reswm mawr am ddangos caredigrwydd i'r genedl wrthryfelgar hon gynt, Lef. xxvi. 42,—"Minau a gofiaf fy nghyfamod â Jacob, a'm cyfamod hefyd âg Isaac, a'm cyfamod hefyd âg Abraham a gofiaf ; ac a gofiaf y tir hefyd." "Trwy waed yr amod" yr oedd y carcharorion i gael eu rhyddhau, neu mewn canlyniad i'r cyfamod, a sicrhawyd drwy waed. Hyn fyddai dadl olaf y prophwydi gerbron yr orsedd. "Cofia, na thòr dy gyfamod â ni," sef yr hen lŵ a dyngodd Efe i'w tadau ; oblegid hwnw yr oeddent yn disgwyl gwaredigaeth, er eu bod yn garcharorion cyfreithlawn. A dyma ein cysur ninau, wedi anobeithio ymhob man arall, y gallwn ni syrthio yn ol ar gyfamod Duw, yr hen lŵ y mae Efe wedi ei dyngu i'w Fab. Y mae yn rhaid cyflawni hwnw. A rhag i chwi feddwl ei fod yn rhywbeth yn eich erbyn, hyny ydyw, yn ei gysylltiad â chwi, y mae Duw Dad wedi myned i'w lŵ y caiff pob un a gredo yn y Mab fywyd tragywyddol. A rhag i chwi feddwl fod Iesu Grist yn un anhawdd dyfod ato, ei eiriau Ef ydynt,—"Yr hwn a ddêl ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim." Y mae y cyfamod wedi ei sicrhau

trwy waed, ac i agor drws gobaith o flaen yr holl garcharorion, y geiriau cyntaf gan y prophwyd Zechariah, ar ol addaw diangfa i'r carcharorion "trwy waed yr amod," ydyw,—"Trowch i'r amddiffynfa, chwi garcharorion gobeithiol;" neu ymaflwch yn y cyfamod hwnw. Dyma air Duw a'i lŵ genych am eich bywyd;—ei addewid a'i gyfamod. Os ydyw y cyfamod yn sicrhau o du yr Arglwydd y caiff yr Arglwydd Iesu weled ei hâd, y mae yn gwneuthur yr un mor sicr o du y pechadur, "Na chollir pwy bynag a gredo." Y mae yr un nerth yn y naill ag sydd yn y llall.

3. Y sicrwydd olaf y dygir hwynt ydyw, fod un wedi ei eneinio i hyn: 'Fe ddryllir yr iau, er cryfed ydyw, oherwydd yr eneiniad.' Y mae gwaith mawr wedi ei gyflawni, sef dryllio y barau heiyrn, ac agor y pyrth pres. Nid oes ganddo ddim i'w wneuthur yn awr, ond, fel Cyrus gynt, dywedyd "wrth y carcharorion, Ewch allan, ac wrth y rhai sydd mewn tywyllwch, Ymddangoswch." Cychwynwch tua'ch hen wlad: nid oes gan neb hawl i'ch hatal. Os cyfyd rhyw Sanbalat neu Tobia i'ch aflonyddu, anfonwch air ataf, a gorchymynaf iddynt beidio â chwi. O na ddeuai i roddi y gorchymyn.

Dymunwn gyflwyno dau air i'ch sylw cyn terfynu:—

1. Gwyliwn ni, sydd wedi cael rhyddid, anghofio ein brodyr sydd eto yn y caethiwed. Yr ydym yn cwyno, y mae yn ofnus, wrth ddynion mai ychydig y sydd yn cael eu hachub, yn lle dywedyd hyny wrth Dduw. Ein gwendid ni, yn awr, ydyw ein nerth ni. Yr oedd Ai yn fechan, ac Israel yn llawer; ond bu eu nerth yn wendid iddynt. Y mae yn berygl i'r un peth ddigwydd i ni. Y mae y wlad wedi ei gwareiddio, yr eglwys yn gref; ond er hyn yr ydym ni yn methu cymeryd Ai fechan, er i'n tadau gymeryd Jericho fawr. Ond yr achos ydoedd, fod Duw gydâ hwynt: yr ydym ninau, ysywaeth, yn teimlo ein hunain yn ddigon cryfion hebddo; a'n nerth ydyw ein gwendid ni. Dywed yr Iuddewon mai y dull a gymerodd penaethiaid y bobl yn Babilon i gael rhyddid oedd myned at Cyrus, i ddangos iddo y prophwydoliaethau am ei fawredd ef, ac am yr hyn a wnai efe iddynt hwy. Cymerwch chwithau yr un dull; ewch at yr Hwn sydd wedi ei eneinio i ddryllio yr iau; dywedwch wrtho yr hen brophwydoliaethau am dano. Nid ydyw ond yn

disgwyl i chwi eu dywedyd : bydd yn bur sicr o'u cyflawni ; a bydd y cyflawniad o honynt yn rhyddid i gaethion.

2. Eich dinystr chwithau, gaethion, ydyw gollwng dros gof pwy ydyw y Gwaredwr. Yr ydych yn addef mai Duw ydyw ; ond edrychwch i'ch calon, cewch weled nad ydych yn credu hyny. Nid oedech chwi ddim gydâ pheth o gymaint pwys ag iachawdwriaeth eich eneidiau, oni bai eich bod yn credu y gallech ddianc eich hun, y pryd y mynech, o'r carchar. Pe credech chwi o'r galon na all ond Duw ei hunan eich gwaredu, ni adawech lonydd iddo, na dydd na nos, nes teimlo eich hunain yn rhydd.

[Mawrth 14, 1850.]

# PREGETH LIII.

## DIDOLEDIG ODDIWRTH BECHADURIAID.

HEBREAID vii. 26:—"Didoledig oddiwrth bechaduriaid."

UN o nodweddion yr Arglwydd Iesu fel Offeiriad ydyw y testyn. Y mae yn yr adnod amryw eraill yn cael eu nod.,—"sanctaidd, diddrwg, dihalog." Yr oedd yr Offeiriaid o dan y gyfraith yn gysgod o'r Arglwydd Iesu yn y pethau hyn, ond cysgod o'r pethau hyn yn unig oedd ganddynt hwy;—ganddo Ef yr oedd y pethau eu hunain. Yr oedd "sancteiddrwydd" ar dalcen yr offeiriad Iuddewig; ond yr oedd y gwir Offeiriad yn "sanctaidd." Yr oedd yr offeiriad Iuddewig yn ddiddrwg mewn ystyr seremoniol, am ei fod wedi aberthu yn gyntaf dros ei bechod ei hun, a hyny wedi ei wneuthur yn ngolwg cyfraith y gwasanaeth yn ddiddrwg, ac felly yn gymwys i fyned i mewn i'r cysegr, i wneuthur cymod dros bechodau y bobl; ond yr oedd y gwir Offeiriad yn "ddiddrwg" yn llawn ystyr y gair, oblegid nid oedd raid iddo Ef offrymu aberthau yn gyntaf drosto ei Hun (adn. 27), am na wnaeth bechod. Yr oedd yr offeiriad Iuddewig yn ddihalog, am ei fod wedi puro ei hun yn seremoniol; ond yr oedd y gwir Offeiriad yn ystyr eangaf a dyfnaf y gair yn "ddihalog." Yr oedd yr offeiriad Iuddewig yn ddidoledig oddiwrth bechaduriaid, sef yn ymwadu yn ofalus ar yr adeg yr oedd i fyned i mewn i'r cysegr, rhag cyffwrdd â dim a allasai ei halogi yn seremoniol. Yr oedd yma gymaint o halogrwydd fel ag yr oedd bod yn awyrgylch y ddaear yn ddigon i halogi; yr oedd yn rhaid puro y Tabernacl ei hun, am ei fod yn sefyll mewn awyr heintus; a gofalai yr arch-offeiriad, ar ddydd gwyl y cymod fod offeiriad arall gerllaw, i gyflawni ei waith ef,

os digwyddai i unrhyw beth ei halogi ; ac i ochel hyny hyd yr oedd yn bosibl, yr ydoedd yn ddidoledig oddiwrth bechaduriaid : ond yr oedd y gwir offeiriad yn "ddidoledig" oddiwrthynt, er yn symud a byw yn eu plith "Didoledig oddiwrth bechaduriaid."

I'r diben yna y defnyddir y testyn yn y cysylltiad y mae ynddo gan yr apostol ; ond ei ddefnyddio mewn ystyr eang a wnawn ni yn bresenol, i edrych trwyddo ar gymeriad yr Arglwydd Iesu, fel un yn sefyll ar wahan oddiwrth bawb,—"yn ddidoledig oddiwrth bechaduriaid" ymhob peth a berthyn iddo. Ond cyn sylwi yn uniongyrchol ar y testyn, y mae genym ddau sylw i'w cyflwyno i'ch ystyriaeth am dano fel un "didoledig oddiwrth bechaduriaid," hyny yw oddiwrth holl blant dynion.

1. Y mae yn ddidoledig oddiwrth bawb yn nyfnder yr argraff a roddodd ar feddwl y byd. Ychydig bersonau, o'u cymharu â nifer trigolion y byd, sydd wedi ffurfio cymeriad ei wahanol oesoedd. Gwelir graddau o ddelw y dyn mawr yn aros ar ei genedl weithiau, am oesoedd ar ol ei gladdu ef. Ni a gawn yn nghenedl Israel arddangosiad o bob cenedl arall yn hyn o beth. Wrth sylwi ar ei hanes, y mae hyny i'w ganfod, fel ar ei wyneb, fod rhyw ychydig ddynion mawr a fuant ynddi, megis Abraham, Moses, Dafydd, wedi rhoddi argraff ddofn ac arhosol ar feddwl y genedl. Ymffrostient, yn eu hiselder mwyaf, yn eu bod yn blant i Abraham, yn ddisgyblion i Moses ; a pha beth bynag fyddai maint y cyfyngder y byddent ynddo, disgwylient i Fab Dafydd eu gwaredu o hono.

Y rhai hyn, ac ychydig eraill cyffelyb iddynt, oeddent haul y genedl. Tros amser penodol, eu goleuni hwynt oedd yn gwasgaru y tywyllwch, a'u gwres hwynt oedd yn cynyrchu hyny o rinwedd a ymddangosai yn eu plith : pan fachludai yr haul, gorchuddid y wlad â nos o lygredigaeth, hyd nes y cyfodai haul drachefn, sef rhyw feddwl mawr, i wasgar y tywyllwch â'i oleuni, ac i gynyrchu rhinwedd â'i wres. Ac y mae yr hyn ydoedd yn wirionedd am Israel, yn wirionedd am bob cenedl arall. Y mae cryn wahaniaeth yn nyfnder yr argraff a roddodd rhai, rhagor eraill, ar feddwl cenedl neu genhedloedd. Ond y mae Iesu Grist yn sefyll yn "ddidoledig" oddiwrth bawb yn

nyfnder yr argraff a roddodd Efe ar y byd. Ymddengys hyn, yn neillduol, os meddyliwch am yr anfanteision oedd iddo i hyny. Pa beth bynag yn gyffredin a all fod nerth y meddwl, ni wna y mwyaf galluog argraff ddofn ar ei oes heb gael amgylchiadau yn ffafriol i hyny. Os bydd yn wreiddyn cenedl, fel Abraham, y mae ei feddwl yn cael mantais i wneuthur argraff arnynt trwy y parch a deimlir gan blant i dad. Os bydd yn ddeddfroddwr i genedl, fel Moses, gall trwy hyny gael mantais i wneuthur argraff ddofn arnynt. Neu, os bydd yn un a gyfyd y genedl i enwogrwydd yn ngolwg cenhedloedd y byd, fel y gwnaeth Dafydd trwy ei ryfeloedd, bydd hyny yn fanteisiol iddo argraffu ei ddelw arnynt. Ond nid oedd gan Iesu Grist yr un o'r manteision hyn. Nid oedd na gwreiddyn cenedl, fel Abraham ; na deddfroddwr iddynt, fel Moses ; na buddugoliaethwr trostynt, fel Dafydd : yn hytrach, dyn tlawd ydoedd ; a threuliodd ei ddyddiau ymysg rhai felly. Dyn diddysg ydoedd, yn ystyr gyffredin y gair yna : nid ysgrifenodd, am a wyddom, yr un gair ar bapyr na memrwn trwy ei oes, fel y gellid dywedyd mai ei ysgrifeniadau a'i dygasant i sylw. Yr oedd holl rai dysgedig y byd yn ei erbyn. Bu farw yn ddyn ieuanc, fel na chafodd mor fantais a rydd blynyddoedd oedran i wneuthur argraff ar y byd. Hefyd, yr oedd yn un o genedl ysgymunedig yn ngolwg y byd ; ac ymddangosodd, heblaw hyny, mewn oes pan oedd pob rhagoriaeth a fuasai unwaith ar y genedl wedi ei golli. Eto, er yr holl anfanteision hyn, pwy fedr draethu dyfnder yr argraff a roddodd Efe ar y byd. Oni ellir ei ddarllen mewn myrdd a mwy o bethau ? Onid oes graddau o'i ddelw wedi eu cerfio ar filoedd o'r meddyliau cryfaf a fu ar y ddaear erioed. Carant eistedd, fel Mair, wrth ei draed, a derbyn o'i eiriau, fel nas gellir gofyn erbyn hyn, A gredodd neb o'r penaethiaid ynddo ? Do, fyrdd a mwy. Ac am y bobl gyffredin, y mae tyrfaoedd dirif ymron, ymhob gwlad, yn ei gydnabod ; fel, beth bynag fo'r amgylchiadau, neu pa ystâd bynag a fo ar gymdeithas, y mae ei bobl druain dlodion yn gobeithio yn ei enw, a'r pendefigion yn ei theimlo yn anrhydedd cael offrymu eu rhoddion iddo, fel y gwnai doethion y dwyrain gynt.

Edrychwch dros lenyddiaeth ein byd am ganoedd, ïe, am

dros fil o flynyddoedd, nis gellwch agor llyfr o hanesyddiaeth, athroniaeth, na barddoniaeth, heb deimlo fod meddwl yr awdwr wedi derbyn ei fywyd oddiwrth gyffyrddiad â meddwl yr Iesu. Iawn y galwodd y prophwyd Ef yn Haul, oblegid, onid ydyw, fel haul, wedi dylanwadu ar y da a'r drwg? Dengys pob gwlad effeithiau y dylanwadau, naill ai yn y ffrwythau cymwys, neu ynte yn y drain a'r mieri; naill ai yn rhinweddau y rhai da, neu yn mhechodau y rhai drwg. Byddai colli Iesu o Nazareth o ffurfafen y natur ddynol, yr un peth ag a fyddai colli yr haul o'r ffurfafen naturiol. Ni a gollem brydferthwch, nerth, a bywyd pob peth ar unwaith o hyny. Ac er nad ydoedd yn nyddiau Ffestus ond *un Iesu*, a charcharor mewn cadwen yn taeru rhywbeth mewn perthynas iddo, erbyn heddyw ei enw Ef ydyw y cyntaf y mae y fam yn dysgu tafod bloesg ei maban i'w seinio, a'r anwylaf a'r olaf y mae tafod bloesg y marw yn ei yngan, cyn llonyddu yn yr angau. Onid ydyw mewn gwirionedd yn "ddidoledig oddiwrth bechaduriaid" yn nyfnder yr argraff a roddodd ar feddwl y byd?

2. Ffaith arall ydyw ei fod "yn ddidoledig" oddiwrth ddynion, a gawn, yn nghyffredinolrwydd y berthynas a deimlir gan bawb sydd rhyngddo â'r byd. Nid oes, hyd yma, ond dau wedi ymddangos ar y ddaear y teimlir gan bawb eu bod yn perthyn i'r byd oll, sef Adda a'r Iesu. Yn gyffredin, mawredd lleol ydyw mawredd enwogion y ddaear. Dyn oes ydyw y dyn mawr: pan gilio hono, y mae yntau yn cilio gydâ hi. A phan gyfyd ambell un ychydig yn uwch na hynyna, dyn cenedl ydyw. Gwir yw i rai o'r hen athronwyr dynu sylw cenhedloedd heblaw yr un yr oeddent yn perthyn iddi, eto fe deimlir am danynt mai dynion cenedl ydynt oll. Iuddew oedd Iesu o Nazareth; ond 'ai i'r Iuddewon yn unig' y mae yn perthyn? 'Onid ydyw i'r cenhedloedd hefyd?' Digon o ateb i hyn ydyw teimlad y byd; a dyna ydyw hwnw, y byddai hi mor annaturiol i unrhyw genedl hawlio meddiant yn yr Iesu ag a fyddai iddynt wneuthur hyny â'r Adda cyntaf. Pe cesglid cenhedloedd y byd at eu gilydd i gymharu eu mawrion, diau yw y byddai dadleu brwd rhyngddynt ynghylch eu mawredd cymharol; ond pan enwid yr Iesu, fe ddistawai y dadleuwyr, am y teimlent fod ganddynt oll ran ynddo, heb neb yn ei adwaen yn ol y

cnawd. Onid ydyw 'yn ddidoledig oddiwrth' ddynion yn hyn hefyd ?

Ond ni adawn y ddwy ffaith hyn am ei ddylanwad ar feddwl ac ar deimlad y byd : ffeithiau ydyw y rhai hyn nad ellir lai na'u canfod ; nid yn, neu drwy y Bibl yr ydym yn eu gweled, ond ar wyneb cymdeithas. Yn awr ni a edrychwn ar ei gymeriad i weled beth oedd ynddo yn ei wneuthur "yn ddidoledig" yn y pethau a enwyd ; oblegid ni fuasai "yn ddidoledig" yn ei ddylanwad, oni bai fod hyny yn gwreiddio mewn rhywbeth oedd yn ei wneuthur "yn ddidoledig" yn ei gymeriad.

1. Yr oedd "yn ddidoledig oddiwrth bechaduriaid" yn y cyfuniad oedd ynddo o honiadau heb eu bath, ac o ostyngeiddrwydd perffaith. Y mae ei honiadau yn dyfod i'r golwg yn ei waith yn cymharu ei hun â dynion mwyaf y genedl, ac yn hawlio blaenoriaeth arnynt oll,—Abraham, Jacob, Moses, Dafydd, a'r prophwydi. Er cymaint gŵr ydoedd Abraham, yr ydoedd yn llai nag Ef. Llawenychai Abraham wrth edrych ar ei ddydd Ef. "Cyn bod Abraham," meddai Iesu Grist, "yr wyf Fi." "Ai mwy wyt ti na'n tad Jacob?" meddai y wraig o Samaria. "Ië, annhraethol fwy," oedd yr atebiad iddi yn ei ymddygiad. Moses, y deddfroddwr, yr hwn a fu yn ymddiddan â Duw "wyneb yn wyneb," "am danaf fi yr ysgrifenodd efe." Dafydd, y mwyaf o frenhinoedd Israel,—yr ydoedd yn fy ngalw I yn Arglwydd. Y prophwydi—tystiolaeth yr Iesu ydyw ysbryd prophwydoliaeth. O Siloh Jacob hyd Haul Cyfiawnder Malachi, myfi ydoedd yn llygad pob un o honynt; pa un bynag ai Blaguryn Cyfiawnder, ai Pren Bywyd, ai Craig Fawr, ai Cwmwl, Seren ai Haul ; Oen ai Llew, Lili ai Rhosyn, a fyddai y wisg, myfi ydoedd "ysbryd y brophwydoliaeth." Ac nid yn unig y mae yn hawlio bod yn wrthddrych sylw, ac yn ffynonell mawredd y genedl, y mae hefyd yn hòni perthynas felly â'r byd yn ddiwahaniaeth. "Goleuni y byd ydwyf fi:" beth bynag ydyw y goleuni i'r byd naturiol, yr wyf fi yn hyny, a mwy, i'r byd meddyliol ac ysbrydol. A meiddiai gyhoeddi yn nghanol byd:—"Deuwch ataf fi bawb;" "Yr hwn sydd yn credu ynof fi, ni ddemnir;" ïe, meddai, "Myfi yw'r adgyfodiad a'r bywyd." Nid dieithr ydoedd fod ei gydoeswyr yn dywedyd, wedi gwrandaw y pethau hyn, "Clywsom bethau anhygoel heddyw;"

oblegid yr oeddent yn honiadau na chlybuwyd erioed eu bath, —honiadau yr oedd rhai Nebuchodonosor, Alexander, a holl rai uchelfrydig y ddaear, yn myned yn ddim o'u cymharu â hwynt.

Ond hyn oedd yn rhyfedd, bod yr honiadau uchel hyn mewn undeb â'r gostyngeiddrwydd perffeithiaf,—gostyngeiddrwydd ag y mae geiriau y prophwyd yn ddarluniad cywir o hono:—"Ni waedda, ni ddyrchafa, ac ni phair glywed ei lef yn yr heol;"—gostyngeiddrwydd a ddaeth i'r golwg mewn myrdd a mwy o ffyrdd. Daeth i'r golwg mewn gwrthod coron brenin, ac mewn derbyn babanod bychain; mewn cymdeithasu gydâ phublicanod a phechaduriaid, ac mewn golchi traed y disgyblion. Y mae gostyngeiddrwydd balch weithiau i'w gael ymysg dynion lled fawr: fel yr eiddo hwnw oedd yn myned allan i'r heol mewn mantell dyllog, i ddangos ei ostyngeiddrwydd. "Mi a welaf dy falchder di," meddai rhywun wrtho, "trwy y tyllau yna;" ac nid ydoedd yn gofyn llygad craff iawn i hyny. Ond nid un felly ydoedd gostyngeiddrwydd yr Iesu; oblegid yr oedd ei frodyr, oeddent heb gredu ynddo, yn methu cysoni y gostyngeiddrwydd â'i honiadau: "Os wyt ti yn gwneuthur y pethau hyn, amlyga dy hun i'r byd," meddent. Arfer y byd ydyw, "nad oes neb yn gwneuthur dim yn ddirgel, ac yntau yn ceisio bod yn gyhoedd," sef yn hòni pethau fel yr wyt ti. Yr oeddent hwy yn teimlo, ac yr ydym ninau yn teimlo, ei fod "yn ddidoledig oddiwrth bechaduriaid" yn y cyfuniad oedd ynddo o honiadau heb eu bath, ac o ostyngeiddrwydd heb ei gyffelyb.

2. Y mae "yn ddidoledig oddiwrth bechaduriaid" yn ei waith yn myned trwy holl amgylchiadau ei oes, ac er ei demtio ynddynt yr un ffunud a ninau, eto heb bechu. Y mae llawer o wahaniaeth rhwng dynion a'u gilydd; ond yn hyn cyd-ystâd ydynt,—pechaduriaid ydyw pawb. Ymweithia ystaen pechod yn gyflym i'r golwg yn y plentyn, a pha nifer bynag o bethau a gyll cyn cyraedd henaint, fe fydd yn bechadur yn fab canmlwydd fel yn fab teirblwydd. Rhodder ef ymhob math o sefyllfa, ynddynt oll fe ddaw pechod i'r golwg. Os cedwir ef mewn unigedd, fe ymweithia pechod i'r unigedd mwyaf: neu os rhoddir ef yn nghanol cynwrf bywyd cyhoeddus, bydd pechod

tyw yn y ddinas fel yn yr anialwch. Newidier yr amgylchiadau yn ddiddiwedd, o dlodi i gyfoeth, ac o gyfoeth i dlodi, fe newidia yntau ei hun ar eu cyfer hwynt, a phechod a fydd ynddynt oll. Y mae, nid fel clefydau, a fyddant weithiau yn dyfod yn gawod dros wlad, ac yn cilio; ond yn hytrach fel yr *endemics*, clefydau cynwynol i genedl neu wlad, sydd yn cael eu bôd gan ryw achosion sydd ynddi bob amser. Yr oedd pechod fel *endemic* y ddaear, fel y tybid nad oedd yn bosibl i greadur rhesymol ei osgoi. Ymhlith yr holl filiynau a fuont yma, nid oedd cymaint ag un heb fod yn bechadur. Ond wele un "didoledig" oddiwrthynt oll! Nid nad ydyw yr amgylchiadau a fuant yn ddinystr i bawb eraill yn effeithio dim arno Ef: cauer Ef mewn anialwch, heb greadur ond bwystfilod gydag Ef; cymered y diafol fantais ar yr unigedd i'w demtio,—"didoledig oddiwrth bechaduriaid" fydd efe yno. Rhodder Ef yn lle amlaf y bobloedd, yn ganolbwynt sylw pawb, nid ä ei galon Ef ddim yn gref, fel un Esaiah gynt: "didoledig oddiwrth bechaduriaid" a fydd Efe yno. Gwneler Ef mor dlawd fel na byddo ganddo le i roddi ei ben i lawr, bydd mor bell oddiwrth syrthio yn ysglyfaeth i'r brofedigaeth a ofnai Agur, fel y treuliai efe noson i weddio Duw, yn lle cymeryd ei enw yn ofer: "didoledig oddiwrth bechaduriaid" a fydd Ef yno. Dyrchafer Ef i sefyllfa y bydd coron â'i hanrhydedd yn ei olwg, ni effeithia y demtasiwn ddim arno ef, fel ar Hazael gynt: "didoledig oddiwrth bechaduriaid" fydd Efe yno hefyd. Rhaid bod nerth anghymharol yn sancteiddrwydd ei galon, gan ei fod yn medru lladd yr holl ddylanwadau llygredig oeddent o'i gwmpas. Yr oedd pechod yn amser ei ymddangosiad Ef wedi cyraedd ei eithaf. Ceir prawf o hyn trwy gymharu caledwch Capernaum, Bethsaida, a Chorazin, âg eiddo Tyrus, Sidon, a Sodoma: ïe, onid yn yr oes hono y cyflawnodd pechod y weithred ysgeler, a fydd i dragywyddoldeb yr arddangosiad mwyaf ysgeler o echryslonrwydd ei natur? Ond goleuni a fu Efe yn ei ganol, heb ddim tywyllwch. Y mae ysmotiau mawrion o dywyllwch yn yr haul naturiol, er fod ynddo ddigon o oleuni er hyny i fod yn haul; ond goleuni heb ddim tywyllwch yw Haul y Cyfiawnder.

Nid oes dim yn ei ddangos mor "ddidoledig" yn yr ystyr hwn a'i weddïau Cymherwch hwynt â gweddïau saint y Bibl,

a bydd yn rhaid penderfynu naill ai ei fod "yn ddidoledig" oddiwrthynt, neu nad ydyw yn sanct o gwbl. Yr oedd saint y Bibl, fel y tybia rhai y byddai yr offeiriad Iuddewig gerbron y bobl yn ei wisgoedd gorwych, ond gerbron Duw heb ddim ond y wisg lïan, felly yr oeddynt hwythau, â'r harddwisg am danynt gerbron dynion, ond y wisg lïan gerbron Duw. Yr oeddent yn saint gerbron dynion, ond yn bechaduriaid gerbron Duw. "Maddeu fy anwiredd, canys mawr yw." "Na ddos i farn â'th was;" "yr ydym ni oll megis peth aflan." "Na ffieiddia ni" "Ys truan o ddyn wyf fi! pwy a'm gwared oddiwrth gorff y farwolaeth hon." Hon a'i chyffelyb ydyw iaith Moses, Dafydd, Esaiah Jeremiah, Daniel, Ioan, a Paul, goreugwyr y byd gerbron Duw, ond gwrandewch arno ef yn gweddïo;—yn ofer y disgwyliwch am glywed y gair *edifarhau*, a *maddeu*, o fewn y weddi. Y rhai hyn a'u cyffelyb ydynt ei ddeisyfiadau Ef:—"Gogonedda dy Fab, fel y gogoneddo dy Fab dithau. O! Dâd, gogonedda di fyfi, â'r gogoniant oedd i mi gydâ thi cyn bod y byd." Tros eraill y mae yn gofyn, "Cadw hwynt rhag y drwg;" "Sancteiddia hwynt yn dy wirionedd;"—"O! Dad, maddeu iddynt;" ond am dano ei hun, nid oedd ganddo yr un pechod i'w faddeu, —yr un bai i'w guddio. Nid at orseddfainc y grâs yr oedd Efe yn myned, ond at yr orsedd wen fawr. Nid oedd eisiau arogldarth gydâ'i weddïau Ef. Y mae ei weddïau Ef, pe na buasai dim arall, yn ei ddangos "yn ddidoledig oddiwrth bechaduriaid."

3. Y mae "yn ddidoledig" yn ei ymdrechiadau diball i wneuthur daioni i bawb, heb ddangos ffafraeth i neb. Y mae amddiffynwr y tlawd yn rhy gyffredin yn gablwr urddas, tra y mae pleidiwr y cyfoethog yn rhy fynych yn ormeswr ar y tlawd. Y mae yr hwn sydd yn cael ei gynhyrfu i godi yn erbyn llygredigaethau crefydd, yn dra thueddol i gladdu crefydd ei hun yn yr un bedd a'r llygredigaethau. Wedi cael rhai yn gelwyddog, fe ddywed gydâ Dafydd yn ei ffrwst, "Pob dyn sydd gelwyddog." Oherwydd hyn y mae braidd yn anmhosibl cael un i ddal y fantol yn deg, rhwng gwahanol egwyddorion, a gwahanol ddosbarthiadau cymdeithas; wrth ofalu am, ac amddiffyn y naill, fe guddir ac fe esgeulusir y lleill. Ond fe enillodd ef y teitl o "ddidoledig" yn hyn hefyd;—daliodd y fantol yn deg rhwng tlawd a chyfoethog; ac yn nameg y Goludog a

Lazarus, dangosodd nad oedd amgylchiadau y byd hwn yn effeithio dim ar sefyllfa person yn y byd arall,—mai damweiniau ydoedd yr amgylchiadau: yr oedd yntau yn myned trwyddynt at y personau. Bywhâodd fab y wraig weddw dlawd, a merch Jairus y pendefig. Eisteddai i fwyta bara yn nhŷ y Pharisead parchus, ac yn nhŷ y publican dirmygedig: yr ydoedd yn gyfaill i bublicanod a phechaduriaid, ac yn gyfaill i Nicodemus, y cynghorwr, ac i Joseph, y pendefig. Fel y rhag-arwyddwyd yn ei enedigaeth, yn ngwaith y bugeiliaid tlodion a'r doethion cyfoethog, yn ymweled âg Ef, mai oes o gymwynasau i bawb yn ddiwahaniaeth a fyddai ei oes Ef; fe ddygwyd tystiolaeth ar ei gladdedigaeth mai un felly a fu hi; yn ngwaith gwragedd tlodion Galilea, a dau o bendefigion cyfoethog Judea, yn dwyn y pêraroglau a'r enaint i eneinio ei gorff. "Didoledig oddiwrth bechaduriaid."

4. Yr ydoedd "yn ddidoledig oddiwrth bechaduriaid" yn ei fod y tuhwnt i neb arall a fu ar y ddaear erioed yn haeddu byw, ac eto yn cyfarfod âg angau na bu ei gyffelyb o'i flaen, na'i debyg ar ei ol. Os bu neb erioed yn teilyngu cael byw, Efe ydoedd hwnw. "Pwy," meddai y prophwyd yn y rhag-olwg arno, "a draetha ei oes Ef;" a thystiodd y disgybl a geisiodd wneuthur hyny, 'ped ysgrifenasid ei weithredoedd bob yn un ac un, na chynwysai y byd y llyfrau a ysgrifenid.' Edrycher arno fel Athraw, fel Glwadgarwr, fel Cymwynaswr, fel Cyfaill, "didoledig" a fydd ymhob golwg. Nis gellir gwrandaw ar ei eiriau heb ddywedyd, "Clywsom bethau anhygoel;" nac edrych ar ei weithredoedd heb synu yn anfeidrol. Yr oedd ei ddoethineb yn ddigon i roddi Solomon ei hunan yn y cysgod;—ei wladgarwch y fath, ag a fuasai yn peri i Moses wrido yn ei wydd;—ei gymwynasau yn gyfryw, fel mai gwaith ofer ydyw edrych am neb i'w gymharu âg Ef. Bu fyw yn yr oll i'r amcanion uchaf. Gogoniant Duw a lles dynion oeddent yn argraffedig ar bob gweithred o'i eiddo. Yn ofer y chwilir am yr amlygiad lleiaf o hunan-gais mewn dim. Dioddefai newyn ei hun, ond ni chai neb arall ei ddioddef lle y byddai Ef. Gŵr gofidus a chynefin â dolur oedd Ef ei hun; ond am ddoluriau pobl eraill, dygai hwynt ymaith â'i air. Yr oedd ganddo drugaredd i bawb ond iddo ei Hun;—dagrau i Jerusalem;—

tosturi i'r dyrfa, rhag eu bod wedi blino. Fe lonodd fyrdd o galonau gofidus ; daeth a goleuni llawenydd i filoedd o lygaid oeddent wedi tywyllu gan ddagrau ; cysurodd bob galarus ; diddanodd bob un gwan ei feddwl ; ond am dano ei Hun, "Crist nis boddhaodd ef ei hun." Onid oedd Hwn yn haeddu cael byw ?

Eto wele y "didoledig" Hwn yn marw, ac yn marw o angau yn yr hwn y cydgyfarfyddodd pob chwerwder a all fod mewn marwolaeth. Yr oedd pob llysieuyn chwerw,—ffrwythau y felldith,—a'r felldith ei hun, yn ei gwpan Ef. Anniolchgarwch, bradwriaeth, anghyfiawnder, creulondeb, digofaint,—yr oeddent oll yno. Arweiniwyd Ef i angau gan rai a ddylasent farw eu hunain i'w gadw Ef rhagddo. Rhoddwyd ef i farwolaeth gan rai na wnaethai Efe ddim ond daioni iddynt. A rhag nad digon y chwerwder cyffredin sy mewn angau, ni oddefid iddo Ef farw yn dawel : yr oedd yn rhaid edliw iddo, a llaesu gwefl arno. Nid oedd gofid neb arall fel ei ofid Ef. Eto, yn ei ganol, gofalodd am bereiddio cwpan chwerw y rhai oeddent o'i gwmpas. Fe welodd ei fam bron yn methu yfed o'i chwpan chwerw,—pereiddiodd ef iddi hi yn y fan. Fe ganfu leidr yn ei ymyl, yn dychrynu rhag chwerwder ei gwpan ; fe dynodd ei uffern o hono, gan ei harllwys i'w gwpan ei Hun. Ond am hwnw, fe'i hyfodd ê i'r gwaddod. Yr oedd ei farw Ef, fel ei fyw, yn sefyll arno ei hun ; yn un marw mawr a fydd yn "ddidoledig" i dragwyddoldeb oddiwrth bob marw arall. "Didoledig oddiwrth bechaduriaid."

Gan ei fod yn "ddidoledig" yn y golygiadau hyn, y mae tri o wirioneddau pwysig i'w cyflwyno i'ch sylw yn gasgliadau oddiwrthynt:—

1. Gan ei fod "yn ddidoledig" oddiwrth ddynion, rhaid ei fod yn fwy na dyn. Y mae yn anmhosibl rhoddi cyfrif am y perffeithrwydd hwn, oni chymerwn ni reswm y canwriad i'w roddi am dano, "Yn wir, Mab Duw oedd y dyn hwn." Nid ydwyf yn awr yn cyfeirio at ei enwau, at ei weithredoedd, nac at yr amlygiadau hynod a gafwyd mewn cysylltiad â'i enedigaeth, ei fedydd, ei wedd-newidiad, a'i farwolaeth, i brofi ei ddwyfoldeb. Ni a allwn fforddio gadael y pethau yna oll o'r neilldu, ac edrych ar y dyn Crist Iesu yn amgylchiadau cyffredin

bywyd, a gofyn, "Pwy ydyw hwn?" O ba le y daeth y perffeithrwydd hwn i'r dyn hwn? Pe buasid wedi cau o'i amgylch, gallesid dywedyd am dano, fel Satan am Job, "Ai yn ddiachos y mae" yn berffaith? Yn lle hyny, yr ydoedd yn agored i bedwar gwynt y nefoedd daraw arno ar unwaith. Temtiwyd Ef ymhob peth; eto heb bechod. Pa fodd y safodd Hwn mewn anialwch? fe syrthiodd Adda mewn paradwys. Pa fodd y cadwodd Hwn ei ysbryd yn ei le ymhob profedigaeth? Aeth Job, nad oedd gyffelyb iddo ar y ddaear, fel yr oedd yr ystorm yn cynyddu, i felldithio ei ddydd. Pa fodd y rhoddir cyfrif am waith Hwn yn ymddiried yn Nuw, ac yntau wedi ei adael yn nghanol rhyferthwy angau? Pan yr aeth Moses, oedd â'r Arglwydd gydag ef bob amser, i'w ameu, beth a ddywedwn ni wrth y pethau hyn? Onid allwn ni roddi hèr i'r byd i roddi cyfrif am danynt, oddieithr i ni roddi cyfrif y canwriad,—"Yn wir, Mab Duw oedd y dyn hwn?"

2. Gan ei fod "yn ddidoledig oddiwrth bechaduriaid," y mae ynddo beth i bechaduriaid. Nid oes neb didoledig oddiwrth ddynion, heb fod ynddo rywbeth i ddynion. Y mae gwir gymwynaswyr y byd, er eu bod yn y byd, eto heb fod o'r byd. Y maent fel mynyddoedd uchel o'r neilldu; ond er eu bod o'r neilldu, hwy sydd yn cysylltu y nefoedd a'r ddaear â'u gilydd;—hwy sydd yn atdynu gwlith a gwlaw y nefoedd i'w cadw yn eu celloedd mawrion i'w ollwng allan yn afonydd i ffrwythloni y dyffrynoedd. O'u crombiloedd hwynt y cloddir y trysorau cuddiedig sydd yn cyfoethogi trigolion y ddaear; ac ar eu copäau hwynt y gwelir pelydr cyntaf yr haul, yn arwydd i'r dyffryndir fod y dydd yn dyfod. Y mae cyfoeth y byd, yn ei feddyliau, ei gelfyddydau, ei gysuron, wedi dyfod oddiwrth ychydig o rai didoledig, y mynyddoedd uchel sydd o'r neilldu. Y mae llyfr Genesis yn rhoddi hanes amryw o honynt, yn nghychwyn oesoedd y byd,—Jabal, Juba', Tubal-Cain, Assur, &c. Y mynyddoedd uchel oedd y rhai hyn, ymha rai y cododd yr afonydd sydd yn ffurfio y dyffrynoedd, ac yn cysuro y trigolion trwy yr oesoedd. A pho fwyaf didoledig a fyddo un, mwyaf oll fydd yn hwnw i eraill. Dyma Un didoledig, y "DIDOLEDIG," na bu neb yn llanw yr enw ond Efe. Efe ydyw y mynydd uchel o'r neilldu, yr hwn sydd yn ddigon uchel i dynu ato holl ireidd-

dra nefoedd y gogoniant i'w arllwys yn afon o drugaredd dros y ddaear sech, fel pa faint bynag o lysiau cymwys,—o brenau cyfiawnder,—o ffrwythau paradwys, sydd yn prydferthu ei gwyneb heddyw, i'r afon yr ydym yn ddyledus am danynt oll. Cyfoeth yr Aipht ydyw yr afon Nilus, yr hon, trwy chwyddo dros ei cheulanau bob blwyddyn sydd yn ffrwythloni y wlad y ffordd y rhed hi: a hyny sydd yn rhyfedd am dani, ydyw ei bod yn rhedeg dros fil o filldiroedd mewn unigedd mawreddus, heb help gan na ffrwd na nant o un cyfeiriad.* Rhaid fod y mynydd o ba un y mae hi yn codi yn uchel iawn, gan ei fod yn sugno digon o leithder o'r awyr i fedru fforddio anfon ffrwd mor gref mor bell. Afon Duw sydd yn llawn dwfr, ac y mae hi yn rhedeg trwy ein gwlad mewn unigedd mawreddus, heb i afonig na nant o un cyfeiriad ei chynorthwyo; ond ni raid i ni bryderu am barhad y ffrwd, er nad ydyw dyffryn sych y ddaear yn gallu helpu dim arni, oblegid y mae y mynydd, o ba un y mae hi yn rhedeg, yn ddidoledig, yn ddigon uchel i dynu ato holl gymylau trugaredd y Duwdod o'i gwmpas; am hyny, hi a bery i redeg tra y pery cyflawnder y Duwdod. Gan ei fod "yn ddidoledig oddiwrth bechaduriaid," y mae ynddo rywbeth i bechadur.

3. Gan ei fod "yn ddidoledig oddiwrth bechaduriaid," gall Hwn dderbyn pechaduriaid; ac Efe yn unig a all. Pa fodd y dangoswn ni hyn? Y mae y llestr y cychwynodd y natur ddynol ei mordaith ynddi wedi myned yn ddrylliau, ac y mae yr holl lwyth ar wyneb y tonau yn suddo i beidio codi mwy. Y mae ambell nofiedydd lled dda yn cadw am ychydig ar y wyneb, un arall yn ymgynal dros ychydig wrth astell o'r hen lestr; ond nid oedd neb yn medru cyraedd y lan,—suddo yr oeddynt oll; ond y mae y testyn yn rhoddi hanes Un ar y làn, —daear galed dan ei draed,—gall Hwn estyn ei fraich hir i'r rhai sydd yn suddo, ac y mae yn gwneuthur hyny. Rhoddwch law iddo, ac fe ddigwydda ddyfod o bawb o honoch i dir yn ddiangol.

"Didoledig oddiwrth bechaduriaid;" ond y mae y cwbl sydd ynddo yn wahanol i bechadur, yn beth ar gyfer pechadur. Y

* Dealla y darllenydd fod yr awdwr yn ysgrifenu hyn cyn y darganfyddiadau diweddar ynghylch tarddiad y Nilus.—GOL.

mae cryn wahaniaeth rhyngwyf â Moses, a Dafydd, ac Ioan, a Phaul; yr ydwyf yn cuddio fy wyneb mewn cywilydd yn mhresenoldeb eu rhinweddau cryfion, a'u grasusau disglaer; ond rhyngwyf a "didoledig" y testyn y mae y gwahaniaeth mawr; eithr er cymaint ydyw, yr ydwyf yn ymgysuro yn yr olwg ar y gwahaniaeth hwn, oblegid y mae yr oll sydd ynddo yn wahanol i mi, yn rhywbeth i mi. Y mae Efe yn gyfiawnder, ond cyfiawnder ar gyfer fy anghyfiawnder i ydyw hwnw. Y mae Efe yn sanctaidd,ond purdeb ar gyfer fy halogrwydd i ydyw hwnw. Y mae Efe yn ddoeth o galon, ond doethineb ar gyfer fy ffolineb i ydyw hwnw. Efe ydyw gwrth-gysgod y babell: yr oedd hono yn ddidoledig oddiwrth babell pob Israeliad; ond am ei bod felly, yr oedd rhywbeth ynddi ar gyfer y pebyll oll, a chroesaw i'r Iuddew droi ati yn wyneb pob diffyg oedd yn ei babell ef. Yr oedd pechodau ddigon yn ei babell ef, ond yr oedd trugareddfa yn mhabell Duw: yr oedd halogedigaeth yn ei babell ef, ond yr oedd gwaed a dwfr i buro yn mhabell Duw. Yr oedd anwybodaeth yn ei babell ef, ond yr oedd Urim a Thummim—goleuni a gwirionedd—yn mhabell Duw. Beth bynag sydd yn Iesu Grist nad ydyw genyt ti dy hun, peth i ti ydyw hwnw. Y mae Duw yn dywedyd fod y "didoledig" Hwn yn "weddus i ni:" dywedwn ninau ein hunain hyny mewn gweithred a gwirionedd.

[Gorphened Rhag. 11eg, 1863].

# PREGETH LIV.

## AGOSRWYDD AT DEYRNAS DDUW.

MARC XII. 34:—"Nid wyt ti bell oddiwrth deyrnas Dduw."

FE ddywedir yn yr efengylwyr amryw weithiau fod teyrnas Dduw wedi dyfod yn agos at yr Iuddewon; ond yma fe ddywedir fod yr ysgrifenydd hwn yn agos at y deyrnas. Y mae ein bod ni yn agos at y deyrnas yn beth tra gwahanol i fod y deyrnas yn agos atom ni. Y mae yn wirionedd na buasai neb dynion byth yn agos at y deyrnas, heb i'r deyrnas yn gyntaf ddyfod yn agos atynt hwy; ond gall hi fod yn agos atynt hwy, ac y mae hyny yn bod yn fynych, heb eu bod hwy yn agos ati hi. Yr oedd y deyrnas mor agos at y genedl Iuddewig fel y gelwid hwy yn blant y deyrnas; er hyny yr oeddent hwy mor bell oddiwrthi, fel cenedl, fel ag yr oedd puteiniaid a phechaduriaid yn myned i mewn iddi o'u blaen hwynt. Y mae y deyrnas wedi dyfod yn agos at ddynion, pan fydd hi wedi gwisgo gwedd ddynol, a thrwy hyny wedi dyfod yn gyfryw ag y gall dyn ymwneyd â hi, ac ymaflyd ynddi. Y mae dyn wedi ei ddwyn yn agos at y deyrnas pan y bydd wedi ei ddwyn i deimlo ei angen am ei phethau hi, a hyny wedi creu graddau o ddisgwyliad ynddo am danynt, a mesur o barodrwydd i'w derbyn. Duw yn agoshau atom ni ydyw dyfodiad y deyrnas yn agos atom; ein meddwl ni yn agoshau at Dduw ydyw ein bod ni yn agos at y deyrnas. Y goleuni, sydd yn goleuo pob peth a berthyn i'n heddwch, yw dyfodiad y deyrnas yn agos atom ni; gallu yn y llygad i ddefnyddio y goleuni hwnw, yw ein hagosâd ni at y deyrnas. Y cerfiad ar y sêl, yw dyfodiad y deyrnas yn agos atom ni; y cŵyr wedi ei doddi i dderbyn

argraff y cerfiad, yw ein bod ni yn agos at y deyrnas. Y mae yn eglur y gall y naill agosrwydd fod heb y llall;—y gall fod digon o oleuni i ddangos pob gwrthddrych a berthyn i'n heddwch tragywyddol yn eglur, heb fod gallu yn ein llygaid ni i ddefnyddio y goleuni;—y gall cerfiad y sêl fod yn berffaith, heb fod y cŵyr wedi ei doddi i dderbyn yr argraff; y gall fod Duw yn ei deyrnas heb fod nebpell oddiwrthym, a'n bod ninau, er hyny, wedi ymddieithro oddiwrth fuchedd Duw, ac yn bell oddiwrth gyfiawnder. Yr oedd y deyrnas yr un mor agos yn ei phethau at yr holl genedl Iuddewig, yn nyddiau yr Arglwydd Iesu; eto, yr oedd gwahaniaeth dirfawr yn agosrwydd rhai o honynt hwy, ragor y lleill, at y deyrnas. Yr oedd y deyrnas mor agos at y Phariseaid, fel ag yr oeddent yn ei chau hi rhag y rhai a fynent fyned i mewn iddi; ond yr oeddent hwy mor bell oddiwrth y deyrnas, er hyny, fel ag yr äi y publicanod a'r pechaduriaid i mewn iddi o'u blaen hwynt. Yr oedd y bechadures hono, yn nhŷ Simon, yn ddigon agos at y deyrnas i ymwthio i mewn iddi: yr oedd y deyrnas yn agos at Simon ei hun, eto yr oedd efe ymhell oddiwrthi; ïe, a'r tebyg ydyw iddo aros y tu allan i'w throthwy hi byth. Yr oedd yr arch-synagogydd hwnw yn trafod pethau y deyrnas bob dydd, ac er hyny ymhell oddiwrthi. Yr oedd Zaccheus y tu allan i'w therfynau, ac eto yn agos ati hi. Yr oedd yr Iuddewon, y rhai yr oedd y deyrnas mor agos atynt, fel y gelwid hwynt yn blant y deyrnas, mor bell oddiwrthi, fel yr oeddent yn cael eu cau allan o honi. Yr oedd y rhai yr oedd y deyrnas cyn belled oddiwrthynt ag ydyw y dwyrain oddiwrth y gorllewin, a'r gogledd oddiwrth y deheu, yn ddigon agos ati hi i ymwthio i mewn iddi, ac eistedd gydag Abraham, Isaac, a Jacob yn nheyrnas Dduw. Yr oedd y tlodion mor agos ati, fel y dywedir fod y deyrnas yn eiddo iddynt; a'r cyfoethogion mor bell oddiwrthi, fel ag mai "haws i gamel fyned trwy grai y nodwydd ddur nag i oludog fyned i mewn iddi." Y mae hyn yn ddigon i ddangos fod bod y deyrnas yn agos atom ni, a'n bod ni yn agos ati hi, yn ddau beth tra gwahanol. Y mae y naill yn bod yn fynych heb y llall. Y mae y deyrnas yn agos atom ni oll, ond y mae yn ofnus nad ydym ni oll yn agos ati hi.

Gwaith Ysbryd Duw yn unig ydyw dwyn i mewn i'r deyrnas;

oni b'ai am dano Ef ni buasai cadwedig un cnawd; oblegid y mae y gwaith mor fawr, fel y gelwir ef yn greadigaeth, ac yn roddi bywyd, a phwy ond Duw a all wneyd hyny? Ond camgasgliad oddiwrth y gwirionedd hwn fyddai meddwl, gan fod y Gweithiwr yn Greawdwr, mai yr un peth ganddo Ef ydyw dwyn Manasseh ryfygus i mewn i'r deyrnas, ag ydyw dwyn y llanc hawddgar Timotheus iddi. Y mae yn wir fod ganddo ddigon o allu i ddwyn Manasseh i mewn; y mae yn wirionedd hefyd na wna gallu neb llai na'i allu Ef y tro i ddwyn Timotheus iddi. Ond nid yr hyn a all Efe sydd i fod yn rheol i ni, ond yr hyn y mae yn arfer ei wneuthur; a'r gwirionedd am hyny ydyw, am un Manasseh sydd yn cael ei ddwyn i mewn i'r deyrnas, fod cant Timotheus yn cael eu dwyn. Y mae y Gweithiwr mawr yn achub ambell un sydd yn bell oddiwrth y deyrnas, fel Manasseh, i brofi y gall Efe bob peth; ond nid yw yn achub ond ambell un, i ddangos na ddylai ei allu ddim cael ei gymeryd yn sail i neb ryfygu i wneyd drwg fel y dêl daioni; oblegid ni wna Efe bob peth a'r a all. Y mae grâs yn rhagor amlhau, weithiau, lle yr amlhaodd pechod, i ddangos ei gyfoeth; ond y mae y rhai sydd yn ymhyfhau i bechu oblegid hyny yn derbyn damnedigaeth fwy. Y mae yr Ysbryd, sydd yn dwyn y gwaith o amgylch, yn Weithiwr galluog: y mae yn Weithiwr rhydd hefyd. Y mae yn gweithio lle y myno: y mae yn gweithio hefyd i'r graddau y myno. Os dilyna Efe Paul, er iddo hir wingo yn erbyn y symbylau, nes ei orchfygu, fe âd i'r hen fyd enill yr ymrysonfa, nes ei diweddu hi mewn dinystr tragywyddol. Y mae Efe yr un mor rhydd gydâ graddau ei ymrysoniadau, ag ydyw gydâ'r personau y mae yn ymryson â hwynt. Y mae rhai yn dosbarthu ei ymrysoniadau i rai cyffredinol a neillduol, ac yn dywedyd fod y rhai cyffredinol y fath ag y gellir eu gorchfygu; ond bod y rhai neillduol yn sicr o derfynu yn iachawdwriaeth pechadur. Ond os oes sail i wahaniaethiad fel yna, y mae y rhai cyffredinol yn arwain yn uniongyrchol at y rhai neillduol; ac y mae yn dra amheus a gafodd neb y rhai olaf, a fu yn parhau i ymladd yn erbyn y rhai cyntaf. Tebycach ydyw, 'mai y neb sy ganddo y rhoddir iddo;' am hyny, y mae diffodd ymrysoniadau cyffredin yr Ysbryd yn cau y drws yn erbyn y rhai anghyffredin. Yr oedd

cenedl Israel bob amser yn gwrthwynebu yr Ysbryd Glân ;—yr oedd eu gwrthryfel hwynt yn ei ofidio ; am hyn y trodd Efe yn elyn iddynt ;—gadawodd iddynt enill y fuddugoliaeth arno, fel na ddiweddodd ei ymrysoniadau yn ei hiachawdwriaeth. Y mae ei fod yn ymryson o gwbl yn profi ei fod yn "Ysbryd y grâs ;" y mae "nad ymryson Efe yn dragywydd," yn profi ei fod hefyd yn Ysbryd pen-arglwyddiaethol.

Gweinidogaeth yr Ysbryd ydyw yr oruchwyliaeth hon ; ond y mae yr Ysbryd wedi cysylltu ei ddylanwadau wrth ei hordinhadau hi ; ac y mae disgwyl am danynt yn annibynol ar y rhai hyn, yr un mor afresymol ag a fuasai i'r llofrudd yn Israel gynt ddisgwyl diogelwch tuallan i furiau y ddinas noddfa. Er mai Duw sydd yn rhoddi y cynydd, nid yw yn gwneuthur hyny heb i Paul blanu, ac i Apolos ddyfrhau. "Os yr Arglwydd nid adeilada y tŷ, ofer y llafuria ei adeiladwyr wrtho." Ofer fydd gwaith yr adeiladwyr heb Dduw. Ni wna Duw ddim hebddynt hwy. Y mae yr Arglwydd trwy hyn yn mawrhau ei air, —trwy ei ddefnyddio yn unig foddion iachawdwriaeth. Gall rhyw oruchwyliaethau rhagluniaethol gael eu defnyddio i arwain y meddwl at y Gair ; ond y Gair, ac nid y rhai hyny ydyw y moddion trwy ba rai y mae yr Ysbryd yn adgenhedlu i obaith bywiol. Y weledigaeth a arweiniodd feddwl Paul gynt at ei gyflwr ; ond bu y cèn ar lygaid ei feddwl, fel y rhai ar lygaid ei gorff, nes i Ananias lefaru geiriau Crist wrtho. Ymddangosodd angel i Cornelius, nid i'w ddwyn i ryddid gogoneddus meibion Duw, ond i orchymyn iddo anfon am un i lefaru geiriau Crist wrtho ; a phan oedd Pedr yn gwneuthur hyny, "syrthiodd yr Ysbryd Glân ar bawb a oedd yn clywed y Gair," ac nid ar neb arall. Er bod y Gweithiwr gogoneddus yn rhydd, eto y mae yn ei rwymo ei Hun yn y rhodfeydd hyn : adnodau y Gair ydyw y pibellau trwy ba rai y mae yr olew euraidd yn disgyn i'r enaid. Y Gair yw y trosglwyddydd ar hyd yr hwn y mae y gwefr nefol hwn yn cerdded. Y mae rhai pethau ar y ddaear, mewn ystyr naturiol, nad ydynt yn trosglwyddo y tân gwefrol, neu y fellten : y mae pethau eraill yn ei sugno atynt ; ond mewn ystyr ysbrydol, nid oes ond un peth ar y ddaear yn drosglwyddydd i'r *electricity* nefol i'r enaid, sef y Gair. Y mae yn beryglus iawn, mewn ystyr naturiol bod yn agos i ddim sydd

â chryn sugn ynddo, pan y mae yr awyr yn llawn o fellt, neu y tân gwefrol. Pa sawl un a laddwyd oherwydd sefyll yn rhy agos at y goeden, neu at dŵr uchel, mewn amser o'r fath. Yn gyffelyb i hyn y mae yr hen ddyn pechod mewn perygl am ei fywyd, os bydd yn hir yn nghymydogaeth y Gair. Y mae wedi cael ei ladd mewn miloedd o fynwesau cyn hyn yn y lle yna. Trwy adnodau y Bibl y mae yr Ysbryd bob amser yn cael ei drosglwyddo, fel ag y mae y neb sydd heb y Gair tuhwnt i bosibilrwydd bod yn gadwedig. "Pa fodd y credant yn yr Hwn ni chlywsant am dano?" Ac y mae pawb sydd yn ddiystyr o'r ordinhadau, nid yn unig "yn debyg i fod yn ol," ond yn sicr o fod yn ol tra yn yr agwedd yna; oblegid, er mai trwy yr Ysbryd y mae pawb fyddant yn gadwedig yn ufuddhau, eto ufuddhau i'r gwirionedd y maent oll. Er mai Ysbryd Duw sydd yn dwyn pawb i mewn i'r deyrnas, eto, gan mai trwy y Gair y mae yn gwneuthur hyny, y mae y modd y mae rhyngom ni â'r moddion yn brawf o'r modd y mae y mater rhyngom ni â'r deyrnas yn sefyll. Nid oedd yr ysgrifenydd hwn ddim yn y deyrnas; ond y mae y Gwirionedd ei Hun yn tystio ei fod yn agos iddi. Yn awr ni a chwiliwn pa bryd y gellir dywedyd fod dyn heb fod ymhell oddiwrth deyrnas Dduw.

I. Tuag at fod yn agos at y deyrnas, y mae yn rhaid syniaw yn gywir am ei hegwyddorion sylfaenol hi: hyny yw, bod yn uniawn ein barn am bethau mawrion y gyfraith. Hyn yn benaf, feallai, a barodd i'r Arglwydd Iesu ddywedyd fod yr ysgrifenydd hwn yn agos iddi. Y mae yn amlwg, wrth ei ateb, ei fod yn deall egwyddorion sylfaenol y deyrnas, ac yn cydsynio â hwynt. Yr oedd holl sect y Phariseaid ymhell oddiwrth y deyrnas yn yr ystyr hwn. Treulient eu holl nerth gydâ'r pethau bychain, ac anghofient y rhai mawr. Yr oeddent yn fawr eu gofal am gorff crefydd, ond hollol esgeulus o'i hysbryd; —'yn degymu y mintys a'r anis, ond yn myned heibio i farn a chariad Duw.' Yr oedd eu hymddygiadau yn gwadu ysbrydolrwydd natur gwrthddrych eu haddoliad. Ni buasai neb byth yn casglu oddiwrth eu gwasanaeth fod y Duw a addolent yn "Dduw gwybodaeth." Camsynient yn gwbl am natur a diben yr holl seremonïau. Bwriadwyd hwynt i fod yn fantais i enaid gynal cymundeb â Duw. Bwriadwyd hwynt i fod yn ddangos-

iad, yn y dyn allanol, o ystâd y dyn oddimewn; ond gydâ hwynt, gwisg y dyn byw am y dyn marw oeddent. Dynwarediad crefydd i arbed y drafferth o fod yn grefyddol. Gweddïent fwy na mwy yn lle amlaf y bobl, i beidio gweddïo dim yn y dirgel. Gosodent ddeddf Duw i ymranu yn ei herbyn ei hun, i arbed y drafferth o gadw ei gorchymynion hi. Rhoddent ufudd-dod arwynebol i'r rhan hawddaf, er mwyn osgoi y rhai anhawddaf: torent orchymynion yr ail lech i gadw yn allanol rai y llech gyntaf. Ceisient fod yn gyfiawn tuag at Dduw,—cadw ei Sabbath, &c., i arbed bod yn drugarog tuag at ddynion. Yr oedd y camgymeriad hwn ynghylch natur y deyrnas yn eu gwneuthur mor bell oddiwrthi, fel nad oes hanes fod nemawr un o honynt wedi myned i mewn iddi. Ni ddywedwn fod camsyniad mewn barn yn waeth nag mewn buchedd; ond y mae hyn yn wirionedd: am bob un sydd yn cael ei achub ag oedd yn camsynied yn ei farn ynghylch pethau mawrion crefydd, y mae degau o'r rhai ag oeddent yn gwyro mewn buchedd. Yr oedd y publicanod a'r pechaduriaid oeddent â'u bucheddau yn ddrwg iawn, yn myned i mewn iddi, tra yr oedd y Phariseaid oeddent yn lân allanol, eto â'u barn yn ŵyr am bethau mawrion y deyrnas, y tu allan iddi. Cydwybod gysglyd oedd gan y naill; cydwybod dywyll oedd gan y llall; ac y mae yn haws deffroi cydwybod gysglyd, na goleuo cydwybod dywyll. Y mae llawer o wirioneddau y gallwn ni fod yn gadwedig heb fod yn gwbl uniawn ein barn yn eu cylch; ond y mae eraill y gellir dywedyd am danynt:—'Rhaid oedd credu y rhai hyn, ac na adewid y lleill heibio.' Ni a nodwn rai o'r egwyddorion hyny ag y mae yn rhaid eu credu cyn bod yn agos i'r deyrnas:—

1. Ein hangen am waredigaeth, a'n hanallu i waredu ein hunain. Nid aeth neb i'r deyrnas oedd yn gamsyniol am hyn. Y mae yr apostol yn sôn am ryw Iuddewon oeddent yn barnu eu hunain yn annheilwng o fywyd tragywyddol. Fe ddywed yr Athraw nad yw hwnw sydd yn caru tad neu fam yn fwy nag Ef ddim yn deilwng o hono. Ac wrth anfon y disgyblion allan i bregethu, gorchymynai iddynt holi pwy oedd deilwng, a myned i mewn at y rhai hyny. Nid teilyngdod haeddiant a feddylir yn y lleoedd hyn, ond teimlad o angen am bethau y deyrnas. Y mae hwnw yn cael ei ystyried yn deilyngdod iddi;

ac nid oes neb o'r rhai sydd yn ei feddu nebpell oddiwrth y deyrnas. Y syniad hwn ydyw Alpha y deyrnas,—gwyddor ei hiaith hi,—yr ymadrodd sydd yn dechreu rhai yn Nghrist. Heb hwn y mae dyn mor bell oddiwrth y deyrnas ag ydyw y dall oddiwrth ddeall lliwiau. Y mae yn y deyrnas bob peth, ond pob peth i rai heb ddim ydynt. Y mae yma wisg, ond gwisg i'r noeth ydyw. Y mae yma lygaid, ond llygaid i ddeillion ydynt. Y mae yma ffynon, ond ni bu neb erioed ynddi ond yr aflan. Y mae yma falm, ond ni bu neb erioed yn ei geisio ond y clwyfus. Y mae yma fywyd, ond nid oes neb yn deilwng o hono ond y marw. Y mae llawer o ymborth yn y maes, ond maes y tlodion ydyw. Ni bu neb erioed ynddo yn chwilio am dano ond hwynthwy. Iddynt hwy y mae y deyrnas yn cael ei phregethu: nid ydyw yn newyddion da i neb arall. Yr oedd y brenin a ddarparodd y swper mawr, yn dywedyd nad oedd y rhai a wahoddwyd yn deilwng; a'r annheilyngdod oedd, fod ganddynt oll ryw gymaint ar eu helw eu hunain, am hyny yr oeddent yn gallu gwneuthur heb y swper. Yr oedd gan un dyddyn,—gan un arall ychain,—gan un arall wraig; ond nid oedd gan dlodion, cloffion, a deillion yr heolydd, na thyddyn, nac ychain, na gwraig; am hyny yr oedd y gwahoddiad yn newyddion da iddynt hwy. Nid aethant i ddadleu ynghylch maint y swper, oblegid yr oedd chwant bwyd arnynt; am hyny yr oedd clywed am dano yn rhywle yn beroriaeth yn eu clustiau. Pan gynygiwyd gwaredigaeth gan Moses i blant Israel, y waith gyntaf, nid oeddent deilwng,—nid oedd yr angen wedi dyfod i'r teimlad Gallesid disgwyl y buasent yn llefaru, "Henffych well" i rywun a fuasai yn cynyg gwneuthur barn iddynt; yn lle hyny gofynent i'r neb a fynai fod yn waredwr,—'Pwy a'th osododd di yn farnwr arnom ni?' Ond pan ddaeth y caethiwed i'r teimlad, yr oedd gwaredigaeth gerllaw. Gydâg i'r waedd gyraedd clustiau Duw, y mae yntau yn disgyn i'w gwaredu. Angen, neu ddamwain, ydyw mam pob dyfais. Ni buasai y byd ddim wedi ei boblogi eto, oni b'ai am hyny. Nid oes neb, mwy na meibion Dan, yn chwilio am wlad newydd, tra y bydd ganddynt etifeddiaeth yn yr hen. Er cystled gwlad yw America, nid oes neb yn myned iddi ond rhai wedi methu, neu rai yn ofni y methant fyw yn ngwlad eu genedigaeth; felly, er cystled

lle yw teyrnas nef, nid aeth neb erioed iddi ond rhai wedi methu byw yn yr hen wlad. Plant afradlawn, wedi methu cael dim yn y wlad bell, yw ei holl ddeiliaid hi. Y mae pob camsyniad o bwys ynghylch y deyrnas yn gwreiddio mewn camsyniad am yr angen. Rhai heb weled hyn ydyw y rhai sydd yn ceisio myned iddi yn eu nerth eu hunain. Am eu bod heb wybod cyfiawnder Duw, y maent yn ceisio gosod eu cyfiawnder eu hunain. Y mae eraill yn cyfaddef yn ddigon tawel nad allant waredu eu hunain; ond y mae y tawelwch yn ddigon o brawf nad ydynt yn iawn synied am yr angen. Y mae y rhai sydd heb weled dyfnder y pydew yn meddwl y gall braich o gnawd eu codi oddiyno; am hyny nid oes arnynt eisiau dim yn yr Arglwydd Iesu, ond esiampl. Ond y mae yn rhaid i bawb sydd yn barnu yn gywir am ddyfnder y pydew gael Iesu Grist, nid yn unig yn esiampl, ond hefyd yn Iawn; nid yn ddyn yn unig, ond yn ddyn â'r Duwdod ynddo'n trigo. I'r praidd bychain, cofiwch, y rhyngodd bodd i'r Tad roddi y deyrnas; a pho leiaf y byddont, mwyaf oll a fyddant ynddi. Pan oedd mab Cis yn fychan, fe dderbyniodd deyrnas;—chwilio am asynod yr oedd, ond cafodd deyrnas cyn dyfod adref. Y mae pawb sydd yn ei derbyn hi yn ysbrydol, yr un fath ag ef. Yr oedd eu hangen yn gyfryw fel ag y buasent yn ddiolchgar am y briwsion, y diwrnod ag y derbyniasant y deyrnas. Nid oedd Pen y deyrnas ddim yn bwyta gydâ brenhinoedd a thywysogion, ond yr oedd yn swpera gydâ phublicanod a phechaduriaid. Yr oedd yn myned heibio i'r holl rai iach, i chwilio am rywun fyddai wedi syrthio ymysg lladron: briwiau hwnw oedd yn cael yr olew a'r gwin. Caiff Herod ddymuno yn ofer weled gwyrth; ond ni chaiff y wraig o Ganaan ddim gwneyd hyny. Aeth gwraig y dyferlif yn nes ato, heb neb i'w chyflwyno, na'r Groegiaid hyny oeddent wedi cael disgybl i wneuthur hyn iddynt. A oes yma ryw gaethwas yn gwrandaw? gallaf yn ddibetrus ddywedyd, "Nid wyt ti bell oddiwrth deyrnas Dduw;" oblegid rhyddid yw hi. Os oes yma ryw Benhadad, ac angau wedi dringo i'w ffenestri ymhob man; na wêl ê ddim goleuni o un man, ond rhyw wawr wanaidd sy rhyngddo â thir Israel:—"Nid wyt ti bell oddiwrth deyrnas Dduw;" oblegid Brenin trugarog sydd yn llywodraethu y tir hwnw. Os oes yma rywun mewn dyled heb ddim i dalu, mewn

helbul a chyni heb ymwared,—"Nid wyt ti bell." Y mae diogelwch i bawb o'r fath, gydâ Dafydd yn ogof Adulam. Diffyg gweled yr anger sydd yn gwneuthur y deyrnas ymhell oddiwrth ganoedd o Gymry. Y mae y Ceidwad mewn llawer odfa, heb fod y colledig yno. Y mae y Meddyg rhwng mynyddoedd Cymru; ond mae yr afiach ar wastadedd Asia. Y mae y ffynon yma; ond yn Affrica y mae yr Ethiop du. Y mae y Rhyddhawr yma; ond nid yw y caethion; y deyrnas yn agos, a'r rhai y pregethir hi iddynt ymhell.

2. Un arall o egwyddorion sylfaenol y deyrnas, y mae yn angenrheidiol ei chredu cyn bod yn agos iddi, ydyw, fod Iesu Grist yn Dduw wedi ymddangos yn y cnawd;—fod ei farwolaeth yn iawn, ac mai trwyddo Ef y mae yn rhaid bod yn gadwedig. Nid oes neb wedi ei eni o Dduw, os na bydd yn credu mai yr Iesu yw y Crist; ac y mae yr ysbryd hwnw sydd yn gwadu na ddaeth Efe yn y cnawd bob amser yn ysbryd cyfeiliorni. Y mae llawer yn ei barchu fel dyn, heb ei addoli fel Duw; ond y mae y rhai yna mor bell oddiwrth y deyrnas, fel ag y maent eto heb gael y drws iddi. Credu yr angen, a chredu fod pob peth yn Nghrist ar ei gyfer, ydyw dau beth mawr y deyrnas. Y mae hi yn cael ei chynwys yn gryno yn y cwestiwn a'r ateb hwnw:—"Beth sy raid i mi ei wneuthur, fel y byddwyf gadwedig?" "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi, ti a'th deulu." Y mae y neb sydd wedi teimlo y cwestiwn ac sydd hefyd yn hysbys o'r ateb, yn agos at y deyrnas. Newyn yw un; gwledd yw y llall. Sodoma yn myned ar dân yw y cyntaf; mynydd y diogelwch yw yr ail. Colledigaeth Eden yw un; iachawdwriaeth Calfaria yw y llall. Gwnai credu y cyntaf, heb yr ail, hi yn uffern ar y ddaear. Gwnai credu yr ail heb y cyntaf i ni sathru gemau y nef o dan ein traed. Ond y mae y neb sydd yn credu y ddau ar drothwy y deyrnas. Os ydyw credu fod Iesu Grist yn Dduw—yn Iawn—yn Geidwad—yn arwydd o agosrwydd at y deyrnas, yr ydym ni oll, meddwch, felly; oblegid nid oes yma neb yn gwadu hyn. Gall hyny fod, heb fod yma neb yn ei gredu ychwaith. Pe dywedid y gwir am ugeiniau, hyny a fyddai, nad ydynt yn meddwl am y pethau hyn. Ni buoch chwi erioed yn chwilio yn ol i'w achau nes ei gael yn Fab Adda, Fab Duw. Ni bu yr ymadawiad a wnaeth

Efe yn Jerusalem erioed yn destyn eich myfyrdod am bum' mynyd, er ei fod yn werth gan Elias a Moses adael y nef, i ymddiddan âg Ef yn ei gylch. Ni thynodd efe na'i waith ddim cymaint o'ch sylw, nes peri i chwi ofyn,—"Pwy yw Hwn?" Pe buasech chwi yn gofyn, buasai y patriarchiaid, y prophwydi, a'r apostolion, yn achub y cyfle i ddywedyd. Buasai y patriarch Job yn ateb,—"Hwn yw Ceidwad dyn, y Prynwr byw." Peraidd ganiedydd Israel,—"Hwn yw y Brenin y mae trueiniaid y bobl yn ymddiried ynddo." Esaiah yn ateb,—"Hwn yw Tad tragywyddoldeb,—Tywysog tangnefedd,—yr Ymguddfa rhag y gwynt,—y Lloches rhag y dymhestl; ni frysia pwy bynag a lecho yn ei gysgod." Buasai Daniel yn ateb,—"Hwn yw y Messiah a laddwyd i ddibenu camwedd, ac i ddwyn i mewn gyfiawnder tragywyddol." Nid ydych yn ei wadu; ond nid ydych yn credu digon ynddo i'w garedigion gael mantais i ddywedyd wrthych pwy ydyw. Y mae pawb sy felly ymhell oddiwrth y deyrnas; ond y mae y rhai sydd yn agos iddi yn ymofyn fel Ioan,—"Ai tydi yw yr Hwn sydd ar ddyfod, ai un arall yr ydym i'w ddisgwyl?" Os gwelant hwy arwydd ei fod yn cyflawni gwyrth yn rhywle, y maent yn s cr o fyned yno i yspïo a oes yno arwydd fod rhywun mwy na dyn yn gweithio. Os gwelant fod cwr y llen yn cael ei symud, y maent yn rhedeg ymlaen i edrych a oes yno ryw debyg fod y shecinah y tu hwnt iddi. Y maent hwy yn sefyll gerllaw y groes pan y mae yn marw; yn clywed y gair "Gorphenwyd;"—ac nid ydynt yn ymadael o'r gymydogaeth nes clywed y nefoedd, ar làn y bedd newydd, foreu y trydydd dydd, yn adsain, "Boddlonwyd." Y maent i'w hadwaen drachefn gydâ godre y dyrfa ar fynydd yr Olewydd, yn edrych arno yn esgyn i'r nefoedd. Nid oes neb sydd yn arfer rhodio y llwybrau yna ymhell oddiwrth y deyrnas. Nid ydynt yn y deyrnas fel Nicodemus a Joseph; ond y maent yn rhodio o amgylch y drws er hyny.

3. Un arall o egwyddorion sylfaenol y deyrnas, nad ellir bod yn agos ati, heb fod yn uniawngred yn ei chylch, ydyw synied yn gyw r am natur yr iachawdwriaeth sydd yn Nghrist,—nad iachawdwriaeth o uffern ydyw, ond oddiwrth bechod;—ei bod hi yn gwaredu o uffern y byd a ddaw, trwy dynu uffern o'n mynwes

yn y byd hwn; a'i bod hi yn ein dwyn ni i deyrnas nef wedi ymadael âg yma, trwy ddwyn y deyrnas i'n mynwes cyn hyny. Y mae myrddiynau yn ymofyn iachawdwriaeth; ond nid yr iachawdwriaeth sydd yn Nghrist ydyw hi: nid ymadael â'u pechod sydd arnynt eisiau, ond â'i gosb. Nid oes arnynt eisiau neb i'w symud oddiar y ffordd lydan, ond rhywun i'w cipio o'r distryw sydd yn ei phen draw hi. Y maent yn ymofyn Offeiriad i wneyd cymod dros anwiredd, ond nid Brenin i deyrnasu arnynt Nid ceisio yr Iesu y mae y rhai yna; oblegid Melchisedec yw Efe, "Offeiriad y Duw Goruchaf," a "Brenin Salem" hefyd. Y mae mwy o gamsyniad yn ein plith ni eto, ynghylch natur yr iachawdwriaeth sydd yn Nghrist nag yr ydym ni yn ei dybied. Paham yr oedir mater enaid at ryw amser dyfodol, os nad am eich bod yn dirgel gredu, mai Gwaredwr rhag uffern yw Mab Duw? A phan yr ydych yn tybied fod hono gerllaw, yr ydych yn meddwl llefain o ddifrif,—"Arglwydd, cadw ni, canys darfu am danom." Pe credech chwi mai iachawdwriaeth oddiwrth bechod sydd ynddo, ni allech lai na llefain allan heddyw,—"Arglwydd, cadw ni," oblegid yr ydych yn ngafael hwnw yn awr. Y mae yn wirionedd annhraethol werthfawr ei fod yn rhyddhau oddiwrth ganlyniadau gweithredoedd drwg; ond y mae mor wir a hyny, nad yw yn gwneuthur hyn heb greu i weithredoedd da. Y mae yn cyfnewid rhan pechadur yn y byd a ddaw; ond y mae yn gwneyd hyny, am ei fod yn cyfnewid ei gymeriad, o fod yn bechadur i fod yn sant, yn y byd hwn. Achub i fyw, ac nid i farw, y mae yr Arglwydd Iesu. Y mae y dyn hwnw sydd yn disgwyl gwaredigaeth yn unig oddiwrth uffern drwyddo, yn bell oddiwrth deyrnas Dduw; ond y mae y neb sydd yn ymofyn gwaredigaeth oddiwrth bechod drwyddo, yn ei hymyl hi. Ni wn i ddim pa faint a omeddodd Efe waredu rhag uffern, ond mi wn na omeddodd Efe waredu neb oddiwrth bechod. Os un ran o'r iachadwriaeth sydd arnoch eisiau, yr ydych yn bell oddiwrth y deyrnas. Pa faint sydd yn chwenychu gwrthddrychau y deyrnas, ac nid ei chymhwysder hi;—ei dinas ogoneddus, ac nid cymhwysder y dinasyddion. Y mae arnat chwant i'r ddinas; ond alltud a fyddit ti yno;—byddit yn farbariad i bawb, a phawb yn farbariaid i tithau. Ac nid oes dim alltudion yn y nef: dinasyddion

a theulu ydynt oll. Pa le y mae y dyn sydd arno fwy o syched am gymhwysder i'r nef nag am y nef ei hun; sydd yn fwy pryderus ynghylch dilyn yr Oen yma, nag ynghylch eistedd ar ei ddeheulaw draw? Nid yw y dyn yna bell oddiwrth deyrnas Dduw. Fe ddywedir fod y neb sydd yn ceisio y deyrnas yn ei chael hi; ond yn yr Efengylwr Luc, yr ydym yn cael fod llawer yn ceisio myned i mewn iddi, ond nis gallant. Ond y mae y cyd-destyn yn dangos mai rhai wedi camgymeryd natur y deyrnas oedd y rhai oeddent yn ceisio ac yn methu. Yr oeddent yn disgwyl cael derbyniad i mewn iddi yn y byd a ddaw, am fod ei hordinhadau gydâ hwynt yma. Paham yr oeddent yn methu? Wel, gorsedd sy draw; ni wna neb ddim â hono ond Brenin. Cysegr sydd yno; ni all neb fod yn ddiberygl yn hwnw ond Offeiriad. Aneddle lonydd ydyw y wlad hono; nid ä'r Ismaeliaid ddim yno er ceisio. Y mae y porth yn rhy gyfyng i bawb ond i feibion tangnefedd. Y mae hwnw sydd yn chwenychu gwlad y goleuni, yn hytrach na bod yn blentyn y goleuni,—yn chwenychu cael bod yn y deyrnas draw yn hytrach na chael y deyrnas ynddo ef yma,—yn bell oddiwrthi.

II. Cyn y gellir dywedyd fod un heb fod ymhell oddiwrth deyrnas Dduw, y mae yn rhaid ei fod wedi ymwrthod â phob annuwioldeb cyhoeddus. Yr oedd y gŵr ieuanc, oedd wedi cadw yr holl ddeddf, mor agos i'r deyrnas nad oedd ond un peth yn ol iddo. Yr oedd mor foesol, fel ag yr oedd yr Arglwydd Iesu ei Hun yn ei hoffi; ac nid oes neb, mewn gwirionedd, yn agos i'r deyrnas heb fod yn hyn yn gyffelyb iddo. Y mae dwy ddichell sydd wedi bod yn hynod o lwyddianus gan y diafol i gadw rhai draw oddiwrth y deyrnas: un ydyw, ceisio gan ddyn wneuthur cyfiawnder o'i weithredoedd da, a gosod hwnw yn lle cyfiawnder Mab Duw. Y mae y ddichell yna yn dinystrio myrddiynau yn Eglwys Rhufain. Y llall ydyw temtio dyn i 'wneuthur drwg fel y dêl daioni.' Gan fod iachawdwriaeth o râs, mai goreu po mwyaf a bechir, fel 'y caiff grâs ragor-amlhau lle yr amlhaodd pechod.' Ond y mae y naill ddichell mor sicr o dywys i angau a'r llall; oblegid, er bod trugaredd yn hoffi dangos ei hun, nid oes neb yn cael cymeryd mantais ar hyny. Hi achubodd fyrddiynau o bechaduriaid mawrion; ond yn gyffredin, yr oedd eu deall cyn dywylled a'u calon. Fe bechodd

Saul o Tarsus yn rhyfygus, a chafodd drugaredd, oblegid, medd efe, iddo yn ddiarwybod wneuthur hyny trwy anghrediniaeth; ac y mae yn cael ei godi i fyny fel cofgolofn i ddangos mawredd trugaredd; ond nid i gymell neb i fyw mewn pechod, eithr yn hytrach i bwy bynag sydd yn clywed tystiolaeth yr efengyl beidio anobeithio, er maint ei bechodau, 1 Tim. i. 16. Fe bechodd yr archoffeiriaid a gwerin Jerusalem bechod arswydus pan y croeshoeliasant Arglwydd y bywyd; ond cafodd miloedd o honynt drugaredd, oblegid, medd Pedr, trwy anwybod y gwnaethant. Ond nid oes hanes fod a fyno trugaredd un amser bron â'r rhai hyny sydd â chydwybod oleu, ac er hyny yn byw yn groes iddi: ïe, y mae cydwybod y dosbarth yna yn myned yn gyfryw nad all y gwirionedd ddim mànu arni. Ni a welwn esiampl o hyn yn Drusila: yr oedd Ffelix yn arwain bywyd annuwiol; ond yr oedd yn genedl-ddyn, ac felly yn gwneuthur hyny, mewn cymhariaeth, yn ei anwybodaeth: am hyny, pan glywodd ê Paul yn ymresymu am gyfiawnder, a dirwest, a'r farn a fydd, fe ddychrynodd. Yr oedd Drusila yn Iuddewes, ac fel y cyfryw, gellid tybied, wedi ei goleuo am y gwahaniaeth oedd rhwng da a drwg; ond yr oedd hi yn byw mewn anniweirdeb gydâ Ffelix, a hi a wrandawodd Paul heb grynu, am fod y goleu mwy yr oedd hi yn pechu yn ei wyneb wedi gwneuthur ei chydwybod hi mor galed, fel nad oedd yr hyn oedd yn dychrynu Ffelix yn effeithio dim arni hi. Fe fu Duw yn achub cablwyr, meddwon, a dynion aflan yn Nghymru er's can' mlynedd yn ol, ond rhai yn pechu mewn anwybodaeth oeddent. Yn awr, y mae y Bibl ymhob tŷ,—yr Ysgol Sabbothol ymhob ardal,—a'r efengyl yn cael ei phregethu i bawb, fel na ellir pechu mewn anwybod yn awr: am hyny nid yw yr hyn oedd yn cael ei wneuthur yn aml er's can mlynedd yn ol, ddim yn cael ei wneuthur ond yn anfynych iawn yn y dyddiau hyn. Yr oedd aberth dros bechodau anwybod gynt, a thros eraill na fyddent yn cael eu hystyried yn rhyfygus; ond am y rhai rhyfygus, fel rhai meibion Eli, nid oedd na bwyd-offrwm, na diod-offrwm a wnai gymod drostynt byth. Y mae iawn Iesu Grist âg anfeidrol haeddiant ynddo; ond gwyliwn wneuthur yn hyf arno, rhag i ni gyflawni pechodau na wna aberth y groes ddim cymod drostynt. Rhai wedi eu goleuo unwaith, a

phechu yn wyneb goleuni, ydyw y rhai oedd yn anmhosibl iddynt ymadnewyddu i edifeirwch. Ac y mae y Bibl, yn ei dystiolaethau a'i siamplau, yn myned yn erbyn y syniad yna; ei iaith ef ydyw :—"Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gŵr anwir ei feddyliau ;"—"Ymolchwch, ymlanhewch, bwriwch ymaith ddrygioni eich gweithredoedd,...peidiwch â gwneuthur drwg: dysgwch wneuthur daioni......Deuwch yr awr hon, ac ymresymwn, medd yr Arglwydd: pe byddai eich pechodau fel ysgarlad, ânt cyn wŷned a'r eira; pe cochent fel porphor, byddant fel gwlan." Y mae ei siamplau yn profi, er bod Duw yn esgeuluso amseroedd anwybodaeth y byd, nad yw yn gwneuthur hyny â rhai goleu. Fe olchwyd pechaduriaid Corinth; fe ddyfethwyd rhai Jerusalem. Fe achubwyd y lleidr a fu yn cablu y Gwaredwr ar y groes; fe ddamniwyd y disgybl fu yn ei werthu. Yr oedd y cyntaf yn gwneuthur yn y tywyllwch, a'r llall yn y goleu. Y mae pob pechod rhyfygus yn cymeryd y dyn ryw gymaint yn mhellach oddiwrth y deyrnas, ac yn gwneuthur yn fwy annhebyg y gwelir ef ynddi byth. Yr oedd holl blant Israel, pan yn cychwyn o'r Aipht, yn debyg iawn o weled Canaan. Yr oedd rhwystrau lawer ar eu ffordd hwynt; ond yr oedd llŵ Duw o blaid iddynt fyned yno. Yr oedd digon yn hwnw i orchfygu y rhwystrau oll. Ond gydâ'u bod yn yr anialwch, y maent yn dechreu temtio Duw â'u pechodau rhyfygus. Gwnaethant hyny lawer gwaith. Yr oedd pob tro yn peryglu yr etifeddiaeth, ac yn eu gwneuthur hwythau yn barotach i wneuthur rhyfyg drachefn; ond ar ol y deg tro, y mae yr Arglwydd yn dywedyd,—"Os byw fi, yr holl dir a lenwir o ogoniant yr Arglwydd: canys yr holl ddynion a welsant fy ngogoniant, a'm harwyddion a wnaethum yn yr Aipht, ac yn y diffaethwch, ac a'm temtiasant y dengwaith hyn, ac ni wrandawsant ar fy llais, ni welant y tir y tyngais wrth eu tadau hwynt; sef y rhai oll a'm digiasant, nis gwelant ef." Dyna y dynion oeddent yn ymyl Canaan yn myned mor bell oddiwrthi, fel y mae llŵ Duw rhyngddynt â'r wlad. Y mae pawb sydd yn dilyn eu llwybrau yn sefyll mewn perygl o'r un peth. Y mae camsynied am egwyddorion sylfaenol y deyrnas yn gwneuthur dyn ymhell oddiwrthi. Y mae pechu yn wyneb goleuni y deyrnas yn ei wneuthur felly hefyd. Y mae yn rhaid

cael deall goleu, ac amcan cywir am fyw yn ol ei oleuni, cyn y gellir dywedyd fod un yn agos i'r deyrnas. Yr oedd yn nyddiau yr Arglwydd Iesu rai oeddent yn byw yn anfoesol yn cael eu dwyn i mewn iddi; ond yr oeddent oll yn rhai heb ddeall clir yn ei chylch. Yr oedd pawb oedd â deall goleu, ac yn byw yn groes i'r goleuni yn gyfryw nad oes genym hanes eu bod un amser yn dyfod iddi. Yr oedd holl ddisgybion a chanlynwyr Mab Duw yn ddynion crefyddol o'r blaen, can belled ag yr oedd eu goleuni yn myned; neu, ynte, os oeddent yn byw yn anfoesol, yr oedd hyny am eu bod heb wybod y gyfraith.

III. Y mae dyn yn agos at y deyrnas, pan fydd rhyw gymaint o chwilfrydedd yn ei feddwl yn ei chylch hi, neu o bryder ynghylch dyfod iddi. Y mae rhyw amserau penodol ar wledydd ac ar ardaloedd, pan y mae pawb ynddynt yn agos at y deyrnas;—y mae hi yn "amser boddlongar" yr Arglwydd, ac am hyny yn "ddydd iachawdwriaeth" iddynt hwy. Yr oedd dyddiau Ioan Fedyddiwr felly: teyrnas Dduw yn cael ei phregethu, a phob dyn yn ymwthio iddi. Yr oedd dyddiau yr Arglwydd Iesu mewn modd neillduol felly;—"dyddiau Mab y dyn." Ac y mae adegau mwy hynod yn yr ystyr hwn i fod ar y byd nag a fu eto, pan y bydd ei holl genhedloedd yn ymofyn am y ffordd tua Sïon. Y mae rhyw gyflawnder amser fel hyn yn perthyn i'r deyrnas, a phan y gwawria hwnw ar wlad, y maent yn ei hymyl hi. Mewn adeg o'r fath, yn gyffredin, y mae yr efengyl yn myned i wlad baganaidd. Y mae yno addfedrwydd i'w derbyn hi; ac nid ychydig fydd ei dychweledigion hi yn ei chychwyn. Y mae y rheswm am hyn yn un o'r dirgeledigaethau sydd yn perthyn i Dduw; ond y mae y ffaith yn eglur i ni nad ydyw hi ddim wedi ei derbyn gan genedl heb fod yno ryw chwilfrydedd yn ei chylch hi yn flaenorol. Fel yr Indiaid y crybwylla Barnes am danynt. Ond y mae hyn yn perthyn yn neillduol i bob dyn sydd yn clywed yr efengyl. Y mae rhyw adeg o chwilfrydedd yn ei feddwl ynghylch y deyrnas. Gelwir hi yn y Bibl yn "haf,"—yn "gynhauaf,"—yn "amser ymweliad,"—yn "ddydd iachawdwriaeth." Y mae yr enwau hyn yn dangos mai adeg derfynol ydyw hi: ni wyddom ni pa bryd y mae yn diweddu; ond y mae angau yn ei diweddu hi i bawb, a gall ei bod hi yn terfynu

cyn hyny. Ond unwaith y bydd hi drosodd, y mae y deyrnas a'r pechadur yn ymbellâu oddiwrth eu gilydd am dragywyddoldeb. Ysbryd Duw sydd yn dwyn o amgylch y cyflawnder amser hwn yn meddwl person fel yn meddyliau cenedl. Ni buasai yn ddydd gras heb waith yr Ysbryd. Nid oedd gwaith Crist ddim yn fwy angenrheidiol i hyn nag ydyw gwaith yr Ysbryd. Yr oedd eisiau rhyw gymaint o nerth fel o oleuni i'w wneuthur yn ddydd gras i ni ; ac nid oes neb yn clywed gair y deyrnas heb wybod i ryw fesur am ddydd y nerth hwn, ac y mae yn ddieithriad yn ddydd iachawdwriaeth. Fe ddywedir fod rhyw lanw (*tide*) yn amgylchiadau pawb allai arwain i gyfoeth, hyny yw, bod rhyw adeg ar ei oes, ond ei defnyddio, y gallai dyn wneyd ei nyth yn glyd tra ar y ddaear. Beth bynag am hyny, y mae y deyrnas yn gwneuthur rhyw adeg ar eich oes chwi yn *ddydd iachawdwriaeth.* Y mae dylanwadau y deyrnas yn peri i chwi ddychrynu fel Ffelix, neu yn eich dwyn o fewn ychydig i fod yn Gristionogion, fel Agrippa. Y mae yn ddydd sydd â'i bob peth ynglŷn wrth iachawdwriaeth. Y mae ei lanw yn ei gario i'r hafn ddymunol. Y mae ei wynt yn deg i dy gymeryd di i mewn i borthladd y bywyd. Feallai mai dydd y pethau bychain ydyw, ond pethau bychain ynglŷn wrth iachawdwriaeth. Os nad oes yna wynt nerthol yn rhuthro, lleda dy hwyliau i'r awel wanaidd yna, y mae hona yn sicr o gyraedd tir y bywyd. Os nad oes yna lef yn peri i anialwch Cades grynu, gwrandaw di ar y llef ddistaw fain yna ; y mae hyny ynglŷn wrth iachawdwriaeth. Amser boddlongar Duw ydyw : na ddifwynwch ddim o bethau y dydd ;—'y mae bendith ynddynt.' Gwnewch yn fawr o'r adeg y mae ymofyniad yn ei chylch hi yn eich meddwl, oblegid cynhauaf y deyrnas ydyw. Gellir dywedyd am danoch y pryd hwnw,—" Nid wyt ti bell oddiwrth deyrnas Dduw."

Gwyliwch wneuthur y deyrnas yn elyn i chwi : gwrthrytela yn ei herbyn ydyw yr unig ffordd i wneuthur hyny. Ac yn wir, byddai yn well genym ddigio pawb na digio y deyrnas. Ni ddymunwn i ddim digio yr Iesu,—y Gŵr fu yn Bethlehem,—yn Gethsemane,—ar Galfaria, yn ein lle ni ;—a fu yn wibiad ar y ddaear, i arbed i ni fod felly yn y byd a ddaw ; a adawodd wlad yr addewid, i agor y ffordd i ni gael byw ynddi ; a aeth i

lawr i ystafelloedd angau, i dynu y niwed o honynt; a gariodd fàrau a drysau y ddinas i ben y bryn, fel ag y gall orchymyn y pryd y myno i bawb sydd ynddi ymadael. Ni ddymunwn i ddim digio yr Iesu,—y Gŵr a waeddodd, pan oedd cyfiawnder yn chwilio am yr euog:—'Wele fi: gad i'r rhai hyn fyned ymaith;'—a ddywedodd wrth y gyfraith:—'Tywallt dy felldith yma: gad i'r rhai hyn fyned ymaith.' Pan oedd Duw, fel Barnwr cyfiawn, wedi ymaflyd yn y ddynoliaeth, daeth Efe ymlaen, fel Judah yn yr Aipht gynt, i gynyg ei Hun dros Benjamin:—'Arosed dy Was dros y llanc yn Was i'm Harglwydd; ac aed y llanc i fyny gydâ'i frodyr;'—cymer fi, a 'gad i'r rhai hyn fyned ymaith.' Digio yr Iesu!—na, ni fynwn er dim wneyd hyny, oblegid yr wyf yn disgwyl llawer oddiar ei law eto. Nid oes genyf hanes yr un arweinydd trwy lyn cysgod angau ond Efe. Ni chlywais i am neb a fedrai arwain yn ddiogel trwy yr Iorddonen ond Efe. Oddiar ei law Ef yr wyf yn disgwyl trugaredd yn *y dydd hwnw.* Nid oes genyf obaith cael myned heibio i borth Gehenna, os na thry Efe yr agoriad yn y clo; na chael myned i mewn i deyrnas Dduw, heb iddo Ef orchymyn i'r pyrth dderchafu eu penau, oblegid ganddo Ef y mae agoriadau y byd anweledig. Ond pe byddai raid i mi benderfynu pa un o ddau ddrwg a wnawn i, er y cwbl a ddywedwyd, byddai yn well genyf ddigio yr Iesu na digio y deyrnas; oblegid, er bod y pechod o ddigio yr Iesu yn un mawr, eto y mae Efe yn maddeu; ond os digia Ysbryd Duw, ni faddeuir y pechod hwnw, nac yn y byd hwn, na'r hwn a ddaw. A chan nad ydyw yn maddeu, peth ofnadwy ydyw ei ddigio; oblegid y mae Efe mewn sefyllfa y mae llawer iawn ar ei law. Nid peth bychan oedd digio Joseph, pan oedd efe yn llywydd ar wlad yr Aipht; nid peth ysgafn i Tyrus a Sidon oedd digio Herod; nid peth dibwys i Haman oedd digio Esther; ond annhraethol fwy pwysig i chwi fydd digio Ysbryd Duw. Efe yw adeiladydd y deml ysbrydol: er bod ei defnyddiau hi wedi eu casglu yn iawn y groes, fel y casglwyd defnyddiau y Tabernacl gynt yn yr anialwch, ni fedr neb ei hadeiladu hi ond Efe. Efe ydyw y Bezalëel, sydd wedi ei lenwi â deall, ac â gwybodaeth, ymhob rhyw waith. Y mae Efe yn medru dychymygu cywreinrwydd: gall Efe wneyd peth mor gywrain

ag ysgrifenu y gyfraith yn y galon. Efe sydd wedi cael allan ffordd i droi y gallestr yn llyn dwfr. Y mae yr hen deml yma yn wag iawn o ddodrefn; ond nid oes obaith cael un dodrefnyn iddi, ond o dan ei law Ef. Ffarwel am weled y canwyllbren aur, nac allor y poeth-offrwm byth ynddi, os na lunir hwynt ganddo Ef. Ffarwel am weled y *shecinah* byth ynddi, heb iddo Ef barotoi y cysegr iddo. Yr oedd rhyw Aholiab gynt yn gyffelyb i Bezalëel, yn medru gwneuthur cywreinrwydd fel yntau; ond nid oes i Ysbryd Duw ail yn gyffelyb iddo: Efe, ac Efe yn unig, sydd yn fedrus yn y cywreinrwydd o drin calon pechadur. Nid peth ysgafn fydd ei ddigio;—ei ddigio hefyd fel Ysbryd y gras. Nid peth bychan yr oedd Efe yn ei gynyg; na, dim llai na theyrnas. Yr oedd maint y rhodd yn profi mai Ysbryd y gras oedd; am hyny y mae ei gwrthod hi yn ei ddifenwi. Y mae y gair yna yn arwyddo peth cyffelyb i'r meddwl a phe buasai y corff yn cael ei drywanu. Y mae gwrthod y deyrnas yn ddirmyg sydd yn trywanu Ysbryd y gras. Gwyliwch wrthod ei roddion: y mae hyny yn y diwedd yn sicr o'i wneuthur yn elyn i chwi.

A oes yma rywun pell oddiwrth y deyrnas? Gobeithio nad oes. Ond os oes, yr ydych yn debyg iawn i fod yn ol; oblegid nid oes neb felly yma, nad ydynt o'u gwirfodd felly. Y mae Duw wedi defnyddio moddion i'ch glanhau chwi; ond yn ofer: ac fel hyny y bu am rai yr un fath a chwi; Ezec. xxiv. 13:—"Yn dy aflendid y mae ysgelerder: oherwydd glanhau o honof di, ac nid wyt lân, o'th aflendid ni'th lanheir mwy, hyd oni pharwyf i'm llid orphwys arnat." Yr ydych wedi eich planu mewn bryn tra ffrwythlawn; ond nid oes yna ddim ffrwyth i Dduw. Sut bynag y bu hi am danoch chwi, fel hyn y digwyddodd i rai yr un fath a chwi; Esa. v. 4, 5:—"Beth oedd i'w wneuthur ychwaneg i'm gwinllan, nag a wnaethum ynddi? paham, a mi yn disgwyl iddi ddwyn grawnwin, y dug hi rawn gwylltion? Ac yr awr hon mi a hysbysaf i chwi yr hyn a wnaf i'm gwinllan: tynaf ymaith ei chae, fel y porer hi; toraf ei magwyr, fel y byddo hi yn sathrfa." Yr ydych 'yn tremygu y geiriau:' sut bynag y daw hi i'ch rhan chwi, hyn fu rhan rhai yr un fath a chwi; 2 Chron xxxvi. 16:—"Yr oeddynt hwy yn gwatwar cenadau Duw, ac yn tremygu ei eiriau ef, ac

yn gwawdio ei brophwydi ef; nes cyfodi o ddigofaint yr Arglwydd yn erbyn ei bobl, fel nad oedd iachad."

Belledigion, dychrynwch! O nad elai hi yn gymaint o gyffro yn y wlad bell, nes eich dwyn chwi yn agos! A chwithau sydd yn agos, na fyddwch uchelfryd, eithr ofnwch, rhag i'r mwynder yna ymadaw, cyn i chwi fyned iddi; rhag i'r tipyn ireidd-dra yna sychu fel gwlith boreuol. Bu Ffelix yn ymyl, ac Agrippa ar y trothwy: y mae agendor rhyngddynt a hi heddyw. Yr oedd y dyn ieuanc hwn gerllaw iddi, ond y mae yn ofnus mai y tuallan iddi y bu efe farw. "Ymdrechwch (*agonize*), byddwch mewn ing, am hyny i fyned i mewn." Ysbryd Duw biau ddryllio y graig yma, meddwch chwi; ïe, ond gwneuthur yn debyg gydag ef ag y gwnaeth rhyw ddyn gyda'r graig naturiol: yr oedd arno eisiau cael mellt y nef i'w dryllio hi. Nid oedd y mellt dan ei lywodraeth ef, ond fe wyddai y byddent yn arfer cael eu sugno gan ryw fath o wialen haiarn: fe dorodd dwll yn y graig; a phan welodd e 'r awyr yn llawn o'r gwefr, rhoddodd y wialen i sefyll ynddo, a dyma y fellten i lawr ar hyd-ddi, nes oedd y graig yn chwilfriw. Gwnewch chwithau yr un fath: planwch adnodau y Bibl fel cynifer o wiail gwefrol (*electric rods*) ar adamant y galon. Y maent yn arfer sugno tân Duw;—y mae yr Ysbryd yn arfer disgyn ar hyd-ddynt, nes dryllio y graig. A hyny a wnelo â chwi oll, fel y byddoch, nid yn unig o fewn ychydig, ond ynddi yn gwbl oll.

[Boreu Sadwrn, Rhagfyr 13, 1850.]

## PREGETH LV.

### TEYRNAS DDUW YN AGOS.

LUC x. 9.—" Daeth teyrnas Dduw yn agos atoch."

DECHREUODD Ioan Fedyddiwr a'r Arglwydd Iesu eu gweinidogaeth â'r un ymadroddion :—" Edifarhewch, canys nesäodd teyrnas nefoedd." A phan anfonwyd y deuddeg apostol a'r deg disgybl a thriugain allan i bregethu, gorchymynwyd iddynt hwythau hefyd ddefnyddio ymadroddion cyffelyb ; yr apostolion i ddywedyd, fod teyrnas nefoedd wedi nesâu ; a'r deg a thriugain, eiriau y testyn. Er bod yr ymadroddion " teyrnas nefoedd " a " theyrnas Dduw," y rhai sy mor fynych i'w cael yn yr efengylwyr, yn ymddangos yn ddieithr i ni, y mae yn eglur nad oeddent felly i'r Iuddewon, oblegid nid oes esboniad yn cael ei roddi arnynt. Wrth ddywedyd eu bod yn agos, fe gymerir yn ganiatäol fod pawb yn gwybod eu hystyr ; ac felly yr oeddent ; oblegid yr oedd ffurf eu llywodraeth hwy, ynghyd â geiriau y prophwydi, wedi cynyrchu syniad cenedlaethol ynddynt am y deyrnas. Yr oeddent yn ystyried eu hunain fel cenedl yn deyrnas Dduw. *Theocracy*, Duw-lywiaeth, oedd eu llywodraeth yn ei ffurf gyntefig. Yr Arglwydd, mewn modd uniongyrchol, oedd eu Brenin. Y tabernacl oedd ei balas. Yr achoffeiriad oedd ei brif weinidog, yr hwn oedd i gario gorchymynion y Brenin i'r deiliaid, a deisyfiadau y deiliaid at y Brenin. A phan yr oeddent yn gofyn brenin, fel y cenhedloedd amgylchynol, y mae yr Arglwydd yn ystyried hyny yn wrthodiad o hono Ef. Ac wedi iddynt gael brenin, nid oedd ond llywydd o dan yr Arglwydd, yn gyffelyb i'r hyn oedd tetrarchiaid Judea o dan

Cesar, heb hawl ganddo i newid dim ar ddeddfau sylfaenol y deyrnas. Ei unig waith ef oedd gofalu am eu gweinyddu mewn cyfiawnder. Yr oedd eu bod yn deyrnas Dduw yn gosod mawredd arnynt ragor un genedl arall ar y ddaear; eto, nid oedd yr hyn oedd ganddynt mewn meddiant ond bychan mewn cymhariaeth i'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl. Yr oeddent yn disgwyl ystâd ar bethau yn eu plith, oedd i'w galw yn deyrnas Dduw, mewn ystyr uwch na dim oedd wedi bod yn y byd cyn hyny. Yr oedd y disgwyliad hwnw yn sylfaenedig ar eiriau eu prophwydi. Yr oedd yn anmhosibl iddynt gredu y geiriau hyny, heb ddisgwyl rhyw bethau mawrion. Yr oedd Esaiah wedi dywedyd fod Arglwydd y lluoedd yn myned i deyrnasu "yn mynydd Sïon ac yn Jerusalem," yn y fath ogoniant, nes y gwridai y lleuad, ac y cywilyddiai yr haul;—fod mynydd ei dŷ i gael "ei barotoi ymhen y mynyddoedd." Ac yr oedd Daniel wedi desgrifio mawredd y deyrnas gydâ manylrwydd (pen ii. 44, a vii. 18):—"Yn nyddiau y brenhinoedd hyn, y cyfyd Duw y nefoedd frenhiniaeth yr hon ni ddistrywir byth: a'r frenhiniaeth ni adewir i bobl ereill; ond hi a faluria, ac a dreulia yr holl freniniaethau hyn, a hi a saif yn dragywydd." "Eithr saint y Goruchaf a dderbyniant y frenhiniaeth, ac a feddianant y frenhiniaeth hyd byth, a hyd byth bythoedd." Yr oedd y prophwydoliaethau hyn, a'u cyffelyb, yn rhoddi sail ddigonol i'r disgwyliadau mwyaf eang; oblegid nid oedd dim mawr na gogoneddus nad oedd ganddynt sail i'w ddisgwyl: felly yr oeddent fel cenedl yn byw yn yr amser dyfodol, yn disgwyl am yr oes euraidd. Gwir fod pawb yn gamsyniol am natur y deyrnas; eto yr oedd pob dosbarth o'r trigolion yn ei disgwyl. Yr ydym yn darllen fod y dyrfa unwaith yn disgwyl yr ymddangosai teyrnas Dduw yn y fan. Fe ddywedir fod Joseph yn disgwyl am y deyrnas; ac y mae yr apostolion, hyd yn nod ar ol adgyfodiad eu Harglwydd, yn gofyn,—"Ai y pryd hwn y rhoddi drachefn y frenhiniaeth i Israel?" Yr hyn a ddisgwylient hwy, yn ddiameu, oedd teyrnas ddaearol; a hono i gael ei sefydlu trwy arwyddion a rhyfeddodau, cyffelyb i'r rhai a wnaed pan y neillduwyd hwynt, wrth ddyfod o'r Aipht, i fod yn bobl i'r Arglwydd. At hyn y cyfeirir wrth ddywedyd, eu bod yn disgwyl yr ymddangosai y deyrnas

yn y fan; ond y mae yr eglurhad a rydd yr Arglwydd Iesu ar y deyrnas yn dangos mai nid felly y daw hi:—"Ni ddaw teyrnas Dduw wrth ddisgwyl;"—nid un fel yna ydyw;—"o'ch mewn chwi y mae." Yr oeddent hwy yn deall geiriau y prophwydi yn llythyrenol, ac felly y mae llawer eto; a gallai fod hyny yn iawn; ond dylid cofio nad yw y wedd allanol ar y deyrnas ddim i'w disgwyl yn fuan. Fe'i sefydlwyd hi yn allanol gynt cyn ei sefydlu yn dumewnol; ond yn awr y mae hi i ddechreu i mewn, ac i weithio ei hunan allan. Wedi cael y deyrnas o fewn holl drigolion y byd, fe gyflawnir yn llythyrenol y geiriau sydd yn ei desgrifio fel teyrnas allanol. Wedi cael y byd yn saint, bydd saint y Goruchaf wed'yn yn derbyn y frenhiniaeth oddidan yr holl nefoedd. Y mae rhai yn meddwl mai teyrnas ysbrydol yn unig a fydd, ac ereill yn meddwl mai teyrnas weledig a ddesgrifir; ond paham nad all y ddwy blaid fod yn iawn? Y mae hi yn sicr o fod yn un ysbrydol, ac y mae mor sicr a hyny, pan y bydd hi wedi ymweithio, fel lefain yn y blawd, trwy ysbrydoedd holl blant Adda y bydd hi yn weledig, pa un bynag a ddaw y Mab i deyrnasu am fil o flynyddoedd gydâ'i saint, ai peidio. Os na ddaw yn bersonol, bydd ei lywodraeth mor wirioneddol ar y ddaear a phe buasai Ef yma yn bersonol.

Ond nid i'r Iuddewon yn unig yr oedd y disgwyliad hwn yn perthyn. Y mae, ac yr oedd, rhyw freuddwyd am deyrnas Dduw gan holl drigolion y byd. Y mae pob creadur yn cydocheneidio am dani. Nid oedd yr oes euraidd, y sonia doethion y byd paganaidd am dani, yn ddim ond enw arall ar y disgwyliad oedd yn eu mynwes am y deyrnas. Beth bynag sydd yn achosi y disgwyliad hwn yn y fynwes ddynol,—pa un ai adgof ydyw o'r hyn a fu ein natur unwaith, ai ynte ymwybodolrwydd o'r hyn y mae hi wedi ei bwriadu iddo,—y mae y syniad am deyrnas Dduw yn gwibio trwy y meddwl dynol erioed,—yn ei gynal ymhob ystorm,—yn ei ddiddanu ymhob trallod. Y mae gweledigaeth gyffelyb i un Esaiah wedi ymddangos i fyrddiynau heblaw iddo ef;—tangnefedd yn llenwi y byd cynhyrfus;—y ddaear oll wedi myned yn fynydd sancteiddrwydd Duw, heb ddim o'i mewn hi yn drygu ac yn difetha. Y mae yn wir fod syniadau y rhan fwyaf o lawer o drigolion y byd yn

hollol gamsyniol am y deyrnas; eto, y maent oll, fel Joseph, yn disgwyl am deyrnas Dduw. Y mae y byd heddyw yn ymsefydlu ar y tŵr,—yn sefyll ar ei ddisgwylfa, i edrych i bob cwr am arwyddion ei dyfodiad hi. Nid oedd yr Iuddewon gynt, yn hyn, yn ddim ond cysgod o'r byd yn gyffredinol. Yr oedd yn eu plith hwynt bob dosbarth yn disgwyl am y deyrnas;—Joseph, y pendefig;—Anna, y brophwydes;—Simeon, yr henafgŵr;—y plant bychain oeddent yn llefain "Hosanna;"—disgyblion y torthau, a'r gwir ddisgyblion hefyd;—disgwyl yr oeddent oll am ei hymddangosiad hi. Felly y mae y byd heddyw; y mae pob math yn cytuno i ddisgwyl am yr un peth. Y mae yr un deisyfiad yn myned allan yn ochenaid annhraethadwy o'r galon ddynol ymhob man:—"Deled dy deyrnas." Yr oedd y neb oedd i ddwyn y deyrnas gynt, 'yn ddymuniant yr holl genhedloedd;' ond yr oeddent, fel y Samariaid, yn dymuno yr hyn ni wyddent. Na, yr oedd yr Iuddewon mewn cymhariaeth iddynt hwy, yn disgwyl yr hyn a wyddent, sef disgwyl am i Dduw ddyfod i lywodraethu y byd. Y mae yr adeg hono wedi dyfod yn awr:—"Daeth teyrnas nefoedd," neu "deyrnas Dduw, yn agos atoch" o'r diwedd. Y mae awenau llywodraeth y cwbl yn myned i'w law. Caiff y byd yn raddol wybod mai y nefoedd sydd yn llywodraethu.

Ond rhag iddynt gamgymeryd natur y deyrnas, y mae yr un sydd yn cael ei galw yn "deyrnas Dduw," yn cael ei galw hefyd yn "deyrnas nefoedd." Llywodraeth a fydd hi o'r un natur a llywodraeth y nefoedd. Nid un i ddangos ei hun yn gymaint mewn pethau allanol; ond un ar ysbrydoedd dynion. Yr oedd y llywodraeth oedd gan Dduw arnynt fel cenedl yn llywodraeth weledig;—corff teimladwy oedd, ac mewn cymhariaeth i hono ysbryd yw llywodraeth y nef. Yr oedd y gyfraith yno yn ysgrifenedig ar lechau ceryg; ond yn y nef ni raid ei hysgrifenu hi ar ddim, oblegid y mae hi wedi ei chydwau â holl natur y trigolion. Yno yr oedd rhwysg a mawredd o amgylch tŷ yr Arglwydd, i gadw ufudd-dod iddo trwy ofn: cuddiai ei wyneb â thywyllwch tew y cysegr sancteiddiolaf, rhag i'r bobl hylldremu arno; ond yn y nef, y mae yn trigo yn y goleuni. Nid rhaid lladd neb byth am aberthu tân dieithr i roddi ofn ar y lleill. Yno yr oedd yn rhaid cael llanerch benodol i addoli.

Yr oedd y meddwl yn methu cael gafael ar Dduw, heb gael troi ei wyneb at y gafell sanctaidd; ond am y nef, "teml ni welwyd ynddi;"—y mae pawb ymhob man yn gallu dal cymundeb uniongyrchol â Duw. Yno celfyddyd, i raddau pell, oedd addoli; ond yn y nef, natur ydyw;—nid symudiad peirianwaith, ond ysgogiad bywyd. Felly, teyrnas o'r natur yma sydd wedi dyfod atoch chwithau yn awr. Nid teyrnas y bwyd a'r diod ydyw, ond teyrnas ysbrydol. Nid oes arni eisiau llechau i'w deddf, ond llechau cnawdol y galon Nid rhaid iddi gael y mynydd hwn, na Jerusalem, yn lleoedd i'w deiliaid addoli;—y maent yn addoli ymhob man mewn ysbryd a gwirionedd. Nid oes eisiau Teml i osod coffadwriaeth o'i enw ynddo; oblegid lle bynag y byddo dau neu dri wedi ymgynull, y mae y Shecinah dwyfol yno gydâ hwynt. Nid celfyddyd a fydd addoli mwy, ond bywyd yn yr enaid,—"O'ch mewn chwi y mae" teyrnas nef.

Teyrnas nefoedd hefyd, am mai yn y nef y bydd hi wedi ei pherffeithio. Gwawr ydyw hi yn awr, ond gwawr dydd y nef. Ni fydd dim gwahaniaeth rhwng y deyrnas yr ochr draw rhagor yma, ond y gwahaniaeth sy rhwng gwawr y boreu a haul haner dydd. Pan oedd teyrnas Dduw yn weledig gynt ymysg yr Iuddewon, nid oedd yn ei lle ei hun tra y buont hwy yn yr anialwch: yr oedd yn lle anhawdd, os nad yn anmhosibl, cario allan ei holl ddefodau, oblegid teyrnas wedi ei bwriadu i Ganaan ydoedd hi,—yno yr oedd yn hawdd cydymffurfio â'r holl ddeddfau. Felly, teyrnas Dduw yn yr anialwch ydyw y deyrnas yn awr: nid hawdd ydyw, oblegid hyny, cydymffurfio â'r holl reolau; ond yn y nef, bydd wedi cyraedd y wlad y bwriadwyd hi iddi. Bydd caru Duw â'r holl galon, mor hawdd yno ag ydyw o anhawdd yma. Bydd mor anhawdd peidio diolch yn Nghanaan, ag ydyw peidio grwgnach yn yr anialwch. Bydd y deyrnas yno yn ei gwlad ei hun; ac felly y lleferir am dani bob amser fel un yma ac yn y nef; a'r hyn sydd yn cael ei lefaru sydd i benderfynu ymha le y mae y geiriau i'w cymhwyso at y deyrnas: pan gyffelybir hi i'r had da,—i'r trysor,—ac i'r rhwyd,—y deyrnas yr ochr hon a feddylir; ond pan y dywedir—'Y daw rhai o'r gogledd, y gorllewin, y dwyrain, a'r deheu, ac yr eisteddant gydâg Abraham, ac Isaac, a Jacob, yn nheyrnas Dduw,' y deyrnas yr ochr draw

sydd i'w deall. Ac weithiau mae yn anhawdd penderfynu pa un a feddylir; oblegid nid oes dim gwahaniaeth rhyngddynt, ond y gwahaniaeth sy rhwng bachgen a gŵr perffaith. Y mae yn ddigon tebygol na bydd y nef ddim mor ddieithr i'r saint ag y maent hwy yn fynych yn tybied: nid na bydd ei gogoniant hi yn annhraethadwy, ond ni bydd yno ddim nad all y sant wneuthur defnydd o hono. Bydd ganddo lygad i'w goleuni hi,—clust i'w pheroriaeth hi,—tafod i ymuno â'i chydgân hi: fe deimla ei hun gartref gydâ 'i fod yno. Ni bydd dim yn newydd iddo ond yn y graddau. Llewyrch yr un wyneb ag y byddai yn arfer gorphwys ynddo yma, sydd yn gwneuthur gorphwysfa y nef; ond ei fod yma yn y drych, neu ar ddameg, ac yno yn ddilen. Caru heb weled ydyw hi yma; ond gweled ydyw yno, a bod yn dragywyddol debyg iddo. Teyrnas nefoedd ydyw, am mai yno y perffeithir hi.

Yr oedd y deyrnas hon wedi dyfod yn agos y pryd hyny at y genedl Iuddewig. Draw, draw y bu hi am ganoedd o flynyddoedd; ond yr oedd ei gweled hi o bell yn peri i batriarchiaid a phrophwydi lawenychu, a gweddio yn yr ysbryd,—"Deled dy deyrnas." Ond yn awr yr oedd y Messiah wedi dyfod; ac ynddo Ef y mae teyrnas Dduw wedi agosâu. Efe ydyw ei sylfaen hi mewn gwirionedd. Y mae y deyrnas yn gynwysedig ynddo Ef ei hunan: gwirionedd yn yr Iesu yw ei phob peth hi. Nid oedd y pethau yr oeddent hwy fel cenedl yn eu disgwyl ond gau, yn yr ystyr yr oeddent hwy yn disgwyl am danynt; eithr yr oeddent yn wirionedd yn yr Iesu. Yr ydych chwi yn disgwyl i deyrnas Dduw ddyfod i'ch gwaredu chwi o dan iau orthrymus y Rhufeiniaid; ni ddaw hi ddim yn yr ystyr yna. Ond y mae hi wedi dyfod yn agos atoch mewn ystyr arall. "Deuwch ataf fi,"—cewch orphwysdra well na honyna,—gorphwysdra enaid. Yr ydych chwi yn disgwyl i deyrnas Dduw ddyfod a'ch codi chwi i rwysg a mawredd yn ngolwg cenhedloedd y ddaear; ond ni ddaw hi ddim fel yna. Eto, y mae y deyrnas wedi dyfod yn agos atoch: "Deuwch ataf fi," a chwi a fyddwch mewn perthynas a rydd annhraethol fwy o urddas arnoch na hynyna, sef yn feibion i Dduw, a hyny mewn ystyr na all yr un creadur arall fod. Yr ydych chwi yn disgwyl i deyrnas Dduw ddyfod a'ch dial chwi ar eich gelynion;

ond ni ddaw hi ddim fel yna eto. Y mae hi wedi dyfod yn agos atoch :—"Deuwch ataf fi, a dysgwch genyf; canys addfwyn ydwyf, a gostyngedig o galon,"—fe ladd hyny elyniaeth eich mynwes, fel na bydd arnoch eisiau dial mwy. Ynof fi cewch bob peth yr ydych yn ei ddisgwyl yn nheyrnas Dduw, a hyny mewn ystyr annhraethol ragorach na'r hon yr ydych chwi yn ei disgwyl. "Daeth teyrnas Dduw yn agos atoch."

Y mae hi yn agos yn yr ystyr yma eto. Yr ydym ni yn disgwyl, fel yr Iuddewon, oes euraidd draw. Pa beth a roem ni am gael byw yn y mil blynyddoedd ? ac v mae yn ddiamheuol y bydd hwnw yn amser dymunol i fyw ynddo, pan y bydd teyrnas Dduw yn llenwi y ddaear ; ond ni wna dyfodiad y deyrnas i'r byd yn gyffredinol y pryd hyny, ddim yn amgen nag a wnai ei dyfodiad hi yn bersonol, yn ein mynwesau ni yn awr. Nid rhaid i ni yn bersonol ddisgwyl am flynyddoedd am y mil blynyddoedd ;—na, gallant ddechreu heddyw. Pe gellid dywedyd mewn gwirionedd am rywun o honoch,—"Heddyw y daeth iachawdwriaeth i'r tŷ hwn," gellid ychwanegu fod dydd y mil blynyddoedd wedi dechreu yr un pryd i chwi. A wna dyfodiad y mil blynyddoedd ymlid gelynion yr Arglwydd Iesu o'r byd ? Fe wna ei dyfodiad hi i'r galon eu hymlid o'ch mynwes chwi yn awr. Ac y mae genym ni fwy i'w ofni oddiwrth dylwyth ein tŷ ein hun nag sy genym i'w ofni oddiwrth ddim cymydogion Efallai y carem ni weled 'y blaidd a'r oen yn trigo ynghyd,—y llewpard a'r myn yn cyd-orwedd,—y llô yn chwareu gydâ chenaw y llew, a bachgen bychan yn eu harwain o'r maes at y tŷ ;—y plentyn sugno yn chwareu wrth dwll yr asp, a'r hwn a ddiddyfnwyd yn estyn ei law ar ffau y wiber.' Bydd pethau fel hyn i'w gweled yn nyfodiad teyrnas Dduw ; ond gellwch weled pethau rhyfeddach na hynyna yn awr mewn ystyr ysbrydol yn eich mynwes eich hun, sef gweled galluoedd yr enaid, oeddent mor aflywodraethus a bwystfilod gwylltion yr anialwch, yn cael eu gwneuthur mor ddof a gwâr a'r fuwch a'r oen gan Fab Duw. Yr ydych oll yn awyddus am gael gorphwysfa y nef, ond yr ydym ni, y rhai a gredasom, wedi myned i fewn i'w orphwysfa Ef yma. Ni bydd y nefoedd draw ddim yn amgen ond mewn graddau. A ydyw llywodraeth Satan i gael ei dinystrio, a'r gelyn ddyn i

gael ei rwymo, yn y mil blynyddoedd? Credu yn Mab Duw a barai i'r llywodraeth gael ei dinystrio, a'r gelyn ei rwymo, yn ei berthynas â chwi yn awr. Y mae y deyrnas yn nes atoch nag yr ydych chwi yn meddwl; ond y mae llawer o honoch fel gwas Eliseus,—yr oedd pethau rhyfedd gerllaw hwnw gynt, ond yr oedd y llanc heb eu gweled. Digon tebyg ei fod yn meddwl yn fynych yr hoffasai fod yn yr un wlad a'r hen Elias, i weled y cerbydau tanllyd, a lluoedd Duw; ond nid oedd hyny ddim yn angenrheidiol; pe buasai ef yn gweled, yr oedd y cerbydau tanllyd, a lluoedd Duw, yn ei ymyl. Felly, ni raid i ninau fyned draw i chwilio am y deyrnas,—y mae hi "yn agos atom." Fe wnai credu tystiolaeth y Bibl yr un peth i ni ag a wnaeth agoriad llygaid i lanc Eliseus; fe'ch arweiniai chwi i mewn i'r byd dieithr yr ydych chwi yn meddwl sy draw, pan mewn gwirionedd y mae yn eich ymyl. Tangnefedd Duw, yr ydych chwi yn disgwyl a fydd ryw bryd yn teyrnasu ar y ddaear: y mae i'w gael yn awr trwy gredu. Cariad Crist a fydd wedi rhoddi gwedd newydd ar y byd ryw amser i ddyfod: chwi ellwch ei wybod yn bersonol yn awr, res rhoddi gwedd newydd ar eich enaid chwi. Nid draw y mae y deyrnas, ond yn agos atom.

Yn Nghrist y daeth y deyrnas yn agos atom; am hyny, lle bynag y byddo'r efengyl, sef y newyddion da am Waredwr, yn cael eu cyhoeddi, gellir llefaru y testyn gydâ phriodoldeb wrth ei gwrandawyr:—"Daeth teyrnas Dduw yn agos atoch." Wedi gwneuthur yr ychydig sylwadau cyffredinol yna ar y deyrnas, ni a edrychwn yn mhellach, pa bryd yn benodol y gellir dywedyd ei bod wedi dyfod yn agos at bobl:—

I. Y mae y deyrnas wedi dyfod yn agos, pan y byddo yn cael ei chyhoeddi yn eglur mewn gwlad. Yr oedd gobaith bywyd tragywyddol wedi ei addaw gan y digelwyddog Dduw cyn seiliad y byd; ond nid oedd yn obaith wedi ei roddi o'n blaen ni, nes iddo gael ei egluro trwy bregethu. Dirgelwch oedd, na soniwyd am dano er dechreu y byd, nes y gorchymynwyd ei bregethu i'r holl genhedloedd, er mwyn ufudd-dod ffydd. Cyn hyny yr oedd y deyrnas mor bell oddiwrthynt, fel y dywedir eu bod heb obaith ganddynt, ac heb Dduw yn y byd; ond o ddyddiau Ioan Fedyddiwr, pan ddechreuwyd pregethu y

deyrnas, daeth mor agos trwy hyny, fel y dywedir fod pawb yn ymwthio iddi, a threiswyr yn ei chipio hi. Y mae Duw wedi cuddio llawer o bethau mewn tywyllwch mor gaddugtyd, fel na all ond ychydig eu cael allan, ac na all ond ychydig eu deall wedi eu darganfod. Er bod ei holl weithredoedd wedi eu gwneuthur mewn doethineb, y mae y doethineb hwnw mor ddwfn, fel na all ond un o ddeng mil ei ganfod;—er ei fod yn gweithio ar y dde ac ar yr aswy, ni ellir cael gafael arno; ond nid felly y gwnaeth gyda'i deyrnas,—daeth â hono i'n hymyl. Sylfaenwyd hi ar ychydig ffeithiau, a'r rhai hyny mor eglur na fyddai raid i ynfydion fethu eu deall. Nid oes yr un ddarpariaeth ragddarbodol yn angenrheidiol ar neb i'w deall. Ynfydrwydd fyddai myned â seryddiaeth Newton, neu athroniaeth y meddwl i blith dynion annysgedig ac anwar: byddai raid eu parotoi i'w deall,—eu coethi â gwybodaeth am flynyddoedd,—yn gyntaf; ac ofer fyddai pob ymdrech gydâ llawer o honynt,—aent i'w bedd heb ddeall y naill na'r llall; ond y mae ffeithiau y deyrnas y fath, fel y gellir eu cyhoeddi ymhob man. Nid rhaid cael neb i ragflaenu wyneb y pregethwr, i barotoi meddyliau y rhai mwyaf anwar i ddirnad yr hyn a draddodir;—na, y maent mor syml fel y gall y mwyaf pwl ei ddeall eu derbyn. "Mae y gair yn agos atat, yn dy enau, ac yn dy galon; hwn yw gair y ffydd, yr hwn yr ydym ni yn ei bregethu; mai os cyffesi â'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig fyddi;" Rhuf. x. 8, 9.

Y mae dau olygiad i'w cael ar y deyrnas,—un yn ei pherthynas â Duw, a'r llall yn ei pherthynas â ni. Wrth edrych arni yn ei pherthynas â Duw, y mae yn ymddangos ymhell iawn; ond wrth edrych arni yn ei pherthynas â ni, y mae hi yn agos iawn. Yn ei pherthynas â Duw, y mae yma arfaeth, etholedigaeth, cyngor a saif, ac ewyllys anghyfnewidiol: y mae hi yn bell yn y fan yna, mor bell fel y dywedir,—"Pwy gan hyny a all fod yn gadwedig?" gan nad ydyw pawb ond fel telpyn o bridd yn ei law ef, o'r hwn y mae yn gwneuthur un llestr i barch, ac arall i anmharch. Ond yn ei gwedd ddynol, y mae hi wedi dyfod hyd atom ni. Y mae rhai yn edrych ar y deyrnas bob amser yn ei pherthynas â Duw, ac felly yn ei gweled hi yn bell iawn,

—rhy bell i ymwthio iddi; ond gollwng dros gof y maent mai eiddo yr Arglwydd yw y dirgeledigaethau, ac mai y pethau amlwg sydd i ni. Paham ynte, meddir, y dadguddiwyd y wedd yna ar y deyrnas? Feallai i hyny gael ei wneuthur i brofi pen-arglwyddiaeth Duw; ac y mae mor angenrheidiol i ni gael ein dwyn i deimlo fod ganddo hawl i wneuthur fel y gwelo yn dda, ag ydyw i ni deimlo mai Duw cariad yw; oblegid heb yr amlygiad o ben-arglwyddiaeth, ni buasai y teimlad o ymddibyniad ar Dduw ddim yn ein mynwes; ac heb yr amlygiad o'i gariad, buasai yn anmhosibl cynyrchu y teimlad o ffydd neu hyder ynddo. Drachefn, fe amlygwyd y wedd yma ar y deyrnas i brofi dyn, i weled a wnaem ni obeithio yn erbyn gobaith,—gobeithio, er bod sail gref i anobeithio. Fe gredodd Abraham yr addewidion i'w fab; fe ufuddhaodd hefyd i'r gorchymyn i'w ladd. Yr oedd yn anmhosibl iddo gysoni y ddau beth â'u gilydd; ond nid oedd hyny ddim yn ei atal i'w credu hwynt. Yr oedd yn disgwyl yn ddiysgog am gyflawniad yr addewidion y byddai ei had fel sêr y nef mewn nifer, pan yn aberthu Isaac i'r hwn y gwnaethpwyd yr addewidion. Felly, gall mai un o ddibenion Duw yn amlygu ei gyngor ydyw, i weled a obeithwn ni yn erbyn gobaith;—a gredwn ni bethau heb fedru eu cysoni. Pe medrem ni eu cysoni, nid wrth ffydd y byddem yn rhodio, ond wrth olwg. Er gweled a gredwn ni yr ymadrodd hwnw:—"Ni *fynwch* chwi ddyfod ataf fi, fel y caffoch fywyd," gerllaw yr ymadrodd arall, "Ni *ddichon* neb ddyfod ataf fi, oddieithr i'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd, ei dynu ef." Er gweled a rown ni ufudd-dod i'r ymadrodd hwnw, "Deuwch ataf fi bawb a'r y sydd yn flinderog a llwythog, a mi a esmwythâf arnoch," er gwybod yr adnod arall, "Yr hyn oll oll y mae y Tad yn ei roddi i mi, a ddaw ataf fi." "Trowch eich wynebau ataf fi, holl gyrau y ddaear, fel y'ch achuber;" "A bydd, pwy bynag a alwo ar enw yr Arglwydd a fydd cadwedig;"—dyna wedd ddynol y drefn. "Mi a drugarhaf wrth yr hwn y trugarhawyf, ac a dosturiaf wrth yr hwn y tosturiwyf;" "Felly gan hyny nid o'r hwn sydd yn ewyllysio y mae, nac o'r hwn sydd yn rhedeg chwaith; ond o Dduw, yr hwn sydd yn trugarhau" (Rhuf. ix. 16); dyna ei pherthynas hi â Duw. Ond y mae y ddau wedi eu hamlygu, i edrych a

gredwn ni yr addewid, heb ddeall y bwriad ;—a rown ni ufudd-dod i'r pethau eglur, heb amgyffred y dirgelion ;—a aberthwn ni Isaac, ac eto ddisgwyl am y fendith drwyddo. Y mae yn rhaid cadw y ddwy olygfa yna ar y deyrnas gerbron yn wastad ; oblegid y mae gwadu un o honynt yn lladd ymdrech am ym-wthio i mewn iddi. Y mae gwadu ochr Duw, y cyngor, a'r arfaeth, yn ein gwneyd ni yn rhyfygus. Gan ei bod hi oll yn ymddibynu ar fy llaw fy hun, onid allaf droi i mewn iddi ychydig oriau cyn marw, yr un fath ag yn awr ? Y mae gwadu ein hochr ni, sef nad oes genym ddim i'w wneuthur, yn tueddu i'n gwneuthur yn anobeithiol. Gan mai 'o'r Hwn sydd yn trugarhau' y mae, 'pwy, meddir, a wrthwynebodd ei ewyllys Ef?' Y mae anobaith a rhyfyg yn lladd ymdrech. Y mae credu 'na ddichon neb ddyfod at y Mab, oddieithr i'r Tad ei dynu ef,' mor angenrheidiol i gadw ymdrech yn y meddwl am ddyfod ato, ag ydyw credu 'na fwrir allan pwy bynag a ddêl.' Pe buasai Duw heb amlygu ei fwriadau, buasai y deyrnas mor agos nes y buasem ni yn mathru ei chynygion hi, fel moch yn mathru gemau. Pe buasai Duw heb amlygu ein hochr ni, buasai y deyrnas mor bell, na buasai neb yn ceisio myned i mewn iddi. Y mae ei hagosrwydd hi atom yn ei gwahoddiadau yn peri i ni lawenychu ; ond y mae ei bod hi wed'yn yn llaw Duw, yn peri i'r llawenydd hwnw gael ei gymysgu â dychryn. Y mae hi yn ddigon agos fel y gall pawb obeithio ; y mae hi yn ddigon pell fel na ddylai neb ryfygu. Y mae hi wedi ei dwyn yn agos ; ond agos atom ni fel creaduriaid rhesymol ydyw,—fel rhai yn meddu deall, ewyllys, a serch. Y mae hi wedi dyfod yn ddigon agos i ni allu ymwneyd â hi â'r galluoedd hyn ; ond nid mor agos fel ag i wneyd ein galluoedd fel creaduriaid rhesymol yn ofer. Y mae yr Arglwydd yn dwyn ei bethau mor agos fel ag y tâl ymdrechu ; ond nid mor agos fel ag i ladd ymdrech : buasai felly yn diffrwytho y galluoedd a roddodd Efe ei Hun yn yr enaid. Y mae y ddaear yn dwyn llysiau i gynhal-iaeth dyn : ond y mae yn rhaid ei thrin hi i hyny. Y mae y ffrwd yn rhedeg o honi ei hun : eto gall syched ein lladd ni o fewn llathen iddi. Y mae llin a gwlân ddigonedd ar y ddaear ; ond gallwn rewi gan oerfel er hyny, os nad ymdrechwn i'w defnyddio er clydwch. Yr oedd cynhaliaeth yn agos i'r Israel-

iaid, pan oedd y manna o amgylch y gwersyll gynt; ond buasent oll yn marw o newyn heb godi allan i'w geisio. Yr oedd glanhâd yn agos i Naaman pan orchymynwyd iddo fyned i'r Iorddonen i ymolchi. Yr oedd golwg yn agos i'r dall pan y cyfeiriwyd ef i lyn Siloam. Yr oedd iechyd yn agos i'r hwn a frathwyd gan y sarff danllyd, pan glywodd ef am y sarff bres. Nid mor agos ag i ladd ymdrech; ond mor agos fel ag yr oedd gwiw ymdrechu. Cyn clywed am yr Iorddonen, a Siloam, a'r sarff brês, nid oedd gwiw ymdrechu; ac wedi clywed, ni buasent gwell er hyny heb ymdrechu. Felly, er bod teyrnas Dduw wedi ei dwyn yn agos atom ni yn yr efengyl, eto nid mor agos fel ag y gall neb fyned iddi heb ymdrech: ni all eto ond treiswyr ei chipio hi. Y mae hi wedi ei rhoi yn rhad, fel y rhoddwyd Canaan i Jacob; er hyny bydd raid ei henill hi â'r cleddyf, ac â'r bwa, o law yr Amoriaid, cyn y meddienir hi. Clywsom ninau fod Crist yr Arglwydd wedi ei eni yn Geidwad yn Bethlehem; ond nis gwelwn ni mo hono heb dreulio aml noson i fyned gydâ'r bugeiliaid hyd yno. Ni a welsom seren yn ymddangos uwchben, ambell odfa, oedd yn peri i ni benderfynu fod Brenin yr Iuddewon wedi ei eni; ond ni chawn ni ddim o'r fraint o'i addoli, heb ddilyn y seren am amser maith gydâ'r doethion, a myned tua chymydogaethau y prophwydi i chwilio am dano, a phenderfynu, er pob rhwystrau, peidio gorphwys nes cael y dyn bach yn y preseb. Ni a glywsom fod gwlad dda odiaeth y tu hwnt i'r Iorddonen; ond ni welir mo honom ni byth ynddi heb ddangos yn eglur, trwy fod yn bererinion yma, ein bod yn ei chwenych, ac yn ei cheisio hefyd. Y mae rhywbeth yn ddieithr yn ein hamgylchiad ni. Pan oedd y deyrnas ymhell, yr oedd y byd yn llawn chwilfryd-edd yn ei chylch hi. Bu ystâd y byd yn hir, yn cyfateb i eiriau y prophwyd, a newyn ynddo: ond "nid newyn am fara, na syched am ddwfr, ond am wrandaw geiriau yr Arglwydd." Yr oedd y trigolion yn crwydro o fôr i fôr, ac o'r dwyrain hyd y gorllewin, i'w ceisio; ond yn ofer, fel gydâ Saul gynt,—nid oedd yr Arglwydd yn ateb,—'trwy freuddwydion, na thrwy Urim, na thrwy brophwydi.' Yr oedd ystâd y byd yn gyffelyb i ystâd y cleifion yn y gwledydd dwyreiniol: am nad oes meddygon yn y wlad, y mae cyfeillion y claf yn ei

gario gerllaw tramwyfa pobloedd, i weled a ddaw neb ar ddamwain heibio a all roddi cyngor at yr afiechyd. Fel hyn yr oedd y byd yn gorwedd yn ei afiechyd gerllaw tramwyfa pobloedd, ac yn holi yr holl fforddolion am feddyginiaeth. Aml un yn rhoddi cyngor, megis Confucius, Zoroaster, Mahomet; yr oedd yntau yn rhoddi prawf ar gyngor pawb, ac wedi treulio cymaint ar a feddai ar y meddygon, heb fyned ddim yn well: o'r diwedd daeth rhywun heibio ar ddamwain, ac a ddywedodd fod balm yn Gilead a welläi y clwyf;—fod yno Physygwr anffaeledig at yr afiechyd; ac i ddangos mai nid llefain ar antur, ond oddiar brofiad yr oedd, fe ddywedodd ei fod wedi ei feddyginiaethu ef, y penaf. Ond ysywaeth! wedi iddi ddyfod mor agos, nid oes ond ychydig iawn yn rhoddi pris arni. Pa le nad yw y deyrnas yn cael ei phregethu? onid yw y geiriau hyny yn yr efengyl yn cael eu gwirio yn ein gwlad, "Wele, llyma Grist, neu llyna." Gorchymynodd yr Athraw i'r bobl gynt beidio credu pan glywent hyny; ond fel arall y dylid gorchymyn yn awr. Os ewch chwi i'r anialwch, odid na bydd yno rywun yn llefain,—"Edifarhewch; canys nesaodd teyrnas nefoedd." Os dringwch chwi i'r mynyddoedd, mor brydferth ar y rhai hyny, yn fynych, yw traed y rhai sydd yn efengylu pethau daionus y deyrnas. Os rhodiwch chwi ar hyd y ffyrdd, y mae rhywrai yn mynegu i'r holl fforddolion am dani, fel y gellir gofyn yn ngeiriau yr apostol am bawb yn ein gwlad,—"Oni chlywsant hwy? yn ddiau i'r holl ddaear yr aeth eu sŵn hwy, a'u geiriau hyd derfynau y byd." Y mae ugeiniau o flynyddoedd wedi myned heibio er pan y mae mynyddau Cymru wedi adsain bloedd udgorn rhyfel; ond nid oes un diwrnod yn myned heibio, nad oes rhai o honynt yn adsain bloedd udgorn heddwch y deyrnas. A phe gofynid i ni, "Pa ragoriaeth sydd i'r" wlad? byddai yn hawdd ateb yn ngeiriau Moses, 'Gwlad ydyw y mae yr Arglwydd yn ei hymgeleddu,' yn yr ystyr hwn, 'ac y mae ei lygaid Ef arni bob amser, o ddechreu y flwyddyn i'w diwedd hi.' Y mae y pethau ynghylch Iesu o Nazareth mor eglur, fel y gellir gofyn,—"A wyt ti yn unig yn ymdeithydd, ac ni wyddost y pethau hyn?" Y mae goleuni y deyrnas mor ddisglaer yn awyr ein gwlad, fel y mae yn briodol gofyn am y neb sydd heb ei weled,—"Pwy mor

ddall ag ef?" A rhaid y bydd hwnw yn cael ei ystyried yn fwy na choncwerwr yn ngwlad y tywyllwch eithaf, fydd wedi dyfod yno o ganol goleuni y deyrnas. Diolch i Dduw fod y deyrnas mor agos! Y mae coron Lloegr mor bell oddiwrthyf, pe buaswn ar farw o awydd am dani, ni thyciasai yr oll a allaswn i ddim i'w chael. Pe ymdrechwn am ei chael, fe'm cosbid fel bradwr, neu fe'm rhwymid fel gwallgofddyn; ond y mae coron y bywyd yn ddigon agos i minau gymeryd gafael ynddi. Y mae etifeddiaethau llygredig y ddaear mor bell, fel y mae yn rhaid i ni bron oll foddloni marw heb hawl i'r un o honynt; ond y mae yr etifeddiaeth anllygredig yn ddigon agos i ni gael y gweithredoedd i'n meddiant heddyw. Beth bynag am balasau y ddaear, y mae yr adeilad gan Dduw yn y nefoedd, y tragywyddol drigfanau, o fewn ein cyraedd ni. Os yw palmwydd buddugoliaethau y ddaear yn gyfryw na all neb o honom ni gael meddiant arnynt, nid yw palmwydd y nef ddim felly. Y mae y golud parhaus, llawenydd ein Harglwydd, mor agos atom, fel na all neb ein hatal i'w cael ond ni ein hunain. Ni wna Duw ddim; ni chaiff y diafol ddim. Cymerodd Archeläus, mab Herod, daith o Judea i Rufain, i ofyn teyrnas ei dad; ond erbyn iddo ddyfod yno, yr oedd yno rywrai wedi dyfod i'w wrthwynebu, ac i roddi anair iddo, a bu bron iddo ei cholli hi; ond y mae teyrnas nef wedi ei dwyn mor agos atom ni nad rhaid ond ei gofyn. Pe byddai holl gythreuliaid uffern yn gwrthwynebu, yr ateb fyddai, "Rhyngodd bodd i'ch Tad roddi i chwi y deyrnas."

II. Y mae yn angenrheidiol, cyn y gellir dywedyd fod y deyrnas wedi dyfod yn agos, fod profion digonol yn gysylltiedig â'r geiriau, i roddi sicrwydd i bob meddwl diduedd mai teyrnas Dduw ydyw. Pe mewn gair yn unig y daethai y deyrnas, er bod hwnw yn eglur, ni buasai yn briodol dywedyd ei bod hi yn agos, oblegid y mae y pethau y mae hi yn eu cyhoeddi mor rhyfedd, fel y mae dynion yn gyffredin yn gofyn cael rhyw dystion i'w cywirdeb hwynt; a'r diben mawr oedd i'r gwyrthiau a fu wrth ei sefydlu hi oedd, i fod yn brofion mai teyrnas Dduw oedd hi. Felly, wrth anfon y deg disgybl a thriugain allan i bregethu y deyrnas, rhoddodd yr Arglwydd Iesu awdurdod iddynt i gyflawni gwyrthiau; ac wrth y deuddeg apostol i fyned allan i bregethu,

gorchymynodd iddynt hwythau, ar ol dywedyd fod y deyrnas wedi nesâu :—" Iachewch y cleifion, glanhewch y rhai gwahanglwyfus, cyfodwch y meirw, bwriwch allan gythreuliaid." Ac y mae Efe yn hòni hawl i grediniaeth o'i eiriau ei Hun, am ei fod yn cyflawni gweithredoedd nerthol yn eu plith :—" Os ydwyf fi yn bwrw allan gythreuliaid trwy Ysbryd Duw, yna y daeth teyrnas Dduw atoch " Os clywsoch chwi am rywun dall wedi cael ei olwg ;—os gwelsoch chwi ferch rhyw bendefig yn codi o farw ;—neu fab rhyw wraig weddw wedi ei ddadebru o gwsg angau ;—neu ryw Lazarus yn clywed fy ngeiriau o waelod y bedd ;—os clywsoch chwi am ryw Gadareniad oedd yn cael ei ddryllio gan ysbrydion aflan yn dychwelyd adref yn ei iawn bwyll, wedi i mi ymweled â'r ardal ;—neu am ferch rhyw wraig o Ganaan, oedd yn ddrwg ei hwyl gan gythraul, wedi ei meddyginiaethu â'm gair i ;—os mynegwyd i chwi am y bachgen hwnw oedd yn cael ei fwrw i'r tân yn fynych, ac i'r dwfr yn fynych, gan ysbryd mud a byddar, hyd nes y dygwyd ef ataf fi ;—os wyf yn gwneuthur y pethau hyn, nid oes genych gysgod o sail i ameu fy ngeiriau. 'Oni chredwch fi, credwch y gweithredoedd.' Os nad ydych yn credu fy ngeiriau, ar ba egwyddor y gellwch roddi cyfrif am y gweithredoedd, os nad teyrnas Dduw sydd yn cael ei chyhoeddi genyf? Nid yw teyrnas Dduw wedi ei gadael yn ddidyst yn yr ystyr hwn eto, oblegid nid mewn gair yn unig y daeth hi i unrhyw wlad; ond yr oedd nerth Duw yn cydfyned â'r cyhoeddiad, ac yn peri iddo fod mewn sicrwydd mawr. A gall y deyrnas ddywedyd,—'Os na chredwch chwi y geiriau, credwch y gweithredoedd ;'—y mae y rhai hyny yn fynych mor amlwg i'r llygaid ag ydoedd gwyrthiau yr Arglwydd Iesu a'i ddisgyblion i'w cyd-oeswyr. Os gwelwch chwi ryw dyngwr wedi ei wneuthur yn weddiwr ;—rhyw Zaccheus cybyddlyd wedi ei wneuthur yn hael ;—rhyw erlidiwr wedi ei wneuthur yn bregethwr ; sut y rhoddwch chwi gyfrif am hynyna, os nad ydyw y deyrnas wedi dyfod atoch ?—" credwch y gweithredoedd." Nid rhaid i ni betruso, mwy nag Ioan am y Messiah, wedi clywed am y gweithredoedd, pa un ai hon yw y deyrnas, ai un arall yr ydym i'w disgwyl. Gan fod y deillion ysbrydol yn gweled o bell ac yn eglur ;—gan fod y cloffion yn rhedeg yn llwybrau y gorchymynion ;—gan fod y

cleifion gwahanol wedi eu glanhau trwy y gair a lefarwyd ;—gan fod y byddariaid yn clywed y llef ddistaw fain ;—gan fod y meirw ysbrydol wedi cyfodi ;—nid rhaid i ni wrth dystion mwy ;—"daeth teyrnas Dduw yn agos atoch." Y mae ei hagosrwydd hi yn gyfatebol i nifer y profion hyn sydd ganddi ; ac y mae y profion mor amryw, fel ag y maent yn ei dwyn hi yn agos at bob math o ddyn. Yr oedd geiriau yr Arglwydd Iesu yn gofyn crediniaeth, yn annibynol ar ei weithredoedd. Credu ynddo oblegid y geiriau a wnaeth y disgyblion. Yr oeddent hwy yn ei ddilyn cyn i'r un wyrth gael ei chyflawni ganddo; ond yr oedd y gweithredoedd yn brawf o fath arall, i'r rhai nad oeddent yn agored i gael eu hargyhoeddi gan y geiriau. Felly y mae hi gydâ'r deyrnas eto. Y mae argraff o gywirdeb a dwyfoldeb ar y geiriau yn annibynol ar eu heffeithiau hwynt ar y byd ; ond y mae yr effeithiau hyny yn brawf ychwanegol mai teyrnas Dduw yw hi ; a'r cwmwl tystion hyn sydd yn ei gwneuthur hi yn iachawdwriaeth mor fawr, ac yn gwneuthur yn anmhosibl i'w hesgeuluswyr hi ddianc ; Heb. ii. 3. Y mae hi wedi ei chyhoeddi i'ch clywedigaeth chwithau gan ddynion yr ydym yn gobeithio sydd wedi ei glywed Ef ei hunan; ond nid yn noethineb neb o'r rhai yna y mae eisiau i chwi roddi eich ffydd, ond yn nerth Duw; oblegid y mae Duw ei Hun yn cyd-dystiolaethu yn fynych, nes y mae pawb yn gorfod teimlo mai nid gair dyn ydyw, ond ei fod 'yn wir, yn air Duw.' Ac os yn ol y byddwch chwi yn y diwedd, da fuasai i chwi pe na buasai neb yn yr un ardal a chwi wedi credu gair y deyrnas; felly, gallasech ddywedyd, Nad oedd Duw ddim yn cyd-dystiolaethu yn eich bro ; ond bydd pob pechadur, o fewn cylch eich cydnabyddiaeth fydd wedi ei chredu yn farworyn o euogrwydd ar eich cydwybod chwi byth. "Daeth teyrnas Dduw yn agos atoch."

III. Y mae y deyrnas wedi dyfod yn agos atom, pan y mae ei gwahoddiadau hi yn gyfryw ag y gallwn fod yn sicr eu bod yn ein cynwys ni. Bu y deyrnas yn yr ystyr hwn ymhell yn hir oddiwrthym ni. Yr oedd yr holl genhedloedd mor bell a'u bod heb obaith ; ond y mae Duw wedi rhanu mesur i gyrhaeddyd hyd atom ni o'r diwedd. Y mae canol-fur y gwahaniaeth wedi ei dynu i lawr. Nid oes yr un "ffordd y Cenhedloedd," nac un "ddinas y Samariaid," ag y gwaherddir i'w chenhadon fyned

iddynt. Nac ewch i'r lle a'r lle oedd hi cyn y croeshoeliad; ond wedi hyny,—"Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur." A rhag i rywun fyned i wneyd y "*byd*" yna yn llawer llai na'r ddaear, fe ofalodd y Pen mawr am roddi esboniad ei hunan arno,—"A phregethwch yr efengyl i bob creadur." Y mae yn wir i'r Ysbryd wahardd i Paul unwaith bregethu yn Asia; eithr nid am nad oedd Asia i gael yr efengyl, a hi a'i cafodd hefyd yn fuan iawn; sefydlwyd eglwysi yno, ac fe ysgrifenodd Pedr epistol atynt; ond gwaharddwyd Paul er mwyn iddo gael cario y newyddion da yn mhellach i blith y cenhedloedd i wledydd Groeg. Ac nid yw yr efengyl yn cael ei phregethu yn un man heb fod yn obaith bywyd tragywyddol o flaen pob un sydd yn ei chlywed hi, a hyny mor eglur, fel ag y gallesid meddwl y buasai yn anmhosibl i galon ddrwg ameu am foment nad oedd hi felly; oblegid nid oes yr un wedd ar ein cymeriad ni, nad ydyw hi yn ein cyfarfod yn y wedd hono, 'fel y mae wyneb yn ateb i wyneb mewn dwfr.' Fel ag yr ydym yn garcharorion y mae hi yn galw,—"Trowch i'r amddiffynfa, chwi garcharorion gobeithiol." Fel yr ydym ni yn halogedig, y mae hi yn addaw, "Mi a daenellaf arnoch ddwfr glân, fel y byddoch lân." Fel ag yr ydym yn flinderog ac yn llwythog, y mae hi yn raslawn yn dywedyd, "Deuwch ataf fi." Fel ag yr ydym "yn dlawd, yn ddall, ac yn noeth," y mae hi yn ein cynghori yn garedig i brynu "aur," a "dillad gwynion," "ac eli llygaid." Ac am ein bod yn dlawd, y mae hi yn addaw gwerthu y cwbl "heb arian ac heb werth." Ië, y mae hi yn nes eto; a ewyllysiai rhywun gael ei breintiau hi? "yr hwn sydd yn ewyllysio, cymered o ddwfr y bywyd yn rhad." Dyro yr enw a fynot arnat dy hun, mi allaf fentro dywedyd, "Cymer gysur, y mae hi yn dy alw di." Agor dy safn, pwy bynag wyt, ac fe'i llenwir hi ganddi yn y fan. A phaham y lliosogwn ni brofion o beth fel hyn? Beth bynag ydyw arfaeth ac etholedigaeth, y maent yn wirioneddau a safant byth; ond y mae hyn hefyd yn wirionedd:—Os af fi i'r byd tragywyddol heb ufuddhau i'r efengyl, fe'm cosbir am dragywyddoldeb fel gwrthodwr o Fab Duw; a chan mai Barnwr cyfiawn ydyw Llywydd y wlad, ni chaf fy nghosbi am ddim yn y byd tragywyddol na chefais i gynyg gonest arno ar y ddaear. Ac fe fydd yn y dydd diweddaf

fyrddiynau o dystion o ddi-ragrithrwydd y cynygiad, oblegid fe fydd y dyrfa fawr wedi cael meddiant ar y deyrnas trwy gredu yr un cynygion ag a gawsom ninau. Ni chafodd Caleb a Josua, a gyrhaeddasant Ganaan, ddim ond yr un dystiolaeth i'w chredu ag a gafodd y lleill y syrthiodd eu celaneddau hwynt yn y diffaethwch. Ac os bydd y saint yn barnu, neu yn condemnio y byd, bydd yno rywrai oeddent yr un fath a phob un fydd yn ol, wedi derbyn y deyrnas ar yr un cynygiad ag a gawsant hwythau. Bydd yno ryw gybydd o Gymro wedi ei gwrthod hi; ond bydd yno ryw Zaccheus yn codi i'w gondemnio, gan ddywedyd, Yr oedd y byd yn fy nghalon inau unwaith ; ond pan glywais i am y golud gwell, fel y clywaist tithau, mi adewais i yr un darfodedig er mwyn cael hwnw. Bydd yno liaws o rai aflan iawn o Gymru wedi ei gwrthod hi ; ond bydd yno ryw Gorinthiad yn dyfod ymlaen i'w condemnio, gan ddywedyd,—Hynyna fum inau gynt; ond pan glywais i, fel y clywaist tithau, am y ffynon a agorwyd yn nghalon Meichiai, yn nerth Duw, mi ymdreiglais iddi, ac wele fi heddyw yn wyn o'm pen i'm traed. "Daeth teyrnas Dduw yn agos atoch." Os oes yma rywun fydd heb gredu hyn hyd ddydd y farn, ni bydd neb wedi hyny.

IV. Y mae y deyrnas yn agos, yn olaf, pan y mae telerau derbyniad i mewn iddi yn ddigon isel i bawb. Gallasai y gwahoddiadau fod yn gyffredinol, a bod telerau y derbyniad i mewn yn gyfryw fel y buasai yr ymadrodd yn galed. Y mae digon o aur yn California, a rhyddid i bawb fyned i chwilio am dano, ond y mae y telerau o'i gael yn rhy uchel ; rhaid aberthu cysuron, peryglu iechyd a bywyd cyn y gellir cael gafael arno ; ond y mae y deyrnas yn nes atom ni na hyny. Nid rhaid "esgyn i'r nef," na "disgyn i'r dyfnder," peryglu iechyd corff na chysur meddwl; nid "gwna hyn, a byw fyddi," ond "cred hyn, a byw fyddi;" "gair y ffydd a bregethwyd i chwi:" a thrwy roddi ffydd yn ddrws i mewn iddi, fe'i dygwyd hi o fewn cyraedd pawb, oblegid y mae y gallu naturiol i gredu yn un sydd yn perthyn i'r natur ddynol, fel y cyfryw, ymhob man. Y mae llawer un yn bur ddiffygiol o amynedd ; llawer mynwes yn ddigon amddifad o gariad ; llawer calon yn bur ddieithr i obaith ; ond nid oes neb nad oes ganddo allu i gredu tystiolaeth

dynion. "Y mae tystiolaeth Duw yn fwy," hyny yw, yn fwy teilwng o'i chredu; a thrwy hyny y mae y deyrnas yn ei phob peth yn dyfod i feddiant pechadur. Nid oes genym well diwedd-glo i'r cyngor na'r testyn. Gwrthddadleuwch a fynoch, ond gwybyddwch hyn, "Daeth teyrnas Dduw yn agos atoch;" a chwi a deimlwch oddiwrth yr agosrwydd i dragywyddoldeb. Rhodded Duw mai testyn diolch, ac nid testyn gwae di-ddarfod a fyddo hyny i ni oll.

[Ad-ysgrifenwyd Rhagfyr 17, 1850.]

## PREGETH LVI.

### YMAFLYD MEWN BYWYD TRAGYWYDDOL.

1 TIMOTHEUS vi. 12.—"Cymer afael ar y bywyd tragywyddol."

CYNGOR hen weinidog i weinidog ieuanc ydyw y llythyr hwn. Y mae rhan o hono yn dwyn perthynas â'i swydd yn yr eglwys, a llawer o hono yn dal perthynas âg ef fel Cristion unigol. Nid oedd y sant byth i gael ei golli yn y gweinidog ; yn hytrach dangosai yr apostol, mai gwreiddyn pob rhagoriaeth arno fel gweinidog oedd iddo yn gyntaf ragori fel Cristion. Y mae rhan o'r cyngor, fel y gyfran sydd yn yr adnod hon, debygem ni, yn dal perthynas fwy uniongyrchol âg un yn cychwyn yr yrfa ysbrydol nag âg un oedd fel Timotheus yn ddoeth i iachawdwriaeth, er yn blentyn. Ond gan fod Timotheus yn cael ei gynghori fel hyn, y mae yn eglur ini fod yr un cyngor ag sydd briodol i'r Cristion yn nghychwyn ei yrfa, yn briodol iddo tra ar y ddaear. Nid credu i'r Arglwydd i gychwyn o'r Aipht oedd yn sicrhau Canaan, ond parhau i wneuthur hyny hyd nes cyraedd y wlad; oblegid rhai, wedi cychwyn, a'i digiasant Ef, ac fe syrthiodd eu cyrff yn y diffaethwch. Tra y bydd yr yrfa yn parhau, priodol yw dywedyd bob dydd, "Ymdrecha hardd-deg ymdrech y ffydd ; cymer afael ar y bywyd tragywyddol." Tra y bydd y goron heb ei chyraedd, nid diangenrhaid ydyw y cyngor, "Cymer afael ar y bywyd tragywyddol." Fe ddywedir fod *gan* yr hwn sydd yn credu yn Mab Duw fywyd tragywyddol, ac eto fe anoga yr Apostol Timotheus, er ei fod yn ddiau yn credu, i gymeryd gafael ynddo. Y mae hyn yn awgrymiad ini fod bywyd tragyw-

yddol yn beth mor fawr, pa faint bynag a allasai fod mewn meddiant gan Timotheus, fod llawer iawn mwy heb ei feddianu; ac fe fydd y ddau beth hyn yn perthyn iddo byth, sef boddlonrwydd y mwynhâd presenol o hono, a hyfrydwch y gobaith am dano yn y dyfodol; fel ag y bydd y Cristion yn gorphwys mewn tawelwch wedi cael gafael, ac yn ymestyn mewn gobaith i gymeryd gafael newydd yn ddiddiwedd.

Os oedd y cyngor hwn yn angenrheidiol i Timotheus, oedd wedi cychwyn yr yrfa, wedi proffesu proffes dda, pa faint mwy ydyw i lawer a allant fod yma, ag ydynt eto heb gychwyn,—heb ddechreu ymdrechu,—ac felly heb wneyd un cais i gymeryd gafael. Y mae y testyn, gan hyny, yn perthyn i ni oll,—i'r rhai sydd heb gychwyn yr yrfa, fel i'r rhai sydd wedi ei chychwyn hi. Fe ddywed wrth y naill fel y llall, "Ymdrecha hardd-deg ymdrech y ffydd; cymer afael ar y bywyd tragywyddol." Daw tri pheth o dan ein sylw oddiwrtho:—

I. Y peth sydd i gymeryd gafael ynddo,—"bywyd tragywyddol."

II. Pa fodd y mae i ni gymeryd gafael ynddo.

III. Paham yr anogir ni i hyn.

I. Yr hyn y mae i ni gymeryd gafael ynddo,—"Bywyd tragywyddol." Beth ydyw "bywyd tragywyddol?" Y mae yn rhaid i ni wybod rhyw beth yn ei gylch, onid ê bydd yr anogaeth yn ddiystyr; ac eto, mor lleied ydyw yr hyn a wyddom, a'r hyn hefyd sydd yn bosibl i ni ei wybod! Y mae y ddau air sydd yn cyfansoddi yr enw ar y peth, yn ei daflu ar unwaith i dir dirgelwch,—"bywyd," a "bywyd tragywyddol." Ni wyddom ni ddim beth ydyw bywyd o unrhyw fath; er ei fod gerbron ein llygaid mewn degau o wahanol ffurfiau, eto y mae ei ddeall mewn un o honynt yn wybodaeth ry ryfedd i ni. Ond fel y mae y bywyd yn codi, y mae yn myned yn fwy-fwy rhyfedd: y mae y bywyd anifeilaidd yn fwy rhyfedd na'r un llysieuol; y bywyd rhesymol yn rhyfeddach eto na'r un anifeilaidd; a'r bywyd ysbrydol, neu y tragywyddol, yn rhagori eto lawer ar yr un rhesymol. Y mae pob bywyd ynddo ei hun yn rhyfedd,—yn beth dirgel i ni; ond pan gysylltir tragywyddoldeb â'r bywyd, y mae yn myned yn ddirgelwch ar ddirgelwch. Y mae yma blygion o ddirgeledigaethau! Os cysylltir tra-

gywyddoldeb â phethau sydd adnabyddus i ni, gwneir hwynt yn ddirgelion oll. Cymerwch deimladau y fynwes: ni a wyddom i raddau bychain beth ydyw llawenydd a diddanwch; ond os ysgrifenwch chwi *dragywyddol* ar ol y naill a'r llall, ni bydd genym un amgyffred am danynt. Cymerwch etifeddiaethau a meddianau: ni a wyddom rywfaint am bethau fel yna; ond pan gysylltwch chwi dragywyddoldeb ac anllygredigaeth â hwynt, y mae ein gwybodaeth yn myned yn anwybodaeth. "Tŷ tragywyddol," "etifeddiaeth anllygredig," "teyrnas ddisigl,"—ni wyddom ni ddim beth yw ystyr geiriau fel yna.

Ond yn y testyn, y mae dau beth sydd yn ddirgelion ar wahân, yn cael eu cysylltu â'u gilydd. *Bywyd*,—dyna ddirgelwch. *Tragywyddol*,—dyna ddirgelwch eto. Ychydig iawn, chwi a welwch, a allwn ni ei wybod am fywyd tragywyddol: tir pell ydyw; ond gallwn wrth syllu yn hir,—wrth chwilio yn fanwl,—wybod digon i ddangos pwys cyngor y testyn.

Sonir am "fywyd tragywyddol" yn y Bibl fel peth presenol, ac fel peth dyfodol hefyd. Fel y mae yn bresenol, fe ddywed Iesu Grist:—"Yr hwn sydd yn bwyta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sy ganddo fywyd tragywyddol," Ioan vi. 54. Fel y mae yn ddyfodol, fe ddywedir y derbyn dilynwyr Mab Duw "y can cymaint yr awr hon,......ac yn y byd a ddaw fywyd tragywyddol," Marc x. 28—30. Y mae genym hedyn y bywyd yn beth presenol; ond y mae ei berffeithiad yn beth dyfodol; ond er bod yr un berthynas rhwng bywyd tragywyddol yn y byd a ddaw, a bywyd tragywyddol yma, ag sy rhwng y dderwen hardd a'r fesen,—ag sy rhwng tanbeidrwydd yr haul haner dydd a'r wawr wanaidd yn y boreu,—ag sy rhwng yr afon fawr a'r ffynon y mae yn tarddu o honi: eto, am y bydd y bywyd mor ragorol yn y byd a ddaw, lleferir am dano yn fynych fel peth perthynol yn unig i'r byd nesaf; fel pe buasai yn wastraff ar yr enw "bywyd tragywyddol," ei ddefnyddio cyn i'r bywyd gyraedd y byd a ddaw,—"Yn y byd a ddaw fywyd tragywyddol." "Y rhai cyfiawn a ânt i fywyd tragywyddol." "Caiff y rhai a barhant yn gwneuthur daioni fywyd tragywyddol." Ond ni a geisiwn roddi darluniad byr o hono a gymer i mewn y ddau ystyr a nodwyd, sef, y bywyd fel y mae yn bresenol, a'r bywyd fel y mae yn ddyfodol.

1. "Bywyd tragywyddol" ydyw adnabod Duw. 2. "Bywyd tragywyddol" ydyw bod fel Mab Duw. 3. "Bywyd tragywyddol" ydyw bod mewn amgylchiadau ag y bydd ynddynt bob peth yn fanteisiol i gyraedd perffeithrwydd yn y pethau yna. Y mae y tri pheth hyn yn rhoddi golwg arno fel peth presenol, ac fel peth dyfodol.

1. Bywyd tragywyddol ydyw adnabod Duw. Gellir darlunio bywyd trwy ddywedyd, mai cymhwysder ydyw i ymwneyd â, ac i ddefnyddio pethau y tuallan iddo ef ei hun. Y mae yn hawdd gwahaniaethu y gwahanol fathau o fywyd, y naill oddiwrth y llall, drwy sylwi ar y gwrthddrychau y bydd y bywyd yn ymwneyd â hwynt. Bywyd naturiol ydyw y cymhwysder hwnw ag sy mewn dyn i ymwneyd â'r byd allanol. Bywyd rhesymol ydyw y cymhwysder sy ynddo i ymwneyd â phethau y byd meddyliol. Bywyd ysbrydol, neu dragywyddol, ydyw y cymhwysder sy mewn enaid i ymwneyd â Duw fel ei Wrthddrych. Ysgarer rhwng dyn a natur,—dyna fe yn marw mewn ystyr naturiol. Doed cwmwl rhyngddo â'r byd meddyliol,—dyna fe yn marw mewn ystyr resymol. Ysgarer rhyngddo â Duw,—dyna fe yn marw yn ysbrydol. Meirw y fynwent ydyw y rhai sydd wedi colli y cymhwysder ag oedd ynddynt i ymwneyd â'r byd naturiol. Meirw y gwallgofdy ydyw y rhai sydd wedi colli y cymhwysder ag oedd ynddynt i ymwneyd â phethau y byd rhesymol. Meirw ysbrydol ydyw y rhai sydd wedi colli y cymhwysder ag oedd ynddynt i fyw ar Dduw. Bywyd i'r rhai hyn oll fyddai cael y gwahanol gymhwysderau yna yn ol. Bywyd i breswylwyr y fynwent a fyddai cael cymhwysder i ddefnyddio y byd naturiol, cael rhywbeth a barai i'r llygad ddefnyddio'r goleuni, i'r glust ddefnyddio seiniau, i'r holl gorff ymwneyd â'r natur fawr sydd o'i amgylch; felly bywyd ysbrydol fyddai cael rhywbeth i'r enaid a'i cymhwysai i fyw ar Dduw, i ymwneyd â Duw, fel y mae y bywyd naturiol yn ymwneyd â phethau y byd naturiol. Yr hyn a eilw y Bibl yn adnabod yr Arglwydd: "Hyn yw y bywyd tragywyddol, iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist;" hyny yw, bod yn yr enaid rywbeth a fydd yn teimlo oddiwrth yr amlygiadau a rydd Duw o hono ei hun, yn gyffelyb fel ag y mae y bywyd naturiol yn teimlo yn gyfatebol i wahanol weddau

natur allanol. Pa wedd bynag fydd ar natur, bydd rhyw wedd gyfatebol i hyny ar y bywyd naturiol. "Bywyd tragywyddol" ydyw enaid yn teimlo yn gyffelyb oddiwrth bresenoldeb Duw; y mae ei wenau yn peri iddo lawenychu, ei ŵg yn peri iddo ofni. Y mae yn gweled Duw, ac o hyny y mae ei wynfyd yn tarddu; gweled Duw ydyw y bywyd tragywyddol y mae yn ei fwynhau. Adnabod yr Arglwydd ydyw i enaid ddyfod yn ymwybodol o wirionedd geiriau felly:—"Ynddo Ef yr ydym ni yn byw, yn symud, ac yn bod." Y mae yn teimlo ei hun yn cael ei amgylchu gan Dduw, fel yr amgylchir y corff gan yr awyr, fel nad all fyned o'i wydd pe mynai, ac ni fynai pe gallai. Y mae yn adnabod ei law, yn adnabod ei lais, yn adnabod ei galon. "Ti a wnaethost hyn;" dyna'r bywyd yn adnabod ei law yn ei oruchwyliaethau: "Mor lliosog yw dy weithredoedd, O Arglwydd!" dyna'r bywyd yn ei adnabod yn ei weithredoedd. Y mae pob peth yn llawn o Dduw iddo ef. Y mae wedi myned tu mewn i len creadigaeth, rhagluniaeth, ac iachawdwriaeth, nes y mae yn oll iddo ef; yn gysegr sancteiddiolaf, yn cael ei wneuthur yn ofnadwy, ac yn ogoneddus gan bresenoldeb y *Shecinah*; ac nid ydyw yr hyn a wel ond yn codi awydd ynddo am ychwaneg: "sychedig yw fy enaid am Dduw;" "Pwy sy genyf yn y nefoedd ond tydi?" "Digonir fi pan ddihunwyf â'th ddelw di." Dyna iaith y bywyd. "Bywyd tragywyddol" yw adnabod yr Arglwydd.

2. "Bywyd tragywyddol" ydyw bod yn debyg i Fab Duw. "Y bywyd hwn sydd yn ei Fab Ef;" "Hwn yw y gwir Dduw, a'r bywyd tragywyddol;" "Ynddo Ef" y mae bywyd wedi ei egluro. Gan hyny, nid rhyw *abstraction* mo hono mwy: gwir ei fod ynddo Ef, fel y *ffynhonell* o ba un yr ydym ni i'w dderbyn; y mae ynddo hefyd fel y portread, yn ol yr hwn yr ydym ni i gael ein llunio. "Bod yr un ffurf a delw ei Fab Ef" ydyw bod yn meddu bywyd tragywyddol wedi ei berffeithio. Y mae cynllun, neu gynddelw, i bob bywyd; ac y mae y bywyd yn tebygu i'w, neu yn dynwared ei gynllun. "Fel y mae y daearol, felly y mae y rhai daearol hefyd; fel y mae y nefol, felly y mae y rhai nefol hefyd;" hyny yw, y maent yn debyg i'r cynddelw. Cynddelw,—cynllun bywyd tragywyddol yw Iesu Grist; am hyny y gelwir Ef yn "Gyntaf-anedig pob creadur." "Bywyd

tragywyddol" yn yr egwyddor ydyw adnabod Duw; "bywyd tragywyddol" yn ei ddadblygiad a'i berffeithiad ydyw bod fel Mab Duw.

Gellir edrych ar fywyd fel egwyddor, ac fel arferiad; fel y mae yn beth dirgeledig, ac fel y mae yn beth amlwg. "Y rhai sydd yn y cnawd, am bethau y cnawd y maent yn syniaw, a'r rhai sydd yn yr ysbryd, am bethau yr ysbryd." Yn y fan yna, fe edrychir ar y bywyd fel egwyddor. "Yn y rhai yr oeddech yn rhodio neu yn byw gynt:" yn y fan yna, fe edrychir arno fel arferiad. Y mae yn natur plentyn rywbeth a bar iddo ymdebygoli i'w dad, pe heb erioed ei weled. Y mae yr egwyddor o fywyd sydd ynddo o dan ddeddf sydd yn peri iddo gymeryd y ffurf yna; ac fel y mae ei natur yn dadblygu, y mae yn dyfod yn fwy fwy tebyg i'w dad, ond os caiff y plentyn fyw am flynyddoedd yn nghymdeithas ei dad, i'w weled yn gweithio, ac i'w glywed yn siarad, y mae yn ei ddynwared fel heb yn wybod iddo ei hun. Y mae efe yn debyg iddo yn awr, nid yn unig oherwydd bod y bywyd y mae yn ei feddu yn ymwisgo yn y ffurf yna, ond y mae yn debyg iddo hefyd oddiar arfer ei ddynwared. Bywyd tragywyddol fel y mae yn egwyddor ydyw adnabod yr Arglwydd: bywyd tragywyddol fel y mae yn arferiad ydyw ymdebygoli i Fab Duw. "Ni all efe bechu," "am fod ei hâd Ef yn aros ynddo;" hyny yw, y mae pechu yn groes i natur y bywyd sy ganddo: y bywyd fel egwyddor a olygir yna. "Ystyriwch yr Hwn a ddioddefodd gyfryw ddywedyd yn ei erbyn, fel na flinoch, ac nad ymollyngoch yn eich eneidiau." "Efe a roddes i ni esiampl, fel y canlynech ei ôl Ef." "Rhedwn yr yrfa,......gan edrych ar Iesu." Y mae y bywyd tragywyddol yn y lleoedd yna, yn cael edrych arno fel dynwarediad neu efelychiad. Y mae rhyw beth yn natur paentiwr da, sydd yn ei orfodi megis i dynu lluniau, pe buasai heb weled *painting* erioed; ond lle bynag y mae hyny yn natur dyn, y mae yn yr un fan awydd angerddol am weled gwaith yr hen gampwyr yn y gelfyddyd. Fe astudia y rhai hyny yn feunyddiol,—fe'u dynwareda hwynt yn ddibaid, hyd nes y mae yr hyn oedd ynddo yn naturiol yn cael ei berffeithio gan arfer, fel y mae yn bur debyg iddynt yn y diwedd. Y mae bywyd tragywyddol yn gyffelyb: rhywbeth

ydyw sydd yn peri i'w berchen astudio y cynllun, nes cael ei hun yr un fath âg Ef o'r diwedd. Yr oedd paentiwr unwaith, wedi hir sylwi ar, a dynwared gwaith un o gampwyr y gelfyddyd, yn dywedyd un diwrnod, oddiwrth ganfod rhywbeth ynddo ei hun yn debyg i'r cynddelw :—" Yr ydwyf finau hefyd yn baentiwr." A fuoch chwi erioed yn teimlo yn gyffelyb wrth astudio cynddelw y bywyd tragywyddol? "Y mae bywyd genyf finau hefyd, oblegid y mae yma rywbeth yn debyg i'r cynllun mawr." "Bywyd tragywyddol" yw bod yn debyg i Fab Duw.

3. "Bywyd tragywyddol" yn ei berffeithiad, neu yn llawn ystyr y gair, a fydd bod mewn amgylchiadau lle y gall yr egwyddorion sydd yn hadau "bywyd tragywyddol" amlygu eu hunain yn deilwng i'w natur. Mwy priodol ydyw defnyddio am fywyd tragywyddol iaith y rhai hyny am Ioan Fedyddiwr, a gofyn, "Beth fydd hwn?" nag iaith Paul am Melchisedec :—"Edrychwch faint oedd hwn ;" oblegid rhywbeth yn addaw yn hytrach nag yn cyflawni ydyw ef yma. Beth fydd hwn? Y mae y naill beth wedi ei wneuthur ar gyfer y llall yn holl weithredoedd yr Arglwydd ; ac ni ellir gweled dim fel y mae, heb i'r hyn sydd ar ei gyfer gyd-gyfarfod âg ef. Y mae y winwydden yn bren ffrwythlawn ; ond y mae ei hinsawdd yn perthyn iddi. Bydd fyw yn Nghymru ; ond ni ffrwytha hi ddim yma, am mai nid ei hinsawdd hi ydyw hwn. Y mae blodau y Dwyrain i'w gweled yn tyfu trwy gymorth gwrês celfyddydol yn ein gerddi ni ; ond y mae y wedd annaturiol sydd arnynt yn ddigon o brawf nad eu hinsawdd ydyw hwn. I'w gweled yn eu holl ogoniant, y mae yn rhaid eu gweled yn eu hinsawdd eu hun. Felly y mae hinsawdd priodol i fywyd tragywyddol ; ac nis gwelir mo hono yn iawn, sef yn ei ogoniant, nes ei weled yn ei hinsawdd ei hun. Y mae yn byw yma ; ond fel y winwydden, nid yw yn ffrwytho nemawr, am fod yr hinsawdd yn rhy oer. Am hyny, fe ddywedir, Na ddaeth i galon dyn ddychymyg beth a fydd ef draw.

Bydd y ddau beth hyn yn perthyn i'r amgylchiadau yn y rhai yr amlyga efe ei hun i berffeithrwydd :—1. Bydd yr holl natur wedi ei bywhau ganddo. 2. Bydd holl elfenau dedwyddwch wedi cyd-gyfarfod er mantais iddo.

1. Bywyd tragywyddol yn y byd a ddaw, a fydd cael yr holl natur wedi ei deffroi ganddo. Mewn rhan y mae hyny wedi ei wneuthur yn y sant goreu yn awr ; ac mewn llawer y mae rhai galluoedd yn yr enaid heb ysgogi at ddeffroi. Y mae y serch yn fywiog, ond y mae y deall yn ddiffrwyth, neu y mae y gydwybod yn effro, a'r serch yn gysglyd. Ar y rhan foesol o ddyn bron yn unig y mae y drefn yn effeithio yn awr : ac mewn rhan, y mae y galluoedd hyny wedi eu deffroi. Ofnadwy yw sancteiddrwydd iddo yn awr, am nad ydyw y synwyr i'w fwynhau, ond ar haner deffroi ; ond pan gwbl ddeffroer ef, prydferthwch sancteiddrwydd a fydd wedi hyny.

Y mae bywyd tragywyddol yn awr yn ei berthynas â'r enaid yn dwyn mwy o ddelw meddyginiaeth na dim arall : rhywbeth ydyw yma er mwyn iechyd, mwy nag er mwyn hyfrydwch. Fel y gwelir y cleifion yn dringo i benau y bryniau i gael yfed yr awyr bur, er mwyn cael iechyd, tra y mae y rhai iach yn dringo yno i fwynhau yr olygfa. Fe ddringir i fryn Calfaria yn benaf er mwyn iechyd yn awr ; i yfed yr awyr bur sydd o amgylch y groes i ddyfod yn iach ; ond pan fydd yr iechyd wedi ei sefydlu, fe ddringir yno yn oes oesoedd, er mwyn yr olygfa ar ryfeddodau Duw sydd i'w chael oddiar ei gopa : a pharotoi y natur i fwynhau hono ydyw gwaith y feddyginiaeth. Iachawdwriaeth ydyw hi yn awr ; ond y mae hi i orphen ei gwaith fel iachawdwriaeth, ac wedi hyny i ymledu yn fywyd tragywyddol. Y mae yr ysbryd sy mewn dyn wedi myned yn awr yn gnawd,—marweidd-dra a llygredigaeth cnawd yn perthyn iddo ; ond y mae iachawdwriaeth yn myned i wneyd ei gnawd yn ysbryd, ac wedi hyny ei ollwng, fel y gollyngir yr aderyn wedi i'w adenydd dyfu i ehedeg yn ei awyr ei hun. Y mae hyn yn ein dwyn at yr ail beth a gynwysir mewn bywyd tragywyddol, sef—

2. Amgylchiadau y bydd holl elfenau dedwyddwch wedi cydgyfarfod ynddynt er mantais iddo. Y mae y naill o'r pethau hyn yn gofyn y llall. Y mae genym yn yr Apostol Paul siampl o hyn. Yr oedd godidogrwydd y datguddiedigaethau a welodd yr apostol yn ormod i'w allu ef i'w hamgyffred, am hyny ei ddyrysu a wnaethant lawn cymaint a'i ddysgu, fel y mae tanbeidrwydd goleuni yn dallu y llygaid, os byddant yn weiniaid, yn lle bod yn gyfrwng iddynt weled drwyddo. Ond bywyd tragywyddol fydd

cael y ddau beth gyda'u gilydd. Natur gwbl fyw, a gwlad heb angau ynddi yw bywyd tragywyddol. Calon wedi ei chwbl buro i weled Duw, a gwlad y mae tanbeidrwydd y Duwdod yn ei llenwi yw bywyd tragywyddol. Enaid wedi colli ei syched am bob peth ond Duw, a gwlad na bydd yno byth ddim i'w rwystro i dori y syched hwnw yw bywyd tragywyddol.

Yr ydym ni yn son am lawer o bethau a fyddant yn gwneuthur i fyny y bywyd tragywyddol; rhai o honynt yn nacäol, megis bod heb bechod,—heb boen,—heb angau; eraill yn gadarnhaol, megis prydferthwch lle, dymunoldeb y cwmpeini, parhad y mwyniant; ond prin yr wyf yn meddwl bod yr un o'r pethau yna i'w cymeryd i mewn i'r cyfrif. Ni chymerir mo honynt yn y Bibl: yn iaith yr Hen Destament, dyna ydyw,—bod gerbron Duw; bod ar ei ddeheulaw; bod wedi ein digoni â'i ddelw; edrych ar ei wyneb mewn cyfiawnder. Yn iaith y Newydd, dyna ydyw,—bod yn wastadol gydâ'r Arglwydd; cartrefu gydâ'r Arglwydd; bod gydâ Christ; gweled ei ogoniant, &c. Felly, bod yn ngolwg yr Arglwydd ydyw bywyd tragywyddol: Duw yn Nghrist ydyw y nefoedd; a phe sylwem ni yn fanwl ar y cymhariaethau a ddefnyddir, y mae llawer o honynt wedi eu bwriadu i drosglwyddo meddwl felly i ni. Dyna paham y dywedir bod ei hystrydoedd hi yn aur, ei môr hi yn wydr, ei chaerau yn feini gwerthfawr, ei phyrth hi yn berlau;—i ddangos, mai megis ag y mae y pethau yna yn adlewyrchu tanbeidrwydd yr haul, felly fod ei phob peth hithau yn adlewyrchu gogoniant y Duwdod i'r enaid. Ni wyddom ni ddim beth fydd effaith hyny arno, ac nid allwn ni ddim gwybod yn y fuchedd hon; ond hyn a wyddom, os ydyw rhyfeddod ei natur anfeidrol yn llenwi ei fynwes fawr Ef ei Hun â dedwyddwch, byddant yn sicr o roddi rhyw fwyniant i greadur fydd yn deilwng o'i alw yn "fywyd tragywyddol."

Fel hyn, "Bywyd tragywyddol" yw adnabod Duw. "Bywyd tragywyddol" yw bod fel Mab Duw. "Bywyd tragywyddol" yw bod mewn amgylchiadau lle y gall weled Duw yn ddilen. Y mae yn beth annhraethol werthfawr a gogoneddus. Ond pwy wrth chwilio a fedr gael gafael arno? Y mae yn uchel,—pwy a all ei gyraedd ef? Buasai yn greulondeb dywedyd gair i godi awydd yn neb am dano, oni bai y gellir dywedyd hefyd,

oddiar seiliau cedyrn, "Cymer afael." Nid rhywbeth i'w ddangos, fel paradwys i'r goludog i ychwanegu ei boenau, ydyw bywyd tragywyddol ; na, y mae o fewn eich cyraedd chwi. Os ydyw yn cyraedd i fyny yn uchel iawn,—cyn uched a'r drydedd nef,—y mae fel ysgol Jacob : y mae un pen iddo ar y ddaear,—y mae y ffon isaf yn ddigon isel i'r byraf ei gam,—"Cymer afael." Ac y mae hyn yn ein harwain at yr ail beth,—

II. Pa fodd i gymeryd gafael ynddo? Nid oes yr un darluniad o fywyd tragywyddol yn y Bibl, nad oes rhywle yn cael ei ddangos i bechadur i gael gafael arno. Os adnabod Duw yw bywyd tragywyddol, dilyn ei adnabod,—ymarfer âg Ef,—y galon a'r cnawd yn gwaeddi am dano, yw cymeryd gafael ynddo. Os bod fel Mab Duw yw bywyd tragywyddol, meithrin ei ysbryd, astudio ei feddwl, cofio ei eiriau, dynwared ei weithredoedd, yw cymeryd gafael ynddo. Os digonolrwydd llawenydd y nefoedd yw bywyd tragywyddol, galaru am bechod yma a chilio oddiwrtho, yw cymeryd gafael ynddo. Yn wir nid oes yr un darluniad o'r nefoedd yn y Bibl, nad oes gydag ef fynegiad, pa fodd i gymeryd gafael ynddi. Os gorphwysfa ydyw, gweithio yn y winllan yw cymeryd gafael ynddi. Os teml ydyw, gofalu am fod yn Israeliad yn wir yw cymeryd gafael ynddi. Os gwobr ydyw,—parhau i wneuthur daioni yw cymeryd gafael ynddi. Os dinas,—ei cheisio hi fel pererinion yw cymeryd gafael ynddi. Os coron,—ymdrechu i redeg yr yrfa yw cymeryd gafael ynddi. Hwn yw y meddwl sydd yn y testyn.

Y mae pob peth y nefoedd wedi eu cysylltu drwy ddeddf dragywyddol â rhyw beth ar y ddaear ; a phwy bynag sydd yn cymeryd gafael yn yr hyn sydd ar y ddaear, y mae drwy hyny yn cymeryd gafael yn yr hyn sydd yn y nef. Gorphwysfa, gwinllan ; gwobr, gwaith ; coron, gyrfa ;—dyna ddau ben y gadwen. Y mae yr orphwysfa ymhell, ond y mae y winllan yn agos ;—y goron draw, ond y mae yr yrfa yma ;—y mae y wobr ymhell,—y mae y gwaith gerllaw. Ac os mynech chwi sicrhau y pethau pell, cymeryd gafael yn y pethau agos sydd yn gwneuthur hyny. Teyrnasu mewn bywyd ydyw hi draw, ond os cei di galon brenin yma, ni raid iti bryderu am y deyrnas : fe ofala Duw am hono. Ond, cymeryd gafael mewn bywyd tragywyddol yw,—

1. Cymeryd gafael yn moddion bywyd tragywyddol. 2.

Cymeryd gafael yn Ngwrthddrych bywyd tragywyddol.

1. Cymeryd gafael yn moddion bywyd tragywyddol. Ysbryd Duw sydd yn cynyrchu yr egwyddor o fywyd yn enaid pechadur; ond trwy foddion y mae yn gwneyd hyny. Ac er nas gwyddom ffordd yr Ysbryd yn hyn, eto gwyddom mai drwy y moddion y mae yn gwneyd; a dyna'r paham y gelwir arnom ninau i dalu cymaint o sylw iddynt;—i ddal yn well arnynt. Y mae geiriau y Bibl yn eiriau bywyd tragywyddol. Y mae y bywyd yma fel y mae y trysor yn y maes; fel y mae iechyd yn yr awyr; fel y mae y cyfoeth yn y *note* neu y *cheque* ar y Banc; fel y mae yr etifeddiaeth yn y gweithredoedd. Cloddiwch yn y maes,—chwiliwch yr Ysgrythyrau,—chwi a darewch ryw ddydd wrth y Trysor. Y mae pob un a barhaodd i gloddio wedi ei gael. Rhodiwch yn awyr moddion gras,—y mae hi yn fywyd i enaid. Cymerwch feddiant yn y *cheques* ar y Banc,—fe'u telir oll yn y byd a ddaw. Meddienwch weithredoedd yr etifeddiaeth;—beth yw hyny? Credu addewidion Duw: fe ddilynir hyny gan ei meddianu hi ei hun. Cymerwch afael yn moddion bywyd tragywyddol.

2. Cymerwch afael yn Ngwrthddrych,—yn Rhoddydd,—yn Ffynhonell bywyd tragywyddol, sef yn ei Fab Ef. "Y bywyd hwn sydd yn ei Fab Ef." "Yr hwn y mae y Mab ganddo, y mae y Bywyd ganddo." Meddyliwch am fywyd tragywyddol ymhob ystyr y buom yn ceisio ei ddarlunio, y mae cymeryd gafael yn y Mab yn gymeryd gafael arno. Os adnabod Duw yw, y mae goleuni gwybodaeth gogoniant Duw i'w ganfod yn wyneb Iesu Grist. Os bod yn debyg i Fab Duw ydyw, y mae bod yn ei gymdeithas yn cyfnewid i'r unrhyw ddelw. Os nefoedd ydyw, y mae edrych ar Iesu yn rhoddi nerth i redeg yr yrfa tuag yno. Y mae y drefn yn odidog ragorol, oblegid y mae yr awydd am fywyd tragywyddol, a'r hawl iddo yn ei Fab Ef. Yr oedd dyn heb y ddau; ond y mae ymaflyd yn y Mab, trwy gredu ynddo, yn rhoddi y ddau iddo. Gwelwyd rhai yn Nghymru heb un awydd arnynt am ymfudo i America; er eu bod yn bur dlawd, eto yr oeddent am farw yn ngwlad eu genedigaeth; ac yn wir pe buasai ynddynt awydd am ei gadael hi, nid oedd ganddynt fodd i hyny. Ond, ryw dro, ymfudodd mab iddynt i'r Gorllewin pell; aeth eu calon hwythau gydâg

ef: y mae yr awydd i symud yno wedi ei ddeffroi ynddynt hwythau; ac heb fod yn hir, y mae y mab yn anfon modd iddynt ddyfod ato, ac yna dyna hwythau yn cychwyn. Ond mewn cysylltiad â'u mab cawsant y ddau. Felly y mae yma. Nid oedd gan neb ar y ddaear awydd am, na modd i gael bywyd tragywyddol; ond daeth y Mab â'r ddau yma. "Y mae genyf chwant i'm datod, ac i fod gydâ Christ,"—dyna yr awydd. "Yr wyf yn parotoi lle i chwi,"—dyna'r modd. Y mae yr hwn y mae y Mab ganddo yn fwy cyfoethog nag y dychymygodd ei galon erioed. Y mae yn debyg i ddyn wedi cael meddiant ar drysorau gwerthfawr yn y nos; ni ŵyr yn iawn beth ydynt nes y daw goleuni y dydd. Os yw y Mab genych, chwi a welwch yn ngoleuni tragywyddoldeb eich bod yn annhraethol gyfoethocach nag y daeth i'ch calon yma ddychymygu erioed. "Y pethau hyn," medd Ioan, "a ysgrifenais atoch chwi, y rhai ydych yn credu yn enw Mab Duw, fel y gwypoch fod i chwi fywyd tragywyddol." Yr ydych chwi yn werth mwy nag yr ydych wedi ei feddwl, os ydych yn credu. "Pe cawn i gynyg ar y nefoedd," meddwch chwi, "oni wnawn ei derbyn hi." Yr wyt yn cael cynyg ar fwy o lawer, sef y Mab. Y mae y nefoedd ynddo Ef, ac er ei holl werth nid yw ond rhan fechan o'i gyfoeth. Cymer afael ynddo.

III. Paham yr anogir ni i hyn? 1. Am ei fod yn bwysig i ni oll. Y mae y byd a ddaw yn fyd a ddeffry, ac a ddwg i berffeithrwydd, beth bynag sydd yn y fynwes yn ddioed. Gall cryn lawer o hadau trueni, neu hadau dedwyddwch fod ynddi yma, heb iddynt wreiddio nac egino nemawr; ond y mae hinsawdd y byd a ddaw yn dra gwahanol i hwn; ymledant yno mewn moment, naill ai yn ail farwolaeth, neu yn fywyd tragywyddol. Yr oedd y Samariaid hyny gynt heb adnabod Duw y wlad pan ddaethant iddi; am hyny, fe laddwyd llawer o honynt. Os oedd hi yn beryglus i'r Samariaid fyned i wlad heb adwaen ei Duw hi, pa faint mwy ydyw i enaid fyned i dragywyddoldeb nad oes yno ddim defnydd dedwyddwch, ond hyny a ddeillia o olwg Duw y wlad, ac heb ei adwaen.

2. Y mae yn werth gwneyd ymdrech i gymeryd gafael arno; bywyd ydyw.

[Gadawyd y bregeth gan yr Awdwr yn anorphenol. Cyfansoddwyd hi megis ag y mae tua mis Awst neu Medi, 1854.—GOL.]

## PREGETH LVII.

### YR ARGLWYDD YN FUGAIL.

SALM xxiii. 1.—"Yr Arglwydd yw fy Mugail, ni bydd eisiau arnaf."

UN o ddibenion trefn iachawdwriaeth ydyw gogoniant Duw, a chau ymffrost oddiwrth ddyn; gwneuthur dyn yn ddim, a Duw yn bob peth. Y mae y Bibl yn disgrifio yr Arglwydd a'i bobl wrth enwau, ac mewn cymeriadau sydd yn gwneuthur hyn. Os meini ydyw y saint, y maent oll yn pwyso ar y sylfaen safadwy sydd wedi ei gosod yn Sïon. Os canghenau ydynt, y mae eu holl nodd a'u gallu i ffrwytho yn dyfod o'r wir winwydden. Os sêr ydynt, y maent yn ddyledus am eu goleuni a'u gwres i Haul Cyfiawnder. Os aelodau, aelodau ydynt o'i gorff Ef. Nid yw creadur ddim yn ei le ei hun, ond pan y mae yn pwyso ar Dduw fel ei gynhaliwr,—yn gorwedd wrth ei draed fel ei Frenin,—yn edrych i fyny ato fel ei Dad, dan ddywedyd, "Nid i ni, O Arglwydd, nid i ni, ond i'th enw dy Hun dod ogoniant."

Gan mai amcanu tynu Duw o'r orsedd, a myned iddi ei hun fu yr achos o gwymp dyn, y mae yn rhaid i drefn ei adferiad roddi Duw ar yr orsedd, a dyn yn y llwch; felly mae yr oll o drefn iachawdwriaeth yn gwneuthur. O gariad Duw y tarddodd hi, ac yr oedd hwnw yn gariad rhad ymhob ystyr; nid oedd dymunoldeb y gwrthddrychau, na'u trueni chwaith, ddim yn achos o hono. Y mae hawddgarwch yn enyn cariad ar hyd y ddaear, a thrueni yn cyffroi ymysgaroedd trugaredd; ond yr oedd dyn syrthiedig mor amddifad o'r cyntaf ag angel syrthiedig, oblegid unig harddwch creadur ydyw sancteiddrwydd. Ac er bod yr ail, sef trueni, yn fawr iawn arno, eto trueni *gelyn* ydoedd. Y mae yn wir fod yr Arglwydd wedi sylwi arno mewn

trugaredd; ond ynddo Ef ei Hun y cafodd Efe y cynhyrfiol achos i hyny. "Trugarhaf wrthyt er fy mwyn fy Hun." Ac fel yr oedd trefniad iachawdwriaeth yn cau balchder oddiwrth ddyn, felly yr oedd ei gweithrediad: "o'r bobl nid oedd neb gydâg Ef." Bu raid i'r Cyfryngwr agosâu "i'r tywyllwch, lle yr ydoedd Duw," ei Hunan. Ac y mae modd y dygir pechadur i feddiant o honi yn ei gadw ef mor isel ag ydoedd y trefniad a'r gweithrediad; oblegid y mae ymffrost yn cael ei gau yn gwbl oddiwrtho trwy ddeddf ffydd. Oes o ymddibyniad ydyw oes y Cristion; y mae hi yn dechreu mewn hunanymwadiad; a'i pherffeithiad hi fydd iddo golli ei hunan yn Nuw,—na bydd ganddo yr un ewyllys, ond ewyllys Duw, na'r un diben, ond gogoniant Duw. Ac nid oes yr un arwydd sicrach fod trefn iachawdwriaeth heb ei chymhwyso at gyflwr dyn, na'i fod erioed heb ei godi allan o hono ei hun, na chael ei ysgogi gan un uwch diben at ddim na hunan. Ond am y Cristion, yr Arglwydd ydyw ei bob peth ef. Yr un dydd ag yr ymwadodd âg ef ei hun, fe gymerodd Dduw yn ei le ei hun,—gollyngodd ei afael ar bob creadur i gael Creawdwr yn eu lle. Yr Arglwydd ydyw ei noddfa, ei dŵr, ei ymffrost, a'i ran, medd ei enaid. Lleferir am yr Arglwydd a'i bobl yn yr Hen Destament yn gyffredin mewn modd ag sydd yn dangos pellder anfeidrol rhyngddynt. Amlygodd ei Hun i'r patriarchiad yn Arglwydd Dduw Hollalluog, yn Wrthddrych ymddiried yn wir, ond ar yr un pryd, yn Wrthddrych i'w ofni, ac i arswydo ger ei fron. Cyn mynediad plant Israel o'r Aipht, amlygodd ei Hun wrth yr enw Jehofah, sef y Duw sydd i'w adwaen wrth y farn a wna. Profion o'i fod yn Jehofah oedd ei holl weithredoedd yn ngwlad yr Aipht. Ar ol rhoddiad y ddeddf, cyhoeddodd enw arall arno ei Hun, "Jehofah, Jehofah, y Duw trugarog a graslawn:" nid yn unig y mae Efe yn Jehofah i'w adwaen wrth ei gyfiawnder, yn gweinyddu barn, ond hefyd yn Dduw sydd i'w adwaen wrth ei drugaredd, yn myned heibio i anwiredd. Yr oedd pob amlygiad newydd o gymeriad Duw yn ei ddwyn yn nes at ei greaduriaid, nes, yn nghyflawnder yr amser, y cafwyd Ef mor agos fel yr oedd yn Dduw yn ein natur ni,—yn Dduw mewn cnawd. Wrth yr enw Duw Hollalluog yr oedd Efe yn adnabyddus i'r patriarchiaid; wrth yr enw Jehofah yr oedd Efe yn adnabydd-

us i'r Israeliaid ; ond wrth yr enw Imanuel y mae Efe yn adnabyddus i ni. Er mai llefaru o'r niwl a'r tywyllwch y byddai yr Arglwydd yn gyffredin dan yr hen oruchwyliaeth, eto byddai weithiau yn amlygu ei Hun mor agos i'w bobl nes y byddent yn gallu ei gyfarch wrth enwau oeddent yn dangos anwyldeb ac agosrwydd. Y mae yn wir mai yr Arglwydd Iesu a ddysgodd i'r disgyblion alw Duw yn Dad. Y mae yr enw hwn yn cael ei ddefnyddio yn yr Hen Destament, ond nid yn yr un ystyr ag y dysgodd y Cyfryngwr i'r disgyblion ei defnyddio. Pan ddaeth Mab Duw yn Fab dyn, dyna y pryd yr amlygwyd fod meibion dynion yn feibion Duw. Pan ddaeth yr Arglwydd Iesu i'n galw ni yn frodyr, cawsom ninau wed'yn alw ei Dad Ef yn Dad i ninau. Y mae yr enw a roddir ar yr Arglwydd yn y testyn yr agosaf yn yr Hen Destament i'r enw Tad yn y Testament Newydd—*Bugail*,—enw llawn o dynerwch ac anwyldeb. Y mae y duwiol yma, nid yn crynu gerbron y Brenin tragywyddol,—nid yn arswydo gerbron Barnydd yr holl ddaear, ond mewn hyder sanctaidd yn cydnabod yr Arglwydd yn Fugail iddo, ac yntau fel oen yn teimlo yn hapus a diogel yn mynwes ei Fugail. Yr oedd Dafydd yn gallu tynu holl gymhariaethau y Salm hon o'i brofiad ei hun, er feallai na chyfansoddodd efe ddim o honi pan yn bugeilio defaid Jesse ; oblegid fe dybir na chyfansoddodd efe yr un o'i Salmau nes iddo gael ei ddal gan ddyddiau blin adfyd. Gorthrymder a wnaeth Dafydd yn fardd. Ni buasai yr eglwys wedi cael dim o win melus y Salmau, oni buasai i'r Salmydd gael ei wasgu yn ngwin-gafn adfyd a chystudd. Ond y mae yn ddiameu mai o'r argraffiadau bywiog oeddent wedi eu gwneuthur ar ei feddwl y pryd hyny yr oedd efe yn tynu yr holl ddarluniadau. Pan oedd efe yn myfyrio yn ei balas brenhinol ar ddaioni Duw tuag ato, a thân sanctaidd barddoniaeth wedi ei enyn yn ei galon trwy hyny, ac wrth chwilio am ryw fodd i osod allan ei deimladau bywiog, ehedodd ei feddwl yn ol i ddyddiau ei ieuenctid, pan yr oedd ef yn fachgen gwridgoch a theg yr olwg yn bugeilio defaid ei dad yn meusydd Bethlehem ;—yr oedd ê mewn moment yn byw drachefn yn yr amser gynt,—yn edrych ar ei braidd wedi eu digoni yn un o borfeydd gwelltog Bethlehem, ac yn gorwedd ar lân rhyw ddyfroedd tawel oedd yno. Yn y

ddeadell oedd yn gorwedd yn hapus, heb arnynt eisiau dim, fe welai gysgod o'r daioni a'r drugaredd oeddent wedi ei ddilyn ef holl ddyddiau ei fywyd. Gwyddai Dafydd yn dda mai ar ofal a gwroldeb y Bugail yr oedd hapusrwydd a diogelwch y defaid yn dibynu ; gan hyny penderfynai na byddai eisiau arno ef, oblegid yr Arglwydd oedd ei Fugail. Y mae hyny i'w ganfod yn amlwg iawn yn y testyn, fel yn yr holl Salmau, y duedd gref sydd mewn enaid sanctaidd i gymdeithasu â'r Anweledig trwy y gweledig,—i weled pethau ysbrydol trwy bethau elfenol, —i gymeryd y byd hwn yn gysgod o'r byd a ddaw. Cysgod ydyw y greadigaeth sydd yn cyfeirio at yr Haul a'i hachosodd hi. *Shell* am ysbryd ydyw y ddaear a'i phethau,—y mae ystyr ddofn yn y cwbl sydd o'i mewn ; ond ychydig iawn sydd yn medru darllen ei hiaith. Fe anghofiodd yr Israeliaid iaith Canaan yn nghaethiwed Babilon ; felly y mae dyn yn nghaethiwed pechod wedi myned yn alltud oddiwrth Dduw,—wedi anghofio iaith creadigaeth. Y mae hi yn llefaru eto, ond mewn iaith nad ydyw dyn ddim yn ei deall. Y mae lliaws o saint yn myned drwy'r ddaear heb ddysgu ei deall hi hefyd ; ond y mae ambell Gristion yn cael y ffafr hon,—yn cael deall y ddoethineb y mae y greadigaeth yn ei llefaru mewn dirgelwch. Y mae dameg y greadigaeth yn cael ei hegluro i feddwl ambell un o'r disgyblion. Yr oedd Dafydd wedi cael y fraint hon. Taran oedd tylwyth y tŷ yn ei glywed ; llais Duw oedd Dafydd yn ei glywed. Haul oedd y rhai o'i amgylch yn ei weled; yr oedd Dafydd yn gweled Duw trwy yr haul. Ni buasai y lliaws yn gweled dim yn y ddeadell oedd yn gorwedd yn meusydd Bethlehem ; ond yr oedd Dafydd yn gweled hyny yn llawn o ystyr ysbrydol. Y mae pob Cristion yn gweled Duw yn bob peth iachawdwriaeth. Y mae pob un, i raddau mwy neu lai, yn gweled Duw yn bob peth rhagluniaeth. Ond ychydig iawn sydd yn gallu gweled Duw yn bob peth creadigaeth,—yn cymdeithasu â'r Ysbryd anfeidrol trwy gorff y greadigaeth. Ond un o'r ychydig yma oedd y Salmydd :—"Yr Arglwydd yw fy Mugail ; ni bydd eisiau arnaf."

Y mae yma ddau beth teilwng o'n sylw :—I. Hyder y Salmydd,—"ni bydd eisiau arnaf." II. Sylfaen yr hyder hwnw :—"Yr Arglwydd yw fy Mugail."

I. Hyder y Salmydd :—"ni bydd eisiau arnaf." Swp o eisiau ydyw creadur. Nis gellir disgrifio creadur ond trwy bethau nacäol : nid drwy ddywedyd beth ydyw, ond beth nad ydyw. Gwagedd ydyw creadur : nid oes dim priodolaethau yn perthyn i beth felly. Pan oedd dyn yn berffaith ddedwydd yn Eden, nid perffeithrwydd o hunan-ddigonoldeb oedd, ond perffeithrwydd yn byw ar gyflawnder un arall. Yr oedd ei lestr ef yn llawn am fod ffynon y dyfroedd byw yn rhedeg iddo. Pan dorwyd yr undeb oedd rhyngddo ef â hono, aeth yn berffaith wâg yn y fan. Cymhwysder i dderbyn ydyw pob peth creadur,—synwyrau ei gorff a chyneddfau ei enaid. Yr oedd y corff wedi ei fwriadu i gymdeithasu â'r greadigaeth trwy y synwyrau ; a'r enaid i gymdeithasu â'r Creawdwr drwy y greadigaeth. Ni all yr enaid ddim byw arno ei hun, mwy nag y gall y corff ; â phethau tuallan iddo ei hun y mae a fyno ei holl gyneddfau. Gallu i sylwi ar a barnu pethau oddiallan ydyw y deall ;—gallu i gadw defnyddiau i'r deall a'r serch weithredu arnynt ydyw y cof ;—gallu i garu neu gasâu y pethau hyny ydyw y serch ;—gallu i farnu ymddygiadau yr enaid tuag at y pethau hyny ydyw y gydwybod ;—a gallu i gadw yr holl enaid i ysgogi ydyw yr ewyllys. Ond y mae hono yn ddyledus am ei hysgogiad ei hun i ryw beth allanol. Gwagder perffaith ydyw creadur.

Tri eisiau mawr sydd yn y byd hwn :—eisiau llonyddwch, eisiau amddiffyn, ac eisiau cynhaliaeth. Dyma gynwys hyder y Salmydd : y mae ganddo lonyddwch,—"porfeydd gwelltog gerllaw dyfroedd tawel." Y mae ganddo amddiffyn,—"pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau, nid ofnaf niwed." Y mae ganddo gynhaliaeth,—"Ti a arlwyi ford ger fy mron,.........fy phiol sydd lawn." Cynwys ei hyder ydyw llonyddwch ; amddiffyn, cynhaliaeth. Grym ei hyder ydyw,—"Ni bydd eisiau arnaf."

1. Cynwys ei hyder. (1.) Llonyddwch. "Pob peth," meddai y Pregethwr, "sydd yn llawn blinder." Yr oedd y greadigaeth naturiol yn ymddangos felly iddo ef : yr haul yn codi, ac yn prysuro drachefn i fachlud ;—y gwynt yn myned o'r deheu, yn amgylchu i'r gogledd, ac ar ei daith yn wastad mewn rhai o'i gwmpasoedd ;—yr holl afonydd yn rhedeg i'r

môr;—y dwfr drachefn yn esgyn o hwnw i'r cymylau; ac eilwaith "o'r lle daeth yr afonydd, yno y dychwelant." "Pob peth sydd yn llawn blinder." Nid yw trigolion y ddaear ychwaith ddim yn fwy llonydd na'r elfenau: y maent hwythau, fel ffrwd gref, yn treiglo yn brysur i fôr tragywyddoldeb. "Un genhedlaeth a â ymaith, a chenhedlaeth arall a ddaw." Y mae dynion yn ddieithriad yn ymsymud fel mewn elfen gynhyrfus, a phawb yn ceisio dianc allan o honi, i chwilio am lonyddwch; weithiau yn dymuno am adenydd fel colomen, i ehedeg ymaith i'r anialwch i chwilio am dano; bryd arall yn dymuno bod wedi marw o'r bru, er mwyn ei gael. Felly y mae yn amlwg mai un o ddiffygion mawr y ddau ydyw hwn, diffyg gorphwysdra. Hyn hefyd ydyw un o elfenau trueni uffern,—"Nid ydynt yn cael gorphwysdra, na dydd, na nos." Ond y mae y duwiol wedi ei gael: pan roddodd ef ei ofal i'r Bugail da, fe gafodd orphwysdra i'w enaid; ac ond cael llonyddwch oddifewn, ni all dim cynwrf mawr fod oddiallan; oblegid enaid pob dyn sydd i raddau mawr yn creu byd y dyn hwnw. Os bydd anobaith oddimewn, y mae anobaith yn argraffedig ar bob peth o'n hamgylch. Os bydd prudd-der yn gordoi y dyn oddimewn, y mae prudd-der yn gordoi y cwbl i'r dyn oddiallan. Y pryd hwnw, y mae pob peth yn ymddangos yn aflonydd o'n hamgylch, am ein bod ni yn aflonydd oddimewn. Yr ydym ni yn gweled y cyfan yn ysgwyd ac yn crynu, ond y mae yn dra thebyg mai nid hwy sydd yn crynu, ond ein llestri ni. Pan uner ein calon ni i ofni Duw, fe una hyny y greadigaeth i ninau. Pan y câ y dyn oddimewn dangnefedd trwy gredu, fe fydd awyr o dangnefedd yn amgylchu y dyn oddiallan wed'yn: fe gaiff orphwysfa. Yr oedd y byd hwn wedi bod yn anialwch yn wir i Dafydd: pan neillduwyd ef yn frenin, fe'i neillduwyd ef yr un pryd i fod yn ŵr ymryson, ac yn ŵr cynen. Er mai 'cangen ffrwythlawn oedd efe, a'i geinciau yn cerdded ar hyd y mur; eto y saethyddion a fuant chwerw wrtho.' Fe fu megis "pelican yr anialwch;"—"fel aderyn y tô, unig ar ben y tý;" ond yn awr yr oedd ê wedi cael dychwelyd i'w orphwysfa,—yn cael gorwedd mewn diogelwch, ar ol dydd blin. Gwŷr cynen ac ymryson ydyw y saint eto; aml un o honynt yn cael ei hela fel petris y mynyddoedd. Ond y mae ganddynt hwy le

gorphwys; a chyn sicred a bod y lle yn bod, fe eu gwelir hwythau yn gorwedd ynddo mewn llonyddwch heb fod yn hir.

(2.) Yr ail beth yn hyder y Salmydd oedd amddiffyn :—"Pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau, nid ofnaf niwed: canys yr wyt ti gydâ mi; dy wialen a'th ffon a'm cysurant." Nid oes yr un creadur yn fwy diallu i amddiffyn ei hun na'r ddafad: felly y mae y saint ynddynt eu hunain y creaduriaid gwanaf sydd yn rhodio daear. Nid ydynt yn gryfion i ddim ond i ddioddef. Os tarewir y Cristion ar un rudd, y mae ê yn rhy wan i godi ei law i daraw yn ol; ond y mae ê yn ddigon cryf i droi y rudd arall i'r cernodiwr. Os ydyw yn cael ei orthrymu, y mae ê yn rhy wan i ddial, ond y mae ê yn ddigon cryf i feddianu ei enaid mewn amynedd i ddioddef. Fe gaiff y bwystfilod ymladd â'u gilydd, a dial eu cam ar eu gilydd; ond dioddef sy raid i'r defaid. Ond ni chânt hwythau ddim gwir niwed, oblegid fe ofala eu Bugail am danynt. Y mae amddiffyn mor angenrheidiol i'r Cristion yma ag ydyw gorphwysdra; oblegid nid oes ganddo yr un borfa welltog ar y ddaear, nad oes ffordd i'r gelynion ddyfod iddi. Hefyd y mae y llew a'r arth, yr asp a'r wiber, yn mynydd sancteiddrwydd Duw yma, ond fe ofala y Bugail na chânt ddrygu y praidd. Buasai yn bur hawdd i'r Bugail ddinystrio yr holl fwystfilod, fel na buasai yr un o fewn i gyrau yr etifeddiaeth; ond drwg i'r praidd fuasai hyny, oblegid y bwystfilod sydd yn fynych yn eu cadw hwy ar lwybrau cyfiawnder. Byddant feirw yn gwbl ymhen gronyn i'r pethau y mae yn rhaid cael y bwystfilod yn awr i'w dychrynu rhagddynt. A gwaith eu Bugail yn eu hachub hwynt oddirhwng cyrn yr unicorniaid,—yn eu gwaredu hwynt o grafanc y llew, ac o balf yr arth,—sydd yn ei anwylo Ef gymaint iddynt. Nid na chaiff y saint orthrymderau, ond ni chânt y niwed sydd ynddynt;—deuant allan o bob un fel Israel o'r Aipht, â rhyw berlau ganddynt, yn gyfoethocach nag yr aethant i mewn. Fe gaiff Satan eu cymeryd i'r ffwrn; ond fe ofala eu Hamddiffynwr na chaiff y tân wneuthur dim ond llosgi rhyw rwymau o lygredd o amgylch eu henaid. Fe gaiff eu cymeryd hwynt i Babilon; ond fe ofala yr Arglwydd am beri i hyny fod yn foddion i'w dwyn hwy i ffieiddio eilun-

addoliaeth. Fe gaiff Satan enyn y tân, ond ni chaiff eistedd wrth enau y ffwrn: wrth fesur y mae y gwynt garw yn cael chwythu arnynt. Ac nid Satan sydd yn mesur chwaith, ond y Bugail. Fe gaiff Satan boeni Job; ond bychan oedd ê yn feddwl mai darparu Job i ddal dau cymaint o fendithion ag oedd ganddo o'r blaen, yr oedd ê trwy hyny. Fe gaiff gernodio Paul; ond ni bydd hyny ond yn ei wneuthur yn wacach o'i nerth ei hun, i ras gael lle i lifo i mewn: "Digon i ti fy ngras i." Y mae ffyrdd y Bugail i amddiffyn ei braidd yn aneirif. Y mae yn eu gweled ymhob man. "Rhodia ger fy mron i," meddai yr Arglwydd wrth Abraham, neu yn ol yr iaith y llefarwyd y geiriau, "Rhodia o flaen fy wynebau i." Lle bynag yr â y praidd, fe fydd un o wynebau y Bugail yn edrych arnynt. Ac fel y mae gan y Bugail wyneb ymhob man i'w gweled, felly hefyd y mae ganddo fraich ymhob man i'w hamddiffyn. Gan hyny "ni bydd eisiau" arnynt.

(3.) Y trydydd peth yn hyder y Salmydd oedd cynhaliaeth: "Ti a arlwyi ford ger fy mron yn ngwydd fy ngwrthwynebwyr: iraist fy mhen âg olew, fy phiol sydd lawn." Y mae hyn yn myned gam yn mhellach. Cadw rhag drwg oedd y ddau beth arall,—gorphwysdra ac amddiffyn; ond y mae efe yn ymhyfhau yn awr, ac yn dywedyd, nid yn unig y caiff efe hyny, ond cynhaliaeth hefyd;—nid yn unig fe gedwid drwg rhagddo, ond fe weinyddid daioni iddo. Y mae pob peth yn mynydd Duw: cysgod i orphwys ynddo, a mur o dân i amddiffyn, a gwledd o basgedigion breision a gloyw win puredig i ddigoni. Cynhaliaeth yn cynwys holl ddarpariaeth Duw ar gyfer y creadur newydd,—y manna cuddiedig,—bara y bywyd,—diliau mêl y gwirionedd,—y dwfr bywiol,—y gwin a'r llaeth sydd yn yr efengyl,—ac yn enwedig ordinhadau y tŷ, addewidion y gair, a dylanwadau yr efengyl. Yn y tŷ y mae y Cristion yn cynyddu; ar yr addewidion a'r tystiolaethau y mae ê yn byw; a'r Ysbryd Glân sydd yn eu mynegu hwynt iddo. Gwlad ysbrydol ydyw gwlad y creadur newydd;—mewn awyr ysbrydol y mae ê yn anadlu;—a phethau ysbrydol ydyw holl bethau tŷ a gair Duw. Fel y mae y corff yn cymdeithasu â phethau naturiol drwy y synwyrau, felly y mae yr enaid â phethau ysbrydol drwy ei rasusau. Y mae efe yn bwyta cnawd Mab y dyn yn yr ordin-

hadau trwy ffydd;—y mae yn sugno iechyd o'r addewidion trwy obaith;—y mae yn cael ei gyfnewid yn raddol i ddelw y Pen mawr gan gariad. Nid yr un peth sydd yn cynal y Cristion bob amser. Y mae ê weithiau yn rhy wan i ymborthi ar fwyd cryf y dystiolaeth hono:—"Mi a wn i bwy y credais; ac y mae yn ddiameu genyf ei fod Ef yn abl i gadw yr hyn a roddais ato erbyn y dydd hwnw;" ond fe all y pryd hwn sugno llaeth o'r dystiolaeth hon:—"Gwir yw y gair, ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid; o ba rai penaf ydwyf fi." Y mae llawer iawn o amrywiaeth ar ford y Cristion: yn wyneb digalondid ac ofnau, caiff gynhaliaeth o gadernid trefn Duw: "Y mynyddoedd a giliant, a'r bryniau a symudant: eithr fy nhrugaredd ni chilia oddiwrthyt, a chyfamod fy hedd ni syfl, medd yr Arglwydd sydd yn trugarhau wrthyt." Yn wyneb ei annheilyngdod, caiff sugno cynhaliaeth o radlonrwydd trefn Duw:—"Trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd; a hyny nid o honoch eich hunain: rhodd Duw ydyw." Yn wyneb golwg ar gyfyngder ar hyd y daith, caiff dynu cysur o ffyddlondeb Duw:—"Haiarn a phrês fydd dan dy esgidiau; ac megis dy ddyddiau y bydd dy nerth." Yn wyneb cael ei lethu gan ei ddiddymdra ei hun, caiff ymgysuro yn mawredd Duw:—"Myfi yw Duw Holl-ddigonol." Blaenbrawf o'r nefoedd ydyw yr addewidion;—ychydig o rawn-sypiau Canaan wedi eu dwyn i'r anialwch;—ernes o'r llawenydd a'r digrifwch tragywyddol sy gerbron Duw;—arian traul i gario y Cristion adref. Y mae llawer Cristion fel yr hen Jacob, yn methu credu mai ei Joseph ef sydd yn llywodraethu ar yr holl wlad: y mae ei galon yn llesgâu o'i fewn oblegid hyn; ond cerbydau ydyw yr addewidion, wedi eu hanfon gan Joseph i gyrchu ei frodyr ato ei Hun. Pan egyr y Diddanydd lygaid y Cristion i'w gweled, y mae ei ysbryd ef yn bywiogi yn y fan, nes y mae yn barod i ddywedyd:—"Digon yw: âf fel y gwelwyf Ef." Y mae byd brâs ar y saint: y mae ganddynt Fibl llawn o addewidion, ac enaid llawn o obaith. Y mae y Bibl fel pren y bywyd, â deuddeg rhyw ffrwyth arno. Y mae gobaith, fel colomen Noah, yn cario rhai o'r ffrwythau i'r enaid ymhob amgylchiad. Pa ddiluw bynag fydd yn ymosod ar yr enaid, daw gobaith âg un o ddail yr addewidion, i brofi fod y dyfroedd

i dreio. Os bydd y cornwydydd yn peri i Job ymollwng, fe ä gobaith cyn belled â'r adgyfodiad i ymofyn un o'r dail :—"Eto caf weled Duw yn fy nghnawd." Os bydd teimlad o lygredd yn llethu y Salmydd, daw gobaith o hyd i waredigaeth :—"Digonir fi, pan ddihunwyf, â'th ddelw Di." Os bydd y swmbwl yn poeni Paul, daw gobaith â'r ddeilen hon oddiar Bren y bywyd i'w gynal :—"Digon i ti fy ngras i."

2. Grym hyder y Salmydd :—"Ni bydd eisiau arnaf." Yr oedd Dafydd wedi cyraedd mêr a brasder crefydd yn y fan hon. Ar foreu-gwaith heb gymylau yr ysgrifenodd efe y drydedd Salm ar hugain. Fe fu yntau yn ameu lawer gwaith :—"Syrthio a wnaf ryw ddydd yn llaw Saul ;" ond yr oedd ganddo lawn sicrwydd ffydd yn awr. Fe all ffydd fod heb sicrwydd ffydd ; ond nid yw crefydd yn gysur mawr nes cael sicrwydd. Nid ydyw y Cristion yn gallu gwasanaethu yn ddiofn heb hwn. Y mae ffydd yn gwneuthur pechod yn ddiflas : y mae sicrwydd ffydd yn gwneuthur crefydd yn felus. Y mae *bod* yn dduwiol yn gwneuthur y galon yn dda : y mae *gwybod* ein bod yn dduwiol yn gwneuthur y galon yn llawen. "Ffydd,"—y mae iachawdwriaeth yn gylymedig wrth hyny "Sicrwydd ffydd"—y mae gorfoledd iachawdwriaeth yn gylymedig wrth hyny. Fe all y Cristion ddywedyd bob dydd,—Nid oes eisiau arnaf ; a chodi ei Ebenezer bob nos,—Hyd yma y cynhaliodd yr Arglwydd fi. Ond anaml iawn y gall efe ddefnyddio iaith y testyn. Unwaith y cyfyd Haul Cyfiawnder ar yr enaid, ni fachluda fe byth wed'yn ; ond y mae yn dra thebyg y daw hi yn nos er hyny, oblegid y mae hi yn ysbrydol, fel yn naturiol, nid yr haul sydd yn machlud, ond y ddaear sydd yn troi : y mae yr haul yn y ffurfafen o hyd ; ond am fod y ddaear yn troi ar ei phegwn, y mae tywyllwch yn gorchuddio rhyw ran o honi yn gyson. Felly hefyd y Cristion, y mae ei Haul yntau yn y ffurfafen bob amser ; ond am fod ei ddaear ef yn troi y mae hi yn nos arno yn aml iawn : ac nis gall weled yr un fodfedd o'i flaen yn y nos. Y mae yn anmhosibl iddo ddywedyd, "Ni bydd eisiau arnaf," yn y tywyllwch. Marweidd-dra a difräwch gyda chrefydd ydyw'r unig achos o'n hamheuon. Os mynem ni i'n crefydd roddi goleu i ni ein hunain, y mae yn rhaid i ni oleuo o'n hamgylch. Pan fyddwn ni yn ddigon

crefyddol i fod yn gysgod i ereill, ni a gawn deimlo y pryd hyny ein bod yn eistedd dan ei gysgod ef. Y mae gras yn enaid y Cristion yn wastad ; ond y mae yn haws ei weled pan y mae ê yn cyneu yn fflamau, na phan y mae ê fel llin yn mygu. Cydgynyrch holl rasusau y Cristion ydyw sicrwydd : y cwbl wedi addfedu i raddau ;—cariad wedi tyfu mor uchel a'r nefoedd ; gostyngeiddrwydd wedi tyfu mor isel a'r llwch ;—amynedd wedi cael ei pherffaith waith ;—gobaith wedi angori yn ddiogel y tumewn i'r llen ;—ffydd wedi dysgu edrych yn sefydlog ar degwch y Brenin. Yr efengyl wedi cyraedd ei lle ydyw sicrwydd. Y mae hi yn dyfod ar y cyntaf i enaid dyn "mewn nerth, ac yn yr Ysbryd Glân ;" ond pan fydd hi wedi cyraedd ei lle ei hun, wedi llenwi pob congl o'r enaid, y mae hi yn dyfod "mewn sicrwydd mawr" hefyd.

"Rhai bach yn Nghrist" ydyw y rhan fwyaf o'r duwiolion yn awr. Fe fu cewri ar y ddaear yn y dyddiau gynt ; ond plantos ydym ni ;—*babanod* yn llefain am drugaredd ; nid *dynion* yn medru dywedyd,—"Mi a gefais drugaredd." Nid oes neb o honom bron yn trin digon o grefydd i gael ganddi ateb fel yma : nid ydym yn gwrteithio digon ar y tir iddo ddwyn cnwd y testyn,—"Ni bydd eisiau arnaf." Nid rhyw bum' mynyd gerbron gorsedd gras, hwyr a boreu,—darllen y Bibl unwaith yn yr wythnos,—myned i gynulleidfa y saint unwaith yn y mis,—bod mor ofalus nad ewch chwi ddim tumewn i gynteddau yr Arglwydd, ond ar y Sabbath, a phe byddai yn bechod myned yno ;—nid trin diofal fel yna a gynyrcha gnwd llawn o sicrwydd ffydd. Os mynech chwi i'r blodeuyn yma dyfu yn y fynwes ; y mae yn rhaid i chwi gymeryd aradr y gwirionedd bob dydd i'w braenaru hi. Y mae yn rhaid ymdrechu bob dydd, fel Elias ar ben Carmel, hyd saith-waith, feallai, am gael y gwlaw graslawn i lawr i'w dyfrhau hi. Y mae yn rhaid cysegru rhyw gyfran o bob dydd i fyned i'r llanerchau hyny, ar ba rai y mae Haul y cyfiawnder yn tywynu i'w chynhesu hi ; ac yna, yn raddol, fe dŷf y blodeuyn gwerthfawr hwn yn y fynwes,—"Ni bydd eisiau arnaf." Amcanu am ry fychan gydâ'n crefydd yr ydym,—myned i'r nefoedd, rywsut, ydyw y nôd eithaf yn ein golwg ; ond nid oes modd cael mynedfa helaeth i mewn i dragywyddol deyrnas ein Harglwydd a'n

Hachubwr Iesu Grist, heb fod yn ddiwyd i wneuthur ein galwedigaeth a'n hetholedigaeth yn sicr. Ac ni wn i ddim nad oes llawer iawn o'r saint yn cyraedd y nef fel yr achubwyd llwyth y llong a aeth yn ddrylliau ar Paul yn môr Adria, wrth Ynys Melita gynt, rhai yn nofio, y lleill ar ystyllod, ac eraill ar ryw ddrylliau o'r llong ; ond fe ddigwyddodd ddyfod o bawb i dir yn ddiangol : felly y saint : fe fydd hen arfaeth Duw yn sicrhau y digwyddant hwythau ddyfod i dir yn ddiangol ; ond fe fydd llawer un yn dyfod adref, nid fel llong dan ei llawn hwyliau yn cael yn helaeth fynediad i mewn i'r porthladd, ond ar ystyllod ac ar ddrylliau o'r llong ; ac ambell un yn cael ei daflu gan dònau culfor marwolaeth ar draeth y byd a ddaw, heb ddim ganddo,—yr ystyllen wedi myned,—pob dryll o'r hen long wedi ei golli,—yntau, druan, wedi dyrysu yn y rhyferthwy, yn methu deall beth sydd yn bod, nac i ba le y mae ê yn myned. Ond wedi iddo ddadebru ychydig o lewygfa angau, a dechreu edrych o amgylch, y mae yn gwybod mai *y nefoedd* y gelwir y wlad ar ba un y mae wedi ei fwrw ; oblegid y mae pawb o'r trigolion yn dangos 'mwyneidd-dra nid bychan' tuag ato. Ond fe gawsai arbed y llewygfa yna pe buasai yn ddiwyd i gadw yn fwy manwl yn ol *chart* y fordaith,—i lywio yn fwy gofalus wrth gwmpas y gwirionedd ; felly yn helaeth trefnesid iddo fynedfa i mewn i'r deyrnas. Amcanwn am bethau mawr gydâ chrefydd. Ymestynwn hyd at adgyfodiad y meirw.

Y mae genym yn y fan hon, wrth fyned heibio, fantais i sylwi ar gyfaddasrwydd duwioldeb i enaid dyn. Y mae hi yn ddigon. Y mae y meddwl dynol wedi ceisio byw mewn llawer porfa ; ond cul iawn ydyw yr olwg arno, hyd nes y daw ef i borfeydd iachawdwriaeth. Y mae ê wedi yfed o lawer ffynon ; ond y mae yn sychedu drachefn, nes y caiff yfed o'ffynhonau yr iachawdwriaeth. Y mae athroniaeth yn gallu mesur y meddwl i ddywedyd ei faint ; ond nis gall hi roddi dim ynddo i'w lenwi. Daw gwybodaeth ymlaen, ac â'i llygaid craff hi sylla ar ei amrywiol alluoedd : hi ddisgrifia nerth y deall ; ond nid oes ganddi yr un gwrthddrych y gall y deall hwnw lonyddu ynddo; —hi geisia ddarlunio tân y serch, ond nid oes ganddi hi ddim cynud i'w roddi ar y tân, i beri iddo ffaglu ;—hi ddengys beth mor gywrain ydyw yr ewyllys, ond nid oes ganddi hi ddim i'w

gynyg iddo y gall ê fod yn dawel wrth ymhyfrydu ynddo. Nîd ydyw y gwahanol gelfyddydau ychwaith ddim wedi gallu llonyddu y meddwl. Rhoddwch galon glwyfus yn yr awyren, —gyrwch hi i fyny goruwch y cymylau,—hi ddaw i lawr yr un mor gystuddiedig ag y cychwynodd hi. Rhoddwch gydwybod euog yn yr agerlong,—gyrwch hi gryn dair mil o filldiroedd mewn ychydig ddyddiau, nes y bydd hi wedi cyraedd rhan arall o'r byd,—fe fydd pob gronyn o euogrwydd oedd arni yn myned i'r llong yn Ewrop, arni yn dyfod allan o honi yn America, a mwy hefyd. Cymerwch ysbryd cystuddiedig i'r chwareudy, i weled y digrifwch hwnw sy gan blant dynion, fe ddaw allan yn salach nag yr aeth ef i mewn. Pictiwr deddyddwch y mae yr enaid yn ei ganfod ymhob man ond mewn crefydd. Wrth edrych o bell, meddyliai fod yno rywbeth sylweddol: ond erbyn dyfod i'w ymyl, nid oes ynddo ddim ond darlun y peth. Wrth edrych ar y philosophydd yn cau ei hun i fyny fel mynach yn ei lyfrgell, i gymdeithasu â'r eneidiau mawrion, y meddyliau cryfion, sydd wedi bod yn y byd er's canoedd o flynyddoedd yn ol,—prin yn cael gweled yr haul o ddechreu yr wythnos i'w diwedd,—y dydd hwyaf o'r flwyddyn yn rhy fyr iddo,—yn treulio ei hun uwchben ei *lamp*, nes y mae ei esgyrn yn dyfod i'r amlwg, y rhai ni welid o'r blaen,—gellid tybied y rhaid bod yna rywbeth sylweddol, onide byddai yn anmhosibl i'r dyn fod mor ddiwyd am flynyddoedd; ond dilynwch chwi ôl ei draed,—fel yntau 'tyngwch a chyflawnwch' y mynwch chwi ddeall holl ddirgelion y wybodaeth hon, a dirnad y cyfan sydd yn perthyn i'r wybodaeth arall, cewch weled, ar ol blynyddoedd o fyfyrio, nad oes ynddo ddim ond y darlun. Os ydych chwi yn cael ambell ddyferyn o hapusrwydd, yr oedd yr hapusrwydd yn rhoddi rhyw gyfaddasrwydd yn yr enaid i sugno chwerwder o bob peth allanol, fel mai y dyn mwyaf truenus yn y wlad ydyw y dyn mwyaf gwybodus, os na bydd ef yn dduwiol. Wrth edrych ar y celfyddydwr yn methu cymeryd amser i fwyta, gan mor llawn ydyw o ddyfeisiau ;—yn treulio blynyddoedd heb gymeryd seibiant na dydd na nos, i geisio cael allan ryw beiriant newydd,— yn dychymygu am dano y dydd,—yn breuddwydio am dano y nos,—ac wedi iddo lwyddo i roddi iau ar wddf y goleuni, a ffrwyn yn ngheg y gwynt,—gwneuthur y cwbl oedd

yn ei galon,—gallech feddwl fod yn rhaid ei fod yn ddedwydd ; ond dilynwch ôl ei draed yntau hefyd, gosodwch eich holl alluoedd ar waith i ddychymygu rhyw beiriant newydd, dofwch ryw elfen newydd o natur sydd heb ei darostwng eto gan y natur ddynol,—wedi i chwi gyraedd y nôd oedd yn eich golwg, cewch weled na bydd yno chwaith ddim ond pictiwr y peth. Fe fydd y meddwl yn methu gorphwys rhag i rywun wneuthur un amgenach. Wrth edrych ar y buddugoliaethwr wedi dychwelyd adref yn llwyddianus o bob brwydr,—y gelynion wedi eu gorchfygu,—yr orsedd wedi ei chadarnhau,—miloedd o drigolion y ddaear yn edrych i fyny ato,—yn derbyn y gyfraith o'i enau, gallech feddwl fod hwnw wedi cyraedd gwlad llonyddwch ; ond pe byddai modd i chwi ddilyn ôl ei draed,—cael eistedd ar yr orsedd gadarnaf ar y ddaear,—eich gair chwi yn ddeddf i haner trigolion y byd,—caech weled mai pictiwr y peth fyddai o'ch blaen chwi wedy'n. Byddech yn barod i ofyn gydâ Cesar, wedi cyraedd y nôd uchaf,—Ai hyn ydyw yr oll ? Ai am y darlun, —am y pictiwr yma y bum i yn ymdrechu dros gymaint o flynyddoedd ? Yr oedd y cyfan wedi cyd-gyfarfod yn Cesar ;—ymerawdwr, deall y philosophydd, doethineb y seneddwr, a chalon y buddugoliaethwr. Yr oedd efe hefyd yn byw yn serch ei ddeiliaid ; ond pan oedd haul ei lwyddiant yn y *meridian*,—yn y canol-ddydd,—dyma oedd ê yn ei waeddi,—"Ai dyma y cyfan ?" Yr oedd efe yn methu gorwedd yn y porfeydd ; ond y mae aml i hen Gristion, rhwng mynyddoedd Cymru, wedi cael allan borfa mor frâs fel y mae yn gallu gorwedd ynddi bob dydd. Ni ŵyr ê yn y byd, wrth edrych ar y nefoedd, pa un yw Arcturus a Pleiades,—pa rai ydyw y Saith Seren ac Orïon ; ond fe ŵyr yn burion pa un ydyw Seren Bethlehem. Ni welodd efe yr un awyren,—nid oes ganddo ddim amgyffred pa fodd y mae dynion yn gallu esgyn goruwch y cymylau ; ond fe ŵyr yn eithaf da pa sut i fyned ar ei union i'r drydedd nef. Pe rhoddech chwi ddarlun o'r deyrnas o'i flaen, a dangos mewn un cwr y lle y mae efe yn byw, a dangos y brif ddinas yn y cwr arall, a cheisio ganddo olrhain y ffordd o'r naill i'r llall, ni fedrai efe yn ei fyw wneuthur ; ond rhoddwch chwi y bedwaredd ar ddeg o Ioan o'i flaen, fe fydd yn lled sicr o fedru olrhain y ffordd o'r ddaear i'r nefoedd, tua'r chweched adnod. Y mae

llawer hen wraig na chlywodd hi erioed sôn am frwydr Arbela; —ni ŵyr hi ddim pa flwyddyn y goresgynwyd Lloegr gan y Rhufeiniaid;—pa flwyddyn y daeth rhyddid gwladol i'r deyrnas; ond hi ŵyr yn dda am frwydr Calfaria;—y mae hi yn gydnabyddus iawn â'r flwyddyn y gorchfygwyd uffern,—y flwyddyn ryfedd ddaeth â chyfiawnder tragwyddol i mewn i bechadur.

Y mae yn rhaid cael y tri pheth yma mewn gwrthddrych i ddigoni dyn:—mawredd, sylwedd, gogoniant. Ni all dyn ddim teimlo ei hun mewn diogelwch, os na bydd ef yn nghanol anfeidroldeb. Os gall efe weled y glanau, y mae yn myned yn anesmwyth yn y fan: am hyny y mae efe yn ceisio gwthio i'r dwfn; ond nid oes dim dwfn i wthio iddo gydâ'r creadur. Ar ol ymboeni am flynyddoedd i fyned o olwg y glanau, er ei fawr siomedigaeth, y mae yn cael ei hun yn eu hymyl wedy'n. Yn ymyl y làn gydâ'r môr y mae y perygl mawr: yno y mae y creigiau,—yno y mae y sugndraethau; er ei bod hi yn berffaith dawel, ni all y morwr ddim gorphwys yn hir yn ymyl y làn, oblegid pe byddai i ystorm gyfodi, y mae ê mewn lle drwg iawn i'w gwynebu, am fod y graig yn ymyl, a sugndraeth heb fod ymhell. Ond allan yn y dyfnder mawr, digon pell oddiwrth bob glàn, y mae ê mewn cymhariaeth allan o'r perygl yno: felly yn gwbl y mae hi gydâ dyn;—y mae llawer yma heddyw y mae yn eithaf tawel arnynt yn ymyl glanau y creadur, ac er nad oes yr un cwmwl gymaint a chledr llaw gwr i'w weled mewn un cwr o'r ffurfafen, i fygwth ystorm, eto yr ydych chwi yn methu bod yn dawel, oblegid y mae y gydwybod yn sibrwd, beth pe byddai i ystorm godi? dyma greigiau yn ymyl, rhaid mai dryllio gymerai le. Os mynech chwi golli y pryder,—yr anesmwythyd yna,—o'ch meddwl, ymollyngwch i'r dwfn, i ganol môr o anfeidroldeb, lle na welwch chwi làn am dragwyddoldeb, na sugndraeth, na chraig, i'ch pryderu chwi byth. Cymerwch Greawdwr yn lle creadur,—Duw yn lle dyn,—tragwyddoldeb yn lle amser,—yna, ac nid cynt, eich digonir. Pan ddarostyngwyd Napoleon y waith gyntaf gan awdurdodau Ewrop, anfonwyd ef o Ffrainc, a gwnaed ef yn frenin ar ynys fechan yn Môr y Canoldir; ond yr oedd ê mor aflonydd yno ag aderyn,—yn teithio hyd a lled y deyrnas fechan yn ddiball,—yn methu gorphwys am ddiwrnod. Pa fodd yr oedd efe yn methu mwyn-

hau ei deyrnas fechan ? Rhyw deimlad chwithig iawn oedd hi iddo, oblegid yr oedd ê wedi bod yn ymerawdwr ar Ewrop oll ymron. Felly dyn : paham y mae ê mor aflonydd ? gellid meddwl bod ei ran ef yn deg odiaeth,—yn arglwydd y greadigaeth yma,—yn uchder llwch y byd. Ond dyna'r paham, rhyw deimlad chwith iawn yw hi iddo,—ceisio byw ar yr ynys fach yna, ac yntau wedi bod â chyfandir diderfyn ganddo unwaith. Ynfydrwydd ydyw disgwyl ei weled ef yn llonydd, nes cael yr hen feddiant yn ol,—cael yr Arglwydd yn Fugail eto.

II. Sylfaen hyder y Salmydd :—"Yr Arglwydd yw fy Mugail." Y mae hyn yn cynwys hyder yn codi oddiar berthynas, a hyder yn codi oddiar brofiad. Ni buasai fod Duw yn bod ddim yn sylfaen hyder i bechadur, oni bai fod y Duw hwnw wedi gwneuthur cyfamod i'w gadw,—wedi dyfod i berthynas â dyn. Nid yw hyny eilwaith yn gysur cryf, nes y mae pechadur yn teimlo ei hun yn ymaflyd yn y cyfamod. Y mae gair Duw a'i lŵ yn sicrhau y cedwir pwy bynag a gredo yn ei Fab : dyna obaith yn cael ei ddal o flaen dynion fel y cyfryw ; ond y mae y neb a ymaflo yn y gobaith hwn yn gallu tynu cysur cryf o'r gair a'r llŵ,—yn gwybod, nid yn unig fod yr Arglwydd yn Fugail, ond yn profi ei fod yn Fugail iddo ef.

Y mae ymddiried yn hanfodol i ddedwyddwch creadur ymhob ystad. Y foment y collodd angylion ymddiried yn Nuw, collasant ddedwyddwch am byth. Pan gollodd dyn ei ymddiried, fe gollodd yntau yr un peth. Y mae y greadigaeth i lynu wrth yr Arglwydd ymhob ystyr,—y mae ei bod a'i dedwyddwch hi yn dibynu ar hyny. Y mae y greadigaeth naturiol o angenrheidrwydd yn gwneuthur hyn. Pe byddai iddi gilio yn y radd leiaf, hi giliai i ddiddymdra. Ond fe roddodd yr Arglwydd ryw gymaint o ryddid i feddwl,—fe all ef gilio heb gael ei ddiddymu, ond nid heb farw am byth i ddedwyddwch. Nid oes gan y greadigaeth naturiol ddim gallu i ymaflyd yn Nuw. Duw sydd yn ymaflyd ynddi hi. Yr oedd Duw yn ymaflyd yn myd y meddwl hefyd ; ond yr oedd gallu gan feddwl i ymaflyd drachefn yn Nuw. Pan gollodd y meddwl ei afael drwy anymddiried, fe syrthiodd i beth gwaeth na diddymdra,—i angau tragwyddol,—yr hyn sydd yn annhraethol îs na diddymdra tragywyddol.

Y mae yn y greadigaeth rai coed nerthol yn gallu sefyll ar eu gwreiddiau eu hunain heb bwyso ar ddim ; ond y mae eraill yn dyner, yn egwan, fel yr eiddew ; hwy dyfant yn bur uchel, ond nid heb rywbeth i bwyso arno. Cyffelyb i'r rhai yma ydyw enaid dyn. Yr oedd yr Arglwydd wedi llunio colofn y greadigaeth iddo gael nyddu o'i hamgylch, cyn ei lunio ef. Fe gyrhaeddodd ben hono yn union. Fe roddodd golofn arall iddo trwy wneuthur cyfamod âg ef. Yr oedd hono yn uno y meidrol a'r anfeidrol â'u gilydd,—yn cysylltu Creawdwr a chreadigaeth â'u gilydd. Yr oedd yma ddigon o le i'r enaid ddringo am byth. Ond pan ollyngodd dyn ei afael,—pan gollodd ef ei ymddiried,—fe gollodd ei fywyd o ddedwyddwch yr un foment. Tuag at ei gael yn hapus, y mae yn rhaid ei gael i'r un lle yn ol. Ond y mae yn anmhosibl i'r planigyn egwan ddringo i fyny colofn y greadigaeth at golofn yr hen gyfamod ; gan hyny dyma ras yn datguddio un arall iddo, wedi ei sylfaenu, nid ar fryn uchel daioni at greadur, ond yn nyffryn isel gras at bechadur. Y mae ei sylfaen hi ar y ddaear, yn y dyn Crist Iesu. Yr oedd gagendor mawr rhwng dyn a Duw yn y boreu : gorchest oedd hi i Adda groesi gagendor o anfeidroldeb er cael cyfamod i'w gynorthwyo; ond yn Nghrist y mae yr enaid yn ei groesi heb yn wybod iddo ei hun ymron. Y mae Pren y bywyd, o amgylch pa un y mae y planigyn i nyddu, wedi ei blanu yn yr un ardd a ni. Y mae yr enaid yn dechreu trwy ymaflyd yn y dyn Crist Iesu; ond yn ddiarwybod bron, y mae yn cael ei hun yn ymaflyd yn Nuw. Y mae tynerwch calon yr Arglwydd Iesu fel dyn yn sugno yr enaid ato ; ond gydâg iddo ddyfod, y mae yn cael ei hun wedi croesi y gagendor oddiwrth y creadur at y Creawdwr,—yn syllu ar dynerwch calon Duw. Nid oes neb yn dyfod at y Tad ond trwy y Mab; ac nid oes neb yn dyfod at y Mab, heb ddyfod trwy hyny at y Tad. Y mae gweled y dyn Crist Iesu yn plygu ei ben ar y groes yn tynu sylw yr enaid; ond gydâg iddo lonyddu i edrych ar y weledigaeth, y mae yn gweled y Duw cadarn yno yn rhoddi iawn. Fel hyn y mae ymddiried yn cael ei fagu drachefn yn mynwes pechadur.

Meithriniad ymddiried ei greadur ydyw pob peth a wnaeth Duw erioed. Fe greodd greadur rhydd yn Eden ;—fe stamp-

iodd ddaioni ar ei dŷ ef;—fe argraffodd drugaredd o'i amgylch. Yr oedd gallu tragywyddol i'w ddarllen yn sylfaeniad y tŷ;—yr oedd doethineb tragywyddol i'w ddarllen yn y cynllun;—ond muriau noethion fuasai hynyna; am hyny fe addurnodd y tŷ â daioni tragywyddol. Yr oedd ê yn odidog o gadarn,—yn odidog o gyfleus,—ac yn tra rhagori mewn godidogrwydd a harddwch. Wedi gosod dyn yn y tŷ, fe ddywedodd wrtho,—Myfi yw dy Dduw di: Os mynit ti wybod pa fath un ydwyf, dyma fy nghymeriad wedi ei argraffu ar yr oll o'th amgylch. Ond er y cyfan, fe gollodd dyn ei ymddiried ynddo! Os oedd mor anhawdd cael creadur i ymddiried yn Nuw, pa faint mwy pechadur? Yr oedd yn rhaid cael rhywbeth annhraethol gryfach na chreadigaeth i hyn, oblegid fe fethodd hono gadw'r creadur i ymddiried; ond yr oedd yr Arglwydd wedi penderfynu y mynai Efe ymddiried ei greadur. Os nad ydyw y palas a gododd daioni yn magu ymddired ynddo, y mae Efe yn rhwygo y llen i ddangos y palas y mae gras wedi ei ddarparu ar ei fedr. Os nad oes dim a wnaed mewn amser yn creu hyder ynddo, y mae Efe yn agor dorau tragwyddoldeb i ddangos yr hyn a wnaed yno er ei fwyn. Er ei arwain trwy balas creadigaeth, y mae efe fel Thomas yn parhau yn anghredadyn; ond ei gymeryd i ystafelloedd iachawdwriaeth, a dangos yr hyn a wnaeth Duw yno, y mae yn methu dal allan yn hwy:—"Fy Arglwydd a'm Duw,"—"fy Mugail."

Fel yr oedd ymddiried yn angenrheidiol tuag at gael dedwyddwch, felly y mae i'r enaid weithredu ymddiried bob moment yn angenrheidiol tuag at deimlo y dedwyddwch hwn. A phryd bynag y mae y Cristion yn colli ei lawenydd, y mae yn gwneuthur hyny oblegid ei fod yn edrych am dano ynddo ei hun yn lle yn Nuw. Nid yw hyny ddim yn amgen na cheisio gwneyd drwy gau y llygaid. Pob tro y byddai Dafydd yn tynu ei olwg oddiar Dduw, yr oedd yntau yn cael ei syflyd; ond ni chlywn ni ddim o hono yn cwyno unwaith pan fydd ê yn edrych i'r iawn fan am gysur. "Yr Arglwydd a'm gwrthododd, a'm Harglwydd a'm hanghofiodd," meddai Sïon. Beth oedd yn peri iddi feddwl hyny? Wel, yr oedd hi 'wedi anghofio Duw ddyddiau aneirif.' Pan aeth hi i edrych i'w mynwes ei hun, hi feddyliodd yn union fod mynwes ei Duw yr un fath;

ond gydâg iddi agor ei llygaid ar yr Haul, y mae ei enaid yn oleu yn y fan. "A anghofia gwraig ei phlentyn sugno, fel na thosturio wrth fab ei chroth? ïe, hwy a allant anghofio, eto myfi nid anghofiaf di." Nid yw tynu cysur o'r Arglwydd ddim yn groes i'r diwydrwydd y buom ni yn sôn am dano. Y mae y saint yn llafurio i gyraedd llawn sicrwydd,—i wneuthur eu galwedigaeth a'u hetholedigaeth yn sicr;—nid i bwyso ar y diwydrwydd sydd yn ei gwneuthur hi yn sicr, ond ar yr etholedigaeth ei hun,—ar Dduw. Y mae y saint yn anghofio y pethau o'r tu ol,—yn gadael eu gweithredoedd da, fel eu rhai drwg, ac yn myned drwy yr oll at yr Arglwydd. Y mae yn wir fod y rhai da yn eu canlyn hwynt i'r nefoedd; ond nid ydynt yn sail eu derbyniad yno, oblegid eu canlyn y maent, mwy nag y maent yn sail eu cysur ar y ddaear.

2. Y mae gan y Cristion sylfaen hyder hefyd yn tarddu oddiar brofiad. Y mae ê wedi profi fod yr Arglwydd yn rasol. Ond O! mor dueddol i ameu ffyddlondeb ei Fugail y mae! Ar ol ei gynal am ddeugain mlynedd, y mae yn ofni wed'yn mai yr unfed flwyddyn a deugain y derfydd am dano. Ar ol gwneuthur peth mor fawr ag agor y Môr Coch o'i flaen,—ei gario trwy holl wersyllfaoedd yr anialwch,—ïe, gwneuthur Sinai danllyd yn Sïon dawel iddo. Pan oedd y ddeddf yn melldithio uwch ei ben, ac yntau bob moment yn disgwyl i gwmwl y digofaint ymdywallt arno, fe ddaeth ei Fugail ymlaen, ac a lefodd mor awdurdodol,—"Myfi yw diwedd y ddeddf," fel y clybu yr ystorm ei lais, nes tawelu yn y fan. Fe wasgarodd y cymylau oddiar ben yr hen Sinai, ac erbyn i'r Cristion edrych i fyny, yr oedd Haul y Cyfiawnder yn tywynu yn ei lawn nerth ar ochr y mynydd: aeth ymlaen oddiwrth ei odre dan redeg â chalon lawen tua Chanaan, gan feddwl na bydd iddo ef byth mwy ameu ffyddlondeb ei Fugail. Fe'i brathwyd ef ymhen ychydig amser gan y seirff tanllyd, a meddyliodd eilwaith y byddai efe farw, ond yn ei boenau, fe gododd ei olwg ryw ddiwrnod tua chanol y gwersyll, a gwelai yno sarff bres ar drostan uchel, a chydâg iddo gael cipolwg arni, fe deimlodd ei hun yn iach yn y fan. Y mae ê wedi profi lawer gwaith fod yr Arglwydd yn rasol. Ond wedi ei gario fel hyn i ymyl Canaan, y mae yn ameu wed'yn ffyddlondeb ei Fugail. O blentyn

Duw, os ydyw ef wedi dy gynal di am gymaint o amser, tybed na phery Ef yn ffyddlawn am ryw flwyddyn neu ddwy? ti fyddi wedi gadael yr anialwch erbyn hyny. Yr wyt ti yn ofni y gâd Efe di yn yr Iorddonen sydd yn ymyl; ond yn wir, y mae hyny yn annhebyg iawn, ac yntau wedi agor y môr o'th flaen di. Pe byddai yr Iorddonen yn llifo dros ei cheulanau, nid yw hi ddim wedy'n i'w chymharu â'r môr yr wyt ti wedi dyfod trwyddo. Yr wyt ti wedi myned drwodd o farwolaeth i fywyd: nid yw myned drwodd o amser i dragywyddoldeb yn ddim mewn cymhariaeth i hyny.

Dyma ni yn gynulleidfa o deithwyr: ni wyddom ni ddim am y daith, ond yn unig am ei hyd hi. Y mae genym ryw flaen-brawf yn ein meddwl ei bod hi yn dragywyddol. Y mae *map* o'r byd a ddaw wedi ei gynllunio ar ein hysbryd ni: yr ydym yn teimlo fod ein ffordd drwy ganol y byd hwnw;—yr ydym oll yn ymddiried mewn rhywbeth ar gyfer y daith. Ond beth ydyw hwnw? Ar ba beth y mae eich goglud chwi? Rhyw lwybr bychan ydyw y byd hwn i'n harwain ni i brif-ffordd y byd a ddaw. Ond y mae miloedd yn dechreu bod mewn eisiau cyn darfod y llwybr byr yma: y mae eu holl ddarpariaeth hwynt yn darfod cyn dechreu ar ffordd y byd a ddaw. Os mewn cyfoeth yr ydwyt ti yn ymddiried, at gyfoeth y cei di fyned; ond, cofia, ti fyddi mewn eisiau tragywyddol. Os yn dy weithredoedd yr wyt ti yn meddwl ymddiried, atynt hwy y cei di fyned; ond, cofia, ti fyddi mewn eisiau. Pan y mae ymfudwyr yn myned drosodd i America, y mae yno rywun cyn cychwyn yn edrych dros yr oll sy ganddynt, rhag eu bod yn myned â rhy fychan o gynhaliaeth i'r daith. Dyma gynulleidfa o ymfudwyr i'r byd a ddaw: yr ydym ni oll ar y *pier head;*—ni wyddom ni ddim pa ddiwrnod y byddwn yn croesi. Ond O! pa faint sydd yma y foment hon âg anfeidrol ry fychan i'r daith. Pe croesit ti fel yr wyt ti yn awr, byddit mewn eisiau tragywyddol. Nid oes genyt wisg y wlad;—nid wyt ti yn medru siarad gair o iaith Canaan;—nid wyt wedi dysgu ymborthi erioed ar y manna cuddiedig; ond y mae *out-fitting warehouse*, ystorfa y byd a ddaw yn ymyl yn awr. Nid oes ond eisiau i ti droi i mewn, y mae y cwbl i'w gael, "heb arian ac heb werth." Cael yr Arglwydd—ni bydd eisiau wedy'n: ni

bydd arnat eisiau Tad i ofalu drosot, tra fydd Duw yn fyw;—dim eisiau brawd i gydymdeimlo â thi, tra y bydd Immanuel yn bod;—dim eisiau ymborth, tra y bydd yr ŷd dan lywodraeth Joseph. Y mae y "ni bydd eisiau" yma yr un hyd a thragwyddoldeb ei hunan.

[Dydd Mercher, Mai 27, 1846.]

## PREGETH LVIII.

### LLWYDDIANT TRWY YR YSBRYD.

ZECHARIAH iv. 6:—"Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, ond trwy fy Ysbryd medd Arglwydd y lluoedd."

Y MAE dyn, wrth feddwl am unrhyw waith pwysig, yn agored i ddau gamgymeriad; y naill yn gyffredin yn arwain i'r llall. Y cyntaf ydyw camgymeryd ynghylch ei nerth ei hun, trwy dybio ei fod yn abl i wneuthur mwy nag a all; ond wedi i'w aflwyddiant ei ddwyn i deimlo ei wendid, syrthia i'r ail gamsyniad, sef tybio fod y peth, am iddo ef fethu ei gyflawni, yn gyfryw nas gall neb ei wneuthur. Oherwydd dechreu mewn rhyfyg, y mae yn diweddu mewn anobaith. Ni a gawn yn Moses siampl o'r ddau deimlad: y waith gyntaf yr ymddangosodd i'w frodyr, nid oedd ganddo amheuaeth am ei allu i'w gwaredu; ond, wedi cael siomedigaeth ynddo ei hun, erbyn yr ail dro, yr oedd fel pe buasai yn anghredu y gallai Duw ei hunan eu gwaredu. Dygai ymlaen y naill wrthddadl ar ol y llall yn erbyn myned, nes o'r diwedd i ddigofaint yr Arglwydd enyn yn ei erbyn.

Yr oedd cenedl Israel yn amser y prophwyd hwn wedi syrthio i'r ail gamgymeriad. Wedi i'w cais cyntaf i adeiladu y deml gael ei ddyrysu, yr oedd rhywbeth tebyg i anobaith yr adeiledid hi byth wedi eu meddianu. Wedi i'r rhwystrau allanol oeddent ar y ffordd gael eu symud, cyfodwyd Haggai a Zechariah i symud y rhai tumewnol. Y mae Haggai, trwy chwilio i'w gwrthddadleuon, yn dangos afresymoldeb eu gwaith yn oedi; a llwyddodd i gael ganddynt ddechreu drachefn adeiladu y tŷ. Ymhen dau fis, ar ei ol ef, dechreuodd Zechariah brophwydo.

Yr hyn oedd yn ngolwg Zechariah oedd cael adfywiad ar grefydd ysbrydol yn eu plith,—yr unig beth a sicrhäai barhad eu hymdrech gyda chrefydd allanol. Y mae y prophwyd, drwy amryw weledigaethau, yn calonogi y bobl gydâ'u gwaith. Amcan y weledigaeth gyntaf, sef y gŵr a'r march coch yn rhodio trwy y ddaear, oedd dangos fod heddwch cyffredinol yn teyrnasu,—y ddaear yn eistedd ac yn llonydd ; am hyny fod yr adeg yn fanteisiol i'r Arglwydd gyflawni ei addewidion iddynt hwy, ac iddynt hwythau fyned ymlaen gydâ'i waith yntau. Amcan yr ail weledigaeth, sef y pedwar corn yn cael eu tori gan y pedwar saer, oedd dangos fod yr Arglwydd yn dinystrio gallu y cenhedloedd oeddent wedi eu gorthrymu hwynt. Amcan y drydedd weledigaeth, sef mesur Jerusalem, oedd dangos y byddai y genedl mor liosog, fel y byddai raid eangu terfynau y ddinas. Ac amcan y bedwaredd, sef Josua yn cael ei wisgo â newid ddillad, oedd dangos, er mor isel oedd eu cyflwr fel cenedl, pan yn dychwelyd o'r caethiwed, eto y symudid ymaith eu hanwiredd, ac y prydferthid hwynt fel yn y dyddiau gynt. Yr oedd gweledigaeth y canwyllbren aur, y mae y testyn mewn cysylltiad â hi, wedi ei bwriadu i ddangos prydferthwch yr eglwys wedi ei hadferiad, ynghyd â'r modd y dygid hyn o amgylch ; ac y sicrheid ei barhad ef : "Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, ond trwy fy Ysbryd, medd Arglwydd y lluoedd."

Wrth Zorobabel y llefarwyd y testyn, nid i atal iddo falchïo, —nid hyny oedd y pechod parod i'w amgylchu,—ond i'w atal i lwfrhau, a dywedyd, "Pwy ydwyf fi, fel y dygwn hyn o amgylch?" Y mae y rhwystrau yn fawrion,—y bobl yn weiniaid ac yn dlodion ;—gwir,—ond na ddigalona: fel yr oedd y canwyllbren a welaist yn cael ei gadw i oleuo, nid gan law dyn, ond gan olewydden ar bob tu iddo ; felly y byddi dithau, —"nid trwy lu, ac nid trwy nerth ;" mi gwblhaf fi y gwaith sydd yn dy law, drwy fy Ysbryd, fel y gweli di y canwyllbren yn cael ei gadw i oleuo gan yr olewydden.

Y gwirionedd, cynwysedig yn y testyn ydyw, fod sefydliad, parhad, a chynydd crefydd yn y byd, yn ymddibynu ar ddylanwad Ysbryd Duw.

I. Y mae y testyn yn awgrymu i ni fod tuedd mewn dynion i gysylltu llwyddiant crefydd â rhywbeth heblaw dylanwad

Ysbryd Duw, ei fod i'w ddisgwyl trwy y llu a'r nerth. Gellir cymeryd y llu a'r nerth am bob peth y disgwylir llwyddiant trwyddynt yn annibynol ar Ysbryd Duw.

1. Disgwyl trwy y llu a'r nerth, ydyw disgwyl llwyddiant crefydd trwy ei chysylltu â mawredd allanol, ac â llywodraethau gwladol. Yr oedd mawredd felly yn perthyn i'r eglwys Iuddewig; perthynai y brenin, a holl fawrion y genedl, iddi: rhai uchel felly fyddent yn gyffredin yn dwyn ymlaen bob diwygiad ynddi; am hyny nid rhyfedd oedd, yr edrychid gan y bobl ar barchedigreth a llwyddiant crefydd fel yn ymddibynu ar y dosbarth hwn. Gwneir hyn eto i raddau gormodol. Y teimlad hwn ydyw y rheswm mawr paham yr ydys mor awyddus i gysylltu crefydd â llywodraethau gwladol, er mwyn i fri yr orsedd roddi bri ar grefydd. Y mae hyny yn gyffelyb fel pe deuid â chanwyll i addurno goleuni yr haul. Nid wyf yn dywedyd nas gall crefydd lwyddo, er y cysylltiad hwn; ond nid oblegid y cysylltiad y mae hi yn llwyddo. Y mae gan y rhai sydd mewn sefyllfaoedd parchus fantais i fod yn fendith i'r byd; ond pe byddai holl broffeswyr crefydd yn dywysogion, byddent mor analluog i amlhau gwir grefyddwyr, *am* eu bod felly, a phe buasent yn cardota eu bara. Nid yw crefydd yn diystyru sefyllfaoedd anrhydeddus, nac ychwaith yn cymeradwyo rhai isel. Nid yw hi yn derbyn dim o'i phrydferthwch gan yr uchelaf, ac nis gall yr iselaf lychwino dim ar ei thegwch hi. Fel yr haul, y mae hi yn ddisglaer yn ei goleuni ei hun. Nid yw mawredd bydol yn ddim tuag at ei llwyddiant. "Nid trwy lu, ac nid trwy nerth."

2. Disgwyl trwy y llu a'r nerth ydyw disgwyl ei llwyddiant hi drwy'r gwirionedd yn annibynol ar Ysbryd Duw, a thrwy ddull medrus, cywrain, o draethu y gwirionedd hwnw. Y mae y gwirionedd yn fuddiol i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi;—y mae yn gleddyf i ysgar,—yn ordd i ddryllio,—yn dân i buro. Y mae ei amrywiaeth yn cyfateb i amrywiaeth diderfyn angen mynwes dyn. Y mae ynddo i bawb ei gyfran: i'r caled, anystyriol, y mae yma daranau Sinai;—i'r gwan, tarfedig, y mae yma wlith Hermon a Sïon; i ddoethion y ddaear, y mae yma ddyfnion bethau Duw. Y mae yma hefyd air digon agos at, a hawdd ei ddeall gan ynfydion. Nid rhaid iddo wrth

lythyrau canmoliaeth at neb, oblegid y mae tyst o'i blaid ymhob mynwes. Llefarwyd ef gan Ysbryd Duw. Ei lyfr Ef ydyw. Y mae ei ddelw arno oll. Gwirionedd Duw ydyw ei wirionedd ef. Sancteiddrwydd Duw ydyw ei burdeb ef. A gras Duw ydyw y daioni sydd yn tanbeidio ar bob dalen o hono. Dim ond cael cyhoeddi cynwys y llyfr yn fedrus i'r byd, nid dieithr a fuasai disgwyl am lwyddiant. Cael rhyw un a fuasai yn deall y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu,—a fuasai fel Paul yn deall beth oedd y gwirionedd,—a wnai y tro i'r amgylchiadau ymhob lle; ac fel yntau, a allasai ei gyflwyno gerbron yn y dull mwyaf manteisiol iddo wneuthur argraff dda,—a allasai orfodi amheuwyr philosophaidd y byd i wrandaw arno,—a allasai beri i benau coronog welwi ger ei fron,—a allasai enill sylw a pharch paganiaid nes iddynt dybio ei fod yn Dduw: dyn a allasai droi pob peth yn fanteisiol i'w amcan,—a allasai gael testyn pregeth oddiwrth hen allor ar yr heol,—a allasai beri i ysgydwad y gadwen oedd am dano wneuthur i galon barnwr grynu,—a allasai droi llinellau o eiddo hen fardd llygredig yn foddion i argyhoeddi, —a allasai wneuthur defnydd o ffrae oedd rhwng sectau crefyddol i gyraedd amcan da: dyn a allasai draethu holl gyngor Duw; taranu fel Boanerges;—efengylu fel Barnabas, Mab diddanwch;—fflamio mewn zel fel Pedr;—a thraethu ar foesoldeb crefydd fel Iago:—traethu yr holl bethau buddiol;—sefyll yn nhywyllwch Sinai, ac ar ddyffryn Saron hefyd; gwasgar y mellt i frawychu, ac wylo y dagrau i doddi. Gallesid disgwyl pe cawsid dyn fel hyn, y buasai y llwyddiant yn sicr, ac yn canlyn yn angenrheidiol oddiar gyfaddasrwydd a rhagoriaeth y moddion. Ond nid ydyw y cwbl ond y llu a'r nerth. Ac ni buasai neb parotach i gydnabod hyny na'r Apostol Paul ei hunan. Er bod y dyn yn ddyn Duw,—yn traethu geiriau Duw, —os gadewir ef iddo ei hun, ni bydd ond fel un yn curo yr awyr,—ni bydd y mellt yn lladd neb,—y dagrau yn toddi neb— yr ymresymu yn argyhoeddi neb—yr areithio yn perswadio neb —y zel yn difa neb ond efe ei hun; oblegid nerthol trwy Dduw ydyw yr offerynau i fwrw cestyll i'r llawr. "Pan ollyngych dy Ysbryd y creir hwynt, ac yr adnewyddi wyneb y ddaear."

Nid anmhriodol, mewn cysylltiad â hyn, a fyddai dywedyd gair am un dull arall sydd o ddisgwyl drwy y llu a'r nerth, er

ei fod, dybygid, ar yr olwg allanol, yn bob peth ond hyny, sef ymddibynu am y llwyddiant ar waeledd yr offeryn, fel pe na buasai dim yn eisiau tuag at fynediad y deyrnas ymlaen, ond cael yr offerynau mwyaf anghymwys ynddynt eu hunain at ddwyn hyny o amgylch. Nid ydyw Ysbryd Duw o angenrheidrwydd yn gysylltiedig â'r dosbarth iselaf, mwy nag y mae â'r uchaf. Fe all Efe berffeithio moliant o enau plant, a gwaradwyddo doethion y byd drwy ei ffol bethau ef; ond eithriad ydyw ei fod yn gwneuthur hyny, a'r diben mewn golwg wrth ei wneuthur ydyw dangos na bydd arno ddiffyg offerynau i gario ei waith ymlaen,—pe tawai y plant, y llefai y ceryg. Ond nid yr hyn a all Duw ydyw ein rheol ni i ddisgwyl; ond yr hyn a addawodd, a'r hyn y mae yn arfer ei wneuthur. Y mae weithiau yn gwneuthur pethau rhyfedd drwy bethau gwael, fel yr oedd gwyrthiau weithiau yn cael eu cyflawni; ond nid oes gan neb sail i ddisgwyl gwyrth ond mewn amgylchiad nad oes modd cael y peth yr un ffordd arall. Mewn anialwch, lle nid oes âr na medi, gellir disgwyl bara yn wyrthiol; ond buasai yn demtio yr Arglwydd wneuthur yr un peth yn Nghanaan ag oedd yn arwydd o ymddiried ynddo yn yr anialwch. Fe wna yr Arglwydd ymwared mawr trwy un anenwog, megis Gideon, weithiau; ond yn gyffredin trwy Moses, yr enwocaf yn ei oes, y bydd yn gweithio;—trwy Samson, y cryfaf yn ei ddydd, y bydd yn gwaredu;—trwy Daniel, gŵr mawr yn y llys, y caiff y genedl ddyfod o Babilon. Ar Bezaleel, y cywreiniaf yn y gwersyll, y disgyn Ysbryd Duw. Trwy Solomon, y doethaf o ddynion, yr adeiledir y deml gyntaf: Zorobabel, tywysog yn Israel, a fydd i ofalu am yr ail; eto "nid trwy lu, ac nid trwy nerth, ond trwy fy Ysbryd, medd Arglwydd y lluoedd." Gellir cerfio y testyn ar rai adeiladau gwych, lle y mae rhodres a rhwysgfawredd o amgylch y gwasanaeth dwyfol, "Nid trwy lu, ac nid trwy nerth." Gellir ei ysgrifenu ar rai pulpudau sydd wedi eu haddurno â phob gwybodaeth, "Nid trwy lu ac nid trwy nerth. Gellir ei ysgrifenu hefyd ar eraill sydd ymron yn gwbl amddifad o fawredd allanol, ac o bob gwybodaeth: "Nid trwy lu ac nid trwy nerth."

II. Ni a enwn rai pethau i brofi mai trwy yr Ysbryd y mae y gwaith mawr i fyned ymlaen.

1. Y mae mawredd yr hyn sydd i gael ei wneuthur yn ddigon o brawf na all neb llai na Duw ei gyflawni. Y mae y gwaith mor fawr, fel nas gallwn synio yn gywir am dano, ond trwy gymorth cymhariaethau. Gallwn gael tair neillduol mewn cysylltiad â chenedl Israel, a fyddant yn fanteisiol i hyny : ei gwaredigaeth o'r Aipht, ei gwaredigaeth o Babilon, ac adeiladu yr ail deml. Pan yn yr Aipht, yr oeddent o dan iau haiarnaidd y brenin mwyaf galluog ar wyneb y ddaear : pan yn Babilon, yr oeddent o dan lywodraeth meistr y byd. Yr oeddent hwythau yn y ddau amgylchiad yn unig, heb ail i'w cyfodi. Pan oedd eisiau adeiladu y deml, nid oedd ganddynt ewyllys na gallu i hyny. Wrth edrych gerllaw iddynt yr oedd cymaint o bethau eraill eisiau eu gwneyd yn gyntaf: wrth edrych o'u hamgylch, yr oedd cymaint o rwystrau ar y ffordd. Buasent yn yr Aipht eto, er doethineb Moses, a hyawdledd Aaron, oni ba'i i'r Arglwydd ddisgyn i'w gwaredu. Buasent yn Babilon eto, er cael Daniel yn ddadleuwr drostynt yn y llys, oni ba'i i'r Arglwydd gyffwrdd â chalon Cyrus. Buasai y deml heb ei hadeiladu eto, er Haggai a Zechariah, oni ba'i i Ysbryd yr Arglwydd gyffwrdd â chalonau y bobl. Y mae yr iau y mae pechaduriaid dani yn fwy haiarnaidd ac anhawdd ei thori nag un Pharaoh neu Nebuchodonosor. Ni thycia doethineb Moses na hyawdledd Aaron, ddim i hyny ; oni ddaw Arglwydd y lluoedd i'n gwaredu, ar ein gwàrau y bydd hi byth. Yr ydym yn fwy anmharod a diallu i adeiladu y deml, nag oedd Israel wedi dychwelyd o'r caethiwed : heb ei chodi y bydd hi yn dragywydd, os na ddaw Ysbryd yr Arglwydd at y gorchwyl. Y mae dwyn unrhyw beth sydd wedi dyrysu yn ol i drefn yn gofyn mwy o nerth a medr nag oedd yn eisiau i'w wneuthur i ddechreu. Yr oedd dwyn Israel o'r Aipht yn fwy gorchwyl na dwyn Abraham o Ur y Caldeaid i ddechreu. Yr oedd codi yr ail deml ar adfeilion y gyntaf yn fwy gorchwyl na gwneyd y gyntaf. Y mae adgyfodi dyn marw yn fwy peth na chreu dyn o bridd y ddaear. Y mae trefnu byd wedi dyrysu yn fwy gorchwyl na gwneyd byd i ddechreu. Byd wedi dyrysu ydyw dyn. Adfeilion hen deml ydyw mynwes dyn. Y mae yr ysbryd sy mewn dyn yn gorphwys mewn marwolaeth. Y mae yn rhaid cael Creawdwr

i drefnu byd wedi dyrysu. Y mae yn rhaid cael yr Hwn a anadlodd fywyd i enaid, i ddechreu adfywio enaid marw. Pe cymerech y cymhariaethau sydd yn y Bibl i ddangos cyflwr dyn, eu hiaith oll ydyw, "Y mae yn rhaid cael Duw yma." Dyna ddyffryn llawn o esgyrn sychion;—rhodiwch yn eu plith;—ni ellwch lai na theimlo, Y mae yn rhaid cael Duw at y rhai hyn. Edrychwch ar y dyrfa yna sydd wedi eu geni yn ddall;—onid hyny fydd eich teimlad, Y mae yn rhaid cael Goleuni y byd yma. Ewch i blith y gwrthryfelwyr yna sydd yn beiddio y nefoedd,—yn rhedeg yn y gwddf i'r Brenin tragwyddol, chwi a deimlwch yn y fan fod yn rhaid cael rhagorol fawredd ei nerth Ef i'w darostwng hwynt. Y mae rhai gorchwylion mor fawrion mewn gwlad, nad oes neb yn disgwyl eu gweled yn cael eu cyflawni, os na chymer y Llywodraeth hwynt mewn llaw. Y mae gwaith mor fawr i'w wneuthur ar dy fynwes di, nad oes gobaith ei weled byth wedi ei gyflawni, os na chymer y llywodraeth ddwyfol—y Brenin tragywyddol,—ef yn ei law ei hun. "Trwy fy Ysbryd, medd Arglwydd y lluoedd."

2. Y mae cyferbynu yr hyn sydd yn cael ei wneuthur â'r moddion sydd yn dwyn hyny o amgylch, yn ddigon i brofi fod yno rywbeth o'r golwg—llais mewn llais,—oblegid y mae yr effeithiau yn fwy na'r achosion sydd yn ein golwg ni; am hyny rhaid bod rhyw achos o'r golwg sydd yn eu cynyrchu. Nis gall yr un effaith fod yn fwy na'i achos, mwy nag y gall y dwfr esgyn yn uwch na'i darddiad. Fe all dyn â rhyw wirionedd yn llosgi fel tân yn ei ysbryd ef ei hun, gael cryn ddylanwad ar ei gyd-ddynion dros amser. Pe deuai seryddwr yma i draethu yn fedrus am y sêr, gallai beri i lawer un na sylwodd erioed arnynt syllu ar y ffurfafen am ychydig nosweithiau; ond cyn pen mis, byddai y sêr gymaint o feddwl y gwrandawyr ag erioed. Gallai un wedi teithio gwlad dramor, drwy ei disgrifio yn fedrus, beri fod cryn son am dani yn yr ardal am rai wythnosau; ond cyn pen blwyddyn, byddai pob cof am dani wedi ei ddileu oddiar feddyliau y trigolion. Pe darlunid yn fedrus echryslonrwydd rhyw fai y mae dyn yn byw ynddo, gallai hyny beri iddo ei adael am rai misoedd; ond gwelir ef eilwaith yn ymdrybaeddu ynddo. Nid ydyw yr effeithiau yn

ddim mwy na'r achosion. Ond dyna ryw un yn traethu am fyd a ddaw wrth bobl na feddyliodd erioedd am y byd hwnw;—y maent o'r ddaear yn ddaearol,—hi ydyw eu cartref,—cartref eu cyrff, a chartref eu meddyliau; ond o'r pryd hwnw allan, y mae'r ddaear yn colli ei dylanwad arnynt,—eu gofal mawr yn awr ydyw gwneyd eu hunain yn deilwng o'r byd hwnw; ac nid am fis, neu am flwyddyn, y mae eu zel at hyny yn parhau, ond tra y byddant ar y ddaear. Paham y mae canlyniadau y siarad yna mor wahanol i'r cyntaf? Y mae rhywbeth o'r golwg gydâ hwnyna. Dyna ddyn dieithr yn dyfod i Corinth i draethu am ddrwg eu calonau a'u bucheddau, am yr eilun-addoliaeth, yr anlladrwydd, a'r meddwdod, oeddent yn y golwg, ac am yr uffern o drueni oedd o'r golwg: ei gymeryd i fyny a wnant am eu henllibio; nage, ond taflu yr eilunod i'r wâdd ac i'r ystlumod,—cilio ymhell oddiwrth yr anlladrwydd a'r meddwdod, a golchi eu calonau yn y ffynon oedd wedi ei hagoryd i bechod ac aflendid; ac os gofyn neb pa sut y cynyrchwyd effeithiau mor ryfedd, yr ateb fydd, "Trwy fy Ysbryd, medd Arglwydd y lluoedd."

3. Y mae sylwi ar ganlyniadau pob ymdrech gydâ gwaith yr Arglwydd yn profi yr un peth, sef mai trwy yr Ysbryd y mae yn myned ymlaen. Y rheol ydyw fod pethau yn effeithio ar ddynion, naill ai yn ol eu perthynas â hwynt, neu yn ol medr y neb fydd yn eu cyflwyno i sylw. Pe gwaeddai plentyn, mewn iaith doredig, fod tŷ un o honoch yn myned ar dân, byddai y berthynas rhyngoch â'r gwirionedd yn eich rhwymo i wrandaw, heb roddi moment o sylw i'r offeryn. Pe deuai areithiwr medrus, fel areithiwr mawr Athen, i siarad ar ryw bwnc lled annerbyniol genych, gallai trwy ei hyawdledd orfodi sylw ato. Ond a ydyw yr efengyl yn tynu sylw yn yr un dull? A ydyw hi yn cael sylw yn gyfartal i bwysigrwydd a pherthynas ei gwirioneddau hi, neu yn gyfartal i fedr y neb fydd yn ei thraethu hi? A ydyw y dyn oedd yn brawychu wrth glywed fod ei dŷ yn myned ar dân, ddim yn haner gwallgof wrth glywed fod ei enaid yn agored i dân tragywyddol? Na, y mae yn cellwair wrth glywed yr ail beth, er ei fod yn crynu wrth glywed y cyntaf. Yr areithiwr, meddir, oedd heb fod yn hyawdl,—y siaradwr oedd yn anfedrus,—feallai mai ê;

ond ai nid oedd perthynas y gwirionedd â'r gwrandawyr yn ddigon i dynu sylw yn annibynol ar y dull y cyflwynid ef i sylw. Dyna Noah yn pregethu am gant ac ugain mlynedd wirionedd mor bwysig, fel nad oedd dim yn bwysig ond efe: Dyna Lot yn traethu wrth ei ddawon wirionedd o gymaint gwerth a'u bywyd: feallai nad oedd yr un o honynt yn ŵr ymadroddus, ond oni ddylasai y gwirionedd ei hun gael sylw? Eto ni ddarfu dim cymaint ag un mewn byd cyfan goelio Noah. Yr oedd dawon Lot yn ei wawdio. Rhoddwch y gwirionedd pwysig yn ngenau yr areithwyr hyawdl, ac ymha le y ceir rhai mwy ymadroddus nag Esay a Jeremiah. Anfoner y naill i waeddi fod pob cnawd yn wellt, a holl odidawgrwydd dyn fel blodeuyn y glaswelltyn: anfoner y llall i redeg ar hyd heolydd Jerusalem i ddywedyd fod yr Arglwydd yn myned i ddinystrio y lle, oni wellâent eu ffyrdd: yr holl effaith a gâ pregeth y cyntaf fydd brasâu calonau y gwrandawyr, a'r effaith a gâ pregeth yr ail fydd peri iddynt daflu y pregethwr i'r daeardy. Edrychwch eto ar yr un un mewn gwahanol leoedd:—Paul yn ymresymu gyda holl fedr ei feddwl galluog, coethedig, yn Athen, ond y mae y philosophyddion yn myned o Areopagus dan ei enllibio: dyna yr un gwr yn pregethu yn Corinth, a'r bobl yn myned o'r odfa dan wylo. Edrychwch eto;—dyna rywun anllythyrenog, yn dryllio rheolau iaith bob brawddeg, ond y mae pob brawddeg yn dryllio calonau. Dyna rywun arall, a'i feddwl yn goeth, a'i eiriau yn gymeradwy, ond y maent yn disgyn fel iâ ar y bobl, tra y mae geiriau y cyntaf fel tân ar eu cydwybodau. A phaham y mynychwn ni esiamplau? Dyna Fab Duw ei Hun,—ac ni lefarodd dyn erioed fel Efe: y mae gonestrwydd a thynerwch wedi cydgyfarfod ynddo; mewn gair y mae yn bregethwr perffaith; eto fe lefarodd yn ofer,—fe dreuliodd ei nerth am ddim. Dyna Pedr yn cyhoeddi gwirionedd llawer mwy croes i chwaeth y bobl, ac yn llawer mwy anfedrus gydâ hyny na'r Iesu, eto y mae miloedd yn credu. Ond yr esboniad ar y pethau hyn oll ydyw:—"Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, ond trwy fy Ysbryd, medd yr Arglwydd."

III. Y dull y mae y dylanwad hwn o eiddo yr Ysbryd yn gwneyd y gwaith, sef trwy foddion. Yr oedd saith bibell y canwyllbren yn llosgi yn ddisglaer; ond o'r ddwy olewydden

oeddent gerllaw iddynt yr oedd yr olew euraid i hyny yn dyfod. Y ddwy olewydden hyn oedd Zorobabel a Josua ; y naill yn ben tŷ Dafydd, a'r llall yn ben tŷ Aaron : ac esboniad ar y weledigaeth oedd y testyn :—"Nid trwy lu, ac nid trwy nerth." Arglwydd yr holl ddaear oedd yn cadw'r canwyllbrenau i oleuo, trwy y ddwy olewydden, hyny yw, trwy y moddion naturiol. Y tywysog a'r archoffeiriad oedd y ddau debycaf yn y wlad i ddwyn o amgylch y gwaith ; felly trwy y ddau yna yr oedd Ysbryd Duw yn cwblhau y gorchwyl. Felly eto, er mai trwy yr Ysbryd yr ä y gwaith ymlaen,—trwy foddion y mae yr Ysbryd yn gweithio,—trwy y gair. Nid oes cysylltiad anwahanol rhwng yr Ysbryd â'r gair mwy nag oedd rhwng yr Arglwydd â'r deml gynt. Er mai yn y deml y byddai Jehofah yn arfer amlygu ei ewyllys, eto nid oedd wedi rhwymo ei Hun i wneuthur hyny i bawb, nac i neb bob amser. Felly eto, gwynt yn chwythu lle y myno ydyw dylanwad Ysbryd Duw. Nid yw y moddion yn rhoddi yr Ysbryd dan ddim rhwymau ; yn hytrach, y deml ydyw y gair, sef y man cyfreithlawn i ni ddisgwyl i'r gogoniant dwyfol ddyfod i'n toi ni. Mor afresymol fuasai clywed Israeliad yn dywedyd ei fod yn disgwyl clywed gair oddiwrth yr Arglwydd, ag yntau yn byw yn Beerseba, heb fyned i Jerusalem unwaith yn y flwyddyn, yr unig fan cyfreithlawn i ddisgwyl : mor afresymol a hyny fuasai clywed un arall oedd yn byw yn Jerusalem yn dywedyd ei fod yntau yn disgwyl gair oddiwrth Dduw,—ei fod yn myned i'r deml bob dydd ; ond yn myned yno heb yr un aberth,—heb fod dim a fynai â'r offeiriad. Tebyg i hynyna ydyw y dull y mae llawer yn proffesu disgwyl wrth Ysbryd yr Arglwydd. Y maent yn byw yn Beerseba, yn bell o'r fan y mae'r gogoniant yn arfer ymddangos ; neu, os ydynt yn dyfod i'r cysegr, y maent yn dyfod yno heb yr un aberth,—heb fod dim a fynont â'r offeiriad. Nid dieithr yw nad oes na llais na neb yn ateb. Y mae yn wirionedd gwerthfawr ein bod ni yn gwybod pa le i ddisgwyl. Y mae y morwr yn gwybod pa le y mae y *trade wind* yn chwythu; o fewn i ryw *latitude* penodol yn unig y mae yn wiw disgwyl am dano. Nid ydyw bob amser yr un mor nerthol yn y fan hono; ond yno y bydd yn wiw disgwyl am dano. Felly, nid yw y gwynt nefol hwn ddim yn chwythu ond o fewn i ryw derfynau

penodol; a phan y byddwch chwi yn ymwneyd â moddion gras yn y dull a enwyd, yr ydych o fewn i *latitude* y gwynt,—y ffordd y mae yn arfer cerdded.

IV. Y mae yma awgrymiad i ni hefyd am nerth y gwrthddrych sydd yn myned â'r gwaith ymlaen: "Fy Ysbryd, medd Arglwydd y lluoedd." Cysylltir y gair "lluoedd" weithiau âg enw yr Arglwydd i ddangos ei fawredd a'i nerth. "Y mae Arglwydd y lluoedd gydâ ni; y mae Duw Jacob yn amddiffynfa i ni." Bryd arall i ddangos na bydd dim gwrthwynebiadau yn alluog i'w rwystro i gyflawni ei amcan: "Arglwydd y lluoedd" ydyw; y mae pob llu at ei alwad. Gan mai Ysbryd ydyw, gall fyned i mewn i fynwes Cyrus heb yn wybod iddo. Gan mai Ysbryd Arglwydd y lluoedd ydyw, y mae digon o rym yn perthyn iddo i sicrhau ei lwyddiant. Pe cawsem ni olwg ar y greadigaeth y dydd cyntaf, a phe gofynasid i ni, A ellir gwneyd rhywbeth o fyd fel hwn? yr ateb fuasai, Na, y mae hyny yn anmhosibl: nid oes yma ond tryblith terfysglyd,—tywyllwch caddugawl;—nid oes yma fywyd na phrydferthwch; a phe buasai yma fywyd, nid oes yma ddim i'w gynal: diau mai yn ofer y crewyd y byd hwn. Cyn penderfynu hyny, dychwelwch i'w weled ymhen chwe' diwrnod, i edrych a fydd dim gwahaniaeth ynddo. Gwahaniaeth! oes; y mae yn anhygoel mai dyma lle y bum chwe' diwrnod yn ol. O mor brydferth ydyw y ffurfafen yna, a'i lampau tanbaid! Mor ardderchog ydyw y môr mawr, llydan, yna, a'i ymlusgiaid heb rifedi! Mor baradwysaidd ei gwedd ydyw y ddaear! coed ffrwythlawn yn ei haddurno; carped amryliw yn gorchuddio ei hwyneb, anifeiliaid heb rifedi yn prancio yn nwyfus ar hyd ei dolydd hi; ei hawyr hi yn llawn o beraroglau y blodau, ac o fiwsig y goedwig, a dyn yn rhodio fel brenin ar hyd-ddi. Beth a wnaeth gyfnewidiad mor fawr mewn can lleied o amser? Ysbryd Arglwydd y lluoedd. Pa sawl mynwes sydd yma yn awr fel y byd y dydd cyntaf? Nid oes yna na goleu na threfn, na phrydferthwch na bywyd; ond fe ddichon Ysbryd Duw. Ysbryd "Arglwydd y lluoedd ydyw."

1. Gwelwn mor werthfawr i ni ydyw bod y Gweithiwr mawr yn un sydd yn bresenol ymhob man, ac ymhob oes. Nid trwy Paul,—nid trwy Apolos,—nid trwy ddynion, ond trwy Dduw.

Y mae hiraeth ar eich calonau am lawer a welsoch,—yr ydych yn galaru am na chwech weled eu hwyneb mwy yn y cnawd,—yr oeddent yn eich golwg fel angylion Duw. Ireiddiwyd eich ysbryd drwyddynt lawer tro; ond nid oeddent ond y bibell,. trwy yr hon yr oedd yr olew euraid yn dyfod. Y mae rhai o'r pibellau wedi eu symud, ond y mae yr olew heb ymadael â'r byd eto. Y mae y gwaith heb ei orphen, ond y mae y Gweith iwr heb ymadael. Y mae Paul wedi ymadael,—lle Apolos yn wâg,—y rhai a dybid eu bod yn golofnau wedi disgyn i'r bedd; ond y mae Trefnwr y byd heb ei adael eto.

2. Gan mai trwy yr Ysbryd y mae y gwaith i fyned ymlaen, na adawn lonydd iddo, na dydd na nos. Prophwydwn tua'r gwynt. A ydym ni ddim wedi ymfoddloni ar gael Ezeciel i ganol y dyffryn, heb gael y gwynt?—ar gael y pibellau yn eu lle, heb gael yr olew euraid trwyddynt?—ar gael gwas y prophwyd, heb gael y Prophwyd ei Hun? Yr ydym ni yn dechreu yn aml yn y pen chwithig i'r gadwen. Yn llyfr Hosea yr ydym yn cael fod yr Arglwydd "yn gwrandaw ar y nefoedd; a'r nefoedd yn gwrandaw ar y ddaear; a'r ddaear yn gwrandaw ar yr ŷd, a'r gwin, a'r olew; a hwythau drachefn yn gwrandaw ar Jezreel," sef pobl yr Arglwydd. Ond yr oedd Jezreel wedi bod yn gyntaf yn gofyn i Dduw; wedi hyny yr oedd pob peth yn gofyn am genad i'w gwasanaethu. Pe ceid ninau i ddechreu yn y pen iawn i'r gadwen, ceid y naill beth i wrandaw ar y llall yn dra buan: byddai yr Ysbryd yn gwrandaw ar y gair, y gair ar y galon; y gair yn llaw Ysbryd Duw yn trin hono. Yr oedd ar Franklin eisiau cael y fellten o'r cwmwl: i hyny fe anfonodd rywbeth i fyny i'r cwmwl: yr oedd llinyn o'i law ef yn gysylltedig â'r hyn a anfonwyd i fyny, a chydag i hwnw gyffwrdd â'r cwmwl, fe ddisgynodd y fellten, a bu bron iddi ei ladd ef. Mae yn ofnus mai ein diffyg ni ydyw diffyg rhywbeth i gyffwrdd â'r cwmwl. Pe yr elai gweddi i fyny i gartref y tân, fe disgynai yn amlach i'n plith ni.

3. Gan mai trwy yr Ysbryd y mae y gwaith yn myned ymlaen, mor afresymol ydyw ei wrthwynebu. Yr oedd ar Israel eisiau gwaredigaeth gynt, er hyny yr oeddent yn codi yn erbyn y gwaredwr. Ni fynent mo Moses. Gwell yw gwrthwynebu pawb na gwrthwynebu yr Ysbryd.

[Adysgrifiwyd, Awst 20, 1857.]

## PENOD LIX.

### GALLU A GRAS YN SICRHAU CADWEDIGAETH.

SEPHANIAH III. 17:—"Yr Arglwydd dy Dduw yn dy ganol di sydd gadarn: efe a achub, efe a lawenycha o'th blegid gan lawenydd; efe a lonydda yn ei gariad, efe a ymddigrifa ynot dan ganu."

WRTH sylwi ar hanes prophwydi Israel, ni a welwn fod llawer o honynt yn gydoeswyr. Yr oedd Esaiah, Hosea, Amos, a Michah, yn prophwydo yn yr un tymor. Yr oedd Jeremiah a Sephaniah hefyd am dymor yn gydlafurwyr; ac felly yr oedd Haggai a Zechariah. Yr oedd yn hyn brawf o ddaioni yr Arglwydd at y genedl hon. Nid ydoedd y dosbarth hwn o weision yn cael eu hanfon at Israel, ond pan y byddai wedi dyfod yn gyflawnder amser arnynt,—yn fath o *crisis*,—mesur yr anwiredd ar gael ei gyflawni; a rhaid ydoedd naill ai ymostwng yn ddirfawr o'i blegid, neu ynte dioddef y farn o'i herwydd. Ond cyn tywallt hono, yr oedd yr Arglwydd, yn ei ras, yn gwneyd un ymdrech mawr i gael gan y bobl ymostwng; ac i hyny yn anfon atynt amryw o'i weision y prophwydi ar yr un pryd. Felly ni a gawn eu holl ysgrifeniadau yn cyfeirio at bechodau mawrion, yn bygwth barnau mawrion o'u herwydd; ond bron heb eithriad yn diweddu gydag addewidion mawrion.

Nis gallwn ddarllen ysgrifeniadau y prophwydi heb deimlo mai parotoad at Sabbath ydyw holl derfysg y ddaear; oblegid cyn i'r pin ysgrifenu gael ei roddi o'u llaw, y maent yn darlunio tawelwch mawr ar ol ystorm. Y mae Esaiah yn dechreu gyda'r farn a'r dinystr; ond yn diweddu gydag eangder a gogoniant teyrnas y Messiah. Y mae Jeremiah, er dechreu â'i ben yn

ddyfroedd, a'i lygaid yn ffynhonau 'o ddagrau, am laddedigion merch ei bobl, yn diweddu gydâ chwymp y gelynion, a gwaredigaeth ei frodyr. Y mae Ezeciel, er dechreu gydâ thrychineb y farn, a dinystr y deml, yn diweddu gydâg adferiad pobpeth,—Jerusalem newydd,—teml newydd. Ac y maent oll yn gyffelyb hyd at Ioan, yr olaf o honynt. Y mae yntau wedi seinio udgyrn y barnau, a thywallt phiolau y digofaint yn nechreu ei lyfr, yn cau i fyny y weledigaeth gydâ nefoedd newydd a daear newydd. Wrth edrych ar gynwrf, trueni, ac annhrefn y byd moesol, cysur nid bychan ydyw gwybod mai Sabbath tawel, trefnus, dedwydd, a fydd y diwedd ; ac y daw y ddaear yn gyfryw eto fel ag y gall ei gwneuthurwr edrych arni yn hwyr ei chweched dydd, a dywedyd am dani, megis ag y dywedodd ar y cyntaf, —" Da iawn ydyw."

Safle y prophwydi i edrych oddiarno ar bob peth ydoedd eglwys Dduw : fel yr oedd yr angel yn llyfr y Dadguddiad yn sefyll yn yr haul, felly y maent hwythau yn sefyll yn yr eglwys, megis canolbwynt, ac yn edrych ar bob peth yn eu perthynas â hi. Ar yr eglwys y maent yn dechreu gydâ'r farn : i'r eglwys y maent yn cyhoeddi yr addewidion : ystâd yr eglwys oedd yn penderfynu ystâd y byd. Nid dibwys i'r byd gynt, ac nid dibwys iddo eto, ydyw ystâd eglwys Dduw. Pan ymlygrai hi gynt nes cael ei rhoddi yn llaw yr Aipht, Assyria, neu Caldea, i'w chosbi ganddynt, byddai y gosb arni hi yn sicr o ddiweddu yn ddinystr iddynt hwy ; ond yn ei heddwch hi yr oedd heddwch pawb.

Y mae Sephaniah, fel ei holl frodyr, y prophwydi, yn dechreu ei lyfr gyda chyhoeddi barn ar yr eglwys; yna yn myned ymlaen i gyhoeddi barn ar y cenhedloedd a ddefnyddiwyd yn fflangell i'r eglwys, ac yn diweddu gydag addewidion gwerthfawr i'r bobl gyfamodol. Ac un o honynt ydyw y testyn :—" Yr Arglwydd dy Dduw yn dy ganol di sydd gadarn : efe a achub, efe a lawenycha o'th blegid gan lawenydd ; efe a lonydda yn ei gariad, efe a ymddigrifa ynot dan ganu." Y mae yn cael glân dawel ar ol yr ystorm ; yn cael Sabbath i orphwys ar ol wythnos gynhyrfus.

Yr hyn a gyflwynir yma i sylw ydyw,—sicrwydd gwaredig-

aeth yr eglwys, neu sicrwydd achubiaeth pechadur. Y ddau beth a ddygir ymlaen i brofi hyn ydynt :—

I. Fod y neb sydd wedi ymgymeryd â'r gwaith, a nerth digonol ganddo ato : "Yr Arglwydd dy Dduw yn dy ganol di sydd gadarn : efe a achub."

II. Ei fod hefyd yn un sydd yn ymhyfrydu yn y gwaith : "Efe a lawenycha,—efe a lonydda yn ei gariad,—efe a ymddigrifa ynot dan ganu."

Nerth ato, ac ymhyfrydiad ynddo ; neu, allu ac ewyllys : a chan fod y ddau ganddo, "Efe a achub."

I. Efe a achub am fod y nerth digonol ganddo at y gorchwyl. Rhoddir arbenigrwydd neillduol i'r briodoledd o nerth yn ei chysylltiad âg achub, yn yr Hen Destament a'r Newydd. Gwneir hyn yn enwedigol pan y cyhoeddir addewidion, fel y testyn, ar ol barnau tost. Pe na buasai nerth Duw yn cael ei gysylltu â'r addewid, nis gallasai ffydd yr eglwys gredu bod yn bosibl i ddaioni mor fawr ddyfod ar ol dinystr mor llwyr. Cysylltir trugaredd gydâ nerth âg achub, yn yr Hen Destament ; a chysylltir gras neu gariad gydâ nerth âg achub yn y Newydd. Pan yr edrychir ar achub yn ei berthynas â'r neb neu â'r hyn yr achubir oddiwrtho, nerth sydd yn cael ei gysylltu âg ef ; ond pan yr edrychir ar achub yn ei berthynas â'r neb sydd yn cael ei achub, trugaredd neu gariad a gysylltir âg ef. Wrth edrych ar achub yn ei berthynas â Pharaoh, llaw gref, a braich estynedig, sydd yn y golwg ; ond wrth edrych ar achub yn ei berthynas âg Israel, trugaredd yn cofio yr iselradd sydd yn y golwg. Nerth ydyw y mur o amgylch y ddinas i amddiffyn rhag gelynion : trugaredd ydyw y gogoniant sydd yn ei chanol hi i gysuro y trigolion. Nerth ydyw ochr dywell y cwmwl at yr Aiphtiaid : trugaredd ydyw yr ochr oleu at Israel. Pan farchogodd Duw ar feirch, ac ar gerbydau ei iachawdwriaeth, yn nyddiau Habuccuc, yr oedd hyny yn cystuddio gwersyllau Cuwsan, ac yn peri i leni tir Midian grynu ; ond yn llawenychu calon Israel ; am mai nerth oedd yn y golwg at y naill, a thrugaredd at y llall.

Nid angenrheidiol i mi ydyw coffâu geiriau y Beibl i ddangos yr arbenigrwydd a roddir yn nerth Duw yn y cysylltiad hwn, onid e gallaswn fyned trwy y gyfraith, y salmau, a'r prophwydi,

a dyfod â'i dystiolaeth Ef ei Hun allan o'r gyntaf:–"Myfi yw Duw Hollalluog:" ac adolygiad ei was ar ei ymddygiadau at ei eglwys drwy'r canrifoedd allan o'r ail, i'w weled yn gwisgo nerth, ac yn ymwregysu â chadernid yn ei holl ymwneyd drostynt; ac yn y trydydd, i'w weled yn gadarn i iachau,—yn Waredwr cryf,—yn Arglwydd y lluoedd,—neu yn ol y testyn, yn Un cadarn yn y canol i achub. Pe deuem ymlaen i'r Testament Newydd, y mae nerth yn cael yr un arbenigrwydd yno hefyd:—"Y rhai trwy allu Duw ydych gadwedig:" "A pheth yw rhagorol fawredd ei nerth ef tuag atom ni y rhai ŷm yn credu, yn ol gweithrediad nerth ei gadernid ef:" "Gallu Duw yw hi:" "Crist gallu Duw a doethineb Duw:" "Fel na byddai eich ffydd yn noethineb dynion, ond yn nerth Duw." Buasai yn hawdd chwanegu tystiolaethau; ond digon yw hyn i ddangos yr arbenigrwydd a roddir i nerth yn ei berthynas âg achub.

Er mwyn gweled paham y mae hyn, nid rhaid i ni ond edrych, naill ai ar bob peth sydd yn gysgod o achubiaeth pechadur; neu ynte, ar yr hyn ydyw achub ynddo ei hun.

1. Edrychwn ar yr hyn ellir olygu fel cysgod o'n hachubiaeth, Nis gwn am un darluniad cywirach o achub, na hanes cenedl Israel am ddwy fil o flynyddoedd. Y mae hyn yn gysgod mor berffaith o achubiaeth pob pechadur unigol ag ydyw o hanes yr eglwys gyffredinol. Gellir galw eu taith o'i dechreu i'w diwedd yn "daith y Pererin." Yr Aipht,—dyna y lle y mae yn cychwyn o hono: Babilon ac Assyria,—dyna y lleoedd y mae yn cael ei gaethgludo iddynt oherwydd ei anffyddlondeb i'w Dduw. Pharaoh,—dyna y cryf arfog y mae yn ei feddiant wrth natur: y Philistiaid a'r Canaaneaid,—dyna y drwg sydd yn bresenol gydâg ef, fel drain yn ei ystlysau bob amser. Yr oedd holl wahanol amgylchiadau y genedl hon yn ddrych y gallwn weled ynddynt wahanol brofiadau y Cristion: yn awr, y mae yn helbulus arno, fel yn nyddiau y barnwr hwn, neu y brenin arall; yna y mae yn llawen ei fyd yn nyddiau y llall. Daw rhyw Saul i deyrnasu arno, nes chwerwi ei fisoedd; ond dilynir hwnw gan Dafydd a Solomon, â llwyddiant, ac â llawenydd. Caiff ei wlad lonydd weithiau am flynyddoedd, mewn canlyniad i ryw ymweliad grasol; ond pan gilia hwnw, daw ei elynion i'w flino eilwaith, fel y daeth minteioedd y Moabiaid i Israel y

flwyddyn y bu farw Eliseüs. Yn awr, yn yr holl amgylchiadau y bu y genedl hon ynddynt, beth bynag arall a ddeuai i'r golwg, yr oedd yn rhaid i allu ddyfod yn barhaus. Gallu a'u gwaredodd hwynt o'r Aipht;—gallu a agorodd y môr o'u blaen;—gallu a'u dygodd drwy'r anialwch;—gallu a'u sefydlodd hwynt yn Nghanaan;—gallu a ddarostyngodd eu gelynion o'u blaen;—gallu a'u dychwelodd o Babilon. Yr oedd yn rhaid i'n Gwaredwr o hyd fod yn gryf. Yr oedd yn rhaid fod ganddo fraich ymhob man. Y mae yn rhaid cael nerth i achub; ac os cawn ni ddywedyd eto, "Efe a achub," rhaid i ni gael rhan arall o'r adnod ynglŷn â hyny, "Yr Arglwydd dy Dduw yn dy ganol di sydd gadarn," onid è ni bydd sail i ddywedyd, "Efe a achub."

2. Neu, er mwyn gweled yr un peth, sef bod yn rhaid cael nerth dwyfol i'n hachub, edrychwn ar yr hyn ydyw achub ynddo ei hun, ac ar wahân oddiwrth bob cysgod o hono.

I hyn, edrychwch ar y byd yn y cyfanswm fel y mae yn gorwedd mewn drygioni; ac edrychwch ar eich mynwes eich hun hefyd. I weled beth sydd yn eisiau ei wneyd oddiallan, edrychwch ar y byd: i weled beth sydd yn eisiau ei wneyd oddimewn, edrychwch gartref. I weled maint canghenau *upas* gwenwynllyd pechod, edrychwch ar y byd yn gorwedd mewn drygioni. I weled nerth gwreiddiau y pren, edrychwch i'ch mynwes eich hun. Ni fernwch chwi mo bechod yn gywir heb wneuthur y ddau beth hyn. Nid ydym yn barnu crefydd yn gywir heb edrych arni mewn amgylchiadau lle y bydd hi wedi ei pherffeithio: felly i farnu pechod yn gywir, dylid edrych arno mewn amgylchiadau lle y bydd wedi cyraedd mesur o berffeithiad. Nid yn ei raddau gymaint y mae ei ddrwg yn gynwysedig, ond yn ei natur; ond y graddau ydyw yr esboniad hawddaf i ni ei ddeall, ar ei natur. Nid oedd Hazael ddim yn well dyn pan yn ymddiddan â'r prophwyd, na phan laddodd efe ei arglwydd frenin; ond nid oedd yr amgylchiadau pan ydoedd yn ystafell y prophwyd ddim wedi bod yn fanteisiol i ffrwythau y felldith dyfu i'w llawn faint yn ei fynwes. Graddau y drwg a esboniodd i eglurder natur y drwg. Esboniad arnom ni ein hunain ydyw y byd sydd yn gorwedd mewn drygioni. Wrth edrych arno ymhob man, ni a welwn ddyn, naill ai wedi

ei ddarostwng at yr anifail, neu wedi ei draws-newid i ddelw y diafol;—chwantau anifeilaidd, neu nwydau cythreulig yn ei lywodraethu. Edrychwch arno yn ngoleuni y Beibl: dyna chwantau yr anifail yn teyrnasu arno yn Corinth;—dyna falchder y diafol yn ei lywodraethu yn Athen;—dyna'r ddau wedi cyd-gyfarfod i'w fathru i'r llwch yn Rhufain. Nid oedd Corinth, Athen, a Rhufain, y dyddiau gynt, ond arddangosiad cywir o'r hyn ydyw y byd heddyw; ac nid ydyw y byd mawr yn ddim ond arddangosiad, ar raddfa eang, o'r hyn ydyw y byd bach sydd yn mynwes pob dyn sydd yma. Oni fyddai raid cael gallu mawr i godi Affrica o laid ei chwantau, sydd yn awr fel anifail yn ymdrybaeddu ynddynt? Oni fyddai raid cael gallu mawr i buro India a China oddiwrth nwydau dieflig,—i ddymchwelyd eu temlau gwaedlyd,—i gyfnewid eu harferion creulawn? Oni fyddai raid cael nerth anfesurol i ddiorseddu y gau-brophwyd yn Twrci,—i ddymchwelyd y bwystfil i'r pydew yn Itali? O byddai, medd y dyn yna. Wel, y mae yn rhaid cael yr un gallu yn gwbl atat ti, oblegid tydi yn dy gyflawn faintioli sydd fan yna. Dyna John Bradford, meddai un sant gynt, wrth weled un yn cael ei arwain i'r crogbren, oni b'ai am ras Duw. Ci ydyw hwnyna, nid myfi, meddai Hazael, pan oedd y prophwyd yn tynu y darlun o'i flaen; ond Hazael wedi dyfod i'w lawn faint oedd efe wedi yr oll. Anifeiliaid ydyw yr anwariaid yna yn Affrica, nid myfi, medd y dyn sydd yn byw o dan lywodraeth ei chwantau yma yn awr. Rhai cythreulig ydyw y rhai yna yn India a China, nid myfi, medd y dyn sydd o dan lywodraeth cenfigen, balchder, a malais, yma yn awr. Na,—tydi mewn amgylchiadau eraill ydynt. Tydi yn dy gyflawn faintioli ydynt. Hazael, yn ystafell y brenin, yn lladd ei arglwydd ydyw y rhai yna: Hazael, yn ystafell y prophwyd, wyt ti yn awr. Y mae gwreiddiau y pren gwenwynllyd ynot ti; ac os nad ydyw wedi tyfu i faintioli mawr, yr amgylchiadau a luddiasant hyny: i'r hinsawdd y mae hyny i'w briodoli, ac nid i natur y pren. Y mae yr Arglwydd, yn ei drugaredd, wedi gwneyd hinsawdd Cymru yn llawer mwy anfanteisiol i'r pren dyfu i faintioli mawr ynddo nag ydyw hinsawdd India; ond y mae yn rhaid cael rhagorol fawredd nerth Duw i'w ddiwreiddio yn Nghymru fel yn India.

Yr ydym yn cyfyngu eich sylw at un wedd ar y drefn, sef yr hyn sydd raid ei wneyd *ar* y gwrthddrychau. Y mae gwedd arall arni oedd yn gofyn nerth anfeidrol, sef yr hyn oedd raid ei wneuthur *trostynt*: dioddef melldith y ddeddf; ymgynal o dan faich pechodau byd; gorchfygu y cryf arfog. Nerth yn amlygu ei hun yn ngwneuthuriad y drefn sydd yna. Ond y mae yn rhaid cael yr un nerth i'w chymhwyso hi,—i drefnu tryblith y fynwes gymysglyd yna,—i ddiorseddu y gormeswyr yna sydd yn teyrnasu yn y galon,—i wneyd y syniad cnawdol yna yn ysbrydol. Oni fyddai raid cael nerth mawr i godi anifail i fyw yn myd dyn? Oni fyddai raid cael nerth anfesurol i godi dyn llygredig i fyw yn myd angel,—i anadlu awyrgylch sanctaidd yr angel,—i weled yn mhelydrau Haul Cyfiawnder fel angel,—i fwyta bara yr angel,—i yfed o afon Duw fel angel, a phob yn ychydig i ddyfod i sibrwd iaith angel? Hynyna ydyw achub. Dyfod at fyrddiwn o angylion,—bod yn gyd-ystâd â'r angel. Nid dieithr a fyddai clywed y cwestiwn yna heddyw, "Pwy a all fod yn gadwedig?" Onid ydyw hyny yn anmhosibl? Nac ydyw, o drugaredd: "Yr Arglwydd dy Dduw yn dy ganol di sydd gadarn: Efe a achub." Na roddwch neb i fyny. Credwch faint a fynoch yn nhrueni y byd; ond credwch yn ngallu Duw ar ei gyfer. Meddyliwch mor ddrwg ag sydd ddichonadwy am eich cyflwr eich hun; y mae ynddo drueni annhraethol fwy na dim a welsoch chwi, wedi i chwi weled eich eithaf; ond mentrwch gredu yn ngallu Duw ar ei gyfer wedi yr oll. "Fe a gynhelir:" y mae yn wan; gwir, ac nid yna cawsom ni sail i ddywedyd y cynhelir ef, ond yma,—"Fe all Duw ei gynal ef." Dyma y lle y mae cuddiad ein cryfder ni gydâ'r efengyl: "Gallu Duw yw hi." Paham y digalonwn ni i wynebu ar fyd yn gorwedd mewn drygioni, a gallu Duw genym ar ei gyfer.

II. Y prawf arall sydd yn y testyn o sicrwydd achubiaeth pechadur ydyw, fod y neb sydd wedi ymgymeryd â'r gwaith yn ymhyfrydu ynddo. Nid ydyw bod gan un allu digonol at waith ddim ynddo ei hun yn ddigon o sicrwydd y cyflawnir y gwaith ganddo; ond os bydd yno hefyd ymhyfrydiad yn y gwaith, y mae hyny yn sicrhau ei gyflawniad. Y mae tri gair yn y testyn yn dangos ymhyfrydiad yr Arglwydd yn y gwaith o achub:

"Efe a lawenycha o'th blegid,—Efe a lonydda yn ei gariad,—Efe a ymddigrifa ynot dan ganu."

Y mae yr ymhyfrydiad hwn yn dyfod i'r golwg,—

1. Yn ei fod yn dra pharod at y gwaith ;—

2. Yn ei fod yn aberthu llawer er mwyn y gwaith ;—

3. Yn ei fod yn bur ddedwydd wrth ei gyflawni.

"Efe a lawenycha o'th blegid gan lawenydd :"—Rhaid ei fod yn dra pharod at y gwaith, oblegid y mae yn llawen wrth feddwl am dano. "Efe a lonydda yn ei gariad ;" am hyny Efe a wna bob aberth er mwyn y gwaith. "Efe a ymddigrifa ynot dan ganu :" rhaid gan hyny ei fod yn bur ddedwydd wrth ei gyflawni.

1. Y mae yn dra pharod at y gwaith, oblegid y mae yn llawenychu wrth feddwl am dano. Y mae y parodrwydd hwn i'w ganfod yn ei fod yn disgwyl i drugarhau,—yn ymddyrchafu i dosturio. Wedi cyhoeddi y farn, y mae yn disgwyl am ysbaid cyn ei thywallt, i weled a ddywed neb,—"Mi a bechais ac a ŵyrais uniondeb, ac ni lwyddodd i mi." Ac os dywed neb hyny, yna y mae yn y fan yn ymddyrchafu i dosturio wrth hwnw. Pan y mae Victoria, drwy ei swyddogion yn condemnio, eistedd ar orsedd barn y mae hi ; ond pan yn maddeu, y mae hi yn ymddyrchafu i rywle uwch, sef at hawlfraint y goron. Ond nid oes ganddi hi yr un orsedd uwch na gorsedd barn. Ond y mae dwy gan Dduw :—gorsedd barn, a gorsedd gras. Oddiar y gyntaf y mae yn cyhoeddi y farn, "Gan farw y byddi farw ;" ond os dywed neb, "Atolwg, gad i mi fyw," y mae yn ymddyrchafu i'r ail i dosturio wrth hwnw. Y mae gorsedd barn yn uchel, ond y mae gorseddfainc y gras yn uwch. Hi ydyw gorseddfainc harddaf ac uchaf y nefoedd.

Y mae y parodrwydd yn dyfod i'r golwg hefyd yn y darpariadau ar gyfer achub. Nid yn y nefoedd yn unig y mae y rhai hyn. Yno y mae yr orseddfainc uchel a dyrchafedig a welodd Esay, wedi ei hamgylchu âg enfys cyfamod, fel y gwelodd Ioan hi. Lleithig traed Duw Israel yr achubwr ydyw y ddaear. Y mae ei phobpeth hi, naill ai yn ddarpariadau at y gwaith o achub, neu ynte yn foddion i'w gario ymlaen. Nid ydym ni yn deall y darpariadau yn aml ; ond y mae adeg yn dyfod fydd yn eu hesbonio, fel yn hanes Joseph a Moses. Y mae llawer o

feio ar ein llywodraeth ni gan ryw ddosbarth, am nad oes ganddi, meddant hwy, bobpeth yn barod i'n hachub pe deuai ymosodiad arnom oddiar y Cyfandir. Nid wyf fi yn proffesu gwybod pa faint o wirionedd sydd yn hyn ; ond wrth edrych ar yr amddiffynfeydd cryfion, a'r trysordai mawrion, sydd ar ein harfordiroedd ; y mae yn eglur fod darpariadau mawrion ar gyfer ein hamddiffyn ; ac eto, fe all, y mae yn ddichonadwy, nad ydyw pob peth yn barod. Ond y mae pob peth achub, o ran y drefn, yn barod yr awr hon. Y mae y llong odidog wedi ei hadeiladu er's talm ; ac y mae wedi ei llwytho â chyfoeth angau'r groes. Beth, medd rhywun, ydyw y darparu y soniwch chwi am dano? Beth ? Dyfnhau a chlirio dy borthladd di, i'r llestr gyfoethog gael lle i ddyfod i mewn.

Ond fe ballai yr amser i mi eich cyfeirio chwi at yr holl ddarpariadau i achub gan amled ydynt. Y Beibl,—amddiffynfa ydyw hwn a godwyd o bwrpas i achub. Tŵr Dafydd ydyw. Pe rhodiech chwi trwy ei holl ystafelloedd, ni welwch chwi ddim ond pethau achub. Y mae yn beth lled ddyddorol myned trwy y tŵr yn Llundain, i weled yr hen arfau y gwnaed gorchestion â hwynt yn y dyddiau gynt ;—yr achubwyd y deyrnas drwyddynt rhag y gelynion. Ond yr ydych yn cofio yn y fan, wrth edrych arnynt, na thalant ddim heddyw : y mae eu dydd drosodd. Ond am arfau "tŵr Dafydd," nid yw eu dydd hwynt ddim drosodd eto. Y mae hen adnodau y Beibl yn achub eleni mor effeithiol ag erioed. Gweinidogaeth yr efengyl,—*lighthouse* ydyw hon, a godwyd i'r diben o ddangos i'r rhai sydd yn boddi ar y môr tymhestlog, pa fodd i ddoi i mewn i hafn yr achub. Eglwys Dduw,—ysbyty ydyw hon, i'r clwyfedigion i gael olew a gwin yn eu clwyfau. Rhaid ei fod yn ymhyfrydu yn y gwaith o achub, onid ê ni buasai pob peth mor barod ganddo ato.

2. Y mae yn ymhyfrydu yn y gwaith ; oblegid y mae yn aberthu llawer er ei fwyn. Yr aberth ar Moriah a ddangosodd nerth ymlyniad Abraham wrth ei Dduw. "Gwn weithian i ti ofni Duw, gan nad ateliaist dy fab, dy unig fab, oddiwrthyf fi." Yr oedd pob peth yn y gorchymyn yn tueddu i gynhyrfu mynwes tad yn ei erbyn ; ond fe lonyddodd yn ei gariad at ei

Dduw i'w gyflawni er hyny. Fe wasanaethodd Jacob saith mlynedd am Rahel; ac er ei fod yn y gwres yn treulio y dydd, a'r rhew y nos, eto nid oeddent yn ei olwg ond fel ychydig ddyddiau, am fod yn hoff ganddo hi. Yr oedd yr aberth yn fawr; ond yr oedd digon o gariad yn ei fynwes i'w lonyddu rhag codi yn erbyn ei wneuthur, er cymaint oedd. Maint yr aberth, oedd yr esboniad ar nerth yr ymhyfrydiad yn y gwrthddrych. Os mynwch chwi wybod pa mor barod ydyw Duw i achub, edrychwch ar yr aberth y mae yn ei wneuthur i hyny. Ië, aberth ydyw y gwaith oll i Dduw. Pan gofiwn ni ei fod yn Dduw gwybodaeth, yn gweled pob pechod;—yn Dduw sanctaidd, yn perffaith gasâu pob drwg;—yn Dduw cyfiawn, yn ymddwyn at bawb yn ol eu haeddiant;—yn Dduw hollalluog, a nerth digonol yn ei fraich i drechu pob gelyn;—Yr ydym yn gofyn, beth sydd yn ei atal i wneyd hyny? a'r unig ateb ydyw, "Efe a lonydda yn ei gariad." Nid am na welodd Efe dy fai di, y goddefwyd di am ddeugain mlynedd. Na, llonyddu yn ei gariad a wnaeth. Nid yw ei amynedd yn ddim ond y rhwymau, â pha rai y mae cariad wedi rhwymo y fraich hollalluog. Yr oedd Moses yn deall y dirgelwch: pan bechodd y bobl wrth Sinai, fe ymaflodd Moses yn nerth Duw yn y fan. Gydâ pharch y dywedwyf, fe ddechreuodd rwymo y fraich Hollalluog â rheffynau cariad. "Gad i mi lonydd," meddai yr Anfeidrol, pan oedd efe wrth y gorchwyl; ond parhau i rwymo yr oedd Moses: a phan roddodd ef y rhwymyn hwnw, "Cofia Abraham, Isaac, ac Israel, dy weision," y peth cyntaf a glywn ni wedi hyn ydyw, "Ac edifarhaodd ar yr Arglwydd am y drwg a ddywedasai ef y gwnai i'w bobl." Pe Dafydd a fuasai yn lle Joab yn ymlid ar ol Absalom, buasai ei fraich, er ei bod hi mor nerthol a medrus ag un Joab, yn cael ei llonyddu gan rywbeth oedd yn ei fynwes rhag taraw y llanc drygionus oedd yn crogi yn y goeden gauadfrig: buasai yn llonyddu yn ei gariad.

Ond dyma ddengys gyfoeth y cariad fod yno ddigon i lonyddu y fynwes ddwyfol i anfon ei Fab i farw. Yr oedd pawb mewn cynwrf ar Galfaria;—y greadigaeth fel wedi gwylltio;—ac nid oedd cynwrf y greadigaeth weledig ond *index* i gynwrf mwy yn yr ysbrydol;—awr gallu y tywyllwch, ac awr pryder

y nefoedd oedd hi ;—y ddaear yn crynu gan fraw,—yr haul yn ymguddio mewn dychryn,—angylion yn sefyll draw mewn synedigaeth,—holl wŷr o nerth y byd arall yn methu cael eu dwylaw gan ddychryn. Iaith y Dioddefydd ei Hun ydyw :—"Mor gyfyng yw arnaf hyd oni orphener." "Na lifed y ffrwd ddwfr drosof, na lynced y dyfnder fi ; na chaued y pydew chwaith ei safn arnaf." A oes yna neb yn dawel ? Oes un : yn nghanol y cynwrf, dyna un fraich yn estyn y cwpan ofnadwy i'r Dioddefydd yn ddigryn. Pa le y cawn ni esboniad ar yr olygfa ryfedd, ai yn y Dioddefydd ? Nage ; Ei Fab, Ei Fab ei hun, ei Briod Fab, Ei uniganedig Fab, ydyw. Yr esboniad ydyw fod yno ryw gariad mawr tragwyddol yn llonyddu holl deimladau tyner mynwes Tad, fel yr oedd yn gallu estyn y cwpan yn ddigryn i'w Fab ei Hun ; ac os mynech chwi wybod beth oedd,—Cariad at achub. "Efe a lonydda yn ei gariad." Y mae yn rhyfedd na chredem ni bellach ei fod yn ymhyfrydu yn y gwaith !

3. Y prawf olaf ydyw ei fod yn bur ddedwydd pan wrtho : "Efe a ymddigrifa ynot dan ganu." Y mae yr ymadrodd yn un dieithr,—Duw yn canu. Fe orphwysodd wedi creu y greadigaeth gyntaf ;—fe gydganodd sêr y boreu, ac fe orfoleddodd meibion Duw, y pryd hyny ; ond nid oedd yno ddim digon *interesting* i'r Anfeidrol ei Hun fyned dim pellach na dywedyd,—"Da iawn ydoedd." Ond wrth wneyd y newydd, y mae yn myned gryn lawer pellach na hynyna,—y mae yn canu ei Hun. Nid teulu y tŷ yn unig oedd yn llawenhau pan ddaeth yr afradlawn adref ; na,—yr oedd ei dad yn uchaf ei gân o honynt oll.

Y mae rhywbeth dedwydd mewn achub : y mae yn adfer y cydgordiad, yr *harmony*, yn ol i'r greadigaeth, ac yn ei gwneuthur hi yn beroriaeth drwyddi ; ac yn dyfod âg un newydd i'r côr, nad oedd yn perthyn iddo o'r dechreu : "Y mae llawenydd yn ngwydd angylion Duw," pan y mae achub yn cymeryd lle. Llawenydd yn ngwydd eglwys Dduw : ai dyna'r oll ? nage ; "Llawenydd yn ngwydd angylion Duw :" y mae Duw ei Hun yn canu. Ac yn fuan, bydd y gwaredigion wedi goddiweddyd llawenydd a hyfrydwch eu hunain : yna fe fydd pawb yn canu. "A chanu y maent gân Moses, a chân yr Oen." "Eithr llawenychwch a gorfoleddwch yn dragywydd yn y pethau a

grewyf fi : canys wele fi yn creu Jerusalem yn orfoledd, a'i phobl yn llawenydd. Gorfoleddaf hefyd yn Jerusalem, a llawenychaf yn fy mhobl : ac ni chlywir ynddi mwyach lais wylofain, na llef gwaedd." Esa. lxv., 18, 19. Yr eglwys yn gorfoleddu, a Duw yn gorfoleddu!

Dyna roddai dôn o lawenydd drwy holl ymerodraeth Duw y fynyd hon, o'r orsedd i lawr, drwy y thronau a'r arglwyddiaethau, y tywysogaethau a'r meddianau :—deigryn edifeirwch yn dy lygad di.

Dau sylw cyn terfynu :—

1. Dyma galondid i weddio dros y byd. Yr oedd y wraig o Tecoa yn dadleu yn lled galonog dros Absalom, am y gwyddai hi fod calon y brenin tuag at Absalom. Mentrwch ddadleu yn hyderus dros y byd sydd yn gorwedd mewn drygioni,—y mae calon y Brenin tragwyddol tuag ato.

2. Dyma galondid i bechadur i syrthio wrth ei draed am ei fywyd. Fe welodd Benhadad obaith bywyd, wedi iddo ei golli, yn nghymeriad brenhinoedd Israel. Ai nid ydych yn gweled gobaith bywyd yn nghymeriad Brenin y nefoedd? Yr oedd gweision Benhadad yn disgwyl yn ddyfal i edrych a ddeuai dim oddiwrth frenin Israel a fyddai yn sail gobaith bywyd i'w harglwydd ; a phan glywsant Ahab yn dywedyd, "Fy mrawd yw efe," fe ddywed yr hanes iddynt gipio y gair ar frys, a dywedyd, "Dy frawd, Benhadad." Ai ni chlywsoch chwi ddim yma heddyw o enau Duw, y byddai yn werth i chwi ei gipio am eich bywyd? Cofiwch y testyn, a throwch ef yn ol yn ddeisyfiad tua'r nefoedd at Dduw,—Jehofah, yr Achubydd. "Y mae genyt ti fraich i achub, achub finau. Yr wyt ti yn ymhyfrydu mewn achub, boddlona dy hunan yn fy iachawdwriaeth inau. Edrych arnaf, a thrugarha wrthyf, yn dy drefn rasol, ogoneddus, dy hunan." Amen.

[Rhagfyr 2, 1859].

# PREGETH LX.

## YR ISRAELIAD YN WIR.

IOAN i. 47 :—"Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll."

Y MAE y byd hwn, mewn canlyniad i ddyfodiad pechod i mewn iddo, wedi myned yn fyd gau,—yn fyd o ymddangosiadau,—yn wagedd o wagedd, fel y mae yn briodol dywedyd am dano, ei fod yn wagedd oll. Trwy dwyll y daeth pechod i mewn i'r byd,—twyll ydyw,—ac y mae wedi gwneuthur pawb yn dwyllodrus. Wedi i ddynion gael eu twyllo gan y diafol, dechreuasant dwyllo eu gilydd ; ac, er y pryd hyny, y mae y byd i raddau mawr yn fyd o ymddangosiadau, a bron bob peth ynddo wedi ei wneuthur yn fanteisiol i dwyllo. Y mae crefyddau y byd hyd yma wedi bod yn foddion effeithiol i dwyllo. Yr oedd Paganiaeth wedi ei llunio o bwrpas i dwyllo : Mahometaniaeth wedi ei hamcanu i'r un diben : hyn hefyd yw diben mawr Pabyddiaeth. Nid nad oes peth gwirionedd ymhob gau grefydd : heb hyny nis gallasai hanfodi ; ond y mae y gwirionedd hwnw yn cael ei ddefnyddio i dwyllo. Yr abwyd ydyw sydd yn cuddio y bach. A gall y wir grefydd, sydd o apwyntiad Duw, hefyd fyned yn grefydd gau. Yr oedd y grefydd Iuddewig wedi myned felly yn amser yr Arglwydd Iesu ; er bod y ffurfiau yn eu lle,—yr ebyrth yn cael eu lladd yn gyson,—yr oedd y grefydd yn gau, am nad oedd hi yn wasanaeth i Dduw.

Y mae dynion hefyd yn twyllo eu hunain,—yn rhodio mewn cysgod, hyny yw, nid ydynt yn byw gyda'r sylweddau,—y *realities*. Y mae y byd oddiallan yn cael mwy o sylw o lawer na'r byd oddifewn. Adwaenant ef yn well,—gwyddant fwy am

dano,—oblegid ofnant ddisgyn i'w mynwesau eu hunain, i edrych ar y gwir. Y mae hon yn olygfa dra dieithr ;—dyn yn ei ofni ei hunan,—yn dianc oddiwrtho ei hun, yn fwy prysur nag oddiwrth fwystfilod yr anialwch. Peiriant i weithredu arno ei hunan ac ar Dduw yw y meddwl dynol. Cwestiynau felly y dylasai efe chwilio am atebiad iddynt ydynt : Beth ydwyf ? Pa beth sydd yn fy aros ? Pa berthynas sy rhyngwyf â Duw ? Pa fodd y gallaf gael y berthynas hono yn un hapus i feddwl am dani ? Ond defnyddir y gallu hwn i feddwl yn gyffredin i ddiben hollol wahanol. Y mae y meddwl yn barotach i weithredu ar bob peth nag arno ei hunan a Duw : i ochel y ddau destyn anhyfryd yna, llenwir y fynwes â phob sothach. Y mae dyledswydd dyn yn gynwysedig yn y ddau air:—"adnebydd dy hun," ac, "adnebydd yr Arglwydd." Y mae perthynas uniongyrchol rhwng y ddau, fel ag y mae yn anmhosibl cyflawni y cyntaf yn iawn heb wybod rhywbeth am yr ail ; na chyflawni yr ail, heb wybod llawer am y cyntaf. Nis gellir adnabod Duw heb i ni adnabod ein hunain ; nac adnabod ein hunain yn iawn heb adnabod Duw. Os gwelsom ni ei oleuni Ef, ni a welsom ein hunain ; ac os gwelsom ni ein hunain, yn ei oleuni Ef y bu hyny. Ond y gwirionedd ydyw, y mae dyn eto yn ceisio ymguddio o olwg yr Arglwydd, ac o'i olwg ei hunan. Mynai ymddangos i eraill, ac iddo ei hun, yr hyn nad ydyw mewn gwirionedd.

Y cam cyntaf yn yr yrfa ysbrydol ydyw gwneuthur dyn yn ddidwyll,—yn ddiffuant,—yn gywir,—yn ddiragrith. Mynych y disgrifia y Beibl y Cristion wrth y nodau hyn ;—yn un heb ddichell yn ei ysbryd,—yn un â gwirionedd oddifewn iddo,—yn un â dirgel ddyn y galon mewn anllygredigaeth a phurdeb,—yn un wedi ei droi, a'i wneuthur yn gyffelyb i blentyn bychan o ran cywirdeb ;—yn ddyn syml, diragrith ;—yn ei adwaen ei hunan i raddau, ac yn adnabod yr Arglwydd hefyd ;—yn caru gwirionedd oddifewn, am fod Duw yn ei garu ;—ac o'r trysor da sydd oddifewn yn dwyn allan bethau da. Y mae ei ymddangosiad allanol yn cyfateb i'r agwedd dumewnol ; neu, yn ol ein testyn, y mae yn "Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll."

Y mae yn hysbys i chwi oll mai enw ydyw Israel a roddwyd

i Jacob gan yr angel, i ddisgrifio ei gymeriad crefyddol fel gweddïwr, neu ymdrechwr gydâ Duw, (Gen. xxxii. 28). Rhoddwyd yr enw wedi hyn i holl hâd Jacob: yr oeddent i fod yn genedl o Israeliaid,—yn genedl o weddïwyr,—"fy ngweddïwyr," medd Duw; ond nid Israel oedd pawb ag oedd o Israel. Aeth yr enw hwn yn enw gwâg ar gorff y genedl; ac yr oedd yn neillduol felly yn amser yr Arglwydd Iesu. Er bod gweddïo mynych yn y synagogau, ac yn nghonglau yr heolydd, eto yr oedd cyfarfod âg "Israeliad yn wir," yn beth pur anhawdd; ond yn yr amser iselaf, y mae gan yr Arglwydd weddill yn ol etholedigaeth gras. Felly yr oedd yno ryw ychydig o wir Israeliaid "yn disgwyl am ddiddanwch yr Israel." Fe ymgasglodd y rhai hyn yn lled fuan at yr Arglwydd Iesu: hwynthwy gan mwyaf oedd ei ddisgyblion. Gellir casglu oddiwrth yr efengylwyr fod y fintai fechan hon, oedd yn parhau yn ffyddlawn i Dduw, yn nghanol y genhedlaeth drofäus hono, yn lled gydnabyddus â'u gilydd; a pha beth oedd yn fwy naturiol na hyn? oblegid, oni allent gydymdeimlo â'u gilydd? ac yr oedd disgwyliad cyffredinol yn eu plith hwy yn enwedig am ddiddanwch yr Israel. Ac fel effaith hyn,—ymddiddan mynych yn ei gylch. Am hyny, pan y deuai rhyw un o'r dosbarth yna o hyd i'r Iesu, chwiliai yn y fan am rai eraill o'r fintai fechan i'w harwain hwythau hefyd ato. Wedi i Andreas adwaen yr Iesu, daeth â Simon ei frawd ato; ac wedi i Phylip o Bethsaida ei adwaen, chwiliodd yntau yn y fan am Nathanael i ddywedyd y newydd wrtho, ac i'w wahawdd yntau at yr Iesu. Fe'i gwelodd yr Iesu ef yn dyfod, ac fe'i disgrifiodd yn ngeiriau y testyn:—"Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll."

Nid mynych y gwnai yr Arglwydd Iesu sylwadau ar y rhai oeddent o'i amgylch. Mewn trugaredd gadawai y llen ar y fynwes. Dywedai air weithiau i roddi ar ddeall iddynt ei fod Ef yn gwybod beth oedd y tufewn i'r llen,—beth oedd yn myned ymlaen yn nhywyllwch y galon; ond ni rwygai y llen oddieithr yn anfynych iawn. Pe buasai Efe yn didôi y calonau,—yn arnoethi y fynwes,—yn dangos mor gau,—mor *hollow*,—oedd hi, pwy allasai fyw yn Judea? Buasai y trigolion yn dychrynu rhagddynt eu hunain, a rhag eu gilydd. Yr oedd yr olwg wrthun hon yn noeth ac yn agored i'w lygaid sanctaidd Ef

o hyd. Yr oedd Efe yn gweled twyll y galon,—yn gweled ordinhadau sanctaidd ei dŷ yn cael eu halogi â rhagrith;—gwirionedd wedi gadael y wlad;—am hyny, onid oedd golwg ar ddyn fel hwn yn adfywiol dros ben i'w enaid? "Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oedd dwyll." Y mae yn tynu sylw ato, fel golygfa ddieithr a rhyfedd:—"Wele Israeliad yn wir." Y mae yr Israeliaid mewn proffes yn nifeiriol iawn; ond rhagrithwyr ydynt. Dyma ddyn cywir o'r diwedd,—"Israeliad yn wir."

Y gwirionedd yr oeddwn am sylwi arno oddiwrth y testyn hwn ydyw,—*Fod pob dyn duwiol yn Israeliad yn wir*,—yn weddïwr, yn yr hwn nid oes dwyll. A'n hamcan wrth geisio ei ddisgrifio yn awr, fydd rhoddi mantais i chwi i chwilio eich hunain, a ydyw y cymeriad hwn yn perthyn i chwi. Ein sylw—

I. Arno fydd, bod yr Israeliad yn wir yn ddyn rhyfedd iawn. Y mae y gair *Wele* yn y testyn, yn tynu sylw ato fel y cyfryw. Yr oedd y gwrthgyferbyniad oedd rhyngddo â'r lliaws o'i amgylch yn ei wneuthur felly. Yr oedd yn gymeriad unigol. Yr oedd yr Arglwydd Iesu yn awr newydd ddychwelyd o un o'r gwyliau, o Jerusalem; ac fel y crybwyllwyd eisoes, yr oedd yr olygfa a gafodd Ef yno, yn un drom iawn iddo Ef. Beth a allasai fod yn fwy gwrthun i'w lygaid treiddgar na gweled tŷ gweddi wedi ei droi yn ogof lladron. Miloedd o ddynion yn ymarfer â ffurf gweddi, heb ddim o'i hysbryd hi;—yn ymarfer â gwasanaeth mawreddus y deml, ond yn lle bod yn wasanaeth i Dduw, yr oedd yn ddirmyg arno, am nad oedd yn wasanaeth calon. Yr oedd y twyll hwn oedd yn y gwasanaeth yn gwneuthur lliosogrwydd yr aberthau yn ofer,—y poeth-offrwm yn ffiaidd,—yr uchel-wyl gyfarfod yn anwiredd. Yr oedd ei enaid yn eu casâu,—baich oeddent arno,—blinai yn eu dwyn. A phan ystyriom ni, mai ar y gwirionedd yr oedd ei lygaid Ef, rhaid bod Jerusalem y lle mwyaf pruddaidd a thrymaidd yr oedd Mab Duw yn myned iddo. Cyfarfyddai â thrueni lle bynag yr elai. Yr oedd ei natur syml mor deimladol, fel ag yr oedd pob trueni yn rhoddi gloes iddo. Yn yr ystyr hwn, yr oedd yn ŵr gofidus a chynefin â dolur. Fel ag y mae gwres neu oerfel yr awyrgylch yn effeithio arnom ni, felly yr oedd trueni arno yntau. Yr oedd efe yn byw mewn awyrgylch o drueni, ac o

angenrheidrwydd yn dwyn doluriau pawb oeddent o'i amgylch ; ond yr oedd un meddwl cysurus yn gydiol â'r olygfa yma, sef mai pethau amser yn unig oeddent. Yr oedd gallu yn ei fraich yntau i'w symud ; ond yr oedd yr olygfa yr oedd Efe yn ei chael yn Jerusalem yn annhraethol fwy trymaidd na hyn,—dynion yn cellwair â'r pethau oeddent yn anwahanol gysylltiedig â'u dedwyddwch hwynt yn y byd a ddaw;—yn twyllo eu hunain,—ac yn gomedd cymeryd eu didwyllo. Yr oedd llygaid ei holl-wybodaeth Ef yn gweled canlyniadau ofnadwy y ffuantrwydd hwnw,—y cellwair hwnw âg ordinhadau Duw. Brysai yn gyffredin o blith y fath olygfeydd i bentrefi gwledig Galilea, am ei fod yn cyfarfod â mwy o onestrwydd a gwirionedd yno. Ac ar ol dychwelyd o ganol un o'r golygfeydd hyny yn awr, y mae ei enaid sanctaidd yn cael gorphwysdra yn yr olwg ar y Nathanael hwn :—"Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oedd dwyll." Ni ddymunwn feddwl yn galed am fy nghyd-ddynion ; ond y mae arnaf ofn fod anamledd yr Israeliad yn wir yn ei wneuthur yn ddyn rhyfedd eto. Y mae yr Israeliad yn wir yn fwy lliosog yn awr nag oeddent y pryd hyny ; ond o'u cymharu â'r Israeliaid ymddangosiadol, y maent eto yn anaml. Pwy a gaiff ŵr ffyddlawn, yn yr ystyr hwn, a lwyr roddodd ei galon i agosâu at yr Arglwydd ? Oni ellir, gyda gormod o wirionedd, ddywedyd fod ein hymarferiadau crefyddol ninau yn ffurfiol ? Y maent yn fynych iawn yn anianol, am nad ydyw yr ysbryd ynddynt.

Ond gallwn edrych ar yr Israeliad ymhob golwg, y mae yn ddyn rhyfedd. Y mae yn ddyn sydd yn dal cymundeb â gwrthddrych, ac â phethau anweledig. Y mae yn fath o ddolen sydd yn uno amser â thragwyddoldeb. Pan yr ystyriom beth ydyw dyn, a pha beth ydyw Duw ;—pa beth ydyw y ddaear, a pha beth ydyw y nefoedd ;—y mae gweddi yn ymddangos yn un o brif ryfeddodau y byd hwn. Gyda syndod yr edrychwn ni ar ddynion yn gallu ymddiddan â'u gilydd drwy gymorth y gwefrhysbysydd, er bod canoedd o filldiroedd rhyngddynt ; ond beth ydyw hyny o'i gymharu â dyn ar y ddaear yn gallu ymddiddan â Duw yn y nefoedd ? Yr ydym yn synu wrth gywreinrwydd dyn trwy gymorth celfyddyd yn gallu esgyn i blith y cymylau ; ond beth ydyw hyny o'i gymharu âg enaid yn gallu myned gerbron y presenoldeb dwyfol ? Pe medrai rhywun ar y ddaear

ddal cymundeb âg un o drigolion y planedau, edrychid arno yn un gwirioneddol ryfedd; ond y mae gweddiwr yn dal cymundeb â byd llawer pellach na'r un o'r rhai yna.

Y mae yr eithafion sydd yn cyfarfod yn nghymeriad y gweddiwr yn ei hynodi yn fawr. Cawn un olwg arno mor ddiddym, nes y gofynwn,—Beth a all efe? ond cawn olwg arall mor fawreddig, nes y gofynwn ni,—Beth nad all efe? Y mae ei fraich ef yn wendid ei hun; ond y mae braich hollalluog at ei alwad. Y mae ei ddoethineb ef yn ynfydrwydd; ond y mae hollwybodaeth yn gwylio drosto. Y mae yn gryf am ei fod yn wan. Y gwanaf yn y teulu yw y cadarnaf. Mewn un ystyr, y mae ei wendid yn dwyn nerth pawb i'w amddiffyn: dim ond iddo lefain, y mae cymaint o nerth ag sydd yn y fraich gadarnaf, os bydd raid, i gael ei ddefnyddio drosto;—cymaint o wybodaeth a deall ag sydd yn yr enaid cryfaf yn y teulu i gael eu defnyddio i roddi ymwared iddo. Felly yn ngwendid yr Israeliad yn wir y mae cuddiad ei gryfder. Y mae yn cael y cyfan am ei fod yn llefain. Ni fedr ei fraich ef ddim atal i ddeilen syrthio; ond fe fedr ei lef rwymo yr haul, a gwneuthur i'r lleuad sefyll. Ni fedr ei fraich ef ddim atal i lysoedd y ddaear ei roddi yn y carchar nesaf i mewn; ond fe fedr ei lef ddwyn un o weision y llys fry i'w arwain ef allan. Gyda phriodoldeb yr ystyrir y dyn hwnw sydd wedi cael allan lwybr i leihau yr un graddau ar drueni y ddaear yn deilwng o barch; y mae llawer o ddyfeisiau buddiol i ddiogelu rhag peryglon y ddaear wedi eu cael allan, a phe byddai bosibl i ryw un gael allan lwybr i'w amddiffyn ei hun rhag pob peryglon, gweddus fyddai galw ei enw yn rhyfeddol. Ond y cyfryw un ydyw yr Israeliad yn wir. Os bydd doethineb yn gweled mai hyny fydd oreu, ni chaiff fod diffyg gallu arno i wneuthur pob peth: gall fyw yn y ffwrn dân,—bod yn ddiogel yn ffau y llewod,—disgyn i waelodion y môr,—a dychwelyd o fol uffern. Nid rhaid iddo ef ofalu am ddim; ond gwneuthur ei ddeisyfiadau yn hysbys gerbron Duw. Pe arweinid ef at fôr,—os gwelai doethineb Duw hyny yn oreu, fe'i hagorid gan allu Duw iddo ef fyned drwyddo. Y mae ganddo ymhob man ddoethineb ddwyfol i'w gyfarwyddo, a gallu dwyfol i'w amddiffyn. Y mae rhai yn gwneuthur pethau rhyfedd drwy nerth eu braich; y mae eraill yn dwyn

pethau rhyfedd i fod drwy rym eu doethineb; ond y mae y gweddiwr yn gwneuthur pethau rhyfedd heb na braich na doethineb. Y mae Agur yn tynu ein sylw at bethau bychain iawn, hynod am yr hyn yr oeddent yn ei wneuthur; ond nid mor rhyfedd ydyw gweled y morgrug yn darparu eu lluniaeth yr hâf,—y cwningod yn gwneyd eu tai yn y graig,—y locustiaid yn myned allan yn dorfeydd,—a'r pryf copyn yn llys y brenin, ag ydyw gweled y pryfyn dynol yn llwyddo gyda Duw. Pe byddai yr Israeliaid yn anamlach, buasent yn fwy o wrthddrychau ein syndod. Meddyliwch fod dim ond un ar unwaith ar y ddaear, a chanddo *interest* neu ddylanwad yn y nefoedd,—fod ganddo law ymhob peth mawr oedd yn cymeryd lle yn ein byd ni,—y gallasai y dylanwad oedd ganddo ef yn y llys fry, ddwyn da neu ddrwg ar y ddaear;—oni fuasai hwnw yn wrthddrych syndod pob gwlad? Ond y cyfryw un ydyw pob gwir Israeliad: gall rwymo godreu y cymylau, a chloi y nefoedd, a myned â'r agoriad gydag ef, fel nad all Ahab, na neb o'i weision, ei gael ef na'r agoriad;—gall eilwaith ei dadgloi hi wrth ei ewyllys. Cymeriad rhyfedd dros ben ydyw yr Israeliad yn wir.

II. Ond i adael y disgrifiad cyffredinol yna o hono, i ddyfod yn fwy neillduol. Y mae yr Israeliad yn wir yn un sydd wedi gweled a theimlo ei ddiddymdra ei hun,—wedi teimlo fod rhywbeth yn eisiau arno. Nid ydym yn gofyn cyngor, nes y bydd ein doethineb ein hunain wedi pallu. Pan ballo ein nerth ein hunain, yr ydym yn llefain ar un arall,—"Cadw ni!" Fe ddywedir mai "angen ydyw mam dyfais;" felly yma, angen ydyw alpha pob Israeliad yn wir. Yn ei gyfyngder yr enillodd Jacob yr enw Israel. Yr oedd pob peth oedd yn anwyl ganddo ar y ddaear mewn perygl am eu bywyd,—Esau gerllaw, a phedwar cant o wŷr gydag ef; ond yn y cyfyngdra fe ymlynodd wrth fraich Hollalluog, yn gwbl sicr yn ei feddwl, os na ddeuai ymwared oddiyno, y darfyddai am dano. Ymdrechu dan y ffigysbren yr oedd y Nathanael hwn, pan y cafodd Phylip ef. Y mae enaid dyn wedi ei wneuthur i fyned allan o hono ei hun; ond myned allan at y creadur y mae yn lle at y Creawdwr, —at y gweision yn lle at ei Dad; ond pan yr â pawb i beidio rhoddi dim iddo, yna y mae yn dychwelyd adref. "Nid yw dyn ddim yn Atheist mewn cyfyngdra." Y mae y meddwl pan na

ŵyr ddim pa le i droi, yn troi at Dduw. Y mae hon yn olygfa i'r dieithraf;—enaid nad all fyw ar ddim ond ar Dduw, eto astudiaeth ei oes ydyw ei ochel,—gwneyd pob dyfais i beidio dyfod ger ei fron Ef. Ni buasai gweled y pysgodyn yn ceisio ysgoi y dwr,—yr aderyn yn amcanu ysgoi yr awyrgylch,—ddim haner mor ryfedd ag ydyw gweled dyn yn amcanu peidio cyfarfod â Duw. Yr ydym yn rhyfeddu wrth edrych ar weithrediadau ei enaid ar greadigaeth Duw; ond yr ydym yn rhyfeddu yn fwy wrth yr enaid hwnw yn gallu edrych ar y greadigaeth, ac yn gallu cadw o olwg y Creawdwr. Gellid meddwl, oni bai ein bod yn gwybod yn amgen, bod yn anmhosibl edrych ar y môr, heb weled y llaw sydd yn ei gynal:—sylwi ar y sêr, heb weled yr Hwn sydd yn eu dwyn hwynt allan mewn rhifedi; ond y mae enaid dyn yn medru. Fe ä i fyny cyn uched a'r haul weithiau; ond fe ofala am ddychwelyd cyn myned yn agos i'r nefoedd. Fe ddaw gyda chwi o amgylch ogylch y deml; ond gwyliwch son am fyned i'r cysegr nesaf i mewn. Ni ddaw yno, nes yr ä hi yn gyfyng iawn arno. Os medra ef fyw ar y ddaear, y mae y nefoedd yn cael llonydd ganddo. Tra yr oedd ŷd yn Nghanaan, nid oedd neb yn meddwl am fyned i'r Aipht i brynu. Angen sydd yn gwneuthur Israeliaid yn wir. Mewn adegau o gyfyngder y mae yr Israeliaid yn wir yn disgleirio yn y Beibl. Fel sêr, yn y nos y gwelir hwynt. Pan oedd Moses ar làn y môr, oferedd oedd disgwyl ymwared o'r ddaear: eto cafodd nerth gydâ Duw;—agorodd y môr. Pan darawyd Miriam â'r gwahan-glwyf, seliwyd ei law ef, a llaw pawb; ond cafodd nerth gydâ Duw;—iachawyd y gwahan-glwyf. Yr oedd holl fedr Josua fel rhyfelwr yn rhy fychan i ddinystrio y gelynion, am fod y tywyllwch yn lloches iddynt; ond yn ei gyfyngder ymdrechodd gydâ Duw;—safodd yr haul a'r lleuad. Y mae Samson yn marw er pob peth y ddaear; ond yn yr adwy gyfyng y mae yr Israeliad yn wir yn dyfod i'r golwg. Yr oedd holl ddoethineb Hezecïah wedi pallu, pan y gwelwyd yntau yn amlwg iawn fel Israeliad. Y mae pob Israeliad wedi bod, fel Hannah, yn un caled arno;—wedi bod, fel Job, â'i enaid yn chwerw o'i fewn;—wedi bod, fel Dafydd, yn y dyfnderau,—yn y pwll isaf;—wedi bod, fel Jonah, yn mol uffern. A ydyw y nôd hwn o Israeliad yn wir yn perthyn i ni? A wasgwyd ni i amgylch-

iadau mor gyfyng, nes y gorfodwyd ni i droi at Dduw? A ŵyr ein henaid am ryw Peniel, lle, yn nghyfyngdra ein hysbryd, yr ymdrechasom âg Angel y Cyfamod, nes y cyfnewidiwyd ein henw ni o'r dydd hwnw allan, i gofio am y tro? Os gwyddom ni, yr ydym yn Israeliaid yn wir.

III. Y mae yr Israeliad yn wir yn un argyhoeddedig ei feddwl fod yr hyn sydd yn niffyg ynddo ef ei hun i'w gael mewn un arall; hyny yw, mewn geiriau eraill,—Y mae yn argyhoeddedig ei feddwl am effeithiolrwydd gweddi. Y mae pawb sydd yma yn addef hyn; ond nid oes neb yn ei gredu ond yr Israeliad yn wir. Y mae rheswm balch dyn yn gofyn pa fodd y gall y pethau hyn fod? Pa gysondeb sy mewn meddwl fod dim a ddywed creadur mor ddistadl yn dyfod o dan sylw Duw? Ac yn mhellach eto, pan ystyrir pa fath un ydyw y Duw hwnw, fod ei gyngor yn sefyll, a'i holl ewyllys yn cael ei gwneuthur;—nad dyn ydyw i ddywedyd celwydd, na mab dyn i edifarhau;—fod ei lywodraeth yn cael ei chario ymlaen wrth ddeddfau tragywyddol;—a pha beth bynag 'a ysgrifenwyd a ysgrifenwyd.' Y mae yr holl ddeddfau wedi eu cerfio ar greigiau cyfiawnder; ac yno y byddant byth, fel nad ä yr un iod nac un tipyn o honynt heibio. Y mae y Duw hwn wedi rhagweled er tragywyddoldeb bob peth a gymer le mewn amser, ac y mae y cwbl yn digwydd yn ol fel y rhagluniodd ei law a'i gyngor Ef. Yn awr, gan fod pethau fel yna, pa fudd, medd calon anffyddol, a fydd i mi os gweddïaf arno? A allaf fi obeithio y cyfnewid trefn dragywyddol pethau? oblegid 'yr hyn a fydd a fydd' er pawb. Fel hyn y mae gweddi yn cael ei thaflu o'r neilldu, fel peth diwerth a ffol; oblegid, yn ol tystiolaeth y Beibl, y mae yn anmhosibl i neb ddyfod at Dduw mewn gweddi heb 'gredu ei fod Ef, a'i fod yn obrwywr i'r rhai sydd yn ei geisio.' Y mae y grediniaeth hon am Dduw yn hanfodol i weddi; oblegid y mae anmhosibilrwydd peth yn creu anobaith mewn perthynas i'r peth hwnw; ac y mae diffyg llwyr argyhoeddiad o sicrwydd peth yn creu amheuaeth. Ac fel y mae anobaith yn atal gweddi yn gwbl, felly y mae amheuaeth yn ei gwneuthur yn ofer. Y mae anobaith yn ein hatal i anfon yr erfyniad i'r llys: y mae amheuaeth yn peri i ni ei anfon yn y fath fodd, fel na lwydda fe ddim. Na feddylied yr amheus,

mwy na'r anobeithiol, y derbyn yntau ddim daioni gan Dduw. Ond pa sail sydd i ffydd yn hyn? Pa brawf sydd fod gweddi yn effeithiol yn y nef? Y mae hyny yn myned yn bell tuag at brofi, sef y grediniaeth gyffredinol sydd o'i heffaith hi. Y mae addoli yn gyffredinol, a lle bynag y mae addoli, y mae gweddio. Ac yn annibynol ar ddatguddiad dwyfol, y mae gweddi yn ei phrofi ei hun ei bod yn rhan o grefydd natur. Arddangosiad naturiol o ymddibyniaeth ydyw. Y mae natur dyn yn ei gymell i ddychwelyd i ddiolch i gymwynaswr sydd wedi gofalu yn gyson am dano. Ac os ar gymwynasau yr oedd efe yn ymddibynu yn gwbl, gydâ diolch am yr hyn a dderbyniwyd yn yr amser a aeth heibio, onid priodol yw deisyf am barhad y cymwynasau yn yr amser dyfodol? Mor gyffredinol ydyw y teimlad hwn hyd yn nod yn y byd paganaidd, fel ag y maent oll yn gweddio. Y mae yn wir eu bod oll yn methu y gwrthddrych; ond pa fodd y maent yn cydsynio fod hyn yn angenrheidiol, os nad ydyw hyn yn rhan hanfodol o'u natur,—yn deimlad perthynol iddynt fel dynion? Ac o ba le y daeth y teimlad hwn? Onid oddiwrth y neb a luniodd y natur? ac ni phlanodd Efe yr un teimlad yn ofer,—yr un duedd i'w siomi.

Ac nid yw ein bod ni yn methu deall pa fodd y mae gweddi yn effeithiol, ddim yn un prawf nad ydyw hi felly. Y mae llawer un arall o ffyrdd Duw, nes atom na honyna, na fedrwn ni ddim ei deall. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng gwybod fod peth yn bod, a gwybod pa fodd y mae yn bod. Byd y peth cyntaf ydyw hwn, sef i wybod fod pethau. Y mae y pa fodd a'r paham yn perthyn i'r byd a ddaw yn benaf. Y mae yn rhaid i ni gymeryd y ffaith noeth ar y prawf o'i bod yn awr: ni a gawn wybod y *pa fodd* ar ol hyn. Byddai yn haws i ni ateb ychydig o'r cwestiynau y mae yr Arglwydd yn eu rhoddi i Job, mewn perthynas i'w weithredoedd, na deall egwyddorion mawrion a chyffredinol ei lywodraeth. Ond nid ydym yn gofyn cwestiynau fel hyn,—y paham a'r pa fodd,—mewn perthynas i bethau y ddaear. Er bod pob peth y ddaear wedi eu gosod dan ddeddfau anghyfnewidiol, y mae rhew ac eira y gauaf,—gwres a sychder yr haf,—wedi eu hysgrifenu yn llyfr Duw mor fanwl ag ydyw pethau mawrion y byd ysbrydol; a'r

hyn a ysgrifenwyd a ysgrifenwyd : nid *all* yr un creadur, ac ni *wna* Duw byth eu cyfnewid. Byddai yn hawdd iawn dyrysu yr amaethwr gydâ chwestiynau, a dywedyd wrtho, nad gwaeth beth a fyddo ei lafur, mai cyngor Duw a saif, ac mai ei ewyllys Ef a gaiff ei gwneuthur. Ond er y gellid ei ddyrysu â gwrth-ddadleuon, y mae efe ar yr un pryd yn sicr yn ei feddwl, oni haua efe, na fêd ychwaith. A phaham na weithredwn ni ar yr un egwyddor mewn perthynas i bethau ysbrydol? Nid ydym yn deall gydâ phethau y byd hwn, pa fodd y mae cysylltiad rhwng y moddion a'u dibenion; ond yr ydym wedi arfer gweled fod cysylltiad, am hyny nid ydym yn meddwl cymaint am y pa fodd. Y mae mor anamgyffredadwy ynddo ei hun pa fodd y mae y gronyn gwenith yn cynyrchu ei driugeinfed a'i ganfed, ac yn gwneuthur hyny trwy farw hefyd, ag ydyw y modd y mae gweddi dyn yn effeithio yn y nefoedd. Y mae y moddion wedi eu cysylltu gyda'u dibenion mewn pethau ysbrydol; a phaham yr amheuwn ynghylch y cysylltiad yma mwy na chydâ phethau y ddaear. Os ydyw y cyfan wedi eu penderfynu fel cynifer o ddolenau mewn cadwyn, y naill beth yn achos i beth arall, a hwnw eilwaith yn achos i beth sydd yn ei ddilyn ; onid ydyw gweddi yn ddolen yn y gadwyn o achosion ? Y mae hi i'w chanfod felly yn eglur yn y waredigaeth o Babilon. Yr oedd llawer o bethau wedi cymeryd lle eisoes i barotoi at hyny. A pheidio myned yn mhellach yn ol na hyny,—yr oedd Belsassar wedi gwneyd gwledd, a hyny wedi llenwi y ddinas â rhialtwch, ac â meddwdod : yn y gloddest, anghofiwyd cau y pyrth. Ar yr un pryd, yr oedd milwyr Cyrus wedi gorphen y gwaith mawr o droi yr Euphrates allan o'i gwely : felly yr oedd gwely yr afon yn rhydd i'r milwyr allu myned i mewn ar hyd-ddi ;—y pyrth yn agored oeddent yn arwain o'r afon i'r ddinas, a thrigolion y ddinas yn feddw ar yr un adeg : felly cymerwyd y ddinas. Yr oedd Duw wedi gwneuthur y cwbl i'r fan hon ; ond y ddolen nesaf yn nghadwyn yr achosion, ydyw gweddi Daniel. Yn y flwyddyn gyntaf i Darïus, olynwr Belsassar, y gweddiwyd hono ; ac ymhen tua dwy flynedd ar ol hyn, yr oedd Israel yn rhydd. Gomeddodd Darïus eu gollwng yn rhydd,—fe'i symudwyd ef ymaith gan angau,—daeth Cyrus yn ei le. Nid oes ond un cam yn awr

rhyngddynt â rhyddid, sef cael rhyw lwybr i dueddu meddwl Cyrus i hyny. Y mae traddodiad Iuddewig yn dywedyd, a thra thebyg ydyw ei fod yn wir, mai y llwybr a gymerodd Daniel i hyny oedd dangos iddo brophwydoliaethau Esaiah am dano o dan ei enw. Wedi cael yr holl achosion fel yna yn barod, cynyrchwyd yr effaith mawr, sef cael Israel o'r caethiwed ; ond yr oedd gweddi yn ddolen mor hanfodol yn nghadwyn yr achosion a'r un oedd ynddi. Y mae hi felly eto; a gweddi ydyw yr unig ddolen yn y gadwyn anweledig sydd o fewn ein cyraedd ni, ac y mae y dolenau eraill, sydd yn achosi pethau, yn gylymedig wrthi hi.

Nid ar feddwl y dyn ei hun ychwaith y mae gweddi yn effeithio. Y mae yn wir fod ganddi effaith fawr yma. Y mae yn anmhosibl gweddio heb fod yn well o hyny. Y mae fod i greadur weithredu teimladau priodol at ei Greawdwr, o angenrheidrwydd yn ei wneuthur yn well. Y mae gweddi yn yr olwg hon arni yn cydffurfio dyn â Duw, a thrwy hyny yn ei debygoli i Dduw,—yn ei sancteiddio. Ond y mae gan weddi effaith hollol wahanol i hwn ;—y mae ganddi nerth gwirioneddol yn y nefoedd, onid ê ni buasai ganddi ddim nerth mewn un man arall. Ac yn lle ymddyrysu ynghylch y modd y mae gweddi yn llwyddo, digon gan y Cristion ydyw fod y Beibl yn dywedyd hyn. 1 Ioan v. 14, 15 : "Hyn yw yr hyfder sydd genym tuag ato ef ; ei fod ef yn ein gwrandaw ni, pa beth bynag a ddeisyfom, ni a wyddom ein bod yn cael y deisyfiadau a ddeisyfasom ganddo." Mat. vii. 7, 8 ; "Gofynwch, a rhoddir i chwi ; ceisiwch, a chwi a gewch ; curwch, ac fe agorir i chwi. Canys pob un sydd yn gofyn sydd yn derbyn ; a'r neb sydd yn ceisio sydd yn cael ; ac i'r hwn sydd yn curo, yr agorir." Y mae yr Israeliad yn wir yn cymeryd y dystiolaeth yn nerth, heb ofyn gydâ Nicodemus, "Pa fodd y dichon y pethau hyn fod?" oblegid onid ydyw efe wedi profi ei gwirionedd hi fel y Salmydd,—"Efe a glybu lef fy ngweddiau." Y wers fawr y mae yr esiamplau Ysgrythyrol wedi eu bwriadu i'w dysgu ydyw, —"Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn." Ond y mae camgasgliad yn cael ei dynu oddiwrth yr esiamplau hyn yn fynych, fel yn nyddiau Iago, sef bod y gweddïwyr a'r gweddïau yn anghyffredin ; am hyny nad ydynt o fawr gysur i ni. Y mae

yr apostol yn ateb yr wrthddadl yna: Na, "Elias oedd ddyn yn rhaid iddo ddioddef fel ninau," hyny yw, wedi ei amgylchu â holl wendidau y ddynoliaeth; eto gwelwch yr hyn a wnaeth efe mewn gweddi. Y mae genym esiamplau lawer o'i llwyddiant. Nid oes cymaint ag un o'i haflwyddiant. Y mae hi wedi llwyddo o enau dynion annuwiol iawn: Ahab ryfygus;—Pharaoh annuwiol, ni omeddwyd mo hono ef unwaith;—a'r Ninifeaid drygionus, fe'u harbedwyd hwythau. Y mae yr Arglwydd yn gwrandaw llef dyn. Y mae hi wedi llwyddo dros rai annuwiol iawn. Arbedwyd Soar ar gais Lot. Pa sawl gwaith y gwaredwyd yr Israeliaid ar ddymuniad Moses? Hi lwyddodd mewn amgylchiadau annhebyg iawn:—Manasseh yn ngharchar Babilon;—Jonah yn mol y morfil;—y lleidr ar y groes. Hi a lwyddodd mewn perthynas i bethau bychain iawn, er mewn gwirionedd ar raddeg fawr creadigaeth Duw, nid oes dim bychan yn bod, ond y mae rhai pethau yn ymddangos felly i ni. Ond pa beth sydd yn rhy fychan i weddi? Os bydd Hagar wedi methu cael y ffynon, fe ddaw Duw i'w dangos hi. Os bydd gwas Abraham yn ofni na lwydda fe ddim i gael gwraig i fab ei feistr, fe'i harweinir hi gan Dduw ato ef.

Y fath ragorfraint ydyw hon sydd yn perthyn i'r ddaear: gweddi dyn yn llwyddo yn y nef! Heb y rhagorfraint hon, buasai y byd hwn i'w arswydo mewn gwirionedd. Y mae ei gyfnewidiadau mor aml;—ei beryglon yn aneirif;—yr ydym ninau yn agored iddynt oll,—yn rhy anwybodus i'w hosgoi, ac yn rhy weiniaid i'w gwrthsefyll. Ond yr ydym wedi ein geni yn freiniol: y mae genym ryddid i ymguddio o dan gysgod adenydd yr Hollalluog,—i ffoi ymhob perygl i'r breichiau tragwyddol. Nid rhyfedd i Moses, wrth edrych ar y fath ragorfraint, ofyn,—"Pa genedl mor fawr, yr hon y mae Duw iddi yn nesâu ati, fel yr Arglwydd ein Duw ni, ymhob dim a'r y galwom arno?" Os abwydyn ydyw dyn, y mae Duw yn gwrandaw ar ei lef ef. Os pentref anenwog ydyw y ddaear, y mae y nefoedd wedi ymrwymo i wrandaw pan lefo. Cyfnewidied y ddaear,—ymgasgled peryglon,—dued y cymylau,—rhuthred y gwyntoedd,—ffyrniged yr ystorm,—nid all y bydd hi yn galed iawn arnom, tra y bydd genym Dduw yn agosâu atom, ymhob dim y galwom arno: ac yn enwedig y Duw hwnw, fel

yr Arglwydd ein Duw ni; yr Hwn y mae cyfnewidiadau y ddaear o dan ei lywodraeth,—y cymylau yn gerbyd iddo,—yn marchog ar adenydd y gwynt,—ac yn trigo yn nghanol y dymestl. Tra y bydd y rhagorfraint hon genym, fe fydd pob peth; hebddi, ni fydd dim. A ydym wedi ei defnyddio hi? Buasai trefydd China wedi eu taflu yn agored yn ofer, oni buasai ein bod yn cario masnach ymlaen â hwynt. Wel, ai yn ofer y mae y nefoedd wedi ei gwneuthur yn wlad rydd, i'r ddaear fasnachu â hi? Ai yn ofer y talwyd y swm mawr am y fraint hon ar ben y groes? Ië, i bawb, ond i'r "Israeliad yn wir." Ond y mae ef yn masnachu yn feunyddiol â'r wlad: hyn ydyw ei alwedigaeth. Pe y gofynid iddo, fel y gofynodd y morwyr i Jonah,—Beth yw dy gelfyddyd di? yr ateb fyddai,—*Gweddïwr.* "Minau a arferaf weddi."

IV. Y mae yr Israeliad yn wir yn un na fyn ei omedd. Gwelir hyn yn amlwg yn hanes Jacob. Cafodd cysgodau y nos gilio,—y wawr dori,—a'r haul godi,—ond yr oedd ef wedi penderfynu y mynai y fendith. Cawsai yr haul facalud cyn y buasai efe yn gadael i'r angel fyned ymaith heb ei fendithio ef. Y mae teyrnas nefoedd wedi cael ei threisio gan bawb a aeth iddi erioed. Nid aeth neb iddi heb fod o ddifrif. Nid yw y difrifwch hwn ddim yn gwneuthur Duw yn fwy parod i roddi, ond y mae yn anhebgorol angenrheidiol tuag at ein parotoi ni i dderbyn. Ffrwyth y ddau beth diweddaf y buom yn sylwi arnynt ydyw y nodwedd hwn ar yr "Israeliad yn wir;"—gweled tlodi y ddaear, a gweled cyfoeth y nef, a wnaeth iddo benderfynu na fynai ei omedd. Fel y wraig o Ganaan, nid oedd ond trueni gartref, ond yr oedd hi yn gweled ymwared yn yr Arglwydd Iesu; gan hyny hi a lefodd ar ei ol nes cael yr ymwared hwnw. Ond y mae hyny i'w gofio yn gydiol â hyn, fad ewyllys Duw yn uchaf gyda phob "Israeliad yn wir." Y mae ei daerineb yn ddarostyngedig i hon. Yr oedd yr Arglwydd Iesu ei Hun yn gweddio yn gweddio yn yr ystyr hwn mewn ymostyngiad i'r ewyllys ddwyfol, a chafodd ei wrandaw,—aeth y cwpan heibio. Felly y mae taerineb yr Israeliad eto yn ddarostyngedig i'r ewyllys. Ond y mae yr ymostyngiad hwn yn dwyn perthynas yn benaf, os nad yn gwbl, â'r pethau nad ydynt yn addawedig, na datguddiedig yn y Beibl; eto y mae

genym esamplau ysgrythyrol eu bod yn dyfod o fewn i gylch gweddi. Oni wrandawodd yr Arglwydd aml un, nad oedd ganddo yr un addewid o hyny, na'r un sail i weddio am y peth, ond yr hyn yr oedd yn ei dynu oddiwrth gymeriad cyffredinol Duw: megis Lot am arbediad Soar, a'r Ninifeaid am eu harbediad eu hunain; ac am a wn i, nad oedd pob arbediad ar genedl Israel yn arbediad fel hyn. Nid oedd yr Arglwydd wedi addaw eu harbed, eto hyny a wnaeth bob tro y gweddiasant arno. Ac er nad oes genym yr un addewid bendant yn y Beibl i'w phledio am lawer o bethau sydd yn briodol destynau gweddi, —megis adferyd iechyd,—rhoddi i ni amser hau a medi,—peri i'r cymylau wlawio, a'u hatal hefyd; eto y mae genym yr un sail i weddio am y pethau hyn ag oedd gan dduwiolion y Beibl, sef cymeriad Duw; ac yn ychwanegol at hyn, y mae genym eu hesamplau hwy o lwyddiant. Ac nid ydyw ein bod yn daer am bethau fel hyn mewn un modd yn digio Duw, os bydd y teimlad i ewyllys Duw yn uchaf yn ein meddwl. Ond am bob peth y mae genym addewid,—pethau bywyd tragywyddol,— gallwn fyned â'r addewid at y Duw mawr, fel papyr i'r Ariandy, ac aros yno hyd nes y cawn ni y cyfnewid. Y mae trugareddau bywyd tragywyddol yn rhai sicr yn yr ystyr hwn. Am bethau y ddaear,yr ydym yn seilio ein gweddiau ar ddoethineb, gallu, a daioni Duw: Ond wedi yr oll, y mae yn rhaid i ni gofio na wna Duw ddim o bob peth a all Ef. Eithr am bethau yr enaid, yr ydym yn seilio ein dymuniadau ar ei eiriau; ac os na wna ein Duw ni bob peth a all, fe wna bob peth a ddywedodd. Gelli weddio am adferyd iechyd dy gorff, am y gall Duw hyny. Gelli weddio am iechyd dy enaid, am fod Duw wedi addaw hyny. "Megis y maddeuaist o'r Aipht hyd yma," oedd gan Moses am arbediad y gwrthryfelwyr: dadl wedi ei thynu oddiwrth gymeriad Duw. "Cofia y gair wrth dy was, yn yr hwn y peraist i mi obeithio," oedd gan Dafydd. Y mae ei enw, sef ei gymeriad, genym am bethau y bywyd hwn; ond am bethau y byd a ddaw, y mae ei air; ac y mae hwnw wedi ei fawrhau uwchlaw ei enw oll. Ni wyddom ni ddim beth sydd yn deilwng o'i enw; am hyny nid allwn ddywedyd pa beth a wna mewn perthynas i bethau y ddaear. "Pwy a ŵyr," ydyw yr eithaf yma; ond ni a wyddom beth sydd yn deilwng o'i

air, sef cyflawniad, ac y mae yn sicr o gael ei fawrhau:—

"Pob sill erioed a dd'wedodd Ef
Sydd siwr o ddod i ben."

Y mae yr "Israeliad yn wir" yn deall hyn: ni fyn ei omedd; os na chaiff y dorth, fe fyn y briwsion. A ydyw y nôd yma o'r "Israeliad yn wir" arnom ni? A wyddom ni am yr ymdrech sanctaidd hwn gydâ Duw?—y penderfyniad meddwl hwn i fynu myned i'r nefoedd?

V. Ein sylw olaf ar yr "Israeliad yn wir" ydyw, mai hyn ydyw gwaith ei oes. Y mae pawb yn cael rhyw fath o *ffitiau* crefyddol;—mewn cyfyngder yn galw ar Dduw; ond y gwahaniaeth rhwng yr Israeliad ymddangosiadol â'r "Israeliad yn wir" ydyw hyn: rheol oes un ydyw gweddi; eithriadau oes y llall ydyw. Am yr annuwiol,—"a eilw efe ar Dduw bob amser?" Parhad ydyw un o'r profion goreu o wirionedd. Y mae yr "Israeliad yn wir" yn rhodio gyda Duw fel Enoch. Y mae llawer un yn ymofyn â Duw yn eu cyfyngder, fel Saul brenin Israel: ond y mae yr "Israeliad yn wir" yn trigo yn mhresenoldeb Duw yn wastad,—yn byw yn y cysegr gydâ'r arch a'r *shecinah*: yn gweddio yn ddibaid,—yn parhau mewn gweddi,—yn ymbil ddydd a nos yn wastad. Nid oes yr un amgylchiad a'i rhwystra i ddilyn y gorchwyl hwn. Mewn iechyd, y mae ei weddi yn esgyn i fyny fel arogldarth, a dyrchafiad ei ddwylaw fel yr offrwm prydnhawnol. Yn ei glefyd, y mae yn trydar fel y garan a'r wenol. Nid all llwyddiant ddim ei hudo ef ymaith oddiwrth ei ffyddlondeb i'w Dduw. Fel y gwahanglwyfus hwnw, fe fyn ef ddychwelyd yn ol i ddiolch. Ni all adfyd ychwaith ddim myned rhyngddo a'r nefoedd. Gydag Ephraim fe dry yn ol, yn ei ganol, at ei Dad, dan ddywedyd, "Ti yw yr Arglwydd fy Nuw." Y mae yn ddyn sydd yn gorfodi pob peth i fod yn wasanaethgar i'w gelfyddyd. Y maent naill ai yn ddefnyddiau gweddi, neu yn achlysuron gweddi. Os bydd marw un o'i gyfeillion, y mae efe, gyda disgyblion Ioan, yn rhedeg i fynegi hyny i'r Iesu. Os bydd rhywbeth anghysurus wedi digwydd i rywun sydd yn anwyl ganddo, fel yr eglwys yn achos Pedr, fe ddywed hyny mewn gweddi ddyfal wrth ei Dad nefol. Fe'i dwg pob peth ef at orsedd gras. Fe'i tynir ef

gan wenau rhagluniaeth,—fe'i gyrir ef gan ei gŵg hi. Fe dry y naill yn ol yn ddiolchiadau, a'r llall yn ddeisyfiadau. Ni cha dim ddisgyn o'r nefoedd, heb i rywbeth esgyn yn ol o'r ddaear. Ni bydd ar yr "Israeliad yn wir" byth eisiau lle i weddio. Os na bydd ganddo ystafell i gymdeithasu â'i Dad, fe rodia allan i'r meusydd, fel Isaac, i wneyd hyny. Fe ä i fyny i'r mynydd, fel yr Arglwydd Iesu, i'r diben hyny. Fe chwilia am gysgod pren, fel Nathanael, i hyny. Fe encilia i lan afon, fel Ezeciel i hyny; neu, fe ä ar ei liniau, fel Paul, ar y traeth. Ni bydd arno byth ddiffyg amser ychwaith i hyn: os na bydd y dydd at ei alwad, fe gymer y nos i weddio, fel Jacob, ac Arglwydd Jacob. Os bydd ê byw yn nghanol tyrfa, fel Moses, fe garia ymlaen gymundeb prysur â'r nefoedd yn eu canol hwynt. Pe byddai yn gorfod sefyll yn gyson gerbron brenin, gyda Nehemiah, fe fyn ef ymddiddan gair â Brenin y brenhinoedd, o ganol y llys. Pe byddai yn brif weinidog y llywodraeth, a helyntion cant ac ugain o daleithiau i gael eu trefnu ganddo, fe fyn ef, fel Daniel, amryw adegau bob dydd i ymddiddan â'i Dduw. Hyn ydyw gwaith ei oes. Teml ydyw y ddaear yma iddo ef; tŷ gweddi. Y mae yn wir fod ynddi ei chysegr, a'i chysegr sancteiddiolaf: gwell fyddai ganddo fyned i'r sanctaidd sancteiddiolaf; ond os nad all ef fyned yno, gydâ'r Offeiriad ar ei ben ei hun, fe weddia efe yn nghanol y bobl yn y cyntedd. Pe gallem ni edrych ar ei enaid, y mae ef fel nodwydd y cwmpas yn ymysgwyd, yn cwifro tua'r nefoedd. Y mae rhywbeth yn atal hono weithiau i gyfeirio yn bur llonydd at ei phegwn; ond y mae hi yn ysgwyd o'i ddeutu ef; felly y mae enaid yr "Israeliad yn wir" yn crynu o amgylch ei bwynt.

Pwy ydyw hwnyna sydd yn cael ei ddesgrifio? A adwaenoch chwi neb tebyg iddo? Gadawn ni y pictiwr yn hanerog iawn fel hyn, i edrych a ydyw yr *original* yn y gynulleidfa. A ydyw y gwr a ddarluniwyd yma? Mor ddedwydd fuasai y meddwl y gallasem ni droi i bob congl o'r adeilad, a chyfeirio â'n bys, dan ddywedyd,—"Wele Israeliad yn wir," at bob un yn y lle. Ond yr wyf yn ofni y byddai raid i farn cariad ddywedyd geiriau Eliphaz y Temaniad wrth Job, wrth aml un yn y gynulleidfa,— "Yr ydwyt yn atal gweddi gerbron Duw." Y mae yr ymadrodd bychan yna yn gyhuddiad arswydus i'w ddwyn ymlaen yn

erbyn dyn fydd yn fuan yn myd yr ysbrydoedd,—yn teimlo ei hun am dragywyddoldeb gerbron Duw. Ond pa sawl cydwybod sydd yma yn dywedyd ei fod yn wir. Pa sawl un sydd yma nad oes yr un o fryniau y ddaear yn Peniel iddo? Ni all godi colofn ar un llanerch o'r ddaear, a'i heneinio hi yn Bethel, i gofio fod y lle wedi bod yn dŷ Dduw iddo ef.

[Nid oes amseriad wrth y bregeth: ond fe'i cyfansoddwyd, dybygid, tua Tachwedd, 1847.—Gol.]

# PREGETH LXI.

## IESU GRIST YR UN.

HEBREAID xiii. 8.—"Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd.'

GOGONIANT yr efengyl ydyw bod ei phob peth hi yn ymarferol. Y mae yn perthyn iddi rai pethau i'w credu, ac nid i'w hamgyffred; ond nid oes yn perthyn iddi ddim i'w gredu, ac nid i'w ymarfer. Y mae y pethau mwyaf mawreddus a goruchel o fewn cylch ei hathrawiaethau; er hyny nid oes dim yn rhy isel a bychan i ddyfod o fewn cylch ei dysgeidiaeth. Y mae hi yn hyn yn dwyn delw ei Hawdwr. Y mae yr eithafion wedi cyfarfod ynddo Ef;—y pethau mwyaf o dan ei lywodraeth, a'r pethau lleiaf hefyd yn wrthddrychau ei sylw. Felly hithau: y mae hi fel yr haul, â'i llewyrch yn dangos y pethau mawrion uwchben, a'r pethau bychain o dan ein traed hefyd. A dylid gwylio rhag ysgar ei hathrawiaethau oddiwrth ei dyledswyddau; oblegid y mae y naill yn tarddu yn naturiol o'r llall; ac y mae y naill yn anmherffaith heb y llall. Yr athrawiaethau ydyw y pren, a'r dyledswyddau ydyw ffrwyth y pren. Yr athrawiaeth ydyw y tòriad ar y sêl, a'r ddyledswydd ydyw y gwrym y mae yr argraff yn ei wneuthur ar y cŵyr. Ac nid anhawdd fyddai dangos fod pob dyledswydd y mae yr efengyl yn ei chymell arnom, yn seiliedig ar ryw athrawiaeth. Pan y geilw hi arnom i ddychwelyd at Dduw, y gwirionedd sydd yn sail i hyny ydyw, fod trugaredd gydag Ef;—neu i roddi ein hunain i'r Arglwydd Iesu, y gwirionedd sydd yn sail i hyny ydyw, am ei fod yn abl i gadw. Pan y ceisia hi genym beidio ag ymofyllo â gofalon bydol, sylfaen y cais fydd, bod un arall yn gofalu trosom ni.

Pwnc o athrawiaeth ydyw y testyn hwn ; ac y mae yn dyfod i mewn, naill ai mewn cysylltiad â'r ddyledswydd a grybwyllir yn yr adnod o'i flaen, neu yn sylfaen i'r ddyledswydd a gymhellir yn yr adnod ar ei ol. Y ddyledswydd a gymhellir yn yr adnod o'i flaen ydyw,—"Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi air Duw : ffydd y rhai dilynwch, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt." Ond rhag i hynyna greu teimladau anobeithiol yn eich mynwes, a pheri i chwi ofni am arch Duw, wrth weled cymaint oedd â'u hysgwyddau dani yn syrthio, dyma wirionedd i atal i hynyna fod :—"Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd." A ydyw y milwyr yn gadael y maes ? Y mae Tywysog y llu ar y maes eto. Neu, gall mai sylfaen ydyw y testyn i'r ddyledswydd a gymhellir yn yr adnod ar ei ol :—"Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd ;" am hyny, "Na'ch arweinier oddiamgylch âg athrawiaethau amryw a dieithr." Gan ei fod Ef yr un, byddwch chwithau felly. Os oedd Efe yn deilwng o'ch ffydd chwi ddoe, y mae Efe yr un mor deilwng o honi heddyw eto, ac fe fydd felly yn dragywydd. Neu, fe all fod y testyn yn dyfod i mewn yn y cyfwng rhwng y ddwy ddyledswydd, i atal i gyflawniad y ddyledswydd gyntaf, o feddwl am farwolaeth y blaenoriaid, fod yn rhwystr i gyflawniad yr ail ddyledswydd, sef peidio cymeryd 'eu harwain oddiamgylch âg athrawiaethau amryw a dieithr.' Gallasai meddwl am eu blaenoriaid oedd wedi marw eu gwneuthur hwy yn fwy parod i gymeryd eu harwain o amgylch gan athrawiaethau amryw a dieithr, yn gyffelyb i'r Israeliaid wedi iddynt dybied fod Moses wedi ei golli, ceisiasant dduwiau i fyned o'u blaen ; ond y mae y testyn yn edrych yn ol, ac ymlaen, ac yn atal i'r ddyledswydd a gymhellir yn yr adnod o'i flaen effeithio er niwed, fel ag i beri i'r ddyledswydd a gymhellir yn yr adnod ar ei ol fod yn anhawdd ei chyflawni. Pan y byddwch yn meddwl am eich blaenoriaid yn marw, cadarnhewch eich meddwl â'r gwirionedd fod Iesu Grist yn fyw, ac yr un ; ac yna ni bydd cymaint o berygl i chwi gael eich arwain o amgylch gan ryw athrawon newydd i "athrawiaethau amryw a dieithr."

Yr amcan mewn golwg yn yr oll o'r epistol hwn, ydyw sefydlu yr Hebreaid crediniol yn nghrefydd Crist. I hyn y

mae yr apostol yn defnyddio llawer o resymau ; ond wrth sylwi arnynt, gwelir fod y rhesymau hyn oll mewn rhywfodd neu gilydd yn dal cysylltiad âg Iesu Grist ; ïe, mewn gwirionedd, Efe ydyw ei reswm mawr ef, a'i unig reswm dros ei bwnc, pan y mae yn dadleu rhagoroldeb yr oruchwyliaeth fel cymhelliad i ffyddlondeb. Beth ydyw hwnw ond peth y mae hi yn ei dderbyn oddiwrth ei chysylltiad âg Iesu Grist? Tori y cysylltiad yna fyddai ei hysbeilio hi o bob rhagoroldeb yn y fan, fel nag ydyw yr holl ddadleuon sy ganddo dros ffyddlondeb, erbyn eu holrhain i'w gwreiddyn, yn ddim ond Iesu Grist yn ei Berson, yn ei aberth, yn ei eiriolaeth, neu mewn rhai o'i swyddau cyfryngol. Ac nid yw y llythyr hwn yn ddim ond pregeth ar yr adnod hono:—"Crist sydd bob peth, ac yn mhob peth." Y mae llawer o bethau yn y greadigaeth naturiol yn ateb amryw ddibenion : y mae yr haul yn goleuo ac yn gwresogi, ac yn prydferthu y ddaear ; ond ni ddyfrha efe mo honi : y mae yn rhaid edrych am hyny at ryw beth arall. Y mae yr awyr yn hanfodol i bob math o fywyd;—yn cynyrchu lleithder, heb yr hwn ni all dim fyw;—yn trosglwyddo seiniau, ac yn gyfrwng gwelediad ; ond byddai yna dywyllwch oesol erddi hi ;—hi a wasgara oleuni, ond y mae yn rhaid iddi ei gael o ryw le arall. Y mae bara yn ffon bywyd, ac yn ateb llawer o ddibenion gwerthfawr ; ond nid ar fara yn unig y bydd fyw dyn er hyny. Y mae arian, medd y Pregethwr, "yn ateb i bob peth ;" ond y mae yr un gŵr yn dywedyd fod rhyw beth, na cheir mo hono pe rhoddai un lonaid ei dŷ o arian am dano. Nid oes yr un o'r pethau hyn yn bob peth, ac yn ateb i bob diben ; ond y mae Iesu Grist, yn y greadigaeth newydd yn bob peth. Nid ydyw hon yn llai ei gogoniant, nac yn llai ei chysuron na'r greadigaeth gyntaf, ond yn hytrach yn annrhaethol fwy. Y mae yma Haul yn nghanol ei ffurfafen hi ; ond Efe ydyw hwnw ; a phan fydd yr haul o'r golwg, y mae yma seren yn sirioli y tywyllwch ; ond Efe ydyw hono. Y mae yma afonydd dyfroedd, a ffynonau bywiol ; ond Efe ydyw "Ffynon y dyfroedd byw," ac "Afon dwfr y bywyd." Nid ydyw fel Tyrus a Sidon, heb gynhaliaeth ynddi ei hun ; na, y mae yma gyflawnder o fara,—ond Efe ydyw "Bara y bywyd." Nid lle heb bob math o brydferthwch ynddo ydyw : y mae yma rosyn ; ond Efe ydyw y

Rhosyn. Y mae yma "Blanigyn enwog;" ond Efe ydyw y "Planigyn enwog." Y mae yma bren ffrwythlawn; ond Efe ydyw y "Pren afalau." Y mae yma "gysgod craig fawr yn y tir sychedig," i gadw rhag gwres yr haf; y mae yma "loches rhag tymestl" y gauaf; ond y "Gwr" hwn yw'r ymguddfa rhag y naill a'r llall. Y mae Iesu 'Grist yn bob peth. ac yn mhob peth.' Fe geisiodd Moses fod yn llawer o wahanol bethau i'r Israeliaid: yr oedd yn ddeddfroddwr ac yn brophwyd iddynt,—yn cyflawni llawer o waith offeiriad; efe hefyd fyddai yn eistedd ar orsedd barn fel brenin i benderfynu eu dadleuon. Gellir dywedyd ar ryw olwg ei fod agos yn bob peth iddynt; ond bron gyda'i fod yn dechreu bod felly, y mae Jethro, yr hen ŵr craff, yn canfod ei fod wedi cymeryd gormod arno ei hun, ac yn ei gynghori i ymryddhau oddiwrth yr holl ofalon; Exod. xviii. 18. Gwrandawodd yntau ar ei chwegrwn; gosododd farnwyr arnynt i benderfynu yr holl bethau bychain, fel nad oedd ond y pethau celyd yn dyfod ato ef; eneiniodd Aaron i fod yn offeiriad, fel nad oedd raid iddo gyflawni nemawr o waith y swydd hono. Yn hir cyn marw yr oedd wedi ymryddhau i fesur mawr oddiwrth y cwbl, fel pan aeth efe i'r mynydd i hyny, nid oedd dim yn sefyll ymysg y bobl o eisiau bod Moses yno. Ond y mae Iesu Grist wedi bod yn bob peth i'w Israel ef er's miloedd o flynyddoedd, ac nid yw yn teimlo y gwaith yn rhy drwm iddo eto. "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd." Er i bob peth fyned ymlaen gan Israel, wedi colli yr hwn a fu yn bob peth iddynt; pe collai yr Israel ysbrydol Iesu Grist, safai eu pob peth hwynt am dragwyddoldeb. Mwy o anfri ar ddyn nac o anrhydedd iddo, ydyw ei fod yn ceisio ymyraeth â llawer o bethau; ac yn gyffredin y mae yn brawf sicr na bydd fawr gamp ar yr un o honynt; ond y mae Iesu Grist yn ymyraeth â'r cwbl, ac y mae yn gampus yn y cwbl hefyd. Y mae yn gwneuthur hyny er's amser maith bellach, ac fe bery i wneuthur hyny yn oes oesoedd. "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd." Gellir edrych ar yr epistol hwn fel rhyw golofn hardd, wedi ei gwneuthur o bob meini gwerthfawr, ac y mae y testyn yn gnap a blodeuyn arni, sef yn addurn iddi oll. Buasai amddifadrwydd o ragoriaeth y testyn yn ysbeilio pob rhagoriaeth arall o'i ogoniant;

ond y mae hwn, sef bod anghyfnewidioldeb yn briodoledd yn Iesu Grist, yn peri iddynt oll ddisgleirio gyda gogoniant digyffelyb. "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd." Ni a edrychwn ychydig,—

I. Ar y briodoledd hon sydd yn perthyn i Iesu Grist.

II. Ni a geisiwn ddefnyddio y gwirionedd hwn am dano, i'r diben y llefarwyd ef gan yr apostol

I. Yr hyn a briodolir iddo ydyw anghyfnewidioldeb. Y mae dywedyd ei fod "yr un," yr un peth yn hollol a dywedyd ei fod yn Dduw; neu yr un peth a phe rhoddasid iddo yr enw a roddodd yr Arglwydd arno ei hunan i Moses, sef "Ydwyf;" —enw na pherthyn i neb ond i Dduw, ac un o'r enwau ymha un y mae mwyaf o fawredd y Bod anfeidrol yn dyfod i'r golwg. "Ydwyf" ydoedd ei enw cyn creu: ni roddodd y greadigaeth fawr yma ddim at yr enw; a phe difodid hi, ni effeithiai hyny ddim ar yr enw. Rhyw eisiau,—rhyw ddfffyg,—rhyw gymaint o *nid* ydwyf, sydd yn peri i bob creadur weithredu; ond nid eisiau, nid *nid ydwyf* a barodd i Dduw weithio. Yr oedd Efe yn "Ydwyf" cyn dechreu,—yn Fod mawr difwlch, digon iddo ei Hun. Nid ydyw yn fwy o "Ydwyf" wedi creu. Pwy a roddes iddo Ef yn gyntaf? O hono y mae y greadigaeth fawr yn deilliaw, ac ynddo y mae hi yn sefyll. Y mae Efe yn "Ydwyf," yn annibynol arni hi;—yn "Ydwyf" anghyfnewidiol yn nghanol ei holl gyfnewidiadau hi. Nid ydyw hi ddim y peth a fu hi: ni bydd hi ddim y peth ydyw. Ond "Ydwyf" oedd Efe,—"Ydwyf" ydyw,—ac "Ydwyf" a fydd Efe byth. Y mae bod Iesu Grist yr un, yr un peth a dywedyd ei fod Ef yn "Ydwyf."

Y mae yr apostol yn sylfaenu amryw o'i resymau dros barhad yn y ffydd Gristionogol ar sefydlogrwydd goruchwyliaeth yr efengyl, sef ei bod hi yn deyrnas ddisigl; ond y mae y sefydlogrwydd hwn yn cael ei olrhain yn ol ganddo i anghyfnewidioldeb Pen y deyrnas. Y mae bron yn dechreu ei epistol gyda hyny. Eglurhau hyny a thynu casgliadau oddiwrtho, ydyw corff yr epistol, ar un peth yw y diweddglo. "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd. Yn y benod gyntaf y mae yn dangos anghyfnewidioldeb ei Berson: yn y penodau dilynol, ei anghyfnewidioldeb yn ei swyddau; ac y mae y testyn yn

cynwys, mewn geiriau byr, swm y cwbl a ddywedwyd:—"Iesu Grist, yr un ddoe a heddyw ac yn dragywydd."

Y mae bod Iesu Grist yr un,—

1. Yn cynwys ei fod yn anghyfnewidiol o ran ei Berson. Y mae yr hyn a ddywedwyd am dano eisoes, sef ei fod yn Dduw, yn "*Ydwyf*,"—yn cynwys hyn. Nid oes neb yn bod o angenrheidrwydd ond Duw yn unig. Peth damweiniol, hyny yw, peth a allasai beidio a bod, ydyw bod i bawb eraill. Bu amser pryd nad oeddent, ac nid oes dim ynddynt hwy yn atal nad all amser ddyfod pryd na byddant. Ond y mae ganddo Ef anfarwoldeb: "Yr Hwn yn unig sydd ganddo anfarwoldeb," medd yr apostol; hyny yw, y mae ganddo o angenrheidrwydd natur; am hyny y mae yn anmhosibl iddo Ef beidio â bod. Ac oblegid hyn, y mae yr un mor anmhosibl iddo gyfnewid. Pe buasai cyfnewidiad yn bosibl, buasai difodiad yn bosibl, ac yn debyg hefyd; oblegid y mae pob cyfnewidiad yn tueddu at hyny. Y mae y graig yn gadarn; ond y mae y dyfroedd yn treulio ei cheryg hi, a thrwy hyny yn ei difodi o fod yn graig. Y mae y mynydd cribog yn sefydlog; ond y mae y gwlaw yn golchi defnyddiau hwnw i lawr i'r dyffrynoedd, a thrwy hyny yn ei ddifodi yn araf o fod yn fynydd. Y mae anferth faintioli yn y môr; ond y mae ei ddyfroedd yn cael eu hyfed i fyny yn raddol gan yr haul; ac oni buasai fod darpariaeth arall i beri iddynt ddychwelyd iddo drachefn, buasai hyny yn ei ddifodi yn araf o fod yn fôr. Meddyliwch am yr hyn a fynoch yn y greadigaeth weledig,—y mae ei bod hi yn agored i gyfnewidioldeb yn cynwys hefyd bosiblrwydd difodiad, ac am a wyddom ni, nad ydyw y greadigaeth weledig wedi ei bwriadu i fod yn ddrych i ni o ymddibyniad y greadigaeth ysbrydol ar Dduw. Y mae cyfnewidioldeb ynddi hithau hefyd yn tueddu at ddifodiad; ond wedi dywedyd,—"Tydi yr un ydwyt," nid ydyw diwedd yr adnod ond ail adroddiad sydd yn perthyn i farddoniaeth y Dwyrain o'r un meddwl, "a'th flynyddoedd ni phallant." Y mae ei fod yr un o angenrheidrwydd yn cynwys na phalla ei flynyddoedd.

Y mae yr apostol, yn y benod gyntaf, wedi ei ddangos yn Greawdwr, ac felly yn Dduw, yn tynu gwrthgyferbyniad rhyngddo â'i weithredoedd, er mwyn dangos y briodoledd hon o'i

eiddo:—"Hwynt-hwy a ddarfyddant; ond Tydi sydd yn parhau; a hwynt-hwy oll fel dilledyn a heneiddiant." Mewn cymhariaeth i bob peth arall, gellir dywedyd am y nefoedd,—"Erioed y maent hwy;" ac am y ddaear, "hi a saif byth." Nid ydym ni, plant Adda, ond er doe, y mae y nefoedd erioed: yfory ni byddwn ni, ond "y ddaear a saif byth." Y mae y ddaear yn ein gwisgo ni fel dilledyn am ychydig ddyddiau, ac yna yn ein diosg ni i wisgo un newydd; ond y mae Efe yn ei gwisgo hi ei Hun fel dilledyn, ac ymhen ychydig amser fe'i diosg hi, fel y mae hithau yn ein diosg ninau yn awr. A phan fydd hi fel dilledyn wedi treulio allan, priodol fydd dywedyd wrtho Ef y pryd hyny,—"Dy flynyddoedd ni phallant." "Efe yw y Graig:" tipyn o gwmwl o amgylch ei chopa hi ydyw y nefoedd: ychydig darth o amgylch ei gwaelodion hi ydyw y ddaear. Nid yw y cerubiaid a'r seraphiaid ddim ond ychydig dònau sydd yn myned a dychwelyd o gylch ei throed hi. Ymhen ychydig eto, bydd y cwmwl sydd o amgylch ei phen hi wedi diflanu, a'r tarth sydd o amgylch ei gwaelodion hi wedi ei yfed i fyny gan yr Haul: y tònau sydd yn chwareu o gylch ei throed hi wedi newid llawer ar eu ffurf ragor ydynt yn awr; ond ni effeithia hyn ddim ar y Graig. "Tydi yr un ydwyt."

Y mae pob priodoledd hefyd sydd yn ei natur ef yn adsain y geiriau, ac felly yn profi fod "cyfnewidiad neu gysgod tröedigaeth" yn anmhosibl iddo. Ni all cyfnewidiad gymeryd lle mewn meddwl, mwy nag mewn defnydd, heb i rywbeth ei achosi. Pan y mae creadur yn newid ei fwriadau, y mae hyny yn bod am iddo gael goleuni newydd arno ei hun, neu ar rai o'r pethau yr oedd wedi bwriadu yn eu cylch; ond y mae Iesu Grist yn holl-bresenol, ac yn holl-wybodol; am hyny nis gall gael yr un meddwl newydd yn dragywydd. Pe buasai meddwl newydd yn bosibl iddo, gallasai bwriad newydd dd'od yn gysylltiedig âg ef, ac i hwnw, feallai, fyned yn erbyn rhyw fwriad blaenorol; ond y mae ei fod Ef o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb,—yn ei breswylio,—nad oes yr un gongl o hono nad yw Efe yno,—a bod mil o flynyddoedd iddo Ef fel un dydd, ac un dydd fel mil o flynyddoedd,—yn peri fod pob peth tragywyddoldeb yn hollol hysbys iddo ef. Yr ydym ni yn preswylio mewn ychydig iawn o le: enw yr ychydig hyny, yn iaith y

Beibl, yw "yr awr hon." Y mae y ddiweddaf wedi myned heibio,—y mae hon yn myned,—a'r nesaf yn dyfod; ond "yr awr hon" ydyw tragwyddoldeb oll iddo Ef; oblegid hyn y mae yn eglur nad all dim newydd ddyfod i'w feddwl Ef byth. Yr oedd y cynllun yn ei feddwl cyn dechreu gweithio;—y cwbl 'wedi eu hysgrifenu yn ei lyfr Ef, pan nad oedd yr un o honynt' mewn un man arall. Ac y mae yr oll yn dyfod, fel y mae yn ysgrifenedig 'yn rhol y llyfr' am danynt; fel na chyfarfu Efe â dim y gallesid dywedyd am dano,—"Dyma beth newydd." Na, fe wyddai, wrth dynu hyd a lled Gethsemane yn y llyfr, mai yn yr ardd hono y byddai ei chwys Ef fel dafnau o waed yn syrthio i'r llawr. Fe wyddai, wrth estyn gwreiddiau y pren hwnw yn nyffryn Saron, mai ar hwnw y croeshoelid Ef ei Hun. Fe wyddai, pan osododd Efe y wythïen haiarn hono yn ochr mynydd Lebanon, wrth sylfaenu y ddaear, mai y defnydd a wneid â rhan o honi fyddai ei hoelio Ef ei Hun wrth bren. Fe wyddai, wrth roddi cywreinrwydd i Tubal-Cain i weithio prês a haiarn, mai y defnydd a wnai un o'i blant ef o'r cywreinrwydd hwnw, fyddai i lunio gwaewffon i drywanu ei ystlys Ef ei Hun. Ei iaith cyn cychwyn oedd, "Wele fi yn dyfod, fel y mae yn ysgrifenedig yn rhol y llyfr am danaf." Y mae y ffyrdd yr wyf yn myned i'w rhodio o fewn fy nghalon erioed. Yr oedd Paul yn rhwym yn yr ysbryd i Jerusalem, heb wybod beth a ddigwyddai iddo yno; ond yr oedd Efe yn rhwym yn yr ysbryd i'r ddaear, a'r ffyrdd yr oedd i'w rhodio bob un yn ei galon cyn dyfod; am hyny gwyddai beth a ddigwyddai iddo.

Nis gwyddom ni ond ychydig am natur gwybodaeth Jehofah: a dylai hyny ein gwneuthur yn hwyrfrydig i son nemawr am dani. Y mae math o wybodaeth genym ni, sef y wybodaeth o ddioddefiadau nad allwn ei chael ond trwy brofiad. Nis gall y Jehofah mawr ddioddef; eto dywedir ei fod yn gwybod oddiwrth ddoluriau ei bobl. Ond rhag i neb feddwl y gallasai ystad gyfryngol Iesu Grist ddwyn rhywbeth newydd iddo, ag yr oedd anmhosibilrwydd natur iddo ei wybod o'r blaen, y mae yn gysur i ni wybod, mai ar ol i'r holl ddioddef fyned heibio y llefarwyd y testyn. Y mae amgylchiadau newyddion yn rhoddi bwriadau newyddion i ddynion yn fynych; ond er ein bod wedi gweled fod hyn yn anmhosibl i Iesu Grist fel Duw, ni a edrychwn arno am

foment fel dyn, heb sylwi ar y pryd fod y Duwdod ynddo yn trigo, am y bydd hyny yn fantais ychwanegol i ni ganfod cadernid y Graig. Ac un o'r pethau sydd yn newid dynion ydyw,—

(1). Amgylchiad o ddarostyngiad ac o ddioddef. "Pe gorfyddai i mi farw," meddai Pedr, "ni'th wadaf ddim;" ond er cryfed y penderfyniad, pan ddaeth cysgod angau i dremio yn ei wyneb, fe dyngodd, ac fe regodd, nad adwaenai mo hono. Yr oedd bryd yr Israeliaid ar fyned i wlad yr addewid; ond ni arweiniwyd hwynt drwy wlad yPhilistiaid rhag iddynt pan welent ryfel, edifarhau, a newid eu bwriad, a mynu dychwelyd i'r Aipht. A phe buasai yr amgylchiad o ddioddef yn newid Iesu Grist, ar y groes y buasai y cyfryw gyfnewidiad yn cymeryd lle. Yr oedd Pedr pan yn y llong wedi penderfynu rhodio ar y môr; ond gydag iddo ddechreu profi beth oedd hyny, bu edifar ganddo am y bwriad, oblegid yr oedd y gwynt yn gryf iawn, a'r tonau yn ofnadwy o fawr. Ond ni ddarfu iddo Ef, fel Pedr, edifarhau am y bwriad: "Efe yn caru yr eiddo y rhai oedd yn y byd, a'u carodd hwynt hyd y diwedd." Ymdywalltodd y dyfroedd yn rhaiadrau arno am oriau; ond yr oedd y dwfr mor bell oddiwrth foddi ei gariad ef, nes yr oedd yn effeithio arno fel olew, i beri iddo fflamio yn fwy. Yr oedd y corwynt, yn lle chwalu y marwor, yn hytrach yn dangos ei fod yn ofnadwy o danllyd, ac yn peri fod fflam angerddol iddo. Nid oedd gorchfygu byddinoedd y Philistiaid ddim yn ddigon ganddo i gael llwybr rhydd at hen bydew Bethlehem; ond yn mawredd ei nerth, daeth â chelyrnaid o'r dwfr oddiyno i dori, am dragywyddoldeb, syched y lleidr oedd yn ei ymyl. Cyfnewidiodd Pedr yn y dioddefiadau, ac mi feddyliwn ei fod yn ofni bod yr un peth wedi digwydd i'w Arglwydd; ond gofalodd yr Arglwydd hwnw, foreu ei adgyfodiad adgoffa ystyr y testyn iddo,—"Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd." "Dywedwch i'w ddisgyblion Ef ac i Pedr."

2. Un arall o'r amgylchiadau sydd yn newid dynion ydyw ystâd o ddyrchafiad. Yr oedd Hazael yn meddu ar deimladau dyn, nes iddo fyned yn frenin. Yr oedd y pen-trulliad yn addaw cofio Joseph pan yn gyd stâd âg ef yn y carchâr; ond pan ddyrchafwyd ei ben, fe'i hangofiodd. Yr oedd Iesu Grist yn meddu gogoniant gyda'r Tad cyn bod y byd; ond fe dybir

fod y gogoniant cyfryngol yn rhywbeth tra gwahanol i hwnw,—yn rhyw dra dyrchafu,—yn enw goruwch pob enw. Y mae e ben uwch law pen pawb; ond ni effeithiodd dyrchafiad ei ben ddim ar deimlad y galon. Y prawf o hyny ydyw, ei iaith wedi myned i'r orsedd:—"Saul, Saul, paham yr wyt yn fy erlid i?" Ni ddarfu iddo, fel y pen-trulliad, anghofio Joseph oedd yn y carchar. Yn awr yr ydym wedi ei weled "ddoe" fel Duw, "heddyw," yn ei ystâd o ddarostyngiad; "yn dragywydd," yn y gogoniant ar ol hyny; ac y mae yr un geiriau yn briodol i'w cymhwyso ato ymhob amgylchiad:—"Tydi yr un ydwyt." Y mae yn anghyfnewidiol yn ystyr eangaf a manylaf y gair. Ni chä olwg newydd arnat byth; am hyny ni chä feddwl newydd byth yn dy gylch di. Yr hwn sydd yn ei fynwes heddyw a fydd yno yn dragywydd; a meddwl o heddyw hwnw. Ond diben yr apostol (a'r un peth yw ein diben ninau) yn dwyn ymlaen fawredd ac anghyfnewidioldeb ei Berson, oedd i osod sail i brofi ei fod yn anghyfnewidiol yn ei swydd hefyd. Nid yw anghyfnewidioldeb ei Berson ddim yn profi y pery ei holl weithredoedd; oblegid y mae efe ei Hun yn tystio na wnant. Ond y mae anghyfnewidioldeb ei Berson yn profi nad oes atalfa ynddo Ef ei Hun, i'r cwbl a ewyllysia efe i barhau, wneyd hyny. Gan hyny y mae yn anhebgorol i anghyfnewidioldeb ei swydd. Wedi canfod ei allu, nid oes dim yn eisieu ond cael amlygiad o'i ewyllys. "Byth y byddaf arglwyddes," meddai Babilon: yr oedd byth yn yr ewyllys, ond nid yn y gallu; am hyny i lawr yr aeth hi. Yr ydym wedi gweled fod byth yn y gallu, ac ni a symudwn ymlaen i geisio dangos ei fod yn yr ewyllys hefyd;—fod yr anghyfnewidioldeb sydd yn y person yn perthyn i'r swyddau, gan ei fod yn aros yn dragywydd. Y mae offeiriadaeth dragywyddol ganddo. Y mae hyn yn ein harwain ni—

2. I edrych ar ei anghyfnewidioldeb yn ei swydd fel Cyfryngwr. A chan mai yr offeiriadol yn benaf, os nad yn unig, a olygir yn yr epistol hwn, priodol fyddai i ni gyfyngu ein sylw at hono yn unig. Nid am nad yw yr un mor anghyfnewidiol fel Prophwyd a Brenin ag ydyw fel Offeiriad; ond y mae rhyw neillduolrwydd yn perthyn i'w swydd offeiriadol. I hon yr oedd y caledwaith yn perthyn, trwy gyflawni yr hwn yr agorodd y

ffordd i gael gweinyddu y swyddau eraill. A gall fod gweinyddiad y swydd hon yn amlycach yma nag y bydd hi wedi i'r eglwys gael ei pherffeithio; nid y diosga Efe yn dragywydd ei gwisgoedd hi, fel y gwnaeth Aaron; ond feallai na bydd yn angenrheidiol iddo weinyddu y swydd fel yma; oblegid y mae rhyw ystyr i eiriau felly, y bydd y deyrnas yn cael ei chyflwyno i fyny "i Dduw a'r Tad" (1 Cor. xv. 24). Yma bydd farw pob un a nesäo i dabernacl yr Arglwydd heblaw yr offeiriad; am hyny trwyddo Ef yr ydym beunydd yn offrymu aberth moliant i Dduw. Ond teml ni welwyd yn y nef; hyny yw, dim rhyw le neillduedig i'r presenoldeb dwyfol; a chan nad oes yno deml, gall na bydd eisiau offeiriad rhwng yr eglwys â Duw fel yma. Ond beth bynag am hynyna, fel Offeiriad y mae a fynom ni âg Ef yn benaf ar y ddaear; am hyny at ei anghyfnewidiol-deb yn y swydd hon y galwn ni sylw yn awr. Yr oedd tri pheth a berthynant i'r offeiriad, yr edrychwn arnynt yn Iesu Grist, ac y mae yn parhau "yr un" ynddynt.

1. Yr oedd yn rhaid fod gan yr offeiriad gymhwysderau personol i'w swydd, ac y mae Iesu Grist yn parhau yr un yn ei holl gymhwysderau.

2. Yr oedd yn rhaid fod ganddo yr hyn a aberthai, ac y mae Iesu Grist yn rhinweddau ei aberth yn parhau yr un.

3. Yr oedd yn perthyn i'r offeiriad, ar sail yr aberth, eiriol; ac y mae Iesu Grist yn llwyddiant ei eiriolaeth yn parhau yr un.

1. *Y mae yr un yn ei gymhwysderau swyddol.* Ni chawn enwi ond yr ychydig sydd yn cael eu nodi yn y llyfr hwn, y rhai ydynt, ei fod yn ddiddrwg, yn ddihalog, yn ddidoledig oddiwrth bechaduriaid; ond gall fod y rhai yna yn dal perthynas mwy uniongyrchol â Duw nag â ni. Y cymhwysderau swyddol sydd yn dal perthynas arbenig â ni ydynt, ei fod yn gyffelyb i'w frodyr,—wedi dioddef fel hwynt,—wedi ei demtio yr un ffunud a hwythau, fel y dichon Efe gynorthwyo y rhai a demtir;—wedi ei amgylchu â gwendid, fel y dichon dosturio wrth y rhai sydd mewn anwybodaeth. Yr oedd yn rhaid cael yr holl bethau hyn ynddo, fel y byddai drugarog. Ac yr ydym yn sicr o fod yn ein difuddio ein hunain o lawer o gysur crefydd, o eisiau sylweddoli i'n meddwl fod Iesu Grist yn hyn oll heddyw. Wrth feddwl am Grist wedi ei ogoneddu, onid ydym

yn rhy dueddol i'w roddi mewn pellder anfesurol oddiwrthym ni sydd yn dioddef? Y mae yn wir ei fod ef uwchlaw cael ei demtio byth mwy; ond y mae Efe mor abl, ac mor barod, heddyw i gynorthwyo y rhai a demtir ag oedd Efe y foment y daeth efe allan o demtasiwn yr anialwch ei Hun. Nid ydym yn deall pa sut y gall hyny fod; ond gan fod y Beibl yn ei ddywedyd, ni a'i credwn ef heb ei ddeall. Yr oedd yr offeiriad ar ryw olwg yn berson i'w ofni;—yr oedd ei swydd yn gosod mawredd goruwch dynol arno. Yr oedd efe yn myned gerbron Duw, ac yn dyfod yn ol yn fyw; pan y buasai farw pawb eraill a fuasent yn anturio yr un peth. Yr oedd tynged y bobl megis yn ei law ef. Yr oedd tuedd yn hyn i beri i ryw bellder mawr fagu rhwng y bobl âg ef; ond yr oedd y gwendidau a'r dioddefiadau oeddent yn perthyn i natur yr offeiriad, yn llanw y gagendor a wnai y swydd rhyngddo ef â'r bobl, ac yn peri iddynt hwy deimlo wedi yr oll, mai un o honynt hwy oedd yr offeiriad; felly nid oedd ofnadwyaeth y swydd ddim yn eu hatal i ddyfod ato i draethu iddo eu holl galon. Un o'r dibenion oedd i wendidau Iesu Grist oedd, i atal i ofnadwyaeth ei Berson a'i swydd wneuthur gormod gagendor rhyngom ni âg ef, ac felly peri fod yn anhawdd genym fyned ato. Oni fuoch chwi yn meddwl y buasai yn hawdd genych fyned ato pe buasech chwi ar y ddaear pan oedd Efe yma, oblegid yr oedd mor addfwyn a gostyngedig o galon? Ond wedi iddo newid ei sefyllfa, yr ydych yn teimlo ei fod yn bellach o lawer oddiwrthych, ac felly yn anhaws myned ato. Eithr, erbyn sylwi, y mae meddwl fel yna yn gwadu ei anghyfnewidioldeb. Nid oes dim newydd y mae wedi ei gael, wedi cymeryd yr un o'r hen bethau oddiarno. Ni ddarfu i goron gogoniant ddim dileu ôl y goron ddrain. Nid yw teyrnwialen yr ymerodraeth ddim yn atal gweled y fan y bu yr hoelion. Y mae yn Oen megis wedi ei ladd yn nghanol yr orsedd, fel ar y groes; am hyny beth bynag oedd Iesu Grist ddoe, y mae yr un heddyw. Ddoe yr oedd rhyw Un yn tosturio wrth y dyrfa rhag iddynt fyned ymaith ar eu cythlwng: Iesu Grist oedd hwnw;—yn cymeryd plant bychain yn ei freichiau i foddhau eu mamau: Iesu Grist oedd hwnw;—yn dywedyd wrth y bechadures,—" Nid wyf fi yn dy gondemnio di," pan oedd pawb yn gwneyd hyny: Iesu Grist oedd hwnw;—yn trugarhau wrth

y weddw oedd yn claddu ei mab, heb i neb ofyn hyny iddo: Iesu Grist oedd hwnw;—yn wylo gydâ dwy chwaer uwchben bedd eu brawd: Iesu Grist oedd hwnw;—yn gwneuthur esgus dros y cysgaduriaid oeddent yn methu gwylio un awr gydag Ef: Iesu Grist oedd hwnw;—yn tosturio wrth ferched Jerusalem, pan yn y dioddefiadau mwyaf arteithiol ei Hun,—yn gweddio dros ei boenydwyr,—yn gofalu am ei fam, pan yn safn angau: Iesu Grist oedd hwnw. Wel, "Iesu Grist ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd." Bu llawer offeiriad enwog o dan y gyfraith, megis Aaron, Jehoiadah, Ezra, Jeremiah, ac Ezeciel; ond yr oedd marwolaeth yn lluddias iddynt barhau. Bu Iesu Grist farw; ac er ei bod hi yn eglur na ddygwn *ni* ddim gydâ ni wrth farw, a pha degwch bynag fydd arnom, fe dderfydd yn y bedd ein cartref; ond er cyfynged oedd porth angau i Iesu Grist, fe ddygodd gymaint ag a feddai drwyddo gydag Ef i'r ochr draw. Ni ddarfyddodd dim o'i degwch Ef yn y bedd. Nid rhyw flodeuyn y glaswelltyn ydoedd: y mae hwnw yn hardd am ddiwrnod;—nid oes un yn yr ardd yn gyffelyb iddo, ond y mae y nos gyntaf yn dragywyddol iddo. Ond yr oedd Rhosyn Saron, ar ol tywyllwch ac ystorm y noson ofnadwy hono, yn agor lawn mor hardd a chyn myned iddi. Ni ddarfyddodd ei degwch Ef yn y bedd. Yr oedd yr un tynerwch yn ei lais wedi dyfod i fyny ag oedd ynddo cyn myned i lawr. Gallai fod ei wedd wedi newid ychydig. Yr oedd y wraig hono yn methu ei adwaen wrth edrych arno; ond dim ond iddo droi, a dywedyd wrthi,—"Mair," yn y dull mwynaidd y byddai yn arfer seinio yr enw, y mae hi yn ei adwaen Ef mewn moment. Yr oedd yr offeiriadaeth Iuddewig wedi myned yn isel iawn tua diwedd yr oruchwyliaeth;—yr archoffeiriad yn cael ei newid bob blwyddyn, ac os digwyddai i un lled dda gael y swydd, ni byddai ynddi ond am flwyddyn; a diau y byddai hyny yn boen nid bychan i'r "Israeliaid yn wir" oedd yn y tir. Yr oedd cymeriad yr offeiriad yn peri iddo ef ofni yn aml rhag y byddai yn aflwyddianus i wneyd cymod dros y bobl. Edrychai yn ol ar ambell flwyddyn lwyddianus arnynt fel cenedl, a rhoddai reswm am hyny trwy ddywedyd,—"Hwn a hwn oedd yr offeiriad y flwyddyn hono, ond y mae yn bur amheus pa sut y bydd hi yma eleni, oblegid archoffeiriad

canolig iawn sy genym." Felly y gall 'Israeliaid yn wir' eto edrych yn ol ar ambell flwyddyn led enwog ar yr eglwys, megis blwyddyn y Pentecost, pan ychwanegwyd miloedd ati yn yr un dydd ;—llawer blwyddyn o ddiwygiadau, pan oedd cenedl megis yn cael ei geni ar unwaith ;—a rhoddi cyfrif am hyny trwy ddywedyd, Nid ydyw y pethau hyn, erbyn ystyried, ddim yn rhyfedd, oblegid Iesu Grist "oedd yr offeiriad y flwyddyn hono." Ond ni ddylai dim sydd yn arwyddion yr amseroedd eleni eto beri i ti ddigaloni, oblegid yr un ydyw yr Offeiriad y flwyddyn hon hefyd. "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd."

2. *Y mae yr un yn rhinweddau ei aberth.* Yr ydym yn sicr i rinwedd fod yn yr aberth unwaith, oblegid pan ddywedodd Efe,—"Gorphenwyd," adseiniodd y nefoedd,—"Boddlonwyd." Ac wedi iddo fyned i mewn i'r cysegr, eisteddodd ar ddeheulaw Duw, yr hyn ni wnaeth yr un offeiriad Iuddewig erioed. Gydag y byddai efe wedi taenellu gwaed yr aberth gerbron Duw, byddai raid iddo frysio allan i chwilio am aberth wed'yn ; ac os digwyddai iddo aros am ychydig yn y cysegr, fel y gwnaeth Zacharïas, byddai y bobl yn rhyfeddu ei fod yn aros cyhyd, ac yn dechreu ofni ei fod wedi ei ladd ; ac un o ddibenion y clychau aur, oeddent wrth odreu ei wisgoedd, oeddi roddi arwydd iddynt ei fod yn fyw yn y cysegr. Ond am Hwn, wedi iddo fyned i mewn i'r cysegr, ni ddaeth allan drachefn; ac nid ydym yn rhyfeddu ei fod yn aros cyhyd yno, oblegid y mae wedi cael i ni dragywyddol ryddhâd. Ac nid oes genym amheuaeth nad ydyw yn fyw yno, canys y mae sŵn y clychau i'w clywed. Pa beth ydyw anfoniad yr Ysbryd? Onid sain y clychau yn profi bod yr Offeiriad yn fyw? Y mae rhinwedd yn yr aberth,—a pha dafod a all draethu ei faint? Rhinwedd yr aberth ydyw bywyd y nef, a goleuni y ddaear. Yr aberth a brynodd Ganaan, ac a ddarparodd holl angenrheidiau yr anialwch. Y mae pendefigion y nefoedd yn gweled Duw, ac yn bwyta ac yn yfed ar ei fynydd ger ei fron yn eithaf diogel, am eu bod yn nghysgod yr aberth. Y mae yr eglwys sydd i lawr yn nyffryn y ddaear mor ddiogel a hwythau yn nghysgod yr aberth. Byddai i'r aberth golli ei rinwedd yr un peth ag a fyddai i ddeddf sugndyniad, sydd yn cadw y bydoedd yna i droi, gael ei difodi. Beth

a ddeuai o'n daear fach ni ymysg y bydoedd anferth yna? Oni chai hi ei malu yn chwilfriw gan rai o honynt? Byddai y chwalfa a gymerai le mewn moment yn un ofnadwy; ond ni byddai hyny yn ddim yn ymyl y chwalfa ysbrydol a gymerai le pe collai yr aberth ei rinwedd. Nid am haner awr yn unig y byddai distawrwydd yn y nef: fe'i gwisgid hi oll â sachlen flew;—fe wylai yr angylion yn hidl wrth golli hoff destyn eu cân. Cychwynai yr eglwys sydd yno tua'r caethiwed, heb gymeryd un delyn gydâ hi. Cymerodd delyn gydâ hi wrth gychwyn i Babilon, oblegid yr oedd hi yn gweled tranoeth teg i wawrio ar ol y deng mlynedd a thriugain; a byddai hithau ar ganol wylo yn taraw ati i ganu weithiau wrth gofio am y boreu; ond pe collai yr aberth ei rinwedd, ofer disgwyl boreu gwaredigaeth mwy, a byddai profiad yr hen Williams yn brofiad pob Cristion ar y ddaear:—

> "Pe unwaith y darfyddai awdurdod Calfari,
> Darfyddai pob cysuron ar unwaith genyf fi;
> O bawb yn sicr byddwn y truenusaf ddyn.
> Fe lyncai 'r bedd dychrynllyd fi 'n fuan iddo 'i hun."

Ond ni raid i ni ofni y fath beth; a phe byddai raid i ni wrth sicrwydd ychwanegol, y mae e genym: oblegid fe'i gwelodd Ioan Ef yn nghanol yr orseddfainc. Yr oedd llawer iawn o bethau ganddo, ac o'i amgylch, nad oeddynt ganddo ar y ddaear. Yr oedd 'ganddo saith gorn, a saith lygad, y rhai ydynt saith ysbryd Duw.' Yr oedd yno gerubiaid, angylion, a henuriaid, yn rhoi eu coronau yn gylchoedd o'i amgylch; ac y mae yn amheus a fuasai Ioan yn ei adwaen, oni buasai fod un peth ynddo yr un fath ag ar y ddaear: "Oen megis wedi ei ladd" oedd yno. Y mae rhinweddau yr aberth yma. Nid ydyw nen y nefoedd ddim wedi peidio ag adsain,—"Boddlonwyd." Y mae y cysegr fry y foment hon yn llawn o fwg yr arogldarth peraidd. Nid ydyw y gwaed ddim wedi dechreu heneiddio ar y drugareddfa. Byddai yr offeiriad ar ddydd gwyl y cymod yn llanw y cysegr âg arogldarth, ac yn taenellu gwaed ar y drugareddfa; ond byddai yr arogldarth yn darfod yn hir cyn pen y flwyddyn, a'r gwaed yn heneiddio; ond y mae y cysegr fry mor llawn o'r arogldarth a'r foment y cymerodd yr

Offeiriad y thuser i mewn yno. Nid yw y gwaed sydd yn gwneuthur cymod dros yr enaid wedi heneiddio dim ar y drugareddfa : "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd."

Y mae yr haul naturiol yn fywyd y byd ; ond y mae rhai o'r philosophyddion yna yn ofni y treulia efe ei hun allan, oblegid mai mân ronynau o hono ef ei hun yw y goleuni sydd yn dyfod o hono ; a chan ei fod yn lluchio cymaint o honynt mor ddiball, y maent hwy yn meddwl fod perygl iddo luchio y cwbl. Ond y mae genym ni "Haul Cyfiawnder,"—Iesu Grist yn rhinweddau ei aberth,—er ei fod yn lluchio diluw o oleuni o hono ei Hun bob moment, ac wedi gwneuthur hyny am filoedd o flynyddoedd, y mae yr un heddyw eto. A pheth mwy a ddywedwn ? Bydd felly yn dragywydd : "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd."

Y mae rhai yn methu gwybod beth a ddaw o'r ddaear yma ymhen canoedd o flynyddoedd eto. Y mae Prydain yn awr yn methu cynal ei thrigolion ; ond y mae America, Awstralia, ac Affrica, yn agor eu breichiau i'w derbyn. Ond beth a fydd wedi i'r lleoedd hyny fyned mor llawn a'r wlad hon ? Ni wn i ddim ; ond mi wn hyn, er bod meibion a merched Sïon i amlhau megis sêr y nef, fel na bydd gwiw i'r un Joab geisio eu rhifo, fe bery eu dinas hwynt i fod yn Bethlehem *(tŷ bara)*, am dragywyddoldeb, fel na welir yr un *colony* yn ymadael ; oblegid y mae rhinweddau yr aberth yn parhau yr un. Os bu Efe yn eich rhyddhau chwi unwaith, fe wna hyny eto. Nid yw fel meddyginiaethau y ddaear : y mae cynefindra â'r rhai hyny yn peri iddynt golli eu dylanwad ar y cyfansoddiad. Ond os bu yr aberth yn tangnefeddu y gydwybod unwaith, gall wneuthur hyny eto. Os bu yn gwresogi y serch unwaith, gall wneuthur hyny eto ; os bu yn plygu yr ewyllys unwaith, y mae rhinwedd ynddo eto i wneuthur yr un peth. Chwithau sydd heb bwyso eto ar yr aberth, ac ydych yn ofni fod eich pechodau yn rhy aml i'w symud ganddo, chwiliwch lyfr Duw, darllenwch hanes ei saint Ef, i edrych a ganfyddwch chwi neb tebyg i chwi wedi dianc trwyddo. Y mae hanes rhai o bob math wedi dianc ;—trigolion cableddus Jerusalem,—pechaduriaid aflan Corinth,—eilunaddolwyr ffiaidd Ephesus,—y Groegiaid beilch-

ion, a'r Iuddewon rhagfarnllyd : ïe, y mae yma un wedi ysgrifenu ei gymeradwyaeth iddo, wrth ei gymell, trwy ddywedyd ei fod ef, y penaf, wedi dianc. Wel, "y mae Efe yn aros yn ffyddlawn ;" y mae yr un rhinwedd ynddo eto.

3. *Y mae yr un yn llwyddiant ei eiriolaeth.* Yr oedd ar Abraham ofn gofyn lawer gwaith, rhag digio ei Arglwydd ; ond gall Efe ofyn i dragywyddoldeb, heb ofn ei ddigio. Gan "iddo ddwyn pechodau llaweroedd, Efe a eiriolodd dros y troseddwyr." Y mae ganddo ddigon yn y Banc i dynu arno yn dragywydd mwy. Yr oedd Moses, Samuel, Noah, Daniel, a Job, yn eiriolwyr llwyddianus iawn ; ond ni a gawn yr Arglwydd yn tyngu, pe safent ger ei fron na byddai ei serch ar Israel, ac na achubent ond eu henaid eu hun yn unig o afael y farn. Ond ni raid i Iesu Grist ond agor ei enau trosot, na thwng y Tad yn y fan, y rhydd Efe iddo yn ol fel y mae yn ewyllysio. "Myfi a wyddwn dy fod di yn fy ngwrandaw bob amser." "Am hyny, efe a ddichon hefyd yn gwbl iachau y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw, gan ei fod ef yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy."

Ond gwell i mi ofyn cyn myned yn mhellach, Beth a debygwch chwi am Grist ? Chwi a welsoch ei fod mor sefydlog a'r graig,—mor brydferth a dyffryn Saron ;—anghyfnewidioldeb Jehofa wedi ei wisgo â holl hawddgarwch creadur ynddo. Yr ydym ni fel yr eiddew,—y mae yn rhaid i ni gael rhywbeth i ymnyddu o'i amgylch ; Beth a debygwch chwi am y dderwen hon ? Yr ydym fel y plant yn brysur yn casglu blodau ; ond y maent yn gwywo yn ein dwylaw ni ;—beth debygwch chwi am wneyd y bwysi i fyny o'r Myrr a'r Rhosyn Saron hwn ? Yr ydych oll yn ymofyn am gyfaill ; ond beth debygwch chwi am gael un sydd â'i lygaid yn gweled trwy dragywyddoldeb ? Nid all dim eich cyfarfod heb iddo Ef ei ganfod ;—sydd â hollalluogrwydd yn gorphwys yn ei fraich ? nid all yr un anffawd ddigwydd i chwi o ddiffyg gallu ynddo ; sydd yn ddigon doeth i ddadrys holl ystrywiau pyrth uffern, ac yn goron ar yr oll, "sy ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd."

II. Y defnydd sydd i'w wneuthur o'r gwirionedd hwn. Os rheswm am yr adnod flaenorol yw y testyn, am hyny gan fod Iesu Grist yr un :—

1. Nid yw o bwys mawr i ni pwy sydd yn newid. Yr un un yw pen y deyrnas hon er's blynyddoedd ; ond y mae gweinidogion y llywodraeth yn newid yn fynych, ac y mae pob newidiad yn bwysig i ni, am mai hwy mewn gwirionedd ydyw y llywodraethwyr. Nid felly yr oedd hi yn nyddiau Cromwell ; —efe ei hun oedd y llywodraeth tra y bu fyw, a phan y bu ef farw, aeth y cwbl i lawr gydag ef. Felly yn nheyrnas Iesu Grist,—y mae y llywodraeth oll yn gynwysedig yn ei Phen hi. Nid oes dim gweinyddiaeth neu weinidogion llywodraeth yn cymeryd mwy o law na'r pen ; yn perthyn iddi hi. Felly, gan fod y Pen yr un, nid yw colli neb yn golli "cerbyd Israel a'i farchogion." Ni a alarwn ar ol y blaenoriaid sydd wedi traethu i ni air Duw ;—ni a geisiwn ddilyn ôl eu traed hwynt ; ond ni anobeithiwn ni ddim am yr arch, er bod Hophni a Phinees a fuant gyda hi wedi marw, am fod ei Duw hi yr un. Gall Efe beri i'r hyn yr oeddem ni yn ei ofni a fyddai yn gwymp i'r arch, fod yn fantais i ddangos ei mawredd hi i'r Philistiaid dienwaededig ;—dangos ei bod hi yn ddigon trech na'u Dagon hwynt, heb yr un offeiriad i gyflawni y gwasanaeth arferedig ger ei bron hi. Dyryswyd a chwalwyd aml deyrnas oblegid colli dim ond un. Pe buasai Nebuchodonosor yn fyw, ni buasai Cyrus y Persiad yn gorchfygu Babilon. Pan fu farw Alexander, chwalwyd ei ymerodraeth fawr ef. Fe gollodd Israel lawer brenin enwog, ond ni ddifethwyd mo honynt er hyny ; ond y paham oedd,—"Myfi yr Arglwydd ni'm newidir ; am hyny ni ddifethwyd chwi, meibion Jacob." Yr oedd yr haul a'r lleuad, a llu aneirif sêr y nen, cyn cael allan y cwmpas, yn werthfawr iawn i'r morwr ; ond nis gallai ymddibynu ar yr un o honynt i'w gyfeirio i'r porthladd, am nad oeddent bob amser yn yr un fan ; ond yr oedd yno un seren fechan nad oedd byth yn newid, na byth yn machlud. Yr oedd llawer corff mwy disglaer na hi yn y ffurfafen ; ond yr oedd ei sefydlogrwydd hi yn ei gwneuthur yn fwy gwerthfawr na hwynt oll. Y mae llawer seren danbaid wedi bod yn ffurfafen yr eglwys, ac ambell gomet ddisglaer ; ond erbyn myned i edrych am danynt ymhen ychydig amser, byddant wedi machlud tuhwnt i fryniau tragywyddoldeb. Ond y mae yna un "seren foreu eglur" nad "oes gyfnewidiad na chysgod troedigaeth" yn perthyn iddi.

Ni raid i ti ddim dyrysu pe machludent oll, oblegid y mae "Iesu Grist yr un ddoe a heddyw, ac yn dragywydd." A gellid tybio fod yr Arglwydd wedi trefnu pethau yn fanteisiol i ni beidio â'r dyn, a theimlo ymddibyniad yn unig ar Iesu Grist; oblegid y mae y blaenoriaid yn marw, a rhyw waith yr oeddent wrtho heb ei orphen. Pe buasent yn ei orphen, buasai tuedd ynom ni i feddwl mai hwy a'i gwnaeth, ac nid Iesu Grist. Bu farw Moses, ac Israel eto yn yr anialwch; bu farw Joshua, eto a'r Canaaneaid yn y tir; bu farw Dafydd, a sylfeini y deml eto heb eu tori; ond fe gyrhaeddodd Israel wlad yr addewid, er bod Moses yn rhosydd Moab;—fe ddarostyngwyd y Canaaneaid yn y tir, er nad oedd Joshua yn parhau yn Dywysog y llu;—fe adeiladwyd y deml, er bod Dafydd wedi ei gasglu at ei dadau. Nid oedd o bwys pwy oedd yn newid, gan fod Iesu Grist yr un.

2. Gan ei fod Ef yr un, byddwn fyw mwy arno. Hyn ydyw yr unig beth sydd yn enill cymeriad i'r ddaear: buasai yn lle ofnadwy i fod ynddi heb hyn: oblegid y mae siomedigaeth yn gerfiedig ar ei phob peth hi. Y mae siomiant yn ei phleserau hi. Y mae pawb yn y diwedd yn gorfod gofyn gydâ'r Pregethwr am eu llawenydd hwynt,—"Beth a wna?" Y mae siomiant yn ei chyfoeth hi; oblegid "y neb a garo arian, ni ddigonir âg arian." Y mae y gyfeillach buraf sydd ynddi yn siomedig, am fod angau yn atal iddi barhau. Nid yw yr holl feddau yna ddim ond cofarwyddion siomedigaeth; ac wrth edrych yn ol am ddim ond ugain mlynedd, O! y fath rês o honynt sydd yn ymyl ein llwybrau ni i gyd. Draw yn y pellder y mae ogof Machpelah, yn yr hon y mae dy holl dadau di yn huno. Ychydig yn nes y mae derwen Bethlehem, o dan wreiddiau yr hon y ma Rahel dy wraig di yn gorwedd. Yn nes eto y mae yna garnedd yn dangos fod Absalom dy fab di wedi marw, fel y byddai farw un o'r ynfydion. Drachefn, y mae yna ryw dwmpath yn arwydd fod y cwbl oedd yn farwol o Jonathan dy gyfaill yn gorwedd odditano. Ychydig ymlaen y mae beddau liaws yn barod eto; ac y mae rhywbeth tebyg i drwst traed yr un a fu yn dwyn dy gyfeillion blaenorol, wrth y drws i ymofyn yr ychydig sy genyt eto; a chyn pen deng mlynedd, fe fydd lle rhyw Dafydd a'i was yn wâg o amgylch eich bwrdd;

a'r siomedigaeth fydd yn argraffedig ar eich gwedd chwi eich hunain, yn ddigon o brawf mai o'ch tŷ chwi y llanwyd rhai o'r beddau agored yna. Ond edrych yn ol, ac edrych ymlaen, bydd y cwbl yn ofer am fedd Iesu Grist: nid yw y man y mae Efe, na'r lle y bydd Efe, ddim i'w ganfod. Na, medd rhyw un, yr ydych yn methu yn awr; mi wn i pa le y mae ei fedd yntau. Na wyddost, na neb mwy na thithau, oblegid ni bu ganddo erioed feddiant beddrod. Y mae yn wir iddo fod mewn bedd am ychydig; ond yr oedd yr adeg yr oedd yn bwriadu bod ynddo mor fèr, fel nad oedd gwiw ganddo geisio un yn eiddo iddo ei hun; benthycio un Joseph a wnaeth; ac os gwyddost ti pa le y mae hwnw, bydd yno ryw angel yn gwaeddi, cyn i ti ddyfod yn agos,—"Paham yr wyt ti yn ceisio y byw ymhlith y meirw?" "Nid arglwyddiaetha marwolaeth arno Ef mwyach." Y mae llawer o honoch yn edrych o'ch cwmpas, ac nid oes dim i chwi yr un fath ag yr oedd er's ugain mlynedd yn ol. Nid yw y byd ddim yr un; y mae yma rai yn ameu a gânt ychydig o fara a dwfr i orphen y daith ynddo. Nid yw yr aelwyd ddim yr un; Joseph nid yw fyw er's talm, a Simeon erbyn hyn nid yw fyw ychwaith, ac y mae Benjamin ar gael ei ddwyn ymaith. Nid yw y gymydogaeth ddim yr un: y mae câr a chyfaill eich ieuenctyd wedi eu gyru ymhell, ac y mae cydnabod eich mebyd yn nhywyllwch y bedd. Nid yw yr eglwys ddim yr un: y mae Moses, gwas Duw, a fu yn eich cychwyn chwi o'r Aipht, wedi marw. Nid ydych chwi eich hunain ddim yr un: y mae naws eich ysbryd chwi wedi newid. Y mae yn ofnus i'ch crefydd heneiddio fel chwithau. A oes yr un graig ansigledig i'w chael, yn nghanol yr holl gyfnewidiadau? Oes:—"Myfi yr Arglwydd ni'm newidir." Ni ddifethir mo honom gan hyny, er y cyfnewidiadau oll. "Iesu Grist yr un."

Os sail anogaeth i'r adnod ddilynol yw y testyn: (1). Gan ei fod Ef yr un, byddwn ffyddlawn iddo. Mabwysiadwn iaith y Salmydd,—"Os anghofiaf yr Iesu, anghofied fy neheulaw ganu: glyned fy nhafod wrth wrth daflod fy ngenau, oni chofiaf di, ac oni chofiaf yr Iesu goruwch fy llawenydd penaf."

2. Gan ei fod yr un, na chydsyniwn â dim, nac â neb, i'w wrthod ef. Na thrown oddiwrth yr hen efengyl at efengyl arall, gan na newidiodd hi ddim. Pe buasai yr hen Gyfryngwr

wedi newid, buasai rhyw reswm yn ngwaith y Pab yn anfon ei genhadon i gynyg cyfryngwyr newydd i ni. Pe buasai yr hen aberth wedi colli ei rinwedd, dylasem fod yn ddiolchgar am yr offeren, neu rywbeth i wneuthur y diffyg i fyny. Gall y rhai sydd, fel Esau, â phrin ddigon ganddynt, fod yn ddiolchgar am dipyn o rywle i wneyd i fyny eu diffygion. Ond yr ydym ni, fel Jacob, â phobpeth genym, am hyny nid oes arnom eisiau rhoddion neb. Byddwn ffyddlawn iddo, a dangoswn hyny drwy ei ddefnyddio. A chyn pen ychydig eto, chwi a fyddwch, fel Pedr ar y môr, wedi colli y llong o dan eich traed, a chwi a suddwch yn dragywydd os na bydd yr Iesu genych. Ni a welwn Job wedi colli ei gyfoeth, ei blant, a'i iechyd; yn edrych ar ei gorff a phryfed yn ei ddifa,—cyntaf-anedig angau yn bwyta ei gryfdwr ; ond wedi colli y cyfan, yr oedd ganddo un peth, a'r un peth hwnw yn bobpeth :—"Mi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw." Bydd pob enaid sydd yma yn gwybod am y rhan gyntaf o brofiad Job cyn pen ychydig ddyddiau ; bydd goleuni byd arall wedi llyncu i fyny ddisgleirdeb pobpeth y byd hwn ;—bydd rhuadau yr Iorddonen yn gwneuthur gagendor mawr rhyngot â'r cyfeillion anwylaf. Bydd yn werth dy fywyd tragywyddol y foment hono i ti allu dywedyd y rhan olaf o brofiad Job :—"Mi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw." Ymddiriedwch ynddo heddyw, ac yna ni frysiwch chwi ddim wrth golli y cyfan, oblegid ni bydd eu colli yn ddim ond mantais i'w gyflawnder Ef ddyfod fel diluw i lanw eich eneidiau byth.

[Ionawr 19, 1851.]

Cyfansoddwyd y bregeth uchod yn adeg y cynwrf mawr oedd yn y deyrnas hon, oblegid gwaith y Pab, dan Cardinal Wiseman, yn ei rhanu yn wahanol esgobaethau, ac yn sefydlu esgobion ynddynt. Eglura hyny y cyfeiriad, yn y Nodiad diweddaf.—GOL.

## PREGETH LXII.

### PERSON CRIST YN DDIOGELWCH RHAG PYRTH UFFERN.

MATTHEW xvi. 18: "Ac yr ydwyf finau yn dywedyd i ti, mai ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys; a phyrth uffern nis gorchfygant hi."

YMAE awydd cryf mewn dyn am gael lle mawr yn meddwl ei gyd-ddynion. Gwaith oes aml un ydyw astudio pa fodd i ymddangos y peth hyn neu y peth arall, er mwyn gwneyd argraff ffafriol iddo ei hun ar feddyliau eraill. Pe gofalai dynion gymaint am fod y peth ag y maent am ymddangos, byddai y byd yn lle tra gwahanol i'r hyn ydyw. Ond yr oedd Iesu Grist yn ddidoledig oddiwrth bechaduriaid yn hyn fel ymhob peth arall: nid yn unig nid oedd yn ymddangos i fod yr hyn nad ydoedd, er mwyn gwneyd argraff ffafriol iddo ei hun ar feddyliau y bobl, ond nid oedd yn gofalu am i'r hyn ydoedd gael ei wybod ganddynt; yn hytrach, ceisiai guddio ei Hun oddiwrthynt. Wedi cyflawni rhai o'i wyrthiau rhyfeddaf, gorchymynai yn gaeth, na chyhoeddid yr hyn a wnaethai i'r byd.

Ond yn yr adran o ba un y darllenwyd y testyn, y mae yr Arglwydd Iesu, mewn ymddangosiad, yn ymddwyn yn wahanol i hyn. Gofynai i'w ddisgyblion, "Pwy y mae dynion yn dywedyd fy mod i, Mab y dyn?" fel pe buasai yn dra awyddus i wybod barn y byd am dano,—yn dra awyddus i wybod a oedd enw iddo ymysg dynion. Ond nid oedd yma ddim gwahaniaeth gwirioneddol ragor pan y gorchymynasai na wnaent ef yn gyhoeddus; oblegid arweiniad i mewn oedd y cwestiwn hwn at yr un dilynol, sef, "Pwy meddwch chwi ydwyf fi?" ac at y

datguddiad o'i farwolaeth, oedd yn awr yn ymyl, a wnaeth i'w ddisgyblion mewn cysylltiad â'r ymddiddan hwn.

Ond cyn dyfod at y testyn, y mae ychydig bethau teilwng o'n sylw yn y cwestiynau a'r atebion hyn.

1. Wrth fod Iesu Grist yn gofyn beth oedd barn y byd, a barn y disgyblion, am dano, ni a welwn *fod syniad cywir am ei Berson Ef* o'r pwys mwyaf, onid ê ni buasai un oedd mor hoff o fod yn guddiedig byth yn gofyn cwestiwn fel hyn. Y mae rhai pethau yn perthyn i grefydd y gellir bod yn gadwedig er na bydd y farn yn eu cylch yn gwbl gywir ; ond y mae anghywirdeb yn y farn am Berson Mab Duw a chanlyniadau marwol iddo, oblegid y mae grym ei eiriau, a theilyngdod ei weithredoedd, yn ymddibynu ar ei Berson. Os na bydd y Person yn ddwyfol yn marn y dyn, ni bydd y farwolaeth ddim amgen na marwolaeth merthyr, na'r geiriau rhyfedd ddim amgen na doethineb dyn flaeledig. Cwestiwn pwysig, gan hyny, i bawb ydyw, —"Pwy meddwch chwi ydwyf fi ?"

2. Ni ofynodd Iesu Grist ddim am farn y byd, a barn y disgyblion, am dano ei Hun, cyn yn gyntaf roddi iddynt bob mantais i ffurfio barn gywir yn ei gylch. Yr oedd ei oes gyhoeddus yn awr bron a therfynu ; ei wyrthiau, ei bregethau, a'i ymddiddanion, yn hysbys drwy yr holl wlad ; ac yr oedd yr hyn a ddysgodd, fel yr hyn a wnaeth, yn dwyn tystiolaeth i'w fawredd fel Person dwyfol. Synai y dyn a anesid yn ddall, pa fodd yr oedd yr Iuddewon heb ei adwaen oddiwrth ei weithredoedd : "Yn hyn yn ddiau y mae yn *rhyfedd*, na wyddoch chwi o ba le y mae Efe, ac Efe a agorodd fy llygaid i." Apeliai yntau ei Hun at ei eiriau a'i weithredoedd fel profion pwy ydoedd : "Oni bai fy nyfod, a llefaru wrthynt, ni buasai arnynt bechod ; ......oni bai wneuthur o honof yn eu plith y gweithredoedd ni wnaeth neb arall, ni buasai arnynt bechod;" sef y pechod o beidio ei adwaen. I bwy bynag y rhoddodd Mab Duw fanteision i'w adwaen, fe ddaw i ofyn iddynt, "Pwy meddwch chwi ydwyf fi, Mab y dyn ?" ac nid dibwys i chwi oll fydd medru ateb y cwestiwn yna yn gywir.

3. Gwelwn yma y gellir rhoddi parch mawr iddo, ac eto syrthio yn fyr o roddi iddo ei le ei Hun. Y prophwydi oeddent ddynion mwyaf y byd ymhob ystyr ;—mwyaf o ran gallu medd-

yliol, a mwyaf eu duwioldeb hefyd ; ond yr oedd rhai o honynt, yn enwedig Elias, Jeremias, ac Ioan Fedyddiwr, yn cael eu hystyried o'u hysgwyddau i fyny yn uwch na'u brodyr. Yr oedd Elias yn un o'r rhai hynotaf o honynt. Ystyrid Jeremias hefyd yn enwog, am fod traddodiad ymhlith yr Iuddewon iddo guddio yr arch, a dodrefn y cysegr sancteiddiolaf, mewn ogof yn y mynydd y bu Moses farw arno, ac y byddai iddo ymddangos drachefn, pan y byddai ymwared y genedl gerllaw, i'w hadferyd. Ond o'r holl brophwydi, Ioan Fedyddiwr oedd y mwyaf poblogaidd a pharchus. Yr oedd y bobl yn foddlawn i Iesu Grist gael bod yn un o'r rhai hynod hyn,—naill ai yn Ioan Fedyddiwr, neu yn Elias, neu yn Jeremias. Ond er mor barchus oedd y lle a gynygient iddo, nis mynai ef : " Pwy meddwch chwi ydwyf fi ?" Ni fyn Efe le neb, ond ei le ei Hun. Y mae llawer un eto yn foddlawn iddo gael parch prophwyd ;—gwnant ystafell iddo, a dodrefnant hi yn gysurus, fel i brophwyd ;—ond nis myn hi : rhaid iddo gael addoliad Duw, neu ni fyn Ef ddim. " Pwy meddwch chwi ydwyf fi ?"

Y mae Pedr yn ateb y cwestiwn, ac yn ateb yn iawn hefyd ; ond y mae tystiolaeth Pedr am dano, ac ateb yr Arglwydd Iesu i Pedr wedi bod yn achlysur i rai a alwant eu hunain yn Gristionogion, i osod Pedr mewn lle y buasai yn dychrynu wrth feddwl am dano, pan ar y ddaear. Wedi i Pedr dystiolaethu yn gywir am y Person,—" Ar y graig hon," medd Crist, " yr adeiladaf fy eglwys." Y mae amrywiol farnau ynghylch pwy, neu pa beth, ydyw " y graig." Y rhai mwyaf cyffredin ydyw y rhai hyn : 1. Mai Pedr ei hun ydoedd. 2. Proffes Pedr. 3. Ffydd Pedr. 4. Gwrthddrych ei ffydd, sef Person Mab Duw. Yr olaf, debygwn i yn ddiamheuol, ydyw yr un gywir;—y graig ar yr hon y mae yr eglwys yn cael ei hadeiladu ydyw Person Mab Duw. Nid oes dim grym na gwerth mewn tystiolaeth ond yn ei chysylltiad â rhyw berson : yn y lle cyntaf â'r neb fydd yn ei llefaru hi ; ac os tystiolaeth am berson a fydd, y mae gwerth y dystiolaeth yn ymddibynu ar ei chywirdeb hi fel darluniad o'r person hwnw ; a phwy bynag sydd yn ei derbyn hi, ac yn pwyso arni hi, pwyso y mae mewn gwirionedd ar y person a ddarlunir yn y dystiolaeth. Y mae Pedr yma yn traethu ei farn am Berson yr Arglwydd Iesu. Y mae

yn eglur na all y dystiolaeth ynddi ei hun ddim bod yn graig, am nad oes gwerth ynddi ar wahan oddiwrth Berson ; ac ni all ffydd Pedr yn y Person ddim bod yn graig. Yr oedd ei ffydd yn ei gysylltu â'r graig ; ond y Person ei Hun ydoedd y graig hono. A llai fyth y gallasai Pedr ei hun fod yn graig : gallasai ef fod yn gysgod o'r graig; ystyr ei enw oedd *careg* neu *graig*. Rhoddwyd yr enw iddo gan yr Arglwydd Iesu ar ei ddyfodiad cyntaf ato, i arddangos yni a phenderfyniad ei feddwl. Gwir yw iddo syrthio wedi hyny ; ond yr yni a'r penderfyniad oeddent yn ei natur a'i harweiniasant i roddi hyder gormodol ynddo ef ei hun, ac felly i gwympo. Ond y mae pwy bynag sydd yn tybio oddiwrth ei gwymp, ei fod yn gymeriad anwadal, yn gwneuthur cam mawr âg ef : "Yr wyf yn dywedyd i ti mai ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys." Y mae dy enw di yn ddarluniad o dy natur,—*careg* neu *graig* wyt ti; yr wyt felly yn gysgod o honof fi yn y darluniad a roddaist o honof fel Mab Duw ; "ac ar y graig hon," (sef ar fy Mherson, o'r Hwn yr wyt ti yn gysgod) "yr adeiladaf fy eglwys ; a phyrth uffern nis gorchfygant hi."

Y gwirionedd a gyflwynir i'n sylw yma ydyw, mai yn Mherson Mab Duw y mae diogelwch yr eglwys yn wyneb holl ymosodiadau pyrth uffern arni. Y mae ymadroddion cyffelybiaethol y testyn wedi eu bwriadu i ddwyn gwirioneddau mawrion cynwysedig ynddo yn nes i'n deall. Y mae y "graig" yn arwyddo cadernid diysgog Person y Cyfryngwr fel sylfaen yr "eglwys." "Pyrth uffern" yn arwyddo holl gynlluniau ac ystrywiau y diafol yn erbyn yr "eglwys." Yn y pyrth gynt y byddai holl ddoethion teyrnas yn ymgyfarfod i ddyfeisio pa fodd y gallent oreu trwy ddichell neu trwy allu, orchfygu y gelynion. Y mae yr ymadroddion "pyrth uffern," gan hyny, yn cynwys pob dull o eiddo y diafol i ymosod ar eglwys Dduw.

Gweithio trwy foddion y mae y diafol, sef cymeryd mantais ar rywbeth mewn crefydd, ac ar rywbeth yn natur dyn, i gyraedd ei amcan. Drwy gymeryd mantais annheg ar orchymyn Duw, a chymeryd mantais ar rywbeth yn natur dyn, y llwyddodd efe yn Eden ; ac felly y mae yn llwyddo eto.

Ni a nodwn dri llwybr trwy ba rai y mae y diafol, neu byrth uffern, yn ymosod ar yr eglwys ; ac y mae ei diogelwch hi yn

wyneb pob un o honynt yn Mherson y Cyfryngwr mawr.

I. Y mae yn cymeryd mantais ar ddieithrwch athrawiaethau crefydd, i demtio y byd i'w hanghredu.

II. Y mae yn cymeryd mantais ar fod dyledswyddau crefydd yn anhawdd i natur lygredig ymarfer â hwynt, i demtio y byd i dybio fod hyny yn anmhosibl.

III. Y mae yn cymeryd mantais ar bellder gwobrwyon crefydd, i demtio y byd i fod yn ddiystyr o honynt, ac i ddywedyd Ni ddaeth yr amser,—yr amser eto i dalu sylw iddynt.

Ond y mae yn mherson Mab Duw ddiogelwch yn wyneb pob un o'r ymadroddion hyn. Os bydd deall dyn yn tramgwyddo wrth ddirgeledigaethau crefydd, y mae digon o ddirgelwch yn mherson Mab Duw wedi ymddangos yn y cnawd, i atal i'r un dirgelwch arall sydd yn perthyn i grefydd fod yn dramgwydd iddo. Os bydd y fynwes yn teimlo fod gorchymynion crefydd yn drymion, y mae digon o ogoniant yn mherson "Crist Duw" i sugno pwys y gorchymynion trymaf, fel ag i'w gwneyd yn ysgafn. Os bydd y galon yn tueddu i wanhau am fod gobaith crefydd yn cael ei oedi, nes gofyn, "Pwy a ddengys i ni ddaioni?" y mae cymaint o gyflawnder dwyfol yn mherson yr Arglwydd Iesu, fel ag i wneyd i fyny am bob gobaith a oeder. Y mae cymdeithasu âg Ef yma, er mor anmherffaith, yn nefoedd fechan; a'r nefoedd fawr fydd bod mewn amgylchiadau i'w weled Ef megis ag y mae, a chael cymdeithas berffaith âg Ef. "Ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys."

I. Y mae pyrth uffern yn cymeryd mantais ar ddieithrwch athrawiaethau crefydd i demtio y byd i'w hanghredu. Y mae dirgelion, a dirgelion anamgyffredadwy, yn perthyn i grefydd. Y mae dirgelwch yn natur ei gwirioneddau hi; ac y mae yn rhaid bod dirgelwch ynddi, i'w gwneyd yn gymhwys i'n natur ninau hefyd. Pan y gwelwn ni drwy unrhyw beth, y mae ein hyfrydwch ynddo i raddau yn darfod. Er mwyn i'r hyfrydwch a'r dyddordeb barhau, rhaid i'r gwrthddrych ddal i chwilio i mewn iddo. Os ydyw gwrthddrychau crefydd i roddi hyfrydwch diddiwedd i ni, rhaid iddynt fod yn gyfryw na welwn ni byth trwyddynt: yn iaith yr emyn, rhaid cael "dwfr i nofio heb fyn'd trwyddo," onide fe gollir hyfrydwch y nofio. Y mae dyn yn addef hyn, ac yn gweithredu yn ei ol, gydâ phobpeth

crefydd, a chydâ phob crefydd hefyd ond yn unig y wir grefydd. Y mae dirgelion yn perthyn i bob gau grefydd, a byddai eu colli yn golli ei nerth : rhaid iddi gael rhyw gyntedd nesef i mewn, i'r hwn ni chaiff neb ond yr offeiriad dremio, onide, ni ddaw y bobl i'r cyntedd nesaf allan. Rhaid iddi gael "cuddiedig bethau," er iddynt fod yn "guddiedig bethau cywilydd." Os na bydd *Shecinah* gwirioneddol yn gwneuthur y cysegr nesaf i mewn yn ofnadwy yn ei ddirgelwch, rhaid cael ffug-ddirgelwch yn ei le.

Bychandra dyn a'i bethau ydyw yr achos fod yn rhaid iddo greu tipyn o ddirgelwch o'i amgylch, i gadw parch iddo ei hun a'i ddyfeisiau. Ond mawredd Duw ydyw yr achos fod tywyllwch o'i amgylch Ef a'i bethau. Y mae dyn yn aros mewn tipyn o dywyllwch, am nas gall efe ddal y goleuni ; ond y mae Duw yn trigo yn y tywyllwch, am mai "Goleuni ydyw Duw." Y mae goleuni y Duwdod mor danbaid, nes y mae yn troi yn dywyllwch i lygad pob creadur ; a dyna ydyw dirgelion crefydd, goleuni, gan ei danbeidrwydd, yn ffurfio tywyllwch. Ac y mae y dirgelion hyn yn dewfrith ar bob llaw i ni. Tri Pherson yn un Duw ;—Duw yn arfaethu ac yn cyflawni yr oll wrth gyngor ei ewyllys ei Hun, a dyn yn berffaith rydd er hyny ;—pawb a etholwyd yn gadwedig ;—iachawdwriaeth o ras ;—a holl wrthodwyr yr efengyl yn cael eu damnio am ei gwrthod ;—Ysbryd Duw yn dylanwadu ar ysbryd dyn heb gyfyngu dim ar ryddid ewyllys y creadur. Dyma rai o ddirgeledigaethau yr efengyl. Ac y mae pyrth uffern yn cymeryd mantais ar y dirgelion hyn, i demtio dyn i wrthod crefydd, am ei bod hi yn cynwys pethau o'r fath yma y sydd y tu hwnt i gyraedd ei ddeall ef. Ond y mae diogelwch yr eglwys, yn wyneb ymosodiadau o'r fath, yn Mherson Mab Duw ; oblegid y mae y dirgelwch sydd yn ei Berson Ef yn parotoi y ffordd i dderbyn holl ddirgelion crefydd, am fod y dirgelwch hwn yn ffaith ger bron llygaid y byd ; felly, er nad yw y byd yn ei ddeall, y mae yn anmhosibl. Nid oes neb yn deall yn gwbl lanw a thrai y mor ; ond ni feiddia yr un dyn yn ei bwyll ei wadu er hyny ; oblegid nid ar ymresymu y mae ei wirionedd yn ymddibynu,—ffaith ydyw yn llygaid pawb. Felly y mae dirgelwch person Mab Duw yn ffaith gerbron y byd ; ac y mae y ffaith hon yn gwirio holl ddirgelion eraill

crefydd, fel yr oedd adgyfodiad Iesu Grist yn gwirio ei holl fywyd ; oblegid y maent oll yn gysylltiedig â hi. Ac y mae y dirgelwch hwn yn ddirgelwch mwy na phob un arall ; ac os ydyw y mawr yn bod, beth sydd i atal credu yr un llai. Duw wedi ymddangos yn y cnawd ! Os yw hynyna yn bod, ni a allwn gredu y gall Tri Pherson fod yn un Duw. Os yw hyn yna yn bod, ni a allwn gredu y gall y meddwl dwyfol gario ymlaen ei amcanion drwy y meddwl dynol, heb gyfyngu dim ar ryddid y creadur. Os yw hynyna yn bod, ni a allwn gredu y dichon Ysbryd Duw ddylanwadu ar ysbryd dyn, heb gaethiwo ewyllys dyn wrth wneyd hyny. Y mae pob mynydd yn myned yn wastadedd gerllaw y dirgelwch hwn ;—Duw wedi ymddangos yn y cnawd. Pa fodd y gwyddoch, medd rhywun, fod hynyna yn bod ? profwch ef. Nid oes angen ei brofi : y mae y peth yn ffaith ; nis gallwn ei gwadu. Darllenwch hanes ei fywyd, a gwadwch hi, os gellwch. Lle bynag y cerddodd, yr ydym yn cael fod brysg neu ôl traed Duwdod. Lle bynag y llefarodd, y mae ei leferydd yn ei gyhuddo, oblegyd y mae ei eiriau yn troi yn bethau. "Efe a ddywedodd, ac felly y bu ; Efe a orchymynodd, a hyny a safodd," nes oedd goleuni yn llewyrchu o dywyllwch dallineb,—iechyd yn codi o wely cystudd,—a bywyd yn bwrlymu o lynclyn marwolaeth. Nid ydym ni ddim yn deall, meddwch chwi, pa fodd y gall dwy natur mor bell oddiwrth eu gilydd gael eu huno yn yr un Person. Nid yw yr angel ychwaith ddim yn deall ; ond y mae y ffaith o'u bod yno yn ddigon eglur i blentyn ei deall hi. Pe cedwid yn ngolwg y dirgelwch hwn, ni lwyddai pyrth uffern ddim i beri i neb dramgwyddo wrth y dirgelwch arall. Yr oedd yr Arglwydd Iesu wedi traethu peth lled ddieithr wrth Martha, Ioan xi. 25, 26, yn gofyn iddi, "A wyt ti yn credu hyn ?" Y mae rhywbeth dieithr yn ei hateb hithau, "Ydwyf, Arglwydd : yr wyf fi yn credu mai ti yw y Crist, Mab Duw." Wrth gredu hyny, yr wyf yn credu pob peth arall : nid wyf yn deall pa fodd y mae yn bosibl i'r neb sydd farw fyw drachefn ; ond yr wyf yn deall dy fod di yn Grist, Mab Duw, am hyny nid oes dim rhy ryfedd i ti i'w ddweyd na'i wneuthur. Y mae doethion y byd yn barod i briodoli crediniaeth ambell hen wraig anllythyrenog o ddirgelion crefydd i'w hanwybodaeth;

ond camgymeriad mawr yw hyny: fel Martha, y mae hi yn credu yn y Person ;—credu yn Nghrist, Mab Duw ; ac yn hyny, y mae hi yn credu pob peth arall. Os byddwch yn cael eich temtio i ameu rhywbeth rhyfedd yn Epistolau Paul,y mae y feddyginiaeth i hyny yn efengyl Matthew. " Pyrth uffern nis gorchfygant hi."

II. Y mae pyrth uffern yn cymeryd mantais ar fod dyledswyddau crefydd yn anhawdd i natur lygredig ymarfer â hwynt, i demtio y byd i dybio fod hyny yn anmhosibl.—Y mae arddel neu broffesu, Mab Duw, yn anhawdd ;—ymddwyn ymhob amgylchiad yn deilwng o'r broffes yn anhaws na hyny ; a dioddef drosto yn un o gampau crefydd, nad all ond ychydig ei chyraedd hi. Nis gellir ei broffesu heb fyned tuallan i wersyll y byd, a dwyn gwaradwydd wrth wneyd hyny. "Ysgymunbeth" ydyw yr Iesu eto yn y gwersyll. Pe buasai y gwahanglwyf arno, ni buasai raid fod mwy o ddieithrwch rhwng trigolion y gwersyll a'r Gŵr sydd y tuallan iddo. Y mae *public opinion* y byd yn erbyn yr Iesu, ac yn erbyn pawb a êl allan ato, fel yr oedd yn erbyn Dafydd, pan wedi ffoi y tuhwnt i'r Iorddonen. Yr oedd efe ei hun yn dwyn gwaradwydd, a phawb a elent allan ato hefyd yn ei ddwyn. Y mae Mab Duw ar y ddaear eto megis y tuhwnt i'r Iorddonen. Nid ydyw wedi dyfod i deyrnasu mewn mawredd yn Jerusalem y byd eto ; ac os ewch chwi allan ato, bydd raid i chwi ddwyn ei waradwydd.

Drachefn, y mae ymddwyn yn deilwng o'r broffes yn anhaws eto ;—bod yn Gristion cyson yn holl amgylchiadau amrywiol y ddaear. Y mae amgylchiadau y byd hwn yn aml yn myned o'r naill eithaf i'r llall ; ac y mae y dyn sydd yn dal y naill yn fynych yn cael ei orchfygu yn y llall. Rhaid cael cyfansoddiad cryf iawn i allu byw ymhob hinsawdd ;—i ddioddef eithafion gwres, ac eithafion oerfel. Ymddygodd Joas yn deilwng i'w broffes tra y bu Jehoiada fyw i edrych ar ei ol : wedi hyny fe'i dianrhydeddodd hi yn fawr. Gwnaeth Uzziah yr hyn oedd uniawn yn ngolwg yr Arglwydd, cyn iddo fyned yn gryf : wedi hyny ei galon a ddyrchafwyd i'w ddinystr ei hun. Os ydyw y rhan weledig o grefydd,—dyledswyddau allanol crefydd,—mor anhawdd, beth am y rhan anweledig ? Yn mynwes dyn y mae crefydd yn cyflawni ei champau : puro y galon aflan ;—caethiwo y meddwl aflywodraethus :—cadw y byd hwn rhag medd-

ianu lle byd arall yn y fynwes ;—tynu y llygad de ;—tori y fraich dde: a'r dyn yn gorfod gwneyd hyny ei hun. Nid Eleazer o Damascus, goruchwyliwr Abraham, sydd i aberthu Isaac ;—buasai hyny yn ddioddef mawr i Abraham; na,y mae yn rhaid i'r hen batriarch wneyd y gorchwyl anhawdd ei hun. Dyma orchestion crefydd.

Y mae pyrth uffern yn cymeryd mantais ar y pethau hyn i ymosod trwyddynt ar yr eglwys. Ac y mae llawer, fel disgyblion y torthau, heb rodio mwyach gyda'r Iesu o'r herwydd ; ond nid ä pawb ddim yn ol, oblegid y mae gogoniant ei Berson wedi denu rhai i'w garu, ac y mae cariad yn troi dyledswyddau yn freintiau, ac yn peri fod rhwystrau yn gynud i beri i'w fflam ef losgi yn fwy angerddol. "A fynwch chwithau hefyd fyned ymaith ?" "At bwy yr awn ni ?" Y mae rhywbeth ynot ti sydd wedi *magneteisio* ein meddwl ni, wedi sugndynu ein calon arnat dy hun. Y mae yn rhyfedd genym fod neb yn teimlo dy orchymynion *di* yn drymion.

Y mae ymlyniad wrth berson yn gwneyd y natur ddynol ymron yn hollalluog. Yn nghalon dyn y mae ei nerth,—nid yn ei fraich : y galon sydd yn rhoddi grym yn ngewynau y fraich. Pa sawl mam, oherwydd nerth ei chalon, a wnaeth bethau yn ymylu ar fod yn wyrthiau i'w phlentyn ? Y mae mewn ambell gymeriad rywbeth sydd yn swynol i bawb o'i amgylch : gorchymyned yr hyn a fyno, ni theimlir byth fod ei orchymynion yn drymion. Ni chafodd un dyn erioed ddylanwad mawr ar ei gyd-ddynion, heb fod felly. Edrychwch ar Napoleon wedi ffoi o Elba i Ffrainc gydâ'r bwriad i adfeddianu yr orsedd, Dacw filwyr Ffrainc yn cael eu hanfon allan i'w erbyn. Ond gan ymddiried i'r dylanwad oedd ganddo ar y milwyr, y mae yn myned allan ei hunan i'w cyfarfod yn y wisg oedd mor adnabyddus iddynt, ac yn eu cyfarch gydâ llais oedd yn crynu gan deimlad, "Gyd-filwyr, a ydych chwi yn fy adwaen i eto?" "Ydym, Dad," meddai y milwyr. "A ydych chwi yn fy adwaen, fy mhlant ?" ebai yntau. "Myfi yw eich Ymerawdwr : taniwch arnaf os ydych yn ewyllysio : taniwch ar eich tad : dyma fy mynwes," a chyda hyny yn ei dynoethi. Yn y fan dyna yr holl gatrawd yn eu taflu eu hunain wrth ei draed, ac yn rhoddi y fonllef fawr, Byw fyddo yr Ymerawdwr. Yr oedd rhywbeth mor swynol yn Napoleon, fel wedi ei orchfygu dra-

chefn y bu raid ei gadw mewn ynys yn eithafoedd y môr, onid ê ni buasai gorsedd brenin Ffrainc yn ddiogel i'r Bourboniâid—buasai yn hudo calonau y bobl ar ei ol. Y mae rhywbeth swynol yn nghymeriad Mab Duw: ni bydd gorsedd y diafol ddim yn ddiogel tra y bydd Efe ar y ddaear. Dyna'r pryd y bydd yr eglwys mewn perygl,—pan y cyll ei gymeriad Ef y sugn-dyniad sydd ynddo. Wrth weled Pedr yn gwadu, yr ydych yn barod i ddywedyd, fe ddaw yr adeilad i lawr, oblegid dyna un maen mawr yn myned i dreiglo oddiar ei sylfaen. Na ddaw;—dyna lygad y Person yn disgyn ar lygad Pedr: fe sadiodd y maen ar y sylfaen mewn moment. "Pwy a'n gwahana ni," meddai Paul, "oddiwrth gariad Crist? ai gorthrymder, neu ing, neu ymlid, neu newyn, neu noethni, neu enbydrwydd, neu gleddyf?" Rhuf. viii. 35. Na: y mae yn fwy na choncwerwr ar yr oll. "Pyrth uffern nis gorchfygant hi."

III. Y mae pyrth uffern yn cymeryd mantais ar bellder gwobrwyon crefydd, i demtio y byd i ddywedyd, Ni ddaeth yr amser eto i dalu sylw iddi. Cysylltir crefydd yn y Beibl â'r byd a ddaw, nid i ddangos nad oes ganddi ddim yma, ond i ddangos mai yno y bydd ei phethau hi yn ddigymysg;—yr Oen heb y dail surion;—yr heddwch heb y chwerwder chwerw;—yr awyr heb ddim tawch afiach, i ffurfio cymylau rhwng y trigolion a'r haul. Yno y bydd ei phobpeth hi hefyd wedi cyraedd addfedrwydd: ffydd wedi ymledu fel y wawr, i ddydd goleu golwg;—gobaith wedi ymarllwys fel afon i fôr o fwynhad;—a chariad wedi myned yn eirias, nes gwneyd ei berchen yn seraph tanllyd byth; cân anghelfydd y ddaear wedi ei pherffeithio yn anthem, "Iddo Ef," teilwng o'r llys;—gras wedi addfedu yn ogoniant.

Y mae y diafol yn cymeryd mantais ar y cysylltiad sy rhwng crefydd â'r byd a ddaw, i demtio rhai i beidio talu sylw iddi nes bod yn ymyl y byd hwnw. Ond y mae yn Mherson Mab Duw ddigon i orchfygu yr ymosodiad yna hefyd. Efe sydd yn gwneyd nefoedd. Ei gyflawnder Ef yw ei chyfoeth hi;—ei gymdeithas Ef yw ei digrifwch hi. Nid myned ar ol y nefoedd yw crefydd, ond myned ar ol yr Iesu; oblegid ni buasai dim gwerth yn y nefoedd ei hun, oni bai mai cartref yr Iesu ydyw hi. Y mae bod gyda Christ ymhob man yn nefoedd. "Byw

i mi yw Crist." Disgwyliai y disgyblion gryn ddyrchafiad mewn rhyw freniniaeth ddaearol o'i ddilyn ; ond yr oedd rhyw beth yn ei gymdeithas yn talu am ei ddilyn. Pe na buasai y freniniaeth byth yn dyfod, pum' mynyd o gymdeithas âg Ef a dorai rym yr ymosodiad yna o eiddo pyrth uffern yn eich meddwl am byth. "Pyrth uffern nis gorchfygant hi."

1. Gwelwn oddiwrth yr hyn a ddywedwyd, mai ein llwybr i ddal ein ffordd, ac i ychwanegu cryfder, gyda chrefydd, ydyw adnabod Person Mab Duw yn well. Hyn a goncrodd Paul ar y ffordd i Damascus. "Pwy wyt ti, Arglwydd?" ac wedi iddo deimlo nerth y dylanwad yn y cychwyn, yr oedd yn sychedu mwy-fwy am yr un peth. "Fel yr adnabyddwyf ef," yw ei gais uchaf o hyn allan ar ei ran ei hunan, a'i ddymuniad penaf ar ran eraill ydyw, ar iddynt gael "ysbryd doethineb a dadguddiad trwy ei adnabod ef."

2. Fod y rhai sydd yn ymrwystro gyda rhyw beth perthynol i grefydd, yn gwneyd hyny am nad ydynt yn adnabod y Person. Gyda chymaint o bethau y gallasai y disgyblion ymrwystro: gydâ'u sefyllfaoedd, gydâ'u teuluoedd, &c. Ond yr oedd yr olwg a gawsant ar fawredd a gogoniant yr Iesu, yn eu galluogi i adael pob peth i'w ddilyn, ac i aberthu pob peth er ei fwyn. Ond i ninau gael ei adnabod yn iawn, byddwn barod i ymadael â phob peth, ac i gyfrif pob peth yn dom, er mwyn ei enill ef.

3. Fod yr adnabyddiaeth o'i ogoniant i'w chael drwy foddion. Yr oedd y disgyblion yn cynyddu yn hyn, ac yn cynyddu trwy gymdeithas âg ef. O fod yn Rabbi, fe ddaeth iddynt hwy yn brophwyd; o fod yn brophwyd, fe ddaeth yn Grist; ac o fod yn Grist, y maent yn awr yn ei adwaen yn Fab Duw. Y modd y daethant hwy i synio fel hyn am dano oedd, trwy aros yn ei gymdeithas; sylwi ar ei weithredoedd; gwrandaw ar, ac ystyr ei eiriau; myfyrio ar ei gymeriad, &c. A'r un modd y mae i ninau gynyddu mewn adnabyddiaeth o hono.

4. Nid oes eisiau dim newydd i orchfygu y byd,—dim goruchwyliaeth newydd, &c. "Yr Iesu Hwn,"—fe'i concrodd ef unwaith, fe'i concra ef eto.

[Y mae rhanau o'r bregeth uchod, y rhan ddiweddaf yn enwedig, yn llawer llai cyflawn yn ysgrifen yr awdwr na'r nifer amlaf o'i bregethau. Ond gall y darllenydd meddylgar, yn y rhanau mwyaf diffygiol, ganfod y cyfeiriad a gymerai y pregethwr.—GOLYGYDD.]

[Gorphenaf 24ain, 1857.]

## PREGETH LXIII.

### EFENGYL I'R TLODION.

MATHEW XI. 5 :—"A'r tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt."

Y MAE yn ymddangos yn beth dieithr i ni fod cyn lleied o gysylltiad rhwng Ioan Fedyddiwr a Iesu Grist, yn enwedig pan y cofiwn fod perthynas naturiol a swyddol rhyngddynt. Yr oedd Elizabeth yn gares i Mair, a Ioan yn rhagflaenor i'r Iesu ; ond er y pethau yna, nid yw yn ymddangos fod Ioan yn adwaen Iesu Grist, hyd nes y nodwyd ef allan gan ddisgyniad yr Ysbryd Glân ar ei fedydd, fel y Messiah. Gall fod yr Arglwydd wedi eu cadw yn gwbl ddieithr i'w gilydd hyd nes y cyfarfuant ar lan yr Iorddonen, fel na chaffai neb achlysur i ddywedyd eu bod wedi cytuno i dwyllo y wlad. Gwelodd Ioan y pryd hwnw yn yr Iesu Messiah y prophwydi, ac fe gredodd ei hun ynddo ; a chyfeiriodd y tyrfaoedd ato fel Oen Duw, yr Hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd. Ond pan roddwyd Ioan yn y carchar gan Herod, dechreuodd ameu ai Iesu o Nazareth oedd yr Hwn oedd ar ddyfod ; ac i gael sicrwydd i'w feddwl drachefn, anfonodd ddau o'i ddisgyblion i ofyn hyny iddo. Y mae rhai o'r esbonwyr yn meddwl mai er mwyn y disgyblion yr anfonodd Ioan i ofyn y cwestiwn ; ond y mae yn dra annhebyg y buasai Ioan a Iesu Grist yn cytuno i gelu hyny, pe felly y buasai : tebycach ydyw iddo eu hanfon er ei fwyn ei hun. Yr oedd Ioan, fel yr holl Iuddewon, wedi tynu darlun yn ei feddwl ei hunan o'r Messiah ; a diau ydyw ei fod yn dra annhebyg i Iesu o Nazareth. Gall ei fod wedi disgwyl, wedi iddo weled ei ogoniant ar lan yr Iorddonen, y buasai yr Iesu yn myned yn ei flaen yn gorchfygu, ac i orchfygu,

nes cyraedd y mawredd a'r gogoniant gweledig a ddarluniasid gan y prophwydi, ond gan nad oedd dim yn ymddygiadau Iesu Grist yn dangos ei fod yn amcanu at hyny, yr oedd cwmwl o amheuaeth yn ei gylch wedi dyfod dros feddwl Ioan, yn enwedig yn ei amgylchiadau profedigaethus yn y carchar.

Y mae yn eglur fod rhywbeth yn Iesu Grist oedd yn rhoddi sail i ffydd Ioan; ac y mae yn eglur hefyd fod ynddo rywbeth oedd yn rhoddi nerth i'w anghrediniaeth. Yr oedd ei waith yn anfon y cenhadau yn brawf o'i fod yn ewyllysio credu, ac yr oedd yr un peth yn brawf hefyd o'i fod yn methu credu fel yr ewyllysiai. Yr ydym yn cael y Phariseaid yn anfon at Iesu Grist i ofyn iddo ddywedyd yn eglur pwy ydoedd; ond yr oedd ei ymddygiad atynt hwy yn dra gwahanol i'w ymddygiad tuag at Ioan, am fod eu diben hwy yn gofyn y cwestiwn yn wahanol i'r eiddo ef. Yr oeddent hwy yn ei ofyn i'w rwydo yn ei ymadrodd, tra yr oedd Ioan yn ei ofyn i gael help i gredu ynddo. Lle bynag y byddo gwir awydd credu, y mae yr Arglwydd yn y fan hono yn rhoddi profion a bair i'r amheuaeth *ildio* i'r credu.

Y mae rhywbeth yn nghrefydd Iesu Grist yn debyg i'r hyn oedd yn Iesu Grist ei hun i Ioan: rhywbeth i dynu at, ac i yru oddiwrth; sail i ffydd, ac achlysur i anghrediniaeth. Y mae y profion sy dros ei gwirionedd hi yn ddigon cryf, debygid, i'r ffydd wanaf fedru ei derbyn; ac eto y mae y tywyllwch sydd o'i hamgylch yn gyfryw fel ag i wneuthur y ffydd gryfaf weithiau yn anghrediniaeth. Y mae trugaredd Duw a amlygir ynddi yn cymhell ffydd; ond y mae bwriadau Duw a ddatguddir ynddi yn achlysur i anghrediniaeth. Y mae parodrwydd Iesu Grist i dderbyn yn sugno pechadur ato, ond y mae y gwirionedd, mai yr hyn oll y mae y Tad yn ei roddi iddo a ddaw ato, yn achlysur i gadw oddiwrtho: ond os try y meddwl at Dduw yn ei bryder, fel Ioan at Iesu Grist, bydd raid i'r amheuaeth *ildio* i'r credu.

Yn adnod y testyn, yr ydym yn cael disgrifiad o'r hyn a wnaed i symud yr amheuaeth o feddwl Ioan. Y mae'r efengylwr Luc yn dywedyd i'r Arglwydd Iesu "yr awr hono," gyflawni llawer o wyrthiau yn ngwydd y ddau ddisgybl, a dywedyd wrthynt, "Ewch, a mynegwch i Ioan y pethau a

welsoch ac a glywsoch." Yr oedd y pethau hyn oll yn gyflawniad o brophwydoliaethau am y Messiah. Gall fod Ioan wedi bod yn rhy ddisylw o'r dosbarth yna o brophwydoliaethau, ac wedi sefydlu ei feddwl yn ormodol, os nad bron yn unig, ar y dosbarth arall o brophwydoliaethau, oeddynt yn darlunio mawredd a gogoniant gweledig y Messiah. "Ewch a mynegwch i Ioan y pethau a welsoch ac a glywsoch," fe gofia efe fod yr Hwn oedd ar ddyfod i wneuthur y pethau hyn hefyd; ac yn mhellach, fe wêl Ioan, mai trwy gyflawni y pethau hyn yr ydwyf i gyraedd y mawredd a'r gogoniant gweledig y mae efe yn disgwyl am danynt. "Ni waedda, ac ni ddyrchafa," eto drwy hyny, "fe ddwg allan farn i fuddugoliaeth."

Ar yr olwg gyntaf y mae yn ymddangos yn ddieithr, fod y rhan a ddarllenwyd yn destyn yn cael ei gysylltu â'r pethau rhyfedd a goffêir o'i flaen, fel un o'r profion o Fessiaeth Iesu Grist, "Y tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt;" oblegid y mae yma y fath ddisgyniad, debygid, oddiwrth godi y meirw. Y mae ar wyneb y weithred yna argraff o ddwyfoldeb; ond am bregethu yr efengyl i'r tlodion, nid oes dim dwyfol, fel ar wyneb y weithred yna. Gwir fod hyn yn y brophwydoliaeth am y Messiah fel y gwyrthiau; ond yr oedd gweithredoedd Iesu Grist i brofi ei ddwyfol anfoniad, yn annibynol ar eu bod yn gyflawniad o brophwydoliaethau. Buasai tystiolaeth y gweithredoedd yr un, pe na buasai yr un gair o sôn am danynt yn y brophwydoliaeth: felly nid ydyw fod y testyn yn gyflawniad o brophwydoliaeth yn unig ddim yn ddigon o reswm dros ei nodi allan fel prawf mai Iesu o Nazareth oedd y Messiah. Ond pan edrychwn ychydig yn fwy manwl ar y testyn, gwelwn ei fod yn cynwys prawf o'r math cadarnaf o Fessiaeth Iesu Grist; prawf yn wir o'r un natur a phrawf y gwyrthiau a goffêir yma. Dyna oedd yn nodweddu gwyrthiau Iesu Grist, ac yn eu gwneuthur yn brofion o'i Fessiaeth ef,—gallu Duw, mewn undeb â thrugaredd Duw. Yr oedd tynerwch a nerth, trugaredd a gallu, yn cyd-gyfarfod ymhob peth Iesu Grist: "corsen ysig nis tŷr, llin yn mygu nis diffydd,"—dyna drugaredd: ni phalla, ac ni ddigalona, hyd oni osodo farn ar y ddaear,"—dyna allu. Os edrychwch ar y gwyrthiau a goffêir yma, gwelwch ynddynt oll drugaredd ddwyfol mewn undeb â

gallu dwyfol. Rhoddi llygaid i ddeillion,—wele drugaredd Duw ; wele, allu Duw hefyd : glanhau y gwahan-gleifion,—wele drugaredd Duw ; wele, allu Duw hefyd. Yn awr y mae yn y testyn amlygiad o'r un peth, sef o drugaredd Duw, mewn undeb â gallu Duw. "Y tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt ;"—wele, drugaredd Duw yn sylwi ar ddosbarth na feddyliodd neb ond Duw am wneyd hyny. "Y tlodion," (yn ol Luc) "yn derbyn yr efengyl," neu yn cael eu hefengyleiddio,—wele allu Duw yn gallu Llywodraethu dosbarth yr oedd holl ddoethineb dynion wedi methu gwneyd hyny. "Ewch a mynegwch i Ioan," yr hyn yr wyf yn ei wneyd yn y byd naturiol : rhoddi llygaid i ddeillion, traed i gloffion, glanhad i wahangleifion, a'u clyw i fyddariaid. "Ewch a mynegwch i Ioan" yr hyn wyf yn ei wneyd yn myd y meddwl, yn y byd ysbrydol : "y tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt." Yr wyf yn gwneyd yn hwnw bethau mor ryfedd, sydd yn dwyn cymaint o ddelw dwyfol, ag yr wyf yn ei wneyd yn y llall,—pethau sydd yn cyfateb yn myd y meddwl i'r pethau yr ydych yn eu gweled â'ch llygaid yn y byd gweledig : "Y tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt."

I. Ni a edrychwn ar bregethiad yr efengyl i'r tlodion fel amlygiad o drugaredd Duw, ac fel amlygiad o allu Duw.

II. Ceisiwn ddangos y defnydd a ddylem ei wneuthur o'r amlygiad gwerthfawr o drugaredd Duw, ac o allu Duw, sydd yn yr efengyl.

I. Y mae pregethiad yr efengyl i'r tlodion yn amlygiad o drugaredd Duw, ac o allu Duw. Wrth y tlodion yr ydym i ddeall corff trigolion pob gwlad, dosbarthiadau isaf cymdeithas. Yr oedd y tlodion yn nyddiau Iesu Grist, ac y maent eto ymhob gwlad lle nad yw efengyl Iesu Grist wedi cael mesur o oruchafiaeth, yn ddosbarth nad oes neb yn arfer gofalu am danynt. Ystyrid hwynt yn ddiwerth i bob peth, ond i gael eu caethiwo. Nid oedd yr un o'r crefyddau paganaidd yn gwneyd sylw o honynt, ond er mwyn eu llyffetheirio, i'w cadw yn ddiogel yn llaw y mawrion. Ac er bod y grefydd Iuddewig yn tra rhagori yn hyn ar y rhai paganaidd, y farn am danynt ymhlith penaethiaid yr Iuddewon ydoedd, "y bobl hyn, y rhai ni wyddant y gyfraith, melldigedig ydynt." Efengyl Iesu Grist

a amlygodd gyntaf ddigon o drugaredd i synio ar dlodion y byd.

Y mae y drugaredd hono yn dyfod i'r golwg mewn tri pheth:—

1. Bod yr efengyl yn cyfarfod â'r tlodion yn eu hamgylchiadau.

2. Yn ei bod yn eu cyfarfod yn sefyllfa eu meddwl.

3. Yn ei bod yn eu cyfarfod yn eu teimladau.

1. Y mae yr efengyl yn cyfarfod â'r tlodion yn eu hamgylchiadau. Gwelir hyn yn yr hyn sy ganddi i ddyn, ac yn yr hyn y mae hi yn ei ofyn gan ddyn; sef, yn ei breintiau ac yn ei dyledswyddau. Ped ymwelai y dyn tlawd âg un o fasnachdai mawrion ein prif drefydd, gwelai yn y cyfoeth o nwyddau sydd ynddynt ugeiniau o bethau cyfaddas i'w angen ef, na byddent felly i'w amgylchiadau; ond gall y tlawd fyned drwy ystorfëydd iachawdwriaeth, a gweled ynddynt fyrdd o bethau yn cyfateb i'w angen, ac yn eu plith oll ni wêl gymaint ag un heb fod yn cyfateb i'w amgylchiad. *Maddeuant*,—dyna un o bethau yr ystorfa sydd yn cyfateb yn berffaith i angen y tlawd: ac y mae y gair bychan, *rhad*, sydd wedi ei ysgrifenu yn eglur arno, yn dangos ei fod yn cyfateb mor berffaith i'w amgylchiad. *Cyfiawnhad bywyd*,—dyna beth yn ffitio yr angen; *trwy ei ras Ef*,—dyna yr un peth yn cyfarfod â'r amgylchiad. *Ffydd*,—dyna beth anmhosibl gwneyd hebddi: *rhodd Duw ydyw*,—nid oes eisiau ceisio gwneyd hebddi. *Gwin a llaeth, brasder a daioni*, dyna bethau yr angen; *heb arian ac heb werth*,—dyna bethau yr amgylchiad. Gwelodd brenhines y dehau ogoniant teyrnas Israel wedi ei grynhoi megis i ychydig le, yn y brifddinas yn Jerusalem; ond ni chafodd ond gweled â'i llygaid: teyrnas Solomon oedd hi; ei eiddo ef oedd yr orsedd ifori, y goron, y deyrnwialen, yr holl gyfoeth, a'r gogoniant. Ond gall y tlawd droi i mewn i'r Jerusalem ysbrydol, a gweled ynddi mewn ychydig le, grynhöad o ogoniant: teyrnas, gorsedd, coron, teyrnwialen, cyfoeth, anrhydedd; ac nid gweled â'i lygaid yn unig a gaiff efe; oblegid gyda'i fod yn dechreu rhyfeddu wrth yr olygfa, fe glyw lais yn dywedyd wrtho, "Nac ofna, braidd bychan, canys rhyngodd bodd i'ch Tad roddi i chwi y deyrnas."

Drachefn, y mae yr efengyl yn cyfarfod â'r tlawd yn ei dyledswyddau, fel yn ei breintiau. Y mae pob crefydd ond crefydd

Iesu Grist, drwy eu gofynion, yn malu wynebau tlodion y byd ; ond nid yw hi yn gofyn dim sydd yn anghydweddol â thlodi ; nid oes ganddi na champ na choron y byddai raid i dlodi rwystro neb i'w cyraedd. "Pob un (medd yr efengyl) yn yr hyn y galwyd ef, yn hyny arhosed gyda Duw," Nid yw yn erbyn i'r tlawd newid ei sefyllfa : "Os gelli gael bod yn rhydd" (medd hi wrth y caethwas) "mwynha hyny yn hytrach." Ond os nad yw hyny yn bosibl, "os yn was y'th alwyd, na fydded gwaeth genyt,"—ni fydd hyny yn ddim rhwystr ar dy ffordd di,—ni byddi yn ddim îs yn y nefoedd oblegid hyny. Yr oedd y deyrnwialen a'r meitr yn Israel wedi eu cyfyngu i ddau lwyth, Judah a Lefi : ni buasai gwiw i'r Gibeoniaid tlodion feddwl am y naill na'r llall ; gwehynu dwfr, a chymynu coed, oedd eu gwaith hwy. Ond y mae'r efengyl yn gwneuthur y Gibeoniaid mor aml a neb "yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw a'i Dad ef." Y mae hi yn cyfarfod â'r tlodion yn eu hamgylchiadau.

2. Y mae trugaredd yr efengyl yn dyfod i'r golwg yn ei bod hi yn cyfarfod â'r tlodion yn sefyllfa eu meddwl. Y mae tlodion y byd ymhob oes a gwlad yn ddosbarth anwybodus: pobl ydynt heb wybod y gyfraith ; wedi arfer byw yn myd y synwyrau a'r teimladau ; am hyny y mae yn anhawdd cael gafael ar eu meddwl trwy ymresymu,—trwy apelio at eu deall. Ond y mae un ffordd sicr i feddwl y tlawd, sef trwy ei galon,—trwy ei serch. Y mae ei serchiadau yn danbaid, os yw ei ddeall yn farwaidd. Nid rhesymeg sydd yn dylanwadu arno, ond cariad. Ond y mae'r efengyl yn ei gyfarfod yn hyn hefyd : y mae crefydd yn gofyn am y deall a'r galon,—y deall i amgyffred, a'r galon i garu : ond nid cael y galon i garu trwy'r deall, ond cael y deall i amgyffred trwy'r galon, yw trefn Duw. Pe'r cyntaf a fuasai y drefn, sef apelio at y deall er mwyn cyraedd y galon, ni buasai yr efengyl yn gymwys i neb ond i ddoethion y byd ; ond, gan mai yr ail ydyw y drefn, sef apelio at y galon, a thrwy hono ddyfod i'r deall, efengyl i dlodion ydyw. Nid cyfundraeth (*system*) i'w deall sy genym am fywyd, ond person i'w garu ; nid dyrys-bwnc (*problem*) sychlyd i'w amgyffred, ond Crist croeshoeliedig i'w anwylo. Gwahardd peth teg yr olwg arno a wnaeth yr Arglwydd yn Eden ; ond fe

redodd y galon arno, ac felly fe syrthiodd dyn: ond y mae wedi newid y drefn yn awr; wedi crynhoi yr holl degwch crëedig a digrëedig,—gogoniant Creawdwr, a phrydferthwch creadur, i'r dyn Crist Iesu: gwŷn y nefoedd, a gwrid y ddaear. Fel y canodd Charles o Gaerfyrddin,—

> "Ynddo 'n rhyfedd cyd-lewyrcha
> Dwyfol fawredd a mwyneidd-dra."

Ac y mae yr efengyl yn dal y gwŷn a'r gwridog ger bron y byd i'r galon redeg arno; ac felly y mae'r galon yn arwain y dyn yn ol, fel yr arweiniodd hi ef ar gyfeiliorn. Y mae yn yr efengyl blygion lawer; y mae yma allu,—y mae yma ddoethineb,—y mae yma gariad; a'r plyg uchaf ydyw cariad. Pan fwytaodd ein rhieni cyntaf y ffrwyth oedd wedi denu eu calon ato gan ei degwch, agorwyd eu llygaid i ddeall; ond gwbodaeth ydoedd y buasai yn well iddynt fod hebddi. Ond pe cydiech chwi yn mhlyg cyntaf yr efengyl heddyw, deuech bob yn ychydig i gael gafael ar y lleill oll,—i ganfod ynddi ddoethineb Duw, a gallu Duw hefyd. Trwy apelio yn gyntaf at y galon y mae hi yn cyfarfod â dyn, ac â phob dyn, yn y fan lle mae. Yr oedd Williams, y cenhadwr, yn dywedyd, na welodd efe ddim un o farbariaid ynysoedd Môr y De, nad oedd yr unfed adnod ar bymtheg o'r drydedd benod o Ioan yn cyraedd ei galon. Er, feallai, na byddent wedi gweled dyn gwŷn erioed o'r blaen, eto, gydag iddo ddywedyd yr adnod, "Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol," byddent yn gwrandaw, â'u geneuau yn agored, gyda syndod, ar y newydd rhyfedd. Diolch i Dduw am ddwyn efengyl y tangnefedd i ymyl pawb,—"y tlodion."

3. Y mae trugaredd yr efengyl i'w chanfod yn ei bod hi yn cyfarfod â'r tlawd yn ei deimladau. Nid ydyw yr efengyl yn ei nodi allan fel tlawd, nac yn ei ysgar oddiwrth ei gyd-ddyn oblegid ei dlodi. Un o brofedigaethau llymaf tlodi ydyw, ei fod yn ysgar y tlawd oddiwrth ei gyd-ddyn; yn peri fod hwnw ymhob man yn dywedyd wrtho,—"saf hwnt." Y mae hyn yn llanw mynwes y tlawd â theimladau, y mae ei gymydog cyfoethog yn eu cam-enwi yn fynych yn falchder; ond mwy

cymwys fyddai eu galw yn deimladau dyn. Ond nid yw efengyl Iesu Grist ddim yn dywedyd, "saf hwnt," wrtho: nid ydyw ychwaith yn ei *batroneisio*, yn ei achlesu yn ddiraddiol, yn ymostwng i sylwi arno ond yn ei adgofio yn barhaus mai tlawd ydyw. Y mae yn hi tra rhagori ar y grefydd Iuddewig yn hyn. Er bod yn hono ofal mawr am y tlawd, eto yr oedd y canolfur rhyngddo a'r cyfoethog, yn cael ei gadw i fyny yn y deml fel ymhob man arall. Gellid adwaen y tlawd yno; oblegid nid oedd ei offrwm ef ddim yr un a'r eiddo ei gymydog cyfoethog: tra y byddai gan y cyfoethog yr ŷch corniog, carnol, neu feheryn breision, ni fyddai gan y tlawd ond y ddwy ddurtur fach, neu ddau gyw colomen: a llawer gwaith, y mae yn dra thebyg, y daeth ef i lawr o'r deml yn friwedig ei deimlad, oherwydd yr olwg ddiystyrllyd a daflai y gwr mawr ar ei aberth salw ef. Caiff y ddau esgyn i gysegr Duw eto, ond nid heb aberth. Beth a gaiff y tlawd? Oen Duw. Beth a gaiff y cyfoethog? Oen Duw. Beth a gaiff y tlawd at ei glwyfau? Y balm o Gilead. Beth a gaiff y cyfoethog? Y balm o Gilead. Beth a gaiff y tlawd am dano? Y wisg oreu. Beth a gaiff y cyfoethog? Yr un peth. Y llian main a fydd gan y ddau. Y mae'r efengyl yn darostwng uchel-drem y tlawd yn gystal a'r cyfoethog; ond y mae hi yn gweini ei thrugaredd mor llednais fel nad ydyw yn sathru ar un o'i deimladau fel creadur. Cyrau y maes, lloffion y winllan, yr hyn a ddygai y ddaear o honi ei hun y seithfed flwyddyn, oedd rhan y tlawd yn Israel gynt: nid oedd y maes ddim wedi ei drin er eu mwyn hwy, na'r winllan wedi ei phlanu er eu mwyn: gweddillion rhai uwch oedd eu rhan. Ond nid cyrau y maes sydd iddynt yn nhrefn Duw: y mae ganddynt hawl ynddo oll;—nid lloffion y winllan sydd iddynt; ond ei dewisol ffrwyth hi. "Y tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt."

2. Y mae yn yr efengyl amlygiad o allu Duw (yn ol y darlleniad yn Luc): "y tlodion yn derbyn yr efengyl," neu yn cael ei hefengyleiddio. Y cwestiwn y mae holl ddoethion y ddaear wedi methu ei ateb i foddlonrwydd ydyw, "Pa fodd y gellir cadw tlodion y byd, y dosbarthiadau iselaf, rhag dymchwelyd y dosbarthiadau uwch, ac felly llanw y wlad âg annhrefn a thrueni?" a llawer gwaith y gwnaethant hyn. I geisio gochel hyny,

cadwyd y tlodion yn gaethion fel Samson yn y carchar; ond pan ddeuent yn ymwybodol o'u nerth, rhuthrent fel bwystfilod ar y dosbarthiadau uwchlaw iddynt. I'r un diben cadwyd hwynt yn nhywyllwch anwybodaeth; ond llawer gwaith y rhuthrasant o'r carchar hwnw hefyd i ddinystrio y rhai a'u cadwent ynddo. Dyfeisiwyd crefyddau, a defnyddiwyd yr offeiriaid i'w cadw yn llonydd, trwy weithio ar eu hofnau a'u gobeithion; ond mynych y byddai eu holl swynion hwythau yn methu, a rhuthrent yn ddiluw o ddinystr dros y wlad, fel y môr tros y cloddiau llanw wedi iddo gael ei gynddeiriogi gan yr ystorm gref. Ond y mae efengyl Duw wedi cael rhwymau a wna y cawr yn berffaith ddiberygl, sef, rhwymau cariad Crist;—wedi cael ffordd i ostegu terfysg y bobloedd, sef, trwy dywallt olew maddeuant ar y tônau. "Y tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt."

Yr ydym ni wedi cynefino â'r efengyl a'i bendithion, ac felly yn rhy ddiystyr o'r hyn y mae hi yn ei wneuthur, sef, o'i nerth hi. Ond i weled hyny, deuwch gydâ mi yn eich meddwl i edrych ar un o ynysoedd Môr y De er's deugain mlynedd yn ol. A welwch chwi y dyrfa yna? Yr ydych yn ameu ai dynion ydynt, oblegid y mae rhywbeth bwystfilaidd, ïe, dieflig, yn eu gwedd; ac y mae y gwaith y maent wrtho yn peri i chwi ameu mwy eto ai dynion ydynt, oblegid gwledda ar un o'u cyd-ddynion y maent. Dilynwch hwynt o'r wledd erchyll yna i'w bwthynod budron, cewch weled yno ddyfnderoedd dan ddyfnderoedd o drueni. Hyny o dynerwch sydd ynddynt, ar yr aelwyd y mae yn ymddangos; ond y mae eu tynerwch yn galed, a'u trugaredd yn greulawn. Ewch oddiyno i'w rhyfeloedd ofnadwy: cewch ddarlun byw gerbron eich llygaid o uffern, cywirach na'r un a dynodd eich dychymyg yn ei amser mwyaf bywiog erioed. Wedi syllu nes bron llesmeirio ar y golygfeydd ofnadwy yna, edrychwch draw eto ar y llong yna yn agosâu at yr ynys; y cwch yn cael ei ollwng i lawr o honi, ac yn cael ei rwyfo tua'r lan, ac wele ddyn dieithr yn neidio o hono i'r traeth. Y mae y cwch yn dychwelyd, ac yn gadael y dyn yn unig a diamddiffyn, heb gleddyf nac arfau tân ganddo, ymysg yr anwariaid. Beth y mae am ei wneyd yn y fath le? Y mae wedi meddwl gwneyd yr uffern yna yn baradwys, a'r bwystfilod yna yn ddyn-

ion. Ow, druan o hono! meddwch chwi, onid ê? Byddai yn haws iddo wneyd i'r haul sefyll yn nghanol y nefoedd,—gostegu twrf y môr pan ruo ei donau, ac atal y corwynt yn ei flaen, na gwneyd y bwystfilod yna yn ddynion, a'r uffern yna yn baradwys; ac eto wrth i ni syllu arno, ni a welwn ei fod yn edrych yn lled hyderus. Tybed ei fod yn ei bwyll? Ydyw, yn berffaith felly. Ac os mynwch chwi wybod ymha beth y mae ei hyder yn gwreiddio, edrychwch ar y llyfr bychan sydd yn ei law: rhywbeth yn hwnw sydd yn ei wneyd yn hyderus; a dyna ydyw hyny:—"Ganwyd i chwi heddyw Geidwad yn ninas Dafydd, yr Hwn yw Crist yr Arglwydd." "Efe a archollwyd am ein camweddau ni." "Yr Hwn nid arbedodd ei Briodfab, ond a'i traddododd ef trosom ni oll." "Bod Duw yn Nghrist yn cymodi y byd âg ef ei Hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau." Beth a wna pethau fel yna i anwariaid? Wel, ni a'u gadawn hwynt am ugain mlynedd. Deuwch gydâ mi unwaith eto: a welwch chwi y gynulleidfa barchus yna; y mae deall i'w ganfod yn eu gwynebpryd, ac y mae synwyr yn bwrlymu yn eu llygad. Y mae eu calon yn dyfod i'r golwg yn eu gruddiau sydd yn wlybion gan ddagrau, wrth gofio am yr Hwn a wânwyd. Dilynwch hwynt i'w cartrefleoedd, y mae tynerwch cariad, a mwyneidd-dra trugaredd, ar bob peth yno: ïe, dilynwch hwynt i bob man, y maent i'w gweled yn ymestyn at berffeithrwydd. Wel, pwy ydyw y rhai hyn, ac o ba le daethant? Y bwytawyr dynion,—yr anwariaid ydynt, wedi bod dan ddylanwad y llyfr bychan a welsoch yn llaw y dyn dieithr. Y tlodion yn cael eu hefengyleiddio—y mae gobaith am y ddaear eto; oes, oes;—oblegid "gallu Duw yw hi."

Y mae rhywbeth hynod o galonogol yn y meddwl fod yn bosibl efengyleiddio ein byd ni: gwneyd â thrueni y byd moesol waith tebyg i'r hyn a wnaeth yr Arglwydd Iesu ar y naturiol. Yr oedd awyr hwn pan ddaeth Iesu Grist iddo yn llwythog o drueni: dymuniadau yn mynwes dyn, heb ddim ar eu cyfer; poenau a chlefydau yn ei gyfansoddiad, heb neb a fedrai eu symud; muriau rhyngddo â llawer o roddion rhagluniaeth na fedrai neb eu chwalu; ei fynwes yn lle i drueni a gofid gael eu bwrw iddo, fel y teflid budreddi Jerusalem i ddyffryn mab Hinnom. Ond ryw ddydd, wele yr Iesu yn dywedyd

wrth edrych arno, " Nis gallaf ymatal yn hwy," ac yn cychwyn allan, â thrugaredd Duw yn ei galon, a nerth Duw yn ei fraich; a chydag iddo gychwyn, wele y cloff yn neidio, a thafod y mudan yn seinio cân ; y cleifion gwahanol yn moli Duw, a'r byddariad yn barod i ddawnsio wrth y beroriaeth oedd yn eu clustiau ; y meirw yn cyfodi, ac angau yn dianc o flaen yr Adgyfodiad a'r Bywyd. Cysgod oedd hynyna o'r hyn y mae efengyl Crist yn ei wneyd. Yn awr y mae wedi myned allan yn gyfoethog o drugaredd, ac yn gyflawn o nerth, ac y mae y byd yn teimlo oddiwrth hyny. Y mae ei awyrgylch foesol ef yn puro,—ei anafusion yn myned yn llai aml, ei gloffion ysbrydol yn llamu, a miloedd o'i fudaniaid yn seinio cân ; ei fynwentydd oeddynt mor llawnion ymhob ardal yn cael eu gwaghau yn gyflym ; Lazarus i'w weled yn gwledda gyda'r byw, yn lle bod yn llygru gydâ'r meirw ; merch Jairus yn bwyta gyda'r teulu, yn lle gorwedd yn dawel yn ystafell angau ; a mab y weddw yn dychwelyd adref gydâ'i fam, yn lle cael ei gario ar yr elor i'r gladdfa. Wele, dyma ranau o ffyrdd efengyl Duw, ond pwy a draetha yr holl drugaredd a'r nerth sydd ynddi ? " Y tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt."

II. Ceisiwn ddangos y dylanwad a ddylai yr athrawiaeth werthfawr hon gael arnom ni.

1. Gwelwn ynddi brawf gwastadol o wirionedd yr efengyl. Y mae oes y gwyrthiau yn y byd naturiol wedi myned heibio ; ond yr ydym wedi cael pethau gwell yn eu lle hwynt ; ac iaith Iesu Grist wrth ei weision heddyw yw, " Ewch, a mynegwch i'r bobl y pethau a welsoch ac a glywsoch." " Ac nid gan ddilyn chwedlau cyfrwys yr ydym yn hysbysu i chwi efengyl Duw, ond wedi gweled ei gwirionedd hi â'n llygaid." Ac nid rhaid i ni mwy na'r dyn a anwyd yn ddall, ymresymu dim â neb sydd yn dymuno gwrth-ddywedyd, ond fel yntau, ni a apeliwn at ffeithiau. " Ai pechadur yw, nis gwn i : un peth a wn i ; lle yr oeddwn i yn ddall, yr wyf fi yn awr yn gweled." Dyweded y neb a fyno fod gwyrth yn anmhosibl,—fod datguddiad dwyfol yn anmhosibl,—fod yr efengyl yn afresymol, nid awn ni ddim i ymddadleu â hwynt ; ni a wyddom un peth, fel y dyn dall, y mae hi yn achub. Pe buasai Iesu Grist wedi agor llygaid un a anesid yn ddall, neu yn enwedig wedi codi un marw yma, buas-

ech yn teimlo y buasai peidio credu ynddo yn bechod dirfawr; ac felly y buasai: ond y mae wedi gwneuthur pethau mwy yma na hyny; cymaint yn fwy ag ydyw enaid yn fwy na chorff, a thragywyddoldeb yn fwy nag amser: ac eto y mae yma aml un yn dawel heb gredu. Gweithredoedd yr efengyl fydd yn condemnio ei gwrthwynebwyr hi. Nid rhaid iddi wrth wyrthiau yn llythyrau canmoliaeth i ddangos o ba le y daeth, oblegid gall ddywedyd am bob sant, "Fy llythyr i ydwyt ti." Efengyl farw yn y llythyren sydd yn y Beibl; ond efengyl fyw yn yr Ysbryd ydyw y sant: a'r fyw fydd yn condemnio. Nid pregeth Noah, ond arch Noah a gondemniodd yr hen fyd: y bregeth yn fyw oedd yr arch. Yr efengyl yn fyw ydyw y tlodion wedi eu hefengyleiddio. Y mae myned i uffern o'r un wlad a Beibl yn beth ofnadwy; ond mwy ofnadwy na hyny, ydyw myned yno o'r un wlad a saint. "Oni bai wneuthur o honof yn eu plith y gweithredoedd ni wnaeth neb arall," medd Iesu Grist am yr Iuddewon, "ni buasai arnynt bechod;" felly oni bai eich bod wedi gweled gweithredoedd yr efengyl, ni buasai mewn cymhariaeth, arnoch bechod am ei gwrthod hi. Y gweithredoedd fydd yn condemnio.

2. Gwelwn yn yr athrawiaeth hon brawf o'i chyfaddasder i bob un o honom ni yn bersonol, ac felly o'i theilyngdod o gael pob derbyniad genym. Yn yr hyn a wnaeth hi, ni a gawn brawf o'r hyn a all hi ei wneyd. Wrth edrych i mewn iddi, yr ydym yn gweled ei bod yn cyfateb yn gwbl i'n hangen ni;—digon o drugaredd ar gyfer ein hannheilyngdod, a digon o allu ar gyfer ein trueni: ni a welwn fod ganddi iawn i Dduw, a braich i ddryllio gweithredoedd y diafol; fod ynddi holl gyflawnder y Duwdod yn gyfoeth o ras ar gyfer gwagder ein colledigaeth ni, a holl allu y Duwdod yn gyfoeth o nerth ar gyfer ein caethiwed ysbrydol ni. Dyma gyfaddasder, onide? ond cyfaddasder pwnc yw hwnyna; ond yn y testyn yr ydym yn gweled y cyfaddasder mewn gweithred. Wrth edrych ar beirianwaith cywrain, gellir ffurfio barn am ei gymhwysder i'w waith amcanedig cyn ei weled yn gweithio; os na bydd yn croesi yr un o ddeddfau natur, ond yn ol pob peth sydd yn ymddangos yn gyson â hwynt, gwna hyny y tebygolrwydd yn fawr y cyflawna fe y gwaith: ond ni bydd yna ddim ond tebygol-

rwydd, ond pan y gwelir ef yn gweithio, yn gwneyd y gwaith yn berffaith, bydd hyny yn sicrwydd o'i gyfaddasder. Dyma ydyw y prawf sy genym ni ar efengyl Duw. Y peirianwaith dwyfol yn cyflawni yr hyn yr amcanwyd ef iddo sydd yn y testyn. Ni raid pryderu am fynyd am ei chyfaddasder hi. Llawer o ddadleu a fu ynghylch y llong fawr, pan oedd hi yn cael ei hadeiladu: tybiai rhai na wthid mo honi i'r dwfn byth: wedi hyny ofnid y byddai yn anmhosibl myned â hi yn ddiogel i lawr yr afon i'r môr: wedi cyraedd yno, ofnid ei bod yn rhy fawr i'w llywodraethu; ond hyd y cafwyd prawf o honi, y mae yr holl ofnau hyd yma wedi bod yn ddisail: ond nid oes llawn hyder ynddi eto,—nid yw wedi croesi yr Atlantic; os gwna hi hyny yn ddiogel, fe gredir iddi,—a pha ddiolch am hyny? Llawer o ddamcanu fu ynghylch llong fawr iachawdwriaeth. Fe dybiodd Satan y buasai yn medru atal iddi gael ei gyru i'r dwfr, ond methodd: cyrhaeddodd y môr, a rhodiodd yn fawreddus ar wyneb ei donau; ac nid hyn yw yr oll,—y mae hi wedi croesi filoedd o weithiau, er yr ystormydd oll, a'i llwyth yn ddiogel, i borthladdoedd prydferth y nefoedd, ac y mae hi wrth y làn yma yn awr yn disgwyl am lwyth newydd. A gaiff hi ddisgwyl yn ofer?

Nid oes ond un o ddau beth a all eich cadw chwi yn ol; naill ai ofn nerth y drefn, neu ofn ei graslonrwydd hi. Ond er bod haenau ar haenau o drueni yn eich cyflwr, wrth edrych ar y drefn yn gweithio, mi welaf nad oes yma yr un trueni nad oes ganddi hi drugaredd ar ei gyfer;—nad ydych mewn un pydew nad oes ganddi hi fraich ddigon cref i godi o hono. Y mae hi wedi achub eich bath chwi. Y mae hi wedi achub eich gwaeth chwi hefyd, fel y dangosid drwy hyny nerth a graslonrwydd y drefn, er esiampl i'r rhai a gredant rhagllaw. Os wyt ti yn ddall, y mae wedi rhoddi llygaid i ddeillion; os wyt ti yn fud, y mae hi wedi datod rhwymau tafod y mudan. Mewn gair, nid ynghylch beth wyt ti y mae y ddadl, ond a gaiff efengyl Duw roddi prawf o'i gallu a'i gras arnat ti. Ni siomwyd mo honi yn neb a gafodd hi erioed. Fe siomwyd Hiram yn y dinasoedd a roddodd Solomon iddo; ond os rhoddi di dy hun i fyny i efengyl Duw, ni siomir mo honi ynot ti. Nid danod dy fod yn ddall a wna hi, ond chwilio am ddau lygad

ti. Nid dangos anfoddlonrwydd am dy fod yn fud a wna hi, ond datod rhwym dy dafod, a rhoddi emyn i ti i ganu hefyd. Ni dderbyniai yr Arglwydd yn Jerusalem mor hyn a ysglyfaethwyd, na'r cloff, na'r clwyfus, na'r anafus, yn aberth ; ond y mae Mab Duw yn eu derbyn oll. Y mae wedi derbyn miloedd felly eleni, ac wedi eu hefengyleiddio ; ac o'r wedd brydferth sydd arnynt! Nid rhyfedd fod rhai yn myned i ameu yr hyn a fuant, fel yr Iuddewon am y dall hwnw: y mae y cyfnewidiad mor fawr ! Os mentri di efengyl Duw, ti a weli ddydd yr amheui di dy hunan pwy ydwyt. Ei hargraff fendigedig hi a fyddo arnoch oll.

[Gwener, Mawrth 23, Eto Ebrill 19, 1860 ]

## PREGETH LXIV.

### Y MWYNDER YN YMADO.

HOSEA VI. 4:—"Beth a wnaf i ti, Ephraim? beth a wnaf i ti, Judah? eich mwynder sydd yn ymado fel cwmwl y boreu, ac fel gwlith boreuol."

ER nad oes ond dau gyflwr yn y byd, y mae yn eglur wrth ddarllen y Beibl fod graddau yn perthyn i ddrwg a da; oblegid yr ydym yn darllen am rai bach yn Nghrist, ac am wŷr perffaith;—am deyrnas Dduw yn yr eginyn, yn y dywysen, ac yna â'r ŷd yn llawn yn y dywysen; am y tir da yn dwyn ffrwyth, peth ar ei ddegfed ar hugain, arall ar ei driugeinfed, ac arall ar ei ganfed. Gall y cymhariaethau hyn fod yn ddarluniad o wahanol bersonau: mewn rhai y mae crefydd o hyd fel yn yr eginyn; mewn eraill y mae hi wedi cyraedd y dywysen, ond heb addfedu nemawr; tra mewn eraill y mae yr ŷd wedi llenwi yn y dywysen,—crefydd wedi addfedu. Y mae hyn hefyd yn ddisgrifiad o'r un person ar wahanol amserau ar ei oes: yr eginyn gwanaidd a welwyd ynddo i ddechreu, ond dilynwyd hwnw mewn amser gan y dywysen, ac ymhen amser drachefn, cafodd hono ei llenwi âg ŷd. Neu, yn ol darluniad y ddameg arall,—daeth y tir oedd i ddechreu ffrwytho ar ei ddegfed ar hugain, i ffrwytho ar ei driugeinfed, ac yna ar ei ganfed. Y mae y graddau hyn hefyd yn dilyn eu gilydd yn rheolaidd: yn y dywysen y mae yr ŷd yn llawn, ac nid yn yr eginyn: y tir oedd yn dwyn ar ei driugeinfed, a ddaeth gyntaf i ddwyn ar ei ganfed, ac nid yr hwn oedd yn dwyn ar ei ddegfed ar hugain.

Y mae y siamplau hyn yn dangos fod graddau mewn crefydd; ac y mae yn y Beibl siamplau mor eglur a'r rhai hyn yn dangos fod graddau mewn pechod: oblegid yr ydym yn darllen am ra

ymhell oddiwrth gyfiawnder;—am rai wedi diddarbodi, yn ymroddi i gyflawni pob pechod yn un chwant;—am rai â'u cydwybod wedi ei serio â haiarn poeth;—am rai nad allent gredu; tra yr ydym yn darllen am eraill heb fod ymhell oddiwrth deyrnas Dduw,—o fewn ychydig i fod yn Gristionogion;—ac am rai mor agos, fel y gelwir hwynt yn blant y deyrnas, eto heb fod ynddi. Er nad oes dim yn rhy anhawdd i Ysbryd yr Arglwydd, eto y mae yr hyn yr ydym yn ei ganfod â'n llygaid yn cytuno yn dda â'r hyn yr ydym yn ei ddarllen yn y Beibl, mai o'r dosbarth agos at y deyrnas, fel rheol, y mae Ysbryd Duw yn ei phoblogi hi. "Pa fodd y credant yn yr hwn ni chlywsant am dano?" Y mae y rhai sydd heb glywed yr efengyl yn rhy bell i gael eu hachub;—tra yn y tir yna, rhaid iddynt farw heb Grist, oblegid "ffydd sy trwy glywed." Ac ymysg gwrandawyr yr efengyl drachefn, y mae rhai, fel y Bereaid, yn agos; tra y mae eraill, fel yr Iuddewon, ymhell.

Y mae yn anhawdd, feallai, cysoni y syniad fod graddau mewn drwg a da, â gwaith Ysbryd Duw yn nhröedigaeth pechadur; ond y mae yn eglur fod gwadu hyn yn y naill neu y llall, neu gamsynio yn ei gylch, yn effeithio yn dra niweidiol ar y neb a wna hyny. Y mae camsynio ynghylch cynydd graddol crefydd yn meithrin ysbryd dioglyd, sydd yn gwneuthur y dyn yn ddigysur iddo ei hun, ac yn ddiogoniant i Dduw. Dylem gofio yn barhaus fod gwahaniaeth mawr rhwng bod mewn sefyllfa gadwedig, a bod yn ddyn perffaith yn Nghrist Iesu. Fe gyferchir pob un o'r rhai bach yn Nghrist, am eu bod mewn sefyllfa gadwedig, â'r geiriau hyny gan y Barnwr, y dydd diweddaf:—"Ha fab, cymer cysur, maddeuwyd i ti dy bechodau." Ond rhaid i un berthyn i'r dosbarth perffaith i gael ei gyfarch â'r geiriau,—"Da, was da a ffyddlawn." Yr oedd yr Apostol Paul yn ymorchestu i gyflwyno "pob dyn yn berffaith yn Nghrist Iesu." Nid eu hachub yn unig oedd hyny; ond eu cael yn gyfryw ag y byddent yn llawenydd ac yn goron iddo yn nydd Crist; nid yn unig "yn gymeradwy yn yr Anwylyd," ond yn rhai wedi cyraedd "at fesur oedran cyflawnder Crist."

Drachefn, y mae camsynio ynghylch graddau pechod yn effeithio mor, neu yn fwy, niweidiol ag ydyw camsynied ynghylch graddau crefydd. Y mae dyn o dan ddylanwad y

camsyniad yna yn ymwerthu i ddrwg, ac yn disgwyl nefoedd er hyny: am mai Duw sydd yn achub, meddai, yr un peth i Hollalluogrwydd ydyw achub y pechadur mwyaf a'r lleiaf; gan hyny y mae y dyn mor dawel heddyw mewn cyflwr drwg ag ydoedd ddeng mlynedd i heddyw; er ei fod, mewn gwirionedd, yn llawer iawn pellach oddiwrth deyrnas Dduw heddyw nag ydoedd y pryd hyny. Iaith ymddygiad y dyn yna ydyw, 'Gwnaf ddrwg fel y dêl daioni.' Y mae graddau y drwg yn sylfaen gobaith iddo, yn lle bod yn achos pryder. Ond y mae y testyn hwn yn dangos fod cynydd mewn drwg yn beth a ddylai achosi pryder mawr. Y mae gweled un yn cynyddu felly,—yn ymbellhau oddiwrth deyrnas Dduw,—yn olwg mor ddifrifol, fel y dengys y testyn ei bod hi, yn achos pryder yn mynwes yr Anfeidrol ei Hun; nes y gofyn Efe yma, "Beth a wnaf i ti, Ephraim? beth a wnaf i ti, Judah?" Y mae y mwynder,—y daioni,—a fu ynoch unwaith, yn ymadael; ac y mae ymadawiad hwnyna yn arwyddo yn ddrwg i chwi.—"Beth a wnaf i ti."

Y mae yn y testyn, a'r adnodau blaenorol, gyfeiriad at gynyddu yn y ddau beth a fuant o dan sylw, sef mewn drwg ac mewn da. Yr oedd yr Arglwydd yn niwedd y benod ddiweddaf wedi dywedyd y dychwela Efe i'w le, hyd oni chydnabyddent eu bai, a cheisio ei wyneb. Yn ngwyneb hyny, "Deuwch," meddai y prophwyd, "a dychwelwn at yr Arglwydd;"—"Efe a'n bywha ni ar ol deuddydd." Y mae yn debygol mai ymadrodd diharebol ydyw hwn, i ddangos y caent dderbyniad buan ganddo; a'r canlyniad o hyny fyddai ei adnabod; a thrwy ddilyn gwneuthur hyny, cynyddent yn raddol yn y wybodaeth am dano, fel y mae goleuni y boreu yn cynyddu yn raddol nes ymlid y tywyllwch oll i ffordd: neu fel y mae y diweddarwlaw yn mis Hydref yn peri i'r had fyddai newydd ei hau, egino a thyfu, a'r cynar-wlaw drachefn yn y Gwanwyn yn peri iddo ffrwytho ac addfedu; ac felly, wrth ddilyn adnabod yr Arglwydd, fe gynyddwn ninau o radd i radd, nes o'r diwedd ei adnabod yn berffaith.

Ond yn nghanol cysuro ei hun â'r meddwl yna, y mae y prophwyd fel yn cofio yn ddisymwth pa fath rai ydoedd y bobl hyn, mai pobl oeddent yn cynyddu o radd i radd, nid

mewn daioni, ond mewn drygioni,—yn lle cynyddu fel goleuni y boreu mewn adnabod yr Arglwydd, yr oedd eu mwynder, neu eu daioni hwy, yn cilio "fel cwmwl y boreu, ac fel gwlith boreuol." Cynyddu mewn drwg, ac nid mewn da, yr oeddent; —myned yn bellach oddiwrth deyrnas Dduw, yn lle yn nes ati. Yn yr olwg ar hyny, y mae y prophwyd, o dan deimlad dwys, yn dywedyd, "Beth a wnaf i ti, Ephraim? beth a wnaf i ti, Judah?"—neu fel yr awgrymwyd eisoes, feallai mai yr Arglwydd sydd wedi llefaru y testyn yn ddigyfrwng wrth ei was, wrth ei weled yn ymgysuro yn y meddwl yr adferid hwynt yn raddol. Y mae yr Anfeidrol yn dywedyd pa fath rai oeddent;—nid rhai a gynyddent mewn crefydd, ond a gynyddent mewn drwg;—bod eu mwynder yn cilio "fel cwmwl y boreu, ac fel gwlith boreuol."

Oddiwrth y testyn, daw tri pheth dan ein sylw:—

I. Fod amseroedd ar ddynion y gellir yn briodol eu galw yn amseroedd o fwynder, neu ddaioni,—amseroedd y mae yr Arglwydd yn agos atynt hwy, a hwythau yn agos at deyrnas nefoedd.

II. Fod perygl i'r mwynder hwnw gilio,—ymadael.

III. Fod pwys dirfawr yn hyny; "Beth a wnaf i ti, Ephraim? beth a wnaf i ti, Judah?

I. Fod amseroedd ar ddynion y gellir yn briodol eu galw yn amseroedd o fwynder, neu ddaioni,—amseroedd y mae yr Arglwydd yn agos atynt hwy, a hwythau yn agos at deyrnas nefoedd. Gellir cymeryd y mwynder neu y daioni hwn, naill ai fel amlygiad o agwedd meddwl dyn, neu fel amlygiad o feddwl yr Arglwydd am dano; hyny yw, gellir deall wrth y mwynder, naill ai y tynerwch sydd ynddynt hwy at yr Arglwydd, neu, a llefaru am Dduw yn iaith dyn, y tynerwch sydd yn mynwes yr Anfeidrol tuag atynt hwy. Fel pe dywedasai yr Arglwydd,—Y mae y tynerwch sydd ynddynt hwy tuag ataf fi yn cilio yn raddol; neu ynte,—Y maent hwy yn myned yn gyfryw, fel y mae y tynerwch yr oeddwn i yn ei deimlo tuag atynt hwy yn cilio. Ymweliadau yr Arglwydd â dyn sydd yn achosi y mwynder yna yn ei ysbryd; a thra y bydd hwnw yna, y mae y dyn yn agos at deyrnas Dduw. Y mae yr amser yna ar ddyn yn amser serchawgrwydd arno hefyd yn ngolwg

yr Arglwydd. Cyfeiria yr Arglwydd, trwy y prophwyd Jeremiah at un o'r amseroedd yna ar genedl Israel:—" Cofiais di, caredigrwydd dy ieuenctyd." Felly y mae y naill ystyr yn rhedeg i'r llall. Pan y mae yr Arglwydd yn ymweled â'i greadur, y mae'r adeg hono yn adeg o fwynder ar ei feddwl. Y mae yr un adeg hefyd yn amser serchawgrwydd arno yn ngolwg yr Arglwydd. Y mae efe yn agos at deyrnas Dduw, ac y mae Duw fel Achubydd yn agos ato yntau. Y mae amseroedd o'r fath ar oes pawb. Dywed y bardd fod *tide* yn amgylchiadau pawb a all arwain i gyfoeth, ond cymeryd y fantais arno. Dichon fod lle i ddadl ynghylch cywirdeb hynyna yn ei berthynas â'r byd hwn ; ond y mae yn ddiddadl fod adegau o'r fath ar oes dyn yn ei berthynas â'r byd arall. Y maent yr un peth iddo ag ydyw y *spring tide* i'r llestr,—yr un peth ag ydyw y gwanwyn i hau i'r cynhauaf: amseroedd ydynt cyffelyb i'r dydd pwysig hwnw yn hanes Saul, ag y cadwodd efe Agag yn fyw, yn lle ei ladd. Y dydd hwnw y penderfynwyd tynged ei frenhiniaeth ef. Neu, cyffelyb ydynt i'r adeg yr oedd brenin Israel â'r bwa yn ei law, yn ystafell y prophwyd Eliseus ; fe drodd tynged ei frenhiniaeth ef ar yr ychydig fynydau hyny. Os ä yr adegau hyn heibio heb eu defnyddio yn briodol, bydd pob peth a'u dilyno yn ofer i'r dyn hwnw. Cyfeiria yr Arglwydd Iesu at ddydd felly a gafodd Jerusalem, yr hwn a fuasai, ond ei ddefnyddio yn iawn, yn ei harwain hi i heddwch a llwyddiant, ond a aeth heibio heb iddi ei adwaen ; ac wedi iddo fyned heibio, gellid dywedyd am dani, "O'th aflendid ni'th lanheir mwy."

Y mae dau amser penodol yn perthyn i ddyn, y gellir eu galw yn amseroedd o fwynder arno. Y naill yn adeg benodol ar ei oes, sef amser ieuenctyd ; a'r llall, yr adeg hono, pa pryd bynag y bydd, pan y mae Ysbryd yr Arglwydd yn ymryson â'r meddwl mewn modd anghyffredinol.

1. Un o amseroedd mwynder y ddynoliaeth ydyw tymor ieuenctyd. Er bod holl feddylfryd calon dyn o'i ieuenctyd yn ddrwg, eto y mae y tymor hwn ar oes yn dymor mwynder. Y mae yr ieuanc yn dyner. Nid yw y gydwybod ddim wedi ei serio,—y galon ddim wedi caledu,—yr holl enaid ddim wedi ei haiarneiddio fel nad ellir menu arno ; y mae y cymeriad eto

heb ymffurfio, ond fel metel toddedig heb oeri, a chymeryd llun penodol. Fe ellir rhoddi argraff y ffurf a fynech arni, tra y bydd hi yn yr ystad doddedig yna. Felly dyn yn nhymor ieuenctyd. "Hyfforddia blentyn ymhen ei ffordd; a phan heneiddio nid ymedy â hi." Ond wedi i'r cymeriad gael ei ffurfio, y mae mor anhawdd ei newid ag ydyw i'r Ethiop newid ei groen, neu y llewpard ei frychni. Y mae newydd-deb ynghylch pob peth i'r meddwl ieuanc : nid yw wedi cynefino â phethau crefydd, fel ag i'w gwneuthur yn gyffredin iddo. I'r ieuanc y maent yn bethau sylweddol, ac nid yn enwau gweigion. Y mae bygythion y Beibl yn disgyn ar feddwl llawer un yn nghanol-ddydd oes, fel careg ar graig : y mae y meddwl wedi caledu, am hyny nid ydynt yn menu arno; ond y maent yn disgyn ar feddwl yr ieuanc fel careg ar glai,—y mae eu hol hwynt yno. I un felly, y mae Iesu Grist yn berson, ac nid yn ddrychfeddwl;—y nefoedd yn lle, ac nid yn freuddwyd ;—uffern yn llyn yn llosgi o dân a brwmstan, ac nid yn bictiwr ar y pared.

Dylanwad Ysbryd Duw sydd yn cynyrchu y mwynder hwn ; ac y mae genym le i gasglu oddiwrth y gwirionedd fod y dylanwad hwnw yn gyson ar y meddwl ieuanc. Y mae y Duw mawr am feddianu ei greadur yn nechreuad ei ffordd, fel y gellir dywedyd am dano yn yr adeg yna, fel am Joseph yn yr Aipht, fod yr Arglwydd gydâg ef. Y mae y Tad sydd yn y nefoedd yn hyn yn gyffelyb i'r rhieni naturiol ; y mae blynyddoedd cyntaf plentyn yn amser serchawgrwydd arno i'w rieni ;—y mae pob peth sydd yn ei amgylchu wedi eu bwriadu i enill ei galon i ymlynu wrthynt, eu caru, a'u parchu ; ac os na wnant hyny, y tebyg ydyw na effeithia dim ar ol yr adeg yna ar ei oes i gynyrchu hyny. Felly y mae Tad yr ysbrydoedd yn amgylchu yr ysbryd ieuangaidd â dylanwadau i enill ei galon i ymlynu wrtho, ei garu, a'i barchu ; ac os na effeithiant hyny, y *tebyg* ofnadwy ydyw na chynyrcha dim, mewn unrhyw adeg arall ar oes, y peth hwn.

Ni a welwn yn eglur yn hanes Mab Duw fod yr amser yna ar oes yn amser o fwynder yn ngolwg Duw. Yr oedd y Mab yn hyn hefyd yn amlygiad o'r Tad : nid unwaith na dwywaith y dangosodd Efe serchawgrwydd neillduol at ieuenctyd. Fe gym-

erodd y plant yn ei freichiau i'w bendithio ;—fe'u cyfiawnhaodd am dŷru o'i amgylch, a llefain, "Hosanna" iddo. Fe hoffodd y dyn ieuanc oedd yn dyfod ato i ymofyn bywyd tragwyddol ; ac fe ddewisodd ei ddisgybl anwyl o'r dosbarth hwn. Ai nid tynerwch, symlrwydd, a diragrithrwydd plentyn ydyw y nodau y mae yn eu rhoddi ar y rhai a dderbynir i mewn i'w deyrnas? "Oddieithr eich troi chwi, a'ch gwneuthur fel plant bychain, nid ewch chwi ddim i mewn i deyrnas nefoedd." Amser mwynder y ddynoliaeth ydyw y tymor hwn.

2. Amser mwynder y ddynoliaeth yn arbenig hefyd ydyw yr adeg y mae Ysbryd Duw yn ymryson mewn modd anghyffredinol â'r meddwl. Y mae dylanwad yr haul ar y ddaear yn ddigon cryf bob amser i gadw bywyd lle y mae ; ond y mae weithiau yn ddigon cryf i ddeffroi bywyd yn yr hadau a fuasent, oni bai am hyny, yn parhau yn farw. Felly y mae digon o ddylanwad Ysbryd Duw bob amser gydâ'r efengyl i gadw bywyd lle y mae ; ond y mae weithiau ddylanwadau anghyffredinol yn deffroi bywyd lle nad oedd ; fel y mae tir diffrwyth mewn canlyniad yn tarddu ac yn tyfu.

Y mae hyn yn cymeryd lle bron yn ddieithriad ar fynediad cyntaf yr efengyl i unrhyw wlad. Cyflawnir y pryd hyny brophwydoliaeth Joel, sef tywallt yr Ysbryd ar bob cnawd. Hyn a barodd iddi orchfygu y byd adnabyddus yn nyddiau yr apostolion.

Y mae hyn hefyd yn cymeryd lle pan y mae yr Arglwydd yn bywhau ei waith mewn gwlad,—yn ymweled drachefn â'i eglwys. Y mae crefydd yn cael ei dwyn ar amseroedd felly yn destyn sylw pawb, ac nid oes odid fynwes i'w chael nad yw y cwestiwn yn sibrwd ynddi, "Beth a wnaf fel y byddwyf cadwedig?"

Eilwaith : y mae amseroedd fel hyn yn digwydd yn hanes pob dyn yn bersonol, pryd nad ydyw yn adeg o adfywiad cyffredinol ar grefydd. Y mae Ysbryd Duw yn taenu mwynder dros ei feddwl, yn cynyrchu tynerwch trwy ei enaid, sydd yn ei wneuthur i fesur fel y cwyr toddedig, yn barod i dderbyn argraff y gwirionedd. Oni wyddoch chwi oll am amseroedd, pan y mae y byd arall, a'ch perthynas ddifrifol chwi âg ef, yn dyfod i gartrefu yn y meddwl ;—Eich pechodau yn eich dal, fel

na ellwch edrych i fyny? Ac ar y pryd yr ydych yn crynu fel Felix; ond fel yntau, yn dywedyd yn rhy aml, "Dos ymaith ar hyn o bryd."

Drachefn; y mae yr adeg pan y mae pethau dieithr mewn rhagluniaeth yn cyfarfod dyn yn amser o fwynder ar ei feddwl. Y maent yn dylanwadu ar y meddwl fel y rhew a'r eira ar y ddaear,—yn lladd y chwyn, yn marweiddio ffrwythau y felldith; ond os collir yr adeg fanteisiol yna i roddi rhywbeth gwell yn eu lle, tyfant eilwaith gyda mwy o nerth nag erioed. Dyma ychydig o amseroedd mwynder y ddynoliaeth.

II. Ond y mae y mwynder yna yn fynych yn cilio: tynerwch ieuenctyd yn cael ei golli; bywiogrwydd y gydwybod yn heneiddio; y galon yn caledu; Ysbryd yr Arglwydd yn ymadael; y weinidogaeth yn colli ei dylanwad; y Beibl yn distewi; pethau dieithr rhagluniaeth yn myned heibio heb gael nemawr neu ddim effaith ar y meddwl. Y meddwl fu unwaith fel y ddaear yn teimlo oddiwrth holl ddylanwadau yr awyrgylch; yn cael ei mwydo gan y cawodau, a'i maethu gan yr haul, yn myned yn raddol fel y graig, yr hon nid ydyw na gwlaw na haul yn cael dim effaith er daioni arni. Y "mwynder yn ymado fel cwmwl y boreu, ac fel gwlith boreuol." Y mae hyn yn dangos dull yr ymadawiad, a'r achos o hono: ymadael yn *raddol* fel y cwmwl a'r gwlith, ac ymadael trwy ddylanwad pethau croes iddo, fel y cwmwl a'r gwlith.

1. Ymado yn raddol, fel y cwmwl. Yn y dwyrain, lle y mae y gwrês mor angerddol, edrychir ar gael cwmwl yn y ffurfafen yn y boreu yn dra phwysig; ac fe sylwir yn bryderus pa un ai y cwmwl a lwydda i gadw draw wres yr haul, ai ynte yr haul a lwydda i leibio i fyny y cwmwl. Am ychydig y mae yn anhawdd dywedyd pa un a orchfyga; ond fel y mae yr haul yn codi yn uwch i'r lan, y mae y cwmwl yn cael ei leibio yn raddol, nes y mae y ffurfafen yn gwbl glir. Felly y mae mwynder meddwl dyn yn ymado. Nid mewn mis,—nid mewn blwyddyn,—y collwyd tynerwch ieuenctyd: gwaith blynyddoedd a fu dileu ofn pechu oddiar y meddwl. Yr oedd hyn yn cymeryd lle mor raddol, fel nad oedd y dyn ieuanc ddim yn ymwybodol fod nemawr wahaniaeth ynddo yn niwedd y flwyddyn ragor oedd yn ei dechreu hi. Y mae ymrysoniadau Ysbryd Duw yn

myned yn wanach wanach. Y mae yn ymadael fel y gwelodd Ezeciel y gogoniant yn ymadael o'r deml : aeth o'r cysegr at y rhiniog,—o'r rhiniog uwch ben y ddinas,—oddiyno i ael y bryn. Yn y dechreu yr oedd Ysbryd yr Arglwydd yn llefaru yn y cysegr yn ymyl ; wedi hyny y mae yn llefaru megis oddiar riniog y tŷ, ychydig yn llai eglur; yna y mae yn llefaru fel oddiar y ddinas,—llais ydyw fel yn dyfod o bell ; ond y mae yn symud drachefn i ael y bryn, yn bellach fyth. Y mae rhywbeth tebyg i sŵn mewn ambell oedfa, ond y mae y dyn yn ameu pa un ai nid dychymygu a wnaeth. Y mwynder yn ymado yn raddol. Y mae ei fod yn ymado mor raddol yn anfantais i'r dyn deimlo oddiwrth bwysigrwydd hyny. Pe buasai y dyn yn cael ef hun wedi myned fel darn o faen isaf melin mewn saith niwrnod, ac yntau y Sabbath blaenorol fel cwyr toddedig, buasai yn dychrynu drwy ei enaid; ond gall yr un peth gymeryd lle mewn saith mlynedd heb achosi nemawr bryder iddo ; ond nid yw y graddolrwydd ddim yn ei wneuthur yn llai pwysig. Y mae y darfodedigaeth (*consumption*) yn lladd yn bur raddol, fel wrth y fodfedd ; ond lladd y mae er hyny. Nid ydyw mai cilio wrth y fodfedd y mae y llanw oddiwrth y llestr sydd wedi sefyll ar y tywod, ddim yn peri i'r morwr fod yn ddiofal am ei chael hi oddiyno ; oblegid y mae yn gwybod yn dda y cilia efe, wrth y fodfedd, mor bell fel na bydd gobaith cael y llong i ymrodio ar wyneb y dyfroedd. Y mae yma heddyw lawer llestr wedi sefyll ar y draethell. A ydyw y llanw ddim wedi dechreu troi,—dechreu cilio ? gall hyny fod yn raddol iawn : nid yw yn cilio ond modfedd ar y tro ; ond fe ä wrth y fodfedd yn fuan yn ddigon pell, fel y bydd yn anobeithiol cael dy lestr di i nofio byth. "Eich tŷ a adewir i chwi yn anghyfanedd."

2. Ond yr achos fod y mwynder yn ymado ydyw dylanwad rhywbeth croes iddo. Yr haul, peth hollol groes yn ei natur, a wnaeth i'r cwmwl a'r gwlith gilio. Chwant y cnawd,—chwant y llygaid,—balchder y bywyd, sydd yn peri i fwynder meddwl dyn ymado. Y mae tynerwch ysbryd dyn ieuanc yn cael ei ddifa bob yn ychydig gan gymdeithas ddrwg. Y mae cellwair â'r hyn yr oedd y gydwybod yn ei gondemnio wedi sychu i fyny ireidd-dra llawer ysbryd. Nid oedd Samson yn ymwybodol yn y dechreu fod Dalilah yn gwneuthur dim niwed iddo ;

ond o hir gellwair â hi, cafodd ddeall fod Ysbryd yr Arglwydd wedi cilio oddiwrtho. Nid pob pren sydd yn blodeuo yn hardd sydd yn ffrwytho. Nid pob maes sydd wedi ei orchuddio âg egin clws a welir â'r ŷd yn llawn yn y dywysen. Y mae y mwynder yn "ymado fel cwmwl y boreu, ac fel gwlith boreuol."

III. Y pwys sydd yn hyny: "Beth a wnaf i ti, Ephraim? beth a wnaf i ti, Judah?" Cofiwch mai y Duw anfeidrol sydd yn dywedyd fel hyn, wrth weled ei greadur yn mynu ei ffordd er pob peth. Y mae yr iaith hon yn dangos ei fod megis heb wybod beth yw wneyd: yn gyffelyb i'r meddyg wedi treio ei holl fedrusrwydd ar y claf; ond yn ofer: ymlithro y mae, er y cyfan, o flaen ei lygaid i freichiau angau. Oni allasai y Duw Hollalluog, medd rhywun, atal i hyn fod? A pha fodd y y cysonwch chwi beth fel yna â bod iachawdwriaeth o ras yn unig? Nid oes dim a fynwyf fi â chysoni. Y mae y peth i lawr yn llyfr Duw; ac fel pob peth arall sydd yma, y mae yn wirionedd tragwyddol. Oni buasai fod pwys mewn bod y mwynder yn ymado, ni buasai iaith fel hon ddim yn dyfod o enau yr Anfeidrol ei hun. Y mae yn bwysig.

1. Oblegid i'r un graddau ag y mae y mwynder yn ymado, y mae eich cadwedigaeth yn myned yn fwy annhebyg. Os bydd y naill ddydd ar ol y llall o adeg hau yn cael eu gollwng i lithro heibio heb eu defnyddio, y mae annhebygrwydd medi yn cynyddu, fel y maent hwy yn llithro ymaith. Os na bydd ond un diwrnod i wneuthur gwaith mawr, y mae pob awr o hwnw sydd yn llithro heibio, a'r gwaith heb ei gyflawni, yn ei gwneyd yn fwy annhebyg y cyflawnir ef byth. Gwanwyn hau, erbyn cynhauaf bywyd tragwyddol, ydyw amseroedd mwynder ysbryd dyn; ac y mae gobaith cynhauaf yn gwanhau, i'r un graddau ag y mae adeg hau yn myned heibio heb ei defnyddio. Dydd iachawdwriaeth ydyw dydd y mwynder; ac fel y mae ei oriau yn dirwyn i ben, heb ateb y diben, y mae dy iachawdwriaeth yn myned yn fwy-fwy annhebyg. Ac nid yw hynyna ddim ond rhan o'r gwirionedd. Y mae mwynder, os na bydd yn dwyn un i mewn i'r deyrnas, yn ei bellâu oddiwrthi. Y mae yr haiarn, wedi oeri, yn galetach nag ydoedd cyn ei boethi erioed. Y mae yr amaethiad sydd ar y ddaear, os na bydd yn effeithio i

gynyrchu llysiau cymwys, yn peri iddi ddwyn mwy o ddra'n a mieri, na phe buasai hi heb ei hamaethu o gwbl. Y mae yn anmhosibl i'r rhai a brofasant y rhodd nefol, a nerthoedd y byd a ddaw, ac a syrthiasant ymaith, ymadnewyddu drachefn i edifeirwch. Nid yn Rhufain,—nid yn Athen,—nid yn Corinth, yr oedd y bobl nad oedd gordd yr efengyl ddim yn ddigon trom i'w dryllio, ond yn Jerusalem. Pwy a geir yn ddigon caled i groeshoelio Mab Duw? Pobl y mwynder. Pwy ydyw pechaduriaid mawr ein gwlad ni? Rhai a fagwyd yn yr Ysgol Sabbothol. Pwy ydyw yr anffyddiwr yna? Un a fu o fewn ychydig i fod yn Gristion.

2. Y mae pwys mewn bod y mwynder yn ymado, oblegid nid oes genym sail i ddisgwyl iddo byth ddychwelyd yn ol. "Gweithiwch allan eich iachawdwriaeth eich hunain trwy ofn a dychryn. Canys Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynoch ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef." Gan hyny, "gweithiwch allan eich iachawdwriaeth," oblegid os cilia,—os ymedy,—nid oes arno ddim rhwymau i ddychwelyd. Ewyllys da ydyw y gwaith. Y mae llanw yn sicr o ddilyn trai y môr: wedi i'r haul naturiol fachlud, fe gyfyd drachefn. Os collir un gwanwyn i hau, daw un eilwaith ar ei ol ef; ond mewn ystyr ysbrydol, y mae llawer nad oes ond un llanw mawr am eu hoes hwynt. Os machluda yr haul unwaith, ni welir mo hono mwy uwchlaw'r terfyngylch; os ä y gwanwyn heibio, yn ofer y disgwylir am un arall byth ar ei ol. Gan hyny, os ydyw y mwynder yn ymado, y mae cysgodau hwyr yr ail farwolaeth yn dechreu ymdaenu drosoch chwi.

3. Wedi i'r mwynder ymado, bydd pob peth a'ch cyferfydd yn effeithio yn niweidiol. Beth a ddeuai o'r ddaear wedi colli y dwfr o honi? Y mae yr haul sydd yn gwneuthur i'r ddol darddu a thyfu, yn gwneuthur y diffaethwch yn fwy diffaeth. Paham? Dwfr sydd yn y naill, a dim yn y llall. Os tyr dyfroedd allan yn y diffaethwch, nid diffaethwch mo hono. mwy; ond bydd "trigfa y dreigiau a'u gorweddfa yn gyfle corsenau a brwyn." Y mae enaid dyn, wedi i'r mwynder ymado, fel y diffaethwch, a phob peth yn effeithio i'w wneyd yn fwy diffaeth: bydd yn trysori digofaint allan o ddaioni,—yn sugno gwenwyn o'r efengyl. Bydd y feddyginiaeth yn arogl

marwolaeth i farwolaeth iddo. Y mae rhyw allu ymadferol yn natur dyn,— tuedd i ymiachau ; a thra y bydd hwnw heb ei golli, y mae yn ymryson â'r clefyd, ac yn tynu nerth iddo ei hun oddiwrth yr awyr, yr ymborth y feddyginiaeth, a phob peth sydd o'i amgylch; nes o'r diwedd y mae yn myned yn drech na'r clefyd, a'i daflu allan o'r cyfansoddiad ; ond os bydd y gallu ymadferol hwn yn wan iawn, neu wedi ei golli, dyna bob gobaith am adferiad un felly wedi ei golli hefyd. Y mae yr oll bellach yn troi yn nerth i'r clefyd ;—elfenau bywyd yn myned yn elfenau angau ;—yr awyr, yr ymborth, y feddyginiaeth, yn weision angau. Yr oedd yr Arglwydd wedi cyhoeddi gwae uwch ben Jerusalem, pan ymadawai ei enaid Ef â hi. Pan gollid hwnw, fe gollid y gallu ymiachaol, ac yna fe fyddai yr oll yn troi yn ymborth i lygredigaeth.

Nid peth bychan yw colli y mwynder : oblegid wrth ei golli, yr ydych yn colli y cyfaddasrwydd o'r meddwl i'r efengyl i wneyd rhywbeth o honoch ; ac nis gwn am un olwg drymach na gweled dyn wedi colli y mwynder. Wrth fyned heibio i ambell ran o'r ddaear, er ei fod yn wyllt ac anniwylledig, yr ydym yn teimlo y gall ddyfod yn dir da, pe cai ei amaethu; ond am le arall, tebyg o ran yr olwg, yr ydym yn teimlo nad oes bron obaith i hwnw ddyfod felly, oblegid y mae yno ol aredig ac amaethu ; prawf na thyfai y llysiau cymhwys ddim yno, onidê ni buasai yn cael ei adael i ffrwythau y felldith. A oes yma ddim llawer yn debyg? y mae yna hen ryniau yn dy feddwl—ol yr hen amaethu ; ond ni thyfodd dim llysiau cymhwys : gan hyny y mae wedi ei rhoddi i ffrwythau y felldith. Os oes ychydig heb ymadael â rhyw feddwl sydd yma, sicrhewch yr hyn sydd yn ol trwy wneyd pobpeth i'w gadw. Pan oedd y gogoniant yn ymadael o'r deml, yr oedd yn sefyll ac yn aros amryw weithiau, i ddisgwyl i ryw un ofyn iddo ddychwelyd. Os yw Ysbryd Duw yn ymadaw â rhyw feddwl yma, y mae yntau yn sefyll i ddisgwyl cael ei gyfarch; a'r ffordd i gynyddu y mwynder ydyw ufuddhau i hyny sydd. "Dychwelwch wrth fy ngherydd, wele mi a dywalltaf fy Ysbryd i chwi, fy ngeiriau a hysbysaf i chwi." "Yna yr adnabyddwn, os dilynwn adnabod yr Arglwydd : ei fynediad a ddarperir fel y bore ; ac efe a ddaw fel gwlaw atom, fel y diweddar-wlaw a'r cynar-wlaw i'r ddaear."

[Cyfansoddwyd, Ionawr, 1854 ; adysgrifenwyd, Awst 31, 1859.]

# PREGETH LXV.

## AMYNEDD YN IACHAWDWRIAETH.

2 PEDR III. 15:—"A chyfrifwch hir-amynedd ein Harglwydd yn iachawdwriaeth."

YR oedd grasusau yr eglwys yn nyddiau yr apostolion yn gryfion iawn. Yr oedd y cariad cyntaf yn llafurus gariad, a'r gobaith cyntaf yn obaith perffaith, a'r ffydd gyntaf yn sicrwydd ffydd. Yr oedd eu cariad brawdol mor gryf y pryd hwnw, fel yr oedd pob peth ganddynt yn gyffredin, a'u ffydd mor gref, fel y cymerent eu hysbeilio o'r pethau oedd ganddynt yn llawen, gan wybod fod iddynt olud gwell yn y nefoedd, ac un parhaus. Yr oedd y profiad gwastadol yr oeddent yn ei gael nad oedd iddynt yma ddinas barhaus yn eu codi i edrych ac i ddisgwyl am yr un i ddyfod ; ac felly yr oedd yr ymdrech mawr o helbulon yr oeddent ynddo, yn cryfhau eu ffydd. Yr oedd eu ffydd hwynt yn ddigon cref i ddifodi amser a phellder. Ysgrifenai Paul am ddiwedd y byd, a dyfodiad ei Arglwydd, fel pethau wrth y drws, am fod nerth ei ffydd yn difodi yr amser maith ag oedd rhyngddo â'r pethau hyny. Yr oedd cariad Jacob at Rahel yn difodi saith mlynedd y gwasanaeth, neu yn eu gwneyd yn ei olwg fel ychydig ddyddiau ; felly yr oedd ffydd Paul yn difodi yr amser oedd rhyngddo a chael gweled ei Waredwr fel y mae. Ond yr ydym yn cael fod rhai, fel y Thesaloniaid ag oeddent yn amddifad o'i ffydd gref ef, yn cael eu cam-arwain gan hyn ; oherwydd deall y geiriau yn llythyrenol, tybient fod dydd yr Arglwydd wrth y drws. Yr ydoedd wrth y drws i ffydd, er bod miloedd o flynyddoedd rhyngddo a bod felly i olwg. Ond gellir dywedyd am

ffydd gref, fod mil o flynyddoedd iddi hi megis un dydd, ac un dydd megis mil o flynyddoedd ; oblegid nid ydyw yn sylwi ar bellder lle, na meithder amser. Nid ydyw yn credu y naill beth am ei fod yn agos, nac yn gwrthod y llall am ei fod yn bell ; ond y mae hi yn credu, am mai Duw sydd yn llefaru. Pe buasai gan y Thesaloniaid ffydd gyffelyb i un yr apostol, ni buasai perygl iddynt gamgymeryd : ond am ei bod yn wan, y mae yn gorfod dywedyd wrthynt yn eglur nad ydoedd dydd Crist yn agos, onid ê yr oeddent yn dyrysu yn eu perthynas â'r pethau gweledig. Nid yw y pethau ni welir ddim i gymeryd lle y pethau a welir, er eu bod i gael y flaenoriaeth arnynt, ac i'w llywodraethu hwynt. Yr ydym i arfer y byd hwn, ond i fyw o dan nerthoedd y byd a ddaw.

Gwrthwynebu y cyfeiliornadau yr oedd y gwirionedd gwerthfawr hwn wedi bod yn achlysur o arwain iddynt y mae Pedr yn y benod hon. Ail ddyfodiad yr Arglwydd ydyw ei bwnc yntau, ac y mae yn esbonio y pwnc i ddau ddosbarth, sef i'r gwatwarwyr, ac i'r saint gweiniaid. Yr oedd y gwatwarwyr yn tynu casgliad cyfeiliornus a thra niweidiol oddiwrth ei fod yn oedi dyfod. Edrychent ar yr holl son am hyny fel chwedl ddisail. "Pa le," meddent, "y mae addewid ei ddyfodiad Ef?" a thybient fod diwedd ar y byd, nid yn unig yn beth annhebyg, ond yn beth anmhosibl. Ond dengys yr apostol fod eu tyb yn hollol ddisail, ac y rhaid eu bod hwythau yn gwbl ddisylw ar bethau, cyn y gallasent goleddu tyb o'r fath, yn gymaint a bod y byd eisoes wedi cael ei ddifetha unwaith gan ddwfr. Ac y mae y ffaith hono yn profi nad ydyw yn beth anmhosibl i ddinystr ddyfod arno eto : ac nid yn unig y mae hyn yn beth posibl, ond hefyd yn beth sicr ; oblegid y mae yr un "gair," a wiriwyd yn ei ddinystr y tro cyntaf, wedi myned allan y dinystrir ef eto. Y mae 'wedi ei roddi i gadw trwy yr un gair, i dân.'

Yna y mae yr apostol yn dangos y gwir achos o'r oediad. Nid am fod yr Arglwydd yn cilio oddiwrth ei air oherwydd diffyg nerth i'w gyflawni, neu anffyddlondeb iddo, yr ydoedd yn oedi dyfod, ond er mwyn i'w elynion gael amser i edifarhau. A'r esboniad cywir ar yr oediad ydyw y testyn. Peth er eich mwyn chwi ydyw yr oediad, ac nid er ei fwyn Ef ei Hun : eich iachawdwriaeth chwi ydyw y diben sydd iddo, ac nid unrhyw

beth o'i eiddo Ef ei Hun. Cyfrifwch chwithau ei hir amynedd yn iachawdwriaeth. Y mae y gwatwarwyr yn ei gyfrif yn oediad, neu yn anffyddlondeb; ond cyfrifwch chwi ef yn iachawdwriaeth, oblegid hyny ydyw.

Y gwirionedd cynwysedig yn y testyn ydyw, Fod gwaith Duw yn oedi cyflawni ei fygythion ar fyd drygionus i'w gyfrif yn iachawdwriaeth: amynedd Duw, a'i ddiben.

I. Beth ydyw amynedd Duw?

II. Pa fodd y gellir cyfrif yr amynedd hwnw yn iachawdwriaeth?

I. Beth ydyw amynedd Duw? Gall edrych beth ydyw amynedd mewn dyn fod yn help i ni ddeall beth ydyw amynedd yn Nuw. Amynedd mewn dyn ydyw y gallu i ddioddef pethau blinion heb rwgnach, ac ymostwng i ewyllys Duw, pa mor groes bynag i'r teimlad y dichon hono fod, heb roddi dim yn ynfyd yn ei herbyn. Hunan-feddiant ydyw amynedd mewn dyn: mewn "amynedd meddienwch eich eneidiau." Gallu ydyw yn y meddwl yn ei gadw rhag gwneyd yr hyn y mae pethau eraill yn ei gymhell yn gryf i'w gwneyd. Yr oedd profedigaethau Job yn ei gymhell i felldithio; ond yr oedd ganddo allu arno ei hun, oedd yn ei gadw yn dawel yn eu canol; a'r gallu hwnw ydoedd ei amynedd. Amynedd mewn creadur ydyw, nid bod heb deimlo yn y brofedigaeth, ond gallu i ymdawelu er teimlo.

Y mae amynedd yn Nuw, ar ryw olwg, yn debyg i amynedd mewn creadur; ond mewn golwg arall yn dra annhebyg: y mae yn debyg yn ei fod yn allu yn cael ei weithredu arno Ef ei Hun. Duw yn ei feddianu ei Hun,—dyna ydyw ei amynedd,—yn peidio cosbi, er cael ei anog gan wrthryfel ei greadur i hyny. Ond y mae yn annhebyg iawn yn hyn: nid yw amynedd ynom ni yn ddim ond goddef yn dawel yr hyn ni allasem ei osgoi na'i orchfygu. Gallasem rwgnach yn y brofedigaeth, ond ni allasem ddianc rhagddi; gallasem wingo yn erbyn y symbylau, ond ni allasem eu gorchfygu; ac amynedd ynom ni ydyw peidio grwgnach a pheidio gwingo: ond amynedd yn Nuw ydyw peidio gwneyd peth, er y gallasai yn hawdd ei wneyd;—peidio taraw ei elyn, pan nad oedd dim ar ei ffordd i hyny. Yn ei eiriau Ef ei Hun, cymeryd ei "lethu" gan bechodau dynion,

"fel y llethir y fèn lawn o ysgubau" (Amos ii. 13), pan na buasai raid iddo ond ewyllysio, i daflu y baich i ffordd am byth. Gallu i wneyd ydyw ei hollalluogrwydd ; ond gallu i beidio gwneyd ydyw ei amynedd. Dyna hollalluogrwydd yn dyfod i'r golwg yn ninystr Pharaoh ; dyna'r amynedd yn dyfod i'r golwg yn arbediad Israel ar ol gwneyd y llo aur. Y mae yna ddau allu, ond y gallu i beidio gwneyd ydyw y rhyfeddaf.

Y mae mwy o fawredd Duw yn dyfod i'r golwg yn ei amynedd nag mewn dim arall. Y mae perffeithrwydd y priodoliaethau ereill yn dangos mawredd ei amynedd. Pe na buasai mor gyfiawn ac mor sanctaidd, pe na buasai ei fraich mor alluog, ni buasai ei amynedd mor ryfedd ; ond gan y gall Ef bob peth, ac nad oes yr un meddwl yn guddiedig oddiwrtho ; gan ei fod yn lanach ei lygaid nag y gall edrych ar ddrwg, a'i fod yn gyfiawn odiaeth, y mae ei fod yn goddef ein byd ni o gwbl, yn dangos fod mawredd annhraethadwy yn ei amynedd. Yr ydym yn rhyfeddu y gallu a ddygodd y byd i fôd o ddim, a'r daioni a gyflëodd bob peth ynddo yn fanteisiol i gynyrchu dedwyddwch i'w greadur ; ac y maent yn rhyfedd ; ond nid oes dim yn natur Duw i'w gymhell i beidio gwneyd y pethau hyn : yn hytrach yr oedd yr holl brïodoliaethau yn llawenychu yn ngwaith y fraich hollalluog ; ond rhyfeddach o lawer ydyw yr amynedd sydd yn goddef byd pechadurus mewn bôd, na'r gallu a'i dygodd i fôd, oblegid y mae pethau yn natur Duw sydd yn galw am ei ddinystrio. I dy grëu di, nid oedd raid i'r Anfeidrol ond gorchfygu diddymdra ; ond i beidio dy ddamnio di heddyw, yr oedd yn rhaid iddo ei orchfygu ei Hun. Y mae yr amynedd sydd yn ein goddef mewn bôd yn annhraethol ryfeddach na'r gallu a'n dygodd i fôd. A phe deuai angel i'n byd ni i weled profion o fawredd Duw, nid y pethau sydd yn tynu ein sylw ni a dynent ei sylw ef : nid ar harddwch golygfëydd y ddaear, nac ar gyfoeth ei daioni, yr edrychai : nid chwilio i mewn i'w chrombiloedd i weled mawredd Duw yn nhrefniad doeth ei defnyddiau a wnai ; ond fe dröai oddiwrth bob golygfa i weled mawredd Duw mewn dyn ; a hyny nid yn nghyfansoddiad ei gorff, nac yn ngalluoedd ei feddwl, ond yn ei fod yn ddigon mawr i'w ddioddef heb ei ddinystrio. Fe welai fawredd yn ei waith yn dal y môr ar gledr ei law ; ond yn ei waith yn dal ei elyn yno y gwelai efe

gyfoeth o fawredd. Gan ei fod mor fawr a rhyfedd, rhaid fod diben mawr iddo. Y mae hyn yn ein harwain at yr ail sylw:—

II. Yr esboniad a ddylem ni ei roddi ar amynedd Duw: "Cyfrifwch hir-amynedd ein Harglwydd yn iachawdwriaeth." Cyfrifwch ef fel iachawdwriaeth. Yr oedd yr Apostol Paul yn cyfrif y cwbl yn golled er mwyn Crist, neu fel colled iddo ef: yr oedd y ddau air yn gyfystyr. Cyfrifwch chwithau yr hir-amynedd ac iachawdwriaeth fel dau air cyfystyr. Gan y gellir cael gafael ar iachawdwriaeth yn ysbaid yr amynedd, cyfrifwch ef yn iachawdwriaeth; a chan mai amcan a thuedd naturiol yr amynedd ydyw dwyn dyn i dderbyn iachawdwriaeth, "cyfrifwch hir-amynedd ein Harglwydd yn iachawdwriaeth." Fe gyfrifir amser yn arian, am y gellir ei droi yn arian. Fe gyfrifir edrychiad anllad yn odineb, a digio heb ystyr yn lladd, am fod y pethau yna yn tueddu neu yn arwain yn naturiol at y lleill. Yn yr ystyriaethau hyn, y mae hir-amynedd ein Harglwydd i'w gyfrif yn iachawdwriaeth, am y gellir ei droi yn iachawdwriaeth, fel y gellir troi amser yn arian; ac hefyd am ei fod yn tueddu yn naturiol at iachawdwriaeth, fel y mae digio at ladd.

1. Gellir cyfrif amynedd yn iachawdwriaeth, fel y mae yn ddangosiad i ni o feddwl Duw am danom.

2. Gellir ei gyfrif yn iachawdwriaeth am ei fod wedi ei gyfaddasu i effeithio ar ein meddwl ni.

Os chwiliwch chwi i ddiben Duw yn ei amlygu, neu ynte, os chwiliwch i'w effaith naturiol ar feddwl dyn, nis gellir ei gyfrif yn ddim ond iachawdwriaeth.

1. Y mae i'w gyfrif yn iachawdwriaeth fel y mae yn amlygiad o feddwl Duw. Am hyny (1.) gallwn gasglu mai iachawdwriaeth ydyw ei amynedd, oddiwrth nad allwn ni weled yr un diben arall teilwng o Dduw i'w amynedd, ond iachawdwriaeth. Yn hyn gallwn ymresymu oddiwrth yr hyn a wnai dyn at yr hyn a wnai Duw; oblegid, er bod ei feddyliau a'i ffyrdd Ef yn gymaint uwch na'n rhai ni, ag ydyw y nefoedd yn uwch na'r ddaear, cofiwn eu bod yn uwch mewn daioni, fel ymhob peth arall, na'n rhai ni Ac os ydym yn teimlo fod unrhyw beth yn annheilwng o ddyn *da*, gallwn fod yn sicr fod Duw yn gymaint pellach oddiwrth wneuthur y peth hwnw na dyn, ag ydyw y nefoedd yn uwch na'r ddaear.

Y mae'n ffaith gerbron ein llygaid fod dyn yn cael ei oddef heb ei gymeryd ymaith â dyrnod, a gellir gofyn, Paham? ac nid oes ond un o ddau ateb i'r cwestiwn, naill ai i'r ddyrnod hono fod yn drymach pan ddel hi, am y bydd yn gosb am bechodau lliosocach; neu ynte, i'r pechadur gael cyfle i droi oddiwrth ei ffyrdd drygionus, a byw. Yn awr, byddai y meddwl cyntaf yn un caled am ddyn, sef ei fod yn cadw ei elyn mewn cyfle iddo gael ychwanegu at ei ddrwg haeddiant, er mwyn i'w gosb fod yn fwy. Os byddai hyn yn annheilwng o ddyn, y mae Duw yn anfeidrol bellach oddiwrth gadw ei elyn mewn bôd er mwyn iddo gael rhedeg yn ddyfnach i'w ddyled, i hyny fod yn achos o wneyd ei dywyllwch yn fwy dudew, a gefynau ei garchar yn fwy tynion a thrymion, y mae hyn, meddwn, yn anfeidrol bellach oddiwrth Dduw nag oddiwrth y dyn goreu ar y ddaear. Y mae Duw, medd yr apostol, yn "dangos ei ddigofaint," ac yn "peri adnabod ei allu" ar "lestri digofaint;" ond y mae y rhai hyny yn gyfryw nad ydynt yn gymwys i ddim ond colledigaeth; ac nid ydyw yn dangos ei ddigofaint heb yn gyntaf ddangos hir-ymaros tuag atynt: a chan nad oedd yr hir-ymaros wedi ateb ei ddiben, sef eu tywys i edifeirwch, yr oedd yn rhaid iddo ddangos ei ddigofaint. Fe fu hir-amynedd Duw yn aros wrth fyd y rhai anwir yn nyddiau Nöe; ac er mai eu haddfedu hwynt i'r diluw a wnaeth yr amynedd, eto ei ddiben ef oedd eu hiachawdwriaeth. Nid cymhwyso llestri digofaint i golledigaeth oedd ei ddiben, ond eu cael yn llestri trugaredd. Nid i gynyrchu drain a mieri y rhoddir gwrês yr haul a gwlaw y nefoedd i'r ddaear, ond i gynyrchu llysiau cymwys; ac os cynnud tân yn unig a gynyrcha hi, ni all neb ddywedyd mai hyny oedd diben y gwlaw a'r gwrês. Nid yr hyn y mae dynion yn ei wneyd âg amynedd Duw sydd yn profi beth ydyw diben yr amlygiad o hono; ond pa ddiben sydd yn deilwng o'r Anfeidrol a brawf hyny; ac nid oes yr **un** diben teilwng o Dduw ond iachawdwriaeth.

(2.) Peth arall sydd yn profi mai iachawdwriaeth yw diben amynedd Duw, ydyw, fod y diben hwn yn cytuno â holl gymeriad datguddiedig yr Arglwydd. Pe cesglid pa fath un ydyw Duw oddiwrth ei weithredoedd, byddai raid penderfynu ei fod yn un daionus i bawb, oblegid y mae ei drugaredd ar ei holl

weithredoedd. Y mae wedi cyfaddasu pob peth fel Creawdwr yn fanteisiol i hapusrwydd, ac wedi trefnu pob peth fel Llywodraethwr i ddwyn o amgylch yr un diben. Wel, os ydyw yn goddef dyn heb wneyd barn yn erbyn ei weithredoedd drwg yn fuan, y mae yn naturiol casglu mai daioni sydd wrth wraidd hyny hefyd. Nid ydyw yn ewyllysio fod ei greadur yn annedwydd, onid ê ni buasai yn cyfaddasu pob peth yn ei gyfansoddiad mor berffaith i fwynhau. Nid ydyw yn ewyllysio ei fod yn annedwydd, onid ê ni buasai yn cyfaddasu pob peth yn yr amgylchiadau mor fanteisiol i gynyrchu dedwyddwch. Wel, oddiwrth ei gymeriad, gallwn fyned gam yn mhellach, a dywedyd nad ydyw yn ewyllysio marwolaeth yr annuwiol ; onid ê ni buasai mor hir-ymarhous tuag ato. Cyfrifwch ei amynedd yn amlygiad o'i feddwl am eich iachawdwriaeth.

Ac os cymerwch chwi fod rhyw ddiben i'w amynedd heblaw eich iachawdwriaeth, bydd yn anmhosibl cysoni y diben hwnw â chymeriad datguddiedig y Duw anfeidrol. " Y gelyn ddyn a wnaeth hyn," sef hau yr efrau, meddai perchenog y maes wrth ei weision. Yr oedd yn dywedyd felly am ei fod yn debyg i waith gelyn. Os nad iachawdwriaeth yw diben amynedd Duw, nid ydyw yn debyg i'w waith Ef. Nid ydyw yn cytuno â'i arfer Ef; oblegid daioni sydd yn gosod hynodrwydd arno fel Duw. Yr oedd Jehu i'w adwaen wrth ei waith yn gyru ; Samuel wrth ei fantell ; Pharaoh wrth ei greulondeb. Y mae y Jehofah i'w adwaen wrth ei ddaioni. " Pa Dduw sy fel tydi," meddai y prophwyd,—yn nerth ei fraich ? nage, er y gallesid gofyn hyny. Ymha beth y mae yn hynodi ei Hun ar y duwiau oll ? Mewn " maddeu anwiredd," mewn " myned heibio i anwiredd," mewn peidio dal dig, mewn hoffi trugaredd. Dyma ei enw,—ei gymeriad fel y mae yn cael ei gasglu oddiwrth ei weithredoedd. Ni wnawn gymaint a chymeryd brâs olwg arnynt yn awr, onid ê byddai raid i ni fyned draw i dragywyddoldeb i gychwyn, i'w weled yn cynllunio trefn i gadw ; ac yna dyfod ymlaen i amser, i ganfod y drefn hono yn dadblygu ei hun mewn sefydliadau a gosodiadau i gadw ; ac yn nghyflawnder yr amser, i weled y prïod Fab yn ymddangos i geisio ac i gadw. Wel yn awr, os ydyw yn goddef pechadur am flynyddoedd heb ei daraw â dyrnod, ni bydd yn gwneyd yn ol ei arfer,

os nad cadw fydd yn ei olwg yma hefyd. Cyfrifwch ei amynedd yn iachawdwriaeth.

Os ydyw ei gymeriad fel y mae yn cael ei ddangos yn ei weithredoedd yn peri i ni ddisgwyl mai iachawdwriaeth ydyw diben ei amynedd, y mae ffeithiau filoedd yn profi fod y disgwyliad yn un cywir. Fe ddisgwyliodd Agag, gan ei fod wedi ei arbed gan Saul a'r bobl, fod chwerwder marwolaeth wedi myned heibio; ac felly yr oedd yn mwriad Saul; ond fe siomwyd disgwyliad Agag: ac er nad ydyw ein bod ni wedi ein harbed ddim yn brawf fod chwerwder marwolaeth wedi myned heibio, eto y mae yn awgrymiad oddiwrth Dduw, y gall ê fyned heibio am byth; ac y mae genym hanes amryw yn tynu y casgliad yna oddiwrth ei amynedd, ac ni siomwyd mo honynt yn eu disgwyliadau. Cymerodd Ahab ddrygionus yr amynedd oedd yn cadw y farn fygythiol rhag cael ei gweini yn y fan, yn awgrym i ymostwng; ac er nad oedd gair o son am ymostwng yn nghenadwri y prophwyd, eto fe ddangosodd y canlyniadau fod disgwyliad Ahab yn gywir: fe drodd yr amynedd allan yn iachawdwriaeth iddo. Ymostyngodd trigolion Ninifeh yn ddirfawr pan gyhoeddwyd cwymp eu dinas, gan ddywedyd, "Pwy a ŵyr a dry Duw ac edifarhau? Ac er nad oedd ganddynt ddim ond deugain niwrnod yr amynedd yn sail i'w gobaith, ni siomwyd mo honynt,—fe drodd yr amynedd allan yn iachawdwriaeth iddynt. Y mae holl weithredoedd Duw yn cytuno i ddangos mai eich iachawdwriaeth chwi yw diben ei amynedd. "Cyfrifwch hiramynedd ein Harglwydd yn iachawdwriaeth."

(3.) Peth arall sydd yn profi fod ei amynedd i'w gyfrif yn iachawdwriaeth ydyw, fod hyny yn cytuno â holl dystiolaethau yr Arglwydd am dano ei Hun. Wele ychydig o honynt, i chwi gael cymharu y weithred â'r gair. "Fel mai byw fi, medd yr Arglwydd, nid ymhoffaf yn marwolaeth yr annuwiol; ond troi o'r annuwiol oddiwrth ei ffordd, a byw." "Trowch eich wynebau ataf fi, holl gyrau y ddaear, fel y'ch achuber: canys myfi wyf Dduw, ac nid neb arall." "Deuwch yr awr hon, ac ymresymwn, medd yr Arglwydd: pe byddai eich pechodau fel ysgarlad, änt cyn wyned a'r eira; pe cochent fel porphor, byddant fel gwlân." "Nid oes lidiowgrwydd ynof. Ymafled yn fy nerth i, fel y gwnelo heddwch â mi, ac efe a wna heddwch â

mi." "Trugarog fyddaf wrth eu hanghyfiawnderau, a'u pechodau hwynt a'u hanwireddau ni chofiafddim o honynt mwyach." Dyna siampl fechan o honynt; ac os na fedrwch chwi gredu y geiriau, fel y dywedodd yr Arglwydd Iesu wrth yr Iuddewon, "credwch y gweithredoedd," neu credwch y geiriau yn ngoleuni y gweithredoedd. Cymerwch y weithred yn brawf o gywirdeb a diragrithrwydd y gair, a chymerwch y gair eilwaith yn esboniad ar y weithred. Os ydych yn ameu diragrithrwydd y gwahoddiad, nid rhaid i chwi edrych oddiwrthych eich hunain am brawf o hyny. Cafodd Zecharias arwydd ynddo ei hun o wirionedd yr hyn a glybu yn y deml: yr oedd ei fod ef yn methu siarad yn brawf mai angel Duw oedd wedi siarad âg ef. Felly y mae amynedd Duw yn ein goddef ni yn profi cywirdeb ei alwadau ar ein hol, ac y mae y galwadau yn profi diben yr amynedd. Pan oedd Mr. Charles unwaith yn holi cynulleidfa am brofion o fod Duw, fe ddywedir fod un plentyn bychan wedi codi ar ei draed, a dywedyd, "Yr ydwyf fi yn bod:" ystyriai hyny yn ddigon o brawf o fod Duw yn bod; ac felly yr ydoedd. Y mae bod y pechadur ar y ddaear heddyw yn ateb digonol i'r cwestiwn, A ydyw Duw yn ewyllysio yn dda iddo? Cyfrifwch ei amynedd yn amlygiad o'i feddwl am eich iachawdwriaeth.

2. Y mae amynedd Duw i'w gyfrif yn iachawdwriaeth, fel y mae wedi ei gyfaddasu i effeithio er iachawdwriaeth ar feddwl dyn;—daioni Duw yn tywys i edifeirwch. Iachawdwriaeth ydyw ei ddiben i'r saint. Y mae yn y testyn gyfeiriad at hyn; oblegid adeg ydyw i gwblhau y gwaith da arnynt. Os ydyw y Priodfab yn oedi dyfod, diben yr oediad ydyw, i'r briodasferch gael ymdrwsio yn deilwng erbyn y dyfodiad. Os nad ydyw yr Arglwydd yn dyfod i'w deml, diben yr oediad ydyw, er mwyn i'r saint gael ymbarotoi i oddef ei ddyfodiad. Y mae yr Arglwydd yn fynych yn oedi cyflawni ei addewidion i'w bobl, ond y mae yr oediad yn ddieithriad yn iachawdwriaeth iddynt. Yn ol ein meddwl ni, eu cyflawni yn ddioed a fyddai yn iachawdwriaeth i ni; ond peidio gwneyd ydyw hyny yn aml. Yn ei amser y mae pob peth yn deg. "Efe a'n cynorthwya yn fore iawn;" ond bore Duw ydyw, pan y mae y bobl yn addfed i'r addewid. Fe oedodd yr addewid a wnaethpwyd i Abraham am bedwar can

mlynedd; ond nid oedd y bobl wedi cael digon ar yr Aipht cyn hyny. Fe fu yr amynedd yn iachawdwriaeth iddynt. Fe oedodd yr addewid o'u dwyn o'r caethiwed am ddeng mlynedd a thriugain; ond pe buasai yn eu dwyn yn gynt, ni buasent wedi cael digon ar yr eilunod. Fe drodd yr amynedd yn iachawdwriaeth iddynt. Fe oedodd yr addewid am Hâd y Wraig am bedair mil o flynyddoedd; ond bu yr amynedd yn iachawdwriaeth i'w eglwys, oblegid nid oedd yn addfed i'w dderbyn yn gynt. Fe oedodd yr Athraw fyned i dŷ Mair a Martha, nes oedd Lazarus wedi marw, ac wedi ei gladdu; ond bu yr oediad yn iachawdwriaeth iddynt. Y fath amlygiad gogoneddus a gawsant trwy hyny o fawredd eu Ceidwad ragor a fuasent yn ei gael pe buasai yn dyfod atynt yn y fan. Os ydyw yn oedi ei addewidion i rai o honoch chwi, cyfrifwch hyny yn iachawdwriaeth. Bu raid i Dafydd aros am flynyddoedd wedi ei eneinio cyn cael eistedd ar orsedd Israel; ac fe deimlodd lawer gwaith, ac fe ddywedodd hyny unwaith, mai syrthio a wnai ryw ddydd yn llaw Saul; ond fe drodd yr oediad allan yn iachawdwriaeth iddo. Gwnaeth yr hir ddisgyblaeth fu arno, ef yn frenin heb ei ail. Y mae yma lawer un â'r corn olew wedi bod ar ei ben; fe fu cyn hyn yn disgwyl teyrnas, ond y mae wedi myned i ofni mai syrthio a wna yn llaw y gelyn: na, nid felly y bydd hi; nid ä eneiniad Duw ddim yn ofer. Dy ddisgyblu a'th addysgu i'th gael yn frenin iawn y mae yr oediad: fe dry allan yn iachawdwriaeth. Os oes rhai o honoch heb gael grawnsypiau Canaan eto, er eich bod wedi gadael yr Aipht, y mae yn debyg mai blâs y pompiwn a'r wynwyn sydd heb ddarfod ar eich genau eto, am hyny ni wnaech gyfiawnder â'r grawnsypiau. Pan ewch chwi yn ddigon pell o dŷ y caethiwed i anghofio ei bob peth ef, chwi fyddwch yn addfed i'r grawnsypiau y pryd hyny; ac fe ddeuant i chwi o fewn corff y dydd y byddwch chwi yn barod iddynt. "Cyfrifwch hir-amynedd ein Harglwydd yn iachawdwriaeth."

Ond y mae amynedd Duw yn tueddu i ddwyn dyn i afael iachawdwriaeth.

1. Am ei fod yn dangos fod iachawdwriaeth yn bosibl; ac y mae felly yn ei gymhell i ymdrech am dani. Yr ydym eisoes wedi crybwyll siamplau o rai yn gweled posibilrwydd eu cadw

yn amynedd Duw. Y mae amynedd wedi gwneyd dyffryn Achor yn ddrws gobaith, pan nad oedd dim arall yn ei wneyd felly. Y mae llawer o bethau yn y Beibl i obaith pechadur ymaflyd ynddynt am ei fywyd; ond nid oes yr un o honynt nad all y diafol ei gymeryd oddiar y gwan ond hwn. Fe ymaflodd gobaith y wraig o Ganaan am waredigaeth i'w merch mewn peth rhyfedd iawn, sef yn yr enw a roddwyd arni,—un o'r cŵn; cafodd afael ar beth yn y fan yna na fedrai neb ei gymeryd oddiarni. Gofynodd am ran y cŵn; yr oedd hi yn foddlawn i'r plant gael y dorth; ond y cŵn bïau y briwsion. Y mae enw Duw, gair Duw, trugaredd Duw, yn bethau i obaith pechadur ymaflyd ynddynt am ei fywyd; ond os na fedrwch chwi ddadleu ei enw, a dywedyd, "Er mwyn dy enw, Arglwydd, maddeu fy anwiredd;" os na fedrwch chwi ddadleu ei air am wrandawiad, a dywedyd, "Cofia y gair wrth dy was, yn yr hwn y peraist i mi obeithio;" os na fedrwch chwi ddadleu ei drugaredd am ddiangfa, a dywedyd, "Yn ol dy drugaredd meddwl Di am danaf;" os ydwyt yn ofni mai bara y plant ydyw y pethau yna, —mai eiddo pobl eraill ydyw yr enw, y gair, a'r drugaredd,— dyma beth sydd yn eiddo i chwi eich hunain, fel y briwsion i'r cŵn, sef amynedd Duw; ac y mae yn y briwsion yma iachawdwriaeth. Cyfrifwch ef felly. Y mae y ffaith ei fod wedi eich cadw yn fyw yn profi ei bod yn bosibl: bydded hyny yn gymhelliad i ymofyn am dani. Ac yn wir ni chafodd neb ei siomi a ymaflodd mewn dim oedd yn perthyn i Dduw am fywyd. Yr oedd cysgod Pedr yn iachau; yr oedd Paul mor lawn o'r dawn iachau, fel ag yr oedd napcynau neu foledau oddiwrth ei gorff yn peri i'r clefydau gilio, ac i'r ysbrydion aflan ddianc. Y mae ein Duw ni mor lawn o iachawdwriaeth, fel os cyffyrddwch chwi mewn dim sydd yn perthyn iddo, fe rêd iachawdwriaeth o'r oll. Fe gyffyrddodd Moses â'i enw; cafodd iachawdwriaeth i'r bobl yn y fan yna. Fe gyffyrddodd Nehemiah â'i drugaredd; fe lifodd iachawdwriaeth o'r fan hono. Fe gyffyrddodd Daniel â'i gyfiawnderau; fe redodd iachawdwriaeth oddiyno hefyd. Fe gyffyrddodd Ahab a'r Niniveaid â'i amynedd; fe fwrlymodd iachawdwriaeth o'r fan yna hefyd. Rhai yn rhy wan a llwfr eu meddwl i ofyn cymwynas gan Pedr, oeddent yn dyfod â'r cleifion i'r ystrydoedd i'w gysgod ef gael

disgyn arnynt; ond nid oedd y rhai yna ddim yn cael eu siomi; felly os ydych chwithau yn rhy lwfr i ymaflyd mewn na chyfamod, nac addewid, nac iawn, ymaflwch yn ei amynedd; fe dry hono allan yn iachawdwriaeth i chwi. Drachefn yn

2 Y mae amynedd yn tywys at iachawdwriaeth, am ei fod yn dangos fod y perygl yn fawr iawn; gan nad oes ond amynedd rhwng pechadur ag ef, y dylai geisio iachawdwriaeth yn ddioed. Os nad oes ond amynedd yn gysgod rhyngoch â dinystr, nid oes eisiau rheswm cryfach yn gymhelliad i chwilio am un gwell. Gwir yw ei fod yn hir-amynedd, ond y mae terfyn iddo. Parhaodd chwech ugain mlynedd "yn nyddiau Nöe, tra y darperid yr arch;" a bu yn gysgod da i'r hen fyd, ond fe derfynodd yr amynedd yn yr un dydd ag y cauwyd drws yr arch; a dyna'r hen fyd heb un cysgod: ac oni buasai fod gan Noah ei hunan a'i deulu, gysgod gwell nag amynedd Duw, buasent hwythau felly hefyd. Bu Jonah lawen iawn oherwydd y Cicaion, ac nid heb achos, oblegid yr oedd yn ei gysgodi rhag pelydrau tanbaid yr haul; ond buasai yn dda i Jonah pe buasai ganddo gysgod gwell na'r Cicaion, oblegid fe wywodd hwnw; a phan ddaeth poethwynt y dwyrain i chwythu arno, a'r haul i daraw ar ei ben, fe lewygodd. Y mae yn dda i ni wrth amynedd Duw; yr ydym yn cael ein cysgodi rhag y gwres ganddo; ond Cicaion a wywa ydyw, ac os na fydd genych gysgod gwell, daw poethwynt y Dwyrain, a gwres y byd arall, i daraw ar dy ben: ti a lewygi, fel Jonah, ac a ddeisyfi farw am dragywyddoldeb, heb fedru gwneyd hyny. Mynwch gysgod gwell na'r Cicaion. "A gŵr fydd megis yn ymguddfa rhag y gwynt, ac yn lloches rhag y dymestl."

Peidiwch ymddiried eich bywyd i ddim sydd a therfyn iddo. Mi deimlwn i y pryder mwyaf yn nghysgod amynedd, er mai amynedd Duw ydyw, am fod terfyn iddo; ond mi fentrwn drugaredd mewn Iawn heb bryderu, am fod hono o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb. Dyma'r babell ni thynir i lawr, ac ni syflir yr un o'i hoelion yn dragywydd; am hyny ni raid ofni symud iddi i fyw. Yr oedd y llongau a gollasant yn ddiweddar, ar dueddau Sir Gaernarfon, wedi troi i mewn i ryw gilfachau bychain, oeddent yn burion cysgod tra y byddai y gwynt o ryw ffordd benodol; ond pan drodd hwnw yn y nos, ni thalai y

gilfach ddim, aeth yn llongddrylliad arnynt yn fuan; ond pe buasent wedi troi i Angorfa ddiogel *(Harbour of Refuge)*, ni buasai o bwys iddynt o ba le y buasai y gwynt yn chwythu; buasent yn ddiogel ar bob awel. Cilfach sydd yn rhoddi cysgod pur dda ydyw amynedd Duw: y mae yma lawer yn ddiogel yn y gilfach yr awr hon; ond pe tröai y gwynt cyn y bore, ni thalai dy gilfach di ddim. Os mynit ochel dinystr, rhaid dyfod i'r Porthladd diogel, i gysgod iawn y groes: yna chwythed yr awel o'r lle y chwytho hi, "Gŵr a fydd yn ymguddfa." Amynedd Duw a fyddo yn eich cymhell chwi i chwilio am gysgod gwell.

3. Y mae amynedd yn iachawdwriaeth, oblegid y mae'r amlygiad a rydd amynedd o gymeriad Duw yn dangos na chewch chwi ddim ei cheisio yn ofer; ac felly y mae yn lladd gelyniaeth pechadur, ac yn ei ddwyn i'w derbyn hi. Yr oedd Saul yn tybio fod Dafydd yn ceisio am ei einioes ef; ond pan arbedodd mab Jesse ef yn yr ogof, daeth hyny a chymaint o'i gymeriad i olwg Saul, fel ag i ladd meddyliau celyd am dano, ar y pryd, o leiaf, ac i'w ddodi i ddymuno bod yn gyfaill iddo. Dyna amynedd Dafydd wedi gwneyd i Saul yr hyn yr oedd pob peth arall wedi methu ei wneyd. Yr wyt tithau yn tybio fod yr Arglwydd yn ceisio achos yn dy erbyn, a'i fod yn elyn i ti; ond y mae wedi dy gael bob dydd megis yn yr ogof, mewn lle manteisiol iawn i dy ladd, ac eto hyd yma wedi dy arbed: paid gwrandaw, gan hyny, ar lais calon ddrwg, a'r diafol, yn dywedyd fod y nefoedd yn ceisio niwed i ti, oblegid y mae dy lygaid yn gweled y dydd hwn ei fod wedi dy arbed. Y mae yn rhyfedd na pharai yr amynedd i ti ddyrchafu dy lef i wylo, fel Saul gyda Dafydd, oherwydd dy feddyliau annheilwng am dano. Y mae amynedd Duw ond ei ystyried yn tywys i edifeirwch. Cyfrifwch ef yn iachawdwriaeth.

Y mae amynedd Duw yn cael ei droi yn rhywbeth genym oll. Y mae yma rai yn ei droi yn iachawdwriaeth. Y mae yma eraill yn ei droi yn golledigaeth. Trodd Noah ef yn arch, ond trodd yr hen fyd ef yn ddiluw. Yr ydym ninau yn ei droi naill ai yn iachawdwriaeth, neu yn ddigofaint. Y mae Paul yn sôn am rai yn lle troi yr ymaros a'r dioddefgarwch yn edifeirwch, yn eu trysori yn ddigofaint erbyn dydd y digofaint. Fe ddigiodd yr

Arglwydd yn ddirfawr wrth y Jezebel oedd yn eglwys Thyatira am gam-ddefnyddio ei amynedd: "Mi a roddais iddi amser i edifarhau, ac nid edifarhäodd hi." Gwyliwch gam-ddefnyddio amynedd Duw, a dywedyd mewn effaith gyda gwatwarwyr dyddiau Pedr, "Pa le y mae addewid ei ddyfodiad ef?" "Y mae pob peth yr un fath er pan wyf yn cofio;" gall hyny fod, a bod dinystr yn dy ymyl di er hyny. Nid oedd dim yn y golwg i beri braw i'r hen fyd hyd y dydd yr aeth Noah i mewn i'r arch: nid oes yr un cwmwl, feallai, yn y golwg yn dy ffurfafen dithau yn awr; ond y mae rhai o weision y prophwyd ar ben Carmel yn gweled y môr,—môr digofaint,—yn y pellder, ac y maent wedi gweled y cwmwl yn codi o hono, ac wedi clywed yn yr awel drwst llawer o wlaw: a dyma ydyw cyngor un o honynt i ti yn awr, "Rhwym dy gerbyd, a gwna bob peth yn barod i gychwyn yn ddioed, fel na'th rwystro y gwlaw." Trowch yr amynedd mawr hwn yn iachawdwriaeth!

[Dechreuwyd Chwefror 4, gorphenwyd Chwefror 24, 1860.]

# PREGETH LXVI.

### CRIST YN ESAMPL I NI.

1 PEDR ii. 21.—"Crist yntau a ddioddefodd drosom ni, gan adael i ni esiampl, fel y canlynem ei ol ef."

ESAMPL yw arddangosiad gweledig o'r modd y dylid cyflawni unrhyw beth. Nid yw yn angenrheidiol ond i greaduriaid tra anmherffaith, rhai heb synwyr ganddynt i ddosbarthu y drwg a'r da. Y mae yn rhaid i'r Arglwydd amlygu ei ewyllys mewn rhyw ddull i greaduriaid perffaith sanctaidd; ond tebyg ydyw nad rhaid iddynt hwy wrth esampl i'w dysgu pa fodd i'w chyflawni. Eithr y mae yn rhaid i greadur anmherffaith, nid yn unig gael ewyllys Duw mewn geiriau, ond hefyd cael esampl o ryw un yn cyflawni yr ewyllys hono, cyn y cred bod hyny yn bosibl. Ac y mae y ddau beth hyn yn gyffredin ynglŷn; yr ewyllys mewn gair, a'r gair hwnw yn cael ei arddangos mewn esampl. Y maent fel y corff a'r ysbryd: yr ydym yn methu cydio yn y gair nes iddo ymddangos yn y cnawd. Duw yn dysgu y byd trwy esamplau ydoedd yr hen oruchwyliaeth. Yr ydoedd yn dywedyd mewn gair ei fod yn Dduw cyfiawn, a hyny yr oedd yr holl aberthau yn ei ddangos mewn gweithred. Yr oedd Moses, fel prophwyd iddo, wedi mynegi i'r bobl ei fod yn Dduw sanctaidd; yr oedd Aaron, fel ei offeiriad, yn dangos yr un peth yn weledig yn amryw olchiadau a phuredigaethau y cysegr. Yr oedd yr holl olchiadau yn esampl o'i burdeb: y tywallt gwaed yn esampl o'i gyfiawnder. Lladdodd Nadab ac Abihu i argraffu ar feddyliau y bobl mai sancteiddrwydd a weddai i'w dŷ byth; a thödd babell y cyfarfod â chwmwl i'w dwyn i deimlo ei fod yn ofnad-

wy iawn yn ei gysegr. Yr oedd pob peth yn cael eu dysgu iddynt trwy esamplau neu ddarluniau. Ystâd o fabandod neu blentynrwydd ar yr eglwys sydd yn gwneuthur hyn yn angenrheidiol. Y mae hi yn awr wedi dyfod mor berffaith fel nad rhaid iddi wrth esamplau yr hen oruchwyliaeth. Ond er y gall hi ymsynied yn lled gywir am gyfiawnder a sancteiddrwydd Duw, heb amryw olchiadau a thywallt gwaed gwastadol y deml, eto nid yw wedi cyraedd ystâd nad rhaid iddi wrth esampl i'w dysgu pa sut i rodio a rhyngu bodd Duw ; ond y mae yr esampl bresenol sydd ganddi yn fwy ysbrydol o lawer na'r rhai gynt. Gynt, dangosid iddi sancteiddrwydd buchedd drwy lendid corff ond y mae hyny yn cael ei ddangos yn awr trwy fywyd perffaith sanctaidd y dyn Crist Iesu. Dangosodd yn ei fywyd a'i angau yr holl wirioneddau sydd yn cael eu dangos trwy seremonïau cyfraith Moses ; ac yn ei rodiad, arddangosodd yn eglur yr egwyddorion mawr, wrth ddilyn pa rai y gallwn ninau rodio a rhyngu bodd Duw. "Gan adael i ni esampl, fel y dilynem ei ol Ef."

Y mae yr Arglwydd Iesu yn ei bob peth yn cyfateb i'n hangen ni, fel y mae wyneb yn ateb i wyneb mewn dwfr ; gan hyny y mae yn rheidiol ei ddefnyddio yn ei bob peth,—yn aberth, ac yn esampl ; ei farwolaeth yn iawn trosom i Dduw, a'i fywyd i'n dysgu pa fodd i fyw i Dduw. Ond y mae tuedd gref mewn dynion i ranu y Gwaredwr. Y mae rhai am ei gael yn aberth i'w rhyddhau oddiwrth felldith y ddeddf, heb ofalu ond ychydig am ei gael yn esampl i'w dysgu i gydffurfio â'r ddeddf. Y mae eraill yn dra awyddus i'w ddilyn fel esampl, nad oes dim a fynont âg ef fel aberth. Ond nid ydyw i'w ranu. Y mae yn sicr nad oes neb yn cael bywyd yn ei angau, nad ydynt i ryw fesur yn rhodio megis y rhodiodd Efe ; ac nid oes llawer o ddylanwad yn ei esampl i neb, os nad ydynt hefyd yn gobeithio cael dianc byth gydâ'u Barnwr trwy ei angau ef. Yr oedd bywyd Iesu Grist fel ei angau yn ufudd dod i Dduw yn lle pechadur, ac felly yn bris gollyngdod y caethion ; ond nid oedd hyny ddim yn ei atal i fod yn esampl i ni, ond yn hytrach yn ei gyfaddasu i hyny. Gellir dywedyd fod ei waith yn dioddef wrth farw yn esampl i ni, a'i fywyd perffaith yn ufudd-dod drosom ni : mewn gwirionedd, ni ddylent gael eu hysgar. Pan

feddyliom am dano fel iawn, dylem ei gymeryd o'r preseb i'r groes; a phan feddyliom am dano fel esampl, dylem ei gymeryd o'r un man. Fel yr haul naturiol,—y mae hwnyna oll yn goleuo, ac oll yn ganolbwynt hefyd; felly y mae yr oll o Iesu Grist yn aberth, a'r oll o hono yn esampl hefyd. "Gan adael i ni esampl, fel y canlynem ei ol Ef." Y mae yr apostol yma yn cyfyngu ei esampl i un peth, sef i ddioddef; ond y mae rhanau eraill o'r gwirionedd yn rhoddi hawl i ni ddeall y gair yn ei ystyr eangaf, ac felly ei gymhwyso at ei fywyd oll.

Ni a edrychwn ar rai pethau oeddent ynddo yn ei gymhwyso i fod yn esampl: y rhai ydynt, (1.) Yr oedd yn ein hamgylchiadau ni. (2.) Yr oedd wedi dyfod iddynt yn wirfoddol. (3.) Yr oedd yn gymeriad perffaith ynddynt.

(1.) Yr oedd yn ein hamgylchiadau ni. Nid oes odid ddyn ar y ddaear, nad oes rhyw esampl o flaen ei feddwl, ac y mae hono bob amser yn perthyn i'r un dosbarth ag ef ei hun. Y mae y celfyddydwr yn cymeryd rhyw gelfyddydwr arall yn esampl;—y morwr, ryw forwr arall;—y bardd a'r athronydd, rywrai oeddent yn yr un cylch a hwynt: felly oni buasai fod Mab Duw yn ein hamgylchiadau ni, wedi ei demtio ymhob peth yr un ffunud a ninau, nis gallasai fod yn esampl i ni. Oni buasai ei fod wedi ei amgylchu â gwendid, ni fuasai yn agored i'w demtio. Nis gelllr temtio Duw â drygau; ac y mae yn debyg y bydd dyn hefyd, pan wedi ei berffeithio, yn rhy uchel i'w demtio. Ond yr oedd dynoliaeth Mab Duw, am ei bod yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus, yn ddigon isel i'w themtio. Beth bynag oedd dylanwad rhyfedd y natur ddwyfol ar y ddynol, y mae yn sicr nad oedd yn gwneuthur y natur ddynol uwchlaw bod yn agored i'w phrofi. Ac yn y ddwy demtasiwn fawr y bu Mab Duw ynddynt, y naill ar ddechreu ei oes gyhoeddus, a'r llall ychydig cyn marw, gellid meddwl fod y dylanwad hwnw fel wedi ei dynu i ffordd, a'r ddynoliaeth megis wedi ei gadael i ymdrechu ei hunan â'r temtiwr. Y mae dirgelwch o amgylch hyn sydd yn perthyn i Fab Duw, fel o amgylch pob peth arall. Byddai mor hawdd deall undeb y ddwy natur â'u gilydd yn ei Berson mawr, ag ydyw deall pa fodd yr oedd yn bosibl iddo gael ei demtio: ond ni a wyddom fod y ddwy natur yn ei Berson, oblegid yr oedd yn gweithio fel Duw, ac yn teimlo

fel dyn ; felly ni a wyddom fod ei demtasiynau ef yn bethau gwirioneddol, oblegid nid heb ymdrech mawr y daeth yn llwyddianus trwyddynt. Yr oedd angylion yn gweini iddo ar ol i'r diafol ei adael y waith gyntaf; ac ar ol y prawf mawr fu arno yn yr ardd, daeth angel i'w nerthu. Y mae hyn yn dangos mai yr unig wahaniaeth rhyngddo â ni ydyw, ein bod ni yn cael ein temtio ac yn pechu, ac iddo yntau gael ei demtio heb bechu. Nid anhawdd fyddai dangos ei fod ymhob ystyr yn ein hamgylchiadau ni ;—nad oedd dim chwerwder mewn tlodi na wyddai Efe am dano,—dim swyn mewn cyfoeth nad ymddangosodd ê yn ei liw mwyaf deniadol i'w feddwl yntau. Nid ymosododd rhwysg a mawredd bydol ar neb erioed fel arno Ef. Nid oedd Lazarus ddim yn îs nag y bu Ef : ni bu Solomon ddim yn uwch nag y cynygiwyd iddo yntau fod. Dirmygwyd Ef yn fwy na Dafydd ; a gallasai eistedd, pe mynasai, yn uwch na Gamaliel. Beth bynag ydyw ein hamgylchiadau, nid all yr un demtasiwn ymosod arnom, nad yw Iesu Grist yn hono wedi ei wneuthur yr un ffunud a ninau. Ond yn

(2.) Y peth oedd yn ei gymhwyso yn neillduol i fod yn esampl, oedd ei fod wedi dyfod i'r amgylchiadau hyn yn wirfoddol. Y mae yr apostol wrth gyfeirio ein meddwl at Iesu Grist fel esampl yn agwedd gwas, yn ein hadgofio y gallasai fod yn ffurf Duw. Nid yw bod un yn cyflawni yr hyn sy ddyled arno mewn gwirionedd, ddim yn ei wneuthur yn deilwng : gweision anfuddiol ydyw y rhai sydd yn gwneuthur cymaint oll a'r a orchymynwyd, os bydd y peth yn ddyled arnynt. Nid yw bod yn dda ein hamynedd mewn dioddefiadau, pan wedi eu haeddu yn ddim clod ; ond y mae bod felly pan yn dioddef ar gam, yn rasol. Felly y mae ymdrechu i wneuthur unrhyw beth fel dioddef, pan nad oes rhwymau, yn rhoddi teilyngdod a grym yn esampl y neb a wna hyn. Yr hyn oedd yn peri fod ymdrechiadau Howard i ymweled â charcharau Ewrop, yn cael eu codi i fyny fel esampl o ddyngarwch, ydyw ei fod, o'i fodd, heb rwymau, wedi cymeryd y drafferth hon arno ei hun. Yr hyn sydd yn gwneuthur gwaith y cenhadon sydd yn myned i'r byd paganaidd i bregethu Crist, yn esampl mor ddisglaer o gariad at Grist ac eneidiau dynion ydyw, y gallasent fod mewn amgylchiadau gwahanol iawn. Felly, yr hyn sydd yn rhoddi y

fath swyn yn esampl y dyn Crist Iesu ydyw, ei fod wedi ***dewis*** dyfod i'r amgylchiadau hyn. Yn hyn y mae ei esampl yn rhagori cymaint ar esamplau holl enwogion y Beibl. Fe'n cyfeirir at y prophwydi ac at Job fel esamplau o ddioddef blinderau, ac o hir-ymaros; ond nid o'u bodd y daethant hwy i awr y brofedigaeth. Ac y mae yr Arglwydd Iesu yn cynghori ei bobl i ochel profedigaeth, gan eu hanog, "pan y'ch erlidiant mewn un ddinas, ffowch i un arall." A phan y byddai saint yr Hen Destament yn goddef profedigaeth, yr oeddent yn gwneuthur hyny am nas gallent ei hysgoi hi. Tewi a wnaeth Aaron yn y brofedigaeth; ond pe buasai ei lais yn gallu rhoddi bywyd i feirw, y mae yn bur debyg mai llefaru y buasai uwchben Nadab ac Abihu. "Yr Arglwydd yw Efe," meddai Eli; ond pe buasai yn gallu siarad nes y buasai y lladdedigion yn fyw, a'r gelynion yn syrthio yn wysg eu cefnau o flaen ei eiriau, tebyg ydyw mai hyny a wnelsai, yn lle syrthio i lawr a marw. Pe buasai Job yn gallu dal y Caldeaid, gorchfygu y Sabeaid, dywedyd nes y buasent yn clywed uwchben tŷ y mab hynaf, "Deffrowch a chenwch, breswylwyr y llwch," tebyg ydyw mai hyny fuasai efe yn ei wneuthur, yn lle rhwygo ei fantell ac eistedd ar y domen. Ond wele Iesu Grist yn cerdded nes blino, pan y gallasai wneuthur y cwmwl goleu yn gerbyd iddo, a marchog ar adenydd y gwynt. Wele Ef yn newynu mewn anialwch, yn cael ei siomi gan y ffigysbren am fodd i dori ei newyn, pan y gallasai â gair droi pob careg oedd o'i amgylch yn fara, a pheri i bob pren crin ddwyn ffrwyth fel gwialen Aaron. Wele Ef yn cael ei rwymo, pan y gallasai â gair o'i enau wneuthur ei holl elynion fel byddin Senacherib. Wele Ef yn cael ei goroni â drain, ei daraw â chorsen, ei hoelio ar groes, pan y gallasai mewn moment godi y tô oddiar ddistryw, nes y buasai ei holl boenydwyr yn cael eu hunain mewn cadwyni tragywyddol. Y mae ei waith yn dyfod o'i fodd i'r amgylchiadau hyn, yn gwneuthur ei esampl yn annhraethol deilwng o gael sylw.

(3.) Perffeithrwydd ei gymeriad oedd y cymhwysder olaf a nodasom ynddo i fod yn esampl. Yr oedd dau beth hynod ynddo: y naill ydoedd ei fod mor debyg i gnawd pechadurus, nes yr oedd dynion yn teimlo ei fod yn un o honynt hwy; a'r

llall ydoedd ei fod mor berffaith, nes yr oedd deddf Duw yn dywedyd uwch ei ben, "Boddlonwyd!" Y mae mantais i ni ar wendidau saint yr Hen Destament: oblegid y maent yn dangos i ni, er uched oeddent, nad oeddent yn rhy uchel i syrthio; ac yn rhybudd i ni nad all y Cristion gyraedd yr un ystâd yma, nad ydyw yn briodol dywedyd wrtho, "Na fydd uchelfryd, eithr ofna." Ac y mae yr un rhinwedd, sydd yn ymddangos mor eglur yn eu cymeriad trwy sefyll ar wahân, yn cael mantais i wneuthur argraff ddwysach ar ein meddwl, na phe buasai pob gras yn ogyhyd a gogymaint ynddynt. Y mae y grasusau hyn, fel amrywiol ranau y tabernacl neu y deml, ar wahân,—y mae cael edrych arnynt bob yn un ac un, yn fanteisiol i bob un roddi argraff ar y meddwl; ond i gael syniad cywir am danynt, y mae yn rhaid eu gweled yn eu cysylltiad â'u gilydd, fel y maent yn gwneuthur i fyny un deml. Y deml ysbrydol, y gwelsom ni ranau o honi mewn llawer man o'r blaen, wedi ei chyd-gysylltu oedd Iesu Grist; a'r hyn sydd yn ein taraw ni yn ei gymeriad Ef ydyw, nid amlygrwydd rhyw un peth neillduol, ond cydgyfarfyddiad pob peth; a hyny yn y cyfartaledd perffeithiaf â'u gilydd, fel lliwiau yr enfys, y naill yn toddi i'r llall. Pan yn meddwl am Abraham, ei ffydd sydd yn tynu ein sylw; pan yn meddwl am Job, ei amynedd sydd yn taraw y meddwl; ond pan yn meddwl am Iesu Grist, nid fel un hynod am ffydd, nid fel un hynod am amynedd, nid fel un hynod am lareidd-dra, y bydd yn ein taraw ni; ond yr achos o hyn ydyw am fod yr holl bethau hyn yn berffaith ynddo. Pe na buasai yn llawn teimlad a thynerwch fel Jeremiah, buasai ei waith yn galw y Phariseaid a'r ysgrifenyddion yn rhagrithwyr, yn peri i ni ei gymharu i Elias; ac oni bai am yr eofndra hwn oedd ynddo, buasai ei waith yn wylo uwchben Jerusalem, yn peri i ni ei gyffelybu i'r prophwyd yr oedd ei ben yn ddyfroedd, a'i lygaid yn ffynhonau o ddagrau. Ond nid yw ei dynerwch ddim yn ein taraw fel y mae tynerwch Jeremias, na'i onestrwydd fel y mae gonestrwydd Elias; ond yr achos ydyw am ei fod yn berffaith yn y ddau beth. Y mae ei gymeriad gogoneddus yn ein taraw â syndod, nes y dywedwn, "Pwy yw Hwn?" Perffeithrwydd cymeriad Iesu Grist sydd yn peri fod cymaint o dynfa yn ei esampl i'w bobl; a'r un peth sydd wedi gwneuthur

yn ofer holl ymdrechiadau ei elynion yn ei erbyn Ef a'i grefydd; oblegid wedi iddynt, yn ol eu tyb hwy, symud ymaith bob prawf arall o ddwyfoldeb ei grefydd, y mae perffeithrwydd cymeriad ei sylfaenydd hi yn aros yn graig rhwystr nad oes modd ei symud. Ac nid rhaid wrth brawf ond hwn mai oddiwrth Dduw y daeth; oblegid ni fedrodd holl ddoethion y byd, am bedair mil o flynyddoedd, dynu *llun* dyn perffaith, rhagor bod yn berffaith eu hunain. Ond dyma bysgodwyr Môr Galilea wedi disgrifio un felly yn y pedair efengyl. Y mae yn rhaid addef fod un felly wedi bod, neu ynte fod y pedwar efengylwr wedi cyflawni un o'r gwyrthiau hynotaf a wnaed erioed. Nid bychan oedd trafferth yr Iuddewon i gael ei gondemnio; ac er cyflogi gau dystion i'w erbyn, bu bron iddo ddyfod yn rhydd. Ac wrth ei draddodi, yr oedd Pilat yn tystio, nad oedd yn cael dim bai ynddo. Yn yr un dull y diweddodd pob prawf fu ar gymeriad Mab Duw. Y mae y gelynion yn gorfod tystio, "Nid ydym ni yn cael dim bai ynddo." Ac erbyn hyn nid oes odid neb o honynt yn ddigon digywilydd i roddi dim yn ei erbyn; ond y maent, yn Iuddewon, yn Anffyddwyr, ac yn Sosiniaid, yn tystio ei fod yn ddyn da, er fod y cyntaf yn gwadu ei fod yn Fessiah, yr ail yn gwadu ei fod yn brophwyd, a'r trydydd yn gwadu ei fod yn Dduw; eto y maent yn cytuno ei fod yn ddyn da. Ond pa ddiolch iddynt? pe buasai chwydd-wydr rhagfarn a gelyniaeth yn gallu canfod y bai lleiaf ynddo, nid hwy yw y rhai a fuasent yn ei guddio.

Y mae y perffeithrwydd hwn sydd yn ei gymeriad yn ei gymhwyso i fod yn esampl i ni; oblegid, er dyfned ydyw cwymp dyn, y mae gan berffeithrwydd ryw swyn ryfeddol iddo. Dyna ydyw barddoniaeth,—ymgais yr enaid am baentio rhyw bethau rhagorach na'r pethau sydd o'i amgylch. A gall hyn ymddangos yn ddieithr, eto y mae yn wir,—y rhai sydd wedi cyraedd y perffeithrwydd mwyaf mewn rhyw beth sydd yn swyno mwyaf ar eraill i'w dilyn; ac yn ol graddau perffeithrwydd ein esampl ni y bydd ein perffeithrwydd ninau, oblegid os bydd y nôd yn uchel, y mae yr ymdrech i'w gyraedd yn gyfatebol. Ac os na bydd esampl o ragoriaeth o flaen y meddwl, ni ragora y person hwnw mewn dim. Yr hyn a gadwodd y deyrnas hon, a rhanau eraill o Ewrop, mor hir yn anwaraidd

ydoedd nad oeddent yn gydnabyddus â'r un ystâd well ar bethau ; ond pan aeth canoedd o'r trigolion, yn y ddeuddegfed ganrif i'r dwyrain, i geisio enill Palestina oddiar y Mahometaniaid, gwelsant yno gymdeithas mewn ystâd llawer mwy coethedig nag oedd hi yma ; ac ni orphwysodd y rhai a ddychwelasant heb amcanu cyraedd ystâd gyffelyb. Felly y mae Mab Duw wedi dangos i ni beth yw natur ddynol berffaith ; ac y mae miloedd ar y ddaear wedi eu swyno gymaint gan yr olygfa, nes y maent yn penderfynu na orphwysant nes dyfod yn gyffelyb iddo. Y mae dedwyddwch dyn yn gynwysedig mewn cerdded rhagddo yn dragywydd ; a rhagoriaeth natur Duw ydyw fod yma ddigon o le iddo. Iaith y ddeddf byth fydd, "Dring i fyny yma;" ac iaith Iesu Grist yn ei esampl fydd, "Gwnewch fel finau," fel y mae yn anmhosibl i ddyn fyned yn fanylach na'r ddeddf, nac mor bell ymlaen mewn perffeithrwydd. Na, dilyn yr Oen y bydd yn ddiddiwedd. Y mae mynyddoedd yr Alps, fel y mae y teithiwr yn esgyn, yn ymddangos fel pe byddent yn myned uwch : erbyn iddo gyraedd y man y tybiodd o'r gwaelod, ond dyfod iddo, y buasai yn agos i'r pen, y mae y pen yn ymddangos yn bellach o'r fan hono nag ydoedd o'r gwaelod. Cyffelyb i hyn ydyw esampl Iesu Grist : ni gawn ei ddilyn am byth, a myned byth ymlaen ; ac er dyfod yn debycach, debycach iddo, fe bery Ef i fod yn gyntaf-anedig ymhlith ei frodyr lawer,—i flaenori ymhob peth ; fel ag y gall ddywedyd wrthym yn ddiddiwedd, "Dring i fyny yma."

Y mae y tri pheth hyn sydd yn Iesu Grist yn peri bod ei esiampl yn berffaith. Pe na buasai yn ein hamgylchiadau ni, iaith ein calon wrth ddarllen a chlywed am dano fuasai, "Feallai na buasai yntau yn ddim gwell na ninau, pe buasai yn ein sefyllfa ni." Pe na buasai wedi dyfod i'n hamgylchiadau ni o'i wirfodd, buasai yn demtasiwn i rywun ddywedyd, "Nid ydyw ei ddioddefgarwch ond tawelwch anobaith." Pe buasai y gwall lleiaf ynddo yn y sefyllfa y daeth iddi, buasai perygl i lawer ymdebygoli iddo, nid yn y rhinwedd, ond yn y bai ; ond gan fod y tri pheth hyn ynddo, y mae ei esiampl yn berffaith. "Gan adael i ni esiampl."

Wrth son am Iesu Grist fel esampl, y mae yn angenrheidiol i ni gofio mai ei ysbryd, yn hytrach na'i eiriau, sydd i'w ddilyn.

Y mae rhai yn meddwl eu bod yn dilyn Iesu Grist i fanylrwydd, wrth gyhoeddi gwaeau a melldithion uwchben eu cyd-ddynion, yr hyn beth a alwant yn onestrwydd ; pan mewn gwirionedd nad ydynt byth yn annhebycach iddo ef na phan yn gwneuthur hyny. Wrth geisio bod yn onest fel Efe, y maent yn anghofio ei hynawsedd ; ac nid yw gonestrwydd Iesu Grist byth yn gwneuthur lles, pan ar wahân oddiwrth ei dynerwch. Pe buasem ni yn bur, yn ddibechod fel Efe, feallai y gallasem ni ddefnyddio iaith fel yntau ; ond gan nad ydym, dylai ein gwaith ni yn ein hystyried ein hunain, rhag ein temtio ninau, beri i ni ymdebygoli yn fwy iddo yn hynawsedd ei ysbryd ; nag yn yr awdurdod gydâ pha un y ceryddai ragrithwyr ei oes. Y mae i bob un ei ddull priodol ei hun o wneuthur daioni ; ac y mae ein llwyddiant ni yn ymddibynu mwy ar dymer ein hysbryd nag ar gryfder ein geiriau. Gallasai Saul (oedd o'i ysgwyddau i fyny yn uwch na phawb) wneuthur gwroldeb gyda'r arfogaeth drom hono ; ond yr oedd hi yn rhwystr i'r llanc Dafydd : y ffon dafl a'r ceryg llyfnion oeddent yn gweddu iddo ef. Felly, byddai yn llawn mor rhesymol i ninau geisio ymdebygoli i Fab Duw mewn gorchymyn i'r dwfr droi yn win, ag a fyddai ceisio gwneuthur hyny mewn galw dynion yn rhagrithwyr ac yn gelwyddwyr, ac mewn cyhoeddi gwaeau ofnadwy uwch eu penau. Yr oedd y geiriau hyn, o'i enau Ef, yn peri fod y gynulleidfa yn delwi gan ofn ger ei fron, am eu bod yn teimlo fod ei lygaid yn darllen dirgelion eu calonau ; ond o'n genau ni, ni pharent ond iddynt godi yn ein herbyn, fel y rhai hyny yn erbyn meibion Scefa, gan ddywedyd, Yr "Iesu a adwaenom, ond pwy ydych chwi ?" Ped yfem ni fwy o'i ysbryd, byddem yn aml yn fwy gwyliadwrus ynghylch defnyddio ei eiriau.

Ond i alw sylw ato yn fwy neillduol fel esampl, ni a enwn rai pethau ymha rai y mae yn esampl i ni. Y mae holl ddyled dyn yn cael ei chrynhoi yn y Testament Newydd i ddau air, yn lle deg yr Hen Destament ; ac y mae Iesu Grist yn esampl berffaith o'r ddau. Y ddeddf foesol wedi ymgnawdoli ydoedd. Y mae perthynas fawr rhyngom ni â Duw, a pherthynas rhyngom ni a'n cyd-ddynion ; ac y mae Iesu Grist wedi rhoddi esampl i ni pa sut i ymddwyn yn deilwng i'r perthynasau pwysig hyn

yr ydym ynddynt. Y mae yn esampl o'r modd y mae i ni barotoi ein hunain i gyflawni ein holl ddyledswyddau. Hefyd o'r dull y mae i ni orchfygu yr ymosodiadau a wneir arnom i'n hatal i'w cyflawni. Dangosodd i ni pa fodd i gyflawni ewyllys Duw,—pa fodd i barotoi ein hunain at y gwaith,—a pha fodd i orchfygu pob gelyn a geisia ein troi oddiwrtho.

I. Y mae yn esampl i ni o'r modd yr ydym i ymddwyn tuag at Dduw. 1. Trwy ddangos mai gwasanaethu Duw ddylai fod yn flaenaf ar ein meddwl. Yr unig hanes sy genym am dano Ef wedi dyfod o ystâd ei fabandod, nes bod yn ddeg ar hugain oed, ydyw ei waith yn ymddiddan â'r doctoriaid ; ac y mae y rheswm a roddodd i'w fam dros hyny wedi ei fwriadu, feallai, i fod yn eglurhad ar y rhan hyny o'i oes ag y mae yr efengylwr yn ddistaw yn ei chylch. Ynghylch y pethau oedd yn perthyn i'w Dad yr oedd y pryd hwnw, a diau ydyw mai ynghylch yr un pethau y bu nes dechreu ei oes gyhoeddus. Wedi iddo ddechreu pregethu, ei fwyd a'i ddiod oedd gwneuthur ewyllys yr Hwn a'i hanfonodd. Hyn ydoedd ei waith : nid rhywbeth y byddai yn ei wneuthur weithiau, ond ei alwedigaeth,—ei gelfyddyd ydoedd. Er ei fod "yn addfwyn a gostyngedig o galon," eto buasai yn haws symud y mynyddoedd tragwyddol na throi ei feddwl am foment oddiwrth ei waith. Yr oedd yr Hwn oedd yn addfwyn fel oen ymhob man arall, yn myned yn wrol fel llew, pan y ceisiai rhywun fyned rhyngddo a'i waith. Pell oddiwrtho oedd cablu urddas ; eto pan y ceisiai rhai urddasol fyned rhyngddo a'i waith, y mae yn eu galw yn "rhagrithwyr," "yn feddau wedi eu gwyn-galchu," ac yn "gelwyddwyr." Nid ydoedd yn amddifad o deimladau mwyaf serchoglawn y ddynoliaeth ; eto pan geisiai ei fam a'i frodyr ei rwystro gyda'i waith, fe'u gwadai ar goedd gwlad. Ni fu athraw erioed yn cyd-ddwyn mor dyner âg anwybodaeth a phlentynrwydd disgyblion ag Ef ; eto pan y ceisiai un o honynt ei atal yn ei waith, y mae yn ei alw yn "Satan." Yr oedd yn teimlo oddiwrth lafur a lludded ; eto ni rwystrid ef ganddynt i gyflawni y gwaith wrth ffynon Jacob. Darfu i galedwch ei wrandawyr beri i Jeremias benderfynu na lefarai mwyach wrthynt; darfu i gariad at y byd ddyrysu Demas yn ei weinidogaeth ; darfu i ofn dyn faglu Pedr onest ; ond nid oedd yr un demtasiwn o'r

fath hyn yn effeithio am foment arno Ef. Ar y mynydd yr oedd y bobl yn rhyfeddu wrth ei ddysgeidiaeth Ef ; yn y diffaethwch yr oeddent yn meddwl ei wneuthur yn frenin ; yn y deml yr oeddent yn ceisio ei rwydo yn ei ymadrodd ; ar lan y môr yr oeddent yn ei adael wrth y canoedd ; eto cyrchai drwy bob peth at y nôd, oblegid cyflawni ewyllys Duw oedd ei *waith* Ef. Yn hyn fe roddes i ni esampl. Ai gwneuthur ewyllys Duw ydyw ein gwaith ni ? O ! pa faint o honom sy gydâ chrefydd, ond nid hi ydyw ein *gwaith* ni ; rhywbeth arall ydyw ein *celfyddyd* ni. Y mae crefydd yn cael ambell bum' mynyd, ond yr alwedigaeth sydd yn cael ein nerth. Yn hyn yr ydym yn debycach i Satan nag i Iesu Grist. Y mae Satan weithiau yn troi ei hun yn angel goleuni : angel y tywyllwch ydyw ei gymeriad ef er hyny. Ac os oes rhai o honoch yn cael eich cadw rhag crefydd gan drafferthion y bywyd hwn,—gan berthynasau neu gyfeillion,—neu rhag digio rhyw Phariseaid ac archoffeiriaid,—cofiwch na ataliodd yr un o'r pethau hyn Fab Duw rhag myned â'i waith ymlaen. Ac y mae pob dyn sydd yn byw i bwrpas gyda dim, nid yn aros am amgylchiadau, ond yn caethiwo yr amgylchiadau y byddo ynddynt i fod yn fanteisiol iddo ef gyraedd ei nôd. Felly y gwnaeth Iesu Grist : fe drodd bob amgylchiad yn fantais i roddi gwasanaeth i Dduw ; nid addaw yn yr anialwch y plygai yn y deml, nac addunedu yn nghanol cynwrf y deml, yr ymroddai i'r gwaith wedi cyraedd unigrwydd lle anghyfanedd ; na, fe drodd amgylchiadau profedigaethus yr anialwch yn fanteisiol i roddi y gogoniant i Dduw ; a checraeth y deml yn fantais i'r un peth. Felly, os awn ninau i aros am amgylchiadau manteisiol i waith Duw gael y lle blaenaf ar y meddwl, fe'n delir ni gan angau cyn i ni weithio un awr yn y winllan.

2. Fe roddes i ni esampl mewn proffesu yn gyhoeddus ei barchedigaeth i Dduw. Yn ein sylw blaenorol, esampl o ysbryd crefydd a roddodd Efe i ni ; ond trwy ei phroffesu hi yn gyhoeddus, y mae wedi rhoddi esampl o'i chorff hi ; ac nid ydynt i fod ar wahan,—yr ysbryd heb y corff, na'r corff heb yr ysbryd. Nid ydym i roddi ein hunain i'r Arglwydd, heb roddi ein hunain hefyd i'w bobl ; nac i'w bobl ychwaith, heb roddi ein hunain yn gyntaf iddo Ef. Yr oedd y grefydd Iuddewig y

pryd hwnw yn dra llygredig,—nid ydoedd ond corff o seremoniau, a'r ysbryd wedi hen ymadael; eto nid ystyriai Mab Duw hyny yn ddigon o reswm dros neillduo ei hun oddiwrth ei hordinhadau cyhoeddus hi. Ond nid yw ei waith Ef yn glynu wrth yr eglwys Iuddewig ddim i fod yn esampl i ni lynu wrth unrhyw eglwys lygredig, am nad oes gan yr un eglwys ar y ddaear yn awr yr un sail i ddisgwyl hyn ag oedd gan yr eglwys Iuddewig, oblegid nid oedd onid hi ar y ddaear y pryd hwnw, ac nis gallasai yr un arall fod. Yr oedd gwaith yr Arglwydd yn cyfyngu aberthau i un man yn gwneuthur eglwys arall yn beth anmhosibl, oblegid nis gallasai dim crefydd fod heb aberth; felly nid oedd neb i gilio oddiwrth yr eglwys Iuddewig, ond yn hytrach i geisio ei diwygio hi: ac felly parchwyd hi fel sefydliad dwyfol gan Iesu Grist ei hunan. Dylid gochelyd eto rhag gwneuthur ymraniadau yn eglwys Dduw; ond gallant fod yn yr eglwys Gristionogol, oblegid y mae yr awr wedi dyfod pryd nad ydys yn addoli y Tad, nac yn y mynydd hwn, nac yn Jerusalem; ond pwy bynag sydd yn addoli mewn ysbryd a gwirionedd, y rhai hyny sy gymeradwy ger ei fron. Yr hyn oedd i atal ymraniad oddiwrth yr eglwys Iuddewig ydoedd, mai i Jerusalem yr ydoedd yr aberthau yn perthyn; ond nis gall hyny atal ymraniad yn awr, oblegid nis gall yr un eglwys hòni hawl iddi ei hunan o Iesu Grist a'i aberth, fel ag i gau allan bawb ereill; na: y mae Efe yn ddiddadl yn dyfod i mewn i aml adeilad, nes gwasgaru perarogl ei bresenoldeb dros y lle, er bod aml un sydd yn proffesu bod yn ddisgybl iddo, feallai, yn ofni dyfod yno rhag cael ei halogi. Gan hyny y mae ymneillduo oddiwrth eglwys lygredig yn awr, nid yn unig yn oddefol, ond yn ddyledswydd; ac yn wir nid oes yr un eglwys ar y ddaear heddyw, nad un wedi ymneillduo oddiwrth un arall ydyw. Nid Eglwys Rhufain oedd yr un a sefydlwyd gan yr Apostolion: wedi ymneillduo oddiwrth Eglwys Rhufain y mae Eglwys Loegr; ac y mae y rhai a elwir yn Ymneillduwyr, yn y wlad hon, wedi gwneuthur hyny oddiwrthi hithau; fel nad oes gan neb ddim i'w ddanod i'w gilydd, oblegid Ymneillduwyr ydyw pawb; fel nad oes ar y ddaear heddyw yr un eglwys y gellir dywedyd am dani, "Hon a sefydlodd yr Apostolion." A pha bwys sydd yn hyny, oblegid onid ydyw portread yr eglwys

genym yn y Beibl? ac â'r un sy debycaf, yn ol ein barn gydwybodol ni, i'r portread y dylem ymuno, pe na byddai ond blwydd oed. Nid ein hamcan wrth ddywedyd hyn ydyw cefnogi ymraniadau yn eglwys Dduw, ond yn hytrach ceisio dangos nad oedd gwaith Iesu Grist yn talu parchedigaeth i eglwys mor lygredig ag ydoedd yr eglwys Iuddewig yn un rheswm dros i ni wneuthur felly. Ar y llaw arall, ni ddylai neb sefyll draw oddiwrth bob cangen o eglwys Crist am fod rhyw anmherffeithrwydd ynddynt oll, oblegid y mae Iesu Grist yn proffesu crefydd yn gyhoeddus, er yr anmherffeithrwydd; ac yn hyn fe roddes esampl i ni, fel y canlynem ei ol Ef. Yr oedd Efe yn edrych ar grefydd, nid yn ei pherthynas â'r rhai oeddent yn ei phroffesu hi, ond yn ei pherthynas â Duw. Nid tŷ y Phariseaid rhagrithiol y galwai efe y deml, ond "tŷ fy Nhad;" felly y dylem ninau edrych ar grefydd; nid yn ei pherthynas â dynion, ond yn ei pherthynas â Duw. Yr oedd pawb oeddent yn dwyn cysylltiad â'r deml, yn erbyn Iesu Grist, ond nid oedd Efe ddim yn digio wrth y deml oblegid hyny; ond y mae aml un yn awr, os gwna rhywun sydd yn perthyn i eglwys rywbeth yn ei erbyn ef, y mae yn y fan yn digio wrth y lle; ond y mae yn amlwg maï nid tŷ Dduw ydoedd yn ei olwg o'r blaen, onidê ni fuasai ymddygiad un dyn ddim yn peri iddo gilio oddiwrtho. Yr oedd anmherffeithrwydd y disgyblion gynt yn peri i lawer feio arnynt: ond yr oedd eu Hathraw mawr yn eu hamddiffyn, ac yn cymeryd yn garedig dros ben eu gwaith yn ei ddilyn, er mor anmherffaith oeddent. Yr un un ydyw Efe eto, ac y mae ei ddisgyblion tlodion, er eu hanmherffeithrwydd, yn berffeithiach na neb sydd yn beio arnynt. Y maent hwy yn cynal ei enw ar y ddaear: buasai wedi marw o ran pawb ereill; ac yn y dydd diweddaf, fe ddatguddir mai nid peth bychan yn ei olwg fydd hyn. Os mynem ni ddilyn esampl Iesu Grist, ni ddylai anmherffeithrwydd crefyddwyr ddim ein hatal i broffesu crefydd.

3. Fe roddes i ni esampl mewn ymostwng i ewyllys Duw. Y mae ein dyledswydd tuag at Dduw yn gynwysedig yn y ddau beth hyn, sef cyflawni ei ewyllys, a dioddef ei ewyllys. Y mae yn anhawdd ei chyflawni; ond y mae yn anhaws ei dioddef hi. Dioddef ydyw y ddisgyblaeth y mae pob Cristion i fyned trwyddi i'w barotoi i fyd arall. Trwy anialwch o ddioddef yr oedd

myned i'r Ganaan ddaearol; yn gyffelyb y mae myned i'r nefol, oblegid nid oes dim ond dioddef a ystwytha ewyllys gyndyn pechadur; a'r foment y bydd y sant yn gallu dywedyd wrth ei Dad nefol, "Gwneler dy ewyllys," y foment hono y bydd yn gymwys i gael ei dderbyn i wlad nad oes dioddef ynddi. Felly nid yw hanes saint y Beibl bron ddim ond hanes eu dioddefiadau. Yfwyd y cwpan chwerw at Adda, y cyntaf o honynt: aeth yr un cwpan at Noah a'r holl batriarchiaid. Yr oedd yn cael ei yfed at y mwyaf o feibion y dwyrain fel at y lleiaf. Nid yr un peth sydd yn chwerwi cwpan pawb; ond y mae i bawb yn gwpan chwerw. Y mae naill ai colli cyfoeth gyda Job, colli plant gyda Dafydd, cyfarfod â phrofedigaethau personol gyda Daniel a'r tri llanc, neu ddioddef yn achos eraill fel Jeremias a Paul, yn ei wneuthur felly. A'r Cristion goreu ydyw yr hwn sydd yn dioddef oreu; oblegid mesur ein perffeithrwydd ni ydyw mesur cydffurfiad ein hewyllys ni âg ewyllys Duw; a'r pethau chwerwon sydd yn ein cyfarfod yn unig a brofant hyny. Yr oedd geiriau Satan yn herwydd Job, yn wirionedd ar hyn, sef nad yw gwasanaethu Duw mewn llwyddiant yn ddim prawf o galon yn plygu iddo: yr hyn a brofa hyny ydyw, peidio ei felldithio yn y dydd blin. Ond y mae esampl Iesu Grist yn berffaith yn hyn: ni ddioddefodd neb erioed gymaint ag Ef;—ni phlygodd neb erioed mor berffaith i ewyllys Duw ag Ef. Yr oedd ei oes, er ei bod yn oes o ddioddef, yn oes o ufuddhau. Y mae chwerwder mewn tlodi,—y mae colyn yn nirmyg ein cyd-ddynion,—y mae swyn mewn sefyllfa uchel: gwyddom am yr holl bethau hyn; ond nid oedd yr un o honynt yn ei atal Ef i ddywedyd,—"Gwneler dy ewyllys." Yn ei gyfyngder y mae yn dywedyd,—"Fy enaid a gynhyrfwyd, a pha beth a ddywedaf?" A ddywedaf fi, "Gwared fi allan o'r awr hon?" Na wnaf; eithr "oherwydd hyny y daethum i'r awr hon." Ond hyn a ddywedaf,—"Gogonedder dy enw;" pe byddai raid i mi fyned yn ddyfnach eto, "Gogonedder dy enw." Ac yn y goleu hwn y dylem gymeryd ei waith yn gweddio ar i'r cwpan fyned heibio, sef, fel amlygiad o'i fod yn teimlo i'r byw yr anhawsder oedd yn ei yfed; ond, er teimlo, y mae yn gallu dywedyd, "Gwneler dy ewyllys." Dyma i ni esampl o ddioddef heb ei bath. Profodd yr Arglwydd Adda, ond gwyddoch beth fu y

canlyniad; profodd Abraham, ond pallodd ei ffydd yntau; fe brofodd Job, ond clywch ef yn melldithio ei ddydd; fe brofodd Dafydd, ond dangosodd yntau trwy lwfrhau mai bychan oedd ei nerth; ond fe brofodd Iesu Grist, ac er bod y cwpan yn cael ei wneuthur yn chwerwach, bob tro yr yfwyd ef ato, eto ei iaith y waith olaf oedd,—"Onid yfaf ef." Ymgasglodd cymylau o'i amgylch, y naill haen ar ol y llall nes i ni ei golli yn y tywyllwch; ond pan oedd y tywyllwch yn fwyaf ofnadwy, dyna y llais oedd yn dyfod o hono, "Gwneler dy ewyllys," "O Dad!" "Fy Nuw, Fy Nuw," er ei fod wedi ei adael; ïe, "Fy Nuw, Fy Nuw, paham y'm gadewaist?" "Edrychwch arnaf fi, a gwnewch yr un ffunud," meddai Gideon wrth ei dri chanwr; ac yr oedd sicrwydd eu concwest ar y Midianiaid yn ymddibynu ar hyny: felly medd Mab Duw wrth ei bobl, "Os ydych am ddyfod drwy ofidiau y byd er gogoniant i Dduw, edrychwch arnaf Fi, a gwnewch yr un ffunud;" ac ni chollem ninau y frwydr mor fynych, pe byddem yn dilyn y cyfarwyddyd. Mordaith ydyw ein bywyd ni; y Beibl ydyw y cwmpawd i ddangos y ffordd; ond esampl ein Ceidwad ydyw ein harlen (*chart*) ni. Y naill yn dangos y ffordd y dylid myned, a'r llall y ffordd y mae un wedi myned yn ddiogel. Ac nid yw mordaith bywyd ddim fel mordaith Paul: yr oedd efe yn gauafu yn Melita, ac yn cychwyn eilwaith tua Rhufain, ar ol i'r tywydd garw fyned heibio; ond nid oes lleoedd i auafu genym ni. Y mae yn rhaid dal allan ar bob tywydd; ond er garwed fo'r tywydd, ni bydd colled am ein heinioes, er y gall ein henaid doddi ynom gan flinder. Tra y bydd y cwmpawd a'r arlen genym, gair Crist a'i esampl Ef, er y gall ein llestri ni syrthio ar leoedd geirwon, nid awn i un man na bu ei lestr Ef yno o'r blaen; ac wrth sylwi ar y *chart*, fe'n cedwir rhag y creigiau. Yr hyn sydd yn gwneuthur moroedd dieithr mor ddinystriol i fywydau ydyw, na wyr neb pa le y mae y peryglon. Y mae yn rhaid eu teithio lawer gwaith, ac i liaws gael eu colli ynddynt, cyn y gellir gwneuthur arlen gywir, a nodi ynddi lle y mae yr holl beryglon. Môr dieithr yr ydym ninau yn ei deithio: fe gollwyd myrddiynau ynddo; ac er bod genym hen arleni y cynoesoedd, nid oedd yr un o honynt yn gwbl gywir; ond o'r diwedd, yr ydym wedi cael un berffaith: "Efe a roddes i ni esiampl," ac nid oes ond

gwir esgeulusdra, yn achos o golli neb yn awr, sef diffyg sylwi ar yr esampl.

II. Edrychwn ar ei esampl yn ei pherthynas â'n cyd-ddynion; oblegid yr oedd hi mor angenrheidiol i'n dysgu ni i ymddwyn yn iawn tuag at ddynion ag oedd hi i'n dysgu pa fodd i rodio a rhyngu bodd Duw. Gallwn sylwi yn

1. Iddo roddi esampl i ddyn ymhob ystad, ac hefyd i bob math ar ddyn. Fel rheol gyffredin, gellir barnu oes dyn oddiwrth ei chychwyn hi. Os ydyw yn un drygionus a diwerth ar aelwyd ei dad a'i fam, y mae pob tebygolrwydd mai un felly fydd wedi ei gadael hi. Ni roddwyd i ni ond dau air o hanes Iesu Grist yn hyn: un yn cynwys hanes yr hyn sydd ar yr olwg gyntaf yn droedd yn erbyn ei rieni; ond erbyn sylwi, y mae hyny yn profi beth oedd ei gymeriad cyffredin, oblegid yr oedd gwaith Joseph a Mair yn teithio am ddiwrnod hebddo, yn brawf ei fod y pryd hwnw yn un nad oedd raid i neb ofalu am dano; ond rhag i rywun gasglu oddiwrth yr amgylchiad nad oedd yn cyflawni dyledswyddau plentyn, gofelir dywedyd, ar ol yr hanes, ei fod yn ostyngedig i'w rieni. Ac oddiwrth eiriau Mair wrth y rhai oeddent yn gwasanaethu yn y briodas yn Cana, y mae rhai yn casglu ei fod wedi gwneuthur aml wyrth i roddi ymwared i'w fam cyn hyny; ac y mae yn anhawdd deall y geiriau heb dybied rhywbeth o'r fath. Y mae genym grybwylliad arall am dano yn ei gysylltiad â'i fam, sef pan ydoedd yn marw. Yr oedd y crybwylliad cyntaf am dano wedi ei fwriadu i roddi goleuni ar ei holl gymeriad yn more ei oes; felly y mae yr ail wedi ei fwriadu i roddi goleuni ar ei holl gymeriad wedi dyfod i'w gyflawn faintioli. Yr oedd yn ufuddhau i'w rieni pan yn blentyn, yn gofalu am danynt pan yn ddyn: yn hyn y mae esampl berffaith i'r byd. Ac er nad oes genym nemawr o hanes ei ymddygiadau at neb ond ei deulu, y mae hyny yn ddigon i daflu goleuni ar ei ymddygiad at bawb ereill; oblegid y mae y neb sydd yn cyflawni y dyledswyddau yna yn berffaith, yn sicr o fod felly yn nghyflawniad ei ddyledswyddau at bob math o ddyn. Wedi clywed hyn am dano, nid ydym yn rhyfeddu ei weled yn wylo ar ol ei gyfaill Lazarus, na'i weled fel gwladwr yn teimlo dros ddinystr ei genedl. O na byddai mwy o'i ddisgyblion yn ei gymeryd yn esampl yn hyn! Cariad

ydyw ein Duw ni, a chariad ydyw ein crefydd ni ; ac nid oes dim yn ei hargymell hi ar y byd mor effeithiol a gweled ei disgyblion hi yn dilyn eu Hathraw mawr mewn cyflawni gweithredoedd cariad.

2. Rhoddodd esampl i ni mewn cyd-ddwyn â dynion, ac mewn maddeu iddynt ; ac Efe ydyw yr esampl gyntaf o hyn. Ni ddialodd Dafydd ddim ar ei elynion ei hun, ond wrth farw rhoddodd orchymyn i Solomon dalu y pwyth iddynt. Galwodd yr hen Elias am dân Duw i ladd y rhai oeddent am ei ddal ef. Y mae amryw o'r Salmau, ac o ysgrifeniadau y proffwydi, yn weddiau am felldith ar eu cas ddynion ; ond y mae Iesu Grist wedi rhoddi esampl i'r byd o ddioddefgarwch, ac o faddeu. Pan oedd ei ddisgyblion am alw tân i lawr i ddinystrio dinas y Samariaid, y mae Efe yn eu ceryddu ; pan dorodd Pedr glust gelyn, y mae Efe yn ei hiachau hi ; a phan oedd gelyniaeth dynion wedi cyraedd y nôd pellaf, y mae ei addfwynder yntau yn dyfod i'r amlwg egluraf, mewn dywedyd,—"O Dad, maddeu iddynt." Ni chafodd neb erioed gymaint o achos digio wrth ddynion ag Efe, oblegid ni wnaeth ddim ond cymwynasau ; eto fe'i gwrthodwyd gan bawb : gwerthwyd Ef gan un o'i ddisgyblion,—gwadwyd Ef gan un arall,—gadawyd Ef ganddynt oll,—ac yn olaf croeshoeliwyd Ef,—er hyny gweddiodd dros ei boenydwyr ; anfonodd yn gyntaf at y disgybl a'i gwadodd ei fod wedi codi ; a phan gyfarfyddodd â'r rhai oeddent wedi ei adael, dyna y geiriau cyntaf a ddywedodd wrthynt,—"Tangnefedd i chwi." "Anrhydedd yw myned dros gamwedd," medd Solomon ; ond nid oedd ond ychydig iawn yn enill yr anrhydedd yma nes i Iesu Grist ddysgu y byd i hyny. Ond o drugaredd, y mae y byd yn awr yn dechreu yfed tipyn o ysbryd yr Iesu. Beth yw y cymdeithasau heddwch ond hen gyngor yr Iesu i Pedr,—"Dyro dy gleddyf yn ei wain," yn dechreu dylanwadu ar y byd. Gallwn ymffrostio yn Iesu Grist ymhob ystyr ; ond nid ymddengys yn fwy mawreddus mewn un man na phan yn dywedyd, "O Dad, maddeu iddynt ;" ac nid yw ei ddisgybl ychwaith yn rhoddi cymaint gogoniant iddo mewn dim ag mewn ymdebygu iddo yn hyn.

3. Rhoddodd i ni esampl mewn amcanu yn benaf a blaenaf at iachawdwriaeth dynion. Gwnaeth gymwynasau iddynt

mewn ystyr naturiol na wnaeth neb eu bath. Yr oedd y rhai hyny mor liosog, fel y dywed Ioan, "Pe'd ysgrifenid hwynt bob yn un ac un, na chynwysai y byd y llyfrau a ysgrifenid." Nid hanes cyflawn o'i fywyd sydd genym yn yr Efenyglau, ond yn hytrach darlun o hono: hyny, a dim yn ychwaneg sydd yn cael ei gofnodi, ag oedd yn angenrheidiol i ddangos pa fath un ydoedd. Y mae y Salmydd yn galw ar yr holl greadigaeth i glodfori yr Arglwydd,—y môr a'i gyflawnder,—y llifeiriant,—y mynyddoedd a choed y maes;—felly, pe galwesid arnynt, buasent oll yn dwyn tystiolaeth i dynerwch calon Iesu Grist. Gallasai y môr ddywedyd, "Fe'm hataliodd i i lyncu ei ddisgyblion;" a'r anialwch, "Fe'm rhwystrodd inau i fod yn fedd i'r tyrfaoedd oeddent wedi dyfod i'w wrandaw." Gallasai mynyddoedd Judea a Galilea ddywedyd, "Gwir a ddywedodd ei elynion, na lefarodd dyn erioed fel Efe." Pa ddosbarth o ddynion oedd, na allesid gofyn ei gymeriad iddo? Yr oedd pendefigion wedi cael aml gymwynas oddiar ei law;—y tlodion yn fwy dyledus iddo na neb;—y morwyr wedi cael gofyn, "Pwy ydyw hwn?"—dylasai y milwyr roddi gair da iddo, oblegid nid oedd wedi eu hanghofio hwynt;—a phe buasid yn cymeryd y dull dwyreiniol o roddi enw arno yn cyfateb i'w waith, pa enw na fuasai arno? Buasai merch Jairus, mab y wraig weddw, a Lazarus, yn ei alw, "Yr adgyfodiad a'r bywyd." Buasai Bartimeus, ac aml un gydag ef, yn ei alw yn "Oleuni y byd." Buasai degau o wahangleifion yn ei alw yn "Offeiriad mawr." Pa faint o blant galar fuasent yn ei alw "Barnabas mab Diddanwch?" Pa gynifer o drigollion dyffryn Achor yn ei alw yn "Ebenezer, maen y cymorth?" Yr oedd ugeiniau yn y wlad, bob tro yr agorent eu llygaid,—cofient yr Iesu: eraill, pob cam a roddent, meddylient am dano. Mewn gair, yr oedd pawb a phob peth yn tystio ei fod yn myned oddiamgylch gan wneuthur daioni; ond ei amcan mawr oedd achub dynion,—gwneuthur yr un peth i'w heneidiau, mewn ystyr ysbrydol, ag yr oedd yn ei wneuthur yn naturiol ar eu cyrff. Yr hyn hefyd, "fe roddes i ni esampl."

[Y mae y Bregeth wedi ei gadael heb ei chwbl orphen. Nid oes dyddiad wrthi, ond ysgrifenwyd hi tua mis Chwefror, 1850. GOLYGYDD.]

## PREGETH LXVII.

### CYFRAITH Y LLOFRUDD.

DEUTERONOMIUM xix 4:—"Dyma gyfraith y llofrudd, yr hwn a ffŷ yno i fyw."

Y MAE'R Beibl yn fynych, wrth ddisgrifio gweithredoedd neu orchwyliaethau yr Arglwydd, yn son am ddeddf y gweithredoedd neu y gorchwyliaethau hyny. Yr ydym yn darllen am ddeddf y môr, deddf y gwynt, ffordd mellt y taranau, ac orediniadau y nefoedd. Deddfau gweithredoedd Duw yw y pethau yna. Ac y mae deddf yn cael ei chysylltu yn barhaus â holl hanes y greadigaeth resymol. Fel y mae'r greadigaeth ddifywyd, o'r gronyn lleiaf hyd at y byd mwyaf, o dan ddeddf,—felly y mae pob creadur rhesymol, gyda phob peth ac ymhob man, o dan ddeddfau tragwyddol. Wrth ddeddf y môr, y gwynt, a'r greadigaeth ddifywyd, yr ydym yn arfer deall y drefn ymha un y mae'r Creawdwr doeth wedi eu rhoddi i weithredu; ond wrth ddeddf yn ei pherthynas â'r greadigaeth resymol, yr ydym i ddeall y rheol yn ol pa un y mynai Duw iddynt ymddwyn, ac yn ol pa un y mae Efe yn bwriadu ymddwyn yn ol atynt hwythau. Y mae yr Arglwydd wedi gosod yr oll a wnaeth o dan ddeddf neu ddeddfau; ac y mae yr un mor anmhosibl i'r creadur rhesymol ymryddhau oddiwrth ddeddf âg ydyw i'r greadigaeth ddifywyd wneyd hyny. Gall ef, drwy geisio ysgwyd ymaith ei hiau, golli ei gwobr hi; ond caiff ddeall, trwy ddioddef ei chosb, fod ei gafael hi yn sicr ynddo.

Yn hanes cenedl Israel, ni a welwn gymaint sydd a wnelo deddf â dyn yn ei bob peth. Yr oeddynt hwy o dan ddeddfau manwl yn eu perthynas â Duw, ac â'u gilydd; ac feallai mai un

o ddibenion amlygu hyn oedd, i ddangos trwyddynt hwy i holl oesoedd y byd fod dyn dan ddeddf yn ei berthynas â phob peth, er y gall na bydd y ddeddf yn weledig fel gyda hwynt. Y mae llawer o'u deddfau hwynt yn ymddangos i ni yn rhai dieithr; ond y mae yn debyg fod y dieithrwch i'w briodoli i neillduolrwydd eu hamgylchiadau fel cenedl, ac hefyd am fod llawer o'r deddfau yn "gysgod daionus bethau i ddyfod." Y mae portread adeilad ar bapyr yn ymddangos yn ddieithr ac yn ddiystyr i'r anwybodus ynghylch pethau o'r fath; ond pan wêl efe yr adeilad hardd wedi ei gorphen yn ol y portrerd, fe rydd hyny ystyr ac eglurder yn y portread iddo. Yr adeilad wych yn y Testament Newydd sydd wedi esbonio a rhoddi ystyr i bortread dieithr yr Hen Destament. Y mae daionus bethau yr oruchwyliaeth hon wedi esbonio cysgodau yr hen. Felly y mae goleuni y Testament Newydd yn esbonio dinasoedd noddfa i ni. Wrth edrych arnynt heb eu cysylltu â dim arall, ymddangosant yn drefniant tra dieithr; ond fel portreiad daionus bethau y drefn i gadw pechadur, ymddengys priodoldeb a phrydferthwch mawr yn yr holl drefniant.

Yr oeddwn am alw eich sylw at gyfraith y llofrudd yn y goleuni yna, sef, fel cysgod o bethau gwell. Y mae y cysgod a'r gwrthgysgod yn wasanaethgar i'w gilydd: y gwrthgysgod yn esbonio y cysgod, a'r cysgod yn aml yn ein cynorthwyo i weled mwy o brydferthwch y gwrthgysgod. Gan hyny, ni a edrychwn ar y drefn i gadw enaid yn ngoleuni y gyfraith i gadw y llofrudd yn fyw. Wrth wneuthur hyny, ymofynwn beth oedd y gyfraith, pa fodd y gellid dyfod o dan ei hamddiffyniad, a pha beth oedd natur y diogelwch a roddid i'r llofrudd. Yn y pethau hyn, bydd y cysgod yn taflu goleuni ar y gwrthgysgod.

I. Beth oedd y gyfraith? Darpariaeth benodol ydoedd y gyfraith hon i gyfarfod âg ystâd benodol neu neillduol ar bethau. Cyfraith ydoedd i gyfarfod â 'chyfraith arall. Cyfraith i gadw yn fyw lofrudd ydoedd. Yr oedd hen gyfraith yn eu plith i'w ladd. Cyfraith y llofrudd er dyddiau y patriarchiaid oedd, "A dywallto waed dyn, trwy ddyn y tywelltir ei waed yntau." A'r hwn a ystyrid gymhwysaf i wneuthur hyny ydoedd yr hwn a berthynai agosaf i'r neb a laddwyd. Hwn ydoedd "dialydd y gwaed;" a dyledswydd hwn oedd gweini ded-

fryd y gyfraith ar y lleiddiad y cyfle cyntaf a gaffai. Ond pan leddid un yn amryfus, yr oedd cyfraith y ddinas noddfa yn dyfod i gyfarfod y gyfraith arall, i achub y llofrudd o law y dialydd. Yr oedd gan y dialydd gyfraith o'i blaid, ac yr oedd hefyd gan y noddfa gyfraith o'i phlaid hithau; ac yr oedd yr un nerth yn y naill gyfraith ag ydoedd yn y llall, oblegid yr un oedd awdwr y ddwy. Eithr yr oedd awdurdod y naill gyfraith yn darfod yn y lle yr oedd awdurdod y llall yn dechreu; a'r hyn oedd yn penderfynu tynged y llofrudd ydoedd, yn nhiriogaeth pa un o'r ddau y byddai. Yr oedd cyfraith y lladd yn anorchfygol y tuallan i'r ddinas, ac yr oedd cyfraith y cadw yn fyw yn anorchfygol y tumewn iddi. Yr oedd ei gwbl ef, gan gan hyny, yn troi ar y diriogaeth y byddai ynddi. Cyfraith ydoedd i gyfarfod â chyfraith arall.

Hen ddeddf llywodraeth Duw ydoedd, mai cyflog yr enaid a becho ydyw marwolaeth; a chan fod pawb wedi pechu, y mae hono ar unwaith yn dwyn yr holl fyd o dan farn condemniad. Ond y mae deddf arall, deddf newydd, yn y llywodraeth, sef, "Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragwyddol; ni ddaw i farn, eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd." Dyma gyfraith ar gyfer cyfraith. Y mae y ddwy ddeddf yn hollalluog yn eu tiriogaethau eu hunain, ond yn gwbl ddirym y tuallan iddynt; ac y mae tynged pob un sydd yma yn troi ar hyn: Yn nhiriogaeth pa un o'r ddwy ddeddf yr ydych? ai deddf y cadw yn fyw, ai ynte deddf y lladd? Na obeithiwch am ddianc y lladd yn y naill diriogaeth, ac nac ofnwch ei gyfarfod byth yn y llall; oblegid y mae awdurdod y naill ddeddf yn diweddu yn y fan y mae awdurdod y llall yn dechreu. Y cwestiwn pwysig i ni ydyw, gan ein bod wrth natur o dan awdurdod heu gyfraith y llywodraeth, sef cyfraith y lladd, Pa fodd y gellir dyfod dan amddiffyniad cyfraith y cadw yn fyw? Y mae hyn yn ein harwain at y mater nesaf:—

II. Pa fodd y gellir dyfod o dan amddiffyniad cyfraith y cadw yn fyw? I hyny yr oedd tri pheth yn angenrheidiol i'r llofruddd; ac y mae pob un o honynt yn gysgod o'r hyn sydd raid i ni ei wneuthur tuag at gyraedd yr un peth: ymdrech personol am ei fywyd—ymwadiad â phob peth er mwyn ei fywyd—a chydymffurfiad cyflawn â phob peth y drefn i ddiogelu ei fyw-

yd; ac yr oedd y tri pheth hyn yn ei ddwyn o dan amddiffyniad cyfraith y ddinas noddfa.

1. Yr oedd ymdrech personol y llofrudd i sicrhau ei fywyd yn anhebgorol. Gwir yw fod pob peth yn fanteisiol iddo am ei fywyd: y ddinas yn y lle mwyaf cyfleus yn y wlad, yn amlwg o bob man, y ffyrdd iddi y rhai goreu yn y wlad, pont ar bob afon oedd yn croesi y ffordd hono, a mynegbyst ar bob ffordd amheus i'w atal i bryderu yn nghylch y ffordd; ac fe ddywed yr Iuddewon y byddai un neu ddau o fyfyrwyr y gyfraith yn myned gydag ef i'w gynorthwyo ar y daith. Ond nid oedd y pethau yna oll yn gwneyd y tro yn lle ei ymdrech personol ef ei hun. Yr oeddynt yn gymhelliadau cryfion iddo i ymdrechu, am eu bod yn dal allan obaith cryf iddo am fywyd; ond erddynt oll, dyn marw a fuasai heb ffoi i'r ddinas.

Cyffelyb ydyw trefn Duw eto. Rhoddir pob mantais i'r euog i ffoi at Geidwad, trwy ddweyd yn eglur pwy a pha fath ydyw. Os mynech wybod pwy ydyw, y mae hyny mor eglur yn yr Ysgrythyrau ag ydoedd y ddinas noddfa yn Israel. Y mae'r propwydi a'r apostolion fel mynegbyst yn cyfeiria ato, gan ddywedyd, "Wele Oen Duw." Os mynech wybod pa fath ydyw, edrychwch i'r un man, i weled ei allu yn ei amlygu ei hun mewn gweithredoedd nerthol i brofi ei fod yn abl i gadw, a'r rhai hyny yn weithredoedd o drugaredd, i brofi ei fod yn barod i dderbyn pwy bynag a ddêl. Y mae yr addewidion fel prenau ffrwythlawn o bob tu y ffordd yn arwain ato, a phob dydd yn rhoddi eu ffrwyth, i gynal pawb sydd yn ffoi. Ac y mae Arweinydd difeth, sef Ysbryd Duw, yn cynyg ei wasanaeth drwy yr holl daith. Y mae'r pethau hyn yn sail gobaith cryf i bechadur am fywyd—yn gymhelliadau nerthol iddo roddi pob gewyn ar ei eithaf mewn ymdrech. Ond rhaid iddo ffoi ei hun. Nid oes dim modd ei gadw trwy *proxy*, neu drwy i rywun arall wneyd y gwaith yn ei le. Arall a wnaeth y ddinas noddfa, a'r ffordd iddi; ond efe ei hun oedd raid ffoi yno.

2. Tuag at sicrhau diogelwch, yr oedd raid iddo ymwadu â phobpeth er mwyn ei fywyd. Nid peth bychan oedd hyn; oherwydd yr oedd i adael ar ôl yr oll a feddai: ei deulu, ei gyfeillion, ei feddianau. Pa mor werthfawr bynag y gallasai y pethau yna fod yn ei olwg, dyn marw ydoedd tra yn aros gyda

hwynt; yr oedd yn rhaid i bob peth gael eu haberthu ganddo er mwyn cyraedd noddfa.

Rhaid gadael pob peth eto i gael bywyd tragwyddol. Rhaid i'r dyn ei adael ei hun, ei deulu, y byd, ie, ei einioes; ymwadu âg ef ei hun, fel Abraham i fyned i wlad yr addewid—ymwadu â'i deulu, fel Lot i ffoi o'r dinystr—ymwadu â'r byd, fel Moses i ddianc at y blaid ddiogel—ymwadu â'i einioes, fel Paul i gyraedd cadwedigaeth. Caledwaith y drefn ydyw troi pob peth heibio, i gael bywyd. Fe foddlonai y dyn i wneuthur cyfnewid yn rhwydd: fe adawai bechod anwyl, er y byddai hyny yn aberth, os cai fynwesu un arall yn ei le: gadael yr oll sydd yn anhawdd. Ac nid yw yr holl lygriadau ar grefydd, megis Pabyddiaeth, a Phuseyaeth neu Ddefodaeth, ddim ond dyfais o eiddo y diafol, a chalon lygredig dyn, i geisio cael diogelwch heb adael yr hen bethau. Y maent ar y ffordd i'r noddfa, fel pabell Jael ar ffordd Sisera gynt, ac, fel hithau gynt, y maent yn gwahodd i mewn yn bur daer, gan ddywedyd, "Tro i mewn, tro i mewn ataf fi! nac ofna." Ond er mwyn eich einioes, na wnewch; oblegid nid oes yna ddim diogelwch. Er y gall yr orphwysfa y maent yn ei chynyg ymddangos yn ddymunol i gnawd, fe ddaw y dialydd yna ar eich hol. Y mae trefn yr efengyl yn sicr o'ch cadw ond i chwi adael pob peth. Os caiff hi yr holl galon, yr holl ddeall, yr holl feddwl, cadwedig a fyddwch. Ni fedd Duw yr un drefn i gadw rhan o bechadur; mae yn rhaid ei gael i gyd.

3. Yr oedd cydymffurfiad perffaith â'r drefn yn angenrheidiol i sicrhau diogelwch y bywyd. Yr oedd yn rhaid i'r llofrudd, nid yn unig ffoi i'r noddfa, ond aros yno. Ni chai brynu âg arian ei ryddid i ddychwelyd i'w dŷ; yr oedd raid iddo fyw yn y ddinas, neu fod yn ddyn marw, oherwydd yr oedd pob modfedd o'r tu allan i derfynau y ddinas yn diriogaeth dialydd y gwaed.

Nid dyfod at Grist yn unig sydd yn angenrheidiol i ddiogelu y bywyd ysbrydol, ond aros yn Nghrist. "Onid erys un ynof fi, efe a daflwyd allan megis cangen, ac a wywodd." Fe ddeuai mwy at Grist i gael diogelwch, pe byddai yn ddigon dyfod ato unwaith, a'i adael byth mwy, fel y naw gwahanglwyfus hyny yn yr efengyl. Aros yn y ddinas sydd yn ymddangos i lawer yn

gaethiwed annioddefol. Tŵr i redeg iddo dros ychydig y maent hwy yn ei geisio, ac nid dinas i fyw ynddi. Yr oedd Absalom yn dygymod â gwlad Gesur hyd nes yr elai llid y brenin heibio, ond yn Israel yr oedd efe yn meddwl byw. Yr oedd yn dda gan y Rechabiaid gael ffoi i Jerusalem dros ychydig amser rhag y Caldeaid; eithr nid yno yr oeddynt yn meddwl byw. Ond rhaid aros yn Nghrist; byw yn y ddinas, dysgu ei chelfyddyd hi;—yr oedd y llofrudd yn gwneyd hyny yn y ddinas noddfa. Y prawf o'n bod ni yn y ddinas ydyw, ein bod yn dysgu galwedigaeth y lle, ac addoli ydyw hwnw; fod boneddigeiddrwydd dinasyddion i'w ddarllen arnom, ac argraff hinsawdd y ddinas i'w weled yn ein gwedd. Sancteiddrwydd ydyw awyrgylch y ddinas; ac y mae hwnw yn rhoddi ei ddelw ar bawb sydd yn byw yno, megis y gwnaeth y Presenoldeb Dwyfol ar wyneb Moses gynt. Y foment y byddwch o fewn i furiau cyfiawnder yr efengyl, chwi a fyddwch o fewn i'w hawyrgylch sanctaidd hi. Ac os na bydd y ddelw hon arnoch, ni byddwch o fewn tiriogaeth cyfraith y cadw yn fyw.

III. Natur y diogelwch a roddai y gyfraith i'r llofrudd. Fel diogelwch cyfraith, yr oedd yn ddiogelwch trwyadl. Y mae yn ddymunol cael edrych ar y drefn i gadw fel y mae yn dyfod o benarglwyddiaethol ras—fel ffrwyth haelfrydedd, ewyllys da, ac anrhydedd y Jehofah; ond y mae rhywbeth hynod o ddyddanol yn y meddwl fod y diogelwch sydd ynddi yn ddiogelwch cyfraith; cyfraith i gadw yn fyw.

1. Gan ei bod yn gyfraith, y mae yn ffrwyth ystyriaeth bwyllog, ac yn seiliedig ar gyfiawnder. Nid teimlad y foment ydyw cyfraith, ond ffrwyth barn. Fe arbedodd Dafydd Simei, am iddo ddyfod ato ar adeg yr oedd yn anhawdd iddo beidio gwneuthur ei gais; ond peth byrbwyll oedd yr arbediad; ar ewyllys da Dafydd yn unig yr oedd yn crogi. Yr oedd cyfraith y deyrnas yn gofyn bywyd Simei; a phan fu farw Dafydd, aeth Simei i afael y ddedfryd, am nad oedd ei fywyd wedi ei ddiogelu mewn deddf. Nid oedd wedi ei sicrhau iddo ar dir cyfiawnder, ac nid oes dim yn gadarn ond yno. Ond am gyfraith, cyfiawnder ydyw ei sail hi. Nid ydyw pawb yn cydsynio beth sydd gyfiawnder; ond fe broffesir fod pob cyfraith yn seiliedig ar rywbeth a dybir yn gyfiawnder. Yr oedd y llofrudd yn sefyll

ei brawf wedi dyfod i'r ddinas noddfa; ac os nas gellid ei gadw yn fyw yn gyfiawn, sef trwy ddangos mai damwain, ac nid bwriad, oedd y weithred, rhoddid ef i fyny i'r dialydd, er ei fod wedi dianc i'r noddfa; oblegid llaw cyfiawnder oedd yn dal tarian trugaredd i amddiffyniad y ddinas; ac os na wnai cyfiawnder ddal y darian dros y llofrudd, nid oedd yr un fraich arall yn ddigon cref i hyny.

Nid gwaith hawdd a fu cael cadw pechadur yn bwnc cyfraith. Nid gorchest fechan a fu cael sylfaenu teml trugaredd ar greigiau adamantaidd cyfiawnder; a thywod a fuasai pob peth arall yn sylfaen iddi. Yr ydys yn cael cryn drafferth i gael *act* neu gyfraith i wneyd rhai o'r *railways*; ac nis gellir eu gwneyd heb hyny; oherwydd y maent yn myned trwy diroedd yr arglwydd yma, a'r boneddwr draw; ac y mae cyfraith y deyrnas yn sicrhau awdurdod y pendefigion ar eu hetifeddiaethau; ac am hyny rhaid myned i draul fawr i gael cyfraith arall, seiliedig ar gyfiawnder, i fyned yn drech na'u hawl hwy ynddynt. Dyna oedd ar ben Galfaria: talu y swm mawr i gael *act* neu gyfraith gyfiawn i gadw yn fyw. Ac yn awr, beth bynag yw hawl y deddfau eraill, y mae hawl hon yn gryfach na hwynt oll. Fe fethodd Darius gael cyfraith i gadw Daniel yn fyw, heb ddirmygu y gyfraith oedd yn myned â'i fywyd. Ond am Frenin Sïon, "efe a fawrha y gyfraith, ac a'i gwna yn anrhydeddus," wrth wneuthur y gyfraith i gadw yn fyw. Y mae hen ddeddfau y deyrnas yn gwenu ar y gyfraith newydd, oblegid y maent oll wedi enill arni. Y mae yn wir fod y gyfraith newydd yn un ddieithr; oherwydd pwy erioed a glybu am drugaredd yn myned yn gyfraith? Nid oes dim lle i drugaredd mewn deddf. Cadwen gadarn o gyfiawnder ydyw deddf. Y mae pob deddf gyfiawn o angenrheidrwydd yn un dda; ond nis gall trugaredd berthyn iddi; ar droseddwr y mae angen hono; ac nid oes gan ddeddf gyfiawn ddim i droseddwr ond cosb. Ond y mae cyfraith y cadw yn fyw yn drugaredd ddigymysg, ac eto yn gyfiawn odiaeth. Ac yn hyn y mae ei phrydferthwch hi: fod pethau wedi cydgyfarfod ynddi na welwyd mo honynt yn yr un lle erioed o'r blaen. "Trugaredd a gwirionedd a ymgyfarfuant; cyfiawnder a heddwch a ymgusanasant." O'r blaen byddai cyfiawnder yn sefyll o'r neilldu heb ymddangos pan y byddai trugaredd wrth ei hoff

waith; a thrugaredd, hithau, yn sefyll o'r neilldu, ac yn wylo, pan y byddai cyfiawnder yn ymogoneddu ar y ddaear. Ond yma, wele y ddau wedi cydgyfarfod mewn cyfraith. Wele drugaredd yn estyn pardwn i'r euog, a hwnw wedi ei law-nodi gan gyfiawnder; trugaredd, fel y Samaritan da, yn codi y truan archolledig ar ei hanifail, ac yn ei ddwyn i'r llety i'w ymgeleddu, a chyfiawnder yn dyfod yno gyda hi i dalu drosto; trugaredd yn tywallt olew a gwin maddeuant i'w glwyfau, gan ofyn, "Pwy yw yr hwn sydd yn damnio?" a chyfiawnder yn ateb yn ol yn y fan, "Crist yw yr hwn a fu farw!"

Y mae rhai pethau yn cael eu goddef mewn gwlad a llythyren y gyfraith yn eu herbyn; y mae'r gyfraith fel yn *winkio* arnynt. Peth fel hyna oedd myned i'r nefoedd o dan yr Hen Destament. Cyn adeg rhyddhad y caethion yn America, yr oedd ganddynt rywbeth a alwent yn *underground railway*, sef dull dirgelaidd o drosglwyddo caethion o'r Taleithiau i Canada rydd. Yr oedd cyfraith y wlad yn gwahardd y peth; eto yr oedd miloedd yn myned yn ddirgelaidd, fel o'r tu cefn i'r gyfraith. Ond pan basiodd yr *emancipation act*, deddf gollyngdod y caethion, fe dynwyd eu cadwynau gan y gyfraith, ac nid gan neb o'r tu cefn iddi. *Underground railway* oedd yn myned ag eneidiau i'r nefoedd cyn cyflawnder yr amser. Fe aeth miloedd yn ddistaw ar hyd-ddi o'r dalaeth gaeth i'r Jerusalem hono uchod sydd rydd. Yr oedd cyfiawnder fel yn *winkio* ar y peth—ddim yn cymeryd arno ei weled; ond fe basiodd *act* y rhyddhad ar y groes; ac yn awr y mae cyfraith i ollwng y caethion yn rhydd. "Fel y byddai efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu." Gan fod y drefn yn gyfraith, y mae yn seiliedig ar gyfiawnder.

2. Gan ei bod yn gyfraith, y mae nerth ynddi. Nerth y brenin, neu nerth y deyrnas, ydyw nerth cyfraith. Wedi i beth basio yn ddeddf, y mae anrhydedd y deyrnas yn galw am iddo gael sefyll; a phwy bynag a esyd ei hun o dan amddiffyniad y ddeddf, nid ei deilyngdod personol ef o gael trafferthu gydag ef ydyw'r cwestiwn i edrych arno wedi hyny, ond beth y mae anrhydedd yr orsedd, sydd wedi gwneyd y ddeddf, yn ei ofyn. Yr ydym yn cofio flynyddau yn ol, pryd yr oedd Naples heb ddyfod dan lywodraeth Victor Emmanuel, fod yno ddau ddyn

nadnabyddus wedi cael eu carcharu; ni chlybuwyd erioed o'r blaen eu henwau o'r tu allan i gylch bychan eu cydnabyddiaeth bersonol; ond bellach wele hwynt gerbron Senedd Lloegr, dadleuon brwd yno o'u herwydd, a llythyrau meithion yn cael eu hanfon at lywodraeth Naples yn eu cylch. Paham yr holl drafferth yna gyda dau ddyn anenwog, anadnabyddus? Deiliaid cyfraith Lloegr ydynt: ac y mae anrhydedd y gyfraith yn gofyn am eu gollwng yn rhydd; am hyny y mae nerth y deyrnas drwy y gyfraith yn dadgloi drysau cedyrn y carchar, gan ddywedyd, "Ewch allan."

I weled nerth cyfraith, eto, tröwch i'r neuadd yna, i edrych ar lys barn. Dyna'r barnwr ar y fainc, y rheithwyr gerllaw, y dadleuwyr o'i flaen, a dyn cryf ger ei fron, yn sefyll ei brawf am ei fywyd. Y mae y naill dyst ar ol y llall yn cael eu holi; ac o'r diwedd profir ef yn euog o'r ddrwgweithred. Dyna y barnwr yn cyhoeddi uwch ei ben, "Gan farw ti a fyddi farw." Arweinir ef o'r llys i'w gell drachefn; ac ar ryw foreu, wele ychydig bersonau yn myned i mewn ato, ac yntau yn cael ei arwain ganddynt, a'i ddwyn i sefyll o dan y grogbren; ac ymhen ychydig eiliadau dyna ei enaid wedi ei dynu allan o'i gorff. Gallasai fod miloedd lawer yn edrych arno, ac yn tosturio wrtho, tra nad oedd yno ond un dyn yn cyflawni y ddedfryd arno; ond yr oedd y miloedd yn teimlo fod yna ormod o nerth iddynt feiddio cynyg gwaredu yr adyn o'i law. Beth oedd y nerth? Nerth cyfraith Prydain.

Y mae'r drefn i achub pechadur yn gyfraith y cadw yn fyw, ac am hyny y mae ynddi yr un nerth ag sydd yn ngorsedd y Brenin tragwyddol. Y mae, "Ni chollir pwy bynag a gredo ynddo Ef," wedi pasio yn ddeddf yn y deyrnas; ac y mae daioni, cyfiawnder, doethineb, a gallu y Brenin, yn sicrhau y saif hi bellach. "Minau a osodais fy Mrenin ar Sïon fy mynydd sanctaidd; mynegaf y ddeddf." Yr wyf yn cyhoeddi hyn yn ddeddf yn fy nheyrnas; gan hyny, "paham y terfysga y cenhedloedd, ac y myfyria y bobloedd beth ofer?" Gan fod y peth yn ddeddf ffolineb ydyw codi yn ei erbyn. "Gan hyny yr awr hon, frenhinoedd, byddwch synwyrol; barnwyr y ddaear, cymerwch ddysg; cusenwch y Mab rhag iddo ddigio, a'ch difetha chwi o'r ffordd." Y mae hyn wedi ei fynegu yn ddeddf er ystalm bellach: "Yr hwn sydd yn credu ynddo ef, ni ddemnir." Paham

gan hyny y terfysga y diafol, ac y myfyria uffern beth ofer, gan ddywedyd, Erlidiwn a difethwn hwynt? Yr Hwn sydd yn preswylio yn y nefoedd a chwardd; mae'r peth yn ddeddf, ac nid ydyw deddfau i gellwair â hwynt. Rhaid cadw y ddeddf, ac felly, rhaid cadw y neb sydd yn credu. Y mae nerth yn y drefn.

3. Gan fod cyfraith i gadw yn fyw, y mae sicrwydd yn y drefn. Nid ydym yn arfer cysylltu anwadalwch â'r meddwl am ddeddf. Meddyliwch am ddeddfau natur: y mae sicrwydd yn perthyn iddynt oll; yr haul yn codi ac yn machlud, y môr yn llenwi ac yn treio, y gwynt yn dychwelyd yn ei gwmpasoedd, hâf a gauaf, oerni a gwrês, yn dyfod yn eu hamseroedd priodol. Y mae deddfau dynion i'w cyfrif fel y pethau mwyaf dylanwadol sydd yn perthyn i'r byd cyfnewidiol hwn. Ein sicrwydd mwyaf am unrhyw beth ydyw fod deddf yn ei roddi i ni. Anturiaeth fawr a pheryglus oedd mynediad Esther gerbron Ahasferus gynt, am mai un o gyfreithiau ei deyrnas ef ydoedd, y rhoddid i farwolaeth bob un a äi i mewn heb ei alw, oddieithr yr hwn yr estynai y brenin y deyrnwialen aur iddo. Yr oedd yno gyfraith i roddi i farwolaeth: ond yr oedd y cadw yn fyw yn ymddibynu ar y dymer y digwyddai i'r brenin fod ynddi ar y pryd; a digon anwadal ydoedd hono. Buasai yn well genyf anturio at Dduw y nefoedd am fy mywyd nag at Ahasferus, pe na buasai genyf ond ewyllys da Duw yn sail i hyny; oblegid y mae ynddo gyfoeth diderfyn o drugaredd. Eithr nid ei ewyllys da yn unig sydd genyf heddyw, ond ei air. "Cofia y gair wrth dy was, yn yr hwn y peraist i mi obeithio." Yn sail gobaith, dyma genym drefn—cyfraith i gadw yn fyw.

"Anturiaf ato yn hyderus
Teyrnwialen aur sydd yn ei law;
Estyniad hon sydd at bechadur,
Ni wrthodir neb a ddaw."

Ië, ond gan na wrthodir neb a ddaw, nid antur mohoni mwy. Nid oes dim mympwy, dim *caprice*, yn y drefn. "Pwy a ŵyr a drŷ efe?" meddai Joel, wrth anog y bobl i ymostwng o'i flaen ac ymchwel ato. "Feallai y cuddir chwi yn nydd digofaint yr Arglwydd," meddai Sephanïa, wrth anog holl rai llariaidd y ddaear i geisio yr Arglwydd. Ond nid "pwy a ŵyr," neu

"feallai," ydyw hi yr awr hon. Nage! "yr hwn sydd yn credu ynddo ef, ni ddemnir;" y mae yma bob sicrwydd.

4. Gan fod cyfraith i gadw yn fyw, y mae rhwymau ar yddwy blaid. Gallai fod rhai yn ofni, wrth fy nglywed yn sôn am ddeddf cadw yn fyw, rhag i mi gymylu rhad ras y drefn. Yn hytrach, hyn sydd yn dangos mor anfeidrol raslawn ydyw hi. Duw yn rhoi rhwymau deddf arno ei hun i drugarhau—yn gwystlo ei holl briodolaethau yn sicrwydd y maddeua efe i bechadur a ddêl ato trwy Grist—yn clymu anrhydedd ei orsedd âg i ti, pwy bynag wyt, sydd yn credu yn ei Fab ef, gael dy fywyd! Cyfraith i gadw yn fyw. Ac nid yn unig y mae mor raslawn âg i roddi rhwymau arno ei hun i sicrhau nefoedd i ni, ond y mae mor raslawn hefyd âg i ofalu am ein cysur ni ar y ffordd yno. "Duw, yn ewyllysio yn helaethach ddangos i etifeddion yr addewid ddianwadalwch ei gyngor, a gyfryngodd trwy lŵ, fel dau beth ddianwadal, yn y rhai yr oedd yn anmhosibl i Dduw fod yn gelwyddog, y gallem ni gael cysur cryf, y rhai a ffoisom i gymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen, yr hwn sydd genym ni megis angor yr enaid, yn ddiogel ac yn sicr, ac yn myned i mewn hyd at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen." Nid ein gwneyd yn fwy ddiogel oedd amcan y llŵ, ond ein gwneyd yn fwy cysurus. Pe buasai'r llong yn cael ei *driftio* yn yr ystorm, ni buasai un gwir berygl arni; oherwydd ni fethodd ein Cadben mo'i *bassage* erioed; ond buasem ni dipyn yn fwy pryderus wrth fyned o flaen y gwynt, na wyddem yn iawn i ba le. I ochel hyn, y mae genym angor yr enaid, sef y gobaith sydd o'r tu mewn i'r llen; a'r *cable* sydd yn cysylltu y llong â'r angor ydyw llŵ ac addewid Duw,—y ddau beth dianwadal. Nid yn unig ni a gawn *safe passage* i'r nefoedd, ond y mae Duw yn bwriadu i ni gael hefyd fordaith weddol gysurus. O raslonrwydd y drefn.

Y mae hi yn rhoddi rhwymau arnom ninau hefyd. Gwrthodwch y drefn hon, ac fe fydd felly ddwy ddeddf rhyngoch â'r bywyd, sef deddf y lladd, a deddf y cadw yn fyw.

[Awst 10. 1858.]

# PREGETH LXVIII.

### YR IAWN A PHECHOD.

1 IOAN ii. 1, 2.—"Fy mhlant bychain, y pethau hyn yr wyf yn eu hysgrifenu atoch, fel na phechoch. Ac o phecha neb, y mae i ni Eiriolwr gyda'r Tad. Iesu Grist y Cyfiawn: ac efe yw'r iawn dros ein pechodau ni: ac nid d os yr eiddom ni yn unig, eithr dros bechodau yr holl fyd."

UN o'r pethau sydd yn hynodi trefn Duw i gadw rhagor pob trefn o eiddo dychymyg dyn ydyw ei bod hi yn cyfarfod â holl angen dyn ar unwaith; yn ei gyfarfod fel pechadur, ac fel creadur hefyd. Er bod yn perthyn iddo fel pechadur drueni mawr, y mae yn perthyn iddo fel creadur syniadau am gyfiawnder ac uniondeb. Y mae y rhai hyn yn peri nad all fel creadur barchu dim ond cyfiawnder, tra y mae ei drueni fel pechadur yn ei wneuthur yn gyfryw fel nad ydyw yn gymwys i ddim ond trugaredd. Ac nid peth hawdd oedd cael trefn i weini trugaredd i'r pechadur, heb wrth hyny aberthu parch y creadur i gyfiawnder.

Llawer cais a fu ac sydd gan ddynion eto i gyfarfod âg un o'r pethau hyn; naill ai cynyg rhywbeth i'r teimlad o uniondeb sydd yn mynwes dyn, i'w demtio i wneyd ad-daliad i gyfiawnder, fel ag i deilyngu cael ei ollwng yn rhydd; neu ynte, amcanu ei gyfarfod yn ei drueni, er aberthu uniondeb i hyny. Gwelir y peth cyntaf yn eglur yn nghrefyddau paganiaid y byd; y maent hwy yn cydnabod uniondeb i ryw fesur, ac yn ceisio gwneyd math o ad-daliad i gyfiawnder am y trosedd, gan ddisgwyl felly ddianc rhag y gosb. Y mae yr ail beth i'w ganfod yn y grefydd Fahometanaidd. Y mae hono fel yn ddiystyr o uniondeb, ac yn syrthio yn ol ar drugaredd. Y naill yn amcanu teilyngu dianc, a'r llall yn disgwyl am hyny yn unig o

drugaredd noeth. Trefn Duw yn unig sydd yn cyfarfod â holl eisiau mynwes dyn.

Gofynai y Dr. Duff i Fahometan dysgedig, oedd wedi ei ddychwelyd at Gristionogaeth yn yr India, Beth oedd yn ei daraw fel y peth hynotaf yn nhrefn yr efengyl ? Ei ateb oedd, Mai y ddarpariaeth sydd ynddi ar gyfer y dyn i gyd: fod Mahometaniaeth yn cynyg trugaredd iddo, ond ei bod hi am ymgeleddu ei drueni ar draul gwneyd cam â'i deimladau fel creadur; ond y mae trefn Duw yn adfer dyn o'i drueni â'i thrugaredd, heb dreisio ei syniadau am uniondeb; am hyny gall yr efengyl ysgrifenu ato i orchymyn iddo beidio a phechu, yn yr un llythyr, ac yn yr un frawddeg, ag y mae hi yn datguddio iddo drefn i faddeu pechod. Y mae hi yn gadael pechod yn bechod, a chyfiawnder yn gyfiawnder, er ei bod hi yn trugarhau wrth y pechadur.

"Y pethau hyn yr wyf yn eu hysgrifenu atoch, fel na phechoch: ac o phecha neb, y mae i ni Eiriolwr gyda'r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn: ac efe yw'r iawn dros ein pechodau ni." "Y pethau hyn:" cyfeiria yr ymadrodd hwn at gynwys y benod gyntaf, lle y dangosir dylanwad yr efengyl ar y neb sydd yn ei chredu, sef ei ddwyn i rodio yn y goleuni—i ddal cymdeithas â'r purdeb anfeidrol ei Hun. Felly nis gall hwnw bechu, ond y mae y goleuni yn yr hwn y mae yn rhodio yn ei ddwyn i ymdeimlo â'r tywyllwch, sef â'r pechod sydd ynddo; ac y mae hyny yn ei arwain i'w gyfaddef, ac felly i gael ei lanhau oddiwrth bob anghyfiawnder gan waed Iesu Grist ei Fab Ef.

'Yr wyf yn ysgrifenu y pethau hyn atoch,' er mwyn i chwi weled na ddylech, ac nas gallwch bechu, os yn saint: "ac o phecha neb," er ymdeimlo â'r drwg sydd yn bresenol gyda chwi, na ddylech ddigaloni, ond cyfaddef; oblegid "y mae i ni Eiriolwr gyda'r Tad, ac efe yw'r iawn dros ein pechodau ni." Y mae goleuni trefn Duw yn dangos pechod yn gyfryw ag y dylech gilio oddiwrtho; ond y mae yr un drefn yn dangos sail gobaith i chwi er llithro o honoch iddo.

Y ddau beth a ddeuant dan ein sylw ni yn awr ydynt:—

I. Yr olwg a geir ar bechod yn wyneb iawn.

II. Yr olwg a geir ar yr iawn yn wyneb pechod.

I. Pechod yn wyneb iawn. Nid ychydig yw nifer y pethau

sydd yn taflu goleuni ar bechod. Gellir darllen ei natur yn ngwedd ein byd ni, ac yn ngoruchwyliaethau y Llywydd mawr tuag ato. Fe newidiodd gwedd y ddaear ar ei ddyfodiad cyntaf i mewn iddi: ymgymysgodd ei wenwyn marwol â'i holl elfenau hi, fel ag i droi elfenau bywyd yn elfenau angau, a gwneuthur y berthynas oedd rhwng dyn a hi, yr hon oedd mor gyfeillgar, yn berthynas elynol: o fod yn baradwys iddo, aeth yn anialwch: o fod yn balas hapus i drigo ynddo, aeth yn garchar caeth. Ac ni raid i Arglwydd yr holl ddaear ond cyffwrdd âg unrhyw elfen ynddi na bydd hono yn dal dyn fel â chadwen gref i'w gosbi. Y mae tylwyth tŷ dyn, yn yr ystyr hon, wedi myned yn elynion iddo, a gofynant i'w Harglwydd, fel y gofynai gweision Dafydd iddo ef am Saul pan yn cysgu gyda'i wŷr yn y wersyllfa,—"A gaf fi ei daraw ef, atolwg?" Ac er mai yn anaml, o drugaredd, y mae y Llywydd mawr yn ateb, "Gwna hyny," eto fe roddodd cyn hyn genad i'r dwfr ei daraw, nes yr oedd byd cyfan wedi ei lanhau oddiwrth bechod;—i'r gwynt, bryd arall, nes yr oedd miloedd yn trengu mewn marwolaeth; —i'r tân drachefn nes yr oedd gwastadedd ffrwythlon yr Iorddonen yn llosgi fel ffwrn. Ei weision Ef yw pob peth; gwneuthur ei air Ef y mae y tân a'r cenllysg, a'r gwynt ystormus. Y mae goleuni cosb yn dangos pechod yn anghenfil arswydus; ond yn ngoleuni y drugaredd sydd yn ei faddeu mewn iawn, y daw holl erchylldra ac ysgelerder ei natur i'r golwg.

Y cam cyntaf tuag at ein hadferu ni, ydyw ein dwyn i syniaw yn gywir am fawredd ein trueni; ac y mae yn fantais i hyny i ni gael edrych ar y trueni hwnw mewn un arall. Daeth Dafydd trwy weled a chondemnio y bai mewn un arall, i deimlo ymhob gewyn mai efe oedd y gŵr. Ac wrth i ninau edrych ar bechod yn wyneb IAWN, gall Ysbryd yr Arglwydd ein dwyn ni fel Dafydd i deimlo mai ein drwg a'n trueni ein hunain sydd yn y golwg. A dengys *iawn* dri pheth i ni am bechod:—

1. Fod ei ddrwg yn gyfryw fel nas gall Duw ei adael yn ddisylw. Y mae mawredd yn fynych yn peidio sylwi ar bethau a wneir yn ei erbyn. Fe gyfododd meibion Belial yn erbyn Saul pan eneiniwyd ef yn frenin, ond ni chymerodd efe arno glywed dim a ddywedid am dano; a doethineb ynddo ydoedd hyny. Arfer y bychan ydyw codi yn erbyn y mawr. Y mae ei fychan-

der yn peri iddo genfigenu wrth wir fawredd, a mynych y mae yr un peth yn ei anghymhwyso i weled doethineb cynlluniau y mawr; ac am fod anallu naturiol ynddo i'w deall, y mae yn eu gwrthwynebu: ond nid ydyw gwir fawredd un amser yn ymddangos yn fwy gogoneddus na phan y mae heb weled ac heb glywed dim o'r pethau hyn.

Os sonir am fawredd, yn Nuw y mae hwnw. Efe ydyw y Mawr,—"ei fawredd sydd anchwiliadwy." Y mae yn ymestyn i anfeidroldeb ymhob cyfeiriad,—yn anfesuredig ac anfesuradwy, yn llenwi tragywyddoldeb. Yr ydym yn cael dirnadaeth wanaidd am dano wrth geisio ei osod yn ymyl pob mawredd arall: "Hwy na'r ddaear, a lletach na'r môr:" "uwch na'r nefoedd, dyfnach nag uffern;" ac wedi edrych arno yn ymyl pob mawredd y gwydd m ni am dano, nid oes genym ond dywedyd gyda Job, "Wele mawr ydyw Duw, ac nid adwaenom Ef."

Os sonir am fychander, at ddyn yr awn i weled hwnw: "dyn, yr hwn sy bryf; a mab dyn, yr hwn sydd abwydyn:" yr hwn nid ydyw ond er doe, ac ni ŵyr ddim. Bychan ydyw o'i gymharu â'r greadigaeth: dim ydyw o'i gymharu â'r Creawdwr; eto y mae y bychan hwn wedi codi yn erbyn y mawr, gan ddywedyd, Ni fynaf hwn i deyrnasu arnaf. Ac os un o briodoliaethau mawredd ydyw peidio sylwi ar fychandra, a ydyw yn debyg y gwna yr Ydwyf sylwi ar y "nid yw." Os nad oedd Saul yn cymeryd arno weled na chlywed yr hyn oedd yn cael ei wneyd yn ei erbyn, a ydyw yn debyg y gwna yr Hwn y mae yn rhaid iddo ymostwng i weled y pethau sydd yn y nefoedd ryw sylw ar ymddygiadau abwydyn y llwch? Gwna. Y mae *iawn* yn dangos ei fod, er yn anfeidrol, "yn dal ar ffyrdd dyn,"—fod holl ysgogiadau yr abwydyn hwn yn cael eu croniclo ganddo. Rhaid bod dyfnderoedd o ddrygioni mewn pechod, gan nas gallasai Llywydd mawr y bydoedd adael i ymddygiadau creadur mor ddiddim a dyn fyned heibio yn ddisylw.

2. Yn wyneb *iawn*, ni a welwn fod pechod y fath ddrwg, fel nas gallasai trugaredd Duw wneuthur dim iddo. Fe sylwir ar wrthryfel rhai lled ddiyni weithiau gan un mawr, i ddangos cyfoeth ei ddaioni trwy hyny. Nid cosbi oedd y diben eithaf yn ei olwg wrth wneyd hyny, ond maddeu:—dangos, er bod digon o nerth yn ei fraich i gosbi, bod digon o drugaredd yn ei

fynwes i faddeu, ac y gallai, heb beryglu ei gymeriad na'i orsedd, fforddio gwneuthur hyny. Ond yn ngoleuni *iawn*, ni a welwn fod pechod yn ddrwg mor ysgeler, fel nas gallasai trugaredd, Duw wneyd dim iddo; ac y mae dywedyd hyn yn ddywedyd llawer. Trugaredd wneuthur dim iddo? Beth na fedr trugaredd ei wneuthur? oblegid y mae y fath gyfoeth o honi yn y fynwes ddwyfol. "Duw cariad yw." Pwy fedr esbonio y gair yna? Pwy fedr ei agor i ni ganfod y cyfoeth sydd o'i fewn? Y mae y disgleirdeb sydd o'i amgylch yn dallu ein llygaid ni fel na welwn ddim ond trugaredd ar ei holl weithredoedd. Y mae hi yn rhidens, yn ymylwê, oleu, hyd yn nod o amgylch cymylau duon digofaint ei hun. "Llawn ydyw y ddaear o'i chyfoeth." Tybia rhai y gall hi wneuthur pobpeth; hi a all wneuthur llawer; ac mi a ddymunwn i'n syniadau gael eu heangu yn fwy nag erioed am ei gallu hi; ond wedi iddynt eangu i'r eithafion pellaf, rhaid dywedyd fod un peth na fedr trugaredd, er ei maint, ddim ei wneuthur, sef cuddio pechod. Y mae ei chwrlid hi yn rhy gul i'w guddio,—ei môr hi, er dyfned ydyw, yn rhy fâs i'w gladdu. Er mai trugaredd Duw ydyw, buasai y byd erddi hi yn cael ei ddinystrio â dymchweliad Edrychwch arni yn gweithio dan yr Hen Destament. Ah! y drafferth yr oedd trugaredd ynddo yn ceisio cuddio pechod! Taenellu gwaed bob boreu ar yr ystaen du: ond ymweithio y byddai yr ystaen i'r golwg yn y prydnawn drachefn, fel y byddai yn llawn bryd ceisio ei guddio â gwaed eilwaith; ond dyna oedd yr adsain y prydnawn a'r boreu: "Anmhosibl yw i waed teirw a geifr dynu ymaith bechodau." Ceisiai trugaredd ddifa ei sawyr heintus â'i pheraroglau; ond er gwaghau y dwyrain o beraroglau, myned yn fwyfwy heintus yr oedd awyrgylch y ddaear yn barhaus. Y mae pechod nid yn unig yn rhy ddrwg i fawredd Duw beidio craffu arno; ond yn rhy ddrwg i drugaredd Duw, er ei maint, ei guddio.

3. Yn ngoleuni *iawn*, ni a welwn fod pechod yn rhy ddrwg i bethau mwyaf drudfawr y ddaear ddyhuddo am dano. Bywyd ydyw y peth gwerthfawrocaf a fedd y ddaear: wrth gynyg hwnw i geisio tynu ymaith ei gosb, yr oedd y ddaear yn cynyg ei heithaf; a hi a wnaeth hyny yn ddibrin am oesau. Ni arbedwyd dim traul. Aberthwyd miliynau ar filiynau o fywyd-

au. Yr oedd rhywbeth pruddaidd i feddwl teimladol yn yr olwg ar allor Jerusalem bob dydd, yn goch o hyd gan waed; ond yr oedd golwg ofnadwy arni ar un o'r gwyliau: yr holl wlad wedi ymgasglu yno; yr anifeiliaid gwirion yn cael eu harwain at yr allor, eu lladd, a'u blingo, a'u llosgi; eu brefiadau torcalonus yn disgyn yn bruddaidd ar y glust, eu dirdyniadau angeuol yn poeni y llygaid; y tân, a'r mwg, a'r tarth, yn gwneuthur yr awyr yn llwythog gan angau; dinystr, a dinystr llwyr arnynt yn cymeryd lle, trwy fyned i afael yr elfen fwyaf dinystriol yn y greadigaeth, sef tân. Yr oeddent fel yn cael eu difodi. Wrth edrych ar yr olygfa, gellir dywedyd, "Wele y ddaear wedi cynyg ei heithaf." Nid ydyw aur, arian, a pherlau, ddim i'w cymharu mewn gwerth â bywyd. Amgylchiadau sydd yn gosod gwerth ar y rhai hyny; ond nid felly am fywyd. Wrth eu rhoddi hwynt, nid ydyw y greadigaeth yn myned yn ddim tlotach; nid ydyw y cyfoeth ond megis yn newid llaw; ond wrth roddi bywyd i lawr, dyna ddinystr yn cymeryd lle yn y greadigaeth Y mae hi mewn gwirionedd yn dlotach yn awr: y mae peth wedi ei symud o honi y mae yn rhaid cael Creawdwr i'w adferu. Ac os gall rhywbeth ar y ddaear deilyngu gollyngdod i bechadur, hyn a all; ond wedi i'r ddaear wneuthur ei chynyg olaf, yr ateb ydyw, "Anmhosibl yw i waed teirw a geifr dynu ymaith bechodau." Y mae Llundain yn cael ei gorchuddio â thywyllwch mor ddudew ar rai amseroedd, fel nas gall goleuni yr haul yn ei nerth dreiddio trwyddo, na goleuni mwyaf tanbaid y ddaear effeithio dim arno; rhaid i gyfnewidiad gymeryd lle yn ansawdd yr awyrgylch cyn y symudir ef i ffordd. Cyffelyb i'r tywyllwch yna ydoedd pechod; nis gallasai pelydrau treiddiol Haul trugaredd Duw ymweithio trwyddo, na holl ddyfais daear ei symud i ffordd. Rhaid cael cyfnewidiad yn ansawdd yr awyr, onid ê fe fydd yn niwl tywyllwch, yn gorchuddio dyn yn dragywydd.Y mae hyny wedi ei gael, yr hyn sydd yn ein harwain,

II. I edrych ar yr *iawn* yn sail gobaith yn wyneb pechod. Os ydyw pechod yn ymddangos yn bechod, sef yn ddrwg diobaith yn wyneb iawn, y mae iawn er hyny yn rhoddi sail i obeithio yn wyneb pechod. Yr eiriolaeth a ddygir ymlaen yn y testyn fel sylfaen gobaith, ond cysylltir hyny â'r *iawn* fel ei sail a sicrwydd ei llwyddiant. "Ac Efe yw'r iawn."

Y mae yr *iawn* yn sail gobaith yn wyneb pechod, am fod yr oll ynddo a allasai fod yn nghosp pechadur, a mwy na hyny. Y mae yr enw sydd arno yn cynwys hyn, Iawn. Nid ydyw cosb o angenrheidrwydd yn iawn. Os ydyw iawn yn sail gobaith, rhaid i iawn adferu i bawb a phobpeth yr hyn a gollwyd trwy y pechod. Nid ydyw cosb yn gwneyd hyny. Cyfiawnder trwy allu, yn mynu ei gydnabod ydyw cosb: deddf yn gorfodi y neb oedd yn gwadu ei bodolaeth hi, i deimlo hwnw trwy gryfder ydyw cosb; a phe gallasai troseddwr ddioddef ei holl gosb hi, nid oes dim yn hyny o angenrheidrwydd yn adferu pobpeth a gollwyd trwy y trosedd. Ond y mae *iawn* yn cynwys fod pobpeth wedi ei ail-drefnu, fel pe na buasai y trosedd wedi ei gyflawni. Y mae a fyno felly â'r ddwy blaid. Y mae yn *iawn* i Dduw, ac felly yn newid sefyllfa y troseddwr yn ei berthynas â deddf, ac mewn canlyniad i hyny yn newid ansawdd ei ysbryd. Y mae y gobaith y mae *iawn* yn ei roddi iddo o gael dianc gydâ'i Farnwr rhag canlyniadau ei bechodau, yn puro ei galon ef ei hun oddiwrth bechod. Trwy newid ei gyflwr, y mae'r *iawn* yn newid ei galon.

Nid ydyw yr hyn y mae pechod yn ei wneyd i bechadur ond esboniad hanerog iawn ar ei ddrygau: yr hyn y mae yn amcanu ei wneuthur i Dduw sydd yn dangos ei natur; ac nid myned yn erbyn ychydig o'i briodoliaethau y mae, ond yn erbyn ei fod. "O na byddai yr un Duw!" Y mae felly yn taflu y diystyrwch mwyaf ar ei holl briodoliaethau: yn mathru cyfiawnder; yn diystyru sancteiddrwydd; yn dirmygu doethineb; yn beiddio gallu; yn gwadu daioni. Beth bynag oedd mewn deddf yn amlygiad o'r Anfeidrol, dirmygir ef, oblegid y mae deddf fel yn cael ei gosod o'r neilldu—ei bodolaeth fel yn cael ei wadu. "Anghyfraith yw pechod." Yr oedd yn rhaid i iawn adfer yr holl bethau hyn: rhoddi i bob priodoledd anrhydedd a orbwysai y dirmyg a gafodd hi gan bechod. I hyny yr oedd yn rhaid dioddef y gosb ddyledus am y bai; ac fel yr awgrymwyd, pe buasai hono oll yn cael ei dioddef, ni buasai hyny o angenrheidrwydd ddim yn *iawn*, heb fod rhyw beth yn perthyn i'r dioddefydd a roddai nodwedd penodol i'r dioddefiadau hyny. Ac ni a gamsyniem pe tybiem ni mai mawredd y Person oedd yn gosod gwerth ar beth nad oedd ynddo ei hun

yn werthfawr: na, yr oedd y dioddefiadau yn gyfryw ag yr oedd cyfiawnder yn eu gofyn; er hyny, ni buasent yn *iawn*, oni buasai am fawredd y Person. Yr oedd teilyngdod yn y Person yn annibynol ar y gwaith; ond nid teilyngdod y Person ynddo ei hunan a foddlonodd gyfiawnder, ond perffeithrwydd y gwaith. Nid gosod deddf o'r neilldu â'i fawredd a wnaeth, ond ei chyflawni hi â'i waith; ac yr oedd y gwaith hwnw yn *iawn*, neu yr oedd yn ofer; oblegid os gallai yr Anfeidrol, yn gyson â'i briodoliaethau, ollwng yn rhydd heb gael y ffyrling eithaf, gallasai ollwng yn rhydd heb gael dim; oblegid yr un peth iddo Ef fuasai maddeu pum' can' ceiniog a deg a deugain. Ond gan fod yn rhaid cael y ffyrling eithaf, "anmhosibl oedd i waed teirw a geifr dynu ymaith bechod," am hyny, "Wele fi yn dyfod," medd y Person mawr; ac fe ddioddefodd yn ein lle ni. Nis gallasai ddioddef ymhob ystyr fel pechadur. Y mae elfenau yn nioddefiadau uffern nad oeddent yn ei ddioddefiadau Ef. Nis gallasai yr Hwn ni wnaeth bechod deimlo chwerwder mynwes euog—"y pryf ni bydd marw." Ond yr oedd ei burdeb Ef yn peri fod elfenau yn ei ddioddefiadau Ef nad ydynt yn nioddefiadau y colledigion. Gall yr aflan ddioddef am bechod, ond nis gall ddioddef oddiwrth natur pechod: sancteiddrwydd yn unig a all deimlo hwnw. Ond yr oedd Efe yn dioddef canlyniadau pechod, ac yn dioddef oddiwrth natur pechod. Ar unwaith, yn ol Dr. Owen, fe'i poenydiwyd, nid yn unig yn nhân digofaint Duw, ond yn nhân ein pechodau ni; ond diffoddodd y ddau dân: "Efe yw'r iawn." Ac yn awr gellir edrych ar bechod ac ar *iawn* bob yn ail, a gweled yn y naill yr hyn oedd yn eisieu ar gyfer y llall. Mewn pechod, ni a welwn Dduw yn ei holl briodoliaethau yn cael ei ddirmygu; mewn *iawn*, dyna Dduw yn ei holl briodoliaethau yn cael ei anrhydeddu. Mewn pechod, dyna'r gyfraith yn myned yn ddrylliau, fel y llechau yn nwylaw Moses gynt: mewn *iawn*, dyna hi mewn arch yn ngysegr sancteiddiolaf Duw. Er ei bod hi wedi ei dryllio gan bechod, yr oedd pob darn o honi yn melldithio o'r llwch; ond mewn *iawn*, dyna hi yn dragywyddol dawel. Wrth edrych ar bechod, y mae yn fwy na phob peth a welwn,—yn fwy na thrueni y ddaear,—yn fwy nag angau,—yn fwy nag uffern; ond pan yn edrych ar *iawn*, mi a welaf

beth mwy na phechod! Fe welodd Luther, yn ei freuddwyd, ei feiau fel mynyddoedd, yn fwy na phob peth ; ond fe welodd ryw un yn cyffwrdd â hwynt â diferyn o waed nes y diflanodd y mynyddoedd. Yr oedd y mynyddoedd yn fawr, ond yr oedd y gwaed yn fwy na hwynt.

Rhan o'r hyn oedd yn eisieu arnom oedd ein gwaredu rhag y gosb. Darllenasom am un yn myned i lŷs barn lle yr oedd brawd iddo yn cael ei gondemnio, ac yn dal i fyny ddarn o fraich gerbron y barnwr, gan ofyn am faddeuant i'w frawd ar gyfrif ei fod ef wedi colli ei fraich yn ngwasanaeth ei wlad. Yr oll a ofynai oedd iddo gael dianc rhag y gosb: nid oedd yn meiddio gobeithio am wobr iddo Fe beidiodd yr Arglwydd â chosbi Israel ar gais Moses ; ond er iddynt osgoi y gosb, collasant Ganaan. Ond y mae yn nhrefn yr efengyl beidio â cholli, a chael bywyd tragywyddol. Y mae y pethau hyn i'w gwahaniaethu, er nad ydynt i'w gwahanu. Yn ngeiriau un o'r Puritaniaid, yr oedd y fath gyflawnder o deilyngdod yn yr *iawn* fel ag y talodd y ffyrling eithaf i gyfiawnder, ac wedi hyny fe brynodd dri byd ar unwaith, sef y byd isod, gweledig hwn ; y byd canol, sef byd gras ; a'r byd uchod, sef byd y gogoniant : y byd isod i fod yn weithdŷ ; y byd canol, sef byd gras, i gael defnyddiau i gario y gwaith ymlaen ; a'r byd uchaf, sef byd y gogoniant, i fod yn gartref i'r teulu byth. Dyna holl waith pechod wedi ei ddatod—yr oll a wnaeth wedi ei ddadwneyd—tô wedi ei roddi ar ddistryw, a drws wedi ei agoryd eto yn y nefoedd—y gwg ar wyneb y Barnwr wedi ei gyfnewid am wên,—am wên ar wyneb *Tad.* Holl berthynasau dyn â phersonau ac â phethau y tuallan iddo ei hun wedi eu hunioni, a holl addurniadau ei natur ef ei hun wedi ei hadferu ; ac y mae yr holl bethau hyn yn deilliaw o *iawn.* Iawn a gyflawnodd bob peth ymhob byd : a gyflawnodd y ddeddf yn y nefoedd, ac yn y fynwes ar y ddaear ; a gyflawnodd y cysegr sancteiddiolaf â haeddiant, a mynwesau y bobl yn y cyntedd â thân y nefoedd : am hyny, "o phecha neb, y mae i ni Eiriolwr ; ac Efe yw'r IAWN."

Nis gall fod ar ddyn eisieu clywed dim mwy na hyn, oblegid y mae hyn yn llon'd gwagle ei golledigaeth : y mae yn cynwys ei holl iachawdwriaeth a'i holl ddymuniad—digon i lenwi trueni ei gyflwr, a digon i lenwi dymuniadau ei galon. Ond

wedi clywed pethau mor fawr, y cwestiwn sydd yn ymgodi yn y fynwes ydyw, "Pa fodd y gwybyddaf fi hyn?" Y mae y prawf o wirionedd y peth yn y testyn: "Efe yw yr Iawn." Nid oes yma na mesur nac esboniad ar yr Iawn ond hyn, "Efe yw'r Iawn." Ni wyddom ni ddim beth ydoedd cosb pechod: y mae pob peth y tuallan i ni, ynghyd âg awgrymiadau o'n mewn yn dangos fod ei ddrwg yn annhraethadwy fawr; ond gan mai "Efe yw'r Iawn," nid oes le i ameu na ddioddefodd eithaf y gosb. Pa faint o deilyngdod oedd yn eisieu i godi abwydyn i ymyl gorsedd Duw? pwy a fedr ddywedyd? ond gan mai "Efe yw'r Iawn," nid ydym yn ameu nad oes ynddo ddigon i hyny. Pe dywedasid ei fod wedi gwneyd *iawn*, buasai hyny yn gryf; ond dyma beth annhraethadwy gryfach—"EFE YW'R IAWN:" dyna fe yn myned i anfeidroldeb, dros derfynau rhif, a phwys, a mesur. Ni wnaeth Efe ddim nad oedd Efe ei Hun yn fwy nag ef ond IAWN. Fe wnaeth fydoedd aneirif, ond y mae Efe yn fwy na hwynt oll. Nis gallwn ni fesur ei greadigaeth, ond y mae hi yn fesuradwy am fod terfynau iddi. Ond y mae Efe ei Hun yn anfesuradwy. Fe wnaeth greaduriaid mawrion, cedyrn o nerth; ond y mae Efe ei Hun yn anfeidrol fwy na hwynt. Fe greodd nefoedd uchel, ond y mae Efe ei Hun yn anfeidrol uwch na hwynt: fe greodd uffern ddofn, ond y mae Efe ei Hun yn anfeidrol ddyfnach na hi: ond fe wnaeth *iawn*, ac nid yw Efe ei Hun ddim yn fwy na hwnw. "EFE YW'R IAWN."

Dau air wrth derfynu:—

1. Wrth y rhai sydd heb ddychrynu yn wyneb pechod. Heb ei weled yn ngoleuni *iawn* yr ydych. Y mae golwg digon erchyll i'w chael arno wrth edrych ar yr hyn a wnaeth mewn lleoedd eraill. Efe a roddodd fôd i angau, ac a gloddiodd y bedd; efe ydyw tad ocheneidiau y ddaear a gruddfanau Gehenna; ond rhanau o'i ffyrdd yn unig ydyw hyny. I'w weled fel y mae, rhaid edrych arno yn ngoleuni *Iawn*. Yma ni a welwn fod ei ystaen ef mor ddwfn, fel y bu raid cael dwyfol waed i'w godi; fod ei nerth i ddinystrio mor gryf, fel ag y bu raid cael braich Hollalluog i'w drechu. Ffyliaid yn unig a wnant gellwair â pheth fel hyn. Nid rhyfedd fod un oedd wedi ei weled yn ngoleuni *iawn* yn ysgrifenu at y bobl fel na phechent.

2. Gair at y rhai sydd yn digaloni yn wyneb pechod. Heb

weled *iawn* yr ydych. Yr oedd y llu o Syriaid yn ofnadwy i was y prophwyd: dywedai yn ei ddychryn, "Aha, fy meistr, pa fodd y gwnawn?" Ond nid oeddent felly i'r prophwyd, am ei fod ef yn gweled meirch a cherbydau tanllyd y nefoedd yno. Y mae pawb a welodd bechod yn rhwym o ddywedyd gydâ gwas y prophwyd, "Aha! pa fodd y gwnawn ni?" Ond pan weloch chwi *iawn*, ni ddigalonwch chwi ddim er y llu. Nid oes dim mwy na phechod yn uffern! Iaith y trigolion yno yn eu dychryn ydyw, "Aha! pa fodd y gwnawn?" Ond y mae yma beth mwy nag ef ar y ddaear, sef IAWN. Edrychwch yma i gael gweled eich beiau fel mynyddoedd, a'ch anwireddau fel y bryniau oesol. Edrychwch yma i gael gweled y mynyddoedd yn cilio, a'r bryniau yn symud, trwy rinwedd trugaredd mewn IAWN.

[Adysgrifenwyd. Ionawr 3, 1863. Ysgrifenwyd y waith gyntaf, Medi 16, 1856.]

# PREGETH LXIX.

## Y LLWYNOGOD BYCHAIN.

CANIAD SOLOMON ii. 15:—"Deliwch i ni y llwynogod, y llwynogod bychain, y rhai a ddifwynant y gwinllanoedd: canys y mae i'n gwinllanoedd egin grawnwin."

ARFER Duw er pan ddechreuodd lefaru wrth ddyn ydyw defnyddio pethau gweledig i ddangos trwyddynt bethau ysbrydol. Nid oes ond ychydig feddyliau yn medru cymeryd gafael mewn gwirionedd noeth: naill ai fe fydd gwendid y deall yn rhwystr i'w amgyffred, neu ynte farweidd-dra naturiol y meddwl yn atal iddo gael y sylw angenrheidiol i hyny. Am hyny, y mae yn rhaid deffro y sylw trwy rywbeth gweledig, a chynorthwyo y deall i amgyffred â chyffelybiaethau Os fel hyn y mae gyda gwirioneddau naturiol, pa faint mwy y mae felly gyda gwirioneddau ysbrydol? Oherwydd hyn, ni a'u cawn yn cael eu cymell i'n sylw yn y Beibl gan y wisg fydd am danynt, ac yn apelio at ein deall trwy ddywedyd eu bod yn debyg i rywbeth adnabyddus i ni. Gwisgoedd gwirionedd oedd seremonïau cyfraith Moses—dillad gwirionedd oedd cyffelybiaethau y prophwydi. Yr oedd gwisgoedd yr offeiriad Iuddewig yn anhebgorol angenrheidiol tuag at i'r bobl deimlo urddasolrwydd ei swydd. Yr oedd llygad meddwl Iuddew yn cael cymorth i ganfod prophwyd trwy i lygad y corff weled dillad y prophwyd. Trwy y corff naturiol yr ydym yn medru dal cymdeithas â'r ysbryd sydd mewn dyn; felly, trwy y wisg—trwy y gyffelybiaeth—y gall y lliaws ddal cymdeithas â'r gwirionedd.

Dylem gofio y pethau hyn yn arbenig wrth ddarllen llyfr Caniad Solomon; oblegid gwisgoedd ydyw yr holl lyfr hwn am

wirioneddau mawrion a gogoneddus, y rhai a ddatguddir yn yr efengyl, nid heb wisgoedd, ond mewn dillad llai addurniadol. Y mae rhai, oherwydd y gwisgoedd, yn gwadu ysbrydoliaeth y llyfr hwn. Mynant i ni gredu fod y darluniadau a'r cyffelybiaethau yn rhy gnawdol ac isel i ddangos trwyddynt wirioneddau ysbrydol. Ond, heb son am y profion diymwad sydd genym o ddwyfol ysbrydoliaeth y llyfr mewn lleoedd eraill o'r Beibl, nid all fod dim grym yn yr wrthddadl hon, oblegid i'r pur pob peth sydd bur. Y mae y cysylltiadau perthynasol wedi eu hordeinio gan Dduw cyn i bechod ddyfod i mewn i'r byd; ac er fod pechod yn troi y rhai hyn, fel pob peth arall, yn ffynhonell o lygredigaeth mawr yn fynych, eto nid ydynt felly yn eu natur, eithr yn sanctaidd; ac i'r pur y maent eto yn bur. Felly, fe welodd Ysbryd Duw yn dda eu defnyddio i ddangos trwyddynt berthynas Crist â'i eglwys: ei barn hi am dano Ef, ei Hanwylyd, ynghyd â'i theimlad tuag ato, a'i gariad yntau tuag ati hi, ynghyd â'i ofal cyson drosti.

Y mae y beirniaid diweddaraf, sydd yn edrych ar y llyfr fel cân cariad naturiol, ac felly heb fod ynddo unrhyw ystyr gyfriniol, yn methu cydsynio â'u gilydd am ystyr cymwys y llyfr, yr hyn sydd o leiaf yn awgrymiad eu bod yn cyfeilliorni; oblegid nid oes dim yn gyson âg ef ei hun ond gwirionedd. Pe na byddai genym ddim ond hyny, byddai bron yn ddigon dros gymeriad y llyfr hwn, sef y ffaith fod yr Eglwys Iuddewig, a'r Eglwys Gristionogol, wedi arfer edrych ar y llyfr trwy yr holl oesoedd fel yn arddangos Crist a'i eglwys. Ac ni chawn yn hanes yr eglwys y byddai amheuaeth yn dyfod i mewn ar y pwnc ond pan y byddai crefydd yn isel—ysbrydolrwydd crefydd wedi ei golli—y pryd hyny codai rhywrai i wadu ystyr ddofn ac ysbrydol y llyfr hwn.

Ond heb aros dim yn hŵy gydâ'r llyfr, ni a geisiwn gael allan rai o'r gwirioneddau sydd o fewn i wisgoedd cymhariaethol adnod y testyn. Yn y benod hon, y mae Crist a'i eglwys yn cyfarch eu gilydd amryw weithiau. Yn nechreu y benod, y mae Crist yn darlunio ei eglwys; ac y mae hithau, wedi iddo Ef fyned o'r neilldu i orphwys, yn rhoddi darluniad manwl o hono ef i'w chyfeillesau. Ymhen ychydig y mae yn clywed ei lais yn ymddiddan â'i gymdeithion; ac y mae yn dyfod o dan

ei ffenestr hi i'w gwahodd hi i ddyfod allan gydâ hwynt. Ac wedi dwyn amryw gymhelliadau i hyny, adn. 11—13, y mae yn adn. 14 yn ei hail wahodd—yn dymuno cael gweled ei hwyneb a chlywed ei llais ; ac yn y testyn y mae yn gorchymyn i'w gyfeillion, mae yn debyg, ddal y llwynogod bychain oedd yn difwyno y gwinllanoedd yr oedd ef a'i anwylyd yn ymhyfrydu cymaint ynddynt.

Yr addysg neu y gwirionedd y dymunwn gael eich sylw arno oddiwrth y testyn ydyw—Y dylem wylio rhag i bethau bychain drwg ddinystrio pethau bychain da—daioni bychan yn cael ei ddifwyno gan ddrygau bychain—llwynogod bychain, egin grawnwin,—pethau bychain o bob tu. *Egin* grawnwin, nid y sypiau mawrion addfed. Llwynogod *bychain*, nid yr hen gadnaw, wedi cyfrwyso mewn drygioni trwy hir brofiad ; buasai pawb yn teimlo fod perygl ar y winllan os deuai hwnw i mewn iddi ; ond am y llwynogod bychain, prin yr oeddynt yn tynu sylw. Pe buasai y rhai bychain hyn yn difwyno y sypiau grawnwin addfed oeddynt yn plygu y canghenau hyd lawr, buasid yn canfod ar unwaith y drwg oeddynt yn ei wneuthur ; ond yr oedd perygl iddynt gael llonydd i ddifa yr egin heb dynu sylw neb ; ond trwy ddifa yr egin, yr oeddynt mewn gwirionedd yn difa y sypiau grawnwin hefyd—cynyrch yr egin oedd y rhai hyny ; am hyny, "deliwch i ni y llwynogod, y llwynogod bychain, y rhai a ddifwynant y gwinllanoedd," &c.

I. Ni a edrychwn ar ychydig o'r egin grawnwin—y daioni bychan.

II. Ni a nodwn rai o'r llwynogod bychain sydd mewn perygl o'u difa hwynt.

I. Yr egin grawnwin, sef y daioni bychan, yr oedd y priodfab mor ofalus rhag i ddim eu niweidio hwynt, sef y pethau bychain sydd neu a fu yn meddiant neu yn perthyn i bob dyn yn ngwlad efengyl—pethau y gellir yn briodol eu hystyried yn hadau cynhauaf—yn rhagarweinyddion bywyd tragywyddol—neu, yn ol y testyn, yn egin grawnwin.

Ni a enwn dri o honynt,—1. Y duedd sydd yn mynwes dyn i ddyfod i'r cysegr.

2. Tuedd i ddarllen Gair Duw.

3. Y cymhelliadau a deimlir gan ddyn i roddi ei hun i fyny i'r Arglwydd.

Y mae pob un o'r pethau yna yn egin grawnwin—yn arwyddion ffrwyth, a'r ffrwyth hwnw yn fywyd tragywyddol. Yr ydym yn sylwi ar arwyddion mewn cysylltiad â phob peth ond pethau ysbrydol. Ni a edrychwn am arwyddion gwlaw cyn i'r gwlaw ddyfod; am arwyddion cynhauaf cyn i'r cynhauaf ddyfod. Y mae blodau ar y pren yn arwyddion o afalau euraidd. Gwir y gall yr arwyddion ein siomi. Nid yn ddieithriad pan y mae yr awyr yn drymaidd, a'r niwl yn hongian o gwmpas y mynyddoedd, y daw y gwlaw. Y mae gwynt y gogledd weithiau yn gyru y gwlaw a'r arwyddion hefyd ymaith. Gall noson rewllyd niweidio blodau y pren afalau i'r fath raddau fel mai ofer a fydd disgwyl ffrwyth, er i'w arwydd ymddangos. Fe all yr arwyddion, yn y wedd hyn, ein siomi weithiau; ond nid ydym yn meiddio disgwyl ffrwyth un amser os na welwn arwyddion o'i flaen. Y mae arwyddion bywyd tragywyddol yn bod, ac ni a ddylem gyda phryder edrych am danynt; a phan eu gwelir, gwneyd ein goreu rhag i ddim beri iddynt gilio.

1. Un o honynt ydyw y duedd i ddyfod i'r cysegr i'r gynulleidfa gyhoeddus. Y mae y cysegr yn un o rodfeydd penodol y brenin—y lle y mae yn gorchymyn y fendith, sef bywyd tragwyddol. Er fod yr amser wedi dyfod pryd nad addolant y Tad nac yn y mynydd hwn nac yn Jerusalem, cofiwn mai y lle sydd wedi myned yn ddibwys, nid y gwaith. Pan yn y cysegr, yr ydym yn mangre y fendith—yn awyrgylch bywyd tragywyddol—yn mhorth y nefoedd,—yn y fan y mae Duw fel Duw iachawdwriaeth wedi ymrwymo i fod yn bresenol—"Mi a gyfarfyddaf â thi yno." Nid yw y fendith yn dyfod o angenrheidrwydd yn y cysegr. Y mae y fath beth ag i Dduw bellhau oddiwrth ei gysegr; a phan y bydd ef yn ymadael, mae y fendith yn ymadael hefyd; ond pan y daw hi, i'r cysegr y mae yn dyfod. Yr oedd Anna a Simeon yn disgwyl am Fessiah: yn y deml yr oeddynt yn disgwyl ei gael: ac yn ol y disgwyliad y bu. Yr oedd y claf ar lán y llyn yn disgwyl am iechyd; ac er i'r disgwyliad am amser maith fod yn ofer, eto daeth yn y diwedd, oherwydd yr oedd yn disgwyl yn y fan lle yr arferai ddyfod. Dawn Duw ydyw bywyd tragywyddol; ond olrheiniwch chwi le ac amser cyfraniad y ddawn, chwi a gewch mai y cysegr a'r Sabbath a fyddant. Y gynulleidfa gyhoeddus, dyna

y lle; dydd yr Arglwydd, dyna yr amser. Arfer yr Athraw mawr eto ydyw tosturio wrth y gynulleidfa, a thrwy ei weision dori iddynt fara y bywyd. Y mae ganddo gymaint o barch i'w dŷ a'i ddydd, fel y mae yn arfer anrhydeddu pawb â rhoddion y tŷ a'r dydd a fyddant yn parhau i anrhydeddu y cysegr. Pan yr oeddynt yn gytun yn yr un lle y disgynodd yr Ysbryd gyntaf o dan yr oruchwyliaeth hon, sef ar y gynulleidfa. Onid ar y gynulleidfa drachefn y disgynodd gyntaf ymysg y Cenhedloedd, sef yn nhŷ Cornelius? Ac o hyny hyd yn awr, y cysegr ydyw ffrydle y fendith. Gan hyny, y mae tuedd i ddyfod i'r cysegr yn werth ei meithrin: oni ellir dywedyd ei bod yn egin grawnwin, yn arwydd bywyd tragywyddol? Nid wyf yn dywedyd nad all yr egin gael eu difwyno, ond egin ydynt er hyny. A welsoch chwi ddyn yn hoffi myned i'r dafarn, na chollai efe yr un cyfle i fyned yno: os pery ef i roddi meithriniad i'r duedd yna am flynyddoedd, ond odid nad dadblygu ei hun yn feddwdod a wna bob yn ronyn; mae'r hoffder yn egin y meddwdod. Felly y mae y duedd i ddyfod i'r cysegr—y cariad at y cysegr—yn eginyn bywyd tragywyddol: os caiff honyna feithriniad, ond odid nad dadblygu ei hun yn fywyd a wna hi bob yn ronyn.

2. Peth arall y gellir ei ystyried yn egin grawnwin ydyw tuedd i ddarllen Gair Duw. "Chwiliwch yr Ysgrythyrau," medd Iesu Grist, "oblegid ynddynt hwy yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragywyddol;" ac ni awgrymodd Efe yr un gair eu bod yn camsynied yn y meddwl. Y mae bywyd tragywyddol ynddynt fel perl wedi ei guddio; ond nid wedi ei guddio i'r fath raddau nad all pob chwiliwr gael gafael arno. Ar ryw olwg, yr oedd yn anhawdd adwaen Mab Duw yn Iesu o Nazareth, am fod yr holl amgylchiadau yn anfanteisiol i hyny. Oblegid hyn, Mab y Saer, Mab Joseph, a welai y lliaws ynddo. Ond yr oedd ei ganlynwyr cyson, y rhai oeddent yn cymdeithasu llawer âg Ef, yn gallu dywedyd ymhen ychydig, "Ni a welsom ei ogoniant Ef,"—"Ti yw y Crist, Mab y Duw byw." Yr oedd efe yno, ond parhau i chwilio am dano. Yn gyffelyb y mae bywyd tragywyddol. Y mae wedi ei guddio, ond wedi ei guddio fel trysor mewn maes y mae; ac y mae y dyn sydd yn prynu y maes yn prynu y trysor hefyd—yr hwn sydd yn cymeryd meddiant llawn o'r llyfr, yn cymeryd meddiant ar y trysor, sef

y bywyd tragywyddol sydd ynddo. A welsoch chwi ryw rai yn parhau i'w ddarllen oddiar raddau o hoffder yn y gwaith, heb gael bywyd ynddo? Naddo erioed. Ni a welsom rai yn ei ddarllen o orfod; ni a welsom rai yn ei ddarllen i gael help trwy hyny i ddangos eu medr i ddadleu; ni a welsom rai yn ei ddarllen i ŵyrdroi ei eiriau, heb gael bywyd ynddo. Ond am y dyn sydd yn ei ddarllen yn syml fel Gair Duw, fe dery ar y trysor ryw ddiwrnod. Cael bywyd tragywyddol fydd y diwedd. Y mae y duedd yn egin grawnwin.

Y mae y Beibl yn hóni fod pob peth bywyd tragywyddol ynddo; ac y mae profiad y rhai sydd wedi cael meddiant ar y bywyd yn dwyn tystiolaeth i wirionedd yr hóniad. Y mae cychwyniad, cynydd, nerth, a chysur y bywyd yn dyfod o'r llyfr. "Wedi eich ail eni—trwy air Duw;" dyna y bywyd yn cychwyn trwy y Gair. "Chwenychwch ddidwyll laeth y Gair, fel y cynyddoch trwyddo ef;" dyna'r bywyd yn cynyddu trwy y Gair. "A dy Air y'm bywheaist;" dyna efe yn cael ei adnewyddu trwy y Gair. "Yr oedd dy Air i mi yn llawenydd ac yn hyfrydwch fy nghalon;"—"Mor felus yw dy eiriau i'm genau, melusach na mêl i'm safn," dyna'r bywyd yn cael ei gysur o'r Gair. A'r Gair hefyd ydyw moddion amddiffyn y bywyd. Gair Duw ydyw helm yr iachawdwriaeth, a chleddyf yr Ysbryd sydd yn gwneyd hyny.

Y mae y diafol yn deall yn dda y berthynas sydd rhwng y Gair a bywyd tragywyddol, am hyny y mae yn ei gadw hyd y gall oddiwrth ddynion, fel y gwneir gan yr Eglwys Babaidd, am y gŵyr fod ei ddarllen yn beth peryglus i'w deyrnas. Y mae y dyn sydd yn gwneyd hyny yn ddifrifol yn gyffelyb i un a fyddai yn troi ac yn trosi blwch o enaint gwerthfawr: wrth ei droi fe all y blwch dori—yr adnod agor; ac unwaith yr egyr, ac i'r perarogl dyfod allan, y mae hwnw yn arogl bywyd tragywyddol bob amser. Y mae y dyn sydd yn darllen llawer ar y llyfr yn gyffelyb i'r pryf acw a welwch chwi yn chwareu o gwmpas y ganwyll: cael ei ddal fydd y diwedd. Y mae y dyn sydd yn ei ddarllen fel un yn y cysegr. Y mae yn wir mai yn y sancteiddiolaf y gwelir rhyfeddodau Duw; yno y preswylia y Shecinah; yno y mae y drugareddfa; yno y mae y gwaed; yno y mae y bywyd; ond llen deneu y llythyren yn unig sydd

rhwng y cysegr a'r sancteiddiolaf; ac y mae dylanwad y gair "Gorphenwyd" yn rhwygo hwnw eto yn amlach nag unwaith yn y flwyddyn, nes y mae y sancteiddiolaf a'i fywyd yn dyfod i'r golwg. Wele yr Eunych yn darllen: y mae yn y cysegr; ac yn ddisymwth fe rwygodd y llen i'w ryfeddodau ddyfod i'r golwg. Y mae y duedd i ddarllen Gair Duw yn egin grawnwin.

3. Peth arall sydd yn egin grawnwin ydyw y cymhelliadau sydd ar feddwl dyn i roddi ei hun i fyny i'r Arglwydd. Gellir dywedyd am y rhai hyn, fel y dywedodd gwraig Manaoh wrth ei phriod, "Pe mynasai yr Arglwydd ein lladd ni, ni ddangosasai i ni yr holl bethau hyn." Y mae y ffaith o fod cymhelliadau o'r fath yn y fynwes yn profi fod bywyd tragywyddol o fewn cyraedd i ti. Y maent yn egin grawnwin, oblegid cynyrch Ysbryd Duw ydynt oll. Er fod dyn wedi gadael Duw, nid yw Duw ddim wedi ei adael ef; ond trwy gyfryngdod yr Arglwydd Iesu, y mae yr Ysbryd wedi ei roddi i ymryson â'i feddwl, ac i'w gymell i ddyfod yn ol i heddwch Duw ac i'w gymdeithas. Ni fu ein byd ni heb yr Ysbryd ar ol addewid Eden. Yr ydoedd yn ymryson cyn y diluw â'r genhedlaeth annuwiol hono; ac er iddynt hwy lwyddo i'w ddiffodd—i'w gythruddo fel y bu raid iddo eu gadael yn llwyr, ac yna nid oeddynt mwyach ond swp o gnawd—llygredigaeth digymysg—yr hwn yr oedd yn rhaid, er mwyn iechyd y llywodraeth ddwyfol, ei daflu i'r domen o'r golwg;—ond fe'i rhoddwyd drachefn: yn enwedig o dan yr efengyl, y mae wedi ei roddi mor helaeth fel y gelwir yr oruchwyliaeth yn oruchwyliaeth yr Ysbryd. Felly, y mae yn awr yn llefaru mewn llawer dull, ac mewn llawer modd; ond, ysywaeth, ni ddeall dyn yn fynych, mwy nag yr oedd Samuel yn Siloh gynt yn deall mai yr Arglwydd oedd yn galw arno. Yr oedd y llanc yn priodoli y llais i Eli, am nad oedd yn adwaen yr Arglwydd: ond yr oedd Eli yn deall pethau yn well na'r llanc; am hyny fe'i cynghorodd yn ddoeth beth i'w wneuthur os gelwid drachefn arno. Nid ydoedd ond un gair bychan yn cael ei ddywedyd; beth er hyny, yr oedd y gair bychan hwn yn cychwyn gwneyd y llanc yn brophwyd. Pe buasai y llanc heb wrandaw ar hwnyna, buasai Israel heb un o'i phrophwydi enwocaf. Goddefwch i mi wneyd i chwi yr hyn a wnaeth Eli i Samuel, sef eich sicrhau mai llais Duw ydyw y tipyn aflon-

un math o dir, a hwnw yn un gobeithiol iawn. Am fin y ffordd, nid oedd lle i ddisgwyl i hwnw dyfu; ac am yr had a ddisgynodd ar y graig, nid oedd modd i hwnw beidio gwywo mewn daear deneu o'r fath. Ond yr oedd yr olwg ar hwn yn dra gobeithiol; er hyny fe'i tagwyd gan ddrain gofalon bydol a thwyll cyfoeth. Ni raid i ni fyned at y cynddiluwiaid, neu ddamhegion ein Harglwydd, i chwilio am esamplau o wirionedd y sylw. Onid ydynt i'w cael ymhob ardal yn ein gwlad? Onid ydym yn adwaen dynion ag y mae ysbryd y byd wedi ymlid o'u mynwesau bob tuedd at gysegr Duw? Pe gwlawiai fendithion, nid ydynt hwy yno i'w derbyn. Y mae yr un ysbryd yn eraill wedi peri iddynt golli bob tuedd at y cysegr fel cysegr Duw. Os na bydd gwychder a mawredd y byd hwn ynglŷn âg ef, nid ânt iddo: byddai yn wyrth gweled ffrwyth ar y rhai yna; y mae yr egin wedi eu difa.

Drachefn, y mae y duedd i orfeirniadu sydd mewn eraill yn difa o ysbryd y dyn bob tuedd at y cysegr. Y rheol heb eithriad ydyw, fod y barnydd a'r ymholydd yn myned i deimlo ei hun yn rhyddach bob yn ronyn i ddyfod i'r cysegr. Y maent trwy hyn ar weithred yn barnu eu hunain yn annheilwng o'r bywyd tragywyddol. Y mae y llwynogod yn difa'r egin.

2. Edrychwch ar y duedd i ddarllen Gair Duw, yr hon, fel y gwelsom, sydd yn egin grawnwin; y mae hon hefyd yn cael ei difa gan y llwynogod bychain. Un peth yn unig a enwaf, sef Difyrwch. Y mae difyrwch yn angenrheidiol i ddyn, ac felly yn gyfreithlawn iddo; ond y mae math o ddifyrwch sydd mewn myrdd o amgylchiadau yn gwneyd gwaith llwynogod bychain y testyn, sef y difyrwch a geir trwy ddarllen, yn enwedig darllen ffugchwedlau. Nid yw ffugchwedlau o angenrheidrwydd yn niweidiol; ond y mae hyn yn wirionedd am y fath oreu o honynt, mai effaith darllen llawer arnynt ydyw dileu tuedd o'r meddwl at ddarllen Gair Duw. Y mae y meddwl yn myned yn gyfryw fel na bydd ganddo flas at wirioneddau plaen y llyfr dwyfol. Y mae Mr. Robert Hall yn dywedyd i ni, iddo ef, trwy ddarllen ffug-chwedlau Miss Edgeworth, er nad oedd dim uniongyrchol anghrefyddol ynddynt, eto gan eu bod yn cau allan grefydd efengylaidd yn gwbl yn ffurfiad y cymeriadau goreu a ddarlunir ganddi, fyned i deimlo mor sychlyd a di-

grefydd yn ei feddwl ei hunan, fel y bu gorfod iddo eu troi heibio yn hollol. Nid ydyw y werin, yn ein mysg ni y Cymry, ddim mor ymroddedig i'r math hwn o ddityrwch ag ydyw y Saeson; eto, y mae ymhlith dosbarth lliosog o honom ninau beth sydd yn difa yr awydd at Air Duw mor effeithiol a'r ffug-chwedlau, sef y darllen awchus sydd ar y sothach iselwael o ddifrïaeth bersonol, a phethau cyffelyb, a gyhoeddir mewn rhai o'n newyddiaduron. Y mae y pethau hyn yn difa yr awydd at y Llyfr Dwyfol. Llwynogod bychain ydynt sydd yn difa'r egin.

3. Edrychwch, yn olaf, ar y cymhellion sydd yn y meddwl i ymroddi i grefydd; y mae y llwynogod bychain yn difa y rhai yna hefyd, sef pechodau bychain. Pethau cyfreithlawn wedi myned yn ddrygau trwy gael eu camarfer oeddent yn difa yn y siamplau eraill; ond yn hon pechodau bychain sydd yn gwneyd; ac y mae perygl iddynt fyned yn ddisylw am eu bod yn fychain, fel yr oedd perygl i bethau eraill fyned yn ddisylw am eu bod yn gyfreithlawn. Ni oddef amser i mi eu henwi, oblegid y maent yn lleng. Beth bynag sydd yn lleihau tynerwch y meddwl, yn gwanhau cymhellion y gydwybod i fywyd crefyddol, neu yn peri i chwi oedi ufuddhau iddynt, llwynogod ydynt sydd yn difa yr egin grawn. Feallai mai gair garw fydd y peth, neu roddi ffordd i nwydau drwg yn awr ac eilwaith, neu ymollwng i ddywedyd dy eiriau dy hun ar ddydd yr Arglwydd, neu gais am fantais annheg ar dy gymydog wrth drin y byd, neu ddilyn rhywbeth yr ydwyt yn ameu ei gyfreithlondeb. Dyma y dosbarth: nid ydyw yr hyn a enwyd ond esamplau o hono. Nid wyf yn enwi pechodau mawrion, megis meddwdod, anlladrwydd, ac anniweirdeb cyhoeddus. Tebycach ydyw y rhai hyn i'r baedd, ac i'r bwystfil nag i'r llwynogod. Nid yr egin y maent hwy yn eu dinystrio, ond drylliant y canghenau, a gwnant y pren fel noeth-bren y diffaethwch, heb yr arwydd leiaf o ffrwyth. Y mae rhai fel hyn yn ein gwlad, a'r baedd a'r bwystfil wedi eu hanrheithio; ond nid am y dosbarth yna yr wyf yn son yn awr; ond am y rhai y mae pechodau bychain yn eu dinystrio. Ac O! mor lliosog ydyw y dosbarth hwn! Gymaint a adwaenom ni o'r rhai a fuant â'r olwg fwyaf gobeithiol arnynt! Nid oedd eu lle byth yn wâg yn y cysegr, tynerwch gwastadol yn eu mynwes, deigryn yn fynych yn gloewi eu

llygad ; ond erbyn heddyw, trwy gellwair â phechodau bychain y mae yr holl bethau yna wedi cilio—y llwynogod wedi difa yr egin. Pa beth a wneir ? Ai cymeryd y fwyall i dori y prenau diffrwyth yna i lawr ? Na, nid felly. Ni a gloddiwn dipyn o'u cwmpas, ni a fwriwn dail at eu gwraidd, ac ni a awn at ein Duw i ofyn iddo wneyd gwanwyn eto; oblegid y mae genym ni Dduw a fedr wneyd hyny. Pe gorchymynai Efe i'r deheuwynt chwythu, fe fwriai y noeth-brenau ddail eto. Dymunwch wanwyn eto.

A chwithiau sydd a'r egin heb eu difa oll, deliwch y llwynogod. Pwy, meddis, sydd i'w dal hwynt ? Ni waeth pwy—rhywun a all. Rieni, deliwch hwynt. Athrawon yr Ysgol Sabbothol, deliwch hwynt. Weinidogion y Gair, deliwch hwynt. Tithau dy hun, fy nghyfaill, yr wyt ti mewn gwell mantais i hyny na neb arall ; ac os wedi ymdrechu, y teimli dy hun yn methu eu dal, dos at y Garddwr (oblegid iawn y galwodd Mair ef felly) am help ; a thi a'i cei yn y fan. A dim ond eu dal hwynt, bydd golwg brydferth ymhen gronyn bach ar y winllan—sypiau grawnwin mawrion addfed, a bendith bywyd tragywyddol ymhob sypyn !

[Medi 29, 1866.]

DIWEDD CYFROL II.

PLEASE DO NOT REMOVE
CARDS OR SLIPS FROM THIS POCKET

UNIVERSITY OF TORONTO LIBRARY